



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

NYPL RESEARCH LIBRARIES



3 3433 07492390 9



ADR
Iolo Goch



"CARED DOETH YR ENCILION."

GWEITHIAU
IOLO GOCH:

GYDA NODIADAU HANESYDDOL A BEIRNIADOL


GAN

CHARLES ASHTON.

[*Cyhoeddedig gan Anrhyddedus Gymdeithas y Cymunrodorion*].

ARGRAFFWYD DROS Y GYMDEITHAS GAN
WOODALL MINSHALL, A'U CWMNI, CAXTON PRESS, CROESOSWALLT.

1898.





GWEITHIAU IOLO GOCH.

RHAGNODIAD.

U GAIN mlynedd yn ol—yn y flwyddyn 1877—ymgymerodd y diweddar Barchedig Robert Jones, B.A., Rotherhithe, ar gais Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, a'r gorchwyl o olygu "Gweithiau Barddonol Iolo Goch," bardd Owain Glyndwr. Argraphwyd ychydig o Gywyddau y Bardd a chyhoeddwyd hwy fel Attodiad i'r ddwy gyfrol gyntaf o'r *Cymmrodor*. Yr oedd addewid am ychwaneg o honynt, yn gystal ag am Hanes Bywyd eu hawdwr; ond bu farw y Golygydd cyn dwyn y bwriad i ben. Amcanodd y Gymdeithas gario y gwaith ymlaen, ond aeth blynnyddoedd meithion heibio cyn y cafwyd neb i'w gyflawni. O'r diwedd, daeth i fryd Pwyllgor Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol i gynyg gwobr o 50p., yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon (1894), am "Y Casgliad goreu o Farddoniaeth Iolo Goch gyda Nodiadau Hanesyddol a Beirniadol." Danfonwyd tri o gasgliadau i'r gystadleuaeth. Ennillwyd y wobr—yn ol dyfarniad y beirniad, Mr. Egerton Phillimore—gan Mr. Charles Ashton, o Ddinas Mawddwy, awdwr *Hanes Llenyddiaeth Gymreig o 1650 i 1860*. Trwy drefniant gyda Chymdeithas yr Eisteddfod, ymgwymerodd Cymdeithas y Cymmrodorion â'r ddyledswydd o argraphu a chyhoeddi y casgliad buddugol, ac y mae ganddynt yn awr y pleser o gyflwyno y gyfrol i sylw efrydwyr Barddoniaeth, Hanesiaeth a Llenyddiaeth Cymru. Dymuna Cymdeithas y Cymmrodorion gydnabod eu dyled i Mr. Ashton, am y gofal arbenig ac ychwanegol a ddangosodd yn nygiad y gyfrol drwy y wasg, ac hefyd i'r argraphwyr, Mri. Woodall, Minshall a'u Cwmni, a Mr. Thomas Williams, o'u swyddfa hwy, am gynorthwy diffino yn nglyn a gwahanol ranau y gwaith.

Dros y Gymdeithas,

E. VINCENT EVANS, YSGRIFENYDD.

9/10/6
70/1
28
Evans

THE WORKS OF IOLO GOCH.

PREFATORY NOTE.

TWENTY years ago—in the year 1877—the late Rev. Robert Jones, B.A., Rotherhithe, undertook on behalf of the Honourable Society of Cymmrodorion, the duty of editing “The Works of Iolo Goch,” the bard of Owain Glyndwr. A few of the poems were printed and published in the form of a Supplement to *Y Cymmrodor* (Vols. i. and ii.). Others were promised, together with a sketch of the Author’s life, but the Editor died before the work was accomplished. The Council of the Society was anxious to complete the work, but many years elapsed before anyone was found to take it up. At last the Council of the National Eisteddfod Association offered a prize of £50 at the National Eisteddfod Carnarvon (1894) for the best Collection of the Poems of Iolo Goch with Historical and Critical Notes. Three collections were sent in for competition. The prize was awarded by the Adjudicator, Mr Egerton Phillimore, to Mr. Charles Ashton of Dinas Mawddwy, the author of the *History of Welsh Literature from 1650 to 1850*. By arrangement with the National Eisteddfod Association the Honourable Society of Cymmrodorion undertook the duty of printing and publishing the prize Collection, and they now have the pleasure of submitting the volume to the attention of students of the Poetry, History and Literature of Wales. The Society desires to acknowledge their great indebtedness to Mr. Charles Ashton not only for his original work but for the additional care he has shewn whilst the book has been going through the press, as well as to the printers, Messrs. Woodall, Minshall, and Co., and Mr. Thomas Williams of their office, for their willing assistance in connection with the production of the work.

For the Society,

E. VINCENT EVANS, SECRETARY.



GWEITHIAU IOLO GOCH.

CYNNWYSIAD.

[Y mae y caniadau a nodir gyda *Seren* yn cael eu priodoli mewn rhai llyfrau i awdwyr ereill. Dechreuir y cywyddau a geir yn y *Casgliad* gan y llinellau canlynol; ond gan fod y llinellau dechreuol yn amrywio mewn gwahanol lyfrau, rhoddir y dechreuadau sydd yn amrywio rhwng cromfachau.]

	Rhif	Tudalen.
<i>Braslun o Fywyd, Amserau, a Chyfansoddiadau Iolo Goch</i>	...	1
<i>Cywoiriadau a Chwanegion</i>	675
<i>Geiriau Anghysfaith ac Anarferedig</i>	677
<i>Rhestr o'r Personau, Cymmeriadau, a'r Lleoedd</i>	687
[Addewais it hyn ddwywaith] X.	171
A genais mae yn eginaw XIX.	242
A welai neb a wela II.	103
Ai dydy varf a darvodd XLV.	427
*Am i lliw i mae llawer XI.	183
*Annodd ym vn awddamawr LXXXIII.	621
*Archwn i Vair a bair byd LXVII.	570
*Arwydd pellenigrwydd parch XXIX.	320
Brawd llied urddas llwyd urddol XX.	250
Byd kaeth ar waedoliaeth dda VI.	143
Karu dwyf karueid yw L.	454
Cenuv ir oedd ywch conwy LXXXV.	642
Clywais doe im clust deau XXIV.	275
Costyaf y Vada6c XLII.	421
*Krair kred ked kynnydd LIII.	469
Kreawdwr mawr kreadur mwyn LV.	489
Crist audi nos LXI.	539
Da iawn fu Fordaf XXXIII.	267
Da yw bendith Bardd XXXIII.	354
Dall o beth yw dull y byd XXI.	256
Damvnno da im enaid LXIX.	587
Dayoni Duw a aned... LXVI.	561
*Digam i gwnaeth duw gymwyll LVII.	501
Dir yw o fro feilir frŷch XXXVII.	387
Doe r pryd hwnn ir oeddwn i XLVII.	439
[Doeth ith etholes Iesu] LXV.	555
*Duw, Ior y Duwiau eraill LIV.	484
Duw un a thri dawn iaith rydd LVI.	494
Edwart ap Edwart gwart gwyr III.	112

	Rhif	Tudalen.
<i>Englynion ar Amrywiol Destynau</i> ...	LXXXIX.	
(1). Allan y trigidi tref hirgefn dri chwybl	664
(2). Coffa ben a llen a llywenig—Llys...	663
(3). Duw Dad, Duw Fab Rhad priodol—dwysbraff	665
(4). Hardd Lasnen Ywen Llwyn Eos Dyfi	665
(5). Lles iwr Byd a'r Iechyd lles orucha—Dduw	664
(6). Mil pedwar cant heb ddim mwy—cof ydyw	663
(7). Ni chiliodd Richard uch Olwin—eurglod	663
(8). Peidied nag oedd awdur—gwyh heddiw	664
(9). Yfed y ddiod sydd dda—ond eto	665
Erres i tores tera	XXXII.	344
*Eryr digrif afrifed	XV.	218
Gwyddelyn fudryn fwydrefr	XLI.	414
*Gwyn i fyd nid er gwnfydy	LVIII.	508
Hawdd amawr hil awr hael iawn	XXXIV.	356
*Hir ywr dydd kethlydd kaethloer	XLVIII.	445
Howel kymro o hil kymry	V.	185
Howell urddedic howalch	XXXVIII.	391
Hudol dof vu hoedl Davydd	XXVII.	309
*Iesu hwde ddefosiwn	LXIII.	545
Ieuan apostol glan glwys	XXXV.	347
*Iorwerth druan ddioerwas	LII.	465
Ithel ddu ith alw y ddwyf	XL.	404
Ithel val gevel a gair—i dyngu... ..	XLIV.	426
Llyma fyd rrag syfryd sais	XII.	193
Llyma le diffaith weithion	XXVI.	301
Llyma oerchwedl cenhedlawr	I.	95
Llywelyn eryr gwyr gwyh	XXVIII.	314
Mair edrych arnaf amerodres	LXV.	555
Mawr o symud a hyd hydr	IX.	166
*Myvyr wy yn ymovyn	LX.	522
Myfyrio bum i Farwn	VIII.	155
Mynd yr wyf i dir Mon draw	XXV.	290
O Dduw am yr hynn oedd dda... ..	LXXI.	604
O Dduw teg a ddywed dyn	XXXVI.	375
[Pan el y neidr pen Ion]	XIX.	242
Pann vu hyn ni wyddym ni	XVI.	224
Pan ymddangosson ffynon ffydd	LXXXIV.	631
Pen welir y pum weli	XVII.	233
*Prydu a wnaif mwyaf inawl	LXVIII.	576
Pwy in mysk ynn pen masnach	XXX.	325
Pwy sy oi rym passior iaith	VII.	148
Rhedodd or ddauar hoewdeg	LXX.	600
*Rho duw hael, rhyda'u helynt	LXXXVII.	652
Rho Duw i ras kwmpas koeth	XVIII.	239

CYNNWYSIAD.—EGLURHAD AR Y TALFYRION. vii.

	Rhif	Tudalen.
*Ro Duw varv rydew vorresc	XLIV.	433
Ro Duw mawr y march blawrblwng ..	XXXI.	335
Safyn egoret y6 safyn gor6yr ba6ki ...	XLIII.	424
Saint y Kaint a Sant Kitus	LXIV.	549
Syr Rossier asur acesawr	IV.	121
Teg o gynnurch hygurch bardd	XXXIX.	398
Tewch a siarad a gwrandewch	LXII.	534
*Tri llu aeth o Gymru gynt	XXII.	262
*Tri oedran hoywlan helynt	LXXII.	616
[U Twr ychaf or tri-chant]	XXIV.	275
*Y byd wrth i bedwar bann	LIX.	512
Y keliog brag ar klog brych	LI.	461
*Y Druan fawd lydan ledr	LXXXVI.	646
Y ferch a wisg yn sientli	XLIX.	451
Y gwr hir nith gar Harri	XIV.	209
Yddewais hyd hyn ddwywaith... ..	X.	171
Ymddiddan bwhwman hwyr	XIII.	200
*Yr haul deg a fyneges	LXXVIII.	657
[Yr un bai ar ein bywyd]	LIX.	512
RHYDDIAETH :—		
Araith Iolo Goch	I.	667
Ymryseon yr Enaid ar Corph yr hwn a droes Iolo Goch o Ladyn Ynghymru aeec	II.	672

EGLURHAD AR Y TALFYRION.

Add. MSS.—Additional Manuscripts.

Barddon. D. ab G.—Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym (argraffiad cyntaf, 1789).

C. Ll. G.—Ceinion Llenyddiaeth Gymreig.

G. B. G.—Gorchestion Beirdd Cymru (ail argraffiad, 1864).

Glan. MSS.—Glanyrafon Manuscripts.

Jes. MSS.—Jesus College Manuscripts.

Myv. Arch. Myvyrian Archaiology (ail argraffiad, 1870).

R. J.—*The Works of Iolo Goch*, gan y Parch. Robert Jones, Rotherhithe.



BRASLUN O FYWYD, AMSERAU, A CHYFANSODDIADAU IOLO GOCH.

1.—NODIADAU ARWEINIOL.

RHYDD Gweirydd ap Rhys¹ restr o ryw 70 o feirdd a llenorion a fodeuent rhwng 1300 a 1400; ac hyd y gallwn farnu—pa nifer bynag o honynt oedd yn llenorion—yr oedd yr oll o honynt yn rhyw fath o feirdd. Ystyriai Gweirydd rai o honynt yn ddigon pwysig i roddi rhyw gymmaint o'u hanes; ac yn eu plith ceir Dafydd ab Gwilym, Iolo Goch, Sion Cent, Rhys Goch Eryri, Dafydd Nanmor, Gruffydd Gryg, ac amryw ereill. Diammeu fod llawer o'r beirdd a fodeuent yn y cyfnod hwn wedi eu gadael allan o'r rhestr; ac ychydig o waith y mwyafrif o'r rhai a geir ynddi sydd yn adnabyddus yn bresennol. Y mae cryn lawer o farddoniaeth y rhai enwocaf o honynt yn aros, yn anargraffedig, mewn ysgriflyfrau. Dafydd ab Gwilym yn unig a dybiwyd yn deilwng hyd yn hyn, o holl feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, i fyned i'r draul a'r drafferth i ddwyn allan gasgliad o'i weithiau. Ceir pigion o farddoniaeth rhai o honynt yn y fath weithiau a *Gorchestion Beirdd Cymru* a *Cheinion Llenyddiaeth Gymreig*, gydag ambell gywydd yn wasgaredig yma a thraw ar ddalenau y cylchgronau. Gydag eithrio Dafydd ab Gwilym, yr un y sonir mwyafrif yn ei gylch o holl feirdd y cyfnod ydyw Iolo Goch. Ond nid rhyw lawer sydd yn hysbys am dano, ac nid oes ond ychydig, mewn cymhariaeth, o'i farddoniaeth yng nghyrhaedd y wlad. Ceir chwech o'i ganiadau yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*, pedair-ar-hugain yn *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, a deuddeg arhyw ddarn yn *The Works of Iolo Goch*, gan R. Jones; ond gan mai yr un rhai ydyw llawer o honynt, nid yw y cyfanrif uwchlaw 29 o ganiadau cyfain, y rhai, gyda Chywydd Marwnad Iolo i Dafydd ab Gwilym, ym *Marddoniaeth* y bardd hwnw, a wnant ddeg-ar-hugain. Ceir rhai o'i ganiadau yn argraffedig mewn amryw o'r cyhoeddiadau, megys *Y Brython* a'r

¹ *Hanes Llenyddiaeth Gymreig*, tudal. 146—194.

Cymmrodor ; ond y mae y rhai hyny yn gynnwysedig yn y deg-ar-hugain uchod. Bwriadai y Parch. Robert Jones, o Rotherhithe, mewn cyssylltiad â Chymdeithas y Cymmrodorion, ddwyn allan gasgliad cyflawn o'i holl ganiadau ; ond lluddiwyd ef ar y cyntaf gan afiechyd, ac wedi hyny gan farwolaeth. Yng nglŷn â'r rhanau a'ddygodd allan, yn 1877, yr ydym yn cael gwyneb-ddalen, ar yr hon y mae yn argraffedig :—" *The Works of Iolo Goch, with a Sketch of his Life.*" Ond nid oes yr un "*Sketch*" yng nglŷn â'r cywyddau a argraffwyd ; a diammeu mai ar y diwedd y bwriadai ddwyn hono allan. Y mae nodiadau Robert Jones i'r deuddeg cywydd a gyhoeddwyd, y rhai a osodir ar waelod y tudalenau, yn Seisoneg ; a diammeu mai yn y Seisoneg y bwriadai ysgrifenu y "*Sketch*." Yn yr iaith Seisonig yr ysgrifenyddwyd y nodiadau a ymddangosasant yng ngweithiau Dafydd ab Gwilym a Lewis Glyn Cothi ; ac yr oedd Robert Jones am ddilyn esiampl golygwyr y gweithiau hyny. Pa fodd bynag, chwithig i'r eithaf, yn ein tyb ni, ydyw gosod nodiadau Seisonig wrth gywyddau Cymraeg. I'r Cymro unieithog, ni fyddai y nodiadau o unrhyw fudd, os wedi eu hysgrifenu yn Seisoneg ; i'r Sais unieithog, ni fyddai y nodiadau Seisonig o nemawr werth, tra bydd y cywyddau yn Gymraeg ; felly tybiwn y dylai y nodiadau gael eu hysgrifenu yn yr un iaith a'r cywyddau. Nis gwyddom pa un a fwriadai Robert Jones nodi o ba ysgriflyfrau yr oedd yn adysgrifenu ai peidio ; ond nid ydyw yn nodi ei ffynnonellau yng nglŷn â'r caniadau. Tybiwn fod hyn yn ddiffyg ; ac y mae yr un diffyg i'w weled yng ngweithiau Dafydd ab Gwilym a Lewis Glyn Cothi. Buasai o gryn fantais, a hyny mewn mwy nag un ffordd, pe nodasai y golygwyr pa ysgriflyfrau a ddefnyddiasant.

Ystyriwn fethiant Robert Jones i gario y gwaith allan, fel y bwriadai, yn golled i'n llenyddiaeth. Nid o herwydd ei fod yn dangos unrhyw allu neillduol yn hyny a wnaeth—o blegid ymddengys ei ddyfaliadau a'i eglurhadaeth i ni yn aml yn dra anfeirniadol—ond am y tybiwn ei fod wedi casglu llawer o ddefnyddiau tuag at ysgrifenu bywgraffiad lled gynnwysfawr am Iolo Goch. Pan ystyriwn fod Iolo yn fardd mor bwysig ag y dywedir ei fod, y mae braidd yn rhyfedd na fuasai genym fwy a gwell manylion yn ei gylch nag a geir yn ein gweithiau bywgraffyddol. A chredwn os na lwyddwn i ddwyn goleuni ychwanegol

ar ei hanes, y bydd i ni, o leiaf, ddwyn ym mlaen ffeithiau a daflant gryn ammheuaeth yng nglŷn â'r hyn a ddywedir yn gyffredin am dano. Y mae swm a sylwedd gwybodaeth y Cymro am Iolo Goch i'w weled yn *Williams's Eminent Welshmen*, yr hwn yn benaf a ddilynir gan Owen Jones (*Geir. Cen. Cymru*), a chan Isaac Foulkes (*Enwogion Cymru*). Hwyrach y gallai fod yn fanteisiol i ni, cyn myned ym mhellach, ddyfynu yr hyn a ddywedir am dano yn y gwaith olaf a nodwyd :—

IOLO GOCH, bardd enwog o Sir Ddinbych, yn ei flodeu yn nechreu y 14eg ganrif. Dywedir mai ei enw bedydd oedd Edward Llwyd; a'i gartref oedd Coed Pantwn, plwyf Llanefydd, Sir Ddinbych. Dywed Gruffydd Hiraethog mai ei fam oedd Iarlles Lincoln. Yr oedd yn ddoeth-awr yn y gyfraith—yn gwisgo gwn och, ac am hyny, fe allai, y gelwid ef yn *Iolo Goch*. Graddiwyd ef hefyd yn M.A., gan un o'r prif golegau. Y mae Pantwniaid, Plasgwyn, Môn, yn ddiagynyddion o hono. Efe oedd bardd Owen Glyndwr, a defnyddiodd lawer ar ei awen i foli yr arwr enwog hwnw, ac i enyn teimladau rhyfelgar y Cymry i adennill eu hannibyniaeth yn "rhyfel Owain." Ei athraw barddonol oedd Ednyfed ab Gruffydd, bardd o Faelor, yn Mhowys Fadog; yr hwn oedd yn frawd i'r ddau fardd, Madog Benfras a Llywelyn ab Gruffydd. Bu ganddynt Eisteddfod yn Marchwial, ger Gwreosam, yn amser Edward III. "Ac yn yr Eisteddfod hono yr addurnwyd Iolo Goch âg addurn cadair am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ab Gruffydd parth gwybodau cerdd dafod a'i pherthynasau." Yr oedd Dafydd ab Gwilym yn yr eisteddfod hono. Bu fyw i oedran dirfawr; canys efe a gyfansoddodd farwnad i Dudur ab Gronwy, yr hwn a fu farw yn 1315, a bu fyw i weled rhwysg a difancoll Owen, rhwng 1400 a 1415. Claddwyd ef, medd rhai, yn Mynachlog Pant y Groes, ger Llangollen; tra y dywed eraill, mai yn Llanefydd y claddwyd ef. Pa fodd bynag, yr oedd Iolo Goch yn ddyn pwysig yn ei ddydd, yn feddianol ar wybodaeth a dysg uwchlaw'r cyffredin. Cyfansoddodd farddoniaeth gorchestol, o'r cyfryw llawer a argraffwyd, a dywedir nad oes dim llai na haner cant o'i gyfansoddiadau yn aros mewn llawysgrifen. Y mae ei waith yn werthfawr mewn dau ystyr—yn drysorfa o awenyddiaeth uchelryw, ac yn fynegai anmhrisiadwy i arferion a defodau yr amser cynhyrfus yr oedd yn byw ynddo. Ysgrifennodd hefyd hanes tair talaith Cymru.

2.—ACHAU IOLO GOCH.

Y mae y dyfyniad uchod yn enghraifft deg o'r hyn a ddywedir am Iolo Goch, ac a ail adroddir gan y naill awdwr ar ol y llall; gan ddefnyddio bron yr un geiriau. A chydag eithrio erthygl, gan Mr. D. Lleufer Thomas, yn y *Dictionary of National Biography*, yn yr hon y gwneir defnydd o ysgrifau a ymddangosasant

yn yr *Archæologia Cambrensis* a'r *Cymmrodor*, gyda'r amcan o dafu ammheuaeth ar amseriad y cywydd i Tudur ab Gronw, ac mewn canlyniad yn effeithio ar amser genedigaeth Iolo Goch, nid ymddengys fod yr un o'n gweithiau bywgraffyddol yn arddangos y gronyn lleiaf o allu ymchwilar na beirniadol. Cyn i ni gynnyg ateb yr amrywiol haeriadau a geir yn y dyfyniad uchod, tybiwn y byddai yn fanteisiol i ni roddi ger bron achau Iolo Goch, y rhai, os na ellir honi iddynt yr hynafiaeth a ddymunem, ydynt yn fwy felly, a dyweyd y lleiaf, na'r awdurdodau argraffedig. Yn y lle cyntaf, dyfynir o achres ag sydd ym meddiant Mr. A. Foulkes-Roberts, Cyfreithiwr, Dinbych, yr hon a gopiwyd o un arall oedd ym meddiant y diweddar Mr. William Decimus Inglett Foulkes, Bar-gyfreithiwr. Gwnaed yr achres wreiddiol oddeutu 1690, gan Randal Holme,¹ o Gaerlleon,—neu yn fwy cywir, y rhan gyntaf o honi; o blegid nid ydyw y rhanau a wnaed ar ol hyny ond ychwanegiadau o achau personau a fuant byw mewn oesau diweddarach. Pan y bydd genym achos i gyfeirio ati, gwnawn hyny dan yr enw "Achres Foulkes."² Cyn dyfynu o'r achres, gallwn nodi fod yr hynafiaethydd Robert Vaughan o'r Hengwrt,

¹ Bu tri, os nad pedwar, Randal Holme yn olynol; ac yr oeddynt oll yn enwog fel achyddwyr. Yr oedd yr olaf o honynt yn lled dlawd; ac efe a werthodd yr ysgriflyfrau y bu efe a'i hynafiaid mor ddiwyd yn eu casglu i Iarll Rhydychain—yr oll yn 267 o gyfrolau. Y maent yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig.—*Harl. MSS.* 1920—2187.


² Y mae y copi o "Achres Foulkes" sydd yn meddiant Mr. Foulkes-Roberts, Dinbych, wedi ei liwio yn hardd, gyda'r pais-arfau wedi eu haddurno yn briodol. Ac arno hefyd y ceir y dystysgrif a ganlyn:—

"The above is a copy made by Mr. J. A. Burt of London, of a Pedigree indorsed 'Mr. Foulkes's Pedigree' in the possession of me the undersigned William Decimus Inglett Foulkes of the Middle Temple, lineal descendant of Peter Foulkes therein named, delivered to me the undersigned Arthur Roberts otherwise Arthur Foulkes-Roberts of St. Asaph, and compared with the original by us.

22nd Octr. 1888.

W. D. I. FOULKES,
A. FOULKES-ROBERTS."


Yr ydym yn cymmeryd y cyfleuedra hwn i ddiolch i Mr. Arthur Foulkes-Roberts am lawer o ddefnyddiau dyddorol y bu mor garedig a'u hanfon i ni tuag at y gwaith hwn. Ac yr ydym yn dra pharod i gydnabod na fuasai ein nodiadau agos mor gyflawn—yn enwedig gyda golwg ar yr achau—oni bai am y cynnorthwy a estynnodd i ni mor garedig.




ACHAU IOLO GOCH.

5

yn ei "Account of the xv Tribes of North Wales," yn dyweyd fod Iolo Goch yn disgyn o Hedd Molwynog.¹ Ond yn awr am y rhan hono o "Achres Foulkes" a ddichon fod yn ddefnyddiol :—




¹ Gwel Yorke's *Royal Tribes* (edit. 1877), pp. 195—97.




Y mae yr "Achres" yn llawer cyflawnach nag y gwelir uchod ;
 ond dyfynwyd digon i'r amcan sydd genym mewn golwg. Ond y




cwestiwn a gynnygia i feddwl y darllenydd yn ddiau yw—A ydyw yr “Achres” yn gywir? Neu, a oes defnyddiau ar gael a ddichon ei chadarnhau? Mewn atebiad, cyfeiriwn y darllenydd i'r *Harl. MS.* 1969, p. 429, lle ceir yr achres a ganlyn:—



¹ Y mae yn anhawdd deall pa un ai mab ynte brawd i *Kyndik* ydyw *Ieuan*, gan fod yr achyddwr yn cywiro ei hun mor aneglur. Ac nis gall yr argraffydd, heb lawer o drafferth, roddi cyfluniad (*facsimile*) o'r taflenau yn *Harl. MSS.* 1969 a 9864.





Ysgrifenydd yr *Harl. MS.*, 1969, gan mwyaf, gan un Griffith Hughes; ond ceir ynddo rai talfenau gan Randle Holme y trydydd. Gwelir ei fod yn gwahaniaethu mewn rhai pethau oddi wrth "Achres Foulkes." Er enghraifft, yn hono ceir "Kenrick dewis heraird ap Kowryd, Esq.," ond gelwir ef yn yr *Harl. MS.* yn "Dikws Herod." Gelwir ei fab "Ierwarth" yn "Ieuan," ond yn ol yr *Harl. MS.*, gallasai Ieuan fod yn fab, neu ynte yn wŷr iddo —mab i Kyndick. Yn yr Ysgriflyfr, gwelir fod i Ithell Goch bump o feibion, a dangosir mewn tudalen dilynol i'r dafn uchod fod i Griffith, Rees, Eignion, a Howell hiliogaeth; ond ni sonir am blant Iolo Goch. Ond y mae un anghysgondeb amlwg rhwng "Achres Foulkes" a'r *Harl. MS.* Yn y blaenaf dangosir fod Robert Ffoulkes o Llanefydd, yn hanu o Ithell Goch, neu Ithell ap Kendrick, trwy ei fab *Griffith*, ond yn yr olaf dywedir mai o'i fab *Rees* yr hanai:—





Yn ol y naill yr oedd Robert Ffoulkes o Lannefydd yn wythfed o Ithell ap Kendrick—ond yn ol y llall y chweched ydoedd. Y mae y ddwy achres yn cytuno o Robert Ffoulkes i fyny hyd Rees ap Ithell ; ond yn ol yr *Harl. MS.*, Rees ap Ithell ap Kendrick oedd hwnw ; tra yn ol “Achres Foulkes” dywedir fod Rees yn fab i Ithell ap Griffith ap Ithell ap Kendrick. Ond y mae yn bossibl fod yr achyddwr, mewn camgymeriad, wedi rhoddi llinach wŷr i Griffith ap Ithell Goch i’w frawd—Rees ap Ithell Goch. Tröwn eto i *Harl. MS.*, 1974, fol. 40, a chawn y daflen a ganlyn :—








A'CHAU IOLO GOCH.

11


oddi wrth enwau ei hiliogaeth mai yr un oedd Egnion ag Eignion.
Rhoddwn yma eto ran o'r daflen a geir yn *Add. MS. 9864*, fol. 51.

Cyn. = Gwenll. v'ch Eden ap Cyn. o lanerch hydol ap Caradoc wyndod.



Yn ol y daflen hon enwau plant Ithell Goch oeddynt Yolo Goch,
Griffith, Rys, Enion, a Howell. Enwir Iolo ddwywaith, gan ei


osod fel yr hynaf a'r pedwerydd o'r plant. Tybiwn fod y "fferod gwraig Earll Lincon," sydd uwch ei enw yn yr ail le yn golygu ei fam; a'r Nest sydd is law yn golygu ei ferch. Pa fodd bynag, nid ydym mewn un modd yn sicr, gan fod y daflen yn yr ysgrifyfr wedi ei threfnu mor ddyrlyd. Yr hen chwedl mai Iarlls Lincoln oedd ei fam ydyw ein hunig reswm dros y dybiaeth. Yn yr un ysgrifyfr (*Add. MS.*, 9864, fol. 53) cawn daflen arall, o'r hon y dyfynwn a ganlyn :—



Wrth edrych dros y taflenau uchod, yr ydym yn cael fod plant Ithell Goch yn cael eu trefnu fel y canlyn :—


<i>Harl. MS. 1969.</i>	<i>Harl. MS. 1974.</i>	<i>Add. MS. 2864.</i>	
		fol. 51.	fol. 53.
Yolo Goch	Rees	Yolo Goch	Yollo Goch
Griffith	Egnion	Griffith	Griffith
Rees	Eignion	Rys	Rees
Eignion	Griffith	Yolo Goch	Enion
Howell	Howell	Enion	Howell
		Howell	

Y mae Iolo mewn tri man yn cael ei osod yn hynaf, ac yn cael ei adael allan mewn un. Gosodir Rees fel y mab hynaf unwaith, tra yr ymddengys yn drydydd deirgwaith. Rhoddir y safle o ail fab i Griffith deirgwaith, ond yn bedwerydd unwaith. Saif Einion yn bedwerydd deirgwaith, ond rhoddir ef yn ail ac yn drydydd gan un awdurdod. Ond y maent oll yn cytuno i osod Howell yn bummed ac yn ieuangaf. Y mae y Chevalier Lloyd¹ wedi tynu allan achres o hynafiaid Iolo Goch yn seiliedig ar "*R. Vaughan of Hengwrt's Pedigrees; Salisbury's Pedigrees at Wynnstey; Add. MS. 9.865, fol. 102; and the Family Archives*" [Vron Iw² a Glan y Wern, &c.], yn yr hon y mae yn olrhain achau mam Iolo Goch i Syr Robert Pounderling. Dywed fod Syr Robert Pounderling, Cwnstabl Castell Dyserth, &c., yn byw yn y Siamber Wen, ym mhlwyf y Dyserth, yn amser Edward II. Ac yna ar ol rhyw ddau tudalen o hanes teuluoedd y Vron Iw, rhydd achres faith, o'r hon y dyfynwn y rhan gyntaf :—



¹ *Hist. Powys Fadog*, vol. v. pp. 323-26.

² Y mae dau ysgrifyfr achau o'r Vron Iw, gan Lewis Dwnn a George Owen o Henllys, yn awr ym mhlith yr *Egerton MSS.* yn yr Amgueddfa Brydeinig. (Gwel. *Preface to Owen's Descript. of Pembrokeshire.*) Y mae un arall o ysgrifyfrau'r Vron Iw, yr hwn fu unwaith ym meddiant Twm o'r Nant, yng nghasgliad Syr John Williams, 63, Brook Street, Llundain.



Yn yr achres hon, ni cherir llinach Iolo Goch, na'i frawd Griffith, ym mhellach; tra a dygir llinach eu cefnder—Howel Goch—i lawr am genedlaethau lawer. Fe welir fod tafflen y Chevalier Lloyd yn gwahaniaethu oddi wrth "Achres Foulkes" yn enwau amryw o hynafiaid Ithell Goch (neu Ithell ap Kendrick) ond y mae y naill fel y llall yn gosod Ithell y degfed o Hedd Molwynog; ac y mae y naill fel y llall yn dyweyd mai Marred [Marged f] ferch Madog Rwth oedd ei wraig. Pa fodd bynag, y mae yn amheus genym fod Marred yn bummed o Syr Robert Ponderling, os oedd y marchog, fel y dywed Lloyd ei fod, yn byw yn nheyrnasiad Edward II. (1307-1327); o blegid, fel y cawn ddangos eto, rhaid fod Iolo Goch—yr hwn, yn ol Lloyd, oedd yn ohweched o Syr Robert—wedi cael ei eni yn ystod teyrnasiad y penadur hwnw. Rhaid i ni addef fod yr achau a ddyfynasom yn ymddangos i ni yn lled ddyrys, a thu hwnt i'n gallu i'w cyssoni. Y mae y gwahanol achresau, mae'n wir, yn cytuno ar y cyfan; ond nid ydynt mewn un modd yn glir ar y pwnc sydd dan ymdriniaeth genym yn bresennol. Tybiasom, fodd bynag, mai doethach oedd eu gosod ger bron, o blegid dichon y gall yr hyn sydd yn dywyll i ni fod yn ddigon eglur i amryw o'n darllenwyr.

3.—ENW IOLO GOCH.

Ar ol rhoddi achyddiaeth Iolo Goch o'r ffynnonellau goreu a allem—ar y rhai y mae y darlennydd, yn ddiammeu, wedi llwyr flino—ni a awn rhagom i edrych pa mor bell y maent yn profi, neu yn gwrthbrofi, yr hyn a ddywedir yn gyffredin am dano. “Dywedir,” meddir, “mai ei enw bedydd oedd Edward Llwyd.” Ond pwy a ddywedodd hyny gyntaf? Y cyntaf, hyd y gwyddom, oedd Twm o'r Nant mewn ysgrif yng *Ngreal* Llundain; yr hwn a sylwa fel y canlyn:—

Penporchell Isav yn mhlwyr Llanefydd, ar dir ag â vu yn etiveddiaeth Iolo Goch, Arglwydd Llechryd. Y gair Penporchell sydd o gam ddywediad am y lle; canys Pen Parc Llwyd â ddylai vod; oblegid Iorwerth Llwyd oedd enw Iolo Goch; a pharc iddo ev oedd y drev ddegwm hône; ac hi â gyfenwid, cyn i davodau pobl y wlad gam dreiglo y gair o Benparcllwyd yn Benporchell.¹

Lled anfeiriadol ydyw bron bob peth a ymddangosodd ar dudalenau *Greal* Llundain; a beirniad digon gwael oedd Twm o'r Nant. Ond wedi'r cyfan cafodd Twm o'r Nant ei eni yn Penporchell Isa'; a theg fyddai tybied ei fod yn dra hyddysg yn y traddodiadau hyny a berthynent i fan ei enedigaeath. Enw ar dref ddegwm ym mhlwyr Llanefydd ydyw Penporchell; ac yn y dref ddegwm hono y mae tair o ffermydd yn myned dan yr enwau Penporchell y Bont, Penporchell Ucha', a Penporchell Isa'; ac enw ffermdy cymmydogaethol arall ydyw Penparc Llwyd. Dywed Twm o'r Nant, yn y dyfyniad uchod, mai yn “Penporchell Isav” y ganed ef, ac mai “Pen Parc Llwyd â ddylai vod.” A dyna ydyw y traddodiad yn yr ardal hyd heddyw. Pa fodd bynag Penparc Llwyd y gelwir y Penporchell Isa' y cyfeiriai Twm o'r Nant ato yn bresennol. Newidiwyd yr enw fel y dywed Twm o Penparc Llwyd i Penporchell Isa', rywbryd cyn ei amser ef, a hysbysir ni mai Mr. Robinson, yr hwn yn awr a breswylia yn Deunant Isaf, Llansannan, a'r hwn sydd oddeutu 80 mlwydd oed, a'i newidiodd yn ol drachefn i Penparc Llwyd. Pan yr oedd Penparc Llwyd yn cael ei alw yn Penporchell Isa', Penporchell Hen Lanc y gelwid y Penporchell Isa' presennol. Yr ydym yn ddyledus am y manylion hyn i Mr. Lloyd, tenant presennol Llechryd.

¹ Y *Greal*, tudal. 81.

Ond beth am yr enw Iorwerth (neu, yn ol ereill, Edward) Llwyd? Gwyddom mai anwyl-enw (*pet name*) ar Iorwerth oedd Iolo, yr hwn a ddefnyddid yn fynych megys amryw anwyl-enwau ereill—lanto, Lelo, Bedo, &c., ond a ddaethant mewn amser i gael eu hystyried yn enwau gwahanol i'r enwau priodol cyntefig. Mewn cywydd a briodolir i Iolo Goch, ond yr hwn yn ol ein tyb ni a gyfansoddwyd gan Dafydd ab Gwilym, defnyddir yr enwau Iorwerth ac Iolo ar yr un person :—

Iorwerth drwyadl ddioerwas
 Erioed ni bu drwg ei ras

 Ba wr un rhol ag Iolo.
 Ddefod hardd hoyw fardd y fo¹

Ym mhen amser cyssylltwyd *Edward* ac *Iorwerth* drachefn yng nghyd, o bossibl o herwydd rhyw debygolrwydd seinyddol, er nad oes unrhyw berthynas geiryddol rhyngddynt; a deuwyd i'w hystyried yn gyfystyr. “Iorwerth y Cyntaf” ydyw y ffurf a roddir yn gyffredin gan ysgrifenywyr Cymreig ar *Edward the First*; ac Edward Williams oedd enw priodol Iolo Morganwg. O'n rhan ein hunain, nid ydym yn gweled unrhyw reswm dros wrthod *Iolo* fe¹ ei wir enw. A chredwn mai lled anaml, mewn cymhariaeth, y gwelir yr enw *Edward* yn achyddiaeth Gymreig y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ond ceir Iorwerth, neu Ierwarth, yn fynych.

Gan y dywedir mai *Llwyd* oedd ei gyfenw, y mae y rhai a haerant hyny yn chwilio am reswm dros pa ham y gelwir ef yn *Goch*. Ac un rheswm a gynnygir ydyw ei fod yn ddoethawr yn y gyfraith, ac “yn gwisgo gwn coch, ac am hyny, fe allai, y gelwid ef yn *Iolo Goch*”!! Yn awr, a chaniatau fod Iolo yn Ddoethawr o'r Gyfraith (*Doctor of Laws*), ai tybed y buasai yn gwisgo y gwn coch pan yn carlamu ar hyd y wlad ar feirch a gafodd yn anrheg gan Ithel ap Robert, nes iddo gael y llysenw hwn gan ei gyd-wladwyr? Ond wrth droi yn ol i'r achau, yr ydym yn cael mai Ithell *Goch* oedd enw ei dad; fod ganddo nai fab brawd yn Tudyr *Goch*, a chefnider o ochr ei fam yn Howell *Goch*. Dywedir hefyd gan y Canon Williams am fardd o'r enw Rhys ab Cynfrig Goch,² yr hwn hefyd a elwid yn Rhys Goch Glyndyfrdwy, a'r hwn oedd

¹ Cywydd Rhif LII.

² *Williams's Eminent Welshmen.*

yn fardd yn ei flodeu o gylch 1400-1430. Yr oedd Iolo Goch, meddir, yn ewythr i hwn, o frawd ei dad ; ac efe oedd ei athraw barddonol. Gallwn grybwyll wrth fyned heibio na sonir o gwbl yn yr achau am frawd i Iolo Goch o'r enw Cynfrig ; er mai Kendrick (= Cynwrig, neu Cynfrig) oedd enw tad ei dad. Y mae yn wir hefyd fod "Cowydd i Dydur ap Ierwerth Sais" mewn ysgriflyfr o'r ddeunawfed ganrif (*Add. MS.*, 14,901, fol. 17), o waith Rhys ab Cynfrig, wedi ei lawnodi fel y canlyn :—"Rhys Cyng. nai Iolo goch ai cant." Felly y mae yn eithaf tebyg fod Rhys ab Cynfrig Goch yn berthynas agos i Iolo. Ond, a'i adael ef o'r neilldu, gwelwn fod amryw o'r teulu yn myned dan y cyfenw hwn. Ac y mae y ffaith fod cynnifer o *Goch*-iaid yn eu plith yn amgrymu yn gryf ei fod yn enw teuluaidd, yn hytrach na'i fod yn llysenw oddi-wrth y "gwn goch." Y mae yr un ystyriaeth yn cyfarfod y tybiaethau ereill a gynnygir, megys mai Iolo Goch oedd ei ffugenw barddonol, neu mai coch oedd lliw ei wallt. Heb law hyny, yr oedd *Goch* yn gyfenw lled gyffredin ym mhlith y Cymry cyn, ac ar ol, amser Iolo ; yr hwn gyfenw a gyfnewidiwyd gan achyddwyr Seisonig i Gough, Gouge, Gooch, Goss, a'r cyffelyb. Yr unig ddyfaliad sydd yn ymgynnyg i ni dros y dybiaeth mai Edward (neu Iorwerth) Llwyd oedd ei "wir enw" ydyw i rywun ei gamgymmyrd am fardd arall o'r enw Iorwerth Llwyd, yr hwn, yn ol Gweirydd ap Rhys, a flodeuai rhwng 1310 a 1360¹. Ond gan nad beth am gywirdeb ein dyfaliad, nid ydym yn cael y cyfenw *Llwyd* o gwbl yn achau Iolo, tra yr oedd *Goch* yn gyfenw cyffredin. A ydym i dybied fod yr oll o'r rhai hyn "yn gwisgo y gwn coch" ?

4.—PWY OEDD MAM IOLO GOCH ?

Ni raid gofyn pwy oedd ei dad ; o blegid y mae yr achresau yn cytuno mai Ithell ap Kendrick (neu Cynwric) ydoedd ; ac y byddai yn cael ei adnabod wrth yr enw Ithell Goch. Ond dywedir mai ei fam oedd Iarlles Lincoln, a gwneir Gruffydd Hiraethog yn dad bedydd i'r haerriad hwn. Y mae yr awdwyr diweddaraf yn ychwanegu ychydig at hyn—"Os felly," medd Gweirydd ap Rhys, "ymddengys ei fod yn hanner Normaniad²" ; a chasgliad

¹ *Hanes Llen. Gymreig*, tudal. 183.

² *Yr un*, tudal. 128.



y Dr. Charles Wilkins ydyw fod Iolo yn "*a De Lacy on his mother's side*."¹ Rhaid i ni addef ein bod wedi cael ein taraw â chryn syndod, a pheth ammheuaeth, pan ddarllenasom yr haeriad hwn y tro cyntaf, er ys rhai blynyddau yn ol, yn yr *Eminent Welshmen*. Methem ddyfalu pa fodd yr oedd Iarllles Lincoln yn fam i Iolo, os nad oedd Iarll Lincoln yn dad iddo. O'r diwedd, tybiasom y gallai mai gweddw i Iarll Lincoln a briododd ei dad; a buom mewn trafferth fawr i geisio cael gafael ar yr ysgriflyfr yn yr hwn y dywed Gruffydd Hiraethog yr hyn a briodolir iddo. Tybiem, er fod Gruffydd Hiraethog yn byw oddeutu can' mlynedd yn ddiweddarach na Iolo, y dylasai efe fod yn awdurdod ar y mater, ac y cawsem oleuni arno. Ond hyd yn hyn yr ydym wedi bod yn afwyddiannus i dd'od o hyd i'r cyfryw ysgriflyfr. Gwelir fod yr oll o'r achresau yn cytuno mai gwraig Ithell Goch oedd Marred (neu Marid) ferch Madog Rwth. Ond uwchben enw Iolo Goch yn *Add. MSS.*, 9,864, ceir "fferod gwraig Earll Lincon." Fel y gwelir, nid ydyw y geiriau hyn yn dal unrhyw gyssylltiad â phlant ereill Ithell Goch. Ac y mae hyn, yn ychwanegol at y ffaith fod enw Iolo yn ymddangos ddwywaith dan y llinell, yn ei wneyd yn orchwyl anhawdd i benderfynu pa beth a feddylir. Pe buasai enw Iolo wedi cael ei osod *unwaith*, fel yr hynaf, *neu* yr ieuangaf, o'r plant, gallasem yn rhesymol dybied i'w dad briodi "fferod" o flaen, neu ar ol, Marid—ac felly iddo fod yn briod ddwywaith. Ond y mae yn amlwg mai at yr *un* mab y cyfeirir ddwywaith wrth yr enw *Yolo Goch*, ac mai trwstaneiddwch yr achyddwr a fu yr achos o hyny. Ond nid yw mor amlwg pa un ai yr hynaf ynte y trydydd o'r meibion ydoedd. Os yr hynaf ydoedd, y mae y nodyn "fferod gwraig Earll Lincon" wedi cael ei osod, fel y mae enw "Yolo Goch" (yr ail) wedi ei osod, mewn lle ammhriodol. Ond os y trydydd mab oedd Iolo, *ac os oedd yn fab cyfreithlawn*, rhaid mai "fferod" hefyd oedd mam y tri mab ieuangaf, sef Yolo Goch, Einion, a Howell. Ac, meddwn eto, os "fferod" oedd mam Iolo Goch, nis gallai hawlio y disgyniad a rydd y Chevalier Lloyd iddo o Syr Robert Pounderling, trwy Marred, merch Madog Rwth.

Lled ryfedd yn ein tyb ni ydyw y nodyn—"fferod *gwraig*" (nid *gweddw*) "Earll Lincon." Pwy oedd yr Iarll hwn, druan, ag y ceisir genym gredu i'w wraig droi allan mor anffyddlawn iddo?

¹ *Hist. of the Literature of Wales.*

Ai y galluog a'r cyfoethog Henry de Lacy, Arglwydd Dinbych, arglwyddiaeth yr hwn a gynnwysai, fel y dengys De Becele, yr oll o dref ddegwm Llechryd ? Nid ammhriodol, gan i enw Henry de Lacy gael ei ddwyn i mewn, a fyddai ychydig o sylwadau mewn perthynas iddo ef a'i gyssylltiadau teuluaid. Daeth i feddiant o Iarlaeth Lincoln (ar ol ei nain) ; gwnaed ef yn Gwnstabl Caerlleon ; ac ar ol llofruddio y Tywysog Dafydd ab Gruffydd, yn 1283, rhoddodd Edward I. gastell ac arglwyddiaeth Dinbych iddo. Bu farw yn 1310, yn ei 59 mlwydd o'i oedran ; pryd y daeth si etifeddiaethau i ran ei ferch, Alicia, yr hon a aned oddeutu 1282, ac a fu farw, yn ddiblant, ar ol cyrhaedd i oedran mawr. Gwr Alicia oedd Thomas, Iarll Lancaster, yr hwn a ddaeth trwyddi hi yn Iarll Lincoln ac Arglwydd Dinbych (yn gystal ag Iarll Salisbury, Cwnstabl Caerlleon, &c.) ; a'r hwn a ddienyddwyd yn 1321. Hysbysir ni, tra yr oedd Iarll Lancaster yn cadw draw o'r llys, i farchog o'r enw Syr Richard St. Martin, yr hwn oedd yn wael yr olwg ac yn fyr o gorrffolaeth, gyflwyno deiseb i'r barnwyr, gan hawlio gwraig Iarll Lancaster, etifeddes etifeddiaethau Lincoln a Salisbury. Dywedai yn y ddeiseb iddo ef ymddwyn yn anweddaidd gyda hi, ac iddi hithau addaw ei briodi, cyn iddi briodi yr Iarll. A chan fod yr Iarlles yn casâu ei gwr, cyfaddefodd y ffaith, a'r canlyniad fu i'r barnwyr orchymmyn fod iddi hi, gyda'i hetifeddiaethau, gael ei rhoddi i fyny i'r hawlydd annheilwng¹. Mewn man arall dywedir wrthym i Alicia, i'r hon nid oedd plant o'r Iarll dienyddiedig, golli ei chymmeriad trwy ei hymddygiadau ammhriodol ; gan iddi, heb ganiatad y Brenin, briodi Eubulo de Strange, gyda'r hwn yn flaenorol yr oedd wedi bod yn llawn digon cyfeillgar. O herwydd hyny digiodd y Brenin, a chymmerwyd ei hetifeddiaethau oddi arni.² Wedi hyny, daeth yr etifeddiaethau eang hyn i feddiant Hugh le Spencer ; ac yna i Henry, Iarll Lancaster. Gwnaed Henry yn Iarll Lincoln yn 1350, a bu farw yn 1360 ; wedi hyny cariodd Blanche, ei ferch ef, yr Iarlaeth i'w gwr, John o Gaunt, tad Harri IV.

Gwraig Henry de Lacy, a mam Alice, oedd Margaret, merch ac etifeddes Iarll Salisbury. Nis gwyddom pa bryd y bu hi farw ; ond y mae yn dra thebyg iddi farw o flaen ei gwr. Felly, nis gallwn

¹ *Ancient and Modern Denbigh*, p. 50.

² *Ibid.* p. 56.

feddwl mai hi oedd mam Iolo Goch. Y mae yn wir y gallasai yr Iarll briodi ail wraig, ac i hono ei oroesi ef. Pa fodd bynag, rhaid i ni gofio mai yn 1310 y bu yr Iarll farw; ac y mae yn debyg i Iolo Goch gael ei eni yn fuan, a dyweyd y lleiaf, ar ol y flwyddyn hono.

- Gwraig Henry, Iarll Lancaster, yr hwn, fel y cyfeiriwyd, a ddaeth i Iarlaeth Lincoln yn 1350, oedd Isabel, ferch Arglwydd Beaumont. Ond gallem feddwl ei bod hi yn llawer rhy ieuanc i wneyd mam i Iolo Goch; ac y mae yn eithaf posibl fod Iolo yn hŷn na hi.

Dynes ddrwg oedd Alicia, gwraig Thomas, Iarll Lancaster; o blegid, heblaw yr hyn a ddywedwyd am dani yn barod, hysbysir ni i John, Iarll Warren, ei chymmyrd ymaith trwy drais. Dywedir hefyd iddi briodi Syr Hugh Frene, ac ei bod yn cyfeillachu yn ddirgelaid ag amryw o gariadon ereill¹. Tybiwn, os oedd Iolo yn fab i ryw Iarll Lincoln o gwbl, mai yr Alicia hon, a fu yn wraig i gynnifer, oedd hono. Ac os y hi oedd ei fam, y mae y dybiaeth yn taflu ammheuaeth ar pa un ai mab cyfreithlawn ai mab ordderch i Ithell ydoedd. Ond y mae un anhawsder eto, *Alicia* oedd enw gwraig Thomas Plantagenet, tra y dywedir mai "*fferod*" (gwraig Earll Lincon) oedd enw mam Iolo Goch. Yr ydym, ar ol chwilio llawer, wedi methu a chael fod "*fferod*" yn euw priodol na chyffredin, ac yn gorfod boddloni ar y dyfaliad mai rhyw lysenw—o waradwydd, mae'n bosibl—ydoedd. Ar ol addef ein hanallu i gyssoni y mater, ac yn brin awgrymu mai yr Alicia ddywededig oedd ei fam, rhaid i ni symmud ym mlaen, gyda dim ond ail ofyn y cwestiwn—Pwy oedd mam Iolo?

5.—PA BRYD Y GANWYD IOLO GOCH?

Yn ol a ddywedir yn gyffredin "efe a gyfansoddodd farwnad i Dudur ab Goronwy, yr hwn a fu farw yn 1315;" ac felly rhaid ei fod wedi cael ei eni cyn hyny. A chaniatau fod y gosodiad hwn yn wir, dylasai Iolo—a dyweyd y lleiaf, fod wedi cael ei eni oddeutu 1295. Ond y mae y rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi ysgrifenu arno yn barod i gredu hyn ac i ddyweyd ar yr un pryd iddo "fyw i weled rhwysag a difancoll Owen, rhwng 1400 a 1415." Felly, yr

¹ *Ancient and Modern Denbigh.*

oedd o 105 i 120 mlwydd pan fu farw! Y mae yn wir, y gallai hyn fod; ac y mae genym enghreifftiau o rai wedi cyrhaedd oedran addfed fel hyn—hyny yw, os ydyw ein haneswyr yn dyweyd y gwir. Ond tybiwn y gallwn ddangos nad oes unrhyw angenrheidrwydd i ni dybied i Iolo gyrhaedd oedran mor eithafol. Os darllenir ein nodiadau ar Cywydd Rhif. XXIV., fe welir ein bod yn profi—ac y mae y cywydd ei hun yn profi—mai nid i'r Tudur ab Gronw a fu farw yn 1315 y canodd Iolo y cywydd marwnad ag sydd wedi dyrysu cynnifer o'n hysgrifenwyr; ond i wŷr iddo, o'r un enw, a fu farw yn 1367¹. Y mae y nodiadau hyny, heb i ni eu hail-adrodd yma, yn ddigon i daflu ymaith yr anhawsder y cyfeiriwn ato, ac i ddangos y gallasai Iolo Goch fod wedi ei eni yn llawer diweddarach na diwedd y drydedd ganrif ar ddeg.

Y lle nesaf yr ydym yn cyfarfod â Iolo Goch ydyw mewn Eisteddfod a gynnaliwyd ym Maelor, amseriad yr hon a osodir yn gyffredin yn 1330. Yr hanes cyntaf a gawn am yr Eisteddfod hono—sef yr olaf o dair a adnabyddir yn awr wrth yr enw “Tair Eisteddfod Dadeni”—a welir mewn deryn argraffedig yn yr *Iolo MSS.* Y mae yn rhy faith i'w ddyfynu yn llawn; ond rhoddwn ddigon o hono i alluogi y darlennydd i ddilyn ein hymresymiad:—

Yn amser y Brenin Edwart y III y bu Eisteddfod yng Ngwern y Cleppa dan nawdd a Dawn Ifor Hael; Ag yn yr Eisteddfod honno y doded braint Cadair ar fesur Cywydd lle nad oedd felly o'r Blaen a phan canwyd am gadair Dafydd ap Gwilym a ennillws o nerth Awen a chanu a Chymraeg cynhwynol. Gwedi hynny bu Eisteddfod dan nawdd Llywelyn ap Gwilym yn y Ddol goch yn Emlyn ag i honno y daeth Sion y Cent a Rhys Goch o Eryri gwedi hynny y Tri Brodyr a ddodasant Dan Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn Eisteddfod ym Maelor ym Mhowys yn nawdd Iarll Mortimer dan Goron y Brenin Edwart y trdydd ac yno y canwyd am gadeiriau Ac Enyfed ap Gruffydd a gafas am Gywydd Gwr ac am Englynion byrraf Eiry Mynydd, a Madoc

¹ Nid ydyw ond tegwch arnom gydnabod i Mr. H. W. Lloyd (*Y Cymrodor*, vol. v. pp. 261-64) ymresymu y cwestiwn hwn yn foddhaol, gan seilio ei ddadl yn benaf ar ddwy ysgrif a thaflen achyddol o waith Mr. John Williams (*Arch. Cambr.*, 1869, pp. 278, 379), yr hwn a ddilyniir gan Mr. D. Lleufer Thomas yn ei erthygl ragorol yn y *Dictionary of National Biography* ar “Iolo Goch.” Hyd nes y gwelsom nodiadau Mr. H. W. Lloyd, yr oeddyd yn teimlo cryn falchder yn y dybiaeth i ni ddarganfod trwy yr achau a'r cywydd nad oes angen am i ni dybied i Iolo Goch gyfan-soddi dim mor foreu a 1315.

y trydydd brawd a gafas gadair a Chae Bedw am Rieingerdd. Ac yn yr Eisteddfod honno ydd addurnwyd Iolo goch ag addurn cadair am eu wybodau a ddysgws Ednyfed ap Gruffydd parth Gwybodau Cerdd Dafod ai pherthynasau. Ac o'r Tair Eisteddfod hyn y cafad gwellhâd ar gerdd Dafod a Chynghanedd.¹

Ond nid oes yn yr adroddiad uchod amseriad i'r un o'r tair Eisteddfod. Pa fodd bynag, ceisia Gweirydd ap Rhys wneyd y diffyg i fyny trwy sylwi:—"Gan hyny, rhaid y cynnaliwyd y tair ryw bryd rhwng y 29ain o Ionawr, 1327, pan y coronwyd Edward III., a'r 29fed o Dachwedd, 1330, pan ddihenyddwyd Iarll Mortimer; sef yn yr yspaid o dair blynedd Os dodwyd Eisteddfod Ifor Hael yng Ngwern y Clepa dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, pe dodasid y rhybudd, neu'r cyhoeddiad, yn ebrwydd ar ol esgyniad Edward III. i'r orsedd, nis gallasai gael ei chynnal cyn y fl. 1328."² Y mae Mr. Lleufer Thomas, yr hwn sydd yn dilyn yr un cwrs o ymresymiad, yn manylu mwy fyth, ac yn sylwi i'r Eisteddfod y bu Iolo ynddi gael ei chynnal, mae'n debyg, yn 1330, dan nawdd *Roger*, Iarll *cyntaf* March.³ Ond ni ddywedir yn yr hanes mai *Roger* oedd enw yr Iarll, nac ychwaith mai Iarll *cyntaf* March ydoedd. Ac nid ydyw yr adroddiad, o angenrheidrwydd, yn profi i'r tair Eisteddfod gael eu cynnal bob blwyddyn yn olynol. "*Gwedi hynny*" a ddywedir; yr hyn sydd yn dra ammhenedol.

Addefwn nad ydym mewn un modd yn ystyried y flwyddyn 1330 fel yn amseriad annhebygol i'r Eisteddfod a gynnaliwyd ym Maelor; ond ymddengys braidd yn rhyfedd i dair o Eisteddfodau gael eu cynnal yn yr yspaid byr o dair blynedd ar ol cysgadrwydd mor hir. Yr hyn yr amcanwn alw sylw ato ydyw y ffaith nad ydym mewn un modd yn rhwymedig i dderbyn yr ymresymiad uchod. Yn y lle cyntaf, bu Edward III. yn teyrnasu o 1327 hyd 1377; ac yn ail, er i Roger Mortimer, Iarll March, gael ei ddienyddio yn 1330, pryd y fforfedwyd ei etifeddiaethau, adferwyd y teitl a'r etifeddiaethau i'w ŵyr, Roger, ail Iarll March, yn 1355.⁴ Ond yr hyn sydd yn ymgynnyg i ni fel rheswm dros mai yn 1330 y cynnaliwyd y drydedd Eisteddfod ydyw yr awgrymiad a geir parthed i'r hyn a ddygwyddodd i Iolo ynddi. Am dano ef,

¹ Iolo MSS., p. 96.

² *Hanes Llen. Gymreig*, tudal. 87.

³ *Dict. of Nat. Biography*.

⁴ Gwel Cywydd Rhif IV.

dywedir iddo gael cadair nid am farddoni, ond am ei "wybodau a ddysgws Ednyfed ap Gruffydd parth Gwybodau Cerdd Dafod a'i pherthynasau" iddo. Tebyg mai y frawddeg hon, yn gystal a nodyn a geir ar y tudalen blaenorol yn yr un gwaith, ydyw y sail dros ddyweyd mai Ednyfed oedd ei athraw barddonol. Pa fodd bynag, yn ei Gywydd Marwnad i Llywelyn Goch, y mae Iolo yn cydnabod iddo dderbyn llawer o addysg yn y gelfyddyd ganddo yntau.¹ Yn awr, pa bryd bynag y cynnaliwyd yr Eisteddfod, ymddengys nad oedd Iolo ond lled ieuanc. Nid oedd mewn oed i ganlyn y "Tri Brodyr Marchwial"—Madog Benfras, Ednyfed ab Gruffydd, a Llywelyn ab Gruffydd—i'r ddwy Eisteddfod flaenorol, o'r hyn lleiaf, ni sonir am ei enw yng nglŷn â'r naill na'r llall; ond pan gynnaliwyd Eisteddfod yn ei sir enedigol, yr ydym yn ei gael ef yn cael ei gadeirio, nid fel bardd, ond fel dysgybl barddol. O'r ochr arall, yr oedd Dafydd ab Gwilym, yr hwn, fel y gwyddom, a anwyd yn y flwyddyn 1300, yn bresennol yn y tair Eisteddfod, ac yn cymmeryd rhan flaenllaw ynddynt.

Yn awr, os tybiwn fod Iolo oddeutu 20 mlwydd oed pan gynnaliwyd yr Eisteddfod, ac os cynnaliwyd hi yn 1330, fel y dywedir; yna ganwyd ef oddeutu'r flwyddyn 1310. Ond os ar ol adfer y teitl i'r *ail* Iarll March yn 1355 y cynnaliwyd yr Eisteddfod, a dilyn yr un ymresymiad, ni anwyd Iolo hyd 1335. Wrth edrych dros ei gywyddau i "ofyn march i Ithel ap Robert,"² y rhai, os cywir ein hawdurdod,³ a gyfansoddwyd o angenrheidrwydd cyn diwedd 1382; ac yn y rhai y cwyna y bardd ei fod wedi myned yn hen, tueddir ni i wrthod 1335 fel amseriad ei enedigaeth. Os yn 1335 y ganwyd ef, nid oedd ond 47 mlwydd oed yn 1382; ac os ganwyd ef yn 1310, yr oedd oddeutu 72 oed yn 1382. Prin y gallasai dyn 47 mlwydd oed gwyno ei fod yn myned yn hen, yn rhy hen i farchogaeth march bywiog, os yr arferai farchogaeth; tra y gallasid dysgwyl cwyn o'r fath gan ddyn o 60 i 72 mlwydd oed. Wrth gwrs, gallasai amryw bethau achosi iddo heneiddio i raddau yn anamserol, megys gwaeledd iechyd, anghymmedroldeb mewn bwyta ac yfed; a rhaid i ni gymmeryd yn ganiatäol fod y ffyrdd yn eirwon ac anhawddach eu trainwyo y pryd hwnw nag

¹ Cywydd, Rhif. XXXVI., llin. 47.

² Cywydd, Rhif. XXX. a XXXI.

³ Thomas's *Hist. Dioc. St. Asaph*, p. 236.

ydynt yn awr. Wedi'r cyfan, ar ol ystyried pob peth, hawddach genym gredu i Iolo gael ei eni yn nes i 1310 na 1335. Ond addefwn nad ydyw hyn oll ond dyfaliad.

6.—COED PANTWN A LLECHRYD.

Nid oes nemawr o draddodiadau ar dafodau y werin am Iolo Goch yn aros ym mhlwyf Llannefydd, ym mhellach na bod ei enw yn cael ei gyssylltu yng nglyn â Llechryd yn lled gyffredinol. Ond dywedir wrthym y byddai un Thomas Roberts, yr hwn a fu yn was ffyddlaw yn Llechryd am agos i 80 mlynedd, a'r hwn a fu farw er ys rhai blyneddau yn ol, yn arfer adrodd llawer o bethau rhyfedd am Iolo. Nid oedd dim yn fwy wrth fodd Thomas Roberts, druan, na son am wychedd a gogoniant hynafol Llechryd, ac am yr hyn a glywodd gan ei hynafiaid yng nghylch y rhwysg a gadwai Iolo yno yn ei ddydd. Arferai Iolo, yn ol Thomas Roberts, fyned allan mewn cerbyd yn cael ei dynu gan *chwech* o geffylau. Ac hefyd am y rheswm ei fod yn yrwr cyflym, lledaenid rhybudd o'i fwriad i fyned allan rai dyddiau yn flaenorol, fel y gallai pobl y wlad oddi amgylch gadw o'i ffordd; o blegid, nid yn unig yr oedd yn gyru yn chwyn, ond elai dros unrhyw greadur a fyddai mor anffodus a sefyll yn ei ffordd! Er mor anhygoel ydoedd chwedlau Thomas Roberts, nid oeddynt nemawr yn fwy felly na'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedir am Iolo Goch.

Y mae Williams¹, ac ereill ar ei ol, yn dyweyd fod Iolo yn Arglwydd Llechryd, yn byw yn Coed Pantwn, ac fod Pantwniaid y Plas Gwyn ym Môn yn hanu o hono. Mewn perthynas i'r haeriad olaf, gallwn sylwi i ni fethu a chael dim yn achau Iolo na'r Pantwniaid i'w gadarnhau. Mewn nodiadau o eiddo y diweddar Mr. E. G. Salisbury (yr hwn fu un amser yn A.S. dros Gaerlleon) dywedir: —“Cyfeirir ato [Iolo Goch] mewn llythyr a ysgrifenyddwyd yn 1755 gan William Wynne, o Llanfair Gynhafal, at y Parch Evan Evans, fel ‘o Coed Pantwn ym mhlwyf Llan Nefydd yn Sir Ddinbych, lle y mae dernyn o dir wedi derbyn yr enw Gardd Iolo ar ei ol’. Dywed Mr. Wynne ym mhellach ei fod o'r un teulu a'r Pantwniaid, ac y mae yn debyg mai ei ddilyn ef a wnaeth Canon Williams².”

¹ *Eminent Welshmen*, art. “Iolo Goch.”

² Anfonwyd y nodiadau at Mr. A. Foulkes-Roberts, Dinbych.

Nid oes ym mhlwyf Llanefydd yn bresennol yr un lle o'r enw Coed Pantwn ; na phrawf ychwaith, heb law yr haeriad mai yno yr oedd Iolo yn preswyllo, am enw lle o'r fath. Y mae preswylfod mewn rhan arall o blwyf Llanefydd—oddeutu milltir i'r gogledd o bentref Llanefydd—o'r enw *Plas* Pantwn. Pa fodd bynag, yn ffinio â fferm y Llechryd, y mae fferm arall o'r enw "Coed," percheuog presennol yr hon ydyw Mr. Griffith, o'r Garn, Henllan. Y mae yr adeiladau perthynol i'r Coed, yr hon sydd yn fferm o ryw 76 o acerau, mewn sefyllfa adfeiledig. Adnabyddir un o'r caeau perthynol i'r fferm hon wrth yr enw "Cae'r Gerddi," a chan ereill yn "Gardd Iolo," yr hyn sydd i raddau yn awgrymiadol. Ac y mae yn eithaf posibl mai yma y preswyliai Iolo Goch. Y mae y dybiaeth yn derbyn ychydig o gadarnhad yn nhraddodiad hen bobl yr ardal, sef fod y Coed a'r Llechryd un amser yn perthyn i'r un teulu. Dywedir hefyd gan rai pobl oedranus yn y gymmydog-aeth mai hen enw y Coed oedd Coed Pantwn, ond ychydig o'r tô ieuanc sydd wedi ei glywed yn cael ei alw felly.

Y mae "Llechryd" yn enw ar dref ddegwm, yn gystal a fferm yn y dref ddegwm, ym mhlwyf Llanefydd, yn Sir Ddinbych. Geilw un ysgrifenydd y dref ddegwm yn Llechryd Ty Celyn;¹ ond nis gwyddom pa ham, o blegid nid ydyw y Ty Celyn ond tŷ bychan ar fin y ffordd yn agos i ffermdy Llechryd ; ac nid ydyw Llechryd ychwaith yn 5½ milltir i'r gogledd-orllewin o dref Ddinbych, fel y dywed yr un ysgrifenydd, ond yn hytrach saif Llechryd, a'r Coed hefyd, ryw 3 milltir o Ddinbych yn y cyfeiriad a nodwyd. Ac 'ar ol teithio ym mlaen ryw 2¼ milltir ym mhellach, cyrhaeddwn bentref Llanefydd. Am y fferm a elwir yn Llechryd, cynnwysa yn awr dŷ a rhyw 85 o acerau o dir rhydd-ddeiliadol ; ac y mae genym le i gredu iddi fod ym meddiant disgynyddion o'r un teulu er amser tad Iolo Goch. Ymddengys y tŷ fel pe wedi ei adeiladu er ys rhai cannoedd o flynyddoedd. Y mae o faintioli mwy na llawer o'r amaethdai cymmydogaethol ; ei ystafelloedd yn isel, ei furiau yn gadarn, y coed o dderw, a'r ffenestri yn fychain. Y mae y rhodfa o'r ffordd at y tŷ yn llydan ; y meusydd cylchynol yn ymddangos yn fwy golygus a thoreithiog na ffermydd yn gyffredin ; ac y mae pob peth o'i gwmpas yn dyweyd iddo weled amser gwell. Pa bryd y daeth y teulu hwn i Lechryd gyntaf sydd fwy nas gallwn

¹ *Gesir. Cen. Cymru* (O. Jones), cyf. ii., tudal. 188.



benderfynu; ond gwelwn oddi wrth "Achres Foulkes" fod tad Iolo Goch yn cael ei alw yn "Ithell ap Kendrick of Llechryd;" ac yn yr un "Achres" ceir fod ffoulke ap David, yn gystal a'i fab Robert ffoulkes, yn cael eu dysgrifio fel "of Llechryd gent'."

Yr ydym yn analluog i olrhain llinach Ithell ap Kendrick, neu Ithell Goch, ym mhellach nag a wneir yn *Harl. MS.* 1969—sef i Hugh Fouks, yr hwn a briododd Elin, ferch i "Edward Lloyd of Wickwar."¹ Yn rhinwedd y briodas hon, daeth teulu y Wigfair (Wickwar) i gyssylltiad â hen deulu Llechryd. Ac yn 1619, cytunwyd â'r trefniant fod i Hugh ap Evan Lloyd o Lechryd a'i ddisgynyddion, a Robert Ffoulkes o Lechryd a'i ddisgynyddion, gael eu claddu yn gyfochrog, bob un yn ei dro (*alterius vicibus*) yng nghanell Eglwys Llanefydd. Er mwyn i'r drefn hon gael ei chario allan yn deg, buasai yn ofynol hefyd, feddylïem, i'r ddau deulu gytuno i farw bob yn ail. Ond yr hyn a feddylid yn ddiau oedd, os byddai dau o'r un teulu farw yn olynol, fod i'r ail gael ei gladdu yn y fynwent. Ar fur gogleddol yr eglwys hono, ceir coflech ar yr hon y mae yn argraffedig yr hyn a ganlyn: -

In the outer most of the three burying
Places in the two next seats lyeth
interrd the body of Richard
Edwards of Llechryd gent' who
dyed the 17 day of Ivly 1690
as do also the bodyes of severall
Heyres & Dependents of that Hovs
In the two other bvrying places
between that and the wall pvrsvant
to an indentvre of award
made in the year 1619 wherein
Tis orderd that Hvgh ab Evan
Lloyd of Llechryd and Robert
Fovlkes of the same & their
Heyres shall bvry in those
three Bvrying Places
Alterius
vicibus.²

¹ *Hist. Powys Fadog*, vol. v., p. 305.

² Hysbyswyd ni gan y Parch. E. Jones, Rheithor Llanefydd, i'r goflech uchod gael ei symmud pan ail adeiladwyd yr Eglwys yn 1853-9, o'r mur dwyreiniol, lle dylasai fod, i'r mur gogleddol. Ac o herwydd hyn y mae yn gamarweiniol.

Y mae y trefniant hwn, yn gystal a bod Hugh ab Evan Lloyd a Robert Ffoulkes yn cael eu dysgrifio fel o Lechryd, ac hefyd fod y cyfenw Ffoulkes yn cael ei ddefnyddio gan ddisgynyddion y blaenaf, yn awgrymu fod rhyw berthynas deuluaidd agos rhyngddynt. Ond nid ydyw coflyfrau plwyf Llannefydd, gan nad ydynt yn myntaf ym mhellach yn ol na 1720, yn rhoddi unrhyw gynnorthwy tuag at egluro y berthynas, ac nid ydyw yr achau ychwaith yn ein cynnorthwyo.

Hysbysir ni gan Mr. A. Foulkes-Roberts, fod rhan o'r Llechryd presennol, yn 1623, yn perthyn i "ffoulke hughes of Llechryd gent," yr hwn, yn ol *Y Cwta Cyfarwydd*, a fu farw Tachwedd 14, 1646. A ydoedd y Ffoulke Hughes hwn yn fab i Hugh Ffoulkes a briododd Elin, ferch Edward Lloyd o Wigfair? Gwyddom ei bod yn arferiad y pryd hwn i enw y tad gael ei ddefnyddio fel cyfenw i'r mab. Pa fodd bynag, er ein bod yn y fan hon yn methu olrhain llinach gyfochrol Iolo Goch—sef trwy linell uniongyrch ei frawd Griffith—i ddim sierwydd ym mhellach nag i'r Hugh Ffoulkes uchod, galluogir ni, trwy gynnorthwy gweithredoedd ac ysgrifau teuluaidd, i roddi taffeu achyddol o berchenogion Llechryd o ddechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg hyd yn bresennol. Ac y mae yn amlwg fod Hugh ap Evan Lloyd, y cyntaf yn y rhestr a ganlyn, yn gyd-oeswr â Robert Ffoulkes a nodir yn y weithred, yn 1619, gyda golwg ar drefniant y claddu. Ac y mae yn dra thebyg ei fod yn berthynas agos iddo.


Hugh ap Evan Lloyd=
A gladdwyd ddydd Iau,
Gorphenaf 11, 1639. (Gwel
Y Cwta Cyfarwydd).

Merch (?) i Hugh ap Evan Lloyd=

Richard Ffoulkes, "of Llechryd gent." Profir fod Richard Ffoulkes yn ŵyr i Hugh ap Evan Lloyd, yn y dyfyniad a ganlyn o un o weithredoedd (*deeds*) Llechryd; yr hon a wnaed yn 1656:—

"All that messuage and tenement with the appurtenances in Llechrid late in the tenure of Hughe ap Iee'un Lloide deceased (late grandfather of the said Richard foulke) videl't one old house one new house one barn one cat'le house one garden one orchard and all those" [fields, &c.]

Mewn ewyllys, dyddiedig Tachwedd 5, 1686, gadawodd Richard Ffoulkes Lechryd i'w nith:—



Perchenogion Llechryd yn bresennol, fel y gwelir, ydynt Miss E. M. Foulkes, a Mrs. Peter Roberts, Llanelwy. Ac y mae y traddodiad yn cael ei drosglwyddo i lawr o oes i oes fod Llechryd yn perthyn i'r un teulu er amser Iolo Goch. Fe welir, fodd bynnag, fod anhawsder i brofi y berthynas oedd rhwng Hugh ap Evan Lloyd, sef y cyntaf yn y daflen uchod, a Robert Ffoulkes oedd yn cynnrychioli *Griffith*, brawd Iolo Goch. Ac nis gallwn ddangos pa un a ydoedd Margaret Lloyd, y drydedd yn y daflen, yn ei

¹ Bu i Richard Foulkes fab anghyfreithlawn o'r enw Peter, yr hwn a fabwysiodd yr enw teuluaid *Foulkes*. O hono ef yr hanodd y Parch. Richard Foulkes (*Silas Glan Dyfrdwy*), yr hwn oedd yn daid i Mr. Richard Foulkes Griffiths, o'r *Inner Temple*.

gynnrychioli ai peidio. Ond fe welir fod y cyfenw *Foulkes* yn parhau yn y teulu bron yn ddifwlch. Y mae hyn, gyda phethau ereill, yn peri i ni dybied fod y perchenogion presennol yn hanu o'r un llinach.

Ond beth am yr haerriad fod Iolo yn "*Arglwydd Llechryd*" ? Cyn ceisio ateb y cwestiwn, dyfynwn yr hyn a ddywedir am y dref ddegwm hono gan Hugh de Beckele, yn ei adroddiad am Gastell ac Arglwyddiaeth Dinbych, yn y flwyddyn 1334. A barnu oddi wrth ffeithiau ereill, yr oedd tad Iolo Goch, os nad oedd Iolo ei hun, yn berchenog—hyny yw, yn rhydd-ddeiliaid—ar ryw gyfran o'r dref ddegwm yn yr adeg hono. Fel hyn y cyfieithir tystiolaeth De Beckele :—

*The township of Leghred (Llechryd) was held by Welsh tenants in three "lecta" containing 460½ acres. The Prince had 8s. 3½d., and the lord 13s. 5d. rent for his share, and 8s. for the year's herbage.*¹

Er nad ydyw y dyfyniad ond byr, eto y mae yn lled gynhwysfawr. Dywedir wrthym pa nifer o acerau oedd yn nhref ddegwm—nid *arglwyddiaeth*—Llechryd ; fod y tenantiaid yn perthyn i dair gwelygordd (*lecta*) wahanol—hyny yw, i deuluoedd gwahanol ; ac yr oeddynt, er yn ddiammeu yn rhydd-ddeiliaid, i dalu y gofynion arianol i'r tywysog a'r arglwydd fel pob rhydd-ddeiliaid ereill. Ac wrth yr *arglwydd* yma y golygai De Beckele, nid Arglwydd Llechryd, ond Arglwydd Dinbych—cynnrychiolydd y diweddar Henry de Lacy, pwy bynag ydoedd. Y mae yr ymadrodd tair gwelygordd (*three lecta*) yn profi yn ddigon amlwg, feddyliem, nad oedd ond un ran o dair—nid rhan gyfartal y mae'n bossibl—o dref ddegwm Llechryd yn perthyn i deulu Iolo Goch, ac fod y rhan hono, fel y rhanau ereill, yn ddarostyngedig i "rent arglwydd." Mewn gweithred a wnaed yn 1653, yr ydym yn cael fod rhan o'r hyn a adnabyddir yn awr fel ffermdy Llechryd yn agored i'r un taliadau.² I'n tyb ni, y mae yr achau a'r ffeithiau ag yr ydym eisoes wedi eu dwyn ger bron yn profi nad oedd y fath beth o gwbl ag *Arglwyddiaeth* Llechryd yn cael ei chydabod nac yn bodoli yn amser Iolo Goch, os bu y fath beth erioed.

¹ Quoted in *The Records of Denbigh*, vol. i., p. 208.

² "The rents and services due and payable from and out of the premises to the Cheef lord or lords of the fee."

Dyfyna y Parch. Robert Jones, o Rotherhithe, linell o waith rhyw hen fardd ag oedd, meddai ef, bron yn gydoesŵr â Iolo, yr hon a ddarllena :—

“ Iolo achrwm o Lechryd.”¹

Gwnaethai Mr. Jones gymmwynas nid bychan i ni pe rhoddasai enw awdwr y llinell awgrymiadol hon. Y mae nid yn unig yn cyssylltu Iolo â Llechryd, ond hefyd yn awgrymu nad oedd, o leiaf tua diwedd ei oes, yn hawddgar a golygus ei berson. Ac fel y cawn gyfeirio eto, y mae amryw linellau yng ngweithiau beirdd ereill yn awgrymu fod Llechryd ym meddiant Iolo. Ond y mae yn dywyll i ni pa ham y dywedir ei fod yn *arglwydd Llechryd* ac hefyd yn *byw yn Coed Pantwn*? A ydym i dybied mai Coed Pantwn oedd enw yr hen breswylfod, ond ei fod fel rhyw is-arglwydd, neu arglwydd y faenoriaeth, ar y rhanbarth a elwid Llechryd? Nis gallwn ateb y cwestiwn; ac nid oes unrhyw brofion, hyd y gwyddom, heb law llais traddodiad yn unig, ar gael gyda golwg ar hyn. Nid ydym mewn un modd am anwybyddu traddodiad; o blegid yn absennoldeb ffeithiau, nid oes genym ddim arall i'n hyfforddi. Eto ni ddylem roddi llawer o bwys ar draddodiad. Diammeu i Twm o'r Nant glywed y traddodiad i Penporchell fod yn etifeddiaeth i Iolo Goch, ac mai parc iddo ef oedd y dref ddegwm hono. Ond yr ydym yn ofni mai enw blaenorol y lle—a chaniatau mai Penparc Llwyd oedd ei enw cyntefig—gyda'r dybiaeth mai Iorwerth *Llwyd* oedd gwir enw Iolo, a roddodd fod i'r traddodiad; ac nad yw y cyfan ond ffrwyth dychymmyg rhyw un a dybiai ei hun yn dipyn o awdurdod mewn egluro enwau lleoedd. Y mae Penparc Llwyd filltir helaeth o Lechryd a'r Coed, ac os hwn oedd parc Iolo, yr oedd ganddo etifeddiaeth led dda. Ond ai nid oddeutu Llechryd, neu'r Coed, y buasai yn rhesymol edrych am ei “barc?” A ganlyn a ddywedir gan De Beckele am dref ddegwm Penporchell, ac nid oes gair ganddo am Penparc Llwyd :—

*The township of Penporghethl (Penporchell), a purely Welsh settlement, of 1048½ acres, tunc-rent and services 16s. 5d., acreages 32s. 6½d., herbage of wood, &c., 25s. Divers tenants of Lleweny, Astret Canon, Beryn, &c., claimed the rest, in exchange for their inheritance.*²

¹ *The Poetical Works of the Rev. Goronwy Owen*, vol. i., p. 217, note 5.

² *The Records of Denbigh*, vol. i., p. 210.

Ni wyddom ddim mewn perthynas i wraig Iolo Goch mwy nag a ddywedir yn *Add. MS.* 9864; sef mai "Marged" oedd ei henw, a'i bod yn ferch i "Adda (? Vychan) ap Enion ap Adda ap Y yr yna ddu o lyn." Ychwanegir i'w ferch, Nest, briodi "Gr. vu ol . . . gwr yr Earll"—neu Gruffydd a fu olygwr yr Iarll [Lincoln?], mae'n debyg. Dywed *Greal* Llundain fod i Iolo feibion hefyd—"ev a'i veibion á gladdwyd yn Monachlog Eglwysegl ger llaw Llangollen." Ond ofer hollol a fu pob ymchwiliad am ddisgynyddion ei ferch a'i feibion. Pa fodd bynag, y mae genym dystiolaeth Iolo ei hun fod ganddo deulu. Yn ei Gywydd "Marwnad Ithael ap Rhotpert," awgryma y golled a fyddai iddo ef a'i deulu ar ei ol:—

Gwae di Iolo gwae ei deulu
O'r pyllaid aur i pwll du.¹

Ac y mae y llinell flaenaf yn lled awgrymiadol. Y mae yn cynnwys rhywbeth dyfnach a mwy personol na galar ar ol cyfaill; y mae ynddi swm colled ac anffawd deuluaidd. Pe buasai Iolo yn *Arglwydd* Llechryd, fel yr haerir ei fod, nis gallasai marwolaeth cyfaill beri unrhyw anghyfleusdra i'w deulu. Ond y mae amryw o gywyddau Iolo yn awgrymu yn gryf ei fod, os nad yn wirioneddol, yn *gymharol*, dlawd ar un adeg o'i fywyd. Gwelir yn amryw o honynt gyfeiriadau at yr anrhegion a'r rhoddion a gaffai gan y personau y canai iddynt—ac ym mhlith yr anrhegion y mae yn nodi iddo dderbyn *aur*. Yn yr un cywydd ag y dyfynwyd y ddwy linell uchod, dywed:—

A rrodde i ni rruddaur
Llydan ac arian ac aur.²

Gwelwn iddo hefyd anfon dau gywydd "i ofyn march" at Ithel ap Robert, yr hyn, a dyweyd y lleiaf, nid yw yn profi ei fod yn gyfoethog; ac nid ydyw yn cytuno ychwaith â dywediad yr hen Thomas Roberts, sef y byddai y bardd yn myned allan mewn cerlyd yn cael ei dynu gan chwech o feirch porthianus. O blegid gallem dybied oddi wrth erfyniadau Iolo ei fod ar yr adegau hynny heb yr un march o gwbl. Hwyrach yr adgofir ni fod cyfansoddi cywyddau i ofyn am anrhegion yn arferiad dra chyffredin yn yr

¹ Cywydd Rhif XXXII., llin. 99-100.

² Yr un, llin. 15-16.



oes hono, ac am ganrifoedd wedi hyny. Gwir; ond nis gwyddom am neb o'n beirdd wedi gwneyd hyny, heb law y rhai fyddent mewn angen; os na fyddent yn gofyn cymmwynas dros rywun arall. A dyweyd y lleiaf, ni fuasai neb gyda llonaid ystabl o feirch yn erfyn am farch yn anrheg. Dengys rhai o ganiadau Tudur Aled fod Iolo yn ddibynol i raddau pell ar haelioni Ithel. Yn un o'i gywyddau i Syr Thomas Salisbury, sylwa:—

Fal Nanmor o flaen unmaeth,
Tan rent i'r Towyn yr aeth;
Dafydd faer rhydd Ifor Hael,
Iolo doeth i wlad Ithael;
Gyda chwi ei gyd o chaf
Feistrolaeth, foes a dreuliaf.¹

Dyweyd y mae Tudur wrth Salisbury o Leweni fod i feirdd ereill, cyn ei amser ef, eu cymmwynaswyr a'u noddwyr, megys Rhys, Arglwydd Tywyn, i Dafydd Nanmor; Ifor Hael i Dafydd ab Gwilym; ac Ithel ap Robert i Iolo Goch, yr hyn a rydd fel rheswm dros iddo yntau ddysgwyl caredigrwydd cyffelyb gan ei noddwr. Mewn cywydd arall, yn yr hwn y mae yn gofyn "Gown gan Syr Sion Tudur, Curad Elsmer, i Guttyn Wilcog," sylwa:—

Iolo Goch pob elw a gai
I Lys Ithel y saethai!
Saethaf i le sy wythwell,
Son am hael sy iawn ymbell.²

Yr oedd Tudur Aled yn byw o leiaf gan' mlynedd yn ddiweddarach na Iolo Goch; ond nid yn rhy ddiweddar i glywed am ei arferion cardotäol. Ond a ydyw hyn yn gysson â'r haerriad ei fod yn "Arglwydd Llechryd"? Y mae rhyw ysfa ryfedd ar ein awduron i wneyd bron yr oll o'r hen feirdd yn "wŷr boneddig tiriawg"—yn "canu ar eu bwyd eu hunain," ac yn gyffelyb. Ond yn dra gwahanol y mae hyny o ffeithiau sydd ar gael am y mwyafrif o honynt.

Y mae Iolo hefyd mewn un man yn anerch Owain Glyndwr, ac yn sylwi:—

Klod bod kyd boed alussen.
Diwarth hwyl da wrth hen.³

¹ *Cein. Llen. Gymreig*, cyf. i., tudal. 338.

² Yr un, tudal. 344.

³ Cywydd Rhif X., llin. 13-14.

O'r braidd nas gallem gasglu oddi wrth un o'i gywyddau ei fod yn bwriadu myned ar "gyleh clera" i Sir Fôn;¹ ac yn wir, y mae yn rhestru ei hun yn barhaus ym mhlith y cler-feirdd, ond nis gwyddom pa un ai yn ddifrifol neu ynte mewn ysmaldod. Ond o'r ochr arall, y mae perygl i ni gario ein hymresymiad yn rhy bell, a gwneyd yr hen fardd yn dlotach nag ydoedd. Gwelwn ym mhlith ei fyfyrddau galarus ar ol Tudur Fychan, o Benmynydd, y ddwy linell a ganlyn:—

Gwae finnau heb gyfannedd
Gweled bod mewn gwaelod bedd.²

O roddi yr ystyr lythyrenol i'r linell flaenaf, buasai yn rhaid i ni gredu fod Iolo, pan gyfansoddodd y cywydd, yn ddigartref ac yn byw yn hollol ar ewyllys da Tudur Fychan. Ni ddylid ychwaith rhoddi dim pwys ar benawd y cywydd hwnw i "Owain Glyndwr cyn iddo godi mewn rhyfel yn erbyn y Brenin, ag i ganmol Llys Sycharth lle'r oedd y Bardd yn myned wrth wahawdd yn hen ŵr i aros dros fywyd."³ Dylem yn y fan hon, wrth fyned heibio, rybuddio y darllenydd na ddylai ar yr un cyfrif osod ond ychydig, neu ddim, pwys ar y penawdau a geir mewn ysgriflyfrau diweddar. Nid oes iddynt amgen nag awdurdod y copiwr yn unig; gan nad oes penawd, ond yn lled anaml, yn yr ysgriflyfrau hynaf. Os rhoddir ystyr lythyrenol, meddwn eto, i'r ddwy linell a ddyfynir uchod, ac os rhoddir pwys ar y penawd a nodwyd, nid oedd Iolo hyd yn oed yn berchenog Coed Pantwn, heb son am fod yn Arglwydd Llechryd. Ond nid oes, hyd y gwelwn, unrhyw reswm dros gario y ddadl i'r eithafion yna.

Yr hyn yr ydym yn dadleu drosto ydyw nad oedd yn rhyw *nodedig* o gyfoethog; ond nid oes angenrheidrwydd i ni ei wneyd yn grwydryn digartref. Yr ydym, fe allai, wedi cymmeryd mwy o drafferth gyda'r pen hwn nag a wnaethem, mewn canlyniad i'r sylw a wneir gan Gweirydd ap Rhys:—"Dywed rhai mai Iolo Goch oedd Bardd Teulu Owen Glyndwr; ond y mae hyn yn sicr o fod yn gamsynied; canys yr oedd Iolo ei hun, fel y gwelwyd, yn ŵr bonedig cyfoethog, yn meddu tiriogaethau eang, a llys godidog

¹ Cywydd Rhif XXV.

² Cywydd Rhif XXIV., llin. 57-58.

³ Cywydd Rhif X., Nodiadau Arweiniol,

yng Nghoed Pantwn."¹ Ond y mae yn amlwg nad oedd Gweirydd wedi gweled holl gyfansoddiadau y bardd, nac ychwaith yn cofio am ei waith yn gofyn am farch i Ithel ap Robert. O bosibl na fydd rhywun yn barod i awgrymu, os oedd Iolo yn dlawd, neu yn gymharol dlawd, i hynny gael ei ddwyn oddi amgylch trwy y difrodiadau a'r damweiniau cyssylltiedig â gwrthryfel Owain Glyndwr. Ein hatebiad i'r awgrymiad hwn ydyw, fod yr oll o'r cywyddau ar y rhai yr ydym yn seilio ein gosodiad wedi eu cyfansoddi cyn y gwrthryfel. Fel gwelliant ar yr awgrymiad, ni a gynnygiwn un arall, sef, os bu Iolo yn gyfoethog o gwbl, iddo gael ei ddarostwng trwy ei annoethineb a'i anghymmedroldeb. Profir y dybiaeth hon yn "Kowydd y Kardie,"² os caniateir mai adrodd ei brofiad ei hun y mae y bardd yn y cywydd hwnw. Yn ol ein tyb ni, perthynai Iolo ar y cyntaf i'r dosbarth hwnw a elwir gan y Sais yn *yeomen*; hynny yw, yr oedd yn rhydd-ddeiliad cyfrifol.

7.—SEFYLLFA GYMDEITHASOL EI OES.

Y mae amryw o gywyddau Iolo yn werthfawr o herwydd y goleuni a daflant ar hanes cymdeithas. Gallwn gasglu oddi wrthynt nid yn unig pa fath un oedd Iolo ei hun, ond hefyd beth oedd sefyllfa foesol y gymdeithas oreu yng Nghymru yn ei oes ef. Rhaid dyweyd hyn am Iolo, sef, pa un bynag ai tlawd ai cyfoethog ydoedd, fod iddo rydd-fynediad i balasdai y teuluoedd Cymreig goreu yng Nghymru. Yr oedd y beirdd yn gyffredin yn y cyfnod hwn yn ddosbarth breintiedig; ac yr oedd y boneddigion yn eu derbyn yn llawen. Yr oedd yr oes euraidd ar y beirdd Cymreig, pryd y caent wledda a meddwi ar gost eu noddwyr, heb fyned heibio. Yr oedd y boneddigion yn hoffi owmni y beirdd; ac wrth eu bodd yn swn seiniau melusber y delyn. Ymddifyrent y dydd wrth ddilyn helwriaeth, ac yr oedd nosweithiau hirion y gauaf yn ehedeg ymaith yn gyflym yng nghwmni beirdd a thelynorion. Eto, gallem dybied yn awr a phryd arall wrth ddarllen caniadau Iolo ei fod ef yn uwch ei barch a'i groesawiad nag aelodau yr urdd farddol yn gyffredin. Hwyrach, am ei fod o haniad uchel—sef o Hedd Molwynog, ac yn berchenog Coed Pantwn; ac, mewn

¹ *Hanes Llen. Gymreig*, tudal. 129.

² Cywydd Rhif LXXV

rhan hefyd, o bosibl, am ei fod yn wr o ddysg a moesgarwch tu hwnt i'r cyffredin. O blegid dywedir wrthym iddo raddio yn M.A. yn un o'r prif-ysgolion, a'i fod yn Ddoethawr yn y Gyfraith. Ni wyddom am unrhyw brawf credadwy o'r teitlau hyn; ond ar ddiwedd "Cywydd Marwnad Dafydd ap Gwilym," mewn ysgriflyfr diweddar,¹ ceir "Iolo Goch a'i Cant. Baitler or ddwy Gyfraith." Ond os oedd yn "Baitler," nid oedd hyn yn rhoddi hawl iddo wisgo "y gwn coch." Pa fodd bynag, buasai y ffaith ei fod yn rhyw hanner gwr bonedig, ac yn wr o ddysg, yn debyg o beri iddo gael gwell derbyniad yn nhai y cyfoethogion na phe buasai yn ddyn cyffredin a diddysg. Yn wir, y mae Iolo yn ei holl gywyddau mawl yn anerch y gwrthddrychau fel ei gyfeillion; er ei fod ar yr un pryd yn eu cydnabod hwy yn uwchraddol iddo. Dengys y cywyddau nad oedd ond dibynol ar eu ffafrau, ond eto ymddygent tuag ato fel pe buasai yn gydradd. Yn y sefyllfa hon yr oedd y bardd mewn mantais i weled y penau-teuluoedd yn eu cyfrin-ystafelloedd.

Dylid cofio wrth ddarllen caniadau Iolo, ym mha gyfnod yr oedd yn byw. Nid oedd tē prydnhawn i gael y pryd hwnw, nag am rai canrifoedd ar ol hyny. Nid beio Iolo yr ydym wrth sylwi na fyddai un amser yn fwy hapus na phan fyddai cornaid o "gwrw yr Amwythig," cwpanaid o fedd, neu wydraid o win, o fewn cyrhaedd iddo. Y mae ei gywyddau mor llawn o gyfeiriadau at wleddoedd ac ymyfed, fel y gallwn gasglu ei fod o'r un farn ar y pwnc o ddirwest a Don Juan :—

Man being reasonable, must get drunk ;
The best of life is but intoxication.

Y mae rhyw syniad wedi meddiannu llawer mai bywyd gerwin a chaled oedd hyd yn oed ar y dosbarth goreu yng Nghymru yn yr hen amseroedd. Clywsom lawer o hen bobl yn dyweyd mai bara ceirch, brywes, cig moch, a llaeth enwyn oedd bwyd a diod y cyfoethogion. Nid ydyw y fath haeriad ond ffolineb. Dengys gweithiau y beirdd fod boneddigion Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn cael eu hamgylchynu gan foethau. Y mae y cyfeiriadau mynych at fara gwyn, cig, pysgod, adar, a ffrwythau, yn ddigon o

¹ *Add. MS.* 14,970. Ysgrifenydd hwn gan Iolo Morganwg, o gylch y flwyddyn 1800.



brawf mai nid ar fara ceirch a llaeth enwyn yr oeddynt yn byw
Yr oedd ganddynt ddigon o gyflawnder ; ond yr oedd y cyflawnder
o ansawdd fwy garw, yn ddiammeu, nag ydyw yn awr—yn
debycach fe allai i'r hyn oedd yn yr Iwerddon rhyw hanner can'
mlynedd yn ol, neu i'r hyn oedd yng Nghymru o fewn can' mlynedd
yn ol. Yr oedd gwirodydd o angenrheidrwydd yn cael lle pwysig
yn eu plith. Mewn cywydd " I Ddavydd ab Llywelyn ab Gwilym
Llwyd, o Gastell Hywel," dywed Lewis Glyn Cothi fel y canlyn :—

Hi, a'i gwr priawd, oedd dda am ddiawd ;
Ac ar naw diawd, gair yn dawel ;
Rhoi draw'n nhai o'r drev, a'i edryd adrev,
Ei arian mae ev ar win a mel.

Tir a anturiai amnaid ar Rwmnai,
Malmsai-ryw osai, a gwin Rossiell ;
Gwin Frainc ar ginio ; gwinber gwin lle bo ;
Gwin a vo'm eto'n llenwi vy *mhottel*.

O goed Bwrddios gwin, ar unsud Reinswin,
Gasgwin, Verneiswin, wrth vron *wasael* ;
Cael camplig caled ; caprig, rhyfyg Cred ;
Clared a Dwsed a Mwsgadel.¹

Yn ei " Gywydd Moliant i Rys o'r Tywyn " y mae Dafydd
Nanmor yn dysgrifio y llawnder oedd i'w weled ar fwrdd ei
noddwr :—

Mwy'r wyl nag yn y ddwylys,
O gig rhoet gan gogau Rhys ;
Tryma' hyd y mae tremynt,
Tri eu gwaith hyd y try gwynt ;
Pobydd a cherfydd a chog,
A droes iddo'n dri swyddog ;
A'i fwtler yw'r pedwerydd,
Mwya'i dasg hyd y mae dydd,
Yn dwyn ni bu newid well,
Gwin at hwn, o gan' tunell.²

Drachefn, gwelwn fod Dafydd ab Gwilym, yn ei gywydd " I
Dref Rhosyr ym Mon," yn rhestru gwin a chwrw ym mhlith y
pethau mwyaf dymunol ganddo :—

Hawddamawr mireinwawr maith
Tref Niwbwrch trwy iawn obaith !

¹ *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, tudal. 255.

² *Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 132.

A'i glwysdeg deml, a'i glasdyr,
 A'i gwin, a'i gwerin, a'i gwyr;
 A'i chwrw, a'i medd, a'i chariad,
 A'i dynion rhwydd, a'i da'n rhad !¹

Ond nid oes neb o feirdd y cyfnod yn dysgrifio rhwysg a chyfeddach ei amser mewn lliwiau cryfach, na phrin mor gryfed, uag a wneir gan Iolo Goch. Yr oedd efe wrth ei fodd wrth fwrdd y wledd; a gallwn gasglu ei fod yn un lled sychedig. Ar ol bod yn gwledda ar fwrdd Esgob Llanelwy, yr oedd yn rhaid iddo gael myned i ystafell y Siambrlain i gael ychwaneg o ddiod cyn myned i'w wely :—

Diod am ddiod a ddaw
 Oi winllan ym oi wenllaw
 Cerdd dafawd ffraeth hiraethlawn
 Cerdd dant gogoniant a gawn,
 Cytgerdd ddiddan lan lonydd
 Pibau dawns a gawn pob dydd

 Yna i Siambr y Siambrlain
 Yno ydd awn yn ddi ddain
 Cyfeddach dalm cyfaddef
 A gawn hefyd gydag ef
 Diowdlyn da diadlaes
 Mewn cyrn fy arglwydd mewn caes.²

Am yr un rheswm, hoff gan Iolo oedd Rhys ap Robert o'r Kinmael; o blegid terfyna un o'i gywyddau gyda'r llinellau a ganlyn :—

Ynno i kawn dawn dienic
 Wirod o'i aur vragod vric
 Ynno dy hedd glo haedd glod
 Petwn y mynwn y mod.³

Ond y mae y dysgrifiad a rydd o lys Owain Glyndwr yn myned tu hwnt i bob un o'i gyfansoddiadau ereill yn y cyfeiriad hwn.⁴ Yr ydym yn rhyfeddu at y gorwychedd a'r llawnder oedd yno, pan ystyriwn yr oes yr oedd yn byw ynddi. Pa fodd bynag, tybiwn

¹ *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, tudal. 275.

² Cywydd Rhif XXXIV., llin. 51-56, 73-77.

³ Cywydd Rhif LXXXIII., llin. 60-64.

⁴ Cywydd Rhif X.

nad oedd meddwdod yn llawer mwy cyffredin yng Nghymru yn amser Iolo nag ydoedd yn y ganrif ddiweddaf. Nid beio y naill oes na'r llall yr ydym, ac nid eu cymharu â'u gilydd, ond yn hytrach nodi allan yr hyn a ddysgrifir yn y cywyddau a geir yn y casgliad canlynol. Yn yr olwg a roddant ar sefyllfa gymdeithasol a chrefyddol y Cymry y mae gwir werth y cywyddau yn gynnwysedig.

Rhydd Iolo i ni hefyd, ym mhlith pethau ereill, gip-olwg ar sefyllfa y tlodion; ac y mae yn olygfa ddigon truenus. Rhaid oedd i lawer heb law "Hersdin Hogle," yn ddiammeu, fyned ar hyd y wlad i gardota blawd, gwlan, gwer, caws, a chig.¹ Yr oedd y pellder rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn gymmaint o leiaf yn yr oes hono ag ydyw yn awr; ond gan nad oedd cyfreithiau y wlad yn darparu ar gyfer y tlodion, yr oedd y cyfoethogion yn fwy elusengar. Sonia Iolo lawer am haelioni y rhai y canodd iddynt; ac yr oedd amaethwr ei amser—ac y mae yr amaethwr Cymreig eto—mor elusengar a chymmwynasgar fel—

Ai gardod trwy gowirdeb
A'i lettu ni necu neb.²

Ystyriai y rhai hyny oedd â moddion ganddynt yn ddyledswydd grefyddol arnynt gynnorthwyo y tlawd; ac yn ol "Englynion y Misoedd," y rhai a briodolir i Aneurin, yr oedd rhoddi cardod hyd yn oed yn toddi pechod:—

Tri pheth a dawd pob pechod
Ympryd a gwedi a chardod.³

Yr oedd yr hen grefyddwyr Pabaidd yn dosbarthu y penyd i dri gwasanaeth, sef gweddio, ymptydio, a rhoddi cardod. Fel rheswm neillduol dros ymarfer elusengarwch, dywedir:—"Ac o achaws na wyr dyn vot yn gymeredic gan Dduw y wedi neu y weithret, roded gardadeu oe da presennawl."⁴ Rhaid i ni felly addef, gan nad pa mor anghymmedrol a gwastraffus oedd ein boneddigion er ys chwe' chant o flynyddau yn ol, fod iddynt hefyd eu rhinweddau.

Y mae y darluniad a rydd Iolo o ddull ei gydoeswyr o gladdu y marw yn ddyddorol. Yn ei gywyddau marwnadol gwelwn yr arferai

¹ Cywydd Rhif XL, llin. 47-54.

² Cywydd Rhif LXXIV., llin. 11-12.

³ *Myv. Arch.*, p. 22.

⁴ "Saith Pechawd Marwawl" 6.

y galarwyr wisgo dillad duon, ac y byddai y clychau yn cael eu canu, fel y gwneir yn bresennol.¹ Yn un man hysbysir ni nad oedd "cydgerdd rhwng clych ag udeyrn" yn anadnabyddus.² Dichon fod yma gyfeiriad at ganu llaw-gloch (*hand-bell*) o flaen yr orymdaith, yr hyn a barhiodd hyd gyfnod cymharol ddiweddar; er i'r Archesgob Grindal, yn 1571, wahardd hyny.³ Hen arferiad o'r amseroedd boreuaf oedd cario fflamgwyr (torches), canwyllau, a llugyrnau yn yr orymdaith angladdol; a dywed rhai mai o'r arferiad hono y tarddodd y gair Lladin *funus* (Seisoneg—*funeral*), sef o *funale*, y gair Lladin am ffagl, neu fflamgwr. Pa fodd bynag am hyny, dywed Iolo fod yr orymdaith yn cael ei goleuo yn ardderchog ar ddydd claddedigaeth Ithel ap Robert :—

Tri mwy no serlwy o ser
Tortseie hoyw ffloyw fflamgwyr
Val llugyrn tan llychwyrn llwyr." ⁴

Ac yn y *Froissart MS.*, yn yr Amgueddfa Brydeinig, ceir darlun o orymdaith angladdol Richard II., yn yr hwn y portreadir tri o wŷr bob ochr i'r elor-gerbyd yn cario ffaglau.⁵ Ond nis gwyddom pa bryd y peidiodd yr arferiad hon.

Hyd y rhan olaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg, arferid claddu rhai mewn llian, neu wlanen, heb eu rhoddi mewn arch; a chleddid ereill yn eu dillad goreu.⁶ A gwelsom awgrymiad mai mewn cyfnod lled ddiweddar y daeth eirch i arferiad. Ond yr oedd eirch ceryg mewn arferiad yn y ddeuddegfed ganrif;⁷ a hysbysir ni gan Iolo Goch i Tudur Fychan gael ei gladdu mewn arch goed, a hono yn un dderw :—

Yn ddihir bod yn hirerw
Ynghudd ei ddeurudd dan dderw.⁸

Gwyddom hefyd fod yr Anglo-Sacsoniaid yn defnyddio eirch coed. Ac yn amser Iolo, nid yn unig yr oedd cyfoethogion fel

¹ Cywydd Rhif XXVI., llin. 20.

² Cywydd Rhif XXIV., llin. 14.

³ *Old Stone Crosses of the Vale of Clwyd*, p. 108.

⁴ Cywydd Rhif XXXII., llin. 82-84.

⁵ Gwel *Comprehensive Hist. of England* (Blackie & Son), vol. i., p. 553, lle y ceir copi o'r darlun.

⁶ *Old Stone Crosses*, p. 60; *Bye-Gones*, June 6, July 25, 1888.

⁷ *Penny Cyclop.*, vol. vii., p. 324.

⁸ Cywydd Rhif XXIV., llin. 61-62.

Tudur Fychan o Benmynydd yn cael eu claddu mewn eirch, ond yr oedd rhai o'r tlodion felly hefyd ; megys "Hersdin Hogl," uwch ben corff yr hon ni ddywedwyd yr un offeren.¹ Nis gwyddom pa un a oedd eirch mewn arferiad gyffredinol yn amser Iolo ai peidio. Os oeddynt, y mae yn amlwg nad oeddynt felly yn yr eilfed ganrif ar bymtheg.

8.—SEFYLLFA GREFYDDOL EI OES.

Nid ydym am i neb ddeall ein bod yn ffafrio nac yn gwrthwynebu unrhyw enwad crefyddol, neu ffurf o grefydd, yn y gwaith hwn. Ond nid ydym yn meddwl fod dim niwed mewn dyweyd mai Pabyddiaeth a mynachaeth a fodolai yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Addefir hyny yn gyffredinol. Ac nis gwyddom am un diwygiwr crefyddol o'i mewn yn y cyfnod hwn. Y mae yn wir i rai o'r beirdd, megys Dafydd ab Gwilym a Iolo Goch, ganu yn wawdlyd am rai o'r mynachod. Ond nid ydym i ddeall wrth hyny eu bod yn anghytuno oddi wrth eu cydoeswyr ar faterion eglwysig. Ond yr oedd yr anghydwelediad yn tarddu oddi ar achosion gwahanol i unrhyw wahaniaeth a allai fod rhyngddynt yn eu daliadau duwinyddol a ffurf-eglwysig. Yr oedd y mynach a'r bardd yn wrthymgeiswyr am boblogrwydd ; a hyny oedd wrth wraidd y drwg. O herwydd pa ham, dadlenai y mynach ysgafnder ac oferedd y bardd, tra yr edliwiai y bardd i'r mynach ei ragrith a'i fyddolrwydd. Ond yr un oedd daliadau y bardd yng nghylch gweddio ar Fair, am wyrthiau y Seintiau, ac am sancteiddrwydd y Pab, ag a goleddid gan y mynach. Yr unig fardd Cymreig o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ag y dywedir yn gyffredin ei fod yn tueddu at Lollardiaeth, hyd y gwyddom ni, oedd Sion Cent. Ond nid ydym wedi darllen ei weithiau yn ddigon manwl er ffurfio unrhyw farn o'r eiddom ein hunain. Pa fodd bynag, gwelsom rai sylwadau i'r perwyl fod Iolo yn wrth-Babyddol. Fel y gwelir yn ein sylwadau cyssylltiedig â'r "Cywydd i'r Drindod,"² ceisir genym gredu fod y cyfansoddiad hwnw yn lân oddi wrth egwyddorion Pabyddiaeth am y rheswm fod Iolo Goch wedi mabwysiadu golygiadau Wickliffe ; a hyny fel yr awgrymir trwy offerynoliaeth yr Arglwydd Cobham (Syr John Oldcastle). Ond y

¹ Cywydd Rhif XL, llin. 65, 72.

² Cywydd Rhif LIV.

mae yr ysgrifenydd yn anghofio fod y Pabyddion y pryd hwnw, fel y maent yn awr, yn credu yn athrawiaeth y Drindod yn gystal ag y gwna y Protestaniaid. Nid oedd testyn y cywydd yn gofyn am unrhyw sylwadau a fuasent yn dolurio teimlad y Protestant mwyaf uniongred. Yr ydym, yng nghywydd Iolo "Ir Byd,"¹ yn dyfynu sylw o waith yr un ysgrifenydd, yn yr hwn yr haerir fod y cyfansoddiad hwnw yn dangos pa "mor lân oddi wrth gyfeiliornadau Eglwys Rhufain ydyw Cyfansoddiadau ein hen Fardd, hyd yn nod pan oedd Pabyddiaeth yn ei rhwysg uchaf yn yr Ynys hon." Yr unig gyfrif a allwn roddi dros yr haerriad hwn ydyw i'r Parch Owen Jones ddarllen y cywydd yn frysio, ac heb fyfrio dim uwch ei ben; pe amgen tybiwn y newidiasai ei farn. Dengys y cyfansoddiad mewn amryw fanau fod cyfryngwriaeth Mair yn rhan o gredo a chyffes ffydd Iolo Goch. Y mae bron yr oll o'i ganiadau duwinyddol yn profi ei fod yn Babydd selog; ac yn wir y mae mwy o liw Pabyddiaeth arnynt nag sydd ar gyfansoddiadau nemawr un o'i gydoeswyr. Wrth ddarllen "Awdl Gyffes y Bardd" gwelwn ei fod yn dra chyfarwydd yng ngwasanaeth-lyfr Eglwys Rhufain. Yr oedd Iolo—os bernir ef yng ngoleuni ei weithiau, ac yng ngoleuni ei oes, ac nid oes genym foddion ereill i'w farnu—yn grefyddwr gonest a chydwybodol.

Ganwyd Wickliffe oddeutu'r flwyddyn 1324, mewn plwyf oddi wrth yr hwn y cafodd ei enw, ryw chwe' milltir o Richmond, Sir Gaerefrog. Ac ar y 29 o Ragfyr, 1384, tra yn gweinyddu gwasanaeth yr offeren yn ei eglwys ei hun yn Lutterworth, tarawyd ef gan y parly, a bu farw ym mhen deuddydd.² Y mae y Parch. David Peter yn rhoddi y crynodeb a ganlyn o'r athrawiaethau a ddysgid gan Wickliffe yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau:—

Nad yw y bara a'r gwin gwedi eu cyassegru gan yr offeiriad, yn swper yr Arglwydd, ddim yn wir gorph a gwaed Crist, ond arwyddion yn unig; nad yw eglwys Rhufain ddim yn fwy yn ben i'r eglwys gyffredinol, na rhyw eglwys arall, ac na roddwyd dim mwy o awdurdod i'r apostol Pedr nag i ryw un o'r apostolion ereill; nad oes dim mwy o awdurdod gan esgob Rhufain i arferyd yr agoriadau, na rhyw esgob arall; mai yr ysgrythyr yw unig reol ffydd ac ymarweddiad; fod yr eglwys yn ymddibynol ar y llywodraeth; y dylai yr eglwys gael ei diwygio gan y

¹ Cywydd Rhif LIX., llin. 38, Nodyn.

² *Penny Cyclop.*, vol. xxvii., pp. 604-7.



llywodraeth ; na ddylai yr offeiriad feddiannu etifeddiaethau ; fod defodau lluosog yr eglwys yn niweidiol i wir dduwioldeb ; fod llwon yn anghyfreithlon ; fod pawb gwedi eu harfaethu, naill ai i ddedwyddwch neu i drueni.¹

Methasom a chael un awgrymiad yng nghaniadau Iolo ei fod yn cytuno â Wickliffe ar gymmaint ag un o'r pynciau uchod ; ond cawn amryw awgrymiadau ydynt yn profi ei fod yn anghytuno. Coleddai Iolo syniadau uchel am Pedr yn ei swydd o borthor Paradwys :—

Prydu a wnaif mwyaf mawl
I Bedr ddoeth wybodawl
Penn porthor eiddun addef
Pennaf niver ner o nef.²

Yr oedd yn meddu y fath barch i'r Pab fel yr ystyriai yr enw yn ddigon anrhydeddus i'w ddefnyddio hyd yn oed ar Fab Duw ei hunan :—

Yn dad yn fab *bab* y byd
Yn oesbraff glan yn ysbryd.³

Ac os nad ydyw y llinellau canlynol yn dysgu yr athrawiaeth o draws-sylweddiad, neu fod y bara ar ei ddyrchafiad yn troi yn wir gnawd Crist, yna nid oes iddynt ystyr o gwbl :—

Pell rym pamd pwyll raid
Pum dewin pam y dowaid
Yr effeiriad i bader
Yn ol dyroha *korph* y ner.⁴

Dywed David Peter yn mhellach fod rhai o'r Cymry y pryd hwn yn Rhydychain, ac i athrawiaeth Wickliffe gael ei dwyn gyda hwynt i Gymru. Ond er y gallwn dybied fod Peter wedi cymmeryd cryn drafferth i chwilio am ffeithiau, nid ydyw yn enwi ond *un* Cymro a goleddodd y cyfryw syniadau. A'r un hwnw oedd Walter Brute,⁵ yr hwn, gan mai o flaen Esgob Henffordd y cyhuddid ef, ni pherthynai o gwbl i Ogledd Cymru. Hyd yr ydym yn deall, nid oes neb eto wedi llwyddo i brofi fod y Lollardiaid, fel y gelwid

¹ *Hanes Crefydd yn Nghymru* (arg. 1816), tudal. 348.

² Cywydd Rhif LXVIII., llin. 1-4.

³ Cywydd Rhif LIX., llin. 73-74.

⁴ Cywydd Rhif LXXI., llin. 69-72.

⁵ *Hanes Crefydd yn Nghymru*, tudal. 353.

dilynwy'r Wickliffe, wedi ennill dysgyblion yng Ngwynedd yn y cyfnod yr oedd Iolo Goch yn byw ynddo.


Y mae caniadau duwinyddol Iolo, meddwn eto, yn profi ei fod yn ymlynol wrth yr unig grefydd oedd o fewn ei gyrhaedd. Yr oedd ganddo barch mawr i ordinhadau yr Eglwys. Rhoddai y pwys mwyaf ar yr offeren; yr oedd Mair yn bob peth yn ei olwg; ac yr oedd yn dduwinydd goleuedig, ag ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi. Eto, yr oedd yn credu, fel y credai pawb y pryd hwnw, yn effeithioldeb pererindodau i Rufain ac i Dŷ Ddewi; ac nid oedd yr un traddodiad, wedi ei lunio gan fynachod celwyddog, am Dewi Sant, St. Patrick, a seintiau ereill, yn rhy ofergoelus ganddo ei gredu.

9.—SEFYLLFA WLEIDYDDOL EI OES.

Hwyrach y gall fod yn fanteisiol i ni ddeall rhai o ganiadau Iolo Goch pe sylwem ychydig ar sefyllfa wleidyddol ei oes. O blegid fe ganodd i'r brenin Edward III. ac ereill a gymmerasant ran yn helyntion terfysglyd yr amseroedd hyny.

Gydag eithrio dau wrthryfel dibwys, un dan arweiniad Llywelyn Bren, yn 1315; a'r llall dan Syr Gruffydd Llwyd, yn 1322, aeth y bedwaredd ganrif ar ddeg heibio heb i'r Cymry ddangos unrhyw wrthwynebiad yn erbyn y llywodraeth Seisonig a osodwyd arnynt ar eu gorchfygiad yn y rhan olaf o'r ganrif flaenorol. Yr oedd y Cymry erbyn hyn wedi digaloni; o blegid yr oedd eu holl wrthryfeloedd blaenorol wedi troi allan yn fethiant hollol. Ac nid oedd ganddynt arweinydd, yng ngwroldeb a doethineb yr hwn y gallent ymddiried i'r fath raddau fel ag i'w tueddu i wneuthur unrhyw ymdrech ychwanegol er ad-ennill eu hannibyniaeth. Yn ystod yr hanner can' mlynedd y bu Edward III. yn teyrnasu, ni chafodd ei flino unwaith gan y newydd fod ei ddeiliaid Cymreig wedi codi mewn gwrthryfel. Mewn canlyniad, yr oedd yn gallu crynhoi ei holl adnoddau yn erbyn ei elynion tramor; ac yr oedd llawer o'r Cymry yn ei gynnorthwyo yn y rhyfeloedd hyny. Hwyrach i'r uniad hwn yn erbyn y tramorwyr fod yn foddion i ryw raddau i'r Cymry anghofio eu casineb blaenorol at y Seison. Yr oedd y casineb yn ymgolli yn yr ymdrafodaeth a ystyrir o ddyddordeb cyffredinol i'r ddwy genedl.

Pan esgynodd Edward III. i'r orsedd bodolai anghydfod rhwng y Seison a'r Yagotiaid, yr hwn a barhaodd i dori allan yn awr ac



eilwaith hyd ddechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd y Cymry wedi bod yn cynnorthwyo ei dad, Edward II., yn erbyn yr Ysgotiaid. Yn 1309, anfonodd Edward II. orchymmyn am 1,400 o wŷr traed o Ogledd Cymru i fyned allan gydag ef i Ysgotland; o'r rhai yr oedd Meirionydd ac Ardudwy i anfon 300, a Dyffryn Clwyd i anfon 200. Ac yn 1325, gwelwn iddo orchymmyn i saith o wŷr wrth arfau (*men at arms*) a 274 o draed-filwyr o Ogledd Cymru i ymgyfarfod yn y Bala, i gael eu cymmeryd oddi yno trwy yr Amwythig a Portsmouth, er gwasanaethu y brenin yn Gascony.¹ Ac y mae genym fwy o gyfeiriadau at Edward III. yn galw am wasanaeth y Cymry nac a ganiatâ ein gofod i ni eu dyfynu.

Hwyrach mai yn Ffrainc yr ennillodd y Cymry fwyaf o enwogrwydd yn y cyfnod hwn. Ar farwolaeth Charles IV., yn 1328, hawliai Edward III. goron Ffrainc yn erbyn Philip o Valois; ond ni fynai y Ffrancod wrandaw ar ei hawl. Bu hyn yn ddechreuad yr ysturm a dorodd allan yn ddiweddarach. Adnewyddodd ei hawl yn 1338; ac ym mis Medi, 1339, gwarchâeodd y milwyr Seisonig o flaen Cambrai. Yn y flwyddyn ddilynol, ymladdwyd brwydr Sluis, pryd y profodd y Seison yn fuddugoliaethus. Parhaodd y rhyfeloedd rhwng Lloegr & Ffrainc, yn cael eu gwahanu gan yspeidiau o heddwch, hyd 1374, pryd y cytunwyd ar gadodiad am flwyddyn. Adnewyddwyd y cadodiad yn y flwyddyn ddilynol, yr hwn a barhaodd hyd farwolaeth Edward, yn 1377.² Ond y brwydrau pwysicaf a ymladdwyd yn y cyfnod hwn, yn ddiammeu, oedd y rhai a gymmerasant le yn Cressy, yn 1346, ac yn Poitiers, yn 1356; pryd yr arweinid y byddinoedd Prydeinig gan Edward, y Tywysog Du. Dywedir wrthym i'r Cymry ymladd yn wrol yn y brwydrau hyn; ac yr oedd amryw o honynt yn dal swyddau uchel yn y fyddin. Crybwylla un awdwr fod y Cymry a'r Cernywiaid, gan eu bod yn ysgafn eu harfogaeth, yn cael eu rhoi ar waith yng Nghressy i ladd ac yspeilio y marchogion trwm-arfog.³ A braidd na feddylïem mai adgofion am ddewrder a boneddigeiddrwydd y Tywysog Du a barodd i'r Cymry ddangos y fath ymlyniad at ei fab, yr hwn, Mehefin 22, 1377, a esgynodd i'r orsedd dan yr enw Richard II.


¹ *The Kymry* (by Rev. Robert Owen, B.D.), p. 93.

² *Comprehensive History of England*, vol. i., p. 478.

³ *The Kymry*, p. 93.

Nis gwyddom pa bryd y cyfansoddodd Iolo Goch ei gywydd cyntaf. Y mae yn naturiol casglu iddo ganu rhai o'i ganiadau serch ar adeg gynnar yn ei oes. Ond gwyddom mai rhyfeloedd Ffrainc a fu yn achlysur iddo gyfansoddi ei gywyddau gwleidyddol cyntaf. Tua diwedd y flwyddyn 1346, neu yn fuan wedi hyny, cawn iddo gyfansoddi "Cywydd Marwnad Syr Rhys Wgawn," yr hwn oedd yn gadben ar 300 o wŷr ym mrwydr Cressy.¹ Milwr enwog arall, yr hwn a gymmerodd John, brenin Ffrainc, yn garcharor ym mrwydr Poitiers, yn 1356, oedd Syr Hywel y Fwyall. Ac yr oedd Iolo yn teimlo cymmaint o ddyddordeb yn yr orchest hono fel ag y canodd gywydd moliant iddo.² Ar gyfrif y gwrhydri a ddangosodd y milwyr Seisonig yn rhyfeloedd Ffrainc, yn benaf, y mae Iolo yn seilio ei gywydd moliant i'r brenin Edward III.³ Y mae y cywyddau hyn i'w cymmeryd, fe dybiem, fel dangoseg o'r brwdfrydedd a deimlid gan y Cymry, neu o leiaf gan adran helaeth o honynt, mewn gwleidyddiaeth dramor; ac yn awgrymu ar yr un pryd fod y genedl wedi dyfod yn deyrngarol i Goron Lloegr.



Yn ystod teyrnasiad Richard II., ni chymmerodd dim o bwys le mewn cyssylltiad â Chymru. Esgynodd i'r orsedd pan nad oedd ond rhyw un mlwydd ar ddeg oed; ac hyd nes iddo gyrhaedd ei eilfed flwydd ar hugain llywodraethid y deyrnas gan ddirprwyaeth. Yr oedd iddo lawer o elynion cryfion er y dechreu, sef ei berthynasau agosaf ef ei hun. Hwyrach nas gellir eu gosod yn fwy eglur ger bron nag yn y daflen ganlynol :—



¹ Cywydd Rhif I.

² Cywydd Rhif II.

³ Cywydd Rhif III.



Yr oedd ewythrod y brenin ieuanc, yn enwedig y Duciaid o Gaerwerydd a Chaerloyw, yn eiddigeddus am ei fod yn sefyll rhyngddynt hwy a'r orsedd. Ac yn lle teyrnasu yn y fath fodd fel ag i ennill eu parch a'u hufudd-dod, ymddygodd yn ystod ei deyrnasiad yn annoeth ac analluog. Yr oedd yn amhenderfynol ei feddwl, ac o dymher nwydwyllt; yr oedd yn hoff o orwychedd a moethau, a thrwy hyny yn wastraffus. Ymddygodd yn hynod annoeth yn ei ddewisiad o gyfeillion, a rhoddodd y swyddau a'r teitlau uwchaf i anturiaethwyr tlodion a digywilydd. Er fod Lloegr ar delerau anheddychol gyda Ffrainc ac Ysgotland, ni ddangosodd Richard ei hun mewn un modd yn alluog i orchfygu nac i ymheddychu. Arweiniodd fyddin i Ysgotland, mae'n wir, yn 1385, ac ymdeithiodd can belled ag Aberdeen, gan losgi a difrodi ar y ffordd¹. Ymheddychodd â Ffrainc, yn 1396, trwy gymmeryd Isabella, merch Charles VI, yr hon nid oedd ond wyth, ac yntau yn 32, mlwydd oed—yn ail wraig. Am ddangos ei wrthwynebiad i'r briodas hon, carcharodd ei ewythr, Duc Caerloyw, yr hwn yn fuan a fu farw yn y carchar. Oddeutu yr un amser cododd cweryl rhwng y Duc o Norfolk a Harri Bolingbroke, yr hyn a arweiniodd i alltudiaeth y ddau o'r deyrnas. Ac ar farwolaeth John o Gaunt, yn 1399, fforffedwyd ei etifeddiaethau. Ym mis Mai, 1399, aeth Richard gyda byddin i'r Iwerddon i ddial llofruddiaeth Roger Mortimer, Iarll March²; a thra yr oedd y brenin yn oedi yn yr Iwerddon, dychwelodd Harri Bolingbroke i'r deyrnas dan yr esgus o hawlio etifeddiaethau fforffededig ei dad—John o Gaunt. Ond yr oedd gan Harri amcan arall mewn golwg. Y diwedd fu iddo gymmeryd Richard, ar ei ddychweliad o'r Iwerddon,

¹ Cywydd Rhif IX., Nodiadau Arweiniol.

² Cywydd Rhif IV., Nodiadau Arweiniol.

yn garcharor. Cludwyd ef o gastell Fflint, trwy Gaerlleon, i Lundain, ac yno carcharwyd ef yn y Twr. Y mae diwedd Richard yn aros eto mewn gradd o dywyllwch. Dywedir iddo gael ei symmud o Lundain i Gastell Pontefract, Sir Gaerefrog, lle y tybir iddo gael ei newynu i farwolaeth. Tybir iddo farw oddeutu canol mis Ionawr, 1400 ; symmudwyd ei gorff—yr hyn a gostiodd £80 i'r wladwriaeth—o Pontefract i Lundain, pryd y dangoswyd ef i amryw ar y ffordd. Ar ol gadael iddo orwedd am ddeuddydd yn Eglwys St. Paul, lle y gweinyddwyd gwasanaeth difrifol, symmudwyd ef drachefn i'w gladdu yn King's Langley, Sir Hertford.¹ Ym mhen rhai blynnyddoedd wedi hyny, codwyd ef drachefn, trwy orchymryn Harri V., ac ail gladdwyd ef yn Mynachlog Westminster. Wedi'r cyfan, ni fynai llawer gredu mai corff Richard oedd hwnw ; ond mai ystryw o eiddo Harri ydoedd, er dangos ei fod wedi marw, ac mai rhywun arall tebyg iddo a gladdwyd yn ei le.

Ar y 30ain o Fedi, 1399, coronwyd Harri Bolingbroke yn frenin Lloegr, dan yr enw Harri IV. Ni orweddodd y goron yn esmwyth mewn un modd ar ei ben yntau. Cafodd lawer o drafferth gyda'r Ysgotiaid a'r Ffrancod ; ac am rai blynnyddoedd blinid ef gan ymraniadau ym mhlith ei ddeiliaid Seisonig, o blegid yr oedd adran helaeth o honynt yn credu fod Richard yn fyw, er gwaethaf ei gladdediggaeth ; ac yr oeddynt am ei adferyd i'r orsedd. Er y cymmerir yn ganiataol fod y Cymry yn bleidiol i Richard, eto nid oes hanes iddynt ddangos eu teimlad mewn unrhyw ddull cyhoeddus. Ond yn wir cyn iddynt gael amser yn brin i wneyd hyny, cododd ysturm o gyfeiriad arall, yr hon a achlysuodd gyfres o ryfeloedd rhyngddynt hwy a'r Seison, y rhai a barhasant am bymtheng mlynedd.

10.—GWRTHRYFEL OWAIN GLYNDWR.

Fe ganodd Iolo Goch gynnifer o gywyddau i Owain Glyndwr, fel y tybiem mai nid ammhriodol mewn un modd fyddai i ni fyned yn frysiog dros hanes yr helyntion a achlysuodd iddo gyfansoddi y cywyddau hyny. Y mae mor esgusodol ynom, o leiaf, ag oedd i olygwyr *Gwaith Lewis Glyn Cothi* flaenori ei ganiadau gyda braslun maith o helyntion Rhyfeloedd y Rhosynau.

¹ Wylie's *Hist. Eng. under Henry IV.* p. 117.

Yn dilyn Richard II. i'r Iwerddon, yn 1399, yr oedd Cymro o'r enw Owain, mab i Gruffydd Fychan o Glyndyfrdwy,¹ yr hwn o herwydd enw ei gartref a elwir yn Owain Glyndwr. Yr oedd Owain yn un o'r ychydig a safodd gyda'i benadur hyd yr adeg pan y cymmerwyd ef yn garcharor yn Fflint. Dygwyd Owain i fyni yn far-gyfreithiwr; ond yn lle dilyn yr alwedigaeth hono, trodd allan yn un o wŷr y llys; a hoffodd y brenin Richard ef gymmaint fel y cymmerodd ef i'w osgordd fel un o ysweinïaid y corff. Yr oedd ei haniad urddasol, ei addysg ragorol, ei ymddygiad boneddigaid a hynaws, yn gymmwysderau arbenig i ŵr llys; a cheir awgrymiadau yng nghywyddau Iolo Goch, yn gystal ag yn y traddodiadau a gasglwyd gan Shakespeare, mai un felly oedd Owain. Os rhoddir coel ar y traddodiadau, yr oedd digon o arwyddion wedi ymddangos ar amser ei enedigaeth mai terfysgelyd a gwaedlyd fyddai ei oes. Dywedir wrthym, gyda'r difrifwch mwyaf, fod meirch ei dad yn sefyll mewn gwaed at eu torau y noson y ganwyd ef;² ac y mae y geiriau a rydd Shakespeare yng ngenau Glyndwr, mewn atebiad i Hotspur, yn dangos fod amryw draddodiadau rhyfedd yng nghylch ei enedigaeth wedi cyrhaedd y bardd Seisonig hwnw.³

Ond prin y credwn i Owain Glyndwr gael llawer o brofiad fel milwr tra y bu yn llys Richard. Gwyddom iddo fyned i Ysgotland yn 1385, ac i'r Iwerddon yn 1399, efo'r brenin, gyda'r amcan o ddarostwng gwrthryfeloedd; a dyna gymmaint a wyddom. Awgryma Iolo Goch i Owain gyflawni gwrhydri yn Ysgotland⁴; er fod rhai haneswyr yn dyweyd na welodd y fyddin Seisonig wyneb y gelyn. I Owain fyned i Ysgotland gyda'r brenin yn y flwyddyn a nodwyd a brofir yn y dystiolaeth a roddodd yn Llys Marchwriaeth, Medi 3, 1386, yn achos *Scrope v. Grosvenor*. Amcan y prawf hwnw oedd ceisio profi pa un ai Syr Richard Scrope ai Syr Robert Grosvenor oedd a hawl i wisgo y pais-arfau mewn dadl. Rhoddodd Owain Glyndwr ei dystiolaeth o blaid Syr Robert Grosvenor, ac ym mhlith pethau ereill dywedodd iddo weled Syr Robert yn eu gwisgo ar "*ymdaith ddiweddar ein harglwydd frenin presennol*

¹ Gwel Cywydd Rhif VIII., Nodiadau Arweiniol.

² Pennant's *Tour in Wales* (edit. 1784), vol. i., p. 326.

³ Henry IV., Part i., Act iii., Scene i.

⁴ Cywydd Rhif IX., Nodiadau Arweiniol.

i *Ysgotland*," yr hyn a awgryma fod Syr Robert ac yntau ym mhlith dilynwyr y brenin y pryd hwnw.¹

Pan gymmerwyd Richard yn garcharor, tybir i Owain ymneillduo i'w breswylfod yn Sycharth, ym mhlwyf Llansilin. Ac y mae y dysgrifiad a rydd Iolo Goch o'i gartref yn un tra dymunol.² Ac oni buasai am yr anghydfod a gododd rhyngddo a Reginald de Grey, Arglwydd Rhuthyn, ond odid na threuliasai Owain ei fywyd yn eithaf cysurus yn Sycharth, gan arolygu diwylliant ei winllanoedd a'i berllanau, gan fwynhau cathlau melus yr adar yn y llwyni cyfagoa, edmygu lliwiau y blodeu, ymddifyru wrth hela ei geirw, saethu ei golomenod a'i gwningod, a genweira ei bysgod ;

¹ Ceir hanes y prawf hwn, yr hwn a barhiodd o 1385 hyd 1390, yng nghyda chrynodeb o'r tystiolaethau a bywgraffiadau o'r tystion, mewn tair cyfrol a gyhoeddwyd gan Syr Harris Nicholas, yn 1832. Yn y gwaith hwnw—*The Controversy between Sir Richard Scrope and Sir Robert Grosvenor*, vol. i., p. 254, y mae crynodeb o dystiolaeth Owain Glyndwr, mewn Ffrancaeg-Normanaidd, o'r hon y rhoddwn rydd-gyfieithiad yma :—

"Syr Oweyn de Glendore o'r oedran o saith mlwydd ar hugain ac uchod, ar ol cymmeryd ei lw a'i fanwl holi mewn perthynas i hawl Syr Robt. Grosvenor i ddwyn yr arf-arwyddion—*glds*, gyda thaleitheg aur (*dazurs ov un bend dore*)—a ddywedodd fod y cyfryw arfau yn perthyn yn gyfiawn i Syr Robert Grosvenor. Gofynwyd iddo pa fodd y gwyddai ; ac atebodd iddo glywed gan hen bobl gyfrifol, y rhai a ddywedent fod hynafiaid y dywededig Syr Robert yn amser Gorchfygiad Lloegr yn dwyn y cyfryw arfau yn ddiwrthwynebiad, ac na chlywodd neb yn amgen hyd nes y cychwynwyd y cynghaws hwn. Gofynwyd iddo hefyd, a welodd efe y dywededig Syr Robert un amser yn gwisgo y cyfryw arfau ; ac atebodd iddo ei weled, sef ar ymdaith ddiweddar ein harglwydd frenin presennol i Ysgotland. Gofynwyd iddo ym mhellach a welodd efe un amser freinlenau neu hen gof-ysgrifau ereill wedi eu harwyddo â seliau gyda'r cyfryw arfau yn gerfiedig arnynt ; ac atebodd yntau iddo weled, ac ychwanegodd eu bod yn dra hynafol, fel y gellid barnu wrth edrych ar y memrwn a'r cwyr. Hefyd, dywedodd y tyst dywededig mai llais y cyhoedd a thraddodiad yn siroedd Caer a Fflint, a siroedd ereill cymmydogaethol, ydoedd fod y cyfryw arfau yn perthyn, a'u bod wedi arfer a pherthyn, i'r dywededig Syr Robert a'i hynafiaid."

Dengys y dystiolaeth uchod, ym mhlith pethau ereill, fod Owain Glyndwr yn farchog ar y pryd, ac ei fod hefyd rhwng 27 ac 28 oed—felly ganwyd ef yn 1359. Ond gwyddom fod amryw yn dyweyd yn wahanol, gan osod ei enedigael yn 1348, 1349, 1352, 1354, a 1364.

² Cywydd Rhif X.

a chau dreulio ei nosweithiau yng nghwmni beirdd a thelynorion. Ond nid felly y bu. Y mae y modd y trawsfeddiannodd yr Arglwydd Grey y dernyn cyttir a berthynai i hynafiaid Owain yn ddigon hysbys ; ac y mae pawb wedi clywed am y modd y ceisiodd Owain ad-feddiannu y cyttir trwy gyfraith, yn lle trwy rym arfau ; ac y llwyddodd. Ar ddiorseddiad Richard, meddyliodd Grey fod yr adeg yn un fanteisiol iddo hawlio y cyttir eilwaith gyda'r dybiaeth y byddai Harri Bolingbroke yn debycach o'i ffafrio ef nag Owain. Dywedir, er nad ydym yn gwybod ar ba awdurdod, i'r olaf apelio at y Senedd am gyfiawnder, ac na wnaed yr un sylw o'i hawliau. Pa fodd bynag, cafodd Grey gyfleusdra yn fuan i greu rhagfarn a llid y brenin yn erbyn Owain. Penderfynodd Harri, yn gynnar yn 1400, fyned â byddin yn erbyn yr Ygotiaid, ac anfonodd wŷs i Owain i fyned allan i'w gynnorthwyo. Ymddiriedwyd y wŷs i Grey i'w throsglwyddo iddo ; ond eageulusodd wneyd hynny hyd nes yr oedd yn rhy ddiweddar i Owain roddi yr ufudd-dod angenrheidiol iddi.¹ Yna gosododd Grey y mater o flaen y brenin fel anufudd-dod bwriadol. O bosibl mai oddeutu y pryd hwn y perthyn y dygwyddiad a adroddir yn y chwedl ganlynol :—

Dafyd ap Gruffyd ap Llywelyn ap Iorwerth Drwyndwn pan ddihenyddwyd yn Amwythig, ac wrth i ddihenyddu y cymmerth y cigydd i galon ac a'i taffodd i'r tân, ac neidiodd y galon o'r tân ac a drawodd y cigydd yn ei lygad ac a dynnodd i Lygad A Harri 4dd Brenhin Lloegr a ysgrifennodd at Arglwydd Grae o Ruthin i erchi iddo ef trwy rhyw ystryw fradychu Owen Glyndwr Ac yno y gyrrodd Arglwydd Rhuthyn at Owain i ddoedyd iddo y byddai yn ciniawa gydag Owen y dydd ar dydd ac yr atebodd Owen y byddai roesaw wrthaw oni ddygai gydag ef uwch ben deng ŵr ar hugain ac a ddaeth yr arglwydd yn yr oed terfynedig, ac ychydig gwmpeini gydag ef a gallu mawr yn arfog dan lech yn dyfod ar i ôl, a phan aeth Owen i ginhiawa ef a osodes wersyll ar ben Brynn i Wersylly tra byddai Owain ar giniaw a phan oedd Owen ar ganol ciniaw nycha y gwelynt y gwersyllwyr lonaid y ddôl heb anni o wŷr arfog a doedasant i Iolo Goch i rybuddio Owain Ac yna y doeth Iolo i mewn canys di dyb oedd ef ac y canodd ar ddammeg yr englyn rhybydd yma ar osteg rhag tybied yr Arglwydd fod twyll ynddo Er bod yr Arglwydd yn dallt traethawd Cymraeg nid oedd fe yn dallt yn mydr ni—

Coffa ben a llen a llywenig—Lys
a las nos Nadolig

¹ Pennant's *Tour in Wales* (edit. 1784), vol. i., p. 332.

Coffa Golwyth Amwythig
Or Tân a neidiodd naid dig.

IOLLO GOCH.¹

Os ydyw y chwedl uchod yn wir, awgryma pa mor gartrefol yr oedd Iollo Goch yn Sycharth; yn gystal a'i fod yn ddigon cyfrwys, er cymmaint a ddywedir am ei ffyddlondeb i Owain, i gadw ei hun yn "ddi dyb;" hynny yw, yn un ag nad oedd ei deyrngarwch yn cael ei ammeu. Dros ba hyd y llwyddodd i gadw ei hun felly sydd fwy nas gallwn ei ateb.

Nid oes yn brin ddau awdwr yn cytuno ar drefn ac amseriadau y gwahanol frwydrau y cymmerodd Owain Glyndwr ran ynddynt. Ac ni chaniata ein gofod i ni fanylu ar yr anghyssonderau cysylltiedig. Yr oll a allwn wneyd ydyw rhedeg mor fryslog ag y mae modd dros y prif ffeithiau. Dywedir yn gyffredin mai y peth cyntaf a wnaeth Owain yn y ffurff o ymosodiad oedd rhoddi tref Rhuthyn ar dân ar ddiwrnod ffair, Medi 20, 1400; ac mai ar y diwrnod hwnw y cymmerodd arno ei hun y teitl o Dywysog Cymru. Pa fodd bynag, ar yr 8fed o Dachwedd, arwyddodd y brenin weithred yn yr hon y datganai fod etifeddiaethau Owain, sef Glyndyfrdwy yn Edeyrnion, Sycharth yng Nghynllaith, ac Iscoed a Gwynionydd, yn florfodedig, gan eu trosglwyddo i'w frawd ei hun, John, Iarll Somerset.² A dywed rhai i'r brenin fyned â byddin i Gymru, gan ymdeithio can belled a Llanfaes ym Môn, pryd yr ymosododd ar y Brodyr Llwydion oedd yn y fynachlog hono;³ tra y mae ereill yn gwadu hyn.⁴ Yn ol ysgrif a gyhoeddwyd yn yr *Iolo MSS.*, gwnaeth Owain gryn ddifrod yn Neheudir Cymru rywbryd yn ystod yr un flwyddyn. Dywedir

¹ Cymmerwyd yr adroddiad uchod o'r *Add. MS.*, 14,964, fol. 189. Y mae i'w gael hefyd ar fol. 60 o'r un ysgriflyfr; ac y mae yn argraffedig yn *Great Llundain*, tudal. 164. Ar yr olwg gyntaf, y mae yn anhawdd gweld pa gyssylltiad a ddichon fod rhwng y llinellau dechreuol ag ymddygiad bradwrus yr Arglwydd Grey. Ond wrth fanylu, gwelir fod tynged Dafydd ap Gruffydd, yn yr Amwythig, yn cael ei ddwyn i mewn fel eglurhad ar englyn Iollo, yr hwn a geir ar ddiwedd y dyfyniad. Cyfeiriad at yr amgylchiad hwnw yn yr Amwythig a ddefnyddiwyd gan Iollo er amlygu y fradwriaeth.

² Pennant's *Tour in Wales* (edit. 1784), p. 340.

³ *Ibid.*, p. 339.

⁴ Nicholas's *Synop. of the Peerage*, vol. i., p. 133.

iddo ennill Castell Caerdydd, a dinystrio cestyll Pen llin, Llando-chau, Tref Fflemin, Dindryfan Bwtler, Tal y Fan, Llanfleidian, Llanfwyfan, Malfawnt, a Phenmarc, yn gystal a llosgi llawer o bentrefydd ac eglwysydd oddi amgylch. Llosgodd hefyd, meddir, bentrefydd Llanfrynach, Aberthin, a Llanilltyd Fawr, heb law lleoedd ereill a berthynent i'r bobl a wrthodent ymuno ag ef. Ond yr oedd llawer yn ymuno ag ef gyda'r parodrwydd mwyaf. Ac fel yr oedd eu nifer yn cynnyddu aent rhagddynt i ddinystrio cestyll, i aurheithio a difrodi, gan ranu yr yspail rhyngddynt. Yn yr adeg hon, medd yr un ysgrif, cyfarfu gwŷr Owain â rhai o bleidwyr y brenin, ar le a elwir Mynydd Owain, ger y Bontfaen; ac ar ol deunaw awr o ymladd caled, nes yr oedd y gwaed yn cyrhaedd at egwydydd y meirch, gyrwyd gwŷr y brenin ar ffo.¹ A chaniatau fod y chwedl hon yn wir, gallem dybied ei bod wedi ei chyn-amseru, o blegid y mae yn ammheus genym a fu Owain yn y Deheudir yn 1400. Ond y mae y chwedl o ran ei sylwedd hefyd, fel llawer o'r hyn a geir ym mhlith Ysgriflyfrau Iolo Morganwg, yn rhy debyg i ramant i ni allu rhoddi llawer o ymddiried ynddi.

Yn gynnar yn haf 1401, yr oedd Owain yn gwersyllu ar y rhan hono o fynydd Pumlumon a elwir Hyddgen, gyda chwech ugain o wŷr arfog (*men of arms*).² Tra yn gwersyllu yma, elai allan ar ymgychiadau anrheithiol ar hyd y wlad oddi amgylch. Llosgodd faesdrefi y Trallwm, gan ddifrodi y cymnydogaethau cylchynol. Dinystriodd Abatty Cwm Hir, yn Sir Faesyfed; cymmerodd gastell Maesyfed, a thorodd benau y gwarchodwyr, triugain mewn nifer, ym muarth y castell. Ond penderfynodd Fflandrwysiaid y Rhos a Cheredigion ei ddal; ac ymosododd pymtheg cant o honynt arno yn ddisymmwth yn ei wersyllfan yn Hyddgen, ar ol iddo ddychwelyd o un o'i deithiau difrodol. Ond er iddynt ei amgylchynu ef a'i wŷr, torodd ei ffordd allan trwy eu rhengau; ac ymladdodd ef a'i ddilyn-

¹ *Iolo MSS.*, p. 98.

² Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., p. 342. Sylwa Mr. T. O. Morgan (*Arch. Camb.*, 1851, p. 28) ar y nifer a rydd Pennant yma, ac awgryma fod y "*men of arms*" yn golygu yr un peth a "*men at arms*" y Ffrancod, pob un o'r rhai a gynnwysai dri o saethyddion, un cleddyfwr, ac un gwastrodwr; felly, yn ol Mr. Owen, a gadael y gwastrodwyr allan, nifer milwyr Owain y pryd hwn oedd 480.

wyr mor ddewr fel y lladdasant ddau cant o'r Fflandrwysiaid, a gyrasant y gweddill ar ffo.¹ Ym mis Mai, yn y flwyddyn hon, yr ydym yn cael Hotspur (Henry Percy) yn gostwng y gwrthryfel yng nghymydogathau yr Aran a Chader Idris, ym Meirionydd, gyda 12 o bicellwyr a 100 o fwawyr; ond nid ymddengys fod Owain Glyndwr yn y rhan hono o'r wlad ar y pryd.² Ond yr oedd y gwrthryfel mor gryf yng Nghymru fel y penderfynodd y brenin arwain byddin yno yn bersonol. Cyrhaeddodd Ystrad Fflur gyda byddin gref oddeutu dechreu mis Mehefin. Dinystriodd yr Abatty, a gwnaeth gryn ddifrod ar diriogaethau y rhai a wrthodent ymostwng iddo. Ond gorfu iddo ymadael yn fuan oherwydd fod ei fyddin yn teimlo oddi wrth newyn a lludded.³ Ym mis Tachwedd, yn yr un flwyddyn, anfonodd Owain lythyr at Frenin Ysgotland, yn yr hwn yr erfyniai "ar ei liniau" am gynnorthwy i ymryddhau oddi wrth eu cyd-elynnion; gan adgoffa eu bod ill dau yn hanu o'r un cyff—y Brutus ohwedlonol—Owain o Camber, a brenin Ysgotland o Albanact. Ar yr un pryd, anfonodd lythyr arall at arglwyddi yr Iwerddon i'r un perwyl, yn yr hwn y dywed, er ei fod ef yn bersonol anadnabyddus iddynt, eto fod y "Broffwydoliaeth," yn yr hon y credid cymmaint gan y Cymry, yn rhagfynegi y byddai i'r Gwyddelod, yn gystal a'r Ysgotiaid, gynnorthwyo yn yr un achos. Ac y mae yn adgoffa iddynt mai tros gyhyd o amser ag y gallai y Cymry gadw eu hannibyniaeth, a dim yn hwy, y gallent hwythau ddysgwyl mwynhau yr heddwch a'r tangnefedd a ddymunent yn yr Iwerddon.⁴ Derbyniodd ychydig o gynnorthwy wedi hyn gan yr Ysgotiaid; ond nid oes hanes i'r Gwyddelod dalu y sylw lleiaf i'w gais.

Yng ngwanwyn y flwyddyn 1402 yr ymddangosodd y "seren wib," am yr hon y canodd Iolo Goch gywydd yn brudio llwyddiant y Cymry;⁵ a diammeu mai oddeutu yr un adeg y dylid amseru amryw o'i Gywyddau Brud. Ac y mae yn dra thebyg i'r cywyddau fod yn foddion i galonogi Owain a'i ganlynwyr. Bwriadodd y

¹ *Welsh Sketches*, Third Series (edit. 1854), p. 63.

² Nicholas's *Proceedings and Ordinances of the Privy Council*, vol. i., pp. 652-3.

³ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., p. 344.

⁴ Wylie's *Hist. Eng. under Hen. IV.*, vol. i., p. 248.

⁵ Cywydd Rhif XI.



brenin wneyd ymgais arall at ei ddarostwng ym mis Gorphenaf, 1402; ond ni roddodd ei fwriad mewn gweithrediad. Yn y mis blaenorol, anrheithiodd Owain diriogaethau Edmund Mortimer, Iarll March, yn siroedd Henffordd, Brycheiniog, a Maesyfed. Nid oedd yr Iarll ar y pryd ond tua deg oed, a chedwid ef fel math o garcharor gan y brenin. Ond mewn canlyniad i'r anrheithiadau hyn, casglodd Syr Edmund Mortimer, ewythr yr iarll ieuanc, fyddin gref i fyned allan yn erbyn Owain. Cyfarfu y ddwyblaid ar y Bryn-glas, mynydd ger llaw Pilleth, ychydig i'r de-orllewin o Dref-y-clawdd, yn Sir Faesyfed; a'r diwedd fu i ddilyn-wyr Owain ladd oddeutu 1,100 o wŷr Mortimer, gan gymmeryd yr olaf yn garcharor. Eglurir y gorchfygiad hwn mewn gwahanol ffyrdd; sef, yn ol rhai, i fwawyr Mortimer droi eu bwâu yn erbyn eu plaid eu hunain; ac, yn ol ereill, i denantiaid yr Iarll ffoi ar yr ymosodiad cyntaf.¹ Dywedir hefyd i'r merched Cymreig ymddwyn yn yageler a chreulawn tuag at y lladdedigion a'r clwyfedigion, o'r hyn y rhydd Shakespeare ddysgrifiad.² Ymddengys fod y brenin yn credu—neu yn ewyllysio credu—yn y chwedlau a ledaenid am lwfrdra, neu annheyrngarwch, Mortimer a'i wyr; ac nad oedd eu hymosodiad ond ffug. Cymmerodd hyn yn esgus dros wrthod ei ganiatad i'w ryddhau trwy briodwerth. Ymddengys, yn ol rhai adroddiadau, fod gan Owain garcharor pendefigaidd arall yn ei feddiant ar yr un pryd, sef yr Arglwydd Grey o Ruthyn, yr hwn a orchfygwyd gan Owain, meddir, yn ymyl Rhuthyn, ar y 30ain o Ionawr, 1402.³ Dywed rhai mai yn ddiweddarach yn y flwyddyn y cymmerwyd Grey yn garcharor, a hyn ar lanau yr Hafren, tra y dywed ereill mai ar lanau y Fyrnwy bu y dygwyddiad. Pa fodd bynag, gwyddom i Grey gael ei ryddhau Tachwedd 11, trwy dalu, neu addaw talu, 10,000 o forciau. Hysbysir ni hefyd i Owain yn ystod yr un haf dalu ymweliad â Llandaf, lle llosgodd lŷs yr esgob a thŷ yr archddiacon, ac iddo ddifrodi Abergafenni a'r oll o Gaerdydd, oddigerth mynachdŷ y Brodyr Llwydion.⁴ Ond, o bosibl, mai at yr un

¹ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., pp. 351-2.

² Henry IV., Part i., Act i., Scene i.

³ Wylie's *Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., p. 249.

⁴ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., p. 354.

ymgyrch y cyfeirir yma a'r hon a adroddir yn yr *Iolo MSS.* dan y flwyddyn 1400. Yn yr un flwyddyn—Medi 20, 1402—yr amserir coroniad Owain ym Machynlleth, am yr hyn y dywedir cryn lawer; ac ym mhlith pethau ereill i Syr Dafydd Gam geisio ei fradlofruddio yng nghanol ystafell lawn o bleidwyr y gwron Cymreig! Beth bynag am y manylion—pa un ai cynnyg yn ddirgelaid neu yn gyhoeddus a wnaeth Syr Dafydd—ymddengys iddo gael ei garcharu a'i gadw yng ngharchar hyd y flwyddyn 1412.¹ Gallem dybied mai y flwyddyn 1402 oedd yr un fwyaf gobeithiol yn hanes y gwrthryfel; ac y mae yn eithaf tebyg mai oddeutu y pryd hwnw y canodd Iolo Goch ei gywydd iddo pan oedd “yn fwyaf ei rwysg.” Ond trodd y bardd allan yn gau-broffwyd truenus pan y dywedodd :—

Por a ladd meawn ymladdgors
Pedwar kan mil o hil hors.²

Ym mis Tachwedd, 1402, priododd Syr Edmund Mortimer ferch i Owain Glyndwr,³ a thrwy hyn daeth y gorchfygiedig a'r gorchfygwr yn gyfeillion. Yn y mis dilynol anfonodd Syr Edmund y llythyr a ganlyn at denantiaid ei nai, ym Maelienydd :—

Fy anwyliad a'm caredigion. Yr wyf yn eich llongyfarch ac yn eich hysbysu fod Owain Glyndwr wedi codi cyffro, amcan yr hwn yw adfer ei goron i'r Brenin Richard, os yn fyw; ac os nad ydyw, fod i fy anrhydeddus nai, etifedd y goron ddywededig, gael ei wneyd yn frenin Lloegr; a bydd i'r dywededig Owain hōni ei hawl i Gymru. A chan yr ystyriaf y cyfryw gyffro yn deg a rhesymol, cydsyniais i ymuno ynddo ac i gynnorthwyo er ei amddiffyn; a thrwy ras Duw, deued i ddyben da, Amen! Yr wyf yn mawr obeithio, ac o'm calon yn dymuno arnoch fy nghynorthwyo a'm galluogi i ddwyn fy ymdrech yma i derfyniad llwyddiannus Fy hoff anwyliad, Duw a roddo ras i chwi i lwyddo ar eich dechreuad, ac i gyrhaedd diwedd boddhaol. Ysgrifenwyd ym Maelienydd y 13eg o Ragfyr.

EDMUND MORTIMER.⁴

Methasom a chael hanes am ddim gwrhydri a wnaed gan Mortimer a'i ganlynwyr; ond bu Mortimer yn foddion i ennill Hotspur i bleidio Owain. Nid oedd hyn yn orchwyl caled, o blegid yr

¹ Rymer's *Foedera*, vol. viii., p. 753.

² Cywydd Rhif XII., llin. 41-42.

³ Wylie's *Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., p. 344.

⁴ Ellis's *Original Letters*, Second Series, vol. i., p. 24.

oedd oerfelgarwch wedi dechreu rhwng Hotspur a'r brenin. Achoswyd yr oerfelgarwch mewn rhan o herwydd anghydwlediad mewn perthynas i'r carcharorion Ysgotaidd a gymmerasai Hotspur ym mrwydr Homildon Hill, ac mewn rhan o herwydd i'r brenin wrthod pridwerth Mortimer, chwaer i'r hwn—Elizabeth—oedd gwraig Hotspur.¹ A chytunodd Hotspur a Mortimer i gynnorthwyo Owain. Ond cyn i ddim gael ei wneyd, ymosododd y Tywysog Harri o Fynwy—wedi hyny Harri V.—ar Sycharth a Glyndyfrdwy, yn absennoldeb Owain. Yr oedd y Tywysog wedi cael ei benodi yn rhaglaw Cymru a'r Cyffiniau ar y 7fed o Fawrth, 1403; ac ar y 15ed o Fai canlynol anfonodd lythyr at y Cyfrin Gyngor yn hysbysu ddarvoud iddo, mewn canlyniad i fwriad Owain o roddi gwrthwynebiad pellach, arwain nifer o filwyr at Sycharth, "yr hwn oedd ei brif lŷs ac wedi ei adeiladu yn gadarn." Gan na welwyd neb yno, llosgwyd yr holl fangre, yn cynnwys tai y tenantiaid oedd gerllaw. Aeth y tywysog a'i wŷr oddi yno "i'w le arall yn Glyndyfrdwy;" ni chafwyd neb yno ychwaith, ond llosgwyd maesdy hardd oedd yn y parc, a diffaethwyd yr holl wlad oddi amgylch. Daliwyd yn yr ardal un o gadlywyddion Owain, yr hwn a roddwyd i farwolaeth yn y fan; er iddo gynnig £500 os arbedid ei fywyd. Wedi hyny aethant i gwmmwd Edeyrnion, a diffeithasant y "wlad brydferth a phoblog" hono; a dychwelasant i'r Amwythig trwy Rowys.²

Nis gwyddom pa le yr oedd Owain y pryd hwn, os nad oedd ar ei ffordd i'r Deheudir. Pa fodd bynag, yr ydym yn ei gael yno yn nechreu Gorphenaf, 1403, yn ymosod ar amryw fanau yng nghymydogiaeth Caerfyrddin. Mewn llythyr dyddiedig Gorphenaf 7, yr hwn a ysgrifenyddwyd gan Jenkin Hanard, ceidwad castell Dinefwr, at Drysorydd Brycheiniog, dywedir fod Owain Glyndwr, Henry Don, Rhys Ddu, Rhys ap Gruffydd ap Llywelyn, a Rhys Gether³ wedi ennill tref Caerfyrddin, ac fod Wygmor, ceidwad castell Caerfyrddin, wedi rhoddi y castell i fyny; iddynt losgi y dref a lladd 50 o wŷr; eu bod yn bwriadu am Gydweli, a bod castell Dinefwr yn warchäedig ganddynt. Dywed Hanard mewn llythyr arall, dyddiedig ar yr 11eg o'r un mis, mai nifer dilynwyd

¹ Wylie's *Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., p. 246.

² Ellis's *Original Letters*, Second Series, vol. i., p. 10.

³ Rhys Gethin?

Owain yr adeg hono oedd 8,240 o waewffyn "o'r fath ag oeddynt." Daeth y Barwn Carew allan i'w wrthwynebu; ac ar y 12fed o'r un mis lladdodd Carew adran o fyddin Owain, a anfonasid allan i gyfarchwilio, heb adael un yn fyw o'r saith gant.¹


Oddeutu yr un adeg ag yr oedd Owain yn anrheithio yn y Deheudir, hysbyswyd y breuin fod Hotspur (Henry Percy)—mab Iarll Northumberland—gyda llu o filwyr ar ei ffordd i Gymru er ymuno â'r gwrthryfelwyr, yn cael ei gynnorthwyo gan nifer o'r Ysgotiaid dan arweiniad Iarll Douglas. Prysurodd y brenin gyda byddin gref i'w cyfarfod. Cyfarfuant ar wastadedd yn ymyl yr Amwythig. Ac ar yr 2lain o Gorphenaf ymladdwyd un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd sydd ar gof a chadw yn hanes ein rhyfeloedd cartrefol, yr hon a adnabyddir wrth yr enw "Brwydr yr Amwythig." Ym mhlith ereill a laddwyd yr oedd Hotspur ei hun; a throdd y fuddugoliaeth o du y Brenin. Y mae Owain yn cael ei gyhuddo gan rai haneswyr o lwfrdra yn yr amgylchiad hwn, gan y dywedir ei fod, ar y dydd yr ymladdwyd "Brwydr yr Amwythig," yn llechu gyda 12,000 o wŷr yng Nghroesoswallt; ac mai yr unig wasanaeth a wnaeth i Hotspur oedd anfon adran o 4,000 i'r frwydr dan arweiniad Syr Jenkin Hanmer, ei frawd yng nghyfraith.² Ond gan fod prawf fod Owain yng nghymydogeath Caerfyrddin ar y 12fed o leiaf, ac i'r frwydr gael ei hymladd ar yr 2lain, y mae yn lled amheus fod unrhyw sail i'r cyhuddiad.

Ym mis Hydref, 1403, tiriodd lluoedd o'r Ffrancod a'r Llydawiaid ar draethellau Caerfyrddin, ac ymosodasant ar gestyll Cydweli a Chaerfyrddin, fel cynnorthwywyr i Owain. Yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn, ac yn nechreu y flwyddyn ganlynol, ymosodasant ar amryw gestyll yng Ngogledd Cymru, ac yn eu plith Aberteifi, Aberystwyth, Llanbedr, Harlech, Criccieth, a Chaernarfon; ac yn Ebrill, 1404, aethant ar ymgyrch ddifrodol can belled a Sir Amwythig.³ Yn fuan ar ol hyn, fel y gallem dybied, y daeth Owain a'i wŷr i wrthdarawiad â byddin o'r Seison ar Fynydd Cwmdu, yr hon a arweinid gan Richard Beauchamp, Iarll Warwick. Cymmerodd y Seison feddiant o faner Owain. Ymgyf-

¹ Ceir manylion am y brwydrau hyn yn Sir Gaerfyrddin, yn Ellis's *Original Letters*, Second Series, vol. i., p. 17.

² Pennant's *Tour in Wales*, vol. i. p. 363.

³ Wylie's *Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., pp. 429-33.



nerthodd fyntau yn ebrwydd, ac a'u hymlidiodd, nes goddiweddyd y Seison mewn lle a elwid Craig y Dorth, ger llaw Mynwy. A bu raid i Beauchamp, i'r hwn yr oedd tiriogaethau eang yn y rhanbarth hono, alw allan ei holl ddeiliaid er cadw y wlad rhag difrod.¹ Ar y 10fed o Fai, 1404, yr ydym yn cael Owain yn Nolgellau yn arwyddo tystlythyr yn awdurdodi Gruffydd Yonge, ei ganghellydd, a John Hanmer, ei frawd yng nghyfraith, i fyned i Ffrainc i wneuthur cynghrair â'r Ffrancod. Y mae, yn y llythyr hwn, yn gosod ei hun allan fel tywysog Cymru, o blegid ar ei ddiwedd dywedir "yn y bedwaredd flwyddyn o'n llywyddiad," gan gyfrif o'r ymgodiad cyntaf yn 1400. Ond amcan anfoniad y cenhadau i Ffrainc oedd ceisio cynnorthwyon yn erbyn y Seison; a derbyniwyd hwy yn groesawus gan y Ffrancod.

O Mai 10, 1404, pryd yr arwyddodd y tystlythyr uchod yn Nolgellau, nis gwyddom ddim o hanes Owain hyd Ionawr 12, 1405, pryd y cadarnhâodd y cytundeb â Ffrainc, "o'i gastell yn Llanbadarn." Y mae y rhan fwyaf o'r awdwy'r Cymreig yn dyweyd mai yn 1405 y bu Owain ar "ddifancoll," a nodir amryw o ogofeydd ac ymguddfanau fel y lleoedd y bu yn llechu ynddynt. Ond ymddengys i ni fod y flwyddyn hon yn llawn mor debygol. Os felly, yn y flwyddyn 1404 y canodd Iolo Goch y Cywydd Rhif XIV.

Ar yr 11eg o Fawrth, 1405, cododd gwrthryfel yng Ngwent a Morganwg. Yr oedd Harri o Fynwy ar y pryd yn Henffordd; a phan hysbyswyd ef, anfonodd adran o'r fyddin, dan arweiniad Syr Gilbert Talbot, i'w ddarostwng. Cyfarfuant â'r gwrthryfelwyr yn Grosmont, Sir Fynwy. Lladdwyd o 800 i 1,000 o'r Cymry, a gorfodwyd y gweddill i ffoi. Pan glywodd Glyndwr am y golled hon, anfonodd adran o'i ganlynwyr, dan arweiniad un o'i feibion, yn erbyn y Seison, ac ymladdwyd brwydr ffyrnig ar Fynydd y Pwll Melyn, Sir Frycheiniog, ar y 15fed o'r un mis. Ond y waith hon eto lladdwyd a chymmerwyd yn garcharorion gynnifer a 1,500 o'r Cymry. Ac ym mhlith y lladdedigion yr oedd Tudur, brawd Owain Glyndwr. Tybiwyd ar y cyntaf mai Owain ei hun ydoedd, nes y gwelwyd nad oedd yr un ddafaden oddi ar ei lygad, sef yr unig nôd gwahaniaethol rhwng y ddau frawd.² Hawdd ydyw

¹ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., pp. 367-8.

² *Ibid.*, p. 370.

casglu i'r colledion pwysig hyn ddigaloni llawer ar y Cymry. Ond tua diwedd Mehefin, neu ddechreu Gorphenaf, 1405, glaniodd deugain o longau, yn cynnwys byddin o 12,000 o wŷr yn Aberdaugleddyf. Hwn oedd y cynnorthwy hir-ddisgwyliedig o Ffrainc. Ymosodasant ar amryw leoedd yn Neheudir Cymru, ac ymunodd Owain Glyndwr â hwynt yn Ninbych-y-Pysgod, yn arwain 10,000 o wŷr. Ar ol ymdeithio yng nghyd cyrhaeddasant fryn Woodbury, ym mhlwyf Whittley, naw milltir i'r gogledd-orllewin o Gaerwrangon. Ond aeth y brenin â byddin gref i'w cyfarfod yno. Cymmerodd amryw ysgarmesoedd le; ond nid ydyw haneswyr yn cytuno pa un o'r pleidiau a enciliodd gyntaf. Yn y cyfamser, fodd bynag, yr oedd y llynges Seisonig wedi llosgi a chymmeryd meddiant o'r llongau Ffrengig, fel nas gallai y Ffrancod ddychwelyd i'w gwlad; a bu raid i Owain ddarparu lluestai iddynt nes iddo lwyddo i gael llongau i'w cludo adref ym mis Mawrth y flwyddyn ddilynol.¹ A dyna bron yr oll gynnorthwy a gafodd Owain gan y Ffrancod; felly methiant hollol y profodd y cynghrair.


Sonir am gynghrair triphlyg rhwng Owain, Mortimer, a Iarll Northumberland yn nhy Dafydd Daron, Deon Bangor, lle y trefnid fod iddynt ennill y deyrnas a'i rhanu rhyngddynt. Rhydd Shakespeare² ddysgrifiad lled fanwl o'r ymgyfarfyddiad, yr hwn a amserir yn gyffredin tua'r flwyddyn 1402. Ond dywed Mr. Wylie, ar awdurdod Giles, i'r cytundeb hwnw gael ei arwyddo Chwefror 28, 1405³ (hyny yw, yn ol yr hen ddull o gyfrif, yn niwedd 1405, ac yn ol y cyfrif newydd, yn nechreu 1406). Ond ni ddeilliodd dim o'r cytundeb hwnw.⁴ Yr oedd ei achos erbyn hyn yn dechreu gwywo, ac yr oedd ei ganlynwyr yn prysur wrthgilio. Gwibiai y tywysog ieuauc, Harri o Fynwy, yma a thraw ar hyd Gymru gyda byddin gref, yr hyn a fu yn foddion i ddarostwng y gwrthryfel i raddau helaeth. Tua dechreu 1406 gwrthgilioedd trigolion Ystrad Tywi oddi wrth Owain; ac erbyn mis Tachwedd yr oedd gwŷr Môn, y rhai mwyaf ymlynol wrtho o bawb, wedi gwrthgilio, gan ymostwng yn ffurfiol i'r brenin.⁴

¹ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., p. 375.

² *Henry IV.*, Part i., Act iii., Scene i.

³ Wylie's *Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., pp. 355-6.

⁴ Ellis's *Memoirs of Owen Glendower*, pp. 80-83.



O hyny hyd 1409, nid oes ar gael grybwyllion am unrhyw ddygwyddiadau pwysig; a thybir fod Owain yn ystod y cyfnod hwn yn ymguddio yn y coedydd a'r mynyddoedd. Ond ym mis Mai, yn y flwyddyn hon, gorchymmynodd y brenin i Edward Charlton, arglwydd Powys, ddarostwng yr ymgyrchiadau anrheithiol oedd yn cymmeryd lle ar y cyffiniau. Ac yn fuan ar ol hyny, derbyniodd Edward, Duc Caerefrog, a chwech o bendefigion ereill, orchymmyn cyffelyb. Yr oedd Owain yn y cyfamser, yn anhysbys o'r darpariaethau hyn, wedi anfon Rhys Ddu a Philip Scudamore, gydag adran o'r gwrthryfelwyr, i Sir Amwythig; a daeth Duc Caerefrog ar eu gwarthaf, gan eu gorchfygu. Cymmerwyd Rhys a Scudamore i Lundain, lle eu dienyddwyd fel teyrn-gradwyr. Ac yn y mis Tachwedd dilynol rhoddwyd amryw ereill o ganlynwyr Owain i farwolaeth, sef Howel ap Ieuan ap Howel, Walter ap Ieuan Fychan, Rhys ap Ieuan ap Rhys, Ieuan Goch ap Morgan, Dafydd ap Tudur, Rhys ap Meredydd, Madoc Bery, Siencyn Backer, Dafydd ap Cadwaladr, a Thomas Dayler.¹ Ond parhaodd yntau yn ddigon cryf i roddi peth traferth i swyddogion arglwyddi y cyffindiroedd; yn gymmaint felly fel y cynnygiasant ddyfod i ammodau heddwch ag ef ar eu cyfrifoldeb eu hunain, heb ymgynghori â'u harglwyddi. Ni wnaeth hyn ond drygu achos y Seison, gan fod Owain trwy gymmodi â rhai yn alluog i grynhoi hyny o fyddin oedd ganddo yn erbyn y lleill. Yn mis Mai, 1410, arweiniodd ei ddilynwyr, yn cael eu gwneyd i fyny o ychydig Gymry, a'r gweddillion o'r cynghreirwyr Ysgotaidd a Ffrengig oedd yn aros, i wneuthur ymosodiadau difrodol ar y cyffiniau; a pharhâodd felly trwy gydol yr haf hwnw. Cynhyrfodd hyn y brenin drachefn; ac ar y 23ain o Dachwedd, anfonodd lythrau at Iarll Arundel, Syr Richard L'Estrange, Arglwydd Powys, a'r Arglwydd Grey o Ruthyn, yn eu cyfarwyddo fod y cytundebau a wnaed gyda Glyndwr yn anghyfreithlawn, ac yn gorchymmyn eu dileu; hefyd annogai hwynt i'w ymlid ef a'i bleidwyr; gan ymddwyn tuag atynt gyda'r llymder mwyaf eithafol.² Ond y mae y ffaith i Owain lwyddo i gadw Syr Dafydd Gam yn garcharor hyd 1412, yn profi nad oedd eto wedi ei amddifadu o'i holl allu.

¹ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., p. 386.

² *Ibid.*

Bu farw Harri IV. Mawrth 20, 1413, ac olynwyd ef gan ei fab, Harri o Fynwy, yr hwn oedd ar y pryd oddeutu 25 mlwydd oed. Ni wyddom am ddim ymosodiad nac anrhaith a wnaed ar ol hyn gan Owain Glyndwr. Ar y 5ed o Orphenaf dilynol, yr ydym yn cael i Harri V. awdurdodi Syr Gilbert Talbot i wneuthur cytundeb heddwch ag Owain, ac i gynnyg maddeuant llawn iddo ef a'i ddilynwyr os ymostyngent; a dywedir i'r cynnyg gael ei drosglwyddo trwy Dafydd Holbetch, is-oruchwyliwr arglwyddiaethau Maelor ac Ial. Ni ddywedir pa dderbyniad a roddodd Owain i'r negeydd, a chaniatau iddo ei gyrhaedd. Ond y mae y ffaith ddarfod i'r un cynnyg gael ei roddi drachefn i Meredydd, mab Owain, Chwefror 24, 1416, yn awgrymu nad oedd Owain ei hun wedi ymostwng. Dywedir i Meredydd dderbyn y cynnyg; ac iddo ar ei ymostyngiad gael maddeuant. A thrwy hyn y adferwyd heddwch rhwng Cymru a Lloegr ar ol mwy na phymtheng mlynedd o ymrysonfa ammhenderfynol.¹ Mewn ysgrifyr ym Mheniarth dywedir i Owain farw Dy'gwyl St. Matthew, 1415²; ond y mae y lle y bu farw yn aros yn ansicr. Nodir amryw o leoedd; ond tybir yn fwyaf cyffredin iddo farw yn nhŷ un o'i ferched, Scudamore neu Monnington, yn Sir Henffordd; ac iddo gael ei gladdu ym mynwent Monnington.

Ar ol rhoddi amlinelliad o'r gwrthryfel, yr ydym yn addef ein hanallu i gytuno â'r rhai hynny nad ydynt byth yn blino ar glodfori Owain Glyndwr. Nis gallwn anghofio mai cweryl personol, ac nid gwladgarwch, oedd wrth wraidd y gwrthryfel. Nid oedd gan Owain ar y cyntaf uwch amcan na dial y camwri a dderbyniodd oddi ar law Arglwydd Rhuthyn. Ond gan fod y Cymry, yn awr ac eilwaith, yn gobeithio y cyfodai un o'u plith eu hunain i'w gwaredu oddi wrth ormes y Seison, bu y cweryl crybwylledig yn achlysur iddynt adgyfodi "Proffwydoliaeth Merddin," a phenderfynu, yn eu meddyliau ofergoelus, mai Owain oedd y "mab darogan." Dechreuwyd olrhain ei achau; a chafwyd allan i

¹ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., p. 394.

² *Hengwrt MS.*, No. 133. Darllena y cofnodiad fel y canlyn:—"Obitus Owain glyndwr die sancti mathei apostoli anno domini millimo ccccxv." Fel rheol, amserir ei farwolaeth ar yr 20fed o Fedi yn y flwyddyn hono; gan osod Dy'gwyl St. Matthew yn ol y cyfrif newydd.

foddlonrwydd, iddynt hwy ac yntau, ei fod yn hanu o holl hen dywysogion Cymru. Ac yna, ar ol i'r brenin fforffedu ei feddiannau, aeth yr anghydwlediad personol yn wrthryfel cenedlaethol.

Ar yr olwg gyntaf, meddai Owain amryw o gymhwysderau neillduol i fod yn arweinydd. Heb law ei waedoliaeth dywysogaidd, gellir nodi ei addysg foreuol, ei wybodaeth yng nghylch personau a phethau a gafodd pan yn llŷs Richard II., bywiogrwydd ei feddwl, a'i wroldeb naturiol. Wedi y cyfan, nid ydyw ei hanes yn profi ei fod yn faeslywydd medrus. Y mae genym enghreifftiau o'i lwyddiant pan y gorchfygodd y Fflandrwysiaid ar fynydd Pumlumon, a phan y gorchfygodd Syr Edmund Mortimer yn Sir Faesyfed; ond, a chymmeryd ei holl yrfa i ystyriaeth, gwelwn ei fod yn fwy o anrheithiwr a difrodwr nag ydoedd o filwr. Pan ddeuai byddinoedd y brenin i Gymru, byddai Owain a'i ganlynwyr, fel rheol, yn cadw o'r golwg. Pan lwyddai i sicrhau cynnorthwyon, byddent yn gorfod sefyll y frwydr eu hunain; o blegid byddai ef yn ddigon pell yn ymosod ar leoedd cymharol ddiamddiffyn. Fel maeslywydd doeth, dylasai gyfeirio nerth ei alluoedd fel ag i gyd-daraw ar y gelyn. Ond y mae yn bosibl nad oedd bob amser yn rhydd-weithredydd. Hwyrach, rhag achosi rhwyg ym mhlith ei ddeiliaid, ei fod yn aml yn gorfod myned i un man pan y dymunasai fyned i le arall. Gwyddom mai diffyg undeb, a chyn-dynrwydd i ymostwng i ewyllys eu llywodraethwyr, a fu yr achosion a brofasant yn felldith a dinystr i'r Cymry ym mhob oes. Yn lle ymuno â'u gilydd fel un gwr yn erbyn eu gelyn cyffredin, ymrysonent yng nghylch y manylion; a byddai y rhai na chaffent eu ffordd yn digio ac yn gwrthgilio. Nid oes ammheuaeth yn ein meddwl na phrofodd Owain lawer o ofid a siomedigaeth oddi wrth y duedd genedlaethol hon. Ymddengys i ni mai y coedwigoedd tewfrig, y ffyrdd geirwon, a gerwindeb yr hinsawdd, yn hytrach na dewrder a medrusrwydd y Cymry fel rhyfelwyr, a rydd gyfrif am aflwyddiant y Seison i'w darostwng am amser mor hir.

Anhawdd fyddai penderfynu pa fanteision neu anfanteision a ddeilliasent i'r Cymry pe buasai y gwrthryfel yn troi allan yn llwyddiant. I'n tyb ni, ni fuasai ond anfantais ddigymmysg; ond afreidiol ac ofer fyddai chwilio i ganlyniadau llwyddiant posibl. Pa fodd bynag, nid oes anhawsder o gwbl i benderfynu i'r

aflwyddiant droi allan yn dra anffodus i Owain ei hun yn gystal ag i'w gydwladwyr. Fforffedodd ef ei gysuron teuluaidd a'i holl feddiannau; a phrofodd y gwrthryfel yn dra niweidiol i'r wlad yn gyffredinol. Heb law yr holl waed a dywalltwyd a'r pentyrau o guawd dynol a gladdwyd, parlyswyd amaethyddiaeth a masnach; a gwnaed gwlad ag oedd yn ddigon tlawd yn barod yn dlotach fyth. Y mae yn wir fod y Cymry yn cael eu gorthrymu yn dost gan y Seison, ond bu y gwrthryfel yn foddion i ychwanegu at eu gorthrymderau. Adferwyd deddfau gormesol Edward I., ac ychwanegwyd atynt, gan Harri IV.; ac y mae y deddfau hyny yn warth ar ddalenau ein hanesiaeth wleidyddol.

Er fod ein beirdd a'n gwladgarwyr yn parhau i glodfori Owain Glyndwr; yr oll a allwn yn onest ddyweyd am dano ydyw, mai efe oedd y prif symmudydd yn yr ymegniad olaf er ad-ennill annibyniaeth Cymru, ac iddo fod yr un mor aflwyddiannus a'i ragflaenoriaid. Nid ydym yn llai ein hedmygedd o hono o ran ei aflwyddiant; gan y credwn iddo wneyd ei oreu. Ond nis gallwn ganmol yr amcan oedd ganddo mewn golwg; a hyny am ein bod yn credu fod gwahaniad Cymru oddi wrth Loegr yn golygu dinystr i gysur a heddwch y ddwy genedl—y mae yn amhosibilrwydd gwleidyddol.

11.—BARDD OWAIN GLYNDWR.

Gellir dyweyd mai Owain Glyndwr oedd y Cymro olaf a ddadweiniodd ei gledd yn erbyn Coron Lloegr; a gellir ychwanegu gyda'r un priodoldeb nad oedd cywyddau Iolo Goch ond ymegniad olaf yr awen er symbylu Owain a'i ganlynwyr. Ymddengys fod y gair *HEDDWCH* yn un o brif arwyddeiriau y beirdd; o leiaf gellid barnu hyny oddi wrth yr hyn a glywir ganddynt o'r "Orsedd," a phan yn cadeirio y bardd buddugol yn ein heisteddfodau. Ond wrth ddarllen gweithiau y cynfeirdd a'r gogynfeirdd, bron na feddylïem mai mewn ystyr wawdlyd yr ydym i ddeall yr arwyddair hwn. Fel dosbarth, y mae yn anhawdd taraw ar un mwy rhyfelgar ei yspryd na'r urdd farddol. Er enghraifft, tröer tudalenau y *Myvyrian Archaeology* a cheir prawf mai annog i dywallt gwaed a chanmol gwrhydri rhyfelwyr oedd y gorchwyl agosaf at chwaeth y beirdd. Ac o holl feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg nid oedd yr un yn fwy gwaedlyd na Iolo Goch.

Gelwir Iolo Goch gan ysgrifenydd Cymreig yn gyffredin yn "Fardd Owain Glyndwr," neu yn "Fardd Teulu Owain Glyndwr;" ond y mae Gweirydd ap Rhys, fel y sylwasom, yn anghredu hyn am y rheswm fod Iolo "yn ŵr boneddig cyfoethog, yn meddu tiriogaethau eang, a llys godidog yng Nghoed Pantwn;" ac yn ychwanegu fod Iolo ei hun yn "addaw taith" i Sycharth, yr hyn, yn ol Gweirydd, sydd brawf pendant nad "Bardd Teulu Owen ydoedd."¹ Tra y dywed mewn man arall mai "Bardd Teulu" a "Phencerdd" Owain Glyndwr oedd Gruffydd Llwyd ap Dafydd ap Eiuion Lygliw.² Yr ydym eisoes wedi ymdrin ar hawliau Iolo i gael ei ystyried fel gwr boneddig cyfoethog; a phrin yr ydym yn gweled grym yn y ddadl a ddug Gweirydd mewn perthynas i Iolo yn "addaw taith" fel prawf i'r gwrthwyneb, os nad ydym i olygu fod "Bardd Teulu," fel dodrefnyn, yn gwbl gyssylltiedig â phreswylfod ei berchenog. Ac os caniateir fod Gruffydd Llwyd yn "Fardd Teulu" iddo, nid ydyw hyn yn cau allan y posibilrwydd fod Iolo hefyd yn dal y swydd hono, naill ai ar yr un adeg neu ynte fel blaenorydd neu olynydd iddo. Yr unig gywydd i Owain Glyndwr a briodolir i Gruffydd Llwyd—yr hwn hefyd a briodolir i Iolo Goch—ydyw yr un sydd yn dechreu gyda'r llinell:—

"Eryr digrif afrifed."³

I'n tyb ni, y mae y cwestiwn pa un a ydoedd Iolo yn "fardd teulu" i Owain Glyndwr ai peidio, yn un nas gellir ei benderfynu—os wrth "fardd teulu" y meddylir bardd *cyflogedig*. Nid ydym yn cael dim i ffafrio y dybiaeth, eithr yn hytrach i'r gwrthwyneb. Y mae yn dra thebyg i Iolo gael yr enw "Bardd Owain Glyndwr" ar y cyntaf o herwydd iddo gyfansoddi llawer o gywyddau iddo; ac yna i rywun, ar sail yr hyn a ddywedir am y bardd brenhinol yng Nghyfreithiau Hywel Dda, roddi iddo y teitl ychwanegol o "Fardd Teulu." Ond nid oes brawf, hyd y gwelwn, fod Owain yn cadw y fath swyddog o gwbl. Ei fod yn hoff o feirdd a barddoniaeth sydd ddigon eglur. Ceisia rhai brofi tuedd Owain at feirdd a barddoniaeth trwy haeru i Dante, y bardd Eidalaidd, ymweled ag ef yn haf 1404, yn Sycharth a Beddgelert; ac i Owain

¹ *Hanes Llen. Gymreig*, tudal. 129.

² *Yr un*, tudal. 185.

³ Cywydd Rhif XV.

gyfieithu un o bryddestau Petrarch i'r Gymraeg.¹ Ni wyddom ddim am y cyfieithiad o Petrarch; ond gan i Dante farw yn y flwyddyn 1321, nis gallasai fod wedi ymweled â Sycharth na Bedd-gelert yn 1404. Hawddach o lawer genym gredu i Owain, pan y perthynai i lys Richard II., ddyfod i gyffyrddiad â Geoffrey Chaucer a John Gower—y ddwy seren foreuaf yn llenyddiaeth Seisonig—y rhai oedd yn uchel eu parch yn llys Richard. Yr oedd Shakespeare wedi clywed rhywbeth am hoffder Glyndwr at y beirdd, ac y mae yn awgrymu hefyd ei fod yn fardd; o blegid gwna iddo ateb Hotspur yn y geiriau a ganlyn:—

I can speak English, lord, as well as you :
For I was train'd up in the English court :
Where, being but young, I fram'd to the harp
Many an English ditty, lovely well,
And gave the tongue a helpful ornament :
A virtue that was never seen in you.²

Ond y mae cywyddau Iolo Goch yn profi fod Owain yn hoff o'r beirdd yn gyffredinol; ac nid ydynt yn awgrymu ei fod ef yn dal unrhyw berthynas agosach—fel “bardd teulu” er enghraifft—na rhyw fardd arall. Sylwer ar y dyfyniadau a ganlyn:—

Ag iechyd a phlant gwyh-heirdd,
Yn Sycharth, Buarth y Beirdd.³

Ar bedair lloft o hoffter
Ynghyd cor clyd lle cair kler⁴

Pebyll y Beyrdd pawb lle bo
Pe beunydd caiff pawb ynno⁵

Ac yr oedd y fath son wedi myned allan am groesaw a lletty-garwch Owain fel y cyfeiria Lewis Glyn Cothi at y lle, yn yr oes ddilynol, fel “Sycharth buarth y ddwy Bowys.”⁶ Er fod Lewis Glyn Cothi yn cyfeirio at Sycharth ac at Owain Glyndwr fwy nag unwaith, nid ydyw un amser yn cyssylltu enw Iolo gyda'r naill na'r llall fel “bardd teulu.” A phan grybwyllir am dano

¹ *Hanes yr Hen Gymry* (gan y Parch R. W. Morgan), tudal. 223.


² Henry IV., Part i., Act iii., Scene i.

³ Cywydd Rhif VIII., llin. 75-76.

⁴ Cywydd Rhif X., llin. 41-42.

⁵ *Yr un*, llin. 69-70.

⁶ *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, tudal. 396.



gan Tudur Aled, fel y sylwasom, cyssylltir ei enw ag Ithel ap Robert, ac nid ag Owain Glyndwr. Ond i Owain y canodd Iolo y rhan fwyaf o'i gywyddau gwleidyddol. Y mae wyth o'i gywyddau yn cynnwys enw Owain yn y penawd;¹ ac y mae yn amlwg mai ato ef y cyfeirir yn y Cywyddau Brud. Canodd Iolo dri o gywyddau hefyd i bleidwyr Owain, sef Howel Coetmor, Rhys Gethin, a Ieuan ap Einion;² yn y rhai y ceir cyfeiriadau at y gwrthryfel. Felly, fe welir i Iolo, rhwng y naill ffordd a'r llall, gyfansoddi pymtheg o gywyddau i ganmol Owain Glyndwr neu i gefnogi ei achos. Neu, yn fwy cywir, fe *briodolir* pymtheg o'r cyfryw gywyddau iddo; ond fel y cawn ddangos eto, y mae un o honynt yn fwy nag ammheus. Prin y meddylwn fod Pennant yn hollol deg tuag at Owain, wrth gyfeirio at y cyfeillgarwoh a fodolai rhyngddo ag Iolo Goch, pan y sylwa fel y canlyn :—

Bu Iolo Goch, bardd enwog o'r cyfnod hwn, yn aros yn ei dŷ am dymhor. Daeth yno ar daer wahoddiad Owain; yr hwn, gan ddeall dylanwad nerthol yr urdd yma o ddynion ar yr hen Frythoniaid, a wnaeth ei dŷ, fel y dywed Iolo, yn gartref iddynt. Gwnaeth hwy yn offerynau ei weithrediadau dyfodol, ac i barotöi meddyliau y bobl gogyfer â'r adeg y bwriadai wrthryfela. Yr wyf yn benthycu dysgrifiad o dŷ y penaeth o waith Iolo, pan oedd yn ei holl orwychedd. Y mae yn ei gymharu, o ran ardderchogrwydd, i fynachlog Westminster; a hysbysa ni fod iddo borth, ac fod ffos o'i amgylch.³

Yn awr, nid oes brawf, na'r tebygolrwydd lleiaf, i Owain Glyndwr erioed feddwl am wrthryfela hyd ddiorseddiad Richard II.; ac y mae yn ddigon eglur i Iolo gyfansoddi tri o'i gywyddau iddo cyn y gwrthryfel, os nad cyn esgyniad Harri IV. i'r orsedd. Ond eto, yn y cywyddau hyn y mae Iolo yn galw Sycharth yn "Fuarth y Beirdd" ac yn "Bebyll y Beirdd." Y mae yn ammhosiibl i ni feddwl i Owain ragweled y dyfodol yn y fath fodd fel ag i arfolli y beirdd gyda'r amcan o sicrhau eu gwasanaeth mewn achos o gyfyngder. Nid oes ychwaith, hyd y gwyddom, nemawr o gyfansoddiadau barddonol am Glyndwr ar gael, heb law y rhai a gyfansoddwyd gan Iolo Goch. Yr ydym eisoes wedi nodi un, yr hwn a briodolir i Gruffydd Llwyd; a phriodolir "Cywydd Marwnad

¹ Cywyddau Rhif VIII.-XV.

² Cywyddau Rhif V.-VII.

³ Pennant's *Tour in Wales*, vol. i., p. 328.

Owain Glyndwr" i Rhys Goch Eryri.¹ Felly, os ydyw Pennant yn gywir yn ei ddyfaliad am amcan Owain yn croesawu y beirdd, ymddengys iddo gael ei siomi ym mhawb o honynt oddigerth Iolo Goch. Ond ymddengys i ni yn ddigon naturiol, yr un pryd, fod a wnelo cyfeillgarwch a charedigrwydd Owain i'r bardd ryw gymmaint â ffrwythlondeb ei awen. Y mae yn amlwg fod Iolo yn lled gartrefol yn Sycharth, ac yn cael ei groesawu yn fawr yno. Ond y mae yr un mor amlwg fod y bardd yn hollol ffyddlon i'w noddwr a'i gyfaill. Sylwa un awdwr fod y gwaed Seisonig oedd yng ngwythienau y bardd yn peri iddo fod yn fwy o sylwedydd pwylllog, nag o weithredydd, yn y gwrthryfel; ei fod yn cadw draw rhag unrhyw berygl a allasai ddygwydd iddo trwy gyn-northwyo ei gyfaill, gan foddioni yn unig ar ganu ei glod.² Ond ymddengys y sylw hwn yn hollol ddisail. A chaniatau ei fod yn "*a De Lacy on his mother's side*," fel y sylwa yr un ysgrifenydd, dylid cofio nad oedd oedran y bardd yn gyfryw ag y gallased dysgwyl iddo wneuthur llawer o niwed i'r gelyn. Nid ydyw ei gywyddau yn profi fod ynddo ddim gwaed Normanaidd, nac ychwaith ei fod yn meddu y cydymdeimlad lleiaf â'r Seison. Anhawdd ydyw dychymmygu pa fodd y gallasai ddefnyddio iaith gryfach yn eu herbyn, a mwy cefnogol i'r Cymry. Ac y mae yn ddiammeu genym i'w gyfansoddiadau wneuthur llawer tuag at gynhyrfu y wlad i ymuno yn y gwrthryfel. Ond o ran dim a ddywedir yn un man, oddigerth gan y Dr. Wilkins yn y sylw a nodwyd, nid oes grybwylliad pa un a gymmerodd Iolo ran yn y gwrthryfel ai peidio. Ei oedran addfed ydyw yr unig reswm sydd yn peri i ni ammeu iddo gymmeryd rhan weithredol yn yr ymrysonfa. Ac os tybir ei fod ar y pryd oddeutu 90 mlwydd oed, yr hyn sydd yn ein synu fwyaf ydyw fod ei awen mor fywiog a nerthol ag yr ydoedd.

Y mae y crybwylliad uchod am ei oedran yn ein dwyn yn naturiol at amseriad tebygol ei farwolaeth. Nid oes gofnodiad am ei farwolaeth yn un man; ac ni wyddom i neb ganu marwnad ar ei ol. Yr oedd y beirdd hyny ag y mae genym brawf eu bod yn


¹ Yn *Add. MS.*, 14,970, fol. 109b—yr hwn a ddechreua fel hyn :—

"Y ddeu fab a addefwn

Hynod gerdd heno od gwn."

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MS.*, 14,866, fol. 253b.

² Wilkins' *Hist. of the Literature of Wales*, p. 65.



gyfeillgar ag ef wedi marw o'i flaen. Yr oedd yn gyfeillgar â Dafydd ab Gwilym, Llywelyn Goch, ac Ithel Ddu; a chanodd yntau ar eu holau. Sonia unwaith am Madog Dwygraig¹; ac y mae yn debyg i hwnw farw o'i flaen. Pa fodd bynag, ni wyddom i neb gyfansoddi marwnad i Iolo Goch. Hwyrach y buasai y farwnad, pe wedi ei chyfansoddi, yn ein cynnorthwyo i benderfynu amseriad ei farwolaeth. Ond yn awr rhaid i ni ymorphwys ar ei gywyddau ef ei hun er cael allan yr amseriad tebygol.

Yr ydym yn gweled iddo ganu "Marwnad Ithel Ddu y Bardd o Fôn," yr hon a ddechreuâ gyda'r llinell—"Dor yw o fro Feilyr Fych."² Ni wyddom ddim o hanes Ithel Ddu—pa bryd ei ganwyd, na pha bryd y bu farw. Y mae yn wir y dywedir ei fod "yn byw rhwng y blyneddoedd 1380 a 1421,"³ ond nis gwyddom ar ba sail y gwneir yr haeriad. Pa fodd bynag, gan i Iolo Goch ganu marwnad iddo, ac os ydyw yr amseriad uchod yn gywir, rhaid i Iolo fyw hyd 1421. Ac os ganwyd ef, fel yr ydym eisoes wedi awgrymu, oddeutu 1310, gwelir iddo gyrhaedd yr oedran o 111, pa faint bynag yn ychwaneg! Ond y mae yn ymgynnyg i ni y dichon fod yr amseriadau a gyssylltir ag Ithel Ddu yn anghywir. Yn yr un gwaith ag y dywedir i Ithel Ddu *fyw* rhwng 1380 a 1421, ceir i Madog Dwygraig *flodeuo* rhwng 1300 a 1370.⁴ Ond y mae "Cywydd Duchan Gwyddelyn mab Hersdin Hogl" yn profi fod Ithel Ddu a Madog Dwygraig yn gydoeswyr;⁵ ac felly y mae yr ysgrifenydd dan sylw yn gosod Madog Dwygraig yn rhy gynnar, neu ynte Ithel Ddu yn rhy ddiweddar. Y casgliad yr ydym yn dyfod iddo ydyw na ddylid rhoddi ond ychydig bwys ar yr amseriadau a geir yn ein gweithiau bywgraffyddol; yn enwedig pan na roddir gwell rheswm na thybiaeth noeth drostynt. Ac o ran unrhyw dystiolaeth bendant o fewn ein cyrhaedd, nid oes brawf i Ithel Ddu oroesi y bedwaredd ganrif ar ddeg. Nid oes yn y farwnad a ganodd Iolo Goch iddo ddim a'n galluoga i benderfynu amser marwolaeth Ithel Ddu.

¹ Cywydd Rhif XLI., llin. 47-48.

² Cywydd Rhif XXXVII.

³ *Geir. Cen. Cymru* (O. Jones), cyf. i. tudal. 680.

⁴ *Yr un*, cyf. ii., tudal. 231.

⁵ Cywydd Rhif XLI., llin. 42-48.

Dywed Cynddelw i Iolo "fyw ar ol Owain Glyndwr;" a seilia ei haeriad ar englyn a briodolir iddo. Ac os efe a gyfansoddodd hwn, profir yn ddiammheuol i'r bardd fyw hyd y flwyddyn 1415. Ceir ef yn argraffedig yn *Ngreal* Llundain yn olaf o bedwar. Ac os Iolo oedd eu hawdwr, yna, yn ol yr un dull o ymresymiad, gwelir oddi wrth yr *ail* iddo fyw hyd yn oed ar ol y flwyddyn 1569! Ond wele yr englynion :—

Oedran Iesu gu gyvion—brynwr, a
Brenin yr Iuddewon,
Deunaw a phumcant union,
A mil, pan las gwartheg Môn.

Pymtheg cant gwarant oed gwiwreg—Ior nev,
Naw a thrugain chwaneg,
Poen loes gerth, pan las gwartheg
Lleyn eurwyrch dir Llanerch deg.

Deu cant, a mil, myn Dugain—oed
Duw, a dwy a phedwar ugain,
Pan las Llewelyn, fawr lain
Yn Muellt cyn term Owain.

Mil pedwar cant, heb ddim mwy—cov ydyw
Cyvodiad Glyn Dyvrdwy;
A phymtheg praf ei safwy,
Bu Owain hen vyw yn hwy.

IOLO GOCH.¹

Nid oedd derfyn ar hygoledd golygwyr a gohebwy'r *Y Greal*; onide, ni fuasai yr englynion uchod yn cael ymddangos ar ei dudalenau, gydag euw Iolo Goch wrthynt, heb yr un gair o eglurhad. Ymddengys i ni nad ydyw yr englynion ond gwaith rhyw fardd lled ddiweddar; ac yna i rywun yn ddiweddarach fyth, heb unrhyw reswm cryfach nag fod Iolo wedi canu cymmaint i Owain Glyndwr, feddwl mai ei waith ef ydoedd yr olaf. Yr ysgriflyfr hynaf yn yr

¹ *Y Greal*, tudal. 165. Ceir enghraifft arall o hygoledd golygwyr y *Greal* ar tudal. 18, lle y dywedir :—

"Tudyr Hen ab Gronw ab Ednyfed Vychan, à wnaeth Briordy Bangor yn y flwyddyn 1299, à vu varw, 1311. Iolo Goch à ganodd ei varwnad, 89 blwydd cyn rhyfel Owain ab Gruffydd o Lyn Dyvrdwy, yn 1400; ac y mae yn debyg fod Iolo o leiaf 110 mlwydd oed y pryd hyny. Naw mlynedd wedi hyny y mae Iolo yn cwynaw vyned Owain dan gudd, neu ar ddifancoll, yn y cywydd yn dechreu—'Y gwr hir, ni'th gar Harri.'"

hwn y gwelsoom ni ef ydyw *Add. MS.*, 14,994, a ysgrifenydd tua'r rhan olaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg. Heb law nad ydyw yr englyn mewn un modd yn debyg i waith Iolo Goch, y mae yn lled ammheus genym y buasai yn rhuthro i wneyd y fath englyn bron ar farwolaeth ei arwr. Cyfansoddwyd yr englyn, yn ein tyb ni, gan un na wyddai ond ychydig am Owain Glyndwr, o blegid gelwir ef yn "*Owain hen*." Ond nid oedd Owain uwch law 56 mlwydd oed pan fu farw, felly nis gallasai fod yn *hen*. Pa fodd bynag, os barna y darllenydd mai Iolo oedd awdwr yr englyn, bydd o angenrheidrwydd yn rhwym o gydnabod fod Iolo yn byw mor ddiweddar a diwedd 1415. Ac os Iolo a wnaeth yr olaf, ymddengys oddi wrth y *Greal* mai efe a wnaeth y tri ereill hefyd. Felly yr oedd Iolo yn fyw mor ddiweddar a 1569 !

Y mae rhai yn gosod yr amser yr aeth Owain "ar ddifancoll" mor ddiweddar a'r flwyddyn 1412¹, tra y dywed ereill mai oddeutu 1405 y bu hyny. "Gorchfygwyd Owain Glyndwr," medd Gweirydd ap Rhys, "yn gynnar yn y fl. 1405; a gorfodwyd yntau i gymmeryd nawdd ym mhlith ei gyfeillion; a llechai'n fynych mewn ogofau a lleoedd anghyfannedd; ac ymddengys mai o gylch y pryd hyn y canodd Iolo Goch, pan y tybir ei fod tua chant oed, ei gywydd campus a elwir "Cywydd i Owain wedi ei fyned ar ddifancoll,"² yn yr hwn y geilw'r bardd arno ddyfod o wahanol barthau'r byd, i ail feddiannu ei Dywysogaeth."³ Cydnabyddir yn lled gyffredin mai hwn oedd y cywydd olaf a gyfansoddwyd gan Iolo. Ond y mae yn anhawdd penderfynu i sicrwydd yr adeg ei cyfansoddwyd. Pa fodd bynag, nid oes unrhyw angenrheidrwydd dros ei amseru mor ddiweddar a 1412, nac ychwaith mor ddiweddar a 1405—er nad oes genym lawer i ddywedyd yn erbyn yr arseriad olaf. Yr ydym eisoes⁴ wedi sylwi ein bod yn colli golwg ar Owain o Mai 10, 1404, hyd Ionawr 12, 1405; a gallasai y cywydd fod wedi ei gyfansoddi yn yr adeg hono

Yn awr, ar ol edrych yn fanwl dros y gwahanol haeriadau a wneir, gan eu cymharu yn ofalus â ffeithiau adnabyddus, nid ydym yn gweled fod unrhyw angenrheidrwydd arnom gredu i Iolo Goch

¹ *Dict. of Nat. Biography*, art. "Iolo Goch."

² *Cywydd Rhif XIV.*

³ *Hanes Llen. Gymreig*, tudal. 133.

⁴ Gwel tudal. 59, uchod.

fyw yn hwy na 95 o flynyddoedd, sef dyweder o 1310 hyd 1405. Ac wrth ganiatau hyn iddo, nid ydym mewn un modd yn gwneuthur cam ag ef. Y mae 95 o flynyddoedd yn oes faith; ond nid mor faith ag yr arweinir ni i dybied gan y rhai a ysgrifenasant arno, sef, dyweder o 1295 hyd farwolaeth Ithel Ddu yn 1421, yr hyn ni wna ei oes yn llai na 126 o flynyddoedd—neu, a derbyn amseriad yr ail o'r englynion a ddyfynwyd, o 1295 hyd 1569, yr hyn a wna ei oedran pan yn marw yn ddim llai na 274 o flynyddoedd! Ond nid yw hyn ond ynfydrwydd.

Ni chytunir ychwaith ar y lle y claddwyd Iolo. Dywedir yn *Greal* Llundain, fel y sylwyd eisoes, “ev a'i veibion a gladdwyd yn Monachlog Eglwysegl ger llaw Llangollen.” Mewn “Awdl i Ddafydd, Abad Glyn Egwestl,” o waith Gutyn Owain, ceir y pennill a ganlyn :—

O foliannau nef fal Enog
Y pwysai fydr Powys Fadog;
O eiliad Iolo,
Ar fawl y gwyr fo
Weddio'n addefog.

Ar yr hwn y sylwa Cynddelw fel y canlyn :—“Iolo Goch, yr hwn a gladdwyd yma. Dichon iddo gyfansoddi emynau at wasanaeth y fynachlog.”¹ Ond os cyfansoddodd Iolo y cyfryw emynau, yr hyn sydd yn eithaf posibl, nid ydyw hyny yn profi pa le ei claddwyd. O'r ochr arall, dywedir mewn ysgriflyfr yn yr *Amgueddfa Brydeinig*² i Iolo Goch gael ei gladdu yn Llanefydd, ac i Rhys Goch Glyndyfrdwy gael ei gladdu yn Llandrillo. Ac y mae Cynddelw mewn man arall yn sylwi :—“Claddwyd ef, medd rhai, yn monachlog Pant y groes³, ger Llangollen; ereill a ddywedant mai yn Llanefydd y claddwyd ef.”⁴ Ond yr oll a wyddom am le ei gladdedigaeth ydyw hyn :—(1), Dangosir penglog, yr hwn a gedwir yn barchus ym Mynachlog Pant y groes, fel yr un a berthynai i Iolo; ac yn (2), dangosir beddfaen rhyw Iorwerth ap Iorwerth, ond yr amseriad wedi treulio ymaith, ym

¹ *Gorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 209.

² *Add. MS.*, 15,022, fol. 54.

³ Yr un yw Mynachlog Glyn Egwestl a Mynachlog Pant y groes, yr hon a adnabyddir gan y Seison wrth yr enw *Valle Crucis Abbey*.

⁴ *Gorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 109.

mynwent Llanefydd, fel i ddynodi y fan lle claddwyd Iolo. Nid oes genym ddim i ddyweyd mewn perthynas i'r un o'r ddwy dybiaeth, heb law y carem wybod pa brofion sydd parthed i berchenog y penglog ; a dymunem hefyd adgoffa y darlennydd mai lthell, ac nid Iorwerth, oedd enw tad Iolo Goch.

12.—NODIADAU AR YR YSGRIFYFRAU A DDEFNYDDIWD.

Y mae cyfansoddiadau barddonol Iolo Goch yn wasgaredig mewn cynnifer o ysgrifyfrau, wedi eu hysgrifenu gan amrywiol bersonau, ac ar wahanol amserau, fel y mae yn ammhosiibl—os dilynir yr ysgrifyfrau—sichrau unfurfiaeth orgraffyddol. Dymunol fuasai casgliad o'r holl gywyddau wedi eu hysgrifenu gan y bardd ei hun, neu o leiaf, gan ryw un person yn fuan ar ol ei amser. Buasem trwy hyn yn alluog i roddi ger bron y darlennydd weithiau Iolo mewn ffurf a fuasai o werth ammhriadiadwy i'r ieithyddwr a'r myfyriwr Cymreig. Rhaid i ni addef ar y dechreu na ddilynwyd ein hymchwiliadau gyda'r llwyddiant a ddymunem. Y mae rhan helaeth o'r ysgrifyfrau y llwyddasom i'w gweled yn rhy ddiweddar o lawer i fod o wir werth i'r ieithyddwr. Ac wrth gymharu yr un cywyddau mewn gwahanol ysgrifyfrau, gwelwn eu bod wedi eu llygru a'u cyfnewid gymmaint, fel mai gorchwyl anhawdd ydyw eu hadnabod. Dichon fod y cyfnewidiadau yn tarddu o un, neu ychwaneg, o'r achosion canlynol :—

(1) Y cyfnewidiadau a wnaed gan y bardd ei hun. Nid ydyw ond peth cymharol gyffredin yn ein hoes ni fod awdwyr yn cyfnewid ac yn cywiro eu cyfansoddiadau. Ac o bosibl na wnaed hyn gan Iolo ; ac yna i'r naill gopiwr ddilyn un copi, ac i gopiwr arall ddilyn y llall.

(2) Y mae yn debyg i amryw o'r cywyddau gael eu dysgu ar dafod-leferydd, ac yna eu hysgrifenu oddi ar y cof ; felly, yr oedd diffyg neu amherffeithrwydd y cof yn peri amrywiaeth.

(3) Rheswm arall a awgrymir ydyw diolfalwch, esgeulusdra, neu anallu y copiwr ; a thybiwn y gellir priodoli cryn lawer o'r diffygion a'r camgymeriadau dan y pen hwn.

(4) Ond o bosibl mai y prif reswm ydyw fod y copiwr yn gwneyd cyfnewidiadau bwriadol. Yr oedd Iolo a'i gydoeswyr yn hynod o ddiffygiol o ran cynganedd ; yna ceisiai y copiwr, y

rhai, fel rheol, oeddynt feirdd eu hunain, gywiro y gwaith gwreiddio. Ond yr oeddynt trwy hyny yn tynu ymaith yn ddirfawr oddi wrth werth y cyfansoddiadau.

Rhydd y rhesymau uchod gyfrif nid yn unig am y gwahaniaeth a welir yn yr amrywiol gopïau, ond rhoddant eglurhad hefyd ar y diwyg diweddar, yn yr hwn y cynnygir gweithiau rhai o'n hen feirdd i'r cyhoedd. Dywedir yn gyffredin fod iaith ac arddull Dafydd ab Gwilym, yn ei gywyddau cyhoeddedig, mor syml a dealladwy a gweithiau beirdd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond nid ydyw y rhai a sylwant felly yn cofio mai nid iaith Dafydd ab Gwilym a ddarllenant; eithr cyfnewidiadau a chywiriadau Owain Myfyr a'r Dr. W. Owen Pughe—y rhai a olygasant ei waith. Nid ydym yn petruso dyweyd nad oes nemawr linell yn yr argraffiad o *Farddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, a gyhoeddwyd yn 1789, yn hollol yr un fath ag y daeth o law yr awdwr. Dymunol a fuasai cyhoeddi gweithiau yr hen feirdd mor agosed ag y gellir, yn ddiffygion ac yn bob peth, fel y maent yn yr ysgriflyfrau hynaf; ac nid eu trwsio. Yn aml rhoddir attalnodaau i mewn, a thrwy hyny priodolir ystyron i'r llinellau na feddyliwyd erioed am danynt gan yr awdwr. Ac yn lle ein gadael i ymgynabyddu âg orgraff y bedwaredd ganrif ar ddeg, rhaid i'r golygwyr ddyfetha gwerth hanesyddol ac ieithyddol y caniadau dan yr esgus eu bod trwy hyny yn eu gwneyd yn ddealladwy i'r werin. Ond nid ydyw y cyhoedd, fel rheol, yn prisio y cyfryw gyfansoddiadau mewn unrhyw ddiwyg. Rhywbeth salw, ysgafn, a didrafferth i'r ymenydd a gâr y werin. Nid ydynt yn gofalu am hynafiaethau a hanes eu gwlad, er yr ymfrostiant lawer yn y cyfeiriad hwn. Ac nid ydyw y cyfryw gyfansoddiadau, ar ol eu cyfnewid a'u cyfaddasu ar gyfer y lluaaws, o nemawr werth i'r dosbarth a'u darllenent pe y rhoddid hwynt ger bron yn eu ffurf gynhenid—nid ydynt o werth mwyach i efrydwyr ieitheg. A'r ystyriaeth hon a bâr i ni ofidio ein hafwyddiant i dd'od o hyd i'r oll o gyfansoddiadau Iolo mewn ysgriflyfrau cydoesol.

Eto, sicrheir ni fod llawer o'i gywyddau yn wasgaredig ar hyd y wlad; ond golygai y gwaith o'u casglu fwy o amser na'r flwyddyn a roddwyd at y gorchwyl gan bwyllgor yr Eisteddfod. Can fod llawer o ysgriflyfrau Cymreig ym meddiant ein boneddigion—llawer o'r rhai ydynt mor anlengarol ag ydynt o anwybodus am

eu cynnwysiad—y mae bron yn annichonadwy cael unrhyw wybodaeth yn eu cylch; heb son am gael y fantais o'u defnyddio. Diammeu fod amryw o gywyddau Iolo yn yr hen gasgliad a wnaeth Paul Panton, o'r Plas Gwyn, tua dechreu y ganrif hon. Ond ni fu y casgliad—yr hwn sydd bellach wedi ei chwalu, fel y deallwn—o un math o ddefnydd i'r genedl, nac i neb arall. Ac yr ydym yn ofni weithiau mai yn gyffelyb y bydd gyda rhai casgliadau gwerthfawr creill, a gedwir yn awr gyda'r fath ofal crintachlyd gau eu perchenogion. Ychydig o wybodaeth sydd o fewn cyrhaedd y myfyriwr am gynnwysiad y casgliadau anghyhoedd, o ddiffyg croniciad. A chyda golwg ar yr ychydig lyfrgelloedd hyny ag y ceir *Catalogue* o honynt, ni roddir hysbysrwydd yn y cyfryw gofresau pa weithiau sydd yn yr ysgrifyfrau. Ni fyddai o nemawr fantais i'r efrydydd wybod fod ysgrifyfr neillduol yn cynnwys rhyw gymmaint o weithiau Iolo Goch mewn man neillduol; os na ddywedir pa rai ydynt, trwy ddyfynu y llinellau cyntaf. Ac yn wir, a chaniatau fod y cyfryw hysbysrwydd ar gael, ni byddai o unrhyw gynuorthwy i olygydd ei weithiau os na rydd eu perchenogion ganiatad a chyfleusdra i'w defnyddio. Gwyddom, er enghraifft fod yr ysgrifyfrau a ganlyn ym Mheniarth yn cynnwys *rhyw* gyfansoddiadau o waith Iolo Goch:—*Hengwrt MSS.*, Rhif 74, 134, 170, 191, 250, 252, 253a, 265, 270, 294, 301, 302, 309, 356, 361, 366, a 447; ond ni wyddom pa ganiadau sydd ynddynt, na dim ychwaneg yn eu cylch. Gwelsom grybwylliad¹ fod "*A MS. Book of Welsh Poetry by Iolo Goch, etc.*," ym meddiant Mr. Davies-Cooke, Gwysaney, ond camgymeriad ydyw hyny. Ysgrifennodd Mr. Davies-Cooke yn dra charedig atom yn addaw y caem gopio unrhyw gywyddau o eiddo Iolo o'i ysgrifyfrau ef; ond ar ol ymchwiliad pellach cafwyd allan nad oedd dim o waith y bardd hwnw yn ei feddiant. Yr ydym yn crybwyll hyn er cywiro y camddywediad.

Gallem nodi amryw o gasgliadau ereill yn cynnwys gweithiau Iolo Goch, ond ni fyddai hyny o unrhyw ddyben. Rhaid i'r casglydd cyffredin ymddibynu, gan mwyaf, am ei ddefnyddiau ar y llyfrgelloedd cyhoeddus. Yr ystorfa gyflawnaf o ysgrifyfrau

¹ *Arch. Camb.* 1891, p. 62.

ydyw yr un a gedwir yn yr Amgueddfa Brydeinig. Y mae yno gynnifer a 53 o ysgriflyfrau yn cynnwys caniadau a briodolir i Iolo Goch, sef 52 yn cynnwys ei farddoniaeth, ac un yn cynnwys dau gyfansoddiad rhyddieithol. A ganlyn sydd daflen o honynt, yn yr hou a nodir pa weithiau a gynnwysant :—

- Add. MSS.*, 14,866—Rhif II., III., XXIV., XXV., XXXVII., LIII., LXVIII., LXXIII., LXXIV.
- „ 14,868—Rhif XXIV.
- „ 14,870—Rhif XXVII.
- „ 14,873—Rhif II., XXIII., XXXIII., XLVI., XLVII., LXXIII., LXXVI., ac “Araith” Iolo.
- „ 14,875—Rhif LXXIV.
- „ 14,876—Rhif XII., XLVI.
- „ 14,879—Rhif LIX.
- „ 14,880—Rhif XXXVIII., XXXIX., LXVIII.
- „ 14,882—Rhif XII., XXV., XXIX., LXII., LXXIV.
- „ 14,885—Rhif LXXIV.
- „ 14,886—Rhif LX.
- „ 14,887—Rhif XIV. (dernyn), XIX., XX.
- „ 14,889—Rhif XXVI.
- „ 14,891—Rhif VII. (Pedair llinell yn unig.)
- „ 14,892—Rhif XIV., XIX.
- „ 14,893—Rhif XVI., XVII.
- „ 14,894—Rhif IV., XI., XXIV., ac “Araith Iolo Goch.”
- „ 14,897—Rhif XIV., XIX.
- „ 14,900—Rhif XII., LXV.
- „ 14,906—Rhif XLVI., LXVIII., LXXVIII.
- „ 14,908—Rhif LXX.
- „ 14,932—Rhif XXVII.
- „ 14,936—Rhif LIII., LX., LXIV.
- „ 14,940—Rhif XII. (ddwywaith), XXV., XXIX., XLVI. (ddwywaith), LIII.
- „ 14,958—Rhif LXXII.
- „ 14,964—Rhif I., II., VII., XII., XXIII., XXIV., XXIX., XXX., XXXI., XXXIII., XL., XLI., XLV., XLVI., XLVII., LII., LIII., LX., LXIV., LXXIII., LXXIV.
- „ 14,966—Rhif II., V., XXIX., L., LVI., LXXIV.

- Add. MSS.* 14,967—Rhif III., IV., X., XVI., XXVII., XXXI., XXXII., XXXVIII., XL., XLV., XLVI., XLVIII., LV., LX., LXV., LXVI., LXVII., LXVIII., LXIX., LXXI., LXXIII. (ddwywaith).
- „ 14,969—Rhif XXIX., XXX., XXXI., XLVII., LXXIII., LXXVI.
- „ 14,970—Rhif II., III., IV., VIII., IX., X., XII., XIV., XVI., XXIV., XXV., XXVI., XXVIII., XXX., XXXI., XXXII., XXXIV., XXXV., XXXVI., XXXVIII., XXXIX., XL., XLVIII., LIII., LX., LXV., LXVII., LXIX., LXXI., LXXIII.
- „ 14,971—Rhif IV., X., LIX., LXV., LXXII., LXXIII.
- „ 14,972—Rhif LXXIV.
- „ 14,973—Rhif LXVIII., ac “Araith Iolo Goch.”
- „ 14,975—Rhif LXXIV.
- „ 14,976—Rhif III., XIII., XXIX., XXX., XXXVI., LXXIV.
- „ 14,978—Rhif II., VII., XI., XII., XXV., XXVI., XLVI.
- „ 14,979—Rhif XI., LIII., LIX., LXVIII., LXXIII.
- „ 14,984—Rhif LV., LVII., LIX., LX., LXIII. (ddwywaith), LXVI., LXVIII., LXXIV.
- „ 14,985—Rhif LXXII.
- „ 14,986—Rhif XL.
- „ 14,994—Rhif XIV. (dernyn), XIX., ac “Englyn Croniclaidd.”
- „ 14,997—Rhif X., LXXVII.
- „ 14,998—Rhif LXX.
- „ 15,001—Rhif XLII., XLIII., L., LIII., LXI.
- „ 15,003—Rhif I., XIII.
- „ 15,006—Rhif LI., LXXV.
- „ 15,007—Rhif LVII.
- „ 15,010—Rhif LXVIII., LXXII.
- „ 15,016—Rhif LXVII.
- „ 15,027—Rhif III.
- „ 15,029—Rhif LXXIV.

Add. MSS., 15,034—"Araith Iolo Goch," a chyfeithiad "Ymryson yr Enaid a'r Corph."

„ 24,980—Rhif LIII. (dernyn), LXXIV.

Gwelir oddi wrth y rhestr uchod fod 209 o ganiadau, neu ranau o ganiadau, a briodolir i Iolo Goch, heb law rhai englynion, yn y 52 ysgriflyfr a nodir. Ond nid oes mwy na 69 o honynt yn ganiadau gwahanol, gan mai copiau ereill o'r un rhai ydyw y 140 gweddill. Ar ol cryn chwilio, methasom a chael Cywyddau Rhif VI., XV., XVIII., XXI., XXII., XLIV., XLIX., LIV., na LVI. yn un o ysgriflyfrau yr Amgueddfa Brydeinig—er i ni droi tudalenau pob ysgriflyfr y cyfeirir ato yn y Llyfr-restr yn ofalus. Dywedir yn y Llyfr-restr (*Catalogue*) fod gwaith Iolo Goch i'w weled yn *Add. MS.* 14,901; ond erbyn troi yno, "Co. i Dyddur ap Ierwerth Sais" a geir, yr hwn sydd wedi ei arwyddo gan "Rhys Cyn[fri]g, nai Iolo Goch."

Y mae saith o ysgriflyfrau yn Rhydychain yn cynnwys cywyddau gydag enw Iolo Goch wrthynt, yn y drefn a ganlyn:—

Jesus MSS., C. 101—Rhif II., III., XIII., XXIV., XXXI., XXXVI., XLVII., XLIX., LXXIII., LXXIV., LXXVI.

„ C. 111 (*Llyfr Coch o Hergest*)—Rhif XLII., XLIII., L., LXI.

„ E. 138—Rhif LIII., LXVIII.

„ E. 139—Rhif XXVII., XXXIX., XL., XLV., LXV., LXXIII.

„ E. 140—Rhif LXXVII.

Bodleian MSS. e. 1. (gynt 31,432)—Rhif V., VI.

„ e. 2 (gynt 31,433)—Rhif XLI.

Gwelir fod 28—neu 27 mewn gwirionedd, gan yr ymddengys Rhif LXXIII. ddwywaith—o gywyddau Iolo Goch yn ysgriflyfrau Rhydychain. Ond y maent oll oddigerth dau, sef Rhif VI. a L., yn yr *Additional MSS.*

Y mae un ysgriflyfr yn Llyfrgell Rydd Abertawy yn cynnwys 11 o ganiadau yn cael eu priodoli i Iolo Goch. Adnabyddir yr ysgriflyfr hwnw dan yr enw *Y Piser Hir*; a'r cywyddau dan sylw ydynt—Rhif II., III., IV., VII., VIII., XXII., XXIV., XXV., XLVIII., LIII., a LXIX. Bydd genym o bosibl ychydig i'w ddyweyd am yr ysgriflyfr hwn eto; ond y mae yr oll o'r cywyddau a

briodolir ynddo i Iolo Goch, gyda'r eithriad o Rhif XXII., i'w cael yn yr Amgueddfa Brydeinig.

Y mae ysgriflyfr (*Tonn MS.*) yn Llyfrgell Rydd Caerdydd yn cynnwys 3 o gywyddau y rhai a briodolir i Iolo Goch. Y mae dau o'r cywyddau hyn, sef Rhif XXIV. a XXVIII., yn ysgriflyfrau yr Amgueddfa Brydeinig; ac y mae y trydydd, sef Rhif XV., yn cael ei briodoli yn gyffredin i awdwr arall.

Trwy garedigrwydd Mr. N. Bennett, *Glanyrafon*,¹ cawsom y fantais o ddefnyddio ei ysgriflyfrau ef. Mewn saith o'i ysgriflyfrau ef cawsom 21 o ganiadau Iolo, ac englyn mewn ysgriflyfr arall:—

<i>Glanyrafon MSS.</i>	<i>A.</i> —Rhif X., LX.
„	<i>B.</i> —Rhif XXX., XL.
„	<i>C.</i> —Rhif LIII., LXXII.
„	<i>D.</i> —Rhif XIX., LVII.
„	<i>F.</i> —Rhif XVI., XVIII.
„	<i>H.</i> —Rhif XIV., XVI., XXI.
„	<i>K.</i> —Rhif XI., XII., XXXIX., XLVI., LIII., LXV., LXXIII., LXXVIII.
„	<i>L.</i> —Englyn.

Gan fod dau o'r cywyddau hyn ddwywaith—sef Rhif XVI. a LIII.—felly 19 mewn gwirionedd sydd yn ysgriflyfrau *Glanyrafon*. Y maent oll ond dau yn yr Amgueddfa Brydeinig; ond methasom a chael y ddau hyn—sef Rhif XVII. a XXI.—mewn un man heb law ym meddiant Mr. Bennett.

Gwnaethom ddefnydd hefyd o ysgriflyfr o'r eilfed ganrif ar bymtheg, perthynol i Mr. Robert Evan Jones, Ty'nybraich, Dinas Mawddwy, yn yr hwn y mae dau gywydd yn cael eu priodoli i Iolo Goch, sef Rhif XIX. a XX.; ac y mae y ddau hyn yn yr

¹ Anghymmeradwya y beirniad ein dull o ysgrifenu *Glanyrafon*, yn un gair—yn lle *Glan yr Afon*. A diammeu ein bod yn anghywir. Ond gan i ni gael ein geni a'n magu o fewn rhyw filltir i'r lle, a chan na welsom neb erioed o'r blaen yn ei ysgrifenu yn *Glan yr Afon*, y mae y ffurf newydd mor ddyeithrol i'n llygad fel yr ydym yn cadw at yr hen. *Glyn Dyfrdwy* hefyd a fyddai yn gywirach na *Glyndyfrdwy*; ond cynghorir ysgrifenyddwr gan Canon Silvan Evans i beidio “ag aflonyddu ffurfiau enwau ag sydd wedi eu hen arferu megys un gair, er y dylent o briodolder sefyll ar wahan”; a nodi *Glyndyfrdwy* fel un o honynt. (*Llythyraeth y Gymraeg*, tudal. 78).

Additional MSS. Hefyd gwelsom ddau gywydd mewn ysgriflyfr o'r ddeunawfed ganrif, perthynol i Mr. Edward Griffith, Springfield, Dolgellau, sef Rhif LIV. a LXV. Y mae y blaenaf o'r ddau yn cael ei briodoli i awdwr arall yn yr ysgriflyfr hwnw ; ac y mae yr olaf yn yr Amgueddfa Brydeinig. Hefyd darllenasom y cywydd Rhif LXXVI., yr hwn sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig, mewn ysgriflyfr perthynol i Mr. Isaac Foulkes, o Lerpwl ; yr hwn a gopiwyd oddeutu 1700.

Ond trwy garedigrwydd Mr. Richard Williams, Celynog, Drefnewydd, galluogir ni i roddi i mewn un cywydd—sef Rhif LVI.—yr hwn nid ydyw i'w gael yn yr un o'r ysgriflyfrau a nodir uchod. Ac ni ddygwyddodd i ni weled y cywydd mewn un man arall.

O'r ffynnonellau uchod, gydag eithrio Rhif XLIV. a LIV., y cymmerwyd y casgliad a geir ar y tudalenau dilynol. A chyn myned ym mhellach, hwyrach y gallai fod o fantais i rywun pe nodem pa gywyddau o eiddo Iolo a geir mewn casgliadau ar-graffedig :—

Gorchestion Beirdd Cymru.—Rhif X., XI., XII., XIV., LIV., a LIX. Y maent oll oddigerth Rhif LIV. yn yr *Additional MSS.*

Ceinion Llennyddiaeth Gymrcig.—Rhif I., II., III., X., XI., XII., XIII., XIV., XIX., XXIV., XXVII., XXIX., XXXVI., XLII. (gyda XLIII.), XLVII., L., LIII., LIV., LIX., LX., LXXII., LXXIII., a LXXIV. ; ac y maent oll, gyda'r eithriad o LIV., yn yr *Additional MSS.*

Iolo Goch, gan Robert Jones.—Rhif II., III., IV., XXV. (yn an-orphenol), LIII., LIV., LIX., LX., LXIV., LXV., LXVI., LXIX., a LXXI. ; a'r oll ond LIV. yn yr *Additional MSS.*

Nid ydym wedi cyfarfod â Rhif LIV. a geir yn y llyfrau uchod yn cael ei briodoli mewn unrhyw *ysgriflyfr* i Iolo Goch ; a gellir dyweyd yr un modd am Rhif XLIV.—sef y gyfres o englynion a geir yng *Ngreal* Llundain. Gallwn grybwyll hefyd fod amryw gywyddau o waith Iolo yn wasgaredig yma a thraw mewn gwahanol

gylchgronau a llyfrau, megys *Y Brython, Cymru, Y Cymmrodor*, a *History of Powys Fadog*; ond y maent oll i'w gweled yn yr *Additional MSS.*

Pa fodd bynag, yn y *Cambrian Journal*, 1854, fe geir rhestr o gywyddau Iolo Goch, yr hon, os nad ydym yn camgymmeryd, sydd yn gyffelyb i'r un a ymddangosasai yn flaenorol ar glawr *Greal Llundain*. Yr ydym yn cael yn y rhestr hono, a'r mân grybwyllion a'i dilynodd, gyfeiriad at 3 o gyfansoddiadau i Iolo Goch, y rhai, ar ol llawer o ymchwiliad, a fethasom eu cael, sef :—

I.—COWYDD MARWNAD I RYS GRUFFUDD O BORTHWRYD,¹

llin. gyntaf :—"Bum i garllaw bwa maen."

II.—DAROGANAU IOLO GOCH,

llin. gyntaf :—"Madwys im gael ammodau."

III.—DAROGANAU IOLO GOCH,

llin. gyntaf :—"Y mae yn ei fryd wryd Annwyr."

O'r braidd na awgrymem mai yr un ydyw yr olaf a Rhif XVII. yn y casgliad canlynol, o blegid darllena llin. 5-6 yn hwnw fel hyn :—

Mae yn i fryd wryd ar
ruthro engl rethri anglaiar.

Pa beth bynag am y dybiaeth hon, ceir amryw enghreifftiau yn y casgliad canlynol o amrywiaeth darlleniadau yn nechreuad y gwahanol gywyddau, yr hyn ar y cyntaf a bâr i ni dybied mai cywyddau gwahanol ydynt. Sylwer, er enghraifft, ar Rhif XIX., yr hwn a ddechreua fel hyn :—

A genais mae yn eginaw
myn fy fydd gwn y dydd i daw.

Ond dechreua yn y rhan fwyaf o lyfrau trwy adael y llinellau hyn allan, gan gymmeryd y drydedd a'r bedwaredd :—

Pan el y neidr pen Ion
ai gwyr ai llu i Gaerlleon.

Eto yn Rhif LIX., yr hwn a ddechreua :—

Y byd wrth i bedwar bann
twyllodrus tywyll oedran ;

¹ Yn achau Lewys Dwnn yr ydym yn cael "Elen v. Thomas ap Rydderch ap Rys ap Gruffydd ap Llewelyn voethus o Langathen a Borthwryd" (*Dwnn's Herald. Visit.*, vol. i., p. 224). Yn Sir Gaerfyrddin y mae Llangathen a Borthwryd.

yn lle fel yn y cyffredin :—

Yr un bai, ar ein bywyd
Ar bawb a hudol yw'r byd.

A thrachefn yn Rhif LXV., yr hwn a ddechreua :—

Mair edrych arnaf amerodres
Morwyn benaf wyd mair unbene ;

tra y dechreua mewn rhai ysgriflyfrau fel hyn :—

Doeth ith etholes Iesu
Em addwyn yn fam iddo.

Hwyrach, hefyd, mai nid annyddorol a fyddai i ni roddi rhestr yn y fan hon o'r ysgriflyfrau o'r rhai y cymmerasom destynau y cywyddau, gydag amcan o'u hamseriad :—

Llyfr Coch o Hergest. Ysgrifenydd y cywyddau a berthynant i Iolo Goch, fel y tybir, rhwng 1400 a 1425 :—sef Rhif XLII., XLIII., L., a LXI.

Add. MS., 14,967 (*Llyfr Huw Llewelyn*), yr hwn a ysgrifenydd, fel y dywedir yn *Llyfr-restr* yr Amgueddfa Brydeinig, gan Gutyn Owain, oddeutu diwedd y bymthegfed ganrif.¹ Cymmerwyd o hwn Rhif III., IV., X., XVI., XXVII., XXXI., XXXII., XXXVIII., XL., XLV., XLVI., XLVIII., LV., LX., LXV., LXVI., LXVII., LXVIII., LXIX., LXXI., a LXXIII.

Bodleian MS. e. 1. (gynt 31,432), a ysgrifenydd oddeutu 1600, o'r hwn y cymmerwyd Rhif V. a VI.

Add. MS., 14,882, a ysgrifenydd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.—Rhif LXII.

Add. MS., 14,889, a ysgrifenydd oddeutu 1600.—Rhif XXVI.

Add. MS., 14,893, a ysgrifenydd yn yr 16 a'r 17 ganrif.—Rhif XVII.

Add. MS., 14,971, a ysgrifenydd oddeutu 1620.—Rhif LIX.

¹ Hwyrach mai y nodyn a ganlyn a geir ar fol. 139 o'r ysgriflyfr ydyw yr unig sail dros ddyweyd mai Gutyn Owain a'i copiodd :—

"John Trevor a droes y vuchedd honn or lladin yn gymraec a gvttn Owain Ai hysgrivenodd pan oedd oed Krist mil ccclxxxviij o vlynnyddoedd yn amser hari seithved nid amgen y drydedd vlwyddyn o goronedigaeth yr vn harri."

A gellid tybied oddi wrth y llawysgrif nad ydyw yn waith diweddarach na thua diwedd y bymthegfed ganrif. Pa fodd bynag, y mae bron yr oll o'r nodiadau a'r cywiriadau a geir ar ymyl y dalenau mewn llaw lawer diweddarach.

Ysgriflyfr Mr. R. Williams, Celynog (oddeutu 1620).—Rhif LVI.

Glanagrafon MS., B. (oddeutu 1620).—Rhif XXX.

Jes. MS., E. 140 (oddeutu 1625).—Rhif LXXXVII.

Jes. MS., E. 138 (ar hwn ceir y nodyn—"Liber Roberti Dauies de Gwissane Armigeri Script. A.D. 1628").—Rhif LIII.

Jes. MS., E. 139 (oddeutu 1630-50).—Rhif XXXIX.

Jes. MS., C. 101 (oddeutu 1630-50).—Rhif XLVII., XLIX., a LXXIV.

Add. MS., 14,978 (*Llyvr Caer Rhun, No. 1*, oddeutu 1640).—Rhif VII.

Add. MS., 14,984 (*Llyvr Caer Rhun, No. 7*, oddeutu 1640).—Rhif LVII., a LXIII.

Add. MS., 14,886 (a ysgrifenydd gan David Williams, oddeutu 1643-47).—Rhif XXXVII.

Glanagrafon MS., H. (oddeutu 1650).—Rhif XXI.

Glanagrafon MS., K. (oddeutu 1650).—Rhif XI. a XII.

Add. MS., 14,966 (oddeutu 1650).—Rhif II. a LVIII.

Add. MS., 14,887 (oddeutu 1660).—Rhif XIX. a XX.

Add. MS., 14,906 (oddeutu 1660).—Rhif LXXXVIII.

Add. MS., 15,006 (oddeutu 1709-14).—Rhif LI. a LXXV.

Add. MS., 14,873 (*Y Delyn Ledr*, a ysgrifenydd gan William Morris, oddeutu 1739-60).—Rhif LXXXVI.

Add. MS., 15,010 (*Y Digrif Doeth*, a ysgrifenydd gan William Roberts, tad Thomas Roberts, Llwynrhudol, oddeutu 1759-63).—Rhif LXXII.

Y Piser Hir (yn Llyfrgell Rydd Abertawy). Yn blaenori hwn ceir y teitl a ganlyn:—"Pigion o Waith y Beirdd enwocaf Yng-hymru o A.D. 1360 i 1757 wedi eu casglu gan y Parch D. Ellis, Curad Amlwch, 1794." Rhoddodd David Ellis hwn yn anrheg i Dafydd Ddu Eryri, a bu wedi hyny gan Owen Williams, o'r Waunfawr. Yna aeth i feddiant yr Archddiacon Newcome, a phrynodd Edward Parry, Caerlleon, ef ganddo yntau yn Hydref, 1851. Ar ol marwolaeth Parry, gwerthodd ei weddw ef i Talhaiarn am £3; ac yn y flwyddyn 1856 gwerthodd Talhaiarn ef am £5 i'r Parch Robert Jones, o Rotherhithe. Ar ol marwolaeth Mr Jones, gwerthwyd ei lyfrau, a'r *Piser Hir* yn eu mysg, i Lyfrgell Rydd Abertawy. Ymddengys fod amryw gopiau o'r *Piser Hir* yn myned

dan yr un enw. Adysgrifenwyd ef gan Dafydd Ddu Eryri; gan Owen Williams, o'r Waunfawr; a chan Sion Wyn o Eifion. Ond o'r ysgriflyfr gwreiddiol yn Abertawy y cymmerwyd Rhif XXII., yr hwn, fel y gwelir yn ein nodiadau ar y cywydd hwnw, a gambriodolir i Iolo Goch.

Add. MS., 15,003 (a ysgrifenwyd gan Iolo Morganwg, Dr. W. Owen Pughe, ac Owain Myfyr, tua diwedd y ddeunawfed ganrif).—Rhif I. a XIII.

Add. MS., 14,964 (*Yr Hirwyn*, a ysgrifenwyd gan Owain Myfyr, tua diwedd y 18fed ganrif). Un o neillduolion yr ysgriflyfr hwn ydyw, fod yr *ch* yn cael ei hysgrifenu yn *x*; ac hefyd fod enwau yr awdwyr ar frig y tudalenau, yn lle ar ddiwedd eu cyfansoddiadau.—Rhif XXIII., XXIX., XXXIII., XLI., LII., a LXIV.

Add. MS., 14,908 (a ysgrifenwyd gan Dr. W. O. Pughe, tua diwedd y 18fed ganrif).—Rhif LXX.

Add. MS., 14,970 (a ysgrifenwyd gan Iolo Morganwg, oddeutu 1800-1).—Rhif VIII., IX., XIV., XXIV., XXV., XXVIII., XXXIV., XXXV., a XXXVI.

Tonn MS. (yn Llyfrgell Rydd Caerdydd). Adysgrifenwyd gan William Rees, Llanymddyfri, yn 1858, o'r hwn y cymmerwyd Rhif XV. Ceir ychwaneg o fanylion am yr ysgriflyfr hwn yn ein nodiadau ar y cywydd hwnw.

Glanyrafon MS., *F.* (a adysgrifenwyd gan Mr. Bennett o ysgriflyfrau o'r eilfed ganrif ar bymtheg).—Rhif XVIII.

Hwyrach y cymmerai ormod o'n gofod i ni nodi amseriadau yr ysgriflyfrau o'r rhai y cymmerasom y darlleniadau gwaelod-ddalenol. Pa fodd bynag, perthyna y mwyafrif o honynt i'r eilfed ganrif ar bymtheg. Yn wir, yn y cyfnod hwn y copiwyd y rhau fwyaf o'r ysgriflyfrau a gynnwysant weithiau Iolo Goch a'i gyd-oeswyr. A gallem dybied fod rhyw frwdfrydedd neillduol wedi meddiannu ein beirdd a'n llenorion at gopïo ysgriflyfrau yn y ganrif hono—yn enwedig rhwng 1600 a 1650. Ond nid oes dim o'n hysgriflyfrau, a'u cymmeryd oll i ystyriaeth, yn arddangos cymmaint o drwstaneiddwch ac esgeulusdra a'r rhai a adysgrifenwyd y pryd hwnw.

Dewisasom, hyd y gallasom, yr ysgriflyfrau hynaf fel testyn, ond yn unig pan y tybiem eu bod yn fwy diffygiol na'r rhai diwedd-araoh; a gosodasom, hyd y gallem, ddarlleniadau o ysgriflyfrau

ereill ar waelod y ddalen er egluro y cyfryw. Tybiasom fod y cynllun hwn yn llawer gwell na chymmysgu darlleniadau amryw ysgriflyfrau er ceisio gwneyd un testyn clytiog. Y *Llyfr Coch o Hergest*, yn ddiammeu, ydyw yr unig un ag y cawn ynddo ddim byd yn debyg i lythraeth Iolo ei hun, ac efe yn unig a werth-fawrogir genym ar y cyfrif hwnw. Pa fodd bynag, er y buasai yn well genym fod yr oll yn yr un orgraff, eto, deillia un fantais o ddefnyddio ysgriflyfrau perthynol i wahanol gyfnodau, gan ein bod trwy hyny yn canfod neillduolion orgraffyddol yr amserau hyny.¹

13.—NODIADAU CYFFREDINOL AR FARDDONIAETH IOLO GOCH.

Nid ydyw ond peth lled gyffredin fod yr un caniadau yn cael eu priodoli i wahanol awdwyr mewn gwahanol ysgriflyfrau. Anaml y byddai yr awdwyr yn rhoddi eu henwau wrth eu cynnyrchion; ac yna byddai y copiŵyr yn eu priodoli i'r rhai hyny a farnent hwy; o ran arddull, fel yn debycaf o fod yn awdwyr iddynt. Y mae yr

¹ Hwyrach y goddefir i ni yn y fan hon roddi nodyn bychan i mewn, *ar ol* i'r cyfansoddiad gael ei ddychwelyd o'r gystadleuaeth. Dymunem ddyweyd i ni gymmeryd pob gofal a allasem i ddilyn yr ysgriflyfrau a nodir yn *hollol fanol*. Ar ol ysgrifenu y cywyddau a geir yn yr Amgueddfa Brydeinig, cymmerasom y drafferth i gymharu ein hysgrifau *ddwy waith* drachefn gyda'r ysgriflyfrau gwreiddiol. A dymunem ddiolch hefyd yn y fan hon i'r Canon Silvan Evans am ei garedigrwydd yn caniatáu i ni gopïo 39 o honynt mewn ysgriflyfr yn ei feddiant ef—wedi ei gymmeryd o'r *Additional MSS.*—cyn i ni fyned i Lundain ar y perwyl hwn y tro cyntaf. Felly, gellir dyweyd i ni fyned, yn ymarferol, dros y rhan fwyaf o'r cywyddau a geir yn Llundain *bedair* gwaith. Copiwyd a chymharwyd y cywyddau sydd yn Rhydychain i ni ar y *cyntaf* gan Mr. Gwenogvryn Evans, ac yr ydym yn dymuno talu diolch calon iddo yma. Ar ol y gystadleuaeth, aethom ein hunain i Rydychain, nid o ran y meddyliem y gallem wneyd yn well—ond rhag nad oeddem ni wedi dilyn adysgrifau Mr. Evans yn ddigon manwl. Dymunem hefyd ddiolch yn wresog i Mr. N. Bennett, Glanrafon, am gopïo o'i ysgriflyfrau ef; ac hefyd am ganiatau i ni eu cymharu drachefn. Rhaid i ni ddiolch hefyd i'r Parch. Henry Parry, Abertawy, am gopïo amryw gywyddau o'r *Piser Hir*; ac i Mr. John Ballinger, Llyfrgellydd, Caerdydd, am gopïo tri o gywyddau o'r *Tonn MS.* Yr ydym yn dra diolchgar i bob un o'r boneddigion uchod. Ac yr ydym yn cymmeryd y cyfleusdra hwn i ddiolch iddynt, gan mai nid nyini a fydd yn ysgrifenu y Rhagymadrodd.

un ansicrwydd i'w ganfod gyda golwg ar awduriaeth emynau a chyfansoddiadau diweddar ereill. Ni ddynodir dim llai na 19 o ganiadau allan o'r 78 a geir yn y casgliad canlynol gyda *, i'r amcan o ddangos eu bod yn cael eu priodoli i ereill yn gystal ag i Iolo Goch. Yn ol rhai ysgriflyfrau, ei eiddo ef ydynt; ond yn ol ereill, dywedir mai yr awdwyr canlynol a'u cyfansoddasant :—

- Rhif XI.—Gr. Llwyd ap Ll. ap Einion.
 „ XV.—Gr. Llwyd ap Ll. ap Einion.
 „ XXII.—Guto'r Glyn.
 „ XXIX.— $\left\{ \begin{array}{l} \text{Llawdden, neu} \\ \text{Gwilym ab Ieuan Hên, neu} \\ \text{Gruffudd ap Dafydd Fychan.} \end{array} \right.$
 „ XLVI.—Rhys Goch Eryri.
 „ XLVIII.—Dafydd ab Gwilym.
 „ LII.—Dafydd ab Gwilym.
 „ LIII.—Gr. ap Maredydd ap Dafydd.
 „ LIV.—Edward ab Rees.
 „ LVII.— $\left\{ \begin{array}{l} \text{Dafydd ddu Hiraddug, neu} \\ \text{Sion Cent.} \end{array} \right.$
 „ LVIII.—Sion Cent.
 „ LIX.—Sion Cent.
 „ LX.—Sion Cent.
 „ LXVII.—Tudur Aled.
 „ LXVIII.—Sion Cent.
 „ LXXII.—Sion Cent.
 „ LXXVI.—Dafydd ab Gwilym.
 „ LXXVII.—Dafydd ab Gwilym.
 „ LXXVIII.—Dafydd ab Gwilym.

O'n rhan ein hunain yr ydym yn sier na chyfansoddodd Iolo mo Rhif XXII. na LII., ac yr ydym yn ammeu yn fawr ai efe oedd awdwr Rhif LXXVIII. Credwn fod y cywyddau hyn yn dwyn digon o brofion nad oedd a fyno efe ddim â hwynt. Nis gellir bod yr un mor sier am y lleill, er fod rhai o honynt yn lled ammheus. Ond gan eu bod oll yn cael eu priodoli i Iolo Goch, ac fod yn anhawdd penderfynu pwy yw awdwr rhai o honynt, rhoddwn yr oll i mewn yn y casgliad.¹ Gwelir mai i Sion Cent a Dafydd

¹ Teg yw dyweyd i ni adael rhai o honynt allan yn fwriadol pan yn anfon y casgliad i'r gystadleuaeth; ond ar ol darllen y feirniadaeth tybiasom mai gwell oedd cynnwys y cyfan.

ab Gwilym y priodolir y rhan fwyaf o'r rhai ammheus uchod. A barnu oddi wrth hyn a allwn gasglu am y beirdd hyn wrth ddarllen eu gweithiau, yr oedd Dafydd ab Gwilym o nodwedd lon a chwareus; yr oedd Sion Cent yn ddifrifol a chrefyddol; tra y cyfranogai Iolo Goch o'r naill nodwedd fel y llall. Ac y mae yn deilwng o sylw fod pob un o'r cywyddau ammheus uchod a briodolir i Dafydd ab Gwilym ar destynau nodweddiadol o hono ei hunan, tra y mae y rhai a briodolir i Sion Cent ar destynau crefyddol.

Pa un bynag a ddygwyd Iolo i fynny yn un o'r prifysgolion, a'i raddio yn M.A. ac yn Ddoethawr o'r ddwy gyfraith—fel y dywedir yn gyffredin—y mae yn amlwg oddi wrth ei weithiau ei fod yn ŵr o ddysg a diwylliant. Yr oedd yn llenor ac yn fardd. Heb law y ddau gyfansoddiad rhyddieithol a geir ar ddiwedd y casgliad hwn—un o honynt yn gyfieithiad o'r Lladin—dywedir iddo ysgrifenu Hanes Tair Talaith Cymru. Cyfeirir at y gwaith hwn gan Lewys Dwnn fel y canlyn:—"Iolo Goch, Master of Arts, Poet Lawrell or Cheif Poet, who hath written concerning the 3 provinces of Wales, and he was the cheifest of Poets."¹ Y mae Dwnn yn rhoddi nodiadau cyffelyb am amryw feirdd ereill. Ond, a oedd yn golygu mwy nag iddynt gyfansoddi caniadau yn cynnwys enwau ac achau personau, ac enwau lleoedd yng Nghymru? Pa fodd bynag, nis gwyddom am unrhyw waith rhyddieithol o'r fath o eiddo Iolo.

Y mae y ffaith ei fod yn cael derbyniad mor groesawgar ym mhalasdai ei gydoeswyr yn cadarnhau y dybiaeth ei fod o gyrhaeddiadau uwch na'r cyffreddin. Heb law ei fod yn adnabyddus i brif foneddigion Gwynedd, dengys Lewis Glyn Cothi nad oedd yn anadnabyddus yn y Debeudir:—

Iolo'n wir yn Nglyn Aeron
A wnaeth wers yn y iaith hon;
Eithr y mab oedd athraw mawr,
Ac i Rydderch yn gerddawr.
Wiliam, v'aur es talm yw vo;
Mi i Wiliam yw Iolo.²

Mewn cywydd i William Sion o Lan Egwad, yn Sir Gaerfyrddin, y ceir y dyfyniad uchod; ac yr oedd Gwilym Sion yn ddysgybl

¹ *Dwnn's Herald. Visit.*, vol. i., p. 331.

² *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, tudal. 315.

barddonol i Lewis Glyn Cothi. Ymddengys oddi wrth y dyfyniad, yn gystal a'r hyn a ddywedir gan y golygwyr, fod Iolo Goch yn arfer ymweled â Glyn Aeron, a'i fod yn athraw barddonol i un o hynafiaid Gwilym Sion. Felly, gan fod Iolo yn adnabyddus o Sycharth, yn Sir Ddinbych, i Benmynydd ym Môn, ac oddi yno drachefn i Sir Gaerfyrddin, yr oedd wedi cael mantais i ymgydnabyddu â chryn nifer o oreuon cymdeithas yr oes yr oedd yn byw ynddi. Ond pa un ai yn y cymmeriad o glerfardd, fel y mwyafrif o feirdd ei amser, neu ynte fel gwr o sefyllfa—hyny yw, gwr boneddig tlawd, sydd fwy na allwn ei benderfynu. O'n rhan ein hunain yr ydym yn ffafrio y golygiad olaf.

O'i gymharu â Dafydd ab Gwilym, gwelwn eu bod yn gwahaniaethu mewn amryw bethau. Gydag eithrio ychydig o ganiadau, defnyddiodd Dafydd ei awen i ganu i ferch; ond yr oedd Iolo yn troi ei sylw at gynnifer o destynau fel ag y gellir yn briodol ei alw yn fardd aml-ochrog; a chanodd lawer ar destynau sylweddol. Gwahaniaethant yn fawr hefyd yn eu harddull. Y mae arddull Dafydd yn heinyf, yn chwareus, ac yn syml; ond y mae Iolo yn canu yn fwy trymaidd a thywyll. Y mae Dafydd yn nofio ar y wyneb, tra y mae Iolo yn ymgladdu yn y dyfnder; cerdda Dafydd mor wisgi ac ysgafndroed fel mai prin y teimlwn oddi wrtho, ond y mae Iolo yn fwy arafaidd a throed-trwm. Swynir ni gan felusder odlau Dafydd, tra y mae Iolo yn aml yn lled glogyrnaidd. Rhaid rhoddi y flaenoriaeth i Dafydd o ran ystwythder ei gynghaneddion, ond i Iolo o ran treidd-der a dyfnder amgyffrediad. Y mae awen Dafydd yn chwareu yn ein hymyl, tra y mae eiddo Iolo yn ceisio ein hudo i'w dilyn i gyffiniau cyfriniaeth gaddugawl. Rhaid priodoli llawer o'r gwahaniaeth hwn, fodd bynnag, i natur eu testynau. Pan y mae Iolo yn canu ei ganiadau serch, medr fod mor ysgafn a nwyfus ag ydyw Dafydd; ac y mae ei arabedd yn llawn mor finiog.

Teimlir wrth ddarllen cywyddau Iolo na ddarfu iddo erioed feistrolï y cynghaneddion i berffeithrwydd. Nis gwyddom pa mor bell y gorphwysa y bai hwn ar ei gopiŵyr; ond ceir yn ei ganiadau gryn lawer o linellau heb ynddynt ddim cynghanedd o gwbl; ac y mae ei waith yn cael ei fritho gan dwyll-odl. Yn y peth hwn yr oedd mwyafrif o feirdd ei oes, megys Sion Cent, Rhys Goch Eryri, Dafydd Nanmor, ac ereill, i raddau pell yn ddiffygiol; ond

yn sicr nid oedd yr un o'r prif-feirdd hyny yn fwy euog o hyn nag oedd Iolo. Diammeu y gellir rhoddi cyfrif am dano yn y ffaith mai newydd-beth oedd y "mesur Cywydd," a'r "gynghanedd gaeth" berthynol iddo, yn amser Iolo Goch. Yr oedd y mwyafrif o'r beirdd yn y drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ar ddeg yn canu ar fesur anghyfawdl, ac heb ond ychydig gynghanedd. Tybir yn gyffredin, ac y mae sail i'r dybiaeth, mai Dafydd ab Gwilym oedd y cyntaf i ganu ar fesur "Cywydd Deuair Hirion," am yr hyn y gwobrwywyd ef yn Eisteddfod Gwern y Clepa, yr hon a gynhaliwyd, meddir, yn y flwyddyn 1328. Pa fodd bynag, nid ydym yn cael neb o'r beirdd yn arfer y mesur hwn hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Brithir cyfansoddiadau y cyfnod hwn â phob math bron o gynghanedd, megys y "groes rywiog," y "gynghanedd lusg," a'r "gynghanedd sain"—yr olaf, o bosibl, a ganfyddir amlaf. Ac er mai Dafydd ab Gwilym, fel y dywedir, oedd dyfeisydd y "mesur Cywydd," ac er ei fod ar y cyfan yn canu yn esmwyth arno, eto nid ydyw mewn un modd yn rhydd oddi wrth feiau; o blegid brithir ei gywyddau yn fynych â llinellau anghywir. Rhydd hyn sail dros osod i fyny amddiffyniad i Iolo. O bosibl mai efe oedd un o'r rhai cyntaf i fabwysiadu y mesur hwn ar ol i Dafydd ab Gwilym ei ddwyn i arferiad; ac mewn canlyniad, nis gellir dysgwyl iddo ei drin i berffeithrwydd. Ac y mae yn rhaid addef hefyd fod ganddo lawer o linellau wedi eu cynghaneddu yn rymus; ond y mae yr effaith a gynnyrchant yn cael ei ddileu yn aml gan gloffi ac annaturioldeb y rhai a'u dilynant.

Ar ol y sylw uchod ar y wisg, ni a awn rhagom i edrych ar ansawdd ei ganiadau. Iolo Goch, yn ddiammeu, oedd prif fardd gwleidyddol ei oes. Ni chanodd neb o'i gydoeswyr gynmaint ag a wnaeth ef ar y materion oedd yn tynu sylw y cyhoedd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a dechreu y bymthegfed. Pan yr oedd Dafydd ab Gwilym yn ymddifyru wrth anfon llythyrau serch at Ddyddgu, ac yn edmygu gwallt a llygaid Morfudd, yr oedd Iolo yn gwylied gyda phryder yr ymrysonfa yn Ffrainc, ac yn llawenychu yn y fuddugoliaeth a gafodd y Seison yng Nghressy. Ond ei gywyddau i Owain Glyndwr a wnaeth Iolo yn enwog; ac fel bardd Owain Glyndwr yr adnabyddir ef. Eto nis gellir ystyried ei gywyddau gwleidyddol mewn un modd yn hanesyddol. Nid ydynt yn cynnwys ond ychydig mewn cymhariaeth o ddefnyddiau i'r

hanesydd. Nid ydyw yn cynnyg at ddarlunio yr un frwydr; ac nid oes yn ei ganiadau ond ychydig o gyfeiriadau at bersonau a gymmerasant ran yn y gwrthryfel, nac ychwaith at y lleoedd yr ymladdwyd y brwydrau ynddynt. Buasem yn dysgwyl cyfarfod â Reginald de Grey, Iarll Arundel, Arglwydd Powys, a Syr Dafydd Gam; ond ni enwir yr un o honynt. Ni ddywedir wrthym i Ruthyn gael ei llosgi, nag i'r Fflandrwsiaid gael eu gorchfygu ar Pumlumon, ac ni sonir am orchfygiad Syr Edmund Mortimer yn Sir Faesyfed. Yn yr ystyr yma, nid ydyw cywyddau Iolo Goch yn taflu goleuni mor gryf ar ryfeloedd Owain Glyndwr ag a deflir yng nghaniadau Lewis Glyn Cothi ar Ryfeloedd y Rhosynau. Proffwydo am fuddugoliaethau, ac nid dysgrifio brwydrau, a wnai Iolo Goch. Cynhyrfu a symbylu y Cymry i'r frwydr trwy adgoffa iddynt wroldeb eu hynafiaid oedd ei neges; ac nid cynnorthwyo yr hanesydd diweddar i ffurfio barn gywir am yr hyn a gymmerodd le. Nid ei feio yr ydym, ond crybwyll ffaith; ac nis gellir ei feio, o blegid bardd ydoedd, ac nid hanesydd.

Dengys ei gywyddau mawl nad oedd Iolo yn ol i un o feirdd ei oes, nac i feirdd unrhyw oes, am wneithio. Wrth eu darllen, gallem dybied ar y cyntaf nad oedd ei arwyr ond ychydig o raddau yn is na'r duwiau a fawrygai beirdd Groeg a Rhufain. Y mae yn gwastraffu ansoddeiriau i ffurfio gor-ganmoliaeth i'r rhai hyny a'u gwahoddent at eu byrddau. Yn yr adran hon o'i ganiadau, yn gystal ag yn yr adran dduwinyddol, yr ydym yn cael y bardd yn y fath ymdrech i osod allan yr hyn a ewyllysiai, nes y mae yn dyhyspyddu ei adnoddau, ac yn ail adrodd ei hun—a hyny bron yn yr un geiriau. Yn wir, cyfarfyddir â'r un llinellau mewn cywyddau gwahanol yn fynych. Ond hwyrach mai y rhai hyny a ysgrifenasant ei ganiadau o'u cof oedd yn gyfrifol am ran helaeth o'r ail adroddiadau hyn.

Ond nid oes brinder iaith i'w weled yn ei duchan-gerddi—ac y mae ei ansoddeiriau yn fynych yn aflednais a dichwaeth. Nid ydyw "Gargantua" Rabelais yn brin mor aflednais ag ydyw Iolo yn ei ganiadau i "Hersdin Hegl," "Gwyddelyn," a "Madawc." Ond rhaid ei feirniadu yng ngoleuni yr oes yr oedd yn byw ynddi. Rhaid addef nad ydyw ei gywyddau duchan ef yn fwy eithafol, nac yn wir yn brin mor eithafol yn y cyfeiriad hwn, na chaniadau amryw o'i gydoeswyr; yn enwedig eiddo Madog Dwygraig.¹ Nod

¹ *Myv. Arch.*, pp. 324-26.

angen duchangerdd, yn ol safon yr oes bresennol, ydyw gwawdiaith lem, ond eto yn chwaethus; ac nid difriaeth isel a phersonol. Ac nid ydyw caniadau Dafydd ab Gwilym pan yn goganu ei elynion penaf, megys y Bwa Bach a Gruffydd Gryg, yn arddangos y fath ddiffyg chwaeth ag a wneir gan Iolo Goch yn y caniadau a nodasom.

Braidd yn ddiffygiol o chwaeth ydyw Iolo hefyd yn ei gywyddau serch; ond nis gellir cwyno llawer arnynt. Y mae ei iaith yn frasach, yn enwedig pan yn canu i'r "Ferch a wisg yn sientli,"¹ na dim a geir yng nghaniadau serch Dafydd ab Gwilym. Ond dylid cofio ein bod wedi casglu pob cywydd a allasem o waith Iolo; a'n bod wedi rhoddi i mewn ei rai gwaethaf, yn gystal a'i oreuon. Eto y mae genym le i gredu i Dafydd ab Gwilym ganu amryw nad ydynt i'w cael ym mhlith ei weithiau argraffedig. Gwelsom saith o "gywyddau maswedd," y rhai a briodolir iddo; ac nid oes eu hacrach o fewn cylch ein llenyddiaeth.

Y mae Iolo yn ei ganiadau duwinyddol yn ymgodi uwch law yr oll o'i gydoeswyr. Ni chanodd neb o honynt fwy nag a ganodd efe ar destynau crefyddol. Yr unig eithriad—os eithriad hefyd—yw Sion Cent. Yr ydym wedi ceisio ei gyferbynu â Dafydd ab Gwilym am y rheswm eu bod yn gydoeswyr, ac hefyd am yr ystyrir yr olaf—ac yn briodol felly—fel prif fardd ei oes. Ond nis gellir cymharu y ddau ar y pen hwn, a hyny am y rheswm na chanodd Dafydd fwy na rhyw ddwy neu dair o ganiadau crefyddol. Ac yn sicr nid ydyw hyny a ganodd mor gymmeradwy a'r rhai a gyfansoddodd Iolo. Ac ystyried yr oes yr oedd Iolo yn byw ynddi, oes o dywyllwch moesol ac o ofergoeledd, y mae ei ganiadau crefyddol yn ddi-guro. Y maent yn anadlu yspryd defosiynol, gweddigar, a gostyngedig. Y mae rhyw beth ynddynt ag sydd yn ennyn ein cydymdeimlad â'r bardd pan yr ymdrechai am gael cip-olwg ar berffeithiad y saint trwy haeddiant iawnol Crist a gweithrediadau nerthol Yspryd Duw. A cheir ganddo syniad lled glir am ddaliadau crefyddol y cyfnod.

A rhoddi pob peth at eu gilydd, yr ydym yn cael fod Iolo Goch yn sefyll yn y dosbarth blaenaf o feirdd ei oes. Nid ydym yn ystyried ein hunain yn gymhwys i farnu pwy oedd y mwyaf; nac ychwaith i geisio penderfynu ym mha le y saif oddi wrth Dafydd

¹ Cywydd Rhif XLIX.

ab Gwilym. Gwyddom, fodd bynag, i Dafydd ganu llawer mwy nag ef; ac yr ydym yn teimlo fod Dafydd yn fwy celfyddgar. Ond yn nyfnder ac eangder ei feddylddrychau, nid yw Iolo yn ail iddo. Ac y mae y ffaith iddo ganu cymmaint yng nglyn â gwrthryfel Owain Glyndwr, yn gystal a rhagoroldeb ei gywyddau crefyddol, yn rhoddi arbenigrwydd neillduol ar safle y bardd o Lechryd.

Coled dai yr hen feirdd syniadau uchel am Iolo fel bardd. Rhestrir ef ganddynt oll ym mysg y goreuon. Ac yn sier nid ydyw tystiolaeth pobl ereill, yn enwedig pan y gellir ystyried y bobl hyny yn feddiaunol ar farn, mewn un modd i'w diystyru. Coled did syniadau uchel am Iolo gan Dafydd ab Gwilym ei hun. Yn ei gywydd "I un o'r Brodyr Llwydion," sylwa :—

Bydd yr un rhôl ag Jolo,
Defod hardd, hen fardd y fro.¹

Yn ei gywydd "Marwnad Llywelyn ap y Moel" y mae Rhys Goch Eryri yn cyffelybu ei wrthddrych i brif feirdd yr oes, a chenfydd "ym mysg archangylion mair" y rhai a ganlyn :—

Y gwyl Ddafydd ab Gwilym
A Madog Benfras gras grym
A Gruffudd Gryg dyblig daith
Deilwng wlad Bowys dalaith
Rhys uchod loywglood liwglaer
Fab Dafydd Llwyd ysgwyd aer,
A fu yn gofwy annerch
Bob amser drysorser serch
A Iolo wych athro hael
gyweithas a gwiw Ithael
Pan ddel enaid Llywelyn
Pybyr at yr henwyr hynn
I wrandaw gloyw buraw glwys
Py rodiad ar Paradwys
Gyda'r rhain llawn ugain llu
Aethasant i Borth Iesu
Ar hiraeth cywyddiaeth cof
Draig wynedd a drig ynof.²

¹ *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, tudal. 433. Ceir y llinellau hyn, bron yr un fath, mewn cywydd arall o waith Dafydd ab Gwilym, yr hwn a gam-briodolir i Iolo Goch.—Gwel Cywydd Rhif LII.

² *Add. MS.*, 14,970, fol. 13b.

Ac y mae Hugh D'd Llyn ap Madog yn "Cow. Mar. Tudur Aled" yn cymharu Tudur i:—

Ail Iolo o Lewelyn
ag odv/r/ chwith gwenith gwyn.¹

Hefyd yn "Cow. Mar. Tudur Aled" gan Lewis Daron, dywedir:—

Yn gwynedd bonedd ai barch
Yn neheubarth yn hybarch
Bwriwyd Aled brawd Iolo
Byth hyd farn beth wedi fo
Awdur fu hyd ar i fedd
Awduriaeth aed i orwedd.²

A meddai Edward ab Ralph, yr hwn oedd yn gynghaneddwr rhagorol ei hun, feddwl uchel am Iolo. O blegid yn ei "Gywydd Marwnad Sion Tudur a fu farw 1602," nis gallai ddefnyddio iaith gryfach i ganmol ei wrthddrych na'i gyffelybu i Iolo, Rhys Goch, a Dafydd ab Gwilym:—

Pen trysawr, pwyntiau'r oesoedd,
Pen cerdd y dewisgerdd oedd ;
Ail Iolo gynt, ielïau gel,
Neu Rys Goch, iawnrwyg uchel ;
.
Claddu Arch cloddio'r erchwyn,
Cloi ar i gorph, claiar gwyn ;
Er Dafydd, llywydd y llu,
Ym ap Gwilym, heb gelu,
Ni wn, rheibiwyd ni'n rhybell,
Guddio erioed gywyddwr gwell.³

Cyfeirir at Iolo gan Sion Powel o Lansannan, mewn cywydd a wnaeth tua chanol y ddeunawfed ganrif i Mr. Robert Birchinshaw o Voel Hedog, Llansannan, yr hwn a gymhara, ym mhlith ereill, i:—

A Gwalchmai a ganai gerdd
Ddi vloesgaidd o velusgerdd
A Rhys wr dyvrys divroch
Glew ei gerdd ag Iolo Goch.⁴

¹ *Add. MS.*, 14,966, fol. 194b.

² *Add. MS.*, 14,966, fol. 198b.

³ *Y Brython*, cyf. iv., tudal. 466.

⁴ *Add. MS.*, 15,060, fol. 25b.

Ychydig oedd yn fwy cydnabyddus â gweithiau Iolo na Rhys Jones, o'r Blaenau ; a phan yn canu "Cywydd Marwnad Huw Morris y Prydydd," ni anghofiodd ei restru ym mhlith y llu enwogion a roddasant fri ar lenyddiaeth Cymru :—

Cu orhendaidd cywreinddoeth
Oedd Iolo Goch a'i ddelw goeth.¹

Pa fodd bynag, credwn fod digon o werth yng nghaniadau Iolo Goch, yn gystal ag yn eiddo amryw ereill o'i gydoeswyr, i'w cadw rhag difancoll. Heb feddu adnabyddiaeth drwyadl â gweithiau yr hen feirdd, er fod ynddynt lawer o sothach, ac er fod y gwrth-ddrychau a ddysgrifiant yn fynych yn cael eu gorliwio a'u gorganmol, bydd yn annichonadwy i efrydydd hanes ffurfio syniad eglur am Gymru yn yr oesau a fu.

¹ *Dewisol Ganiadau yr Oes Hon* (arg. 1827), tudal. 76.

CANIADAU GWLEIDYDDOL.

I.

CYWYDD MARWNAD SYR RHYS WGAWN A LAS YM
MRWYDR CRESSI YN FFRAINC Y 26^p O AWST, 1346.

NOT IN THE COLLECTION.

(*O'r Add. MS., 15,003, fol. 62.*)

Y MAE y cywydd hwn i'w gael hefyd yn *Add. MS.*, 14,964, dan y penawd "Marwnad Syr Rÿs;" ac y mae yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tud. 13, dan y penawd "Cywydd Marwnad Syr Rhys ab Thomas, o Ddinefwr." Methasom a chael dim o hanes y "Syr Rhys Wgawn," neu "Rhys ab Thomas," hwn; heb law i Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 194) ganu cywydd iddo, yr hwn sy'n dwyn y penawd a ganlyn:—"Dymuniad o foddi y Bwa Bach, a oedd yn myned yn rhyw swyddog gyda Rhys Wgan i Ffrainge a 300 o wyr gantho tan Edw. III." A sylwa golygwyr Dafydd ab Gwilym (tudal. iii.) ar y cywydd hwnw fel y canlyn:—

"The Poem No. 99, addressed to Captain Rhys Gwgan, was composed by our Bard when he was distressed on being deprived of his beloved Morfudd, which is another circumstance deserving attention. This poem invokes the demons of mischief that some misfortune might befall his successful rival Cynfrig Cynin, or Little Hunch-back; whom he wished to expose to the danger of their influence, by sending him with Captain Rhys Gwgan, when the latter joined the English army at the head of three hundred Welshmen to follow Edward III. to France, in one of the wars with that kingdom. The last of the several wars which that prince had with

France commenced in 1369; and it is probable that Dafydd ab Gwilym could not, by reason of his infancy, have written the poem in question at the time of any of the former wars; therefore we must conclude that this was the period in which Captain Rhys Gwgan embarked for France, and consequently the poem was composed about the year 1369."

Rhan o ymresymiad golygwyr Dafydd ab Gwilym ydyw y dyfyniad uchod, yn yr hwn y ceisiant brofi iddo gael ei eni oddeutu'r flwyddyn 1340 ac iddo farw oddeutu 1400—ond fel y cawn ddangos eto (Cywydd Rhif XXVII.) y mae y ddau amseriad a gynnygir yn anghywir. Ymddengys i ni nad ydyw yr oll—neu agos yr oll—o'r "*Sketch*" a ysgrifenyddwyd gan William Owen (y Dr. W. O. Pughe) o flaen *Barddoniaeth* Dafydd ab Gwilym ond ymgais i wneyd i'r naill gamgymeriad brofi camgymeriad arall.

Ond y mae y cywydd canlynol o eiddo Iolo Goch yn penderfynu tu hwnt i bob ammhueuaeth amseriad y cywydd a nodwyd o waith Dafydd ab Gwilym. Cyfeirir yn llin. 9 at Frwydr Cressy, yr hon a ymladdwyd yn 1346; ac yn llin. 27, yr ydym yn cael enw y brenin oedd ar Ffrainc ar y pryd—"Philip oerwib wr." Ond yn ol rhestr o frenhinoedd Ffrainc o'n blaen (*Penny Cyclop.*, vol. x., p. 427), yr ydym yn cael i Philip VI. esgyn i orsedd Ffrainc yn 1328, ac iddo gael ei olynu gan ei fab, John II., yn 1350. Felly yr oedd y Dr. Pughe ym mhell o'i le pan yn amseru mynediad Rhys Wgan i Ffrainc yn y flwyddyn 1369.

Rhaid i ni bellach grybwyll un peth sydd yn ymddangos i ni yn dywyll yng nglyn â'r cywydd canlynol. Gwelir yn y penawd i Rhys gael ei ladd ym Mrwydr Cressy; ac y mae y darlleniad o'r cywydd yn cadarnhau hyny. Ond yn llin. 44, rhoddir ar ddeall iddo gael ei gladdu yng Nghaerfyrddin. Ac ymddengys o'r hyn lleiaf yn ammhheus, os cafodd ei ladd yn Ffrainc, y buasid yn dwyn ei gorff i Gymru i'w gladdu, yng nghanol terfysg a helyntion rhyfel. Os dygwyd ei gorff drosodd, rhaid fod Rhys yn wr o gryn bwysigrwydd a dylanwad. Eto, y mae yn bosibl mai ei

glwyfo a gafodd yn Ffrainc; ac i'r clwyf hwnw brofi yn angeuol iddo ar ol ei ddychweliad adref. Pa fodd bynag, nid ydym yn canfod dim yn y cywydd ag sydd yn taffu unrhyw oleuni ar hyn. Ond y mae yn anlwg oddi wrtho iddo ymladd yn wrol yn Cressy; ac iddo gael ei gladdu yng Nghaerfyrddin. Yn wir, awgryma y bardd ei fod yn y claddedigaeth.

Y mae y cywydd yn un gwerthfawr, yn gymmaint a'i fod yn cynnwys darlun lled gyffrous o'r frwydr a nodir. Ac y mae y ffaith ddarfod i Iolo Goch ganu cywydd marwnad i wr o Sir Gaerfyrddin yn profi fod cylch ei adnabyddiaeth yn eang; ac yn profi hefyd ei fod yn cynmeryd dyddordeb dwfn yn helyntion milwrol a gwleidyddol ei oes. Gallwn amseru y cywydd hwn, gyda gradd helaeth o sicrwydd, tua'r rhan olaf o'r flwyddyn 1346.

Nis gwyddom beth sydd i'w feddwl wrth yr ymadrodd—"Not in the Collection"—sydd wedi ei ysgrifenu gydag inc coch mewn llaw ddiweddarach o dan y penawd, os nad oedd yr un a'i gwnaeth o dan yr argraff mai Dafydd ab Gwilym oedd awdwr y cywydd, ac nad oedd y cywydd i'w gael yn y casgliad o'i weithiau. Gellid tybied oddi wrth rai nodiadau o eiddo Iolo Morganwg ar y cywydd—fel y gwelir eto—ei fod ef yn tybied mai Dafydd oedd ei awdwr. Ond ni ddwygwyddodd i ni ei weled mewn un man yn cael ei briodoli i neb amgen nag i Iolo Goch.

Llyma oerchwedl cenhedlawr¹
 Llas penn Cymry nenn yn awr,
 Gwahanwyd brawd briawd bronn
 4 Ag enaid Llyfr y Ganon,
 Syrthio angel syrth anghlaer
 Syr *Rhys* oedd yn ngwregys aur²

¹ "Cenhedlawr"—cenedlor—cyn-
dad; amddiffnydd teulu.

² "Syrthio angel oedd swrth
anglaer

Syr Rys aur yngwregys aer."

Add, MS., 14,964.

Yn hyn y mae *C. Ll. G.* yn cytuno,
ac eithrio ei fod yn rhoddi "angl"
yn lle "angel." Ac mae y naill
fel y llall yn gadael allan llin. 7
ac 8.

- Wgawn* drynn a roe'r gwyn draw
 8 I'w genedl gwaë o'i gwynaw,
 (a) Gwaë ai gweles Yng *Nghressi*¹
 Gwr diwael mewn trafael tri
 Dâr gwn gyd dan gyngyd Gai Dörgwn in a.
 12 Dewr loywfryd dwyn ei lifrai,²
 Bann wisgawdd rydd ganclawdd Ri
 (b) Balaen uwch llethrbenn Beli,³ Llethrdir in al.

¹ "Yn gressi" yn *Add. MS.*, 14,964. Ar ddiwedd y cywydd, yn yr ysgriflyfr a gymmerwyd yn destyn, y mae y nodyn canlynol, gyda chyfeiriad at y llinell hon:—

"(a) Pan ystyrier pob amgylchiad nid tebyg bod Dafydd ab Gwilym lawer llai na deng mlwyddar hugain oed pan aeth y Bwa bach gyda Syr Rhys Wgawn i Gressi, bu Dafydd dros ryw faint o amser yn ymganlyn a Dyddgu, merch Ifor Hael, &c. cyn iddo erioed weled Morfudd; bu hefyd yn ei chanlyn hithau lawer blwyddyn, tebygid, cyn iddi briodi'r bwa bach.

Pa sawl gwaith er trymgwaith trwch

y ffôais O! coffewch
 rhagddaw'r cawell ysgaw cau
 ai dylwyth fal medelau?

Tebygid wrth hynn, a phethau eraill, mae wedi'r hir erlid ar Ddafydd *druan* ai garchariad, &c. ydd aeth y Bwa bach i Ffrainc, odid fawr nad oedd Dafydd yn ddengmlwydd ar hugain y pryd hynny, sef yn 1346 pan fu ymladdfa Cressi. Wrth hynn gellir casglu geni or Bardd ynghylch y flwyddyn 1316, neu yn hytrach yn gynt, sef o ddeg i bymtheg ar hugain o flynyddau wedi marw Llywelyn ab Gruffudd."

Gwelir yn einsylwadau ar Cywydd Rhif XXVII. fod dyfaliad Iolo Morganwg parthed i amser genedigaeith Dafydd ab Gwilym yn anghywir.

² "Dörgwn gyd dan gyngyd Cai
 Dewr loywbryd mewn dur
 lifrai."—*Add. MS.*, 14,964.

"Dörgwn cyd dan gyngyd Cai,
 Dewr loyw-fryd, mewn dur
 lifrai."—*C. Ll. G.*

Y mae y geiriaduron yn ddystaw am "Dörgwn" a "Dâr gwn." Ai nid ffurff arall ar *dargynnull* (= casglu yng nghyd) ydyw "dargwn?"—yn casglu ei fyddin, fe ddichon a feddylir, dan fwriadu (=cyngyd) am y "cai"—cei (*quay*)—sef, i'r lan.

Y mae "mewn dur lifrai" (livery)—milwr-wisg ddur, yn ymddangos yn well darlenniad na "dwyn ei lifrai."

³ "Pan wisgawdd rydd gam-lawdd ri

Balaen uwch Llethr ben Beli."

Add. MS., 14,964, a *C. Ll. G.*

Tybiwn nas gall y testyn fod yn gywir. Enw ar fath o lysieuyn ydyw "canclawdd"—canclwm—*Knotgrass* (*Persicaria*); ac o bosibl mai "cymmlawdd"—*cynhwrf* a feddylir—sef, y cynhwrf a achosid pan wisgai ei "balaen"—*steel*

- 16 Yno'n braff baladr saffwy
Gwr a welad nid rhâd rhwy,¹
Ag aruthur gael yn ael nos
ag oeri² traed ag aros,
Pan ddaeth at ffrange³ ar trange trwm
- 20 ai lorf ar engyl larwm
Yno y bu cyn tynnu tân⁴
Cynnwrf ymlaen twrf taran,
Arwydd trympau beren bar
- 24 A lluched mellit tân llachar,⁵
Llew brwysg yn llywio a braich
Llu Brenin yn lle Brynaich,⁶

blade, a elwid felly oddi wrth dref Milan, yn yr Eidal, yr hwn le oedd yn enwog am y cyfryw arfau yn y canol oesoedd. (Gwel *Geir. Cymraeg*, D. Silvan Evans, s.v. "Balaen"). Ar ddiwedd y cywydd, yn yr ysgrif a gymmerwyd yn destyn, y mae gan Iolo Morganwg nodyn cyfeiriedig oddi wrth llinell 14, fel hyn :—

(b) "Llethdir Beli — *Belgium*. Belgic Gaul a thir Beli, felly y gelwir y wlad honnogan y Beirdd Cymreig."

¹ "Yno i gweled nid rhad rhwy
Gwr praff wrth baladr saffwy."

Add. MS., 14,964.

"Gwr praff wrth beladr saffwy.
Yno gwelad nid rhad rhwy."

C. Ll. G.

² "Ac oeri."—*Add. MS.*, 14,964,
a *C. Ll. G.*

³ "Ffranc."—*Add. MS.*, 14,964,
a *C. Ll. G.*

⁴ "Ynno y bu cyn tynnu tân."
Add. MS., 14,964.

⁵ "Arwydd trympai borau bar
A lluched melldan llachar."
Add. MS., 14,964.

"Arwydd trympau berau bâr,
A lluched mellit, dân llachar."
C. Ll. G.

Golygir wrth "beren bar," fel y tybiwn, fod ei waywffon yn myned yn llidiog—wrth arwydd (neu floedd) y trwmped. Y mae Gwalchmai yn defnyddio ymadrodd cyffelyb :—

"Ar lad lad lachar ar bar beri
Ar fwyr fwyr fyrigawd ar
fawd fodi."—*Myv. Arch.*,
p. 145.

Ac medd Llywelyn Fardd :—

"Aruaeth ehelaeth wrth y holi
Arueu o deheu bareu beri."—
Myv. Arch., 249.

Yn dilyn llinell 24 yn *Add. MS.*, 14,964, ceir :—

"An galw iw golofn winllys
Glod eurgledd rod Arglwydd
Rŷs."

Ac yn gyffelyb yn *C. Ll. G.*, ond fod "nod" yn cael ei roddi yn lle "rod."

⁶ "A llew braisc yn llywio a
braich

Llu Brenin yn lle Brynaich."
Add. MS., 14,964.

Y mae "brwysg" yn well na "braisg" o ran cynganedd a synwyr. "Braisg" ydyw *teu, praff*, a'r cyffelyb; ond wrth "brwysg" yma y golygir *tanbeidruydd*.

- Gwybu Philib oerwib wr
 28 Ei falais od oedd filwr,¹
 Uthr Benn Dragon² lonn lendyd
 Aeth Paris ar gis³ i gyd,
 Delw Sant Iorys ai Dylaw dwylaw *in ol.*
 32 Ar grog drwy fawr annog draw,⁴
 Ni chiliodd yn wacheliad⁵
 Ni chyrchodd Gwart lart er câd⁶
 Blaidd oedd a threm ddiaiddil⁷
 36 Blaidd y fo a bläodd fil,⁸
 Da oedd ei⁹ gof mewn gofid

¹ "Gwybu Phylip aerwil wr
 Ei falais od oedd filwr."

Add. MS., 14,964.

"Gwybu Phylip aerwib wr,
 Ei falais, od oedd filwr."

C. Ll. G.

"Aerwib"=*darting through the battle*, sydd gywir, yn ddiammeu; nid "aerwil."

² Cyffelybir Syr Rhys yma, o ran ei wrhydri, i Uthr Bendragon, tad y brenin Arthur.

³ Gis=ergyd. Gwel Cywydd Rhif III., llin. 41.

⁴ "Deli Sain Sior ai dwylaw
 Ar grog drwy fawr annog
 draw."—*Add. MS., 14,964.*

"Delw Sain Sior a'i dwylaw,
 A'i grog drwy fawr annog
 draw."—*C. Ll. G.*

Sant Sior, yr hwn a anwyd yn Epiphaneia, yn Cilicia, yn y bed-waredd ganrif. Pan aeth y Croes-gadwyr Seisonig i'r dwyrain yn 1096, cawsant fod coffadwriaeth y Sant yn cael ei gadw, a'i fod yn cael ei dderbyn gan y Cristionogion fel noddwr buddugoliaeth ar faes y gwaed. Fel y cyfryw gwnaeth Edward III. ef yn noddwr Urdd Marchogion yr Ardas; a deuwyd i'w

alw yn nawdd-sant Lloegr. Ym mrwydr Cressy, symbylid y milwyr trwy waeddiadau—"Yn enw Duw a Sant Sior," tra mai arwyddair y Ffrancod oedd, "Yn enw Duw a Sant Denis."

⁵ Yn egwan. "Yr wyf yn teimlo yn wachel" (= *feeble*) sydd ymadrodd cyffredin yn rhai parthau o Gymru.

⁶ "Ni chyrchodd gwart cart er câd."—*Add. MS., 14,964, a C. Ll. G.*

Nis gwyddom pa un ai "lart" ai "cart" sydd gywir; ac nis gallwn ddyfalu eu hystyr yma. Ond oddi wrth rediad y llinell, tybiwn mai y meddwl ydyw na ddarfu iddo ym mhoethder y gâd encilio i ymfyn am adgyfnerthion.

⁷ "Ddieiddil."—*Add. MS., 14,964; "ddi eiddil."—C. Ll. G.*

⁸ "Blaidd oedd fo a blaeuodd fil."—*Add. MS., 14,964.*

"Blaidd oedd fo, bw laddodd fil."—*C. Ll. G.*

Tybiwn fod "bläodd," neu blaiodd, yma yn golygu anrheithio.

⁹ "i."—*Add. MS., 14,964.* Amcan y llinell hon ydyw mynegi ei fod yn gwbl hunan-feddiannol yn y perygl mwyaf.

- ai laif¹ yn gyflawn o lid,
 Uchel oedd niferoedd nêf
 40 Ai aergrefft² uwch helm eurgref
 mi ai gwelais, lednais³ lyw,
 Dydd anrhaith nad oedd unrhyw,
 Yngo fy nghâr yn anghudd
 44 ^{Yng haer}
^{Yng nghaer} fardd Emrys yng ghudd⁴
 Corph mawr ar y llawr gerllaw
 ai genedl yn ei gwynaw
 ai wayw ar gae, gwaë ai gwyl
 48 ai Emys⁵ yn ei ymyl
 ai lem lifaid⁶ drem drydoll
 ai aesawr⁷ ai i'r llawr oll,
 ai bebyll didwyll du
 52 Ner ai faner i fynu,
 ai arwyl⁸ ai hwyl hyloyw
 ai gurai⁹ ai helm las loyw

¹ Glaif=clddyf.

² "Eurgrest."—*Add. MS.*, 14,964,
 a *C. Ll. G.* Eur grest=*the golden crest.*

³ "Ledrais."—*Add. MS.*, 14,964;
 "lednais."—*C. Ll. G.*

⁴ "Ynghor fyngharw yn gyhudd
 Ynghaer fardd Emrys yng-
 hudd."—*Add. MS.*, 14,964.

"Yn nghor fy ngharw yn
 gyhudd,
 Yn Nghaer fardd Emrys yn
 nghudd."—*C. Ll. G.*

Rhoddir mynegiad yma i'r syniad
 ag sydd erbyn hyn yn cael der-
 byniad lled gyffredinol, sef mai
 oddi wrth Myrddin Emrys (Merlin
 Ambrosius), bardd a flodeuai yn y
 bummed ganrif, y cafodd tref Caer-
 fyrddin ei henw.

Tybiwn oddi wrth llin. 41-44 i

Rhys Wgan gael ei gladdu yng
 Nghaerfyrddin; yr hyn sydd braidd
 yn rhyfedd os lladdwyd ef yn
 Ffrainc. Ond gwel ein nodiadau ar
 ddechreu y cywydd.

⁵ "Emys"—y lluosog o *Amws*=
charger, steed, stallion, a horse, &c.
 Dyfyna y Canon Silvan Evans (*Geir.*
Cymraeg, s.v. "Amws") luaws o
 enghreifftiau o lenyddiaeth y canol
 oesoedd, yn y rhai y rhoddir y gair
 "emys."

⁶ "Lefaid" gyda "lifaid?" ar
 ymyl y ddalen.—*Add. MS.*, 14,964;
 "lifaid."—*C. Ll. G.* "Lifaid" (o
 llifo=*whetting*) sydd gywir, mae'n
 debyg.

⁷ "Aesawr"=tarian.

⁸ "Arwyl"=defodau angladdol.

⁹ "Guras."—*Add. MS.*, 14,964, a
C. Ll. G. Guras=llurig (=cuirass

ai seirch¹ yn gyfryw a sur²
 56 ai eisiau yn ei asur,³
 ai enaid ydoedd Ener⁴
 aed ef i wenwlad Nef Ner.

Iollo Goch ai cant.

¹ "Seirch" = harneis ; rhyfel-
 wisgoedd yma, fe allai. Ceir y gair
 mewn gwahanol ffurfiau, megys
gwrymieirch, gwrymseirch, ac weith-
 iau, trwy gamddarllen *s* yn *f*, ys-
 grifenir *gwrymfeirch*.

² "Ddyr" a geir yn *Add. MS.*,
 14,964, ond "Sŷr" yn *C. Ll. G.*,

gyda "lluosrif o seren" fel eglurhad
 ar waelod y ddalen.

³ "Asur" = glas; cyfeiriad, mae'n
 debyg, at ei arfbais.

⁴ "Ener" = cyfrwngdealltwriaeth.
Agent of Intelligence a rydd Pughe
 yn gyfystyr; ond rhydd Richards
Prince, &c.

II.

COW: MOL: SR. HOWEL Y FWYALL RHYFELWR.


(O'r Add. MS., 14,966, fol. 129).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,866, 14,873, 14,964, 14,970, 14,978; yn *Jesus MS.*, C. 101, p. 107; yn *Y Piser Hir*, p. 79; ac yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 11; *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), p. 54; *Y Brython*, cyf. iii., tudal. 350; ac yn *Cymru am Medi*, 1891, tudal. 65. Yn *Add. MS.*, 14,964, ceir y penawd a ganlyn i'r cywydd:—

“CYWYDD I SYR HOWEL Y FWYALL AP GRUFFDD. O 'FIONYDD.—a wnaethpwyd yn Farchog yn Ffrainc gan y Tywysog Edward ap Edward y 3dd. pan ddaliwyd Brenin Ffrainc, e ddywedir mai Syr Howel ai cymerth ag a roes ffrwyn yn ei Ben afael o hono gan y Tywysawg yn ei Orymdaith, Saig iddo ei hun, a Saig yw Fwyall, ag yn ol hynny roddi rhent Melinau Caerlleon Gawr, ac yn ddiweddf Castell Criccieth a'i Berthynasau.”

Nid ydyw amser genedigaeth na marwolaeth Syr Hywel y Fwyall yn hysbys; ac nid ydyw pawb yn cytuno yng nghylch enw ei dad. Dywed Pennant mai ei dad oedd Gruffydd ab Hywel ab Meredydd, tra y tybia Williams, yn ei *Eminent Welshmen*, mai enw ei dad oedd Einion ab Gruffydd ab Hywel. Heb law fod y cywydd canlynol (llyn. 45) yn dyweyd mai Gruffydd oedd ei dad, y mae o'n blaen achres o eiddo y Chevalier Lloyd (*Hist. Powys Fadog*, vol. vi., p. 32), yr hon, os yn gywir, sydd yn cadarnhau golygiad Pennant. Dyfynwn fraslun a honi yma:—

Collwyn ab Tangno, Arglwydd	—	Madlen Benlydan, merch Cynan ab
Eifonydd, &c., oedd yn byw yn		Gwaethfoed, Arglwydd Ceredigion,
Nhŵr Bronwen, Harlech.		a chwaer Ednowain Bendew.



Ond mewn ysgrif a ymddangosodd yn *Y Brython*, cyf. iii, tudal. 207-95, yr "hon a gaed mewn llyfryn teuluol, ym mhlith pentwr o baprau yn Ystymllun, a ddarparasid i gael eu llosgi," dywedir mai tad Hywel y Fwyall oedd Maredydd ab Einion, ac mai ei fam oedd Gwennlian, merch Gruffydd ab Ednyfed Fychan; a thrwy hyn gwneir Hywel yn daid iddo ei hun, os ydyw yr achres uchod yn gywir.

Pa fodd bynag, ymddengys fod Syr Hywel yn rhyfelwr enwog. Dywedir gan rai (*Dwnn's Herald. Visit.*, vol. ii., p. 46, note 8) iddo ddefnyddio ei gad-fwyall yn egniol ym Mrwydr Cressy, lle y gwnaed ef yn farchog ac y derbyniodd y rhoddion a nodir genym rhagllaw. Dichon iddo gym-

meryd rhan ym mrwydr Cressy, yr hon a ymladdwyd yn 1346; ond fe dybir mai am gymmeryd John, brenin Ffrainc, yn garcharor y cafodd Hywel ei greu yn farchog. Os felly, ni wnaed ef yn farchog hyd 1356, pryd yr ymladdwyd Brwydr Poitiers. Ceir crynodeb lled dda o'r hyn a ddywedir yn gyffredin am ei ddyrchafiad yn yr ysgrif y cyfeiriwyd ati yn *Y Brython*, cyf. iii., tudal. 288:—

“Yr hynaf o feibion y Meredydd uchod oedd Hywel, yr hwn oedd filwr dewr, ac a aethai gyda'r Tywysog Du i Frwydr Poitiers, pryd y cafodd Brenin Ffrainc ei gymmeryd yn garcharor. Yn ol tystiolaeth ein cydwladwyr, efe, sef Hywel, a'i cymmerodd; ond pa fodd bynag y bu, ymladdodd mor ddewr gyda'i fwyall, fel yr urddodd y Tywysog ef yn Farchog, ac a orchymynodd i wledd gael ei pharatoi o flaen ei gad-fwyall, neu ei waewffon, er coffadwriaeth am ei wasanaeth a'i wroldeb. Oddiwrth yr achlysur yma y gelwid ef yn Syr Hywel y Fwyall. Yr oedd y wledd, neu'r saig-fwyd hon, yn cael ei chadw i fyny ar ol ei farwolaeth, a'i rhoddi i'r tlodion er lles i'w enaid ef; ac yr oedd yn perthyn i'r saig wyth o osgorddwyr (*yeomen*) yn gwasanaethu ar gost y brenin, y rhai a alwyd ar ol hyn yn Osgorddwyr y Goron; a derbynient wyth geiniog y dydd o gyflog parhäus. Parhaodd hyn hyd ddechreu teyrnasiad Elisabeth, yn ol tystiolaeth y Rhingyll Roberts o Hafod y Bwch, ger Gwrecsam, a Robert Turnbridge o Gaerfallen, ger Rhuthyn.”

Wrth ddarllen y cywydd, er gwaethaf anghyssondeb y gwahanol ddarlleniadau, yr ydym yn cael allan fod Hywel yn fab i ryw Gruffudd, ac ei fod, pan y cyfansoddwyd ef, wedi ei urddo yn farchog, ac yn byw mewn rhwysg mawr yng Nghastell Criccieth; iddo roddi “y ffrwyn ym'hen Brenin Ffrainc”—hyny yw, ei ddal—ac iddo dori penau llawer o'r Ffrancod. Nid ydyw Iolo Goch mewn un modd yn brin o'i ganmoliaeth iddo am ei ddewrder; ac y mae yn cyfeirio hefyd at ei haelioni—yn enwedig o'i win. Wrth hyn, tybiwn i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi wedi i

Hywel ddychwelyd o Ffrainc ar ol brwydr Poitiers—yn sicer nis gallasai fod wedi ei gyfansoddi cyn y flwyddyn 1356.

- A welai neb a wela¹
 yn y nos o iawn a wna²
 pan fum³ mwya⁴ poen a fu
 4 yn hunaw anian henu⁵
 cynta dim a wela yn wir⁶
 caer fowrdeg acw ar fordir⁷
 a gwyr ar fyrddau a gwawl
 8 a chasdell gwyh gorchesdawl⁸
 a glasfor amgylch glwysfaen
 geirw am groth twr gwrwm graen⁹
 a cherdd chwibanogl¹⁰ a chlod
 12 gwawr hoynys a gwr hynod¹¹

¹ "A welai'r neb a wela" ydyw y darlleniad mwyaf cyffredin. Ac y mae y bardd yn cymmeryd arno ofyn, gallem feddwl, beth a welai mewn breuddwyd.

² "Yn y nos pand iawn a wna." *Add. MS.*, 14,970.

"Pand" = pa ond.

³ "Fym."—*Jes. MS.*

⁴ "Mwyaf."—*Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Yn huno anian henu."

Add. MSS., 14,970 a 14,964.

"Yn huno ag yn hyny."

Jes. MS.

Tebyg mai "henu" (=henaidd = *antiquated*) a ddylai y gair olaf fod.

⁶ "Cyntaf y gwela mewn gwir." *Add. MS.*, 14,970.

Credwn fod y testyn yn llawer gwell na'r darlleniad hwn.

⁷ "Caer fawrdeg acw ar fordir." *Add. MS.*, 14,970.

"Caer fowrdeg cai ar fordir." *Add. MS.*, 14,964.

⁸ Yn y rhan fwyaf o lyfrau gosodir y llinell flaenaf yn y ban yn olaf—a hyny, feddyliem, er gwell—er

enghraifft :—

"A chastell gwyh gorchestawl
 A gwyr ar fyrddau a gwawl."

Add. MS., 14,970.

⁹ "A glasfor wrth fur glwysfaen
 Garw am groth twr gwrwm
 graen."—*Add. MS.*, 14,970.

Y mae hwn yn ddysgrifiad cywir o Gastell Criccieth, godreu yr hwn a olchir gan donau gleision y beisfor.

¹⁰ "Chwibiengyl a chod."—*Add. MS.*, 14,970. Cyfeiriad a geir yma at y gerddoriaeth, &c., oedd i'w glywed o fewn muriau y castell.

¹¹ O hyn i'r diwedd y mae y llinellau wedi eu cyfleu mor wahanol yn yr amrywiol lyfrau, fel y llenwai einhollofod i ni nodi yr amrywiaeth. Yn *Add. MS.*, 14,970, ar ol llin. 12, ceir :—

"Rhianedd nid rhai anhoyw
 Yn gwau y sidan glan gloyw
 Gwyr beilch yn chwareu gar
 Barth
 Tawlbwrdd a secr gar tal-
 Barth."

- eres ir oedd heniriad¹
 ar lawr Gwynedd wleddfawr wlad
 toll gwbl ar all gwybod
 16 betwn lle mynwn y mod
 Oes heb yr³ un syberw wyd⁴
 breuddwydiaw yn brydd ydwyd⁵
 y wal deg a weli di
 20 da dyddyn o doed iddi⁶
 ar gaer elgur⁷ ar greigloft⁸
 ar garreg rûdd ar gwrr groff⁹
 hon yw Criciaeth ar gwaith gwiw¹⁰
 24 ai hen adail hon ydyw¹¹
 ar gwr llwyd cadr paladrddellt
 Syr Howel ar mangddel mell¹²

¹ "Eres nad oes henuriad."

Add. MS., 14,970.

² Y mae llin. 15-16 yn cael eu gadael allan yn y mwyafrif o'r ys-grifyfrau.

³ Hebyr=hebai, neu ebai; sef yr "un syberwyd" yn ateb y bardd—yn y llinellau dilynol.

⁴ "Syberwyd."—*Add. MS.*, 14,964. Syberwyd = *high-minded, liberal, beautiful*.

⁵ "Breuddwydio obry 'ddydwyd."—*Add. MS.*, 14,970; "Breuddwydion bur yddydwyd" yn ol *Add. MS.*, 14,964.

⁶ "Da dyddyn a doud iddi."

Add. MS., 14,970.

"Da dyddyn ydoedd iddi."

Add. MS., 14,964.

"Da dyddyn a doid iddi."

Jes. MS.

⁷ "Eglur"—yn y llyfrau ereill.

⁸ "Grogloft."—*Add. MS.*, 14,970. Wrth grogloft yn y fan hon, yn ol R.J., y golygir brig y tŵr.

⁹ "Groft."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ "Hon yw Crucciaith ai gwaith gwiw."—*Add. MS.*, 14,970.

"Honn yw Krikiath gwaith gwiw."—*Jes. MS.*

¹¹ "Hen adail honno ydiw."

Add. MS., 14,970.

"Hen adail honn ydiw."

Jes. MS.

Saif Criccieth yng nghwmmwd Eifionydd, yn y rhan ddeheuol o sir Gaernarfon. Dywedir ei fod yn lle tra hynafol, gan y perthynai i Ednyfed Fychan, yr hwn oedd yr unfed-ar-bymtheg-a-thriugain fel disgynydd o Henwyn, Duc Cernyw, barwn Bryn Ffanigl, ac arglwydd Criccieth. Adeiladodd Ednyfed amddiffynfa yma, yr hon, wedi syrthio i adfeiliad, a adgyweiriwyd ac a gadarnhawyd gan Edward I. (*Geir. Cen. Cymru*, gan O. Jones, cyf. i., tudal. 338).

¹² "Yw Syr Hywel mangddel mell."—*Add. MS.*, 14,970.

"Yw Syr Howel maniwel mell."—*Jes. MS.*

Eglurhad R. J. ar "mangddel" yw "mangnel=battering ram"; ond yr ydym yn methu a chael y gai yn ein geirlyfrau.

- 28 y gwr gwnllwyth twrchllwyth trin¹
 nowswyllt yn rhoi barnaswin²
 mewn gorfflwch³ aur goreurym⁴
 o'i law yn fy llaw yn llym⁵
 ag ysdondardd⁶ hardd hirddu
 32 yn hâl twr da filwr fu⁷
 tri fflowrdilis⁸ oris erw
 yn i sabl⁹ nid ansyberw
 a thri blodeuyn gwyn gwiw
 36 ar ũnllŭn ddail arianlliw¹⁰
 ai wraig¹¹ Syr wregis¹² euraid
 Howel¹³ ion rhyfel yn rhaid¹⁴

¹ "Ar gwn llwyd wr treiglwr trin."—*Add. MS.*, 14,970.

"A gwr gwnllwyd twrch trwyth trin."—*Jes. MS.*

Hwyrach mai cyfeiriad sydd yma at Twrch Trwyth ab Tared Wledic, am yr hwn y dywedir yn "Kulhwch and Olwen" (*Mabinogion*, Oxford edit., pp. 123-5; 135-41). Os felly, y darlenniad yn *Jes. MS.* ydyw y cywiraf; ac y mae *Add. MS.*, 14,964 yn gyffelyb.

² "Nawswyllt yn rhoi barneiswin."—*Add. MS.*, 14,970.

"Farneiswin" yn *Jes. MS.* Barneiswin = math o win Eidalaidd.

³ "Gorfflwch" = *goblet*.

⁴ "Goraurn." — *Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Yn llynn." — *Add. MS.*, 14,970; "fellyn."—*Jes. MS.*

⁶ "Ystondardd." — *Add. MS.*, 14,970. Ystondardd = lluman.

⁷ "Yn nhal twr da filwr fu." *Add. MS.*, 14,970.

"Ynhal twr ysta filwr fu." *Jes. MS.*

Y lluman, neu y faner, yn hongian ar ben y tŵr.

⁸ "Fflwr dilis." — *Add. MS.* 14,964; "fflwr delis."—*Jes. MS.* *Fleur-de-lys* = caminod,—math o flodeuyn a ddygir ym mhais-arfau Ffrainc.

⁹ "Y sabl."—*Add. MS.*, 14,970. "Sabl" (*sable*) = du.

¹⁰ "O'r unllun dail arianlliw." *Add. MS.*, 14,970.

Arfbais Syr Hywel oedd "*Sable*, 3 fleurs de lis *argent*." (*Dwnn's Heraldic Visitations*, vol. ii., p. 46, note 8).

¹¹ Gwraig Syr Hywel, yn ol Lewys Dwnn (*Herald. Visit.*, vol. ii., p. 101) oedd "Tanglwyst verch Davydd gôch ab Howel Vychan ap Howel ap Ieva ap Trahauern ap Cariadog arglwydd Arwystli." Dywedir yn gyffredin i Syr Hywel farw yn ddi-blant; ond yn ol Dwnn, ganwyd o'r briodas hon un mab—"Grufd. ab Sr. Howel," yr hwn a briododd "Nêst verch arglwydd y Cemais yn Sir benvro un o'r Martins oedd hi."

¹² "Wregys."—*Add. MS.*, 14,970.

¹³ "Hywel."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁴ "I'n rhaid."—*Add. MS.*, 14,970.

- 40 ai llawforynion¹ tôn tēg²
 y ddoe en hwy bob deuddeg³
 yn gwai sidan glân gloyw liw⁴
 wrth haul pelydr drwy'r gwydr gwiw⁵
⁶pensel Syr Howel yw hwn pensel, i.e., blaenor.
 44 Myn Beuno⁷ mae/n/ i benwn
 anian vab Gruffudd rýdd rôn⁸
 ymlaen am i⁹ elynion
 yn bwrw y gwayw yn i gwaed¹⁰
 48 aniweirdrefn ion eurdraed¹¹

¹ Llaw forwynion yn *Add. MS.*, 14,964; "Llawforynion." — *Jes. MS.*

² Tôn tēg=croen-lân (*fair skin*).

³ "Ydd oeddynt hwy bob ddeuddeg."—*Add. MS.*, 14,970.
 "Ydd oeddwn yno ddeuddeg."
 —*Add. MS.*, 14,964.

"I ddoeddent hwy bob ddeuddeg."—*Jes. MS.*

Rhaid fod Syr Hywel yn cadw sefydliad eang os oedd y morwynion yn rhifo wrth y dwinau.

⁴ "Yn gwau sidan o'r glanliw."
Add. MSS., 14,970 a 14,964.

Gwel tudal. 106, nodyn 11, mewn perthynas i'r "rhianedd . . . yn gwau sidan." Ond y mae R.J. yn ammen a oeddynt yn gwau sidan mor foreu a hyny; pa fodd bynag, y mae Iolo Goch yn well awdurdod ar hyn nag R.J. Y mae yn wir mai yn y bymthegfed ganrif y ceisiwyd magu y pryf-sidan yn Lloegr; ond nid yw hyny yn profi nad oeddynt yn gwau sidan yma yn gynnarach.

⁵ "Wrth haul belydr drwy'r gwydr gwiw."

Add. MS., 14,970.

"Wrth haul belydr gwydr gwiw."—*Jes. MS.*

⁶ Yn blaenori llin. 43 yn *Add. MS.*, 14,970., ceir:—

"Tau olwg ti a welud
 Ystondardd yr hardd ei sud."

⁷ Beuno oedd un o seintiau y seithfed ganrif, yr hwn a sefydlodd grefydd-dy yng Nghlynnog, Sir Gaernarfon.

⁸ "Anian mab Gruffudd rhudd rhôn."—*Add. MS.*, 14,970. Gruffudd rhudd rôn (=y bicell goch) oedd tad Syr Hywel.

⁹ "Ei."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ "Yn minio gwaew mewn eu gwaed."—*Add. MS.*, 14,970.

"Y minio gwayw yn i gwaed."
Jes. MS.

¹¹ "Anniweirdrefn Iôn eurdraed."
Add. MS., 14,970.

- ysgythrwr cad ysgoethrydd¹
 esgyd ir ai esgyd rydd²
 ysgythred baedd disgethring³
 52 asgwrn hên yn amgen⁴ ing
 pan rodded trwsgeð trowsgainc⁵
 y ffrwyn ym 'hen Brenin Ffrainc⁶
 barbwr fu fal mab Erbin⁷
 56 a gwayw a chledd trymwedd trin⁸
 eillio ai law ai allu⁹
 benau a barfau i bu¹⁰
 a gollwng cynta¹¹ gallai
 60 gwaed tros i draed trisd i rai¹²

¹ "Ysgythrwr cad ait Syr Goethrudd."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Ysgythrwr cad aesaŵr goethrydd."—*Add. MS.*, 14,964.

³ "Ysgythrwr cad ais goethrudd."—*Jes. MS.*

Yn ol darlleniad R. J.—"Ysgythrwr cad ail Syr Goethrudd" a ddylai fod; ac ychwanega ar waelod y ddalen mai Syr Goethrudd, un o farchogion y Ford Gron, a feddylir.

⁴ "Esgud ei droed esgid rudd."—*Add. MS.*, 14,970.

Y mae y bardd yn chwareu yma yn lled gywrain ar y gair "esgyd."—*Esgud* (buan) ei droed mewn *esgid rudd* (goch gan waed).

⁵ "Ysgrithred Baedd ysgethring."—*Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Angen."—*Add. MS.*, 14,970. Darllena llin 51-52 yn *Add. MS.*, 14,964, fel hyn:—"Ysgithredd baedd ysgythrengyt yn asgwrn hên angen engyt."

⁷ "Pan rodded trawsgeð rhwysgainc."—*Add. MS.*, 14,970.

⁸ "Pan roddai drawsgae drysgainc."—*Add. MS.*, 14,964.

⁹ "Y ffrwyn ym mhen Brenhin Ffrainc."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ Geraint ab Erbin. Ceir "Ystoria Gereint vab Erbin" yn y *Mabinogion*.

¹¹ "A gwayw a chledd tromwedd trin."—*Add. MS.*, 14,970.

¹² "A gwaew a chledd tromwedd trin."—*Add. MS.*, 14,964.

"Tromwedd trin"—arfau trymion y frwydr; "trin"—brwydr.

¹³ "Eillio o'i nerth ai allu."—*Add. MS.*, 14,970.

"Ag eillio da oedd y gallu."—*Add. MS.*, 14,964.

¹⁴ "Bennau a barfau y bu."—*Add. MS.*, 14,970.

"Pennau a Barfau y bu."—*Add. MS.*, 14,964.

Eillio y geilw y bardd, mewn modd chwaraeus, y gwaith o dori penau pobl mewn rhyfel—ond ceir yr un sylw ym Mrut G. ab Arthur: "eilliau cenedyl y Saeson o'r Ynys."

¹⁵ "Gynta."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁶ "Y gwaed tros draed trist rai."—*Add. MS.*, 14,970.

- ¹ gwarden yw garw dawn wosgl
a maer ar y drowsgaer drosgl²
cadw gwrsser yn cadwr garsiwn
64 cadw/r/ tir yn hir yn hwn
cadw/r/ casdell gwell na gwyr
cadw/r/ bobl mewn cadair bybyr
cadw/r/ gwledydd oll cadw/r/ gloywdwr
68 a chadw/r/ gaer ieched ir gwr³

Iolo Goch ai Cant.

¹ Yn *Add. MS.*, 14,970 a *Jes. MS.*, blaenorir llin. 61 gan y rhai a ganlyn :—

"Anwyl fydd gan wyl Einort
Aml ei feirdd a mawl ei fort."

Add. MS., 14,970.

"Aml fydd gan wyl eimort
Aml i feirdd a mawl i fort."

Jes. MS.

"Anwyl fydd gan wyl Einort
Am ei feirdd a mawl i'w fort."

C. Ll. G.

² Nid yw llin. 61-62 yn *Add. MS.*, 14,970 a *Jes. MS.*; ond darllenant fel y canlyn yn *Add. MS.*, 14,964 :—

"Gwarden yw garw deunaw osgl
A Maer yn y Drwsgaer drosgl."

³ Terfyna y cywydd yn *Add. MS.*, 14,970 a *Jes. MS.* fel y canlyn, gan adael allan llin. 63-64 :—

"Cadw'r Linsir cedwi Loensiamp
Cadw'r ddwywlad cadw'r gād
cadw'r gamp
Cadw'r mordarw cyd a'r morder
Cadw'r môr drai, cadw'r tai
cadw'r tir
Cadw'r gwledydd oll cadw'r
glewdwr
A Chadw'r Gaer, Iechyd i'r
gwr."—*Add. MS.*, 14,970.
"Kadw dwy lys keidwad loyw-
lamp

Kadwr ddwy wlad cadwr gad
ar gamp

Kadwr gwrsser yn cadwr garsiwn

Kadwr tir yn hir a wna hwnn

Cadwr gwledydd oll cadwr
glewdwr

A chadwr gamp ieched ir gwr."
Jes. MS.

Mewn perthynas i'r gair "Loensiamp" yn y llinell gyntaf o'r darlleniad blaenaf sylwa R.J. fel hyn :—"Loensiamp or lorsiamp, 'a coat of mail'; from *lorica* and *campus*. See Glossary to Dafydd ab Gwilym's Works, page 545." Ac ar ol troi i *Farddoniaeth* Dafydd ab Gwilym, yr ydym yn cael "Llorsiamp [*lorica & campus*, L.] pais-arfau; Ruryg ag arwyddion bonedd yn ddarluniedig arni." Ond y mae darlleniad y *Jes. MS.*—"loywlamp," osyngywir, yngwneyd ymaith â'r eglurhad hwn. Eto, ymddengys i ni wrth rediad y llinellau fod "loensiamp," neu "lor-siamp," yn llawn mor naturiol yma a "loywlamp." Darlleniad R.J. o'r llinell flaenaf ydyw :—"Cadw dwy lirs, ceidwad loensiamp"; a dyfyna o *Waith* Lewis Glyn Cothi (p. 446) er dangos mai meddwl "lir" ydyw *livery*. Ond tebycach genym mai "kadw dwy lys," yn ol darlleniad *Jes. MS.*, sydd gywir.

III.

C. IR BRENIN EDWARD 3.

(*O Lyvr Huw Lleyr.—Add. MS., 14,967, fol. 12.*)

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,866, 14,970, 14,976, a 15,027; yn *Jes. MS.*, C. 101, p. 346; yn *Y Piser Hir*, p. 319; ac yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 14, ac yn *The Works of Iolo Goch* (Robert Jones), p. 59. Y mae y penawd i'r cywydd yn *Add. MS.*, 14,970, fel y canlyn :—

“Cywydd Moliant i'r Brenin Edwart y trydydd, Brenin Lloegr, wedi aerfa Cressi. Efe a goronwyd 1327, ac a ymladdodd yn Ghressi 1346, ac a fu farw 1377.”

Ond, wrth ddarllen y cywydd, ymddengys i ni na chyfansoddwyd mo hono am ddwy flynedd ar bymtheg ar ol Brwydr Cressy. Yn llinell 61, cyfeirir at y gwarchae a fu ar Paris, yr hyn ni chymmerodd le hyd fis Mawrth ac Ebrill, 1360; ac yn llinell 51, dywedir fod “darogan” am ymgyrch i'r dwyrain. Nis gwyddom a feddyliondd Edward III. am ymgyrch Groesgadawl o gwbl; ond, fel y crybwyllir mewn nodyn ar y llinell a nodwyd, yr oedd John, Brenin y Ffrancod, wedi bwriadu ei annog ef i hyny pan yr ymwelodd â Llundain yn 1363. A methasom dd'od o hyd i unrhyw grybwylliad arall am y fath beth yn ystod teyrnasiad Edward. Ac y mae y geiriau—

“O dai i rroec mae darrogan”

yn ein tueddu i feddwl i'r cywydd gael ei gyfansoddi pan yr oedd y son a ledaenwyd yn amser ymweliad Brenin Ffrainc yn dew ar hyd a lled y wlad. Mewn canlyniad, tebyg iddo gael ei gyfansoddi ryw bryd cyn diwedd 1363.

Gellir ei ystyried fel math o adolygiad ar fywyd milwrol y brenin Edward, gan gyfeirio yn neillduol at ei ymgyrch

yn erbyn yr Ysgotiaid, a'i lwyddiant yn Ffrainc. Darlunia y brenin gyda'r lliwiau mwyaf deniadol; fel y gellid meddwl nad oedd neb yn debyg iddo, ac ei fod i raddau uwch law meidrolion. Yr oedd Edward yn frenin gwych, ond prin yr oedd yn teilyngu yr oll a ddywedir am dano gan y bardd. O'r braidd nad ydym yn synu at ddystawrwydd Iolo am Edward, y Tywysog Du—yn enwedig pan gofiwn mai efe oedd arwr aerfa Cressy, yn gystal a brwydrau ereill yn Ffrainc.

- Edwart ap Edwart gwart¹ gwyr
 Ap Edwart² anian bedwyr³
 Edwart wyr Edwart ydwyd
 4 Edwart trydydd llewpart llwyd
 4 Gwisgaist arwraist yr aer
 Krest gwedi kwngkwest kan kaer
 Ar awr dda ar wraidd Ior⁵
 8 Aur⁶ gwnsallt eryr gwinsor⁷

¹ "Gwart"—amddiffynydd.

² Edward ap Edward II. ap Edward I.

³ Yr oedd Iolo, yn ei dyb ef, yn rhoddi canmoliaeth uchel i'r brenin trwy ei gyffelybu i Bedwyr, sef un o ryfelwyr dewraf Arthur. Yr oedd yn dal y swydd o bentrulliad yn llys y tywysog hwnw; ac yn un o'r ddau farchog a ddetholodd Arthur i'w ddilyn i Fynydd St. Michael, yn Normandy, i ddial marwolaeth Helen, nith Hywel ab Emyr Llydaw, yr hon a ddygasid ymaith, ac a lofruddiasid, gan gawr o faintioli anferth. Ac o herwydd ei wroldeb, rhoddodd Arthur, ar ol gorchfygu Ffrainc, Iarllaeth Normandy i Bedwyr. Dywedir wedi hyny, ei fod yn arwain un aden o'r fyddin yn y frwydr yn yr hon y gorchfygodd Arthur y Rhufeiniaid, dan Lucius, yn nyffryn y Seine.

Yn y frwydr hono, yn ol Brut G. ab Arthur, y lladdwyd Bedwyr, trwy gael ei drywanu â phicell gan Boochus, brenin Media; a chladdwyd ef yn Bayeux, yr hon a seiliasai ef ei hun fel prif ddinas Normandy.

⁴ Yn y testyn yn unig yr ydym yn cael llin. 5 a 6.

⁵ "Arwraidd Ior"—yn y llyfrau ereill.

⁶ "Aer"—*Add. MS.*, 14,970; "aur"—*C. Ll. G. ac R.J.*; ac *aur*, mae'n debyg, sydd gywir. *Aur* fel ansoddair i "gwnsallt"—gwsiag filwrol, a ddefnyddid i orchuddio yr arfogaeth, a'r hon oedd yn addurnedig gydag arwyddnodau o anrhydedd. (*Geir. Cymraeg*, D. Silvan Evans, s.v. "Cwnsallt.")

⁷ Ganwyd Edward III. yn Windsor, Tachwedd 13, 1312. Ac oddi wrth le ei enedigaeth gelwid ef yn Edward o Windsor.

- Ithaned othayoni
 Ni vetha twrn vyth i ti¹
 Kael a wnaethost peistew
 12 Kalon a llawfron y llew²
 Baedd y gyfnewid ddi-dwyll
 A phen a synwyr a ffwyll³
 A ffrw lygliw olygloyw
 16 A ffarod twrn a ffryd twyll⁴

¹ "I'th aned o'th ddaioni
 na fetho twrn fyth i ti."

Add. MS., 14,970.

"I'th annedd a'th ddaioni,
 Na fetho twrn fyth i ti."

C. Ll. G.

"Y'th aned o'th ddaioni;
 Na fetho turn fyth i ti!"

R. J.

Gwelir fod anghydwelediad yma yng nghylch dau air—"aned" neu "annedd," a "twrn" neu "turn." Am y blaenaf, tybiwn mai "aned" sydd gywir, a'i fod yn gyssylltedig â'r llinell flaenorol—"Eryr gwinsor i'th aned." Am yr ail—"turn," sylwa Robert Jones ei fod ar y cyntaf yn tybied mai llygriad ydyw o *teyrn*=*sovereignty*; ond ei fod, ar sail awdurdod uwch, yn ei adael yn gyfystyr â "*good turn*." Gwyddom fod "twrn da" yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin yn rhai parthau o Gymru, megys yn Sir Drefaldwyn, er enghraifft, am *gymmwynas*; ac y mae rhediad y testyn yn ein tueddu i dybied mai dyna a feddylir.

² "Cael a wnaethost pest peisdew
 calon a llawfron y llew."

Add. MS., 14,970, ac R. J.

"Cael a wnaethost, post peis-
 dew,
 Galon a llon-fron y llew."

C. Ll. G.

Fe welir fod llin 11. yn y testyn yn rhy fyr o sill, trwy adael "post" allan. "Post peisdew," yn ol *R. J.*, ydyw *gwisg* o anrhydedd—*pais* ddur—"coat of mail."

³ "Baedd y cyfnewid di-dwyll,
 A phen, a synwyr, a phwyll."

C. Ll. G.

Y mae y llinellau hyn wedi eu gadael allan yn *Add. MS., 14,970*, a chan *R. J.*

⁴ Y mae yn amlwg ar yr olwg gyntaf fod y llinellau uchod yn wallus yn y testyn.

"A ffrw lygliw olygloyw
 a phryd dawn, a phriod hoyw."

Add. MS., 14,970, ac R. J.

"A ffrw lyglyw o lu gloyw,
 A phriod dawn a phryd hoyw."

C. Ll. G.

Ymddengys i ni mai y blaenaf o'r ddau ddarlleniad yma ydyw y cywiraf; y mae yn rhoddi dysgrifiad ffafriol o berson Edward, ac yn cyfeirio yn ganmoliaethus at ei wraig—Philippa o Hainault.

- A phob iaith kydymaith kadr
Engylaidd wyd yngwaladr¹
Kevaist gôst kevaist gystec
20 Yn echrau does yn wychr dec²
Yn ostwng pobl³ anystwyth
lloegr a ffraingk⁴ lle gorreu ffrwyth
Kof a *chyviw* heddiw hynn kyvedliw
24 Bob ail brwydr gan bobl bryn⁵ Brydyn

¹ "A phob iaith cydymaith kadr
Engylaidd wyd yngwaladr."

Add. MS., 14,970,
ac *R.J.*

A cheir y nodyn a ganlyn ar
ymyl y ddalen yn 14,970 :—

"Efe ai Dad a wyddynt yr iaith
Gymraeg.—E E."

Yr "E.E." hwn, mae'n debyg,
oedd Ieuan Brydydd Hir; ond, pwy
bynag ydoedd, ymddengys i ni y
byddai yn lled anhawdd profi ei
haeriad. Y mae darlleniad *C.L.G.*
o'r llinellau hyn yn dragwahanol :—

"A phob iaith, cydymdaith kadr,
Yn nglaid i ti fyngwaladr."

Yn dilyn llin. 18, ceir a ganlyn
yn *C.L.G.* :—

"Ac o wychdawd brawd brydoer,
Angel da yn ngwely dwr oer."

² "Cefaist gost, cefaist gysteg
yn nechreu d'oes yn wychr
deg."—*Add. MS.*, 14,970.

R.J. yn gyffelyb, oddigerth ei
fod yn rhoddi "Cefais" yn lle
"Cefaist" yn nechreu llin. 19. Y
mae *C.L.G.* yn dilyn *Add. MS.*,
14,970, yn hollol yn llin 19; ond
gwahaniaetha oddi wrth y lleill yn
llin. 20 :—

"Yn nechreud'oes, iawn ochrdeg."

Cyfeiriad sydd yn y llinellau hyn
at y "cysteg" = (*trouble*) a brofodd
Edward yn ei ieuenctyd. Diorsedd-
wyd a llofruddiwyd ei dad cyn iddo

ef gyrhaedd ei hymtheng mlwydd
oed; ddwy flynedd yn ddiwedd-
arach rhoddwyd ei ewythr, Ed-
mund, Iarll Caint, i farwolaeth; yr
oedd ei fam—Isabella o Ffrainc, yn
byw mewn godineb gyda Roger de
Mortimer, Iarll March; ac nid
ychydig o boen a gafodd i'w gorch-
fygu fel ag i gael yr awdurdod i'w
law ei hun. Ni lwyddodd i ennill
yr oruchafiaeth hon ar ei fam a'i
chariad hyd agos i ddiwedd 1330,
pryd y carcharwyd y naill yn e-
thŷ ei hun yn Risings, ac y dien-
yddwyd y llall.

³ "Pobl" yn *C.L.G.*; "pawb"
yn *Add. MS.*, 14,970, ac *R.J.*

⁴ "Ffraingc"—*Add. MS.*, 14,970,
C.L.G., ac *R.J.*

⁵ "Cof cyfedliw heddiw hyn
bob ail brwydr gan bobl
Brydyn."

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

"Caf cyfedd-lyw heddyw hyn,
Bob ail brwydr gan bobl
Brydyn."—*C.L.G.*

"*Cof cyfedliw* heddiw hyn,
Canllaw brwydr, can holl
Brydyn."—*Geir. Cymr.*,
Silvan Evans.

"Cof cyfedliw"—a *memorial of*
reproach—cof am ymddygiad gwar-
thus pobl Brydyn, sef yr Ysgotiaid,
gyda'r rhai yr oedd Edward mewn
rhyfel parhaus.

- A wnaethost ni buost bwl
 Ar ael Iork arrial er kwl¹
 Dyludor llu lle bur baych
 28 Dal yr brenin *duluer* brynaych² dileu
 Dolurio rrai daly eraill
 llusgor llu oll llosgir llaill³
 Kuro a blif ddylif ddelw
 32 Kerric Kaer verwic vurwelw⁴
 rroest ar gythlwng restr gwythlawn

¹ Nid ydyw llin. 25 a 26 yn y llyfrau ereill. Ai "arial Ercwl" a ddylai fod ar ddiwedd llin. 26?—arial = *courage* ; Ercwl = Ercwlf (*Hercules*).

² "Difa eu llu lle bu a baich dal Brenin dileu Brynaich." *Add. MS.*, 14,970.

"Difa eu llu lle bu'r baich Dal brenin, dileu brynaich." *C. Ll. G.*, ac *R. J.* yn lled debyg.

"Brynaich," neu Bryneich (= *Bernicia*)—oedd dalaeth hirgul ar hyd glanau'r môr dwyreiniol, yn cyrhaedd ar y cyntaf hyd at y Tweed; ond wedi hyny estynwyd hi tua'r Firth of Forth hyd y Lammemoors. Gelwir hi yn yr Anglo-Saxon Chronicle, Anno 547, yn "North-humbria." Cyssylltir hi yn fynych gan yr hen feirdd a haneswyr gyda Deifr (*Deira*), yr hon wlad, yn ol Carnhuanawc (*Hanes Cymru*, tudal. 277), oedd yr un a Northumberland yn awr; ond dywed Turner (*Hist. Anglo-Sax.*, bk. iii., ch. 4, A.D. 247), mai y rhanbarth hwnw a derfynai ar yr Hymyr ydoedd. Y mae Gweirydd ap Rhys drachefn o'r farn (*Hanes y*

Brytaniaid a'r Cymry, cyf. ., tudal. 262) fod Deifr yn yr hen amseroedd yn cynnwys parth gogleddol Sir Gaerefrog a Sir Lancaster, holl Westmoreland, Cumberland, a Durham, o'r Hymyr yn y dwyrain a'r Ribble yn y gorllewin, hyd y Tyne a'r mur deheuol.

³ "Dolurio rhai dal eraill llusgo'r Iairll oll llosgi'r lleill." *Add. MS.*, 14,970.

Yn ysgriflyfrau y cyfnod hwn, ac yn ddiweddarach, defnyddir *rr* yn lle *rh*—rrai = rhai.

⁴ "Curaist a blif ddylif ddelw cerrig Caer Ferwig furwelw." *Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

"Curaist a blif ddylif ddelw, Cerig Caer Ferwig, cur ferw." *C. Ll. G.*

"Blif" (= *catapult*)—offeryn milwrol i dafu ceryg, &c.; a "maen blif" y galwai Hywel Swrdwal gareg, neu fwled, a defnid o un o'r offerynau hyn. *Geir. Cymraeg*, D. Silvan Evans, s. v. "Blif". Dyweyd y mae Iolo fod y ceryg yn cael eu tywallt fel dylif ar furiau Caer Ferwig (= *Berwick-on-Tweed*)—"ddylif ddelw"—fel, neu yn debyg i ddylif.

- Ar vor rudd aerva vawr iawn¹
 Gelyn vuost ir galais
 36 O gael y dre golau drais²
 Grassus dy hwyl ir gressi
 Gras Duw tec gan grist i ti³
 Llithiodd dy vyddin lin lem
 40 Vrain byw ar vrenin boem⁴
 Perigl vu i byrth Parris
 Trwst y gad lle trewaist gis⁵

¹ "Rhoist ar gythlwngh rhwystr
 gwythlawn
 ar Fôr rudd aerva fawr iawn."
Add. MS., 14,970.

"Rhoist ar gythlwngh, rhwystr
 gwythlawn,
 Ar for Udd aerva fawr iawn."
C. Ll. G. ac R.J.

Môr Udd—the English Channel.
 Yn *Text of the Bruts*, p. 41, ceir
 "o vor rud hyt ar vor Igerdon."
 Aerfa=brwydr.

² Gyferbyn a "Galais" yn *Add. MS.*, 14,970, ceir y sylw a ganlyn ar ymyl y ddalen:—"Galais & not Calais in all old MSS." Pan gymmerodd Edward Galais gorchymynodd fod i chwech o'r prif fwrdeisiaid gael eu dwyn ger ei fron, heb ddim ond eu crysau am danynt, gyda chortynau am eu gyddfau, ac agoriadau y dref a'r castell yn eu dwylaw; a phan y daethant, archodd dori eu penau ymaith. Pa fodd bynag, ar daer ymbiliad y frenhines, rhoddwyd hwynt i fyny iddi hi, yr hon a'u gollyngodd yn rhydd gydag anrhegion. Arosodd y brenin a'r frenhines yn Galais hyd enedigaeth eu merch, yr hon a alwyd wedi hyny yn Margaret o Galais. (*Comprehensive Hist. Engl.*, vol. i., pp. 468-70).

³ "Grasus dy hynt i Gresi
 gras teg a rydd Grist i ti."
Add. MS., 14,970.

"Grasus dy hynt yn Gressi
 Gras teg a rydd Grist i ti."
R.J.

"Grasus dy hynt i'r Gresi,
 Gras teg sydd gan Grist i ti."
C. Ll. G.

Yn *Add. MS.*, 14,970, ac *R.J.*, y mae llin. 41 a 42 yn blaenori y rhai hyn. Ac yn ol trefn amseryddol dylasai y crybwylliad am frwydr Cressy, yr hon a ymladdwyd Awst 26, 1346, gael ei osod o flaen ymstyngiad Calais yn nechreu Awst, 1347.

⁴ "Llithiodd dy fyddin lin lem
 frain byw ar frenin Boëm."
Add. MS., 14,970,

lle y gosodir "Bohemia" ar ymyl y ddalen i egluro *Boëm*. Cyfeithir y llinellau hyn gan *R.J.*, yr hwn a ganmola y farddoniaeth a geir ynddynt, fel y canlyn:—"Thine army, a fierce brood, enticed the ravens on the King of Bohemia."

⁵ "Perygl fu i byrth Paris
 trwst y gad lle trewaist gis."
Add. MS., 14,970.

Gwersyllodd y milwyr Seisonig o flaen Paris ar y dydd olaf o Fawrth, 1360. Nid oeddynt hwy yn ddigon

- Ehedy mor hy ydwyd
 44 Hyd yn nef e hedyn wyd¹
 Weithian nith gyvoethir
 Ni thyr dyn *derfyr* dir² *derfyn dy*
 Gwnna dithau deddvau dy daid
 48 Doethineb da ithenaid³
 Kymod a duw nid kamoos
 Kymer yn dy gryvder groes⁴
 O dai i rroec mae darrogan
 52 Darrw glew y keffy dir glan⁵

cryf i'w chymmeryd, ac yr oedd y Ffrancod yn rhy gall i fyned allan i ymladd; felly ymadawodd Edward a'i fyddin i gyfeiriad Brittany. (*Comprehensive Hist. Engl.*, vol. i., p. 475.)

Cis=ergyd. Cyfieithir y ban hwn gan y Dr. Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Cis") fel hyn:—"There was danger to the gates of Paris from the tumult of the battle where thou didst strike a blow."

Gwel Cywydd Rhif I., llin. 30.

¹ "Ehedaist mor hy ydwyd hyd y nef ehedyn wyt."

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

"O hedaist, mor hy ydwyt, Hyd y nef, ehedyn wyt."

C.Ll.G.

² "Weithian nith ddigywoethir ni thyr dyn derfyn dy dir."

Add. MS., 14,970.

"Weithian ni'th ddynoethir Ni thyn dŷn derfyn dy dir."

C.Ll.G.

Y mae yn amlwg fod y testyn yn anghywir wrth roddi "nith gyvoethir," gan mai y gwrthwyneb a fwriedid gan y bardd.

³ Y mae y llinellau 47 a 48 yn diweddu y cywydd yn *C.Ll.G.*; ac yn y gwaith hwnw yn gystal ag

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*, ceir "doniau dy daid" yn lle "deddfau dy daid." Cyngor a roddir yma i'r brenin i ddilyn yr un cwrs a ddilynwyd gan Edward I.

⁴ "Cymmod a Duw nid kamoos Cymmer yn dy gryfder groes."—*Add. MS.*, 14,970.

Sylwa *R.J.*, yn lled briodol, nad ydym i dybied fod Iolo yma yn bwriadu i Edward gymmeryd i fyny y Groes yn yr ystyr yr oedd Crist wedi defnyddio y geiriau, ond yn hytrach yn ei annog i ymuno yn y Croesgadau; gan ddsgrifio y sefyllfa yn yr hon y byddai iddo gael Groeg, Jerusalem, Bethlehem, ac yn y blaen. Ac ychwanega fod y gwrhydri a gyflawnodd y brenin yn Ysgotland a Ffrainc yn sail i'r Bardd ddysgwyl pethau mawr oddi wrth ei ymgyrch.

⁵ "Od ai i Roeg mae darogan Darw glew y ceffi Dir glân."

Add. MS., 14,970.

O herwydd fod y brenin John o Ffrainc yn analluog i gyflawni ammodau ei ryddhad, y rhai a gyttunwyd arnynt rhwng brenin Lloegr ac yntau yn 1360, daeth droesodd i Lundain yn y flwyddyn 1363, i roddi ei hunan i fyny i

- A goresgyn or grwysciaith
 Caer Selem hyd vethlem vaith¹
²Dwc yn angred dogyn angraifft
 56 Dyrro wyr dros dy yr Aifft
 Kerdda dalm dros yr Almaenn
 Kalon blaidd kalynn y blaenn
 Kyrch hyd ymin Kors dinobl
 60 Kar bron kaer babilon kur bobl
 Tarrw gwyth kethyr tu ar gwyr
 Tor vaennwaith tai r rruveinwyr³
 Kyn dy varrw y kai arwain
 64 Y tair korron kowair kain⁴

Constinobl

Edward. Gobeithiai cyn cychwyn y gallasai ddarbwylio Edward i ysgafnhau yr ammodau, a bwriadai ymddyddan ag ef yng nghylch ffurfio Croesgad newydd. Pa fodd bynag, rhoddodd brenin Lloegr dderbyniad croesawgar iddo; ond ni wyddom a fu rhyw ymdrafodaeth ddifrifol parthed i'r Groesgad ai peidio. (Gwel *Comprehensive Hist. Eng.*, vol. i., p. 475; *Annals of England*, vol. i., p. 393.) Credwn mai rhyw sibrydiad a ledaenid ar yr ymweliad hwn o eiddo Brenin Ffrainc oedd sail Iolo Goch dros ddyweyd fod "darogan" yn llin. 51.

¹ Yn *Add. MS.*, 14,970, *C. Ll. G.*, ac *R. J.*, y mae dwy linell arall yn blaenori y rhai hyn, fel y canlyn:—

"A'r Iuddewdref arw ddirist
 a theimlo y grog a theml Grist
 A goresgyn ar grwysgaith
 Gaerusalem Fethlem faith."

Add. MS., 14,970.

Ond y mae y darlleniad yn *C. Ll. G.* yn dra gwahanol. Tybia *R. J.* mai wrth "grwys-gaith" y golygid y *groes gaeth*, neu Groes Crist yr

hon oedd ar y pryd ym meddiant y Saraceniaid, fel y tybid.

² Nid ydyw llin. 55-58 yn *Add. MS.*, 14,970, *C. Ll. G.*, na chan *R. J.*

³ Y mae y darlleniadau yma yn amrywio cryn lawer:—

"Tarw gwyth ceffi'r tir ar gwyr
 tor fanwaith tai'r Rhufeinwyr
 Cyrch hyd ym min Constinobl
 cer bron Caer Bablon cur
 bobl."—*Add. MS.*, 14,970.

"Tarw gwyth, ceffi'r tir a'r gwyr,
 Tor fael-waith, tai rhyfelwyr,
 Cyrch hyd fin Constantinobl,
 Ger bron Caer Bab'lon, cur
 bobl."—*C. Ll. G.*

Nid ydyw y ffurf "Kors dinobl," o angenrheidrwydd, yn profi gwall yn y testyn, o blegid ceir "amheraŷdyr corstinobyl" ym "Mrut y Saeson" (*Text of the Bruts*, p. 396)

⁴ "Cyn dy farw y cai arwain
 y tair coron cywair cain."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"Cyn dy farw y cei arwain,
 y tair coron, cywrain cain."

C. Ll. G.

- A ddwgant ar hynt rrwydd
 Ar deirgwlad er duw arglwydd¹
 Tiriownrwydd y tair anrec
 68 Voth gleddir yn y tir tec²
 rrwng y tri teilwng telaid
 Brenhinedd anrwydd raid³
 I wenwlad nef ef a vedd
 72 Ynno iddi ynny diwedd⁴

ddugon gynt

a'th gledd
 hil teyrnedd
 teg

Iolo Goch ai kant.

¹ "A ddygwyd gynt ar hynt
 rhwydd
 ar deirgwlad er Duw Ar-
 glwydd."—*Add. MS.*, 14,970,
R. J., a *C.L.G.*

² "Tirionrwydd ar tir anreg
 a'th wedd Frenin Teyrnedd
 tég."—*Add. MS.*, 14,970.

"Tirion-rhwyydd a'r tair anrheg
 A'th wedd, frenin teyrnedd
 teg."—*R. J.*

"Tirionrwydd o'r tair anrheg,
 A'th gledd, hil teyrnedd teg."
C.L.G.

³ "Teilwng rhwng y tair talaith
 frenin Cwlen fawrwen faith."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"Rhwng y tair teilwng talaith,
 Frenin Cwlen fawr-nen faith."
C.L.G.

Cwlen = Cologne.

⁴ "I wenwlad Nêf ef a fedd
 Y doi yno'n y diwedd."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"Yno i doi yn y diwedd."
Add. MS., 14,976.

IV.

CYWYDD MOLIAN T ROSIER MORTIMER IARLL Y MARS.

(*O Lyvr Huw Lleyr—Add. MS., 14,967, fol. 15*).

Nid oes benawd i'r cywydd hwn yn yr ysgrifiyfr uchod ; ond cymmerasom y penawd sydd uwch ei ben yn *Add. MS.*, 14,970. Y mae i'w gael hefyd yn *Add. MSS.*, 14,894, 14,971 ; yn *Y Piser Hir*, p. 322, ac yn argraffedig yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), p. 45.

Yn *Hist. Powys Fadog*, vol. iv., p. 3, cawn gryn lawer o fanylion am hynafiaid Mortimer, a gymmerwyd o *Dugdale's and Banks' Extinct Baronies*, o'r rhai, gyda *Bright's English History*, ac ychydig o fân gofnodion ereill, y ceisiasom dynu allan yr achres a ganlyn :—

Roger de Mortimer, sylfaenydd Mynachlog St. Victoire, yn Normandy.

Ralph de Mortimer, a ddaeth i Loegr gyda William y Gorchfygwr, i'r hwn y rhoddwyd etifeddiaethau Edrich, Iarll Amwythig ac Arglwydd Wigmore. Efe a adgyweiriodd Gastell Dyrecke ym Maelienydd.

Hugh de Mortimer. Bu farw Chwefror 26, 1181.

Roger de Mortimer, Arglwydd Cleobury Mortimer a Wigmore. Bu farw Gorphenaf 8, 1215.


Hugh de Mortimer, a fu farw yn ddiblant Tachwedd 4, 1227.

Ralph de Mortimer yr hwnafuynmladd yn erbyn y tywysog Llywelynab Iorwerth, a'r hwn a adeiladodd Gestyll Cefn y Llys a Cnwclas, ym Maelienydd. Bu farw Awst 8, 1246.

Gwladys Ddu, gweddw Reginald de Braose, Arglwydd Brycheiniog, a merch Llywelyn, tywysog Cymru, trwy yr hon y daeth etifeddiaethau yng Ngheri a Chedewen i deulu y Mortimers.

a

Q



Ganwyd Roger Mortimer, pedwerydd Arglwydd March, yn Brynbuga, Sir Fynwy, Ebrill 11, 1374 ; am y rheswm hwn, yn ddiammeu, y gelwir ef gan Iolo Goch (llin. 10) yn "flaguryn Buga." Efe a fedyddiwyd gan William, Esgob Henffordd, pan y safai Esgob Llandaf ac Abad Caerloyw yn dadau bedydd iddo, a phriores Brynbuga yn fam fedydd. Yn 1385 penodwyd ef yn Arglwydd Raglaw yr Iwerddon; ac yn 1386, efe a gyhoeddwyd gan y Senedd yn etifedd y goron, yn rhinwedd ei haniad o Lionel, Duc Clarence. Wedi gwneuthur gwrtogaeth, a derbyn meddiant cyfreithiol o'i holl diroedd, yn y flwyddyn 1396, efe a ganlynodd y brenin, Richard II., i'r Iwerddon, gyda gosgordd o ddau lumanwr, wyth o farchogion, deunaw a phedwar ugain o ysweinïaid, dau gant o saethyddion ar feirch, a phedwar cant o wŷr traed. Ac y mae yn debyg mai oddeutu yr amser hwn y cyfansoddwyd y cywydd a ganlyn. Yr oedd yr Iwerddon mewn sefyllfa led derfysglyd ar y pryd; a lladdwyd ef gan yr O'Briens, yn Carlow, tra yn ceisio darostwng haid o wrthryfelwyr, yn 1398. Bu ei farwolaeth yn achlysur i Richard II. fyned i'r Iwerddon yn 1399; ac ar ei ddychweliad oddi yno y cymmerwyd y brenin yn garcharor gan Harri Bolingbroke.

Y mae y cywydd canlynol yn llawn o iaith ganmoliaethol; a gosodir Mortimer allan fel rhyfelwr yn y lliwiau cryfaf—rhy gryf o lawer, gallem dybied, i lanc dwy ar hugain oed. Nid oedd Iolo un amser gymmaint wrth ei fodd a phan yn moli rhyfelwyr ac yn annog i ryfel, er ei fod yn perthyn i urdd a alwant eu hunain yn "Feirdd Heddwch."

Syr Rossier asur aessawr¹

Syr Rosier Mortmer mawr²

¹ "Syr Rosier asur aessawr."

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*
Rhoddir "Risiart" mewn cam-
gymmeriad am "Rossier" yn *Add.*
MS., 14 971.

² "Fab Rosier Mortimer mawr."
—*Add. MS.*, 14,970, ac *R.J.*

Sylwa *R.J.* mai nid mab, ond
ŵyr, ydoedd i Rosier, neu Roger
Mortimer, ac fe welir, yn yr achau,
ei fod yn gywir yn hyn. Ond
dywed fod "fab" yma i'w ddeall
fel ŵyr. Nid oes angenrheidrwydd
am yr eglurhad hwn os derbynir

- 4 rrosier ieuangk plangk plymlwyd
 Sarff aer o hil syr raff wyd¹
 Ros arglwydd rosier eurglaer
 Rysswr kwngkwerwr kan kaer²
 Kolon yngylion englont
 8 Ai ffenn kynheiliad ai ffont³
 Perbren dawn pair obry da
 Por gwyn blaguryn buga⁴
 Edlingwalch o deilyngdwaed
 12 Eryr trin oreurraid traed⁵

darlleniad y testyn ; a thybiwn mai yr un "Rosier"—sef gwrthddrych y cywydd—y cyfeirir ato yn y tair llinell flaenaf. Pa fodd bynag, y mae y llinell, yn ol y testyn, yn rhy fer o sill o herwydd fod "Mortmer" yn cael ei roddi yn lle "Mortimer."

¹ "Rosier ieuancplancplymlwyd, Sarph aer o hil Syr Raff wyd." *Add. MS.*, 14,970.

Y mae "planc" yn enw a roddir gan y beirdd i ddynodi hoenusrwydd a nerth ; "planc"=*young steed*. "Plymlwyd," am "Plymnwyd," yn ol *R.J.* a olyga *ymgyrch*, yr hwn sydd yn cyd-darddu, os nad yn hanu o'r Groeg *polemos* a'r Lladin *bellum*. Sarff (o ran ei gyfrwysder), ac aer o hiliogaeth Syr Raff (=Ralph).

² "Rhoes Arglwydd y Rhos eurglaer

Rhyswr cwncweriwr can caer."—*Add. MS.*, 14,970.

"Ros arglwydd, Rosier eurglaer,

Rhyswr, cwncwerwr can caer."—*R.J.*

Nid ydym yn deall y llinell flaenaf, ac nis gallwn ddyfalu pa ddarlleniad ydyw y goreu. Wrth "Rysswr" y deallir *pencampwr* ; a meddyliwn mai tipyn o ormodiaith

yn y bardd oedd son am y "can" caer." Ceir ymadrodd cyffelyb yn Cywydd Rhif III., llin. 6.

³ "Colon Engylion Englont

Ai phen cynheiliad ai phont."

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

Colon=colofn : tybia *R.J.* oddi wrth "Engylion Englont" fod y bardd yn hysbys o'r hen ddywediad hwnw—"Non Angli, sed angeli."

⁴ "Per bren dawn pair obry'n da

Por gwyn Bagluryn Buga."

Add. MS., 14,970.

Fel hyn y mae *R.J.* yn dyfalu yma :—"Buga. It is impossible now to make out whom the poet meant by *Buga*. It could scarcely have been 'Boadicea,' as Mortimer—his very name implies it—seems to have been of Norman extraction." Ond pe buasai *R.J.* yn troi ei olwg i gyfeiriad Brynbuga, a elwir yn gyffredin Usk, yn Sir Fynwy, buasai yr anhawsder yn darfod. Yr ydym eisoes wedi crybwyll mai yno y ganwyd Syr Rhosier ; ac felly gwelir y priodoldeb o'i alw yn "flaguryn Buga."

⁵ "Edlingwalch o deilyngwaed

Eryr trin oreuraid traed."

Add. MS., 14,970.

- Arrwraidd dy luniaidd law
Wyr burffrwyth Ior Aberffraw¹
Draic yn ysoedd yr eigiawn
16 Dragwn aer darrogan iawn²
Y ddwyf madws yt ddyvod
Cymry lle ryglydd y glod³
Mab vuost doethost i dir
20 Gwr bellach a grybwyllir⁴
Gwr grym myn gwyar y groc⁵
Balk⁶ arnad bual⁷ kornioc
Nid oes ond eissiau arver
24 O arvau prydverth nerth ner⁸
Gwisgo arvau o gwesgir
Ai kynnydd val kyrn hydd hir
A thorri myn di mewn dur
28 Baladr sokedgadr Kadarn⁹

¹ Aberffraw oedd preswylfod hen dywysogion Gwynedd. Ac yn ol fel y dywed Bridgeman (gwel ein sylwadau rhagarweiniol i Cywydd Rhif VIII.) yr oedd Mortimer yn hanu o hen dywysogion Gwynedd, trwy i Ralph de Mortimer briodi Gwladys, merch Llywelyn ap Iorwerth.

² "Draig ynysocedd yr eigiawn Dragwn aer darogan iawn."
Add. MS., 14,970, ac *R.J.*
Tebyg fod llin. 12, 15, a 16 yn cyfeirio at arwyddluniau oedd ar ei faner.

³ "Ydd wyf, madws yt ddyfod I Gymry rhyglyddy glod."
Add. MS., 14,970, ac *R.J.*
Mynegiad syml sydd yma mai da i Gymru oedd fod y fath fab wedi ei eni ynddi, ac y byddai ei glod yn uchel ynddi.

⁴ "Mab fuost, daethost i dir, Gwr bellach a grybwyllir."
Add. MS., 14,970, ac *R.J.*
Cyfeirir yma at ddyfodiad Syr Rosier i'w oed, yr hyn a gymmerodd

le, gan iddo gael ei eni yn 1374, yn y flwyddyn 1395.

⁵ "Gwyar y grog."—*Add. MS.*, 14,970 : h.y., gwaed y groes.

⁶ "Balc," yma yn gyfystyr ag *enwogrwydd*.

⁷ "Bual"—ych gwyllt (= *buffalo*).

⁸ "Nid arf ond eissiau arfer O arvau prydferth nerth Ner."
Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

Yn ol y darlleniad hwn, fel y sylwa *R.J.*, y mae yr awdwr yn chwareu ar y gair "arf" ac "arfer," yr hyn ni cheir ond yn lled anaml yn llenyddiaeth yr oes hono. Ond nid ydyw hyn i'w weled yn narlleniad y testyn, yr hwn a ymddengys yn fwy dealladwy a naturiol

⁹ Y mae yn amlwg fod llin. 28 yn wallus yn y testyn :—

"Gwisgo arvau o gwesgir
A'u cynnydd fal corn bydd hir
A thorri myn di ^{mewn} dur
^{mewn} a thori *in al.*
Paladr socedgadr cadgur."
Add. MS., 14,970.

- Arwain heyrn yn chwynn chwerw
 A marchogaeth meirch hagerw¹
 Ymwan² a Ieirll diamwynt³
 32 Y mwrdd ymgyvwrdd ag wynt⁴
 Ath yswain athlain oth vlaen
 Pennaeth ydwyd pwy nith adwaen⁵
 Athengsmon hoyw athloyw laif
 36 Ar gwrser a ragorsaif⁶
 Athelm lwys athalm o lu
 Ithol ar verch athevlu⁷
 Acherdd othvlaen raen rwyf
 40 A chrydr ar belydr balwyf⁸

¹ "Arwain heyrn yn chwynn chwerw
 A marchogaeth meirch hagerw."

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*
 "Arwain heyrn"=dwyn arfau;

a "meirch hagerw"=meirch a'u ffroenau yn ewynu.

² "Ymwan"=brwydro, neu ymryson.

³ "Diamwynt"=cryfion; hyny yw, yr hyn sydd wrthgyferbyniol i "ammhwynt"=*sickness, illness, indisposition, &c.* Nid âg Ieirll gweiniaid ac afiach yr ymrysonai: "diammhwynt" yn ol darlleniad *R.J.*

⁴ "Ymwrdd, ymgyfwrdd ag hwynt."—*R.J.*

⁵ "A'th yswain a'th lain o'th flaen Pennaeth wyd pwy ni'th adwaen?"

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

Galleid tybied oddi wrth yr hyn addwyd y bardd yma fod Mortimer wedi ennill safle uchel eisoes fel milwr, ond y mae yn debyg mai fel gwenaith y dylem ystyried llawer o'r hyn a ddywed.

⁶ "A'th hensmen hoyw a'th loyw laif

Ar gwrser a ragorsaif."

Add. MS., 14,970.

"A'th hengsmon hoyw a'th loyw laif

Ar gwrser a ragor-saif."—*R.J.*

Y mae y bardd yn fynych, fel ereill o'i gydoeswyr, yn defnyddio geiriau anghyfaith—"hengsmon" (*henchmen*)=gweinyddion (*pages*); "gwrser"=*courser*.

⁷ "A'th helm lwys a thalm o lu, I'th ol ar feirch a theulu."

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

Yr ydym yn cytuno âg *R.J.* pan y dywed fod "teulu" yma yn golygu *gosgordd*. Y mae yn amlwg fod y testyn yn anghywir wrth roddi "verch" yn lle "veirch."

⁸ "A chrydr ar belydr balwyf

A cherdd o'th flaen o raen rwyf."—*Add. MS.*, 14,970.

"A cherdd o'th flaen, o raen rwyf,

A chrydr a'r pelydr palwyf."

R.J.

Y mae "rwyf," meddir, yn gyfystyr âg *arweinydd*; "crydr" âg *arfau*; a "palwyf" (o palalwyf) =*the linden tree*, ond nid ydym yn deall amcan y gair hwn yn y llinell.

- Mawr ystad Iarll y mars doeth
 Mawr ywr kyvenw mwy ywr kywoeth¹
 Mawr o vrait a wyd y mair vry
 44 Mawr dy ditl mwy roed yt y²
 Iarll Mars gorau Iarll y myd
 Iarll llwdlo Ior llaw waedlyd³
 Iarll Kaerlleon dragon drud
 48 Iarll o Wlster Ior lwystrud⁴
 Henw arall o hyn orrau
 O ffraens Duc o Klarens klau⁵
 Hennw da gwr hen ai dy eingl
 52 Wyr Syr lewnel angel eingl⁶

¹ "Mawr y cyfenw mwy'r cyfoeth."

Add. MS., 14,970.

"Mawr y cyfenw, mwy yw'r cyfoeth."—*R.J.*

Wrth "gyfenw" yma y golygir y teitl o *Iarll y Mars*.

² "Mawr o fraint wyt ym Mair fry

Mawr dy deitl mwy roed ytty."—*Add. MS.*, 14,970.

"Mawr o fraint wyt, myn Mair fry,

Mawr dy deitl; mwy roed ytty."—*R.J.*

³ Yr oedd llawer o'r pendefigion Cymreig yn gosod "llaw waedlyd," fel arwydd o ddewrder, ar eu harfau.

⁴ "Iarll Caerlleon dragon drud Iarll o Wlster Ior lwys-drud."

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

Yr oedd Edmund Mortimer, yr hwn a briododd Philippa merch Lionel y Duc o Clarence, a thaid gwrthddrych y cywydd hwn, yn arwedd y teitlau o Iarll March ac Ulster, Arglwydd Wigmore, Clare,

a Chonnaught, a Dystain Lloegr. A chan mai hwn oedd ei gynnrychiolydd, priodol oedd rhoddi y teitlau hyn iddo. Perthynai y teitl o Iarll Caerlleon i'r teulu brenhinol er amser Harri III.; ond gan i Rhosier Mortimer gael ei gyhoeddi yn etifedd y Goron yn 1386, y mae y bardd yn ychwanegu y teitl hwn at y lleill.

⁵ "Henw arall o hyn orau O Ffrens Dug o Clarens clau." *Add. MS.*, 14,970, ac *R.J.*

⁶ "Henw da gwr hen ai dieingl Wyr Syr Liwnel angel Eingl." *Add. MS.*, 14,970.

Yr oedd Lionel, Duc o Clarence, yn drydydd mab i Edward III. Ganwyd ef yn Antwerp, Tachwedd 29, 1338. Priododd yn gyntaf, Elizabeth, etifeddes William de Burghe, Iarll Ulster, o'r hon y cafodd un ferch, Philippa, gwraig Edmund Mortimer. Ei ail wraig oedd Violante, merch Galeasius, Duc Milan, o'r hon ni chafodd blant. Bu farw Lionel yn yr Eidal yn 1368.

- Darogan yw maen draic ni
 A luniar gwaith y leni¹
 O benn y llew gledd i gledd
 56 Korronir kor i Wynnedd²
 Pam maer llew kravangdew kryf
 Mwy noc arth mynac wrthyf³
 Yr aur gwaisc ar dy vraise vraych
 60 Wyr Brenin lloegr ar bryneych⁴
 Penn arglwydd wyt paun eurglew
 Ac eginin a llin llew⁵
 Penna vydd i gwedi gwart
 64 Ail rryswr yn ol rrisart⁶

Rich^d 2^d

¹ "Darogan yw mai draig in ni
 A lunia'r gwaith y leni."

Add. MS., 14,970.

"Dragon yw a draig i ni
 A lunia'r gwaith yleni."

R.J.

Ymddengys i ni mai y darlleniad
 olaf ydyw y goreu o lawer; a gellir
 ychwanegu bod y testyn yn ym-
 ddangos yn llygredig yn y ddwy
 linell ddilynol, gyda'r eithriad fod
 "i Wynedd" yn well nag "o
 Wynedd."

² "O ben y llew glew ei gledd
 Coronir carw o Wynedd."

Add. MS., 14,970, ac R.J.

Yr oedd dau lew ar arfbais Syr
 Rhosier.

³ "Pam mae'r llew crafangdew
 cryf

Mwy nag arth, maneg
 wrthyf?"

Add. MS., 14,970.

"Pam mae'r llew crafang-dew,
 cryf,

Mwy nog arth? myneg
 wrthyf."—*R.J.*

⁴ "Yn aur gwaisc ar dy fraisg
 fraich

Wyr Brenin Lloegr ar
 Brynaich."

Add. MS., 14,970.

"Yn awr gwaisc," &c.—*R. J.*

⁵ "Pen Arglwydd wyt paun
 erglew

O eginin a llin llew."

Add. MS., 14,970.

⁶ "Pennaf fyddi gwedi gwart
 Ail Rhyswr ar ôl Rhisiart."

Add. MS., 14,970, ac R.J.

Tybia *R.J.* mai ail rhyswr (=pen-
 campwr) i Richard I. a feddyliai y
 bardd; ond credwn mai mewn can-
 moliaeth i Richard II.—yr hwn
 oedd yn teyrnasu ar y pryd—y
 defnyddir yr ymadrodd. Y mae
 yn wir mai brenin egwan ydoedd
 Richard, yr hwn oedd ryw wyth
 mlynedd yn hŷn na Syr Rhosier;
 ac ni wyddom am ddim a wnaeth a
 roddai hawl iddo gael ei gydnabod
 fel brenin gwrol o gwbl. Ond, eto, ni
 theimlai y bardd y gallasai, yn unol
 a'i deyrngarwch, osod Mortimer yn
 uwch nag *ail* iddo. Hefyd, tybiai
 yr hwn a ysgrifennodd y nodyn ymyl-
 ddalenol, mewn llaw ddiweddarach,
 mai at Richard II. y cyfeiriai y
 bardd.

- Gwnaed Ieirll lloegr gnawd erllugrwydd
 A vynon o son yw swydd¹
 Teilwng oedd yt gael talaith
 68 Aberffraw vymandaw maith²
 Amserol mi sy herod³
 Yt ddeffroi⁴ i gloi⁵ dy glod
 Parra ystr para ostec
 72 Yr hoed yr arvau tau tec⁶
 Pedwar lliw pedair Iarlleth
 Sy dav pwy piau pob peth⁷
 Asur sydd yn dy aessawr
 76 Iarll mars digar eurlliw mawr⁸
 Sinobr ac arian glan glwys
 Ym yw r ysgwydd amrosgoyw⁹

¹ "Gwnaed Ieirll Lloegr gnawd erllugrwydd ar ei arfbais; ac ateba yn y llinellau dilynol.

A fynnon o son i'w swydd."
Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

⁷ "Pedwarlliw pedwar Iarlleth
 Sy dani pwy piau pob peth?"

² "Teilwng oedd yt gael talaith
 Aberffraw ymadaw maith."
Add. MS., 14,970.

Add. MS., 14,970.

Gyda "ymandaw" ar ymyl y ddalen; ac "ymandaw" ydyw y darlleniad gan *R.J.*, yr hwn a sylwa fod yn anhawdd tynu allan unrhyw syniad o'r naill na'r llall. "Ymandaw," yn ol y Dr. W. O. Pughe, ydyw rhoddi ei hun mewn ystum i wrandaw.

Y pedwar lliw—sef asur (*azure*), eurlliw (*or*), sinobl (*gules*), ac arian (*argent*), a gynnrychiolent, medd *R.J.*, y pedair Iarlaeth, sef y Mars, Llwydlo, Caerlleon, ac Wlster. Ond fe gawn weled cyn y diwedd fod Iolo yn rhoddi eglurhad gwahanol arnynt.

³ "Herod" = herodyr = a *herald*.

⁸ "Assur sydd yn dy aessawr
 Iarll Mars gyda'r eurlliw
 mawr."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ Ynn deffroi." — *Add. MS.*, 14,970; "yt ddeffroi."—*R.J.*

⁹ "Sinobl ag arian glan gloyw
 Ym yw'r ysgwyd amrosgoyw."
Add. MS., 14,970.

⁵ "Gloi" yn yr ystyr o gwblhau.
 Cloi = to lock; to close, or conclude.

"Sinobl ac arian glân gloyw
 Im' yw'r ysgwyd amrosgoyw."—*R.J.*

⁶ "Pa ryw ystyr par osteg
 Y rhoed i'r arfau tau teg."
Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

Gofyna y bardd pa beth a arwyddai y lliwiau a'r lluniau oedd

Rhydd *R.J.* yr eglurhad a ganlyn:—"Ysgwyd amrosgoyw,"
 'the fluttering in various direc-

- Pedair kenedl di edliw
 80 A ddeiryd yt gwyndyd gwiw¹
 Ffrangkod Saeson wychion weilch
 Gwyddyl mam kynvyl keinveilch²
 Gwaed Ffraingk gwiw a da i ffrwyth
 84 Ydiw eurlliw diweirllwyth³
 Urddedic arwydd ydiw⁴
 Brenin yngwlad y gwin⁵ gwiw
 A chwbl or gien⁶ penn pant
 88 Vyddy mwy vydd dy veddiant⁷
 Tau hyd ymylau maeloygr⁸

tions' of the silver and vermilion banner. The bard seems to have been well versed in heraldic devices." Sylwer ar ddiwedd llin. 77-78 yn y testyn—"glwys" ac "amrosgoyw."

¹ "Pedair cenedl diedliw

A ddeiryd yt, Gwyndyd gwiw."—*Add. MS.*, 14,970.

Sylwa *R.J.* fod "Gwyndyd" yn gyffredin yn golygu *preswylwyr* Gwynedd, fel y mae Gwyndud yn myned am y wlad—*Gwynedd*; ond tybia fod "Gwyndyd" yma yn golygu *gwlad deg*. Prin y gallwn gytuno ag ef; o blegid tybiwn fod yn rhaid deall "Gwyndyd" yn yr ystyr arferol er mwyn gwneyd pedair cenedl, trwy gyfrif y Gwyne-ddigion gyda'r Ffrancod, y Seison, a'r Gwyddelod.

² "Ffrancod, Saeson, wychion weilch

Gwyddyl mam Cynfyl ceinfeilch."—*Add. MS.*, 14,970.

Ond gwell na'r un ydyw darleniad *R.J.* yr hwn a rydd "meib cynfyl" yn lle "mam cynfyl." A chymmeryd "cynfyl" i olygu *cynhen*, neu *ynryson*, ymddengys

fod y Gwyddelod yn dwyn yr un nodweddion cenedlaethol y pryd hwnw ag ydynt yn awr.

³ "Gwaed Ffrainc gwiw a da ei ffrwyth

Ydyw eurlliw diweirllwyth."

Add. MS., 14,970.

⁴ "Urddedig arwydd ydyw."

Add. MS., 14,970.

⁵ Gwlad y gwin, sef Ffrainc.

⁶ "Gien" = Guienne, talaeth yn y rhan dde-orllewinol o Ffrainc.

⁷ "Fyddi mwy fydd dy feddiant."

Add. MS., 14,970.

"Fyddi mwy fydd dy foddiant."—*R.J.*

⁸ "Maeloegr."—*Add. MS.*, 14,970, ac *R.J.* Sylwa *R.J.* ar y gair hwn fel hyn:—"Maeloegr. It is now impossible to say what region is meant by this name. In form it approaches *Maelor*. Can it signify—from *Mael* and *Lloegr*—the parts of England more especially devoted to merchandise?" A gallwn ychwanegu fod ffurf gyffelyb yn yr enw "*Maelienydd*," lle yr oedd etifeddiaeth gan y Mortimers,

- 92 A bid tau lle gorrau n lloygr¹
 Yn achen y ddraic wen wiw
 Rowlllaes y mae r arrianlliw²
 Bw i loegr ai mab lygad
 Anwyl iawn wyt yn y wlad³
 Ion i Wigmor enwogmawr
 96 A Ivrl y mars arlwy mawr⁴
 Gwadrudd kerdd gwaed y ddraic koch
 Yw r sinobr y sy ynnoch⁵
 Am hyny bydd hy baedd hoyw
 100 Arro etto aur ot wayw⁶

¹ "A bid tau'r lle gorau'n yn un man heb law yn ein testyn ;
 Lloegr." ond y mae amryw o'r beirdd yn

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

² "Yn achen y ddraig wen wiw ysgrifenu "sinobl." Dywed Deio
 Rawlllaes y mae'r arian lliw." ap Ieuan Du (*Gorch. Beirdd Cymru*,
 tudal. 171) :—

Add. MS., 14,970, ac *R.J.*

³ "Bw i Loegr, a mab lygad, "A'i flew yn glyd fal yn glôg
 Anwyl iawn wyt yn y wlad." Sinobl ar fy myswynog."
Add. MS., 14,970. Eto, Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*,
 tudal. 110) a ddywed :—

"Bw i Loegr a mablygad, "Llaw Duw i'th gylch, llwydd
 Anwyl iawn wyd yn y wlad." yth gaid,

R.J.

Lliw *sinobl* o'r Lleisioniaid."

* Yr oedd Mortimer ar yr un pryd A rhydd ei olygwyr yr eglurhad
 yn ddychryn (=bw) ac yn ganwyll a ganlyn ar y gair :—"Sinobl=
 llygad (=mablygad) Lloegr. cinabar : red ore of quicksilver.

⁴ "Ion o Wigmor enwogmawr Lliw *sinobl*, of a ruddy, or fair,
 O Ivrl y Mars, arlwy mawr." complexion." Ymddengys i ni fod

Add. MS., 14,970.

Castell yn Sir Henffordd yw mwy o berthynas ieithegol rhwng
 Wigmore. *cinnabar* a "sinobr" nag sydd
 rhyngddo â "sinobl."

⁵ "Gwawdrydd cerdd, gwaed y "Am hynny bydd hy baedd
 ddraig goch hoyw

Yw y sinobl sy ynnoch."

Add. MS., 14,970.

Oro, etto aur ottoyw."

Add. MS., 14,970.

Y mae *R.J.* yn cyfieithu y llinellau Ar ymyl y ddalen yn *Add. MS.*,
 hyn yn lled brydferth i'r Seisoneg : 14,970, ceir yr eglurhad a ganlyn
 —"Thou idol of the flowing muse ; gan Iolo Morganwg ar "oro" :—
 The blood of the Red Dragon is the "aro in al. No. 59, D.D. Coel,
 vermilion that flows in thy veins." signification, portension, implica-
 Ni ddygwyddodd i ni weled y gair tion"; tra y dywed *R.J.* mai rhag-
 yn cael ei ysgrifenu yn "sinobr" ferf erfyniol ydyw—"Pray do."

- Kael da yw kel dy awydd
 Kael gorrnod ragod poed rwydd¹
 Gras Arthur ai groes wrthyd
 104 Ai lys ai gadlys i gyd
 Gorre lle ail gaer llion
 Y sydd vwch or ynys hon²
 Kyw gwyddyl rrowioc addas
 108 Yw asur liw gloywddur glas³
 Glewa grwndwal gogaled
 Ywr dur glaslym grym o gred⁴
 Glewach wyd ail galath
 112 Ath lychwayw hoyw athloyw lath⁵

A thybiwn mai *R.J.* sydd gywir,
 yn gystal ag yn ei eglurhad ar
 "aur ottoyw" = yr yspardyn aur—
 "Thou of the golden spur."

¹ "Cael dâr yw coel dy arwydd
 Cael gorrnod rhagod boed
 rhwydd."

Add. MS., 14,970.

Derw ydyw "dâr," medd *R.J.* ;
 ond beth os y testyn sydd gywir?
 —"Kael da."

² "Goreu lle ail Gaerllŷon
 Y sydd ywch o'r ynyf hon."

Add. MS., 14,970.

"Gorau lle, ail Gaerllŷon,
 Y sydd iwch' o'r ynys hon."

R.J.

Diau mai y darlleniad olaf ydyw
 y goreu. Cyfeiriad sydd yma at
 lys Arthur yng Nghaerllŷon ar
 Wysg.

³ "Rhyw gwyddyl rhywiog addas
 Yw'r asur liw'r gloywddur
 glas."—*Add. MS.*, 14,970.

Y mae y bardd wedi gorphen
 egluro y lliwiau ar arfbais Mortimer,
 trwy osod yr eurllew (*or*) i gynn-
 rychioli Ffrainc, yr arianlliw
 (*argent*) am Loegr, y *sinobl*, neu y

rhuddgoch (*gules*) am Gymru, a'r
 asur (*azure*) i arwyddo yr Iwerddon.

⁴ "Glewaf grwndwal go galed
 Yw'r dur glaslym holl gred."
Add. MS., 14,970.

"Glewaf grwndwal go galed
 Yw'r dur glas-lym, grym i
 gred."—*R.J.*

⁵ "Glewach wyd nag ail Galath
 A'th lychwayw hoyw loyw
 lath."—*Add. MS.*, 14,970.

Y mae darlleniad *R.J.* yr un fath,
 oddigerth ei fod yn rhoddi "hych-
 wayw" yn lle "luchwayw" ac yn
 ei egluro fel hyn:—"Hychwayw,
 'a pushing or driving spear'; the
 spear used in the wild boar hunt."
 Ofnwn fod *R.J.* yn gwneyd gair yn
 y fan hon; gan fod y rhan gyntaf
 o'i "hychwayw" yn debyg i *huch*,
 meddylodd mai picell i ladd moch
 gwylltion a feddyliai y bardd. Ond
 y mae yn amlwg mae lluchwayw
 (*javelin*) sydd dan sylw. Prin y
 mae yn ofynol dyweyd pwy oedd
 Galath (Galahad), mab Syr Lawn-
 slot, ac un o bedwar marchog ar
 hugain y Ford Gron.

- O hyder o uchder iach
 Hy gorsgyn gonach¹
 Dos drwyr mor a distryw mydd
 116 I vlaenau r wlad avlonydd²
 Trev tad i tithau ywr trum
 Tau gasdyll tec i ystum³
 Tegwch vatholwch vu
 120 Kalon iwerddon orddu⁴
 Dyrchaf dystondardd⁵ hardd hwyl
 di archen⁶ yw dy orchwyl
 Gwna vwysmant⁷ bid trychant trwch
 124 Magwy mawr a makamorwch⁸ k

¹ "Hy goresgynny Gonach."—
Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

Conach = Connaught, talaeth yn
 y rhan orllewinol o'r Iwerddon.

² "Dos drwy'r mor a distryw
 Mydd

O flaen y wlad aflonydd."

Add. MS., 14,970.

"Dos drwy'r môr a distryw'r
 Mydd

O flaen y wlad aflonydd."

R. J.

Saif Mydd = Meath, ar yr ochr
 ddwyreiniol i'r ynys, gyferbyn a
 Connaught.

³ "Tref tad i tithau yw'r Trum
 Tau gastell teg ei ystum."

Add. MS., 14,970.

Trum = Leitrim. Y mae y rhan
 ddeheuol o honi yn dyfod i gyff-
 yrddiad â Meath.

⁴ "Tegwch Fatholwch iwch fu
 Calon Iwerddon oerddu."

Add. MS., 14,970.

"Tegwch gwlad Fatholwch fu
 Calon y Werddon oerddu."

R. J.

Y mae yn amlwg mai y darlleniad
 olaf ydyw y cywiraf. Yn ol y
Mabinogion, a'r *Triodd* (Oxford

Edit., pp. 27,301) Matholwch brenin
 yr Iwerddon a briododd Bronwen
 ferch Llyr Llediaith, yr hon a
 breswyliai yng Nghastell Harlech,
 yr hwn gynt, meddir, a elwid yn
 Dŵr Bronwen. Cymmerodd Math-
 olwch hi gydag ef i'r Iwerddon, ac
 ymddygodd yn greulawn tuag ati.
 Rhoddodd iddi balfawd a elwir yn
 un o "dri anfad balfawd Ynys
 Prydain." Mewn canlyniad i hyn
 aeth ei brawd, Bran Fendigaid,
 drosodd i'r Iwerddon, a bu agos
 iddo ddinystrio holl drigolion y
 wlad yn ei gynddaredd; ond y
 diwedd fu iddo ddwyn ei chwaer
 adref gydag ef.

⁵ "Dy stondardd."—*Add. MS.*,
 14,970, ac *R. J.* "Stondardd"—
standard.

⁶ "Diarchan."—*Add. MS.*, 14,970;
 "Di-archar" (= *unrebukable, daunt-
 less, daring*)—*R. J.* Diammeu mai
 diarchar sydd gywir, o blegid
 "diarchen," yn ol Pughe, ydyw
 "uncovered, unshod, bare-footed."

⁷ "Fwysmant."—*Add. MS.*, 14,970,
 ac *R. J.*; yn golygu yr un peth ag
ambushment.

⁸ "Maccwy mawr a Mac Mor-
 wch."—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

- Tor rwyc a brath tu rac bron
 Draw a galys drwy i galon ¹
 Bryssia a chleimia ychlan²
 128 Gwlad Wlster glod elystan³
 Llynna gyvoeth llawn gevalk
 Myn di yn dav ymin dwndalk⁴
 Yn ol daly grednel vynner
 132 Ki ffalstwf kyff o wlster⁵
 Ti a ledly klochdy klod⁶
 Bobl wlster⁷ bob ail ystod.

Iollo Goch ai Kant.⁸

Yr oedd Mac Morwch (= Mac Morough) yn un o benaethiaid yr Iwerddon; ac iddo ef y perthynai Barwniaeth Norragh, yn Kildare. Yr oedd efe, a'r O'Briens, yr O'Tooles, a'r O'Neils, ym mhlith y gwrthryfelwyr mwyaf gelyniaethol i Loegr oedd yn yr Iwerddon.

¹ "Torr, rwyg, a brath, tu rag bron
 Draw a Galys drwy i galon."
Add. MS., 14,970.

Wrth "Galys" y meddyli'r Galway.

² "Bryssia a chleimia achlan."
Add. MS., 14,970.

"Bryssia a chleimia âch lân."
R. J.

³ Elystan Glodrudd, penaeth, neu dywysog, Fferlys, rhwng yr Hafren a Gwy, yr hwn a flodeuai yn y ddegfed ganrif. Mab ydoedd i Cuhelyn ab Iarddur, o Rhieingar, ferch ac etifeddes Goronw ab Tudur Trefor, yn hawl yr hon y daeth iarllaeth Henffordd yn eiddo iddo. Efe a briododd Gwenllian, ferch Einion ab Hywel Dda.

⁴ "Llynca gyfoeth llawn geufalc
 Myndi yndaumin Dwn Dalc."

Add. MS., 14,970.

Saif Dundalk ar draethell Mor Iwerddon, ac y mae beisfor o'r un enw—Dundalk Bay.

⁵ "Yn ôl dal Grednel fy Ner
 Ci Ffalstaff cyff o Wlster."

Add. MS., 14,970.

"Yn ol dal Grednel, fy ner;
 Ci ffalst yw—cyff o Wlster."
R. J.

Tybia *R. J.* fod Grednel yn ŵr o gryn enwogrwydd, a diammeu ei fod yn gywir. Gwelwn yma ei fod yn perthyn i Wlster.

⁶ "Clochdy clod."—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

⁷ Talaeth yng ngogleddbarth yr Iwerddon ydyw Wlster; ac ymddengys fod y lle mewn sefyllfa derfysglyd ar y pryd.

⁸ Ar ei ddiwedd, yn *Add. MS.*, 14,970, ceir "Iolo Goch ai cant," gyda'r nodyn a ganlyn:—

"Pei'r Diawl a'i cant, ni allasai ganu yn fwy gwaelgar, yn fwy lladdgar, yn fwy rhyfelgar, nag yn fwy anrheithgar.

Iolo Morganwg."

V.

MOLIANT HOWEL COETMOR O NAN-KONWY.


(O'r Bodley MS., e. 1, No. 19.)

Y mae hwn i'w weled hefyd yn *Add. MS.*, 14,966, dan y penawd "Cow: Mol: Howel Coetmor hwn oedd ryfelwr."

Hysbysir ni gan y Chevalier Lloyd fod Howel Coetmor yn berchenog ar Gwydir ac etifeddiaethau eang ereill yng nghymydogath Llanrwst, ond ei fod yn preswyllo yn benaf yng Nghastell Cefel Ynghoedmor, ym mhlwyf Llanrwst, yr hwn unwaith a berthynai, yn ol Gruffydd Hiraethog, i Peredur ab Efracw. Claddwyd Howel yn Llanrwst, lle y dywedir fod ei feddfaen yn aros, gyda'r argraff a ganlyn arno:—"HIC IACET HOEL COETMORE AP GRVFF VYCHAN AMN." Yna y mae y Chevalier yn myned ym mlaen (*Hist. Powys Fadog*, vol. iv., p. 275), i roddi yr achres ganlynol, yr hon a roddwn yma yn ei eiriau ef ei hun:—

<p>David Goch of Pen Machno in Nant Conwy—<i>(Sable, a lion rampant argent, in a border engrailed or)</i>. He was a natural son of David, Lord of Denbigh and Frodsham, whose trial and cruel death at Shrewsbury, in 1283, has been told in vol. i.—See vol. iii., p. 32.</p>	<p>Angharad, d. of Heilyn ab Sir Tudor, Knight, ab Ednyfed Fychan. <i>Gules</i>, a chevron inter three Englishmen's heads in profile coupéd ppr. crined or.</p>
--	---

<p>Gruffydd ab David of Nant Conwy, living 26 Edward III. (1352). He was buried in the church of Bettws Wyrion Iddon, or Bettws y Coed, where his tomb is to be seen, with his effigy recumbent in armour, with the following inscription:—"HIC IACET GRUFUD AP DAVID GOCH. AGNUS DEI MISERERE MEI." A full description of this tomb has been given by Mr. Bloxam in the <i>Arch. Camb.</i> for 1874, p. 128. Gruffydd died at Fedw Deg, in the parish of Bettws y Coed.</p>	<p>Margaret, d. and heir of Tudor ab Iorwerth ab Gwrgeneu ab Cyfnerth. <i>Gules</i>, a lion rampant inter three roses <i>argent</i>.</p>
--	--



Os ydyw y daflen uchod yn gywir, rhaid fod Gruffydd ab David mewn cryn oedran yn 1352, gan ei fod yn ŵyr i Dafydd a ddiennyddwyd yn 1283; ac felly gallasai Howel Coetmor, ei ŵyr yntau, fod yn gymhwys i gymmeryd rhan yn y mân frwydrau yn Ffrainc, y rhai a ymladdwyd yn fuan ar ol esgyniad Richard II. i'r orsedd yn 1377. Dywed Owen Jones (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. 1, tudal. 442) fod Howel Coetmor yn ymladd dan Richard III. ym Mrwydr Bosworth, yr hon a ymladdwyd yn y flwyddyn 1485; ond y mae yn amlwg, os nad oedd yn anarferol o hirhoedlog, mai nid gwrthddrych y cywydd hwn oedd yr Howel Coetmor hwnw. Dywedir yn gyffredin fod Howel yn un o gadbeniaid Harri V. ym Mrwydr Agincourt, yr hyn sydd eithaf tebygol; ond yn 1415 yr ymladdwyd y frwydr hono. Pa fodd bynag, y mae y cywydd yn awgrymu iddo gael ei gyfansoddi yn ystod gwrthryfel Owain Glyndwr. Ar ol cyfeirio at ryw wrhydri y tybid iddo wneyd yn Ffrainc yn y mân ysgarmesoedd a nodwyd, yn y rhai y cymmerodd ran, fel ein hysbysir yn llin. 33 "dann Risiart"—sef Richard II. o angenrheidrwydd—y mae yn myned rhagddo i grybwyll am ein "cymydog ni," ac yn ei annog i ladd y Seison; gan sylwi y

“ Kar Owain hwnn gwnn ganmil
Llai hap ai gallv ai hil.”

Ystyriwn y cyfeiriadau hyn yn werthfawr, gan yr awgrymant fod ein haneswyr wedi bod yn aflwyddiannus hyd yn hyn i gofnodi enwau rhai o gynnorthwywyr pwysicaf Owain Glyndwr. Hysbysant ni, mae'n wir, fod un Rhys Gethin, sef brawd Howel, yn un o brif ddynion Glyndwr; ond nid ydynt yn crybwyll am Howel ei hun. Pa fodd bynag, y mae y cywydd hwn yn mwy nag awgrymu fod Howel yn cymmeryd rhan flaenllaw yn y gwrthryfel. Ac y mae fod y fath wr ag oedd ef yn un o ddilynwyr Owain—a hyny, hyd y gwyddom, heb gael ei gofnodi gan un hanesydd—yn awgrynu pe ysgrifenasid hanes y rhyfeloedd hyny yn fwy cyflawn y buasem yn cael fod amryw o brif ddynion Cymru wedi eu gadael yn ddisylw. Hyd y mae yr adroddiad a rydd haneswyr yn myned, nid ydyw rhyfeloedd Glyndwr yn ymddangos mor bwysig ag y mae traddodiadau yn eu gosod allan. Ond pe caem amryw o gywyddau o'r un nodwedd a hwn, wedi eu cyfeirio at wahanol uchelwyr Cymru, byddai yn rhaid i ni gredu fod y traddodiadau yn gywir, a bod y rhyfeloedd hyn yn llawer pwysicach ac yn fwy arswydus nag y tybir ar yr olwg gyntaf.

Yn anffodus, nid oes genym nac amseriad genedigaeth na marwolaeth Howel Coetmor; na'r peth nesaf i ddim o'i hanes. Gwelwn yn y cywydd canlynol—a hyny ar ol cymmeryd yn ganiatäol fod hanner yr hyn a ddywedir yn ganmolïaeth eithafol bardd—ei fod yn filwr gwrol. Am amseriad y cywydd, tybiwn na fyddem ym mhell o'n lle wrth ei amseru rhwng 1400 a 1404. Ac os bu Howel yn ymladd brwydr Agincourt yn 1415, fel y mae yn debyg iddo fod, gwelwn iddo gymmodi a Harri V.

Howel kymro o hil kymry
howel at y rhyfel try¹

¹ “ Howel Cymro hil Cymry
Howel at ryfel i try.”

Add. MS., 14,966.

Cyfeirir yma at duedd ryfelgar
Howel.

- koetmor blaenor dann blaned
 4 mars ir llu/n rymus ar lled¹
 gwr glan a gae/n Lloegr y glod
 a Ffrainc lle curai Ffrangkod²
 kae yno yn llwybro ir llu
 8 arfav gorav i garv³
 kapten yn y blaen heb lvdd
 karw diogan kry digvdd⁴
 yn troi i ynni mewn trinoedd
 12 e wnaeth i ofn eofn oedd⁵
 makwy safwy sy hyfedr
 mur mawr y drin meithrin medr⁶

¹ "Coetmor blaenor dan blaned
 Mars a'r llu rymus ar lled."

Add. MS., 14,966.

Rhydd y bardd yma y blaned
Mars i gynnrychioli y duw *Rhu-*
feinig o'r enw. *Mars* oedd duw
 rhyfel y *Rhufeiniaid*, fel yr oedd
Ares gan y *Groegiaid*, a *Beli* gan y
Cymry.

² "Gwr glan a gad/n/Lloegr i glod
 Yn ffrainc i curau ffrangcod."

Add. MS., 14,966.

³ "Y ae yno yn llwybro r llu
 arfau gorau i garu."

Add. MS., 14,966.

Ni raid dyweyd wrth unrhyw un
 sydd yn gydnabyddus â llenydd-
 iaeth y cyfnod hwn fod *u* yn fynych
 yn cael ei hysgrifenu yn *v*, ac i'r
 gwrthwyneb.

⁴ "Captain yn y blaen heb ludd
 Cawr diogan cry digudd."

Add. MS., 14,966.

Ac ar ymyl y ddalen gogyfer â'r
 darlleniad hwn rhoddir "Carw,"
 fel yn y testyn, yn lle "Cawr."
 Ac y mae mor debygol mai "Carw"
 a feddylid, o blegid rhoddai y
 beirdd yr enw hwn yn fynych ar eu
 harwyr. Yr hyn sydd yn ym-

ddangos fwyaf yn ei erbyn ydyw
 fod "Carw" yn air deusill ac yn
 gwneyd y llinell yn rhy hir i ateb
 i'r un flaenorol; ond nid ymddengys
 fod beirdd y cyfnod hwn mor
 ofalus yn hyn o beth ag ydynt yn
 ein dyddiau ni. Ym mhlith
 enghreifftiau ereill yn y rhai y
 defnyddir y gair "carw" yn yr
 ystyr a awgrymwyd, gallwn gyfeirio
 at Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal.
 321), yr hwn a ddywed:—

"Cadben Isgenen a'i gwyr,
 Carw mawr a ddwg grym eryr;
 Clo llen aur yn cloi Llan Non,
 Caer, neu allwydd, Carnwyllon."

⁵ "Yn troi i ynndo mewn trin-
 oedd

E wnaeth ei ofn eofn oedd."

Add. MS., 14,966,

gyda "eofn, i.e., diofn," ar ymyl y
 ddalen. Dyweyd y mae y bardd
 fod Howel yn troi, neu yn rhoddi,
 ei holl *yni* (nis gwyddom beth yw
 "ynndo") mewn brwydrau ("trin-
 oedd"), a'i fod trwy ei eofndra ei
 hun wedi creu ofn mewn ereill.

⁶ "Marwy ai safwy sy hyfedr
 Mur mawr i drin meithrin
 medr."—*Add. MS.*, 14,966,

- 16 arfav¹ a gwyr ryf y gwydd
ai geraint yn i gevrydd²
teyrn rhyw kedym i kaf
tylwyth iach talaith vchaf³
llew Gruffudd fflamrvdd a phlaid
- 20 vychan darian bord evraid⁴
Howel ^{yn sel} _{insel} Llywelyn
towysog draidd ffyrfaidd ffynn⁵
un fraich a Howel yn frav
- 24 hwp dilesc y pydolau⁶

gyda yr hyn a ganlyn ar ymyl y ddalen :—“ Marwy, i.e., milwr ; saffwy, i.e., ffon wayw.” Ond pa un ai “maccwy” ai “marwy” sydd gywir ? Golyga “maccwy” (i.e., *maccwy*) un ieuanc, neu fachgen ; ac o bosibl mai cyfeiriad a geir yma at ieuencyd Howel, yr hwn, er nad oedd ar y pryd ond bachgen, megys, eto oedd wedi dyfod yn rhyfelwr cadarn. Yn y ban dilynol (llin. 15 a 16) gwelir fod ei filwyr mor aml a'r coed.

¹ “Arfav.”—*Add. MS.*, 14,966.

² “Geurydd” = lleoedd cadarn (*fortified places*).

³ “Teyrn ryw cedyrn i caf Tylwyth iach talaith uchaf.”
Add. MS., 14,966.

⁴ “Llew Gruffudd fflamrydd a fflaid Fychan darian bord evraid.”
Add. MS., 14,966.

Fel y gwelir yn yr achres uchod, Gruffydd Fychan oedd tad Howel ; a'i arfbais ef a ddysgrifir yma.

⁵ “Howel insel Llywelyn Dwysog iraidd ffyrfaidd ffyn.”
Add. MS., 14,966.

⁶ “Un fraich a HOWEL yn frau hwp dilesc y PEDOLAU.”
Add. MS., 14,966.

Dywedir yma fod ei fraich mor gryfed ag eiddo Syr Howel y Pedolau, am yr hwn y ceir amryw o draddodiadau ; ac yn eu plith, ei fod mor gryf fel y gallai unioni pedol ceffyl â'i ddwyllaw moelion, yr hyn a roddodd iddo ei gyfenw, ac a fu achlysur iddo wisgo llun pedol ceffyl ar ei arfbais. Ei dad oedd Gruffydd ab Iorwerth, yr hwn oedd yn disgyn o Hwfa ab Cynddelw, sef cyff un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Ei fam oedd Gwenlliant, merch Rhirid Flaidd, yr hon a ddewiswyd gan Edward I. i fod yn fammaeth i'r tywysog Edward II. Ac mewn canlyniad daeth Howel a'r tywysog yn gyfeillion, a bu hyn yn foddion iddo gael ei wneyd yn Farchog. Dywed traddodiad iddo gael ei gladdu yn Eglwys Sant Pedr, Caerfyrddin (*Geir. Cen. Cymru*, gan O. Jones, cyf. i., tudal. 669.)

- ffaglawr gwr mawr yw ymrwydr ffenglawr
 ffôn rhag hwnn yn grwnn ar grwydr¹
 ysgwair vu air a naw
 28 ysglan darian rhaid evraw²
 howel ar vchel wreichion
 ar dellt lle torrid i onn³
 llonydd wedi/r dull hwnnw
 32 araf llawn fv ar y llw⁴
 koetmawr aessawr dann Risiart
 kae fo iawn waith kyfion wart⁵
 ag weithian yn ymgoethi
 36 dvg nerth yn kymydog ni⁶
 llew hy yn dryllio heol
 llannrwst yn llawn ar i ol⁷

¹ " Ffeiglawr gwr mawr yw ymrwydr
 ffôn rhag hwnn yn grwnn ar grwydr."

Add. MS., 14,966.

Diammeu fod "ffaglawr" yn cyfeirio at ei waith yn rhoddi lleoedd ar dân.

² " Ysgwair unair a naw
 Ysglan darian rhaid evraw."

Add. MS., 14,966.

³ " Ar dellt lle torid ei onn."

Add. MS., 14,966.

⁴ " Llonudd wedi /r/ dull hwnnw
 araf llawn fv ar fy llw."

Add. MS., 14,966.

⁵ " Coetmor aessawr dan Risiart
 Cae fo iawn waith kyfion wart."—*Add. MS., 14,966.*

Portreadir Howel yma fel tarian (=aessawr) dan Richard II. ; yn yr ystyr yn ddiammeu ei fod yn am-

ddiffynydd ffyddlawn i'r Goron ; ac nid yn unig yn amddiffynydd, ond hefyd yn "wart" (=gwarchodwr).

⁶ " Ag weithion yn ymgoethi
 Dêg nerth yn cymydog ni."

Add. MS., 14,966.

Yn yr un modd ag y profodd yn wasanaethgar gynt i'r Brenin Richard, y mae yn awr (=weithian) yn profi yn gyfnerthiad i'n "cymydog ni," sef Owain Glyndwr, yn ddiammeu. Ysgrifened "yn" yn lle "i'n" yn amser Iolo.—Ymy=i mi ; yny, yni=i ni ; yty=i ti, &c.

⁷ " Llew hyf yn dryllio heol
 Llan Rwsd yn llawn ar i ol."

Add. MS., 14,966.

Nis gwyddom at ba beth y cyfeirir yma, os nad oedd rhyw ymosodiad wedi cymmeryd lle yn erbyn deiliaid teyrngarol Harri IV. yn y dref hon.

- 40 atto kawn ddeutu Konwy
 ar dyffryn ag e fynw fwy¹
 gwlilio yno y glynoedd
 gwlilio ffeils mal Ergwlff oedd² kvro
 kaer lew taer ar y wlad honn
 44 *kaer* y sias kvr y Savson³ kawr
 kar Owain hwnn gwnn ganmil
 llai hap ai gallv ai hil⁴
 kadw arno mewn cadernyd
 48 i mae mewn arfav brav bryd⁵
 mewn koedydd mann kavedig
 mae enw at rym mae i hwnn trig⁶
 ni eill hyd fedd er llid fo
 52 gwyr oriog lloegr i wyro⁷
 er i feirch yngroesa hwnn
 y milwr a ganmolwn⁸
 brav erioed breyr ydyw
 56 braich krevlon ar ossbion yw⁹

¹ "Ato i cawn ddeutu Conwy
 ar Dyffryn ag e fyn fwy."
Add. MS., 14,966.

² "Gwlilio yno y glynoedd
 gwlilio ffeils mal Ergwlff
 oedd."
Add. MS., 14,966.

"Ergwlff=*Hercules*."

³ "Caer lew taer ar y wlad hon
 Caer i Sias cwr y Savson."
Add. MS., 14,966.

⁴ "Câr Owain hwn gwn ganmil
 llai i hâd ai gallv ai hil."
Add. MS., 14,966.

Owain Glyndwr a feddylir yn
 ddiammeu.

⁵ "Cadw arno mewn cydernyd
 i mae mewn arfau braw
 bryd."
Add. MS., 14,966.

⁶ "Mewn coedydd man cauedig
 Mae enw at rym i hwn trig."
Add. MS., 14,966.

⁷ "Ni all hyd fedd er llid fo
 gwyr oriog Lloegr i wyro."
Add. MS., 14,966.

⁸ "Er i serch ef ymgroes hwn
 y milwr a ganmolwn."
Add. MS., 14,966.

Credwn fod y darlleniad hwn yn
 gywirach na'r testyn; gan y
 tybiwn mai dyweyd y mae y bardd
 fod *serch* Howel at Owain yn ddigon
 i'w gadw rhag gwyro oddi wrtho.

⁹ "Brau yrioed breuer ydyw
 braych creulon ar *ossbion*
 yw."—*Add. MS., 14,966,*
 gyda'r nodyn a ganlyn ar ymyl
 y ddalen:—"Osbion, i.e., dieithried,
 gelynion."

am ñallai r neb ai ar bel
 o wr hy wyro Howel ¹
 mae gann bawb amgen ni bydd
 60 y leni iddo lonydd²
 Iolo goch.

¹ "Am na allai /r/ neb ai ar bê
 o wr hyf wyro Howel." (Gwel *Gwaith Lewis Glyn Cothi*,
 p. 209).

Add. MS., 14,966.

² "Mae gan bawb amgen ni bydd
 Yleni iddo lonydd."

"Bel" = y gamp = *the palm*.

Add. MS., 14,966.

VI.

KOWYDD I RYS GETHIN BRAWD HOWEL KOETMOR
O NAN KONWY.

(*O'r Bodley MS., e. 1., No. 20*).

Dywedir wrthym yn y penawd pwy oedd Rhys Gethin; a cheir ei haniad yn y sylwadau rhagarweiniol i'r cywydd blaenorol. Nid oes grybwylliad am dano yn ein gweithiau bywgraffyddol; ond gwelir oddi wrth y cywydd canlynol ei fod yn rhyfelwr dewr, ac iddo gymmeryd rhan yn rhyfeloedd Owain Glyndwr. Hysbysir ni gan Pennant (*Tour in Wales*, vol. i., pp. 351-2) i ferched Maesyfed ymddwyn yn greulawn tuag at y clwyfedigion ym myddin Syr Edmund Mortimer, pan gymmerwyd y boneddwr hwnw yn garcharor gan Owain Glyndwr, ar fynydd Bryn-glas, Mehefin 22, 1402 ("Braslun," &c., tudal. 55). Ond amddiffynir y merched gan Pennant trwy ddyweyd mai gweithredu yr oeddynt yn unol â chyfarwyddyd "Rhys y Gyrrh," un o gadbeniaid Owain. Dywed Mr. Wylie (*Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., p. 282) mai "Rees Gethin" a lywyddai fyddin Owain Glyndwr yn y frwydr hono. Ac ymddengys i ni yn dra thebyg mai yr un oedd Rhys y Gyrrh, neu Rees Gethin, a gwrthddrych y cywydd hwn. Hefyd, ym mhlith llythyrau ereill yn dal cyssylltiad â'r difrodiadau a wnaed gan Owain Glyndwr yn Neheudir Cymru (*Arch. Camb.*, 1851, pp. 113-16), ceir un dyddiedig Gorphenaf 7, 1403, a anfonwyd at Drysorydd Brycheiniog gan Jenkin Hanard, Cwnstabl Castell Dinefwr, yn yr hwn y dywedir "fod Owain Glyndwr, Henry Don, Rhys Ddu, Rhys ap Gruffydd ap Llywelyn, a Rhys Gether wedi ennill tref Caerfyrddin." Ac y mae yn debyg mai yr un a Rhys Gethin oedd y Rhys Gether y cyfeirir ato. Os felly, yr oedd wedi ennill cryn enwogrwydd fel un o brif

bleidwyr y gwrthryfel. Ond, pa un bynag am hyny, cyfeirir yn y cywydd canlynol at ryw weithredoedd pwysig a gyflawnwyd gan Rhys yng nghymmydogaeth yr Eryri. Ac wrth osod y pethau hyn yng nghyd, ymddengys i ni i'r cywydd gael ei gyfansoddi ar ol diorseddiad Richard II., a phan oedd Owain yn ei rwysg. O bosibl nad allem ei amseru rhwng 1400 a 1404.

Yn ol y Chevalier Lloyd (*Hist. Powys Fadog*, vol. iii., p. 33), gadawodd Rhys Gethin un mab ar ei ol—sef Howel, o'r hwn yr hanai Syr Richard Lloyd o'r Esclys, ac o'r Dulassau, yr hwn a fu yn brif-ynad Gogledd Cymru yn nheyrnasiad Charles I.

Byd kaeth ar waedoliaeth da
a droes aml oedd drais yma
lle bu r brython savson sydd
4 ar boen ar gymrv bevnydd¹
oes dewrwalch sy falch a saif
o lywelyn² ai loewlaif
oes Rys ai ddvrgrys³ ddewrgryf
8 gethin ei hynt erbin tyf⁴
makwy inal kawr fawr fowredd
mab Gruffydd Vychan glan gledd
ysgwiar gair gorevrwayw⁵
12 ys gwr a dorai/n waisc⁶ wayw

¹ Dechreuau y bardd trwy gwyno o herwydd y cyfnewidiad oedd wedi cymmeryd lle yn hanes y pendefigion Cymreig o'r yr oesau gynt; ac y mae yn ein hysbysu fod y wlad a fu unwaith dan reolaeth y Brytaniaid yn cael ei meddiannu bellach gan y Seison, y rhai oeddynt yn poeni Cymru beunydd.

² "Llywelyn ein Llyw Olaf," mae'n debyg.

³ "Ddurgrys"—*coat of mail*?

⁴ Pa un ai *Erbin* tyf, gan gyfeirio at Erbin tad Geraint, ynte *erbyn* tyf, a feddylir yma?

Os yr olaf, rhaid nad oedd Rhys ond bachgen dan oed pangyfansoddwyd y cywydd. Ond gan nad ydyw y gweddill o'r gân yn caniatáu hyn, rhaid mai cyffelybu Rhys i Geraint ab Erbin, a syrthiodd ym mwrwydr Llongborth, yr hwn oedd ryfelwr cadarn, y mae y bardd yma.

⁵ Defnyddir y gair "Ysgwiar" yma, fel y gwelir oddi wrth rediad y llinell, yn ei ystyr gyntefig—un yn dwyn arfau.

⁶ "Yn waisg"—yn gyflym, neu ddeheuig. Cyfeiriad at ei fedrusrwydd i dori arfau y gelynyon.

- mae fo/n gawr y rhychawr hir
 mae/r gwr o rym mawr gerir
 mae/n dda i le yw gynefin
 16 ymron gallt mal i rannv gwin
 mae/n y glynoedd lle r oeddynt
 ei dad gwyh ef ai daid gynt
 Rys a gynail rhwyse yno¹
 20 a yrr y ffeils wyr i ffo
 os aliwns² a gwnsselan³
 i dorri i fraint dirfawr rann
 kwmwrw ni fwrw ef ariant
 24 kadw i ran mal kynan⁴ kant
 a chadw lle mae/n warcheidwad
 nankonwy⁵ mygr ofwy mad
 milwr yw a gwaew melyn
 28 megis owain glain y glynn

¹ Yn ol y Chevalier Lloyd (*Hist. Powys Fadog*, vol. i., p. 193) yr oedd Rhys yn byw yn Hendref Rhys Gethin, ym mhlwyf Bettws y Coed. Ac yno, y mae'n debyg, y dywed y bardd ei fod yn hael o'i win, ac yn cynnal rhwysg. Gelwir y lle yn bresennol yn Hendre Sgethin—(Sgethin = Rhys Gethin). Math o balasdy bychan ydyw yn ymyl Bettws y Coed, ger llaw y ffordd i Gapel Curig. Saif y tŷ ar le gwastad, ond y mae gallt serth ychydig o'r tu cefn iddo.

² Yn ol William Salesbury (*A Dictionary in English and Welshe*) "aliwn" yw *alien*; ac wrth "aliwns," medd ef, yr ydym i olygu *alienes*. M'elley estroniaid, sef y Seison, mae'n debyg, a feddylir yma wrth "aliwns."

³ "Gwnsselan" (o *counsel*) = a gynghorant.

⁴ Bu amryw ryfelwyr dewr o'r enw Cynan; ac y mae yn anhawdd gwybod pa un o honynt a feddylir yma.

⁵ Yn y *Myv. Arch.*, p. 741, dywedir wrthym fod cwmwdd Nant Conwy yn cynnwys y plwyf a ganlyn:—"Pen Machno, Dolwyddelen, Llanvihangel y Bettws, Llan Rhychwyn, a Trevriw." Ond dywed Owen Jones (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. ii., tudal. 353) fel y canlyn:—

"NANT CONWY, cantref yn y parth dwyreiniol o swydd GAER YN ARFON, yn cynnwys plwyf Bettws y Coed, pedwar plwyf arall, a rhanau o ddau eraill. Erwan, 46,326. Poblogaeth yn 1851, 4,281; yn 1861, 4,556. Tai annedd, 932."

- llonydd yn i ddydd ai ddart¹
oedd Rys yn yddiav Risiart²
yn awr iw gledd mynn hir glod
32 i'r maes yn a im-ossod³
os blin dros y blaenevdir⁴
yr ynys ar dyrys dir
e wna Rys iawn wllys ner
36 yw faendai y cyfiownder
a deil fo r eidal i fôn⁵
yn daer iawn gidar union⁶
ymhob ias ag ymhob ing
40 bann gofier o bv/n gyfing
mynna i barch ai gyfarch gynt
er aliwns a gwerylynt⁷
gwr glan glew fal y llew llonn
44 gwr ag enw fal gwrgvnon⁸
edn⁹ ni fflyg pe doen a fflaid
ag er dig lloegr ai dvgiaid
dros gadw mewn dyrys goedydd
48 yr yri¹⁰ fal eryr fydd

¹ "Ddart" (o *dart*, Seis.) = picell.

² Gwelwn oddi wrth y llinell hon nad oedd Rhys wedi cymmeryd arfauhyd wrthryfel Owain Glyndwr; o blegid dywedir yn amlwg iddo fod yn llonydd yn nyddiau Richard II. Ond awgrymir yn y llinellau dilynol iddo ddyfod allan o ddifrif o blaid y Cymry.

³ Ymddengys fod y testyn yn anghywir yma. Ai ni fyddai "I'r maes, yna ymosod" yn well?

⁴ "Blaenevdir" = mynyddoedd?

⁵ Nis gallwn weled unrhyw synwyr yn y llinell hon—O'r "Eidal i Fôn"!

⁶ Awgrymir ei fod yn ffyddlawn o blaid yr hyn oedd iawn—achos Owain Glyndwr; a hyny trwy bob

ing a chyfyngder, yr hyn sydd yn awgrymu fod amryw o frwydrau caled wedi eu hymhladd cyn i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi.

⁷ Ysgrifeniir "gwrylynt," gan roddi *e* oddi ar yr *to* mewn llaw ddiweddar.

⁸ Yr unig ddyfaliad sydd genym am "gwrgunon" ydyw ei fod yn ymgais at Gymreigio y *Gorgons*, neu dair merch ddychymmygol y môr-dduw Phorcys o'i wraig Ceto—sef Medusa, Euryale, a Stheno; a'r rhai a osodir allan gan chwedloniaeth fel yn hynod o greulon a gwaedlyd.

⁹ "Edn"—aderyn; gan gyfeirio at ei gyflymder a'i gydnabyddiaeth a dirgelfanau y coedwigoedd.

¹⁰ "Yr yri"—Eryri (*Snowdon*).

- o daw mann hyd ymynawr
 gaer i wi kad farchnad fawr
 yn gall ag ni fyynn gellwair
 52 yn y drin kethin y kair¹
 breyr² saif a bair hir son
 o for manaw³ i feirion
 penllad⁴ yn ^{ein} gwlad glodfawr
 56 pur o iach fab mewn parch fawr
 pendefig at ryfig⁵ troes
 poed iw rann pedair einioes

Iolo Goch.

¹ Ymgeisia y bardd chwareu â'i gyfenw *Gethin* yma, trwy osod i mewn yr ansoddair *celhin*=llym, brwnt, &c.

² "Breyr" = Brehyr: gair a ddefnyddir yn fynych yn y Cyfreithiau a briodolir i Hywel Dda, yn gyfystyr âg *uchelwr*. Y mae i'w gael hefyd yng ngweithiau amryw o feirdd Cymreig y canol oesoedd.

³ Môr Manaw = the Irish Sea.

⁴ "Penllad" = y da uchaf; y mae y frawddeg i'w darllen fel hyn: "Penllad yn ein gwlad glodfawr." Y mae *ein* yn ysgrifenedig uwch ben yr ail *yn*.

⁵ "Ryfig" a olyga yma *feiddgaroch*.

VII

KOWYDD IEVAN AB EYNYON AB GRVFFYDD.

(*O'r Add. MS., 14,978, fol. 63.*)

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,891 (pedair llinell), 14,964, ac yn *Y Piser Hir*, p. 76.

Yr oedd Ieuan ap Einion, yn ol Syr John Wynn (*Hist. Gwydir Family*), yn frawd i Syr Hywel y Fwyall; ond yn ol golygydd Lewys Dwnn (*Heraldic Visitations*, vol. ii., p. 101, note 8), yr oedd Syr Hywel yn fab i Griffith ap Howel, ac yn ewythr i Ieuan ap Einion. Yr ydym eisoes (Cywydd Rhif II.) wedi rhoddi achres, yr hon a ddengys fod Ieuan yn nai i Syr Hywel; ac y mae gan y Chevalier Lloyd (*Hist. Powys Fadog*, vol. v., p. 290), achres arall yn profi yr un peth. Dechreua fel y canlyn:—

Howel ab Maredydd ab Einion ab Gwgan=Gwenllian, dau. of Gruffydd, ab Merwydd Goch ab Collwyn ab Tangno, the 2nd son of Ednyfed Fychan.
Lord of Eivionydd and Ardudwy. *Sable*, a chev. inter three fleurs-de-lys *argent*.

Gruffydd ab Howel=Angharad. Ieuan of Cefn y Fan, now called Ystum Cegid. He had three daughters, co-heiresses.

Einion=Nesta, d. of Gruffydd ab Adda. Sir Hywel y Fwyall, Knt.; *ob.* Ieuan. *sans* issue legitimate.

Ieuan, *temp.* Richard II.=Gwenhwyfar, d. of Ynyr Rhys ab Nesta. of Bron y Foel, Ystym- Vychan, Lord of Nan- Einion. llyn. nau.

Howel Fychan=Angharad, d. of Llywelyn Rhys of=Gwerfil, d. of of Bron y Foel. ab Howel. Chwilog. Rhys Gethin.

Goronwy, *jure*=Eleanor, d. and heiress Madog ab=Gwerfil, d. of Rhys of Gwyn- of Robert Puleston of Ieuan. ab Tudor ab fryn. Gwynfryn and of Emral. Goronwy.

Os oes coel ar yr achau, yr oedd rhyw gyssylltiad teuluaidd neu briodasol rhwng y rhan fwyaf o arwyr Iolo Goch. Gwelir yma fod mab i Ieuan wedi priodi merch i Rhys Gethin (Cywydd Rhif VI.), a mab arall iddo wedi priodi merch Rhys ab Tudur ab Gronw (Cywydd Rhif XXV.).

Sylwa y Parch. Robert Owen (*The Kymry*, p. 94), ar awdurdod Tschudi, fel y canlyn:—

“Few, perhaps, are aware that the English Company of Enguerrand de Coucy, defeated by the Swiss on January 13, 1376, at Buttisholz, was commanded by Ieuan ap Einion; whom an old song of the period styles ‘Hertzog Yffo von Callis mit sim guldinen hut,’ the chief Evan of Wales with his golden hat. Enguerrand was a son-in-law of Edward III., and held fiefs in Wales, which explains his having a Welsh lieutenant.”

Ac y mae yn debyg mai yr un oedd yr Ieuan ap Einion hwnw a gwrthddrych y cywydd hwn. Rhydd Iolo gryn ganmoliaeth iddo am ei haelioni a'i ddewrder. Nis gwyddom pa bryd ei ganwyd, na pha bryd y bu farw; ond ymddengys i ni oddi wrth llin. 28 ei fod yn bleidiwr i Owain Glyndwr. Profa hyny i'r cywydd gael ei gyfansoddi yn ystod y gwrthryfel—o bosibl rhwng 1400 a 1404.

Pwy sy oi rym passior Iaith
 pwy yn dilud top hen dalaith¹
 penaeth mawr i hap anwyl
 4 parch gwlad kynheilad kan hwyl²
 pwys dwy ynys post hen aur
 pen gwlad wyd ai pinagl aur³
 Ivan yn dy ran i gaeth
 8 ab Einion fyw yn benaeth⁴

¹ “Pwy sy o rym yn passio'r iaith?
 pwy'n dilid top hen dalaith.”
Add. MS., 14,964.

² “Pennaeth mawr i hap anwyl
 parx gwlad cynheilad can hwyl.”—*Add. MS.*, 14,964.

³ “Pwys dwy ynys post henaaur
 pen gwlad wyd a'n pinagl aur.”—*Add. MS.*, 14,964.

⁴ “Iefan yn dy ran yr aeth
 fab Einion fyw yn benaeth.”
Add. MS., 14,964.

- hynod iawn yw dy henw da
 had gruffvdd¹ hyd gaer offa
 Ysgwier gwyx oes gwr gwell
 12 ach eidwad mwy no chadell²
 Suri mawr dros aur a medd
 a droy i enw drwy wynedd³
 gwraidd daf ag iroedd dyfiad
 16 gallon hil gollwyn ai had⁴
 dyn irddewr yn dwyn urddas
 dragwn ai sel drwy gan ssias⁵
 Kymer faner Yfionydd
 20 Kae mawr o vewn Kymry fydd⁶
 rrent havaidd avr yn tyfv
 ardvdyw aeth ar dy dv⁷

¹ "Gruffydd."—*Add. MS.*, 14,964.
 Gruffydd oedd enw ei daid—Ieuan
 ap Einion ap Gruffydd.

² "Escwier gwyx oes gair gwell
 A Reidwad mwy no xadell."
Add. MS., 14,964.

Cofnodir amryw enwogion yn
 dwyn yr enw Cadell—Cadell fab
 Geraint, dau Gadell Deyrnllwg,
 Cadell ab Urien, Cadell mab Arth-
 fael ab Hywel, a Chadell fab Rhodri
 Mawr—tad Hywel Dda.

³ "Sirif mawr dros aur a medd
 a droe enw drwy Wynedd."
Add. MS., 14,964.

⁴ "Sir y mawr dros aur a medd
 Troes ei enw ef tros Wynedd."
Piser Hir.

⁵ "Gwraidd daf ac iraidd dyfiad
 Gallu un hil Gollwyn had."
Add. MS., 14,964.

"Gwraidd dwf," &c.—*Piser Hir.*
 Ai nid "gwraidd dwf" a ddylai
 fod yn lle "gwraidd daf"? Gwelir
 oddi wrth yr achres a flaenora
 Cywydd Rhif II. fod Ieuan ap
 Einion yn disgyn mewn llinell
 unionsyth o Collwyn ab Tangno, yr

hwn oedd arglwydd Ardudwy,
 Arfon, a Lleyr; a'r hwn a bre-
 swyliai yng Nghaer Collwyn, lle y
 saif Castell Harlech yn awr.

⁶ "Sias."—*Add. MS.*, 14,964.

⁷ "Cymmer faner y 'Fionydd
 Cae mawr o fewn Cymry
 fydd."—*Add. MS.*, 14,964.

"Cae"—ai nid *Caer*?

Cynnwysa Cwmmwd Eifionydd y
 plwyfi canlynol:—Aelhaiarn, Bedd-
 gelert, Llanfihangel y Pennant,
 Penmorfa, Dolbenmaen, Criccieth,
 Llangynhaiarn, Treflys, Llanys-
 tumdwy, Llanarmon, a Llangybi
 (*Myv. Arch.*, p. 741). Ac ym
 mhlwyf Llangynhaiarn (neu Ynys-
 cynhaiarn) y saif Bron y Foel, hen
 gartrefle Ieuan ap Einion; yr hwn
 sydd er yr llawer dydd bellach wedi
 ei droi o fod yn balasdy i amaethdy
 cyffredin.

⁷ "Rhent hafaidd aur yn Tyf
 Aerdudwy aeth ar dy Dŷ."
Add. MS., 14,964.

"Os ein tir sy yn tynu,
 Ardudwy aeth ar dy du."

Piser Hir

- 24 Koed pasgen o nen yn iaith
Kry dilesc yn kavr dalaith¹
rwydd a gwyh i rod-di ged
rowiog walch Irien reged²
brig bonedd bro gwnedd³ gain
- 28 blodeuog o blaid owain⁴
ai cheidwad evrwyh ydwyd
ai seker oll ai swkwr wyd⁵
ai daioni ymob dinas
- 32 ai grym urddeg ai gras⁶
ai tryssor lleir wtressen
ai pont urddedig ai pen⁷
dewr ach adarn drych ydwyd
- 36 dwyfol a chall difalch wyd⁸

Saif Cwmmwd Ardudwy yn y rhan orllewinol o Sir Feirionydd, a chynnywysa y plwyf a ganlyn :— Ffestiniog, Llanfrothen, Maentwrog, Llandecwyn, Llanfihangel y Traethau, Llandanwg, Llanfair, Llanbedr, Llanenddwyn, Llanddwywe, Llanaber, Llanelltyd, a Trawsfynydd (*Myv. Arch.*, p. 741). Ond rhenir ef yn awr i ddybenion heddynadol i ddau ddosbarth—Ardudwy is Artro ac Ardudwy uwch Artro, y rhai a wahanir gan yr afonig Artro a ymarllwysa i feisfor Ceredigion, ger Llanbedr. Y mae yn awr hefyd ddau blwyf o'r enw Llanddwywe, sef Llanddwywe is y Graig, a Llanddwywe uwch y Graig. Ym mhlwyf Llandanwg y saif Harlech, a thebyg fod rhyw gyssylltiad rhwng Ieuan a'r lle.

¹ "Coed Pasgen o nenn yn iaith Cry dilesc carw ar dalaith."

Add. MS., 14,964.

Nis gwyddom pa le y mae Coed Pasgen. Ond hysbysir ni fod dau amaethdy o'r enw Nant Pasgen uchaf, a Nant Pasgen isaf, ar y

mynydd rhwng Trawsfynydd a Talsarnau; ac fod nant o'r enw Nant Pasgen yn eu hymyl.

² "Rhwydd a gwŷx y rhoddai gēd rhywiog-walx Urien Rheged."

Add. MS., 14,964.

Olrheinir (*Brython*, cyf. iii., tudal. 287) achau Ieuan ap Einion, i Collwyn ab Tangno ab Cadfael, ab Ludd Gwyn, ab Llew, ab Llyminod Angel, ab Pasgen ab Urien Reged.

³ "Gwynedd."

Add. MS., 14,964.

⁴ Owain Glyndwr, mae'n debyg—Ieuan yn bleidiwr iddo.

⁵ "Ei xeidwad eurwyx ydwyd ei seccer oll ai swcr wyd."

Add. MS., 14,964.

⁶ "Ai daioni ymhob dinas ei grym urddedig a'i grās."

Add. MS., 14,964.

⁷ "Eu tryssor lle'r wttresen Eu pont urddedig au pen."

Add. MS., 14,964.

⁸ "Dewr a xadarn dryx ydwyd dwyfawl a xall difalx wyd."

Add. MS., 14,964.

- Kynheiliad ar dyfiad Ion
 chwilog avr ddoniog ddynion¹
 Kaer fawr rag gwyr o foroedd
 40 kost llai yn y kastell oedd²
 llys ffwg a llawes y ffordd
 llety yn braff lled hen briffordd³
 kwrt hynod is llyn frodir
 44 kell y gwin kellewic ir⁴
 mae daioni y myw dynion
 at hil y fan aylwyd hon⁵
 llawn wych frenhinlle hynod
 48 llety r gler llei tarier glod⁶
 llewych y drych y drychwn
 lliw dy frig fal kerig hwn⁷
 kynheiliad ych tad ich ty
 52 kan hanedd i kawn hyny⁸
 treiaist avr tros dy werin
 tyny holl waed tvnell win⁹

¹ "Cynheiliad ar dyfiad ion
 Xwilog aurddoniogddynion."
Add. MS., 14,964.

Dysgrifir Ieuan ap Einion gan
 rai achyddwyr fel o "Fron y Foel
 a'r Chwilog."

² "Caer fawr rhag gwyr o
 Voroedd
 Cost llai yn y castell oedd."
Add. MS., 14,964.

³ "Llys ffwg yn llawes y ffordd
 Llettywbrafflled briffordd."
Add. MS., 14,964.

Cymhara Iolo lys Ieuan i eiddo
 Syr Ffowc Fitz-Warine.

⁴ "Cowrt hynod is llyn Crodir
 cell y gwin Celliwig ir."
Add. MS., 14,964.

"Llyn frodir."—*Piser Hir.*

Nis gwyddom pa le mae Llyn
 Frodir na Llyn Crodir; ond y mae

yn debyg mai at lys y brenin Arthur
 yng Nghernyw y cyfeirir trwy nodi
 Celliwig.

⁵ "Mae daioni mwy Dynion
 at hil Iefan aelwyd hon."
Add. MS., 14,964.

⁶ "Llawnyx frenhinlle hynod
 Lletty'r glér lle taria y glod."
Add. MS., 14,964.

⁷ "Llewyx fal dryx edryxwn
 lliw dy frig fal cerrig hwn."
Add. MS., 14,964.

⁸ "Cynheiliad eix tad ix ty.
 can hanedd i cawn hynny."
Add. MS., 14,964.

⁹ "Treiaist aur tras dy werin
 tymy holl waed tunnell o
 win."

Add. MS., 14,964.

"Tynnu holl waed tunell o
 win."—*Piser Hir.*

- 56 tryssor mawr i ragor wyd
tros wledydd trossol ydwy¹
tor di gwys mewn troydeg avr
tad arwyddion tid ruddavr²
tyhyrnedd gwynedd i gyd
60 tror fei trwy wyr o fowyd³
tan yn wyd o enav mon
ar gwyr ywchod ywr gwreichion⁴
barwn o wr in bro ni
64 byw ai o lvd fal beli⁵
trwy faenol tir yfionydd
tra fych a fynych a fydd⁶
gwell ry draws gallv rodri
68 athir yn does ithran di⁷

¹ "Tryssor mawr i ragor wyd
tros wledydd trassol ydwyd."
Add. MS., 14,964.

Diffyg y copiwr oedd gadael d
allan yn "ydwyd."

² "Tor di gwys mewn troedog
aur
tad arwyddion tid ruddaur."
Add. MS., 14,964.

³ "Teheyrngedd Gwynedd i gyd
tro'r fei trwy wyr o fowyd."
Add. MS., 14,964.

Mewn ysgriflyfr o eiddo Canon
Silvan Evans, ceir y cywydd wedi
ei gopio gan Cadben Mounsey, o'r
Add. MS., 14,964, gyda darllen-
iadau ar ymyl y ddalen gan y Canon
Evans o un o ysgriflyfrau yr Hen-
gwrt (ym Mheniarth). Ac ar gyfer
y ban hwn ceir y darlleniad—"Not

teyrnedd Gwynedd i gyd;" hyny
yw, Nod teyrnedd Gwynedd i gyd

⁴ "Tan ym wyd o enau Môn
o'r gwyr uxod yw'r gwr-
eixon."—*Add. MS.*, 14,934.

⁵ "Barwn o wr in bro ni
byw ai o'ld o Beli."
Add. MS., 14,964.

Nodir amryw wroniaid chwed-
lonol a hanesiol wrth yr enw Beli—
Beli fab Dyfnwal Moelmud, Beli
fab Benlli Gawr, Beli Mawr ab
Manogan, a Beli ab Rhun ab Mael-
gwn Gwynedd.

⁶ "Trwy faenol tir Eifionydd
tra fyx a fynych a fydd."
Add. MS., 14,934.

⁷ "Gwell rhydraws gallu Rhodri
na thruan dos oth ran di"
Add. MS., 14,964.

Sylvaen Iaith sy o vlaen neb
 Sein daioni syn dwyneb¹
 Swyddog mewn gras wlkassar
 72 Saf ith garn sy fyw ath gar²

Iolo goch ai k :

¹ " Sylfaen iaith sy o flaen neb
 Sein daioni sy'n d'wyneb."
Add. MS., 14,964.

² " Swyddog mewn grâs wlcasar
 Sâf i'th garn sy fyw a'th gâr."
Add. MS., 14,964.

" Sein " (Seis., *sign*).

Wlkassar = Iwl Caisar, *Julius Caesar*.

VIII.

CYWYDD YR ACHAU I OWAIN GLYNDWR CYN
Y RHYFEL.

(O'r Add. MS., 14,970, fol. 71b).

Y mae y cywydd hwn yn *Y Piser Hir*; a thybiwn, er nad ydym yn sicr, ei fod hefyd yn *Add. MS.*, 14,971. Byddai yn orchwyl anhawdd penderfynu ei amseriad i sicrwydd; ond tybiwn ei fod yn un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf oll, a ganodd Iolo Goch i Owain Glyndwr. Os caniateir mai oddeutu yr amser yr oedd Owain gyda'r Brenin Richard II. yn Ysgotland y gwnaed ef yn Farwn, yna gallwn gasglu iddo gael ei gyfansoddi yn fuan ar ol y flwyddyn 1385. Gelwir Owain yn y cywydd yn *Farwn*, ond nis gwyddom i'r brenin roddi uwch teitl na *Syr* iddo. Gallwn dybied hefyd oddi wrth llin. 75 mai newydd briodi yr oedd, onide ni fuasai achos i'r bardd ddymuno iddo "iechyd a phlant gwych-heirdd." Y mae yn y cywydd rai llinellau cryfion, yn arddangos gallu y bardd a grymusder ei awen. Ond nid ydyw bron o'r dechreu i'r diwedd ond achres o hynafiaid y gwrthddrych, yn gymysgedig â sylwadau canmolïaethol; a gofidia Iolo nad yw ei alluoedd ef yn ddigonol i roddi canmolïaeth gyfatebol i haeddiannau Owain. Y mae yr achau a geir yn y cywydd yn ei wneyd yn werthfawr yn gymmaint a'u bod yn cytuno, can belled ag y maent yn myned, â'r taffenau achyddol a dderbynir yn gyffredin. Gwnawn yma ddefnydd o daffenau Gwallter Mechain (*Gwaith*, cyf. iii., tudal. 63-4) er mwyn gosod achau Owain Glyndwr ger bron y darllenydd.

Bleddyn ab Cynfyn,=
Tywysog Powys.


a

Rhys ab Tewdwr,=
Tywysog Deheu-
dir Cymru.

b

Gruffydd ab Cynan,=
Tywysog Gwynedd.

c



Yn ei nodiadau ar yr achau hyn, y mae Gwallter Mechain yn beirniadu yn llym ysgrif o waith Mr. William Maurice, o Gevn y Braich, yr hwn oedd yn hynafiaethydd da yn ei ddydd; yn yr hon, ym mhlith pethau ereill, y

dywedir nad oes yn achau Owain yr un Madog Grupl, na Gruffydd Farwn Gwyn, sef y *Madog Gloff* a'i dad, *Gruffydd Fychan*—enwau y rhai a italeiddir genym yn y daflen. Y mae William Maurice a Gwallter Mechain, y naill fel y llall, yn dyfynu o'r cywydd canlynol er profi y ddadl. A chan belled ag yr ydym yn deall, tybiwn mai yr olaf sydd gywir. Pa fodd bynag, ymddengys i ni mai gorchwyl lled anhawdd a fyddai cadarnhau pob rhan o'r achau uchod. Cymmerai ormod o'n gofod i ni fanylu ar yr anghyssonderau Ond gallwn sylwi wrth fyned heibio ein bod yn ammeu yr haeriad a wneir yn gyffredin fod mam Helen (mam Glyndwr) yn ferch i Catherine, merch Llywelyn ab Gruffydd, tywysog Cymru. O blegid hysbysir ni gan ereill mai unig ferch Llywelyn, o'i wraig Eleanor de Montfort, oedd Gwenllïan; ac i hono gael ei gorfodi gan Edward I., ar ol marwolaeth ei thad, i dreulio y gweddill o'i hoes mewn lleiandy. Os felly, nis gallasai fod merch gyfreithlawn i Llywelyn wedi priodi Philip ab Ifor, na'i bod yn fam i Eleanor Goch, gwraig Tomas ap Llywelyn ap Owain. Fel y canlyn y sylwa Bridgeman (*Hist. Princes of South Wales*, p. 259) am achau a haniad Owain Glyndwr:—

“Dywedir ei fod yn honi ei hawl etifeddol i Dywysogaeth Cymru am ei fod yn gynnrychiolydd ei hen Dywysogion; yr hwn honiad sydd yn agored i gryn wrthddadl. Yr oedd, fel yr ydym wedi egluro, yn ol pob tebygolrwydd, yn gynnrychiolydd uniongyrch Powys Isaf;—yr oedd, trwy ei fam Elen, merch Thomas ap Llywelyn, yn ddiammheuol, y cydetifedd hynaf i brif linell Tywysogion Deheudir Cymru;—ac y mae yn hollol gredadwy ei fod ef a'i gefnder John, Arglwydd Mawddwy, yn cydgyfranogi âg Edmund Mortimer, Iarll March, yr hawl o etifeddu gorsedd Gogledd Cymru,—nid (fel y priodolir iddynt yn gyffredin) trwy unrhyw ddisgyniad o Catherine, merch ddychymmygol y Tywysog Llywelyn ap Gruffydd,—ond am eu bod yn ddisgynyddion o Angharad, gwraig Maelgwn Fychan ap Maelgwn ap Rhys; yr hon Angharad a'i chwaer Gwladys, gwraig Ralph de Mortimer

oeddynt ferched Llywelyn ap Iorwerth, Tywysog Gogledd Cymru, o'i wraig Joan, merch anghyfreithlawn y Brenin John, a chwiorydd Dafydd ap Llywelyn, Tywysog Gogledd Cymru."

Y mae Bridgeman (*Hist. Princes of South Wales*, p. 250) yn sylwi fod Thomas ap Llywelyn ap Owain—sef tad mam Owain Glyndwr—yn arglwydd rhan o Iscoed Uchirwen [Uch Hirwen sydd gywir], ac un ran o bedair o Gwynionydd; ac iddo farw ryw bryd yn flaenorol i Awst 14, 1343, gan adael ar ei ol dri o blant, sef Owain ap Thomas, Helen (mam Glyndwr), a Margaret, yr hon a briododd yn gyntaf William ap Griffith de la Pole, Arglwydd Mawddwy, ac a briododd wedi hyny Tudur ap Grono, Marchog. Tybia Bridgeman i Owain ap Thomas farw yn ddiblant, yn fuan ar ol y flwyddyn 1355, pryd y rhanwyd ei diriogaethau rhwng ei ddwy chwaer, sef arglwyddiaeth Iscoed a rhan o Gwynionydd i Helen, mam Owain Glyndwr, ac arglwyddiaeth Trefgarn a rhan o Gwynionydd i Margaret.

Mewn perthynas i'r enwau lleol a nodir gan Bridgeman gallwn sylwi mai nant fechan ydyw yr Hirwen a ymuna â'r afon Teifi oddi ar dref Aberteifi, yr hon dref sydd yn Is Hirwen. Y mae Gwynionydd yn ffinio ar yr afonig Cerdin, neu Cerdyn, uwch law Iscoed. Yn Iscoed y mae Llandyfriog.

Myfyrio¹ bum i Farwn
Moliant dyhuddiant² i hwn.
Arwyrain³ Owain a wnaif
4 Ar eiriau mydr i'r euraif

¹ Rhydd y bardd ar ddeall mai nid cyfansoddiad difyfur mo hwn; ond ei fod wedi bod yn destyn ei fyfyrddod am amser.

² Y mae yn lled sicr mai nid yn yr ystyr o *heddychu* yr ydym i

ddeall y gair "dyhuddiant" yma; o blegid nid oes grybwylliad am unrhyw anghydwelediad blaenorol. Y syniad yn ddiammeu yw ei fod yn canu er ei *adloniant*.

³ "Arwyrain" = mawlderdd.

- Beunydd nid naddiad gwydd gwern¹
 Pen saerwawd pen y sirwern,
 Pwy ynglawr holl Faelawr hir
 8 Paun rhwy Glyn Dyfrdwy dyfrdir
 Pwy ni dylai pebai² byd
 Pwy ond Owain paun diwyd ?
 Y ddwy Faelawr³ mawr eu mál
 12 Eithr efo a Mathrafal.⁴
 Pwy a ostwng Powysdir⁵
 Pe bai gyfraith a gwaith gwir
 Pwy'n eithr y mab Pennaethryw
 16 Owain Gruffudd Nudd⁶ yn yw.
 Ap Gruffudd llafnrudd y llall
 Gryfgorph cymmen digrifgall

¹ Gallem dybied oddi wrth y llinell hon fod y grediniaeth yng nghylch yr hyn a ddywedir mewn cyssylltiad â Choelbren y Beirdd mor hen ag amser Iolo Goch, sef fod yr hen Gymry yn cerfio, neu yn tori eu cofnodion a'u cyfansoddiadau ar goed. Ond awgryma y bardd yma ei fod yn bwriadu ysgrifenu ei arwyrain ar ryw sylwedd mwy parhaol na gwernen.

² Pe bai.

³ Saif y "ddwy Faelawr" — Maelor Seisoneg a Maelor Gymraeg—o'r ddau tu i'r afon Dyfrdwy. Perthyna y flaenaf i'r rhan raglawol o Sir Fflint, tra y mae yr olaf yn cynnwys Cantref Bromfield, yn Sir Ddinbych. Hysbysir ni yn y *Myv. Arch.*, pp. 742-3, fod Maelor Seisoneg yn cynnwys "Plwyv Bangor, Y Gwrddymp, Hangmer, ac Wrtyn Vadoc;" a Maelor Gymraeg yn cynnwys "Rhiw Vabon, Y Bistog, Y Marchwiail, Gwrecsam, Y Gresffordd, a Yr Holt."

⁴ Mathrafal sydd drefgordd a chantref yn Sir Drefaldwyn. Hyd y gwyddom, nid oedd unrhyw ranau o'r ddwy Faelor na Mathrafal ym meddiant Owain Glyndwr, ond buont ym meddiant hiliogaeth Bleddyn ab Cynfyn, o'r rhai yr hanai Owain.

⁵ Tebyg fod yma gyfeiriad at ryw orthrwm ag y tybiai y bardd y dylid ei ddarostwng, yn gystal a chyfeiriad daroganol mai Owain a fyddai y gŵr i wneyd hyny. Er cymaint a ymfrostrir gan y beirdd ym mhob oes eu bod yn wŷr heddwch, yr ydym yn cael fod y mwyafrif o honynt gynt yn annog i ryfel; ac yr oedd Iolo felly yn llawn cymaint a neb.

⁶ Cyffelybir Owain yma i Nudd, fab Senyllt ab Cedig ab Dyfnwal Hen ab Ednyfed ab Macsen Wledig, a flodeuai yn y chweched ganrif; a'r hwn a restrir yn y Trioedd fel un o "Dri Haelion Ynys Prydain."

- Gorwyr Madog¹ Iôr Mendeingl²
 20 Fychan yn ymseingan seingl,
 Goresgynnydd³ Ruffydd rwydd
 Maelawr gywirglawr Arglwydd
 Hil Madog hir oediog hen⁴
 24 Gymro ger hoywfro Hafren
⁵Hil Fleddyn⁶ hil Gynfyn gynt
 Hil Addaf⁷ ddewr hael oeddynt

¹ Madog, tad Gruffydd o'r Rhuddallt. Gwraig Madog oedd Gwenllian, merch Ithel Fychan, Arglwydd Mostyn yn Tegeingl, ab Ithel Llwyd, ab Ithel Gam. (*Hist. Powys Fadog*, vol. i., p. 196; *Arch. Cambr.*, 1884, p. 290). Yr oedd yn Arglwydd Glyndyfrdwy a hanner Cynllaith; a bu farw Tachwedd 11, 1306.

² Mud-eingl (= *dumb-Angles*)? Hysbysir ni fod y fan y safai palasdy Owain Glyndwr yng Nglyndyfrdwy yn myned dan yr enw "Pwll Eingl" (*Gwaith G. Mechain*, vol. iii., p. 66).

³ "Goresgynnydd Ruffydd . . . Maelawr" = y pummed mewn disgyniad o Gruffydd Maelawr. Ar y geiriau hyn y mae y ddadl yn troi rhwng Gwallter Mechain a William Maurice. Y cwestiwn ydyw pa un ai Owain Glyndwr ynte Madog Fychan a feddylir wrth y "goresgynnydd." Os gadewir allan Madog Gloff a Gruffydd y Barwn Gwyn o'r achres, nis gallasai nag Owain na Madog fod yn *oresgynnydd* i Gruffydd Maelawr—o blegid buasai Owain yn chweched, a Madog yn drydydd, mewn disgyniad. Ond os rhoddir yr enwau a nodwyd i mewn, yr oedd Owain yn wythfed, a Madog yn bummed, mewn disgyniad—ac felly yn "oresgynnydd"—o Gruffydd Maelawr.

Felly, Gwallter Mechain oedd yn gywir. Bu farw Gruffydd Maelawr yn y flwyddyn 1190; a chludwyd ei gorff o Gastell Dinas Brân, lle y preswyliai, i Meifod i'w gladdu.

⁴ Madog ab Meredydd ydyw yr un y cyfeirir ato yma. Bu yn dywysog Powys Fadog o 1130 hyd ei farwolaeth yn 1159. Yn ol "Parthau Cymru" (*Myv. Arch.*, p. 735), cynnwysai Powys Fadog y cymmydau a ganlyn:—Dinmael, Edeyrnion, Glyndyfrdwy, Ial, Ystrad Alun, yr Hob, Merford, Maelor Gymraeg, Maelor Saesneg, Croes Faen, Tref y Waun, Croesoswallt, Mochnant Is Rhaiadr, Cynllaith, a Nantheudwy. Yng ngwyneb hyn yna y mae yn anhawdd deall meddwl llin. 24. Nid oedd tywysogaeth Madog yn ffinio ar yr Hafren; ond yr oedd yn briodol am Meredydd ei dad, yr hwn oedd yn dywysog ar y ddwy Bowys.

⁵ Ai ni ddylai llin. 27-28 gael eu gosod o flaen llin. 25?

⁶ Bu Bleddyn ab Cynfyn yn llywodraethu Powys o 1064 hyd 1073, pryd y cafodd ei ladd mewn brwydr.

⁷ Nid oes llawer o newydd-deb yn y llinell hon, o blegid tybir yn gyffredin fod yr oll o ddynolryw yn hanu o Adda. Pa "Addaf" a feddylir?

Hil Faredudd rudd ei rôn¹
 28 Teyrn carneddau Tëon² Tëon ?
 Hil y Gwinau dau frauddwyd³
 Hil Pywer lew fy llew llwyd,⁴

¹ Rhon = picell. "Rudd ei rôn" a gyfeiria at anianawd ryfelgar Meredydd ab Bleddyn; ac yn ol yr hanes sydd genym am dano yr oedd yn rhyfelwr dewr a llwyddiannus, ond yn un lled greulon. Olynodd ei dad, Bleddyn, fel tywysog Powys; ac ar ol ei farwolaeth ef rhanwyd y Dywysogaeth yn ddwy;—y naill ran i'w ŵyr, Owain Cyfeiliog (mab i'w fab Gwenwynwyn), yr hon a alwyd yn Powys Wenwynwyn; a'r rhan arall i'w fab Madog, yr hon a alwyd yn Powys Fadog.

² Dywedir wrthym fod Teon yn blodeuo yn y bummed ganrif. Yn ol yr achau (*Hist. Powys Fadog*, vol. i., p. 306-7) yr oedd Bleddyn ab Cynfyn, ac mewn canlyniad Owain Glyndwr, yn hanu o hono. Ceir y manylion a ganlyn am Tëon yn *Iolo MSS.*, p. 129:—"Teon Sant, ap Gwinau da i freuddwyd, ap Byrlew, ap Bywdeg, ap Rhun Rhuddbaladr, ap Llery, ap Casnar Wledic, Gloyw Gwlad lydan, ap Lludd, ap Beli Mawr, Sant oedd ef ag Escob yng Nghor Illtud, a gwedi hynny Escob yng Nghaerloyw, a gwedi hynny Archescob yn Llundain, ag oddi yno y gyrrwyd ef gan y Saeson Paganiait, yna ydd aeth i Lydaw."

Geilw Mr. Richard Williams ef yn Teon o Guilsfield; a dywed ei fod yn un o hynafiaid Llewelyn o'r Tra-llwng, ac fod y *Stiperstones*, ar gyffiniau Sir Amwythig, hyd y dydd hwn yn cael eu galw, ar ei ol ef, yn *Garneddi Teon* (*Mont. Worthies*, p.

125). Saif y mynydd a elwir *Stiperstones* ym mhlwyf Worthen, yn Sir Amwythig. Ac y mae y talpiau o greigiau a ymesthant arno yn ffurfio arddangosiad nad oes yn Lloegr ei gyffelyb. Nis gallwn ar hyn o bryd ddyfalu pa ham y daeth i gael ei alw yn *Garneddi Tëon*; ac y mae cryn anhawder yn perthyn i'r enw Seisoneg — *Stiperstones*. Yn ol nodyn a ymddangosodd yn *Bye-Gones* (Mai 30, 1894) rhoddid arno yr enw o *Stenufretames* yn amser Harri III.; ac y mae Eyton yn defnyddio y ffurfiau *Stenufretames*, *Teynfrestanes*, *Stenufrestanes*, *Tenefrestanes*, a *Tenfrestanes*. Ac awgrymir ei fod yn tarddu o *Stipele*, Anglo-Sacson am *twr*; a *stan*, Anglo-Sacson am *gareg* neu *graig*, ac mai yr ystyr ydyw *Tower Stones*. Pa fodd bynag, yn ol yr *Hanesyn Hên*, llinell Cadell oedd yn Guilsfield—"Cadelling o Gegidfa ym Mhowys."

³ Gwinau da'i freuddwyd—tad y Tëon a nodir uchod; ac yn ol y nodiadau a geir ar ddiwedd *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, p. 538, yr oedd yn frenin Prydain. Cyfeiria Dafydd ab Gwilym (tudal. 449), ato fel y canlyn—yn ei awdl i Hywel ab Tudur, Deon Bangor:—

"Sain Sud un ffunud, ffyniwyd o genedl

Y Gwinau Dau-freuddwyd;

Sain Silin, Ffransis aelwyd,

Salm Sant *Elïen*, gwrllennllwyd."

⁴ Er mwyn deall meddwl y llinell hon, cofier mai enw personol

- Hil Ednyfed¹ lifed lafn
 32 Hil Uchdrud² ddewr hael wychdrafn
 Hil Dewdwr Mawr³ gawr gwerin
 Heliwr gweilch heiliwr y gwn
 Hil Maig Mygrfras⁴ gwas gwaywsyth
 36 Heirdd fydd ei feirdd oi fodd byth
 Hawdd ammor Por eurddor pert
 Hwyl racew 'm mrwydr hil Riccert
 Barwn mi a wn ei ach
 40 Ni bu Barwn bybyrach
 Anoberi⁵ i un Barwn
 Eithr y rhyw yr henyw hwn.

ydyw "Pywer lew." Dywedir wrthym (*Cymmrodor*, vol. x., p. 85) fod Iorwerth Hirvlawdd yn fab i Tegonwy ab Teon ab Gwinau Dau Vreuddwyd ab Powyr Lew ab Bywdeg ab Rhûn Rudd Baladr ab Llary ab Casnar Wledig ab Lludd ab Beli Mawr. Gelwir *Powyr Lew* neu *Pywer Lew*, yn yr *Iolo MSS.*, yn *Byrlew*.

¹ Methasom a gwneyd allan y cyssylltiad oedd rhwng Ednyfed ag achau Owain Glyndwr.

² Uchdryd oedd fab i Edwin ab Goronwy, tywysog Tegeingl. Yr oedd Owain Glyndwr yn disgyn o hono ef trwy i Gwenllian, merch Ithel Fychan, briodi Madog (Gwel nodyn ar llin. 19). Ithel Fychan ab Ithel Llwyd, ab Ithel Gam, ab Meredydd, ab Uchdryd.

³ Y mae Iolo yma yn cyfeirio at ddisgyniad Owain o Tewdwr Mawr. Gwel yr achres.

⁴ "Maig Mygotwas," mae'n debyg; yr hwn, yn ol Pughe (*Cambrian Biography*) oedd gymmeriad dychymmygol; ond dywed Williams

(*Eminent Welshmen*) eifod yn fardd. Cyfeirir ato yn "Chwedlau'r Doethion" (*Iolo MSS.*, p. 255), lle y dywedir:—

"A glywais ti chwedl Mygotwas
 Mawr wybodau ym Marddas?
 Ys drwg y ceidw y diawl ei
 wâs."

Yn y Trioedd (*Myv. Arch.*, p. 393), rhestrir Anan, merch "Meic mygotwas," fel un o'r "teir gohoywriein Ynys Prydain." Ac ymddengys fod Maig Mygotwas yn frawd i Brechwel Ysagythrog:—"Gutuyl verch vrachan gŵreic kynger mab kynwaŵr. a mam broch- uael yscithraŵc. a mam veic meng- ŵrac. a man sanant gwreic vallgŵn" (Achau yn *Y Cymmrodor*, vol. viii., p. 83, wedi eu cymmeryd o *Jes. Coll. MS.*, 20).

⁵ "Anoberi" = diwerth, neu ychydig werth. Nid oedd Iolo yn ystyried yr un Barwn yn werth son am dano, os na fyddai ei haniad o linachau urddasol—fel yr oedd Owain Glyndwr.

- 44 Gorwyr dioer gair dwyrain
Gwenllian¹ o Gynan gain
Medd y ddwy Wynedd² einym
Da yw a gatwo Duw ym ;
Wrth bawb ei ortho ai bwyll
- 48 Arth o Ddeheubarth hoywbwyll
Cynnyddwr pob cyneiddwng³
Cnyw⁴ blaidd y rhyw cenau blwng
Pestl⁵ cad ag arglwydd-dad glew
- 52 Post⁶ ardal Lloegr pais durdew,⁷
Edling⁸ waed o genhedlaeth
Yw ef o ben Tref y Traeth⁹
Ei gyfoeth ef ai gofyn
- 56 Tref garn¹⁰ oi farn ef a fynn

¹ Y Gwenllian hon oedd ferch i Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, a gwraig i Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheubarth (Gwel yr achau uchod). Enwogodd Gwenllian ei hun trwy ei dewrder yn arwain y milwyr allan yn erbyn Maurice de Londres, arglwydd Cydweli, yr hwn a gasglodd filwyr i ymosod ar diriogaethau Gruffydd ab Rhys, yn ystod ei absenoldeb. Pa fodd bynag, daliwyd Gwenllian, a thorwyd ei phen !

² Gwynedd uwch Gonwy a Gwynedd is Gonwy. Cyfieithir llin. 45-46 gan Dr. W. O. Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Ein") fel hyn :—"The mead of the two Gwynedds is *ours* ; it is good what God preserves for me."

³ "Cyneiddwng."—Methasom a chael y gair hwn yn ein geirlyfrau.

⁴ "Cnyw"=cenaw ; neu "cenu" fel yn y pummed gair yn y llinell. Arferir "cnyw" yn ein dyddiau ni ym mlaenau Brycheiniog am *ebol sugno*.

⁵ "Pestl" (o'r Seis. *pestle*) = maluriwr.

⁶ "Post" (Seis.) = colofn.

⁷ "Pais durdew" = arfwisg.

⁸ Edling = etifedd. Ceir y gair yng Nghyfreithiau Hywel Dda am *etifedd y goron*—"Edlig yô yr hôn à dyly gôledycu gôedi y brenin." (*Myv. Arch.*, p. 965.)

⁹ Trefdraeth (*Newport*) a saif yn y rhanbarth ogleddol, neu ogledd-orllewinol, o Sir Benfro. A ydym i dybied fod cyssylltiad rhwng hynafiaid mam Owain Glyndwr â'r lle hwn? Y mae o leiaf, yn ol y mapiau, 16 milltir mewn llinell unionsyth rhwng Trefgarn a Trefdraeth.

¹⁰ Trefgarn—preswylfod hynafiaid mam Owain Glyndwr. Gelwid ef yn "Trewgarne Owen," a dywedir gan rai, heb ond ychydig, neu ddim sail, mai yno y ganwyd ef. (Gwel Owen's *Descript. of Pembrokeshire*, p. 106). Yn wir, y mae y ffeithiau yn myned yn erbyn y

- Garw wrth arw gwr wrth eraill¹
 Mwyn fydd a llonydd ir lleill
 Llonydd i wann rhan iw rhaid
 60 Aflonydd i fileiniaid²
 Llew is coed³ lluosawg ged
 Llaw a wna llu eniwed,⁴
 Llithio brain llethu Brynaich⁵
 64 A llath bren mwy no llwyth braich
 Be magwn byw i 'mogor
 Genau i neb egin lôr
 Hael eurddrem hwyl awyr ddraig
 68 I hwn y magwn ail Maig,⁶
 Tawn tawn goreu yw tewi,
 Am hwn nid ynganwn ni⁷ *i in al.*
 Da daint rhag tafawd daw dydd⁸
 72 Ynghilfach safn anghelfydd

dybiaeth iddo gael ei eni yno. Pe buasai Trefgarn yn perthyn i'w fam, rhyfedd fuasai i wraig Gruffydd Fychan o Glyndyfrdwy a Sycharth fyned i Sir Benfro i roddi genedig-aeth i'w mab. Ond yr ydym eisoes (tudal. 158) wedi sylwi mai i ran Margaret ei chwaer y syrthiodd Trefgarn. Saif plwyf Trefgarn yn nosbarth Hwlfordd, Sir Benfro.

¹ Ceirllinellaucyffelybyn Cywydd Rhif XXVIII., llin. 60-66, a Rhif XXXIV., llin. 89-92.

² Defnyddir y gair *mileiniaid* genym ni yn awr yn gyfystyr â dynion ysgeler; ond yn yr ystyr o *gaethueision* y defnyddid ef gan y bardd—*bilain*.

³ Is Coed—Arglwyddiaeth Iscoed Uch Hirwen—rhan o etifeddiaeth mam Glyndwr—yn ddiammeu a feddylir; o blegid nid' oedd cys-sylltiad rhyngddo â'r lleoedd ereill sydd yn myned dan yr enw Iscoed.

(Gwel ein nodiadau ar ddechreu y cywydd hwn).

⁴ "Llu eniwed" = llawer o niwed.

⁵ "Brynaich" = *Bernicia*. (Gwel Cywydd Rhif III., llin. 28).

⁶ Ai Maig Mygotwas (Gwel llin. 35) a feddylir? Wrth "Maig," ynddo ei hun, y golygir *arglwydd*, neu *feistr*.

⁷ Y mae y bardd wedi dyfod i'r penderfyniad o'r diwedd nas gall ei awen wneyd chwareu teg â'r testyn; ac yn barnu mai tewi a fyddai oreu iddo.

⁸ Nid ydyw y llinell hon ond ffurf arall ar yr hen ddjarheb Gymreig:—"Da yw dant i attal tafod." Ond gallem dybied oddi wrth Gywydd "I Ddavydd Goch," gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 143), mai Iolo Goch yw tad y ddjarheb:—

"Dwy ŵyl y dywed Iolo
 oedd vardd i'w arglwydd evo,

Cael o hwn coel a honnir
 Calon is Aeron¹ ai Sir,
 Ag iechyd a phlant gwyech-heirdd,
 76 Yn Sycharth, Buarth y Beirdd,²
 Un Pen ar Gymru wen wedd
 Ag un enaid gan Wynedd,³
 Un llygad cymmyniad caith
 80 Ag unllaw yw am Gynllaith.⁴

Iolo Goch ai cant.

'Dadaint rhag tavawd, dawdydd,
 Ynngilvachsavnanghelvydd';
 Da daint rhag tavawd a dau,
 Am a wnawn â'm min innau."

Hefyd yr ydym yn cael Ieuan
 Deulwyn (1450-1490) yn arfer ym-
 adrodd cyffelyb (*Gorch. Beirdd*
Cymru, tudal. 147):—

"O bu air heb ei warant,
 Goreu dim ei gau â'r dant,
 Mae'r ddiareb mor ddyras
 Ni bu gu iawn na b'ai gas."

Yn *Myv. Arch.*, p. 843, priodolir
 y ddiahebb hon i Iolo.

¹ "Is Aeron." Y mae dwy ran-
 Barth yn Sir Aberteifi yn myned
 dan yr enwau *Is Aeron* ac *Uwch*
Aeron.

² Pa bryd bynag y cyfansoddwyd
 y cywydd hwn, yr oedd Owain wedi
 ennill iddo ei hun y cymmeriad o
 fod yn hael ac yn garedig wrth y
 Beirdd.

³ Galleu dybied fod Iolo yn
 darogan yma y byddai Owain yn
Dywysog Cymru. Nis gall fod dadl,
 yn ein tyb ni, nad oedd yr hen
 fardd yn euog o rodde cryn lawer o'r
 syniadau gwylltion ym mhen Owain,
 y rhai wedi hyn a roddasant Gymru
 ar dân trwy y gwrthryfel.

⁴ Saif y rhanbarth a elwir Cyn-
 llaith yn Sir Ddinbych, i'r gor-
 llewin i dref ac arglwyddiaeth
 Croesoswallt, a chynnwysai blwyfi
 Llansilin a Llanarmon Dyffryn
 Ceiriog. Rhenid Cynllaith i ddau
 ddosbarth — Cynllaith Owain a
 Chynllaith yr Iarll; ac yn y blaenaf
 y safai Sycharth, palasdy Owain
 Glyndwr. A gelwir yr afonig sydd
 yn rhedeg, trwy blwyf Llansilin ac
 heibio Sycharth, i'r afon Tanat, yn
Gynllaith (*Owen's Pembrokeshire*,
 p. 204, note 1.)

IX.

CYWYDD I OWAIN GLYNDWR.

(*O'r Add. MS., 14,970, fol. 23b.*)

Yn y rhestr o gywyddau Iolo Goch a geir ar amlenau *Greal* Llundain, rhoddir y penawd a ganlyn i'r cywydd hwn :—" Dyvod O. Glandwr o Ysgotland." Gwyddom i Richard II. fyned ar ymgyrch i Ysgotland yn 1385, a gwyddom hefyd fod Owain Glyndwr yn un o'i ganlynwyr yn yr ymgyrch hono. Yn ol rhai haneswyr, arweiniodd Richard ei filwyr can belled ag Edinburgh, pryd y rhoddasant y dref hono ar dân, ond heb weled gwyneb y gelyn o gwbl (*Annals of England*, vol. i., p. 409; *Penny Cyclop.*, vol. xix., p. 505). Ond yn ol ereill, nid felly y bu. Ym Mai, 1385, pryd yr anfonodd brenin Ffrainc ei filwyr i gyn-northwyo yr Ysgotiaid i wneuthur ymosodiad ar Loegr, ac yr ymunasant yn erbyn Northumberland, aeth y brenin Richard i fyni o Sir Gaerefrog, ac a'u gorfododd i encilio. Croesodd y brenin drosodd i Ysgotland gyda 80,000 o wyr, a llosgodd Edinburgh, Perth, a threfydd ereill; ac yna gorfodwyd yntau i encilio, o blegid hysbyswyd ef fod John de Vienne, Morlywydd Ffrainc, yn gwarchae ar Carlisle. (*Compr. Hist. England*, vol. i., p. 488). Ac yn ol y cywydd canlynol, y mae yn amlwg i ddwy frwydr o leiaf (Gwel llin. 49) gael eu hymladd, ac i Owain Glyndwr ymddwyn yn ddewr yn y brwydrau hyny. Y mae yn amlwg mai yr ymgyrch a nodwyd oedd gan y bardd dan sylw; o blegid y mae y cywydd yn llawn o gyfeiriadau at gyffiniau Ysgotland. Ac nid oes genym hanes i Owain fod yn Ysgotland o gwbl heb law yn yr ymgyrch hono. O bosibl mai oddeutu y pryd hwn, am ryw wrhydri a wnaeth, y crewyd ef yn farchog.

Pa fodd bynag, y mae y cywydd yn werthfawr yn gymmaint
a'i fod yn gosod yr amgylchiadau cyssylltedig â'r ymgyrch
i Ysgotland mewn lliw cryfach nag a wneir gan haneswyr.
Ond nid ydym heb gofio y dylid priodoli rhyw gymmaint i
ddyghymmyg y bardd.

- Mawr o symud a hyd hydr
A welwn ni ar welydr¹
Archwn i Fair² arch iawn fu
4 Noddi'r bual³ gwineuddu
Arglwydd Tywyn⁴ ar Glynn glwys
Yw'r Power a Ior Powys
Rhwyg y Iarll baloh⁵ gwyarlwybr
8 Rhysgyr wyr Llyr ym mhob llwybr
Anoberi un barwn
Ond o'r rhyw yr henyw hwn⁶
Hynod yw henw ei daid,
12 Brenhin ar y barwniaid.
Ei dad pwy a wyddiad pwy
Ior glyn daiardor⁷ Dyfrdwy
Hiriell⁸ Gymru ddihareb
16 Oedd ei dad yn anad neb

¹ Y mae y bardd, megys trwy ddrych, yn gweled amser terfysglyd o'i flaen.

² Cyfeirir yma at yr arferiad o weddio ar Mair.

³ "Bual" = ych gwyllt (*buffalo*), yn dynodi nerth. Defnyddid y gair hwn yn fynych gan y beirdd fel enw canmoliaethol ar eu harwyr.

⁴ Gallen dybied mai Sycharth a feddylir—Tygwyn?—am, fe allai, ei fod gan mwyaf wedi ei wneyd o goed. Yn ol Geiriadur Richards, Llangrallo, golyga "tywyn," ym mhlith pethau ereill,—*brightness, splendour, shine*.

⁵ O bosibl mai John Stewart, Iarll Carrick a feddylir. Yr oedd

Stewart ar adeg ymweliad Richard II. ag Ysgotland, yn 1385, yn gweithredu fel rhaglaw y wlad hono (*Imp. Gazetteer of Scotland*, art. "Edinburgh.")

⁶ Ceir llin. 9-10 yn Cywydd Rhif VIII., llin. 41-42.

⁷ Wrth "ddaeardor," yn ol y Dr. W. O. Pughe, y golygir "*A breaking of the earth*."

⁸ "Hiriell" = goleuni, llwyrch, &c.—tad Owain yn oleuni Cymru! Crybwyllir am ei dad—Gruffydd Fychan—yma yn yr amser gorphenol. Dywedir gan Bridgeman (*Hist. Princes of South Wales*, p. 253) iddo gael ei wneyd yn un o fwrdeisiaid yr Amwythig fel aelod

- Pwy bynag fo'r Cymro call
 Beth orau gwn beth arall
 Goreu mab rhwng gwr a main¹
 20 O Bowys fuddlys feddlain
 Oes un mab yn adnabod
 Caru cler goreu y cair clod
 Ni fyn i un ofyn iach
 24 Ei feibion² ni fu fwbach
 Ni ddug degan o'i anfodd
 Gan fab onid gan ei fodd
 Ni pheris drwy gis³ neu gur
 28 Iddaw ai ddwyllaw ddolur
 Ni chammodd fasnach amhwyll
 Cymmmain a bw⁴ cymmen bwyll
 Pan aeth y gwr fal aeth gwrdd⁵
 32 Goreugwr fu garw agwrdd,

o Gymdeithas y Teilwriaid—
 'Griffin de Glyndorde, taylor'—
 yn 21 Richard II. (1397-8), ac aw-
 gryma mai at Owain Glyndwr y
 cyfeirir. Ond y mae 'Griffin' yn
 debycach i *Gruffydd* nag i *Owain*.
 Os felly, bu *Gruffydd Fychan* fyw
 o leiaf ddeuddeng mlynedd ar ol
 ymweliad Owain ag Ysgotland.
 Hwyrach na ellir ystyried geiriau
 y bardd fel yn brawf pendant fod
Gruffydd wedi marw.

¹ Pa beth sydd i'w ddeall wrth
 "rhwng gwr a main" yma? Wrth
 "main" y golygir *meini*; "*Main*"
 hefyd ydyw enw tref ddegwm ym
 Meifod; ac y mae mynydd o'r enw
 "*Gwrn* Moelfre" ym mhlwyf
 Llansilin. Felly, ai nid "goreu
 mab rhwng Gwrn a Main" a
 feddylir?

² Os am ymweliad Owain ag
 Ysgotland y mae y barid yn canu,
 y mae yn amlwg mai at feibion ei
 dad — sef Owain a'i frodyr — y

cyfeirir yma. O blegid os oedd
 gan Owain feibion o gwbl y pryd
 hwn, nis gallent fod amgen na
 babanod.

³ "Gis" = ergyd. Yr ydym wedi
 cyfarfod â'r gair hwn o'r blaen
 (Gwel *Cywydd Rhif III.*, llin. 42).
 Ceir y gair gan Ieuan Brydydd Hir
 (*Gwaith*, tudal. 82):—

"Rhoed cis i Lewis, lywydd
 caethion,

Rhoed cis i Baris o burion
 ynni."

Saif amaethdy o'r enw Llwyn
 Cŷs rhwng Garth a Beulah, yn Sir
 Frycheiniog.

⁴ Tybiwn mai yr hyn a feddylir
 yma ydyw, nad oedd ystwr y
 gelynion yn peri mwy o ddych-
 ryndod i Owain nag oedd eu
 dyrnodion yn effeithio ar ei gorff.

⁵ "Gwrdd" = cryf a llawn o
 frwdfrydedd = gwrol. Y mae y
 bardd yn niwedd y llinell ddilynol
 yn ail ddyweyd ei hun—"agwrdd."

- Ni wnaeth ond marchogaeth meirch
 Goreu amser mewn gwrymseirch¹
 Dwyn paladr gwladr gwiwlew
 36 Sioged² dur a siacced dew,
 Arwain rest³ a phenfestin⁴
 A helm wenn gwr hael am win⁵
 Ag yn ei phēn nenn iawnraiff
 40 Adain rudd o edn yr Aiff
 Goreu sawdiwr gwrs ydoedd
 Gyda Syr Grugor⁶ ior oedd
 Ym Merwig herwdrig hwyrddref
 44 Maer i gadw'r gaer gydag ef
 Gair mawr am fwrw y gwr march
 A gafas pan fu gyfarch⁷
 A gwypodd ef yn gampus
 48 I lawr ai aesawr⁸ yn us
 Ar ail brwydr⁹ bu grwydr brid
 A dryll ei wayw o drallid

¹ "Gwrymseirch" = rhyfelwsg.
 Gwel tudal. 102, nodyn 1.

² "Sioged" = durdorch = *the ring of an habergeon*?

³ "Rest"—lle rhoddir y wayw-ffon i orphwys. Defnyddir y gair gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 194) :—

"Y gwr hir a'r gwayw o'r rhest
 Yn ei gyrch a wna gorchest."

⁴ "Penfestin" sydd enw arall ar *helm*.

⁵ Ymgais am gynghanedd ag odl ydyw yr unig reswm a welwn dros ddwyn i mewn y rhan olaf o'r llinell. Lled gymmysglyd ac am-berthynasol yw son am haelioni Owain yng nghanol dyagrifiad o'i ddiwyg filwrol.

⁶ Ar ol chwilio llawer, methasom a chael allan pwy oedd Syr Grugor. Yr oll a allwn ddyfalu ydyw ei fod yn un o lwyth Macgregor, yr hwn, ar ol cael ei alltudio gan Frenin Ysgotland, a ddaeth i gynnorthwyo y fyddin Seisonig. Ond nid ydyw hyn ond tybiaeth. O ran a wyddom pi, gallai mai rhyw Sais o'r enw Gregory ydoedd.

⁷ Wrth "gyfarch" yma y golygir pan ddaethant at eu gilydd—o fewn cyrhaedd siarad.

⁸ "Aesawr yn us"—gwnaed ei darian yn fân fel us.

⁹ Sylwer—"Ar ail brwydr," yr hyn sydd yn hollol wahanol i ad-roddiad yr haneswyr am yr ymgyrch i Ysgotland.

- Cof cyfliw¹ heddyw yw hynn
 52 Canllaw brwydr can holl Brydyn²
 Pobl Brydain yn druain draw
 Pob drygddyn pawb dioer rhagddaw
 Yn gweiddi megis gwyddeifr
 56 Gyrrodd fil garw fu i ddeifr³
 Mawr fu'r llwybr drwy crwybr crau
 Blwyddyn yn porthi bleiddiau,
 Ni thyfodd gwellt na thafol
 60 Hefyd na'r ŷd ar ei ôl
 O Ferwig⁴ Seisnig ei sail
 Ir Ysbwys hydr fu'r ysbail.

Iolo Goch ai cant.

¹ "Cyfliw" (cyfedliw) = dannod i'w gilydd. Gwel Cywydd Rhif III., llin. 23-24.

³ "Deifr" = *Deira*. (Gwel Cywydd Rhif III., llin. 28, nodyn.)

² "Prydyn" = Ysgotland.

⁴ Berwig = *Berwick-upon-Tweed*.

X.

I OWAIN GLYNDWR.

(O *Llyr Huw Lleyr*—*Add. MS.*, 14,967, fol. 17).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,970, 14,971, 14,997; a'r *Glanyrafon MS.*, A. Y mae hefyd yn argraffedig yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 114; *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 17; *Hist. Powys Fadog*, vol. i., p. 217; ac y mae Mr. H. W. Lloyd yn ei roddi yn *Y Cymmrodor*, vol. v., p. 264, gyda chyfieithiad i'r Seisoneg. Ond nid ydyw Mr. Lloyd yn dilyn unrhyw ysgriflyfr, eithr yn pigo o ryw dri neu bedwar, ac heb fod yr un fath a neb. Rhydd hyn gyfrif pa fodd y mae ei gywydd ef yn cynnwys 96 o linellau; gan ei fod yn rhoddi i mewn y llinellau a adewir allan yn y gwahanol ysgriflyfrau. Nid ymddengys ychwaith iddo fod yn ddigon gofalus wrth gopïo Yn ychwanegol at a nodwyd, gallwn grybwyll hefyd fod rhydd-gyfieithiad o'r cywydd hwn i'w gael gan George Borrow, yn *Wild Wales*, edit. 1868, pp. 210-11. Yn blaenori y cywydd yn *Add. MS.*, 14,970, ceir y penawd a ganlyn:—
“Cywydd i Owain Glyndwr cyn iddo godi mewn rhyfel yn erbyn y Brenin, ag i ganmol Llys Sycharth lle'r oedd y Bardd yn myned wrth wahawdd yn hen wr i aros dros fywyd.”

Tybiwn mai rhy brin y mae y cywydd, a'i gymmeryd yn ei ystyr fwyaf llythyrenol, yn cynnwys sail i'r gosodiad olaf a geir yn y penawd hwn. Y mae yn wir ei fod yn cynnwys y fath ymadroddion ag “ynno i trigaf” (lin. 8), ac “i gymryd im bowyd barch” (lin. 9), a'r cyffelyb; ond wedi'r cyfan, dylid cofio mai bardd sydd yn ysgrifenu, ac na ddylid cymmeryd y geiriau yn eu hystyr lythyrenol. Ond credwn fod y penawd yn ddigon cywir mewn perthynas i *amseriad* y cywydd—sef, “cyn iddo godi mewn rhyfel,”—hyny yw, cyn gwanwyn 1400. A phan ystyriwn fod gan Owain amryw

blant (lin. 77-78), gallem dybied nas gallai fod yn llawer cynnarach na'r flwyddyn hono. Hefyd perthynai Owain i lys a gosgordd Richard II., hyd ddiorseddiad y penadur hwnw yn Awst, 1399; ac felly, yn ein tyb ni, cafodd y cywydd ei gyfansoddi yn ystod yr ychydig seibiant a fu ar fywyd Owain rhwng diorseddiad Richard a dechreu y gwrthryfel. Nid oes ynddo yr awgrymiad lleiaf am unrhyw anghydwelediad—arogl gwledd, ac nid swn brwydr sydd yn ei nodweddu. O holl gywyddau Iolo Goch, gellir ystyried hwn yn un o'i oreuon. Y mae y dysgrifiad manwl a rydd o Sycharth, a dull Owain o fyw, yn ei wneyd yn hynod o werthfawr. Canfyddir ynddo y moethusrwydd, y llawnder, y chwaeth, a'r haelioni, a nodweddent lys boneddwr Cymreig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Gwelir ynddo gipdrem ar fywyd teuluaid Owain Glyndwr, ei chwaeth mewn adeiladaeth, ei hoffder at amaethyddiaeth a garddwriaeth, a'r dyddordeb a deimlai mewn anifeiliaid, adar, a physgod. A dysgir ni yn y crybwylliad a geir am "Bebyll y Beirdd" (lin. 69) ei fod yn hoff o sain telyn a chân. Mewn gwirionedd, lle ardderchog oedd Sycharth.

Yddewais hyd hyn ddwywaith¹

Yddewid tec² addaw taith

Taled bawb tal hyd y bo

4 I eddewid a ddawo³

⁴Myned eidduned ddain⁵

llwydded mae

¹ "Addewais hyn, do ddwywaith."—*Add. MS.*, 14,970.

"Addewais it' hyn ddwywaith."

Glan. MS., a *G. B. C.*

Tebyg fod "ddwywaith" i'w ddeall mewn ystyr ammhenodol; ac yn golygu *fwy* nag *unwaith*.

² "Addewid teg" yn y llyfrau ereill.

³ "Addewid a addawo."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ Yn blaenori lin. 5 ceir y darlleniadau hyn yn y llyfrau a ganlyn :—

"Pererindawd ffawd ffyddlaw
Perwyl moranwyl mawr iawn."

Add. MS., 14,970, a *Glan. MS.*

"Beth anwyl mae'n bwyth uniawn.

Perwyl mor anwyl, mawr iawn."—*G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

⁵ "Myned mau adduned ddain." *Add. MS.*, 14,970.

- Lles syw¹ tu a llys Owain
 Yn ddain² hyd yno i ddaf
 8 Nid drwe ynno i trigaf³
 I gymryd im bowyd barch
 Gydaef o gyvarch⁴
 Vo all vynnaf uchaf iach
 12 Aur ben kylaer dderbyn kleirach⁵
 Klod bod kyd boed alussen⁶ Clywed bod nis cel awen
 Diwarth hwyl da yw wrth hen ddiwarth hwyl yn dda
 wrth hen

"Myned mae adduned ddain."
Glan. MS.

Cyfieithir llin. 5-6 gan y Dr.
 Pughe (*Geiriadur*, s.v. *Ddain*) fel
 hyn:—

"He is going to the court of
 Owain,
 beneficial is a pure vow."

¹ Lles syw = *smart gain*. "Lles
 yw"—yn y llyfrau ereill.

² "Ddain" = *pur*. "Yno yn
 ddidro ydd af"—yn y llyfrau ereill.

³ "Nid drwg ag yno trigaf."
Add. MS., 14,970.

Clywsom rai yn sylwi fod y
 llinell hon yn awgrymu fod Iolo yn
 bwriadu treulio ei oes o hyny allan
 yn Sycharth. Ond nid oes unrhyw
 angenrheidrwydd am briodoli y
 meddwl hwn iddi, can belled ag y
 gallwn ni weled. O bosibl na olygir
 dim mwy na bod y bardd yn
 bwriadu aros yn hir yno ar yr
 ymweliad hwnw. Gallwn grybwyll
 hefyd fod yn rhesymol i ni dybied
 naill ai bod Iolo wedi ymwled yn
 flaenorol â Sycharth, neu ynte mai
 yno y cyfansoddodd y cywydd hwn.
 Os amgen, pa fodd y gallasai ddys-
 grifio y lle fel y gwna yma?

⁴ "I gymryd i'm bywyd barch
 Gydag ef o gydgyfarch."
Add. MS., 14,970.

⁵ "Fe all fy naf uchaf ach
 Aur ben cler dderbyn cleir-
 iach."—*Add. MS.*, 14,970. }

Yr hyn a gyfieithir gan George
 Borrow fel y canlyn:—

"Thy chief of long lin'd ancestry
 Can harbour sons of poesy."

⁶ Diammeu mai cyfeiriad at waed-
 oliaeth uchel Owain, ac nid at ei
 iechyd, a geir yn y llinell flaenaf;
 ac y mae y gair "cleiriach" yn
 y llinell olaf yn awgrymu fod Iolo
 yn hen ŵr.

⁶ "Alussen"—elusen (*Gair. Cym-
 raeg*, D. S. Evans). Os cywir y
 darlleniad hwn, ystyriai Iolo ei hun
 yn ddibynol i ryw raddau ar
 garedigrwydd Owain. Ond y mae
 y darlleniad yn y llyfrau ereill, yn
 gystal a'r un ymylddalenol, yn
 gwahaniaethu:—

"Clywed bod nis cel awen
 Ddiwarth hwyl yn dda wrth
 hên."—*Add. MS.*, 14,970.

Y mae y nodiadau ymylddalenol
 a geir yma, ac mewn manau ereill
 yn yr ysgriflyfr hwn, mewn llaw
 lawer diweddarach.

- Yw¹ lys ar ddyfrys y ddat
 16 Or deukant odidokaf²
 Llys barwn lle syberrwyd³
 Lle daw Beirdd aml lle da byd
 Gwawr Powys vawr peus vaic⁴
 20 Govyned gwiw a vynaic⁵
 Llymar modd ar llun y mae
 Mewn eurgylch dwfr mewn argae⁶
 Pantar llys pont ar y llynn
 24 Ac un porth lle rai ganpyn⁷
 Kyplau gwaith kwplys ynt⁸
 Kapoledic⁹ pob kwpl ydynt

¹ Nid oedd yr hen feirdd bob amser yn gofalu gwahaniaethu rhwng "Yw" = *to* ag "Yw" = *is*.
 Yn y llyfrau ereill darllenir:—

"Yr llys ar ddyfrys ydd af."
² "Or deucant odidoccaf."

Add. MS., 14,970.

Awgryma Cynddelw (*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 115) welliant ar y gair "deucant," trwy roddi "O dyciant godidocaf"; ond tybiwn mai y meddwl yw fod llys Owain y godidocaf ym mhlith deucant—yn anghydmorol felly.

³ "Syberwyd."—*Add. MS.*, 14,970.
 Syberwyd = *Glanwaith*, yn ol fel yr arferir y gair yn Neheubarth Cymru. Ond defnyddir yr un gair mewn ystyr wahanol yn Cywydd Rhif II., llin. 17.

⁴ "Beues faig."—*Add. MS.*, 14,970; "beus faig."—*Glan. MS.*

Awgryma Cynddelw fod "peues" yn golygu *gwlad*, neu *drigfan*, a "faig" yn golygu *gyrfa*.

⁵ "Gofyniad gwiw a fenaig."

Add. MS., 14,970.

Tebyg ai "gofyniad" sydd gywir—Owain yn gofyn i Iolo am ddysgrifio ei llys.

⁶ Yn ol *Add. MS.*, 14,970, y darllenir yw:—

"Llyma'r modd a'r llun y mae
 Mewn eurgylch dwr mewn
 argae."

A cheir y nodyn a ganlyn gan Iolo Morganwg ar ymyl y ddalen:—
 "ergylch, a mound, I suppose. I.M." Tybia rhai (*Bye-Gones*, Aug. 30, 1893) fod y dwfr yn cael ei ollwng i mewn i'r amglawdd (*moat*) a amgylchynai Sycharth, trwy bibellau plwm, gan fod yn anhawdd dychymmygu am unrhyw ffordd arall trwy yr hon y gallai fyned iddo. Dywedir fod ychydig o olion yn aros eto o'r amglawdd, yr hwn sydd oddeutu 30 llath o drawsfesur.

⁷ "Pand da'r llys pont ar y llyn
 Ag unporth lle'r ai canpyn."

Add. MS., 14,970.

⁸ "Cyplau sydd cyplhens ynt."

Add. MS., 14,970.

"Cyplau sydd bob cwplws
 ynt."—*Glan. MS.*

"Cyplau fydd, bob cwplws
 ynt."—*C. Ll. G.*

⁹ "Kapedig" = wedi eu llyfnhau? "Cwpledig."—*Add. MS.*, 14,970.

- 28 Klochdy padric¹ ffrengic ffrwyth²
 Kloystr wesmuistr klostri *esmwyth*³ cloau ystwyth
 Kynglynrwym pob congl unrwy
 Kangell aur kynga oll yw⁴
 Konglonion yn vron vron vry
 32 Dordor megis dayardy⁵
 A ffob un val llun llyngwlm
 Sydd yni gilydd yn gwlm⁶
 Tai namplad ar vold ^{deunaw 7}
 36 Tai pren glan ar ^{uwch top} ^{bob bryn} glas⁸

¹ Gwelir yn y llinell hon a'r un ddilynol ei fod yn cymharu Sycharth i Eglwys St. Patrick, yn Nublin, a Mynachlog Westminster, o ran ardderchogrwydd yr adeiladwaith.

Y cynllun Ffrengig, neu Normanaidd, o adeiladu.

² Clochdy Padrig Ffrengig ffrwyth
 Clostr Westmastr clôau ystwyth."
Add. MS., 14,970.

³ " Cafell o aur cyfoll yw
 Cynglynrwym pob congl unrhyw."—*Add. MS.*, 14,970.
 " Cynglyn rhwym pob congl unrhyw
 Cafell aur cyfa oll yw."
Glan. MS.

⁴ " Cynglynion yn y fron fry
 Dordor megis daeardy."
Add. MS., 14,970.

⁵ " A phob un fal llun llyngwlm
 Sydd yn ei gilydd yn gwlm."
Add. MS., 14,970.

Awgryma Mr. H. W. Lloyd (*Y Cymmrodor*, vol. v., p. 267) mai "llyng-glwm" = *compact as a ship*,

a feddyliai y bardd, ac nid "llyngwlm."

⁷ Y mae "deunaw" yn llin. 35, ac "uwch top" yn llin. 36, wedi eu hysgrifenu mewn llaw ddiweddar oddi ar y llinellau.

Nid oes genym y ddirnadaeth leiaf am feddwl y llinell hon; ac nid yw y darlleniadau ereill yn cynnorthwyo dim arnom:—

"Tai Napl ar folt deunaw plas."
Add. MS., 14,970.
 "Tai nawplas folt deunawplas."
Glan. MS.

"Tai Napl ar folt deunawplas."
G. B. C., a *C. Ll. G.*

Awgrymir mai "cynllun Naples" o adeiladu a feddylir wrth "Tai Napl" (*Y Cymmrodor*, vol. v., p. 269); ond yn anffodus i'r dybiaeth hon nid ydynt, ac nid oeddynt (os nad yn eithriadol) yn adeiladu tai ar golofnau yn Naples. I Venice y perthyna y dull hwn o adeiladu. (*Notes and Queries*, March 17, 1894).

⁸ "Ty pren glan mewn top bryn glas."—Yn y llyfrau ereill.

Awgryma y llinell hon mai coed, ac nid meini, oedd defnydd corff yr adeilad.

Ar bedwar piler¹ eres
 Mae i lys ef i nef ynes²
 Ar benn³ pob piler pren praff
 40 Llofft⁴ ar dalgrofft adeilgraff
 Ar bedair llofft o hoffter
 Yn ^h_{gdd} ^{oor clyd lle i osir} ^{gwac lle kwac} kler⁵
 Aeth y pedair disgleirlofft
 44 Nythlwyth tec iawn yn wythlofft⁶
 To teils penn pob ty talwg⁷
 Simneiai lle magair mwg⁸

¹ "Piler" (Seis. *pillar*) = colofn.

² "Ei lys ef i nef yn nes."

Add. MS., 14,970.

³ "Ben."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Loft."—*Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Ar pedair loft o hoffter

Ynghyd gwpplas lle cwec
 cler."—*Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Aeth y pedair ddisclairlofft

Nythlwyth teg iawn yn wyth
 lofft.—*Add. MS.*, 14,970.

Ysgrifena Iolo Morganwg ar ymyl
 y ddalen gogyfer a'r darlenniad hwn
 fel y canlyn —

"Nythlwyth teg iawn yn wyth
 lofft

but this is wrong. I.M." Yn y
Glan. MS., ceir :—

"Wych lwyth teg iawn yn wyth
 lofft."

⁷ "To teil ar bob ty talwg."

Add. MS., 14,970.

"To teils ar bob ty talwg."

Glan. MS.

"Teils" yn Sir Drefaldwyn y
 gelwir y llechau tewion, geirwon, a
 dinâdd, y rhai a welir ar hen dai
 ac ysguboriau. Ond yn Neheudir
 Cymru, o leiaf yn Sir Benfro, "teils"
 y gelwir y llechau nâdd (*slates*) a
 ddefnyddir i doi tai. Diammeu
 nad oedd dim ond ceryg geirwon
 i'w cael ym mhell ar ol amser Iolo

Goch; a thybiwn mai gwellt,
 rhedyn, neu frwyn, a ddefnyddid i
 doi yn fwyaf cyffredin yn yr oes
 hono. Y mae Ieuan Gethin, yr
 hwn a flodeuai o gylch 1450, yn
 "Marwnad Ieuan Döwr" (*Gorch.
 Beirdd Cymru*, tudal. 143) yn
 sylwi :—

"Na thöed henwaith Ywain,

Na thöer mwy eithr â main."

Yr hyn a olyga, mae'n debyg,
 mai nid â llechau y byddai Ieuan
 yn arfer toi.

⁸ "Simnai lle ni'm mogai mwg."

Add. MS., 14,970.

"Simneiai ni fagai fwg."

Glan. MS.

Sylwai yr Archddiacon Thomas
 yn ddiweddar *Bye-Gones*, Aug.
 30, 1893) iddo ef fethu a chael
 prawf o fodolaeth simneiau cyn yr
 eilfed ganrif ar bymtheg; ac ych-
 wanega, yr arferai y bobl wledig
 yn flaenorol i hyny gynneu y tân
 ar ganol y llawr, gan adael i'r
 mwg ymweithio allan fel y gallai
 trwy y tô, &c. Ond dengys y
 cywydd hwn fod eithriadau. Yn
 "Englynion Eiry Mynydd" (*Myv.
 Arch.*, p. 358) cyfarfyddwn â corn
 mwg :—

"Eira mynydd gwyn corn mwg

Hoff gan leidr dywyllwg."

- 48 Naw nevadd govladd gyvlun¹
 A naw gwardrob² ar bob vn
 Sioper glan glwys yn kynwys kain³
 Siop lown dec val Siep lundain⁴
 Kroes eglwys gylchlwys galchliw⁵
- 52 Kapelav a gwyrthiau gwiw⁶ *gwydrau A*
⁷Melin dec ar ddivrec ddwr⁸
 Ai glomendy gloyw maendwr

¹ "Cofladd cyflyn."—*Add. MS.*, 14,970 — yn golygu, mae'n debyg, *helaeth* ac *unffurf*.

² "Wardrob."—*Add. MS.*, 14,970 —dilladfa (= *wardrobe*).

³ "Sioppau glan gynnwys gain." *Add. MS.*, 14,970.

"Siopau glan glwys cymwys cain."—*Glan. MS.*

Yr oedd y dilladfa oedd fel siopau, yn cynnwys pethau heirdd-wych.

⁴ "Siop landeg fal Siop Lundain."—*Add. MS.*, 14,970.

"Siop landeg fal Siep Lundain."—*Glan. MS.*

Cyffelybir y "naw gwardrob" i siopau y Siep (*Cheapside*) yn Llundain. Ymddengys fod y *Cheapside* hyd yn oed yn y bedwaredd ganrif ar ddeg wedi ennill cryn enwogrwydd masnachol. Ac y mae amryw o'r beirdd, yn enwedig Dafydd ab Gwilym a Lewis Glyn Cothi, yn cyfeirio yn fynych at ylle.

⁵ "Croes Eglwys gylchlwys galchliw."

Add. MS., 14,970.

Eglwys bedeirongl (*quadrangular*), wedi ei gwyngalchu; yr hon, yn ddiau, nid oedd amgen na chapel teuluaid perthynol i Owain Glyndwr.

⁶ "Capelau a gwydrau gwiw."

Add. MS., 14,970.

Y mae yn anhawdd gwybod beth a olygir yma wrth "gapelau"—yr unig ddyfaliad sydd yn ymgynnyg i ni ydyw mai creirgellau (*shrines*) yn yr eglwys oeddynt. Os ydyw ein dyfaliad yn gywir, tybiwn mai "gwyrrthiau," fel y dywedir yn y testyn, ac nid "gwydrau," a feddyliai y bardd. Hyny yw, yr oedd *gwyrrthiau* yn cael eu cyflawni yn y creirgellau hyny. Ac y mae y fath syniad, os yn gywir, yn dangos pa mor ddwfn mewn ofergoeledd yr oedd y rhai mwyaf goleuedig ym mhlith y Cymry yn y cyfnod hwnw.

⁷ Yn *Add. MS.*, 14,970, blaenorir llin. 53 gan y llinellau canlynol:—

"Pob ty'n llawn pob ty'n y Llys
 Perllan gwinllan gaer Wenllys,
 Garllaw'r llys gorlle ar llall
 Y pawr ceirw mewn parc arall,
 Parc cwning meistr por cenedl
 Erydr a meirch hydr mawr
 chwedl

Dolydd glan gwyrn a gwair
 Ydau mewn caeau cywair."

⁸ "Melin deg ar ddifreg ddwr."

Add. MS., 14,970.

Ar lan yr afonig Gynllaith, yn ymyl y bryncyn lle safai preswylfod Owain Glyndwr, medd Gwallter

- Pysgodlyn kydduglyn kau
 56 A vo raid i vrrw rwydau¹
 Anla lle nid ir ymliw
 Pen hwyaid a gwyniaid gwiw²
 Ai dir bwrdd ai adar byw
 60 Pevnnod kryhyrod hoywryw³
 Park kwning imp or kenedl
 Krydr meirch hydr a mawr chwedl⁴
 I gaith a wna pob gwaith gwiw
 64 Kyvreidiav kyvar ydiw⁵

Mechain (*Gwaith*, cyf. iii., tudal. 68) yr oedd y Felin. Ac adnabyddid y lle fel Melin Sycharth hyd ddechreu y ganrif bresennol, pryd y dechreuwyd ei alw yn Bandy Sycharth, er cyfateb i'r gwaith newydd a ddygid ym mlaen yn yr adeilad. Yn *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*, cyf. i., tudal. 464, sylwir fel y canlyn:—"Yr oedd gan y tywysog yn gyffredin lys, a chapel, a melin, a swyddfeydd, ac amryw bethau cyfleus eraill ymhob cantref. Tu ag at gynnal y rhai hyn yn gysurus, yr oedd y tenantiaid yn rhwym i dalu amryw fath o wasanaeth iddo."

¹ "Pysgodlyn arddyglyn cau
 A fo rhaid i fwrw rhwydau."
Add. MS., 14,970.

² "Amlaf lle nid er ymliw
 Penhwyaid a gwyniaid
 gwiw."—*Add. MS.*, 14,970.

Dywed Mr. H. W. Lloyd (*Y Cymmrodor*, vol. v., p. 270) mai yr unig fan yng Nghymru lle coir "gwyniaid" ydyw Llyn Tegid; a chan y tybiai yn annhebygol fod y pysgod wedi eu cymmeryd oddi yno i Sycharth, awgryma mai at y *gudgeon*, y *roach*, neu ryw bysgodyn cyffelyb, y cyfeiria y bardd. Dy-

wedai Gwallter Mechain (*Gwaith*, cyf. iii., p. 68), yr hwn a ysgrifennai yn 1820, fod olion dau bysgodlyn, y naill uwch law y llall, i'w canfod yn Sycharth pan yr oedd ef yn ysgrifenu.

³ "Ai dri bwrdd ai adar byw
 Paunod cryhyrod hoywryw."
Add. MS., 14,970.

Yn y cyfnod dan sylw nid oedd yr un wledd yn gyflawn os na fyddai y paun ym mhlith y danteithion. Dygid ef i'r bwrdd wedi ei goginio yn dda, ac wedi ei arwisgo â'i esgyll dyagleirwych (*Penny Cyclop.*, vol. xvii., p. 334). Ac yr un modd y gellir dyweyd am y crêyr (*heron*). Pan y gwnaed gwledd ar benodiad George Nevell i archesgobaeth Caerefrog, yn nheyrnasiad Edward IV., ni pharotowyd llai na 400 o honynt ar ei chyfer (*Penny Cyclop.*, vol. xii., p. 167).

⁴ "Parc cwning meist'r por cenedl
 Erydr a meirch hydr mawr
 chwedl."

Add. MS., 14,970.

⁵ Darllenir yn *Glan. MS.* :—

"Ai caeth weision bob gwaith
 gwiw
 Cyfreidiau cyfair ydyw."

Dwyn blaendrwyth kwrrw mwythig¹
Gwirodav bragodav bric²

Ond yn yr *Add. MS.*, 14,970, ceir :—

“Ai Gaith i bob gwaith fo gwiw Cyfreidiau cyfair ydyw.”

Ar ymyl y ddalen gogyfer ar darlleniad olaf, sylwa Iolo Morgannwg :—“Slaves ! Damn Owain with all his mock patriotism ;” ac yna ychwanega gogyfer â'r llinellau dilynol :—“The same argument for slavery in Wales as our present pseudo Christians urged for the west indian slavery.” Pa fodd bynag, y mae genym hanes am gaethion yn cael eu gwerthu yng Nghymru yn y cyfnod hwn. Gwerthid hwy yn fynych yr un ffordd a'r tir y perthynent iddo. Yn *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry* cyf. i. tudal. 463, ceir copi o weithred gwerthiad dŷnion, yr hon a wnaed Mai 2, 1399, i'r perwyl fod Rhys ab Gruffydd ap Iorwerth, Gruffydd ab Dicus, ac Ifan ab Dicus, &c., wedi rhoddi, cadarnhau, a gwerthu am byth i William ab Gruffydd ab Gwilym, o Benmynydd, &c., y gwŷr nod hyn, sef, Engan Goch ap Iorwerth ap Cynwrig, Dicus ap Engan Goch ap Iorwerth ap Cynwrig, yng nghyda meibion a merched y dywededig Engan a Dicus, a anwyd neu a enir iddynt, cystal a'u dilynwyd, eu tiroedd, eu heiddo, a'u hanifeiliaid, o ba ryw bynag y bônt, am swm penodol o arian, &c., i gael eu dal gan yr unrhyw William ab Gruffydd ab Gwilym, ei etifeddion a'i ddirprwywyr yn oes oesoedd. Cymmerodd y

gwerthiad hwn le ym Mangor ; a hyny, fel y gallwn dybied, oddeutu yr un flwyddyn ag a cyfansoddodd Iolo Goch y cywydd hwn.

¹ “Dwyn blaenffrwyth cwrw Amwythig.”—*Add. MS.*, 14,970.

“Dwyn blaenffrwyth cwrw y Mwythig.”—*Glan. MS.*

Sylwa Cynddelw (*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 116), ar y llinell hon fel y canlyn :—

“Yr oedd yr Amwythig yn enwog am ei chwrrw er yr hen oesoedd, ac oddiyno y byddai boneddigion Powys yn cael eu diod, tra yr elai gwŷr Dinbych a Fflint i gyrchu ‘Cwrw Caer Lleon’ Yr oedd Sion Tudur yn 1572 yn senu cwrw Caer fel hyn :—

‘Naws eidral meddal, yn meddwi
—Saeson

Naws eisin a bryntni ;

Naws tair afon is Trefi,

Naws cwrw Caer—nis car ci !”

Yr oedd gau Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 432), gystal meddwl o gwrw'r Amwythig ag oedd gan Iolo Goch :—

“Cân gwŷn megys cân Gwynedd,
Cig, cwrw Amwythig, a medd.”

² “Gwirodydd, bragodydd, brig.”
Add. MS., 14,970, a *Glan. MS.*

Yr oedd “Bragod” (lluos. bragodau, neu bragodydd) yn ddiod gyffredin ym mhlith yr hen Gymry. Darperid hi trwy gymmysgu breici cwrw gyda medd, gan ychwanegu ychydig chwaethon (*spices*).

- 68 Pob llyn¹ barra gwyn a gwin
 Ai gog ai dan yw gegin²
 Pebyll y beirdd³ pawb lle bo
 Pe bevnydd kaiff pawb ynno
 Teka llys bren penn hepai
 72 Or dyrnas nawdd duw arnai⁴
 A gwrraic orav or gwrragedd
 Gwyn ymyd oi gwin ai medd⁵
 Merch eglur llin marchowglyw
 76 Urddol hael ^{an}_{amoi} yw⁶
 Ai blant a ddevant bob ddav
 Nythaid tec o Bennaethav⁷

¹ "Llyn" = gwlybor, neu wirod.

² "Ai gog ai dan iw gegin."—*Add. MS.*, 14,970, a *Glan. MS.*; hyny yw, ei *gogydd* a'i *ddân*. Gwneir sylw neillduol o'r *cogydd*, gan mai ar ei ofal a'i fedrusrwydd ef yr ymddibynai rhagorolrwydd y wledd.

³ "Buarth y Beirdd."—Cywydd Rhif VIII., llin. 76.

⁴ Nid ydyw llin. 71-72 yn *Add. MS.*, 14,970, *Glan. MS.*, *G.B.C.*, na *C. Ll. G.*

⁵ "A gwraig orau o'r gwrragedd Gwyn y myd! oi gwin ai medd."—*Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Urddol hael o reiol ryw." *Add. MS.*, 14,970.

Gwraig Owain Glyndwr oedd Margaret, merch Syr Dafydd Hanmer. Mab oedd Syr Dafydd i Phylip Hanmer, o Hanmer, yn Sir Fflint. Gwnaed ef yn un o farnwyr Llys y Brenin, Chwefror 26, 1383, ac urddwyd ef yn Farchog yn y flwyddyn 1387— a chyfeirir ato fel Marchog yn y cywydd hwn. Cafodd o'i wraig Angharad dri o blant, sef Margaret, gwraig Owain Glyndwr; Jenkin, ei etifedd, yr hwn a laddwyd ym Mrwydr yr Amwythig yn

1403; a Gruffydd (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. i., tudal. 614). Fe welir fod Iolo Goch yn hael o'i ganmoliaeth i Margaret, gwraig Owain.

⁷ "Ai blant a ddeuant bob ddau Nythaid teg o Bennaethau."

Add. MS., 14,970.

"Ai blant i ddeuant bob ddau Nithoed deg o benaethdau."

Glan. MS.

Y mae Mr. H. W. Lloyd (*Y Cymrodor*, vol. v., p. 272), yn canfod anghyssondeb rhwng yr ymadrodd "bob ddau" a'r achau, yn y rhai y dywedir fod gan Owain chwech o feibion a phedair o ferched(?) Dealla Mr. Lloyd "bob ddau" fel yn golygu nad oedd ganddo fwy na dau o blant. Ond y mae yn amlwg mai nid hyny a feddylir; ond yn hytrach eu bod yn dyfod ym mlaen yn gyplau (*in couples*).

Nid oes genym ddefnyddiau i benderfynu pa bryd y priododd Owain; ond gan fod ganddo amryw blant ar ymweliad Iolo Goch, ac fod ei feibion mewn oed i'w ddilyn i faes y gwaed, a'i ferched mewn oed i briodi yn amser y gwrthryfel, hwyrach na fyddem ym mhell o'n

Anvynych iawn vu ynno

80 Weled nachliked nachlo¹

lle pe y dyfalem iddo briodi oddeutu 1380, pan oedd oddeutu 21 mlwydd oed. Ei feibion oeddynt Gruffydd, Madog, Meredydd, Thomas, a John. Ac yn ol Bridgeman (*Hist. Princes of South Wales*, p. 262), ei ferched oeddynt:—(1) Isabel, gwraig Adda ap Iorwerth Ddu; (2) Alice, gwraig Syr John Scudamore, o Kentchurch, Sir Henffordd; (3) Janet, gwraig Syr John Croft, o Croft Castle, yn yr un sir; a (4) Margaret, gwraig Roger Monnington, o Monnington, eto yn yr un sir. Ond yn ol yr *Arch. Cambr.*, 1884, p. 291, dywedir mai ei ferched oeddynt Isabel, gwraig Adda ap Iorwerth o'r Pengwern; Elizabeth, neu Alice, gwraig Syr J. Scudamore; Jane, gwraig Henry, Arglwydd Grey o Ruthyn; Margaret, gwraig Syr Richard Monnington, o Monnington, Sir Henffordd; ac un ferch arall, enw yr hon ni roddir. Eto, yn *Dwnn's Heraldic Visitation*, vol. i., p. 334 ("Additional Notes"), dywedir mai gwraig i Philip Rhys, o Sir Fon, oedd Margaret. Ar awdurdod *Hist. Vitæ et Regni Rich. II.*, dywed Mr. Wylie (*Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., p. 344), i Syr Edmund Mortimer briodi merch i Owain Glyndwr oddeutu diwedd Tachwedd, 1402. Ganwyd o'r briodas hono un mab o'r enw Lionel, a thair o ferched. Y mae Shakespeare (*Henry IV.*, Pt. i., Act iii., Scene i.) yn dwyn merch i Owain i sylw fel gwraig Mortimer, ac yn dyweyd na fedrai hi ddim Seisoneg, na Mortimer ddim Cymraeg. Y mae amryw yn ammeu dilyerwydd y

priodasau rhwng merched Owain a'r Arglwydd Grey a Mortimer; ond beth bynag am Grey, y mae cymmaint o brawf i Mortimer briodi un o'i ferched ag sydd i briodas unrhyw un o'i blant. Y mae digon o brawf hefyd i'w ferch Alice briodi Syr John Scudamore, o blegid cawn iddo ef a'i wraig wneyd ymdrech, trwy ddeisebu y Senedd yn yr eilfed flwyddyn o deyrnasiad Harri VI., i adfeddiannu etifeddiaethau Owain, y rhai a fforfedwyd yn amser y gwrthryfel; ond yn aflwyddiannus (*Bridgeman's Hist. Princes South Wales*, p. 263.)

Crybwyllir hefyd (*Hist. Powys Fadog*, vol. i., pp. 211, 216; a *Penant's Tour in Wales*, edit. 1784, vol. i., p. 331) am amryw blant a gafodd Owain o'i ordderchadon:—Dau fab o'r enw Dafydd ac Ieuan; Myfanwy, gwraig Llywelyn ab Adda ab David ab Ieuf ab Adda ab Awr, o Trefor; a Gwenllian, gwraig Philip ab Rhys, o St. Harmon, Sir Faesyfed. Y mae gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 400) gywydd Marwnad i'r Gwenllian hon; ac wrth ei ddarlenn yr ydym yn ammeu mai merch anghyfreithlawn ydoedd. Y mae y bardd yn ei dysgrifio yn hwn, yn gystal ag mewn cywyddau ereill, yn "Gwenlliant o Sycharth"; a chredwn felly ei bod yn ferch gyfreithlawn iddo. Rhy brin y gallwn dybied y meiddiasai ei thad, hyd yn oed yn y oes lygredig hono, ddwyn ei blant anghyfreithlawn i fyny o dan yr un gronglwyd a'i wraig.

¹ Credwn fod y testyn yn well

Na fforthorriaeth¹ ni wnaeth neb
 Ni budd eisiav budd osseb²
 Na gwall na newyn na gwarth
 84 Na syched vyth yn Sycharth
 Gorre Kynro tro trylew
 Bier wlad lin bywyr lew³
 Gwr meingryf gorrav⁴ mangre
 88 A ffier llys *hoff* hoff ywr lle⁵

Iollo Goch ai kant.

na'r darlleniad a geir yn *Add. MS.*,
 14,970 :—

"Anodd yn fynych yno
 Weled na chlicced na chlo."

¹ "Pheroriaeth." — *Add. MS.*,
 14,970; "fforthoriaeth." — *Glan.*
MS.; "phorthoriaeth." — *G. B. C.*,
 a *C. Ll. G.*

Hyny yw, yr oedd y fath groesaw
 i bawb yn Sycharth, fel yr oedd
 clicied neu glo ar y drws, a phor-
 thor i edrych ar ei ol, yn bethau
 diangenrhaid—nid oedd neb yn
 cael eu cau allan.

² "Ni bydd eisiau bydd oseb."
Add. MS., 14,970.

"Ni bydd eissiau budd oseb."

Glan. MS.

"Oseb" (goseb) = rhodd.

³ "Goreu Cymro tro traglew
 Piau'r llyn power y llew."

Add. MS., 14,970.

Tybia Mr. H. W. Lloyd (*Y*
Cymmrodor, vol. v., p. 273) mai
 "Bywys" ac nid "bywyr" a
 ysgrifennodd y bardd; ond i rywun,
 er mwyn cynghanedd, ei gyfnewid.
 Ond ai nid cyffelybu Owain a wneir
 yma i Pywer Lew? (Gwel Cywydd
 Rhif VIII., llin. 30.)

⁴ "Goreu." — *Add. MS.*, 14,970.

⁵ "A phiau'r Llys hoff yw'r lle."
Add. MS., 14,970.

XI.

* CO. I SEREN GYNFFONOG.

(*O'r Glanyrafon MS., K., fol. 57*).

Y mae y cywydd hwn i'w gael hefyd yn *Adl. MSS.*, 14,894, 14,978, a 14,979, lle ei priodolir i Iolo Goch. Ond gan yr ymddengys ysgriflyfr Glanyrafon yn llawn can hyned, ac, i'n tyb ni, yn fwy cywir, na'r ysgriflyfrau uchod yn yr Amgueddfa Brydeinig, cymmerasom ef yn gynsail. Ceir y cywydd yn argraffedig hefyd yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 121, ac yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 19.

Ar ddiwedd y cywydd yn ysgriflyfr Glanyrafon, gwelir ei fod yn cael ei briodoli gan rai i Gruffydd Llwyd ap Llywelyn ap Einion Llygliw; a thybiwn i ni ei weled yn cael ei briodoli iddo mewn ysgriflyfrau ereill. I Gruffydd Llwyd y priodolir ef hefyd ar glawr rhifyn o *Greal Llundain*: O'n rhan ein hunain credwn mai Iolo Goch oedd yr awdwr. Nid yn unig y mae ei arddull yn debyg, ond y mae ynddo hefyd frawddegau cyffelyb i'r rhai a geir yn ei gywyddau ereill.

Nid oedd dim yn newydd yn y ffaith fod y bardd yn cymmeryd mantais ar ymddangosiad y seren i ragfynegi goruchafiaeth Owain Glyndwr; o blegid yr ydym yn cael fod amryw genedloedd yn coleddu y syniad fod y ser gwibiog yn ymddangos o flaen rhyw ddygwyddiad neillduol a phwysig. Yn y flwyddyn 130 C.C., ymddangosodd seren gynffonog enfawr, yr hon, fel y tybid wedi hyny, oedd yn arwyddo genedigaeth Mithridates, prif elyn y Rhufeiniaid; ac yn 550 O.C., daeth un arall i'r golwg i ddarogan cwmp Rhufain (*Olmsted's Mechanism of the Heavens*, pp. 296, 304.) Dygir rhesymau ym mlaen gan seryddwyr er profi

fod amryw o'r ser hyn wedi ymddangos, am y rhai nid oes unrhyw gofnodion ar gael. Ond gwyddom fod yr hynafiaid yn cyssylltu rhyw ddygwyddiadau pwysig yng nglyn a'r rhan fwyaf a gofnodir. A chof genym glywed y werin ofergoelus yn Sir Drefaldwyn, pan ymddangosodd seren gynffonog yn 1858, yn darogan fod rhyfeloedd gwaedlyd, neu newyn angeuol, yn sicr o gymmeryd lle yn fuan. Ond y defnydd a wnaeth Iolo Goch o'r seren, yr hon, yn ol y cronielwyr, a ymddangosodd yng ngwanwyn y flwyddyn 1402, oedd darogan buddugoliaeth Owain Glyndwr a gorchfygiad y Seison. Ac i, gadarnhau ei osodiad, y mae yn cyfeirio at ymddangosiad dwy seren flaenorol, y naill yn rhagfynegi gwaredigaeth ysbrydol trwy enedigaeth Crist, a'r llall waredigaeth wladol yng ngenedigaeth Arthur. Ond yr oedd cenedloedd ereill yn esbonio yr ymddangosiad hwn yn wahanol. Tybiai y Seison ei bod yn rhagfynegi aflwyddiant i'r Ysgotiaid a'r Cymry; credai yr Ysgotiaid mai arwydd ydoedd o farwolaeth y Duc o Rothsay, yr hyn a gymmerodd le Mawrth 27, 1402; bodolai teimlad annyn-unol ar y pryd rhwng Duciaid Orleans a Burgundy, ac yr oedd serddewiniaid Ffrainc yn egluro ei hymddangosiad yn ol fel yr oedd eu teimladau tuag at y ddau bendefig hyny; ac yn yr Eidal, tybid ei bod yn rhagfynegi marwolaeth y Duc o Milan, yr hyn a gymmerodd le Medi 3, 1402. (*Wylie's Hist. Eng. under Henry IV.*, vol. i., p. 275.)

Am i lliw i mae llawer¹

o son am anian y ser

ari² sud³ eres ydunt

4 o radd⁴ nef arwyddion ynt

¹ Yn *G. B. C. a C. Ll. G.* ceir y llinell mewn gwisg ddiweddar:—

"Am eu lliw y mae llawer."

Mewn Cymraeg Ganoloesawl i neu y a ddefnyddir bob amser am ei (*his* neu *her*)—ond arferir eu yn aml. Defnyddir y hefyd yn lle e, yn achlysurol ar ddiwedd gair,

megys *may* yn lle *mae*, yn ol darlleniad y llinell yn *Add. MS.*, 14,978:—"Am i lliw i may llawer."

² "Ar y."—*Add. MS.*, 14,978; "er eu"—*G. B. C. a C. Ll. G.*

³ Ymddangosiad, neu ffurf.

⁴ "Radd"—*G. B. C. a C. Ll. G.*; "rad"—*Add. MS.*, 14,978.



- kynta fo er mynu mawl¹
y seren deg fesurawl²
a weled³ gynt o wlad gain
8 yn nod aur yny⁴ dwyrain
yn arwydd kyhuddrwydd ked⁵
genir brenin gogoned⁶
i hamau yni hymyl
12 gen rai ni choelïai y chwyl⁷
Kael Krist fal i koelia kred
o fair wyr⁸ bo fawr⁸ wared
I gadw fry a gwaed i fron
16 i rai glan rrag i gylunïon⁹
ar ail a fu¹⁰ oreulamp
i uthr gynt aeth ar gamp

¹ "Kynta vy er myny mawl."

Add. MS., 14,978.

"Cyntaf fu er mynu mawl."

G. B. C. a C. Ll. G.

Awgrymir gan Cynddelw mai
"Cyntaf fu'n emynu mawl" a
ddylai fod.

² "Vyssurawl." -- *Add. MS.*,
14,978.

³ "Weled."—*Add. MS.*, 14,978 ;
"welwyd"—*G. B. C.* ; "welid"—
O. Ll. G. Ymddengys i ni mai
"welwyd" ydyw y cywiraf, pa un
bynag a ddefnyddiodd y bardd.

⁴ "Yn y."—*Add. MS.*, 14,978.

⁵ Cyhoeddi rhodd=*announcement
of a gift.*

⁶ "Gogoned."—*G. B. C. a C. Ll. G.* ;
"gogoned."—*Add. MS.*, 14,978.
Diammeu mai gogoned=*glorious*,
sydd gywir.

⁷ "A me odd yn i emyl

gen rai ni charai ychwyl."

Add. MS., 14,978.

"Minau oedd yn ymenyl,

Gwn rai na choelïai y chwyl."

G. B. C.

"Minnau oedd yn ymenwyl,

Gwn rai na choelïai y chwyl."

C. Ll. G.

Tybiwn mai darllenïad y testyn
ydyw y goreu, sef fod rhai yn ei
hymyl yn ammeu dyben ei hym-
ddangosiad, ac yn gwrthod coelio
fod ei chwyl, neu ei chwyl-daith,
yn arwyddo yr hyn a ddywedid ei
fod gan y "doethion o'r dwyrain."
Lled ganolig, feddyliem, ydyw
esbonïad Cynddelw—"Minau oedd
yn ymanelu." Eto y mae genym
bob parch i farn a gwybodaeth
Cynddelw—ond y mae y calla yn
colli weithiau.

⁸ "Kael Krist val i koylia kyred
o vair wyr⁸ vawr wared."

Add. MS., 14,978.

⁹ "I gadw vry a gwaed oi vron
rrai glan rrag i gylunïon."

Add. MS., 14,978.

¹⁰ "Vy."—*Add. MS.*, 14,978.

20 pen¹ i gweles paun gwiw-lu
merddin meistr ar fyrddin fu²
dug yni fryd dygyn fraw³
galar emrys⁴ ag wylaw

"Pan."—*Add. MS.*, 14,978.

Ceir yr adroddiad a ganlyn am Seren Arthur yn "Ytorya Brenhined y Brytanyeit" (*The Text of the Bruts*, p. 172):—

"A hyt tra yttoddynt hōy ygkylch hynny ydymdangosoes seren anryued y meint ae lleufer ac un paladyr idi. Ac ar benn y paladyr hōnnō ydoed pellen o dan ar lun dreic. Ac o eneu honno y kerdynt deu baladyr. ahyt y neill o nadunt awelit ynystynu dros teruynneu ffreinc ar * llall awelit yn kerdet parth ac Iwerdon ac ynterfynu yn seith paladyr bychein.

"A phan ymdangosoes y seren honno enryfedaft ac ofyn a drewis paōb or ae gōelas. A diruaōr ofyn a gymerth uthur braft y brenhin. yny lle ydoed ykymry ynkyrchu y elynyon. A gofyn y baōp or doethon aod y gyt ac ef py beth a arōydockaei y seren honno. Ac ymplith paōb or rei hynny yderchis ef dyfynu myrdin yr lle. A gōedy dyuot Myrdin asefyll rac y vron. Vthur aerchis idaō damlewychu py beth a arōydockaei y seren rac dyōwededic uchot. Ac yny lle wylaō aoruc Myrdin. a galō y yspryt attaō a dywedut val hyn. O gollet heb ymwaret. O ymduat bobyl vrytaen o agheu y bonhedickaf vrenhin y brytanyeit emrys wledic ac yny agheu ef yd aballem ni oll pei narodei duō ynni ganhorthōy. Ac 6rth hynny y bonhedickaf tywyssaōc uthr bryssya di bryssya. ac na ohir yn

gōneuthur brōydyr athelynyon. Kanyse yvudugolyaeth a vyd yth laō. Tī avydy vrenhin. ar ynys brydein oll. Tī a arōydockaa y seren ar tanaōl dreic y dan ysere. Y paladyr a ystyn parth affreino. hōnnō a arōydockaa Mab kyvoethaōc a vyd itt. A chyuoeth hōnnō ae vedyant a amdifyn y teyrnassoed ac avydant y danaō yn hollaōl. Y paladyr arall aystyn parth a mor Iwerdon a arōydocka Merch a vyd itt A Meibon honno aehōyron a vedant pob eilwers teyrnas ynys prydēi."

Ond nid ydyw y dyfyniad uchod amgen na chyfieithiad Sieffre o Fynwy.

* "Dug yu i fryd y dygyn o fraw."—*Add. MS.*, 14,978.

⁴ Emrys Wledig. Dywed Sieffre o Fynwy mai ei dad oedd Cystenyn Fendigaid, a'i frawd ieuangaf oedd Uthr Bendragon. Cafodd Emrys ei wenwyno gan feddyg Sacsonaidd o'r enw Eopa, yr hwn a gyflogwyd i'r perwyl hwnw gan Pasgen, un o feibion Gwrtheyrn; ac at y gwenwyniad hwnw, yn ddiau, y cyfeirir uchod. Dywedir i hyn gymmeryd lle oddeutu y flwyddyn 500; a'r pryd hwnw yr ymddangosodd y seren, yr hon a gefnogodd Uthr i'r fath raddau fel y cafodd fuddugoliaeth ar y Sacsoniaid (*Text of the Bruts*, p. 170, *et seq.*). Yr un oedd Emrys Wledig ag Ambrosius Aurelianus, y [sonir am dano gan Gildas, a chan Bedo ar ei ol.

- athroi yn ol uthr a wnaeth
 24 i gael y fyddy-goliaeth
 o lid i ddial adwyth
 tu ag ar ffraink nid ^{hagr} ^{hagr} ffirwyth¹
 arthur² er dim ni werthyn
 28 hael a ddehallwyd o hyn³
 gwr a ellid i garu
 dyrogon drwy fardd-gân fu
 gwr ^{rwydd} ^{nif} gwnaeth a gwawy ruddell^d
 32 gwaed i elynion ir gwell^d
 *ar drydydd kymyrydd⁵ ked *His cometa ap.
 i wynedd⁶ wiw a aned paruit mense Martii
 yn anian fawr yn un fodd 1402 ait Thomas
 36 yn unsel ag yn ansodd⁷ Walsingham.
 yn ganaid ruddell felen
 yn gadr i ffaladr ai ffen⁸

¹ "Tu ag ar ffraink nid hagr
 ffirwyth."

Add. MS., 14,978.

² Arthur, yn ol Sieffre o Fynwy,
 oedd fab i Uthr Bendragon. Er
 ein bod yn cyfeirio yn aml at Sieffre,
 ni hoffem i neb feddwl ein bod
 yn ei ystyried mewn un modd yn
 awdurdod. Ond y mae yn amlwg,
 o ldi wrth amryw o linellau gan Iolo
 Goch, fod y bardd yn rhoddi pwys
 ar y traddodiadau a geir yng
 ngwaith y rhamantwr hwnw.

³ "Arthur er dim ni werthynt
 haul a ddeuallwyd oi hynt."

Add. MS., 14,978.

⁴ "Gwr rwydd gwnaeth a gwayw
 ru ddellt

gwaed i ylynion ir gwellt.

Add. MS., 14,978.

⁵ "Drydedd kymyredd."—*Add.*
MS., 14,978; yn golygu rhodd an-
 rhyddedus.

⁶ "Wyneuedd" a geir yn *Add.*
MS., 14,978; ond, yn sicr, yn

anghywir. Y mae y bardd yn y
 llinell hon yn personoli y seren, ac
 yn gosod ei genedigaeth yng
 Ngwynedd.

⁷ "Yn anian mawr yn vn modd
 Yn insel ag vn ansodd."

Add. MS., 14,978,

"Yn anian fawr yn un fodd,
 Unsail ac yn un'ansodd."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

⁸ "Yn ganaid ruddel velen
 Y gadr i ffaladr ai ffen."

Add. MS., 14,978.

"Yn ganaid ruddell felen,
 Yn gadr ei phaladr a'i phen."

G. B. C.

Yr oedd y lliw melyn-goch,
 dysglaer, a ganfyddid yn ad-
 lewyrchu o'r seren yn peri i'r bardd
 feddwl ei bod yn un eirias sylweddol
 (gadr) o dân. Ond dywedir
 wrthym gan seryddwyr. nad yw y
 "ser" hyn ond nifwl teneu a
 hylifaidd. (*Olmsted's Mechanism*
of the Heavens, p. 300).

Pawb achlan or lle ir hanwyf
 40 a ofun um eofn wyf¹
 budd addaw ir llaw lle i rel
 beth yw y seren boeth awel²

¹ "Pawb achlan or lle ir hanwyf
 a ofyn im e ofn wyf."

Add. MS., 14,978.

"Pawb achlan o'r lle'r hanwyf,
 A ofyn i'm, eofn wyf."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

"Achlan" = oll; hyny yw, yr oedd pawb *oll* o gymmydogion y bardd yn ei holi, ai nid oedd ymddangosiad y seren yn peri dychryndod iddo — pa fodd yr oedd yn gallu ymddangos mor eofn yn yr olwg ar y fath olygfa. Diammeu fod y wlad, ar y cyntaf, o'r farn mai rhagarwydd o ryw drychineb cenedlaethol oedd y seren. Ond fe welir fod Iolo yn y llinellau dilynol yn rhoddi eglurhad arall ar yr ymddangosiad.

² "Budd a ddaw ir llaw llei rel
 beth ywr seren boeth awel."

Add. MS., 14,978.

"Budd a ddaw i'r llaw lle'r êl,
 Beth yw'r seren boeth
 awel?"

G. B. C., a *C. Ll. G.*

Nis gwyddom a ydoedd gwanwyn 1402 o ardymeredd cynhesach nag arferol ai peidio: ond y mae y bardd yn awgrymu hyny. Dichon, fodd bynag, nad oes yn y llinell ond mynegiad o'r hen syniad, sef fod y ser gwibiog yn effeithio ar yr hinsawdd. Dywed Olmsted (*Mechanism of the Heavens*, p. 324) fel y canlyn:—

"Pa fodd bynag, tybid gynt, a thybir eto i ryw raddau, fod y ser gwibiog yn meddu cryn ddylanwad

ar helyntion y byd, yn effeithio ar y tywydd, y cropiau, iechyd y cyhoedd, yn gystal a chryn lawer o gynhyrifiadau awyrol. Yr oedd hyd yn oed Halley, trwy ganfod fod ei seren ef yn agos i'r ddaear yn amser y dylif, yn awgrymu mai y seren a achosodd y dygwyddiad hwnw — cymmerwyd y meddyl-ddrych i fyny gan Whiston, yr hwn a weithiodd ddamcaniaeth allan o hono. Yn Gregory's *Astronomy*, gwaith galluog a gyhoeddwyd yn Rhydychain yn 1702, sylwa yr awdwr fod ymddangosiad seren wib, ym mhlith pob cenedl ac ym mhob oes, yn ol fel y profir trwy sylwadaeth, wedi cael ei ddilyn gan drychinebau mawrion; ac ychwanega, 'nad ydyw yn briodol i athronwyr edrych ar y pethau hyn fel dychymmygion.' Ym mhlith y pethau amrywiol a briodolir i ser gwibiog gan awdwr Seisonig di weddar, y mae tymhorau poethion ac oerion, tymhestloedd, corwyntoedd, cenllysg, eira, gwlawogydd, llifogydd, sychder, newyn, llyffaint, gwybed, ceiliogod rhedyn, y pla, gwaedglwyf, afiechydon heintus ar greaduriaid, clwyf ar gathod, ffrwydriad mynyddoedd tanllyd, goruchionau, neu gwympiad y ser. Y mae y syniadau hyn yn rhj, ynfyd i ofyn am wrthbrofiad pendant; ac ni wnaf ond ychwanegu, nad oes genym unrhyw dystiolaeth fod y ser gwibiog yn meddu y dylanwad lleiaf ar helyntion y byd hwn; ac

- 44 myfi a wyr lwyr loywryw
deall hyn oll dillin yw¹
dur yw i ffaladr ne dan
a draig² ir gwr dyrogan
ni bu erstalm wiwsalm wedd
48 ser iawn i sir o wynedd³

yrydym yn parhau mewn tywyllwch
parthed i'w natur anianyddol, ac
am y dybenion i'r rhai eu crëwyd."

¹ "Deuall hyn oll dellni yw."

Add. MS., 14,978.

Gwell yn ddiarmeeu yw y testyn ;
o blegid hòni y mae y bardd ei fod
yn deall yr hyn a arwyddocëid gan
y seren yn drwyadl. Yr oedd Iolo,
fel y mwyafrif o feirdd ei oes, yn
honi ei fod yn gwybod bron y
cwbl.

² "Draig" yn arwyddo y byddai
Owain Glyndwr yn ben, gan mai
efe oedd y "gwr darogan."

³ "Ni bu er talm wiwsalm wedd
Ser iawn i Sir o Wynedd."

Add. MS., 14,978.

Dywedai Syr John Price (*Descript.*
in Wynne's *Hist. Wales*, pp. vi-ix.)
fod Gwynedd yn cynnwys Sir Fon,
Sir Gaernarfon, Sir Feirionydd, a'r
Berfeddwlad—sef rhanau o Ddin-
bych a Meirion; ond yn ol Thomas
Stephens (*Beirniad*, v., tudal. 136)
wrth Wynedd y golygid siroedd
Mon, Arfon, a Dinbych. Wrth
edrych dros "Parthau Cymru"
(*Myv. Arch.*, p. 735) yr ydym yn
cael fod yr oll o siroedd Mon ac
Arfon yng Ngwynedd; a'r rhanau
helaethaf o Ddinbych a Meirionydd.
Ond y mae Edeyrnion a Glyndyfr-
dwy, yn Sir Feirionydd, a Chyn-
llaith, yn Sir Ddinbych, yn cael eu
rhestru, ym mhlith amryw leocedd

ereill yn y ddwy sir olaf a nodwyd,
gyda Phowys Fadog. Yn yr ail
restr o "Parthau Cymru" yn y
Myv. Arch., p. 737, ac yn *Text of*
the Bruts, p. 408, rhoddir Glyn-
dyfrdwy yng Ngwynedd. Pa fodd
bynag, dylem gofio mai fel
tywysogion Powys yr oedd hyn-
afiaid Owain Glyndwr yn dal
arglwyddiaethau Glyndyfrdwy a
Chynllaith Owen. Os felly, y mae
yn anhawdd deall pa ham y mae
Iolo yn cyfeirio at "Sir o Wynedd"
yn y fan hon, ac yn enwi Gwynedd
deirgwaith yn y cywydd hwn. A
oes yma gyfeiriad at ryw sir neill-
duol? Os oes, pa sir? A fyddai
yn afresymol ynom dybied, os oes i
"sir o Wynedd" ryw amcan
pellach nag ateb yr odliad a'r
gynghanedd, fod yma gyfeiriad
daroganol at sefydliad Owain Glyn-
dwr fel yr hyn a elwir gan ys-
grifenwyr Cymreig yn "Frenin
Penrhaith Cymru," ac y byddai
iddo gynnal ei lys yn Aberffraw, ym
Mon. Y mae Robert Vaughan
(*Brit. Antiq. Rev.*, p. 39) ac ereill
yn rhoddi arbenigrwydd neillduol
ar Anarawd, fel brenin Aberffraw,
i'r hwn yr oedd tywysogion Powys
a'r Deheubarth yn talu teyrnged.
Bron na feddyliem, yn enwedig
wrth ddarllen y cywydd hwn o hyn
i'r diwedd, mai rhyw syniad fel hyn
oedd yn rhedeg trwy feddwl Iolo
Goch.

ond y seren yleni
 y sydd o newydd ini¹
 gem yn arwain yn gymod
 52 ganu dduw glan gwn iddi glod²
 teg yw y rrad goleuad gwrdd
 twysoges y tes agwrdd³
 tan o fron y tyno fry
 56 tewnodd rrat tuw yny⁴

¹ "I ni."—*Add. MS.*, 14,978.

² Yn ol y testyn mae llinell 52 yn rhy hir o sill; "gan," yn lle "ganu," a geir yn *Add. MS.*, 14,978, a thebyg mai hyny sydd gywir :—

"Gan dduw glan gwn i ddi glod."

Ar yr olwg gyntaf nid rhyw lawer —na dim—synwyr a geir yn y dywediad fod "gem yn arwain." —"Gem yn arwain in' gymod" yn ol *G. B. C.*; a'r un peth gan yr hen feirdd oedd yn ac in'. Nid peth i arwain, ond yn hytrach i'w wisgo, i'w *gem*. Ond hwyrach mai cyffelybu y seren i gem, o ran dysgleirdeb, yr oedd y bardd; ac mai y seren oedd i "arwain in' gymod."

³ "Teg ywr had goleuad gwrdd towessoges tes agwrdd."

Add. MS., 14,978.

Dyma yr ail waith i'r bardd ddefnyddio yr odl "gwrdd" ac "agwrdd."—Gwel Cywydd Rhif IX., llin. 31, 32. Dynodant yn y fan hon oleuad *tanbaid*, a thês *mawr*. A cheir cyfeiriad yma eto gan y bardd at y syniad fod y seren yn effeithio er cynnyrchu gwres, neu yn poethi yr hinsawdd.

⁴ "Tan o fron y tyno vry townodd rad tuw yny."

Add. MS., 14,978.

Nid yn anfynych, mewn ysgrif-lyfrau a gopiwyd yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, y ceir *t* yn lle *d*, megys yn y gair *Duw* yma.

"Tân o fron y tyno fry,

Tywynodd rhad Duw iny."

G. B. C.

Gellir tybied oddi wrth rediad y llinell gyntaf fod "tyno" yn golygu *codiad* yn y tir, megys *llethr*, *moel*, neu fryn. Ond wrth droi i'r geir-lyfrau gwelwn fod *tyno* yn gyfystyr â *plat*, *green*, *dale*=lle gwastad, yn hytrach *pantle*. Yn yr ystyr o bantle y cymmerir y gair gan Mr Egerton Phillimore (*Bye-Gones*, Dec. 31, 1890), lle y sylwa wrth ymdrin â Chastell Gwent, ym mhlith pethau ereill, fel y canlyn :—

"As for *Tnou Mur* and *Pant Annuc*, the former would be *Tyno Mawr* in modern North-Welsh (*tnou guinn*=*tyno gwyn*, also occurs in *Lib. Land.*, pp. 71, 163), and they both refer to the hollow in which the town, or part of it, is built."

Gwel hefyd *Geir. Cymraeg*, D. Silvan Evans—"Bryn a thyno"=*hilt and dale*; *upland and lowland*. Tebyg fod y bardd yn defnyddio y gair i olygu *pantle* ar le uchel. Ceir enghreifftiau o "tyno" yn yr ystyr hwn yn "Chwarel y Tyno

- lle i diffodes dygesynt
y dalaith ar gyfraith gynt¹
uchel i mae ywch law mon
60 yngolwg yr yngylion²
piler o aur goreuryw
post o gwyr or awyr yw³
4y naill a gawn gwiwddawn gwyr
64 ai pap⁴ ai brenin pybyr
brenin hael a min a medd⁵
dewr a gawn o dir gwynedd

neu'r Braich Coch) yng Nghorris ;
(bryn gyferbyn a phentref Llan-
ymawddwy a elwir yn "Dyno y
Bedol Aur;" a "Pant Tyno"
uwch law Ty'n y Wern ar afon
Dwymyn, yn sir Drefaldwyn.

¹ "Lles dyffodes dygessynt
Y dalaith ar gyfraith gynt."
Add. MS., 14,978.

"Lle diffodes dygesynt
Y dalaith a'r gyfraith gynt."
G. B. C., a *C. Ll. G.*

² "Ywchel mae ywch law mon
yngolwg yr yngylion."
Add. MS., 14,978.

"Uchel y mae uwchlaw Mon
Yngolwg yr angylion."
G. B. C.

Gwelwyd y seren hon gyntaf
oddeutu dechreu mis Chwefror, ac
ymddangosodd ar brydiau o hyny
hyd y Pasc, 1402; gyda'i chynffon
ar y cyntaf tua'r gorllewin, ac wedi
hyny tua'r gogledd. Yr oedd
Adam de Usk yn ei gweled yn y
dydd, yn gystal ag yn y nos, pan yn
teithio o Lundain i Rufain (*Wylie's
Hist. Eng. under Henry IV.*, vol.
i., p. 275.)

³ "Post kwyr or awyr yw."

Add. MS., 14,978

"Post o gwyr o'r awyr yw."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

Tebyg genym fod "post o gwyr"
yn golygu y pelydrau euraidd oedd
yn cael eu hadlewyrchu gan y
seren. Ym mhlith amryw feirdd
ereill a ddefnyddiant y gair i
ddynodi y lliw euraidd, gellir nodi
Dafydd ab Gwilym yr hwn, wrth
ddysgrifio gwallt merch Ifor Hael
(*Barddoniaeth*, tudal. 14) a ddy-
wedai :—

"Sirian ym mysg y manaur,
Coron o wallt, *cwyr* neu aur ;
Maner aur pan ymwenynt
Lliw tân y Gad Gamlan gynt !
Crwybr o aur pan i cribai,
Pwn mawr o esgyll paun mai."

⁴ Y mae y darlleniad a geir yn
Add. MS., 14,978, yn dra gwallus
yma, sef o llin. 63 hyd llin. 68; am
y rhai ni rydd ond y tair (yn lle
chwech) llinell a ganlyn :—

"Ynaill a gawn o dir gwynedd
Duw a ddwg fen diddigia
Gwynedd i gael diwedd da."

⁵ "Pab."—*G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

⁶ Diammeu mai cywirach ydynt
G. B. C., a *C. Ll. G.* :—

"Brenin hael am win a medd."

68 duw a ddug fo an di ddigia
 Gwynedd i gael diwedd da¹
 o goel glan i gael y glod
 ag arfau ar chwedl a gorfod²
 Gr. llwyd ap ll. ap einion
 medd eraill Iolo Goch.

- | | |
|--|---|
| ¹ "Duw a ddyg, fo'n diddigia
Gwynedd i gael diwedd da."
<i>G. B. C.</i> | ac arvay a chwedl gorfod."
<i>Add. MS., 14,878.</i> |
| "Duw a ddug, fe'n di ddigia,—
Gwynedd i gael diwedd da."
<i>C. Ll. G.</i> | "Goleu glân i gael y glod,
Ac arfau ar chwedl gorfod."
<i>G. B. C.</i> |
| ² "I goel glan i gael y gylod | "Goleu glan i gael y glod,
Ag arfau, a'r chwedl gorfod."
<i>C. Ll. G.</i> |
-

XII.

OWEN GLYN DYFRDWY.

(O'r Glanyrafon MS. K., fol. 63).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,876 ; 14,882 ; 14,900 ; 14,940 (ddwy waith, sef yn fol. 57 a fol. 104) ; 14,964 ; 14,970, a 14,978. A cheir ef yn argraffedig yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 117, yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 18, yn *Hist. Powys Fadog*, vol. ii., p. 105 ; a cheir cyfieithiad o hono yn *Borrow's Wild Wales*, edit. 1868, p. 242. Fel y gwelir uchod y mae y penawd yn ysgriflyfr Glanyrafon ; ond yn *Add. MS.*, 14,970, y penawd ydyw :—"Cywydd Gorchestol i Owain Glyndwr pan oedd fwyaf ei rwyse," ac yn gyffelyb i hyny, gyda'r eithriad fod y gair "Gorchestol" yn cael ei adael allan, y mae y penawd uwch ben y copïau argraffedig.

Y mae y cywydd, ar ei hyd, yn cyfiawnhau geiriad y penawd ; o blegid y mae yn amlwg trwyddo fod Owain Glyndwr ar yr adeg y cyfansoddwyd ef yn llwyddiannus yn ei anturiaethau. Nid oes ynddo gyfeiriad o gwbl at unrhyw fethiant. Ond, nis gellir penderfynu gyda dim sicrwydd ym mha flwyddyn y cyfansoddwyd ef. Yr unig gyfeiriad a rydd ychydig gynnorthwy ydyw llinell 14, lle y dywedir fod Owain "yn dial kam y dehau." Pa fodd bynag, gwelir yn ein "Braslun," &c., iddo fyned i'r Deheudir yn 1401, 1402, 1403, 1404, a 1405. O'n rhan ein hunain, buasai yn hawddach ein tueddu i feddwl iddo gael ei gyfansoddi ryw-bryd tua 1402, o blegid yn sicr ni fu Owain yn fwy ei rwysg ar un adeg yn ystod y gwrthryfel na'r flwyddyn hono ; pryd y llwyddodd i gymmeryd Syr Edmund Mortimer a'r Arglwydd Grey yn garcharorion ; a'r flwyddyn dywedir hefyd iddo gael ei goroni ym Machynlleth.

Ond, os na allwn brofi yr amseriad i'r manylrwydd hwn, y mae yn eithaf sicr iddo gael ei gyfansoddi rhwng dechreu 1400 a diwedd 1405.

Nid ydyw y cywydd drwyddo ond canmoliaeth ddi-gymmysg, yn cynnwys cryn lawer o eiriau a brawddegau llanw, gyda rhai ailadroddiadau. Y mae yr awdwr yn gwneyd dwy ymgais i ddefnyddio yr hyn a elwir yn gymmeriad llythyrenol, sef trwy arfer yr un llythyren yn nechreu y llinellau, sef *Ll* o llin. 25 i 33, a *P* o llin. 35 i 52; ond ychydig iawn o ymdrech a welir yng nghyfansoddiadau Iolo at y fath gywreinion a chymmeriad llythyrenol neu gymmeriad geiriol.

Llyma fyd rrag syfryd¹ sais
mynych iawn a ddamunais
kael arglwydd llam arwydd llain
4 o honon ni nyhunain²
pybyr chwaen pawb a adwaen pwy
arf glan dewr darf glyn dyfrdwy³

¹ Y mae y darlleniadau o'r gair hwn yn lled amrywiol:—"sythfryd," gyda "syffryd" ar ymyl y ddalen, yn *Add. MS.*, 14,970; "sythfryd" yn *Add. MS.*, 14,940, fol. 104; "sythrig" yn *Add. MS.*, 14,876, *Add. MS.*, 14,940, fol. 57, ac *Add. MS.*, 14,964; a "siffryd" a geir yn *C. Ll. G.* a *G. B. C.*, gyda'r hysbysiad ar waelod y ddalen yn yr olaf fod "siffryd" yn "lluosog o siffrwd." O'n rhan ein hunain tybiwn mai "syfryd" (*severity*) oedd y gair a ddefnyddiwyd gan y bardd.

"Llyma fyd rhag sythfryd sais
Mynych iawn y damunais."

Add. MS., 14,970.

² "Cael Arglwydd llawd arwydd
llain
o honom ni ein hunain."

Add. MS., 14,970.

Nid oes synwyr na chynghanedd yn "llam" na "llawd," a gynnygir fel y trydydd gair yn llin. 3. Nid oes amheuaeth nad "llawn" a feddylir, ac felly y mae yn *Add. MSS.*, 14,876, 14,940; *G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

Yr hyn a ddywed y bardd ydyw, ei fod wedi hir ddymuno, o herwydd ymddygiad llymdost a gorthrymus y Seison, i'r Cymry gael eu harglwyddiaethu gan un o honynt hwy eu hunain.

³ "Pybyr chwaen pawb a
adwaen pwy
Glan arf Deifrdarf Glyn-
dyfrdwy."

Add. MS., 14,970.

Yn hollol yr un fath a'r darlleniad hwn, ac eithrio yr attalnodiad a'r prif lythyrenau, y ceir y llinellauh yn *G. B. C.*, a

- 8 Owain loyw waedlain lidlorf
i ymwan naw tarian torf¹
eurgledd pobol arglwydd pybyr
ergryd ai weryd ar wyr²
aed y byd braw gynbryd gan
12 iddo reg o ddyrogan³
glan ywr arglwydd mawrlwydd mau
yn dial kam y dehau⁴
deall awnair gowair gan
16 o hono ef i hunan⁵

C. Ll. G.; ond "dewrdarf" a geir
yn *Add. MS.*, 14,940, fol. 57.

¹ "Owain wayw waedlain lidlorf
I ymwan naw tarian torf."

Add. MS., 14,970.

"Owain loyw waydlan," &c.

Add. MS., 14,940, fol. 57.

"Owain wayw waedlain lidlorf,
I ymwan naw tarian torf."

G. B. C.

Yn ol y gynghanedd, y testyn
sydd yn gywir.

² "Eurgledd pobl Arglwydd
pybyr

Ergryd i wryd ar wyr."

Add. MS., 14,970.

"Orgryd ai weryd ar wyr."

Add. MS., 14,940, fol. 57.

"Ergryd ei wryd ar wŷr."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

Nisgwyddom beth yw "orgryd";
ond y mae "ergryd" yn golygu
ofn; a'r hyn a ddywed y bardd
yw, y byddai i "wryd" (=dewrder)
Owain greu dychryn "ar wŷr."

³ "Aed o'r byd fry ganfryd gân
Iddo reg o ddarogan."

Add. MS., 14,970.

"Oed y byd braw geinbryd
gan."

Add. MS., 14,940, fol. 57.

Wrth "reg" yma y golygir
anrheg, neu *rodd*.

⁴ "Glan yw'r Arglwydd mawl-
rwydd mau

Yn dial cam y Dêau."

Add. MS., 14,970.

"Mowrlwydd" yn *Add. MS.*,
14,876.

Y mae yn hawddach genym gredu
mai "mawr lwydd" ydyw y
cywiraf; sef *llwyddiant mawr*
Owain pan yn dial cam y dehau.
Ond gan iddo fyned i Ddeheudir
Cymru amryw o weithiau, y mae
yn anhawdd gwybod at ba am-
gylchiad y cyfeirir. Tybia y Parch
O. Jones (*Ceinion Llenyddiaeth*
Gymreig, cyf. i. tudal. 18) mai at
yr adeg y lladdodd bymtheg cant
o'r Fflandrwysiaid ar Bumlumon,
yn 1401, y cyfeirir.

⁵ "Deall a wnair gywair gan
O honaw ef ei hunan."

Add. MS., 14,970.

Y mae y llinellau hyn yn ym-
ddangosynlled dywyll i ni. A dynt
yn golygu rhyw beth mwy na'r
mynegiad syml fod yr hyn a
wnaed gan Owain y pryd hwn yn
destyn teilwng i ganu arno?

trin gyrcher goleuder glain
 tra ewybr or tri owain¹
 Owain glain dwyrain glyn dwr
 20 baun trasyth² yn ben treisiwr
 Owain or glyn lain aur gledd
 dyrfysewr deifr dorf osgedd³
 Owain febyd aerfyd wr
 24 gwiwrwysc un an gorysycynwr⁴

¹ "Trin gyrcher goleuder glain
 Tra ewybr or tri Owain."

Add. MS., 14,910.

"Cyd-ddarllëer gloywder glain
 Tra ewybr o'r tri Owain."

Add. MS., 14,970.

"Cyd ddarllöer gloywder glain
 Tra ewybr o'r tri Owain."

G.B.C.

"Cŷd ddarllöer gloywderglain,
 Tra ewybr, o'r tri Owain."

C.Ll.G.

Y mae "cyd ddarllawer" yn cael ei gynnyg fel eglurhad ar "cŷd ddarllöer," ar waelod y ddalen, yn yr olaf. Ond nid ydyw yr eglurhad yn goleuo dim arnom—darllaw! Darllaw pa peth? Gwell o lawer na hwn yw darlleniad y testyn—"trin gyrcher," gan gymmeryd "trin" i olygu *cad*, neu *frwydr*, a "gyrcher" am *ymosodiad*. Gwelir Bleddyn Vardd (*Myv. Arch.*, p. 251) yn defnyddio "kyrchyad" yn yr un ystyr:—

"Gwyr hydreit gwreit am uro
 geri

Gwyr kyrchyad yg kad yg
 galedi blwng

Ny edynt ystwnng ystrad
 Tywi."

Ond ymddengys fod "cyd-ddarllëer" (*Add. MS.*, 14,970) yn fwy naturiol na'r un o honynt; hyny yw, y bydd coffadwriaeth y

tri Owain yn cael eu cadw, a'u darllen tra bydd ffurfafen mewn bod. Neu mewn geiriau ereill, y mae yn cymharu Owain Glyndwr i ddau arall, sef Owain ab Urien Rheged ac Owain Gwynedd, yn ol fel y gallwn dybied.

² Ceir "trasyth" hefyd yn *Add. MSS.*, 14,876, a 14,940; ond "trasyw" (=tra gwisgi) a geir yn *Add. MS.*, 14,970, *G.B.C.*, a *C.Ll.G.*

³ Yn *Add. MS.*, 14,870, ac yn gyffelyb yn *G.B.C.*, a *C.Ll.G.*, y y mae y darlleniad yn llawn mwy naturiol:—

"Owain arglwyddlain aur gledd
 Derfysgwr Deifr dorf osgedd."

Cyfeiriad sydd yma at Owain ab Urien yn lladd Fflamddwyn (Ida), brenin Northumberland. "Deifr" oedd y rhanbarth ddeheuol o deyrnas y Brigantiaid; a'r rhan ogleddol o honi a elwid Brynaich. Bu i'r taleithau hyn un amser frenhinoedd o'r eiddynt eu hunain; ond ar ol hyny unwyd hwynt. Wedi i'r Sacsoniaid eu dwyn oddi ar y Brigantiaid, galwyd hwynt dan yr enw *teyrnas* Northumberland. (*Gwaith Lewis Glyn Cothi*, tudal. 155.)

⁴ "Owain hefyd aerfryd wr
 Rwysg anian oresgynnwr."
Add. MS., 14,970.

- llyw llawen yw llew a nudd¹
 llyrf ffyrf digriffyrf² gruffydd
 llidio wrth wyr a llediaith
 28 llym gledd bryd arwedd brwydr waith³
 llwydd brenin fydd lladd brynaich
 llew o brudd nerth llaw a braich⁴
 llygra gyrff gwyr lloeger goch
 32 llew aurgruf hyder llaw eurgroch⁵

Nid oes yma nodau i adnabod yr Owain hwn; ond diammeu nad oedd neb llai na Owain Gwynedd, mab Gruffydd ab Cynan. "Owain hefyd" ac nid "Owain febyd" a ddylai fod, yn ddiammeu.

¹ Nudd Hael, i'r hwn y cymherir Owain o ran ei haelioni, fel y cymherir ef i'r llew o ran nerth a dewrder.

² "Ddigrif-ffurf" yn *Add. MS.*, 14,970. Ond odid nad ymddangosiad hawddgar = *pleasing appearance* a feddylir yma. Yn yr ystyr a roddir genym ni yn bresennol i'r ymadrodd, ni allesid ei ystyried mewn un modd yn ffafriol = *grotesque appearance*. Pa fodd bynag, nid yw y llinell, wedi'r cyfan, yn cynnwys mwy na'r hyn a ddywedir yn gyffredin gan wrageddos am blentyn—sef, ei fod yn debyg i'w dad—Gruffydd.

³ "Llidiog wrth wyr a llediaith
 Llym gledd bryd ar wedd
 brwydr waith."

Add. MS., 14,970.

"Llidiog wrth wŷr â llediaith,
 Llym gledd bryd ar wedd
 brwydr waith."

G. B. C.

Tybiwn mai amcan y bardd ydoedd gosod allan fod Owain nid yn unig yn ddigofus wrth y Seison, ond ei fod yn casâu hefyd bawb ag oedd

yn ymdebygu iddynt mewn unrhyw beth. Onide, pa ystyr a roddir i "wŷr â llediaith?" Wrth *lediaith* y meddylir y rhai hyny a siaradant Gymraeg gydagaceniad Seisonig.

⁴ "Lludd Brenin yn lladd
 Brynaich
 Llew bryd a nerth llaw a
 braich."

Add. MS., 14,970, *G. B. C.*,
 a *C. Ll. G.*

Ymddengys i ni fod y testyn yn fwy cywir gydag golwg ar llinell 29; ac y mae yn cytuno yn hollol â'r darlleniadau a geir o honi yn *Add. MSS.*, 14,876 a 14,940. Am y llinell 30, anturiwn awgrymu mai "brydd" = *volunteer, a self-devoted person*, a ddylai fod yn lle "brudd," neu "bryd"—h.y., llew, o ewyllys calon, yn lladd Brynaich.

⁵ Y mae y darlleniadau yma yn gwahaniaethu bron ym mhob llyfr:—

"Llew ergryd hydr llaw aergroch
 Llygra gyrph holl wyr Lloegr
 goch."—*Add. MS.*, 14,970.

"Llêw aurgruf hyder llaw eurgroch."—*Add. MS.*, 14,876.

"Lliw aurgruff hyder llaw eurgroch."—*Add. MS.*, 14,940.

"Llewergrudhydrllawaergroch,
 Llygra gyrph holl wŷr Lloegr
 goch."—*G. B. C.* (a *C. Ll. G.*

yn gyfelyb.)

llurig dduw ddiwall arwydd
 am Owain ior rufain rwydd¹
 pybur wanar bleiddiar blwng
 36 perffaith tair talaith teilwng²
 pur yw i glod por y glyn
 pwyll rywscwr pell orescin³
 paun glan hael koweth hael koeth
 40 prifbur wayw awchddur wychddoeth⁴
 por a ladd meawn ymladdgors
 pedwar kan mil o hil hors⁵

Fe sylwir mai y testyn yn unig
 sydd yn gosod y llinellau yn y drefn
 uchod; gan fod yr oll o'r lleill yn
 rhoddi llin. 32 yn gyntaf.

¹ "Llurig Duw diwall arwydd
 Ar Owain Ior Rhufain
 rhwydd."

Add. MS., 14,970.

"Am Owain," &c.

Add. MS., 14,876.

Ai y Pab ydym i ddeall wrth
 "Ior Rhufain?" Dymuniad sydd
 yma, fe allai, am i'r Pab fendithio
 Owain yn ei anturiaethau.

² "Pybur wanar bleiddgar blwng
 Perffaith tair talaith teil-
 wng."—*Add. MS.*, 14,970.

Gosodir Owain allan yma fel
 arweinydd nerthol (=pybur wanar)
 tair talaeth Cymru—Gwynedd,
 Powys, a Dyfed; am y rhai y
 cyfeiria y bardd fel pe buasent
 eisoes yn ei feddiant, wedi eu
 cymmyrdd oddi ar y Seison fel y
 cipia blaidd sarug ei ysglyfaeth.
 O leiaf, tybiwn mai rhyw syniad
 o'r natur yma oedd yn rhedeg trwy
 ei feddwl.

³ "Pur yw ei glod Por y Glyn
 Pwyll rywscwr pell orescyn."
Add. MS., 14,970.

"Pur yw ei gledd, por y Glyn,
 Pwyll rwysegwr, pell or-
 escyn."—*G. B. C.*, a *C. Ll. G.*
 Tueddir ni i dybied mai "gledd,"
 ac nid "glod" ydyw y cywiraf.
 Y mae Iolo yn hynod o hoff o'r
 gair "por"=arglwydd; ac yn ei
 ddefnyddio yn fynych. Cyfeiria
 "pwyll rywscwr" at ddoethineb
 ei symmudiadau—sef, er ei fod yn
 anturio yn bell i orescyn, nad yw
 yn gwneyd hyny heb fwrw y draul
 yn bwylllog.

⁴ "Paun glan hael cyweithgael
 coeth,
 Prifddur gwayw awchddur
 gwycheddoeth."

Add. MS., 14,970.

"Paun glân hael cyweithgael
 coeth

Prifddur gwayw awchddur
 gwycheddoeth."—*G. B. C.*

Yn gyffelyb hefyd i'r darllen-
 iadau hyn y mae yn *C. Ll. G.*; ac
 ymddengys i ni eu bod yn gywirach
 na'r testyn.

⁵ Yn *Add. MS.*, 14,970, *G. B. C.*, a
C. Ll. G. cyfleur llin. 33 a 34 o flaen
 y ddwy linell uchod.

"Por a ladd mewn ymladdgors
 Pedwar canmil o hil Hors."
Add. MS., 14,970, a *G. B. C.*

- 44 pablaidd¹ gorff² pobloedd a gur
post addwyn³ hael pais dewddur⁴
pen nen pur mur mawr waladr⁵
por glew llew llym kyflym kadr⁶
prudd nudd ner ywr mowr ner mau
- 48 por dor dar gwanar gwinau⁷
pleidiwr⁸ brwydur⁹ paladr briwdwn¹⁰
poed gwir bowyd¹¹ hir i hwn
peder yw borth poed hir i bo
- 52 pe mau swydd pumoes iddo¹².

Iolo Goch.

Por dor dar yw'r gwanar
gwinau."

G. B. C., a C. Ll. G.

Nis gwyddom beth a feddylir
wrth "prudd" yn nechreu y llinell
flaenaf os nad ffurf arall ar
"prydd" = *luxuriant*. Y mae
"mawr ner" y testyn yn cael ei
ysgrifenu yn "mowner" yn *Add.*
MS., 14,940, ac yn "mowner" yn
Add. MS., 14,876. Tebyg mai
"muner" = *rheolwr* sydd gywiraf.
"Dor dar" = drws derw? Os hyn a
olygir, diammeu mai y syniad yw
ei fod yn amddiffynwr cadarn i'w
bobl.

⁸ "Pleidiwr."—*Add. MS.*, 14,876,

G. B. C., a C. Ll. G.

"Pleidiw."—*Add. MS.*, 14,970.

"Pleidiwr."—*Add. MS.*, 14,940.

⁹ "Brwydr" yn yr oll heb law y
testyn.

¹⁰ "Paladr briwdwn" = torwr
paladr?

¹¹ "Bywyd."—*Add. MS.*, 14,970,
G. B. C., a C. Ll. G.

¹² "Pedr iw borth pa dir y bo
Pe mwy i swydd pumoes
iddo."—*Add. MS.*, 14,970.

"Pedr i'w borth pa dir y bo,
Pwy mwy i swydd? pum'oes
iddo!"—*G. B. C. a C. Ll. G.*

"Meawn" (mi-awn) ydyw cynan-
iad pobl Sir Fôn a rhanau o Sir
Gaernarfon o'r gair *mewn*. Yr
oedd yr hen feirdd yn ysgrifenu yn
fwy seinebol (*phonetic*) nag yr ydym
ni; ond, ar yr un pryd, tebygol
mai orgraff y copiwr, ac nid Iolo,
a geir yn y gair hwn.

Yn y llinell olaf y mae Iolo yn
darogan brwydr sydd eto heb
gymmeryd lle, sef, y byddai i
Owain ladd 400,000 o hil Hors-
y Seison—oddi wrth Horsa, brawd
Hengist.

¹ Pablaidd = Heinyf = (*active*).

² "gorph."—*Add. MS.*, 14,970,
G. B. C., a C. Ll. G.

³ "addwyn" = rhinweddol (= *virtuous*)—"post addwyn" a olyga
nodweddion moesol Owain yn y
cymmeriad o flaenor y genedl.

⁴ "pais dewddur" = llurig oddur
trwchus—nodyn yn *C. Ll. G.*

⁵ "waladr" = rheolwr.

⁶ "cyflym kadr."—*Add. MS.*,
14,970, *G. B. C., a C. Ll. G.*

⁷ "Prudd Nudd Ner yw'r Muner
mau

Por dor dar gwanar gwinau."

Add. MS., 14,970.

"Prudd Nudd Ner yw'r Muner
mau,

XIII.

LLYMA GYWYDD Y BARD D YN YMDDIDDAN AI
 ENAID AM HELYNT Y DEHEUDIR, AG AM HELYNT
 OWAIN GLYN DYFRDWY (O LYFR BRECHFA).

(*O'r Add. MS.*, 15,003, fol. 57.)

Ceir y cywydd hwn, heb yr un penawd (ond gyda'r enw "Breuddwyd" yn y ddangoseg), ac yn fyrach o ddeg llinell, yn *Add. MS.*, 14,976; y mae i'w gael hefyd yn *Jesus MS.*, C. 101, p. 350; ac yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 17—wedi ei adysgrifenu, fel y gallem dybied, er nad yn hollol gywir, o'r un ffynnonell a ninnau. Ceir ef hefyd mewn ysgrifyr perthynol i Syr John Williams, 63, Brook Street, Grosvenor Square, W., dan y penawd "Cywydd y Bardd yn gofyn i'w Enaid Hanes Deheudir."

I ni, o leiaf, y mae amcan y bardd wrth gyfansoddi y cywydd hwn yn aneglur. Ceir ynddo gyfeiriadau at amryw leoedd ag na fu, hyd y gwyddom, unrhyw gyssylltiad rhwng Owain Glyndwr a hwynt o gwbl. Ac, fel y gwelir, nid oes grybwylliad am *enw* Owain ynddo. Dichon, ar yr un pryd, ei fod yn rhyw fath o restr (*catalogue*) o'r parthau hyny o Gymru ag oeddynt gan mwyaf yn ffafriol i'r gwrthryfel. Oddi wrth llin. 55-56, yr ydym yn ceisio dyfalu fod ynddo gyfeiriad at waith Owain Glyndwr yn llosgi tref Gaerfyrddin yn 1403; ac os ydyw ein dyfaliad yn gywir, gallwn gasglu i'r cywydd gael ei gyfansoddi oddeutu yr amser hwnw. Ond er fod ynddo amryw o gyfeiriadau ac awgrymiadau tywyll, yr ydym yn credu wedi'r cyfan mai rhyfeloedd Owain, ar hyd wahanol ranau o'r wlad, oedd gan y bardd dan sylw.

- Ymddiddan bwhwman¹ hwyr
 A wnaeth yr enaid neithwyr
 Cyffes eres a orug
 4 I'r corph oer rhag caru ffug,²
 Meddai'r enaid rhaid rhadlawn
 Mae ydd wyd y corph meddw iawn.³

CORPH

- Pa ddrygiawg air hawg er hynn ?
 8 Pa gyfaill ? pwy ai gofyn ?⁴

ENAU

- Myfi ydyw mau fudiaith,⁵
 D'enaid teg a fu'n dwyn taith
 Ni adewais lednais le
 12 Yng Nghymru ar fy nghamre⁶
 Heb d'ymofyn hynn yw'r hedd⁷
 I'r goreugwyr a'r gwragedd

¹ "Bwhwman" = *anwadal*, *an-safydlog*. Y mae y bardd, trwy fabwysiadu breuddwyd fel cyfrwng ei fynegdraith, yn esgusodi ei hunan, ar y cychwyn, o herwydd y rhyddid a gymmerai i drafod ei destyn mewn arddull wasgarog.

² Y mae *Add. MS.*, 14,976, yma, yn gystal ag mewn amryw linellau ereill, yn dra gwallus :—

"Cyffyes ores a orug
 ar corff oer or caru ffug."

"I'r corff oer," &c., a geir yn *C. Ll. G.*, a hyny ydyw y cywiraf. Dyweyd y mae y bardd i'r enaid wneuthur cyffes ryfeddol i'r corff, er ei ddarbwylio rhag rhoddi ei hyder ar ffug.

³ Enghraifft arall o ddiofalwch copiwr yr *Add. MS.*, 14,976, a geir yn :—

"Meddai /r/ enenaid raid rad-
 lawn
 mae dd wyd y corff meddw
 iawn."

"Meddai /r/ enaid raid rad-
 lawn

mae—ddwyd y corff meddw
 iawn."—*Jes. MS.*

⁴ "Pa ddrwg air hawg or hynn
 pa gyfaillt pwy ai gofyn."

Add. MS., 14,976.

⁵ Y mae y llinell hon yn dywell i
 ni.

⁶ Yma, eto, y mae *Add. MS.*,
 14,976, yn wallus :—

"Mi adewais lednais le
 ynghymru ar fynghanwe."

"Ni edewais lednais le
 ynghymrû ar fynghamre."

Jes. MS.

⁷ Tybiwn nad ydyw "hynn yw'r
 hedd" amgen na geiriau llanw,
 heb unrhyw amcan iddynt heb law
 odli â "gwragedd." Y mae hyny
 o feddwl sydd yma i'w gael trwy
 gyssylltu y rhan flaenaf o'r llinell
 gyda'r llinell ddilynol :— "Heb
 d'ymofyn . . . i'r goreu-
 gwyr a'r gwragedd."

- Ni wyddiaint¹ neb p'le 'ddoeddud
 16 Nid hawdd ymadrawdd a mud
 Tithau'n egwan dy anwyd²
 Mewn glwth ellyl³ meingul ŵyd
 Yn chwyrnu megis chwornell
 20 Gormodd bw⁴ gwr meddw o bell
 Tra cherddais 'mofynnais fawl,⁵
 Drwy Geri,⁶ gwlad ragorawl,
 Ar Dref Newydd lifwydd⁷ lefn,
 24 Bwrdeisdref⁸ baradwysdrefn
 Ymlynais ym Maelienydd⁹
 Dy ol di fal helgi hydd,

¹ "Ni wyddiad" yn *Add. MS.*, 14,976, a *Jes. MS.*; ond yn fwy cywir yn y testyn.

² "Annwyd" yn *Add. MS.*, 14,976. Y testyn sydd gywir—"anwyd"=*disposition*; oerfel(*cold*) ydyw "annwyd."

³ "Ellyll" yn *Add. MS.*, 14,976, a *C. Ll. G.*

⁴ "bw"=*dychrynod*.

⁵ "Dra kerddais mofynnais mawl."—*Add. MS.*, 14,976.

⁶ Ceri (*Seis. Kerry*) sydd blwyf yn rhanbarth uchaf cantref Trefaldwyn, Sir Drefaldwyn. Yn yr hen amseroedd yr oedd Ceri yn cael ei wneyd i fyny o blwyf Ceri a Mochdref; a'r pryd hwnw gelwid yr eglwys yn Llanfihangel yng Ngheri. (*Lewis's Top. Dict. of Wales*, vol. i., s.v. "Kerry.") Y mae y rhan fwyaf o'r plwyf yn awr, beth bynag am ei radoroldeb pan gyfansoddwyd y cywydd, yn dir diwylliedig a ffrwythlawn. Saif y pentref ryw dair milltir i'r de-ddwyrain o'r Drefnewydd, ar y ffordd i Bishop's Castle.

⁷ Yr hyn a feddylir wrth "lifwydd" ydyw coed wedi eu llifo yn

estyllenod. Ac os oes meddwl i'r gair yma o gwbl—heb law ei fod yn cynnorthwyo tuag at wneyd y llinell yn saith sill—y mae yn ein hysbysu mai tai coed—o estyllenod llyfnedig—oedd yn y Drefnewydd yn yr oes hono.

⁸ Tref farchnad ydyw y Drefnewydd, yr hon a saif yn y rhanbarth dde-ddwyrainiol o sir Drefaldwyn. Yn 1832, gwnaed hi yn fwrdeisiaeth, yn meddu hawl, mewn undeb â Threfaldwyn, y Trallwm, Llanidloes, Machynlleth, a Llanfyllin, i anfon cynnrychiolydd i'r Senedd. Ond fe welir oddi wrth y cywydd ei bod yn fwrdeisdref yn amser Iolo Goch; eto, prin mae angen dyweyd mai mewn ystyr hollol wahanol. Y cynnyg cyntaf i wneyd y Drefnewydd rywbeth ar ffurf tref, neu fwrdeisdref, oedd yr hawlfraint a roddwyd iddi i gynnal ffeiriau, yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Edward I. (*Bye-Gones*, Feb. 18, 1891).

⁹ "Maelienydd" yn *Add. MS.*, 14,976. Maelienydd, enw ar ranbarth yn sir Faesyfed, yn cyrhaedd i'r gogledd-ddwyrain can belled a'r

- 28 Ger tai meibion Llëon llu
Philib Goeth, dewrddoeth *Dorddu*.¹

CORPH

Uwchelrwyg bobl wych haelryw
 Och fi, a oeddynt iach fyw ?

ENAIID

- 32 Gwyr Elfael² geirw gwrolfeilch
 Byw a iach nid gwyachach gwailch

CORPH

A tuost yngwlad *Füell*³
 Elfydd deg ei gwydd a'i gwellt ?

afon Teme, gan gymmeryd i mewn Dref y clawdd (*Knighton*). Terfynid Maelienydd, o du y gorllewin, gan Gwrtheyrnion, yr hon weithiau, er nad bob amser, a ystyrir yn rhan o honi ; ac o du y dehau, gan Elfael. (*Owen's Descript. of Penbrokshire*, pp. 202-3, note 2.) Perthynai rhan o Maelienydd i Iar'l March, ac yn y rhanbarth hono y saif Bryn-glas, ger Mynydd Pilleth, lle y gorchfygwyd Syr Edmund Mortimer gan Owain Glyndwr, yn 1402. Dosrenid Maelienydd gynt i ddau gantref ; cynnwysai y naill "Kym6t Keri" a "Kym6t g6erthrynnion," a'r llall "Kym6t swyd uudugre," "kym6t swyd yethon," a "Kym6tt llwythyn6c" (*Text of the Bruts*, p. 409.) Gwel Cywydd Rhif XIV., llin. 60, lle cyfeirir at *Yethon* = *Ithon*, neu *leithon*.

¹ Ceir enw Philip Dorddu yn fynych yn achau Sir Faesyfed, gan Lewys Dwnn (*Heraldic Visitations*, vol. i., pp. 251-68), lle y gwelir ei fod yn disgyn, yn y nawfed ach, o Elystan Glodrudd. Fe ganodd Lewys Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal.

305), gywydd i "Ieuan ab Phylip, o Gevn Llys, Maes Hyvaidd," yr hwn oedd yn hanu o Philip Dorddu. Cefn Llys yn bresennol sydd blwyf, a bwrdeisdref gyfranogol, ar lan yr afon Ieithon, yn sefyll oddeutu 8 milltir i'r de-ddwyrain o Rhaiadr Gwy. Yn y plwyf hwn y mae olion hen gastell—Din Ieithon—yr hwn a ddywedir a adeiladwyd gan Ralph Mortimer, yn y flwyddyn 1242. Cyfeirir at yr hen gastell hwn gan ysgrifenydd diweddar wrth yr enw Castell *Glyn Ieithon*.

² Rhanbarth ddeheuol Sir Faesyfed ydoedd hon, ac yr oedd yn cynnwys yr hyn a amgaid gan yr afon Wy rhwng Llanfair ym Muallt a Whitney, yn cyrhaedd i'r gogledd hyd uniad yr Ieithon â'r Wy, ac yna yn myned rhagddi gyda Gwrtheyrnion a Maelienydd (*Owen's Descript. of Penbrokshire*, p. 202, note 2.) Dosrenid Elfael i Gwmmwd Uwch Mynydd a Chwmmwd Is Mynydd. (*Text of the Bruts*, p. 409.)

³ Yr oedd Buellt, neu Buallt, yn yr hen amseroedd yn dywysogaeth ar ei phen ei hun, ac yn cyfateb

ENAIID

- 36 ¹Bum ar ei lled, mawrged mau,
Goleuddydd yn cael gwleddau

CORPH

A fuost lle car fawen
Ar gain gyrch *Morganwg wenn* ?²

ENAIID

- 40 Bum, a gwaith digrif oedd bod,
Brenhinaidd Bro wenn hynod *edd in al.*

CORPH

A fuost le difeiaf,
Ym Mlaenau terfynau *Tâf* ?³

i gantref Buallt yn bresennol. Nid oedd yn ffurfio rhan o'r hen Frycheiniog; ond unwyd hi yn ddiweddarach i wneyd i fyny y Sir hono. (*Owen's Descript. of Pembrokeshire*, p. 202, note 2.) Yn ol y *Llyfr Coch o Hergest*, yr oedd Buallt yn cynnwys pedwar o gymmydau:— "Kymôt penn vuellt, kymôt sdydman, kymôt treflys, [a] kymôt is iruon." (*Text of the Bruts*, p. 409.) Wrth "sdydman" y dyfyniad y golygir Swydd Dinam (= Llysdinam), ger Newbridge.

¹ Y mae o llin. 35 hyd ddiwedd 28 wedi eu gadael allan yn *Add. MS.*, 14,976.

² Nid ydyw yr hyn a elwir yn awr yn Sir Forganwg yn cyfateb i'r hen Forganwg. Y mae y sir yn cynnwys Gŵyr, yr hon oedd yn Ystrad Tywi; ac nid ydyw yn cynnwys Gwynllywg, yr hon, gyda Edelygion, a ffurfiai y rhanbarth a safai rhwng rhediad yr Wysg a'r Rumney. Yr oedd Gwynllywg, mor ddiweddar ag amser Leland, yn perthyn i Forganwg (mewn gwrthgyferbyniad i Gwent), ond y mae yn awr yn rhan

o Sir Fynwy. Golyga Morganwg 'diriogaeth Morgan Hên,' yr hwn a fu farw yn 980, ac nid (yn ol fel y tybia rhai) Morgan Mwynfawr, yr hwn a fu farw oddeutu 665. Hyd o gylch y flwyddyn 1000, adnabyddid y wlad dan yr enw Glywysing; eto nid oedd hono yn hollol gyfateb oran ei therfynau i Forganwg. o blegid yr oedd, ar y naill law, yn cau Gwent allan, yr hon unwaith a berthynai i diriogaeth Morganwg; ac, ar y llaw arall, yr oedd yn cynnwys Gŵyr. Nid ydyw y terfynau a roddir i Glywysing yn yr *Iolo MSS.*, p. 18, a'r defnydd a wneir o'r enw 'Gwent' am ddyffryn Morganwg ar tudal. 100.1 o'r gwaith hwnw, ond hollol ffugiol—wedi eu dyfeisio gan hynafiaethwyr yr unfed ganrif ar bymtheg a'r eilfed a'r bymtheg (*Owen's Descript. of Pembrokeshire*, p. 208, note 1.)

³ Y mae tair afon yn myned dan yr enw *Tâf*. Y ddwy flaenaf ydynt *Tâf Fawr* a *Tâf Fechan*, y rhai a godant ym Mannau Brycheiniog; ac a ymunant â'u gilydd ar derfyn y sir. Ond y drydedd, a'r unig un

ENAIÐ

- 44 ¹Yno y bum mewn iawn barch
Da hoywfawl gwyr dihafarch.

CORPH

A fuost ar nawf² awyr
Ymlyn gwawd ym *Mlaenau Gwyr* ?³

ENAIÐ

- 48 Treiglais yno trwy oglud,
Ni bum ar goll ei holl hŷd,
Na chwech trech y *Trichantref*
Gwell *Caeaw* na *naw o Nef*,⁴

a adnabyddir yn gyffredinol wrth yr enw *Tâf*, a dardda yn y Vrenny Vawr, oddi ar Llanfrynach, yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro; ac yna ar ol rhedeg oddeutu pum' milltir ar hugain, trwy ranau o siroedd Penfro a Chaerfyrddin, i gyfeiriad de-ddwyreiniol, heibio i Whitland, St. Clears, a Llacharn, ymgolla ym meisfor Caerfyrddin, yn ymchwydd y Tywi. A thybiwn mai wrth "flaenau terfynau Tâf" y golygai y bardd gymmydogaeth Llanfrynach. Adnabyddir y ddwy afon flaenaf gan y Seison wrth yr enw *Taff*, a'r olaf wrth yr enw *Tâve*.

¹ Y mae llin. 43-48 yn cael eu gadael allan yn *Add. MS.*, 14,976.

² "Nawf" = nofio, h y., yn hofran yn yr awyr.

³ Safai Gŵyr (Gower) rhwng yr afonydd Llŵchwr a'r Tawe, Brycheiniog, a'r môr; a pherthynai i Ystrad Tywi, ond y mae yn awr yn rhan o Sir Forganwg. Yr oedd yn cyfateb mewn arwynebedd i gantrefi diweddar Abertawy, a rhan, o leiaf, o Llangyfelach. Wrth "Gower," yn ol fel y defnyddir yr enw yn awr, y meddylir cantref

Abertawy yn unig. (*Owen's Description of Pembrokeshire*, p. 200, note 1.)

⁴ "Na chwech twrch yw'r trychantref
gwell caeaw na naw o nef."

Add. MS., 14,976.

Yn *Jes. MS.* ceir "tref" yn lle "trech" (llin. 49), a darllena llin. 50:—"Gwell cavav na nav o nef."

Tybiwn mai wrth y "Trichantref" yr ydym i olygu Tri Chantref Ystrad Tywi—Cantref Mawr, Cantref Bychan, a Chantref Eginawg. Yn ol "Parthau Cymry" (*Text of the Bruts*, p. 410), yn y cantref blaenaf y saif "kymôt caeaw" = cwmwdw Cao. Ond deallwn nad ydyw hyn yn hollol gywir. Ceir crybwylliad am y "trichantref" ym Mabinogi Pwyll (*Mabinogion*, Oxford edit., p. 25), lle y dywedir fel hyn:—"Ac y gŵledychôys ynteu pryderi seith cantref *dyuet* yn llŷdyannus garedic gan y gyuoeth a *chan patb* yn y gylch. Ac yn ol hynny y kynydôys *trichantref* ystrat tywi. a phedwar cantref *keredigyaôn*. Ac y gelbir y re hynny seith gantref seissyllwch."

CORPH

A welaist wyr *Cydweli*?¹

ENAIÐ

- 52 Gwiw olau Stryd—gwelais *Dri*
 Digon gennyf diegin,
 Gweled or *Tri Gwaladr Trin*,²
 Tew oedd yn *Ystrad Tywi*³
- 56 Dial dwys dy olau di,⁴

Cwmmwd oedd Cao a roddodd ei enw (1) i Caer Gaeo, ger Pym-sant; (2) i blwyf Cynwyl Gaeo, a elwid felly er ei wahaniaethu oddi wrth Gynwyl Elfed, h.y., Eglwys St. Cynwyl yng nghwmmwd Elfed; talfyrir enw y plwyf hwn yn awr i "Cayo": ac (3) i gantref diweddar Cao, yr hwn sydd yn llawer eangach na'r hen gwmmwd.

¹ Bwrdeisdref a thref farchnad, yn sefyll ar ymuniad y ddwy afon—Gwendraeth Fawr a Gwendraeth Fach, yn Sir Gaerfyrddin, ydyw *Cydweli*; ac y mae o fewn rhyw naw milltir o'r de-ddwyrain i dref Caerfyrddin. Yr oedd y rhanbarth yn yr hon y saif hefyd, yn myned dan yr enw *Cedweli*—un o gymmydau y trydydd cantref perthynol i *Ystrad Tywi*; a chymmerai i mewn y gongl a orwedda rhwng rhanau isaf y *Tywi* a'r mor, ac yn cael ei derfynu ar y dwyrain gan *Carnwyllon* ac *Is Cennen*—yr olaf yn un o gymmydau y Cantref *Bychan* (*Owen's Penbrokshire*, p. 200, note 1.)

² "Digon genif da egin
 gweled o'r tri gwaladr trin."

Add. MS., 14,976.

Credwn fod hwn yn well darllen-
 iad nag a geir yn y testyn. "Da
 egin . . . tri gwaladr trin,"

sydd gyfeiriad, mae'n debyg, at dri o swyddogion ieuainc oedd yn cynnorthwyo Owain Glyndwr yn y parthau hyn. Tybiwn fod "egin" yma yn gyfystyr â'r ymadrodd *Seisonig*—*young blades*.

³ Cynnrychiolir rhanbarth *Ystrad Tywi*, yn bresennol, yn lled agos, gan Sir Gaerfyrddin, ond gyda dau eithriad lled bwysig. Yr oedd *Ystrad Tywi* yn cynnwys Cwmmwd Gŵyr, yr hwn sydd yn awr yn Sir Forganwg. Ac y mae y sir, gydag eithrio y *Velfrey*, ac fe allai y rhan hono a elwid *Peuliniog*, yn cynnwys yr oll o Gantref *Gwarthaf*—ymwyaf o Saith Gantref Dyfed—yr hwn ni pherthynai i *Ystrad Tywi*. Y mae yr oll o ddau brif gantref *Ystrad Tywi*, sef y Cantref *Mawr*, ar y gogledd i'r *Tywi*, a'r Cantref *Bychan*, ar yr ochr ddeheuol iddi, yn Sir Gaerfyrddin. (*Owen's Penbrokshire*, p. 216, note 1.)

⁴ Cyfeirir yma at waith Glyndwr yn llosgi tref Caerfyrddin, gan ddi-frodi amryw leoedd ereill yn *Ystrad Tywi*, yn 1403 (gwel "*Braslun*," &c., tudal. 57). Dywod y bardd mai "tew oedd yn *Ystrad Tywi*," hyny yw, tew oedd y siarad. Nid oedd neb yn cael hamdden i feddwl am ddim arall. Yr oedd y gwrhydri a ddangosodd y gwladgarwr ar yr

- Mal ol *Addaf*, aml oeddynt,
Pan yrrwyd gofynwyd gynt,
Am yr afal dial dwys
60 Ai bryder o *Baradwys*
CORPH
Beth yw ef, byth oi ofyn,
Abad y *Ty* gwinllâd *Gwynn*?¹
ENAIID
Gyr gennad yn goeladwy
64 I gyrchu morc,² ag arch mwy,
CORPH
Deffro, oddiyno ydd awn
Ger Dugieth *Geredigiawn*,³
ENAIID
Doniog yw'r oludog wlad
68 Ag annerch *Rhydderch* roddiad,⁴
Ap *Ifan Llwyd*, anwyd *Arth*,
Da hoywbost aur Deheubarth,⁵

amgylchiad hwnw yn gyfryw, fel y myn Iolo i ni gredu, yn y llinellau dilynol, na ddwygwyddodd ei gyffelyb er pan y cafodd Adda ei droi allan o Ardd Eden am fwyta yr afal gwaharddedig!

¹ Ty Gwyn ar Daf—yma y cynnulledd Hywel Dda, yn y ddegfed ganrif, gymmanfa o ddysgedigion er aëffurfio a diwygio Cyfreithiau y Cymry. Drachefn, yn y flwyddyn 1143, sefydlodd yr Esgob Bernard fynachlog yn y lle, yr hon a alwyd yn "Fynachlog y Ty Gwyn ar Daf." Nis gwyddom pwy oedd yr Abad oedd yma ar yr adeg y cyfansoddodd Iolo y cywydd hwn.

² "Morc" = *mark*: dernyn o aur bathol gwerth 13s. 4c., medd rhai. Ond dywed golygwyr Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 228), fel y

canlyn:—"Mark of gold (in ancient times) was the quantity of 8 ounces, and was in value £17 13s. 4d. of our coin at this time. *Bailey's Dict.*"

³ "Deffro o ddi yno ddawn ger dugieth geredigiawn."

Add. MS., 14,976.

Y mae Sir Aberteifi bron, os nad yn hollol, yn cyfateb ihen dywysogaeth Ceredigion (*Owen's Penbrokshire*, p. 216, note 1.)

⁴ "Doniog yw'r oludog wlad ag annerch Rydderch roddiad."—*Add. MS.*, 14,976.

⁵ "Ap Ifan llwyd annwyd Arth eurbost hoywbost deheubarth."

Add. MS., 14,976.

Tybiwn mai yr un ydoedd Rhydderch ap Ifan Llwyd a'r hwn y ceir ei achau gan Lewys Dwnn

Abad ni âd arnad ing
72 *Tir Fflur* er rhoi tair fflwring¹

Iollo Goch ai Cant.

(*Herald. Visit.*, vol. i., pp. 15, 44).
Yr oedd yn byw ym Mhare
Rhydderch, yng Nglyn Aeron, ac yn
disgyn o Kloddien ap Gwrydyr,
Arglwydd Ceredigion. Ei ail wraig
oedd Mawd, merch Syr William
Clement; ac y mae Prysiaid
Gogerddan yn olrhain eu haniad i'r
Rhydderch hwn. Yn ol a ddywedir
yn un o gywyddau Lewis Glyn
Cothi (*Gwaith*, tudal. 315¹), yr oedd
Iollo Goch yn arfer ymweled â
Glyn Aeron:—

"Iolo'n wir yn Nglyn Aeron
A wnaeth wers yn y iaith hon;
Eithr ymab oedd athraw mawr,
Ac i Rydderch yn gerddawr."

¹ "Abad in ad arnad ing
tir fflur er rhoi tair floring."

Add. MS., 14,976.

"Fflwring," yn ol Richards, o
Langrallo, ydyw — "a piece of coin,
a noble, or rather a floren." Dywedir
yn *Bailey's Dict.* (edit. 1745), fel
hyn:—"FLOREN, a gold coin in the
time of Edward III., value 6s."



XIV.

CYWYDD I OWAIN WEDI MYNED AR DDIFANCOLL.

(*O'r Add. MS., 14,970, fol. 97*).

Y mae y cywydd hwn i'w weled yn *Add. MSS.*, 14,887 (dernyn), 14,892, 14,897, 14,994 (dernyn); ac, heb enw awdwr wrtho, yn *Glanyrafon MS., H.*, p. 84. Ceir ef hefyd yn argraffedig yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 119; *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 20; yn *Hist. Powys Fadog*, vol. i., p. 220; gyda chyfieithiad o hono, gan Mr. Howel W. Lloyd, yn *Hist. Powys Fadog*, vol. ii., p. 107; ac yn *Y Cymmrodor*, vol. iv., p. 230. Fel y canlyn y sylwa golygydd *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* mewn perthynas i'r cywydd hwn:—

“Yn ngwanwyn y flwyddyn 1405, cyfarfu Owain Glyn-dyfrdwy âg amryw anffodion blinion; canys mewn dwy frwydr a ymladdwyd yn mis Mawrth, efe a gollodd tua dwy fil a haner o wŷr; a lluaaws o'i ganlynwyr a gefnasant arno, yr hyn a'i gwasgodd i gyfyngder dirfawr, fel y bu dros beth amser yn gorfod llechu mewn ogofeydd, a diffeithfaoedd, o'r lle y byddai yn achlysurol yn anturio ymweled â rhai o'i gyfeillion ffyddlonaf, y rhai a'i harlwyent âg angenrheidiau einioes; dywaid traddodiad mai un o'r cyfryw guddfeydd, ydoedd cilfachau Moelhebog, ger Beddgelert, a'r llall ydoedd “Ogof Owain,” yn mhlwyf Llangelynin, swydd Feirionydd, lle ei porthid gan un Ednyfed ab Aron. Hwyrach mai dyma y pryd y cyfansoddodd ein Bardd y Cywydd blaenorol” [Cywydd Rhif XI. yn y casgliad hwn]; “a chyn diwedd y flwyddyn hon, cawn ein gwron ar y maes eto, a chanddo ddeng mil o Gymry dan ei luman, a byddin o Ffrancod yn ei gynnorthwyo.”

Ysgrifenu o'r braidd yn ddifeddwl yr oedd Mr. Jones pan y dywedodd i'r cywydd hwn, os cyfansoddwyd ef yn 1405, gael ei gyfansoddi yn yr un flwyddyn a Chywydd y Seren, yr hon a ymddangosodd yn 1402. Ymddengys yn rhyfedd nad oedd golygydd *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* yn gweled unrhyw anhawsder i'n sicrhau i Gywydd y Seren gael ei gyfansoddi yn 1402, a'r cywydd hwn yn 1405; ac eto i'r ddau gael eu cyfansoddi yr un amser! Yn 1405 yr amserir y cywydd hwn hefyd gan Mr. H. W. Lloyd (*Y Cymmrodor*, vol. iv., p. 229), ac y mae yn sylwi fod y bardd, er yn nodi amryw leoedd ag y tybid fod Owain wedi myned i chwilio am gynnorthwy, yn gadael allan yn fwriadol y wlad o'r hon y dysgwylid cynnorthwy—sef Ffrainc. Ond y mae ei dybiaeth yn gorphwys ar ei gamesboniad o'r gair "Galiod," yr hyn a gyfieitha yn *Galahad* yn lle yn *Galiaid* (llin. 29). Yr ydym eisoes ("BRASLUN," &c., tudal. 59 a 71) wedi dangos nad oes unrhyw angenrheidrwydd i ni amseru y cywydd hwn yn ddiweddarach na'r flwyddyn 1404.

Y Gwr hir nith gar Harri
Adfyd aeth a wyd fyw di¹

¹ Y mae yn amlwg fod y llinell gyntaf yn anghywir yn ysgriflyfr Glanyrafon:

"Y gwr hir a garr harri
adfyd aeth ond wyt fuw di,"
o blegid afreidiol dyweyd nad oedd Harri mewn un modd yn caru "y gwr hir." Y mae y llinellau yn *G. B. C. a C. Ll. G.*, gan eu bod wedi eu hattalnedi, yn fwy amlwg eu hystyr:—

"Y gwr hir, ni'th gâr Harri,
Adfyd aeth, a wyd fyw di?"

Mewn atebiad i ymofyniad o'r eiddom, ar ol i ni glywed fod arfwig Owain Glyndwr yng Nghastell Rhuthyn, ymddangosodd nodyn yn *Bye-Gones*, March 27, 1895, rhan o'r hwn a ddyfynwn yma:—"In

answer to 'C.A.'s' query, it is true that the Welsh Chief's armour 'is to be seen in the servants' hall at Ruthin Castle,' placed on the mantelpiece, secured to the wall, and in good state of preservation. Helmet (tight fitting) covering chin and forehead; length of feet, 13 inches; neck, 24 inches; shoulder to elbow, 16 inches; elbow to hand, 24 inches; and as it stands, 66 inches from head to foot; breastplate, knee caps, &c., solid and plain. History tells us that Glyndwr attacked and took possession of this Castle, and made its then owner, Lord Grey, a prisoner, and before he was liberated he was forced by Owen to marry his

- Ag od wyd a gwayw o dan
 4 Dyred dangos dy darian¹
 O wlad garw aergad eurgylch
 Rufain dwg eirf yn dy gylch²
 Dwg feddiant Pedr sant dan sel
 8 Drwy iawnswydd Duw a'r insel³
 Dyred o wlad y Dwyrain
 Darw mawr a bwrw dyrau main⁴

daughter Jane (by Margaret, daughter of Sir David Hanmer, of Hanmer in Maelor.) In the year 1404 it is said 'that Glyndwr was in possession of the whole of Wales,' and after some years of successes and reverses he died at the house of his daughter on the 20th September, 1415, aged 61 years—thus accounting, it is supposed, for the armour being in Ruthin Castle." Pa beth bynag a ddywedir am y dybiaeth mai yng Nghastell Rhuthyn y bu Owain Glyndwr farw, y mae y dysgrifiad uchod o'r arfwisg, fel y sylwa awdwr y nodyn uchod, yn profi, fel y gwna y cywydd, ei fod yn ŵr cadarn a chydnerth, a thros ddwy lath o daldra. Ond nis gwyddom a oes rhyw brofion, heb law traddodiad, mai arfwisg Owain ydyw. Gwel ein "Braslun," &c., gyda golwg ar y *dybiaeth* ym mha le y bu farw (tudal. 62), yn gystal a'r *sicrwydd* am ei oedran yn marw (tudal. 50 a 71).

¹ "O dwyd a gwauw o dan
 Dyred a dangos dy darian."
Glan. MS.

² "Da garw oergad durgylch
 o rufain dwg arfau yn dy
 gylch."—*Glan. MS.*

"O wlad, garw aergad eurgylch,

Rhufain dwg arfau'n dy
 gylch."—*G. B. C.*

Yr ydym yn tybied fod y testyn yma yn gywir gyda golwg ar "aergad eurgylch" = *gold-girt warrior*. Anhawdd bod yn sicr pa un ai "durgylch" ynta "eurgylch" sydd yn *Glan. MS.*

³ Nid ydyw llinellau 7 ac 8 yn y *Glan. MS.*

⁴ Llin. 23 a 24 ydyw y rhai hyn yn y *Glan. MS.*, a darllenant fel y canlyn :—

"Dyred o wlad y dwyrain
 darw mawr bwrw dyre main."

Ond yn *G. B. C.* a *C. Ll. G.* gosodir hwynt yn yr un safle a'r testyn; ac y mae y darlleniadau ereill yn gyffelyb. Golyga "darw mawr" ei gryfder. Yr oedd y beirdd yn fynych yn defnyddio y fath enwau a *tharw, llew, eryr*, &c., i ddynodi nodweddion gwirioneddol, neu dybiedig, eu harwyr. A ydym i ddeall fod "bwrw dyrau main" yn golygu ei bod yn arferiad o dafu meini (= lluchio ceryg) at y gelynion? Diammeu ein bod. Hyd nes dyfeisiwyd pylor, yn y drydedd ganrif ar ddeg, er fod y "blif" (*catapult*) mewn arferiad; eto y mae yn lled debyg fod y milwyr, o dan amgylchiadau ffatriol i hyn, yn lluchio ceryg â'u dwylaw. Ond

- Rhwydd i daw rheiddiau o dân
 12 Rhagod pawb ath anrhegan¹
 Dos eryr glwys dos o'r glyn
 Iarll owchlaif i dir Llychlyn²
 Y gwr a ddug arwydd iach
 16 Yn ei darian bedeirach³
 Tri llew glas fal yr asur
 Trwy wyllt dan a'r tair rhwyll dur⁴

pa fodd bynag, ar ol dyfeisio pylor, arferid math o fagnelau gan y Normaniaid i hyrddio meini a phicellau (*Penny Cyclop.*, vol. ii., p. 372).

¹ "Rhwydded Duw yn rhuddhau tan rhagod bobol ath anrhegan."

Glan. MS., llin. 7, 8.

"Rhwyddy daw rheiddiau odân Rhagod, pawb âth anrhegan'."—*G. B. C.*

Ceisia y bardd galonogi Owain i fyned rhagddo, trwy ei sicrhau y byddai i belydrau o dân ddyfod allan i'w gynnorthwyo, ac y byddai yr holl wlad yn barod i gyfranu i'r drysorfa fel ag i'w alluogi i gario y rhyfel ym mlaen.

² Nid ydyw y llinellau hyn yn y *Glan. MS.*; ond darllenant fel y canlyn yn *G. B. C.* a *C. Ll. G.*:—

"Eryr glwys, dos, ior o'r Glyn Iarll awchlaif, i dir Llychlyn."

"Llychlyn"=Denmarc.Norway. Ei annog y mae y bardd, mae'n debyg, i fyned i Lychlyn am gynnorthwy.

³ "Y gwr a ddwg arwydd iach yn i darian bedeiriach."

Glan. MS., llin. 9, 10.

Dianmceu mai y testyn ydyw y cywiraf; o blegid, methwn a chanfod synwyr mewn tarian "bedeiriach." Tybia Mr Howel W. Lloyd, yn lled naturiol

feddyluem, mai wrth "bedeirach" yr ydym i ddeall y pedraniad (*quartering*), oedd ar arfbais Owain (*Hist. Powys Fadog*, vol. ii., p. 107).

⁴ "Y tri llew glas fel assur drwy yr holl dan ar tair rhull dir."

Glan. MS., llin. 11, 12.

Nid ydyw y "tri llew" yn cyfateb i'r dysgrifiad a geir o arfbais Owain. Y mae, neu yr oedd, dwy weithred ar gael yn Hotel Souboise, yn Paris, gyda seliau Owain Glyndwr arnynt. Y mae i'r Sel Fawr ei gwyneb (*obverse*) a'i gwrthwyneb (*reverse*). Ar y gwyneb, darlunir Owain, gyda barf ranedig gyffelyb i eiddo Richard II., yn eistedd dan nenfwd o groglenni Gothaid; hanner corff blaidd yn ffurfio breichiau ei gadair ar bob ochr; y tu cefn yn addurnedig â mantell wedi ei britho gyda darluniau o lewod, ac yn cael ei chynnal gan angylion. Wrth ei draed y mae dau lew. Yn ei law ddehau y mae teyrnwialen, ond nid oes ganddo goron. Yr arysgrifen ydyw *Owenus . . . Princeps Wallie*. Ar y gwrthwyneb, darlunir Owain ar farch, mewn rhyfel-wisg; yn ei law ddehau, yr hon sydd yn estynedig, y mae cleddyf; ac yn ei law aswy y mae tarian wedi ei harflunio gyda phedwar

- Rhown ni ar y paun diwarth
 20 Rhowch rwyf ar yr hwch ar arth,¹
 Llyma'r tair bwyall unyd
 Lle mae'r gwaith llu mawr i gyd²
 Gillwng yn gynta gellych
 24 Saith llong a saith ganllong gwych³
 Dyred wrth ddamuned Môn
 O'r North yr yn Iwerddon⁴
 Rhaid yw i ti, Rho Duw Tad,
 28 Gael Owtils au galw attad,⁵

o lewod ar ruthrnaid, yn bedranol; ac y mae napcyn a ennillwyd mewn campfa yngrogedig wrth ei arddwrn dehau. Ceir llewod rhuthrneidiol hefyd ar fantell y march. Y mae y Ddraig Goch ar ei helmog, ac hefyd ar ben y march. Addurnir arwynebedd y darian gan rosynau gweuedig. Gellid tybied fod yr arysgrifen ar yr ochr hon fel pe yn llanw y bwch sydd ar y wyneb, *Owenus Dei Gratia*
Wallie. Y mae y Gyfrin-sel yn arddangos y pedwar llew rhuthrneidiol i wynebu ochr aswy yr edrychydd, ar darian gyda choronig agored; Draig Cymru yw'r cynheil-ydd ar yr ochr ddehau, a llew ar yr aswy. Yr arysgrifen ar hon yw *Sigillum Oweni Principis Wallie*. (*Arch. Cambr.*, 1851, p. 121.)

¹ "Rhown rif ar y paen diwarth rhowch rwyf ar yr hwch ar arth."

Glan. MS., llin. 13, 14.

Er mwyn ateb gofynion cynganedd y mae y bardd yn rhoddi *hwch* yn lle *baedd*. Y *baedd* oedd Harri IV.

² "Llymar tair bwyall enbyd lle maer gwaith llu mawr i gyd."

Glan. MS., llin. 15, 16.

Gwall cynganeddol ydyw *n* yn ateb *m*—yn "llyma" ac "unyd," neu "enbyd"—buasai "llyna" yn gywir o ran cynganedd.

³ "Gollwng yn gynta gellych saith leng a saith ugeinllong gwych."

Glan. MS., llin. 17, 18.

⁴ "Dyred wrth dymuned mon O'r nordd hyd yn ywerddon."

Glan. MS., llin. 19, 20.

Os oes coel i'w roddi ar yr hyn a ddywed y bardd, yr oedd trigolion Môn yn parhau yn ffyddlon i Owain hyd yn hyn. Ond y mae Iolo yn cymmysgu i fyny gynnifer o bethau annhebygol yng nghyd fel ag i'n tueddu i dybied mai rhoddi mynegiad i'w deimlad, ac nid adrodd ffeithiau yr oedd. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg fod ysgriflyfr Glanyrafon, yn gystal a darllen-iadau *G. B. C.* a *C. Ll. G.*, yn gywirach yn llinell 28 na'r un a geir yn y testyn.

⁵ "Rhaid yw i ti rho duw tad gael owteils ai galw attad."

Glan. MS., llin. 21, 22.

Y mae Cynddelw (*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 119) a Mr Howel W. Lloyd yn cytuno mai wrth "Owtils" y golygir yr *Italiaid*.

Cyfod glod o'r Galiod glan
 Cawn glywed cyn Gwyl Ieuan¹
 Dyro fflam bennadur fflwch
 32 Draw'n Nulun drwy anialwch²
 Gwna lynges gain o longwyr
 O gynfyl Gwyddyl au gwyr³

Ceir "Owtil" am Itali hefyd gan
 Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal.
 102):—

"A byr yr ateb wyr o'r Owtil,
 A brau'n nghwynvan y bwrw
 anphenvil"

Yma, eto, y mae dychymmyg y
 bardd yn myned yn gryfach na
 ffeithiau; o blegid nid oes y rhithyn
 lleiaf o brawf i Owain erioed feddwl
 am ofyn cynnorthwy o'r Eidal.

¹ "Kyfod or galewd glan
 Kawn glowed kyn gwyl
 Ifan."

Glan. MS., llin. 25, 26.

"Galiod" a geir yn *G. B. C.*, *C. Ll. G.*, a "*Hist. Powys Fadog*," ac yn ol Cynddelw, Gauls=Galiaid a feddylir; ond cyfieithir yr enw gan Mr H. W. Lloyd yn Galahad, sef un o farchogion Bord Gron y Brenin Arthur. Ond ni wyddom am gymmaint ag un enghraifft pan y gelwir Galahad yn Galiod nac yn Galewd. Galath y gelwir galahad gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 497).

² "Doro fflam benadur fflwch
 draw yn Ulun drwy anial-
 wch."

Glan. MS., llin. 27, 28.

Gallm dybied mai nid rhoddi
 Dublin ar dân yn llythyrenol a
 ddymunai Iolo; ond yn hytrach ar
 fod i Owain greu y fath frwdfrydedd
 yn y Gwyddelod fel ag i'w cynhyrfu
 i ddyfod drosodd i'w gynnorthwyo.

³ "Gwna lynges o longwyr
 o gynfil gwyddyl ai gwyr."

Glan. MS., llin. 29, 30.

"Gwna lynges gain o longwyr,
 O gynfyl Gwyddyl a'i gwŷr."

G. B. C.

"Gwna lynges gain o longwyr,
 O Gynfyl, Gwyddyl, a Gwŷr."

C. Ll. G.

Y mae Mr. H. W. Lloyd yn
 cyfieithu y llinellau hyn fel y
 canlyn:—

"Raise a fair fleet of seamen's
 power,
 In the confines of the Gael,
 and Gower."

Yn hyn y mae yn dilyn cyfieith-
 iad y Dr. W. O. Pughe, trwy osod
cynfyl yn gyfystyr â *chartrefle* neu
drigfan. Ond y mae y Canon
 Silvan Evans (*Geir. Cymraeg*), gyda
 llawer mwy o briodoldeb yn rhoddi
cynfyl i olygu *strife*, *contention*,
discord, ac yn sylwi ar y llinellau
 hyn o eiddo Iolo fel y canlyn:—

"The poet urges the patriot to
 take advantage of the disaffection
 of the Irish, and man a fleet with
 them to attack England. 'Gwyr'
 (=Gŷr, generally *Gwŷr*), mean-
 ing Gower in Glamorgan, as Pughe
 takes it, cannot properly rhyme
 with *llongwyr*, the one being a
 sparsison and the other a rotun-
 dison."

Felly, tebygol mai yr iawn ddar-
 lleniad ydyw—"O gynfyl Gwyddyl
 a'u gwŷr."

- 36 Tyred wr a draeturiwyd
O Fanaw dir fenaïd wyd¹
Gorau arwydd gan Wyddyl
Melyn a choch ymlaen chwyl²
Urdda bensel Llywelyn
- 40 Arddel hwy a'r ddeuliw hyn³
Galw gar bron gwae Loegr o'r brad
Lu Bryttaen ai lwybr attad⁴
Dyre i'n gwlad dur iawn gledd
- 44 Deyrnaswr drwy ynysedd⁵
Cynneu dan cyn oed unawr
I oror Môn Eryr mawr⁶
Cur gestyll caerâu gystudd
- 48 Cwncewr wal au cwn Caerludd⁷

¹ "Tyred wr a draeturiwyd
o fanaw i dir fenaïd wyd."

Glan. MS., llin. 31, 32.

"Dyred, wr a draeturiwyd,
O Fanaw dir, fenaïd wyd."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

Sylwa Cynddelw (*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 120) ar y llinell flaenaf fel hyn:—"A draeturiwyd—a fradychwyd; neu efallai, a gyhoeddwyd yn fradwr (*traitor*) am ei wrthryfel yn erbyn Harri IV. o Loegr." Gwell genym ni yr olaf o'r ddau awgrymiad.

² "Gorau arwydd gan Wyddyl
melyn a choch ymlaen yr
hwyl."

Glan. MS., llin. 33, 34.

³ "Urdda ben sel llywelyn
arddolhwyntar ddeuliw hyn."

Glan. MS., llin. 35, 36.

Cynnygia O. Jones (*Ceinion Llen. Gymreig*, cyf. i., tudal. 20) yr eglurhad a ganlyn ar y llinell flaenaf:—"Cyssegra ben lluman Llywelyn." Arfarwyddion Llywelyn ab Gruffydd. Tywysog Cymru, oeddynt—"quarterly, *gules*

and *or*, four lions passant guardant counterchanged."

⁴ Yn blaenori y ddwy linell uchod ceir dwy arall yn y *Glan. MS.*; ond y mae ymyl yr ysgriflyfr yn rhy ddrylliedig i ni ddarllen diwedd y llinellau, y rhai ydynt fel y canlyn:—

"Kydwalader ddurgader ddewr-
gr . . .

kariad y ffair karw du ffu . . .

galw gar bron gwae loegar . . .

llu bryttain ai llwybyr atta . . .

"Bryttaen" = Llydaw (*Brittany*).

⁵ "Dyred yn gwlad dur dau . .
dyrnasswr drwy yr ynys-
oedd."

Glan. MS., llin. 41, 42.

⁶ "Kynne dan enyd unawr
i oror mon Eryr mawr."

Glan. MS., llin. 43, 44.

⁷ "Kur gestill kaurau kys . . .
kwnkwria wlad kwn ka . . .

Glan. MS.

"Cur gestyll caerâu gystudd,
Concweria wâl cwn Caer
Ludd."—*G. B. C.*

- Cur a lladd y wadd ai wyr
 Cyrn aur Mon cur Normanwyr¹
 Dir y gwnai darogan oedd
 52 Fyd teilwng o fatteloedd,²
 Gwna frwydr a gwaith ar grwydr groch
 Aerllew Môn jor lle mynnoch³
 Gwaith dy law a ddaw yn ddig
 56 Gwyr meirw a gair ym Merwig⁴ Berwig, i.e., y
 Wig ferr.
 Gwna drwy'r haf, gwn droi y rhod
 Gymmynn brwydr Gwminod,⁵
 Gwna gad fal torriad Deri
 60 Fochno a hŷn foch na hi⁶

¹ "Kyr a lladd y wadd ai gwyr
 kyrn aur mon kyr norman-
 wyr."—*Glan. MS.*
 Normanwyr = *Normans*.

² "Dir i gwnai drogan oedd
 . . teilwng o fatteloedd."
Glan. MS.

³ Y mae y llinellau hyn yn am-
 rywio yn eu darlleniad o gryn
 lawer yn y *Glan. MS.*; ac yn cael
 eu blaenori yno gan ddwy linell
 arall, dechreuad y rhai sydd wedi
 dryllio i'r fath raddau fel ag y
 maent yn annarllenadwy :—

" . . deg fal toriad digwydd
 . . ffedairrhoed o ffoed rhwydd
 gwna frwydyr o waith krwydyr
 kroch
 Durllew mawr ar y llu moch."

⁴ "Gwaith dy law a ddaw yn
 ddig
 Gwyr meirwon a gair ym-
 erwig."—*Glan. MS.*

"Gwaith dy law a ddaw yn
 ddig
 Gwŷr meirw a geir ym
 Merwig."—*G. B. C.*

⁵ "Gwna drwy'r haf gwir dorri'r
 rhod
 gymynu brwydr gwminod."
Glan. MS.

"Gwna drwy'r haf gwn droi'r
 rhod,
 Gymynu brwydr Gwminod."
G. B. C.

Tybia y Canon Silvan Evans
 (*Geir. Cymraeg*) fod Cymminawd,
 Cymminod, neu Cwminod, yn enw
 lle ym Mhowys, neu ar y cyffiniau;
 lle yr ymddengys i frwydr gael ei
 hynladd. Y mae amryw o'r
 beirdd o Myrddin i Lewis Glyn
 Cothi yn cyfeirio at y frwydr hon.
 Dywed y blaenaf (*Facsimile of the*
Black Book of Carmarthen, fol. 31)
 fel y canlyn :—"Ami discoganawe.
 Kad ar yton. a chad machavy. a
 chad avon. Achad corsmochno.
 Achad unmon. Achad Kyminaud.
 Achad caerlleon. Achad Abergwith.
 Achad ieithion."

⁶ "Gwna gad fel toriad Deri
 fochno hen pan fynech di."
Glan. MS.

"Gwna gad fal toriad deri
 Fochno, a hŷn fych na hi."
G. B. C.

- Gwna'r daith yn rhyd Glyn Iaithon
 Gwyr lawer a Maner Môn,¹
 Gwna naw cad yn daladwy
 64 Yn un modd ac na wna mwy.²
 Deigr Gadwaladr fendigaid
 Dyred a dwg dir dy daid³
 Dyga rann dy gerennydd
 68 Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd.⁴

Iolo Goch ai cant.

Brwydr Cors Fochno, yn sir Aberteifi, yn yr hon yr ennillodd Maelgwn Gwynedd ei goron, ydyw yr un y cyfeirir ati, yn ol Mr Howel W. Lloyd (*Y Cymmrodor*, vol. iv., p. 232). Ond yn ol y "Cyfreithiau Cymreig," nid trwy ymladd brwydr yr ennillodd Maelgwn ei goron, ond trwy iddo allu aros yn hwy na neb arall ar y traeth ar adeg llanw, yr hyn a lwyddodd i'w wneyd am fod ganddo gadair bwrpasol i'w gadw ar wyneb y dwfr. Tybia Skene fodd bynag (*Four Anc. Books of Wales*, vol. i., p. 64) i ryw frwydr gael ei hymladd yma, yn yr hon y gorohfygodd Maelgwn dri brenin arall, er fod y frwydr erbyn hyn yn guddiedig dan y chwedl.

¹ "Gwna'r ur daith i rud eithion gwyr llawer a maner mon."
Glan. MS.

"Gwna daith yn rhyd Glyn Eithon,
 Gwna lawer a maner Mon."
G. B. C.

"Gwna daith, yn Rhŷd Glyn Iaithon,
 Gwŷr lawer a Maner Mon."
C. Ll. G.

Ysgrifenis enw yr afon y cyfeirir ati yn *Ithon* gan y Seison, ond *Ieithon* ydyw yr enw Cymraeg (*Owen's Descript. Penbrokshire*,

vol. 240, note 1.). Pa fodd bynag, ysgrifenis hi gan y Cymry yn *Ithon* mor amlag *Ieithon*. Ymae yn tarddu yn agos i'r ffin rhwng Sir Drefaldwyn a Sir Faesyfed, ac yn rhedeg yn ddeheuol trwy y sir olaf am agos i 30 milltir nes ymuno â'r Wy, ryw 4½ milltir i'r gogledd-ogledd-orllewin o Llanfair ym Muallt. Bu Owain Glyndwr yn diffeithio fwy nag unwaith yn y cymmydogaethau hyn—y tro cyntaf yn 1401, pan yr ymosododd ar Abatty y Cwm Hir.

² "Gwna naw kad yn deiladwy yn un modd ag na wna mwy."
Glan. MS.

³ "Deiger Kadwalader fendigaid tyred a dwg dir dy daid."
Glan. MS.

Cadwaladr, yn ol yr achau (*Y Cymmrodor*, vol. viii., p. 87) oedd fab Cadwallon. Dywedir fel hyn:—"Kadwaladr vendigeit M. Katwallaôn, M. Kad6gaôn. M. Iago. M. Beli. M. Runhir. M. Maelgwn G6yned M. Kadwallaôn lla6hir. M. Einyaôn yrth. M. Kuneda wledic." Ond fel rheol, dywedir wrthym mai Cadfan, ac nid Cadwgan oedd enw tad Cadwallon.

⁴ "Dyga ran dy garenydd Dwg ni on rhwym dygyn yn rhydd."—*Glan. MS.*

XV.

* MARNOD OWAIN GLYN-DWR.

(O Ysgriflyfr yn Llyfrgell Rydd, Caerdydd).

Cymmerwyd y cywydd hwn o ysgriflyfr a gopiwyd gan y diweddar Mr. William Rees, o Lanymddyfri, gyda'r amcan fel yr ymddengys o'i gyhoeddi; gan ei fod yn barod i'r wasg. Blaenorir y casgliad gan y teitl—"Cowyddau Cymreig, A.D. 1400—1450." Ond anhawdd dyweyd pa un ai y teitl dan ba un y bwriadai Mr. Rees gyhoeddi y gwaith, ai ynte teitl yr ysgriflyfr o'r hwn y cymmerodd y casgliad, ydyw. Ysgrifenodd Mr. Rees, ar y llyfr, y nodyn a ganlyn:—

"The following Cowyddau are transcribed from a folio MS., No. 2,378, in the collection of Sir Thomas Phillipps, Bart., of Middle Hill, in the County of Worcester, which was once in the possession of J. Price, of Jesus College. The peculiar orthography of the above MS. has been closely followed in this transcript.

William Rees.

Tonn, 1858."

Ceir y cywydd yn *Glanyrafon MS. K.*, fol. 64, lle y priodolir ef i "Gruff. llwyd ap dd. ap engan." Y mae i'w gael hefyd yn *Ellis's Memoirs of Owen Glendowr*, p. 84; yn *Jones's Musical and Poetical Relicks* (edit. 1794), p. 39, gyda rhydd-gyfieithiad o hono i'r Seisoneg; yr hwn rydd-gyfieithiad a geir hefyd yn y gwahanol argraffiadau o *Pennant's Tour in Wales*; a dyfynir y cywydd hefyd gan Gweirydd ap Rhys yn ei *Hanes Llenyddiaeth Gymreig*, tudal. 186. Yn yr oll o'r gweithiau argraffedig uchod, priodolir ei awduriaeth i Gruffydd Llwyd ap Dafydd ap Einion Lygliw—yr hwn oedd yn gydoeswr ag Iolo Goch. Pa fodd bynag, gan y dywedir ar ddiwedd y cywydd yn

Ysgriflyfr Caerdydd mai "Iolo Goch ay Cant" yr ydym yn ei osod i mewn yma, ond gyda chryn ammheuaeth. Nid ydym heb ystyried os y caniateir i Iolo Goch gyfansoddi Marwnad i Owain Glyndwr—yr hwn a fu farw 1415—fod y bardd wedi cael oes feithach nag ydym yn barod i roddi iddo. Ond, wrth ddarllen y cywydd, nid ydym yn cael llinell yn awgrymu mai Marwnad ydyw o gwbl—yn hytrach canmol ei haelioni a'i ddewrder milwrol a wneir ynddo.

- Eyr digrif afrifed
Owain Helen, Cain hael am ged¹
Ayr fab ag wrdd y arfod
4 Gruffydd Vauchan glan y glod
Myr glyn Maistir rodd glyn rydd
Dyfyrdwy fawr dwr di-ferydd²
Llawen ym annos noswaith
8 Oyddwn wrth gyfedd medd maith³
Fungayr yth amal gellwiriaw
Yth Lys n, cael aur oth Law⁴
Mufyn fardd mwy fy fanfoes
12 Ay gwnaeth dros fu maeth moes⁵
May r mawl ayr mawr yr Milwr
Nag ū fy nhad arnad Wr⁶

¹ "Owain helm gain hael am ged."—*Glan. MS. K.*

² Nid yw llin. 3-6 yn *Glan. MS.*; ond dyfynir hwynt gan Gweirydd ap Rhys fel y canlyn :—

"Eurfab, a gwr i orfod,
Gruffydd Fychan, glân ei glod,
Aer y Glyn, meistr rhoddlyn
rhydd

Dyfrdwy fawr, dwfr diferydd."

³ "Llawen ymanos nos waith
Oeddwn wrth gyfedd medd
maith."—*Glan. MS.*

⁴ "Fyngair ith amal gellweiriaw
ith lys lle kawn win oth law."
Glan. MS.

⁵ "Medd fynfur mwy oedd fanfoes

a gwaeth dros fymaeth fy moes."—*Glan. MS.*

⁶ "Ner mowlair nowryw milwr
nag ar fynhad arnad wr."
Glan. MS.

Gweirydd ap Rhys a rydd :—

"Ner mawlair naw rym milwr,
Nag ar fynad arnad wr."

Ac fe eglura y llinell gyntaf gyda'r sylw :—"Yr oedd Owain yn gyfartal mewn bwydr, yn ol hyn, i *naw* o wroniaid.

- R'awr a day thost ar wyth
 16 Y dir prydain darpar adwyth¹
 Agos y hiraeth gaed gaeth
 Am dwyn hyd farw am danad²
 Nyd aeth dros gof drosod draw
 20 Ayr balaf awr heb Wylaw³
 Daigre' dros u grydd digrych
 Diefr glaw fal dwr y glych⁴
 Pan odd fwy a fung ofal
 24 Am danad fab ū tad hael⁵
 Clywais o ben ryw genad
 Cay ras dyw Cywyr o Stad⁶
 'Fenaidd ywch dyfyrdwy fainawr
 28 Funnyr bwrw llawer yr llawr⁷
 Dewin os ef ay dwawd
 Ym un u gwraidd a gwawd⁸
 Dugaist remnant ond antir
 32 Eythyr ben dragwn dwyfron ddyr¹⁰

¹ "Yr awr ir aethost ar wyth
 i dir prydain darpar adwyth."

Glan. MS.

² "Agos i hiraeth gaeth gad
 am dwyn i farw am danad."

Glan. MS.

³ "Nid aeth dy gof drosod draw
 aur baladr awr heb wylaw."

Glan. MS.

⁴ "Dagrau dros y grudd dugrych
 dy friw glaw fal dwfr ai
 gwlych."—*Glan. MS.*

⁵ "Pan oedd dryma fyngafael
 am danad mab y tad hael."

Glan. MS.

⁶ "Kefais o ben rruw genad
 kael ras duw kowir ostad."

Glan. MS.

⁷ Yn dilyn llin. 26 ceir fel y
 canlyn yn *Glan. MS.* :—

"Kael yn yr aer kalon rwydd
 o henod fowrglod farglwydd."

Wrth aer (=aerfa) y golygir
brwydr neu ymladdfa.

⁸ Nid ydyw llin. 27-28 yn *Glan. MS.* ; ond yn ol Gweirydd ap Rhys darllenir :—

"F'enaidd, uwch Dyfrdwy Faen-
 awr,
 Fy ner, fwrw llawer is llawr!"

⁹ Nid ydyw y ban hwn yn *Glan. MS.*

¹⁰ "Kefaist rae ment yn dantur
 o hur ben dragon gyfion
 gur."—*Glan. MS.*

"Cefaist ramant yn d'antur
 Uthr Bendragon ddwyfron
 ddur!"

Gweirydd ap Rhys.

Uthr Bendragon oedd tad y
 brenin Arthur ; ac y mae y bardd
 yma yn cyffelybu Owain Glyndwr
 iddo.

- 1Pan fy mwyd rym Wannwr
 U marchawg deog oy dwr²
 Gwrol fy wrth ymgyraw
 36 A phen draig ū ffunnon draw³
 Gwyddent gair llwyddant lly
 Gwir ddyrnod gwewyr ddarny⁴
 Pan roedd fwyd dū Lafyr
 40 Draw 'n ymdaro a dyr
 Torrodd d' Onnen gennyd
 Tyrnen gron taer n ū gryd
 Gwelas pawbdraw uch law lan
 44 Gwiw fawl daith gwayw ofeldan⁵

¹ Yn blaenori llin. 33 yn *Glan*.
MS. ceir :—

“ Pan ddi zlawdd gawdd godde
 i frawd oi rwysc ai frwydr ef
 gwyliast siwr nai a helynt
 Owain ap urien gain gynt.”
 Ond y maent yn wahanol gan
 Gweirydd ap Rhys :—

“ Panddialawdd gwawdd goddef,
 Ei frawd, a'i rwysg, a'i frwydr
 ef,
 Llywiaist, siwrneisiaist helynt,
 Owain ap Urien gain gynt.”

² “ Pan oedd fuan ymwanwr
 y marchog duog oi dwr.”

Glan. MS.

“ Pan oedd fuan ymwanwr,
 y marchog difiog o'r dwr.”

Gweirydd ap Rhys

³ “ Gwr fu ef wrth ymguraw
 a ffen draig ar i ffon draw.”

Glan. MS.

“ Durol oedd wrth ymdaraw
 A phen draig ar ei ffon draw.”

Gweirydd ap Rhys.

⁴ “ Gwyn fuant er llwyddiant llu
 Gwir ddewr wrth gwewyr
 ddarnu.”—*Glan. MS.*

“ Gwŷr fuant er llywiant llu
 Gwrdd ddewrnerth gwewyr
 ddyrnu.”

Gweirydd ap Rhys.

⁵ Yn dilyn llin. 38 ac yn blaenori llin. 45 yn *Glan. MS.*, a chan
 Gweirydd ap Rhys, ceir :—

Glan. MS.

“ Tithau Owain taith ewybr
 tair i gwnaut drafn ath lafn
 lwybr
 brawd un weithred ith edir
 barwn hoff i fab urien hir
 pan oedd dryma dylafur
 draw yn ymwriaw ar mur
 tores dy anian gynyd
 tirion grair taer yny gryd
 dewredd ffwg dur oedd i ffen
 dros garw n dair yscyren

Gweirydd ap Rhys.

“ Tithau Owain, taith ewybr,
 Taer y gwnaed drafn lafnwaed
 lwybr :
 A'th harddwayw rudd, cyth-
 rudd cant,
 A theg enw a'th ogoniant
 Brawd un weithred y'th edir,
 Barn hoff i Fab Urien hir.
 Gwelai bawb draw o'th law lan
 Gwiw fawldaith gwayw gafael-
 dan

- Holltaist delaist ar Dalwrn
 Du ddart hyd ar du ddwrn¹
 Dewredd fwg dyr odd y phen
 48 Dors garw n dair Esceren²
 Peraist fy naf oth Lafyr
 Pyst mellt rwng ū ddellt ar dyr
 O nerth ag ayrgal galon
 52 A braych ag yscwydd a bron³
 Gyraist uno gwrs doniog
 U lly gyrad uchen llog⁴
 Pob dday pob dri Cigay fawr
 56 Ar daraf oll ar dyrfa fawr⁵
 Hyd dydd brawd medd dū Wewdydd
 Hyn Wyt o faeth hynod fydd⁶
 Day fin glwys dayfiniog Lain
 60 Brwydr dyhwyl u Brydain⁷

gweles pawb draw ith law lan
 gwiw fowr daith gwayw ofel
 dan."

Pan oedd drymaf dy lafur,
 Draw yn ymwriaw a'r mur,
 Troes dy onen genyd,
 Tirion grair taer yn y gryd."

¹ "Drylliaist deliaist ar dalwrn
 dy ddard hyd ymron dy
 ddwrn."—*Glan. MS.*

cyfleu llin. 53-56 ar ol llin. 62, ac
 yn eu dyfynu fel hyn :—

² Y mae llin. 47-48 yn dilyn
 diwedd ei ddyfyniad uchod, gan
 Gweirydd ap Rhys :—

"Gyraist yno, gwrs doniog,
 Y llu, gyriad ychain llog,
 Bob dau, bob dri, rhif rhyfawr,
 A'r dorf oll o'r dyrfa fawr."

"Dewr ffon, dur oedd ei phen,
 Dros gar yn dair ysgyren."

⁶ "Hyd ddydd brawd medd
 tafawdydd

³ "O nerth ag arial kalon
 a braich ag yscwydd a bron
 peraist fynaf oth lafur
 pyst mellt rwng y delld ar
 dur."—*Glan. MS.*

Hamoyd o feilch hynod fydd."
Glan. MS.

⁴ "Gyraist yno gwrs doniog
 y llu gyriad ychen llog."

Rhydd Gweirydd ap Rhys y ban
 hwn ar ol llin. 48, fel hyn :—

"Hyd ddydd brawd, medd dy
 wawdydd,

Glan. MS.

Hanwyd o feilch hynod fydd."

⁵ "Bob ddau bob dri rrirodd-
 fawr

Ac eglura y gair "wawdydd"
 trwy roddi "Clodforydd" ar waelod
 y ddalen.

ar darf oll or dyrfa fawr."

⁷ "Eden glas dau finiog lain
 heb brwydur dyhwyl i bry-
 dain."—*Glan. MS.*

Glan. MS.

Y mae Gweirydd ap Rhys yn

- ¹Clywsom ddinam ddayoni
Ayr teg gan Herod y ti²
Gayr y gymry hy hwyl
64 Owaith Orchest yth orchwyl³
Iach wy fi ar Swydd ddirsamp
Am grio y gymro r gamp⁴
Ag awr drist wedy r Cadarn dro
68 Brynawn ungrydain uno
Ar gwiw rwyst ar gwrestin
Ar glod yr Marchog or glyn.⁵

Iolo Goch, Ay Cant.

"Dy lafn glwys, dau finog,
glain;
Hel brwydr, da hwyli Bry-
dain."

Gweirydd ap Rhys.

¹ Yn blaenori llin. 61 ceir yn
Glan. MS. :-

"Wrth dori brisc dy wisc wen
athruthur ir maesathrethren."
Ond yn ol Gweirydd ap Rhys,
darllena y ban fel hyn :-

"Wrth droi brisg â'th wisg wen,
A'th ruthr i'r maes â'th reth-
ren,"

a dywed wrthym, ar waelod y
ddalen, mai "*gwaeuſſon, picell; a*
spear," ydyw *rethren*.

² "Klowsom ddinam ddaioni
hort teg gan Herod iti."

Glan. MS.

Yn ol y geirlyfrau—megys eiddo
Pughe—dywedir mai *calumny*, neu

⁵ Diwedda y cywydd fel y canlyn yn *Glan. MS.*, ac yn ol Gweirydd :-
Glan. MS.

"Ag awr drist gwedir garw dro
bryd nawn am brydain yno
ar gair i gymru hy hwyl
wyth archoll frwydr oth orch-
wyl

ar gwiw rwysc ar gorescin
ar glod ir marchog or glyn."

reproach, ydyw "hort;" ond y mae
yn amlwg oddi wrth y ban hwn
fod ystyr arall iddo—*newyddion da*
a glywsom am danat gan yr herodr
(= *herald*), neu yn ol y testyn—
"Ayr" (= *gair*) teg. Yn dilyn y
llinell yn *Glan. MS.* ceir :-

"Ath hyrddwayw rrudd kyth-
rudd kant

a theg enw athigoniant."

Glan. MS.

³ Nid yw llin. 63-64 yn *Glan. MS.*

⁴ "Iach wyd ddarawyd ddur-
siamp

a chrio i gymror gamp."

Glan. MS.

"Gwych wyd, ddarswyd, ddur-
siamp,

A chlod i Gymro ar gamp."

Gweirydd ap Rhys.

Yn ol Gweirydd—"ddursiamp"
ydyw *Dyrnod, a steel mark*.

⁵ Diwedda y cywydd fel y canlyn yn *Glan. MS.*, ac yn ol Gweirydd :-
Glan. MS.

"A gwawr drist o'r garw dro,
Brydnawn ar Brydain yno;
A'r gair i Gymry try hwyl,
Wrth archoll brwydr o'th orch-
wyl,

A'r gwiw rwysg, a'r goresgyn,
A'r glod i'r MARCHOG O'R
GLYN."

XVI.

D A R O G A N .

(*O Lyvr Huw Lleyr—Add. MS., 14,967, fol. 18b*).

O herwydd rhyw reswm, anhysbys i ni, y mae rhywun wedi croesi y cywydd hwn allan yn yr ysgriflyfr uchod, trwy dynu dwy linell ar ei draws, groes-ymgroes. Ond y mae yr inc gyda'r hwn y croeswyd ef allan yn ymddangos yn llawer diweddarach. Y mae y cywydd i'w weled hefyd yn *Add. MSS., 14,893, a 14,970*; yn *Glanyrafon MSS. F. ac H.*, dan y penawd "Cywydd Brud."

Ar ddiwedd y cywydd yn *Glanyrafon MS. F.* ceir "Iolo Goch ai Kant 1400." Nid oes ond ychydig, neu ddim, ymddiried i'w roddi ar yr amseriad hwn; o blegid yr un amseriad fel rheol a roddir, os rhoddir amseriad o gwbl, ar ddiwedd bron yr oll o'i gywyddau. Ac nid ydyw yn golygu mwy na bod Iolo Goch yn fyw yn y flwyddyn hono. Pa fodd bynag, ar ol darllen y cywydd, tybiwn fod yr amseriad yn yr achos hwn yn gywir, neu o leiaf, yn lled agos felly.

Perthyna y cywydd hwn i ddosbarth o gyfansoddiadau, trwy y rhai y mae y bardd, dan rith brudio, yn ceisio ennyn dygasedd y Cymry tuag at y Seison, ac ennill eu gwasanaeth o blaid Owain Glyndwr. Y maent wedi eu hysgrifenu mewn arddull allegawl, gan mwyaf, gan osod allan y prif bersonau yn yr ymgyrch o dan enwau dychymmygol. Er enghraifft, yn y cywydd hwn rhoddir y "ddraig goch" i gynnrychioli *Cymru*, y "ddraig wen" am *Loegr*; ac yn Cywydd Rhif XX. gelwir *Owain Glyndwr* yn "llew," *Harri IV.* yn "faedd," a'r tywysog *Harri o Fynwy* yn "barchell." Nis gwyddom pa un ai ofn colli ei ben, ynte rhyw reswm arall, a barai i Iolo ganu yn y dull hwn. O'n rhan

ein hunain, tybiwn y credai y buasai rhyw ymadroddion tywyll a chyfriniol, y rhai a allesid eu hesbonio bron fel y chwenychid, yn fwy effeithiol i symbylu y Cymry, na phe defnyddiasai ymadroddion mwy eglur. Dylem gofio hefyd fod yn hawddach i gydoeswyr y bardd eu deall nag ydyw i ni yn yr oes hon. Ac ni ddylem anghofio ychwaith wrth eu darllen mai cywyddau "brud" ydynt, ac nid cofnodiadau am ffeithiau. Byddai yn orchwyl rhy anhawdd i ni benderfynu amseriad y cywyddau hyn; ond y mae yn amlwg iddynt gael eu cyfansoddi oddeutu dechreuad y gwrthryfel, pan oedd gobeithion Owain Glyndwr yn ddysglaer, a phan yr oedd yn gwneyd pob ymdrech i gael gan y wlad gredu ynddo, ac i ymrestru dan ei faner.

Cymharer y cywydd hwn â'r rhan olaf—o llinell 57 i'r diwedd—o Cywydd Rhif XVII.

Pann vu hyn ni wyddym ni¹
 gan ddreigie gynddeiriogi²
 yleni³ henn elyniaeth
 4 y sydd y rhyngthent yn saeth⁴
 Eres byth or oes y bu⁵
 Gwrtheyrn y gwrthevu⁶

¹ "Pa ham hyn a wyddam ni."

Add. MS., 14,970.

"Pa ham hynn na wyddam ni."

Glan. F.

"Pa ham hynn na wyddom ni."

Glan. H.

² "Gan i ddreigiau ymgyrddriogi."—*Glan. H.*

Dechreua y bardd trwy ofyn, beth yw y cynhwrf? a pha ham y mae y dreigiau (y gwahanol alluoedd milwrol?) yn ymgynddeiriogi?

³ "Eleni."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Y sydd y rhyngddyn yn saeth."

Add. MS., 14,970.

"Y sydd rhyngthent yn saeth."

Glan. F.

"A fydd."—*Glan. H.*

Hyny yw, hen elyniaeth rhwng y Cymry a'r Seison yn cael ei adnewyddu.

⁵ "Eres byth yr oes i bu."

Glan. F.

"Eres bydd ir oes i bu."

Glan. H.

"Eres"—rhyfedd.

⁶ "Gwrtheyrn i'n gwarthau."

Add. MS., 14,970.

"Gwrthewyrn yn gwarthyru."

Glan. F.

"Gwrtheyrn in gwerthau."

Glan. H.

Cyfeirir yma, mae'n debyg, at Gwrtheyrn ab Gwrtheneu, yr hwn, yn ol y chwedlonwyr, a wahoddodd

- Llonydd vuant er llynedd¹
 8 ac er wy² ni bu hwy hedd
 Weithian provi³ ymwyaw
 y maen⁴ ar draws y man draw
 Dial maer⁵ ddraic kynhaig koch⁶
 12 I' cham sarff danfflam dinffloch
 kael a wnaeth gavael gyving
 ar y ddraic koch wen angen ing⁸
 Och ir ddraic goch orddrwc hir⁹
 16 os gollwng volld asgellir¹⁰
 Heb dorri a ffri ffyrf¹¹
 I¹² chynffon och or¹³ anffyrf
 Saeth esgor a sych ysgwn¹⁴
 20 A syth y gwyr sevthu gwn¹⁵

y Sacsoniaid—Hengist a Horsa—
 drosodd i'r ynys hon, yr hyn a
 fu yn foddion i ddwyn ein gwlad
 dan warth.

¹ "Y llynedd"—*Glan. F.*; "er
 y llynedd"—*Glan. H.*

² "Ac ar ddwy"—*Add. MS.*,
 14,970; a *Glan. MSS.*, *F. ac H.*

³ "Profi."—Yn y llyfrau ereill.

⁴ "Y mae'n."—*Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Maen."—*Glan. F.*

⁶ "Ddraig gynhaig goch."—
Add. MS., 14,970. Y Ddraig Goch
 yw arwyddlun y Cymry, ond nis
 gwyddom pa ham y geilw y bardd
 hi yn "gynhaig."

⁷ "Ei"—*Add. MS.*, 14,970;
 "a"—*Glan. F.*

⁸ Y mae yn amlwg fod y testyn
 yn anghywir; gwell yn ddiau
 yw:—

"Ar y ddraig wen angen ing."

Add. MS., 14,970.

Y "ddraig wen" yma a gynnrych-
 olay Seison. Dywedir yn "Ystorya
 Brenhined y Brytanyet" (*Text of*

the Bruts, p. 144, fel hyn:—"G6ae
 hi y dreic coch. kanya y haball
 yssyd yn bryssya6. y gogofeu hi
 aachub y dreic wen yr hon a ar6yd-
 ockaa ysaeson. . . . Y dreic coch a
 ar6ydockaa kenedyl y brytanyet."

⁹ "Arwddrwc hir."

Add. MS., 14,970.

¹⁰ "Ffolld asgellhir"—*Glan. F.*;
 "folld ysgellir"—*Glan. H.*

¹¹ "Heb dorri a phon heb dro
 ffyrf."—*Add. MS.*, 14,970.

"Heb dori a ffori yn ffyrf."

Glan. F.

Tebyg mai y blaenaf, o'r ddau
 ddarlleniad ydyw y cywiraf; gan
 gyfeirio at yr arferiad o ladd y sarff
 trwy ei churo â ffon.

¹² "Ei."—*Add. MS.*, 14,970.

¹³ "Or."—*Glan. H.*

¹⁴ "Saeth esgora a saith ysgwrn."

Glan. F.

"Saith ysgor a saith ysgwrn."

Glan. H.

¹⁵ "Syth i gwyr saethu a gwn."

Add. MS., 14,970.

- Darogan uthr benn dragon¹
 Y bu hi hir y mae byw hon²
 Weithion milast greulon goch³
 24 Owain laif loyw gain loywgoch⁴
 Hyn o thry yn ythrywyll⁵
 Yw balchder gwiber wyll⁶
 Am wybod i vod yn vyw⁷
 28 I henn veistr hyn ywr ystryw⁸
 Gorre gwyddiad gair goddef⁹
 Ysbio nos¹⁰ os byw iawn ef

¹ "Darogan Uthr Bendragwn."
Add. MS., 14,970.

Yn ol Sieffre o Fynwy, fel yr ydym eisoes wedi cyfeirio (*Cywydd Rhif XI.*), ymddangosodd seren anferthol ei maint, ar baladr yr hon yr oedd pellgen o dân ar lun draig, yn amser Uthr Bendragon, yr hon a ragfynegai enedigaeth Arthur, &c., gyda'i fuddugoliaeth ar ei elynion. Ac y mae Iolo yn adgyfodi y traddodiad hwnw, ac yn ei briodoli i Owain Glyndwr.

² "I bi hi hir y mae byw hwn."
Add. MS., 14,970.

"Bu hi hir i wae byw hwn."
Glan. F.

"A fu hir yma fuw hwn."
Glan. H.

³ "Weithion milast greulon groch."—*Add. MS.*, 14,970.

"Kynffon miliast greulon-groch."—*Glan. F.*

"Weithan miliast greulon-goch."—*Glan. H.*

⁴ Hwn yw y darlleniad a geir yn y llyfrau ereill oddigerth *Glan. F.*:—"Addfaen saeth loiw-gain liw-goch."

⁵ "Hynny a thry yn athrywyll."
Add. MS., 14,970.

"Hyny o thry yn ethrywyll."
Glan. F.

"O threwi yn athrowyllt."
Glan. H.

⁶ "Yw balchder y wiber wyllt."
Add. MS., 14,970.

"Hyn iw balchder y wiber wyllt."—*Glan. H.*

⁷ "Am wybod ei fod yn fyw."
Add. MS., 14,970.

⁸ "Ei hen feistr hyn fu ystryw."
Add. MS., 14,970

⁹ "Gorau i gwyddiad gair goddef."
Add. MS., 14,970.

¹⁰ "Ysbaw hyn"—*Add. MS.*, 14,970; "ysbio hyn"—*Glan. F.*

Tybiwn fod yma gyfeiriad eglur—yn "yr hen feistr"—at Richard II.; yn gystal a'r ansicrwydd a fodolai am hir amser pa un ai byw ai marw ydoedd. Er i gorff Richard gael ei ddwyn o Gastell Pontefract i Lundain, yn gynnar yn 1400, a'i ddangos i lawer ar y ffordd, yn gystal ag ar ol cyrhaedd pen y daith, ni bu hyny mewn un modd yn foddion i beri argyhoeddiad cyffredinol.

- Brenin vydd ynydd ynos
 32 Yn hynas loygr yn hironos¹
 Pa ddelw yw hyn pan ddel hawdd
 Marchawc ry diriawc drwawdd²
³Or tridiav ni direidwr
 36 Pievydd gorvydd y gwr⁴
 Kynta lle y bydd kentach⁵
 Ynghorsfochno gar gro grach⁶
 Kanmil⁷ a gyrch o hil hors
 40 Ir wern dywysogl wern ffuglgors⁸

¹ "Brenin fydd yn nydd a nos
 yn nheyrnas Lloegr yn hir-
 nos."—*Add. MS.*, 14,970.

Amlygiad o'r gobaith yr adferid
 Richard II. i'r orsedd. Yng ngwyl-
 iau Nadolig, 1399, gwnaed ymgais
 feiddgar gan Ieirll Huntingdon,
 Kent, a Salisbury, ac ereill, i
 lofruddio Harri IV., yn Windsor;
 ac yr oedd offeiriad o'r enw Richard
 Maudeleyn i gynnrychioli Richard
 fel brenin—i'r hwn yr oedd yn lled
 debyg—hyd nes y deuid o hyd iddo.
 Ond darganfyddwyd y bradwr-
 iaeth (*Wylie's Hist. Eng. under*
Henry IV., vol. i., p. 92). Yr oedd
 y teimlad dros adferiad Richard yn
 lled gryf ym mhlith dosbarth
 lluosog yng Nghymru a Lloegr.

² "Ba ddelw yw hyn ban ddel
 yn hawdd
 Marchog modrwyog drw-
 awdd."

Add. MS., 14,970.

"Pa ddelw yw hyn pen ddel
 nawdd
 Marchog modrwyog drwy-
 awdd."—*Glan. F.*

³ Yn blaenori llin. 35 yn y llyfrau
 ereill ceir :—

"Tridiau rhydd ef tra ader
 Cad ar faes cadr yw ei fer."
Add. MS., 14,970.

"Tridiau rydd ef tra ader
 Kad ar faes had yw i fer."
Glan. F.

⁴ "Ar tridiau nid direidwr
 bieufydd gorfydd y gwr."
Add. MS., 14,970.

"Y tridiau nid direidwr
 diau fydd gorfudd y gwr."
Glan. F.

Ymddengys fod y bardd wedi
 dychwelyd oddi wrth Richard II.
 at Owain Glyndwr, i broffwydo y
 byddai iddo orchfygu y Seison
 mewn tridiau.

⁵ "Cyntaf lle i bydd yn cein-
 tach."—*Add. MS.*, 14,970.

"Kyntaf lle bydd y keinach."
Glan. F.

"Y kynta llei bydd keintiach."
Glan. H.

Ceintach = ysgarmes, neu frwydr.

⁶ "Y nghors fochno gaergro
 grach."—*Glan. H.*

⁷ "Can mil."—*Add. MS.*, 14,970
 (Gwel Cywydd Rhif XII., llin. 42).

⁸ "I'r wern dwys hoglwern sigl-
 gors."—*Add. MS.*, 14,970.

- Ni ddaw o'r wern ufferndrefn
deuddec drwch ovec drachefn¹
Digri aneiri i ni
44 dros y dwfr ar draws dyvi²
Edrych yn wych yny³ wern
lle diffaith val⁴ lled uffern
kwn a brain yn knoi brynaich⁵
48 carol a vryol i vraich
Ynghyfwng mwng mwn gymryf
a chymminod hynod hyf⁶
arddwr Hafren garddol
52 y bydd y rail dydd ar ol⁷
Y gelain wrth i gilydd
Siwrnai fawr yn sarn a vydd⁸

¹ "Ni ddaw or wern dwr uffern
drefn

Deuddeg trwch ofeg tra-
chefn."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Digrif aneirif i ni
dros y dwfr ar draws Dyfi."
Add. MS., 14,970.

"Digrif aneirif i ni
drws y dwfr ar draws dyfi."
Glan. F.

³ "Yn y."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Fal"—*Add. MS.*, 14,970 ;
"fel"—*Glan. F.*

⁵ "Cwn a brain yn knoi Brynaich
Carol afreol i fraich."
Add. MS., 14,970.

⁶ "Ynghyfrwng mwng Mon-
gymry
a chymminod hynod hy."
Add. MS., 14,970.

"Y nghyfrwn mwng mon-
gymry
a chominod hynod hy."
Glan. F.

"Mwng Mongymry" = blaenau
Sir Drefaldwyn (*Montgomeryshire*).

Am "cymminod" gwel Cywydd
Rhif XIV., llin. 58.

⁷ "Ag arddwr Hafren garwddol
y bydd yr eilddydd ar ôl."
Add. MS., 14,970.

"Ag ar ddwr hafren garwddol
i bydd yr ail ddydd ar ol."
Glan. F.

Proffwydo y mae Iolo y cymmerai
brwydr ofnadwy le ar ryw lanerch
ar lan yr Hafren.

⁸ "Siwrnai fawr sarn a fydd."
Glan. F.

"Siwrnai fawr" a olyga feithder
y tir a orchuddid gan gyrff y
lladdedigion ; ac fel y gwelir yn y
llinellau dilynol, yr oedd yr afon i
gael ei llenwi gan gyrff y lladd-
edigion fel y gallai pawb a fynai
groesi yn droedsych. Yr ydym yn
cymmeryd yn ganiatâol mai cyrff y
Seison a feddyliai y bardd ; ac nad
oedd yn bwriadu i'r un Cymro
gael ei ladd.

- Ben ben ar hafren hyvryd
 56 I bawb a vynnor byd¹
 Dramwyaw draw yn drais
 yn droedsych ar vol drudsais²
³Ynghefn y rais divalais dec⁴
 60 y bydd trydydd nod tredec⁵
 Torri a sengi a si eingl
 Brython yn lladd Britheingl⁶
 Ai mygyrn ai krimogav⁷
 64 Ai hesgyrn vegis kyrn kav⁸
 Sais gwyr yn wys garroc
 Yn ddas ymhen y glas glog⁹

¹ "Benben ar Hafren hyfryd
 I bawb a fynno o'r byd."

Add. MS., 14,970.

² "I dramwyaw draw a drais
 Yn droedsych dros fol drud-
 sais."—*Add. MS.*, 14,970.

"I dramwyaw draw o drais

³ Yn blaenori llin. 59 ceir y llinellau a ganlyn :—

Add. MS., 14,970.

"Rhyfeddawd gnawd yn ol gnif
 Mawr afon greulon groywlif
 Gweled cyrph or gwaelod cau
 Gelynyon hyd y glannau
 A bod Hafren hen yw hi
 Heb undafn iawnddafn ynddi."

⁴ "Ynghefn yr ais diflais dēg."
Add. MS., 14,970.

⁵ "Y bydd trydydd nod rhydeg."
Add. MS., 14,970.

"Bydd y trydydd nod rhydeg."
Glan. F.

⁶ "Torri a sengi ais eingl
 A Brython a lladd Brith-
 eingl."—*Add. MS.*, 14,970.

"Britheingl" = *mongrel Angles*
 (Gwel *Geir. Cymraeg*, D. S. Evans).

Yn droedsych dros gefn drud
 sais."—*Glan. F.*

Ceir yma linellau gwir farddonol ;
 ond awen waedlyd i'r eithaf a feddai
 Iolo Goch. Nid ymddengys un
 amser yn fwy hapus na phan yn
 dysgrifio echryslonrwydd rhyfel a
 thywallt gwaed.

Glan. F.

"Rhyfeddawd gnawd yn ol gnif
 Mawr afon greulon groywlif
 Gweled kyrff or gwaelod kau
 Gelynyon hyd y glannau
 A bod hafren yw hi
 heb un dafn iawnddafn ynddi."

⁷ "Crimmogau" — *Add. MS.*,
 14,970 ; "krimogau"—*Glan. F.*

⁸ "Cyrn cau" = cyrn gwag
 (hollow) ?

⁹ "A ais gwyr yn wasgarog
 Yn ddas ym mhen y glas
 glog."—*Add. MS.*, 14,970.

"Ag ais gwerin gwasgarog
 yn ddas y mhen y glas glog."
Glan. F.

"Glog" (o *clog*) = clogwyn—glas
 glog = clogwyn glas.

- 68 Gwae Deirrw lloegr wedi llygrv
y gelwir i tir ai tv¹
O hynny allan glan glod
o gwbl ac i kair gwybod²
Pwy orrav piev y werrin
- 72 Ar klawr wedir tramawr trin³
llundain a gwyn dwyn dwy vil⁴
a dwyn mwy no devnaw mil
Gwaer Eingl a gwyr Englont⁵
- 76 Yn ffrydiav am bennau y bont⁶
rvadru o bob tu y bydd
Ar hyd temys val rrwd tomydd⁷
Gweddwydd gwagedd senedd son⁸
- 80 a gwasarn dan i gweission⁹

¹ "Gwae Deirw Lloegr gwedi eu
llygru
y gwelir eu tir a'u tŷ."

Add. MS., 14,970.

"Gwae deirw lloegr'r llygru
i gwelir i tir oi tu."

Glan. F.

Ar ymyl y ddalen gyferbyn a'r
darlleniad blaenaf ceir :—"tu it
shd be. I. Morg."

² "O gwbl ac y cair gwybod."

Add. MS., 14,970.

"O gwbl ag i keir gwybod."

Glan. F.

³ "Pwy orau piau y warin

Ar clawr gwedi'r dramawr
drin.—*Add. MS.*, 14,970.

"Pwy orau pia'r werin

ar klawr wedi'r dramawr
drin."—*Glan. F.*

"Clawr"—clawr gwlad=gwyneb
y wlad. Gofyna y bardd pwy fydd
biau y werin-bobl a'r tir ar ol y
frwydr fawr y mae yn proffwydo
am dani.

⁴ "Dwy fil."—*Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Gwyar Eingl a gwyr Ing-
lont."—*Add. MS.*, 14,970.

"Gwyar" (=gwaed) sydd gywir,
fel y gwelir oddi wrth y llinell
ddilynol. Gwelir "Inglont" ac
"Englont" yn aml gan feirdd y
cyfnod hwn am *England*=Lloegr.

⁶ "Yn ffrydian ar bennau'r
bont."—*Add. MS.*, 14,970.

Gwaed y Seison yn ffrydiau ar
Bont Llundain !

⁷ "Rhaiadru bob tu y bydd

Ar hyd Tems fal rhwd
tomtmydd."

Add. MS., 14,970.

Dysgrifiad ydyw hwn o'r mwyaf
erchyll ac ofnadwy a allasai dych-
ymmyg hyd yn oed bardd ei greu.
Ond y mae y broffwydoliaeth heb
ei chyflawni eto ; a gobeithiwn na
chyflawnir mo honi byth.

⁸ "Somwedd son."—*Glan. F.*

⁹ "Dar ei gweision"—*Add. MS.*,
14,970 dann y gweision"—*Glan.*
F.

- Ryueddod medd pan vyddant¹
 Ymddivaid i plaid ai plant²
 A ffrangk a gar ddivankoll
 84 Kyn kychwyn yr ellmyn oll³
 O ddydd i ddydd kyn eirri
 O nos i nos yny noes ni⁴
 Ni welir hir ddiareb
 88 Vn Sais yn vyw yny Sieb⁵
 Nithric arf rrac twrf aervawr
 Yni law yni el i lawr⁶
 Nithric gwrregis y leni
 92 am i gorff mwy noc am gi⁷
⁸I ddiawl y genedl ddiain⁹
 Hwt yntwy at vnt Owain¹⁰

Iollo Goch ai kant.

¹ "Rhyfeddod medd rhai fyddant."—Yn y llyfrau ereill.

² "Ymddifaid eu plaid a'u plant."—*Add. MS.*, 14,970.

"Ymddifaid oi plaid ai plant."
Glan. F.

³ "Y Ffranc a gar ddifancoll cyn achwyn yr Ellmyn oll."
Add. MS., 14,970.

"Ffrank a garai difancoll Kyn kychwyn yr ellmyn oll."
Glan. F.

⁴ "O'r dydd dydd deddf camwri O'r nos nos yn ein oes ni."
Add. MS., 14,970.

⁵ "Un Sais yna'n fyw yn Sieb."
Add. MS., 14,970.

"Sieb" = *Cheapside* (Gwel Cywydd Rhif X., llin. 50).

⁶ "Ni thrig arf rhag llid tarfawr Yn ei law oni el i lawr."
Add. MS., 14,970.

⁷ "Ni lyn gwregis y leni Am ei gorph mwynog am gi."
Add. MS., 14,970.

⁸ Yn blaenori llin. 93 ceir y ban a ganlyn :—

"Caith a gryn ganwaith yn gynt no'r irwydd dan yr oerwynt."
Add. MS., 14,970.

"Kaith a gryn kanwaith yn gynt Nar irwydd ar yr oerwynt."
Glan. F.

⁹ "Ydd ain" — *Add. MS.*, 14,970; "i ddain"—*Glan. F.*

Ni ddywedir yn ein geirlyfrau beth yw "ddain;" "ddain" ydyw pur, neu yr hyn sydd yn *hyfryd* a *dymunol*, ond gwelwn oddi wrth y cyseylltiad mai nid hyny a olygir. Dyfyna y Dr Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Hwt"), y ban yn ol darlleniad yr *Add. MS.*, 14,970; a chyfieitha ef fel y canlyn :—"To the devil the tribe would go : away with them, at them Owain !" Tebyg mai *ddi-ddain* a feddylir.

¹⁰ "Hwt yntwy attynt Owain."
Add. MS., 14,970.

"Wtunt hwy attynt Ywain."
Glan. F.

XVII.

D A R O G A N .

(*O'r Add. MS., 14,893, fol. 77*).

Nid oes benawd i'r cywydd hwn yn yr ysgriflyfr. Ond gan ei fod o llinell 57 i'r diwedd—gydag eithrio ychydig o linellau a nodir wrth fyned ym mlaen—yr un yn hollol a'r cywydd diweddaf (Rhif XVI.), rhoddasom yr un penawd iddo. Y mae yr ysgriflyfr yn waith rhywun tra annghelydd, ac y mae y colliadau mynych a geir ynddo yn tynu ymaith yn fawr oddi wrth ei werth. Hefyd, y mae amryw gyfeiriadau yn y rhan gyntaf ag ydynt yn peri i ni ammeu a ydyw yn peidio a bod yn gyfansoddiad gwahanol i'r rhan olaf. Pa fodd bynag, ein dyledswydd ni oedd ei osod i mewn, fel y mae, pa un bynag a ydym yn ei ddeall ai peidio; a rhaid i ni addef nad ydym.

Pen welir y pum weli
poini yn ol pan nawn i
ar blaened¹ beder bylynedd
4 gwedi hyn egeidi hedd²
gwedi hyn Duw gida hi
gydwaladr³ i gyd weli
diau yn i daw on hiraieth
8 ddewin a gladdwyd ddwiwaith⁴
chwerwi yn flin ai ben elaeth
gwaitha gwaith ai greith ar go
gwenol hep fawr ddolir
12 lluddor yw ai lladd ai gwir

¹ Ai y seren wib a ymddangos-
odd yng ngwanwyn 1402 a feddylir?
—ond nid planed oedd hono.

² "Egeidi hedd" = fe gyfyd hedd,
neu, ti a gei di hedd?

³ Cadwaladr Fendigaid.

⁴ Pwy oedd hwn?

- maer asen yn ymryson
 bwla mawr a beli mon
 mai un edyn yn adu
 16 a deri yn ddig y daran ddu
 tayr yw pan tery i hanian
 adwen fwi a den¹ y fran
 myn Duvinwen² nid adwanoch
 20 y forwyn gwl ar fron goch
 delid hari³ weddiwr
 lan i daith i lan y dwr
 galwed y fran dan ganu
 24 gole daith ar gwlw du
 tyreigledd tua tur eglur
 drwy goed i ddadyragied ddur
 ni does mawr dewis mon
 28

 breuddwydion beirdd acidwd
 hyny ysy yn lladd herwas llwyd⁴
 32 . . . dewi a roes dyuall
 aed i roi kof owdur⁵ kall

¹ Aden.

² Dwynwen, santes warcheidiol y cariadon ym mhlith yr hen Gymry. Merch ydoedd i Brychan Brycheiniog, yn y bummed ganrif. Dywedir mai hi a sefydlodd eglwys Llanddwynwen, ym Môn. Pa fodd bynag, byddai lluaws o gleifion cariad gynt yn myned i ymweled a ffynnon Llanddwynwen, yr hon yn awr a elwir yn Ffynnon Fair. Rhagddywedid eu tynged gan bysgodlyn yn y ffynnon; ac offryment hwythau arian er mwyn i'r santes eiriol ar eu rhan gyda Mair, am iddi dyneru calon gwrthddrych eu serch. Daeth yr aberthau hyn

mor bwysig fel y gwnaed yr eglwys yn abatty, ac yr oedd cyllid y crefydd-dŷ hwn, yn amser Harri IV., yn fwy nag un arall yng Ngwynedd (*Lewis's Top. Dict. of Wales*).

³ Harri IV., mae'n debyg.

⁴ Ar ol llawer o chwilio, methasom a chael allan pwy oedd "herwas llwyd." O herwydd y colliadau sydd yn yr ysgriflyfr, yn gystal a'r orgraff ryfedd ym mha un y mae y cywydd yn ysgrifenedig, y mae bron yn amhosibl deall y cyfeiriadau a geir ynddo.

⁵ "Kof awdur" = Cofiadur?

- 36 glan fardd ail un a fu
 goido pen gwedi hyny
 ar lleian arth ar llwinon
 fu siriol verch faien sieron¹
 os gwir a ddowid y son gynt
 addaw adwyth a ddywedynt
 40 mae ar y dyrws or mor hydraw
 kyfeddach kywisc addaw
 amseroedd a mesurau²
 a nodau terfynau sir
 44 a hanwen ar haianwir³
 kynta kafod adwen
 kam mawr i wlad Kymru wen
 mai gwir lladd yma gar llaw
 48 pe beiddiwn i kysuddiwn⁴
 triged y tarw anghall
 awnel llid yn ol y llall
 arwiddion trymion hit traw⁵
 52 a welaf af i wiliaw
 . . . a dre os kefais
 . . . yno son am un sais
 a . . . dwr a dyn
 56 diria . . . y deryn
⁶Pam hyn na wyddin ni
 gan ddreigiau ymgynddeiriogi
 y leni hen elyniaeth
 60 y sydd rhyngthun yn Saeth

¹ "Sieron" = St. Jerome. Ceir y ban canlynol gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 93) :—

"O'r haelder, mal llyvr *Sieron*,
Rholiau y sydd ar helw Sion."

² "*Mesurau*" a ddylasai hwn fod i ateb i'r llinell flaenorol, neu dylasai y gair olaf yn hono fod yn "*addau*."

³ Pa beth a feddylir yn y llinell hon—ai "a rhai anwir" ydyw "ar haianwir?"

⁴ "Kysuddiwn"—o cysu—llin-iaru?

⁵ Hyd draw.

⁶ Yma y dechreu Cywydd Rhif XVI.

- e rroes byth yr oes i bu
 gwrtheyrn yn i gwarthau
 llonydd fuant er llynedd
 64 estwy ni buan hwy hedd
 weithian profi ym wthiaw
 i mewn o draws ym mon draw
 dial maer ddraig gynhaig goch
 68 i cham Sarff danfflam dinffloch
 kael a wnaeth gafel gyfink
 ar y ddraig wen agen Ink
 och ir ddraig koch arwddyrwg hir
 72 os gillwng bollt os gellir
 heb dori a fferi ffyrf
 y chynffon goch anffyr¹
 darogan uthur pen dragwn
 76 y bu hir mai byw yw hwn
 weithian ymlid greulon groch
 Owain wiw loiwgan lowgoch
 hynu waithery Rhyrnwillt
 80 yn bachder y wiber wyllt
 anwibod fod yn fyw
 ai hen feister hyn fu ystryw
 gore i gwydded gaer goddef
 84 y spiaw nos os byw ef
 brenin fydd ynydd a nos
 ynhyrnas loeger yn hirnol
 pa ddelw hyn pa ddial hawdd
 88 marchog Myd riog drwawdd
 tridie rrydd y tua derw
 kad ar faes kadryw iferw
 ar tridiau and di reidi wr
 92 diau fydd gorfydd y gwr
 kynta lle i bydd ym gintach
 ynghors tochno ger gro grach

¹ Yn dilyn y ban hwn yn Cywydd
 Rhif XVI., ceir :—

“ Saeth esgor a sych ysgwn
 A syth y gwyr sevthu gwn



- 96 kan mil a gyrch o hil hors
ir wern ddwysengloer wernwors
ni ddaw byth ar wern sern sefn
deuddeg trwch ofeg trachefn
digri aneirif i ni
- 100 drwssio deufad dros dyfi
edrych yn wych yn y wern
lliw diffaith mal lled uffern
kwn a brain knou y brynaich
- 104 karol afudol i fraich
Ynghyfrwng mawrong mery
a chymynod hynod hy
ar geurydd hafren garw ddol
- 108 y bydd yr ail ddydd ar dol
y gelain wrth i gilidd
Siwrnaw fawr yn sarn a fydd
benben ar hafren hyfryd
- 112 i bawb a fydd or byd
awn draw yn inion heb drais
yn droed sych dros fol drud sais
Rhyfeddod gynod geni¹
- 116 ir afon greulon gwiw li
gweled kyrff yn gwaelod kau
gelynion hyd y glanau
a bod hafren hen yw²
- 120 heb ddafn fawr ddwr ynddi
ynghefen yr ais dulais deg³
y bydd trydydd nod uredeg
tori a sengi as engil
- 124 brython a lladd y brithengl
ai migirn ai krimogau
ai hesgirn megis kirn kau

¹ Y mae hon a'r pum' llinell
dilynol wedi eu gadael allan yn
Cywydd Rhif XVI.

² Hi?

³ A oes yma gyfeiriad at yr afon
Dulas, yr hon sydd yn rhedeg trwy
Gorris, yn Sir Feirionydd, ac yn
ymuno â'r Dyfi, ger Machynlleth?

- ais y gwyr yn wsgarog
 128 ai holl benau glaw i glog
 gwae di loeger gwedi lygru
 i gwelir i tir ai tu
 o hyn allan glan i glod
 132 kowir gwbl i kair gwybod
 pwy orau piau i werin
 ar lawr wedir drom arw drin
 llundain a gwyn dwyn dwy fil
 136 a dwyn mwy no deunaw mil
 gwaed engyl a gwyr englont
 yn ffrydiau dan benaurl bont
 Rrydru o bob tu y bydd
 140 ar hyd temys fal rrwd tomydd
 gweddw a fydd gwragedd Senedd son
 a gwassod dan bawb o'i gweission
 Ryfeddod medd rrai fyddant
 144 Ymddiddiaid i plaid ai plant
 y ffrank a gar ddifankoll
 kan kychwyn yr ellmyn oll
 kam arwydd y kamwri
 148 o nos i nos yn oes ni
 ni welir hir ddihareb
 yn sais yn fyw yn y Sieb
 ni thrig arf rag ofyn tarfawr
 152 yn i law ar i ol i lawr
 ni lyn gwregis y leni
 am i gorff mwy nag am gi
 kaith a gryn ganwaith gint
 156 nar Irwydd gan yr oerwynt¹
 I ddiawl y genedl i ddain
 oi diwedd onid Owain

Iolo Goch ai kant.

Ond nid ydyw darlleniad Cywydd
 Rhif XVI., llin. 59, yn awgrymu y
 fath beth.

¹ Nid ydyw y ban hwn yn
 Cywydd Rhif XVI.

XVIII.

K O : B R U T.

(O Glanyrafon MS. F., p. 5.)

Y mae y Cywydd Brud hwn, fel y cywyddau ereill o'r un natur, yn un lled anhawdd i'w ddeall. Yr oll a allwn gasglu oddi wrtho, gydag un gradd o sierwydd, ydyw y byddai i'r Ddraig Goch—sef y Cymry—orchfygu y Ddraig Wen—sef y Seison. Wrth gwrs, gwyr pawb i'r broffwydoliaeth droi allan yn anwireddus. Ymddengys nad ydyw y cywydd fel y mae yn yr ysgriflyfr uchod—yr unig gopi o hono a welsom—yn gyflawn; ac y mae hyn yn ychwanegu at yr anfantais i'w ddeall. Nis gallwn wneyd yn well, o bosibl, na'i osod ym mhlith ereill o'r un dosbarth; gyda'r dybiaeth iddo gael ei gyfansoddi rywbyrd yn ystod y pum' mlynedd cyntaf o'r gwrthryfel, sef rhwng 1400 a 1405. Ei amcan, mae'n amlwg, oedd calonogi y Cymry yn eu hymlyniad wrth Owain Glyndwr, trwy broffwydo gorthrechriad y Seison ac adferiad y genedl Gymreig i'w rhyddid a'i breintiau cyntefig.

Rho Duw i ras kwmpas koeth
gair hwylddawn i'r gwr haelddoeth
I ag N yw'r kymhenddoeth

4 I ag U ddwbl yw'r kwbl koeth¹

¹ Buasai o gryn fantais, er mwyn iawn ddeall y cywydd hwn, pe gallasem benderfynu i sierwydd beth a olygir wrth y pedair llythyren sydd ar ddechreu llin. 3-4. Ond rhaid i ni addef nas gallwn wneyd yn well na dyfalu mai Owain Glyndwr a olygir. Gwyddom fod Owain yn cael ei ysgrifenu mewn gwahanol ffurfiau, megys *Ywein*, *Ywain*, ac *Iwain*;

ac o gyfnawid ychydig ar drefn y llythyrenau I.N.I.W. (U ddwbl), fe gawn IW[A]IN. Ac y mae y rhinweddau a briodolir iddo yma yr hyn a fuasem yn ei ddysgwyl gan Iolo Goch am Owain Glyndwr. Nid ydym heb gofio mai *Ywein* a ysgrifenedid fynychaf yn amser Iolo, ond nid ydym byth yn cyfarfod â'r ffurf hono yn ei gywyddau ef—eithr *Owain*.

Mae yn i fryd wryd ar¹
 ruthro engl rethri² anglaiar
 ai hawydd³ nid amheuir
 8 ymorol flaid⁴ hoiw wraidd hir
 blwyddyn yw honn gronn grynno
 ar ddraig wenn⁵ ai ffenn ar ffo
 ar ddraig koch lwybr wrthgoch lid
 12 ai hamlwg fagl ai hymlid
 llithred eira llethryd arawl
 gann feiriolwynt ne hynt hawl
 pen ddel ior kynnydd vawr lain
 16 gwr o lendid gaer lundain⁶
 a nghyfion y cysonir
 oressain damwain i dir
 effon dial ddental⁷ dig
 20 y beru Rwnge dowyr a berwig⁸
 Na bu iawn ddygyn greulonwedd
 weithred lladd i ewythrydd⁹

¹ "wryd"—gwrol—y mae, o'i wroldeb, yn bwriadu rhuthro ar yr Eingl (*Angles*)=Seison.

² "Rethri"—picellau (*lances*).

³ "A'i hawydd" a olyga yma, mae'n debyg, flaenllymder ei arfau—ei bicellau.

⁴ Y blaid yma oedd Owain, yr hwn a annogir gan y bardd i ymwroli.

⁵ Cynnrychiola y "ddraig wen" y Seison, fel y gwna y "ddraig goch" y Cymry yn y llinell ddi-lynol. Brudia y bardd y bydd i'r Cymry ymlid y Seison; ac (llin. 13-14) y bydd i'r Seison ddianc o'u blaenau yn debyg fel y ffy yr eira o flaen y gwynt.

⁶ Nis gwyddom prwy oedd y

"gwr o lendid gaer lundain," os nad Richard II., yr hwn, ar ol ei ddiorseddu, y credid gan y werin am hir amser ei fod yn fyw.

⁷ "Ddental" (*Seisoneg dental*)=deintiawl?

⁸ *Dover a Berwick.*

⁹ Gwelir fod yma wall odl; ond yr hyn sydd waeth fyth, y mae yma gryn anhawser i ddeall yr hyn a ddywedir. Yr unig ddyfaliad a gynnygia ei hun ydyw fod yma gyfeiriad at waith Richard II. yn rhoddi ei ewythr—y Duc o Gaerloyw—i farwolaeth, yn 1394. A'r hyn, fel yr ymddengys, nid oedd hyd yn oed Iolo, yr hwn oedd yn bleidiol i Richard, yn ei gymmeradwyo.



- 24 fflam blaid loegyr bobl goygrus
yn fflam dân a mwg glan glas¹
gan ddyrnodie bleiddie blwng
kloed astud ai klyd ostwng
ni wybyddir i hirynt
- 28 ar for gwyrddlas gwnas gynt
oni ddel tarw rhyfel tair
y mysg engl y mwasg² anglaiar
trwy gymry lle i try llew trin³
- 32 yno i bydd y naw byddin⁴
Myrdd ar fôr gwyrdd a fwrw gwynt
lu gwr ddeffro i loegr ddyffrynt
a chanddo fwyell ellmyn
- 36 llychynig⁵ llwybr tremig trin
i fyn in dir ne son o draw
lediwr i bobl lydaw⁶
a chanthaw er blinaw'r blaid
- 40 llynges o ddenkan llongaid
llong a ddaw gar llaw ffawydd
llyngesawg farchawg a fedd⁷
a llong fraith a llong frython
- 44 a llynges y mynwes mon

Iolo Goch.

¹ Ymddengys fod yma ddwy linell o leiaf yng ngholl; gan nad ydyw llin. 23 a 24 yn odli. Ac nid ydyw amryw o'r llinellau dilynol yn ymddangos fel pe wedi eu hadysgrifennu yn gywir.

² ym wasg?

³ "Trin" = brwydr.

⁴ Dylid cadw mewn cof mai nid adrodd ffeithiau y mae y bardd, ond brudio; ac nid oes arnom unrhyw angenrheidrwydd i gredu i ddim o'i broffwydoliaeth gael ei

chyflawni. Felly, ofer a fyddai i ni geisio dyfalu pa naw byddin a feddyliai.

⁵ "Llychynig" = maluriedig?

⁶ Yn ystod haf 1403 glaniodd lluoedd o'r Llydawiaid yn Plymouth, gan ymosod ar y lle; ac er nad oeddynt mewn unrhyw gynghrair â'r Cymry, ystyrient unrhyw bobl a flinent y Seison yn gynnorthwyr iddynt hwy.

"A fydd"?

XIX.

[CYWYDD BRUD.]

(*O r Add. MS., 14,887, fol. 59.*)

Yn blaenori y cywydd hwn yn yr ysgriflyfr uchod ceir 46 o linellau yn dechreu gyda—"Dilud y broffwydoliaeth," ond gyda llinell ddu wedi ei thynu danynt, fel ag i dori eu cyssylltiad â'r cywydd. Y mae yn amlwg, feddyliem, mai cywydd gwahanol ydyw "Dilud y broffwydoliaeth," yr hwn a briodolir yn *Add. MS., 14,994*, i Gruffydd ab Dafydd Fychan.

Nid oes benawd i'r cywydd yn yr ysgriflyfr uchod; ond gelwir ef yn Gywydd Brud mewn ysgriflyfrau ereill. Y mae i'w gael hefyd yn *Add. MS., 14,897*. Ceir 14 llinell o hono yn *Add. MSS., 14,892* a *14,994*. Y mae bron yn gyflawn—oddigerth y ddwy linell flaenaf—yn *Glanyrafon MS. D.*; ac mewn ysgriflyfr perthynol i Mr. Robert Evan Jones, Ty'nybraich, Dinas Mawddwy. Y mae hefyd yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 16, lle ei blaenorir gan y nodyn canlynol gan olygydd y gwaith hwnw (y Parch. Owen Jones):—

"Y Brudiau a ganai y Beirdd yn yr amseroedd terfysglyd a aethant heibio; yn enwedig yn ystod y tymhor blin o ymryson rhwng teuluoedd Caerefrog a Chaerhirfryn, am orsedd Prydain. Efallai fod cyfeiriad neillduol y Brud isod, at fradychiad Risiart yr Ail, i ddwyllaw Harri Bolingbroke, a chyfodiad Owen Glyndwfrdwy yn y canlyniad i hyny."

Pa fodd bynag am y dybiaeth hon, bron na feddyliem ar ol darllen y cywydd mai nid brudio rhyfel rhwng y Cymry â'r Seison a wna y bardd yn gymmaint; ond yn hytrach proffwydo y mae am ryfel erchyll ym mhlith y Seison eu hunain—rhwng pleidwyr Richard II. a phleidwyr Harri IV. Ond y mae wedi ei eirio mor dywyll, fel y gallwn roddi yr

ystyr a fynom iddo—hyny yw, ni welwn ynddo ystyr amlwg o gwbl. Gallem feddwl oddi wrth ei ddiwedd iddo gael ei gyfansoddi oddeutu dechreu 1403.

- A genais mae yn eginaw
myn fy fydd gwn y dydd i daw¹
ban el y neidr ban awn
4 ai gwyr llu i gaer lleawn²
I rodiaw a lluniaw llid
y priffyrdd a budd proffid³
Duar drin ni chair hindda
8 kwyno yn ol kanv awna⁴
tyr a ddeheulaw draw yn y drin
ir bryn bydd dig brenin⁵
o fryn i bant tygiant twyll
12 or ymwrdd och or amwyll⁶
y ny pant ffyniant yw ffo
y bwrir gwae ai karo⁷

¹ Nid ydyw y ddwy linell flaenaf mewn un ysgriflyfrawelwyd genym, heb law yn yr hwn a gymmerasom yn gynsail. Buasai *ffydd* yn lle “fydd” yn gywirach o ran synwyr.

² “Pan el y neidr pen Ion
ai gwyr/ ai llu/ i Gaerlleon.”
Ty'nybraich MS.

³ “I roi oer llun I o llid
priffyrdd aludd y proffid.”
Glan. MS.

“I rodio, er llinio llid/
y priffyrdd, a llu proffwyd.”
Ty'nybraich MS.

⁴ “Tuar drin ni chair hindda
Cwyn yn ol cynen ar a.”
Glan. MS.

“Kwyno yn ol hyn a wna.”
Ty'nybraich MS.

Y “drin” (trin)=brwydr.

⁵ “Tori deheulaw draw yn y drin
yn brin bydd dig ir Brenin.”
Glan. MS.

“Troi dyheulaw/ draw ir drin
ir brin, bydd dig y Brenin./”
Ty'nybraich MS.

⁶ “O fryn i bant y dygant dwyll
yr ymwrdd mawr fu'r am-
'wyll.”—*Glan. MS.*

“O fryn i bant, i dygant dwyll/
or ymwadd, ir ar amwyll./”
Ty'nybraich MS.

“Ymwrdd”—ffyrnigrwydd.

⁷ Nid yw llin. 13-14 yn *Glan. MS.*; ond darllenant yn *Ty'nybraich MS.* fel y canlyn:—

“Yn y pant / ffyniant iw ffo/
i kirir, gwae ai karo./”

Curo y Seison, gan y Cymry, a feddylir: ac y mae y bardd yn cyhoeddi anathema uwch ben y rhai blaenaf.

- tynghedfen dan nen y ne
 16 fydd hyn oer ddychryn ddechre¹
 pyrnhawn fydd kynydd kan och
 y gweddwir gwraig a gwaedd groch²
 yna kyddir kedwir ko
 20 yr eleirch a bair wylo³
 gwell kyrchu /r/ koed heb oidi
 yn fyan meddan i mi⁴
 yna i mddiffin enaid
 24 nor holl gymdeithion yn rhaid⁵
 rhai dan wylaw draw or⁶ drin
 or gwyr llu ir gorllewin
 rhai or Nordd gwaetha ffordd i flo
 28 rhai ir dwyrain rhowyr daro⁷

¹ "Oedd hyn oer ddychryn enw hwn fel anrhydedd ar eu ddechre."—*Glan. MS.* harwyr.

"Fydd yn oer ddychryn ddechre." ⁴ "Gwell kyrchu'r coedi."

Glan. MS.

Ty'nybraich MS.

"Gwell kyrchu ir koed, heb oedi

² "Pyrnawn fydd cynnydd can' och

yn fuan, meddan imi."

y gweddwir gwraig a gwaed coch."—*Glan. MS.*

Ty'nybraich MS.

"Pyrnawn fydd, kynydd koch a gweddwy'r gwraig ar gwaedd kroch."

"Gwell syrthio i'r coed heb oedi."—*C. Ll. G.*

Ty'nybraich MS.

Pwy a gynghorir yma gan y bardd i gyrchu i'r coed?

Yn y llinellau blaenorol cyfeirir at yr arswyd oer oedd wedi medd-iannu y wlad yn y rhagolwg ar y frwydr dybiedig; ond yn awr y mae yn dysgrifio echryslonrwydd ofnadwy y rhyfel hwnw.

⁵ "Yno i mddiffyn enaid nar holl gymdeithion rhaid."

Glan. MS.

³ "Yno cuddir cedwir co yr Elyrch a bair wylo."

"yno i ymddiffin Enaid na'r holl gymedeithion yn rhaid."

Glan. MS.

Ty'nybraich MS.

"Yna i kiddir, kedwir ko./ 'r Eleirch, a bair wylo."

⁶ "Ir."—*Ty'nybraich MS.*

Ty'nybraich MS.

⁷ "Rhaf'r nordd aeth a ffordd ffo rhai ir dwyrain rhy hwyr daro."—*Glan. MS.*

Yr oedd yr alarch yn aderyn brenhinol; ac y mae y beirdd Cymreig yn fynych yn rhoddi yr

"Rhaf ir Nordd, gwaetha ffordd i flo

rhaf ir dwyrain /rhiw ym-daro."

Ty'nybraich MS.

vn or dehau gwarchau gwiw
 o ddig hwyrffrydig ydiw¹
 er hyn gorlleni towyn tes
 32 y llechant y ny lloches²
 paran ofal im kalon
 eilwaith ir vn daith i don³
 anhyfryd o fyd a fydd
 36 pob dydd gelyn yw gilydd⁴
 brodir a fydd oi ffydd yn ffo
 ag y ffeiriaid yn fforio⁵
 batelav diav y daw
 40 y nol y gwaith an alw⁶
 dwy ne dair myn mair i mae
 chwerw fydd diwedd y chware⁷

¹ "Yn y dehau gwarau gwiw
o ddig hyfredig ydiw."

Glan. MS.

"Vn ir deau, gwarau gwiw
o ddig hwyr/ffrydig ydiw."

Ty'nybraich MS.

² Nid ydyw llin. 31-32 yn *Glan. MS.*; ond y maent fel y canlyn yn *Ty'nybraich MS.* :—

"Ar hyn gorllwyn, towyn tes/
y llechan yn i lloches/."

³ "Paran ofal im calon
eilwaith ir ail daith i don."

Glan. MS.

"Paran ofn im kalon/
eilwaith ir vn daith i don."

Ty'nybraich MS.

⁴ Nid ydyw llin. 35-36 yn y *Glan. MS.*, ond y maent yn *Ty'nybraich MS.*

⁵ "Brodyr ffydd ai bryd ar ffo
ag offeiraid yn fforio."

Glan. MS.

"Ffario" yn *Ty'nybraich MS.*
a *C. Ll. G.*

⁶ "Batelau diau y daw
yn ol y gwaith anelaw."

Glan. MS.

"Battelau, diau i daw/
yn ol y gwaith anaulaw./"

Ty'nybraich MS.

"Gwaith arianlaw" yn ol *C. Ll. G.*; ond nid oes synwyr yn hyny. Ai nid "anaelaw" (h.y., anaele = *dreadful*) a ddylai fod? Ceir Golyddan (*Myv. Arch.* p. 120) yn defnyddio *anaelew*.

"Dychymmydd angou angen
llawer

Dechymmydd anaelew dagreu
gwragedd."

⁷ "Dwy ne dair myn mair o ne/
chwerw fydd diwedd y
chware./"

Ty'nybraich MS.

Ymddengys i ni fod y darlleniad hwn yn rhagori ar y testyn; ond yn *C. Ll. G.* ceir :—"Dwnedair myn Mair o ne;" yr hyn sydd yn hollol afreymol,

- breuddwyd gwenddydd dedwydd daf
 44 o dydiw modd i doydaf¹
 buan hanes ben hunor
 tair llynges ymynwes mor²
 golau o beth i gwelir
 48 tri man i deuan i dir³
 y ddwy ddiwaetha a ddaw
 y nol gwaith analaw⁴
 rhwng bryn Eglwys bwys lid⁵
 52 ag afon waed ag ofid⁶
 gofal doeth fydd anoeth lyw
 a gwyn i fyd ynfyd yw⁷
 pedair byddin kyn peidiaw
 56 diav ar ddifiav a ddaw⁸
- ¹ "Brouddwyd gwenddydd defn-
 ydd da
 od ydyw modd i dweda."
Glan. MS.
- "Breiddwyd gwenddydd, deu-
 nydd da/
 o dydwy, modd i dweda."/
Ty'nybraich MS.
- Gwenddydd oedd chwaer Myr-
 ddin, a gwraig, yn ol a ddywedir,
 i Rhydderch Hael.
- ² "Buan hanes ben huôr
 tair llynges a leinw mynwes
 môr"—*Glan. MS.*
- "Dyna hanes, pen hunor/
 tair llynges / ym mynwes
 môr."—*Ty'nybraich MS.*
- Pan huno'r tair llynges?
- ³ "Gole o bell i gwelir
 i dri man i deuan i dir."
Glan. MS.
- "Galar o beth i gwelir
 o dair man i deuan i dir."
Ty'nybraich MS.
- ⁴ "Y ddwy ddiweddaf a ddaw
 Yn ol y gwaith a wnelaw."
Glan. MS.
- "Y ddwy ddywaetha a ddaw/
 yn ol y gwaith anailaw."
Ty'nybraich MS.
- ⁵ "Rhwng gwern Eglwys lwyd
 lid."—*Glan. MS.*
- ⁶ "Ac afon o waed a gyfyd."
Glan. MS.
- "Ag afon waed a gyfid."
Ty'nybraich MS.
- ⁷ "Gofal doeth hyd anoethliw
 a gwynfyd rhai ynfyd yw."
Glan. MS.
- "Gofal doeth, byd anoeth liw/
 a gwnfyd i ynfyd iw."/
Ty'nybraich MS.
- ⁸ "Pedair blynedd cyn peidiaw
 diau ar ddifiaw a ddaw."
Glan. MS.
- "Pedair blwyddyn kyn peidiaw
 Diau, ar dduwiau a ddaw."/
Ty'nybraich MS.
- Diammeu mai "pedair byddin "
 sydd gywir; o blegid nis gallasai
 pedair "blwyddyn" ddyfod ar
 "ddifiaw" mwy nag ar ryw ddydd
 arall.
- "Pedair byddin " a ddywedir
 hefyd yn *Add. MS.*, 14,994.

- 1 kirsch i frwydr i kyrchant
 i ryd y tyfod i rant¹
 ag ar y rhos gar y ryd
 60 i gwelir tecka golyd²
 mwstwr orwydd arglwiddi³
 pedair iaith heb yn iaith ni⁴
 lladdfa fawr i'r llawr mewn llid
 64 a gafar rhiaid a gofid⁵
 sarn o wyr om synwyr son
 o ryfig ar yr afon⁶
 briltwn a gyludwn i glod
 68 berffaith ddwywaith a ddywod⁷

¹ "Y cyrch oferwyr y cyrchant
ar hyd y tyfod yr ant."

Glan. MS.

"I kyrchir frwydr i kyrchan.
I Rud y tyfod i'r an."

Ty'nybraich MS.

Pa un ai ar hyd y tywod, yn ol
darlleniad y *Glan. MS.*, ynto enw
ar le, fel yr awgrymir yn y llyfrau
ereill, a feddylir? Ymddengys i ni
mai enw ar le ydyw—Rhyd y
Tywod; ac y mae y llinell ddi-
lyuol yn cadarnhau hyny. Ac hefyd
mewn cyfansoddiad a elwir "Ym-
ddiddanion Taliesin, Merddin, a
Gwenddydd" (Gwel *Ty'nybraich*
MS., fol. 70), dywed Gwenddydd:—
"Yna i rhenir treth / ag fith ni
thelir / ag nis gorfyddir. / yna i
bydd r haul yn i ddeuwres / yna i
bydd yn Nyfi longau / yna i bydd
y Baedd yn oeri / a dyfin gwyr i
Rofela ar fris, hud yn fro kaer, yna
i bydd rhwng Aber Poriddon a
Rhud y tyfod duon / y maes ar y
Saeson ar wyr llur. / Yna kyn pen
y fwyddyn i bydd kad Kors
fochno."

² "Ag ar y rhos gerllaw'r rhyd
y gwelir ddau can golud."

Glan. MS.

"Ag ar y Rhos, gar llaw'r Rhud
i gwelir, tecka golyd."/

Ty'nybraich MS.

³ "Yngwydd arglwiddi" —
Glan. MS.; "ar fedde Arglwiddi"
Ty'nybraich MS.

⁴ "Bedair gwaith heb'n iaith
ni." — *Glan. MS.*

⁵ "Lladdfa fawr i'r llawr a'r llid
a gofyr mawr yw'r gofid."

Glan. MS.

"Lladdfa fawr, i'r llawr mewn
llid
a gaf arian, a gofid."

Ty'nybraich MS.

Ai nid "a galar rhiaid a gofid"
ydyw y darlleniad cywir o llin. 64?

⁶ "Swrn o wyr om synwyr son
Oer ofid a i'r afon."

Glan. MS.

"Sarn o'r gwyr, synwyr son
Oer ofyd, ar yr afon."

Ty'nybraich MS.

⁷ "Miltwn oi fryd ai glyd glod
berffaith ddwywaith a ddyfod."

Glan. MS.

Taliesin o dewin om dysg
a merddin yw fymowrddysg¹
gwersi tomas urddasawl
72 a wyr derfyn hyn o hawl²
y baedd diethr i weithred
a ffydd grist a fedd y ged³

Nid ydyw y llinellau hyn yn *Ty'nybraich MS.*; a chredwn fod y testyn yn gywirach na'r darlleniad hwn. Nid oedd Milton wedi ei eni—ac ni anwyd ef am dros 200 mlynedd—ond y “Briltwn” hwn oedd John o Bridlington, fel y tybiwn; at yr hwn y cyfeiriwn yn ein sylwadau arweiniol i Cywydd Rhif XX.

¹ “Taliesin ddewin ai ddysg
a Merddin yw fy mowr-
ddysg.—*Glan. MS.*

“Taliesin ddewin am ddisg/
a merddin, iw fy mowr-
ddisg.”

Ty'nybraich MS.

² “Gwersi Thomas vrddassawl
a wyr terfyn hyn o hawl.”

Ty'nybraich MS.

Cyfeirir yma at Thomas Becket, neu Thomas à Becket, Archesgob Caergaint yn nheyrnasiad Harri II. Llofruddiwyd ef Rhagfyr 28, 1170; ac ystyriai y werin iddo farw fel merthyr. Canoneiddiwyd ef ym mhen dwy flynedd ar ol hyny; ond tynwyd ei enw ymaith o'r Calendar yn amser Harri VIII.; pa fodd bynag, y mae y Pabyddion yn parhau i gadw “Dy'gwyl S. Thomas, Archescob Cantwari a Merthyr.” Medrai Becket hefyd broffwydo. Proffwydodd yng nghylch rhyfeloedd oed i gymmeryd lle rhwng Lloegr, Ffrainc, a Ho'land; ac y mae Iolo Goch yma yn gosod sel ei gadarnhad arnynt. Gwelwn,

felly, fod Proffwydoliaethau Becket—y rhai nis gallasant fod yn argraffedig—yn hysbys ar ddechreu y bymthegfed ganrif. Ni chyhoeddwyd hwynt hyd 1666, pryd yr argraffwyd hwynt yn Llundain, yn y ffurf o bamphledyn 4 plyg, dan yr enw “*The Prophecie of Thomas Becket, Archbishop of Canterbury, in the Reign of Henry II., concerning the wars between England, France, and Holland.*”

³ “Y Baedd dinerth i weithred
ai fodd cria o fodd cred.”

Glan. MS.

“Y Baedd diwarth weithred
a i fedd Crist, o fodd Cred.”

Ty'nybraich MS.

Y “Baedd” oedd Harri IV.; a gallwn dybied fod yn y llinellau hyn, a'r rhai dilynol, gyfeiriad at ymweliad Manuel II., ymherawdwr Constantinople, a Llundain tua diwedd y flwyddyn 1401, er ceisio cynnorthwy Harri yn erbyn y Tyrciaid oedd yn gorthrymu y Cristionogion yn y Dwyrain. Cafodd yr ymherawdwr dderbyniad croesawgar gan Harri, a rhyw gymmaint o arian; ond nid oedd y Brenin, gan fod ganddo ddigon o waith oddeutu cartref, yn alluog i ostyn unrhyw gynnorthwy arall. Mewn llythyr a anfonodd yn ddiweddarach at Dywysog Abkasia, dywedai Harri ei fod yn awyddus am ymweled â'r Bedd Sanctaidd, a gobeithiai dalu

- 76 I wlad r dial brad bron
i wir dduw ar eiddewon¹
i ynill o berffeithoes
o angred i gred y groes²
gwn a dderfydd gar gwydd gwin
80 ir baedd deilynga byddin³
yngwlad arall ni ffalla
drigaredd a diwedd da⁴
ar ol hyn gwn gywydd
84 gwn hefyd pa fydr a fydd⁵
gwybod mae hyn ywn gobaith
gwyn i fyd gwendyd or gwaith⁶

Iolo Goch ai Kant.

ei wasanaeth yn y lle hwnw yn
beronol cyn marw. (*Wylie's Hen.*
IV., vol. i., pp. 156-67, and 321).
Proffwydodd rhywun hefyd y byddai
iddo farw yn Jerusalem; ac er
gwirio y broffwydoliaeth, mae'n
debyg, y galwyd y gell lle y gosod-
wyd ei gorff, yn Westminster, yn
Jerusalem Chamber (Comp. Hist.
Eng., vol. i., p. 552). Ni fu dim
ychwaneg na hyn yna o berthynas
rhwng Harri â'r dwyrain; ond ym-
ddengys i ymweliad Manuel â Llun-
dain fod yn foddion i chwedl gael
ei lledaenu y bwriadai ymuno â'r
Groesgâd; a thybiwn mai hyny a
achlysuodd i Iolo gyfansoddi y
rhan hon o'r cywydd.

- ¹ "I wlad i ddial brad bron
i wir Dduw ar Iddewon."
Glan. MS.
"Ir wlad i ddial brad bron
i wirdduw, ar i ddewon."
Ty'nybraich MS.

² Nid ydyw llin. 77-78 yn *Glan.*
MS.; ond cytuna *Ty'nybraich MS.*
â'r testyn.

- ³ "Gwn na dderfydd gorfydd
ginc
i'r Baedd deilynga Byddinc."
Glan MS.
"Gwnu dderfydd, i Gaerwydd
gwyn
ir Baedd teilynga byddin."/
Ty'nybraich MS.
⁴ "Y ngwlad arall ni phalla
drugaredd a diwedd da."
Glan. MS.
"Yngwlad arall ni ffalla
drigaredd, a diwedd da."
Ty'nybraich MS.
⁵ "Yn ol hwn gwn geufydd
gwn hefyd par fyd fydd."
Glan. MS.
"Ar ol hwn gwn gynydd
gwn hefyd pa fyd a fydd."
Ty'nybraich MS.
⁶ "Gwybydd mae hyn yw'r
gobaith
ag hefyd gwynfyd yw'r
gwaith."—*Glan. MS.*
"Gwybydd, mae hyniw gobaith
mae gwnfyd Gwenddydd iwr
gwaith."
Ty'nybraich MS.

GG

XX.

BRUD.

(*O'r Add. MS., 14,887, fol. 63b.*)

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd mewn ysgriflyfr perthynol i Mr Robert Evans Jones, Ty'nybraich, Dinas Mawddwy, fol 11b.

Fe welir fod y cywydd hwn a'r un dilynol iddo mewn rhan yr *un*. Y mae y 18 llinell blaenaf yn hwn a'r 40 llinell blaenaf yn hwnw yn hollol wahanol, ond y mae y ddau oddi yno i'r diwedd yn cytuno, oddigerth fod yn yr olaf ddwy linell—neu olion dwy linell—yn fwy nag sydd yn hwn. Ac yn ein tyb ni, perthyn i'r cywydd hwn, ac nid i hwnw, y mae y rhan a geir ar y diwedd—neu y rhan a gyssylltir â'r ddau. Gwelir hyny yn amlwg, feddylïem, wrth gymharu y llinell gyntaf:—"Brawd llid urddas llwyd urddol," gyda'r llinellau terfynol, yn enwedig llin. 58:—"llais y brawd Sais bryd Sant." Pwy oedd y "brawd" hwn sydd fwy nas gallwn benderfynu i sicrwydd. Ond bron na feddylïem fod yma gyfeiriad at John, penaeth priordy Bridlington, yn rhanbarth ddwyreiniol Sir Gaerefrog. Iddo ef y priodolid rhyw rigymau Lladin, a gyfansoddwyd ryw bryd cyn marwolaeth Edward, y Tywysog Du, a'r rhai a elwid yn "Broffwydoliaeth." Bu farw y Prior John o Bridlington tua diwedd teyrnasiad Richard II., a chladdwyd ef yn Beverley. Symmudwyd ei weddillion i Rufain, Mai 11, 1404, gan Archesgob Caerefrog ac Esgobion Durham a Carlisle, ym mhresennoldeb llawer o edrychwyr; ac yr oedd y gwyrthiau a wnaed ar yr achlysur yn lluosog!! Ond cyn i'w weddillion gael eu symmud, yr oedd ei "Broffwydoliaeth," yr hon oedd, o ran ei haneglurdeb, yn gyffelyb i "Ddaroganau" Myrddin, yn cael ei chredu fel Efengyl gan

y werin. Ac yr oedd y Brodyr Llwydion—mynachod o'r urdd Franciscaidd—ar ol marwolaeth Richard II.—yn cael digon o sail ym "Mhroffwydoliaeth" John o Bridlington y byddai i Richard ddychwelyd, a gwneuthur rhyfel yn erbyn Harri IV. Yr oedd y Brodyr hyn, y rhai oeddynt yn bleidwyr selog i Richard, ac yn fawr eu parch ym mhlith y werin, yn gwneuthur yr oll a allent i ledaenu y chwedl fod y brenin diorseddog yn fyw, a thrwy hyny yn creu ansefydlogrwydd a therfysg (Gwel *Wylie's Hist. Eng under Henry IV.*, p. 272 *et seq.*). Gan fod Harri IV. a'i bleidwyr yn ymddwyn tuag at y "Broffwydoliaeth" gyda dirmyg, ac yn carcharu y Brodyr Llwydion a'i lledaenent, sylwa Iolo Goch yn briodol yn y cywydd hwn (llin. 62) na "chred Sais llais y llall" rhagor "proffwyd o Gymro llwyd llon" (llin. 52). Darogan yn yr un cyfeiriad a John o Bridlington y mae Iolo; ond fod ei broffwydoliaeth ef yn dal perthynas a Chymru ac Owain Glyndwr; a gallem dybied i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi rhwng 1400 a 1403.

Brawd llid urddas llwyd urddol
Sais awnaeth bod sias yn ol¹
Darllenais daliais Duw lwyd
4 llafyr praff yn llyfr proffwyd²
pryffydoliaeth praff deilwng
fflowrddylis a na blemis blwng³

¹ "Brawd llwyd llid urddol
Sais a naeth bod Sias yn ol."
Ty'nybraich MS.
O bosibl y defnyddir y gair
"Sias" yma yn yr un ystyr ag y
defnyddir ef gan Lewis Glyn Cothi
(*Gwaith*, tudal. 17), i olygu *brwydr*,
neu *ymladdfa* :—
"Tomas, rhwng y ddwy sias
ddig,
Ab Rhosser a'r pâr ysig."
Fe allai fod y gair "sias" yn
tarddu o'r gair Ffrancaeg *chasse*,

neu *chase* yn Seisoneg—yn golygu
hela, saethu, &c.

² "Darllenais lais, dŵ lwyd
llawr praff llyfr y proffwyd."
Ty'nybraich MS.

Y mae y bardd yn hōni yma y
medrai ddarllen "lais duw lwyd"
—hyny yw, y medrai broffwydo
neu frudio.

³ "Pryffydoliaeth praff deilwng
fflowr ddilys a wna blangr
blwng."

Ty'nybraich MS.

- fflowrddelis medd llyfr dilis daf
 8 fal dien a flodeuaf¹
 keningliau aml yn amlwg
 hefaid o ddrygiaid a ddwg²
 ni bydd henydd o honyn
 12 breniol y reiwl yr vn³
 brangk blin gorllewin lliwiaw
 ir fflowrddelis dilis i daw⁴
 eres o waith lloynwaith llyr
 16 esgysawl wrawl eryr⁵
 yr hwn a gyrch or hen gan
 ar tri llu or tir allan⁶
 yna daw baedd lloynwaedd llv
 20 ai frydawg ar fradychv⁷
 hwn a garwn ai gorug
 trwy liw ffals traolew ffug⁸
 y llew du yna llydan waedd
 24 a yr bw oer ar y baedd⁹

¹ "Fflowr ddylis medd llyfr
 dilis daf
 fal deulen i blodeuaf."

Ty'nybraich MS.

² "Korn karw kras aml yn amlwg/
 heuait/o/ddrygiaid a ddrwg."

Ty'nybraich MS.

³ "Ni bydd heinydd /o/ honyn
 breiniol yreiwl yr vn."

Ty'nybraich MS.

⁴ "Krank blin or Gorllewin
 yn llaw/
 fflowr ddilis, dilis i daw."

Ty'nybraich MS.

⁵ "Ers /o/ waith lloynwaith llir/
 estlyssawl wrawl Eryr."

Ty'nybraich MS.

⁶ "Yr hwn a gyrch or hen gan
 ar trillawr or tir allan."

Ty'nybraich MS.

⁷ "Yna daw Baydd, lloynwaedd llv
 o frud awch/ i fradychu."

Ty'nybraich MS.

Y baedd oedd Harri IV. Gelwid ef, ond nid mewn gwawd, gan rai o grachfeirdd Seisonig ei oes yn "faedd masnach" — "the boar of commerce" (*Wylie's Hist. Engl. under Hen. IV.*, vol. i., p. 19). Y mae y Canon Silvan Evans (*Geir. Cymraeg*, s.v. *Baedd*) yn dyfynu llin. 19-20 a 23-24 gan eu priodoli i Robin Ddu ab Siancyn; yr hwn, medd Owen Jones (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. ii., tudal. 497) oedd o Ddeheubarth, ac yn blodeuo rhwng 1470 a 1510.

⁸ "Yr hwn gwiriwn, ai gorug
 trwy liw ffelis, traelew ffug."

Ty'nybraich MS.

⁹ "Y llew du, yna llydan waedd
 a ur bw oer, ar y Baedd."

Ty'nybraich MS.

Y "llew du," mae'n debyg, oedd Owain Glyndwr; yr hwn oedd i greu "bw" (dychryn) ar Harri IV.

- ag a fyn blaidd berthnudd borth
 Gamber o ferch ag ymborth¹
 rhwydd o beth y rhydd y baedd
 28 ar dduw yno orddinwaedd²
 da hudol Duw ai hoedaf
 pen fo addfed planed plaf³
 byd rhyfal bid rhai ufudd
 32 byd llai y gerdd bid llew o gudd⁴
 byd glodaidd byd goludaed goluwaeedd
 Camber ar flaen ber y baedd⁵
 "Pan ddel kyw praffael proffwyd
 36 llew du i ddwyn lloynblu llwyd⁶
 ni chaiff y baedd trawswedd trwch
 oer lon iddo awr lonyddwch⁷

¹ "Ag a fun blaid, Barthiaid
 borth
 Gamber/ o feirch ag ym-
 borth."

Ty'nybraich MS.

Camber (*Text of the Bruts*,
 p. 60) oedd un o dri mab Brutus;
 ac o'r hwn y dywedir i'r Cymry
 hanu. Nid oes sail ddigonol i
 dybied ei fod amgen na dychym-
 mygol; ond y mae lolo yn ei ddef-
 nyddio yma fel enw cynnulliadol
 ar y Cymry—gwasanaeth y rhai a
 fynai—neu a hawliai—i Owain
 Glyndwr.

² "Ar dduw yna, oer ddiyn-
 waedd' ydyw y darlleniad yn
Ty'nybraich MS., gyda "ddyg-
 waedd"—yr hyn, mae'n debyg,
 sydd gywir, ar ymyl y ddalen.

³ "Da hudol, duw ai hoeda
 hit pan fo addfed, playned
 pla."—*Ty'nybraich MS.*

A oes yma gyfeiriad at y Seren
 Fib (*comet*) a ymddangosodd yng
 gwanwyn y flwyddyn 1402?

⁴ "Byd rhyfalch, bit rhai vfydd/
 byd blag i geurdd, bit llew
 /o/ gudd."

Ty'nybraich MS.

⁵ "Byd gwladaidd, bit golud-
 wraedd

Gamber ar flaen bêr y
 Baedd."—*Ty'nybraich MS.*

⁶ "Pan ddel kiw praff, fal pro-
 ffwyd/
 llew du i ddwyn lloynblu
 llwyd."—*Ty'nybraich MS.*
 Gallem dybied mai wrth "kiw
 . . . llew du" y golygai y bardd
 un o feibion Owain Glyndwr, oddi
 wrth yr hwn y dyagwyliai arddang-
 osiad o gryn wroldeb.

⁷ "Ni chaiff y Baedd, trows-
 waedd trwch

Oer len iddi, fawr lonydd
 wch."—*Ty'nybraich MS.*

Diammeu mai "oer lem iddo" a
 ddylasai fod—ymadrodd yn cyn-
 nwys dymuniad drwg, cyffelyb—
 ond i'r gwrthwyneb o ran ystyr
 lythyrenol—i "yn boeth y bo."

- tair ewin blin yw ir blaid
 40 a ddigia r baedd ai ddugiaid¹
 pan el rhuw adel rhydid
 y baedd mawr ir llawr mewn llied²
 porchell di efell deufaedd
 44 ysa wyl y byd o wal y baedd³
 fo ddaw in plith chwith ywr chwedl
 dydd kwyn in diwedd kenedl⁴
 ynol karol hepkoriaid
 48 porchell yna pla pob plaid⁵
 ar trechaf or tir uchel
 hwnw ai gledau biaur bel⁶
 ni cherais Sais kroylais kreulon
 52 broffwyd o gymro llwyd llon⁷
 ni chred yn lledd ddiweddfab
 yn fyr nar Eryr nar ab⁸

¹ "Tair ewin blin iw ir blaid
 a ddigia y Baedd, ai ddig-
 iaid."—*Ty'nybraich MS.*

² "ddigiaid = ddugiaid (*dukes*).

³ "Pan el rhiw adel rhyttid
 Y Baedd mawr, ir llawr ar
 llied."—*Ty'nybraich MS.*

⁴ "Parchell diewell deufaedd
 a wyl y byd, o wâl y Baedd."
Ty'nybraich MS.

At y tywysog Harri o Fynwy—
 wedi hyny Harri V.—y cyfeirir yma
 dan yr enw "porchell"; yr hwn,
 yn ol fel y sylwa Iolo, a ddeuai i'n
 plith. Ond gwyddom na phenodwyd
 y tywysog yn Rhaglaw ar Gymru
 hyd Mawrth 7, 1403; ac yn fuan
 wedi hyny aeth gyda nifer o filwyr
 i'r Dywysogaeth.

⁵ "Fo ddaw ich plith chwith iwr
 chwedl
 dydd kwyn, a diwedd kenedl."
Ty'nybraich MS.

⁶ "Yn ol karol, heb gariad/
 parchell yna, pla pob plaid."
Ty'nybraich MS.

⁶ "Ar trechaf, or tir uchel
 hwnw ai gledde, bie r bel."
Ty'nybraich MS.

Awgryma y bardd fod y tywysog
 Harri ac Owain Glyndwr i ymladd
 law yn llaw; ac fod y fuddugoliaeth
 (sef y "bel") i gael ei phenderfynu
 felly. O leiaf, fel yna y deallwn ni
 y llinellau. Yn 1400, gwnaed cyn-
 nygiad cyffelyb gan y Duc o Roth-
 say, dros Frenin Ysgotland, sef fod
 i Frenin Lloegr anfon o 100 i 300 o'i
 ben-lesigion i ymladd â'r un nifer
 o'r pendefigion Ysgotaid; yr hyn,
 fodd bynag, a wrthodwyd. (*Wylie's*
Henry IV., vol. i., p. 138).

⁷ "Ni chred Sais kroiwlais
 kreulon
 broffwyd o Gymro llwyd llon."
Ty'nybraich MS.

⁸ "Ni chred yn kleddyf diwedd-
 fab
 ni fyn nar Eryr nar Ap."
Ty'nybraich MS.

Tybiwn mai yr Eryr oedd Owain
 Glyndwr.



- 56 ni chred rholed yr hwylwynt
werth /r/ angel heb gel gynt¹
ni chred gwiried gwarant
llais y brawd sais bryd sant²
ni chred y sais drais i drosi
60 llais neb a nel lles i ni³
purdan engl pardwn angall
pan na chred sais llais y llall⁴

Iolo Goch ai Kant.

¹ “ Ni chred i weled, rhwylwynt
Wersi r Angel, heb gel gynt.”
Ty'nybraich MS.

² “ Ni chred gowred gwarant
llais y brawd, Sais bryd sant.”
Ty'nybraich MS.

³ “ Ni chred Sais, drais drossi
llais neb, a wnel lles i ni.”
Ty'nybraich MS.

⁴ “ Purdan yngel, pardwn Angall/
pan na chred Sais, llais y llall.”
Ty'nybraich MS.

XXI.

COWYDD BRYD.

(O *Glanyrafon MS. H.*, p. 77).

Yn *Add. MS.*, 14,887, fol. 34b, ceir cywydd, heb yr un penawd, wedi ei arwyddo gan "Davydd lloyd ai Kant," yn cynnwys 92 o linellau; ac y mae y rhan gyntaf o'r cywydd hwnw yn cyfateb i'r rhan gyntaf o'r cywydd hwn. Hyd nes y darllenir at llin. 44 yn y cywydd hwn, nid ydym yn cael dim nad ydyw i'w gael hefyd yn y cywydd hwnw; ond y mae yn y rhan gyntaf o'r cywydd hwnw 30 o linellau nad ydynt yn hwn—wedi eu cymmysgu megys ar ddwywaith rhwng y llinellau—gwel llin. 15 a 29. Yn y cywydd a briodolir i Davydd Lloyd, ceir 18 o linellau ar ei ddiwedd heb fod dim yn debyg ynddynt i'r 46 (44 mewn gwirionedd) a geir ar ddiwedd y cywydd a briodolir i Iolo Goch. Ond y mae y llinellau terfynol yn yr olaf (llin. 45-90) yn cyfateb i'r rhan olaf (llin. 19-62) o Gywydd Rhif XX. Wrth ddarllen y rhan gyntaf o'r cywydd hwn, nid ydym rywfodd yn cael lle i gredu fod a wnelo ddim â Iolo Goch. Y mae enw Iarll Warwic yn taraw yn ddyeithr yn llin 4, yn ei gyssylltiad ag Owain Glyndwr. Y mae yn wir yr enwir rhyw Owain amryw weithiau yn y cywydd a briodolir i Davydd Lloyd; ond nis gwyddom yn iawn pa Owain ydoedd, os nad Owen Tudur. Ond nid oedd hwnw—mwy na Owain Glyndwr, yn "Owain wyr Owain"—fel y dywedir ar ei ddiwedd. Gwyddom, fodd bynag, fod Dafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd, o Fathafarn, yn bleidiwr gwresog i Iarll Richmond (Harri VII. wedi hyny)—ac ymddengys i ni mai efe, tua therfyn Rhyfeloedd y Rhosynau, a gyfansoddodd yr oll o'r cywydd a geir yn *Add. MS.*, 14,887—yr hwn a ddyfynir genym ar waelod y tudalenau canlynol. Os felly, nid ydyw

y rhan flaenaf o'r cywydd hwn (llin. 1-44), ond gwaith Dafydd Llwyd wedi ei osod gan ryw gopiwr diofal o flaen dernyn olaf cywydd o waith Iolo Goch—sef rhan o'r cywydd blaenorol (Rhif XX). Os ydym yn gywir yn ein dyfaliad, nid oedd a wnelo Iolo ond â'r rhan olaf (llin. 45-90) o'r cywydd hwn. Ar yr un pryd, tybiasom mai gwell oedd rhoddi yr oll o hono i mewn fel y mae yn ysgriflyfr Glanryafon, er fod y dernyn perthynol i Iolo yn fwy cyflawn yn Cywydd Rhif XX.

Dall o beth yw dull y byd
 a beius iawn yw yn bowyd¹
 bryd ar dwyll maer bradwyr dîc
 4 yn aros henwi Warwic²
 tarw dâ a gais dir i dad
 tarw yn arwain kyrne dirawd³
 kwyno twyll o fewn y llwyni
 8 yn un iaith i maen . l . ni⁴
 ymaros am rhai meirwon
 ymma i dir mi a wn i don⁵

¹ "Dall o beth yw dull y byd
 a bevs iawn ywn bowyd."

Add. MS., 14,887.

² "Bryd ar dwyll mae bradwyr
 dig

yn aros enw Warwig."

Add. MS., 14,887.

Gellid meddwl mai cyfeiriad a geir yma at Richard Neville, Iarll Warwic, yr hwn, ar ol bod yn un o bleidiwyr gwresocaf yr Iorciaid, a wrthgilioedd i bleidio achos Margaret o Anjou, ond a drodd drachefn i ffafrio Edward IV. Ganwyd ef oddeutu 1420; a lladdwyd ef ym mrwydr Barnet, Ebrill, 1471. Dichon, y mae'n wir, mai cyfeiriad sydd yma at ryw Iarll Warwic, yr hwn oedd yn cydoesi âg Owain

Glyndwr, ac mai Iolo Goch oedd awdwr y llinellau hyn wedi'r cyfan. Ond y mae cryn anhawsder ar ffordd y dybiaeth.

³ "Tarw du a gais tir i daid
 koron arwydd kyrn euraid."

Add. MS., 14,887.

Yr ydym yn analluog i ddyfalu pwy oedd y "tarw du." Sylwasom eisoes fod Dafydd Llwyd yn bleidiwr gwresog i Henry, Iarll Richmond (wedi hyny Henry VII.), ond prin y mae y dysgrifiad yn ateb.

⁴ "Llunio twyll mewn llwyni
 am yn iaith y maen i ni."

Add. MS., 14,887.

⁵ "Ymaros am rai meirwon
 yma i dir mi a wn y don."

Add. MS., 14,887.

- pan ddel y gwyddyl eilwaith
 12 Dros y mor ymdrwsio maith¹
 o fanaw i Dyfynir
 y marw o dwyll mawr i dir²
 16 ³ar ych hen ar awch hynnod
 ar dwr noeth y ddaw ir nod⁴
 ag yma ir a gwn yr ych
 yn darw anian dewrwych⁵
 un iaith
 20 yro kaith⁶
 i ben
 figen⁷
 nodais nid wyf anwadal
 24 y doe i dwyll yn i dal⁸

¹ " Pen ddel y gwyddel eilwaith
 dros y mor ymdrwsio maith."

Add. MS., 14,887.

² " O fanaw y dyfynir
 y marw o dwyll mawr i dir."

Add. MS., 14,887.

³ Yn blaenori llin. 15 ceir y
 llinellau a ganlyn yn *Add. MS.*,
 14,887 :—

" Ir daith mi a wn y don
 haid o draturiaid dewrion
 ag ir gaer lle i bu /r/ ayrfa
 y devan dyrogan da
 or gaer ir maes y gored
 y ra r llv mawr ar lled
 ac o ddyna i rosmant
 i ryd y tyfod ir ant
 a llv gwyn llew a gwenol
 a ddaw i rhyd yn dda i rhol
 yna y daw baedd kynefin
 ar wedd y dreigwedd ir drin
 ar faner gan ofni /r/ gad
 a ddwg Owain yn gaiad
 ar llew koch mewn evrlliw kan
 ar dragwn ywr dyrogan
 twrw a nerth yn lle i taria
 kyfarfod yn y nod a wna

ymdrechu a wna devlv dig
 yn wrol yno orig
 hyd na wyddan syfyrdan zon
 pwy /r/ gwr peav /r/ goron
 hyd pen ddel or gorllewin
 y marchog tramwyog trin
 ar kledlav or deau dir
 gwiliwn yna i gwelir
 yn lladd pob gradd a nasvn
 o dair iaith ni edir vn "

⁴ " Ar ych hen ayrwych hynod
 a dvr noeth o daw ir nod."
Add. MS., 14,887.

⁵ " Ag ni ery gwn yr ych
 gan darw anian dewrwych."
Add. MS., 14,887.

⁶ " Ar oen yn llew aur in Iaith
 yno pen fo/r/ kyffero kaith."
Add. MS., 14,887.

⁷ " Ar balch a osdwng i ben
 a fagodd y genfigen."
Add. MS., 14,887.

⁸ " No dais ni dwg anwadal
 y daw i dwyll yn i dal."
Add. MS., 14,887.

- Dan draed ir a yn y drin
 ar i wared ai werin¹
 ar ffo i dda or ffair ddig
 28 o ddyrrys ni ddaw orig²
³hwn a bair tan ymanaw
 a dal drwg i ddulun draw⁴
 Owain a adweinir yno
 32 fy ner wrth i faner iw fo⁵
 hwn ywr keliog o emrais
 o sorres ef ni erys Sais⁶
 Dylyna hwynt yleni
 36 Dros y dwr ymdrwssia di⁷
 Dos ir werddon or unwaith
 Dulun un diail yn iaith⁸
 a llosg Ddulun fun uner
 40 ar dy naid er Duw o ner⁹
 yna i kai enw ai kant
 da yw geni y digoniant¹⁰
 . . . r chweched o werddon
 44 na tharia yn hwy eithyr yn hon¹¹

¹ "Dan draed y ra yn y drin
ar i wared ai werin."

Add. MS., 14,887.

² "ar ffo adda or ffair ddig
yn ddyrrys ni ddaw orig."

Add. MS., 14,887.

³ Yn blaenori llin. 29 yn *Add. MS., 14,887*, ceir:—

"Gwadd a ddaw medd gwiw
ddysg

ar dorfoedd a wna derfysg."

Add. MS., 14,887.

⁴ "Hwn a bair tan ymanaw
addvlin drwg i ddvlyndraw."

Add. MS., 14,887.

⁵ "Owain adweinir yno
ar faner wrth i fan fo."

Add. MS., 14,887.

⁶ "Hwn ywr keliog a henwais
o sorres ef nid ery Sais."

Add. MS., 14,887.

⁷ "Dylynar yntw leni
dros y dwr ymdrwsia di."

Add. MS., 14,887.

⁸ "Dos i werddon ar vnwaith
a dilin dig dial yn iaith."

Add. MS., 14,887.

⁹ "A llosg ddvlyn yn y nef
ar dy naid ir duw nef

Add. MS., 14,887.

¹⁰ "Ac yno i kai gwn ai kant
da yw geny y digoniant."

Add. MS., 14,887.

¹¹ "Ti yw chwched o werddon
na tharia yn hir ni thery hon."

Add. MS., 14,887.

- 1Yno dawr baedd . . .
 o fryd
 yr hwn
 48 Drwy liw
 llew du
 a yr bw
 ag a fyn blaid borthiaid borth
 52 gamber o feirch ag ymborth
 rhwydd o beth a rydd y baedd
 ar ddŵ yna orddinwaedd
 Da hudol Duw ai hoeda
 56 pan fo addfed plaened pla
 byd rhyfalch byd rhai ufydd
 byd llai o gerdd llew o . .
 hyd wledydd bydd golyd .
 60 gamber o flaen ber y baedd
 pan ddel kiw praff fal proffwyd
 llew du i ddwyn llownblu llwyd
 ni chaiff y baedd trowswaedd trwch
 64 fowrlon iddo fawr lonyddwch
 taeir ewin blin tew ywr blaid
 a ddigiar baedd ai ddugiaid

¹ Y mae y Cywydd hwn o llin. 55 i'r diwedd yn cyfateb i llin. 19-62 yn Cywydd Rhif XX., gyda'r eithriad fod *olion* dwy linell yn ychwaneg yn hwn nag sydd yn hwnw—sef llin. 73-74. Yn y copi o'r cywydd a geir yn *Add. MS.*, 14,887, nid ydyw yn cytuno â'r un a geir yn *Glanyrafon MS., H.*, ym mhellach na hyd llin. 44, gan ei fod o hyn i'r diwedd fel y canlyn:—

“ May r wadd wedi groni
 eithyr hyn ni tharia hi
 dyred ar gwyddyl gwllidion
 a thir mawr a theirw Mon

a gyr feilch a ffeils i fo
 y sy yn daros i dirio
 Dilin y Sayson dilwydd
 garw i farn a gyr oi swydd
 gwn nad oes oi hoes hwy
 yma drimis i dramwy
 gwyl bedyr i kair edrych
 ar gyfarth rhwng yr Arth ar
 ych
 ar ych ai dilin ar ol
 ar Arth a yr, ar wrthol/
 Owain wyr Owain o fon
 a gwnkweria gan koron
 hwn yw fv y nol yn Iaith
 a wna yn ynys yn vn Iaith
 Davydd lloyd ai kant.”

- 68 pan ddel rhuw adol rhyd .
 y baedd mawr ir llawr . . .
 porchell di etell deufae .

 . . . chwith ywr chwedl
 72 kenedl

 76 pob plaid¹
 ar trechaf o'r tir uchel
 hwnnw ai gleddau y piau'r bel
 ni chred Sais kroywlais kreylon
 80 proffwyd o gymro llwyd llon
 ni chred yn lleddf ddewedd fab
 yn fyrr nar Eryr nar ab
 ni chred rholed yr hwylwynt
 84 wersi yr Angel heb gel gynt
 ni chred gowired gwarant
 llais y brawd Sais oedd brud Sant
 er na chred Sais drais drosi
 88 llais neb a wnel lles ini
 Purdan engil pardwn angall
 pan na chred Sais lais y llall.

Terfyn 1400

Iolo Goch ai kant.

¹ Er gwneyd y diffygion i fyny, cyfatebol yn Cywydd Rhif XX.
 cymharer y llinellau gyda'r rhai

XXII.

*CYWYDD I RYFEL YR HERBERT.

(*O'r Piser Hir*, p. 450).

Ceir ef hefyd yn *Add. MS.*, 14,866, fol. 48, dan y penawd "Cywydd i Syr William harbart, pan ddanfoned ef gan Ed. 4 yn erbyn Daid ap Ieuan ap Einion ac yn erbyn Conwy a Dinbech 1461;" ond ar ddiwedd y cywydd yn yr ysgriflyfr hwnw dywedir fel hyn:—"Gytto or Glyn ai cant a llawer o gerdd dda arall ir gwr hwn." Ac yr ydym yn cymharu y darlleniad hwnw gyda'r cywydd fel y mae yn *Y Piser Hir*. Y mae yn argraffedig hefyd yn *The Records of Denbigh*, pp. 202-3, lle ceir "Gutto'r Glynn A.D. 1468" ar ei ddiwedd.

Buom mewn peth petrusder a roddasem y cywydd hwn i mewn ai peidio, o blegid, pwy bynag oedd yr awdwr nis gallai mai Iolo Goch ydoedd—hyny yw, os cyfansoddwyd ef ar yr achlysur a nodir uchod. Ond rhag ofn i rywun a'i gwel yn *Y Piser Hir*, gydag enw Iolo Goch wrtho, yn ddi-feddwl ei briodoli iddo, yr ydym yn ei roddi i fewn er mwyn cael cyfleusdra i gywiro y camgymeriad.

Yr oedd Syr William Herbert, yn ol golygwyr Lewis Glyn Cothi, yn Gymro o enedigaeth, iaith, a disgyniad; ac yr oedd yn bleidiwr selog i dŷ Caerefrog. Ar y cyntaf o Fai, 1461, penodwyd ef gan Edward IV. yn brif farnwr ac ystafellydd Deheudir Cymru; ar y 4ydd o Dachwedd, yn yr un flwyddyn, gwnaed ef yn farwn; ar y 3ydd o Chwefror, 1462, rhoddwyd iddo gastell, tref, ac arglwyddiaeth Penfro; yn 1463, gwnaed ef yn ynad heddwch dros sir Feirionydd; ac yn 1467, penodwyd ef yn brif ynad Gogledd Cymru am ei fywyd; ar y 27ain o Fai, 1468, gwnaed ef yn iarll Penfro—ac efe oedd y Cymro cyntaf er darostyngiad Cymru gan

Edward I., a gafodd y teitl hwnw. Yr oedd yn un o'r rhai a gymmerwyd yn garcharorion ym mrwydr Banbury, Gorphenaf, 1469; ac yn fuan ar ol hyny torwyd ei ben yn Danesmore. Ceir câh iddo gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 58).

Dengys yr amseriadau uchod mai nid Iolo Goch oedd awdwr y cywydd. A'r tebygolrwydd ydyw mai Guto'r Glyn, yr hwn oedd yn gydoeswr â Lewis Glyn Cothi, a'i cyfansoddodd.

Tri llu aeth o Gymru¹ gynt,
 Trwy Wynedd y trawenynt;²
 Llu'r Pil, llu Arglwydd William,
 4 Llu F'ewynt³ bu hwynt ba ham;
 Tair ffordd clawdd tir Offa hên,
 Siwrnai William sarn Elên,⁴
 Arglwydd Herbert a'i barti,⁵
 8 A'th luoedd Duw a'th lwydd di;
 Glew wyt a gai lu ag ost,
 Hin dda weithian pan ddaethost;⁶
 Dewinai y doi Wynedd,⁷
 12 A dwyn Môn i'r dŷn a'i medd
 Lloegr pawb a roi eu llygaid,
 O cheisiwch Harddlech o chaid;⁸

¹ "Gymbru."—*Add. MS.*, 14,866.

² "Trywenynt."—*Add. MS.* Trawenu=*to pass over*.

³ "Fiewnt"—*Add. MS.*; "Vepwnt"—*Rec. of Denbigh*.

⁴ Elen Llwyddawg, gwraig Macsen Wledig. Dywedir ym "Mreuddwyd Macsen Wledig" (*Mabinogion*, Oxford edit., p. 89) i Elen feddwl gwneuthur prif ffyrdd o bob caer i'w gilydd ar draws Ynys Prydain. Gwnaed y ffyrdd, a galwyd hwynt ar ei henw. Gelwid Sarn Helen yn *Via Occidentalis*; ac arweiniai o Gaerfyrddin, trwy Sir

Aberteifi, heibio Mawddwy, i Domen y Môr, lle yr ymunai â ffordd arall—y *Western Watling Street*—gan gyfeirio am Gaernarfon.

⁵ "Ath gerti."—*Add. MS.*

⁶ "Glaw gynt a gae lu ag ost hindda weithian pan ddeuthost."—*Add. MS.*

⁷ "Dewinai i tage Wynedd." *Add. MS.*

⁸ "Berw lloegr pawb a roi i llygaid, pan geissiech Hardlech o chaid."—*Add. MS.*

- Chwedl Bonfras o gâs i gyd
 16 Blaenfain fu bobl ynfyd ;¹
 Chwedl Blaenfain uwch brain bro
 Bonfras Arglwydd ar Benfro ;²
 Pan friwed un Penfro dêg
 20 Pa well Castell rhag gosteg ;³
 Bwriaist ysgydwaist godwm,
 Ben Carreg† Cenneg i'r Cwm ;⁴ tq. Castell Carreg
 Ni ddaliawdd ei chlawdd achlan, Cannen, yn Sir
 24 Uwch Harlech mwy na chorlan ;⁵ Gaerfyrddin.
 Ni phery na thŷ na thwr,
 Na chan caer na choncwerwr,⁶
 Tair câd aeth or tair-gwlad⁷ tau,
 28 Trwy Wynedd fel taranau ;
 Tair plaid yn Gatoniaid tyn,
 Tair mil naw mil yn Nywmyn ;⁸
 Dy frodyr milwyr y medd,
 32 Dy genedl, Deau, Gwynedd ;⁹
 Dy werin oll dewrion ynt,
 Drwy goedydd dreigiau ydynt ;

¹ " Chwedl bomfras o gas y gyd
 blaenfain oedd ir bobl ynfyd."

Add. MS.

" Bonfras " mewn gwrthgyfer-
 byniad i "Blaenfain," mae'n debyg.

² " Chwedl blaenfain nis train
 ach tro
 bonfras arglwydd o Benfro."

Add. MS.

³ " Ba well castell rhag gosteg
 ban fwrie wal benfro deg."

Add. MS.

⁴ " Bwriaist ergidiaist godwm
 beŷ carreg cymeŷ i'r cwm."

Add. MS.

⁵ " Ni ddaliawae nai glawdd yslan

ywch harddlech mwy no
 herddlaŷ."—*Add. MS.*

⁶ " Nis eris na thu na thwr
 nachan-caernachwngnerwr."
Add. MS.

⁷ " Teirgwlad."—*Add. MS.*

⁸ " Teirplaid yn gâpteineid ynn
 teirmil nawmil yn gowmyn."
Add. MS.

Gwelwn y gair *Caten* am *gapten*
 yn *Balliol MS.*, 353, fol. 6 :—" a
 Darothe gwreic Latham oed Sar-
 geant or Caten yr brenin Harri
 viiith."

⁹ " Dy genedl i doi Gwynedd."
Add. MS.

- Dringai lle nid elai da,
 36 Dy rwydd-feirch dorr y Wyddfa;¹
²Tros greigiau mae d'olau di,
 Tir ar y gwnait Eryri;³
 Da y mynnaist dymun-waith,
 40 Drwy ladd ag ymladd fu'a gwaith;⁴
 Dyrnod an-ufudd-dod fu,
 Darnio Gwynedd ai dyrnu;
 O bu'r tir Herbert wrawl,
 44 Heb gredu'r modd y bu'r mawl;⁵
 E fu ar bawb feio'r byd,
 E ddifeiodd ei fywyd;⁶
 Fo a ar ffo feur ffydd,
 48 Ag o phaid e gaiff fedydd;⁷
 Chwithau na fyddwch weithian,
 Greulon wrth ddynion a thân;
 Na ladd welch a wnai wledd ynn,
 52 Gwynedd fal Pedr y Gwenyn;⁸
 Na fwrw dreth ar dy fro draw
 Na allant ei chynnullaw;⁹
 Na friw Wynedd yn frynar,¹⁰
 56 Nad i Fôn fyned i fâr;
 Nad y gweiniaid i gwynaw,
 Na brâd na lledrad rhag llaw;¹¹

¹ "Dringai lle nid elai'r da
 d'orwyddfeirch dorr y widd-
 fa."—*Add. MS.*

² Yn blaenori y llineif hon yn
Add. MS. ceir:—

"Torres dy wyr mewn tair stal
 trwy weunydd tiroedd ynnial."

³ "Dros greigiau mae dolau di
 tir ar i gwnayt Eryri."

Add. MS.

⁴ "Od emynaist Dàn ennyd
 drwy ladd ag ymladd y gyd."

Add. MS.

⁵ "Heb gredu, fal i bu bawl."

Add. MS.

⁶ Nid ydyw y ban hwn yn *Add.*
MS.

⁷ "A vu ar fai ar var fudd
 o ffaid e a gaiff fedydd."

Add. MS.

⁸ "Pedr y gwenwynn."

Add. MS.

⁹ "Na fwrw dreth yn y fro draw
 ni aller i chynnyllaw."

Add. MS.

¹⁰ "Yn franar."—*Add. MS.*

¹¹ Nid ydyw y ban hwn yn *Add.*
MS.

- Nad trwy Wynedd blant Rhonwen¹
 60 Na phlant Hors yn y Fflint hên
 Nad farglwydd un swydd i Sais
 Na'i bardwn i un Bwrdaï;²
 Barna'n iawn Brenin ein iaith
 64 Bwrw yn tân eu braint un-waith
 Cymer wŷr Cymru'r awron,
 Cwnstabl o Farnstabl i Fôn,⁴
 Dŵg Forganwg a Gwynedd,
 68 Gwna yn un Gonwy a Nedd;⁵
 O digia Lloegr a'i Dugiaid,⁶
 Cymru⁷ a dru yn dy raid.

Iolo Gôch a'i cant.

¹ Rhonwen, neu Rowena, oedd ferch i Hengist; â'r hon y syrthiodd Gwrtheyrn Gwrtheneu mewn cariad. Cymmerodd hi yn ordderch-wraig, a chafodd dri o blant o honi, sef Cyndeyrn, Gwrtheyfyr Fendigaid, a Pasgen (*Text of the Bruts*, pp. 135-8).

² "Na ad farglwydd swydd i Sais
 nai bardwn i un bwrdaï."
Add. MS.

³ "Barna yn iawn brenin yr
 iaith

a bwrw'n tan i braint un-waith."—*Add. MS.*

⁴ "Kymer wyr Kymry'r rowron
 Kwnstabl o varnstabl i fôn."
Add. MS.

⁵ "Drwy forganwg a Gwynedd
 a gwna yn un o Gonwy i
 Nedd."—*Add. MS.*

⁶ Ceir llinell gyffelyb yn Cywydd
 Rhif XX., llin. 40 :—
 "A ddigia r bædd ai ddugiaid."

⁷ "Cymbru."—*Add. MS.*

CANIADAU CANMOLIAETHOL A
MARWNADOL.

XXIII.

ARAITH I DDAFYDD AP BLEDDYN AP ITHEL LLWYD
AP ITHEL GAM ESGOB LLANELWY 1314.


Succeeded by T. Trevor 1352.

(O'r Add. MS., 14,964, fol. 63).

Y mae i'w gweled hefyd yn y *Delyn Ledr* (Add. MS., 14,873); ond nid oes ond ychydig wahaniaeth rhyngddynt. A dywedir yng nglŷn â'r penawd iddi gael ei chymmeryd allan o'r *Delyn Ledr*.

Yr oedd Dafydd ap Bleddyn yn aelod o deulu pendefigaidd a chyfoethog, fel y gwelir yn yr achau canlynol, a gymmerwyd o *History of Powys Fadog*, vol. iv., p. 154:—

Uchdryd ab Edwin ab Goronwy merch Rhys Sais ab Ednyfed,
Arglwydd Castell y Waun.



Yn 1314, olynwyd Llywelyn ap Ynyr gan Dafydd ap Bleddyn fel Esgob Llanelwy; ac yn flaenorol i hynny yr oedd yn un o'r Canoniaid. Ar yr amgylchiad hwn defnyddiodd y brenin, Edward II., ei hawlfraint i enwi un Nicholas de Huyate (Wyatt?) yn esgob, yr hyn a orfodai i Dafydd ap Bleddyn roddi iddo flwydd-dal o bump mlyn nes y penodid ef i fywoliaeth eglwysig. Yn 1321, flwyddodd Dafydd ap Bleddyn gael gan yr un brenin, at ei wasanaeth ei hun a'i ganoniaid, y tollau a godid ar ffeiriau neillduol yn Llanelwy. Yn ychwanegol at gadarnhau y rhodd hon, caniatäodd Edward III. naw a deugain o erwau o dir, gwerth £20, yn y Dyserth, Dincolyn, Nannerch, Coedymynydd, a Rhywlyfnwyd, iddo. Cymmerodd feddiant hefyd o Nantglyn er ychwanegu at gyllid yr Eglwys Gadeiriol, tuag at gynnal deg o ficeriaid, a thuag at weinyddu gwasanaeth yr offeren ddwywaith yn ddyddiol yn y capel oedd newydd gael ei adeiladu ar yr ochr ddeheuol i'r Eglwys Gadeiriol—lle y cynhelir y Llys Esgobol yn awr. Yn amser Dafydd ap Bleddyn y casglwyd ac yr ysgrifenyddyd yr ysgriflyfr a elwir "Llyfr Cöch Asaph" (*Liber Ruber Assavensis*); yr hwn a gynnwysai weithredoedd yr Esgobion a chofnodion am elusenau yr esgobaeth. Y mae y llyfr gwreiddiol ar goll; ond y mae dwy adysgrif o ranau o hono ar gael, y naill yn Llyfrgell Peniarth, Sir Feirionydd, a'r llall yn y Llyfrgell Esgobol yn Llanelwy. Olynwyd Dafydd ap Bleddyn yn Esgobaeth Llanelwy gan John Trevor I., yn 1352 (*Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph*, pp. 60, 61, 222). Gwelir fod "T. Trevor" yn y penawd yn wallus—"J. Trevor" a ddylai fod.

Y mae yr "Araith" ddilynol wedi ei chyfansoddi ar ffurf o ryw fath o Hir a Thoddaid, ond nid ydyw yn cyfateb i unrhyw fesur Cerdd Dafawd mewn arferiad cyffredin. Heb law hynny, y mae y gynghanedd yn nodedig o wallus, a'r llinellau yn aml yn rhy fyrion. Y mae yma ambell linell gywir, mae'n wir; ond yn lled eithriadol. Pa fodd bynag, y mae y bardd yn ceisio gwneyd iawn a'u ei ddiffygion

celfyddydol trwy bentyru digon o eiriau gwenieithus ar eu gilydd. Nid ydyw ei ganmoliaeth o'i wrthddrych mewn un modd yn brin. Y mae, yn y pennillion blaenaf, yn ei gyffelybu i luaws o gymmeriadau dysglaer—ond chwedlonol—y bummed a'r chweched ganrif. Cymmeriadau oedd y rhai hyn ag sydd yn cael eu portreadu fel ymgorfforiad o haelioni, dewrder, a doethineb; ond eto, yn ol Iolo Goch, yr oedd Dafydd ap Bleddyn wedi etifeddu eu holl rinweddau hwy yn ei berson ei hun.

Nid oes dim yn yr "Araith" ag sydd yn ein galluogi i benderfynu ei hamseriad; ond y mae yn amlwg iddi gael ei chyfansoddi rhwng 1314 a 1352; sef, pan yr oedd Dafydd ap Bleddyn yn Esgob Llanelwy. Ac, os cymmerir amgylchiadau ereill, megys oedran y bardd, i ystyriaeth, tybiwn y dylid gosod yr amseriad yn nes i 1352 nag i 1314.

1

Da iawn fu Fordaf¹ Naf nifeiriawg

Da fu Nudd² o fudd wrth anfoddawg

Da fu Run³ ei hun fu heniawg o serx

¹ Y Mordaf y cyfeirir ato yma, yn ddiammeu, oedd Mordaf Hael; ac nid Mordaf, Esgob Bangor, yr hwn a aeth gyda Hywel Dda i Rufain yn y ddegfed ganrif. Pen-aeth oedd Mordaf Hael a flodeuai yn y bummed ganrif. Arweddodd fywyd crefyddol, a rhestrir ef ym mhlith y Seintiau Cymreig. Cyfeirir ato yn "Chwedlau'r Doethion" (*Iolo MSS.*, p. 253), fel y canlyn:—

"A glywaist ti chwedl Mordaf,
Oedd un o'r Triwyr haelaf?

O'r drygau gorau'r lleiaf."

Yn "Trioedd Ynys Prydain" (*Myv. Arch.*, p. 397), dywedir wrthym pwy oedd ei gymheiriaid mewn haelfrydedd:—

"Tri hael ynys Prydain a Rhyderch hael vab Tutual Tutclyt. a

Nud hael vab Senyllt a Mordaf hael vab Serwan."

² Pendefig a flodeuai yn y chweched ganrif oedd Nudd Hael, mab Senyllt ab Cedig. Rhestrir yntau ym mhlith y Seintiau Cymreig, a dywedir ei fod yn aelod o Goleg Illtyd. Ac os gwir a ddywedir mewn Triawd arall (*Myv. Arch.*, p. 408), gallasai yn hawdd fod yn hael, o blegid yr oedd yn berchenog ar ugain mil ac un o wartheg blithion.

³ Yr oedd amryw yn dwyn yr enw hwn—Rhun mab Brychan Brycheiniog, Rhun mab Leon Gawr, a Rhun mab, ac olynedd, Maelgwn Gwynedd. O bosibl mai at yr olaf y cyfeirir yma. Cyasylltir ef yn y Trioedd (*Myv. Arch.*, p.

Da fu Rydderx¹ gwr ardderxawc

2

Da fu Ruawnbefr² da fu Efrawg³

Da iawn fu Feiriawn⁴, da fu Fwrawg⁵

396), gydag Owain ab Urien a Rhuawn Befr, yn un o'r "Tri Gwynndeyrn Ynys Prydein."

Cyfeithir y ddwy linell gan y Dr. Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Heiniawg") fel y canlyn :—"Good was Rhun, who was himself *diseased* from love; good was Rhyzerç, a dignified man."

¹ Blodeuau Rhydderch Hael yn yr hanner olaf o'r chweched ganrif. Efe oedd brenin Brythoniaid Ystrad Clwyd, gogledd Lloegr, a phreswyliaid yn Aelclwyd (Dumbarton yn awr). Cymmerodd ran ym mwrwydr Arderydd, lle y gorchfygodd Aeddan Fradawg a Gwendoleu ab Ceidio.

² Rhuawnbefr oedd fab i Gwyddno Garanhir. Yr oedd yn un o arweinwyr brwydr Cattraeth, a chlodforir ef gan Aneurin am ei wrhydri yno. Lladdwyd ef mewn brwydr, a rhoddwyd ei bwysau o aur am ei gorff, o herwydd yr hyn y rhestrir ef yn y Trioedd (*Myv. Arch.*, p. 397) gyda dau ereill fel y canlyn :—

"Tri eur gelein ynys Prydein. Madawc uab Brwyn. a Cheugan Peillyawc. a Ruuawn Peuyr ab Gwyddno."

Dywedir mai yr un oedd Gwyddno Garanhir a'r hwn a elwir mewn llyfrau diweddar yn Dewrarth Wledig, neu fel y gelwir ef yn y *Mabinogion*,

Deorthach Wledic, a Dorarth Wledic.

³ Efrog Gadarn, yr hwn a olynodd ei dad, Membyr, i orsedd Prydain. Yn ol Sieffre o Fynwy, gwr mawr, cadarn, a dewr oedd Efrog, a bu yn gwledychu ar ynys Brydain am ddeugain namyn un o flynyddoedd. Efe oedd y cyntaf, ar ol Brutus, a aeth â llynges i Ffrainc, lle yr ennillodd amryw frwydrau, ac a adeiladodd Gaerefrog ar ol dychwelyd oddi yno. Bu iddo ugain o wragedd, ugain o feibion, a deg ar hugain o ferched; ei fab hynaf oedd Brutus Tarian Las. Ac yr oedd yn gydoeswr â Dafydd brenin Israel (*Text of the Bruts*, p. 63; *Myv. Arch.*, p. 484).

⁴ Yr oedd Sant yn y chweched ganrif, yr hwn oedd frawd i Einion Frenin, ac yn fab i Owain Danwyn, o'r enw Meirion. Yr oedd penaeth hefyd o'r un enw yn blodeuo yn y bummed ganrif, yr hwn oedd yn fab i Tybiawn ab Cunedda. Cafodd ei dad ei ladd tra yn brwydro yn erbyn y Gwyddelod, y rhai oeddynt wedi goresgyn Gwynedd. Ond ar ol i Meirion eu gorchfygu a'u hymlid ymaith, daeth i feddiant, yn hawl ei dad, o gantref Meirionydd.

⁵ Mwrog — nawddsant Llanfwrog, ym Môn, a Llanfwrog, Sir Ddinbych.

Gwr coedd mwyn oedd Mynyddawg¹—Eiddin
Da Gynir² dewin gair godidawg

3

Da fu Forier³ hoywner muner manawg
Da fu Edwin⁴ ddaw i'n Frenhin freiniawg
Goruxaf adaf barnaf Eudaf⁵ oediawg

¹ Un o brif arwyr brwydr Cattraeth oedd Mynyddog Mwynfawr. Efe oedd pendragon y gogledd ar ol Urien Rheged; a myn rhai mai o'i achos ef a'i wraig yr ymladdwyd y frwydr grybwylledig (*Y Beirniad*, llyfr v., tudal. 139, 292); ond dywed Skene (*Four Ancient Books*, vol. ii., p. 369) mai ffugenw ar ryw berson adnabyddus oedd Mynyddog, yn golygu "gŵr o'r mynydd." Gelwir ef hefyd yn Mynyddog Eiddyn, neu *Eiddin* yn ol y testyn.

² Cynin oedd sant a flodeuai yn y bummed ganrif. Yn ol rhai yr oedd yn fab i Brychan, ond ŵyr yn ol ereill; a dywedir mai efe a sefydlodd eglwys Llangynin, yn Sir Gaerfyrddin. Hwyrach mai gwall ydyw *Gynir* am *Cynin*.

³ Nis gwyddom pwy oedd Morier, os nad ffurf arall ydyw ar Morien. Yn y drydedd gyfres o'r Trioedd (*Myv. Arch.*, p. 405)—sef y gyfres leiaf ei gwerth o honynt—dywedir:—

"Tri Estron Deyrn ynys Prydain: Gwrddyled Gawr, a Morien Farfawc, a Chystenyn Fendigaid."

Diammeu mai at hwn y cyfeirir yn y "Gododin" (*Myv. Arch.*, pp. 8, 20) lle, mewn gwahanol ddarlenniadau, y gelwir ef yn Moryen, Emorem, a Morem.

⁴ "Da fu Edwin Ddewin frenin freiniawg."—*Add. MS.*, 14,873.

Yr oedd yr Edwin hwn, fel y gwelir oddi wrth yr achres, yn un o hynafiaid Dafydd ap Bleddyn. Yr oedd yn Arglwydd Tegeingl, Sir Fflint, ac yn benaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Mab ydoedd i Goronwy ab Einion ab Owen ab Hywel Dda (*Harl. MS.*, 1,969).

⁵ "Goruchaf a Daf barnaf Eudaf oediawg."

Add. MS., 14,873.

Ai tybed mai Eudaf, Iarll Erging ac Euas, oedd hwn? Os felly, cymmerodd feddiant o Goron Prydain, os gwir a ddywedir ym Mrut Sieffre o Fynwy, yn absennoldeb Trahaern, yr hwn a aethai gyda Chystenyn ar ryfelgyrch i Rufain. Pan ddychwelodd Trahaern bu llawer o ymladd rhyngddynt; ond y diwedd fu i Eudaf fradlofruddio ei wrthwynebydd. Daeth mor gyfoethog yn y diwedd fel nad oedd yn hawdd i'r un brenin ymryson ag ef. Cadwodd ei awdurdod hyd nes y daeth gwyr Rhufain, y rhai a'i cynghorasant i roddi ei ferch, Elen wrth ei henw, yn wraig i Macsen ab Llywelyn (*Text of the Bruts*, pp. 109, 115). Y mae y Brut ei hun yn llawer mwy chwedlonol na hanesyddol; ond y mae awdwyr diweddar yn ychwanegu ato. Dywed Rowlands (*Mona Antiq. Rest.*, p. 169) mai Elen Lueddog, neu Luyddawg, oedd

Da fu heb gelu Goel Gydebawg.¹
 Da fu Eiriol² enau eiriau orïawg
 Ys gwell gar i Bell gŵr pwylllog—balxryw
 Ni bu ei gyfryw llyw gallu³g.

4

Os rhaid manegi pwy rhi yrhawg
 Dafydd ap Bleddyn yw'r dyn donïawg

merch Eudaf; ond hæra Thomas Stephens (*Beirniad*, llyfr v., tudal. 292) mai gwraig Mynyddog Eiddin (Gwel tudal. 271, *supra*) oedd merch Eudaf, ac nid gwraig Macsen Wledig. Ond, fel y gwelir oddi wrth y nodyn canlynol, nid ymddengys yn eglur pa Elen ydoedd, os oedd yn bôdoli y gwbl.

¹ Coel Godebog, o Gaer Coelin, yr hwn a elwir weithiau yn Iarll Caerloyw, ydoedd fab i Tegfan ab Deheufraint, a Brenin Prydain dan y Rhufeiniaid yn y drydedd ganrif. Daeth i'r orsedd trwy ladd Asclepiodotus mewn brwydr; gwnaeth heddwch â Chysteint, y Rhaglaw Rhufeinig, yr hwn a briododd Elen ei ferch ef, o'r hon y cafodd Gystenyn Fawr. A'r Elen hon, yn ol Brut Sieffre, oedd Elen Llwyddawg (*Text of the Bruts*, pp. 107-8). Ond ym "Mreuddwyd Macsen Wledig" (*Mabinogion*, Oxford edit., pp. 87-91) dywedir mai merch i Eudaf oedd Elen Lwyddawg—gwraig Macsen Wledig.

² Ni wyddom am neb yn dwyn yr enw Eiriol. Ai nid gwall ydyw am Eidiol? Yn ol y chwedleuwr Sieffre o Fynwy, Eidiol Gadarn, iarll Caerloyw, oedd yr unig Frython a allodd ddianc o'r wledd drychinebus hono a gynhaliwyd "ym maes Kymry"—rhwng Hen-gist a'r Sacsoniaid a Gwrtheyrn a'r

Prydeiniaid, yr hon a adwaenir wrth yr enw "Brad y Cyllill Hirion," pryd y llofruddiwyd 460 o'r rhai olaf. Pan welodd Eidiol pa fodd yr oedd y Sacsoniaid yn gweithredu, cymmerodd bawl cadarn yn ei law, gyda'r hwn y tarawai bob Sais a'i cyfarfyddai, hyd nes iddo ladd cynnifer a deg a thriugain o honynt. (*Text of the Bruts*, pp. 139-40, 160). Cyssylltir Eidiol Gadarn, gyda Gwrnerth Ergydlym a Gwgawn Lawgadarn, yn y Trioedd diweddaraf (*Myv. Arch.*, p. 407) fel "Tri Gyrddion ynys Prydain;" a'r orchest a wnaeth Eidiol i deilyngu yr anrhydedd hwnoedd lladd o'r "Saeson ym mrad Caersallwg chwechant a thrigain a chogail gerdin o fachlud haul yd yn nhywyll." Gwelwn felly fod deng ŵr a thriugain y "Brut," a ysgrifenywyd yn y ddeuddegfed ganrif, wedi cynnyddu yn fawr dan law ysgrifenydd y Trioedd. Ond y mae cryn amheuaeth a fu y fath gyflafan erioed a "Brad y Cyllill Hirion." Nid ydyw Gildas, yr hwn a ysgrifennai o fewn can' mlynedd i amser Gwrtheyrn, yn son am dani; ac ni chyfeirir ati gan Bede, na'r un ysgrifenydd arall hyd Nennius. Nennius yw y cyntaf i son am dani, ac y mae Sieffre o Fynwy wedi ychwanegu llawer at y chwedl.

Gwr perffaith iawnwaith enwawg—sancteiddbryd
Gwr o lwyth Uxdryd¹ nid bryd Branawg.²

5

Gwr digrif, gwr rhif,³ nwyf tylwythawg
Gwr teuluaidd doeth, gwr cyfoethawg
Gwr digabl⁴ roen⁵ xwaen xwanawg—i Gerddlais
Gwr a gar Priflais Prelad Baglawg.

6

Gwr gwiw gwyl ydyw, Gwr goludawg,
Gwr gwar hygar, car coronawg
Gwr Iessin lladdwin letenfawg⁶—cydostwng
Gwr diflwg teilwng talaidd gwisgawg

7

Gwr cowir a gwir a gwardawg
Gwr cymmen llawen lliw cenhedlawg
Gwr coedd rhwydd wersoedd cydwese assolawg⁷
Gwr cwbl ei gampau cenau cynawg.⁸

¹ Uchdryd ab Edwin ab Goronwy
(Gwel yr achres ar ddechreu yr
Awdl).

² Y mae y Dr. Pughe (*Geiriadur*,
a.v. "Branawg") yn egluro y gair
fel hyn:—

"Branawg, a. (bràn) of the
nature of a crow.

Davyz ab Blezyn yw'r dyn
doniawg—

Gwr o lwyth Ugdryd, nid bryd
branawg.

Davyz the son of Blezyn is the
virtuous man; one of the tribe of
Ugdryd, this is not the uncertain
presage of a crow."

Ond y mae yn debyg fod gan y
bardd ryw berson neillduol mewn
golwg.

³ "Rhif," orhŷaidd = *pre-eminent*.

⁴ "Digabl" = disen = (*free from
reproach*). Ceir Llywelyn Brydydd
Moch yn defnyddio y gair yn yr
ystyr hwn yn ei gân i Llywelyn ab
Iorwerth (*Myv. Arch.*, p. 211):—

"Yr digabyl barabyl gan bawb
oe uann

Digrifwch elwch elyf egwan."

⁵ "Roen" = rhoi, hyny yw, o
gyssylltu y gair gyda'r gweddill
o'r llinell, yr oedd Dafydd yn hael
wrth gantorion.

⁶ "Letenfawg"—cyfeiriad at y
Litani? Y mae Lewis Glyn Cothi
(*Gwaith*, tudal. 240), yn defnyddio
y geiriau:—

"A Letni o Vair gan ofeiriad,
A Luwt ac organ gan brelad-
iaid."

⁷ Addolawg?

⁸ "Cenau cynawg" = yn deilliaw
o gyff boneddig, mae'n debyg.

8

Gwr dwyfawl i hawl hwyl anlufoddawg¹
 Gwr celfydd dedwydd' a godidawg
 Gwr atto Mair gair gorfodawg
 Gwr iawn hoyw radlawn 'n hirhoedlawg
 Gwr hyborth i borth, aberthawg—gwisga
 Gwrda'n lle Assaf² iawn lluosawg.

¹ Anloeddog ? (= *wealthy, affluent*, &c.)

² Sefydlwyd Esgobaeth Llanelwy, meddir, gan Cyndeyrn (*St. Kentigern*), yr hwn, ar ol bod yma am amser, a ymadawodd gymmeryd

gofal eglwysig yn Glasgow, gan adael Llanelwy dan ofal eiddysgybl, Asaf. Oddi wrth Asaf, neu Asaph, yr hwn oedd fab i Sawyl Benuchel ab Pabo Post Prydain, y cafodd yr esgobaeth ei henw Seisonig.

XXIV.

CYWYDD MARD. TUDUR FYCHAN, TREF Y CASTELL,
YM MON.

(O'r *Add. MS.*, 14,970, fol. 87).

Y mae i'w weled yn *Add. MSS.*, 14,866 ; 14,868 ; 14,894, a 14,964—yn yr olaf dan y penawd "Cywydd Marwnad Tudur ap Goronwy o Ben Mynydd ym Môn Tad Owain Tudur;" yn *Jesus MS.*, C. 101, p. 105, ceir ef dan y penawd "Cywydd Marwnad Tudur Vaughan;" yn *Y Piser Hir*, p. 112, dan y penawd "Cywydd Mar. Tudur Fychan, Tref y Castell;" ac y mae 32 o linellau (neu yn hytrach 30) o hono mewn ysgriflyfr yn Llyfrgell Rydd Caerdydd, dan y penawd "Main Melin," ac yn dechreu fel y canlyn:—

"U Twr ychaf or tri-chant
Ow ayd a dyst hyd v̄ dant."

Ond nid ydyw y ddwy linell yma yn perthyn i'r cywydd o gwbl. Pa fodd bynag, fel yna y dechreua cywydd "I ofyn Main Melin," o waith Lewis Mon, a welir yn *Add. MS.*, 14,866. Y mae y cywydd canlynol yn argraffedig hefyd yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 6, dan y penawd a'r eglurhad a ganlyn:—

"CYWYDD MARWNAD TUDUR AB GRONW, O BENMYNYDD, MON. Y gwr hwn ydoedd dad-cu i Syr Owain Tudur, yr hwn a briododd Catharine, gweddw y Brenin Harri y Pummed; o'r hon briodas yr hanodd Harri y Seithfed. Bu farw Tudur ab Gronw yn y flwyddyn 1315."

Y mae y penawdau anghywir uchod wedi achosi i rai amseru genedigaeth Iolo Goch yn y rhan olaf o'r drydedd ganrif ar ddeg. Ond bydd yn hawddach eu beirniadu ar ol

dyfynu rhan o achres y Tuduriaid o Benmynydd o'r *Arch. Cambr.* am 1869 (vol. xv., Third Series, opposite p. 379) :—

Ednyfed Fychan, about 1220, bore a chev. betw. three Saxons' heads couped. 2ndly. Gwenllian vch Rhys, Prince of South Wales.

Grono, did homage to Edward I. Morfydd vch Meuric.

Tudor hên ap Grono founded the Carmelite Friary in Bangor, about 1276, and was subsequently buried there; did homage, in 1301, to Ed. of Carnarvon. Angharad vch Ithel Vychan.

Grono, buried at Bangor, 1331. Gwerfil vch Madoc o'r Hendwr.

Tudor Vychan ap Gronw. He assumed knighthood, and bore *gu.* a chev. between three close helmets *arg.* Died 1367. Margaret vch Thomas ap Llewelyn ap Owen. Hoell owned half Penmynydd in 1352, and the whole in 1371.

Gronw Fychan = Myfanwy.

Drowned 23 March, 1382; Forester of Snowdon.

William.

Rhys.

Meredydd ap Tudor = Margaret vch David Vychan ap David Lloyd.

Tudor, heir; minor in 1392.

Morfydd, heiress = Gwylim ap Gruffith of Penrhyn, Sheriff of Anglesey in 1395-6, etc.

Tudor Vychan = Annes, d. of Robert cir. 1430. Puleston of Emral.

Owen ap Meredydd = 1428, Katherine ap Tudor, called Owen Tudor. of Valois, Queen of England, widow of Henry V.

Mewn ysgriflyfr ym meddiant Mr Edward Griffith, Springfield, Dolgellau, a ysgrifenwyd oddeutu 1550, ceir y cofnodiad a ganlyn (tudal. 353), yr hwn sydd yn cytuno mewn rhan, ac yn anghytuno hefyd, a'r achres uchod :—

"Oed Xt pan fu farw Tudur ap Grono ap Ednyfed Vn.

1311 11 y dydd o fis Hydref ai gladdu yn Mynachlog Bangor ai esgyrn yn y mur. Oed Xt pan gladdwyd Grono ap Tudur ap Grono ap Ednyfed Vn. ym Mynachlog Vangor yn aŷrhydeddus 1331 yr 11 o fis rhagfyr Oed Xt pan gladdwyd Tudur ap Grono ei fab yntef yn y mur y du Deheu ir gafell 1369 y 19 o fis Medi Oed Xt pan fu farw Rees ap Tudur ap Grono 1412 ai gladdu yno. Llyfr Sr Dafydd Vān o law Gytun Owen."

Fe welir yn yr achres dri Tudur ab Gronw; a gwelir hefyd nad ydyw pawb yn cytuno gyda golwg ar y flwyddyn y bu y cyntaf—Tudur Hēn ab Gronw—farw. Dywedir yn *Add. MS.* 14,978, fol. 11, iddo adeiladu Mynachlog Bangor yn 1301, ac iddo gael ei gladdu yno yn 1311; ac i ychwanegu at y dyrswch, dywed un (*Arch. Camb.*, vol. xv., p. 286) ei fod yn fyw mor ddiweddar a 1352; a'i fod, er ei wahaniaethu oddi wrth ei ŵyr, yn cael ei alw yn Tudur Hēn ab Gronw. Tybiwn fod yma ryw gangymmeriad. Ond pa fodd bynag am hyny, y mae yn amlwg mai ar ol ŵyr Tudur Hēn ab Gronw y cyfansoddwyd y cywydd Marwnad sydd yn dilyn y llinellau hyn. Y mae y *Tudur Fychan* a geir ar ddechreu llin. 10 a 12 yn profi hyny; ac yr oedd efe yn *daid* i Owain Tudur. Ond nid ydyw yr achres uchod yn gwbl eglur i ni, yn enwedig mewn perthynas i enwau ei feibion. Yn yr achres, dywedir mai ei feibion oedd Gronw, William, Rhys, a Meredydd. Ond mewn cywydd arall o eiddo Iolo Goch (Rhif XXV.), enwau ei feibion oedd Gronwy, Rhys, Ednyfed, a Gwilym; ond ni enwir Meredydd o gwbl. Drachefn, yn *Hist. Powys Fadog*, vol. ii., pp. 134-5, yr oedd gan Tudur Hēn ab Gronw dri mab, sef Gronw, Howel (yr hwn a fu farw yn ddiblant), a Madog, yr hwn fu yn dal y swydd o Archddiacon Môn, ac wedi hyny yn Abad Aberconwy. Etifeddodd Gronw ei fab, heb law ei etifeddiaeth ei hun, ran ei frawd Howel ar ol ei farwolaeth; ac felly, yr oedd yn berchenog Tref Castell, Penmynydd, Arddreiniog, a Thref Gayan, y rhai a adawodd ar ei ol i wrthdrys y cywydd dilynol. Ac ychwanega

fod i Syr Tudur Fychan bump o feibion, set Gronw Ednyfed, Gwilym, Meredydd, a Rhys. Cytunir yma hefyd mai y Meredydd hwn oedd tad Owain Tudur. Bydd genym ych ydig o eiriau yng nghylch y meibion hyn eto, pan y deuwn at y cywydd a gyfansoddwyd iddynt hwy. Pa fodd bynag, dylem sylwi yma nas gall y Chevalier Lloyd fod yn gywir pan yn dyweyd i Gronw, mab Tudur Hên ab Gronw etifeddu ar ol ei frawd Howel; o blegid, yn y lle cyntaf, os cywir yr achres uchod, nid brawd i Howel oedd Gronw, eithr ewythr iddo. Yn ol yr achres, bu Gronw farw yn 1331, â'r hyn y cytuna y Chevalier Lloyd. Yn ol yr achres, brawd Tudur Fychan ab Gronw oedd Howel, ond nis gallasai y blaenaf etifeddu ar ol yr olaf, o blegid bu farw Tudur yn 1367, tra yr oedd Howel yn fyw yn 1371, pa faint bynag yn ddiweddarach. Ond y mae genym bob lle i gredu i blant Tudur ddyfod i feddiant o'r lleoedd a nodwyd. Rhydd Powel (*Hist. Wales*, edit. 1702, p. 314), yr hanes canlynol am Tudur ab Gronw:—

“Yn amser Edward y Trydydd yr oedd Syr Tudur Vaughan ab Grono yn byw; yr hwn a hanai mewn llinell uniongyrch o Ednyfed Vaughan, ac oedd o ran ei etifeddiaeth, gallu, a dylanwad, yn un o'r rhai penaf yn holl Ogledd Cymru. O herwydd rhyw amcan, naill ai uchelgais neu fympwy, cymmerodd arno ei hun anrhydedd marchog; gan orchymmyn i'r bobl ei alw a'i gyfarch fel Syr Tudur ab Grono, fel pe yn brudio ac yn rhagweled y buasai rhai o'i lwynau ef yn codi â chanddynt hawl i roddi yr anrhydedd hwnw. Y brenin Edward, ar ol cael ei hysbysu o'r cyfryw hyfdra anarferol, a anfonodd am Syr Tudur, ac a ofynodd iddo pa fodd y bu mor hyf ag ymyryd â'i hawlfraint ef, trwy gymmeryd arno ei hun anrhydedd marchog heb ei awdurdod. Atebodd Syr Tudur fod ganddo ef hawl, yn ol deddfau a sefydliadau y Brenin Arthur, i gymmeryd arno ei hun y teitl hwnw, yn gymmaint ag y perthynai iddo y tri chymhwysder, y rhai pwy bynag a fyddai yn eu meddu, a roddent hawl iddo, yn ol y deddfau

hyny, i urdd marchog. Yn gyntaf, yr oedd yn foneddwr; yn ail, yr oedd ganddo etifeddiaeth ddigonol; ac yn drydydd, yr oedd yn wrol ac anturiaethus: gan ychwanegu ym mhellach, 'Os bydd i'm gwroldeb a'm dewrder gael eu hammeu, Wele! dyma fi yn taflu fy maneg i lawr; ac er llawn brofi fy ngwroldeb, yr wyf yn barod i ymladd gydag unrhyw un, pa beth bynag fyddo.' Y brenin, gan ei fod yn cymmeradwyo ac yn hoffi ei bybyrwech a'i benderfyniad, oedd hawdd ei ddarbwylllo i gadarnhau anrhydedd marchog arno."

Ymddengys i Syr Tudur (yn ol *Arch. Camb.*, vol. xv., p. 289) fod ddwywaith yn briod. Ond mam y plant a nodwyd genym oedd Margaret, ferch Thomas ap Llywelyn ap Owen. O bosibl nad hon oedd ei ail wraig; o blegid gwr cyntaf Margaret oedd William ap Griffith de la Pole, Arglwydd Mawddwy. Yr oedd Margaret yn chwaer i fam Owain Glyndwr; ac felly, yr oedd ei phlant yn gefnderoedd i'r gwron hwnw. Y mae yn wir nad oedd Owain amgen rhyw wyth mlwydd oed pan y bu farw Syr Tudur; ond y mae yn dra thebygol mai trwy ei gyfeillgarwech â'i rieni y daeth Iolo Goch yn adnabyddus â'r Tuduriaid o Fôn.

Yn y *Myvyrian Archaiology* ceir cyfres o gywyddau i'r Tuduriaid gan Gruffudd ab Iorwedd:—

- I Dudur vab Gronwy. Tudal. 293.
- I Dudur ap Goronwy o Benmynydd. Tudal. 294.
- I Dudur. Marwnad. Tudal. 295.
- I Dudur. Marwnad. Tudal. 295.
- I Dudur. Tudal. 296.
- I Dudur pan oedd glaf. Tudal. 296.
- I Dudur fab Goronwy. Tudal. 297.
- I Dudur neu Ronwy. Tudal. 298.
- I Oronwy fab Tudur. Tudal. 298.
- I Oronwy pan oedd glaf. Tudal. 300.
- Marwnad Oronwy Fychan a foddodd. Tudal. 301.
- I Sr. Howel ap Gruffudd. Marwnad. Tudal. 301.
- I Hywel ap Gruff. ap Tudur. Marwnad. Tudal. 302.
- I Ronwy Fychan ap Tudur. Tudal. 303.

Y mae cywyddau Gruffudd ab Maredudd yn llawer tywyllach, ac yn fwy hynafol eu harddull, nag eiddo Iolo Goch. Gellid tybied wrth eu darllen fod eu hawdwr yn blodeuo oddeutu can' mlynedd o flaen Iolo. Ond wrth eu cymharu, yr ydym yn dyfod i'r penderfyniad mai i Tudur Fychan ab Gronw yr oedd Gruffudd ab Maredudd yn canu; o blegid, fe welir iddo ganu amryw hefyd i Oronwy ei fab yr hwn a foddodd. Nid ydyw cywyddau Gruffudd na Iolo yn taflu ond ychydig o oleuni ar hanes personol Tudur Fychan. Ond y mae y naill fel y llall yn rhoddi iddo gryn lawer o ganmolïaeth ac y mae pob un o honynt yn ei osod allan fel milwr dewr. Pa fodd bynag, yr ydym yn methu a chael dim yn y cywyddau, nac ychwaith mewn cofnodion ereill, i'n galluogi i werthfawrogi ei wasanaeth yn y cyfeiriad hwnw.

Er fod y penawd i gywydd Iolo yn rhai copiâu yn dyweyd ei fod "o Benmynydd;" eto, yn y cywydd ei hun dywedir mai yn Nhref Castell y preswyliai; ac yn ol yr erthygl yn yr *Arch. Camb.* vol. xv., p. 285, yr oedd Tref Castell, yn 1352, ym meddiant Howel a Tudur fel cydberchenogion; Penmynydd, un ran rhyngddynt hwy, a'r rhan arall gan Abad Aberconwy; tra yr oedd Arddreiniog ym meddiant Howel, ei frawd Tudur, ac un Rhees ap David. Pa fodd y daeth y maenoriaethau hyn wedi hyny i feddiant plant Tudur sydd gwestiwn na fedrwn ei ateb; ond, fel y cawn ddangos eto, felly y bu. Ond yn ol y cywydd a ganodd Iolo i'w feibion, ymddengys y byddai Tudur ar amserau yn Mhenmynydd.

Bu farw Tudur Fychan ab Gronw, fel y crybwyllwyd eisoes, yn y flwyddyn 1367, neu yn 1369 yn ol ysgriflyfr Mr. Edward Griffith; ac y mae yn ddiddadl i'r cywydd canlynol gael ei gyfansoddi yn fuan ar ol hyny. Mewn canlyniad, nis gellir mewn un modd ei ystyried fel un o gyfansoddiadau boreuaf yr awdwr; ac nid ydyw ei amseriad yn cynnorthwyo dim arnom, fel yr haerir ei fod, tuag at benderfynu amser ei enedigaeth. Ceir yn y cywydd un neu ddwy o ffeithiau ydynt yn taflu goleuni ar arferion

yr oes ; yn eu plith awgrymir i Tudur gael ei gladdu mewn arch, yr hyn sydd yn bwysig, gan y dywedir gan rai nad oedd eirch mewn arferiad yn yr oes hono. Ni ddywedir gan Iolo ym mha le y claddwyd ef. Ond Mynachlog Bangor oedd claddfa y teulu ; a diammeu mai yno y claddwyd yntau. Tybiwn fod y dernyn canlynol gan Gruffudd ab Maredudd yn cadarnhau hyny ; yr hwn, gan nad yw ond byr, a ddyfynwn, fel y gallo y darllenydd gymharu ei waith ef gydag eiddo Iolo :—

“ Doeth i blaid eirchiaid erchyll
 Hir annerch a hwyr ynnill
 Brwydr gwirlafn trev Castell
 Brwyn a dogn gwyn oi dygn goll
 Rhagorawl pob rhyw giried
 Oedd fy Arglwydd Udd fawrglod
 Traws ofyn tir treisysiad
 Tra sefis cyn trais ofid
 Gwae fi lorf eurgorf gwawr aergur cyfarf
 Gwayw didarf gwiw Dudur
 Gwasgu llew gwas glew gleifddur
 Gwaisg haerngaen ym maen mur
 Aml uch grann o'i hynt Fangor
 I'm didyr deigr am Dudur
 Aelaw ynof ei alar
 Elyn gryd Alun gryfder.” (*Myv. Arch.*, p. 296).

Er mor anhawdd ei ddeall ydyw cywydd Iolo Goch, o herwydd gwallau y copiŵyr, fe wel y darllenydd ei fod yn llawer hawddach na'r dernyn uchod, yr hwn sydd yn enghraifft eithaf teg o gynnyrchion ereill yr awdwr.

Clywais¹ doe² im clust deau³
 Canu corn cyfeiliorn cau

¹ “ Klowais.”—*Jes. MS.*

³ “ Ddeau ”—*Add. MS.*, 14,964,

² “ Ddoe ”—*Add. MS.*, 14,964, a a *Jes. MS.* ; “ dīau ”—*O. Ll. G. Jes. MS.*

- Ie Dduw ai wedd ddiorn¹
 4 Pa beth yw ei gyfryw² gorn,
 Galargyrn Mychdeyrn³ Môn
 Gogleiswyd Beirdd gwag loesion,⁴
 Da darf⁵ yw hwn gwn gannoch⁶
 8 Pa ymfust i'm clust mal cloch.
 Marw y chwedl pencenedl coeth⁷
 Tudur, arf awchddur wychddoeth,⁸
 Ni furniai⁹ ddim o'i farwnad,
 12 *Fychan*, marchog midlan¹⁰ mad,

¹ "O Vair pann ywr gweddiorn."

Jes. MS.

"O Fair fam y gweddiorn!"

C. Ll. G.

Y mae yn amlwg ddigon fod yma ryw ammhuredd yn yr holl ddarlleniadau. Gallem dybied mai ymgais a geir yma i osod allan y meddylddrych fod y bardd yn clywed swm rhyw gorn yn hofran yn yr awel, ac yn gofyn yn ddifrifol pa beth a allai fod yr achos o hono.

² "Yw y gyfryw Gorn"—*Add. MS.*, 14,964; "yw y cyfryw gorn."—*C. Ll. G.*

³ "Melldeyrn"—*Add. MS.*, 14,964, a *Jes. MS.*; "a melldyrn"—*C. Ll. G.* Yn *Jes. MS.* a *C. Ll. G.*, y mae llin. 5-8 yn dilyn llinell 14. Gosodir y llinellau gan y Dr. W. O. Pughe yn ei *Eiriadur*, gyda chyfieithiad, yn y drefn a ganlyn:—

"Gwerw iawn yw gware orn
 Gydgerz rhwng clog ac udgorn;
 Galargyrn mygdeyrn Môn,
 Gogleisiaw beirz gwagleision."

"Very bitter is to ring a peal, in concert between a bell and organ; the horns of lamentation for the sovereign of Môn are grating to the bards of empty sounds."

⁴ "Gwaglwysion"—*Add. MS.*,

14,964; "gwagleision"—*Jes. MS.* a *C. Ll. G.*

⁵ "Pa dwrw"—yn y llyfrau ereill; ac y mae yn fwy naturiol.

⁶ "Ganoch."—*C. Ll. G.*—h.y., can' ooh.

⁷ Yn *Jes. MS.* a *C. Ll. G.* y mae llin. 9 yn dilyn llin. 4; "Marw y chwedl," hyny yw, y mae y bardd yn ateb y cwestiynau blaenorol trwy ddyweyd mai adroddiad am farwolaeth "pencenedl coeth" ydyw yr achos am y swm oedd yn ei glustiau. "Marw gyxwedl" yn *Add. MS.*, 14,964; a "Marw-chwedl" yn *C. Ll. G.*; ond y mae darlleniad y testyn yn llawn cystal—"Marw y chwedl"—Marw yw y chwedl. Yn ol llafar gwlad, y mae "cloch mewn clust" yn arwydd sicr o farwolaeth.

⁸ "Wch ddoeth"—*Jes. MS.*; ond yn anghywir.

⁹ "Furniwn"—*Add. MS.*, 14,964, gyda "Farnad" ar ddiwedd y llinell; "fyrnia"—*Jes. MS.*; "furniais"—*G. Ll. G.* Y gair cyfystyr a "furniais" ar waelod y ddalen yn *C. Ll. G.* ydyw *pentyr*.

¹⁰ "Mvdlan"—*Jes. MS.*; "mudlan"—*C. Ll. G.* "Midlan" (= ymorcheetfa) ydyw y ffurf arferol.

- Chwerw iawn yw geñym a chwyrn¹
 Gydcerdd rhwng clych ag udcyrn,²
 Pa weiddi pwy a wyddiad³
 16 Yw hwn a glybwn⁴ i'n gwlad,
 Ubain a llefain a llid⁵
 Am y gwr mwya gerid,⁶
 Tudur wasgarwr tewdorf
 20 Tad helm enwog *luriog* lorf⁷
 Calon pawb nis coeliwn pwy
 Calon doethion Tindaethwy⁸

¹ "Xwern yw genym a xwyrn."

Add. MS., 14,964.

"Chwerw iawn yw chwareu orn."—*Jes. MS.*

"Chwerw iawn genyf chwareu orn."—*C. Ll. G.*

Nid ydym yn gallu canfod dim synwyr yn "chwareu orn" = *to play at a push (or threat)*; ond y mae darlleniad y testyn yn hollol ddealladwy.

² "Cloch ag utgorn"—*Jes. MS.* a *C. Ll. G.*

³ Yn *Jes. MS.* a *C. Ll. G.* y mae llinell 15 yn dilyn llinell 8.

⁴ "Glywn"—*Add. MS.*, 14,964; "glown"—*Jes. MS.*; "glywwn"—*C. Ll. G.*

Yn y llinellau dechreuol yn y cywydd y mae y bardd yn holi ac yn ateb; ac yn llin. 15-16 y mae yn gofyn a oes rhywun yn gwybod beth ydoedd yr holl waeddi a'r galaru oedd i'w glywed trwy y wlad yn gyffredinol. Y mae trwy hyn yn ceisio dangos fod galar cenedlaethol ar ol Tudur, ond ei fod yn cymmeryd ffordd led ryfedd i ddyweyd hyny.

⁵ Prin yr ydym yn gweled y priodoldeb o ddefnyddio y gair "llid" yn y cyssylltiad hwn. A

oedd y bardd yn teimlo yn *ddigofus* o herwydd marwolaeth Tudur? Teimlo yn *hiraethus* y byddys yn gyffredin. Nid ydyw "Ubain, a llefain rhag llid," a geir yn *C. Ll. G.*, yn ymddangos yn ddim eglurach.

⁶ "Mwya a gerid"—*Jes. MS.*, yr hyn sydd yn llawn mor ddealladwy, ond y mae yr *a* yn gwneyd y llinell yn rhy hir o sill.

⁷ Nid ydyw y ban hwn yn y llyfrau ereill.

⁸ "Colon pwyll nis celwn pwy Colon doethion Dindaethwy."

Add. MS., 14,964.

"Kael y pwyll nis cela pwy Calon doethion tindaethwy."

Jes. MS.

"Cael i'm pwyll, ni's celaf pwy,

Calon doethion Tindaethwy."

C. Ll. G.

O'n rhan ein hunain, tybiwn mai *Jes. MS.* ydyw y goreu yma, trwy ei fod yn arddangos y bardd wedi dyfod i'w bwyll o'i wylltineb, ac yn dechreu sylweddoli pwy oedd wedi marw.

Yn ol "Parthau Cymru (*Myv. Arch.*, p. 734) yr oedd cantref Rhosyr, ym Môn, yn cael ei ranu i ddau gwmmwd, sef Tindaethwy

- Llygrwyd Mon *mynllaw* Egryn¹
 24 Llygrwyd oll lle gorau dyn,²
 Llygrwyd Cymry³ gwedy gwart⁴
 Llithriced pobl llwyth Riccart,⁵
 Dwyn llew⁶ bryn byrddau dan llaw
 28 Dadwreiddiwyd ei dy drwyddaw,⁷
 Dygn ymchwel dwyn Hywel hardd
 Dygn waeth dwyn brawdfaeth bridfardd⁸

a Menai, y rhai a furfiant y rhan-barth dde-ddwyreiniol o'r ynys, gan ffinio ar y Fenai. Yr oedd cwmwd Tindaethwy yn cyfateb, ar y cyfan, i ddeoniaeth wladol Tindaethwy, yr hon a gynnwysa y plwyfi canlynol:—Llanfaes, Llangoed, Llanddegfan, Llanddona, Llanddyfnan, Llanfairpwllgwyn-gyll, Llansadwrn, Penmynydd, a Pentraeth.

¹ "Myn llaw grynedig," yn ol yr eglurhad a geir ar waelod y ddalen yn *C. Ll. G.* Ond y mae yn llawn can debyced genym mai tyngu, bron wrth fyned heibio, yr oedd y bardd, ar law Egryn Sant, yr hwn a flodeuai yn y seithfed ganrif; a'r hwn, meddir, a sefydlodd eglwys Llanegryn, ym Meirionydd.

² "Goreu."—*Add. MS.*, 14,964.

³ "Gymru"—*Jes. MS.*; "Cymru" *C. Ll. G.*

⁴ "Gwedi gwart"—*Jes. MS.*, a *C. Ll. G.*

⁵ "Llethriced yw llwyth Riccart."—*Add. MS.*, 14,964.

"Llithriked hoedl llwyth Riccart."—*Jes. MS.*

"Llithriced oedd llwyth Rhicart."—*C. Ll. G.*

Nis gwyddom at ba beth y cyfeirir yn y llinell hon, os nad at rai o

hynafiaid Tudur a fuant yng ngwasanaeth Richard I.

⁶ Cyffelybir Tudur i'r "llew," yr hyn sydd yn fwy naturiol na "llwyth," yn ol darlenniad *Add. MS.*, 14,964.

⁷ "Dadwreiddio i du drwyddaw." *Jes. MS.*

"Dadwreiddio ei dŷ drwyddaw."—*C. Ll. G.*

⁸ Yn y llyfrau ereill y mae y ban hwn yn dilyn llinell 34; ond y maent yn amrywio yn y darlenniad:—

"Dygn ymxwedl dwyn hoedl hardd

Pand gwaeth dwyn browdfaeth bridd fardd."—*Add. MS.*, 14,964.

"Dygn vm chwedl dwyn hoedl hardd

Ys gwaeth dwyn browdfaeth bridfardd."—*Jes. MS.*

"Dygn ymchwedl dwyn hoedl hardd,

A gwaeth, dwyn brawd-faeth bryd-fardd."—*C. Ll. G.*

Credwn fod ein testyn yn anghywir wrth roddi "Hywel" yn lle hoedl. Cyfeirio y mae y bardd at farwolaeth Tudur ei hun, yr hwn a fu farw flynyddau o flaen ei frawd Hywel.

- Wyr *Ririd* lwyd¹ euraid lwyth
 32 *Flaid* ddifilandraidd flaendrwyth,²
 Dyrnod pen hyd ymmhennydd³
 Ar dylodion⁴ gwlad Fon fydd,
⁵Beth o daw⁶ heibiau hebom
 36 I'r Traeth coch⁷ lynges droch drom,
 Pwy a ludd gwerin, pwl ym,⁸
 Llychlyn a'u bwyail⁹ awchlym,
 Pwy a gawn, piau¹⁰ Gwynedd ?
 40 Pwy a ddyrchaif glaif neu gledd.¹¹
¹²Pwy nid wyl penyd alar
 Pwy mwy uwch Conwy ach câr ?

¹ "Lwyr."—*Jes. MS.*

² Nid yw y ban hwn yn *C. Ll. G.* ;
 ac y mae y ban dilynol iddo yn
Jes. MS. yn llinell 30.

³ "Hyd y Mennydd"—*Add. MS.*, 14,964 ; "hyd ymenydd"—*Jes. MS.*

⁴ "Dlodion."—*Add. MS.*, 14,964.
 Cyfeirir yma at haelioni Tudur a'i
 garedigrwydd tuag at y tlodion ; a
 meddyliai Iolo y byddai pob peth
 droedold arnynt ar ol iddo farw.

⁵ Yn blaenori y ban uchod yn
Add. MS., 14,964, ceir :—

"Llywiodd Wynnedd llaw ddinag
 Llas nen Môn wenn maenwâg."

"Llas penn Môn wenn i mae /n/
 wag."—*Jes. MS.*

⁶ "O daw"—*Jes. MS.*, a *C. Ll. G.*

⁷ "Traeth Coch" sydd feisfor yn
 y parth gogledd-ddwyreiniol o
 Ynys Fôn. Gallen feddwl oddi
 wrth a ddywed Iolo fod Tudur yn
 amddiffynnydd cadarn rhag ymosod-
 iadau tramorwyr—y Llychlyniaid.

⁸ "Pwy a ladd Gwerin/pwl ym."

Add. MS., 14,964.

"Pwy a lvdd pwl i ddyn."

Jes. MS.

"Pwy a lydd werin (pwl ym)."

C. Ll. G.

Y mae golygydd *Cein. Llen. Gymreig* yn rhoi "pwy a luydda" fel eglurhad ar y rhan gyntaf o'r llinell. Ond y mae yn amlwg mai gofyn yr oedd Iolo:—"Pwy bellach, wedi i Tudur fyned, a gawn yn ddigongalluog--oblegid pwl (diallu) ydym ni—i luddias gwerin Llychlyn i lanio?"

⁹ "Au Bwyell"—*Add. MS.*, 14,964 ; "ai bwyll"—*Jes. MS.* ;
 "a'u bwyll"—*C. Ll. G.* "Bwy-
 eill" = *battle-axes*.

¹⁰ "Pie"—*Add. MS.*, 14,964, a
Jes. MS. ; "piauw"—*C. Ll. G.*

¹¹ "Glaif ne gledd."—*Jes. MS.*
 Cleddyf cam ydyw "glaif."

¹² Nid ydyw y ban hwn yn *Jes. MS.* a *C. Ll. G.*

- 44 Gwedi marw y rhygarw rhugl¹
 Ffyniant hir² Naf Bryn³ Ffanugl,
 Aesawr oedd fawr iddo Farch
 Yswain wayw llithfain llwythfarch⁴
 Du lliw Mon Frehyrion Fro
 48 Dall tai bwyll Dellt ab Illo,⁵
 Gwyrennig⁶ car pwyllig pell
 Cawr troi cost carw Trecastell,⁷

¹ "Pan a fu farw rhygarw rhugl."—*Add. MS.*, 14,964.

"Gan farw fyngharw rhugl."

Jes. MS.

"Gan farw fy ngharw rhugl."

C. Ll. G.

Ymddengys y ddau ddarlleniad olaf yn well na'r lleill.

² "Hil"—*Add. MS.*, 14,964, *Jes. MS.*, a *C. Ll. G.*

³ "Brynn ffanygl."—*Jes. MS.*

"Hil Naf Bryn Ffanigl" o herwydd ei haniad o Ednyfed Fychan, yr hwn oedd Arglwydd Bryn Ffanigl, ym mhlwyf Bettws yn Rhos, Sir Ddinbych. Ac y mae tair o ffermydd yn y plwyf hwnw wedi derbyn en henwau oddi wrth Bryn Ffanigl, neu Bryn Ffenigl (*Y Cymrodor*, vol. x., p. 150).

⁴ "Ac aesawr oedd fawr ei fraix Yswain wayw llith^{raia}_{lata} llwythfr^{raia}_{lata}."

Add. MS. 14,964.

"Ag aisawr oedd vawr i fraych Yswain wayw llathfain llithfraych."—*Jes. MS.*

"Ac oesawroedd fawreifraich: Yswain wayw llithfrain, llythyr-fraich."—*C. Ll. G.*

Y mae yn amlwg fod y testyn yn

anghywir. Dysgrifir ef gan y bardd fel yswain, yn trin y darian a'r waywffon yn ddeheuig, a chyda braich gadarn. Yn dilyn y llinellau hyn yn y llyfrau ereill ceir:—

"Aesawr gwlad fawr golud fu Yswain brwydr syn i brudu."

Add. MS., 14,964.

"Aesor gwlad fawr golud fy Yswain brwydursy'n/i brydy."

Jes. MS.

"Asawr gwlad fawr golud fu; Yswain brwydr sy'n ei brydu."

C. Ll. G.

⁵ "Dillyn Mon . . . tro D'allai bwyll dull Abillo."

Add. MS., 14,964.

"Dillin môn freheyron fro Dalldai bwyll dellt ebilldo."

Jes. MS.

"Dillyn Môn frehuon fro Dealldai bwyll dellt ebilldo."

C. Ll. G.

⁶ "Gwyrenig" — *Add. MS.*, 14,964, *Jes. MS.*, a *C. Ll. G.*

"Gwyrenig" = o dwf ffaethus.

⁷ "Cartre'r cost carw Tre'r Castell."

Add. MS., 14,964

Cost "" = costus gwyech.

- 52 ¹Ffelaig² ysgythrddraig Uthr ddrud
 Ffu Mon o daw *ffw* a mud,³
 Gwae'r Deau rhaid⁴ maddau'r medd
 Gweddwi un gwae ddwy Wynedd,⁵
 Gwae'r iyrch mewn llennyrrch mae'n llai
 56 Gwae'r ceirw am y gwr ai carai,⁶
 Gwae finnau⁷ heb gyfannedd
 Gweled bod mewn gwaelod bedd.
 Anhudded oer iawn heddiw⁸
 60 O ro a phridd ar ei ffrw,⁹

¹ Yn *Add. MS.*, 14,964, y mae y ban hwn yn dilyn llin. 44; ond yn *Jes. MS.*, y mae yn dilyn y llinell a ddyfynir yn nodyn 4 uchod (tudal. 286).

² Teyrnnon, neu lywydd.

³ Gwell o lawer ydyw y darllen- iad a geir yn y llyfrau ereill:—

"A phen Môn rhag ffo na mud."

⁴ "Gwaer deau er maddau medd."—*Jes. MS.*

⁵ "Gweddwi iawn, a gwae ddwy Wynedd."

Add. MS., 14,964.

"Gweddwi iawn gwae ddwy wynedd."

Jes. MS. a *C. Ll. G.*

Gwynedd uwch ac is Conwy.

⁶ "Gwae ierix ym *lleseirx* mae'n llai

Gwae'r ceirw am yr ai carai."

Add. MS., 14,964.

"Gwae ierch mewn llenyrch maen llai

Gwaer ceirw ddwyn gwn ai carai."—*Jes. MS.*

"Gwae'r ierch mewn llaneirch mae'n llai

Gwae'r ceirw, ddwyn gwr a'u carai!"—*C. Ll. G.*

⁷ Nid ydyw *Add. MS.*, 14,964, yn gywir wrth roddi "Fôn ai;" "finae" ydyw yn *Jes. MS.*

Tybiwn fod y llinell yn awgrymu y byddai Iolo yn arfer mynychu preswylfod Tudur; ac ei fod yn cwyno nad oedd ganddo mwyach le i gyfanneddu ym Môn.

⁸ "Anhunedd oer iawn henyw." *C. Ll. G.*

Tebyg mai "anhudded" = *exposed*, gan gyfeirio at y bedd agored, sydd gywir.

⁹ Y mae yr ysgriflyfr sydd genym fel testyn, yr hwn a ddilynir gan *C. Ll. G.*, yn gywirach na'r darllen- iadau a ganlyn:—

"A'i roi a phrioddar ei ffrw."

Add. MS., 14,964.

"O ro ffrwd ar i ffrw."

Jes. MS.

Rhoddi gro a phridd ar ei wyneb; "ffriw" ydyw *gwynebpryd*.

- Yn ddihir bod yn hirerw¹
 Ynghudd ei ddeurudd dan dderw²
 Nid ydoedd ef gynnefin³
 64 A rhyw wely gwedy gwin⁴
 Gnodach⁵ iddo wisgo'n waisc⁶
 Yn ymwanfrwydr ion mwynfraic⁷
 Helm gribog rudd-faelog fyth⁸
 68 A habrsiwn⁹ walch glew hybrsyth¹⁰
¹¹Pren a daearen dew arw
 A wisgwyd am frywysgarw

¹ "Bod yn ddihir yn nhir-erw."
Add. MS., 14,964.

"Tir erw" = y fynwent, yr hon a elwir weithiau gan y Sais yn *God's acre*. Yn y cyfreithiau a briodolir i Hywel Dda, yr oedd claddfa i fod yn erw gyfreithiol o hyd, gyda'i phen at y fynwent, ac mai hyny oddi amgylch i'r fynwent, a ddylai fod ei chwmpas (*Myv. Arch.*, pp. 982, 1035). A thymbiai Aneurin Owen fod erw yn 4,320 o latheni ysgwar.

² "Dan dderw" = mewn arch dderw.

³ "Nid ydoedd ef dra xynnefin."
Add. MS., 14,964.

⁴ "O riw welu gwedi gwin."
Jes. MS.

⁵ "Ag oer wely gwedi gwin."
G. Ll. G.

Nid gwely oer fel hwn, sef y bedd, oedd y gwely y gorphwysai Tudur ynddo ar ol mwynhau y gyfoddach.

Yng *Ngheinion Llennyddiaeth Gymreig* terfyna y cywydd yn y fan yma; a cheir y sylw canlynol ar waelod y ddalen:—"Y mae y rhan olaf o'r cywydd uchod yn annarllenadwy yn fy ysgriflyfr i."

⁶ "Gnottax"—*Add. MS.*, 14,964;
 "Knodach"—*Jes. MS.*

"Gnodach" (o *gnedi*) = mwy arferol ydoedd.

⁶ "Wiago yn waieg"—*Jes. MS.*;
 "gwaieg" = bywiog.

⁷ "Yn y manwyrdd ion Mwyn-waieg."—*Add. MS.*, 14,964.

"Yn ymwan frwydr ion ym-waieg."—*Jes. MS.*

Dangosir yma ei barodrwydd i wiago arfau milwrol gogyfer a brwydr, yr hyn a brofa ei wroldeb.

⁸ Y mae *Add. MS.*, 14,964, yn lled anghywir:—

"Helen gribawg rudd faawg fyth."

Llawer gwell ydyw darlleniad y *Jes. MS.*:—

"Helm gribog ryddfaog fyth."

⁹ "Habrsiwn (= *habergeon*) = llurig.

¹⁰ "Walx ewybrsyth."—*Add. MS.*, 14,964.

"Wr ewybrsyth."—*Jes. MS.*

"Ay hapsiwn wallt ay hopor syth."—*Tonn MS.*

¹¹ Yn blaenori llin. 71 ceir y ban a ganlyn yn *Jes. MS.*:—

"A llurig dromdew lew ladd dromlaes i fedry ymladd."

Ond nid ydyw llin. 69-70 yn y llyfrau ereill, nac yn *Jes. MS.*

- 72 Ni chollai wan gwinllan gwyr
Dref ei dad dra fu Dudur¹
Ni holid car ammharawd²
Odid y doi lid i dlawd³
4Na ynganer yng Ngwynedd
76 Na ddalier ych dan wych wedd⁶
Na sonier am adderyw⁷
Na lafurier ofer yw,
Na chwardder, yn iach heirddion,⁸
80 Na hauer mwy yn Nhir Môn.⁹

Iolo Goch ai cant.

¹ " Ni xollai'r gwan gwinllan gwyr
Dref ei dād tra fu Dudur."

Add. MS., 14,964.

" Ni chollai gwr winllan gur
dref i dad dra fy dydur "

Jes. MS.

Hyny yw, yr oedd Tudur yn am-
ddiffyn y gwan rhag cael ei orth-
rymu a'i yspeilio o'i feddiannau.
Dichon fod yma gyfeiriad at Ahab
yn yspeilio Naboth o'i winllan
(1 Bren. xxi.)

² " Ni phlygid gar Anarawd."

Add. MS., 14,964.

" Ni ffolid car amharawd."

Jes. MS.

" Ny ffaylwr caer amarawd."

Tonn MS.

³ " Odid yn wtleid tlawd."

Add. MS., 14,964.

" Odid od wtleid tlawd."

Jes. MS.

" Odid ydwyd llaid ũ tlawd."

Tonn MS.

Nid ymddengys llin. 73-74 yn

foddfaol yn yr un o'r ysgriflyfrau
hyn; ac yr ydym yn gwbl analluog
i awgrymu pa beth a feddyliai y
bardd. Ond gwyddom mai wrth
" wtleid " y golygir " alltud " =
outlaw.

⁴ Yn *Add. MS.*, 14,964, y mae y
ban hwn yn cael ei gyfleu ar ol yr
un dilynol iddo.

⁵ " Na ynganer ynGwynedd."

Add. MS., 14,964.

" Nag ynganer ynGwynedd."

Jes. MS.

⁶ iau = *yoke*.

⁷ Y gair tebycaf i " adderyw " a
welwn yn *Geir. Cymraeg* D. Silvan
Evans yw " addar " = *arable*.

⁸ " Na xwardder am wyx heirdd-
ion."

Add. MS., 14,964.

⁹ " Na hayer mwy yn Nhir Môn."

Jes. MS.

Ystyriai Iolo farwolaeth Tudur
y fath drychineb cenedlaethol fel
mai ofer bellach fyddai hyd yn oed
llafurio y ddaear!

XXV.

CYWYDD PEDWAR MAB TUDUR LLWYD O BEN
MYNYDD YM MON.

(*O'r Add. MS., 14,970, fol. 77b*).

Y mae y cywydd i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,866; 14,882; 14,940, a 14,978; ac y mae ei ddechreu—26 o linellau—yn argraffedig yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones) p. 63.

Yr un oedd Tudur Llwyd—tad y meibion hyn—a Tudur Fychan ap Gronw, ar farwolaeth yr hwn y cyfansoddwyd y cywydd blaenorol. Yn ein sylwadau cyssylltedig a'r cywydd hwnw, sylwyd fod i Tudur bump o feibion, sef Gronw, Ednyfed, Gwilym, Meredydd, a Rhys. Ond ni enwir Meredydd o gwbl yn y cywydd canlynol. O linach Meredydd yr hanodd Owen Tudur, am yr hwn y sonir cymmaint fel ffynnonell y gwaed Cymreig yn llinach frenhinol y Tuduriaid. Buom ar y cyntaf yn ceisio egluro dystawrwydd Iolo am dano ar y dybiaeth fod Meredydd wedi marw cyn i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi, yr hyn, pe yn gywir, a fuasai yn ddigonol. Ond ar ol chwilio ym mhellach, daethom ar draws ffaith arall a gyfrifai, fel y tybiem, am y dystawrwydd, sef ddarfod i Meredydd gyflawni llofruddiaeth, ac mewn canlyniad iddo ffoi o'r wlad a byw mewn deoliad. Ond yn anffodus i'r ddwy dybiaeth, yn yr *Arch. Camb.*, vol. xv., pp. 380-1, dywedir y *tybir* fod Meredydd yn dal rhyw swydd dan Esgob Bangor, iddo ffoi o herwydd iddo ladd ynad Gogledd Cymru—William de Sutton; ond i un Kenrig ap Madoc, yr hwn oedd yn gyfranog yn y trosedd gael ei grogi am hyny yn 1425; ac fod Meredydd yn flaenorol i 1392 yn dal swydd bwysig dan

y Goron yn Sir Fôn. Ond pa beth bynag a allai fod yr achos, nid oes grybwylliad am Meredydd yn y cywydd hwn.

Y mae Iolo yn enwi y meibion bedair gwaith, gan roddi pob un o honynt yn gyntaf; gyda'r amcan, yn ddiammeu, o ochel rhoddi y flaenoriaeth i'r un o honynt. Y mae trwy hyn yn gwneyd y gorchwyl o benderfynu eu safle o hynaf i ieuengaf yn anhawdd. Er mwyn hwylusdod, gosodwn hwynt yma yn y pedair ffordd, gan eu cymharu â rhestr Chevalier Lloyd yn *Hist. Powys Fadog*, vol. ii., pp. 134-5 :—

Iolo Goch.				Chevalier Lloyd.
1	2	3	4	
Gronwy	Rhys	Ednyfed	Gwilym	Goronwy
Rhys	Ednyfed	Gronwy	Gronwy	Ednyfed
Ednyfed	Gwilym	Rhys	Ednyfed	Gwilym
—	—	—	—	Mareddydd
Gwilym	Gronwy	Gwilym	Rhys	Rhys

Nid ydyw y daflen achyddol yn yr *Arch. Camb.*, vol. xv., yn cytuno â'r un o honynt, gan ei bod yn eu gosod yn y drefn a ganlyn:—Gronw Fychan, William, Rhys, a Meredydd ap Tudor. Mewn canlyniad y mae yn lled anhawdd penderfynu y naill ffordd neu'r llall.

Ond y maent oll yn cytuno i osod Gronw yn gyntaf. Ymddengys oddi wrth y cywydd mai ym meddiant Gronw yr oedd Penmynydd. Yn ol yr *Arch. Camb.*, vol. xv., pp. 290-1, yr oedd Gronw mewn cryn ffafr gydag Edward y Tywysog Du, yr hwn a'i penododd dros ei fywyd i'r swydd a elwid *Forester of Snowdon*, am y cyflog o 7c. yn y dydd, neu £10 13s 0d yn y flwyddyn. Cadarnhawyd y penodiad gan Richard II., yr hwn, yn 1381, a'i gwnaeth yn gwnstabl Castell Beaumaris am y cyflog o 40 o forciau yn flynyddol,—ond ei fod ef dan orfodaeth i dalu i'r caplan, yr is-gwnstabl, a gwyliwr. Ond ni fu byw i fwynhau y swydd. Bu farw, trwy fodd, ddydd Sul, Mawrth 23, 1382. Mewn cywydd a gyfansoddwyd gan Gruffudd ap Meredydd (*Myv. Arch.*,

p. 301) awgrymir iddo foddi mewn canlyniad iddo ef, neu rywun arall, yted gormod :—

“ O'i ddirfedd a ddarfu
 Ai arfau ymrwydr a orfu
 A wyr ddrwg llwyr am ddraig llu
 Bu dygn bid ogyrch dolur
 Am fleinaid gwengad gwingar
 Boddi draig bleiddiad ragor
 Baedd yn aer byddin eryr
 Llawer och ior llawhir oedd.”

Yn ol Mr Edward Breese (*Kalendars of Gwynedd*, p. 122), penodwyd Gronw ap Tudur yn gwnstabl Castell Beaumaris, Mawrth 18, 1382, am y cyflog o £40 yn y flwyddyn. Yr oedd i twynhau y swydd am ei oes. Ond dywedir i Baldwin Radyngton ei olynu fel cwnstabl ar y 25ain o'r un mis—sef ym mhen deuddydd ar ol i Gronw foddi. Yr oedd penodiadau swyddogol, fel y gallem dybied, yn cael eu gwneyd mewn mwy o frys y pryd hwnw nag yn awr. Diammeu fod helyntion terfysglyd yr amseroedd yn galw am hyny.

Y mae yn amlwg mai marwnad iddo ef a ganodd Llywelyn Goch ab Meurig Hen (*Myv. Arch.*, p. 344), yn yr hon y dywed —

Gwae fyth gwr geir-syth gwyr gorsedd ei wlad
 Gronwy o'i ddygiad gwae rianedd
 Gwae bybyr aerwyr oerwedd eu chwarae
 Gwae a bod lle mae eu llyw ym medd

.

Yth ddifrawd arnam ath ddyfredd ath ddwg
 Ath ddihinaw drwg ath ddihinedd.”

Ceir cyfeiriadau gan Gruffudd ap Meredydd yn gystal a chan Llywelyn Goch at wrhydri Gronw yn Ffrainc, o bosibl yn anser y Tywysog Du.

Yr oll a wyddom am Ednyfed ydyw mai efe oedd yn meddiannu Tref Castell yng Nghwmmwd Tindaethwy, a Thref Gwenhelyth, yng Nghwmmwd Llifon; ac iddo adael ar ei ol ddwy ferch, Angharad a Myfanwy. Priododd Angharad Ieuan ab Adda ab Iorwerth Ddu ab Ednyfed Gam, o lys Pengwern yn Nanheudwy, o'r hwn yr hanodd teulu Mostyn (*Hist. Powys Fadog*, vol. ii., p. 135). Y mae awdwr yr erthygl a nodwyd yn yr *Archæologia Cambrensis* yn dyfynu o waith Richard Llwyd, yr hwn a ddywed mai Ednyfed oedd perchenog Tref Castell, ac i'w ferch briodi fel y dywedir uchod; ond y mae awdwr yr erthygl ar yr un pryd yn ammeu hyny. Ond y mae y cywydd canlynol yn ddigon o brawf o fodolaeth Ednyfed, ac mai efe oedd perchenog Tref Castell.

Ni ddywedir wrthym ym mha le yr oedd Gwilym ap Tudur yn byw, ond yn ol Iolo yr oedd ganddo gartref cysurus ym Môn, yr hwn a ddysgrifia fel—

“Llys Wilym lle llysieulawn
Llewpart aur lle parod dawn.”

Ond yr oedd Rhys, chwedl yntau, yn byw yn “arddreiniog” = Arddreiniog; a hysbysir ni ym mhellach gan y Chevalier Lloyd ei fod yn berchenog Arddreiniog a Thref Gayan; iddo farw yn 1412, a'i gladdu ym meddrod y teulu yn Bangor. Gadawodd ar ei ol ferch, Gwerfyl, yr hon a briododd Madog ab Ieuan ab Einion ab Howel fab Gruffydd ab Howel o'r Aber Cyn, plwyf Llanystumdwy (*Hist. Powys Fadog*, vol. ii., p. 135). Tybia awdwr yr erthygl yn yr *Arch. Camb.* mai cefnder oedd Rhys o Arddreiniog i blant Tudur Fychan; “er,” fel yr ychwanega, “fod gan Tudur fab o'r enw Rhys, ac un arall o'r enw William.” Ond y mae yn amlwg na welodd yr ysgrifenydd erioed y cywydd canlynol o waith Iolo Goch.

Bu Gwilym (William) a Rhys ap Tudur yn gadbeniaid y saethyddion (*captains of the archers*) yng ngwasanaeth Richard II.; ac fel y cytryw penododd y brenin, yn 1399,

flwydd-dâl o £10 yr un iddynt am eu hoes. Pan yr aeth y brenin i'r Iwerddon yn y flwyddyn hono, yr oedd Owain Glyndwr a'i gefnderoedd, Gwilym a Rhys, yn gadbeniaid yn ei fyddin; ac yr oeddynt ym mhlith y rhai a aethant gydag ef i Gonwy, ychydig o ddyddiau cyn ei ddiorseddiad. Wedi i Owain Glyndwr godi fel gwrthryfelwr, trodd ei ddau gefnder, fel y gallasem ddysgwyl, i'w bleidio. Cymmerasant feddiant o Gastell Conwy; ond gorfodwyd hwynt, yn 1401, i roddi y castell i fyny i Hotspur. Ond ymddengys iddynt barhau yn ffyddlon i Glyndwr wedi hyny, o blegid yn fuan drachefn dywedai Hotspur fod y Cymry yn heddychol heb law William ap Tudur a gwrthryfelwyr ereill ym mynyddoedd Gogledd Cymru. Ac yn 1406, yr oedd y ddau frawd yn dystion i ysgrif trwy yr hon y rhoddai Owain Glyndwr faddeuant i un Ioan ap Hywel ap Iefan Goch.

Y mae yn anhawdd penderfynu, o fewn rhyw ychydig o flynyddoedd, pa bryd y cyfansoddwyd y cywydd canlynol. Ond y mae yn amlwg iddo gael ei gyfansoddi ryw bryd rhwng marwolaeth Tudur ab Gronw, eu tad, yn 1367, a marwolaeth Gronw Fychan, yn 1382.

Mynd yr wyf i dir Mon draw

Mynych im ei ddymunaw¹

I ymwybod² a meibion

ymwybod !

4

Tudur fy Naf Mordaf Môn³

¹ Fel y gellir casglu oddi wrth rai cyfeiriadau yn y cywydd, nid oedd Sir Fon yn gwbl ddyeithr i Iolo; ond y mae y llinellau hyn yn awgrymu nad oedd wedi ymweled â'r ynys, neu oleiaf â phreswylfeydd y brodyr, er pan fu farw eu tad, er ei fod wedi dymuno hyny lawer gwaith.

² Yr oedd y copiwr yn synu at y gair "ymwybod," fel y gwelir ar ymyl y ddalen. Ond, fel y sylwa R.J., y mae y gair ynddo ei hun, heb

law ei fod yn gwasanaethu dybenion cynganedd, yn un eithaf priodol. Gesyd allan y meddylddrych fod y bardd yn ymweled â'r meibion er ffurfio cydnabyddiaeth â hwynt.

³ Yn y llinell hon y mae Iolo yn cyfeirio at eu tad fel ei "Naf" (=arglwydd); ac yn ei osod allan fel un haelionus, trwy ei gyffelybu i Mordaf Hael, yr hwn a fodeuai yn y bummed ganrif, yr hwn a restrir gyda Rhydderch a Nudd fel "Tri thywysog hael ynys Prydain."

- Gronwy Rhys ynys Hynaif¹
 Ednyfed Gwilym lym laif,
 Rhys, Ednyfed roddged rwy²
 8 Gwaywlym graen³ Gwilym Gronwy,
 Ednyfed Gronwy rhwy Rhun⁴
 Rhys Gwilym ail rhwyag Alun,
 Gwilym Gronwy yw'n Gwaladr
 12 Ednyfed rhoes ged Rhys gadr,
 Pedwar eglur pedroglion
Angelystor† gar mor Môn⁵ † Angelystor
 Pedwar Nudd⁶ Pedr i'w noddi⁷ *Evangelist.*
 16 Poed ar awr dda mawr i ni, I.M.
 Pedwarmaib pwy ai dirmyg?
 Plaid ni ad arnaf un plyg
 Iaith *ofigion* iaith *fuged*⁸
 20 Gwynedd, pedwar cydwedd oed

¹ "Hynaif" = hynafaid; ond o bosibl na ddefnyddir y gair yma yn yr ystyr o *reolwyr* neu *lynodraethwyr*.

² "Roddged rwy" = yn hael o'i roddion—yn eithafol felly.

³ "Graen" = eondra.

⁴ Yr oedd amryw yn dwyn yr enw hwn. Hwyrach mai at Rhun fab Maelgwn Gwynedd y cyfeirir; yr hwn a restrir yn y Trioedd fel un o dri "Gwyndeyrn" ac fel un o dri "Aurhualogion" Ynys Prydain.

⁵ Yr oedd y pedwar mab, fel y gallem dybied, yn byw fel ag yr oedd eu preswylfeydd yn ffurfio math o bedrogyl (*quadrant*); a chyffelybir hwynt i'r pedwar efengylwr. Ond o bosibl mai y tebyg-olrwydd mwyaf rhyngddynt â'r rhai hyny oedd eu rhif. "*Angelystor*, 'Evangelista.' A corruption

of *evangelistor*." (*Elucidarium*, p. 265).

⁶ Rhag nad oedd wedi rhoddi ar ddeall fod y brodyr o duedd haelionus, y mae yn cyffelybu y pedwar i Nudd Hael.

⁷ Yr oedd, ac y mae, y Pabyddion yn ystyried nawdd Pedr yn hynod o bwysig, ac yn un o'r bendithion mwyaf.

⁸ "Plaid ni âd im ddim plyg
 Iaith o figion, iaith fyged."

R.J.

Sylwa R.J. fod yn amlwg fod y llinellau hyn wedi eu llygru, ac fod yn amhosibl eu deall fel y maent wedi eu hysgrifenu. Yr ydym yn cwbl gytuno ag ef; ond dymunem awgrymu fod "ofigion" yn deilliau o *gofydd* = rheolaidd; a "fuged" o *gafydd* = urddasol.

- Plant Tudur fy eryr fu¹
 Paunod haelion penteulu,
 Aerfa llu ar for liant²
- 24 Aur dorllwyth yw'r blaenffrwyth blant
 Teirw ergryd *haerllyd* eurllyn³ qu. haerllyd?
 Terydr aer taer ar y drin, I.M.
 Gwalchyddion Brodorion brwydr
- 28 Gwelydr⁴ wiw ergrydr eurgrwydr
 Barwniaid heb arynaig⁵
 Beilchion blanigion blaen aig⁶ aig!
 Cangau'r corf *cynhyllorfion*⁷
- 32 Calonnau emylau Môn
 Mon yr af,⁸ dymunaf reg⁹
 Mynydddir manwëidddeg¹⁰

¹ Dangosir yma fod y cyfeillgarwch rhwng Iolo a'u tad yn fawr, a'i fod yn ei barchu yn anghyffredin.

² Yn llythyrenol—"Brwydr y llu ar fôr llifeiriol." Ond y mae yn anhawdd gweled pa gyssylltiad sydd rhwng y llinell a'r hyn sydd o'i blaen neu ar ei hol. Y mae y diffyg hwn, sef diffyg trefn ac eglurder, yn nodweddiadol o'r beirdd yn gyffredin. Ac yr oedd Iolo Goch yn llawn mor barod ag un o honynt i wthio brawddegau anghyssylltiol i mewn i'w gwyddau. Y mae y cyssylltiad, feddyliem, rhwng y llinell hon a llinell 25.

³ "Teirw ergryd haerllyd eurllyn."—*R.J.*

"Ergryd" o ergrydr: teirw haerllyd (=ystyfnig) yn achosi i'r [gelynyon] grynu trwy eu hegriad diffino yn y "drin" (=brwydr).

⁴ "Gwelydr"—y lluosog o *gwaladr*=rheolwr, neu arweinydd.

⁵ "Heb arynaig"—heb ofn.

⁶ "Aig"—y lluosog o eigion = moroedd.

⁷ "Kangau llorf kyngyllorion." *Add. MS.*, 14,882.

Ond tybiwn mai y testyn ydyw y cywiraf; gan ein bod o'r farn mai wrth "corf" y golygir y colofnau hyn oeddynt yn gwahanu rhwng y rhan uchaf a'r isaf yn neuaddau tywysogion Gwynedd; a'r "cynhyllorfion" oedd y cyssylltiadau, mae'n debyg, oedd yn eu dal wrth eu gilydd.

⁸ Pe buasai rhywun llai na bardd yn ysgrifenu y frawddeg hon, heb yr arddodiad *I—I* Mon yr af—buasid yn ei gondemnio yn llym. Ond er mwyn i'r llinell fod yn ei hyd, yr oedd yn rhaid gadael yr arddodiad allan ac aberthu y synwyr.

⁹ "Reg"—anrheg. Yr oedd Iolo ai olwg a'r ryw anrheg neu gilydd i ba le bynag yr elai.

¹⁰ "Manweidd deg."—*Add. MS.*, 14,882.

"Manwedd deg"—of a subtle and fine quality.

- 36 Buarth clyd i borthi cler,
Heb wrthod neb a borthier,
*Clyswriaeth*¹ deg glwys oror
Clost aur mae'n clust daro'r mor²
Mam Wynedd³ mae im yno
40 Geraint⁴ da eu braint i'w bro
Cyntaf lle'r af llew a rydd
Caer pen Mon carw Penmynydd⁵
Ty gweles gynt teg wiwle
44 Tudyr Llwyd da ydyw'r lle,⁶
Yno mae heb gae⁷ ar ged
Ail drigaint Aelwyd Reged,⁸
Gâr⁹ da iawn gwr di anhoff
48 Gronwy loyw Saffwy¹⁰ lys hoff,
Arwain a wnaif i'm eurwalch
Wayw a phenwn¹¹ Barwn balch,

¹ Ai nid "clwyswriaeth" (= *enclosure*) a ddylai y gair hwn fod? Gan mai ynys yw Môn, wedi ei chau i mewn gan y môr, nid ydyw yn ammhriodol.

² Ofnwn fod y llinell hon yn wallus; fodd bynnag, y mae yn an-nealladwy i ni.

³ Nis gwyddom pa mor hynafol yw yr enw "Môn, mam Cymru"; ond geilw Iolo hi yma, er, o bosibl, yn ddamweiniol—yn *Fam Gwynedd*.

⁴ Nid ydyw y gair "ceraint," o angenrheidrwydd, yn golygu *perthynasau*; o blegid defnyddir y gair fel yn gyfystyr â *chyfeillion*. Yn yr ystyr yma y defnyddir y gair yn Nhestament Salesbury (Matt. xi., 19):—"Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin, car ir Publicanot a' phechaturieit."

⁵ Saif Plas Penmynydd presennol,

yr hwn sydd adeilad o'r arddull Elizabethaidd, yn yr un fan ag y safai yr hen —ym mhlwyf Penmynydd, ym Môn. Ei berchenog yn awr yw Ardalydd Môn, yr hwn a'i prynodd yn ddiweddar gan Syr Richard Bulkeley, o'r Baron Hill.

⁶ Yn ol y llinellau hyn, er yr ystyrir mai yn Nhref Castell y cartrefai Tudur, awgrymir ei fod ar brydiau, neu ar ryw adeg o'i oes, wedi bod yn preswyllo yn Penmynydd.

⁷ "Heb gae" = heb gauad, neu derfyn, ar ei roddion.

⁸ Cyfeiriad sydd yma, er nas gallwn weled y priodoldeb, at Urien Rheged, rhyfelwr enwog a flodeuai yn y rhan olaf o'r bummed ganrif.

⁹ Câr = cyfaill.

¹⁰ Saffwy = picell (— *lance*).

¹¹ Penwn = baner.

- 68 Caf yno heb *gweisio* gwell¹ nid gweisio
Cystal ag yn Nhre'r Castell in al.
Ol a gwrthol i'm gorthir
A wn at Rys,² gwys y gwir,
Ar draws Môn o dy Rys mwy
72 Di'rynaig³ i dy Ronwy
O Dy Ronwy da'r Ynys
Da ryw ymchwelai i dy Rys⁴
O dy Rys dur ei aesawr⁵
76 I dy Wilym⁶ mynd elw mawr,
Llys Wilym lle llysieulawn
Llewpart aur lle parod dawn
Anwyd rhag yno trigaf⁷
80 Yn y nef pand iawn a wna⁸

nyfed? Ynte, a oedd y bardd yn ystyried ei hun o ryw wasanaeth iddo, fel cyfrwng gwybodaeth, difyrwch, neu mewn rhyw ddull arall?

¹ Tebyg mai "geisio gwell" sydd gywir.

² Gallwn dybied fod yma ryw wall. Ond y mae yn eglur fod y bardd yn bwriadu myned yn ol drachefn o Dref Castell at Rhys i Arddreiniog; ac yn ol y llinellau dilynol, ar ol blino yr ail waith ar Rhys, arfaethai fyned unwaith yn rhagor at Gronw i Benmynydd. Fe gofir mai traethu cynllun o'i ymweliad bwriadedig, cyn cychwyn oddi cartref, y mae y bardd. Yn ol y cynllun hwn, yr oedd yn bwriadu aros yn hir ym Môn, os nad am dreulio ei oes yno; ac yr oedd am ranu ei amser rhwng preswylfeydd y pedwar brawd. Nid oes genym hanes iddo roddi y bwriad hwn mewn gweithrediad; ond y mae yn ddigon amlwg mai

nid yno y treuliodd y gweddill o'i oes.

³ "Di'rynaig" (di arynaig)=yn ddiiofn.

⁴ Dyma y trydydd ymweliad a th† Rhys.

⁵ "Aesawr" = tarian.

⁶ Y mae Iolo, *meion bwriad*, wedi ymweled ddwywaith â Gronw, teirgwaith â Rhys, unwaith ag Ednyfed; a dyma efe yn awr, am y tro cyntaf, yn myned i ymweled â Gwilym, ac yn bwriadu aros yno yn lled hir. Yn anffodus, nid ydyw yn rhoddi enw y t† lle yr oedd Gwilym yn byw.

⁷ Mwy dealladwy o lawer a fuasai "Rhag anwyd yno trigaf."

⁸ Credwn mai gwell ydyw y darlleniad a geir yn *Add. MS.*, 14,940:—

"Yn y nef ac iawn a wna."

Ymddengys ei fod yn ystyried "Llys Wilym" yn lle hyfryd.

Trefn Glorach¹ trafn goleuryw,
Tref yw o Fon tra fwy fyw.²

Iollo Goch ai cant.

¹ Nid oes air o'r fath yn ein geirlyfrau. Ai nid "clerach" a ddylasai fod. Y mae y gair "trafn" (= cylch ?) yn awgrymu hyny. Ac os cywir y dyfaliad hwn, bwriadu myned i Fôn ar *gylch clera* yr oedd Iollo.

² Er fod rhyw beth yn ddigon trwstan yn y darlleniad a geir yn *Add. MS.*, 14,940, eto credwn ei fod yn llawn cystal a'r testyn :—

"Tariaf i Fon tra fwy fyw."

Ond gwell fyddai—"Tariaf ym Môn tra fwy fyw."

XXVI.

KOWYDD BARNAD MEIBION DUDUR AP GRONW O
BENMYNYDD.

(*O'r Add. MS., 14,889, fol. 28.*)

Y mae y penawd yn yr ysgriflytr hwn mor ddrylliedig fel nas gellir darllen dim ond " arwn ap gro ;" ond ceir ef yn *Add. MS.*, 14,978, fol. 11, dan y penawd "Kowydd barnad meibion Dudur ap Gronw o Benymynydd." Drwg genym fod y ddau ysgriflyfr mor ddrylliedig fel ag y mae amryw o'r llinellau yn annarllenadwy. Achosa hyn gryn lawer o anhawsder i ddeall y cywydd; yr hwn, fel y gellir tybied, nid oedd ar y goreu yn un o'r rhai hawddaf. Yn y rhestr o weithiau Iolo Goch a geir yn y *Cambrian Journal*, 1854, p. 274, cyfeirir ato dan y penawd—"Marwnad Tudur ab Gronw, 1315." Ond credwn y ceir ynddo ddigon o brawf na fwriadwyd mo hono fel marwnad i Tudur ab Gronw, ond yn hytrach ar ol ei feibion. Gallem dybied i farwolaeth Ednyfed gymmeryd lle yn fuan ar ol boddiaid Gronw, yn 1382. Nid ydyw Gronw yn cael ei enwi yr un waith yn y cywydd, o leiaf yn yr ysgriflyfrau o'n blaen, ond enwir Ednyfed ddwy waith:—

"Boed yn nef i bo Ednyfed"—llin. 29.

"Aed i nef ag Ednyfed

i frawd vu giwdawd vu ged"—llin. 95-6.

Ond wedi'r cyfan, credwn fod yma gyfeiriadau hefyd at farwolaeth Gronw.

Yn y drydedd linell, gwelwn i'r amgylchiad a achlysurodd y cywydd hwn gymmeryd lle oddeutu'r Pasc; a chan mai ar y 23ain o Fawrth y bu farw Gronw, tybiwn y gallasai hyny fod yn agos i'r Pasc. Rhoddir ar ddeall i ni hetyd i'w

farwolaeth gymmeryd lle yn "Swydd Gent," a hyny trwy fodd, a cheir rhyw grybwylliad aneglur at "Gent" ym Marwnad Llywelyn Goch ab Meurig Hên i Gronw (*Myv. Arch.* p. 345). Yn yr ail linell o'r cywydd, enwir Penmynydd, preswylfod Gronw, tra mai yn Nhref Castell—yr hwn le ni enwir o gwbl—yr oedd Ednyfed yn byw.

Ar ol darllen y cywydd yn fanwl lawer gwaith, yr ydym yn dyfod i'r penderfyniad naill ai i'r ddau frawd fodd yr un amser, ac hwyrach gyda'u gilydd, neu yntè i Ednyfed farw, trwy amgylchiadau lled debyg, ym mhen blwyddyn neu ddwy ar ol ei frawd, ac i hyny ddygwydd tua'r un amser ar y flwyddyn. Y mae llin. 5 o'r braid yn ffafrio y golygiad olaf:—"Tebig iawn or tro³ bv gynt." Ond, beth bynag am gywirdeb y tybiaethau hyn, yr ydym yn dra sicr nas gall y cywydd fod yn farwnad i Tudur ab Gronw, nid o ran nas gallasai y bardd fod wedi cyfansoddi mwy nag un iddo—yr hyn oedd yn dygwydd yn aml—ond am y rheswm i Gronw ac Ednyfed oroesi eu tad, ac am danynt hwy y sonir yma. Nis gellir amseru y cywydd yn gynnarach na 1382.

- Llyma le diffaith weithion
 llys rhydd¹ ym hen mynydd mon
 2 llyma basg lle mae llwm bardd
 4 llef digys wedi llif digardd²
 3 tebig iawn or tro³ bv gynt
 Tudur ai blant da ydynt
 4 ydi'w'r llÿs wedi 'r llysv
 8 ir vanachlog ddonniog ddv⁴

¹ "Llys rydd ym hen mynydd mon."—*Add. MS.*, 14,978.

² "Llyma basg llei mae yn llwm bardd
 lle digys wedi lli digardd."

Add. MS., 14,978.

"Digys" (=digus)=anymunol: ond pa un ai y "llef" yntè y "lle" oedd yn anymunol? Golyga "digardd," yn ol Pughe, rywbeth

sefydlog="not straying, not transgressing." Ond pa fodd y mae yn briodol cymhwyso hyny at y "llif" sydd ormod o orchwyl i ni i'w egluro.

³ "Ty."—*Add. MS.*, 14,978.

⁴ Y darlleniad yn ol *Add. MS.*, 14,978. ydyw:—

"Ydyw llys wedir lle ffu
 ir fynach log ddaniel ddu."

- 24 ar ol y krefydd irioed
 28 kwfaint¹ o feibion kyfoed
 25 boed yn nef i bo Ednyfed²
 mon aeth y sowaeth³ yn sied⁴
 26 Hwn a fv farw garw gyffro
 32 gida i frawd a gadw i fro⁵
 27 gwae fon am i meibion maeth
 gwasgarog fydd gwaig hiraeth
 28 gosgeiddfawr⁶ welch gwaith addfwyn
 36 gwasgodion gwyr dvon dwyn⁷
 29 hardd oeddynt y'm morwynt mur⁸
 gwragedd mon ai gorevgwyr
 20 ner aethant oerfant arfoll
 40 mal ellyllon eillion oll⁹
 22 nid marw vn gwrda y môn
 diav¹⁰ heb wisgoedd dvon
 yr ynys . . well¹¹ kell kerdd
 44 22 i gelwid môn wegilwerdd¹²

¹ "Kofaint" (= "cwfent" yn y lluosog = *convents*), mae'n debyg, sydd gywir; a "kofaint" a geir yn *Add. MS.*, 14,978. Dysgrifir meibion Tudur yma fel rhai nodedig o grefyddol.

² "Boed y nef y bo ednyfed."
Add. MS., 14,978.

³ Ysywaeth = mwyaf gresyn.

⁴ "Sied."—*Add. MS.*, 14,978.
 "Shed" llygriad o *escheat* = fforffed.

⁵ "Hwn wnaeth farw garw gyffro gida i frawd i gadw i fro."
Add. MS., 14,978.

Er yr ymddengys y ddau ddarlenniad yn wallus, gellir casglu mai bwriad y bardd oedd cyfleu y ffaith fod y ddau frawd wedi marw.

⁶ "gosgeiddfawr" = lluniaidd:—
 "Gwasgeddfawr" yn *Add. MS.*, 14,978.

⁷ "gwasgeddfawr welch gwaig addwyn
 gwasgodion gwyr duon dwyn."
Add. MS., 14,978.

⁸ "Myr."—*Add. MS.*, 14,978.
 Diammeu mai "myr" = *moredd* a feddylir.

⁹ "Am ner aethant oerfant arfoll mal y llyllon eillion oll."
Add. MS., 14,978.

Y mae yma, galleu feddwl, grybwylliad am ryw wledd (= "arfoll") yr hon fu yn achlysur o'r trychineb.

¹⁰ Ceir yn y llinell hon gyfeiriad at wisgo galar-wisgoedd.

¹¹ "Dowell."—*Add. MS.*, 14,978.

¹² Y mae Rowlands (*Mona Antiq. Restaur.*, p. 24), yn dadleu mai yr ynys hon a elwid gan y Rhufeiniaid

- Llwyr i kafas llawr kyfwn
i chyfenw¹ ai henw i hwn²
y dydd tegkat³ haf hinon
48 nos fyth yn ynys fon⁴
.
a fydd nos hir o fowddwy⁵
mae ky mml val mwg gwymon
52 26 mal klipse i mi y mon⁶
hwyntav oll yn towyllv
27 ni wyl dŷn ond y niwl dv⁷
eithr eulun mai uthyr olwg
56 28 megis edrych mewn drych drwg⁸
y ddayaren oedd aravl
29 drwg hwn wedi dvo 'r havl⁹
30 Y dydd mawr des ydoedd mwy
60 i ddoethant i Dindaethwy¹⁰

yn *Ultima Thule*, yr hyn, medd efe, sydd gyfystyr â "Y Fôn Dywell"—sef y Fôn (bellaf) = *Ultima*, a Thywyll = *Thule*. A dywed ei bod yn dywell o herwydd amllder ei choedwigoedd, y pryd hwnw, yn nirgelfanau y rhai yr adeiladai y Derwyddon eu hallorau. Pa fodd bynag, y mae damcaniaeth Rowlands wedi bod amryw o weithiau dan feirniadaeth lem.

¹ "I lyshenw."

Add. MS., 14,978.

² Y mae y bardd yn dangos fod yr enw "Ynys dywell" a gafodd gynt yn lled briodol iddi yng ngwyneb yr amgylchiad oedd newydd gymmeryd lle.

³ "Tekaf."—*Add. MS.*, 14,978.

⁴ "Fydd nos fyth yn ynys fon."
Add. MS., 14,978.

⁵ "Y dydd tekaf haf hwy
a fydd nos hir o fowdwy."
Add. MS., 14,978.

Nid ydym yn gwybod pa gyssylltiad oedd rhwng meibion Tudur a Mawddwy, heb law mai gŵr cyntaf eu mam oedd William ap Griffith de la Pole, Arglwydd Mawddwy.

⁶ "Mae kwmwl fal mwg kwymon
mal tylipesi i mi y mon."

Nis gwyddom pa beth sydd i'w feddwl wrth "tylipesi," neu "klipse"—os nad *eclipse*, yn yr ystyr o ddiffyg ar yr haul, neu ar y lleuad. Os felly, awgryma y bardd fod Môn wedi tywyllu ar ol marw y rhai hyn.

⁷ "Hwyntav oll yn tywellu
ni wyl dim mwg no niwl du."
Add. MS., 14,978.

⁸ "Eithur eulun mae uthur olwg
megis edrych mewn drych
drwg."—*Add. MS.*, 14,978.

⁹ "Y ddayaren oedd a rayl
drwy i hwn wedi duor haul."
Add. MS., 14,978.

¹⁰ "O doethant i din daethwy."
Add. MS., 14,978.

- 32 gorddŷ gennym ag arddwl
gweled pawb val gwibiaid pŵl
32 Di wyl iawn di oleini
64 Doeth blwyddyn yn ing i ni
33 kolli genym kell gwynedd
kell gwleddav biav y bedd¹
34 kellav oer kell anweirys²
68 kell y glew kelliwig lys³
35 kâr par paladr d . . . delld
gafael fawr gwayw o foelfell⁴
36 o ragor ni orevgvg
72 oer ged iw dynged ai dŷg⁵
32 Di fwyn y tair morwyn .
a fv lysfam aflesvawr⁶
.
76 letys lateisys liwtes⁷
oerffordd i kowson orffen
o hvd waith i hede wen⁸
40 ni ryfeddwn gwn ganwaith
80 pe boddai ar fenai faith⁹

¹ "Kolli gwin kolli Gwynedd
koll gwleddau biav y bedd."
Add. MS., 14,978.

² Diau fod hwn yn wallus; ac
nid ydyw "anwerys" yn *Add.*
MS., 14,978, yn ddim gwell.

³ Celliwig, yn ol y Trioedd di-
weddaraf (*Myv. Arch.*, p. 410),
oedd llys y Brenin Arthur yng
Nghernyw:—

"Tair Prifys Arthur: Caerllion
ar Wysg yng Nghymru; Celliwig
yng Ngherniw; a Phenrynn Rhion-
ydd yn y Gogledd; ac yn y tair
hynny cynnal y tair Prifwyl Ar-
bennig, nid amgen, y Nadolic, y
Pasg, a'r Sulgwyn."

Celliwig hefyd sydd enw ar bre-
swylfod yn Sir Gaernarfon.

⁴ "Kar rag paladr dar delld
gafael fawr gwayw pelfellt."
Add. MS., 14,978.

⁵ "O ragor ni orugug
oer ged ir dynged ais dug."
Add. MS., 14,979.

⁶ "Diswyn i tair morwyn mawr
a fu lysfam afleslawr."
Add. MS., 14,978.

⁷ "Klopes dewis dlos duwies
kletys leteissys liw tes."
Add. MS., 14,978.

⁸ "Orffwr i kowsson orffen
o hud waith i hedau wen."
Add. MS., 14,978.

⁹ "Ni ryfeddwn gwn ganwaith
pei boddai ar fenai faith
no ar for udd arfer oedd
penadur byd pan ydoedd."
Add. MS., 14,978

- 42 ne ar for rudd arfer oedd
pennadur hyd pan ydoedd
42 braw eisoes oedd i bresent¹
84 svddo i gorph yn swydd gent²
42 mewn pwll trydwl troyedig
i bv ar sadwrn dwrn dig
44 ai arwain ar elorwydd
88 llwgr fawr yn lloegr a fydd
45 o gaer Ludd i drefydd draw
46 i gwrr môn goror manaw
i doeth at frawd llednoeth llwyd
92 47 oi Briddo³ wb or breuddwyd
48 i lawr llan faes⁴ elorwydd
gyfriw gorff bv gyfa r gwŷdd

Hyny yw, yr oedd y mab hwn i Tudur—pa un bynag ai Gronw ai Ednyfed a feddylir—mor anturiaethus fel na fuasai y bardd yn rhyfeddu dim pe buasai wedi boddi er ys llawer dydd ar y Fenai neu ar Fôr Udd (*English Channel*).

¹ "Braw eisoes oedd i bresent."

Add. MS., 14,978.

² Gellir tybied oddi wrth y llinell hon i'r amgylchiad gymmeryd lle yn Sir Gaint; a hyny, fel y gwelir oddi wrth y llinell ddilynol, ar ddydd Sadwrn. Ond ar ddydd Sul y boddodd Gronw ab Tudur (Gwel nchod, tudal. 291).

³ "I briddaw."

Add. MS., 14,978.

⁴ Llanfaes sydd blwyf yng nghwmmwd Tindaethwy, ym Môn. Adeiladodd Llywelyn ap Iorwerth Briordy yn y plwyf hwn at wasanaeth y Brodyr Llwydion—urdd Fynachaidd St. Francis. Ar derfyn y plwyf hwn y saif Tref Castell, yn yr hwn le y cartrefai Ednyfed ab

Tudur. Yr ydym eisoes wedi sylwi mai ym Mynachlog Bangor, yr hon a berthynai i'r Mynachod Duon, yr oedd claddfa y Tuduriaid. Ond y mae y cyfeiriad a geir yn llin. 91, at frawd llednoeth (troednoeth?) llwyd, yn gystal ag fod Llanfaes yn cael ei nodi, yn profi i un o honynt o leiaf gael ei gladdu yno. Oddi wrth gywydd a gyfansoddwyd gan Gruffudd ab Meredydd (*Myv. Arch.*, p. 301), gellir tybied mai yn Llanfaes y claddwyd Gronw ab Tudur, o blegid cyfeiria yntau at y "brodyr troednoeth":—

"Menai mewn rhwym bedd
mynor

Gwas glwysedwr mewn gwisg
lafdur

Gwaith uwch gorwydd braisg
breichir

Gwiw ei lafn gwayw Olfir

Gwawd hydr o lin gwaed
Tewdwr

Dygn oedd roi post cost can-
rodd

96 Aed i nef ag Ednyfed
 i frawd vu giwdawd vu gêd
 Derbynnied ar bwynt dwys
 y Brodyr i baradwys¹

Iolo Goch ai kant.

Diriai Ffrainge mewn derw a
 phridd

Car glyw llyw llys Benmynydd
 Cor brodyr troednoeth a'i
 cudd."

Ond y mae Iolo yn llin. 95 yndwyn
 Ednyfed i mewn, ac o'i chyssylltu
 â'r ddwy linell olaf gellir tybied
 fod y ddau frawd — Gronw ac
 Ednyfed, mewn golwg gan Iolo.
 Pa ham yr oedd yn rhaid dwyn
 Ednyfed i mewn mwy na Rhys a

Gwilym, os nad oedd rhywbeth wedi
 dygwydd iddo?

¹ "Derbyned tuw ar bwynt dwys
 y brodur i byradwys."

Add. MS., 14,978.

Yn ol syniadau y Protestaniaid,
 yr oedd y cyfryw ddymuniad yn
 afreidiol — o blegid yr oedd y
 brodyr eisoes ym Mharadwys, os i
 fyned yno o gwbl. Ond yn ol
 athrawiaeth y Pabyddion, yr oedd
 yn ofynol eu symmud o'r Perdan.

XXVII.

CYWYDD MARWNAD DAFYDD AP GWILYM.

(*O Llyr Huw Lleyrn—Add. MS., 14,967, fol. 23.*)

Penawd y cywydd yn ein testyn yw "C. Marwnad D.G." Ceir ef hefyd yn *Add. MSS.*, 14,870 a 14,932; *Jesus MS.*, E. 139, p. 186; ac y mae yn argraffedig ym *Marddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (arg., 1789) tudal. xxxix.; ac yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 15.

Dywed y Dr. W. Owen Pughe, yn ei nodiadau rhagarweiniol i *Farddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, fod yn debyg iddo gael ei eni oddeutu 1340, ac iddo farw oddeutu 1400; ac y mae ei ddull o brofi hynny yn dangos diffyg beirniadol amlwg. Fe welir fod y Dr Pughe yn anghofio tystiolaeth Rhys Meigen (*Iolo MSS.*, p. 92) parthed i amser genedig-aeth y bardd, yr hwn a'i gosoda yn 1300:—

"Mil trichant meddant i mi y ganed

Yn geneu dan lwyni

Gwr oth hân garw yw'th enwi,

Mab Gwilym Gam cytgam ci."

Y mae tystiolaethau llawn mor ddiamwys yng nghylch amser ei farwolaeth. Yn "Llyfr Efan William, o'r Fferm, yn Llanfleiddan y Bont Faen" (*Iolo MSS.*, p. 94) dywedir iddo fyned i "Fonachlog Tal y Llychau lle gnawd yn fawr ei barch a'i roesaw, ag yno y bu ef farw ag ai claddwyd wyliau'r Nadolig ym mlwyddyn deugain o goraniad y Brenin Edwart y drydydd, yn hen ŵr o brydydd clodfawr." Coronwyd Edward III., Ionawr 29, 1327, felly, yn ol ysgrif Evan William, yng ngwyliau'r Nadolig, 1367, y bu farw Dafydd ab Gwilym. Ond mewn cyfres o bump o englynion a gyfansoddwyd gan Hopcin ap Thomas ap Einion o Ynys Dawy, yn y flwyddyn 1380, fel Marwnad i Dafydd ab Gwilym,

dywedir mai yn y flwyddyn 1368 y bu farw. Y mae y ddau olaf o'r Englynion (*Iolo MSS.*, p. 95) fel y canlyn :—

“ Mil meddant trichant trwy ochain irad
wyth eraill a thrugain,
Marw y bu Prydydd mirain,
Mab Gwilym gerdd-edlym gain.

Ym medd y gorwedd a'r garreg arnaw,
Mawr ernych gloyw ofeg,
Accw yn ynys cain waneg
Lle uwch Dwr, Tal Llychau deg.”

Ond pan ystyriwn, yr oedd Nadolig 1367, er mai ym mis Mawrth y dechreuai y flwyddyn y pryd hwnw, mor agos i'r flwyddyn 1368, fel nad oedd agos i flwyddyn rhwng amseriad Efan William a Hopcin ap Thomas. Pa fodd bynag, gallasai y cywydd canlynol gael ei gyfansoddi mor gynnar a 1368, ac nid oddeutu 1400 fel y dywed y Dr. Owen Pughe. Credwn nad ydyw Cywydd Marwnad Iolo Goch i Dafydd yn rhagori dim, os ydyw yn gyfartal i'r rhai a gyfansoddwyd ar yr un achlysur gan Gruffydd Gryg a Madog Benfras (Gwel *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, tudal. 33-39).

Hudol dof¹ vu hoedyl² Davydd
hoyw o ddyn pe hwy vai ddydd³
Di vngor owdl da angerdd⁴

¹ “Dwf”—*Add. MS.*, 14,870, *Jes. MS.*, a *Bardd. D. ab Gwilym*;
“doe”—*C. Ll. G.* Tebyg mai
“dwf” sydd gywir, gan gyfeirio at
dyfiant graddol ei alluoedd; ond
nid ydyw y darlleniadau ereill yn
ammhriodol—“hudol doe” mewn
cyferbyniad i *heddyw*; neu “hudol
dof”=bywyd tawel.

² “Hoedl”—yn y llyfrau ereill.

³ “Hoyw o ddun py bae hwy
ddudd.”—*Jes. MS.*

“Hoywaf, pe hwy fai ei
ddydd!”—*Bardd. D. ab G.*

“Hoyw ddyn pe bai hwy
ddydd.”—*C. Ll. G.*

Gofidia y bardd na fuasai oes
Dafydd yn hwy. Ac fel yr ydym
wedi sylwi, bu farw pan oddeutu
68 mlwydd oed.

⁴ “Di vngorn odl dan gerdd.”

Jes. MS.

“Di-ungor awdl, da angerdd.”

Bardd. D. ab G.

Ystyr “ungor” ydyw *un tro*=(*one twist*), fel mewn edau wllan. A oes
yma gyfeiriad at ymadroddion
dychymmygol y beirdd, gweu
cywydd, nyddu cywydd, &c.?

- 4 Ap gwiliu gam¹ gwlm y gerdd²
 lluniodd wawd³ wrth y llinyn
 llyna arver dda ar ddyn⁴
 Mae ddarpar mi a ddirpwr⁵
- 8 Varnad⁶ o gariad y gwr
 Gem oedd i siroedd y swch⁷
 A thegan gwlad a thegwch
 Molu⁸ y digrivwch ai modd
- 12 Ymwared ym am wiw rodd
 heboc⁹ merched Deheubarth
 heb hwn o dygwn aed yn garth¹⁰
 Kywydd¹¹ pob kethlydd koethlawn
- 16 Kanis aeth kwynovus iawn¹²

¹ Tad Dafydd ab Gwilym (yn ol *Iolo MSS.*, p. 92) oedd Gwilym Gam o Lanharan Fawr, yng Ngheredigion, ab Dafydd, ap Ieuan, ap Hywel, ap Cynwrig, ab Goronwy, ab Meredydd, ab Madog, ap Iorwerth, ap Llywarch, ab Bran, o Lys Cwmwdd Menai, ym Môn, cyff cenedl un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. A'i fam oedd Ardudful, merch Gwilym Fychan, o'r Cryngae, yn Emlyn. Y mae yr hyn a ddywedir mewn perthynas i'w briodas anfodus, yr hon a gymmerodd le ar ol genedigaeth y plentyn, a marwolaeth Ardudful ar ddydd ei phriodas, yn ddigon hysbys.

² "Gwlwngerdd"—*Jes. MS.* ; "gwlm y gerdd"—*C. Ll. G.*

³ "Lluniodd fawl"—*Jes. MS.* ; "lluniai fawl"—*Bardd. D. ab G.*, a *C. Ll. G.*

Y mae "gwawd" yn golygu "a song of praise" yn gystal a'r gwrthgyferbyniol.

⁴ "Llyna arfer dda ar ddyn"—*Add. MS.*, 14,870, a *Bardd. D. ab G.*
 'Well yna, arfer dda ar ddun.'
Jes. MS.

"Llyna ragor dda ar ddyn."

C. Ll. G.

⁵ "Mau ddarpar mi ai ddirpur."
Add. MS., 14,870.

Yn *Bardd. D. ab G.*, y mae y ban hwn yn dilyn llin. 12, nid ydyw o gwbl yn *C. Ll. G.*

⁶ "Marnad"—*Add. MS.*, 14,870;
 "Mae'r nad"—*Jes. MS.* ; "Marwnad"—*Bardd. D. ab G.*

⁷ "Ar swch"—*Jes. MS.* ; "a'u swch"—*Bardd. D. ab G.*, a *C. Ll. G.*

⁸ "Mold"—yn y llyfrau ereill.

⁹ "Hebog"—yn y llyfrau ereill.
 Yn *Jes. MS.*, y mae llin. 13-14 yn dilyn llin. 16.

¹⁰ "Heb hwn od gwnn aed yn garth."

Add. MS., 14,870.

"Heb hwn od gwn aed yn garth"—yn y llyfrau ereill.

¹¹ "Kowudd ;" "Cynnydd"—*Add. MS.*, 14,870, a *Bardd. D. ab G.*
 Tebyg mai "Kywydd" sydd gywir.

¹² "Canys aeth cwynofus iawn."
Add. MS., 14,870, a *Bardd. D. ab G.*

"Kyn i saith kynwys iawn."
Jes. MS.

- Ty di gi taw di gowydd¹
 Nid tar byd nid hir y bydd²
 Tra vu Ddavydd gelvydd gan
 20 y ddoeddud³ barchus ddiddan
 Ac⁴ ni bydd o herwydd hyn⁵
 Gwedi ef gwiw dy ovyn⁶
 Bwrrier a waer o wawd⁷
 24 A deuvlaen ar y davlawd⁸
 Eithiw pensel yr ieithioedd⁹
 Eithr pe byw athro pawb oedd¹⁰
 Vthr¹¹ vyngwyn o vrwyn vraw
 28 Athronddysc¹² oedd vthr ynddaw

¹ "Tydi gi tau dy gowydd."

Add. MS., 14,870.

"Tydi gi taw di gowydd."

Jes. MS.

"Taw di i gyd, tydi gywydd!"

Bardd. D. ab G.

"Tau di gyd, tydi gywydd."

C. Ll. G.

Os ydyw y testyn yn gywir, y mae y bardd yn rhoddi enw drwg arno ei hun, ac yn gorchymyn iddo adael ei gywydd yn llonydd. Ond wrth gymharu y llinell hon â'r llinellau dilynol, gwelwn fod Iolo hefyd yn gwarafun i neb ganu ar fesur cywydd. Haerir mai Dafydd ab Gwilym oedd tad y mesur hwn, a dywed Iolo i'r mesur brofi yn ystod ei fywyd ef yn "barchus ddiddan;" ond tybiai nad oedd wiw i neb ganu arno mwyach.

² "Nid dar byd nid hir y bydd."

Add. MS., 14,870, a *C. Ll. G.*

"Nid da'r byd, hir y bydd."

Bardd. D. ab G.

³ "Ydd oeddud"—*Add. MS.*, 14,870; "i ddoeddud"—*Jes. MS.*; "ydd oeddud"—*Bardd. D. ab G.*, a *C. Ll. G.*

⁴ "Ag."—*C. Ll. G.*

⁵ "Hynn."—*Add. MS.*, 14,870.

⁶ "Ofynn"—*Add. MS.*, 14,870;

"ofyn"—*Bardd. D. ap G.*, a *C. Ll. G.*

⁷ "Bwrrier a wauer o wawd."

Add. MS., 14,870.

"Bwrrier a weuer o wawd."

Jes. MS.

"Bwrir a weuir o wawd."

Bardd. D. ap G.

"Bwriedir y weir o wawd."

C. Ll. G.

Gwelir fod "wäer" y testyn yn ymgais at roddi mynegiad i'r gair gwëu = cyfansoddi cân glodforaidd.

⁸ "Ai deuvlaen ar i dafawd."

Jes. MS.

⁹ "Eithyw pensel yr ieithioedd."

Add. MS., 14,870.

"Euthyw pensaer yr ieithioedd."—*Bardd. D. ab G.*

"Eithr Pen Saer claer yr ieithioedd."—*C. Ll. G.*

¹⁰ "Eithr pe'i byw athro pawb oedd."—*Add. MS.*, 14,870.

¹¹ "Eithr."—*C. Ll. G.*

¹² "Athro unddusg uthur yn ddaw."—*Jes. MS.*

"Athro yn ddyag oedd uthr ynddaw."—*C. Ll. G.*



A thailiwr serch i verch vu
A thelyn llys a thevlu¹
A thrysorner kler ai klod
32 A thryver brwydr ai thravod²
A thrvan heb athrowyn³
A thra ha oedd⁴ diva dyn
A thrawst beirdd a thrist⁵ yw byd
36 A thrachefn na thrachyvyd
Athro⁶ grym glewlym gloywlef
A theyrn oedd aeth ir nef⁷

Iollo Goch ai kant⁸

¹ "A Thailiwr serch i ferch fu
a Thelyn Llys a'i Theulu."
Add. MS., 14,870.

² "A Thrysorner cler au clod
A Thryfer Brwydr ai Thra-
fod."—*Add. MS.*, 14,870.

"A thryfer beirdd a thrafod
a thrysorner kler ai klod."
Jes. MS.

"A thrysor er cler, a'u clod,
A thryfer brwydr, a'i thra-
fod."—*Bardd. D. ab G.*

"A thrysor cler, a thrais clod,
A thryfer brawd a thafod."
C. Ll. G.

³ "I threwyn"—*Jes. MS.*;
"athrywyn"—*C. Ll. G.*

Heb neb i gymodi! Ond nid
ydym yn deall y frawddeg.

⁴ "Yw"—*Jes. MS.*; "fu difa'r"
—*Bardd. D. ab G.*

⁵ "Athrist."—*Bardd. D. ab G.*

⁶ "Athro"—*Bardd. D. ab G.*;

"A thra"—*C. Ll. G.*

⁷ "A theyrn oedd, a aeth i'r
nef."—*C. Ll. G.*

⁸ Yn *Add. MS.*, 14,870, ceir y
cywydd wedi ei arwyddo fel y
canlyn:—

"Iolo Goch a'i cant
Baitaler or ddwy gyfraith."

XXVIII.

CYWYDD I'R GYLLELL WTENIFF.

(*O'r Add. MS., 14,970, fol. 29.*)

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn y *Tonn MS.*, yn Llyfrgell Rydd Caerdydd.

Wrth "Wteniff" (llygriad o *wooden-knife*) y golygir cylllell hely, neu gyllell fawr a ddefnyddid gan helwyr i dori ceirw, &c., pan allan yn hela yn y coedwigoedd. Gwisgid hi, fel y gwelir yn y cywydd, ar y glun fel bidog. Nis gwyddom pa faint allai ei phris fod yn amser Iolo Goch; ac y mae yn ddiammeu fod y pris yn amrywio yn ol y gwneuthuriad—ond ceiniog (pa faint bynag oedd hyny) oedd pris cylllell glun yn amser Hywel Dda:—"Kellell clun un keynnyauc" (*Anc. Laws and Inst. of Wales*, vol. i, p. 306). Ond gan nad beth oedd ei phris yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, cyfansoddodd Iolo y cywydd hirfaith a ganlyn i rywun o'r enw Llywelyn, i ddiolch iddo am ei anrhegu âg un. Er chwilio cryn lawer, methasom a chael allan pwy oedd y Llywelyn hwn; ond y mae yn amlwg oddi wrth y cywydd ei fod yn ŵr cyfoethog. Y mae y cyfeiriad at Elian Ceimiad (llin. 49) yn awgrymu ei fod yn byw yn Llanelian, ond pa un ai lle o'r enw ym Môn, neu Sir Ddinbych, sydd fwy nas gwyddom. Ar ol canmol cryn lawer ar y gyllell, y mae y bardd yn myned i ganmol y rhoddwr; ac yna y mae ganddo amryw linellau lled dywyll i ni. Y mae peth tebygolrwydd rhwng y cywydd hwn ac un a wnaeth Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 269) i'r "Cleddyf, gan ddangos ei Gampau."

Hefyd yn *Add. MS.*, 14,866, p. 389, ceir Cywydd gyda'r penawd, "I ofyn wteniff ne gyllell kynydd," yr hwn a ddechreua fel hyn:—

"Lle cyfing dirfing derfysg
y bydd Duw a ddyrydd dysg,"

Y mae wedi ei arwyddo "Rhys goch or Ryri ai cant;" ac y mae ynddo rai cymhariaethau cyffelyb i'r rhai a geir yn y cywydd hwn. Er enghraifft, cymharer llin. 27-34, a 44 gyda'r llinellau a ganlyn:—

"Baslard hardd gan Bowys—lu
beisledr dili gynhelli gu
i modrub ddifreg eglur
e roed clod fu Rawd y elur
chwech oi gelynion ni chwardd
chwaer ddewr andaer ddurendardd."

- Llywelyn eryr gwyr gwych
Llidfrwydr mab y gwr llwydfrych
Gwroliaeth a mab maeth mawl
4 Gwalch diwladeithfalch¹ deddfawl
Ai gwell arf gwiw yw'r llawrodd
Nog a roist im enwawg rodd
Cyllell hir cuell² a llem
8 Callestrfin holldrin hylldrem
Boccs³ ei charn pren cadarn prudd
Bygylwraig⁴ Ffrange bogeilrudd
Mefi fflwch im trowswch⁵ trasyth
12 O chelaf fi ei chael fyth,
Ai merch faeth arfaeth yrfa
Ar hyd ei chefn, dodrefn da,
Beth a fynnai erfai wr⁶
16 Eithr arianswch⁷ a thraensiwr⁸

¹ "Diwladeiddfalch?"

² "Cuell" = peryglus.

³ "Boccs" = pren bocys (*box-tree*), yr hwn a ddefnyddir yn fynych i wneyd carn (*handle*) i arfau.

⁴ "Bygylwraig." — Y mae yn cyffelybu y gyllell i wraig a golwg fygythiol arni. Gallem dybied oddi wrth y gair "Ffrange" nad oedd y wlad yma mewn heddwch â Ffrainc ar y pryd; ond felly yr oedd fynychaf yn yr oes hono.

⁵ "Trowswch" = *moustache*: Yr oedd y gyllell mor finio fel y gallai eillio gyda hi.

⁶ "Erfaiwr" = gwr bywiog a heini.

⁷ Nis gallwn ddyfalu beth a olygir wrth "arianswch" os nad ydyw yn golygu yr un peth a bod gŵr, fel y dywed y ddjarheb, wedi ei eni â llwy arian yn ei enau.

⁸ Traensiwr (= *trencher*) = plât (neu ddysgl) pren, a arferid gan y Cymry mor ddiweddar a chanol y ganrif bresennol.

- Bellach wyf haeach o hynn
 Llew brwydr od a llu i Brydyn¹
 Eilïo a hi a allwn
 20 Pen ysgot coch pan nas gwn
 Cneifio ei farf arf erfai
 Curo ffrainge dryllïo cyrph rhai
 Lladd adwaed² lle ydd adwaen
 24 Torri yn chwyn terwyn chwaen³
 Giau a gwythau ar gwithr
 Briwo esgyrn brau ysgwithr
 Chwaer undad giliad galon⁴
 28 A DURENDARDD⁵ hardd yw honn { Cledd Caradoc
 Merch o ordderch ddiweirddoeth { ab Bran
 I *Galedfwlch*⁶ gyfwlch goeth { Cledd Arthur
 Nith ddiragrith oreugrair
 32 I *Angeu Coch*⁷ yn ing y cair, { Cledd Gwalch-
 Cyfnitherw dichwerw dachwedd, { mai ab Gwair
 I *Hawd y Clyn*⁸ hoywdeg gledd { Cledd Olifer
 Gosgorddfawr }

IOLO MORGANWG

¹ Prydyn = Ysgotland. Teimlai y bardd, wedi cael y gyllell hon, y gallasai bellach ryfela â'r Ysgotiaid pe cawsai gyfleusdra; ac y mae (lin. 22) yn addaw ei defnyddio i ymladd â'r Ffrancod hefyd.

² "Adwaed" = *inferior blood*; hyny yw, pobl o haniad isel, heb y "gwaed coch cyfa" yn rhedeg trwy eu gwythienau.

³ "Terwyn chwaen" = cychwyniad ffyrnig.

⁴ Y mae y bardd yn awr yn dechreu cymharu ei gyllell i gleddyfau arwyr y Rhamantau, yn chwaer i un, yn ferch i'r llall, yn nith i'r drydedd, &c.

⁵ "Durendardd," yn ol Iolo Morganwg, fel y gwelir ar ymyl y ddalen, oedd Cledd Caradoc ab Bran. Ond yn ol "Ystori Siarlymaen"—*Durendardd* oedd enw cleddyf Roland, neu Orlando.

⁶ Mewn perthynas i gleddyf Arthur, sylwa Carnhuanawc (*Hanes Cymru*, tud. 264) fel y canlyn:—"A'r cleddyf, yr hwn a gafodd yn y garreg, a enwid *Caledfwlch*, yn y Lladin, *Caliburn*, ac yn y Ffrangaeg, *Excalibar*; ac â hwn y gwnaeth orchestion tra chlodforeddus."

⁷ Yn ol *Brut G. ab Arthur* (*Myv. Arch.*, p. 499), *Angeu Coch* oedd enw cleddyf Iwl Cesar, gyda'r hwn y lladdodd Nyniaw, brawd Caswallawn:—"Ac esef oed enw y cleddyf hwn Agheu Coch. Kany pwy bynnac a archollet ac ef ny bydey byw;" ond, yn ol darlleniad arall o'r un Brut (*Myv. Arch.*, p. 566), "ageu glas" (h.y., *Angeu Glas*) oedd enw y cleddyf hwnw.

⁸ "Hawd y Clyn," ffurf Gymreigaidd ar *Haut cler*, neu *Haute-claire*, sef cleddyf Oliver, un o wroniaid Siarlymaen.

- O bydd neb a wrthnebo
 36 I ti er nag *I* nag *O*
 Gwr gorsedd a gwyr gwrsus¹
 Y tynn waed tan ei weus.²
 O daw dan llaw llu Ffichdiaid,
 40 O'r mor hwnt yn nid mawr rhaid
 I beri gowri a garm³
 Geisiem⁴ na chledd nag isarm.⁵
 Nac arf im llaw engiriawl
 44 Eithr Baslart⁶ ac ysbart⁷ bôl
 O gweli fi naf gwiwlym
*Blun*⁸ aur arch o'r blaen ym blwyn ond odid.
 Ar fy helw i arf hoywlyws I.M.
 48 Yn dlws da yn dy lys dwys
 Cymmer er Elian Ceimiad⁹
 Dos ag ef dewis y gad,

¹ "Gwrsus" (o *courses*)—rhedeg-feydd?

² "Weus" = gwefus.

³ Yr un meddwl sydd i "gowri" (gawr) ag sydd i "garm," sef *bloeddi*, *gwæddi*, &c.

⁴ Picell hir a thron; o'r Lladin *gaesum*; Groeg *γαῖρον*.

⁵ "Isarm" = *poleaxe*. Defnyddir y lluosog "isarnau" gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 384).

⁶ "Baslart," math o gleddyf o wneuthuriad tramoraidd—yn Basel, Switzerland. Defnyddir y gair mewn englyn a briodolir i Dafydd Nanmor (*Iolo MSS.*, p. 313):—

"Na bleiddiau dëau neu yddiwart
 Gwyddil

Nag Iddew neu Lwmbart

Na byw osler na Baslart

Na maen o dwr na min dart."

⁷ "Ysbart" = yspardyn.

⁸ "Blun" = Blifyn, pelen, neu garreg a hyrddid o dafi-beiriant.

⁹ Elian Ceimiad oedd fab, meddir, i Gallgu Rieddawg ab Carcludwys ab Cyngu ab Ysbwys, ab Cadrod Calchfynydd; a'i fam oedd Canna, ferch Tewdwr Mawr, ab Emyr Llydaw. Yn ol un o'r chwedlau, dyfod drosodd o Rufain i Ynys Môn a wnaeth, yn amser Caswallon Lawhir, ac ymlidiodd y Gwyddelod allan o'r ynys. Efe a sefydlodd eglwysi Llanelian, ym Môn, a Llanelian yn Ninbych, ac yr oedd, fel pob sant arall, yn gallu gwneyd hyny a fynai o wyrthiau. Wrth gwrs, efe a roddodd y fath effaith yn nwfr "Ffynnon Elian," yn Sir Ddinbych, fel, os na wnaeth unrhyw ddaioni arall, rhoddodd gryn lawer o arian yn llogell "Jack" Edwards. Dedfrydwyd Edwards i 12 mis o garchar am dwyllo un Edward Pierce, Ebrill, 1820 (*Y Gwylieddydd*, 1826, tudal. 54).

- Ūn afael ym un ofeg
 52 Mi biau¹ mab ior teg,
 A thithau biau lle y bych
 O'r mau² finnau a fynnych,
 Cerddaist fy nghlun fy muner³
 56 Hoedl ith benn hudoliaeth bér
 Dewr ar adwy dioer ydwyd
 A doeth iawn mewn dwyiaith wyd.
 Masw⁴ dy arfer wrth glêr glau
 60 Difasw ym mrwydr dy foesau,
 Dyledog⁵ dy serchog son
 Dilidiog wrth dylodion,
 Cadarn⁶ wrth gadarn i'th gaid
 64 Gŵyl⁷ ag anwyl i'r gweiniaid,
 Gwâr⁸ wrth dy gar cerddgar call
 Gwr wrth wr garw wrth arall,
 Dichwerwiaith da o chwarae
 68 Prudd yn yr yng cyfyng cae,⁹
 Calennig wr calonog
 A roist ym myn grym y grôg¹⁰
 Gwae fi am eurych¹¹ gwyh gwydn
 72 A roe ddadl o rudd elydn¹²
 A phenrwym or hoff unryw
 Yn rhith aur fy anraith yw

¹ "Tau" = yr eiddot ti.

² "Mau" = yr eiddof fi.

³ "Muner" = llywydd.

⁴ "Masw" = tyner.

⁵ "Dyledog" = cyfoethog, perchenog etifeddiaeth. Gwel hofyd linellau cyffelyb yn Cywydd Rhif VIII., llin. 57-58, a Rhif XXXIV., llin. 89-92.

⁶ "Cadarn" = gwrol.

⁷ "Gŵyl" yn y fan hon a olyga *moesgar*.

⁸ "Gwâr" = mwynaid.

⁹ Dangosir yma ei fod yn cydymdeimlo â'r adfydus.

¹⁰ Buasai y fath lŵ a hwn yn ein dyddiau ni yn cael ei ystyried yn arwydd o ddiffyg chwaeth, os nad yn gabled; ond gwelir fod Iolo a'i gydoeswyr yn defnyddio ymadroddion cyffelyb iddo yn fynych.

¹¹ "Eurych" = gof aur.

¹² Elydyn = mettel cyfansawdd megys *pres*.

- 76 Troes y waun rhaid trwsio'n wiw
 Arianllythr¹ ar ia unlli
 Fal y bo haws gwiwnaws gwann
 Ei harwedd ar glun hirwan,
 Gwychach gan serchog achul
 80 No chan yr ab ei mab mul²
 Hynn sy'n cynnal fy nghalon
 Rhag rhydu a henu³ honn.
 Dengwaith anwyd⁴ ieuangwas
 84 Y tynnai'r llafn gloywlafrn glas
 Iw droi o'm cylch yn dröell
 Fal mellten burwen o bell
 Digrif gan wr heinyf hynn
 88 Heulo ysgwyd Gyhelyn⁵
 Ceffi di rhi⁶ rhywiogwaed
 Cennyf beunydd y dydd daed
 Cynnifer gwaith cynnefawd
 92 Y dêl o'i gwain da le gwawd,⁷
 Iechyd o'th benn cymmen cu
 Achos fy llawenychu.

Iolo Goch ai cant.

¹ Ai dymuno am eurych i gerfio llythyrenau ar y wain y mae y bardd—llythyrenau ei enw? Nis gwyddom beth arall a ddichon "Arianllythr" olygu. Fe welir fod Iolo, ar ol cryn lawer o ganmoliaeth i'r rhoddwr, yn troi yn ol (yn llin. 69) i son am y gyllell.

² Nis gallwn ddyfalu amcan y ban hwn. Wrth "achul" y golygir *teneu, gwael*, &c.

³ "Henu" = heneiddio.

⁴ Ai nid *d nwyd* a ddylai hwn fod?

⁵ "Ysgwyd Gyhelyn" = tarian Cuhelyn. Ai Cuhelyn mab Gwrgant Farfdrwch, yr hwn a roddir yn ei flodeu bedwar can' mlynedd cyn Crist, a feddylir? Defnyddir "ysgwyd Cyhelyn" gan Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 270).

⁶ "Rhi" = arglwydd.

⁷ Sylwa y bardd y byddai iddo ganu clod y rhoddwr bob tro y tynai y gyllell o'r wain.

XXIX.

*COWYDD I OFYN MARCH.

(*O'r Add. MS., 14,964, fol. 54*).

Rhaid gosod hwn ym mhlith y cywyddau ammhheus. Priodolir ei awduriaeth i Iolo Goch yn *Add. MSS.*, 14,882 ; 14,940 ; 14,966 ; 14,969 ; a 14,976 ; ac i Iolo Goch y priodolir ef yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 13, dan y penawd —“ Cywydd i Ofyn March i Owain ab Gruffydd ab Owain, o Lan Tawy.” Ond y penawd iddo yn *Add. MS.*, 14,940, ydyw—“ Cywydd i ofyn March i Owain ap Gruffydd ab Owain Gethin o Lyn Täwy, ac iw ddyfalu.” Ar ddiwedd y cywydd yn yr un ysgriflyfr ceir :—“ Iolo Goch ai cant 1400 ” ; ac o dan hyny y nodyn a ganlyn :—

“ Gruffudd ap Dafydd Fychan, ai cant, medd Moses Williams, yr hyn a all fod yn wir, gan mai gwr o Wynedd oedd Iolo. Mae Glyn Tawy rhwng blaenau Caron yn swydd Aberteifi, a Llanymddyfri yn swydd Gaerfyrddin.”

Ond yn *Add. MS.*, 14,970, ceir yr un cywydd dan y penawd—“ Cywydd i ofyn March i Owain ap Gruffudd ab Owain o Lann Tawy ym Morganwg,” ac ar ei ddiwedd dywedir “ Llawdden ai cant ” ; yna o dan hyny ceir y nodyn a ganlyn gan Iolo Morganwg :—

“ Iolo Goch ai cant medd Dr. Davies, gwel Cynnwr yn ei eirlyfr ef, ond camsyniad mawr yw hynn, nid oedd y rhyw gynghaneddion ag a welir ar y cywydd hwnn wedi ymddangos yn y byd yn amser Iolo Goch, hefyd y mae gormod o wawr y Wenhwyseg ar y cywydd yma i fod yn waith Iolo Goch, heb law hynn y mae pob llyfr agos yn rhoddi'r cywydd hwn i Lawdden, un neu ddau yn wir ai rhydd i Wilym ab Ieuan Hên. Yr oedd Llawdden yn byw ar *Lann Tawy*, neu yn agos iawn yno. Iolo Morganwg.”

Fe welir fod y nodiadau uchod yn anghytuno parthed i safle preswylfod Owain ab Gruffydd; a buom ninnau yn hollol aflwyddiannus i gael dim o'i hanes. Pe cawsem allan i sicrwydd pwy ydoedd, a pha bryd yr oedd yn ei flodeu, buasai yn hawddach i ni benderfynu pwy oedd awdwr y cywydd. Ond gan ei fod yn cael ei briodoli i gynnifer a phedwar o wahanol awduron, ac fod Iolo Goch yn un o honynt, y mae genym ryw gymmaint o esgusawd dros ei osod ym mhlith ei gynnyrchion. Yr ydym yn addef fod y croes-ddywediadau uchod yn taflu cryn aimmheuaeth. Nid ydym heb gofio ychwaith mai yn y Deheudir yn rhywle yr oedd Owain yn byw, tra yr oedd Iolo yn cartrefu yn Sir Ddinbych. Ond ni fuasai hyny yn gwneyd y peth yn fwy ammhosiibl na'r ffaith iddo ganu cywyddau i'r Tuduriaid o Fôn. Dengys *Gwaxith Lewis Glyn Cothi* fod Iolo yn ymwelydd â Llanegwad, yn Sir Gaerfyrddin; a gallasai yn rhai o'i grwydriadau ddyfod i gyfarfyddiad ag Owain; os caniateir mai rhwng blaenau Caron a Llanymddyfri y preswyliai. Nid ydym yn gweled gwrthddadl Iolo Morganwg yn gryf iawn, sef fod gwawr y Wenhwysseg ar y cywydd. O blegid fe gydnabyddir yn gyffredin fod cryn lawer o briod-ddull ac ieithwedd y Deheudir i'w ganfod ar lenyddiaeth Gymreig y Canol-oesoedd.

Arwydd¹ pellenigrwydd² parx
Owain waew³ blaenfain blinfarx

¹ "Arglwydd" — *Add. MS.*, 14,970, a *C. Ll. G.* Ond "Arwydd" a geir yn y rhan fwyaf o ysgriflyfrau.

² Yr ydym mewn petrusder beth sydd i'w feddwl wrth "pellenigrwydd." A chaniatau mai Iolo Goch oedd yr awdwr, gallai ei fod yn golygu *parch o bell*. O'r ochr arall, dichon y gellid dadleu mai

parch mawr — eithafion *parchus-rwydd*, a foddylir.

³ "Wayw" — *Add. MS.*, 14,970, a *C. Ll. G.* Oddi wrth y llinell hon, yn gystal ag amryw ymadroddion ereill yn y cywydd, gallwn gasglu fod yr Owain hwn yn rhyfelwr.

- Mab Gruffudd ni bydd ball¹
 4 Baun aur² fab Owain arall
 Gerdd hydr gwyrdd hoewdrafn³
 Gethin gyfelin lafn⁴
 Mur un blaid mawr ewynblas
 8 Makwy⁵ o lan Tawy⁶ las
 Tirion walx cadarnwalx cain
 Twr . . . teyrn Owain⁷
 Tewfaedd gwyllt etifedd gwrdd⁸
 12 Twrn gwnfyd, teyrn gwinfwrdd
 Mae ym bryd o loewbryd⁹ lwybr
 Yniwedd¹⁰ am ion ewybr
 Gwnn y caf blaenrwyddaf blank¹¹
 16 Gann Owain eurgnyw ieuank¹²
 Marx ar ol ei bedoli
 Mawr a naid y marn i¹³

¹ Gwelir fod y llinell hon yn rhyfer. Gwell yw y darlenniad a geir yn *Add. MS.*, 14,970, a *C. Ll. G.* :—

“Balchfab Gruffydd ni bydd ball.”—*Add. MS.*, 14,970.

“Balch mab Gruffydd, ni bydd ball.”—*C. Ll. G.*

² “Baun am.”—*C. Ll. G.*

³ “Gerdd o hydr gwraidd hoywdrafn.”—*Add. MS.*, 14,970.

“Gadd o hydr gwyrdd hoywdrafn.”—*C. Ll. G.*

Tybiwn mai y darlenniad olaf ydyw y cywiraf.

⁴ “Gethin loyw gynnefin lafn.”
Add. MS., 14,970.

“Gethin loyw gyfelin lafn.”

C. Ll. G.

⁵ “Maccwy.”—*Add. MS.*, 14,970, a *C. Ll. G.* ; macwy=llanc.

⁶ Gwelir, oddi wrth y sylwadau rhagarweiniol i'r cywydd, fod anghydwelediad gyda golwg ar y lle a nodir. A gallwn ychwanegu fod capeloriaeth o'r enw *Glyn Tawe* ym mhlwyf Defynog, Sir Fry-

cheiniog, ryw 7½ milltir i'r gorllewin o dref Aberhonddu.

⁷ “Twr nawsogl Teyrn Owain.”

Add. MS., 14,970.

“Twr naw-ogsl teyrn Owain.”

C. Ll. G.

“Oegl,” mae'n debyg, sydd gywir : naw-ogsl=naw cangen.

⁸ “Gwrdd”=nertbol.

⁹ “Loywbryd.”—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ “Yn niwedd”—*Add. MS.*, 14,970, a *C. Ll. G.*

¹¹ “Blanc.”—*Add. MS.*, 14,970.

“Blanc”—gair a ddefnyddid am farch.

¹² “Ieuanc.”—*Add. MS.*, 14,970.

Gwelwn nad oedd Owain ond gwr ieuanc pan gyfansoddwyd y cywydd hwn.

¹³ Gwell, yn ddiau, ydyw y darlenniadau a ganlyn :—

“Mawr ei naid yn fy marn i.”

Add. MS., 14,970.

“Mawr ei naid yn y marn i.”

C. Ll. G.

- 20 Bryssiwr tir¹ gwelir mai gwrdd
Braig i egwyd brwyse agwrdd²
Ffraeth gynnwr gyrxwr gorxest
A ffroen roth³ mewn ffrwyn a rest⁴
Llydan dal⁵ drud arial⁶ draidd
24 Llygadrwth a lliw gwydraidd⁷
Llid o llithr llewdu⁸ llathraid
Llowfron arth nid llwfr i naid
Mawr i neidiau uwx clwydau cledr⁹
28 Marx dihafarx du hyfedr
A ffrom oedd ossod¹⁰ iw ffriw¹¹
Ffrwyn wan lledr ffroen ewynlliw
Crair llathr gwyllt sathr rhyd gwelltsaig
32 A xryfarddorr allt a xraig¹²
A xawr gwrdd a xar gerdded¹³
A xynt na'r rhwyddwynt y rhed

¹ "Brysiar tir." — *C. Ll. G.*
March yn myned yn gyflym dros
dir? "Brysiwr tir" yn *Add. MS.*,
14,970.

² "Braig ei egwyd brwyse
agwrdd."

Add. MS., 14,970.

"Braig ei egwyd" = *stout* (neu
strong) *fellock*.

³ "Roth" = lydan.

⁴ "Rest" — gwel *Cywydd Rhif*
IX., llin. 37.

⁵ "Llydandal." — *Add. MS.*,
14,970; h.y., talcen llydan.

⁶ "Ariel" ydyw *bywiog*; a
diammeu fod *C. Ll. G.* yn anghywir
wrth roddi "arian."

⁷ Llinell ragorol yw hon. Ac y
mae yn y cywydd rai llinellau ereill
ag sydd yn peri i ni feddwl am y
cywydd a ganodd Tudur Aled "I
ofyn March i Abad Aberconwy"

(*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 235).

⁸ "Llew du." — *Add. MS.*, 14,970.

⁹ "Clwydau cledr" = *rail of a*
gate. Yn y *Deheubarth*, defnyddir
y gair *clwyd* am yr hyn a elwir yn
llidiart yng Ngwynedd. Diammeu
fod hwn yn un o'r geiriau a roddai
y "wawr *Wenhwysaidd*" ar y
cywydd, yn ol tyb Iolo Morganwg.
Ond y mae math o *lidiart* anghel-
fydd, a elwir yn *watled gate* gan y
Season, yn myned dan yr enw
"clwyd" mewn rhai parthau o
Wynedd.

¹⁰ "Ossod" — *Add. MS.*, 14,970;
"isod," *C. Ll. G.*

¹¹ "Ffriw" = gwynebpryd.

¹² "A chryf ar dorr allt a chraig."
Add. MS., 14,970.

¹³ *Câr gerdded* = march a digon o
fyn'd ynddo.

- Iwr marx pwynt arial¹
 36 Pant da y dalo pum punt² a dal
 Mygr³ Owain ruddlain rwyddlyw
 Mawr y dda clod murdd ai clyw⁴
 Mawl arab rhwyddfab rhuddfellt
 40 Mur tarian ddur, tyr yn ddellt⁵
 Rhoddaf gerdd i wr hoewddoeth⁶
 Rhwyddlas cad ion rhuddlwy coeth⁷
 Rhuddaur fo wyr i rhoddi⁸
 44 Rhodd mawr ef ai rhydd i mi
 Rhwydd olwe⁹ rhiaidd alarx
 Rhod yntau i minau y marx

¹ Llinell led wallus : cymharer hi â'r darlleniadau canlynol :—

"Pentyrriwr march pwynt arial."

Add. MS., 14,970.

"Punturiwr march pwynt arial."

C. Ll. G.

"Pentyrriwr . . . pant da"
 = cyfeiriad at waith y march yn pawenu y llawr.

² Tybiwn fod pum punt yn bris anarferol o uchel am farch yn amser Iolo Goch. Yn ol cofnodion llys a gynhaliwyd yng Ngwreccsam rhwng Gwyl Fihangel, 1339, a Gwyl Fihangel, 1340, gwerthai ceffylau am o bump swllt i un swllt ar ddeg, teirw am o bump i chwe' swllt, buchod am oddeutu chwe' swllt ac wyth geiniog, a gwerthid ŵyn am ddwy geiniog yr un (*Bye-Gones*, Feb. 29, 1888). Mewn ysgriflyfr ym meddiant Mr R. Williams, Celynog, Drefnewydd, yn cynnwys rhestr o eiddo Roger de Mortimer, yn Nolforwyn Castle, yr hon a wnaed Ionawr 25, 15 Edward III. (1341-42), yr ydym yn cael fod ych at aredig yn cael ei brisio i bum' swllt; ac fod un oelliog a dwy iar yn werth dwy geiniog a dimai. Pa fodd bynag,

yn ol cyfrifon o dreuliau Harri IV., am y flwyddyn yn terfynu Medi 30, 1404, y rhai a ddyfynir gan Mr Wylie (*Hist. Engl. under Henry IV.*, vol. i., p. 410), ceir i wyth o geffylau gael eu prynu at wasanaeth y brenin, prisiau y rhai a amrywient o ddeg swllt ar hugain i bedair punt yr un. Gwelwn fod y bardd felly yn gofyn am farch o'r rhywogaeth oreu : teilwng o frenin.

³ "Mygr" = ardderchog.

⁴ "Mawr ydd â chlod myrdd ai clyw."—*Add. MS.*, 14,970.

"Mawr ydd â clod myrdd a'i clyw."—*C. Ll. G.*

⁵ "Mur Tarian ddur tyrr yn ddellt."—*Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Hoywddoeth."—*Add. MS.*, 14,970.

⁷ "Rhwyddles cad Iôn rhudd-lwyf coeth."

Add. MS., 14,970

⁸ "Rhuddaur fe ŵyr ei rod-di"
Add. MS., 14,970.

⁹ "Olwg."—*Add. MS.*, 14,970.

Yn y llinellau diweddaf, yn gystal ag yn amryw leocedd ereill yn y cywydd, y mae y darlleniadau a geir yn *Add. MS.*, 14,970 yn rhagori yn fawr ar y testyn.


XXX.

KO: I ITHEL AP ROBT. AP IER. AP RYRID O GOED
Y MYNYDD I OFYN MARCH.

(O *Glanyrafon MS. B.*, p. 53).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,964, 14,969, 14,970, a 14,976.

Nid oes ond ychydig gofnodion ar gael am Ithel ap Robert. Dywed Pennant (*Hist. of Whiteford and Holywell*, pp. 119, 308), fod Ithel ap Rotpert, archddiacon Tegeingl, yr hwn oedd yn byw yn 1375 a 1393, yn disgyn o Ednowain Bendew; ac yn *Dwnn's Heraldic Visitations*, vol. ii., p. 305, yr ydym yn cael achau un "John ap William ap John ap David ap Ithel Vychan ap Kynfrig ap Rotpert ap Ierwerth ap Ririd ap Ierwerth ap Madog ap Ednowain Bendew." Yn ol y penawd uchod i'r cywydd, yr oedd Ithel yn gystal a Kynfrig yn feibion i'r Rotpert ap Ierwerth y sonia Lewys Dwnn am dano. Trown eto i *Heraldic Visitations*, vol. ii., p. 304, a chawn :—



Drachefn, yn *Heraldic Visitations*, vol. ii., p. 298, dywedir mai gwraig Rotpert ap Ierwerth oedd Adles, merch ac etifeddes Ithel Vychan, ap Ithel Llwyd, ap Ithel Gam. Byddwn bellach mewn sefyllfa i ddeall y crybwylliadau achyddol a geir yn y cywydd. Yn y *Myv. Arch.*, p. 347, ceir awdl o waith Goronwy Gyriawg (1310-1360) i "Fadawg ap Ierwerth ap Rithid ap Ierwerth ap Madawg Esgob Bangor brawd i Rotbert ap Ierwerth ap Rithid o Goed y Mynydd;" ac yr oedd yr Esgob hwn felly yn ewythr o frawd i'w dad i Ithel ap Robert. Gwelwn hefyd, wrth gymharu y gwahanol achau, fod Dafydd ap Bleddyn, Esgob Llanelwy (Gwel "Araith," Rhif XXIII.), yn gefnder i fam Ithel ap Robert. Felly, yr oedd Ithel, o ran ei waedoliaeth a'i gyssylltiadau teuluaid, yn wr lled urddasol; a deallwn oddi wrth y cywydd canlynol ei fod yn dra chyfoethog.

Olynodd un William de Spridlington fel Archddiacon Llanelwy, yn 1375; ac yn 1382, olynwyd yntau gan un Thomas Rushooke (*Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph*, p. 236). Beth a ddaeth o hono wedi hyny, nis gwyddom; ond os ydyw Pennant yn gywir, fel y sylwasom uchod, ni bu farw hyd 1393, pa faint bynag yn ddiweddarach. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg ei fod yn dal y swydd o archddiacon pan gyfansoddwyd y cywydd hwn. Saif Coed y Mynydd, yr hwn sydd yn awr yn ffermdy, ym mhlwyf Ysceifiog, heb fod ym mhell o Gaerwys, ar yr ochr ddwyreiniol i Fynydd Bodfari, neu "Moel Park." Yn agos i'r fferm hon, os nad yn rhan o honi, y mae "Mynydd Llys," yr hwn a gafodd yr enw, mae'n debyg, oddi wrth Lys Coed y Mynydd—cartrefle Ithel ap Robert. Fe welir fod Ithel ac Iolo yn byw yn agos i'w gilydd; ac hefyd y mae yn amlwg oddi wrth y cywydd eu bod yn gryn gyfeillion. Yr oedd Ithel yn hael o'i roddion i Iolo, a'r bardd yn ad-dalu trwy gyfansoddi cywyddau canmoliaethol. Er fod Tudur Aled yn oesi oddeutu can' mlynedd yn ddiweddarach, yr oedd cyfeillgarwch Ithel ac Iolo yn hysbys iddo. Mewn cywydd i Syr Thomas Salsbury (*Ceinion Llennyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 338) dywed:—

“ Dafydd faer rhydd Ifor Hael,
Iolo doeth i wlad Ithael.”

Ac mewn cywydd arall i “ ofyn gown gan Syr Sion Tudur, curad Elsmer, i Guttyn Wilcog ” (*Cein. Llen. Gymreig*, cyf. i., tudal. 344) ceir llinellau ag sydd yn profi, feddyliem, fod Iolo yn arfer blino Ithel am anrhegion :—

“ Iolo Goch pob elw a gai,
I Lys Ithel y saethai !
Saethaf i le sy wythwell,
Son am hael sy iawn ymhell :
Son melus sy'n ymeiliaw,
Son am wr dros Hanmer draw.”

Ar ol ymofyn cryn lawer methasom dd'od o hyd i fwy na'r ddau “ Gywydd March ” canlynol o waith Iolo, yn y rhai y gofyna am unrhyw gymmwynas neu anrheg i Ithel ap Robert; ond gallwn gasglu, oddi wrth y llinellau uchod, na foddlonodd Iolo ar hyny. Rhaid fod ei enw fel ymbiliwr am gymmwynasau wedi myned yn ddiahebb trwy'r Sir, cyn y buasai y fath beth yn cael ei adgoffa gymmaint o amser wedi iddo farw. Ac y mae yn amlwg, yn ol ein tyb ni, na fuasai gofyn un neu ddwy o gymmwynasau yn cael ei gofio am y fath amser hirfaith. Rhaid, mewn canlyniad, fod yr ymbiliadau a'r anrhegion yn bethau ag oeddynt yn cymmeryd lle yn fynych.

Rhyfedd yn ein dyddiau ni fuasai gweled bardd yn cyfansoddi cywydd i ofyn am farch i un o foneddwy'r ein gwlad; ond yr oedd y fath gywyddau yn lled gyffredin yn amser Iolo Goch. A'r pryd hwnw, pan yr oedd y beirdd yn myned ar eu cylch clera, a'r cyfleusderau i deithio mor ychydig, yr oedd march yn gaffaeliad gwerthfawr. Eto, prin y buasem yn dysgwyl y buasai “ *Arglwydd Llechryd* ” yn gofyn am y fath beth. Pa fodd bynag, yr ydym yn ofni na buasai o nemawr fudd i feirdd ein dyddiau ni geisio adfer yr arferiad. Ond er fod llin. 89-90 yn gofyn am y march fel *anrheg* o dan ammod, eto awgrymir yn llin. 25 ac 83 nad oedd, wedi'r cyfan, ond yn gofyn am fenthyg march am ryw dymhor penodol.

- Pwy in mysk ynn pen masnach¹
 a fyn a rhoi Duw ym farch
 O ganmol werth ugein mork
 4 am un march mwy no mork²
 Elw mawr kael eilian³ mawl
 or gorwedd⁴ y rhagorawl
 Nid ha arianog⁵ ond rhai
 8 Dyn mwyn ni mynn dwyn mwnai⁶
 Dyn arall mynn dwyn arian
 Dwyn i glod a fyn dyn glan
 Ynni Dalm a wnai Delyn⁷
 12 o flaen dawns ni flina dyn
 fellu i gwna ki da Diorn
 llafar i kais gan llef y korn⁸
 Hwyl i peru⁹ na hayarn¹⁰
 16 gwawd na march gwydyn yw marn¹¹
- ¹ Y mae geiriad y llinellau blaenaf yn lled anhawdd. Buasai yn hawddach i ni ddeall y llinell gyntaf yn y wedd a ganlyn :—
 “Pwy yn mysg ein pen masnach.”
- ² “O ganmol gwerth ugeinmorc Am un march a mwy no morc.”—*Add. MS.*, 14,970.
 “O ganmol wrth ugeinmork Am un marx a mwyno mork.”
Add. MS., 14,964.
- ³ “Eiliaw”—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964. Eiliaw (=cyfansoddi) sydd gywir.
- ⁴ Y mae y testyn yn wallus ; ond y mae *Add. MSS.*, 14,970, a 14,964 yn gywir trwy roddi “er gorwydd.” “Gorwydd” ydyw march wedi ei ddysgyblu yn briodol.
- ⁵ “Tra arianawg.”—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.
- ⁶ Nid ydyw “mwnai” ond enw arall am *arian*. Dywedir wrthym yn Nhestament Salesbury (1 Tim. vi., 10) mai “chwant-mwnws yw
- gwreiddin pob drwg ;” ac er mwyn gwneyd yr ymadrodd yn fwy eglur, debygid, rhoddir ar ymyl y ddalen —“ bath, mwnei.”
- ⁷ “Yni dalm a wna Delyn.”—*Add. MS.*, 14,970.
- ⁸ “Felly gwna ci da diorn Llafar y cais llef a'r corn.”
Add. MS., 14,970.
 “Felly y gwna ci da diorn llafar y cais gan lleeg y corn.”
Add. MS., 14,964.
- Ymresymiad Iolo yn y llinellau hyn ydyw fod dyn da mor barod i wrando ar glod ag ydyw y dawnsiwr i ddawnsio o flaen y delyn, neu'r ci da, hydrin, i fyned allan i hela yn swm y corn.
- ⁹ “Pery.”—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.
- ¹⁰ “Haeam.”—*Add. MS.*, 14,970.
- ¹¹ “Gwawd na march a gwydyn yw' marn.”
Add. MS., 14,970.
 “Gwawd no marx a gwydyn yw marn.”—*Add. MS.*, 14,964.

- Ni ddiffig¹ gwawd tafawd ta²
 ni lwgr³ ar ddwr ni lwyga⁴
 Na llym-goes ni all am gerdd⁵
 20 ruthur⁶ or gysp⁷ ddieithro/r/ gerdd
 Na ffarsiwn yw ni ffawr soeg⁸
 fal keffyl trymgu⁹ tremgoeg
 Ni wask hefyd yskyfaint
 24 ag ni fag ynddi haint
 Pregeth am hun beth¹⁰ yw honn
 marw or gysb mawr argospion¹¹
 Talai ym ddoe talm o dda
 28 heno ynn farw fal hen fria¹²
 Gwiliwch¹³ lle mae y gelain
 Ar lethr y brynn i lithiaw brain¹⁴

Barn "wydn" Iolo ydoedd y byddai ei gywydd canmoliaethol ef i ofyn am farch yn fwy parhaol na'r march ei hun; le, na haiarn hefyd. A dywedodd y gwir.

¹ "Ddiffyg."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Da."—*Add. MS.*, 14,970.

Ceir "ta" yn lle "da" yn fynych mewn rhai ysgriflyfrau.

³ "lwgr"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

⁴ "Lwyga."—*Add. MS.*, 14,964.

"Lwyga" = *to turn restive*.

⁵ "Angerdd."—*Add. MSS.*, 14,964, a 14,970.

Angerdd = *terwynder* (*vehemency*).

⁶ "Ruthr"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

⁷ "Gysp" = *staggers*: afiechyd neillduol ar geffylau.

Y mae y bardd yma, os ydym yn ei ddeall, yn cymmysgu bob yn ail deithi a pherthynolion march a cherdd, mewn dull lled gywrain, ond cwbl ddiwerth.

⁸ "Ni affwsloner ni ffawr soeg." *Add. MS.*, 14,970.

⁹ "Trwymgul"—*Add. MS.*, 14,970; "trwyngul"—*Add. MS.*, 14,964.

¹⁰ "Hirbeth"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964. Golyga "hurbeth" geffyl, neu rywbeth cyffelyb, yn fenthyg = *hired horse*; a tebyg mai "hurbeth" a ddywedodd Iolo.

¹¹ "Marw o'r gysp mawr argospion."

Add. MS., 14,970.

"Marw or gysp mawr ar gospion."—*Add. MS.*, 14,964.

"Argospion" = *coopedigaethau*: ystyriai y bardd fod y golled a gafodd trwy i'w geffyl drigofel math o gosp arno.

¹² "Heno'n farw fal hen furia"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

"Furia" (= *carrion*) sydd gywir.

¹³ "Gwiliwch" = *sylwch*.

¹⁴ "Ar lethr y bryn y lithiaw'r brain."—*Add. MS.*, 14,970.

"Ar lethr y bryn y lithiaw'r brain."—*Add. MS.*, 14,964.

RR

Dir ym kyn dwyn da ar oed¹
 32 roi ergid² cais ir argoed³
 Rhingof uniown gof angerdd
 a choed y mynydd a cherdd⁴
 Gyrthied⁵ kof eurged fowrgoeth
 36 ym-henn⁶ y dewinbren doeth⁷
 Ithel wyr Ithel wr uthur⁸
 Orwyr Ithel llwyd⁹ aruthur⁹
 A tholedig¹⁰ iaith loywrdeg
 40 Ithel delw fihangel deg¹¹
 Pendefig dri dyblig dabl
 personaidd¹² pur rosonabl¹²
 Prelad¹⁴ iawn pur aelwyd yw
 44 ir Eglwys aur rowioglyw¹⁵
 Kyd wersog kof diweir salm¹⁶

¹ "Dir ym cyn dwyn da ar oed."
Add. MS., 14,970.

"Dir ym cyn dwyn da o'r
 coed."—*Add. MS.*, 14,964.

² "Ergyd"—*Add. MSS.*, 14,970,
 a 14,964.

³ A oes yma gyfeiriad at ymgais
 aflwyddiannus o eiddo y bardd am
 gael marchmewn lleo'r enw Argoed?

⁴ I'n tyb ni y mae darlleniad
Add. MSS., 14,970, a 14,964, yn
 anghywir yma:—"A choed a
 mynydd a cherdd." Dyweyd y mae
 y bardd iddo fyned rhagddo gyda
 phrysurddeb tua Choed y Mynydd,
 preswylfod Ithel, gyda cherdd.

⁵ "Gyrthied" = dyfod i gyffyr-
 ddiad a.

⁶ "Ymgen."—*Add. MS.*, 14,964.

⁷ "Uthr"—*Add. MSS.*, 14,970,
 a 14,964.

⁸ "Lwyr"—*Add. MS.*, 14,970;
 "llwyd"—*Add. MS.*, 14,964.

Achau Ithel ap Robert o ochr ei
 fam a geir yma, yr hon, fel y
 sylwyd, oedd ferch Ithel Vychan
 ap Ithel Llwyd.

⁹ "Arythr."—*Add. MS.*, 14,964.

¹⁰ "Etholedig."
Add. MS., 14,970.

Nid ydyw llin. 39 a 40 yn *Add.*
MS., 14,964; ond y mae yn rhoddi
 "Etholedig" yn lle "Pendefig"
 yn nechreu llin. 41.

¹¹ St. Michael yr Archangel, gwyl
 yr hwn a gynhelir Medi 29. Y mae
 Iolo yn cyffelybu Ithel iddo!

¹² Gwell genym "personaidd" na
 "personiaid" fel yn *Add. MSS.*,
 14,970, a 14,964.

¹³ "Resonabl"—*Add. MSS.*,
 14,970, a 14,964.

Rhesymol (o *reasonable*).

¹⁴ "Prelad" (= *Prelate*) = Esgob.
 Nid oedd Ithel yn esgob; a
 diammeu mai yn y ffurf o foesair
 (*compliment*) y defnyddir y gair yma.

¹⁵ "Rywiawglyw"—*Add. MSS.*,
 14,970, a 14,964.

¹⁶ "Cydwersawg cof diweirsalm."
Add. MS., 14,970.

"Cyd wersog cof diwair salm."
Add. MS., 14,964.

fum ag ef ynn delef dalm
 Gidar vn Athro klo klod¹
 48 an henfeistr gwys yn hanfod²
 Or un llwyth o Ronnwy llwyd³
 Post Drefrydd pais Dryfnod⁴
 Peth mwy o Ronnwy wir iawn⁵
 52 winfaeth bennaeth fab Eniawn⁶
 Uriel⁷ fu /r/ angel bro engyl⁸
 Digon oeddyd i degingyl⁹
 Nid oes fab sant or kantref¹⁰
 56 oen Duw na phenraith¹¹ ond ef
 Gre¹² sydd eiddo gras eiddun¹³
 A meirch a pham na rydd ym un¹⁴

¹ "Gyda'r un athro clo elod."

Add. MSS., 14,970, a 14,964.

² Awgrymir yma fod Ithel ac Iolo yn adnabyddus i'w gilydd er yn blant, a'u bod wedi bod dan addysg yr un athraw. Yr oedd eu bod yn gyd-ysgolheigion yn ddadl gref dros i'r blaenaf wrando ar gais yr olaf.

³ "Or un llwyth oronwy llwyd."

Add. MS., 14,964.

"Post Drefryd pais edrif-rwyd."—*Add. MS.*, 14,970.

"Post drefrydd pons drifwyd." *Add. MS.*, 14,964.

⁵ "Ronnwy uniawn."—*Add. MS.*, 14,964.

Gronwy ap Einion ap Seysyllt. Owel yr achau ar ddechreu y Cywydd.

⁶ "Winfaeth bennaeth fab Ein-iawn."—*Add. MS.*, 14,970.

"Winvaeth bennaeth fab Ein-iawn."—*Add. MS.*, 14,964.

⁷ Enw a roddir ar un o'r angylion.

⁸ "Irugl."—*Add. MS.*, 14,964.

⁹ "I Degeingl"—*Add. MS.*, 14,970; "a deg einigl"—*Add. MS.*, 14,964.

Tegeingl (Seis. *Englefeld*)—enw a roddid gynt ar gantref yn Sir Fflint, yr hwn a elwir yn awr gan y Seison yn "Hundred of Coles-hill."

¹⁰ "Nid oes Fabsant o'r Cantref."

Add. MS., 14,970.

"Nid oes mab sant o'r cantref." *Add. MS.*, 14,964.

Cantref Tegeingl.

¹¹ "Phen rhaith"—*Add. MS.*, 14,970; "phenwaith"—*Add. MS.*, 14,964.

¹² "Gre sy iddaw, gras eiddun."

Add. MS., 14,970.

"Gressydd iddo gras euddyn." *Add. MS.*, 14,964.

¹³ "Gre" (=stud). Hyny yw, yr oedd gan Ithel luaws o feirch.

¹⁴ "A meirch, pam na rydd im un?"—*Add. MS.*, 14,970.

Na roed farch kul diarchen¹
 60 bwygus² i wr heinus hen³
 rhag gorwedd osgedd ysgwnn⁴
 ynn dwyn y baych dann i bwnn⁵
 Pei kaffwn arian swm rymnsi⁶
 64 heb fwng ef ai hebo fi⁷
 Mi a wnn ar hwn /r/ haf⁸
 mae ebol goffol⁹ a gaffaf

¹ "Diarchen" = un heb ei bedoli.

² "Brwygys."—*Add. MS.*, 14,964.
 Yr ydym yn methu a chael
 "bwygus" na "brwygys" yn ein
 geirlyfrau. Awgryma Iolo Mor-
 ganwg "llwygus" ar ymyl y ddalen
 yn *Add. MS.*, 14,970; a thebyg
 mai "llwygus" = *antwywaeth* sydd
 gywir.

³ Gwelir fod y bardd wedi myned
 i oed y pryd hyn.

⁴ "Osgedd ysgwn"—*Add. MS.*,
 14,970; "asgedd ysgwn"—*Add.*
MS., 14,964.

"Osgedd" = ystum?

⁵ "Yn dwyn y baich dan ei
 bwnn."—*Add. MS.*, 14,970.
 "Yn dwyn y baix dan i bwn."
Add. MS., 14,964.

⁶ "Pe caffwn ranswn rwnsi."
Add. MS., 14,970.

"Pe caffwn arian swm rownsi."
Add. MS., 14,964.

"Rhwnsi," yn ol y Dr. Pughe,
 ydyw ceffylgyda blewyn garw. Yng
 Nghyfreithiau Hywel Dda (*Myv.*
Arch., p. 998) dywedir—"R6nsi,
 neu s6mermarc, c6eugaint a tal,"
 yr hyn a gyfieithir gan Aneurin
 Owen (*Myv. Arch.*, p. 1052) fel
 hyn—"A runcoy, or a sumpter-

horse, is six score pence in value."

⁷ "Heb fwng ef a hebo fi."

Add. MS., 14,970

"Heb fwng ef ae hebo fi."

Add. MS., 14,964.

O bosibl nad oes yma gyfeiriad
 at arferiad o dori ymaith fwng
 ceffylau; a gofyna y bardd am un
 heb dori ei fwng, onide ni allai
 sefyll ar ei gefn pe cawsai "arian
 swm rymnsi."

⁸ "Mi a awn ar hwn yr haf."

Add. MS., 14,970.

"Mi awn ar hwn yr haf."

Add. MS., 14,964.

Y mae yn eglur mai y testyn sydd
 gywir; o blegid cyssylltir y rhan
 gyntaf o llin. 65 gyda'r llinell
 ddilynol:—

"Mi a wn . . . mai ebol goffol
 a gaffaf."

⁹ "Goffol" = lled wirion. Tebyg
 mai mewn ysmaldod y dywedai y
 bardd hyn. "Er i mi," fel pe
 dywedasai, "ofyn am farch cym-
 hwys i hen ŵr fel y fi, eto y mae yn
 ddigon tebyg mai un hollol groes i
 hyny a gaf; ac os felly," fel yr aw-
 gryma yn y llinellau dilynol, "nis
 gwn pwy a all ei ddal i'w bedoli, na
 pha fodd y marchogaf in nau ef."

- 68 pwy ai deyl tre pydolwyf¹
 pwy a lun arno pwl wyf²
 O rhed march³ ar hyd y maes
 gorwyllt lwdwn⁴ fal gafr walltlaes
 Ni thrigwnn eithr ar ogwydd
 72 im kyfrwy mwy nag wy gwydd
 O thiria⁵ hwch a throi hwnn⁶
 kamp yw arno kwmpiwnn⁷
 O siga kloria⁸ kleiriach⁹
 76 o syrth ni ddwg un nos iach
 O bratha flaen fy nhafawd¹⁰
 yna gwaethyga gwawd¹¹
 Nid ta ir kylla keullawn¹²
 80 march a thyth rhag morchwyth iawn¹³

¹ "Pwy ai deil tra pedolwyf."

Add. MSS., 14,970, a 14,964.

² "Pwy a lŷn arno pwl wyf."

Add. MS., 14,970.

"Pwy a lyn arnaw pwl wyf."

Add. MS., 14,964.

³ "Nag."—*Add. MS.*, 14,970.

Cymreigiad o air Seisoneg a geir yn yr ysgriflyfr hwn; ond "march" ydyw y goreu. *Nag* = oorfarch. Sonia Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 310) am "*Nag* tew yn gwa iawn."

⁴ "Lwdn"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

⁵ "O thiria," gwell nag "O thuria" yn *Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

⁶ "Hwn"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

⁷ "Camp yw arnaf y cwypwnn."

Add. MS., 14,970.

"Camp yw arna y cwympiwnn."

Add. MS., 14,964.

⁸ "Kloria" = cloriau, yma yn golygu y corff fel gwisg yr enaid.

⁹ "Kleiriach" = hen ŵr meth-iedig.

Nid ydyw llin. 74-75 yn *Add. MSS.*, 14,970 a 14,964.

¹⁰ "O brathaf flaen fy nhafawd."

Add. MS., 14,970.

"O bratha flaen fynhauawd."

Add. MS., 14,964.

Brathu blaen ei dafod, mae'n debyg, wrth syrthio oddi ar y march.

¹¹ "Wel yna waeth y ca wawd."

Add. MS., 14,970.

"Wel yna waeth y cu wawd."

Add. MS., 14,964.

Ar ol brathu ei dafod, buasai yn fwy anhawdd iddo ganu moliant.

¹² "Nid da ir cylla ceullawn."

Add. MSS., 14,970, a 14,964.

¹³ "March a thuth amorchudd

iawn."—*Add. MS.*, 14,970.

"Marx a thyth rhag morxudd

iawn."—*Add. MS.*, 14,964.

- llyna¹ megis y llinniwn²
 pes keid yng-wilie'r pask hwnn³
 Hacknai⁴ a siwrniai sarn
 84 Didramgwydd da di-drym-garn
 gwynn i fyd hefyd yr haf
 ai gwelai y modd i gwelaf
 Gwas go gwtta da di-hort⁵
 88 ag eiddystyr mewn kebystyr kort⁶
 Yn dyfod dann' ammed ym
 ynn anrheg gan Ioniewn-rhym⁷
 Mi a wnawn lawn lawenydd
 92 yw genad e gyn y dydd⁸
 Drwy groeso Duw droi gras da¹⁰
 Wrtho ef am diwartha.

Iolo Goch ai kant.

¹ "Llamma."—*Add. MS.*, 14,964.
 Diammeu mai "llyma," yn ol *Add. MS.*, 14,970, sydd gywir.

² "Llinniwn" = *lunion*, mae'n debyg; ond "llymwn" a geir yn *Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

³ "Pesceid yngwiliau pasg hwn." *Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

⁴ "Hacnai"—*Add. MS.*, 14,970; "Hacnai'n"—*Add. MS.*, 14,964.

Nid ydym mewn un modd i dybied mai y cerbyd hwnw a elwir yn *Hackney-coach* a feddylir yma; o blegid nid oedd cerbydau o'r fath mewn bod yn amser Iolo; y meddwl yma yn ddiau ydyw *ceffyl benthyg*. Defnyddir y gair *Hacnai* am *farch* gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 299):—

"Dwyrod o bob prietas,
 Ar eu *Hacnai*'gai beb gwas."

⁵ Y mae *Add. MS.*, 14,964, yn wallus wrth roddi "digort."

Wrth "dihort" yn llythyrenol y meddylir *digorydd*, ond y meddwl

yma ydyw *difai*. Cyfieithir llin. 87-88 gan y Dr. Pughe (*Geiriadur*, s.v. "cort") fel hyn:—"A good squabby boy, not to be chided, with a steed in a halter of cord."

⁶ "Ag eiddystyr mewn kebystyr cort."

Add. MSS., 14,970, a 14,964.

Eddystyr = march.

⁷ "Dan"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

⁸ "Iôn iawnrym."—*Add. MS.*, 14,970.

"Ion." Y mae yn galw Ithel yn *arghwydd*.

⁹ "Iw gumed ef gyn y dydd."

Add. MS., 14,970.

"Yw genad gyn y dydd."

Add. MS., 14,964.

Addewid sydd yma o'r croesaw a wnelai i was Ithel pan ddeuai â'r march.

¹⁰ "Drwy groeso Duw troi gras da."—*Add. MS.*, 14,970.

XXXI.

C. I ERCHI MARCH ITHAEL AP RHOTPERT.

(*O Llyr Huw Lleyr—Add. MS., 14,967, fol. 84b*).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,964, 14,969, a 14,970; ac hefyd yn *Jesus MS.*, C. 101, p. 360.

Pa un ai o flaen ynte ar ol y cywydd blaenorol y cyfansoddwyd hwn, sydd fwy nas gallwn benderfynu; ond ceir digon o brawf ynddo y dylid ei amseru yn y cyfnod yr oedd Ithel yn dal y swydd o archddiacon (1375—1382). Nid oes un awgrymiad yn y cywydd hwn mai gofyn am fenthyg march yr oedd y bardd; ond yn hytrach, y mae yn erfyn mewn modd amlwg, a chyda chryn hyder y gwrandawid ar ei gais, am gael un yn anrheg. Yn y dechreu, cwyna wrth yr hen geffyl oedd ganddo ei fod wedi myned mor hen nes yr oedd yn ymollwng o dano, a dywed fod yn rhaid iddo gael un arall yn ei le. Ond yr hyn oedd yn ei ddyrysu yn lân oedd na wyddai ym mha le y caffai un; a phan yn cwyno fel hyn, y mae ei hen geffyl methiantus yn ei gynghori i fyned at yr Archddiacon Ithel ap Robert, ac yn ei sicrhau y byddai iddo gael un ond ei geisio. Ac y mae y llinellau o 15 hyd 26, fel y dangosir yn *Add. MS.*, 14,970, yn cael eu priodoli i'r hen geffyl. Bydd yn fanteisiol cadw hyn mewn cof wrth ddarllen y llinellau hyny. Yna y mae Iolo yn ein hysbysu i'w gais droi allan yn llwyddiannus, ac yn dysgrifio pa fath farch a gafodd. Ceir amryw awgrymiadau yn y cywydd fod y bardd yn hen ac yn dlawd; ac y mae y rhan olaf o hono mewn modd arbenig yn canmol Ithel am ei haelioni a'i garedigrwydd gwastadol tuag ato. O ran ei deilyngdod fel cyfansoddiad barddonol, o leiaf y

rhanau a ddeallwn o hono, gellir ei roddi yn y dosbarth canolig o'i gymharu â chyfansoddiadau ereill yr awdwr Eto, tybiwn y buasai yn anhawdd iddo ganu yn well ar y fath destyn sychlyd—er yn bwysig iddo ef.

Ro¹ Duw mawr y march blawrblwng²
 Mall yr wyd yn ymollwng
 Tec gwrser tew a garsyth³
 4 Oeddyd drwc na bythvt byth⁴
 Gyrveydd⁵ gorav vuost
 Ithol⁶ dihir ym a thost
 Gweled yn wac lle ith vagwyd⁷
 8 A bod dy breseb heb bwyd⁸
 Beth awnna dana im dwyn
 am or wyddvarch mawr addvwyn⁹

¹ "Rho"—*Add. MS.*, 14,970; ond wedi ei adael allan yn *Add. MS.*, 14,964.

² "Blawr"—llwyd-wyn. "Blwng"—anfoddog.

³ "Teg o Gwrser tew a gwar-syth.—*Add. MS.*, 14,970. "Cwrser" (o *courser*) = rhedegfarch. Defnyddir y gair gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 27) :—

"Ser ar bob *cwrser* o'r cwrt,
 A llyn a bwyd er llanw bort."

⁴ "Oeddyt tost na byddyt byth."
Add. MS., 14,970.

⁵ "Gyrfaidd"—*Add. MS.*, 14,970;
 "Gyrfaudd"—*Add. MS.*, 14,964, a *Jes. MS.* Cyfieithir y llinell gan y Dr. W. O. Pughe fel y canlyn :—
 "The best racer hast thou been."

⁶ "Ith ol"—*Add. MS.*, 14,970, a *Jes. MS.*

⁷ "Gweled yn wag, lle'th fagwyd."—*Add. MS.*, 14,970.

⁸ Gwell na darlleniad *Add. MS.*, 14,970, o ran y dechreu, ond gwael-

ach na'r diwedd :—"O fod dy breseb heb fwyd." "Preseb" ydyw yr enw a roddir yn gyffredin ar y lle yr ymbortha gwartheg mewn beudy; ond "rhesel" (*rack*) ydyw yr enwaroddir ar ymborthtan y march mewn ystabl; a "resel" ydyw y darlleniad yn ol *Add. MS.*, 14,964. Pa fodd bynag, y mae ein geiriadurwyr yn defnyddio preseb am y naill a'r llall, er enghraifft, dywed Thomas Richards—"Preseb, a *cratch*, a *rack* or *crib*, a *manger*."

⁹ "Beth a wnaif danaf im dwyn am orwyddfarch mawr addvwyn."—*Add. MS.*, 14,970.

Nid oes dim gwahaniaeth rhwng y darlleniad hwn a'r testyn, ond yn unig fod rhanau o'r geiriau yn cael eu dadgysylltu. "Gorwydd" ydyw *rhedegfarch* wedi ei ddysgyblu; ond yma y mae y bardd yn ychwanegu *march* fel attodiad iddo, gyda'r unig amcan o gael y llinell yn ei hyd.

- Gorddyn¹ gan gleiriach gerdded²
 12 heb gael gorffowys³ heb ged
 heb varch ym onis archwnn⁴
 I bwy is konuw nis gwnn⁵
 Rof gyngor yt rac angen⁶
 16 Myned at Ithael hael henn
 Ap Ropert vab pert ywr por⁷
 Ion Archdiagon devgor⁸
 Dogn anaeth da gan ithael
 20 Kadw kylch ac ef kyd kael⁹
 Nid rraid i ti ni ddieylch¹⁰
 Nac oidi kar nev gadw kylch
 Nac ervyniaid kyvriaid ku¹¹
 24 Nac¹² *erchi* ond ei gyrchu eirchiaid

¹ "Gorddig."—*Add. MS.*, 14,970.

Ai nid "gorddwy" (= *oppression, violence, pressing, &c.*) a ddylai fod yma? Ai nid dyweyd y mae, mai caled oedd i hen ŵr orfod cerdded?

² Yn ol y llinell hon yr oedd y bardd mewn oedran pan gyfansoddwyd y cywydd.

³ "Gorphwys."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Oni archwn."—*Add. MS.*, 14,970.

⁵ "I bwy'n is Gonwy nis gwn."

Add. MS., 14,970.

Is Gonwy ydyw y rhanbarth ddwyreiniol i afon Gonwy.

⁶ "Rho gyngor yt rhag angen."

Add. MS., 14,970.

⁷ "Ab Rhobert ^{ab} pert ^{ab} pŵr."

Add. MS., 14,970.

⁸ "Archddiagon ddeugor."

Add. MS., 14,970.

Y mae yma awgrymiad fod Ithel yn dal dwy swydd berthynol i'r Eglwys Gadeiriol.

⁹ "Dogn a wnaeth da gan Ithael cadw cylch ag ef cyd ^{cael} ^{cael}." *cael*.

Add. MS., 14,970.

"Dogn waith da gan Ithel

gadw cylch ag ef gwedi cael."

Add. MS., 14,964.

Os ydym yn deall y bardd yn iawn, ei feddwl ydyw y buasai Ithel yn ei ystyried yn ddigon o dâl am y march i Iolo fyned ar gylch i'w lys i farddoni tipyn iddo. Ond yn y llinellau dilynol y mae yn ychwanegu nad oedd hynny mewn un modd yn angenrheidiol *cyn* iddo gael y march—nad oedd eisiau dim heb law anfon am dano. Felly, yr oedd gan yr hen fardd syniad uchel am haelioni ei noddwr, o'r hwn yr oedd wedi derbyn, yn ddiammeu, lawer tro cyn hyn.

¹⁰ "Ddieylch"—*Add. MS.*, 14,970;

"ddieilx"—*Add. MS.*, 14,964.

¹¹ Ni bydd angen am yr erfyniadau arferol. Y mae darlleniad y testyn, yn ein tyb ni, yn ddigon dealladwy, ac yn llawer gwell na'r rhai a ganlyn:—

"Nag ymddiried cysred cu."

Add. MS., 14,970.

"Nac yn ddyried cyffred cu."

Add. MS., 14,964.

¹² "Nag."—*Add. MS.*, 14,970.

- Ti a gai¹ eddestr tec iawn
 Ganthaw oi wenllaw winllawnn²
 Bu gwir oes i debic e
 28 Benaic eglwys ben gogle³
 Marrw vymarch mawr vu i mi
 Egyllaeth wedi i golli⁴
 Anvon anwyllion yn ol
 32 Syberw⁵ vu ddewis ebol⁶
 A hebrwng eddystr⁷ blwng blawr
 Kain addvwyn tec kynyddvawr⁸
 Karn gevgraff mewn rraff yn rrwym⁹
 36 Byanrudd mawr i benrwym¹⁰
 Brondor pes brynai Ior Iorc¹¹
 Dirmic oedd arnaw deirmork

¹ "A gai"—*Add. MS.*, 14,970,
 a *Jes. MS.*

² Gwell ydyw darlleniad *Add. MS.*, 14,970:—

"Ganthaw ai wenllaw winllawn."

³ Y mae darlleniad *Add. MS.*, 14,970, yn well yma eto:—

"Bu gwir na bu debig ef
 Pennaig Eglwys ban goglef."

⁴ "Marw fy march mawr fu i mi
 O gyllaeth wedi golli."

Add. MS., 14,970.

"O gyllaeth" = O ofid: Y mae y geiriau hyn, gydag amryw ereill, yn y cywydd hwn yn gystal a'r un blaenorol, yn mwy nag awgrymu os oedd Iolo yn Arglwydd Llechryd, fely dywedir, ei fod yn rhy dlawd i brynu march iddo ei hun. Os na allwn gasglu y ffaith hon oddi wrth ei eiriau, rhaid dyfod i'r penderfyniad nad oes iddynt ystyr o gwbl, ac nad ydyw ei gywyddau yn werth dim.

⁵ "Syberw" = haelionus.

⁶ Nid ydyw llin. 31-32 yn yr ysgriflyfrau ereill.

⁷ "Eddestr."—*Add. MS.*, 14,970.

Eddestr = march, neu ryfel-farch. Ysgrifeniir ef yn *eddestr* ac *eddystr*.

⁸ "Cain addfwyn teg cynnydd-fawr."—*Add. MS.*, 14,970.

"Carn" a geir yn lle "cain" yn *Add. MS.*, 14,964.

⁹ "Carn gangraff mewn rhaff yn rhwym."

Add. MS., 14,970.

¹⁰ "Blaunrhudd ffurf ei benrhwym."

Add. MS., 14,970.

"Buanrhodd ffurf benrhwym."

Add. MS., 14,964.

"Byanrhudd ffurf i benrhwym."—*Jes. MS.*

Rhwng y llinell hon a'r un ddi-lynol, ceir y sylw canlynol ar ymyl y ddalen yn *Add. MS.*, 14,970, gan Iolo Morganwg:—"Diffyg yma I.M.," gan gyfeirio o bosibl at y diffyg odl rhwng "Iorc" a "morch."

¹¹ "Brondor pe'r prynai Ior Iorc dirmygoedd arnaw deirmorch."

Add. MS., 14,970.

"Brondor" = tarian.

- 40 Nid hwnn ywr march blaenbarch blawr
ffroenvoll olwyngarn ffrwynvawr¹
Kyntaf bardd vyddaf iddaw
Nac ola ym gael oi law²
Llyma r maes a llyma r march
44 Gwedi³ cael gavael gyvarch
Pa dda yr hyn derwyn dyrwyf⁴
Provi ei ddovi y ddwyf⁵
Pa vunud evd eofn⁶
48 Ar i gefn yra rac ofn⁷
Raid ysgynvaen chwaen chwimwth⁸
Trwm vydd⁹ dyn krwin val dwyn krwth
¹⁰Raid ym ochel bugelydd¹¹
52 Ai gorchymyn yn syn fydd¹²

¹ "A hwn yw'r march blaen-
barch blawr
ffroenvoll olwyngarn ffrwyn-
fawr."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Cyntaf bardd fyddaf iddaw
a golau im gael o'i law."
Add. MS., 14,970.

Tybiwn fod meddwl y testyn yn
ddigon eglur; ond nid felly y dar-
lleniad hwn.

³ "Wedi gael gafael gyfarch."
Add. MS., 14,970.

⁴ "Pa dda ym dirym dyrwyf."
Add. MS., 14,970.

"Pa dda im dir ym dyrwyf."
Add. MS., 14,964.

⁵ "brofi ei ddofi ydd wyf"
Add. MS., 14,970.

"Profi ei ddofi ydd wyf."
Add. MS., 14,964.

"brofi i ddofi i ddwyf."
Jes. MS.

⁶ "Pa funud ehud eofn."
Add. MS., 14,970.

"Pa fynyd ehud ehofn."
Jes. MS.

⁷ "Ar ei gefn yr af rhag ofn."
Add. MS., 14,970.

"Ar i gefn i raf rhag ofn."
Jes. MS.

⁸ "Rhag disgynfaen"—*Add. MS.*, 14,970, a *Jes. MS.*; "Rhaf disgynfaen"—*Add. MS.*, 14,964. Tebyg mai "Rhaid" a fyddai gywir. *Disgynfaen* = *horse-block*.

⁹ "Fyd" yn *Add. MS.*, 14,970; ond yn wallus yn ddiau. "Fydd" a geir yn *Jes. MS.*

¹⁰ Yn blaenori llin. 51 yn *Add. MS.*, 14,970, ceir y ban a ganlyn, yr hwn a welir hefyd yn *Cywydd Rhif XXX.*, llin. 71-2.

"Ni thrig eithr ar ogwydd
iw gyfrwy mwy nag wy
gwydd."

Y mae y ban hwn hefyd yn *Jes. MS.*

¹¹ "Bugelydd" = bugeiliaid.

¹² "A'r gorchymmyn rhai synn
sydd."—*Add. MS.*, 14,970.

"A gorxymun hyn sy'n
rhydd."—*Add. MS.*, 14,964.

- Ar y ffordd yro vi i ffo¹
 Rybuddied rrai ai beiddio
 O bell rrac dywedud bw²
 56 Gair honnaid garw yw hwnnw³
 Raid yw ym ochel melin
 Henllan⁴ gwrach grongllwydwan⁵ grin
 hi ai chlep val hwch lipa⁶
 60 Is y ffordd yn yssu⁷ ffa
 Ai chafn gan yr ayafnos⁸
 Ai ffordd garegawc⁹ ai ffos
 Raid ymoglud ryd maglau
 64 Glyn meirchion ar goed vron gau¹⁰

¹ "Ar y ffordd orhoff y ffo."

Add. MS., 14,970.

"Ar y ffordd oroff i ffo."

Jes. MS.

² "O bell rhag dywedud bw."

Add. MS., 14,970.

Yr oedd yr hen fardd yn ofnus ;
 yn gymmaint felly fel yr oedd arno
 ofn i unrhyw beth ddychryn ei
 farch.

³ "Gair hynod garw iw hwnnw."

Add. MS., 14,964.

⁴ Saif pentref Henllan mewn
 plwyf o'r un enw, ryw ddwy filltir
 i'r gogledd-orllewin o dref Dinbych,
 ar y ffordd sydd yn arwain i'r Coed
 a Llechryd—a saif Llechryd ryw
 filltir helaeth tu hwnt i Henllan.
 Mewn glyn dwfn, trwy yr hwn y
 rhed yr afonig Meirchion, y mae
 melin at falu gwenith; a gwelwn ei
 bod yno yn amser Iolo Goch.

⁵ "Grongllwydwann."—*Add. MS.*,
 14,970.

⁶ "A chlap megis hwch lippa."

Add. MS., 14,970.

Diau mai y testyn sydd gywir,
 er ein bod yn methu a deall pa
 debygolrwydd a allasai fod rhwng

"clep" melin Henllan i "hwch
 lipa," os nad oedd y naill fel y llall
 yn wrthddrychau i beri i farch
 ddychrynu.

⁷ "Ysu"—*Add. MSS.*, 14,970, a
 14,96

⁸ "Ai chafn gan yr auafnos."

Add. MS., 14,970.

"Ai chafn yn y gaiafnos."

Add. MS., 14,964.

⁹ "Garregog."—*Add. MS.*,
 14,970.

¹⁰ "Rhaid yw moglyd rhyd
 maglau

Glynn Meirchion a'r goed-
 fron gau."

Add. MS., 14,970.

Yn fuan ar ol myned trwy Hen-
 llan—i gyfeiriad Llechryd—daw y
 teithyddi orwaered sydyn, gyferbyn
 a'r hwn y mae codiad yr un mor
 sydyn. Trwy y glyn dwfn hwn y rhed
 nant o'r enw Meirchion, cyn ymuno
 â'r Asa. Gyferbyn â Melin Hen-
 llan, ar yr ochr arall i'r nant, gwelir
 palaedy o'r enw Llys Meirchion.
 Nid ydyw y glyn dwfn hwn yn
 cael ei alw yn awr yn *Glyn*
Meirchion, er ei fod felly mewn

- ¹Raid ofn y geffordd ddofn ddwys
 Ai chreiglethr vwch yr Eglwys
 Bo pa fo ym aflwm wy
 68 Ai syrthio ai nas syrthwy²
 llwyr vendith dduw llorf iowndec³
 Ir gwr ai roes gorau rrec⁴
 Vchelwyl hwyl hil vchdrud⁵
 72 Vchel grair yw byw mewn byd⁶
⁷llugorn y bwyll ai llogell
 llygad y berveddwlad⁸ bell
 Digwyl mapsant holl Degaingl
 76 digel glod angel gwlad eingl⁹

gwirionedd. Ond wrth edrych arno, nid ydym yn rhyfeddu fod ar Iolo ofn myned trwyddo ar farch gwyllt. Y mae pont goryg dda yn croesi nant Meirchion yn awr, yn ymwl y felin; a diammeu fod y lle yn llawer mwy peryglus y pryd hwnw nag ydyw yn awr.

¹ Yn blaenori llin. 67, yn *Add. MS.*, 14,970, ceir y ban a ganlyn:—

“Ffordd enbyd ar Ffair Ddin-
 bych,
 amlraenllwyn a gwrysglwyn
 gwrych.”

Yr un modd hefyd yn *Jes. MS.*, ond fod “grwysglwyn” yn cael ei roddi yn lle “gwrysglwyn.” Nid ydyw llin. 65-66, yn *Add. MS.*, 14,970.

² “Bo a fo ym aflwm wyf,
 ai syrthio ai na syrthiwyf.”
Add. MS., 14,970.

³ “Llwyr fendith Duw llorf
 iawndeg.”
Add. MS., 14,970.

“Llwyr fendith ddŵw llorf
 iawndeg.”

Jes. MS.

⁴ “Ir gŵr ai rhoes goreu rhêg.”
Add. MS., 14,970.

“Rheg” = anrheg.

⁵ “Uchelwyl hwyl hael Ychryd.”
Add. MS., 14,970.

“Uxelwyl hwyl hil Exryd.”
Add. MS., 14,964.

Cyfeirir yma at Uchdryd ab Edwin ab Goronwy, yr hwn o ochr ei fam oedd un o hynafiaid Ithel ap Robert. Als (Alice?) ferch Ithel Fychan ap Ithel Llwyd ap Ithel Gam ap Maredydd ap Uchdryd ab Edwin ap Goronwy. (Gwel uchod, tudal. 267 a 325.)

⁶ “Uxel grair yw’n byw’n y
 byd.”—*Add. MS.*, 14,964.

⁷ Nid ydyw llin. 73-74 yn *Add. MS.*, 14,970.

⁸ Nid ydyw yn eglur i ni pa briodoldeb oedd mewn dyweyd “y berveddwlad bell.” Cynnwysai y Berfeddwlad y pedwar Cantref a elwid Rhôs. Rhufoniog, Dyffryn Clwyd, a Thegeingl. Felly yr oedd cartrefleoedd Ithel ac Iolo o fewn i’r Berfeddwlad—ac nid yn bell.

⁹ “Dygwyl mabeant holl Degaingl
 digel glod angel gwlad Aingl.”
Add. MS., 14,970.

- Rac or wr mawr rrac eraill
 y sydd arnaw garllawr llaill¹
 llawenach lliw i wynneb²
 80 yw ef a haelach no neb³ fo
 Parabl rrysonabl ruw sant⁴
 kywirdeb mal kyweirdant⁵
 ffrwyth edyn ewynllwyth winlliw⁶
 84 A ffryd⁷ archangel ai ffrw
 Yn hadinaeth e helaeth hael⁸
 Weithian ymy yw ithael⁹
 Am keifn ydiw am kyvauillt
 88 Amau¹⁰ o beth a¹¹ mab aillt
 Ardreth dichwith¹² gan Ithael
 Y sydd ym gyflym yw gael

¹ Nid ydyw llin. 77-78 yn *Add. MS.*, 14,970. Ond eu hysgrifenu yn y drefn a ganlyn bydd eu meddwl yn amlwg:—

"Rhagor, wr mawr, rhag eraill
 Y sydd arnaw, garllaw'r llaill."

² "Ei wyneb."—*Add. MS.*, 14,970.

³ "Yn wir a haelach na neb."
Add. MS., 14,970.

"Yn wir helaethax na neb."
Add. MS., 14,964.

⁴ "Parabl rhysisiabl rhyw Sant."
Add. MS., 14,970.

"Parabl rysinabl ryw sant."
Add. MS., 14,964.

"Parabl rhysiniabl rhyw sant."
Jes. MS.

"rrysonabl" (o *reasonable*)= rhesymol.

⁵ "Cywirdeg fal cywairdant."
Add. MS., 14,970.

⁶ "Ffrwyth hyd yr unllwyth winlliw."
Add. MS., 14,970.

"Ffrwyth yd yr unllwyth wenlliw."—*Add. MS.*, 14,964.

⁷ "Phrid"—*Add. MS.*, 14,970;

"phrud"—*Add. MS.*, 14,964;

"ffryd"—*Jes. MS.*

Pryd a *gwedd* (= ffrw) archangel gan Ithel!

⁸ "Fy nhadmaeth ehelaeth hael."
Add. MS., 14,970.

"Fy nhadmaeth wr helaeth hael."—*Add. MS.*, 14,964.

Tebyg mai o ran ei garedigrwydd ato, yn gystal ag o ran ei swydd Eglwysig, y geilw y bardd ef yn dadmaeth, ac nid o ran y gwahaniaeth yn eu hoedran; o blegid yn y cywydd blaenorol y mae yn ei osod allan fel ei gyd-ysgolor.

⁹ "Imi weithion yw Ithael."
Add. MS., 14,970.

¹⁰ "A mau."—*Add. MS.*, 14,964.

¹¹ "Am."—*Add. MS.*, 14,970.

¹² "Ardreth ddichwith."—*Add. MS.*, 14,970.

Rhaid fod y gair "ardreth" yma yn golygu rhywbeth gwahanol i'w ystyr syffredin—rhodd neu anrheg, o heibl.

- 92 Pensiwn¹ balch gwalch *gwelhyth*² *gwehelyth*
 Diwallu kleirch³ ar veirch vyth⁴
 A chael ar bob vchelwyl
 Anrec a gwahawdd hawdd hwyl⁵
 *Teilyngorff tawel angerdd
 96 Talm ai gwyr da tal am gerdd
 Talu arian a rruddaur
 Marchoc wyf⁷ a meirch ac aur
 Ai vwyd ai lyn ar ei vord
 100 Wyr rrikart wi o rrekort⁸
 Duw iw adel dywedwnn⁹
 Poed gwir¹⁰ bywyd hir i hwn

Iollo Goch ai kant.

¹ "Pensiwn" (o *Pension*) = blwydd-dâl. Ond "Penswn" ydyw y darlleniad yn *Jes. MS.*

² "Gwehelyth."

Add. MS., 14,970.

³ "Clairch"—*Add. MS.*, 14,970; "cleirx"—*Add. MS.*, 14,964.

Y lluosog o *cleiriach* = yr hen methiantus.

⁴ "Fairch fyth"—*Add. MS.*, 14,970; "feirx fyth"—*Add. MS.*, 14,964.

⁵ "Anrheg a gwawd hawd hwyl."
Add. MS., 14,970.

"Anrheg gwahawdd hawdd i hwyl"—*Add. MS.*, 14,964.

⁶ Nid ydyw llin. 95-98 yn yr ysgriflyfrau ereill.

⁷ Ymddengys i ni mai "wyf" ac nid "wyf" a ddylasai fod yma; o blegid, ammhriodol a fuasai i farchog yn meddu ar feirch ac aur ofyn am farch.

⁸ "Ai fwyd ai lynn ar ei fort
 Wyr Rissart wy o Rariort."
Add. MS., 14,970.

"Ai fwyd ai lyn ar y ford
 Wyr Rixard iw o Roxord."
Add. MS., 14,964.

Yn y *Jesus MS.*, rhoddir "Rackort" yn lle "rrekort."

⁹ "Adael dywedwn"—*Add. MSS.*, 14,970, a 14,964.

¹⁰ "dir" *Add. MS.*, 14,970; "hir"—*Add. MS.*, 14,964

XXXII.

MARWNAD ITHAEL AP RHOTPERT O GOED Y
MYNYDD ARCHDIACON YN YSGEIFIOG.

(O *Llyr Huw Lleyr*—*Add. MS.*, 14,967, fol. 85b).

Y mae y cywydd hwn i'w gael hefyd yn *Add. MS.*, 14,970.

Os oedd Ithel ap Robert yn fyw yn 1393, fel y dywed Pennant (*Hist. of Whiteford and Holywell*, p. 119), rhaid amseru y cywydd hwn mor ddiweddar a hyny, pa faint bynag yn ddiweddarach. Y mae yn debyg i Ithel farw oddeutu'r flwyddyn hono; pa fodd bynag, y mae bron yn sicr i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi cyn ymgodiad Owain Glyndwr yn 1400, onide o bosibl na fuasai ynddo ryw gyfeiriad damweiniol at y terfysg hwnw.

Yn y cywydd maith hwn, y mae y bardd ar ol cofnodi marwolaeth Ithel, a gofidio o'r herwydd, yn sylwi na chymmerodd y fath beth le o'r blaen er marwolaeth Crist! Ac ar ol ymdroi rhyw gymmaint gydag anghydwedwr, y mae yn dyfod yn ol at ddydd claddedigaeth Ithel. Ceir ganddo lawer o linellau yn ymdrin ar y galar cyffredinol a deimlid ar yr achlysur; ond buasai efrydydd hanes yn hoffi dysgrifiadau manylach parthed i'r trefniadau cyssylltiedig. Yn hyn yr ydym yn cael ein siomi. Son am angylion y mae Iolo, ac nid am ddynion. Y mae yn y cywydd hwn, fel yn y rhan fwyaf o gyfansoddiadau y bardd, gryn lawer o ganmolïaeth, wedi ei gosod wrth ei gilydd mewn gormoddiaeth amlwg. Ond yr elfen a ddaw i'r golwg egluraf yn hanes Ithel ydyw ei haelioni; am y rheswm, mae'n debyg, mai y nodwedd hono oedd wedi profi o fwyaf o wasanaeth i'r bardd ei hun. Yn rhai o'r cywyddau a ganodd i ereill, yr ydym yn cael cyfeiriadau mynych at y cwpan meddwol—fel y byddai y bardd yn mwynhau y gyfeddach gyda'i

noddwyr, ac yn eu canmol am roddi iddo gyfleusdra i dori ei syched. Ond nid ydym yn cael cyfeiriadau o'r fath yn yr un o'r cywyddau a ganodd i Ithel ap Robert. Hwyrach nad oedd yr Archddiacon mor dueddol i'r cwpan a'r mwyafrif o'i gydoeswyr. Ond y mae yn amlwg ei fod yn haelionus wrth Iolo, yr hwn, fel y gwelir yn llinell 99, oedd yn â theulu ganddo; a'r rhai, yn ol pob tebyg, a deimlent golled ar ei ol. Ceir yn y cywydd hwn ynddo ei hun ddigon o awgrymiadau nad oedd Iolo yn â cyfoethog.

- Erres i tores tera¹
Yr awr honn blenhigion pla²
Ac eres i mac³ orofn
4 Arni bellen ddefni ddofn⁴
Mae achreth oer grethergryd⁵
Ar aksees mal kryn wres kryd⁶
Tymestl a ddoeth nid duwmowrth⁷
8 Dydd mawr rrwng diwedd y mawrth⁸
Ar Ebrill di ynill ynn⁹
Diviau¹⁰ bu dechrau dychryn

¹ "Eres y torres terra."—*Add. MS.*, 14,970.

"Eres" = rhyfedd; "tera" (o *terra*, Lladin)=daear?

² "Blanhigion bla."—*Add. MS.*, 14,970.

Ai planhigion *angeu* a feddylir?

³ "Y mag."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ Nis gallwn ddyfalu meddwl y llinell hon.

⁵ "Achreth o oergreth ergryd." *Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Rhag sies o grynwres y gryd." *Add. MS.*, 14,970.

Y mae yn amlwg fod yma wallau pwysig yn yr ysgriflyfrau; ac anhawdd ydyw penderfynu pa un ai cyfeirio y mae y bardd at y cryndod oedd wedi ymdaenu dros y wlad o

herwydd yr amgylchiad y cyfeiria ato, ynte oesio dyweyd y mae i Ithel farw o ryw glefyd tebyg i'r *cryd*.

⁷ "Tymbestl a wnaeth nid Duw Mawrth."—*Add. MS.*, 14,970.

Wel, os "*nid* Duw Mawrth," pa angen son am ddydd Mawrth o gwbl—ai er odli gyda'r llinell ddi-lynol?

⁸ "A dydd mawr rhwng diwedd Mawrth."—*Add. MS.*, 14,970.

⁹ "Ar Ebrill di grill dygn ynn." *Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ "Difiau."—*Add. MS.*, 14,970. Rhoddir ar ddeall i ni i Ithel farw ar foreu dydd Iau, sef pan oedd y

- Rwng¹ y dydd newydd ar nos
 12 Bychan a wyr ba achos
 Mawr o wth marw ithael²
 Mab rroperth mab pert mab hael³
 A rroddes i ni rruddaur⁴
 16 Llydan ac⁵ arian ac⁵ aur
 Maen rrinweddawl graeniaawl agraidd⁶
 Meririd⁷ glan mawr evraid
 Glain gwyrthvawr einglawr eingl⁸
 20 Glan da tec gloyn Duw tegeingl⁹
 Kar ei wlad gwledychiad gwledd
 Kroes naid¹⁰ ac ennaid *gennai* Gwynedd

dydd olaf o Fawrthnewydd ddarfod,
 a'r cyntaf o Ebrill newydd ddyfod
 i mewn.

¹ "Rhwing."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Mawr o wth yw marw Ithael."
Add. MS., 14,970.

Wrth "wth" y meddylir yr hyn
 sydd yn *ymledu*. Ymadrodd cyff-
 redin hefyd ydyw "Mewn gŵth o
 oedran."

³ "Ap Rotpert ap pert ap hael."
Add. MS., 14,970.

⁴ "A rroddes ym o ruddaur."
Add. MS., 14,970.

⁵ "Ag."—*Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Maen rhinweddawl gaen a
 gaid."—*Add. MS.*, 14,970.

Gwell genym ddarllenid y testyn.
 Tebyg mai *gloes chwerto* a olygir
 wrth "graeniaawl agraidd." Os felly,
 dylid cyssylltu "maen rrinwedd-
 awl" gyda dechreu y llinell ddi-
 lynol.

⁷ "Meririd" yn *Add. MS.*,
 14,970; ond nid ydym yn cael yr
 un o'r ddwy ffurf yn ein geirlyfrau.
 Y peth agosaf a welwn yw "meir-
 ydd" = goruchwyliwr; ac ni fuasai
 yn ammhriodol yn ein bardd ei

ystyried fel goruchwyliwr Duw,
 neu oruchwyliwr yr Eglwys.

⁸ "Glain gwerthfawr engylfawr
 eingl."—*Add. MS.*, 14,970.

"Glain" yma a ddynoda yr hyn
 sydd *bur*, neu *sanctaid*: "gleinion
 seintiau" = *holy saints*.

⁹ "Glan da teg gloyn Duw Teg-
 eingyl."—*Add. MS.*, 14,970.

"Gloyn Duw" = *butterfly*; ond a
 elwir yn awr yn fwyaf cyffredin yn
 "gloyn byw." Ymddengys i ni,
 fodd bynag, mai "gloyn Duw"
 oedd y ffurf gyffredin yn y canol-
 oesoedd. Dywed Dafydd ab Gwilym
 (*Barddoniaeth*, tudal. 109):—

"Glan wëad gloywon wiall,
 Glöynau Duw gleiniau dail!"

¹⁰ "Croes naid ag enaid Gwynedd."
Add. MS., 14,970.

"Croes naid" = *Crosseneych*, neu
Crosseneyht, sef y rhan hono o'r
 Groes Fendigaid a gymmerwyd
 oddi ar y Tywysog Dafydd, brawd
 Llywelyn y Llyw Olaf, ac a ddyg-
 wyd o flaen y Brenin Edward I. i
 Ruddlan. Meddyliai Tywysogion
 Cymru yn uchel o'r crair hwn.
 (*Warrington's Hist. of Wales*, edit.
 1798, ii., p. 285).

- 24 Brawd i *angel* bryd ievangaidd¹ *engyl*
 pob drwc a da pawb a draidd
 Neb arno ef ni barnai
 Am na bu vyw ef vur bai²
 Ni bu etto or brytwnn³
 28 Ynn mor hael gan marw hwn⁴
 Gwae hwnt gler mewn gwynt a glaw
 Ar ddayar wedi r dduaw⁵
 Ni bu ar honno kyd bo byr
 32 Dymestl nac vn ardymyr⁶
 Hyd heddiw anwiw ennwir
 Gyfriw a hyn gwae vi or hir⁷
 Mae Duw gwyn amodic oedd
 36 Er moliant ir mil miloedd⁸
 Mal i gwnnaeth amlwc oedd ef⁹
 Da oedd wedi¹⁰ dioddef

¹ "Brawd angel bryd ieuang-
 aidd."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Am na bai fyw y bu'r bai."
Add. MS., 14,970.

³ Yn *Add. MS.*, 14,970, y darllen-
 iad ydyw :—

"Ni bu etto i'r Bryttwn,"
 gyda'r nodyn hwn gan Iolo Mor-
 ganwg :—"Byd hwn ! ait R.V."
 Ond tybiwn fod Robert Vaughan
 yn methu, ac fod "Bryttwn," neu
 "brytwnn" yn ddigon cywir. Ni
 fu eto yr un mor hael a hwn ym
 mhlith y Brytaniaid.

⁴ "Nemawr o hael gann marw
 hwn."—*Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Gwae hwynt gler mewn gwynt
 a glaw,

A'r ddaiar wedi'r dduaw."

Add. MS., 14,970.

Cyfeiriad a geir yma, mae'n
 debyg, at y croesaw a gaffai y
 beirdd gan yr ymadawedig.

⁶ "Ni bu i honno cyll bo byrr
 Dymestl nag un ardymmyr."

Add. MS., 14,970.

Yn y llinellau hyn, a'r rhai di-
 lynol, dywed y bardd wrthym na
 fu y fath dymhestl a hin enbyd ar y
 ddaear o'r blaen er amser marwol-
 aeth Crist. Y fath ffolineb !

⁷ "Gyfyw hynn gwae fi lôr hir."
Add. MS., 14,970.

⁸ "Mae Duw gwyn ammodig
 oedd

O foliant i fil filoedd."

Add. MS., 14,970.

Y mae y bardd yma, mewn gwan-
 obaith, yn gofyn, — "Mae Duw
 gwyn?" ond ar yr un funyd y mae
 ei ffydd yn cryfhau ac yn ateb mai
 "ammodig oedd," &c.

⁹ "Mal y gwnai'n amlwg o nef"
Add. MS., 14,970.

¹⁰ "Gwedi."—*Add. MS.*, 14,970.

- Pan ddarvu dirvawr evwac
 40 Ysbeilio vffern wern wac¹
 Achrynu och or annwyd
 Or ddayar lydan glan glwyd²
 Ynna yr anvones Iessu
 44 Yn ol i vab anwyl vu³
 A llu o engylion vellyn
 Ion eurbarch yni erbyn⁴
 Yn lleisiaw salm llais hoywllwys
 48 a lletenia yn dda ddwys⁵
 Yr owran nid llai rowri
 A ddoeth i gyd kynn pryd pri⁶
 I hebrwng korff teilwng tec
 52 Yr *abostol* heb osdec⁷ *ebysty*
 Ni ddoeth i gyd o ddoethionn⁸
 Y sawl yn yr ynnys⁹ honn

¹ "Pan ddarfu ddarfawr orwag
 Ysbeilio uffern wern wag."

Add. MS., 14,970.

Crybwylliad am waghad uffern
 trwy farwolaeth Crist a geir yma.

² "Achrynu och o'r anwyd
 o'r ddaiar lydan lân lwyd."

Add. MS., 14,970.

Cyfeiriad at y ddaear yn crynu
 pan fu Crist farw.

³ "Yna y danfones Iesu
 Yn ol ei fab anwyl fu."

Add. MS., 14,970.

Ar sail ei farwolaeth ei hun, yr
 anfonodd yr Iesu lu o angylion i
 gyrchu ei fab (sef Ithel) adref i'r
 nefoedd.

⁴ "A llu engylion fa llynn
 Ion eurbarch yn ei erbyn."

Add. MS., 14,970.

Yn yr ystyr o *dderbyn*, neu
groesawu, y defnyddir "erbyn"
 yma.

⁵ "Ymleisiaw Salm lais loyw.
 lwys

A *Letania* yn dda ddwys."

Add. MS., 14,970.

"*Letania*" = *Litani*. Tybiai Iolo
 fod yr angylion yn canu Salm a'r
Litani pan yn hebrwng enaid Ithel
 ap Robert i'r nefoedd.

⁶ "Yr awrhon nid llai'r owri
 A ddoeth i gyd cyn t yd bri."

Add. MS., 14,970.

Nid ydyw "owri" yn air a geir
 yn ein geirlyfrau. Ai tybed ei fod
 yn llygriad o *roaring* = bonllefain?
 Y mae "gawr" yn air o gyffelyb
 ystyr. Ond y mae "kynn pryd
 pri," neu "cyn bryd bri" yn ym-
 adrodd nas gallwn gynnyg unrhyw
 ddyfaliad arno.

⁷ "I hebrwng corph teilwng teg
 Yr abostol heb oeteg."

Add. MS., 14,970.

⁸ "Ddoethion."—*Add. MS.*, 14,970.
 Tebyg mai y darlleniad ydyw "Fe
 ddoeth i gyd o ddoethion."

⁹ "Ynys."—*Add. MS.*, 14,970.

- 56 Hyn a wnaeth yr hin ynnoer¹
kael adlaw or kaledloer²
Y ddayar ddu ddyrru dwst
Yn krydu vaint vur krydwst³
mam pob knwd brwd byrgawc ffrwyth
60 Mantell oer rrac maint ei llwyth⁴
Pan gychwynwyd breuddwyd brav⁵
Ir Eglwys lan aroglav
O goed y mynydd a gef⁶
64 ai dylwyth oll yn dolef
llawer ysgwier isgil⁷
yn gweiddi vyth⁸ gwae eiddil
llawer deigr ar rudd gwreignith⁹
68 llawer nai oer a llawer nith¹⁰
llawer effaith over vaith vyw
Och fi na bai iach vyw¹¹

¹ "Yn oer."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Cael adlaw o'r kaledloer."

Add. MS., 14,970.

"Adlaw" ydyw yr hyn sydd is-
raddol: Ond beth a feddylir wrtho
yma?

³ "Y ddaiar ddu ddyre ddwst
Yn crynnu, faint fu'r cryn-
wst!"—*Add. MS.*, 14,970.

Yn sir Drefaldwyn, dywedir
"dwst lli" am "lwch llif," neu
"flawd llif." "Crydu" = crynu;
a "Crydwst" = crynu o ofn, neu
gan boen, megys o'r cryd. Dys-
grifia y bardd y ddaear ei hunan
yn crynu ac yn malurio gan alar.

⁴ "Maint pob cnwd bwrw briw o
ffrwyth
Mantell oer rhag maint ei
llwyth."

Add. MS., 14,970.

⁵ Geiriau llanw ydyw "breu-
ddwyd brau." Y darlleniad syn-
wyrol fyddai "Pan gychwynwyd
. . . i'r Eglwys . . . o Goed y
Mynydd."

⁶ "Ag ef."—*Add. MS.*, 14,970.

⁷ "Ysgwieier is gil."—*Add. MS.*,
14,970.

⁸ "Wyth."—*Add. MS.*, 14,970.

⁹ "Gwreignith" = benyw fechan.
Ymddengys fod hwn yn ymadrodd
perthynol i'r Deheubarth, o blegid
ar ymyl y ddalen yn *Add. MS.*,
14,970, ceir "Gwreignith, a Deud-
neudism" gan Iolo Morganwg.

¹⁰ "Llawer nai oer llawer nith."
Add. MS., 14,970.

Ymddengys fod i Ithel lawer o
berthynasau agos.

¹¹ "Llawer effaith a dderyw
Och fi na bai iach fyw."

Add. MS., 14,970.

- Aml gwaedd groch gan gloch gler
 72 A diasbad hyd osber¹
 Ynghylch y korff mewn porffor
 Yn kannv kyvanheddu kor²
 a rodioion on saint a redec
 76 A wnaint kwvaint temaint tec³
 Gwae ddwyvil gwedi ddyvod
 O vewn yr eglwys glwys glod⁴
 Achlowed tristed vur trwst
 80 *Kylch* a chrwydr kler achrydwst⁵ *clych*
 A golevo⁶ gwae lawer
 tri mwy no serlwy⁷ o ser

¹ "Aml gwaedd groch can cloch
 cler
 A diaspad hyd osber."

Add. MS., 14,970.

Ymddengys fod y beirdd yn cael
 eu cynnrychioli yn lled gyffredinol
 yn y claddedigaeth.

² "Ynghylch y corph mewn por-
 phor
 Canu cyfanneddu côr."

Add. MS., 14,970.

Tebyg mai y corff oedd wedi ei
 wisgo mewn porffor, ac nid y cler-
 feirdd.

³ "Arodion saint ar redeg
 A wnai'r cwfaint termain-
 teg."—*Add. MS.*, 14,970.

Arodion = siaradwyr; cwfaint =
 crefydd-dai (*convents*); hyny yw, yr
 oedd y mynachod yn myned yn
 lluoedd o holl grefydd-dai y wlad i
 gymmeryd rhan yn y gwasanaeth
 angladdol. Sylwa Richards o Lan-
 grallo ar y gair "Terment" fel y
 canlyn:—"A burying or interring;
 an interment. It is used of the
 burials of persons of high rank."
 Yna ol rhagddo i ddyfynu dwy
 linell o Farwnad Gwladus farch

Davydd Gam, gan Lewis Glyn
 Cothi (*Gwaith*, tudal. 2):—

"Nid llai'n mynu du'n ngwlad
 Went
 No theirmil yn ei *therment*."

⁴ "Gwae ddwyfil gwae ei ddyfod
 O fewn yr Eglwys glwys
 glod."—*Add. MS.*, 14,970.

Yn *Add. MS.*, 15,062, fol. 129,
 ceir rhestr o gywyddau Iolo Goch—
 neu o ryw gyfran o honynt—ac yn
 eu plith y cywyddsydd yn awr dan
 sylw, gyda'r nodyn a ganlyn:—
 "Md. Ithel ap Rotbert o Goed
 ymynydd yr hwn a gladdwyd yn
 Mynaxlog Dinas Bassi ac val dy
 wedir yr oed Blaeniaid or Cyn
 hebrwn yn y bol tregl ar olieid
 ynghoed y Mynydd."

⁵ "A chlywed tristed fu'r trwst
 Clych a chledr cler a chry-
 dwst."—*Add. MS.*, 14,970.

Tebyg fod hwn yn well darlleniad
 na'r testyn—"clych a chledr" =
bells and screen.

⁶ "A goleuaw."—*Add. MS.*,
 14,970.

⁷ "Na serlwy."—*Add. MS.*, 14,970

- 84 Torsie¹ hoyw ffloyw fflamgwyr
Val llugyrn tan llychwyrn llwyr²
Mwy no dim oedd mewn ydemyl
Or gwyrda beilch gwiw ar drimyl³
Rhaf yn gwasgu bysedd gwedd gwael
- 88 Mawr ovid val marw afael⁴
Riannedd kymyredd ku
Rhain llwygo rrain llywygu⁵
Rhain tynnv top o boparth
- 92 A gwallt penn vegis gwellt parth⁶
Ar heudusion dynion dic
Yn udo ynenwedie⁷

¹ "Tortsiau."—*Add. MS.*, 14,970.

"Torsie" = *torches*.

² "Fal llugyrn tan llewyrn llwyr."
Add. MS., 14,970.

Ymddengys y byddid yn arferol o oleuo nifer luosog o ganwyllau a fflaglau ar gladdedigaethau yng Nghymru yn y cyfnod hwn—yn enwedig ar gladdedigaethau y cyfoethogion. Dywed Lewis Glyn Cothi yn y farwnad y cyfeirir ati uchod (*Gwaith*, tudal. 4), fel y canlyn :—

"Mil o *dyrs* amlw o dan,
Mil eraill aml o arian;
Mwy no mil o veudwyaid
Dan gŵyr, bob deunaw, a gaid;
Yn nesav mae deunawsaint
Yn bwrw naw *sens* ger bron
saint."

³ "Mwy no dim oedd mewn y
Deml

O'r gwrda balch gwiw ar-
deml."—*Add. MS.*, 14,970.

Hyny yw, yr oedd y goleuadau ar gladdedigaeth y gŵr hwn yn fwy ardderchog ac yn fwy lluosog na goleuadau y deml yn Jerusalem!

⁴ "Rhaf'n gwasgu bysedd gwedd gwael

Mawr ofid, rhaf'n marw afael."

Add. MS., 14,970.

Ond os oedd yr arddangosiad allanol yn ardderchog; yr oedd galar y gwyddfodolion yn ddygn i'r eithaf.

⁵ "Rhianedd cymmeredd eu

Rhaf'n llwygo, rhaf'n lle-
wygu."

Add. MS., 14,970.

Gyferbyn â'r llinell olaf yn *Add. MS.*, 14,970, y mae Iolo Morganwg yn sylwi :—"llwygo in Glam.—*to loiter or lay behind, I.M.*" Hyny yw, yr oedd rhaf o'r merched yn methu myned ym mlaen gan alar, ac ereill yn syrthio i lewyg.

⁶ "Rhaf'n tynnu eu top o bob-

parth
Gwallt eu penn megis gwellt
parth."

Add. MS., 14,970.

"Parth" = llawr (= *floor, ground*).

⁷ "Ar rheidussion dynion dig
Yn udo yn enwedig."

Add. MS., 14,970.

"Rheidussion"—y rhaf anghenus. Fe welir fod y copiwr yn ein testyn wedi cyssylltu yr *r* gyda'r *A* yn lle gyda'r gair dilynol.

- 96 Siglo awnnair groes eglwys
 Gan y godwrdd ar dwrdd dwys¹
 Val llong eang wrth angor
 Krin vydd yn krynu ar vor²
 Gwae di Iolo gwae i devlu
 100 Or pyllaid aur ir pwll du³
 Bwrw man rayan neu ro
 Ar i wartha vur ortho⁴
 Ac o lawer awr vawr vwriad
 104 Pawb oi gylch val pe bai gad⁵
 Ysbys ymhob llys a llann
 Dorri y ddayar yn deiran⁶
 Drwc i gwedda dra gweiddi
 108 Am wr val ev o nev i ni⁷
 Gwedi kael hael henn vriad
 Oes dec gan Dduw ac ystad⁸
 Gwell tewi no gweiddi garw
 112 Ym rrygollt tost am rrygarw⁹

¹ "Siglo a wnai'r groes eglwys
 Gan y dadwrdd a'r dwrdd
 dwys."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Fal llong eang wrth angor
 Crin fydd yn crynu ar fôr."
Add. MS., 14,970.

³ "Gwae di Jol-lo gwae eu deulu
 O'r pyllaid aeth i'r pwll di."
Add. MS., 14,970.

Gwell yw darlleniad y testyn; ac
 y mae y ddwy linell yn lled awgrym-
 iadol parthed i sefyllfa arianol Iolo
 a'i deulu.

⁴ "Bwrw mân raian neu ro
 Ar ei wartha fu'r ortho."
Add. MS., 14,970.

"Gortho" = gorchudd. Mewn cân
 a *briodolir* i Taliesin (*Myv. Arch.*,
 p. 44) ceir:—

"Y Bardd nim gostego
 Gosteg ni's caffo
 Oni el mewn gortho
 O ddaiar a Gro,"

⁵ "A glywai'r awr fawr fwriad
 Pawb o'igylch fal pe bai gad."
Add. MS., 14,970.

⁶ "Ysbys ym mhob llys a llann
 Dorri'r ddaiar yn deirrann."
Add. MS., 14,970.

Pa ham yn deir rhan?
⁷ "Drwg y gweddai dra gweiddi
 Am wr fal ef, nef i ni."
Add. MS., 14,970.

⁸ "Gwedi cael hael henuriad
 Oes deg gan Dduw ag ystad."
Add. MS., 14,970.

Awgrymir yma fod Ithel wedi
 cyrhaedd i oedran teg cyn marw.
 Ac y mae y cywydd hwn yn gystal
 a'r cywyddau blaenorol yn dangos
 ei fod yn lled gyfoethog.

⁹ "Gwell tewi no gweiddi garw
 Ein rhygollt am rhygarw."
Add. MS., 14,970.

Diau fod "rhygoll" = colled
 anferth: a "rhygarw" = un anghy-

- Llyma oedd dda iddo¹ ef
 Addoli i grist heb ddolef²
 Gida geli segi sant
 116 A genoc mewn gogoniant³
 Ni ddevant y ddav sant⁴ ddwys
 Brodyr ynt o baradwys
 Oni ddel hoedl yni law
 120 Dyddbrawd yn yndiweddbrawd⁵
 Ni ddaw i benn mynydd maith
 Olifer borffer berffaith⁶
 Ion arch diagon⁷ degach
 124 Noc vydd Ithel vchel iach⁸

Iollo Goch ai kant.

mharol, yn ddarlleniad cywir. Eglurhad golygwyr Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, p. 330) ar y gair olaf sydd fel hyn:—"Rhygarw (rhy-carw), a deer of the first class, a nonpareil of the kind."

¹ "Iddo."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Addoli Crist heb ddolef."

Add. MS., 14,970.

³ Mwy eglur o lawer yw darllen-
iad *Add. MS.*, 14,970.

"Gydag Eli sengi sant

Ag Enog mewn gogoniant."

Nis gwyddom pa briodoldeb oedd enwi Enoc; ond gan fod Eli (gwel 1 Sam. i.) yn offeiriad, ac Ithel felly hefyd, y mae y cyfeiriad ato ef yn ymddangos yn eithaf cymhwys.

⁴ "Ddeusant."

Add. MS., 14,970.

⁵ "Oni ddel a hoedl iw law

Ddydd brawd yn ei ddiwedd-
braw."—*Add. MS.*, 14,970.

Tybiwn mai yn gyffelyb i'r hyn a ganlyn y dylai y llinell olaf fod:—

"Dyddbrawd in' yn ddiwedd-
braw."

Mewn ysgriflyfrau ceir yn yn lle in' yn fynych, fel yn ein testyn uchod.

⁶ Yn *Add. MS.*, 14,970, ceir:—

"Ni ddaw ym mhen mynydd
maith

Olifer borffer berffaith,"

gyda'r nodyn a ganlyn ar ymyl y ddalen gan Iolo Morganwg:—"Ni fydd, &c.—ond odid—cans fal hyn y gochelir twyllgyngghanedd. I.M."

⁷ "Archdiagon."—*Add. MS.*, 14,970.

⁸ "Nog fydd Ithel uchel iach."

Add. MS., 14,970.

XXXIII.

ARAITH O FENDITH AR LYS HOWEL KYFFIN DEON
LLAN ELWY.

(O Add. MS., 14,964, fol. 63b).

Y mae yr "Araith" hon i'w chael hefyd yn *Y Delyn Ledr* (Add. MS., 14,873).

Nis gwyddom ond y peth nesaf i ddim am Howel Kyffin amgen nag iddo ddal y swydd o Ddeon Llanelwy o'r flwyddyn 1381 hyd 1397; ac iddo, ar farwolaeth yr Esgob Child, yn 1389, gael ei roddi mewn meddiant o *spiritualities* yr Esgobaeth, gan yr Archesgob (*Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph*, p. 64).

Y mae y gân a ganlyn wedi ei chyfansoddi ar un o esurau Awdl—y *Gwawdodyn Hir*, ac yn meddu ar "gymmeriad llythyrenol," gan fod yr un llythyren yn dechreu pob llinell; ac y mae y llinellau oll yn odli yn *g*. O holl gyfansoddiadau y bardd ni cheir yr un anhawddach i'w deall—y mae yn llawn o eiriau anarferedig. Cymmaint a ddysgwn wrth ei darllen ydyw fod y Deon newydd adeiladu palasdy, yr hwn a fawr ganmolir; a chanmolir ei berchenog hefyd am ei garedigrwydd a'i haelioni—yn enwedig tuag at y beirdd. Cawn ynddi awgrymiad fod Howel Kyffin yn dal y swydd o Ddeon ar y pryd; ac felly, cyfansoddwyd y gân rhwng 1381 a 1397.

Da yw bendith Bardd a Duw bendig¹

Ar y maendy ar plâs man heb blyg²

Ar paun³ difai doeth ar pendefig

4 Ar neb piau hon nid pwyll llŷg⁴

¹ Bendigedig.

² "Paun"—gair canmoliaethol.

³ "Ar y Maen dy ar plâs mau da heb blyg."—*Delyn Ledr*.

⁴ "Llŷg"—ai *llug*=goleuni (oddi wrth yr hwn y ceir *llŷgad*) a feddylir?

- A'r meistr Howel hael yn rhoi'n ystig¹
 A thafayrn o win aur² a thefig
 Ar un ai dail basg a Nydolig
 8 Ag yn lliniethu gwyr lle ni thy' gwyg
 Ar Carnal llwyd ar cardinag³
 Ar wern y glasdir wirnef glwystag⁴
 A'r orddiwes gaer a'r ardd ddiwag⁵
 12 Ar llys i hangwen ar lleseufag⁶
 A'r llew e fu dda nid llaw fyddag⁷
 Ar lle y rhennir beirdd nid llaw rannag⁸
 A'r neuadd fyrdd fawr⁹ newydd farddfag
 16 Ar gwirodeu medd¹⁰ Ior eudeg
 A gwrdeiddrwydd¹¹ y gwrda diddrwg
 Ai fara ai gwrw ai fêr¹² ai gôg¹³
 Ar lle amla clêr mal llu amlwg¹⁴
 20 Ar llaw Assa lwyd¹⁵ Ior lluosog
 Ar ffiolau aur oruff olwg¹⁶
 A phob dyn o'r llys a phawb ai dwg
 A'r cwrw Hyfaidd mal crïo¹⁷ Hafog

¹ "Ystig" = *strenuous, persevering*.

² "Tefig" = *penadur (sovereign)*.

³ "Ar Cardinal Llwyd ar Card-wag." — *Delyn Ledr.*

⁴ "Glwys tag" = *glwys tæg?*
 Ond ymddengys i ni nad ydyw yr
ag ar ddiwedd amryw o'r geiriau
 yn y gân hon amgen na therfyn-
 iadau mympwyol.

⁵ "Ddiwag" = *heb fod yn wâg,*
h.y., yn llawn?

⁶ "Fag" = *cyssylltedig.*

⁷ "Fyddag" (*byddag*) = *magl*
 (= *snare*).

⁸ "Rannag" = *rhanawg?* — *nid*
llaw grintachlyd?

⁹ "Fyrddfawr." — *Delyn Ledr* —
 yn dynodi helaethder y croesaw.

¹⁰ "Medd" = *mead.*

¹¹ "Gwrdeiddrwydd." — *Delyn*
Ledr.

¹² "Fêr" (*bêr*) = *a spit (for roast-*
ing meat).

¹³ "Gog" = *cogydd.*

¹⁴ Yn ol Iolo Goch, oes euraidd i
 glêr — yr enw a rydd efe ar y beirdd
 yn lled gyffredin — oedd y bedwar-
 edd ganrif ar ddeg. Priodola i'w
 holl arwyr y nodweddion mwyaf
 haelionus at yr urdd hon.

¹⁵ Assa lwyd = *Asaph fendigaid,*
 sef ail Ergob Llanellwy. (Gwel
 uchôd, tudal. 274, nodyn 2).

¹⁶ "A'r ffiolau Aur (oruff) oruth
 olwg." — *Delyn Ledr.*

¹⁷ "Cris." — *Delyn Ledr.*

XXXIV.

[CYWYDD I IEUAN, ESGOB LLANELWY.]

(*O'r Add. MS., 14,970, fol. 21b.*)

Darllena y penawd yn yr ysgriflyfr hwn yn syml fel hyn :—" Cerdd Iolo Goch." Ond ar amlen *Y Greal* (Llundain), am Medi 21, 1805, rhoddir iddo y penawd hwn :—" I Ieuan Esgob Llanelwy."

Ystyrir *Ieuan* yn bresennol fel yn gyfystyr â'r enw *Evan*; ond yn ein hen lenyddiaeth a'n hachau, ymddengys fod yr enw yn cael ei ddefnyddio fel ffurf Gymreig ar *John*. Cyfeirir at Efengyl Ioan yr Efengylwr fel *Efengyl Ieuan*; ac y mae Iolo Goch (Cywydd Rhif XXXIX.), yn galw Ioan Fedyddiwr yn *Ieuan* (neu *Ifan*). Felly, gwelwn fod John, Ioan, Ieuan, Evan, Ifan, &c., yn cael eu defnyddio bron yn ddiwahaniaeth i olygu yr un person. Bu dau Ieuan yn Esgobion yn Llanelwy yn oes Iolo Goch, sef John Trevor I., o 1352 hyd 1357; a John Trevor II., o 1395 hyd 1410; ac y mae bron yn sicr mai i John Trevor II. y cyfansoddodd Iolo Goch y cywydd hwn, yn gystal a'r un dilynol. Rhydd y Chevalier Lloyd (*Hist. Powys Fadog*, vol. iv., p. 135) daflen achyddol o hynafiaid yr Esgob, y rhan gyntaf o'r hon a ddyfynwn yma :—

Llywelyn, third son of Ieuaſ ab Adda ab Awr, Lord of Trevor.		Susanna, d. of Llywelyn ab Madog ab Einion ab Rhirid of Iâl, ab Iorwerth ab Goronwy ab Owain ab Uchdryd ab Edwin ab Goronwy.	
Madog ab Llywelyn = of Trevor.	Catherine, d. of Ieuan or John Trevor, Bishop of St. Asaph and Abbot of Valle Crucis Abbey. He built Llan-gollen Bridge.		
	Hwfa ap Ieuan		
	Ab Hwfa ap Madog yr Athro.		
Adda ab Llywelyn. =	David of Trevor.	Margaret ux. Madog Llwyd ab Iorwerth Foel of Bryn Cunallt.	

Adeiladwyd Pont Llangollen, yn ol y Parch. Owen Jones *Geir. Cen. Cymru*, cyf. ii., tudal. 132), gan "John Trefor, Esgob Llanelwy," yn 1345. Fe welir fod hynny pan oedd John Trevor I. mewn meddiant o'r Esgobaeth. Rhydd yr un awdwr ar ddeall i ni mewn lle arall (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. ii., tudal. 544) mai gwrthddrych y cywydd hwn a adeiladodd y bont. Ond, os ydyw taflen y Chevalier Lloyd yn gywir, yr oedd adeiladydd y bont yn disgyn o Adda ab Awr, Arglwydd Trevor; a dengys Iolo Goch fod gwrthddrych y cywydd hwn felly. Pa un a ydoedd John Trevor I. felly ai peidio, nis gwyddom. Os John Trevor II. a wnaeth y bont, rhaid ei fod mewn cryn oedran pan gyfansoddwyd y cywydd hwn.

Er i John Trevor gael ei benodi i Esgobaeth Llanelwy gan Richard II., eto, efe a drodd allan yn anffyddlaw'n i'r penadur hwnw. O blegid, yn 1399, pan oedd Richard yn garcharor yng Nghastell Fflint, bu yr esgob yn offeryn yn llaw Harri Bolingbroke i gyhoeddi ei ddiorseddiad; ac, wedi hynny, anfonwyd Trevor yn genhadydd i'r Yspæen i gyfiawnhau gweithrediadau Harri ger bron y llys hwnw. Er dial anffyddlondeb yr Esgob, ymosododd Owain Glyn-dwr ar Lanelwy, pryd y llosgwyd yr Eglwys gadeiriol, y palas esgobol, a thai y canoniaid; ac oddeutu yr un amser llosgwyd tai yr Esgob ym Meliden, Bodidris, a Llan-farthin. Yn 1401, caniatwyd iddo ddal, fel rhyw gymmaint o iawn am y golled, bywiolaethau y Trallwm, Cegidog, a Meifod. Ond, er i John Trevor droi i ffafrio achos Harri IV., ymddengys nad oedd yn cymmeradwyo gwaith y Brenin a'r Senedd gyda golwg ar eu hymddygiad tuag at y gwrthryfelwyr Cymreig. Dywedir iddo ymresymu â'r Senedd, a'u rhybuddio rhag ymddwyn yn rhy galed at y Cymry; ond yr atebiad a gafodd oedd, "nad oeddynt hwy yn ofni dim oddi wrth y fath ddyhirod troednoeth" (Pennant's *Tour in Wales*, edit. 1784, vol. i., p. 333). Tebyg i Trevor roddi y cynghor hwn cyn iddo fyned i'r Yspæen, a chyn i'w feddiannau gael eu llosgi. Pa fodd bynag,

oddeutu'r flwyddyn 1404, gwrthryfelodd yr Esgob yn erbyn y brenin, gan ymuno ag Owain Glyndwr. Yr oedd Owain y pryd hwn mewn cynghrair â Ffrainc, nid yn unig gyda'r amcan o gael cynnorthwy y wlad hono yn erbyn y Seison, ond bwriadai hefyd drosglwyddo ufudd-dod ysbrydol y Cymry oddi wrth y Pab Rhufeinig, ac ymuno ag Esgobaeth Ffrengig Avignon. Ei gynllun oedd gwneyd Tŷ Ddewi yn Fam-eglwys Gadeiriol Cymru; a phe gallasai gario ei gynllun allan ni fuasai caniatad i neb ddal bywoliaeth yng Nghymru os yn analluog i siarad Cymraeg; nid oedd dim eiddo eglwysig o Gymru i fyned at gynnal colegau a mynachdai yn Lloegr; ac yr oedd dwy brifysgol i gael eu sefydlu yng Nghymru, y naill yng Ngwynedd, a'r llall yn y Deheubarth (*Bye-Gones*, Oct. 29, 1890). Ond ni raid crybwyll i Owain fethu rhoddi ei gynllun mewn gweithrediad. O bosibl nad llwyddiant byr-barhaol Owain, yn gystal a'r gobaith y byddai iddo gael dyrchafiad, os cerid allan y cynllun a grybwyllwyd, a barodd i'r Esgob Trevor droi i'w bleidio. Nid ydyw enwau Esgobion Llanelwy a Bangor yn gyssylltedig â gweithred yr olyniaeth i'r orsedd yn Rhagfyr 22, 1406—tra y mae enwau yr holl esgobion ereill. Yn 1407 a 1408, gwelir fod meddiannau ysbrydol Esgobaeth Llanelwy ym meddiant Thomas Presbury, Abad Amwythig; ac mewn llythyr oddi wrth Harri V. at Edward Charlton, Arglwydd Powys, dyddiedig Mawrth 19, 1409, cyfeirir at Ieuan fel gwrthryfelwr—"Johannes qui se *pretendit* Episcopam Assavensem proditor et rebellis." Nid ydyw yn hollol eglur pwy oedd ei olynnydd. Dywed rhai mai Dafydd, o 1402 hyd 1411; ereill, gyda mwy o debygolrwydd, a enwant Robert de Lancaster, yr hwn a gyssegrwyd Mehefin 28, 1411. Ond y mae yn amlwg na chafodd Trevor fawr o fwyniant oddi wrth ei esgobaeth ar ol 1404. Claddwyd ef ym Mynachdy St. Victoire, Paris—i'r hwn le y dywedir iddo fyned ar neges dros Owain Glyndwr—yn 1410; a rhoddwyd y cerfiad a ganlyn ar ei feddfaen, yn yr hwn, fel y gwelir, y dysgrifir ef mewn camgymmeriad fel Esgob

Henffordd:—"Hic jacet Reverendus in Christo, Pater, Johannes Episcopus *Herefordensis* in Wallia, qui obiit A.D. 1410 die Veneris X mensis Aprilis; cujus anima feliciter requiescat in pace. Amen." (*Thomas's Hist. Dioc. St. Asaph*, p. 222).

Dengys y cywydd canlynol fod yr Esgob yn cadw llys llawn a gorwych, ac fod Iolo Goch yn gyfeillgar iawn ag ef. Ar ol darllen y cywydd a'i gymharu â ffeithiau hanesyddol, tybiwn iddo gael ei gyfansoddi cyn gwrthryfel Owain Glyndwr—hyny yw, rhwng Mehefin 6, 1395, a diorseddiad Richard II. yn 1399. Y mae y cywydd yn cynnwys amryw gyfeiriadau a allant fod o ddefnydd i'r hanesydd, er eu bod yn cael eu darnguddio gan weniaith a gorganmolïaeth.

Hawdd amawr hil awr¹ hael iawn
 Arglwydd gwladlwydd goludlawn
 Hawdd amawr heddyw Awen,²
 4 I feibion lleodron³ llên
 Ag ysgweiniaid⁴ haid heird
 Dledogion⁵ deulu digeird⁶
 Ai siambrlain gain gnewillyn⁷
 8 F'enaid o'r dyrnaid yw'r dŷn,
 A'r pen cog darpan⁸ y cad⁹
 A'r drysawr da ei drwsiad,

¹ Awr, fel y gwelir, oedd Arglwydd Trefor, ac un o hynafiaid yr Esgob.

² Y mae yn anhawdd gwybod pa un ai *Awen* ai *Amen* ydyw hwn yn yr ystyr; ond tybiwn mai "Awen" sydd gywir.

³ Yr ydym yn methu a chael gair o'r fath mewn unrhyw eiriadur. Ai nid gwall ydyw am "lluniodron" = trefnwyr (= *organizers*).

⁴ Ysweiniaid?

⁵ Dyledogion = pendefigion.

⁶ "Digeird" — lluosog o *di-cardd* = diwarth.

⁷ "Gnewillyn" = cnewullyn—y rhan oreu. Y mae y gair yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwn gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 262):—

"Os cnewyll âch Siancyn Llwyd,
 O'i *vryviau* ev a rivwyd;
 Cnewyll yn vu Leucu lân
 O gnewyll egin Ieuan."

⁸ "Darpan" = darparu?

⁹ Tybiwn fod "cad" yma yn gyf. ystyr â *llu*, neu *lawer*; ac yn awgrymu fod llawer yn eistedd wrth fwrdd y wleld yn nhŷ yr Esgob.

- 12 A'r pantler¹ a'r Bwtler² bach
F'enaïd a fu ddyn fwynach
Pobydd cyrfydd³ trydydd tro
Cattrer⁴ poed Duw ai catwo
A'r gwr a rann ebrangeirch⁵
- 16 A'r gwair mân i'r gwyr a'r meirch
A'r gwr ym nid gair ammhorth⁶
Er parch a egorai'r porth,
Cydymaith cu diamhwynt
- 20 Yn cadw gwyl fum gydag hwynt,
Llywarch hên⁷ llawen oll wyf
Trwyddedawg treiddio 'dd ydwyf

¹ "Pantler" = gair Seisoneg yn golygu *ceidwad bara*. *Panter* a ddefnyddir gan Lewis Glyn Cothi. Gwel isod.

² Gair Seisoneg eto—*Butler* = trulliad. Ond pa ham "bach?" Defnyddir "bach" fel ansoddair o anwylddeb; ac hwyrach fod y bardd yn llawn mwy hoff o weled y "bwtler bach" yn cyflawni ei ddyledswydd nag unrhyw wasanaethwr arall. Ceir digon o gyfeiriadau yn ei gywyddau ag ydynt yn profi nad oedd Iolo Goch ddim yn ddirwestwr.

³ "Cyrfydd" = darllawydd. Cysylltir y gwasanaethyddion hyn â'u gilydd yn fynych gan y beirdd, ac ni anghofir y "cyrfydd" (*brewer*) anad neb. Dywed Dafydd Nanmor (*Gorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 133) fel y canlyn:—

"Pobydd a cherfydd a chog,
A droes iddo'n dri swyddog."

Ac medd Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 139):—

"Tri bwtler, *sewer* y sydd,
Tri chog, *panter*, a chigydd;
Dau gyrvydd, pobydd gwaith
per;

Dwyswydd, *ystiward*, *usier*.

Pob swyddog sy i'r marchog
mawr

Deau perthig, onid porthawr."

⁴ *Caterer* (Seis.) = arlwywr.

⁵ Dengys y llinell hon, a'r un ddilynol, fod yr Esgob Trevor yr un mor ofalus yn darparu ar gyfer meirch ei ymwelwyr ag ydoedd am danynt hwy eu hunain. Yr oedd ei garedigrwydd yn cyrhaedd i'r lleoedd mwyaf dirgel, ac nid yn arwynebol.

⁶ Wrth "ammhorth" yma, mae'n debyg, y golygir *gwrthwynebol*—nid â gair croes y cyfarchai yr esgob ei ymwelwyr.

⁷ Yng ngoleuni un o'r Trioedd (*Myv. Arch.*, p. 392), y mae yn anhawdd cyssoni pa fodd yr oedd Iolo Goch yn cymharu ei hun i Llywarch Hên, ac ar yr un pryd yn dyweyd mai "llawen oll" oedd; o blegid fel hyn y mae y Triawd dan sylw:—

"Tri thrwyddedawc ag anfodd-
awc Llys Arthur. Llywarch hen,
Llemenig, a Heledd."

Yn yr ail gyfres o'r Trioedd, dra-
chefn (*Myv. Arch.*, p. 396), ceir

- 24 Da f'ansawdd nid gwahawdd gwann
Y gauaf gydag Ieuan
Ni ddamweiniau ddim yno
Na chawn beth yn iach y bô
Cymmaint cnewyllyn cneuen¹
28 Iechyd a bywyd i'w benn
Gwn pan gyfarffwn ag ef
Yn y cwrt² enwog cartref
Fy nghroesaw'n gu a gawn
32 Hir hoedl im naf hoyw rhadlawn,
Am croesi³ lle ym car Assa
Rhag echrys ai ddeufys dda,

darlleniad arall, ond i'r un perwyl:—

"Tri thrwyddedawc llys Arthur.
a thri anvodawc Llywarch hên a
Llemenig a Heled."

Nis gallwn ddeall pa fodd y
gallasai gŵr anfoddog fod yn llawen.
Ond y mae yr anghyssondeb yn
darfod os derbynir y darlleniad a
geir yn y drydedd gyfres o'r Trioedd
(*Myv. Arch.*, p. 410):—

"Tri Thrwyddedawg Hanfodawg
Llys Arthur: Llywarch Hên ab
Elidir Lydanwyn, a Llemenig, a
Heiddyn Hir: sef meib beirdd
oeddynt."

Nis gallwn adgoffa i'r darlennydd
yn rhy fynych nad oes nemawr
werth hanesyddol yn y drydedd
gyfres. Ond, o ran hyny, dichon
darlleniad yr ail gyfres, yr hon a
gymmerwyd o'r *Llyfr Coch*, olygu
hanfodawg yn gystal ag *anfodawg*
—"anvodawc." Pa fodd bynag, y
mae yn amlwg nad oedd Iolo Goch
yn gosod ei hun allan fel ymwelydd
anfoddog, ond yn hytrach i'r gwrth-
wyneb yn hollol. Ein hamcan wrth
gyfeirio at y *Trioedd* yma ydyw
dangos fod rhaid arfer gofal wrth
eu darllen.

¹ Tebyg mai amcan y llinell hon
ydyw ein hysbysu pa mor brin
bynag y byddai unrhyw beth—hyd
yn oed pe mor lleied a chnewyllyn
cneuen—y caffai ef ran o hono.

² "Cwrt" = llys, palas; nid "cwrt
yr esgob" (*consistory court*), yn yr
ystyr gyfreithiol o'r gair, ond ei
breswylfod. Yn yr ystyr hwn y
defnyddir y gair gan Guto'r Glyn
(*Iolo MSS.*, p. 325):—

"Awn i'ch cwrt, yno y'ch cair
Uwch Hawlfordd, fal Uchel-
ffair."

³ Tybiwn y cyfeirir yma—"a'm
croesi . . . rhag echrys a'i ddeu-
fys dda"—at ryw ddefod ag sydd
wedi hir fyned i eargofiant. Hen
arferiad arall oedd i ddynion *ym-
groesi* = croesi eu hunain, trwy dynu
eu llaw ar draws ac ar hyd ar ffurf
croes; yr hyn a dybid oedd foddion
effeithiol i'w cadw rhag aflwyddiant,
neu rhag cyflawni rhyw drosedd
anafad. Y mae yr arferiad ei hun
wedi hen ddarfod, ond clywir y
fam, neu rywun arall, yn awr ac
eilwaith eto yn cynghori y llanc i
ymgroesi—"Ymgroesa, fachgen!"
Ond y mae y llinellau uchod o eiddo

- Odidd fydd rhydd ym mhob rhith
 36 Undydd na chawn ei fendith
 Doeth o'i benn dwywaith beunydd
 Myn Mair neu dair yn y dydd
 Offeren fawr hoff eirian
 40 A gawn a hynny ar gân.¹
 Trebl *gwafrebl*² awch attreg
 A byrdwn cysson tôn teg,
 Ar offeren yr awn
 44 I'r neuadd gydladd goedlawn³

Iolo Goch yn ein tueddu i feddwl fod yn arferiad gan wŷr eglwysig i "groesi" y rhai y deuent i gyffyrddiad â hwy, yr hon arferiad oedd yn gyfystyr â *bendithio* y rhai a "groesid."

¹ Yn ol arfer bresennol Eglwys Rhufain, gweinyddir yng ngwasanaeth yr offeren, ar ddyddiau gwylion ac ar amgylchiadau arbenig, gan Esgob neu offeiriad, yn cael ei gynnorthwyo gan ddiakon. Ac ar yr amgylchiadau hyn, cenir y gwasanaeth, neu ran helaeth o hono gan y côr (*Penny Cyclop.*, vol. xiv., p. 484).

² Ai nid o'r gair Seisoneg *quaver* y mae hwn yn dyfod ? = crychleisio, dolystain llafar.

³ Ai nid at ryw wasanaeth teuluaid y cyfeirir yma ? Yr hyn sydd yn ein tueddu i dybied hynny ydyw y cyssylltiad a geir rhwng yr "offeren" â'r "neuadd." Y mae y Pabyddion yn parhau i gynnal gwasanaeth dyddiol yn eu capelau. Ac fel y gwelwn oddi wrth y dyfyniad canlynol o "Allwydd neu Agoriad Paradwys i'r Cymrv" (a gyhoeddwyd yn "Lvyck" yn 1670), tudal. 261, yr oedd y ddyledswydd o gynnal gwasanaeth teuluaid yn cael ei chymhell ar y rhai na allent

fynychu lle o addoliad yn gysson. Ac os oedd yr Esgob Trevor yn cynnal gwasanaeth teuluaid ddwywaith neu dair yn y dydd, heb law myned i'r eglwys, nid rhyfedd fod Iolo yn ei osod allan fel gŵr defosiynol. Ond fel y canlyn y dywedir yn yr "Allwydd" :—

"Pan nas gallant y bobl ffyddlon ar y Dyddiau Sul a'r Dyddiau Gwyl eraill fod yn bresennol ar Ddirgel-eddion sacredic yr Aberth Dduw-fawl, da iawn ac angenrheidiol y fyddai i'r Penteulu, ar yr amser cynnefin y boreuau, alw y tylwyth ffyddlon oll ynghyd i'r lle-gweddi arferol ; ac yno darllain iddynt yn eistedd o bobparth (neu beri i ryw vn arall a fedro yn rhwydd ac yn gywraint ddarllain) Pennod neu Wers o'r Directori Christianogol, a'r Introduction i fuchedd ddefositionol, o'r Memorial, neu o ryw lyfr da cyffelyb, ynol cyfarwyddiad eu Pennaeth Ysprydol, tros yspaid hanner awr, neu o amgylch hynny : yno gan syrthio ar eu gliniau, darllenned pob vn yn ddistaw wrtho ei hunan y Gweddiau uchod sydd i'w dywedyd yn amser yr Offeren sanctaidd. Gwedi hynny, ef a all rhyw vn o honynt ddywedyd y

- Peri fy rhoddi ar radd
 Iawn a wnai yn y neuadd,
 I eistedd fry ar osteg
 48 Ar y ford tal arfer teg
 Anrheg am anrheg unrhyw
 Ae ddoe i'r Arglwydd Nudd yw,
 Diod am ddiod a ddaw¹
 52 Oi winllan ym oi wenllaw
 Cerdd dafawd ffraeth hiraethlawn
 Cerdd dant gogoniant a gawn,
 Cytgerdd² ddiddan lan lonydd
 56 Pibau dawns a gawn pob dydd;
 Nid mawr un nid mor anhael
 Gwardrob³ y rhyw esgob hael
 Na swydd yn ei essayddyn⁴
 60 Ni bu rydd i neb rhyw ddyn

Litaniau, a'r lleill ei ateb ef. Neu ddywedyd Rosari ein Harglwyddes Mair Fendigedig bob yn eilwers, neu'r drydedd ran o honi. Ac yn y cyfamser goleu cannhwyllau bendigedig (os gwel y Penteulu fod yn dda) er mwyn coffa presennoldeb yr Yspryd Glan.

"Yr un modd y prydnhawnoedd gan ddyfod ynghyd y gellir darllain rhyw rai o Fucheddau y Sainct o'r dydd neu'r wythnos honno (yn ol cyngor y Tad Ysprydol) tros amgylch hanner awr: ac wedi hynny, penlinio i ddywedyd eu Gwosper, y Litaniau, neu'r Rosari, megis o'r blaen.

"Ond mae yn well tuhwnt i bob mesur, ie yn anfeidrol gwell, mwy buddiol a llesfawr bod yn bresennol ar Ddirgeleddion sacraidd yr Offeren Lan, nac ar Weddiau eraill pabynnac. Ac am hynny nid oes dim na wna y rhai ffyddlon

defotionol er cael bod yn gyfrannoc o honynt."

Felly, nid oedd dim yn rhyfedd yn y ffaith fod Esgob yn gweinyddu gwasanaeth yr offeren yn ei breswylfod. Ac fe ein hysbysir y byddai y diweddar Cardinal Newman yn myned trwy y ddefod hono yn ddyddiol yn ei ystafell ei hun.

¹ Y mae Iolo, fel y gwelwn yn llinell 45, yn gadael y gwasanaeth crefyddol i drafod mater ag oedd yn fwy at ei chwaeth—bwrdd y wledd; ac yn llinell 51 y mae yn crybwyll y peth goreu ganddo ef oedd i'w gael ar y bwrdd hwnw.

² Tebyg fod cytgerdd yma yn golygu cyngherdd offerynol (*instrumental concert*).

³ *Wardrobe*.

⁴ "Essayddyn" = palas, neu breswylfod. Dyfyna a chyfieitha y

- Ni'm lludd i fyned i'r llys
 Neu ddyfod yn ara ddifrys¹
 Rhydd yw pob lle yn rhoddi
 64 Ystafell meddgell i mi
 Cegin pantri bwttri bwyd²
 Pan fynnwyl pan fo anwyd,³
 Tan mawn a gawn neu gynnud
 68 Ni bydd yno'r morlo* mud⁴ *sea coal.
 Yn ystafell naws difeth
 Yr Esgob y cawn pob peth
 Grawn de Paris,⁵ rhis, rhesin⁶ Qu ? rice.
 72 Llyfian⁷ medd gwenwledd a gwin,

Dr. W. O. Pughe un o'r Trioedd
 fel y canlyn :—

"Tri friv lys arbenig syz i dri
 mycdeyrn dyledawg Cymru yn
 eeyzyna breiniawl izynt : un yw
 Aberfraw yn Ngwynes, Dinevwr
 yn y Dehau, a Mathraual Wynva
 yn Mhowys.

"There are three appropriate
 courts for the three supreme princes
 of Wales as privileged *mansions*
 for them : one is Aberfraw in
 Gwynes, Dinevwr in the South,
 and Mathraual Gwynva in Powys."

¹ Hyny yw, yr oedd rhyddid
 perffaith i Iolo fyned wrth ei bwys,
 a phan y mynai, i unrhyw ystafell
 ym mhalas yr Esgob. Ac yn y
 llinellau dilynol gwelwn ei fod at
 ei ryddid i gymmeryd bwyd a diod
 yn ol ei ewyllys.

² Arferir "pantri" a "bwtri" yn
 ddiwahanaiseth yng Nghymru am
foyd-gell. O bosibl nad oedd y
 gair "pantri" (Seisoneg—*pantry*),
 o'r Lladin, *panis*, Ffrancaeg, *pain*,
 ar y cychwyn yn cael ei ddef-
 nyddio am le i gadw bara ; ac mai
 lle i gadw *ymenyn* yn unig oedd
 "bwtri" (Seisoneg—*buttery*), o'r
 Lladin, *butyro*, Ffrancaeg, *beurre*.

³ Annwyd = *cold*, mae'n debyg ;
 "anwyd" ydyw *tuedd*, *natur*, &c.

Tybiwn fod y rhan flaenaf o linell
 66 yn gysylltiedig â'r llinellau o'i
 blaen, a'r rhan olaf o honi â'r llinell
 ddilynol iddi, fel y canlyn :—

"Cegin, pantri, bwttri bwyd,
 pan fynwyl."

"Pan fo annwyd, tân mawn a
 gawn, neu gynnud."

⁴ Dengys y llin. 67 a 68 mai
mawn neu *goed* (cynnud) oedd
 mewn ffafr y pryd hwn fel defn-
 yddiau tân, er fod rhai yn llosgi y
 "morlo mud" (*sea coal*) ; ac yn
 wir, mawn a choed oedd tanwydd y
 werin Gymreig yn y parthau
 gwledig hyd ddyfodiad y rheil-
 ffyrdd.

⁵ "Grawn de Paris," neu "grawn
 Paris," yn ol y Dr. W. Owen Pughe,
 ydyw y *cardamum*. Hadau perar-
 oglaid llysiau tramoraidd, megys
Amomum repens a'r *Alpinia carda-*
momum, y rhai a dyfant ar arfordir
 Malabar, yn yr India ddwyreiniol,
 ydyw y *cardamum*, neu'r *cardamom*.
 A defnyddir yr hadau hyn i ber-
 chwaethu bwydydd a diodydd.

⁶ "Rhesin" = *raisins*.

⁷ Nid ydym yn hollol sicr pa un

- Yna i Siambr y Siambrlain¹
 Yno ydd awn yn ddi ddain²
 Cyfeddach dalm cyfaddef
 76 a gawn hefyd gydag ef
 Diowdlyn da diadlaes³
 Mewn cyrn fy arglwydd mewn caes caes a case ?
 Cysgu ar blu neu bliant⁴ qu. a cae.
 80 A llennau cylchedau⁵ cant, I. M.
 Ym mysg o gwrlidau mil⁶
 A'r porphor drud o'r pwrffil⁷
 Ar gra⁸ or *gymac*⁹ ar gob
 84 Ai wisgoedd, wi o'r escob !
 Pob defnydd ufudd afael
 Allwn a¹⁰ hwn fy Ior hael
 Cydymaith mwyn cyweithas
 88 Arglwydd goleuswydd ar glas¹¹

ai "Llyfian" ai "Llysiau" ydyw y gair yn yr ysgriflyfr.

¹ Ystafellydd = *house-steward* ?

² Os ydyw "ddain" yma yn golygu *purdeb*, neu yr hyn sydd *brydferth* a *golygu*; y mae "ddi ddain" yn golygu yr hyn sydd gyferbyniol. Os felly, rhaid mai yr hyn a ddywed y bardd yw, ei fod wedi yfed llawn gormod wrth fwrdd yr Esgob cyn myned i gael ychwaneg yn "Siambr y Siambrlain."

³ "Diowdlyn . . . diadlaes" = hen ddiod.

⁴ "Bliant" = lliain main. Y mae y Canon Silvan Evans (*Geir. Gymraeg*, s.v., "Bliant") yn sylwi fod y gair hwn o darddiad amheus, ac nadyw yn debyg ei fod o darddiad Celtaidd; ond yn cydnabod ei fod i'w gael mewn llenyddiaeth Gymreig dros gan' mlynedd yn foreuach nag unrhyw enghraifft gofnodedig yn y Seisoneg; ac y mae yn dyfynu

enghreiffiau o'r Mabinogion, yn gystal ag o amryw o'r beirdd.

⁵ Crog-lenau, o amgylch y gwely.

⁶ Nis gwyddom pa ham yr oedd angen am gynnifer a *mil* o gwrlidau, os nad i odli gyda *pwrffil*.

⁷ Rhydd Richards o Langrallo yr eglurhad a ganlyn ar y gair hwn— "Pwrfil, or Pwrffil, *a train or trail of a woman's gown*. A'r llall oedd yn dwyn ei phwrffil hi. Esth. xv. 4." Yna dyfyna y ban a ganlyn gan Rhys Nanmor:—

"Un o blant yr hên Antwn,
 A fflam ym mhwrffil ei ŵn."

⁸ "Gra" = brethyn oedenog (*frieze*)?

⁹ Ai nid gwall ydyw hwn am "gynau"—y lluosog o gŵn (*gown*)?

¹⁰ Ymddengys i ni mai o ac nid a a fuasai oreu yma—"Allan o hwn."

¹¹ Rhydd y Canon Silvan Evans y tri deffiniad a ganlyn o'r gair "Clas":—

Balch wrth falch¹ fal gwalch y gwyl
 Balchach difalchach eilchwyl
 Llym wrth lym myn grym y grôg
 92 Ar dri gair Ior trugarog
 Uthr ei naws traws trybelid
 Eithr ni lyn athro'n ei lid,
 Trwyadl yw ar ddadl ddidwyll
 96 Doethaf y barnaf ei bwyll,
 Aml yw ei aur ym o'i law,²
 Dedwydda da Duw iddaw.

Iollo Goch ai cant.

(1) "An enclosed place or area ; a close ; a region, a district, a country."

(2) "The pale, or precincts (of a church) ; a sanctuary ; a cloister ; a college."

(3) "A community ; family, kindred, clan, or tribe."

Diammeu mai mewn cyseylltiad
 â'r ail ddeffiniad yr ydym i gym-
 meryd, gair yma. Yn yr un ystyr
 , defnyddir y gair gan Cynddelw
 (*Myv. Arch.*, p. 178) :—

"Berth y lloc urth lleu babir
 Berth y chlas ae chyrn glas
 gloyuhir."

¹ Hyny yw, yr oedd yr Esgob
 Trevor, fel y cyffredino'r hil ddynol,

yn ymddwyn yn ffoen-uchel at y
 trahäus ; ac, fel y gwelir oddi wrth
 y llinellau dilynol, yr oedd yn
 addfwyn wrth y rhai gostyngedig.
 Yn lled gyffelyb y dywedai Dafydd
 Benfras am Llywelyn ab Iorwerth
 (*Myv. Arch.*, p. 217) :—

"Oedd balch gwalch golchiad ei
 lain

Oedd beilch gweilch gweled ei
 werin."

Gwel hefyd Cywydd Rhif VIII.,
 llin. 57-58, a Rhif XXVIII., llin.
 60-66.

² Sylwer—"Arglwydd Llechryd"
 yn derbyn anrhegion o aur gan
 Esgob Llanelwy !!!

XXXV.

CYWYDD I IEUAN ESGOB LLAN ELWY.

(O'r Add. MS., 14,970, fol. 38).

Y mae yn ddiammeu genym mai yr un ydyw yr Ieuan hwn a gwrthddrych y cywydd blaenorol. Wrth ei ddarllen, yn enwedig y rhanau olaf o hono, yr ydym yn teimlo fod yr helyntion gwleidyddol yn dywyllach nag oeddynt pan gyfansoddwyd y cywydd o'r blaen. Ac y mae hyn yn peri i ni feddwl i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi rywbryd ar ol i ryfeloedd Glyndwr dori allan. Os ydym yn gywir yn hyn, credwn nas gallwn ei amseru yn gynnarach na 1404, pryd yr ymunodd yr Esgob ag Owain Glyndwr. Cyfeirir at daith yr oedd yr Esgob ar gychwyn iddi—i Ysgotland, fel y gallem dybied; ond methasom a chael unrhyw ffeithiau hanesyddol i dafu goleuni pellach.

Ieuan apostol glan glwys
 Periglawr por¹ yr eglwys
 Priodawr gyfaill prydydd,
 4 Prydlyfr² offerenllyfr³ ffydd
 Primas⁴ wyd yn lle Assa
 Pennaeth o Dadwysaeth⁵ da
 Onid Duw naf ti yw'n nenn
 8 A'n mabsant yma i'w absen,⁶

¹ "Por" = arglwydd.² *Book of Hours*? Y mae amryw o'r llyfrau defosiynol hyn, megys, *Hours of Anne de Bretagne*, *Gwasanaeth Mair*, &c.³ Gwasanaethlyfr yr offeren = *the Missal*.⁴ Or Lladin *primus* = prif, pen-aeth. Defnyddir y gair yn yr ystyr hwn yn "Marwnad GruffyddGryg," gan Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 259) :—"Mel oedd o'i ben awengerdd,
 Primas ac urddas y gerdd!"⁵ "Dadwysaeth" = tadogaeth (*paternity*.)⁶ Yr agosaf i Dduw, yn ol barn Iolo, oedd yr Esgob; ac efe oedd cynnrychiolydd y Goruchaf ar y ddaear!

- Nid arglwydd neb na dorglwyd¹
 Onid tydi ein tad wyd
 Fy ner aml hyder fy mhlaid
 12 Am bagluryn² bagl³ euraid
 Am hysbryd glân⁴ am *mhesbren*⁵
 Am cyfarch a'm parch a'm penn
 Confessor can offisial
 16 Y sy i ti Assa ai tâl⁶
 Canhonwyr mawr cain hoyw-weilch
 Priorau abadau beilch,
 Myneich brodyr gwyr gwirfaint
 20 Micariaid⁷ personiaid saint

¹ "Dorglwyd," yn ol y Dr. W. O. Pughe, yw *a covering hurdle*. Ond gallwn dybied fod Iolo Goch yn defnyddio y gair yma yn gyfystyr ag *amddiffynydd*. Hysbysir ni fod y gair "dorglwyd" yn awr mewn arferiad rhwng Llanymddyfri a Thre Castell = yn yr ystyr a roddir iddo gan Pughe.

² "Bagluryn" = blaguryn (*blossom*)—*Geir. Cymraeg* D. Silvan Evans, s.v. "Bagluryn."

³ "Bagl" = ffon fugeiliol, neu esgobol; bagl esgob (*crozier*).

⁴ Y mae Iolo yma yn defnyddio cymhariaethau i ganmol yr Esgob, y rhai nas gallwn ni, yn yr oes hon, eu hystyried amgen na chab-ledd hollol.

⁵ "Mhesbren" = derwen. Defnyddir y gair yma, fe allai, yn yr ystyr fod Ieuan yn *amddiffynydd*, neu *noddfa*, i'r hardd; gan ei gyffelybu i gadernid y dderwen.

⁶ Cyfeiriad sydd yma at luosogrwydd y swyddogion a berthynent i Esgobaeth Llanelwy, ar y rhai yr oedd yr Esgob yn llywydd, ac yn dad-gyffesydd. Ac ym-

ddengys oddi wrth y llinellau dilynol fod prioriaid, abadau, &c. y crefydd-dai, yn gystal a'r offeiriaid plwyfol, o fewn i'r esgobaeth yn cydnabod goruchafiaeth yr Esgob. Mewn atebiad i ymholiadau a wnaethom, hysbyswyd ni fod y mynachod a'r lleianod o ran pob mater o anfoesoldeb neu ddysgyblaeth heglwysig o dan lywodraeth Esgob yr Esgobaeth; ac mai efe oedd i gyfryngu mewn unrhyw achos o anghydwelediad a allai godi rhwng y mynachod (neu y lleianod) &u huwchafiaid. Ond nid oedd y mynachod, &c., yn gyfrifol i'r esgob gyda golwg ar unrhyw addunedau neillduol a berthynent i'r urdd, ond yn unig i'w huwchafiaid. Ac yr oedd gan yr esgobion a'r archddiaconiaid hawl i fyned i'r crefydd-dai—mynachlogydd, priordai, &c., pan y mynent. Dywed Giraldus Cambrensis, pan gododd anghydwelediad rhyngddo ag Abad Ystrad Fflur, nad oedd gan yr Abad hawl i'w attal.

⁷ Ficeriaid.

- Drwy eu gweddi dragwyddawl
Y bydd terfyn hynn o hawl¹
Bendith dy fam ddinam dda
24 A'th ddiffer,² pawb a'th hoffa,
Bendith y glêr³ a'th gerynt
Yn ddiddrwg a'th ddwg i'th hynt,
Bendithion y dynion da
28 Wrth fyned a'th ddiffynna
Duw o'th flaen oes daith flinach⁴
Dos y dydd a'r nos yn iach,
Mynych iawn mwy na channoed
32 Ofer iawn oedd a fu 'rïoed.
Yn cyssoni cas anhawdd
Peth truan na wnân ei nawdd.

¹ Nid ydyw meddwl y ddwy linell uchod mewn un modd yn eglur i ni. Ond tybiwn fod y bardd yn defnyddio y gair "hawl" yn gyfystyr â *gofyn*, neu *erfyn*; ac os felly, erfyn y mae am weddïau tragywyddawl y gwŷr a'r urddasolion eglwysig a noda; gydag awgrymiad mai hyn yw ei ddymuniad penaf.

² "Differ" = amddiffyn. Ceir "diffreidiad" hefyd gan Einiawn ab Gwgawn (*Myv. Arch.*, p. 226) :—

"Ysmy ri ryuel diffreidiad
Diffryd gwyr eryr ardwyad."

³ Clerfeirdd, neu feirdd a chantorion crwydrol. Er mai i'r dosbarth iselaf o feirdd y rhoddir yr enw clerfeirdd, eto cyn y gallent fyned ar gylch clera, yr oedd yn ofynol eu bod yn feirdd trwyddedawg. Dywedir yn yr *Iolo MSS.*, p. 53, fel y canlyn :—"Rhaid yw rhoddi y cerddi cof hyny wrth farn gorsedd, fal y gwelir eu gwireda'ucelfyddyd, cyn gallu braint cylch clera. Braint yw hefyd cylch clera i feirdd a throfedigion braint unwaith bob tair blynedd, a rhoddion o syberwyd

a fydd iddynt." Pa fodd bynag, nid ydym yn awgrymu fod y dyfyniad hwn yn awdurdod o gwbl ar sefyllfa pethau yn amser Iolo Goch; o blegid o ysgriflyfr diweddar ei cymmerwyd; a diweddar ydyw y rhan fwyaf o gynnwysiad yr *Iolo MSS.* Ond y mae Iolo Goch yn cyfeirio yma at haelioni yr Esgob at y dosbarth hwnw; ei fod mor haelionus fel ag i sicrhau "bendith y glêr."

⁴ Cyfeirir yma at ryw daith bwysig yr oedd yr Esgob ar gychwyn iddi; ond nis gallwn ddyfalu ei chyfeiriad; ac nid ydyw ei hamcan yn eglur. Ond, yn ol rhai awgrymiadau a geir yn y cywydd o hyn i'r diwedd, tueddir ni i dybied fod a wnelo y daith â'r anghydwelediad parhaus a fodolai rhwng Lloegr ag Ysgotland. Y mae llin. 31-34 yn awgrymu fod cynnygion cyffelyb i'r hwn yr oedd yr Esgob yn ymgymeryd ag ef wedi profi yn aflwyddiannus. Pa fodd bynag, ni ddygwyddodd i ni weled unrhyw grybwylliad hanesyddol ag sydd yn taflu goleuni ar y llinellau hyn.

WW

- Deifr a Brynaich baich eu bôd
 36 Ag adfer fyddai'r gydfod,¹
 Cydfod llwynogod agerw²
 Yn dal ieir fai ar dal erw,
 Na fid arnad ni adaf³
 40 Ofn neb dy ofwy⁴ a wnâf.
 Gwisg lurig Dduw gwaisg⁵ loyw ryw
 Pan gyfottych tra fych fyw,
 Dywaid yn groyw iaith ffloyw fflwch⁶
 44 Rhwyddynt Patrig⁷ i'r heddwch
 Sant cyfwlch di fwlch da fu
 Yn y⁸ Werddon yn orddu⁹
 Celfydd y gwnaeth, bu coelfain,⁹

¹ Cytundeb.

² "Agerw" = agerdd, neu chwys; yr hon sefyllfa y dygid y llwynogod iddi trwy eu gweithgarwch a'u prysurdeb yn dal yr ieir tybiedig. I'r "llwynogod agerw" y cyffelybir gwyr Deifr a Brynaich, y rhai, yn ol y bardd, os nad mewn dim arall, a gytunent a'u gilydd yn y gorchwyl o ddifrodi.

³ "Adaf" = aden (*a wing*).

⁴ Gofwy = ymweled—mi a ymwelaf â thi.

⁵ Y mae "gwaisg" yn golygu *cyflym*; a'r meddylddrych a gyfleuir yma ydyw fod "lurig Dduw" yn hawdd i'w dwyn.

⁶ "Ffloyw fflwch" = tanbaid.

⁷ Dywedir fod St. Patrick, yr hwn a flodeuai yn y bummed ganrif, o haniad Cymreig; ac iddo ddewis y rhanbarth o amgylch Glyn Rhosyn, yn Dyfed, fel ei faes llafur. Ond tra yno, yn ol y traddodiad, ymddangosodd angel iddo, yr hwn a ddywedodd wrtho nad iddo ef y perthynai y lle hwnw, ond i blentyn a enid ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach

—sef Dewi Sant, fel y profodd wedi hyny. Digiodd St. Patrick o herwydd yr ymyriad hwn ar ei gynlluniau, ac aeth drosodd i'r Iwerddon yn y flwyddyn O.C. 420.

⁸ "Orddu" = arwyneb tywyll—hyny yw, yr oedd y wlad, pan aeth y Sant yno, yn llawn o dywyllwch ysbrydol.

⁹ "Coelfain" = meini y dystiolaeth. Tybir gan rai fod y Derwyddon yn arfer cerfio eu gwybodaeth gyfriniol ar feini yn gystal ag ar goed. Yna daeth y gair *coelfain* i arwyddo *gwybodaeth* a *chennadwri*. Y mae Iolo Morganwg (*Salmau* I., xxvi., 1) yn defnyddio y gair yn yr ystyr olaf :—

"Nid coelfain hedd i'r galon drist,

Ond geiriau nefol Iesu Grist."

Hwyrach mai wrth "goelfain" y golyga Iolo Goch *bregethiad yr efengyl*. Ond y mae cryn lawer o ymfydrwydd wedi cael ei ysgrifenu o bryd i bryd gyda golwg ar eiriau ag y tybir fod iddynt darddiad Derwyddol.

- 48 I'r pryfed myned i'r main,¹
Llyffaint mewn naint maeddu wnai
A neidr yn fyw ni adai
Na bronwen² bach bry enwir³
- 52 Na charlwng⁴ teilwng i'r tir,
Felly ti elly oll⁵
Encil Deifr ai difancoll
A gyrru hwynt yn gerrig
- 56 Ym mhob rhith diragrith dig.⁶
Gyrr Ynys wrich y Ffichtiaid⁷
Rhwng allt a mor hallt mawr haid,
Nid rhaid yt ofn tanbaid dŷn,
- 60 Adwy brwydr od ai i Brydyn,⁸
Llenn gel drosod a ddodaf,
A'th orchfan Ieuan a wnâf,

¹ Yn ol yr hen draddodiadau, darfu i Sant Patrick bregethu yr Efengyl yn yr Iwerddon nes i'r holl nadroedd a phob ymlusgiaid ereill ddiffianu yn llwyr o'r wlad; a dywedir fod lluniau nadroedd—ffosylau, mae'n debyg—i'w gwled yn y creigiau pan fyddant yn cael eu dryllio at adeiladu. A'r gred gyffredin ym mys y werin ydyw na all neidr fyw yn yr Iwerddon, nac ychwaith ar bridd a gludir o'r wlad hono i'r wlad hon. Pa fodd bynag, ar y dybiaeth y gallai fod hinsawdd yr Iwerddon yn anghymodlawn, gwnaeth boneddwr o'r enw James Clealand, Ruth Gael House, County Down, arbrawf ar hyn trwy brynu chwech o nadroedd ym marchnad Covent Garden, yn Llundain, yn 1831; y rhai, ar ol eu cadw am beth amser, a ollyngodd yn rhydd. Canfyddwyd a lladdwyd un o honynt mewn amser byr, a thair arall yn fuan ar ol hyny; a thybïai i'r ddwy arall gyfarfod â'r

un dynged. Yn ol barn gwyddonwyr nid ydyw absenoldeb yr ymlusgiaid hyn yn yr Iwerddon ond hollol ddamweiniol (*Penny Cyclop.*, vol. xvi., p. 105). Ond fe welir fod Iolo Goch yn cymmyrd arno gredu yr hen draddodiad.

² "Bronwen" = wenci (*weasel*).

³ "Bry enwir" = pryf genwair.

⁴ Carlwng = *stoat*.

⁵ Gwelir fod y llinell yn fyr o sill.

⁶ Y mae y bardd yma am i'r Esgob Trevor ddilyn esiampl St. Patrick, trwy ddileu pobl Deifr—neu yn hytrach, trwy gyfaredd, eu troi yn feini; yn gyffelyb, o bosibl, i'r hyn a ddarllenwn yn rhai o chwedlau yr *Arabian Nights*.

⁷ Ffichtiaid, neu y Gwyddel Ffichti, oedd yr enw a roddid gan Gymry y Canoloesoedd ar y Pictiaid. Benthyciad ydyw yr enw *Ffichtiaid* o'r Wyddelaeg; a'r enw Cymreig cywir am danynt oedd *Prydyn*.

⁸ Prydyn = yr Alban, Ysgotland.

- Ym mhlisc y gneuen wisgi¹
 64 Y dydd i'th orchuddiaf di
 A'r nos rhwng bedw pren dedwydd²
 Ai risg³ tew yw gwisg y gwydd
 Emyn Gurig⁴ dda ddigawn
 68 A garaf fy naf yn iawn,
 A swyn Duw sôn ai dylch,
 Hefyd i gyd yn dy gylch,
 Esgob wyd mawr ei osgordd
 72 Rhag lladron ffyrnigion ffordd
 Rhag twyll ysgottiaid⁵ rhag tân
 Rhag twrw chwiblwyt rhag taran,

Cneuen wisgi = cneuen addfed.

² A ydyw y llinell hon yn awgrymu mai o'r fedwen yr arferai y Cymry wneyd eu gwelyau?

³ Rhisgl = bark.

⁴ Yn *Lives of the Cambro-British Saints*, pp. 276 a 610, ceir derynau a elwir "Emynau Curig," yn cynnwys llithiau a cholectau i'w darllen, mae'n debyg, ar y prif wyliau; yng nghyda chrynodeb o nodweddion a gweithrediadau St. Curig. Yr oedd y Sant hwn yn fawr ei barch ym mhlith y Cymry; a dywedir y blodenai yn y seithfed ganrif. Y mae ei haniad yn ansicr, gan yr haerir gan rai mai Cymro ydoedd, tra y dywed ereill iddo ddyfod o'r tu hwnt i'r môr, gan lano yn Aberystwyth. Efe, meddir, a sefydlodd eglwys Llangurig; ac y mae Rees, yn ei *Welsh Saints*, yn cyssylltu amryw eglwysi ereill â'i enw. Dywed wrthym fod Eglwysi Llanilid, a Churig, Sir Forganwg, a Chapel Curig, Sir Gaernarfon, yn gyflwynedig i Curig a Juliet ei fam; mai Juliet ydyw nawdd-santes Capel Llanilid, dan Defynog, yn Sir Frycheiniog; ond

nid ydyw Rees yn sicr i bwy y perthyn eglwysi Porth Curig, Sir Forganwg, ac Eglwys Fair a Churig, Sir Gaerfyrddin. Priodolid i Curig amryw wyrthiau; ac ar y cyfrif hwnw, gallem dybied, y cyfeirir ato yma gan Iolo Goch, gan ei fod yn priodoli i'r Esgob Trevor alluoedd cyffelyb. O blegid dywedir yn y llinellau dilynol ei fod yn alluog trwy fath o gyfaredd, neu "swyn Duw," i gadw ymaith beryglon a phethau annymunol, hyd yn oed hyligrwydd elfenau natur.

Porth Kerry y gelwir Porth Curig yn awr. A dywedir wrthym yn yr Achau (*Cymmrodor*, vol. viii., part 1) fod Eglwys Llanilid, oddeutu'r fl. 1300, neu yn gynnarach, yn cael ei phriodoli i Ilid, merch Brychan.

⁵ Nid oes yr un o feirdd Cymreig y cyfnod hwn yn canmol yr Ysgottiaid, ac nid ydyw Iolo yn eithriad. Yr oedd yr Ysgottiaid mewn rhyfel parhaus â'r Seison; ond yr oedd y Cymry erbyn hyn, er nad oedd ond oddeutu can' mlynodd er eu gorchfygiad gan Edward I., wedi dyfod mor deyrngarol i goron Lloegr fel ag i gasâu y rhai oeddynt yn

- 76 Rhag cythrudd mawr rhag Cythraul
Rhag gwynt i'th wyneb rhag haul,
Rhag cās y bobl rhag cyssellt¹
Rhag cenllysg ym mysg y mellt,
Rhag dyn o Brydyn rhag brād,
80 Rhag ysgorn o gwasg arnad,
Rhag llygru dy feirch ceirchbawr,
Rhag llifddwr a merddwr mawr
Rhag y gwr² a rhag eraill
84 Peth bychan allan a aill
A'r llaw farw arw ieurwym
Gwedi ei chodi a'i rhoi'n rhwym
Y fodrwy aur anfeidrawl
88 A'r maen Rhubi mi ai mawl
Trwm fydd yn troi am ei fys³
†Ri gwychr i'th gadw rhag echrys
- †*Rhi* here is used in, nearly, the primitive sense.
I.M.

rhyfela yn eu herbyn. Ond os ar ol i wrthryfel Owain Glyndwr ddechreu y cyfansoddodd Iolo y cywydd hwn, yr ydym yn syrthio i anhawser, o blegid bu yr Ysgotiaid yn cynnorthwyo y Cymry yn erbyn y Seison, yn enwedig yn y frwydr a ymladdwyd gerllaw yr Amwythig.

¹ Nid ydyw gwasanaeth y gair "cyssellt" yn y fan hon mewn un modd yn eglur i ni. Golyga y gair hwn, yn ol y Canon Silvan Evans, *conjuncture; convenience; opportunity, fit time*; ac yr ydym yn methu deall pa fodd yr oedd y bardd yn dymuno i'r Esgob gael ei waredu rhag yr hyn oedd ffafriol iddo. Pe buasai Iolo yn cyssylltu y gair â'r "bobl"—*rhag cyssellt y bobl gds*—gallasem ei ddeall; ond nid felly y dywed.

² Pa ŵr a eddylir yma—y "gŵr drwg"?

³ Tybiwn fod yma gyfeiriad at fodrwy gyffelyb i eiddo Eluned, cariadferch Owain ab Urien, yn y chweched ganrif; yr hon a wnelai pwy bynag a'igwisgai yn anweledig i bawb; ond yr oedd yr hwn a'i meddai yn gweled pob peth. Yr oedd yr un rhinweddau yn perthyn i fodrwy Eluned, yr hon a restrir ym mhlith Brenindlysau Ynys Prydain, ag a berthynent i Fodrwy Gyges. Cyfeiria Dafydd ab Gwilym yn un o'i ganiadau i Forfudd (*Barddoniaeth*, tudal. 148) ati fel hyn:—
"O daw hon, dan eurdo hed,
I lan dwfr, ail Eluned."

A thybiwn fod Iolo Goch yn gwneyd defnydd o'r un chwedloneg

- Duw gwynn o Brydyn pa bryd
 92 Y doi adref da ei edryd
 Debre wrth fy nadebru,
 I ba dir bynnag ba du
 Y delych i'th lewych wlad
 96 *Ynghire*¹ cai fy nghariad,
 Gressyn na wyddost cost cêd
 Grusus bercheñog croesed
 Croeso Duw a dyn wrthyd
 100 Croesaw = wr Beirdd croeso'r Byd.
 Iolo Goch ai cant.

yma, er awgrymu y caffai yr Esgob
e ddiogelu rhag ei elynion.

Claddwyd Urien ar ol y flwyddyn
575; ond gan nad ydyw yr hyn a
ddywedir parthed i Owain ei fab

ond chwedlonol, waeth heb fanlyu
ym mhellech.

¹ Yr ydym yn methu dyfalu beth
a l y gair, neu yr enw, hwn fod.

XXXVI.

CYWYDD MARWNAD LLYWELYN GOCH AMHEURIG
HEN, BRYDYDD O SIR FEIRION.


(O'r *Add. MS.*, 14,970, fol. 84b).

Ceir y cywydd hwn yn *Add. MS.*, 14,976, ac y mae i'w gael hefyd, ond gyda chryn nifer o'r llinellau wedi eu gadael allan, yn *Jesus MS.*, C. 101, p. 106; ac yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 12, hefyd yn *Y Brython*, cyf. ii., tudal. 202. Ond o'r un ysgriflyfr ag a ddefnyddir genym ni'y copiwyd yr un a geir yn *Y Brython*, gyda darlleniadau gwahanol o ysgriflyfr arall yn y ffurf o nodiadau; ac at y darlleniadau hyny y cyfeiriwn pan yn nodi *Y Brython*, yn y tudalenau canlynol

Yn *Enwogion Cymru* (Foulkes), tudal. 702, dywedir fel y canlyn:—"Llywelyn Goch ab Meirig Hen, bardd enwog a drigianai yn Nannau, Meirion, ac yn ei flodeu rhwng 1330 a 1370. Enillodd serch Lleucu Llwyd, rhian nodedig am ei phrydferthwch, o Bennal, ac ar ei marwolaeth ddisyfyd cyfansoddodd farwnad alaethlawn, yr hon a argraffwyd yn *Y Brython*, ii., 170, a chyfieithiad o honi yn y *Bardic Museum*, gan Jones. Y mae llawer ychwaneg o'i farddoniaeth ar gael, a chwe' dernyn yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Canwyd ei farwnad ef gan Iolo Goch." Ond wrth droi i achres Nannau, gan Lewys Dwnn (vol. ii., p. 226), nid ydym yn canfod ei enw. Dechreuwa yr achres hono fel y canlyn:—

Ynyr Vychan ab Ynyr $\overline{\text{Gwenhr. } \bar{v} \text{ Gr. ab Gwenwynwyn ab Gronwy ab Ein'n ab Seisyllt.}}$

$\overline{\text{Davd. } \overline{\text{a}} \text{ Meurig Vyn. } \overline{\text{b}} \text{ Anghd. } \bar{v} \text{ Gr : ab Bleddn. ab Own. Brogynton.}}$



Wrth gymharu yr amseriadau, tybiwn, os oedd Llywelyn yn fab i un o'r personau a nodir yn yr achres uchod, mai mab ydoedd i Meurig Vychan ab Ynyr, a brawd i Meurig Llwyd, tad Hywel Selyf, neu Sele. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg oddi wrth yr achres mai nid efe oedd perchenog Nannau; ac o bosibl mai mab anghyfreithlawn i un o feibion y lle hwnw ydoedd. Yr ydym yn cael ein cadarnhau yn y dybiaeth hon, i raddau, wrth ddarllen y crybwylliad fod rhieni Lleucu yn anfoddlawn i'w rhoddi yn wraig iddo. Fel hyn y dywedir yn *Y Brython*, cyf. ii., tudal. 170:—

“LLEUCU LLWYD ydoedd rian rinweddol, nodedig am ei glendid a'i phrydferthwch, yn byw ym Mhennal, ar lan yr afon Dyfi, oddeutu pedair milltir o Aberdyfi, ar ffordd Machynllaeth, yn y 14eg canrif. Cerid hi â chariad pur gan LLEWELYN GOCH AB MEIRIG HEN, o'r Nannau, ger llaw Dolgellau. Ond nid oedd ei thad mewn un modd yn foddllawn i'r garwriaeth, ac achubai bob cyfle i yru anghariaid rhwng Lleucu a Llewelyn. Un tro, dygwyddodd i Llewelyn Goch fyned ar daith i'r Deheubarth, a daeth ei thad at Lleucu, a dywedodd wrthi, er mwyn diddyfnu ei serch oddi ar y bardd, fod Llewelyn wedi ymbriodi yno â merch arall. Pan glywodd Leucu yr ymadrodd hyn, hi a syrthiodd mewn llewyg, ac a drengodd yn y fan!”

Yna, y mae yr ysgrifenydd yn myned rhagddo i grybwyll am ddychweliad Llywelyn o'r Deheubarth, ei fawr ofid pan glywodd am farwolaeth ei gariad, yr hyn a achlysuroidd iddo ganu marwnad ar ei hol. Ond, pa fodd bynag, nis gallwn gredu y buasai tad Lleucu yn dangos y fath wrthwynebiad

pe y buasai Llywelyn, fel yr awgrymir ei fod, yn etifedd neu berchenog Nannau—yr etifeddiaeth bwysicaf y pryd hwnw yn Sir Feirionydd. Credwn hefyd nas gall y dywediad ei fod yn blodeuo rhwng 1330 a 1370 olygu amser ei enedig-aeth a'i farwolaeth. Yn y *Myvyrian Archaeology* ceir marwnad o'i waith i "Oronwy ap Tudur o Benmynydd," yr hwn, fel y dangoswyd eisoes (Cywydd Rhif. XXV.), a foddodd yn 1382; yna rhaid fod Llywelyn yn fyw y pryd hwnw. Hefyd, mewn cywydd o waith Gruffydd Llwyd ap Dafydd ap Einion Lygliw (*Iolo MSS.*, p. 288), "i Forgan Dafydd Llywelyn ab Philip Trahaern o Rydodyn yng Nghaer pan ydoedd yn myned ar Gwest am ladd Ustus Caer o hanaw ar Fainc Caerfyrddin," yr ydym yn cael y ban a ganlyn:—

" *Llywelyn* rathlyn rythloyw
Berchen gwyh awen goch hoyw."

Ac ymddengys i ni mai at Llywelyn Goch y cyfeirir. Ar ddiwedd y cywydd ceir "Gruffydd Llwyd Dafydd ap Einion Lygliw ai cant, ynghylch 1390." Y mae wedi ei gyfeirio at Syr Dafydd Hanmer, y barnwr oedd i fod ar y fainc yn achos y llofruddiaeth; ac y mae y bardd yn enwi deuddeg o wŷr cymhwys yn ei farn ef i eistedd fel rheithwyr, y deuddeg yn feirdd, a Llywelyn Goch yn un o honynt. Ac ni wyddom am yr un barnwr o'r enw Dafydd Hanmer heb law tad yng nghyfraith Owain Glyndwr. Os hwnw oedd, penodwyd ef yn farnwr Llys y Brenin yn 1383, a chrëwyd ef yn farchog yn 1387. Y mae y ffigyrau hyn yn profi nas gallasai Gruffydd Llwyd fod wedi cyfansoddi y cywydd a nodwyd ryw lawer yn gynnarach na 1390; ac yr oedd Llywelyn Goch yn fyw y pryd hwnw. Ond nis gallwn fyned ym mhellach. Yr ydym yn gorfod gadael amser ei farwolaeth heb ei benderfynu; ond, o bosibl, na chymmerodd le cyn pen hir ar ol y flwyddyn olaf a nodwyd.

Yn y cywydd canlynol, yr hwn a saif ym mhlith cyfansoddiadau goreu Iolo Goch, hysbysir ni mai Meurig oedd

enw tad Llywelyn, ac awgrymir ei fod yn perthyn i Sir Feirionydd. Cydnabydda Iolo ef fel ei hen athraw barddonol, yr hyn a awgryma ei fod ryw gymmaint yn hynach nag ef— a channola ef yn fawr fel bardd, ac fel cyfaill. Yn ei holl gywyddau ereill, nid ydyw Iolo yn awgrymu dim yng nghylch ffaeledau ei arwyr; ond yn hwn, er gwaethaf ei gyfeillgarwch â Llywelyn, y mae yn teimlo ei hun yn rhwymedig o gyffwrdd yn ysgafn â phrif wendid y gwrth-ddrych—sef anniweirdeb.

- O Dduw teg a ddywed dyn¹
 A welai neb Lywelyn.
 Amheurig² fonheddig hen,
 4 Ewythr³ frawd tad yr awen,⁴
 Mae ef? pwy ai ymofyn?⁵
 Na chais mwy achos ni myn,
 *Meibion serchogion y sydd
 8 A morwynion Meirionydd.⁷
 Rhyfedd o ddiwedd a ddaeth ydd aeth in al.
 I Rufain o'r Siryfaeth⁸ Siryfaeth in al.
 Dyn nid aeth a Duw'n dethol
 12 Erioed fwy cwyn ar ei ol⁹

¹ "Ai ddaed tyn."—*Jes. MS.*

"A'i ddaied dyn."—*Brython.*

² Ap Meurig.

³ "Ewyrrh."—*Jes. MS.*

⁴ "Tad i Awen."—*Brython.*

⁵ Y mae Iolo yn y llinellau blaenaf yn cymmeryd arno chwilio ac ymofyn am ei gyfaill.

⁶ Yn *Jes. MS.*, y mae llin. 7-8 yn dilyn llin. 76.

⁷ "A morwynion Ymeirionydd."

Jes. MS.

⁸ "Rhyfedd o ddiwedd i ddaeth Os rhyfain fy/r Siryfaeth."

Jes. MS.

Ai tybed fod y bardd yn awgrymu fod gan y Pab, fel swyddog (siryf=*sheriff*) dan Dduw,

awdurdod ar Angeu; a'i fod yn lladd ac yn cadw yn fyw y neb a fynai? Nis gwyddom pa feddwl arall a ddichon y llinellau gynnwys; ond y mae yn amlwg fod y Cymry yn y cyfnod hwnw yn credu fod gan y Pab allu i wneyd bron fel y mynai. Ac os na wyddai y Pab ddim am Llywelyn yn bersonol, onid oedd pob offeiriad Pabaidd yn ei gynnrychioli?

⁹ Y mae Iolo, yn llin. 11, yn cydnabod mai Duw yn unig a allai benderfynu amser terfynedig dyn ar y ddaear; ond yn ein sicrhau yn y llinell ddilynol na ddarfu Duw erioed ganiatau i Angeu gymmeryd ymaith fywyd yr un

- I Baradwys i Brydu
 Yr aeth bardd Ior eitha bu;¹
 Nid rhaid dwyn ynof ond rhif
 16 Nid hagr coel enaid digrif²
³Mawr yw'r pwnc os marw'r Pencerrdd
 Mawr a'i gwyr ni bydd mawr gerdd
 Pan ofyner arfer⁴ oedd
 20 Y lleisiau yn y llysoedd;⁵
 Cyntaf gofynir⁶ wir waith,
 Ir purorion⁷ per araith,
 Hy iawngerdd⁸ y gwr hengoch
 24 Lliaws⁹ a'i clyw fal llais cloch,¹⁰

dyn ag y bu cymmaint o gwyno ar ei ol ag a fu yn yr achos hwn! Rhaid i'r bardd ym mhob oes gael dyweyd llawer o rywbeth heb law *ffethiau*, onide, ni fyddai yn *fardd*, ac ni fyddai y cyfansoddiad yn *farddoniaeth*. Y darlleniad yn *Jes. MS.* yw:—

"Erioed fwy'r cwyn ar i ol."

¹ "I byradwys i brydu
 ir aeth faur ior uthr fu."

Jes. MS.

"I'r aeth er Fair, ior uthr fu."

Brython.

² "Nid rhi gael yno ond tri
 Nid hagar enaid digri."

Jes. MS.

"Nid rhaid cael yno ond tri
 Nid hagr cael enaid digri."

Brython.

³ Nid ydyw llin. 17-18 yn *Jes. MS.*

⁴ "Evrner"—*Jes. MS.*; "eur-
 ner"—*Brython.*

⁵ "Yn i llysoedd"—*Jes. MS.*; "yn eu llysoedd"—*Brython.*

⁶ "Cynta gofynnir."—*Jes. MS.*

⁷ "Pur orion"—*Brython*; "per-
 orion"—*C. Ll. G.*

"Purorion"—cantorion mwyn.

⁸ "Rhieingerdd"—*Jes. MS.*; "Rhiein-gerdd"—*Brython.*

⁹ "Lluaws."—*C. Ll. G.*

¹⁰ Syniad rhyfedd—hwyrach y gelwir ef gan rai yn wir farddonol—ydyw yr un a osodir allan yn llin. 19-24; sef, fod y beirdd ar ol myned i'r nefoedd yn cael eu galw ym mlaen i adrodd eu gweithiau. Ac mai y cyntaf a elwir ger bron a fydd Llywelyn Goch, i adrodd ei riangerdd—i Lleucu Llwyd, mae'n debyg. Nid oes genym ond gobeithio fod yr adroddiad, os cymmerodd le, wedi rhoddi bodd-lonrwydd cyffredinol. Ond hwyrach fod y mwynhad hwn wedi cael ei ohirio hyd y dyfodol. Pe buasai Emanuel Swedenborg wedi cael ei eni yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn lle yr eilfed ar bymtheg, buasem bron yn barod i gredu fod Iolo wedi benthyca y syniad gan yr arch-ddychymmygwr hwnnw.

- ¹Nid oes erddigan² gân gainc
 Gwir yw lle bo gwyr ieuainc
 Ni bydd digrif ar ddifys³
 28 Nag un accen ar ben bys ;
 Ond cywydd cethlydd coethlef ni myn neb gywydd
 Ni myn neb gywydd *namn* ef⁴ nam ef *in al.*
 Ni châr ungair⁵ chwerw angerdd chair, probably.
 32 Ar gam unlle ar y gerdd, I. M.
 Ni wnai dy dai dad awen⁶
 Na wyddiad gulfardd⁷ hardd hen
 Cerdd bur ei gwneuthur a wnaeth ef a wnaeth
 36 Gwrdd aurwych i gerddwriaeth⁸ gwneuthur — a
 Prydydd fardd priod addfwyn N. Walicism
 Proffwyd cerdd praff ydyw cwyn, I. M.
 Priffordd a gwelygordd gwawd
 40 Profestydd pob prif ystawd,⁹

¹ Y mae llin. 25-54 wedi eu gadael allan yn *Jes. MS.*

² Erddygan = *euphony*. Defnyddir "erddygan" yn aml yn gyfystyr ag *alaw* = *air*.

³ "Ddifys" = totodi i'w gilydd (*blending*).

⁴ "Namn ef" = namyn ef?

⁵ "Ni chair un-gair." — *C. Ll. G.*

⁶ "Ni wnai Dydain, dad awen."

C. Ll. G.

Y mae "dad awen" yn profi ar unwaith mai Tydain a feddylir. Cymmeriad dychymmygol ydyw Tydain a gyssylltir â hanes yr hen Frytaniaid, a dywed rhai mai yr un ydyw a Titan, neu Apollo y Groegiaid (*Davies's Mythology of the Druids*), tra y dywed Stephens o Ferthyr mai yr un oedd a Tathan Sant, yr hwn a flodeuai yn y chweched ganrif (*Y Beirniad*, v., tudal. 300). Mewn un hen ysgrif (*Facs. Black Book of Carmarthen*

fol. 32) cyfeirir at y lle ei claddwyd: — "Bet Tedei tad awen yg godir brin aren." Ac yn "Englynion y Gorugiau" (*Iolo MSS.*, p. 262), y rhai a briodolir i Geraint Fardd Glas, dywedir:—

"Goruc Tydain Tad Awen

Oi fyfyrdawd fawr aren,

Glof ar gofgan gerdd gymhen."

Ceir cyfeiriad at Tydei neu Tydein yn *Vita Merlini*:—"Citharâ notissima Tythen." A chyfeirir at "Brynn aryen" yn y *Mabinogion* (Oxford edit., p. 71).

⁷ Defnyddir y gair "culfardd," neu "cylfardd," weithiau fel yn gyfystyr â *prifardd*.

⁸ "Gwrdd eurwych ei gerddwriaeth." — *C. Ll. G.*

"Gwrdd" = gwresog.

⁹ "Profestydd y prif ystawd."

C. Ll. G.

"Profestydd" = rhaglaw (*provost*).

Primeist¹ cywydd Ofydd oedd
 Profedig prifai² ydoedd,
 Prydfawr fu'r ffyddfrawd mawr mau,
 Prydlyfr i bob per odlau.
 I gân Taliesin fin-rhasgl
 Trwy ei gwest³ nid drwg i gasgl
 Y dysgawdd fi y disgibl⁴
 Ar draethwawd o bob wawd bibl
 Athrylith nid ethrylysg
 Athro da mur aeth ar dysg ;
 I'r lle mae'r eang dangnef
 Ag aed y gerdd gydag ef⁵
 Nid rhaid wrthi hi yr haf
 Da gwyr ef y digrifaf,
⁶Nid oedd neb cyfundeb cu⁷
 Yngwynedd yn ynganu
 Dieithr a wnaem ein deuoedd⁸
 I mi ag ef *ai mig* oedd⁹

*disgibl in al., and so
 the awdl requires.
 I. M.*

*Dalier sulw, neb ond Iolo
 Goch a Lln. Amheurig
 Hen yn canu'r amser
 hwnw yn Ngwynedd.
 I. Morg.
 enig it should be.
 I. M.*

¹ Defnyddir yr un gair mewn ffurf ychydig yn wahanol yn Cywydd Rhif XXXV., llin. 5.

2 "Prif-wr."—*C. Ll. G.*

3 "Gwsg."—*C. Ll. G.*

⁴ Cydnebydd Iolo ef yma fel ei hen athraw barddonol; ond dywedir yn gyffredin mai ei athraw oedd Ednyfed ab Gruffydd, o Faelor. (Gwel "Braialun," &c., tudal. 23). Ond dichon iddo fod dan addysg y naill a'r llall.

^b Yn *Jes. MS.* y mae llin. 51-52 yn dilyn llin. 14 :—

**"Ir lle maer eang dangnef
Ag aed i gerdd gidag ef."**

* Yn *Jes. MS.* y mae llin 55-60 yn dilyn llin. 24.

7 "Nid oedd neb coeth ateb ku."
Jes. MS.

Diammeu genym fod nodiad Iolo Morganwg, ar ymyl y ddalen, yn fynegiad cywir o'r hyn a feddyliai y bardd. Y mae yn amlwg fod Iolo Goch yn ystyried ei hun, fel y mae pawb yn ystyried eu hunain, yn gyfartal i'r goreu; ac ymddengys nad oedd ganddo syniadau uchel am sefyllfa barddoniaeth yng Ngogledd Cymru ar y pryd.

8 "Dieth awen yn deuoedd."

Jes. MS.

“Dyeithr o wnaen ein deu-
oedd.”—*C. Ll. G.*

9 "Mi ag ef ail enyn oedd."

Jes. MS.

"Mi ac ef ail Emig oedd."

Brython, a C. Ll. G.

Mewn cyssylltiad â'r llinell hon
yn *Y Brython* ceir y sylw a ganlyn :
—“ *Emig* neu *Amig* ydoedd fab i

- Amlun wyf nid aml iawn neb
 60 Orai hen ar eu hwyneb,¹
²Pur athro cerdd per eithrym qu. wh. ieithrym?
 Parod oedd pwy a wyr dym, I. M.
 Minnau'n dal hiriau fy hun,
 64 Mi ni wn o mewn annun³
 Na dyrnu na gyrru gwawd⁴
 Ag unffust⁵ och rhag anffawd,
 Un natur a'r turtur⁶ teg
 68 Egwan wyf ag un ofeg⁷
 Ni ddisgyn yr edn lednais
 Ni chan ar irfedw lan lais.⁸

Ardalydd Berignan, Marchog o Ffrainc; ac Amlun ydoedd fab i Iarll Alvern yn yr Almaen. Syrthiodd y ddau wrth ryfela gyda Siarlymaen, yn erbyn Brenin Lombardi. Cynnwysa'r *Llyfr Coch o Hergest* chwedl neu fabinogi o'r enw *Cymdeithas Amlun ac Amig*. Cyfeiria'r beirdd yn fynych at y ddau gydymaith hyn.

"Iadu'n Amlun rhag bod un dig
 A'i arail yma ar ol Amig.

L. G. Cothi, i Rys ab Rhydderch [Sic. Rydderch ab Rhys ?]

"Ei dad oedd Amlun rhag dig,
 Tomas yntau yw Amig.

L. G. Cothi, i Domas ab Phylip."

Dymunem adgoffa y darllenydd mai *Y Brython*, ac nid y ni, sydd yn gyfrifol am y sylw uchod.

¹ "Amlun wyf anaml neb
 O henaint ar i hwyneb."

Jes. MS.

² Nid yw llin. 61-62 yn *Jes. MS.*

³ "Mine talaf hyriaf hynn
 Mi ni wn farw mewn anyn."

Jes. MS.

"Minnau rof huriau fy hun,
 Mynwn fy mod yn annun."

Brython.

⁴ "Ddyrnv nid hawdd gwev
 gwawd."—*Jes. MS.*

"Dyrnu brau nid hawdd gwau
 gwawd."—*Brython.*

⁵ "Yn ffust."—*Jes. MS.*

⁶ "Turtur" = *turtle-dove*: aderyn o'r un teulu a'r golomen, yn meddu ar lais addfwyn, a'r gwrryw a'r fanyw yn hynod o ymlynol i'w gilydd.

⁷ "Ofeg" (gofeg) = meddwl, ewyllys, &c.

⁸ "Ni chwec yr edn hyf ledlais
 Ni chan ar fedw lan lais."

Jes. MS.

"Ni chwec yr edn hy llednais
 Ni chan ar fedwen lan lais."

Brython.

Yn *Jes. MS.* dilynir y ban hwn gan yr un canlynol, yr hwn, fel y gwelir, sydd yn angenrheidiol er cwblhau y syniad:—

"Pen fo marw gwiw garw gorwyf
 i gymar afafar wyf."

- 72 Minnau'n¹ canu ni mynnat
Byth yn ol pa beth a wna²
Gweddio Pedr gwaedd eorth³
Y bum canaf gerdd am borth
Gollwng⁴ Llywelyn dŷn da⁵
76 Yny ddel yn ei ddalfa;⁶
Ym mysg pob hyddysg yw hyn
Y proffwydi praff ydyn,⁷
Hoff fydd gan Ddafydd Broffwyd
80 Ddatganu cerdd Lleucu Llwyd,⁸
⁹Prydydd oedd Ddafydd¹⁰ i Dduw
Clod y Drindod a'r unduw,
¹¹Prydyddiaeth a wnaeth fy naf
84 Y Sallwyr bob ryw sillaf.

¹ "Minnau."—*Jes. MS.*

² "Byth yn oes pa beth a wna." *Jes. MS.*

"Byth yn oes, o beth a wna." *Brython.*

³ "Gweddio Peder gwedd eorth." *Jes. MS.*

Y mae y Dr. W. O. Pughe—d.g.
"Eorth"—*diligent, assiduous, studious*—yn dyfynu hon a'r llinell sy'n ei dilyn ychydig yn wahanol, ac yn eu cyfieithu, fel y canlyn:—

"Gwezïaw Duw, gwez eorth,

Y bum ; canav gerz am borth.

Praying to God, in a *diligent* manner, I have been ; I will sing a song for aid. *Iolo Gog.*"

⁴ "Ar ddwyn"—*Jes. MS.* ; "Am ddwyn."—*Brython.*

⁵ "Daf."—*Jes. MS.*

⁶ "Vrddolfeistir nef i'r ddalfaf."—*Jes. MS.* Ac yn dilyn y llinell hon ceir:—

"Nis gwyr dŷw am deulywas yn athro grum ni wnaeth gras."

⁷ "Ymysg pobl hyddysg hynt proffwydi nef praff ydynt." *Jes. MS.*

Ceir "pobloedd" yn lle "pobl" yn *Y Brython a C. Ll. G.*

⁸ "Gwaith hoff gen ddavydd broffwyd

ddadkanu cerdd lleykullwyd." *Jes. MS.*

Y mae yn amlwg oddi wrth farwnad Llywelyn Goch i'w gariad, mai ym Mhennal, Sir Feirionydd, y preswyliai. Pa fodd bynag, yr oedd boneddiges arall o'r un enw yn cydoesi â hi, sef Lleucu Llwyd, merch Rhys ab Robert, o'r Cinmael, a gwraig Hywel ab Tudur, o'r Llys, ym mhlwyf Lloneurgain.

⁹ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 81-82 yn dilyn llin. 92.

¹⁰ Dafydd, brenin Israel.

¹¹ Y mae llin. 83-84 yn cael eu gadael allan yn *Jes. MS.*

- Anniwair fu yn ei¹ oes
 Careddfawr nid cwyreiddfoes²
 Pur wr tal per o'r teulu³
 88 Serchog edifeiriog fu ;
 Duw a faddeuawdd⁴ hawdd hoed oed *in al.*
 Iddaw yn ei ddiweddoed⁵
 Yntau a faddau i'w Fardd
 92 Ei ffolineb, ffael anhardd⁶
 'Llys rhydd sydd echwydd uchel allusion to ancient
 I Brydydd lliw dydd lle del⁸ privileges of the
 Ni chai⁹ na dor na chwyn dyn Bards.
 96 Na phorth rhagddor ni pherthyn,¹⁰

¹ "Aniwair fy yn i oes."—*Jes. MS.*

² "Y carueiddfardd karuedd-foes."—*Jes. MS.*

"Y careiddfardd cerydd-foes."
Brython.

Ymddengys y darlleniad olaf i ni fel y goreu o ddigon.

³ "Puror telyn por teulu."

Jes. MS.

"Puro telyn, por teulu."

Brython.

"Puro telyn per teulu."

O. Ll. G.

"Puror" = *an harmonious tuner, a pleasant songster.*—Richards o Langrallo.

⁴ "Ai maddeuawdd."—*Jes. MS.*

⁵ "Iddo yn i ddiweddoed."

Jes. MS.

⁶ "Ynte a fadde yw fardd i ffolineb ffael anardd."

Jes. MS.

Y mae Iolo Goch yn y llinellau uchod yn cyffelybu Llywelyn Goch i Dafydd, brenin Israel, mewn dau beth—yr oedd y naill fel y llall yn brydyddion gwyh ; ac yr oeddynt hefyd yn llawn digon hoff o ferched.

Ymddengys i ni oddi wrth llin. 91-92 i Llywelyn fod yn euog o anni-weirdeb, ac i hyny ddyfod yn lled gyhoeddus ; onide y mae yn amlwg na fuasai Iolo yn cyfeirio at hyny mor ddigamsyniol yn ei Farwnad. Ond y mae enw y ferch wedi cael ei anghofio. Yn ol yr hanes sydd genym mewn perthynas i'w gysylltiad â Lleucu Llwyd, nis gallwn gredu i Llywelyn ei thwylo hi.

⁷ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 93-96 yn cael eu blaenori gan llin. 82.

⁸ "Llys rhydd y sydd swydd ychel

I brydydd lliw dydd llei del."

Jes. MS.

Tybed fod Iolo Morganwg yn gywir ar ymyl y ddalen ? Ai nid rhydd-fynediad Llywelyn i'r llys nefol a feddylir ?

⁹ "Ni chae"—*Jes. MS.* ; "Ni chau."—*Brython.*

¹⁰ "Na fforth rhagddor na fferthyn."—*Jes. MS.*

Y mae yr *r* derfynol yn *rhagddor* yn y *Jes. MS.* wedi cael ei hysgrifenu mewn inc coch gan law ddiweddar.



CYWYDDAU CANMOLIAETHOL A MARWNADOL. 385

Nid hawdd ei ddal dial dwys
Prydydd ym mhorth Paradwys.¹

Iolo Goch ai cant.

¹ "Nid hawdd attal dial dwys
Prydydd ymhorth Paradwys."
Jes. MS.

"Nid hawdd dal dial dwys,
prydydd ymhorth paradwys.'
O. Ll. G.

XXXVII.

MARWNAD ITHEL DDY Y BARD D O FŌN. ^{a gladdwyd}
Enlli.

(O'r *Add. MS.*, 14,886, fol. 269).

Y mae yr adysgrif o'r cywydd wedi ei hysgrifenu mewn orgraff led ryfedd, tua chanol yr eilfed ganrif ar bymtheg. Ond y mae yr holl nodiadau ymylenol mewn llaw lawer diweddarach. Mewn camgymmmeriad (tudal. 76), rhoddir ar ddeall fod y cywydd hwn i'w weled yn *Add. MS.*, 14,866; ond yng nglŷn âg *Add. MS.*, 14,886 y dylasem ei osod.

Ni wyddom ddim o hanes Ithel Ddu, a'r oll a ddywed y Parch. Owen Jones (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. i., tudal. 680) am dano ydyw:—"Ithel Ddu oedd yn fardd o Sir Fon, yr hwn oedd yn byw rhwng y blyneddoedd 1380 a 1421. Cyfansoddwyd ei farwnad gan Iolo Goch, yr hon sydd ar gael yn mysg ei gyfansoddiadau." Yr ydyn eisoes ("Bras-lun," &c., tudal. 69) wedi cyfeirio at anghyssondeb yr amseriadau hyn. Ni wyddom am ddim o waith Ithel Ddu yn argraffedig, a methasom gael dim o'i waith, ar ol cryn ymchwiliad, mewn ysgriflyfrau. Ymddengys oddi wrth *Y Greal* (Llundain), am Mawrth 21, 1806, iddo ganu "I'r Celfaint," yn dechreu:—"Val yr oeddwn gwyddwn gur." Pa fodd bynag, rhydd Iolo Goch, yn y farwnad a ganlyn, air mawr iddo fel bardd—yn enwedig, fel cyfansoddwr caneuon serch. Wrth gymharu y farwnad hon â "Chywydd Duchan Gwyddelyn" (Rhif XLI.), gellir tybied fod Ithel yn ŵr o gyfoeth a dylanwad; ond yr oedd Gruffydd Gryg ac yntau, o herwydd rhyw reswm anhysbys i ni, yn elynion anghymmodlawn. Os ydyn yn deall y cywydd yn iawn, "Gwyddelyn" (h.y., Gruffydd Gryg) a laddodd Ithel trwy ei wanu â phicell, ond ni eglurir dan ba amgylchiadau.

Tua y rhan olaf o'r farwnad, rhydd Iolo ar ddeall i ni ei fod yn ŵr lled grefyddol, ac iddo gael ei gladdu gyda galar mawr yn Ynys Enlli.

- Dir yw¹ o fro **feilir*² frŷch *Trefeilir mae'n debyg
deryw³ mawr ywr dewin mowrwyh
o rythr †gwayw i waeth Iôr gwyp †killed with a
4 ir daeardy dy oer-dymp⁴ spear
gwayw o *ddolur gwyddelig*⁵
gwnaeth Duw, a bu ganwaith dig
yn anwybod dwyn †ebyr,⁶ qu.
8 oi §*wanu* a phen bwian byr §wân rather pro
heb air ymladd bar amlwg wahan or gwanu
trwyddaw ar draws ||trwydden ddrwg, ||a Lance
ni wnai wyddel ai elyn
12 cynddrwg o hirwg a hynn ;
cwyn mawr is Cônwy yw marw
Ithel ddiargel eurgarw⁷
***deryw* r gerdd aeth yn dir gŵydd **Deryw-darfu
16 uwch ai ryfel och or aflwydd!
troed awgrym gwawd tra digrif
pryddo⁸ pen ††*profestydd* prif ††pl. a provost

¹ "Dir yw" = Sicr yw.

² Preswylfod ym mhlwyf Trefdraeth, Sir Fôn, ydyw Trefeilir. Saif ryw filltir i'r gogledd-ddwyrain o Orsaf Bodorgan; ar ymyl y ffordd sydd rhwng Trefdraeth a Llan-gefnî.

³ "Deryw = darfu

⁴ Gwelir yma i'r ergyd, neu'r brathiad, brofi yn farwol.

⁵ Fe welir oddi wrth y nodiadau arweiniol i Cywydd Rhif XLI., mai Gruffydd Gryg oedd "Gwyddelyn," a chyfeirir yma at ei waith yn lladd Ithel dan yr enw "dolur gwyddelig."

Eglurhad y Dr. Pughe ar *ebyr*

yw—"egress; utterance. v.a. To utter." Ond tybiwn mai gwell yw Richards o Langrallo, yr hwn a ddywed mai ffurf arall ar *aberoedd* (= *streams*) yw "ebyr." Hyny yw, yr oedd aberoedd o waed yn ffrydio allan o'i glwyfau.

⁷ Defnyddir "rhygarw" gan y beirdd i olygu carw o'r dosbarth blaenaf, neu ryw beth anghyffredin o ardderchog. Oni ellir deall "eurgarw" yn gyffelyb—(*the golden deer*)? Defnyddir ef yma, megys y defnyddir y fatheiriau mewn manau ereill, fel ymadrodd canmoliaethol.

⁸ Y mae yr i uwch "pryddo" mewn llaw ddiweddar.

- 20 prydydd serchog enwog oedd
 a thrydydd¹ athro ydoedd.
 canpau'r mab oedd cwymbo merch
 cwnpassu gwawd canp hoywserch
 dychanu i **brem*² salwdrem sych * y Brêm
 24 a gwyddelyn gwedd *elych*³
 yfed mêdd hyfeiddbledd blwng
 aur i gathl⁴ ar i gythlwng
 a †*helgyd*⁵ merch hy elgyrn †*Helgyd*, vulgo *Helcyd*
 28 a hela a chwn wr hael chwyrn
 pan na bu farw garw gaerûg
 Gwyddelyn march cregyn crûg
 ni chaiff ef dolef lle i dêl
 32 weithian gan nad byw Ithel
 gwyn i fyd yn gwynfydu
 y †*bren* bach awr *brim*⁶ i bu †a proper name
 oi flaen farw ef y leni
 36 iawn a wnaeth hyn a wn i
 beth yw r byd ? pwy aeth ar bel ?
 Pen doeth, pwy onid Ithel ?
 pwy oedd oraû doniau dyn
 40 ^{hence} Darlleawdr⁸ ar dir *Llewyn* ^{Llewyn qu. wh. pro}
 Gorllewyn pwy a wyddiad cariad cel ? ^{gorllewyn or Lleyn}
 pwy eithr a wypai Ithel ? ^{i.e. Llŷn.}
 oedd eres⁹ i ddaearû
 44 ethol o Dduw Ithael ddu.
 o bai raid iddo brydydd
 a cherddwr a heliwr hydd.

¹ Pa ham *trydydd* mwy na rhyw radd arall ?

² Ai enw priodol ydyw hwn ?
Ceir *bren* hefyd yn llinell 34.

³ *Elech* ydyw maen neu garreg ;
ai ffurf lucsog ydyw " elych " ?

⁴ " Gathl " = cân.

⁵ " Helgyd " = chwilota.

⁶ Os " *bren* " a ddylai fod yn

nechreu y llinell, y mae yn amlwg mai "*brin*," ac nid "*brim*" a ddylai hwn fod ; neu i'r gwrthwyneb.

⁷ " Bel " = goruchafiaeth.

⁸ " Darlleawdr," neu Darlleawdyr = darllenydd, areithydd, &c. Cyfeirir yma o bosibl at ddysgeidiaeth Ithel.

⁹ " Eres " = rhyfedd.

- 48 i ynys bir¹ mae hir aeth Ithel ddu n rhith hela i ddaeth
ai gynydd nis goganwn
ai gyrrn gidag ef ai gwn
ag a llong i gollyngwyd
52 oi wlad i dir *lleuddad² llwyd
i hely cwnrŷg hil Cynon³
† y fil saint ai fawl ai son,
nid aeth llwyth o adwyth lli⁴
56 un llong i ynys Enlli;
hyn a dyngaf llwyraf llw
haner cystal a hwnw
fenaidd aur llathraid yw'r llwyth
60 am dewisdyn d⁵ ystwyth.
gwr a fedrodd yn gowraint
gorwedd lle mae senedd saint
- e wnaeth Ithel ddy
ddialogaelwir breudd-
wyd Ithel ddy a llawer
draethod da yntho o
fryd llawer ymfryn
wch am dano.
* Lleuddad St.
Enlli.
† the 1000 saints.

¹ Pa le ydyw "Ynys Bir"?

² Lleuddad, neu Llawddog, oedd un o seintiau y seithfed ganrif. Ei dad oedd Dingad ab Nudd Hael; a'i fam oedd Trefrian, neu Tonwy, merch Lleuddyn Lluyddog o Ddinas Eiddyn. Aeth Lleuddad, gyda'i frodyr—Gwytherin, Tygwy, Tyfriog—a'i chwaer, Eleri, i goleg Enlli. Efe a sefydlodd eglwysi Llanllawddog, Cernarth, a Phenboyr, yn Sir Gaerfyrddin; a Chilgeran, yn Sir Benfro.

³ Gwelwn oddi wrth y *Gododin* fod Cynon yn un o arwyr brwydr Cattraeth, ac yn un o'r pedwar a ddiangasant yn fyw o'r frwydr hono. Yn y gyfres leiaf ei gwerth o'r Tricoedd—sef y drydedd (*Myv. Arch.*, p. 411) dywedir fel y canlyn:—

"Tri Marchog Cynghorddoeth
Llys Arthur: Cynon mab Ciydno

Eiddin; ac Arawn fab Cynfarch;
a Llywarch Hên mab Elidir Lydan-
wyn; ac ni chaid amgen na llwydd
i bob Cynghor o'u heiddaw a wnaed,
ac afwydd a gaid lle bynnag nas
gwneid yn oll eu cynghoreu."

Ceir amryw gyfeiriadau at fedd
Cynon yn "*Englynion y Beddau*"
(*Facs. of the Black Book of Car-*
marthen, fol. 32), megys:—

"In llan padarn bet kinon.

Bet gur gwaud urtin
in uchel Tytin
bet kynon mab clytuo idin.

.

.

bet kinon in reon rid."

⁴ *Lli'* a ddylasai hwn fod, er
mwyn odli gydag *Enlli*.

⁵ Y mae yr *y* yn "dy" wedi ei
chroesi allan gan law ddiweddar,
ac *u* wedi ei hysgrifenu oddi arni—
du. At Ithel Ddu y cyfeirir.

- 64 a glybod **Talbod selba* * { Proper names.
 ag †*Iollyn*¹ ddu'n galw'n dda † {
 di ddrwg i ddiwladeiddrwydd
 digrif pe sirif i swydd
 nid oes gythrel disgethrin
 68 a ddel yno *guenfro* gwin *Ynys Enlli*
 da dyddyn o doid iddi
 nid ai neb o honai hi
 yno i ddaeth ef yngrefydd
 72 yno byth band iawn i bydd
 gorffowys ai gorph hyawdl
 hyd †*frawd* ddiodlawd dda awdl †Barn.
 nid aeth o uchafiaeth iach
 76 i grefydd wr ddigrifach.

Iollo Goch ai cant.

¹ Pwy oedd Talbod Solba, a phwy oedd Iollyn Ddu ?

CANIADAU DUCHAN.

XXXVIII.

DUCHAN IR BRAWD LLWYD O GAER.

(*O Lyvr Huw Lleyr—Add. MS., 14,967, fol. 68*).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,880 a 14,970. Nis gwyddom pwy oedd y "Brawd" hwn, nac ychwaith pwy oedd yr Hywel ab Madawg a nodir ar ddechreu y cywydd. Sefydlwyd yr urdd fynachaid a adnabyddid wrth yr enw Brodyr Llwydion (*Franciscan Friars*) yn y flwyddyn 1223. Yr oeddynt hwy, fel y Brodyr Duon (*Dominican Friars*), y rhai a sefydlwyd yn 1216, yn cael eu gwneyd i fyny o'r bobl gyffredin, ac yn addunedu i fyw yn dlawd. Cardotent eu cynhaliaeth o ddrws i ddrws, ac yr oeddynt, gan eu bod yn cymdeithasu cymmaint â'r werin, yn lled boblogaidd yn eu plith. Ystyrid hwynt yn hynod o ddysgedig, ac yn bregethwyr hyawdl. Darfu i Richard II. ddangos cryn lawer o bleidgarwch tuag at y Brodyr Llwydion; ac ar ol ei ddiorseddiad cynhyrfant hwythau y bobl yn erbyn y trawsfeddiannydd—Harri Bolingbroke. Ac, mewn canlyniad, yr oedd y rhai hyny o honynt a ymsefydlasant yng Nghymru yn bleidwyr i Owain Glyndwr. Felly, y mae yn rhesymol i ni dybied nad oedd gan Iolo Goch unrhyw elyniaeth at y Brodyr Llwydion fel urdd, ond yn unig at y "Brawd Llwyd" hwn o Gaer. Y mae yn debyg iddo wneuthur rhywbeth yn erbyn Iolo, neu un o'i gyfeillion—Hywel ab Madawg, fe allai—yr hyn a ennynodd lid y bardd yn ei erbyn, ac a'i cynhyrfodd i ganu y cywydd canlynol. Yn ol y cywydd, yr oedd y "Brawd" yn wr priod,

er nad oedd goddefiad i fynach nag offeiriad briodi. A gwaeth na hyny, yr oedd yn arwain bywyd anfoesol. Nid ydyw y cywydd ar ei hyd amgen na difriaeth bersonol isel; ac ni fuasai Iolo yn fwy anghyfrifol yn ein golwg pe heb ei gyfansoddi. Y mae cryn lawer o hono yn lled anhawdd i'w ddeall, ond, dichon y bydd o werth eto i ieithyddwyr y dyfodol.

	Howell urddedic <i>howalch</i> ¹	hoywalch
	Am hadoc ² Aberthoc balch	
	Mwy wrth garriad lle kad kost	
4	O adda dalm a wddost ³	
	No neb godineb nid oes	
	Genyd ond serchoc ⁴ einioes	
	Ti a gwynaist tec <i>iownaer</i>	ener
8	Wrthyf am liw <i>nydd</i> vynêr ⁵	ny
	Ar kwyn tau di rrif rrygoeth	
	Yw r kwyn mau vine Ior koeth ⁶	
	llid addyrn lled a wddost	
12	llymar kwyn terwyn pand tost ⁷	

¹ "Urddedig haelwalch," gyda "hoywalch" ar y myly ddalen, yn *Add. MS.*, 14,970.

² "Ap Madawg" yn *Add. MS.*, 14,880.

"Ys Madog Ior berthog balch." *Add. MS.*, 14,970.

Y mae "aberthoc" (aberthog) yn gystal a "berthog" yn golygu *cyfoethog*.

³ "Mwy wrth gariad lle'th cad cost

O addef talm a wyddost."

Add. MS., 14,970.

"O addaw taliesin a wyddost."

Add. MS., 14,880.

⁴ "Serchog" yn *Add. MS.*, 14,970; "serthog" yn *Add. MS.*, 14,880.

⁵ "Ti a gwynaist teg ener,

Wrthyf un waith warth fy nêr."—*Add. MS.*, 14,970.

⁶ "A'r cwyn tan di', ri ryddoeth Yw'r cwyn mau finnau ior coeth."—*Add. MS.* 14,970.

"Kwyn tau," "kwyn mau" = dy gwyn di a fy nghwyn innau. Hyny yw, yr oedd Hywel ap Madawg, yr hwn a ddysgrifir gan y bardd fel gwr bucheddol a diwair, wedi bod yn cwyno wrtho o herwydd anfoesoldeb y wlad; ac yn awr y mae Iolo yn crybwyll fod ganddo enghraifft o fywyd anfoesol, fel yr a ym mlaen i ddangos, ym mherson y "Brawd llwyd o Gaer."

⁷ "Lled addef llid a wyddost

Llyma'r cwyn dirwyn pand tost."—*Add. MS.*, 14,970.

- llin engl a wna r llun Anglaer
 llid gwyn y brawd llwyd o gaer
 Llwm troednoeth a ddoeth yn ddic
 16 Lle roedd wraig llawer eiddic¹
 A mwy o rrianedd y maingk
 Mwyaf a gerym i inevaingk²
 Gwaethaf brawd i bregethu
 20 I voes wrth urddol a vu³
 Nida i nef meddai ef vn
 O charrai wr A chorun⁴
 Vwch ywr swydd och ar i siad
 24 Eiddaw ond gwir a wyddiad⁵
 Pan na bai rydd serthydd⁶ serch
 I urddol wraig neu ordderch
 Roed kenad rad ai kynail
 28 rydd myn y dydd mewn y dail⁷

¹ "Llwdn troednoeth a ddaeth yn ddig

Lle'r oedd gwraig llawer eiddig."—*Add. MS.*, 14,970.

² "A mwyn Rianedd mewn mainc Mwyaf a gorym ieuainc."

Add. MS., 14,970.

³ "Gwaetha brawd i bregethu I foes wrth allor a fu."

Add. MS., 14,970.

Ar ymyl y ddalen yn yr ysgriflyfr hwn hefyd ceir "ei foes *in al.*" Dyweyd y mae Iolo na fu yr un gŵr urddedig gwaeth ei foes na hwn yn pregethu erioed.

⁴ "Nid ai nef, meddai ef, un O charai wr a chorun."

Add. MS., 14,970.

Cyfieithir y darlenniad hwn gan y Dr. Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Coryn") fel y canlyn :—"There will not go to Heaven (says he) one that shall love a man with a *shaved crown.*"

Offeiriad a feddylir wrth "wr a chorun"—a *tonsured person*. Cyfeiriad at arferiad yr offeiriaid

Pabaidd o eillio y coryn fel nŵd gwahaniaethol. Yr oedd clerigwyr Pabyddol Cymru, fel yn y dwyrain, yn eillio eu gwallt o'r tu blaen hyd y clustiau, ar lun hanner cylch; a honent iddynt gael y ddefod oddi wrth yr Apostol Ioan. Ond clerigwyr Eglwys Rhufain a Lloegr a eillient goryn y pen, gan adael cylch o wallt, ar lun y goron ddraen a osodwyd ar ben Crist, yn ol fel y dywedent hwy; a haerent iddynt gael y cynllun oddi wrth yr Apostol Pedr; a dirmygent ddull y Cymry gan ddyweyd mai Simon Magus a'i dyfeisiodd (*Giles' note in Bede, Bohn's edit.*, p. 160).

⁵ "Uwch yw y swydd och iw siad Iddaw ond gwir a wyddiad."

Add. MS., 14,970.

⁶ "Seythydd."—*Add. MS.*, 14,970.

⁷ "Rhoed cennad rhaid yw cynnail

Rhydd myn y dydd mewn y dail."—*Add. MS.*, 14,970.

- Chwaen hagr gan leidr gorwagvribysc¹
 Chwerw davawd oedd ir brawd brwysc²
 Cymrud arnaw deu vraw dic
 32 Geibr nedd gobr vn eiddic³
 Vwrn⁴ oer vraw varnu ar vrys
 Ar ennaid neb or ynnys
 Gwell y peirch gwiw allu pwyll
 36 Duw dad ym dy didwyll
 Gwrraic ysgolhaic os gwyl hi
 Urddol mwy y gwnair yrddi⁵
 Nos a⁶ ddywawd y brawd brau
 40 Llwyd o Gaer llidioc⁷ eiriau
⁸Na bo gwell hen gawell gwyr
 Y darffo ir brawd oer ffwyr⁹

¹ "Gorwag vribysc" = gorwag (*vainglory*), a bribys (*worthless bits*) —un yn ymfalchio mewn pethau gwaelion.

Nid ydyw llin. 29-36 yn *Add. MS.*, 14,970.

² "Brwysc" = meddw.

³ Hyny yw, arferai y "Brawd Llwyd," pan gyhuddid ef o odineb, fyned i dymher led dwym, fel pe yn cael ei gyhuddo ar gam, hyd yn oed pan fyddai y distiau yn cael eu cymhwyso at ei berson gan y gwr drwgdybus.

⁴ "Vwrn" = bwrn, pwysau ar y cylla.

⁵ "Gwraig ysgolhaig os gwyl hi Urddol a mwy gwnai erddi."
Add. MS., 14,970.

Wrth "ysgolhaig" yma y golygir *gwr eglwysig*.

Hysbysir ni fod mwy na hanner y clerigwyr Seisonig yn wfr priod yn nheyrnasiad Harri I.; ond ar ol y ddeuddegfed ganrif, er fod ambell eithriad, gweddwdod oedd

y rheol gyffredin; a hyny a orchymynid gan y gyfraith Eglwysig (*Comprehensive Hist. Eng.*, vol. i., p. 496). Ond ymddengys oddi wrth Iolo Goch fod y "Brawd Llwyd" hwn yn meddu gwraig; a'i fod yn gâs wrthi. Yr ydym yn methu cyssoni hyn, pan gofiwn ei fod yn perthyn i urdd ag oedd wedi ymdynggedu i fyw bywyd sengl.

⁶ "Y."—*Add. MS.*, 14,970.

⁷ "Llidiog."—*Add. MS.*, 14,970.

⁸ Rhwng llin. 40 a llin. 41 ceir y pedair a ganlyn yn *Add. MS.*, 14,970:—

"Mawr o was bras oedd y brawd
 O ddyrnwy aml ei ddyrnawd
 No chael yn lledrad o chae
 A chain ryw riain warae,"
 gyda'r nodyn canlynol gan Iolo Morganwg ar ymyl y ddalen:—
 "O ddirnwyf in al.—i.e., Methodistical pulpit thumping, an old thing, a new practice.—I.M."

⁹ "ffwyr" = ymosodiad.

- Noi ddal leidr gwyllt gal gwalltgylch
 44 Un kas yn rrodio in kylch¹
 Ai gwfi llwyd mewn gafi llodur
 Gynhaic o Seisnic wraic sur²
 Kri ar wisc kryw ar wasgaeth
 48 Klawr kroen kriwr poen pob peth³
 Kwthwr pla lle knova llau knawd
 Ki keillgam budr kokyllgwd⁴
 Ysgrin gwrach vraen aviach vrau
 52 Ysgod hen felgod voelgau⁵
 Ystym ar sofi gofi gowen
 Ystlys ysgubpys heb penn⁶
 Ystwff di hir myn seiriol
 56 Ystyried mevmed moel⁷

¹ "No'i ddal leidr gwylltgal gwallgylch

Un cas mewn rhyw dref o'n cylch."—*Add. MS.*, 14,970.

² "Ai gwfi llwyd mewn gafi lledur

gynsaig o Saesnigwraig sur." *Add. MS.*, 14,970.

"Cwfi" (*cowl*) ydyw penwisg mynach; ac ymddengys y byddai y "Brawd llwyd o Gaer" yn ei gadw weithiau mewn lle lled ryfedd.

³ "Cryw ar wisg crau oer osgedd Clawr croen crewr poen pob hedd."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ Yn *Add. MS.*, 14,970 y mae y llinellau canlynol yn cael eu cyfleu ar ol llin. 54 yn y testyn:—

"Cwthwr pla lle cnofa llau cnwd Ci ceillgam bwdr cocyllgwd."

"Kwthwr" = *an excretory orifice*.

Defnyddir y gair, er arianed yw, gan amryw o'r boirdd, megys Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 323):—

"Croch yw'r llais, crycha' yw'r llethr;

Cwthwr bran wan-gân ewin- gethr.'

⁵ "Ysgrin grach fraen sothach frau

Ysgod hen felgod folgau."

Add. MS., 14,970.

⁶ "Ystym ar sofi gofi gywen Ystlys ystus pys heb penn."

Add. MS., 14,970.

⁷ "Ystelff diffaiht myn eiriol Ystyried myhuned moel."

Add. MS., 14,970.

"Ystwff" = *stuff*; "ystelff" = *blockhead*; tebyg mai yr olaf sydd gywir. Y mae "di hir" (dyhir) a "diffaiht" yn golygu bron yr un peth -- dyhiryn = *a worthless one*. Y mae "mevmed" yn gystal a "myhuned" yn dywyll i ni, os nad ydynt yn ymgais i osod allan *humanoldeb*—o "myhunain." Di- ammeu genym mai "Seiriol," ac nid "eiriol" ydyw y gair priodol ar ddiwedd llinell 55, pryd y cyfeirir at Sant Seiriol, yr hwn a sefydlodd goleg ym Mhenmon, ym Môn, yn y chweched ganrif. Yr oedd yn frawd, yn ol rhai, yn nai, medd ereill, i Einion Frenin.

- Nacharraï na vynai verch
 Dros i euro o draserch¹
²Pe chaer mab venthic abid³
 60 Gan hwn yn dwyn llawn gwyn llið
 Gwell o beth y pregethai
 No mil o honaw y mai
 A chael gan vun loyw lun law
 64 O wy vnder⁴ i wradaw
 A chael yn lledrad o chae⁵
 A chain wiw riain warae
 Disdadl athrodwr dwystaer
 68 Dowaid vrawd godlawd⁶ o gaer
 Beth a holud barkud bedd
 Gysgwr⁷ ar gam ir gwragedd
 Ac ennaid breladiëd bro
 72 Wynnedd a ffowys ynno⁸

¹ "Na charai na fynnai ferch
 Draw erddaw o draserch."
Add. MS., 14,970.

Y mae yn amlwg mai y teetyn
 sydd gywiraf yma; a rhoddir ar
 ddeall i ni gan y bardd mai nid
 gŵr yn rhedeg ar ol merched oedd
 Seiriol.

² Y mae llin. 59-72 yn cael eu
 gadael allan yn *Add. MS.*, 14,970.

³ "Abid" = gwisg (o'r Seis.
habit). Dywed Dafydd ab Gwilym
 (*Barddoniaeth*, tudal. 377):—

"Yr Alarch ar ei wiwlyn,
 Abid galch, fal abad gwyn."

Awgryma Iolo pe cawsai y
 "Brawd llwyd" fenthyg "abid"
 Seiriol, yn gyffelyb, fel y tybiwn,
 i'r modd y disgynodd deuparth
 mantell Elias ar Eliseus, y buasai
 yn dyfod yn well pregethwr fil o
 weithiau nag yr oedd.

⁴ "Wy vnder" = o fwynder?

⁵ Os ydyw y llinell yn gywir,
 dynoda eithafwydd trythyllwch.

⁶ "Godlawd" = lled dlawd. Yr
 oedd y mynachod llwydion, fel y
 sylwasom, yn cymmeryd y broffes
 o dlodi.

⁷ Ymddengys i ni mai gwall
 ydyw "Gysgwr" am *dysgwr*—un
 yn dysgu y gwragedd i gyflawni yr
 hyn nad oedd yn gyfreithlawn.

⁸ Y mae yn anhawdd dyfalu
 cyssylltiad llin. 71 a 72 â'r llinellau
 blaenorol. Tybiwn eu bod wedi
 eu cam gyfleu; ac mai cyfeiriad
 sydd yma at goleg y Penmon, yn
 ei gyssylltiad â Sant Seiriol. Dy-
 wedir wrthym fod y sefydliad hwn
 mor boblogaidd fel yr oedd dynion
 ieuainc o'r cyfandir yn cyrohu yno
 am addysg. Ac os felly, hawdd
 ydyw tybied fod y lle yn gyrchfan
 ieuencyd Gwynedd a Phowys. Pa
 fodd bynag, nid ydym yn gweled
 fod a wnelo y llinellau hyn ddim
 â'r rhai sydd yn eu blaenori nac yn
 eu dilyn.

- 76 Gwiliwch a gwelwch y gwr
 A brys yng val bras iangwr¹
 Gwydn duth ar vn gwadn ai dau
 llwyd drwth hen warthol llofrau²
 Roed vn lusc raid yn i ladd
 Ruw dost wr reudus diradd³
 80 Roed arall yn raid oerwr
 Ffonod yn gardod i'r gwr⁴
 Drysid tuw ragddaw baw o beth
 Drwsa brac dros i bregeth⁵

Iollo Goch ai kant.

- ¹ "Gwiliwch a gwelwch y gwr
 A brys ing fal bras iangwr."
Add. MS., 14,970.
 "Iangwr" = gwr dilywodraeth.
 Cyngbor sydd yma i wylid yn
 ddyfal y gwr aflywodraethus.
- ² "Gwydn deth heb un gwadn
 na dau
 Llwdn heb warthafi an-
 lladau."
Add. MS., 14,970.
- ³ "Rhoed un llysg rhaid yn i
 ladd
 Ryw does dwr reidus di-
 radd."—*Add. MS., 14,970.*
- Llysg ("lusc") ydyw gwialen;
 a thybiwn mai gwall am *ym* ydyw
 "yn" yn llin. 77. Os felly, gofyn
 am wialen i guro y Brawd Llwyd i
 farwolaeth y mae y bardd.
 "Reudus (reidus) diradd" = cyfeir-
 iad eto at ei dlodi a'i haniad isel.
- ⁴ "Rhoed arall rhaid i oerwr
 Ffonod yn gardod i'r gwr."
Add. MS., 14,970.
 "Oerwr," o *goer* a *gwr* = gwr
 arall, gwr o'r newydd.
- ⁵ "Dryssid Duw rhagddaw baw
 beth
 Drwsa bragdros ei bregeth."
Add. MS., 14,970.

XXXIX.

[CYWYDD I'R BRAWD LLWYD O GAER].

(O Jesus MS., E. 139, p. 361).

"Kowudd i brawd" ydyw penawd y cywydd hwn yn yr ysgriflyfr uchod, felly, cymmerasom y penawd sydd uwch ei ben yn *Add. MS.*, 14,970. Y mae i'w weled hefyd yn *Add. MS.*, 14,880, ac yn *Glan. MS.*, *K.*, fol. 103.

Y mae yn fwy na thebyg mai yr un oedd y "Brawd" y canwyd y cywydd hwn iddo a gwrthddrych y cywydd blaenorol. Yn hwn, gwelir i'r "Brawd" ledaenu rhyw chwedlau am ryw ŵr eglwysig oedd yn lled gyfeillgar â'r bardd, gan ei gyhuddo o odineb. Y mae Iolo yn glanhau ei gyfaill, pwy bynag ydoedd, ac yn taffu y cyhuddiad yn ol. Credwn y gellir ystyried y cywydd hwn fel y mwyaf gwawdlyd o gyfansoddiadau Iolo. Yn ei gyfansoddiadau duchanol ereill y mae yn rhy dafod-ddrwg i fod yn wawdlyd. Ond yn hwn y mae yn cyfeirio at swydd sanct-aidd y "Brawd" ar y naill law, a'i ymddygiadau anwedus ar y llaw arall; ac yn eu cyferbynu.

Teg o gynntürch hygtürch hardd¹
 taliesin ffraethfin firwythfardd
 ar gartü hoen eira² goror
 4 gwylyan gar marian i mor³

¹ "Teg oedd gynnyrch hygyrch
 hardd."

Add. MS., 14,970.

"Teg oedd gynnyrch hir grych
 hardd."

Add. MS., 14,880.

"Deg o gynnyrch hygyrch
 hardd."—*Glan. MS.*

² "Eiry."—*Add. MS.*, 14,970.

³ "Lleian gerllaw marian mor."
Add. MS., 14,970.

"Gwylyan aer marian mor."
Glan. MS.

- Penna bardd oedd pan i bai
y brawd sais lwytbais letbai¹
a ddywod ddrwg o ddeuwerth
8 am ysgolheigion son serth²
ai bregeth bowbeth or beibl³
dayog⁴ an serchog sürchwibl⁵
gyfrenig⁶ drewedig draed
12 gan fas drygwas or drwgwaed⁷
gydowrach hagr foelgrach fawr
gidwm gwregysglwm grysglawr⁸
moelrhawn byssychlawn sechlodr
16 mab kleiriach o bwdwrwrach bodr⁹

¹ "Penna bardd oedd pan na bai
po'r brawd Sais llwydbais
lledbai."

Add. MS., 14,970.

"Pena bardd oedd peni bai
y brawd sais lwytbais letbai."

Glan. MS.

² "Addewed drwg i ddauwerth
am ysgolheigion son serth."

Glan. MS.

Yn *Add. MS.*, 14,970, rhoddir y
ban hwn ar ol llin. 10 :—

"Addywawd drwg ei ddeuwerth
Am ysgolheigion son serth."

³ "Bawbeth o'r Bibl."—*Add.*
MS., 14,970.

⁴ "Taeog."—*Add. MS.*, 14,970.
"Taeog" yma a olyga ei fod o
haniad isel=*rustic, churlish*, &c.

⁵ "Surcharibl"—*Add. MS.*,
14,970; "sürchwibl"—*Add. MS.*,
14,880.

"Sürchwibl"=eithafol o sur?

⁶ "Gi byrnig"—*Add. MS.*,
14,970; "gi brenig"—*Add. MS.*,
14,880; "gi freinig"—*Glan. MS.*

Tebyg mai "ci brynnig" (=brwnt,
afian, &c.) a feddylir.

⁷ "Gynfas mab dragwas dryg-
waed."—*Add. MS.*, 14,970.

"Gan fas drwg was or dryg-
waed."—*Glan. MS.*

⁸ "Cedowrach hagr foelgrach
fawr

Cidwm gwregysglwm gwrys-
glawr."—*Add. MS.*, 14,970.

"Gydowrach hagar foelgrach
fawr

gidwm gwregysglwm gris-
glawr."—*Glan. MS.*

"Cedor y wrach," yn ol llafar
gwlad, sydd enw ar amryw rywog-
aethau o lysiau, megys—Burdock
(*Arctium Lappa*); Field Horsetail
(*Equisetum arvense*); a'r rhywogaeth
wenwynig a elwir gan lysieuwyr yn
Solanum somnifera. Ond defnyddir
"Cedowrach" yn fynych gan y
beirdd fel enw o sarhâd.

⁹ "Moelrhon bysychlon sochlodr
Mab cleiriach o'r bodrwrach
bodr."—*Add. MS.*, 14,970.

- gorchymyn hyñ hen glermwnt
 a nair brawd aniwair brwnt¹
 ir gwragedd or gwyr ogan²
 20 rhag i ffeiriaid glwysiaid glan³
⁴pwy a geisiai ni nai neb
 o wyrda aniweirdeb
 anian i korff ai vnig
 24 i greu plant geiriau plig⁵
 i amlhau emyl heol
 pobl bŵd anwy bŵd ynol⁶
⁷gogan bychan heb achos
 28 oedd i rhain dylsfain dloa⁸
 nid amod gwybod mewn gwad
 gorff aur / garu offeiriad⁹
¹⁰diddarbod iawn dy dderbyn
 32 gen dduw er i fod gan ddun¹¹

¹ "Gorchymyn hên hen gler-
 mwnt
 A wna'r brawd anniwair
 brwnt."

Add. MS., 14,970.

"Clermwnt" = cerddor, clerwr,
 prydydd gwibyrnello. — *Gwel Geir.*
Cymraeg, D. Silvan Evans.

² Yn *Add. MS.*, 14,970, dar-
 llenir:—"Yr gwraig o'r gwyr
 ogan," gyda "Yr ai gwraig er in
 al." ar ymyl y ddalen.

³ "Rhag offeiriaid glwysiaid
 glân."—*Add. MS.*, 14,970.

"Rag yffeiriaid glwysiaid
 glân."—*Glan. MS.*

⁴ Nid ydyw llin. 21-22 yn *Add.*
MS., 14,970.

⁵ "Anian y corph ai yn ni
 Yw creu plant meddant i
 mi."—*Add. MS.*, 14,970.

"Anian y korff ai unig
 i greu y plant geiriau plig."
Glan. MS.

⁶ "Pobl byd anwyld yn ôl."

Add. MS., 14,970.

"Pobol fun anwyl yn ôl."

Glan. MS.

⁷ Yn *Add. MS.*, 14,970 y mae
 llin. 27-30 yn dilyn llin. 20.

⁸ "Oedd i rhain dylsfain dloa."

Add. MS., 14,970.

"Oedd i rhain dylsfain dloa."

Glan. MS.

⁹ "Gorffan ar garu 'ffeiriad

Nid ammod glybod mewn
 gwlad."

Add. MS., 14,970.

"Nid amod gwybod mewn
 gwlad

Gorff aur garu yffeiriad."

Glan. MS.

¹⁰ Nid ydyw llin. 31-34 yn *Add.*
MS., 14,970.

¹¹ "Diddarbod iawn didderbyn
 gan dduw er i bod genddyn."

Glan. MS.

- uchel ¹gradd, ffairiad¹
 achos düw maen üwch ystad
 am hyn yn wir / feinir füdd
 36 i gelwir² yn ddigelwudd
 ifan³ degan fendigaidd
 yffeiriad i dad ai daid⁴
 beth oedd yntau gorau gwr⁵
 40 ifan⁶ diddan fedyddiwr
 mab hoffair o gorff ffairiad
 fwrdd i doeth un ffordd ai dad⁷
 tad doeth gwnan a noethan
 44 oedd esgob mewn kadargob kain⁸
 tecka⁹ esgob o bob iaith
 oedd dad glan elian¹⁰ eilwaith
 11ni liwir¹² yn oleuad
 48 i neb odineb i dad

¹ Fe welir fod *air* uwch ben *yw*, ac i hefyd uwch ben yr *y*; ond y mae nodyn (*dot*) dan yr *i* yn ei dileu. Yn *Glan. MS.* darllenir :—"Uchel yw gradd y ffeiriad."

² "Am hynn yn wir feinir fydd Y gelwir yn ddigelwydd."

Add. MS., 14,970.

³ "Ieuan."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Yffeiriad ei dad a'i daid."

Add. MS., 14,970.

⁵ "Beth yntau ail gorau gwr."

Add. MS., 14,970.

"Beth oedd y mab gorau gwr."

Glan. MS.

⁶ "Ieuan."—*Add. MS.*, 14,970.

⁷ "Hoff wr o gorff yffeiriad Hyrdd a doeth un ffordd ai dad."—*Add. MS.*, 14,970.

"Mab hoff o gorff yffeiriad Hardd a doeth un ffordd ai dad."—*Glan. MS.*

⁸ "Tad doeth Gwynog a Noethan

Oedd Esgob mewn cadrgob kann."—*Add. MS.*, 14,970.

Gwynog a Noethan (neu Nwython) oeddynt ddau Sant a flo-deuent yn y chweched ganrif. Meibion oeddynt i Gildas y Coed Aur. Yr oedd dau gapel wedi eu sylfaenu ganddynt yn agos i eglwys Llangwm, Sir Ddinbych; ond trowyd hwynt un yn felin, a'r llall yn olyn (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. ii., tudal. 367).

⁹ "Penna."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ Elian Ceimiad.—Gwel Cywydd Rhif XXVIII., llin. 49.

¹¹ Nid ydyw llin. 47-50 yn *Add. MS.*, 14,970. Cyfieithir llin. 47-48 gan y Dr. Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Godineb") fel y canlyn :—"Nobody will be reproached in public with the adultery of his father."

¹² "Ni liwir" = ni edliwir.

- ni ddwg mab arab o roen¹
 baych i tad² am bechod hen
 am hyn yn wir gore sir saint³
 52 i gofreinia gwyr unfraint⁴
 o cheisir kred a bedvdd
 rhaid yw i ffeiriad a ffvdd⁵
 swydd i ffeiriad tad ai twng
 56 gallu rhwymaw a gollwng⁶
 dyn addel dan i ddwylaw
 er a nel o del kyn i daw⁷
 madde⁸ gweithred a meddwl
 60 a diffodi kyledi kwl⁹
 o chaiff gymyn¹⁰ a chyffes
 fo a i nef a fo nes¹¹
¹²ag ef o daf i gyfiwch
 64 ni wyr kythrel trafel trwch
 nid oedd gymaint¹³ braint i brawd
 ai feddiant ag a ddyfawd¹⁴

¹ "Aren."—*Glan. MS.*

² "Baich y tad."—*Glan. MS.*

³ "Am hynny'n wir medd Sir Saint."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Y gwir freinia gwyr unfraint."—*Add. MS.*, 14,970.

"I goreinia gwyr unfraint."
Glan. MS.

⁵ "O mynnir cred a bedydd Mae'n rhaid yffeiariad y fydd."
Add. MS., 14,970.

"O cheisi kred a bedydd rraid yw yffeiariad a ffydd."
Glan. MS.

⁶ "Swydd yffeiariad tād ai twng Gallu rhwymaw a gollwng."
Add. MS., 14,970.

⁷ "Dŷn a ddel dan ei ddwylaw Am a wnel cyndel o daw."
Add. MS., 14,970.

"dyn addef dan i ddwylaw or a nel o del dyn i daw."
Glan. MS.

⁸ "Maddeu."—*Add. MS.*, 14,970.

⁹ "Diffodi caledi cwl."—*Add. MS.*, 14,970.

"A diffodi kledi kwl."
Glan. MS.

"Cwl" = *fault; blame; crime; wrong, &c.*

¹⁰ "Gymmun."—*Add. MS.*, 14,970.

¹¹ "Ef ai i nef a fo nes."
Add. MS., 14,970.

"fo af i nef a fo nes."—*Glan. MS.*

¹² Nid ydyw llin. 63-64 yn *Add. MS.*, 14,970.

Y mae r mewn llaw ddiweddar wedi ei hysgrifenu mewn inc coch uwch ben y gair *gyfiwch*—*gyfiwch*.

¹³ "Gymmaint."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁴ "Ai faddeuant i ddyfawd."
Add. MS., 14,970.

"ai ddefiant ag a ddyfawd."
Glan. MS.



- 68 ag nid teilwng gollwng gwyll
ni wyr ym hoene eryll¹
na bedyddio bodd diddim
a nardd radd ni wyr e ddim²
mwy no mwdwl moel madarch³
72 moeswch i mwy is no march⁴

Iolo Goch ai kant.

¹ "Ni wyr gymmunaw eryll."
Add. MS., 14,970.

² "Na bedyddio bo diddim
Ni wyr Dduw a wyr e ddim."
Add. MS., 14,970.

Vn ol y darlleniad hwn, tebyg
mai fel hyn y dylid ei ddeall:—
"Ni ŵyr [*am*] Dduw: a ŵyr ef
ddim?"

"Na bydyddio bo diddim
Anardd oedd ni wyr e ddim."
Glan. MS.

³ "Mydarch"—*Add. MS.*, 14,970,
a *Glan. MS.* Madarch = bwyd
llyffant (*toadstool*). "Bwyd llyffant,"
neu "gaws llyffant," a ddywedir
yng Ngwynedd, a "madarch" yn
Sir Forganwg.

⁴ "Moes moel mwy a ys no
march."—*Add. MS.*, 14,970.

"Moeswch mwy a us no
march."—*Glan. MS.*

XL.

CYWYDD I HERSDIN HOGL.

(*O Lyvr Huw Lleyr—Add. MS., 14,967, fol. 34b*).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,964, 14,970, a 14,986; ac yn *Jesus MS.*, E, 139, p. 227. Ac yn benawd iddo yn *Add. MS.*, 14,970, ceir "Cywydd i Hersdin Hegl, o arch Ithel Ddu o Leyn." Nid ydyw hwn yn *Glanyrafon MS.*, B, fel y camddywedir yn tudal. 79, uchod.

Y mae ein nodiadau o flaen Cywydd Rhif XLI. yn dangos pwy a feddylir wrth "Hersdin Hegl," sef ei bod yn fam i Gruffydd Gryg. Yr hyn sydd yn ein synu ydyw, os oedd "Hersdin Hegl"—yr hyn nid ydyw wedi'r cyfan ond enw o waradwydd—mor dlawd ag y dywed Iolo ei bod, pa ham yr oedd y bardd yn gwastraffu geiriau i waradwyddo cymmaint arni. Gwelir yn nechreu y cywydd i'r bardd ei gyfansoddi ar gais Ithel Ddu, yr hwn a ddysgrifir gan rai fel "o Fôn," a chan ereill fel "o Leyn;" ac yn erbyn hwnw yr oedd yr hen wreigan hon wedi pechu. A chanu dros Ithel Ddu, yr hwn oedd fardd ei hun, y mae Iolo yma. Y mae yn rhaid fod "Hersdin" wedi bod yn euog o ryw bechodau mwy na'r cyffredin, gallem dybied, cyn y buasai Iolo yn defnyddio iaith mor eithafol o waradwyddlyd am dani—a hithau wedi marw. Ond yr amcan mewn golwg, yn ddiau, oedd ceisio dolurio teimladau ei mab. Yn un o gywyddau Dafydd ab Gwilym i Gruffydd Gryg (*Barddon-iaeth*, tudal. 256) ceir y llinellau canlynol:—

"Yno cad, oerfad yrfa,
Mab cryg, nid mewn diwyg da;
Gruffydd liw dewrudd dirwd,
Molld y cwn, fab Malld y cwd.
Gwraig i Gleision Uwch Gonwy,
Gwn, gwn! pam na wypwn pwy?"

Y mae gan Madog Dwygraig (*Myv. Arch.*, p. 324) dychangerdd "I Ferch," yr hon a eilw yn "Mallt ferch Ddafydd," "Mallt bibles," "Maallt wael," "Maallt buttain," &c. Ac o gymharu yr enwau hyn â'r llinellau uchod gan Dafydd ab Gwilym, yn gystal a'r cyfeiriad at Madog Dwygraig, gan Iolo Goch, yn Cywydd Rhif XLI., llin. 47-48, tybiwn mai at yr un y cyfeirir ganddynt oll; ac mai Mallt oedd gwir enw "Hersdin Hogl." Ond, pwy bynag ydoedd, druan, y mae Iolo yn ei thrin yn erwin.

- Ithel ddu ith alw y ddwyf
 Athrodwr beirdd uthr ydwyf¹
 Athror gerdd ith roir ar gant
 4 Etholwalch beirdd ith alwant²
 A thra da wyd ni thry dyn
 A theuluwr iaith Leyn³
 Erchaist i vardd⁴ orchest vawr
 8 Arch afraid kyn eiry chweffawr
 Goffau giau ffaidd⁵
 Gychwraic ymddanheddwraic haidd⁶
 Herstin Hogl ar arogl oer
 12 Henllodr vigyrbodr garnboer⁷

¹ "Ithel ddu ith ol i ddwy
 Athrodwr beirdd uthr ydwy."
Jes. MS.

"Ithel Ddu at dy alw—neu yn ol
 dy gais—yr wyf," o bosibl afeddylir.

² Nid ydyw llin. 3-4 yn *Jes. MS.*;
 ond darllenant fel y canlyn yn
Add. MS., 14,964:—

"Athro'r gerdd ith wyr ar gant
 Etholwalx Beirdd ith alwant."

³ "A thra da iawn athro dyn
 A thalwriaeth ith ddilyn."

Jes. MS.

⁴ "I feirdd."—*Jes. MS.*

⁵ "Goffau i giau ffaidd."

Jes. MS.

⁶ "Gn²xwraig ymddanhedd-
 wraig haidd."

Add. MS., 14,964.

"Katturwraig dan heddwraig
 haidd."—*Jes. MS.*

⁷ "Hersdin hogl ar arogl oer
 Henllodr figy²lodr g²rn-
 boer."

Add. MS., 14,964.

"Herstin hogl arogl oer
 Henllodr figynbodr garn-
 boer."—*Jes. MS.*

Y mae y llinellau uchod mor
 llawn o eiriau cas, edliwiol, ac
 anarferedig, fel y byddai yn orch-
 wylanhawdd, yn gystal ag afreidiol
 cynnyg eglurhad arnynt.

- Mae ni hun nid mwyn i haint
 Du daerwrach dew i derwraint¹
 Mahelltyn gevryn heb gic
 16 Main groen neidr min grynedig²
 Merch rwsel hen sorel soeg
 Gwrach vresychkach vrau sechgoeg³
 Raid ynn gyda hynn gadw had
 20 I vurnio iddi varwnad⁴
 Pa ham Ithel ddinam ddu
 O bai⁵ raid iddi brydu
 Venaid ym na ddanvonud
 24 Vessur i throed vos roth ddrud⁶
 Tra vair esgyrn⁷ kyrn karn froll
 A giau du i gyd oll⁸

¹ " Mae ni hun nid mwyn i haint
 Du daerwrach dew i dew-
 raint."—*Add. MS.*, 14,964.

" Mae ym fy hun yn vn haint
 dwy daerwraig dew i der-
 wraint."—*Jes. MS.*

² " Mahelldyn gefryn heb gig
 Mae'n groen neidr min gryn-
 edig."—*Add. MS.*, 14,964.

" Meindin gethrin heb gig
 mein groen neidr min gryn-
 edig."—*Jes. MS.*

Nid ydym yn cael y fath air a
 "mahelltyn" yn ein geirlyfrau.
 Buasai synwyr yn "meindin
 gefryn." Hwyrach fod "mahelltyn"
 yn gyfystyr â mollt (*wether*)—
 lluosog, "myllt."

³ Y darlleniad yn *Add. MS.*,
 14,970, ydyw :—

" Merch Rhwsel hen sorel soeg
 Gwrach fressychgach frau sech-
 goeg,"

gyda y nodyn a ganlyn gan Iolo
 Morgauwg ar ymy y ddalen :—
 "Sorel yw arogl mewn rhai mannau
 yn y Deheudir. I.M."

"Merch rossol sorel y soeg
 henwrach ffrysych gach
 sechgoeg."—*Jes. MS.*

⁴ " Rhaid yn gwedu hyn gau
 iad
 fyurnio iddi ddwy farnad."
Jes. MS.

⁵ " Ba "—*Add. MS.*, 14,964, a
Jes. MS.

⁶ " F'enaid im na ddanfonwyd
 Fesur i throed fos roth
 ddrud."

Add. MS., 14,964.

" fenaïd pam na ddanfonud
 fesur i throed fos rhwth rud."
Jes. MS.

⁷ " Tra fae hesgyrn."—*Jes. MS.*

⁸ " Ar giau ddi i gid oll."
Jes. MS.

- ¹Nid hawdd kael gwawd barawd bur
 28 Yn apsen gwilff² wynebsur
³Gwnawn yn hoff i dydd⁴ koffa
 Pes gwelswn a ffwn⁵ o ffa
 Minau y sydd meinwas wyf
 32 Voly gellast val i gallwyf⁶
 Gwedy naddu gwadn iddi
 Enw heb senw wrth ei henw hi⁷
 Pader i honn pwy ydoedd
 36 Poed ar awr dda pydru ddoedd⁸
⁹I grybwyll hers gefn gribin
 Grepach hogl grach ar hegl grin¹⁰
 Henddyn vam wyddelyn wefr
 40 Hers dinroth haer estynrefr¹¹

¹ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 27-28 yn dilyn llin 36; ac yn eu lle yma ceir:—

“Tra fae ddyll oi hesgyll hi
Wrth i gilydd arth guli.”

² “Yn absen gwilff.”—*Add. MS.*, 14,970. Defnyddir “gwilff” fel enw arall ar *gaseg*, yn gystal ag ar *fenyw anniwair*; ond diammeu mai yn yr ystyr olaf y mae i’w gymmeryd yma. Ai tybed fod merched anniwair, fel rheol, yn wynebsur? Arferem feddwl yn wahanol.

³ Y mae llin. 29-32 yn cael eu gadael allan yn *Jes. MS.*

⁴ “I ddydd.”—*Add. MS.*, 14,964.

⁵ “Phwn”—*Add. MSS.*, 14,964, a 14,970.

⁶ “Minnau y sydd meinwas wyf
Foly gellast dal y gallwyf.”

Add. MS., 14,964.

“Minnau y dydd meinwas wyf
Foly gellast fal y gallwyf.”

Add. MS., 14,970.

Moli (gwawdio) “gellast” (= iyrchast=*buckhound-bitch*).

⁷ “Gwedu naddu r gwadan iddi
Enw heb senw yw henw hi.”

Jes. MS.

⁸ “Pader i hon pmvy ydoedd
Poed ar awr dda pydru
ddoedd.”

Add. MS., 14,964.

“Pader iddi pwy ydoedd
Poed ar awr dda pydru
ddoedd.”—*Jes. MS.*

⁹ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 37-40 yn dilyn llin. 20.

¹⁰ “I grybwyll her gefn-gribin
Grepach hogl grach a’r hegl
grin.”—*Add. MS.*, 14,964.

“Grybwyll i hen gefn gribin
henwrach heglgrach hogl-
grin.”—*Jes. MS.*

¹¹ “Henddyn fam wyddelyn wefr
Herstinroth haer estynrefr.”

Add. MS., 14,964.

“Henddyn mam wyddelyn
wefr

Hers donwrach hir ysdyn-
refr.”—*Jes. MS.*

Ar ymyl y ddalen yn *Add. MS.*, 14,970, yn yr hwn y ceir darllenriad

- Haeru maent i bod hirhynt
 Yn oes hen Geridwen gynt
 'rrefr grach gwedy rrifai'r grib
 44 Hevis hydraethbis droeth bib²
³Ryswraig gynhaig gwn ei haingk
 Ysowin vowdgrin vwyd graingk
 'Blif anigrif eneugrest
 48 Blotta gwlanā gwera gwest⁵

cyffelyb i'r blaenaf, eglurir "haer" yn y llinell olaf fel y canlyn :—
 "Haer, used in the same sense as in Glam. i.e., the same as *taer*." Ond os ydyw y *Jes. MS.* yn gywir wrth roddi "hir"—fel y tybiwn ei fod—y mae eglurhad Iolo Morganwg yn ddiwerth.

¹ Yn *Jes. MS.* y mae 43-44 yn dilyn llin. 40.

² "Rhefr gwrach gwedi rhifai'r grib

Hefis hydraeth bis droeth-bib."—*Add. MS.*, 14,964.

"Rhefr grin wedu rhifor grib Henfis wyll droetbis draet-bib."—*Jes. MS.*

³ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 45-46 yn dilyn llin. 76, gyda dwy linell o ychwanegiad :—

"Rhyswraig kynhaig kwn ai hank

rhyswin fowdgrin fwyd grank i ddiawl oedd o heni ddun I ddiawl ynte wyddelun."

⁴ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 47-54 yn dilyn llin. 64.

⁵ "Blif annigrif eneugrest Blowtta gwlanā gwera gwest."

Add. MS., 14,970.

"Rhif anigrif eneugrest Blotta gwlanā gwera gwest."

Add. MS., 14,964.

"Llif anigrif anwy greest blotta gwlanā gwera gresst."

Jes. MS.

Rhydd y Dr. W. O. Pughe ddyfyniad o ddarlleniad cyffelyb i eiddo *Add. MS.*, 14,970, gyda'r cyfieithiad a ganlyn o llin. 47-52 :—

"A catalogue not very diverting to the scabby lip: *to gather meal*, to gather wool, to gather tallow, and drink, to beg cheese, to beg meat, which causeth the smacking of her lips: most hateful article, she craves for every thing; many the loads on her spotted arm."

Cyfeiria un o ohebwy'r *Bye-Gones* (Nov. 21, 1894) at arferiad hen wragedd o fewn cof iddo ef a elent oddi amgylch mewn rhanau neillduol o Ogledd Cymru i gardota; y rhai fyddent yn myned ar eu cylchoedd i gardota gwlan, gwenith, neu ryw nwydd arall, yn ei dro. Cyfeiria at y llinellau hyn o eiddo Iolo Goch, fel dysgrifiad o'r arferiad, a chyfieitha hwynt fel y canlyn :—

"Grotesque knots of old shrivelled mouths
 Go begging flour, wool, fat, to houses,
 Begging cheese, meat, with smooth words,

- Kowsa kika min koketh
 Kasa pwngk keissio pob peth¹
 Llawer kydaid hen wenith
 52 Llawer baich ar ei braich brith
 Llawer dryll kig selsig sail
 A chosyn dan ei chesail²
 Llawer gwäell³ lliwir iw gwedd
 56 A dynai hi ai dannedd
 Gwaer mab gwedy gwyror min⁴
 A golles Diefles diflin
⁵Nos y rhwymwyd dorglwyd dón
 60 Ai devraich ar ei dwyfron⁶

Hateful work, they seek every-
 thing ;

Many a bagful of old wheat,
 Many things in the burden on
 their gray arm."

Dywed y gohebydd dan sylw, yr
 hwn sydd yn hynafiaethydd adna-
 byddus, i'r arferion cardotäol hyn
 fyned yn llai cyffredin yn fuan ar
 ol y flwyddyn 1845, pryd y sefydl-
 wyd cyfundrefn newydd o addysg
 ym mhlith y werin.

¹ "Cawsa cicca mincocceth
 Casa pwnc ceisio pob peth."
Add. MS., 14,970.

"Kawsa kigka min kogketh
 kassa pwnc, keisio pob peth."
Jes. MS.

² "Llawer dryll cig selsig sail
 A xosyn dan ei xesail."
Add. MS., 14,964.

"Llawer ddryll kig selsig sail
 a chosyn yn ei chessail."
Jes. MS.

"Selsig"=*pudding, sausages.*

³ "Gwäell [y goes]=*the spindle-
 bone of the leg.*

Cyfeirir yma at y dull aflednais
 o gymmeryd asgwrn rhwng y

bysedd gan grafu y cig sydd arno
 a'r dannedd.

⁴ "Gwae'r mab gwedi gwyror'r
 min."—*Add. MS.*, 14,964.

⁵ Yn *Jes. MS.* y mae y llinellau
 o 59 hyd 69 yn dilyn llin. 28.

⁶ "Nos y rhwymwyd dorglwyd
 donn

Ai deufrach ar ei dwyfron."
Add. MS., 14,970.

"Nos y rhwymwyd dorglwyd
 don

Ai dau fraix ar ei dwyfron."
Add. MS., 14,964.

"Y nos rhwymwyd torklwyd
 tron

Ai deufrach ar i dwyfron."
Jes. MS.

Golyga "dorglwyd" *glwyden or-
 chuddiedig*; a *gorchudd* ydyw "don."
 Cyfeirir yma at "roddi allan,"
 neu "ddiweddu," y corff trwy ei
 osod ar estyllen a gorchudd drosto,
 yn flaenorol i'w roddi mewn arch.
 Arferir yn bresennol, yn rhai
 manau, o leiaf, rwyddo dwy fawd,
 ereill ddau arddwrn, y trengedig
 pan yn ei "ddiweddu," fel ag i ddal
 ei freichiau yng nghyd; a thrwy

- Y bur wrach mewn berwa wrysg
 A fflok aml a fflwy kymysg¹
 Ynghwr bwth anghywair baw
 64 Ai gwaling yny gwiliaw²
 Roed ysgrin³ ar hyd ysgrwd
 Rull⁴ gyrchgas rrrhyll⁵ gywarchgwd
 A rrywd vawr a rryd i fam
 68 Ryw drasgl vynwes gasgl goesgam⁶
 'rrag gweled rrrwyg i gwilhers
 A chanv had uwch noi hers⁷

hyny y mae y ddwy fraich yn cael
 eu hestyn ar eu hyd ar y corff gan
 gyfeirio at y traed, y rhai hefyd a
 rwymir yng nghyd. Ond oddi
 wrth y llinellau uchod gallem
 dybied mai yr hen arferiad oedd
 rhwymo y breichiau ar draws y
 ddwyfron fel ag i wneyd llun croes.

¹ "Y bu'r wrach mewn berwa
 wrysg

A ffloc aml a phlwy cym-
 ysg."—*Add. MS.*, 14,970.

"Y bu'r wrach mewn berwa
 wrysg

A ffloc aml a phlu cymmysc."
Add. MS., 14,964.

"A bwrwr hwch mewn berfa
 wrysg

ai fflock aml ai fflu kymysc."

Jes. MS.

Dysgrifiad a geir yma o'r gwely
 ar yr hwn y rhoddwyd ei chorff i
 orwedd.

² "Ynghywir bwth anghywir
 baw

Ai gwaling yn ei gwiliaw."

Add. MS., 14,970.

"Ynghwr bwth anghywain
 baw

Ai gwaling yn ei gwiliaw."

Add. MS., 14,964.

"Ynghwrr bwth anghowir baw

A gwaling ny gwiliaw."

Jes. MS.

"Gwaling" = torllwyth; ond yn
 golygu ei *phlant* yma. Cyfeithir
 y llinellau hyn gan y Dr. W. O.
 Pughe fel hyn:—"In one corner of
 an untidy hut with her litter
 keeping her vigils."

³ "Rhoed ysgrin"—yn y llyfrau
 ereill: "Ysgrin" yw yr enw
 cyffredin am *arch* yn rhai manau—
 yn Sir Drefaldwyn, er enghraifft.

⁴ "Rhyll"—*Add. MS.*, 14,964.
 Rhyll = agoriad (*cleft*).

⁵ "Rhwyl"—yn y llyfrau ereill.

⁶ "A rhwyd fawr ar hyd i fam
 Rhyw drasgl fynwesgasgl
 goesgam."

Add. MS., 14,970.

"A rhwyd fawr ar hyd ei fam
 Ryw drasgl fynwesgasgl goes-
 gam."—*Add. MS.*, 14,964.

⁷ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 69-70
 yn dilyn llin. 46.

⁸ "Rhag gweled rhwyg i gwi-
 hers

A chanu had uwch noi hers."

Add. MS., 14,970.

"Rhag gweled rhwyg y gwi-
 hers

A xan had yn uwch noi
 hers."—*Add. MS.*, 14,964.

- 72 Buwch ffol ni bu vweh ei ffenn
 O ffurf gael un efferenn¹
 Nac offrwm widdom gevffrom
 Na ran na lluman wyll lom²
 Eithr hutffat a throedffust
 76 Odid o chlywid a chlust³
 Alw yngwynedd long anoff
 Gyvryw glul ar ol gavr gloff⁴
 I gwlan ai chwppan ai chap
 80 Ai deuglaf yn rhoi dwyglap⁵
 ⁶Rranodd ei blawd ai rhynion
 I gler ai finer ai ffon⁷

"Na wnai i rhan fowrnwy hi
 I harwyl arth glun heri
 Rhag gweled rhwyg i gwilers
 A chnu i had yn uwch noi
 hers."—*Jes. MS.*

"Gwilhers" = neidio (*romp*):
 Dywed y bardd fod Gwyddelyn yn
 gorchuddio corff ei fam, a da hyny;
 onide, y buasai yn crychneidio yn
 uwch na'i "hers." Ai wrth "hers"
 yr ydym i ddeall elorgerbyd
 (*hearse*)? Tybed fod y fath gerbyd
 wedi dyfod i arferiad y pryd hwnw?
 Prin y gallwn gredu. Diammeu
 mai cyfeiriad sydd yma at yr "elor-
 feirch" (*horse-bier*), yr hon oedd
 yn arferedig hyd ddechreu y ganrif
 bresennol.

¹ "Buwch ffol ni bu uwch ei phenn
 O ffurf gael un offeren."

Add. MS., 14,970.

"Buwx ffol ni bu o uwx ei
 phen

Offurx gael un offeren."

Add. MS., 14,964.

Yr oedd Hersdin Hogl mor ddir-
 mygus, fel y claddwyd hi heb fyned
 trwy y gwasanaeth arferol ar y fath
 achlysur.

² "Nag offrwm widdom gau-
 ffrom

Na rhanu na lluman wyll
 lom."—*Add. MS.*, 14,970.

"Nac offrwm widdom geuffrom
 Na rhan na lluman wyll lom."

Add. MS., 14,964.

"Widdom" (= gwiddon?) = gron-
 ynau pydredig.

³ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 75-76
 yn dilyn llin. 86 fel y canlyn:—

"Odid o chlowid a chlust

Uthr i thry fied ai throedffust."

⁴ "Alw yng Ngwynedd long an-
 hoff

Gyfryw glul ar ol gafr gloff."

Add. MS., 14,970.

"Alw yn Gwynedd long anoff
 Gyfryw glul ar ol gafr gloff."

Add. MS., 14,964.

⁵ "A gwlan o'i chapan ai chap
 Ai deuglaf yn rhoi dwyglap."

Add. MS., 14,964.

⁶ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 81-86
 yn dilyn llin. 54.

⁷ "Rhannodd ei blawd ai rhynn-
 ion

I glêr, ai phiner ai ffonn."

Add. MS., 14,970.

- 84 Ai chynvas ai chrys bras brau
 Ai chae latwm ai chlytiau¹
 Ai chunoc laeth ai chwynogl
 Ai chwd hersdin hwgwd hogl²
 oi blaen y bu oleuni
- 88 Yn vn wers wrth i hers hi
 A gweddio gwiw ddwyen
 Gida hi safn gevdy hen³
- 92 ⁴Gwain gweirfforch gwaneg oerffwyr
 Gwae ni i marw hi mor hwyr⁵

Iolo ai kant.⁶

"Hanner i blawd a rhynnion
 rhwng kler ai ffiner ai ffon
 ai ffunen hen ai ffon hi
 ai byrwy ai mail boeri."

Jes. MS.

Ymddengys i ni mai "Rhanner
 ei blawd," &c., sydd gywir.

¹ "Ai chanfas ai chwd bras brau
 Ai chae lattwm ai chlytiau."

Jes. MS.

"Cae latwm" = modrwy bres.

² "Ai xunog laeth ai xwynnogl
 Ai xwd Hersdin hwgwd hogl."

Add. MS., 14,964.

"Ai chynog laeth ai chwiogl
 Ai chwd Hersdin hwgwd
 hogl."—*Jes. MS.*

Nis gwyddom beth yw "chwiogl,"
 ond wrth "chwynogyl" y golygir
 offeryn i chwynu—a *hoe*—yr hwn,
 yn ol Cyfreithiau Hywel Dda, oedd
 yn werth fyrlling.

³ "A gweddio gwyn ddwyen
 Gyda hi safn geudy hen."

Add. MS., 14,964.

⁴ Yn *Jes. MS.* y mae llin. 91-92
 yn dilyn llin. 70.

⁵ "Gwain gweirffort gwaneg
 orffwyr

Gwae ni ei marw hi mor
 hwyr."—*Add. MS., 14,964.*

"Gwain gweirfforch gwaneg
 oerffwyr

Gwae ni ei marw hi mor
 hwyr."—*Add. MS., 14,970.*

"Gwain gweirfforch gwaneg
 orffwyr

Gwae ni marw hi mor hwyr."

Jes. MS.

"Gwae ni," a feddyliai y bardd,
 "na buasai wedi marw yn gynt."
 Cyfieithir y llinellau gan y Dr.
 Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Gorffwyr")
 fel y canlyn:—"Dividing like a
 hay-fork with a gait *most impetuous*,
 woe to us that she should have died
 so late."

Iolo

⁶ Yn yr ysgriflyfr ceir "Guttyn
 Owain ai kant," ond y *Guttyn*
Owain wedi ei groesi allan gan y
 copiwr ei hun, fel yr ymddengys;
 ac yna ysgrifennodd *Iolo* uwch ei
 ben.

Fel y sylwasom eisoes (tudal. 82), i Gutyn Owain y priodolir y gwaith o gopio ysgriflyfr ein testyn. Hwyrach y dadleuir nad ydyw hyn yn debyg, gan iddo yma, yn gystal a manau ereill, ysgrifenu ei enw ei hun fel awdwr, ac yna ei gywiro drachefn; yr hyn, ar un olwg, sydd yn dangos ansicrwydd yng nglŷn â'i awduriaeth. Ond gellir ateb, mai lled hawdd gan ddyn, pan yn gohebu dros arall,

heb arfer cryn ofal, ydyw rhoddi ei enw ei hun ar y diwedd. Y mae yn yr ysgriflyfr hwn yn unig 45 o ganiadau o waith Gutyn Owain: felly, ar ol ysgrifenu ei enw mor fynych, yr oedd yn hawdd iddo lithro i arwyddo ei enw ei hun wrth waith arall.

Yn *Add. MS.*, 14,986, ceir "Iolo Goch 1400" ar ddiwedd y cywydd; ond ni ddylid rhoddi dim pwys ar yr amseriad hwn.

XLI.

CY[WYDD] DUXAN GWYDDELYN MAB HERSDIN HOGL—
LLYFR P. PANTON.

(*O'r Add. MS., 14,964, fol. 63b*).

Ceir y rhan olaf o'r cywydd hwn—sef o llin. 31 i'r diwedd, yn *Bodleian MS., c. 2*, pp. 267-9. Ar ddiwedd y cywydd, yn y testyn, dywedir fel hyn:—"Gwyddelyn oedd Gruffud Grug. Gwyddelyn marx cregyn cryg medd Iolo Marnd. Ithel Ddu." Yn yr *Iolo MSS.*, p. 95, ceir yr hanes a ganlyn am Gruffydd Gryg:—

"Gruffudd grug, Ym Mhenmynydd Mon Prydydd gwybodus ac awenbell oedd efe, ac efe a fu yn yngytgan a Dafydd ap Gwilym am ferch ym Môn a honno yn un a garai Ruffudd; a myned yn gas rynddynt, a brodyr Priordy Gwynlliw a ddanfonasant wr A llythyr i Fôn a Ddywedai i Ddafydd ap Gwilym farw, Yna Gruffudd a wnaeth Farwnad iddo ar gennad ar ei ffordd i fon wedi danfon gair i Ddafydd bod Gruffudd wedi marw ac yn ol ei Ddymuniad iddei gladdu yn mynwent Ystrad Fflur; lle y dywespydd wrth Ruffudd y Cleddit Dafydd ap Gwilym; ag enwi'r un diwarnod claddu y naill ar llall, Aeth Dafydd yno, a marwnad Gariad i Ruffudd Grug lle y cyfarfu ef a Gruffudd a marwnad garedig i Ddafydd, a rhyfedd a llawen y bu ganddynt gyffwrdd ar naill y llall yn fyw fal hyny ac o hynny hyd angau heddwch a charedigrwydd rhyngddynt."

Ceir y cywyddau ymryson rhwng Gruffydd Gryg a Dafydd ab Gwilym yn argraffedig gyda chynnyrchion yr olaf, ac y mae un o'i waith yn y *Myvyrian Archæology*.

Gwyndodwr oedd tad Gruffydd; ond Gwyddeles oedd ei fam, am yr hwn reswm, mae'n debyg, y geilw Iolo ef yn "Gwyddelyn." Yn ol a ddywedir yn y dyfyniad uchod, ym

Mheninynydd y cartrefai; ond dywed Angharad Llwyd (*Hist. Mona*, p. 390) mai un o Aberffraw ydoedd; ac y mae un o'i gywyddau ef, pan yn gwrthateb Dafydd ab Gwilym, o'r braidd yn cadarnhau y golygiad olaf. Drachefn, yn y cywydd canlynol, dengys Iolo Goch mai un o Leyn ydoedd. Ond dichon iddo fod yn byw yn yr holl leoedd hyn. Y mae Iolo yn y cywydd hwn yn ei osod allan fel dyn tlawd, ac yn dyweyd yr hyn oll a allai ddychymmygu o ddrwg am dano. Gallem dybied nad ydyw y cywydd hwn ond rhan o ymrysonfa farddonol a gyminerodd le rhwng Ithel Ddu, Madog Dwygraig, ac Iolo Goch ar y naill law, gyda Gruffydd Gryg ar y llaw arall.

- Gwyddelyn fudryn fwydrefr¹
 Gwaddowdlest² cŵn gwiwfrwn gwefr
 Gwae dydy hun hendeirw
 4 Gwŷdd helm ir gwedd haul y meirw
 Gwas ffromlwfr gwyw saffrymlyd
 Gwŷws brwynt quei—Isa bryd³
 Carnfedd bres corn efydd brau
 8 Car degwm corr daeogau
 Carw a phryf mewn cwri ffraen
 Cawr aelgrax orïaw olgroen
 Crippiwr crainc iangur copr crin
 12 Cyffeithdy clér ci ffraethdin
 Ceufflair hwx cyffylwr haidd
 Cyff elydn copr⁴ cyffylaidd
 Carl⁵ serth ai fwth carael fox
 16 Cehyr gorph syml cachirgox

¹ "Fwydrefr" = rbe-fr-rwym (= *costiveness*).

² "Gaddowdlest" = geudy?

³ Y mae y llinell hon yn ang-hywir, fel y gwelir ar yr olwg gyntaf; ond nis gallwn awgrymu unrhyw welliant.

⁴ Y mae y bardd yn defnyddio y gair hwn yn awr am yr

ail waith yn y cywydd, ond nid ydym yn deall ei ystyr, os nad ydyw yn golygu *melyn-groen*.

⁵ "Carl" = taeog. Nid ydyw "carl" ond ffurf arall ar y gair Anglo-Sacsonaidd *ceorl*, sef dyn a berthynai i'r dosbarth isaf ym mhliith y Sacsoniaid, ac yn cyfateb i *ser taeog* y Cyfreithiau Cymreig.

- Caer o honod coc rhonollt
 Cawg cau cox croen ci coegholtt
 Canwn mor ath cilcocciant
 20 Coesyth blew aml coes ith blant
 Cwcwallt moel ci ceilldew mud
 Cocyllawn ciccai alldud
 Rhuadyr yn rhoi ydwyd
 24 Rhyw ysgorn im rhisg gwern ydwyd¹
 Am wneuthur llywiadyr llau
 I'th fam Heglgam dinhoglgau.
 Glod fawr² ni roir gwlad i fud
 28 Gwladeiddiaist *glauod* oeddud
 Coffau yr wyd ceffi rus
 Coffr o wstris cae ffrostus
 Ba ryw wr wyd buror iawn
 32 Barfydyd berw afradlawn³
 Bawa glod mwygl bogeldew
 Bara rhudd bryd bore rhew⁴
 Bron belau crimogau croes
 36 Brymgriwydd hen bren egroes⁵
 Dilyd ir wyd a dylusc
 Or cwr i'r llall fal carr llusc⁶
 Oes le rhydd was osler hen
 40 Ond yn Llŷn neu Dinlläen⁷

¹ "Ydwyd"—diau mai "wyd"
 a ddylasai fod yma.

² Gallem dybied mai cyfeiriad
 sydd yma at gywydd a gyfansodd-
 wyd gan Gruffydd Gryg mewn am-
 ddiffyniad i'w fam, o bosibl mewn
 atebiad i'r cywydd blaenorol—"I
 Heradin Hegl."

³ "Ba ryw ir wyd byrr or iawn
 Barf rydlyd berw afradlawn."
Bodley MS.

Ymddengys y darlleniad hwn yn
 well yn yr ail linell na'r testyn.

⁴ "Baw a gold mwygyl bogeldew

Bara rhudd wrid boreu
 rhew."—*Bodley MS.*

⁵ "Bron bele crimogle croes
 Brenigrwydd hen bren
 egroes."—*Bodley MS.*

⁶ "Dilen yr wyd a dilusc
 Or cwr ir llall fal car llusc."
Bodley MS.

⁷ "Oes lle rhydd was osler hen
 Ond Llŷn a thi yn llawen."
Bodley MS.

Llŷn, neu Lleyn, ydyw y rhan
 hono o Sir Gaernarfon sydd yn
 sefyll ar y cwr de-orllewinol o'r

- Haws it leidr cax draws coxdroeth
 Syxu marx Ithel ddu ddoeth¹
 A bwrw allan sax gax gwlad
 44 I ebodn daeog Abad²
 Gorxest fawr nog ymgyrxu
 Ag ef da goddef y du³
 Neu a Madog serxog Syw
 48 Dwygraig, wr dyledowgryw⁴
 A minnau pam na mynnwn
 Ith frefant fraw cant o'r cŵn⁵
 Nid synwyr ffôl wrth ddolef
 52 Nid clêr lliw'r tryfer llawr tref⁶

Sir, rhwng beisfor Caernarfon a beisfor Ceredigion. Pentref ydyw Porth Dinllaen a saif ar ystlys orllewinol gorynys Lleyn, ryw ddwy filltir i'r de-orllewin o Nefyn. Gallen dybied oddi wrth y llinellau hyn, er maigŵr o Fôn oedd Gruffydd Gryg, iddo fod yn byw yn, neu yn dal rhyw gyssylltiad â, Lleyn am ryw ran o'i oes.

¹ "Haws yt leidr cechdraws coxdroeth
 Sychu march Ithel Ddu
 ddoeth."—*Bodley MS.*

Os ydyw "osler" (Seis. *ostler*) = marchwas, yn ddarlleniad cywir yn llin. 39, ac os cyssylltir y gair gyda "Sychu march Ithel Ddu," ymddengys i ni fod Gruffydd Gryg yn perthyn i'r dosbarth cyffredin, ac nid yn foneddwr fel y dywedir gan rai. Gwneir cryn ymdrech gan ein haneswyr i wneyd pob bardd yn wr boneddig.

² "A bwrw allan sachgwlan gwlad
 ei ebod dayog Abad."

Bodley MS.

"Ebod," neu "ebodn," = baw ceffylau (= *horse dung*).

³ "Gorxest fawr nog ymgyrchw
 Ag e da y gwydde y dv."

Bodley MS.

Da y gwyddai "y du" (h.y., Ithel Ddu) mai Gruffydd Gryg oedd awdwr rhyw gân enllibus a gyfansoddasai.

⁴ "Nef a Madog serchog syw
 Dwygraig gwr diledowgryw."

Bodley MS.

Y mae yn amlwg fod "Neu a Madog" yn well na "Nef a Madeg." Madog Dwygraig oedd fardd a roddir yn ei flodeu rhwng 1300 a 1370; ond nis gwyddom pa le yr oedd yn byw. Ceir deg o'i gyfansoddiadau yn y *Myvyrian Archaeology*.

⁵ "A minnav pan na mynnwn
 Ith frevant faw cant o'r cŵn."

Bodley MS.

Y mae y Canon Silvan Evans yn dyfynu y llinellau hyn (*Geir. Cymraeg*) i egluro y gair *Breuant* = the windpipe, the trachea.

⁶ "Nid synwyr ffôl wrth olef
 Nid clêr lliw tryfer llawr tref."—*Bodley MS.*

COJ

- Nid beirdd y blawd barawd heb rym
 Profedig beirdd prif ydym¹
 Ni byddwn od gwn i gyd
 56 Wrth un lleidr fal o Arth heinllyd²
 Ni bydd gwr anny byddar
 Eryr gwyllt wrth ieir gwar³
 Ni bydd llew wrth lo ewig
 60 Ni bu ddelff cox na bai ddig
 Ni bydd blaidd banc ieuanc iax
 Wrth oen gwlangroen glingrax
 4 Ni bydd eofn emyd y mox
 64 Milgwn wrth gostog moelgox
 Ni ddoi ar nawdd y dydd
 O Lŷn⁵ fyth i lawenydd.
 Ni ddaw dall o'i dŷ allan
 68 Ni ddaw'r wadd o'r ddaear wann

¹ "Nid beirdd y blawd brawd
 heb rym
 Prifedig feirdd prif ydym."

Bodley MS.

Dyweyd y mae Iolo mai nid
 "beirdd y blawd" oedd Ithel Ddu,
 Madog Dwygraig, ac yntau, gan
 awgrymu mai unfelly oedd Gruffydd
 Gryg. Y mae y Canon Silvan
 Evans (*Geir. Cymraeg*, d.g. *Bardd*)
 yn rhoddi dau ystyr i'r ymadrodd
Bardd Blawd: —(1), Bardd crwy-
 drol, yn myned oddi amgylch i
 gardota blawd, bwyd, a dillad; ac,
 yn (2), un yn euog o gymmeryd
 cynnyrchion arall a'u harddel ei
 hun. Gwelir fod Dafydd ab
 Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 239)
 yn haeru mai "benthycca Cerdd
 yr oedd G. Gryg."

"Bardd y Blawd Ceirch" oedd
 yr enw a roddai Lewis Morris o

Fôn ar Dafydd Jones o Drefriw
 (Ashton's *Hanes Llenyddiaeth
 Gymreig*, tudal. 193-4).

² Yn *Bodley MS.* y mae y llin-
 ellau hyn yn dilyn llin. 60:—

"Ni byddwn od gwn i gyd
 Wrth hunlledr fal arth hein-
 llyd."

³ "Ni bydd wr anny byddar
 Eryr gwyllt wrth yr ieir
 gwar."—*Bodley MS.*

Ac yn dilyn y rhai hyn ceir:—

"Ni bydd blaidd yfiangaidd iach
 Wrth oen a gwlangroen glin-
 grach

Ni bydd llew wrth lo ewig
 Ni by ddelff cox na bai ddig."

⁴ Nid ydyw llin. 63-68 y *Bodley
 MS.*

⁵ Cadarnheir trwy hyn ein nodiad
 ar llin. 40.

- Nid aud fyth o dy dŷ fam
 Nid a ancor oi dy uncam¹
 Pen annoeth pe awn innau
 72 Ith wlad iangwrcaxiad cau²
 Fey neifio fal anifail
 A wnaud om caud yn y cail³
 Fal y gwnaethost gost gystudd
 76 Ddeifio dy wraig ddafad rudd⁴
 Nid oes ith wraig gynhaig dlawd
 Eithr unbys a thraian bwys⁵
 Ag ewin Werfyl gywir⁶
 80 Ys gwae i xenedl os gwir
 Nid hawdd iddi bobi bwyd
 Felly fal gwrax foel-llwyd⁷
 Gad atdeb oth gyd wttir
 84 Bob eilwers fab yr Hershir⁸

¹ "Nid aud fyth o dŷ dy fam
 Nid a ancor oi dŷ uncam."

Bodley MS.

"Ancor" (o *anchorite*) = meudwy.

² "Pen annoeth pan awn ninav
 Ith wlad iangwr cachiad
 cav."—*Bodley MS.*

Wrth "iangwr" y golygir, nid
gwr ieuanc, ond un *dilywodraeth*.
 (Gwel uchod, tudal. 397, nodyn 1).

³ "Yn neifio fal anifel
 A wnaud om caud im cel."

Bodley MS.

⁴ "Fal y gwnaethost cost cystydd
 Deifio dy wraig dafod rydd."

Bodley MS.

Yn y llinellau hyn a'r rhai dilynol
 ceir awgrymiadau fod Gruffydd
 Gryg wedi ymddwyn yn lled
 greulon tuag at ei wraig, trwy
 geisio ei llosgi a thori ei bysedd,
 fel yr oedd wedi myned yn analluog

i "bobi bwyd." Ond, os oedd yn
 un dafodrydd ymddengys nad oedd
 wedi niweidio ei thafod.

⁵ "Nid oes ith wraig cynhaig
 dlawd

Eithr vn bys a thrayan
 bawd."—*Bodley MS.*

Y mae yn amlwg fod y testyn yn
 anghywir wrth roddi "bwys" yn
 lle "bawd." Un bys a thraian (= un
 rhan o dair) o fawd oedd gan Gwer-
 fyl—ei wraig; yr oedd Gruffydd,
 medd Iolo, wedi tori y lleill ymaith.

⁶ "Ag ewin Weyrfyl gowir
 Ys gwae i chenedl os gwir."

Bodley MS.

⁷ "Nid hawdd iddi bobi bwyd
 Felly fal y wrach foellwyd."

Bodley MS.

⁸ "Gad attad oth gydwtir
 Bob eilwers fab yr hers hir."

Bodley MS.

Twne! ar y tafod tancern
 Tincern gwawd wyneb tancr gwern¹
 Oes ar dy wawd sur dy wên
 88 Oes holi eisiau halen²
 Eisin llwyd iawn is Enlli
 I seilio gerdd salw i gi³
 Yswain morxwain mawr xwaith
 92 Ys faw diawl assa fu dy iaith⁴
 diwedd
 Gwyddelyn oedd Gruffud Grug
 Gwyddelyn marx cregyn cryg
 medd Iolo Marnd. Ithel ddu.⁵

¹ "Twncwl ar y tafod tancern
 Tincer gwawd wyneb tancr
 gwern."—*Bodley MS.*

² "Oes ar dy wawd sur dy wên
 Os holir eisiav halen."
Bodley MS.

³ "Eisinllyd iawn is Enlli
 Ys heli i gerdd salw o gi."
Bodley MS.

⁴ "Os chwain morchwain mowr-
 chwaith
 Ys faw diawl asw fu y daith."
Bodley MS.

⁵ Nid ydyw enw Iolo Goch fel
 awdwr ar y diwedd, ond ysgrifenis
 enwau yr awdwyr ar frig y tudal
 enau yn yr ysgriflyfr hwn. (Gwel
 uchod, tudal. 84).

XLII.

[AWDL DUCHAN I FADAWG AP HOWEL].

(O'r Llyfr Coch o Hergest, col. 1291).

Uwch ben yr awdl ganlynol, nid oes yr un penawd yn y *Llyfr Coch*, heb law "Iollo goch weithyon a gant yr aëdyl honn." Nid ydyw y gân hon wedi ei threfnu yn llinellau rheolaidd yn y *Llyfr Coch*; a cheir amryw ganiadau ereill yn yr un ysgriflyfr heb eu trefnu felly. Ar yr olwg gyntaf ymddangosant fel rhyddiaeth. Ceir hi hefyd yn *Add. MS.*, 15,001, lle y dywedir iddi gael ei chymmeryd o'r *Llyfr Coch*; ond nid ydyw y copiwr wedi bod yn ofalus. Y mae yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 15, dan y penawd "Awdl Duchan," gyda nodyn yn ein hysbysu iddi gael ei chymmeryd "O Ysgriflyfr Dr. Davies o Fallwyd, yr hwn a ddywedai mai Iolo Goch a'i cyfansoddasai." Gwelir iddi gael ei chyfeirio at ryw Fadawg, yr hwn oedd yn fab i ryw Howel; a dyna yr oll a wyddom am dano. Rhydd Owen Jones (*Geir. Cen. Cymru*, cyf. ii., tudal. 229) y cofnodiaid byr a ganlyn:—"MADOG AB HOWEL, bardd a flodeuai o 1370 i 1400." Ni fuasem yn nemawr doethach pe gallasem brofi mai i'r hen fardd hwn y canodd Iolo yr awdl a ganlyn, gan nas gwyddom pwy ydoedd, na lle yr oedd yn byw. Ac nis gwyddom am neb arall yn cyfateb hyd yn oed o ran enw. Pwy bynag oedd y Madawg hwn, yr oedd Iolo yn trethu iaith ar ei heithaf i gael enwau drwg a chymhariaethau gwaradwyddlyd arno. Gwelir fod y bardd yn ymgeisio at fod yn gywrain yn yr awdl, yr hon sydd ar y mesur a elwir y *gyhydedd hir*. Ceir ynddi y *cymmeriad llythyrenol*, gan fod y llinellau yn dechreu gyda'r un lythyren (C=K); a *cymmeriad cynghaneddol*, gan fod y geiriau dechreuol yn proestio, neu yn cydgynganeddu.

Costyaf y vada6c
 kastyn vntroedyawc
 kostawc kyngghaua6c
 huuen am kaff¹
 kystuduab howel
 costyei² y ochel
 costrel ael issel
 nyt eill assaff³
 Custa6s⁴ g6arthe6 cad6
 Ca6styeu⁵ achad6
 k6t r6t⁶ br6t brad6
 breud6rch rybraff
 Kild6rnel g6ann ledyf.
 kel6rn bramsachledyf.
 keil meil mileindedyf.
 nyt kynnedyf kaff⁷
 K6l6m ysg6thyr. t6nffet.⁸
 Callon mahwmet.⁹
 Calet yr byrret
 ny wyr barraff
 Kalgr6n bak6n bockys.¹⁰
 kyflet. flacket flockys.¹¹

¹ O bosibl y byddai yn gyn-northwy i ambell un ddeall y cywydd pe rhoddem ddarlleniad *C. Ll. G.* o'r pennill cyntaf :—

“Costiaf i Fadawg, caeddyn un-troediawg,

Costawg cynhafawg, hufen a'm caff.”

² Fe ddefnyddir y gair “costio” yn brosenol yn yr ystyr o *angen-rheidroydd*. Fe “gyst” iddo wneyd = bydd *raid* iddo wneyd. Ac hwyrach mai yn yr ystyr hwn y defnyddir ef yma.

³ “Nid ail Assaff.”—*C. Ll. G.*

Hyny yw, nid oedd dim yn debyg i Asaph, ail *Magob Llanelwy*,

yn y Madawg hwn, eithr yr oedd yn dra gwahanol iddo ym mhob peth. Gallem dybied oddi wrth y cyfeiriad hwn fod Madawg yn *ŵr eglwysig*.

⁴ Custaws (= cystawd) = ceidwad (*custodian*).

⁵ Cawedyau = *cheese houses*.

⁶ “Uwd.”—*C. Ll. G.*

⁷ “Nid cynneddf Caff.”—*C. Ll. G.* Hyny yw, nid cynneddf *afaelgar*.

⁸ “Twnffet” yw enw yr offeryn a ddefnyddir i arllwys gwlybwr i gostrel.

⁹ “Calon-mahunded.”—*C. Ll. G.* Ai nid Calon Mahomed a feddylir?

¹⁰ “Bacwn bochus.”—*C. Ll. G.*

¹¹ “Fflamed floclys.”—*C. Ll. G.*

kawldr6m hokys lla6n rockys
 crockys crocker 6rth raff
 Kolwyt bugeil pedyr¹
 colereu wystyn glodyr²
 kelwyd vedyr k6ffyll lledyr.
 ll6dyn my6n ysgraff
 Kym6rn burym ysgei.
 kym mein adimeis³
 y gan y ba6ei.
 ny graffei r graff.—⁴

¹ "Colwyd bugail Pedr."*C. Ll. G.*² "Cymein a dimai."—*C. Ll. G.*

"Coleren wystugledr."

*C. Ll. G.*⁴ "Y Gan y bawai, ni graffai'n
 graff."—*C. Ll. G.*

XLIII.

[ENGLYNION DUCHAN].

(O'r Llyfr Coch o Hergest, col. 1292).

Ceir yr englynion canlynol yn y *Llyfr Coch*, ar ol yr awdl flaenorol, heb yr un penawd iddynt heb law "Iollo heuyt" = (Iolo hefyd—h.y., Iolo a ganodd yr hyn a ganlyn hefyd). Y maent hefyd i'w cael ar ol yr awdl, wedi eu copïo, yn anghywir, o'r *Llyfr Coch*, yn *Add. MS.*, 15,001. Ond yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i, tudal. 10, cyssylltir hwynt â'r awdl flaenorol, fel rhan o honi. Credwn fod yn lled anhawdd dyfalu beth oedd testyn y bardd; ond y mae y mynychiad parhaus o'r gair "Safn" yn ein tueddu i feddwl mai yr *enllibiwr*, y *celwyddwr*, neu ryw beth tebyg i hyny, oedd ganddo dan sylw. Hyd y gwelwn, nid oes ynddynt ddigon o sail i ddyfod i'r penderfyniad mai y Madawg y sonir am dano yn yr awdl dan sylw oedd y testyn. Ond y mae yr englynion, fel yr awdl, yn lled anhawdd eu deall, am eu bod yn cynnwys cynnifer o eiriau anarferedig.

Safyn egoret y6 safyn gorwyr ba6ki
 y biki g6thyr kannwyr.
 safyn pibyd swyfen pabwyr.
 safyn llo g6as a yf yn llwyr.
 Safyn llydan ydi6 lletwyr chwidach
 safyn achwyda6d neith6yr
 safyn lla6n ba6 a ch6yt awyr
 safyn kavyn ka6s byd ha6s h6yr.¹

¹ Hwyrach mai y cynllun goreu gyda'r englynion hyn, a'r eglurhad goreu arnynt, fyddai dyfynu y darlleniad a geir yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*; ond fe welir ar unwaith fod y gair *cynlas* o honynt yn anghywir yn y gwaith hwnw:—
 "Cafn agored y safn gorwyr bawci,

I biccyn gwthr kannwyr.
 Safn pibydd swyfen pabwyr,
 Safn llo gwas a ysa'n llwyr.
 Safn llydan ydyw, safn lled
 wyr—chwidawch,
 Safn a chwydawdd neithwyr:
 Safn llawn baw a chwyd awyr,
 Safn cafn caws bydd haws
 hwyr

Safyn dyfyrgi ba6ki bakwyr reidussyon
 man lleithyon min llethwyr
 safyn g6rab sefnic erwyr
 safyn y6 ymsennu awyr

Safyn kicvran druan drawyr y geneu
 safyn ny gana6d sallwyr.
 safyn dr6c mal t6ll m6c magwyr.
 safyn ffals ny seif o vy6n ffwyr

Safnoc digorffoc daeoc oerff6yr lleibyr
 kyhoeddg6ybyr ki hydg6yr
 sennu pa6b y6 y synnwyr.
 safyn gellast var6. safyn gar6 g6yr.

Safn dyfrgi bawci bawwyr
 rheidusion

Man lleithion, min llethwyr :

Safn gwrab, sefnig erwyr :

Safn yn ymsennu a wyr,

Safn cigfran, druan drawyr—
 y genau,

Safn ni chanawdd Sallwyr.

Safn drwg mal twll mwg
 magwyr,

Safn ffals ni saif o fewn ffwyr :

Safnog di gorphog daeoc oer-
 ffwyr, lleipr

Cyhoeddgeipr ci hydd-gwyr

Sennu pawb yw ei synwyr,

Safn goll-ast farw, safn garw
 gwyr."

XLIV.

ENGLYNION I ITHEL AP DAVYDD, O GAER SALLWCH
YN LLAN EINION, AM DYNGU ANUDON, A
BAW A DDYWEDAI AR BOB GAIR.

(*O Greal Llundain, tudal. 320*).

Nis gwyddom pwy oedd yr Ithel hwn, heb law yr hyn a ddywedir uchod. Saif plwyf Llan Einion—yr hwn a elwir yn gyffredin yn Llanengan—yn nosbarth Pwllheli, ar derfyn de-ddwyreiniol Lleyn, yn Sir Gaernarfon. Cyflwynir yr Eglwys i St. Einion Frenin.

Ithel val gevel â gair i dyngu
Hyd anghall vuchedd-grair
Ac nid oes egin dwysair,
Ithel waeth ei lw no'i air.

Ai aradr gadr, a'i bar ogau llymion
Yn llamu dros gwysau,
A'r llaw gam agor llw gau
Y tyr vin y tervynau

Baw'n vyw, baw'n varw, baw'n overedd i'th law
Lle'th welant yn gorwedd,
Baw ynhob man trwy'd ddannedd,
A baw wedi'r elych i'r bedd.

Iolo Goch.

CANIADAU SERCH, &C.

XLV.

CYWYDD Y FARF.

(*O Llyr Huw Lleyn—Add. MS., 14,967, fol. 66*).

Y mae y cywydd hwn i'w gael hefyd yn *Add. MS.*, 14,964, a *Jesus MS.*, E. 139, p. 1.

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys y testyn yn un lled anghymmwys i ddenu awen bardd; ond cafodd Iolo ddigon o ddefnyddiau ynddo i ganu dau, os nad tri, o gywyddau. Ac y mae yn dra deheuig yn ei ymdriniaeth. Ni cheir yr elfen ddigrifol a chwaraeus yn fwy amlwg yn yr un o'i gyfansoddiadau nag yn y rhai hyn; ac y mae ei arabedd a'i ffraethineb yn ganfyddadwy bron ym mhob llinell. Bron na thybiem ar y cyntaf i Goronwy Owen weled y cywyddau hyn cyn iddo gyfansoddi yr eiddo ef ar yr un testyn. Pa fodd bynag, y mae yn dwyn llawer o debygolrwydd iddynt. Ond pell ydym oddi wrth gyhuddo Goronwy o lenladrad. Gan y sonir cryn lawer am *garu* yn y cywydd hwn, yn gystal a'r cywyddau ereill dan yr un penawd, gellir eu hystyried fel "Canïadau serch."

Y mae y ffasiwn gyda golwg ar wisgo barfau wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau. Yn y ddeuddegfed ganrif, eillid y cyfan oddigerth ar y wefus uchaf; a thorid y gwallt yn fyr, rhag iddo fod yn rhwystr i'r Cymry, druain, deithio trwy y coedwigoedd tewfrig a orchuddient y wlad (*Warrington's Hist. Wales*, edit. 1823, vol. i., p. 165). Gorchymynodd William y Goresgynwr y Seison, y rhai a adawent farf ar y wefus uchaf, fel y gwnai y Cymry i eillio y cyfan; ond yr oedd hyn mor wrthwynebol ganddynt fel yr oedd yn

well gan lawer o honynt adael y wlad nag ufuddhau. Ond erbyn amser Edward III. yr ydym yn gweled fod y gwallt yn cael ei wisgo yn llaes, a'r farf yn gorchuddio y wyneb; ac wrth sylwi ar gerfluniau, a'r lluniau mewn ysgrifyfrau, perthynol i'w deyrnasiad, gwelir eu bod yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth y rhai a wnaed yn amser teyrnasiad ei dad—Edward II. Pa fodd bynag, dengys cywyddau Iolo Goch fod eillio yn arferedig mewn rhan yn ei amser ef; ond, ar yr un pryd, yr oedd gwisgo barfau yn beth eithaf cyffredin. Parhawyd i wisgo barfau hyd amser Charles I., pryd yr aethant allan o arferiad drachefn. Ar ol adferiad Charles II., eillid yr oll ond y bochgernau a'r wefus uchaf; a newidiwyd drachefn, mewn ychydig amser, i eillio yr oll o'r gwyneb. Yn y *Penny Cyclopædia*, vol. iv., p. 97, o'r hwn y cawsom y rhan fwyaf o'r manylion uchod, dyfynir y llinellau a ganlyn o *Whip of Pride*, gan John Taylor, lle y dysgrifir y gwahanol ddulliau o wisgo y farf yn ei amser ef (1580-1654):—

Now a few lines to paper I will put,
Of men's beards' strange and variable cut;
In which there's some do take as vain a pride
As almost in all other things beside.
Some are reap'd most substantial like a brush,
Which makes a nat'ral wit known by the bush;
(And in my time of some men I have heard,
Whose wisdom have been only wealth and beard.)
Many of these the proverb well doth fit,
Which says, 'Bush natural, more hair than wit.'
Some seem as they were starched stiff and fine,
Like to the bristles of some angry swine;
And some (to set their love's desire on edge)
And cut and pruned like to a quickset hedge.
Some like a spade, some like a fork, some square,
Some round, some mow'd like stubble, some stark bare
Some sharp, stiletto-fashion, dagger-like,
That may with whisp'ring, a man's eyes outpike;

Some with the hammer-cut, or Roman T,
 Their beards extravagant reform'd must be ;
 Some with the quadrate, some triangle fashion.
 Some circular, some oval in translation ;
 Some perpendicular in longitude,
 Some like a thicket for their crassitude.
 That heights, depths, breadths, triforme, square, oval, round,
 And rules geometrical in beards are found.

The barbers thus (like tailors) still must be
 Acquainted with each cut's variety.

A gallem gasglu oddi wrth gywyddau Iolo Goch nad
 oedd unrhyw drefn sefydlog gyda golwg ar eillio barfau yn ei
 amser ef. Yn wir, nid annyddorol ydyw cymharu y lluniau
 a dynwyd yn y ganrif bresennol er canfod y cyfnewidiadau
 sydd wedi cymmeryd lle gyda golwg ar wisgo y farf a'r
 gwallt.

Ai dydy¹ varf a darvodd²
 Y³ verch am kussannam⁴ o vodd
 Rydew y⁵ van ith blanwyd
 4 Knwd mawr ar y knawd ym wyd⁶
 7 Wyddelic⁸ arw ddolem⁹ *dyrys
 Wrth edrych im drych am dreim

¹ " Dydi "—*Add. MS.*, 14,964 ;
 " dy di."—*Jes. MS.*

² " Darfodd " = brawychu—braw-
 ychu y ferch a feddylir ; felly y
 mae " daufodd," yn *Add. MS.*,
 14,964, yn anghywir.

³ " I."—*Jes. MS.*

⁴ " Cysanai "—*Add. MS.*, 14,964 ;
 " kyssanai "—*Jes. MS.*

⁵ " Yn "—*Add. MS.*, 14,964 ;
 " ywr "—*Jes. MS.*

⁶ " Cnwd mawr ar y cnawd im
 wyd."—*Add. MS.*, 14,964.

" Knwd mawr ar i knawd ym
 wyd."—*Jes. MS.*

⁷ Nid ydyw llin. 5 a 6 yn y llyfrau
 ereill.

⁸ Tebyg nad ydyw y gair
 " dyrys " ar ymyl y ddalen mewn
 un modd yn eglurhad ammhriodol.
 Y mae y Dr. W. O. Pughe, dan y
 gair " Gwyzelawg," yn rhoddi
 " Abounding with bushes, or
 brakes. *Tir gwyzelawg*, land over-
 run with brambles. *Sik*."

⁹ " Dolem " = dolef (?)—y bardd
 yn gwaeddi mewn dychrynodod
 wrth weled ei wyneb yn y drych.

- Aeth vyingwep am wynebpryd¹
 8 Gol gen² yn geden i gyd³
 Er llwyre⁴ darffo y llorri⁵
 Ar modd yr eillier i mi
 Nid llyfnach⁶ ddianach⁷ ddyse⁸
 12 No chroen gwrwbenn garwbysc⁹
 Nidoes¹⁰ gan wen im genau
 Fawr vodd am y varf vau¹¹
 Garw gan dec i goroen¹²
 16 Val llyisiau kribau r kroen¹³
 Garw irioed oedd gwr yr rudd¹⁴
 Gwrych boeni garwach bevnydd¹⁵
 Budd i wraidd o bydd i wrach
 20 Mintai o ardiav mantach¹⁶

- ¹ "Aeth fy ngwep am wynebpryd."—*Add. MS.*, 14,964.
² "Aeth fyn ghwep am wynebprud."—*Jes. MS.*
³ "Golgen."—*Add. MS.*, 14,964.
⁴ "Gud."—*Jes. MS.*
⁵ "Llwyred darfu."—*Add. MS.*, 14,964.
⁶ "Llori."—*Add. MS.*, 14,964.
⁷ "Llifnach."—*Jes. MS.*
⁸ "Ddiafiach."—*Add. MS.*, 14,964;
⁹ "ddiafiach"—*Jes. MS.*
¹⁰ "Ddysg"—*Add. MS.*, 14,964;
¹¹ "ddusg"—*Jes. MS.*
¹² "Na xroen y gwrboen garwbysg."—*Add. MS.*, 14,964.
¹³ "Na chroen i gwrwbenn garwbysg."—*Jes. MS.*
¹⁴ "Nid oes"—*Add. MS.*, 14,964;
¹⁵ "Ni does"—*Jes. MS.*
¹⁶ "Fawr fodd am y farf vau."—*Add. MS.*, 14,964.
¹⁷ "Fawr o fodd ond i farf vau."—*Jes. MS.*
¹⁸ "Garw gan du i gorhoen."—*Add. MS.*, 14,964.
¹⁹ "Garw am deg goroen."—*Jes. MS.*
²⁰ "Fal llysie cribe y croen."—*Add. MS.*, 14,964.
²¹ "Fal llyssie kribie i kroen."—*Jes. MS.*
²² "Llyisiau'r cribau" = *Teazel (Dipsacus)*. Gelwir hwynt gan rai yn "Llyisiau'r pannwr" (*fuller's thistle*). Ymddengys fod Iolo yn chwaredu ar enw y llysieuyn hwn, trwy ddefnyddio rhan o'r enw fel berf weithredol.
²³ "Garw irioed gwyr i ddeurudd."—*Add. MS.*, 14,964.
²⁴ "Garw oedd oer gwr i ddeurudd."—*Jes. MS.*
²⁵ "Gwryx o groen goriwx y gruidd."—*Add. MS.*, 14,964.
²⁶ "A gwrych boen gorywch i budd."—*Jes. MS.*
²⁷ Yn *Add. MS.*, 14,964, a *Jes. MS.*, y mae y ban wedi ei gyfleu yn wahanol, trwy osod llin. 20 yn gyntaf.



- Mae ar vy¹ llechwedd meddan
Ddeunydd mil o ddanedd² man
Pais draenioc oedioc ydyw³
24 Pwnn ar en val y penwar yw⁴
Blin a kol blaenau kelyn
Symlau dur yn symlu dyn⁵
Blew henwch o ble hanwyd⁶
28 Knwd o egin eithin wyd⁷
Llym a glew yw⁸ pob blewyn
Gruc del yn gorugaw dyn⁹
Megis *morarw*¹⁰ i magan¹¹ q. an morgrug
32 Esgyll¹² mil o ysgall¹³ mân
Y rwyd val sofi arew¹⁴
Heb haen yn sythvlaen saethvlew¹⁵

"Mintau o ardïe mantax
Baix o wraidd o bydd i wrax."
Add. MS., 14,964.

"Mintau o ardïe mantach
budd i wraidd oi bodd i wrach."
Jes. MS.

¹ "Fy."—*Add. MS.*, 14,964.

² "Ddannedd."—*Add. MS.*,
14,964.

³ "Pais draynog oediog idyw."
Jes. MS.

⁴ "Pwn ar en fal penor yw."
Add. MS., 14,964.

"Penwar," neu "penor," = safn-
rwym (= *muzzle*); ond "penwn"
(= baner, llyman) a geir yn *Jes. MS.*;
ac ni fuasai yr un o honynt yn
gysurus ar ên.

⁵ "Blin yw'r coel blaenau celyn
Simlau dur yn symlu dyn."
Add. MS., 14,964.

"Blin a koel blaen or kelun
Symylau dur yn siwmlïo
dun."—*Jes. MS.*

⁶ "Blew'r hên wx o ble rhan-
nodd."—*Add. MS.*, 14,964.

"Blew r hên wch o bler han-
wyd."—*Jes. MS.*

⁷ "Oedd."—*Add. MS.*, 14,964.

⁸ "Iw."—*Add. MS.*, 14,964.

⁹ "Gwyr dol yn gorugaw dyn."
Add. MS., 14,964.

¹⁰ "Morr arw"—*Add. MS.*,
14,964; "mor arw"—*Jes. MS.*

¹¹ "I magan" = y tyfant.
"Esgill."—*Add. MS.*, 14,964.

¹² "Esgëill."—*Jes. MS.*

¹⁴ Nid ydyw darllenïad y testyn
mwy na'r rhai a ganlyn yn ein
galluogi i ganfod meddwl y
bardd :—

"Yrwyd fal sel rywel rew."
Add. MS., 14,964.

"Y rwyd yn wrol ar rew."
Jes. MS.

¹⁵ "Heb haen yn sythflaen saith-
flew."—*Add. MS.*, 14,964.

"Heb haen sythflaen saeth-
flew."—*Jes. MS.*

36 Dos¹ ymaith rrag dwys amarch
 Do gen val bon myngen march²
 a gwnai vyngen yn henaidd³
 A dwr gwres i daw o'r gwraidd.⁴

Iolo Goch ai kant.

¹ "Does."—*Jes. MS.*

² "A gwna fungen yn henaidd."

Add. MS., 14,964.

² "Do gen fal mun gen y marx."
Add. MS., 14,964.

"O gwna fyng en fi/n/ henaidd."—*Jes. MS.*

"Dogen fal meingefen march."
Jes. MS.

⁴ "A dwr gwres i daw or gwraidd."
Add. MS., 14,964, a Jes. MS.



XLVI.

* I R V A R V .

(*O Lyvr Huw Lleyn—Add. MS., 14,967, fol. 70b*).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,873; 14,876; 14,906; 14,940, fol. 56, a fol. 108; 14,964; a 14,978; ac yn *Glanvraſon MS., K.*, fol. 62, yn yr oll o barai y priodolir ei awduriaeth i Iolo Goch. Ond y mae yn argraffedig yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 124, ac yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 140, gydag enw Rhys Goch Eryri wrtho. Nid ydym yn cael dim yn y cywydd ei hun yn peri i ni ammeu mai Iolo Goch oedd ei awdwr; ac y mae y ffaith fod cynnifer o ysgriflyfrau yn rhoddi ei enw wrtho, ac fod yr un a fabwysiadwn fel testyn yn gwneyd hyny—yn enwedig pan gofiwn ei fod wedi ei ysgrifenu mor gynnar a 1488—yn brawf lled gryf mai Iolo oedd ei awdwr. Gwelwn hefyd ran o hwn yn Cywydd Rhif LI.

Yn y cywydd blaenorol a'r un dilynol, ceir cyfeiriadau ag ydynt yn awgrymu fod ei farf yn *goch*, er y sonir un waith am gynhauaf *du*, ond yn y cywydd hwn sylwa yn barhaus mai *llwyd* ydoedd. Ac y mae hyn, os oes coel i'w roddi arno o gwbl, yn awgrymu fod y bardd yn heneiddio pan gyfansoddwyd ef; eto, er hyny, y mae yn amlwg nad oedd ei edmygedd o ferched wedi darfod; ac fod ei ffraethineb chwareus yn parhau yn gryf. Y mae y bardd hyd llin. 44, yn rhoddi trinfâ anferth i'r farf, ac yn dannod iddi ei llwydni. Ond yn llin. 45, ac o hyny hyd llin. 52, y mae y farf yn amddiffyn ei llwydni trwy dwyllresymu yn lled gywrain, gan ddefnyddio y gair "llwyd," nid yn unig fel lliw, ond yn y gwahanol ystyron a roddid iddo unwaith, megys *bendigaid*, *gwrol*, *parchus*, &c. Yna, o llin. 53 i'r diwedd, y mae y bardd yn peri i'r farf dewi â'i thwyll-

FEL

resymeg, ac yn ei galw ar enwau sarhäus. Credwn yn sicr fod y cywydd hwn yn gyfansoddiad lled wych, er nad yn fwy felly, fe ddichon, na'r cywyddau ereill o'i waith ar yr un testyn.

- Ro Duw varv rydew vorresc¹
 Raid² vydd nid eilliedydd llesc
 Gael bob eil dydd ddedwydd ddyn
 4 Ith eilliaw ac wyth³ ellyn
 hagr wyd⁴ varf vin llwyd vau
 Ac anardd⁵ ynghylch genau
 Mor vrwyn sofi mae gofi gyflwyd⁶
 8 Mal i sob hen esgob wyd⁷
 Gwaer enn llyma r gwirionedd
 oth adu ewyngub wedd⁸

¹ Y mae y darlleniadau o'r llinell hon yn amrywio yn fawr :—

" Rho Duw Farf rhydew foresc."
Add. MS., 14,873.

" Ro duw farf rry dew foresc."
Glan. MS.

" Rho Duw farf rhydew forhesg."
G. B. C.

" Rho Duw farf rhydew fortresg."
C. Ll. G.

Ymddengys i ni mai darlleniad *G. B. C.* ydyw y goreu, ac mai "forhesg" ydyw y gair olaf. Y mae y golygydd yn sylwi mai math o lw ydyw " Rho Duw" = Rhyngof â Duw; felly nid erfyn ar Dduw am farf gyffelyb i "for-hesg" y mae y bardd. Moresc = merydd (= *sea-sedge*)?

² " Rhaid"—*Add. MS.*, 14,873;
 "rraid"—*Glan. MS.*

³ " Agwyth"—*Add. MS.*, 14,873;
 " ag wyth"—*Glan. MS.*

⁴ " Hagrwyd"—*Add. MS.*, 14,873;
 " hagar wyd"—*Glan. MS.*

⁵ " Anhardd"—*G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

⁶ " Morfrwyn sofi neu gofi gyflwyd."

Add. MS., 14,873.

" Morfrwyn sofi mau gofi gyflwyd."—*Glan. MS.*

" Morwyn sofi main gofi gyflwyd."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

Gwell genym ddarlleniad y testyn. Dyweyd y mae y bardd fod eigof (= *bosom*) yn orchuddiedig gan flew cyffelyb i "for-frwyn." Ac os ydyw y cywydd yn ddysgrifiad o hono ef ei hun—*a pha ham nad ydyw?*—yr oedd yn *wr* blewog anghyffredin.

⁷ " Mal cób i hen Esgob wyd."

Add. MS., 14,873.

" Mal kob i hen escob wyd."
Glan. MS.

⁸ " Gwaer En myn y gwirionedd Ath atto ewigno wedd."

Add. MS., 14,873.

" Gwaer enn myny gwirionedd ath ato ewin gno wedd."

Glan. MS.

- 12 Gwaeach oth dynn derwyn dic
llaw drom nid llai i dremig¹
Truth wyll² onid tra itheillwyf
Tybygach i vwbach wyf³
Minau or gloes angau sydd
16 Nawaith bob mis o newydd⁴
Ar wydd yw ar y ddwenn
Wrth dy dynu heidd gnu henn⁵
“Oni bai vaint kyleh daint dioer⁷
20 y llwyddaist varf an lladoer
Anardd i guddio wyneb
A gen iach dioer gan neb⁸
Gweled rwng merch ar erchwyn
24 Blew blaidd ar ddiwladaidd ddyn⁹

¹ “Gwae ath dynn derwyn dig
A llai drom nid llai dremig.”
Add. MS., 14,873.

“Gwae ath dyn derfyn dig
a llaw drom nid llai dremig.”
Glan. MS.

“A gwae a’th dyn, denyn dig,
A llaw drom, nid llai’i
dremyg!”—*G. B. C.*

Ynddengys “denyn” yn fwy
dealladwy i ni na “derwyn” a
“derfyn.”

² “Tuth well.”—*Glan. MS.*

³ Nid ydyw llin. 13 a 14 yn
Add. MS., 14,873, *G. B. C.*, a
C. Ll. G., ond y maent wedi eu
gosod i fewn, yn lled anarllenadwy,
gan law ddiweddarach yn *Glan.*
MS.

⁴ Y mae y darlleniadau a ganlyn
yn fwy dealladwy:—

“Minneu mewn gloes angydd
sydd
Naw waith bob Mis o Newydd.”
Add. MS., 14,873.

“Mine meawn gloes ange sydd
nawaith bob mis o newydd.”
Glan. MS.

Sylwa golygydd yr ail argraffiad
o *Gorchestion Beirdd Cymru*, yn
lled briodol, ar y llinellau hyn, fod
y bardd “yn eillio ddwywaith yn
yr wythnos;” a gallasai ych-
wanegu yr ymddengys oddi wrth y
cywydd nad oedd eillio mewn un
modd yn orchwyl dymunol ganddo.
Pa fath ellynau oedd ganddynt yr
adeg hono, wys?

⁵ “Arwydd yw *ar y ddwyen
Wrth dy dynnu heiddgnu
hen.”—*Add. MS.*, 14,873.

Ar ymyl y ddalen ceir “*Ar-
wydd Duw.”

⁶ Nid ydyw llin. 19-20 yn *Add.*
MS., 14,873, *G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

⁷ “Dioer” = diddadi?

⁸ “Anardd i guddio wyneb
A gen iach dioer yw gan
neb.”—*Add. MS.*, 14,873.

“Anardd i giddio wyneb
a gen iach dioer yw gan
neb.”—*Glan. MS.*

⁹ “Gweled rhwng Merch ar
Erchwyn
Blew Blaidd ar ddiawlaid
ddyn.”—*Add. MS.*, 14,873.

- Blodau perth mor anverth wyd
 Beichlwyth ar en gwr bochlwyd¹
 Gwnn mae dy chwaer gaer gerydd
 28 Ar wyneb sioseb y sydd²
³Knwd trathew o iyrchvlew iyrch
 Keden hagr koed an hygyrch
 Seimyl ar ddwen y wenydd
 32 Dy weled gan verched vydd⁴
 Ni wna hyder oth weryd⁵
 Yngudd mor brudd yw dy bryd

"Gweled rrwng merch ag
 erchwyn
 blew blaidd ar ddiwladaidd
 ddyn."—*Glan. MS.*

Y mae y ban hwn yn fwy aw-
 grymiadol nag yw o lednais; pa
 un bynag a'i "ddiwladaidd" (= *digartref?*) ai "ddiawlaid" a
 feddylir.

¹ "Bod eurberth mor Anferth
 wyd
 Beichlwyth ar En wr Boch-
 lwyd."

*Add. MS., 14,873, a Glan.
 MS.*

"Bod eurberth mor anferth
 wyd
 Beichlwyth ar en gwr boch-
 lwyd."

G. B. C., a C. Ll. G.

² "Gwn mae dy chwaer gaer
 gerydd

Ar wyneb Sioseb y sydd."

*Add. MS., 14,873, G. B. C.,
 a C. Ll. G.*

"Gwn mae dy chwaer ger
 gerydd

Ar wyneb Sioseb y sydd."

Glan. MS.

Sioseb = Joseph.

³ Nid ydyw llin. 29-30 yn *Add.
 MS., 14,873, G. B. C., a C. Ll. G.* ;
 ond y maent wedi eu rhoddi i mewn
 gan law ddiweddarach yn *Glan.
 MS.*

⁴ "Syml ar ddwyen Awenydd
 Dy weled gan ferched a
 fydd."—*Add. MS., 14,873.*

"Symyl ar ddwen ywenydd
 dy weled gan ferched fydd."
Glan. MS.

Nid ydyw y llinellau hyn yn
G. B. C., a C. Ll. G. Dilynnir
 hwynt yn rhai llyfrau gan y llin-
 ellau a ganlyn :—

"Syml wyd y Farf finllwyd
 faith

Symmud liw neu ddos ymaith."

Add. MS., 14,873.

"Symyl wyd y farf finllwyd
 fraith

Symud liw ne ddos ymaith."

Glan. MS.

⁵ "Angen hyder ni weryd."

Add. MS., 14,873.

"Angen hyder nith weryd."

Add. MS., 14,964.

"Amgen hydyr nith weryd."

Glan. MS.

- 36 ¹Myn bedd duw ni bydd diwarth
I vardd henn bod gen o garth²
Ac nid esmwyth garw lwyth³ gwr
Trowswch⁴ llwyd i wtreswr⁵
⁶Ile gresyn lliw goreuserch
40 Wedi gwin roddi min merch
Nid hardd ef a waharddwyd
Gusan ar varf lydan lwyd
Gormod yw dy anod yn
44 Am lwydo rrai anyl ydyn
llwyd vu sanct geraint gu
lliw disiml llwyd yw Iessu⁷
⁸llwyd yw rrolant llid rylew
48 llwyd vydd yr eryr ar llew⁹

¹ Yn blaenori llin. 35 yn *Add. MS.*, 14,873, ac yn gyffelyb yn rhai llyfrau ereill, ceir :—

“Nid hardd y fo ath waharddwyd

Cusan ar farf lydan lwyd.”

² “(Myn bodd Duw) ni bydd diwarth

Ar ŵr hen bod gen o Garth.”

Add. MS., 14,873.

³ “Garllwyth” — *Add. MS.*, 14,873, *Glan. MS.*, *G. B. C.*, a *C. Ll. G.*; ond y darlleniad yn *Add. MS.*, 14,964 yw, “Ac nid esmwythgar llwyth gwr,” yr hyn a ymddengys yn well.

⁴ “Trwschw”—*Glan. MS.*; “trawswch”—*G. B. C.* Trawswch = *mous-tache*.

⁵ “Wtreswr” = gloddestwr. Nid esmwyth, neu gyfleus, i un hoff o'r gyfeddach yw “trawswch.”

⁶ Nid ydyw llin. 39-42 yn *Add. MS.*, 14,873, ond ceir y rhai canlynol yn eu lle :—

“Gwiw angerdd gwenithgerdd gwawd

Gwardd i dewfardd i Dafawd

Blin yw'r son am gofion gynt
Am lwydo rhai aml ydynt.”

A cheir darlleniadau cyffelyb yn *Glan. MS.*, *G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

⁷ “Llwydion fu'r Saint geraint gu

Disyml a llwyd fu Iesu,”

yn y llyfrau ereill. Wrth “sanct geraint,” ond odid, y golygir Geraint ab Erbin.

Defnyddir “llwyd” yma yn gyfystyr â *bendiguid*, neu *addoladwy*—*Druw lwyd*. Y mae y bardd o hyn hyd llin. 52 yn gwneuthur i'r Farf ei hun lefaru, ac amddiffyna ei llwydni trwy dwyllroesymeg.

⁸ Yn y llyfrau ereill rhoddir llin. 49-50 o flaen llin. 47-48.

⁹ “Llwyd fu Rolant llid rylew
Llwyd fydd yr Eryr ar llew.”

Add. MS., 14,873.

“Llwyd fy roland ryd rylew
Llwyd fydd yr eryr ar llew.”

Glan. MS.

“Llwyd yw Rolant, llid rhylew
Llwydfyth yw'reryr a'r llew.”

G. B. C., a *C. Ll. G.*

- llwyd vydd awyr a¹ dwyrain
 llwyd vydd dechre lleuad vain²
³Am hyn ef a gymhenwyd
 52 Nad gwiw neuthur lliw eithr llwyd⁴
 Taw di varf tew doveredd
 Twyll iawn waith tylluan wedd⁵
⁶os velly⁷ y byddy byth
 56 Dros vy wyneb⁸ yn drasyth
 Ni chair myn mair ar vymin
 lle noeth mwy no llwyn eithin⁹

Iolo Goch ai kant.

Yr un oedd Rolant, nai Siarly-
 maen, ac Orlando y chwedlau. Nis
 gwyddom pa ham y cymhwysir
 "llwyd" ato ef, yn gystal a'r eryr
 a'r llew, os nad ydyw y bardd yn
 rhoddi yr ystyr o *fawrfrydig*, neu
gurol, i'r gair.

¹ Y mae yn amlwg fod "a" yn
 anghywir yma; "y" a ddylai fod,
 fel yn y llyfrau ereill.

² Y darlenniad yn ol *Add. MS.*,
 14,873, ydyw:—

"Llwyd fydd dechrau lleuad fain
 Llwyd fydd awyr y Dwyrain."

³ Yn blaenori llin. 51 yn y
 llyfrau ereill ceir y darlenniadau a
 ganlyn:—

"Llwyd a fu Farf Siohasym
 Llwyd fydd y Grai newydd
 grym."—*Add. MS.*, 14,873.

"Llwyd a fu farf sihoetsym
 llwyd fydd y grau newydd
 grum."—*Glan. MS.*

"Llwyd oedd las Siohasym
 Llwyd fydd y gra newydd
 grym."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

"Gra newydd — y mânlew ar
 frethyn newydd. 'Ei wely oedd
 wiiw i'r Emerhawdr Arthur gysgu
 ynddo, o ysgarlod, a gra, a phali,
 a sindal, a bliant. — *Mabinogi*.'"

(*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 125).

⁴ "Ag am hyn ar gymhenhwyd
 Nid gwiw gwneuthur lliw
 ond llwyd."

Add. MS., 14,873.

Yn y fan hon y terfyna am-
 ddiffyniad y Farf iddi ei hun, yr
 hyn a atebir yn y llinellau dilynol.

⁵ Llawn gwell genymddarlenniad y
 testyn na'r darlenniadau canlynol:—

"Taw di Farf tewdo fawredd
 Towyll iawn waith Tyllgon
 wedd."—*Add. MS.*, 14,873.

"Taw di farf tew do fowredd
 towyll iawn waith tylluan
 wedd."—*Glan. MS.*

"Taw di farf tewdo fawredd,
 Tywyll iawn waith, tylluan
 wedd."

G. B. C., a *C. Ll. G.*

⁶ Yn blaenori llin. 55 yn y llyfrau
 ereill ceir:—

"Ymgudd nid adnebydd neb
 lladrones llwydrew wyneb."

⁷ "Ag os felly."—*Add. MS.*,
 14,873.

⁸ "Ar draws wyneb."—*Add.*
MS., 14,873.

⁹ "Ni chair myn Mair ar fy Mfn
 Lle noeth mwy no'r llwyn
 eithin."

Add. MS., 14,873.

XLVII.

C O : M E R C H .

(O Jesus MS., C. 101, p. 349).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MSS.*, 14,873; 14,964; a 14,969; yn *Hengwrt MS.* (Peniarth), 447, No. 21; ac yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 5, dan y penawd "Cywydd i Farf y Bardd, a'i Rhwystrodd i Gusanu ei Gariad." Ac y mae y penawd yn ddarnodiad lled gyflawn o gynnwys y cywydd, yr hwn sydd wedi ei gyfeirio at ferch o'r enw Euron. Ond nis gwyddom pa un ai gwir enw y ferch oedd hwn, ai ynte ei fenthycyca a wnaeth Iolo, fel y gwnaeth Dafydd ab Gwilym, oddi ar ferch brydweddol o'r enw a flodeuai yn y chweched ganrif, yr hon a alwai Myrddin yn "Galon Galed." (Gwel *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, tudal. 536). Pa un bynag, dengys Iolo yn y cyfansoddiad hwn ei fod yn fardd gwydych, ac fod yn ei natur gryn lawer o'r elfen chwaraeus. Yr ydym yn cymmeryd yn ganiatäol, oddi wrth natur y testyn, a'r hoenusrwydd sydd yn rhedeg trwyddo, iddo gael ei gyfansoddi mewn adeg gynnau ar fywyd y bardd. Eto, ar yr un pryd, gwelwn ei fod yn galw ei hun yn "gleiriach" (=hen wr methiantus) yn llin. 33.

Doe /r/ pryd hwnn ir oeddwn i
drwy fedw yn yndrafodi
ag Euron hardd goror hoew¹
4 gorwyr Eigr² gair oreügroyw

¹ "Goron hoyw"—*Add. MS.*, 14,964; "goroenn hoyw"—*Hengwrt MS.*

² Eigr oedd gariadferch Uthr

Bendragon, a mam Arthur, yr hon oedd nodedig am ei glendid. (*Barddoniaeth D. ab Gwilym*, tudal.

535).

- gavael daer am y goff¹ dêg
 a gevais gwnn i gefeg²
 gavael arddwrn a gevais
 8 gaifn hael³ am gefn i hais
 gavael chwith a wnaeth hithau
 agwedd mwyn am y gwddw mau⁴
 ymwasgu fal cwlm ysgwthr
 12 am aur coeth⁵ ymwyrio⁶ cwthr
 ymgyssanu i byam⁷
 ni by hir hynny bahain
 diystyr oedd distryw⁸ oer
 16 gan fûn oleulûn⁹ liwloer
 ymnysg y coed am was cû¹⁰
 ain esgyrn¹¹ cul ymwasgû
 goglais ganti¹² pan giglaû
 20 trawswch¹³ a blew morwch inaû

¹ "Goff" = coflaid.

² "Ei gofeg."—*Add. MS.*, 14,964.
 "Gofeg" = meddwl.

³ "Gefn hoyw."—*Add. MS.*, 14,964.

Gefyn = llyffethair; "gaifn" yn lluosog, ac yn awgrymu yr ymgoffeidiad mwyaf gwresog ac anwyl.

⁴ "Agwaedd mwyn am y gwddf mau."—*Hengwrt MS.*

I'r Canon Silvan Evans yr ydym yn ddyledus am y llinellau o'r cywydd hwn a geir yn yr *Hengwrt MS.*

⁵ "Coch."—*C. Ll. G.*

⁶ Ai "ymwyrio" (= *to strive mutually*) a feddylir?

⁷ "buam" = y buom?—"y bu am" yn *C. Ll. G.*

⁸ "Dystryw"—*Add. MS.*, 14,964; "dystyru fil dystryw foer."—*C. Ll. G.*

⁹ Gwell nag "oleulyn."—*Add. MS.*, 14,964.

¹⁰ "Ym ystryw rhoed am wasg cu."—*C. Ll. G.*

¹¹ "Hesgyrn."—*Add. MS.*, 14,964.

¹² "Ganthi"—*Add. MS.*, 14,964; "gentti"—*C. Ll. G.*

¹³ Fel hyn y darllena y llinell yn *Add. MS.*, 14,964:—

"Drawsdwf y blew m^awr fw^a mau."

Y mae Goronwy Owen yn cunmol y "trawswch" ("Cywydd y Farf"):—

"Medrusaidd im' ei drawswch,

A gwynfyd yw byd y bwch."

Gwelir felly fod "trawswch" (*moustaches*) yn cael eu gwisgo yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn gystal ag yn y ddeunawfed. Ond fe'n hysbysir mai lled eithriadol oedd eu gweled ar wefus y Cymro yn y rhan gyntaf o'r ganrif bresennol.

- ar farf gnaifedig ddig ddysg¹
 crin gorbedw fal croen garwbysg²
 rhisglen o geubren gobraff³
 24 yn rhisglo /r/ grudd fal rhasgl graff⁴
 wtt! heb y gwenn ateb gwych
 paid ti poed oer i peidych⁵
 nessa⁶ hwnt flew danas hen
 28 somgar wyt a oes amgen⁷
 cael serthedd cilais⁸ wrthi
 ni chwery fawr ni char fi⁹
 diriaid¹⁰ iawn yw'r¹¹ drûdaniaeth
 32 ba¹² ddiawl anneddfawl a wnaeth

¹ "Fy marf gneifedig ddig-ddysg."—*C. Ll. G.*

² Tybiwn fod y testyn, gyda'r hwn y cytuna yr *Hengwrt MS.*, yn well yma na'r darlleniadau a ganlyn :—

"Crin gor oediw fal croen garw bysg."—*Add. MS.*, 14,964.

"Grin gerbyd fal croen garw bysg."—*C. Ll. G.*

³ "Rhisglyn hen geubren gobraff."—*C. Ll. G.*

⁴ "Yn rhasglu grudd mal rhasgl graff."—*Add. MS.*, 14,964.

"Yn rhisglo grudd mal rhagl graff."—*Hengwrt MS.*

"Yn rhisglo'u grudd fel rhasgl graff."—*C. Ll. G.*

"Rhasgyl" = a *slicer*, a draw-knife.—*Dr. W. O. Pughe.*

⁵ "Wtt! eb y gwen ateb gwych Paid ŵr poed oer y peidyx."—*Add. MS.*, 14,964.

"Howld! eb Gwen, nid ateb gwych,

'Paid ti, poed oer y peit-tych.'"—*C. Ll. G.*

Tebyg nad ydyw "Gwen" yn llin. 25, mwy nag "Euron" yn llin. 3, yn golygu unrhyw berson neill-duol. Yr oedd y beirdd, yn enwedig Dafydd ab Gwilym, yn rhoddi yr enw *Gwen* yn fynych ar ferch.

Rhydd Goronwy Owen ymadrodd tebyg yng ngenau ei gariad, pan yn canu i'r Farf :—

"Difudd oedd ceisio'i dofi :

'Ffei o hon, hwt! '—ffoi wnai hi."

⁶ "Dynesa."—*Add. MS.*, 14,964.

⁷ "Ffwrdd! ffwrdd a thi! ffordd a'th ên!

Somgor wyt, a oes amgen.'"—*C. Ll. G.*

⁸ "Cilais"—*Add. MS.*, 14,964, a *C. Ll. G.*

⁹ "Ni xwenu fawr, ni xar fi."

Add. MS., 14,964.

"Ni chweru'r ferch ni char fi."

C. Ll. G.

¹⁰ "Diriad"—*Add. MS.*, 14,964, a *C. Ll. G.*

¹¹ "Yw"—*Add. MS.*, 14,964;

"fu'r"—*C. Ll. G.*

¹² "Pa."—*C. Ll. G.*

- i gleiriach bwbach i bobl¹
 gussanu gwefts sinobl²
 digri oedd weled ged gŵ
 36 deugorff wan yn ymdagŵ³
 eŵthym am bagad eithin
 em aur i feingl i min⁴
 ysglyfiais Bax diwaxa⁵
 40 ys gweff⁶ dyn bŵ ysgyfl⁷ da
⁸darfy vm dyllŵ heb dwyll
 barbed fymun syberbwyll
 44 briwais glaer wyneb braisg lamp
 a bochgern merch ddibechgamp
 gwesgais digroenais i grŵdd
 gwasgrwym tost ar ddyn gwisgrŵdd⁹
¹⁰garw yw o beth ar gwrr boch
 48 i bod fal bargod burgoch¹¹

¹ "Y bobol."—*C. Ll. G.*

² "Gusanu'r fwyn, dan dwyn dŵl."—*C. Ll. G.*

³ "Digrif oedd gweled ged gu Daugorph wan yn ymdagu." *Add. MS.*, 14,964.

"Digri oedd weled gwedd gu Deugorff Wen yn ymdagu." *C. Ll. G.*

⁴ "Aethym am bagad eithin Em aur i Feingil ei min." *Add. MS.*, 14,964.

"Aethum a'm bargod eithin Em aur i sipio'i min." *C. Ll. G.*

⁵ "Y glysaus Bax di waxa." *Add. MSS.*, 14,873, a 14,964.

"Ysglyfiais barf di-warfa." *C. Ll. G.*

Y mae Golygydd *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* yn egluro "di-warfa" trwy roddi *di warafun* ar waelod y ddalen; ond "Bacs di wacsa," neu "Bax di waxa" a geir

yn yr ysgriflyfrau yn gyffredin— a thebyg mai rhyw "ymadrodd gwneyd" am *gusan* ydyw.

⁶ "Igweff"—*Add. MS.*, 14,964; "Is gweff"—*Hengwrt MS.*, a *C. Ll. G.*

⁷ "Ysgwfl."—*Add. MS.*, 14,964. *Ysgwfyl* = a *snatch*.

⁸ Nid ydyw llin. 41-42 yn *C. Ll. G.*; ond ceir y ddwy a ganlyn yn eu lle:—

"Yn serchog dawedog daer
 Yn glochydd i'm goleu-
 chwaer."

⁹ "Gwasgrwym tost am ddyn gwisg-rydd."—*C. Ll. G.*

¹⁰ Yn *Add. MS.*, 14,964, ac yn debyg yn y llyfrau ereill, ceir y ban canlynol o flaen llin. 47:—

"Ox nad wyf rhwng ei dwyfer
 Oer fore fyth ir Farf fer."

Y farf, fel y gwelir, oedd wedi peri i'r ferch gilio.

¹¹ Ym mhlith awgrymiadau ereill a glywsom fel rhewm dros fod y

- bondo¹ o frig perth bendew
byrrion fydd² blaenion i³ blew
tin ab gŵl tenau heb gig
52 twyn o farfrwyn⁴ oferfrig
gardiau o baithynau bwth
nerawn moelrhawn ymylhwth⁵
kyloren lom kŵl aresg
56 kolion haidd kelyn a hesg⁶
knewd ar ol meddawd i mi
gnaifio marf gnŵf mieri⁷
ni aill hi nawell yw hynn⁸
60 eillio honn⁹ a min ellyn
anrhegion mawr anrhygoll
a gaffwn bes eilliwn oll¹⁰
diofryd peth nid afryw¹¹
64 a roddaf o byddaf byw

bardd yn cael ei alw yn Iolo *Goch*, sylwai un y gallai ei wallt fod o'r lliw hwnw; ac er yr awgrymir yma mai *barf goch* oedd ganddo, nid ydym yn tybied mai hyny oedd y rheswm.

¹ "Bondo" = bargod.

² "Yw."—*C. Ll. G.*

³ "Y"—*Add. MS.*, 14,964, a *C. Ll. G.*; "ei"—*Hengwrt MS.*

⁴ "Forfrwym"—*Add. MS.*, 14,964; "brif frwyn"—*C. Ll. G.*

⁵ "Gardie o beithyne booth Neu rawn Moelrhawn ymylhwth."

Add. MS., 14,964.

"Gardiau o bevthynau bwch Neu rawn moelrhawn ymylhwth."—*Hengwrt MS.*

"Gardiaw o baithgnaf bwth, Neu rawn moelrhwn ymwelhwth."—*C. Ll. G.*

⁶ Y mae hwn yn well darllenied nag a geir yn *Add. MS.*, 14,964:—

"Cloren lom culor hesg
Coliom haidd celyn o hesg."

⁷ "Gnewd yn ôl medddod i mi
Gneifio marf gnu Mieri."

Add. MS., 14,964.

"Gwnawd ynot myfyrdawd i
mi

Gneifio y marf gnu mieri."

C. Ll. G.

⁸ "Ni aill tri nawell yw hyn."

Add. MS., 14,964.

"Ni aill ei nawdd yw hyn."

C. Ll. G.

⁹ "Eilliaw hon."—*Add. MS.*, 14,964.

¹⁰ "Anrhegion wyf ddyn rhygoll
A gaffwn pe's eilliwn oll."

Add. MS., 14,964.

"Anrhegion mawr yn hygoll,
A gawswn ped eilliaswn oll."

C. Ll. G.

¹¹ "Diofryd peth diafriw."

C. Ll. G.

- cnaifio marf rhag fy nharfû¹
 cnaifiad oen cynhayaf dû²
 dros i gadw ym draws geden³
 68 i dyfu gayaf⁴ gnu gen
 i gûddio /r/ croen ar gwddw crych⁵
 ar ddwyfron mor arddifrych⁶
 o mynaf serchokaf son⁷
 72 ymgaru mi ag euron.

Iolo Goch ai kant.

¹ "Rhag ei tharfu"—*Add. MS.*, 14,984; "cyn ei tharfu"—*C. Ll. G.*

² "Cneifiad oen cynhauaf du."
C. Ll. G.

Nid ydyw y llinell hon yn ffafrio
y rhai a awgrymant i'r bardd
dderbyn y cyfenw o *Goch* oddi
wrth liw ei wallt.

³ "Dros ei gadu'n draw geden."
Add. MS., 14,984.

"Dros ei gadu'n draws geden."
C. Ll. G.

⁴ "Gauaf."—*C. Ll. G.*

⁵ "Gwddf rwyth."—*C. Ll. G.*

⁶ "Orddiffrwyth."—*C. Ll. G.*

⁷ "O mynaf serchocaf son."
C. Ll. G.

XLVIII.

* I F E R C H .

(O *Llyr Huw Lleyr*—*Add. MS.*, 14,967, fol. 41b).

Ceir y cywydd hwn hefyd yn *Add. MS.*, 14,970, dan y penawd "Cywydd pan oedd y Bardd yn Glaf;" ac yn *Y Piser Hir*, dan yr un penawd. Mewn rhestr o gyfansoddiadau Iolo Goch yn y *Cambrian Journal*, 1854, p. 274, ei benawd ydyw "I Ferch, pan oedd ef glaf," ond gallem feddwl, wrth ddarllen y cywydd, mai claf o gariad ydoedd¹ gan fod ynddo gyfeiriadau mynych at ferched. Gellir felly yn briodol restru y cywydd hwn ym mhlith rhiangerddi y bardd. Ymddengys fod ei awduriaeth yn cael ei briodoli yn rhai ysgriflyfrau i Dafydd ab Gwilym, o blegid ar ei ddiwedd yn *Add. MS.*, 14,970, ceir y nodyn a ganlyn:—"Iolo Goch ai cant, *ait* D. E.; D. ab Gwilym, medd llawer llyfr, *ait* Iolo Morganwg." Nid ydyw i'w gael ym *Marddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, a gyhoeddwyd yn 1789, ac nid ydym yn gweled ei gynghaneddion yn tebygu i eiddo y bardd hwnw. Y mae gwaith Dafydd ab Gwilym yn ystwythach a mwy melodaidd.

Hir ywr dydd kethlydd kaethloer

Ys hwyr nos naws hayarn oer¹

Hir ywr wythnos dros draserch

4 Ys hwy r mis ym o syr merch²

¹ "Hir yw'r dydd cethlydd pa beth yw "kaethloer"—ai lleuad caethloer dywell?"

Ys hwyr a naws haearn oer."
Add. MS., 14,970.

"Ys hwyr no naws haiarn oer."—*Piser Hir*.

² "Kethlydd" = caniedydd : ond

² "Hir yw'r wythnos dros draserch

Ys hwy'r mis ym o syrr merch."

Add. MS., 14,970.

- Hir yw'r tymor hurt ymy
 Vod mon tost i vod mewn ty¹
 Ys hwyr yw i hystlys hi
 8 Y vlwyddyn oerfel iddi²
 Am baham ym y bai hir
 amser haf ym sarheir
 Nid aeth vy llaw hiraethlawn
 12 Ar dant telyn rymiant rawn³
 Ni thyvodd yr ail ddeilien
 Ni thrig dim or brig ar brenn⁴
 Ni chant edyn havnant yn hawdd
 16 Yn luosog ni leisiawdd⁵
 Tref o'm gwlad yr tra vum glaf
 truan gwr er ys trihaf⁶

"Sir morch."—*Piser Hir.*

Yr oedd y bardd yn gweled yr amser yn llusgo ym mlaen yn araf —diwrnod cyhyd ag wythnos, wythnos gyhyd a mis, &c., a'i holl fywyd wedimyned yn flinderiddoam fod merch wedi sori (digio) wrtho.

¹ "Hir yw'r tymmor hurt ymmy tyd mad tost o fod mewn ty."—*Add. MS.*, 14,970.

Y mae y ddau air blaenaf yn y llinell olaf, yn y darlleniad hwn yn gystal ag yn y testyn, wedi llygru cymmaint fel yr ydym yn colli meddwl y llinell. Darllena yn *Y Piser Hir*:—"T'yd mad tost o fod mewn tŷ."

² "Ys hwy yw ei hystlys hi Y flwyddyn oerfel iddi."

Add. MS., 14,970, a'r *Piser Hir.*

³ "Ar dant telyn rhwymyn rhawn."

Add. MS., 14,970.

"Rhyimiant" a olyga *ymestyn* — fel tant.

⁴ "Ni thyfodd yr ail ddailen

Ni thrig o'r brig ddim ar brenn."—*Add. MS.*, 14,970.

Awgrymir i ni yn y llinellau hyn ei bod yn auaf chwerw ar y bardd, ond y mae yn anhawdd gwybod pa un ai sefyllfa ei feddwl ynte tymhor y flwyddyn a feddylia; o bosibl nad ydyw yn cyfuno y ddau.

⁵ "Ni chant hedydd heunant hawdd

Yn luosawg ni leisiawdd."

Add. MS., 14,970.

Gair ag sydd yn peri dyrswch i ni ydyw "havant," neu "heunant," os nad llygriad ydyw o *heiniant* = *swarming* — yr adar yn heidio yn lluosog o herwydd toster yr hin, ond heb ganu.

⁶ "Tref om gwlad tra fum i glaf Truan gwr er ys trihaf."

Add. MS., 14,970.

Dywed y bardd yma ei fod yn byw, neu yn cartrefu, allan o'i wlad tra y bu yn glaf, ond ni ddywed ym mha le yr oedd. Ymddengys hefyd iddo fod ymaith am agos i dair blynedd.

- 20 Nid byth kynt llyth o haint llyn
Y byddaf glaf na bowddyn¹
Ni bu yrioed² bai ar wr
Trwsiad waeth ar wtreswr³
Yr pann vu hoywlv helynt
- 24 Ar awen garidwen gynt⁴
Gorddwy a ffoen⁵ angerddawl
Ar Dal iessin⁶ melin mawl
Yr⁷ na bwyf iawn rwyf un ras
- 28 Ac eva mwy a gavas⁸
Minau a wnaf ym enaint
i vwrw hynn o verw a haint⁹

¹ " Nid byth hynt llyth o haint
llynn
Y byddaf glaf a bawddyn."

Add. MS., 14,970.

" Llyth " = llyprynaidd, sef y
sefyllfa y dygwyd ef iddi trwy y
clefyd.

² " Erioed. " — *Add. MS.*, 14,970.

³ " Wtreswr " = gloddestwr.

⁴ " Er pan fu hoywlv helynt
Ar awen gariadwen gynt."

Add. MS., 14,970.

Ymddengys fod Iolo Goch, fel
ereill o feirdd y Canoloesoedd, yn
ystyried Cyridwen, neu Ceridwen,
fel duwies yr awen. Gosodir hi
allan fel gwraig i Tegid Foel, eti-
feddiaeth yr hwn a safai yng
nghanol Llyn Tegid. Mab iddynt
oedd Afagddu—y dyn hagraf yn yr
holl fyd; a merch iddynt oedd
Creirfyw—yr hon oedd decaf o'r
merched. Gan fod y mab mor
hagr, gwelodd Ceridwen na chaffai
ei dderbyn i blith boneddigion oni
byddai yn meddu ar ryw rin-
weddau i orbwyso hyny; ac yna
parodd ferwi Pair o Awen a
gwybodaau, yr hwn oedd raid ei
ferwi am un dydd a blwyddyn, hyd

oni cheid tri dyferyn o'r drwyth i
Afagddu. Ond yn anffodus syrth-
iodd y dyferynau hyn ar fys Gwion,
yr hwn a osodasai hi i ofalu am y
Pair, a chan eu poethder rhoddodd
Gwion ei fys yn ei enau, a daeth i
wybod pob peth. Yna aeth trwy
nifer o drawsffurfiadau, a Cherid-
wen yn ddigofus ar ei ol; ond y
diwedd fu iddo gael ei bysgota
allan yn agored Wyddno, rhwng
Aberdyfi ac Aberystwyth, ac ad-
nabyddwyd ef ar ol hyny wrth yr
enw Taliesin Benbeirdd. Dyna
fraslinelliad o'r chwedl, at yr hon
y cyfeirir yma.

⁵ " Gorddwy a phoen. " — *Add.*
MS., 14,970. " Gorddwy " = gorth-
rwm.

⁶ " Daliesin. " — *Add. MS.*, 14,970.

⁷ " Er. " — *Add. MS.*, 14,970.

⁸ " Ag efo mwy a gafas. "

Add. MS., 14,970.

⁹ " Minnau a wnaf im ennaint
I ferw hyn o f rw a haint. "

Add. MS., 14,970.

Y mae y bardd yn myne ddilyn
esiampyl Ceridwen trwy wne "hur
enaint i wella ei hun.

- 32 Mi a yr pwll lle maer pair¹
 Dadeni² da dianair
 Ac a ddot pann gan ddyvod
 Yn oed gordderchwr yr nod³
 Pann ddel Mawrth a'i ryvawrthin⁴
 36 a chilio gwynt a chael gwin
 A gloywlaw wybr golevlawn
 a gwlith anghen vrith⁵ ynghawn⁶
 A niwl gwyd⁷ yn ol y gwynt
 40 Yn diffryd kanol dyffrynt⁸
 A'r hedyddod rhai diddan
 Yn kael yn yr wybr i kan⁹
 A tho mai a thai mwyailech
 44 a pheintio gwydd a phynt gweilch¹⁰
 Kynyrch¹¹ ar seithyrch y sydd
 a hindda a Gwanhwynddydd

¹ "Mi a i'r pwll lle mae'r pair."

Add. MS., 14,970.

Gan gyfeirio at Bair (traddodiadol) Ceridwen.

² "Dadeni" = adnewyddu — "Tair Eisteddfod Dadeni" — ond yma yn golygu enaint i'w wneyd yn ddyn newydd.

³ "Ag a ddof pan gaf ddyfod
Yn oed gordderchwr i'r nôd."

Add. MS., 14,970.

"Gordderchwr" = cariadfab — y mae y llinell hon, yn gystal ag amryw ereill o hyn i'r diwedd, yn awgrymu, fel y crybwyllasom eisoes, mai "claf o gariad" oedd y bardd.

⁴ "Pan ddel Mawrth a'i ryfawrthin." — *Add. MS.*, 14,970.

"Rhyfawrthin" = Gwynt Mawrth.

⁵ "Anghenfrith." — *Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Ynghawn" (*yn a cawn*) = yn y gwellt — lledgyfeiriad at wellt y

ddaeear yn tyfu ar ol i ddryghinoedd Mawrth fyned heibio.

⁷ "Gwydd." — *Add. MS.*, 14,970.

⁸ "Yn diffryd canol dyffrynt." *Add. MS.*, 14,970.

"Diffryd" = amddiffyn, cysgodi. "Diffrynt" (o *dwfr* a *wynt*) ydyw yr hen ffurf ar *dyffryn*, a defnyddid ef gan y beirdd gan ei fod yn eu galluogi i odli.

⁹ "A'r hedyddion rhai diddan
Yn cael yn yr wybr eu cân." *Add. MS.*, 14,970.

Dengys Iolo, yn y llinellau hyn a'r rhai dilynol, y medrai dynu darlun prydferth o Natur.

¹⁰ "A tho mai athai mwyailech
A phaentio gwydd a phynt
gwailech."

Add. MS., 14,970.

"a phynt" = a phaint?

¹¹ "Cynnyrch" — *Add. MS.*, 14,970, a'r *Piser Hir*.

- 48 hynn y sydd ddiwenydd¹ ym
Kael o'm hoedl kwlw ehudlym²
Mynychu i dyvu dawn
Att rys dec wtres digawn³
Klywed gwaslef merched mai
52 Kwn a hely am kynhaliai⁴
Byhwman y winllan werdd
Yny glasgoed enw glwysgerdd⁵
Kyd orwedd mewn koed irwydd
56 Kyrchu ffair kywrch ar ffyrdd⁶
A bwrw nyn nis bwriai neb
Danaf ar ei lledwyneb⁷

¹ " ddywenydd " — *Add. MS.*, 14,970 ; " diwenydd " — *Piser Hir*.

² "Cael o'm hoedl cwlwm ehud-
lym."—*Add. MS.*, 14,970.

"Cael o'm hoedl cwlwm cud-
lym."—*Piser Hir.*

3 "Mynychu i dyfu dawn
At Rhys deg wttres digawn."
Add. MS., 14,970.

Nid oes unrhyw gyfeiriad pellach yn y cywydd yn ein galluogi i ddyfalu, heb son am benderfynu, pwy oedd y Rhys a enwir yma—y mae yn amlwg ei fod yn gyfaill i'r bardd, pwy bynag ydoedd; ac y mae yn addaw iddo ei hun gael cydloddesta ag ef yn helaeth. Hywrach mai at Rhys ap Robert o'r Kinmael y cyfeirir. (Gwel Cywydd Rhif LXXIII., llin. 57-62).

4 "Clywed gwaslef merched mai
Cwn a hel a'm cynhaliai."
Add. MS., 14,970.

Noda y bardd amryw bethau a fuasai yn codi ei galon; yn gyntaf, gwaslef (*giggle*) merched ar Galan-mai, gan gyfeirio, mae'n debyg, at y rhial: wch a gynhelid ar y diwrnod hwnw; ac yn nesaf at hyny buasai canlyn cwn hela wrth ei fodd.

⁵ " Bwhwman i winllan werdd
Yn y glasgoed enw glwys-
gerdd."

Add. MS., 14,970.

“ Bwhwman y winllan werdd.”
Piser Hir.

6 "Cydwedd mewn coed
irwydd,
Cyrchu ffair curwch ei ffydd."
Add. MS., 14,970.

Gwelir yr arferai y bobl ieuainc fyned i ymddifyru mewn feiriau yn amser lolo ; a dengys y llinellau dilynol fod y ddau ryw wedi dysgu bod yn lled hyf ar eu gilydd hefyd. Darllena y ban hwn yn *Y Piser Hir* fel hyn :—

“Cyd orwedd mewn coed Nota
irwydd,
Cyrchu ffair curwch a ffydd.”

⁷ "A bwrw y nyn nis bwriai neb,
Dyna ar ei lledwyneb."
Add. MS., 14,970.

“Nyn”=dyn; ond, fel y gwelir yn fynych yng ngwaith lolo a'i gydoeswyr, arfordir y ffurf hon ar y rhyw fenywaidd—ac felly yma. Gwel hefyd Cywydd Rhif L, llin. 46 a 54.

Ymddiddan gan gyveddach
60 hynn a wnai gorff hen yn iach.¹

Iolo Goch ai kant.²

¹ "Ymddiddangwledd cyfeddach
Hynn a wnai gorff hen yn
iach."—*Add. MS.*, 14,970.

Yr ydym yn gobeithio, er mwyn
moesau yr oes hono, nad oedd
Iolo wedi myned yn hen, fel yr
hanner awgryma, pan gyfansodd-
odd y cywydd hwn; neu, os oedd,
ei fod yn fwy cnawdol ei syniadau
na'i gydoeswyr yn gyffredin. Pa
fodd bynag, nid ydyw y deuddeg
llinell olaf, yn y rhai y ceir rhestr

o'r pethau a ystyriai yn hanfodol
i'w ddedwyddwch, yn gydnaws a
syniadau yr oes hon am foesoldeb.

² "Guttyn Ywain ai Kant,"
gyda chroes ar draws *Guttyn
Ywain*, a *Iolo Goch* uwch ben,
wedi ei ysgrifenu gan y copiwr.

Arddiwedd y cywydd, yn *Y Piser
Hir*, ceir a ganlyn:—"Iolo Goch
a'i Cant, pan oedd yn cymmeryd
arno fod yn glaf."

XLIX.

COWYDD MERCH.

(*O Jesus MS., C. 101, p. 103*).

Yn y cywydd hwn, y mae y bardd, ar ol rhagymadrodd o bymtheg llinell, yn rhoddi adroddiad o ymddyddan a gymmerodd le rhwng mab ieuanc eiddigeddus a merch ieuanc brydweddol. Ymddengys fod y mab ieuanc hwn yn gystal a Iolo ei hun yn caru merch, yr hon, o llin. 17 hyd y diwedd, sydd yn adrodd i'r bardd y cweryl fu rhyngddi â'i wrthymgeisydd o'i blegid ef. Er mwyn deall y cywydd dylid sylwi mai y cariadlanc siomedig sydd yn siarad yn y llinellau a ganlyn:—23, 25, 27-32, 35-36, 41 a 43; y mae y ferch yn ei ateb yn llinellau 24, 26, 33-34, 42 a 44; ac yn llinellau 37-40 rhydd y ferch ddysgrifiad o'r modd yr ymddygodd at y llanc—sef, cymmeryd ffon a'i droi allan o'r tŷ. Y ferch ei hun, fel y gwelir, a adroddai yr helynt hwn wrth Iolo Goch. Ond rhydd y cywydd gipdrem ar sefyllfa isel moesoldeb yr oes. Y mae y cyhuddiadau a ddygai y llanc ieuanc yn erbyn Iolo a'r ferch—pa un bynag ai dychymmygol ai gwirioneddol oeddynt—sef eu bod wedi eu gweled gyda'u gilydd ar wahanol amserau mewn ysguboriau, yn awgrymu fod y fath arferion anfoesol yn ffynnu yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, a hyny ym mhlith—os caniateir fod Iolo Goch yn arglwydd, neu yn fab i arglwydd, Llechryd—y dosbarthiadau goreu mewn cymdeithas. Yn hyn y mae hyny o werth sydd yn y cywydd yn dyfod i'r golwg—sef ei fod yn ychwanegu at y defnyddiau sydd genym y rhai a daflant oleuni ar sefyllfa gymdeithasol y cyfnod. Nid ydyw y cywydd ei hun ond cymharol ddiwerth fel dernyn o farddoniaeth; a phrin y tybiwn fod yr ysgriflyfr o'n blaen yn cynnwys adysgrif

gywir o hono. Ceir ynddo, fel y mae, wallau pwysig, yn enwedig yn hyd rhai o'r llinellau. Ond ein hamcan ni ydyw casglu cynnifer o ganiadau y bardd ag a allom, ac nid gwneyd detholiad. Y mae yn amlwg, feddyliem, oddi wrth natur y testyn, yn gystal a'r arddull, fod hwn yn un o gyfansoddiadau boreuaf Iolo.

- Y ferch a wisg yn sientli¹
 main i hael² a mwyn yw hi
 ni by³ achos nag ystyr
 4 er lladd gwenn foi llyddiodd gwyr
 ond i myned illdeyoedd
 o ddychymig eiddig⁴ oedd
 chware synn chwerw fy /r/ synwyr
 8 canu im llaw⁵ gwell i cnoi /n/ llwyr
 canu im llaw er gwrandaŵ gwir
 minau biau eboir⁶
 pam i tau synhwyrâu son
 12 amau hynn am i hanvon
 pwy hanfones lles llun
 Iolo goch ai law gychwun⁷
 pam i kar mab or lle mae
 16 cared o chared chwarae
 gad yna heb⁸ y geinferch
 am niver um min fym serch

¹ "Sientli," o'r Ffrancaeg *gentil* (Seis. *nice*), mae'n debyg. O'r un gair Ffrancaeg hefyd y daw y gair Seisoneg *genteel*.

² "Hael" = ael y llygad (= *eye-brow*).

³ Ymddengys fod yr un a gopiodd yr ysgrifyr hwn yn lled hoff o rod-di y yn lle *u*; ac *u* yn lle *y*.

⁴ "Eiddig" = *jealous*.

⁵ Y mae gan Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 76) gywydd dan y penawd "Morfudd a'r Bardd yn chwareu cnau i'm llaw," yn yr hwn y dywed:—

"Cnau i'm llaw ddeau ddiwg
 I mi don', dyn mwyn a'u dwg."
 Diammeu mai "cnau im llaw" a ddylai fod yma.

⁶ Er chwilio cryn llawer yr ydym yn gwbl analluog i wneyd allan feddwl y gair "eboir." Ai "heb ohir" = (*without delay*) a feddylir?

⁷ Gallem feddwl fod y "gychwun" (gychwyn) yma yn awgrymu yn gryf mai hwn oedd un o gywyddau cyntaf y bardd.

⁸ "Heb" = ebai — h.y., "Gad yna, ebai y geinferch."

- penn egorodd i ddwyllaw
 20 mynn y ne nid mwy na naw
 tafl y o eiddig y knau oi law
 y mysg llydw mawn a llidiau
 fo fy iolo genyd¹
 24 pwy a braw hyny pa bryd²
 fo fy genyd yn fynych
 na fy oni by na bych
 fo ath weled nos wyl fair³
 28 ti ag e mewn tu a gwair⁴
 ag ath weled nos ynyd
 ti ag e mewn tu ag yd
 fynghred pe doethwnn attoch
 32 gwnaethwn ffo ir cadno coch
 ni chiliai /r/ gwas difai da
 er undyn hyd yr india⁵
 kelwydd heb y gwr kylael⁶
 36 kiliai ne gelai dy gael
 kael o eiddig farfddig fferf
 krynnffon wialenffonn lownfferf
 rhoi pwys y ffonn ar honno
 40 ar hud i ffenn by raid ffo
 dos allan gynta i gellych
 nag a nes gwis od wy was gwych
 dos i ddiawl wenwynawl naid
 44 nag a syref neges afraid

Iolo Goch ai cant.

¹ "Fe fu Iolo gyda thi."

² Gwelir nad ydyw y ferch yn gwadu; ond yn ysgoi yr atebiad trwy ofyn dau gwestiwn.

³ Disgyna Hen Wyl Fair ar Ebrill 6; a chan fod yr Ynyd (llin. 29) yn dygwydd ym Mawrth neu Ebrill, nid oes ond ychydig o fyd na gwair yn yr ysguboriau.

⁴ Ti ag ef mewn tŷ a gwair.

⁵ Nid oes yr un dyn o'r tu yma i'r India, meddai y ferch, a wna i Iolo gilio. Ymddengys oddi wrth hyn fod Iolo yn â'r dewr, ac fod y ferch hefyd yn credu yn ei ddewrder.

⁶ Gwr â'r cilwg = *downcast look*.

L.

CYWYDD I FERCH.

(*O'r Llyfr Coch o Hergest, col. 1407*).

Nid oes unrhyw benawd i'r cywydd yn yr ysgriflyfr uchod amgen na "Iollo goch ae cant," ond mewn ysgriflyfrau ereill ceir "I Ferch," "Co. i Ferch," &c., uwch ei ben. Y mae i'w gael yn *Add. MSS.*, 14,966, a 15,001. Yn yr olaf, dywedir iddo gael ei adysgrifenu o'r *Llyfr Coch*, ond bu y copiwr yn hynod o esgeulus. Y mae i'w gael hefyd yn *Glanyrafon MS., K.*, fol. 36; ac yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 5, dan y penawd "Cywydd, yn yr hwn y mae y Bardd yn Darlunio ei Ddewis-Ddyn."

Y mae yn ddigon amlwg i'r bardd gyfansoddi y cywydd hwn pan yr oedd yn ddyn cymharol ieuanc; o blegid y mae yn llawn o'r hoenusrwydd a'r asbri hwnw ag sydd yn nodweddu ieuencyd. Gallwn dybied hefyd ei fod yn canu i ryw ferch neillduol, yr hon a ddysgrifia yn hynod o fanwl. Pa fodd bynag, nid ydyw y bardd yn rhoddi enw y ferch o gwbl, nag yn rhoddi un awgrym i ni allu dyfalu dim yn ei chylch. Ymddengys ei bod yn un o'r rhianod prydferthaf; neu, o leiaf, tybiai y bardd ei bod felly. Ac ar y prydferthwch hwn yr oedd Iolo wedi sefydlu ei feddwl, yr hyn ynddo ei hunan sydd yn awgrymu yn gryf iddo ei gyfansoddi pan yn ieuanc. Pe yn hŷn mewn dyddiau, ond odid na fuasai yn edrych am rywun yn meddu ar rinweddau ereill heb law glendid corfforol; ac os oedd hon yn feddiannol ar rai o'r cyfryw, nid ydyw y bardd yn son am danynt, gan nad oedd eto, yn ddiammeu, wedi casglu digon o brofiad i'w gwerthfawrogi. Ond, a chymmeryd y cywydd am y peth ydyw, dengys fod ei awdwr yn fardd rhagorol.

Meddai ar allu i bortreadu ac i ddysgrifio prydferthweh y rhyw fenywaidd i'r fath raddau fel nad oedd yn ail i neb yn ei oes, ac eithrio Dafydd ab Gwilym.

- Karu d6yf karueid y6¹
 k6relrud kiriwal ry6²
 kares valch hepcores ued
 4 karedic uerch kaer decued.³
 Kaegen difethyl ael gethloy6
 keginwrych geir6d6fyr crych croyw.⁴
⁵Kegideu⁶ bebyrwen babyl
 8 cogeilgorff ku o gelgabyl

¹ I unrhyw un sydd wedi cael ychydig o brofiad mewn darllen llenyddiaeth y Canoloesoedd bydd y ffurfiau hynafol a geir ar eiriadaeth y cywydd hwn, ac ereill a gymmerwyd o'r *Llyfr Coch*, yn ymddangos yn ddigon syml a dealladwy; felly ofer a fyddai i ni wastraffu amser a gofod i droi pob gair i orgraff ddiweddar; er enghraifft troi y llinell gyntaf i "Caru ddwyf caruaid yw." Pa fodd bynag, nid anfuddiol a fyddai i ni roddi yma ddarlleniadau ereill, y rhai, er eu bod o lyfrau diweddar, a ddichon fod wedi eu cymmeryd o lyfrau o werth ac oedran cyfartal i'r *Llyfr Coch* ei hun.

² "Cwrelrydd cri ofalryw."

Add. MS., 14,966.

"Cwrel-rudd criawalryw."

C. Ll. G.

Ei gruddiau fel y cwrel, ac o ryw y ciriol=*munificent*, neu o natur haelionus. Felly, fe welir fod y testyn yn gywir. Nid oes unrhyw synwyr yn "cri ofalryw."

³ "Cares ferch hepgores fedd caredig ferch caer o deg-fedd."--*Add. MS.*, 14,966.

⁴ "Kares ferch hepgores fedd

kyrydig ferch kaer degfedd."

Glan. MS.

Gwell "valch" na "ferch" yn y llinell gyntaf, o blegid ceir "uerch" yn yr ail; ac am *w* y saif yr *u* yn "ued" a "decued"=*wedd* a *degwedd*.

⁴ "Cangen ddifeth ael gether loyw

cyginwrych crychddwr crych croyw."--*Add. MS.*, 14,966

"Kangen ddiffeth ael gethrlowyw

kigeinwrych keioddwr krych kroyw."--*Glan. MS.*

"Cethrloyw"=*bright point*, gan gyfeirio at ei llygad; "keginwrych" (neu ceginwrych)=*gwallt crych*. Y mae y bardd yn pentyru geiriau bron o'r un ystyr yma.

⁵ Yn blaenori llin. 7 yn *Add. MS.*, 14,966 (ac yn gyffelyb yn *Glan. MS.*) ceir a ganlyn:—

"Hoyw liw/r/ don fal haular dwr brwynen gorff heb rin yngwr lliw eira bas ar lasgraig llewyrch dwr rwyf ar dor craig."

⁶ Kegiden (?)=*hemlock*. Y mae plwyf yn Sir Ddinbych, ryw bedair milltir i'r gogledd o Llanefydd, yr

- Ll6yr yng ym g6naeth lla6er och
 llaryeidgeinc llywyrudgoch¹
 Lloer 6yneb lli6 eiry iona6r
 12 llar² y6 a gwi6 lleuer g6a6r.
 Da ia6n y6 g6ed y dyn gwyllt
 ae deuissyat d6f essaylt.³
 Dillynnyeid da y lluny6yt
 16 diwyl hon myn dewi ll6yt.⁴
 Tal ac eur mal goreu mold
 brialluwallt brelliwalt.⁵
 Deuli6 eigyr⁶ da oleugreir
 20 du aeluein megys del6 veir.⁷

hwn a elwir gan rai yn Cegidog, gan ereill yn Llan San' Sior. A ydyw yr enw yn y fan hon yn cyfeirio at gartref cariad y bardd?

¹ "Lloereiddgamp llaw ereiddgoch."—*Add. MS.*, 14,966.

² "Llar"=llary (?)=*gentle*: y darlleniad yn *C. Ll. G.* yw:—

"Llary yw a gwiw, lleuer gwawr."

³ "A diwiswydd dwf essaylt."

Add. MS., 14,966.

"A dewiswydd dwf essaylt."

Glan. MS.

"A'i dyfeisiad, dwf Essaylt."

C. Ll. G.

Gwelir fod y darlleniad olaf yn ymgais at ddilyn y testyn; ond "*dewisiad*" ydyw yr ail air yn y llinell, y mae yn amlwg. Cyfeiria ein haneswyr at dair o'r enw Essaylt, sef Essaylt, merch ac etifeddes Cynan Tindaethwy, a gwraig Meryn Frych, yn hawl yr hon y daeth efe i orsedd Gwynedd yn 816 (*Hanes Brylaniaid a'r Cymry*, cyf. i., tudal. 399); Essaylt, merch Culfynawd Prydain, yr hon a restrir yn y Trioedd (*Myv. Arch.*, p. 392) fel un o dair anniweirwraig Ynys Prydain;

ond yr hon, yn ddiammeu, nid oedd ond person ffugiol, a'r unag Ysonde, gwraig Syr Tristram. Ond o bosibl mai yr Essaylt i'r hon y cymharai y bardd ei gariad oedd merch brenin Germania, yr hon a gafodd Locrinus, mab Brutus, mewn llong, yr hon, meddir (*Text of the Bruts*, p. 60) "nyt oed ha6d kaffel dyn kyn-decket ahi yn yr holl vyt. G6enach oed nor ychtywynedic as6ern morvil. ac no dim or aellit diaerhebu am dana6." Prin y mae angen dyweyd nad ydym yn rhoddi coel ar ddim a ddywed Sieffre o Fynwy.

⁴ Dewi Llwyd = Dewi fendigaid—St. Dewi.

⁵ "Fe welir fod yr odl yn wallus. Yn *C. Ll. G.* y darlleniad yw:—

"Tal ar aur mal goreu mold,
 Briallu wallt bre lliwold."

⁶ "Eigyr"=morwyn.

⁷ Y mae y testyn yn ddigon dealladwy ac yn well na'r darlleniadau canlynol; gyda'r eithriad, hwyrach, fod "deulin" yn well na "deuliw":—

"Deulin eigyr dau o leugrair
 Dwy ael fain fal delw Fair."

Add. MS., 14,966

- Llygat ual glein cawat coeth¹
 tebic y vaen y tyboeth.²
 Gwen³ r6yd ual lli6 ga6n ar r66
 24 g6ynt6yn kyfladgr6n gwantre6.
 A deint6s m6yntl6s a min
 digrifwimp diagyr yfwin⁴
 Tagell hir teg oll y himp
 28 alarchwed gron6y6 ler6ch6imp.⁵

"Deiliw eigr dau oleugrair
 dwy ael fain fal dyli fair."

Glan. MS.

¹ Gwelir yn *Geir. Cymraeg*
 Silvan Evans (d.g. *Cawad*) fod y
 llinell hon mewn cywydd o eiddo
 Sypyn Cyfeiliog, yr hwn oedd yn
 gydoeswr & Iolo Goch:—

"Fy mun â"

Llygad fal glain cawad coeth."

² "Tiboeth"—yn y llyfrau ereill.

Wrth y "Tiboeth," mae'n debyg,
 y golygir y maen gwerthfawr oedd
 ar glawr Llyfr Twrog. Gan nad
 ydyw *Geiriadur* y Dr. Davies wrth
 law, dyfynwn a ganlyn o *Eiriadur*
 Richards, Llangrallo:—

"Tiboeth, y gelwid llyfr Beuno
 sant oedd yn eglwys Gelynnog yn
 Arfon; yr hwn a 'sgrifennasai
 Twrog yn amser Cadfan frenin, ac
 a ddiangodd pan losgodd yr eglwys.
 (q.d. Diboeth, *unburnt*). Hwn a
 welais i, mēdd T. W. anno 1594.
This book, whatever it contain'd, is
now lost. Twrog, who living in the
time of Kadvan, prince of N. Wales,
is said to have written it, must have
been cotemporary with Austin the
monk, as E. Lh. observes. Llygad
fal glain cawad coeth, Tebyg i faen
y Tiboeth. S. Kyf."

I Sypyn Cyfeiliog y priodolir y
 llinellau gan Thomas Richards,

fel y gwelir yn y dyfyniad uchod.

³ Nid ydym yn sicr pa un ai
 "Gwen" ai "Gweu" ydyw hwn
 yn y *Llyfr Coch*, ond y mae
 rhediad y llinell yn awgrymu y
 blaenaf. Yn y llyfrau ereill dar-
 llenir:—

"Gwyn wyd megis gwawn nerew."

Add. MS., 14,966, a Glan. MS.

"Gwēn rwydd fel lliw gwawn ar
 rew."—*C. Ll. G.*

⁴ "A deinws mwndlws a min
 Digrifwynt di eger yfwin."

Add. MS., 14,966.

"A deinws mwyndlws a min
 digrifwynt dieger af win."

Glan. MS.

"A deintws meindlws a min
 Digrif-wymp diagr yfwin."

O. Ll. G.

Ymddengys i ni mai y teetyn, yr
 hwn y ceisir ei ddilyn yn y dar-
 lleniad olaf, ydyw y cywiraf; yn yr
 hwn y canmolir dannedd a gwe-
 fusau y ferch, cusanu y rhai a
 ystyriai y bardd yn well na'r gwin
 goreu.

⁵ "Dagel aur degay yw a limp
 alarchaidd dyn wiw leirch-
 wimp."—*Add. MS., 14,966.*

"Dagell aur degau ywr llimp
 alarchaidd dyn wiw leurch-
 wimp."—*Glan. MS.*

HH1

- Ba6t a rif bader reuueich¹
 a bronn aualt6f a breich²
 Lla6 vein val lli6 y vaneg
 32 baslart hir bys hoy6lary teg³
 Ewin ballassarn⁴ arna6 . . .
 a modr6y eur yma dra6.⁵
 Ystlyslun d6ywes dlosledyf
 36 ystudu6m mod stad medyf.⁶
 Ffernem is ff6rri venuyr
 ffurueidwen troet kyt boet byrr.⁷

" Tagell hir, teg oll ei himp,
 Alarchaidd, gron wiw glerch-
 wimp."—*C. Ll. G.*

Fe geir y bardd fwy nag unwaith
 yn galw ei gariad yn *ddyn* yn y
 cywydd hwn. Yn ei oes ef yr oedd
dyn yn air cyffredin (*common*
gender) fel *homo* (=dyn) yn y
 Lladin. Y mae *dynes* yn ffurf
 lawer diweddarach.

¹ Nid ydyw diwedd y llinell hon
 mewn un modd yn eglur, ac nid
 ydyw y darlleniadau a ganlyn yn
 ei gwneyd yn fawr eglurach:—

" Bawd a rif bedere eurfraych."

Add. MS., 14,966.

" Bawd a rif bydere eurfraich."

Glan. MS.

" Pawd a rif baderau enfaich."

C. Ll. G.

Ymddengys fod copiwr y *Llyfr*
Coch wedi cyssylltu y rhan olaf o'r
 pedwerydd gair wrth ddechreu y
 pummed. Tybiwn mai yr hyn a
 feddyliai oedd:—"Ba6t a rif bader-
 reu ueich," sef *Bawd a rif faich o*
baderau.

² " A bron afaldwf a braych."

Add. MS., 14,966.

" A bron afaldw a braich."

Glan. MS.

" A bron afull-dwf, a braich."

C. Ll. G.

³ " Llaw fain, un lliw ar faneg
 basralt hardd bys hir hoyw
 teg."—*Add. MS., 14,966, a*

Glan. MS.

" A llaw fain, fal lliw y faneg
 Balfawd hir bys hoyw lary
 teg."—*C. Ll. G.*

" Baslart" yn ol *Geir. Cymraeg*
 Silvan Evans, ydyw math o
 ddagr—"a species of dagger or
 hanger, usually worn at the girdle,"
 ac f'r offeryn hwnw yr oedd y bardd
 yn cymharu bys ei gariad.

⁴ " Ball saffarn"—*Add. MS.,*
14,966; "ball fasarn"—*Glan. MS.*

" Ballasarn" = lliw yr awyr. Ond
 nid ydyw yr ewin o liw yr awyr o
 gwbl, os bydd yn iach a glan; os
 ydyw unrhyw amser.

⁵ " Modrwyau aur i mae draw."

Add. MS., 14,966.

⁶ " Ystlysyn dwy-ais dloe leddf
 Ystudiwn modd ystad
 'meddf.'"—*C. Ll. G.*

Ai nid yr enw Cymraeg "Ystud-
 wen" a feddylir yma wrth "Ys-
 tudu6m?"

⁷ " Fferfain is fferau'r feiny'r
 Ffurfeiddwyn droed cyd boed
 byr."—*C. Ll. G.*

- 40 O chemir bys yn ch6im6th
oe blaen lygat crynuaen cr6th,¹
Br6ynen ewinwen wanwyrth
breid val tywys heid na syrth.²
Arleisleuyn dyn eiry l6ysli6
44 6rllys gwyn ar eur lewys gwi6³
g6yn y vyt gwen y6 y boch
a wisc vy nyn weusgoch⁴
Penwisgwelw dyn di del6 doeth
48 pen selgombyr pennes aelgoeth.⁵
P6y a allei pei p6nsaer
peintya6 a chalych p6ynt vy chwaer⁶

¹ "O chemir bys yn chwimwth,
O'i flaen lygad crynfaen
crwth."—*O. Ll. G.*

Y mae y llinellau hyn yn cael eu
cyfleu mewn rhan arall o'r
cywydd yn *Add. MS.*, 14,966, a
Glan. MS., ond darllenant fel y
canlyn :—

"O chemir bys yn chwimwth
oi blaen golwg crynfaen
crwth."

² "Brwynen ewinwen wanwyrdd
braidd fal towys haidd na
syrdd."

Add. MS., 14,966.

³ "Ar laslether ddyn aur lwys-
loyw
wrddlys win ar lewis wiw."

Add. MS., 14,966.

"Ar las lethr ddyn aur lwys
loyw

wrdd lyswin aur weddus
loyw."—*Glan. MS.*

"Ar lais-lefn dyn eiry lwys-
liw,

Wrld gwyn ar aur lewis
gwiw."—*O. Ll. G.*

Y testyn, a'r darlleniad olaf,
ydyw y cywiraf. Wrth "wrllys"
y golygir ymyl gwisg = *border*, neu

fringe. Dyfyna a chyfieitha y Dr
Pughe (*Geiriadur*, s.v. "Gwrllys")
fel y canlyn :—

"O bob anrhaith y brenin a zyly
draean ei aur, a'i ariant, a'i swllt,
a'i gyrm buelin, a'i vain gwerth-
vawr, a'i ysginau y bo wrlys
wrthynt.

"Out of every spoil the king is
entitled to a third of his gold, and
his silver, and his treasure, and his
buffalo horns, and his precious
stones, and his robes to which there
shall be *fringe*. *Welsh Laws*."

⁴ "Gwyn ei byd, gwen yw ei
b6ch,

A wisg fy nŷn wefus-goch."

O. Ll. G.

"Dyn" = dynes. Gwel nodyn ar
llin. 28., a Cywydd Rhif XLVIII.,
llin. 57.

⁵ "Penselgam paenes aelgoeth."

C. Ll. G.

⁶ "Pwy allai pai pen-saer,
A chalch pwynt, paentio fy
chwaer?"—*C. Ll. G.*

Yn *Glan. MS.*, yn dilyn y ban
hwn, ceir a ganlyn :—

"duw ai gwnaeth arfaeth eurfab
myn delw bedr ar fedr i fab

52 Pentryeis gerd p6ynt dirrym
puntur serch pon trahaus ym.¹
Dybya6 kael bu hael baham
gydg6sc am dyn lygatgam.²

ystidio i mae ystad meddf
ystlyseddyn ddewis dloeddmeddf
o chemir bys yn chwimwth
oi blaen golwg krynaen krwth
ar las lethr ddyn aur lwysloyw
wrdd lyswin aur weddus loyw
brwynen ewinwen wanwyrdd
braidd fal towys haidd nasyrdd
escair gron lliw eira bron brisc
lwydwen dan yscarladwisc
ffyrffeidd grwn droed kyd boed
byr
ffer fain dan ffwr o fanfyr."

¹ "Pentyras gerdd pant dirym
Paintio i serch pan dyras
ym."—*Add. MS.*, 14,966.

"Pen tyrais gred pand tirum
Paintio i serch pan tyras
ym."—*Glan. MS.*

"Pentyras gerdd pwynt di-
rym.

Puntur serch, pa'nd trahaus
ym."—*C. Ll. G.*

² "Tybio cael bu hael ba ham
gyt gwsg am bun lygatgam."
Add. MS., 14,966.

"Tybio kael bu hael ba ham
gytgwsc am bun lygatgam."
Glan. MS.

"Tybiaw gael bun hael ba ham
gyd-gwsg a'm dyn lygad-
gam."—*C. Ll. G.*

"Dyn." Gwel llin. 46 uchod.

LI.

KOWYDD I URY Y BRONRHYDDYN YN LLATTAI AG O
GLODVOREDD IDDO.

(O'r Add. MS., 15,006, fol. 91).

Y mae y Canon Silvan Evans (*Geir. Cymraeg*) yn nodi dau fath o adar dan y gair "Bronrhuddyn" (1), y *redbreast*, yr hwn a elwir yn rhai manau yn "robin goch;" ac yn (2), y *chaffinch*, yr hwn sydd yn myned dan yr enwau:—*asgell arian*, y *winge*, a *bronrhuddyn*. Wrth y dysgrifiad a rydd y bardd o hono, y mae yn amlwg mai y *chaffinch*, ac nid y *redbreast* a feddyliai. Pa fodd bynag, y mae yn ei anfon yn llatai, neu yn was caru, at rywun anhysbys. Yr oedd y dull hwn o seilio rhiangerdd yn dra hoff gan Dafydd ab Gwilym, yr hwn a ddefnyddiai y wylan, yr iwrch, yr eog, y brithyll, &c., yn genhadau at ei gariadon; ond dyna yr unig waith, hyd y gwyddom, i lolo alw am gynnorthwy creadur direswm i wneuthur cymmod rhyngddo a'i gariadferch. Y mae y bardd yn myned rhagddo i ymddyddan â'r aderyn hyd llin. 49, pryd y mae, cyn gorphen dyweyd ei neges wrtho, fel y gallem dybied, yn myned i ymdrin â'r Farf, gan roddi bron air a llythyren y rhan olaf o'r Cywydd Rhif XLVI.; ac nid ydyw mwyach yn dyfod yn ol at ei destyn. Er yr ymddengys y cywydd a ganlyn fel dau gywydd, neu ranau o ddau gywydd, wedi eu gosod wrth eu gilydd gan ryw gopiwr trwstan, eto, tybiasom mai gwell, ar draul bod yn euog o ailadroddiad, oedd ei osod yma fel y mae yn yr ysgriflyfr.

Y keliog brag¹ ar klog brych
kowr aint² barnwn fraint bron frych

¹ Ai bragad (= *vociferous*) a ² "Kowr aint"—cywraint?
feddylir?

- iarll adar erliw¹ ydwyd
 4 ar gliw yn wych ar y llwyn wyd
 kael miwsig kloyau mesyr
 kloyedig bwnk² gloywder pur
 knok³ glasfryn keliog glwysfrith
 8 kroyso ir bryn ar krys aur brith⁴
 solais byd felyslais big
 swyddwr a gwirgas eiddig⁵
 difir Salm di ofer son
 12 dy gerdd mewn y⁶ bedw gwrddion
 mynac edn mewn y goidwig
 main dy ben mwyn yw dy big
 pen kyngor porthor perthi
 16 plu bais deg ple buost di
 hir y gwybym rywiog bais
 hiraeth ddal hwyr ith welais
 digiaies⁷ ymserchais wrthyd
 20 dryan gwr am dario yn gyd⁸
 rhag bod klwyfau briwiau brad
 na swrn o eisie arnad
 na charchar trwy alar trais
 24 na milain frad na malais
 na chroglath magl gath mwyglgau
 na ffitfel⁹ mewn kornel kau

¹ "Erlw" = eurlw?

² "bwnk" — yr aderyn yn pyncio.

³ "Knok" = cnocellu. (*to peck*).

⁴ Aderyn hynod o brydferth ydyw y *chaffinch*; ac y mae maglwyr adar yn awyddus i'w ddal.

⁵ Yr oedd aderyn yn swyddwr i un cariadlanc, a thrwy hyny yn cael ei gasáu gan ei wrthymgeisydd eiddigeddus.

⁶ Gwell fuasai gadael yr "y" allan.

⁷ Yr oedd y bardd mewn pryder rhag ofn fod yr aderyn wedi myned i fagl; ac yn teimlo yn ddigofus wrth feddwl hyny.

⁸ "Yn gyd" = yn gyhyd, h.y., mor hir.

⁹ "Ffitfel." — Ai rhyw fath o offeryn i ddal adar a feddylir? — *pit-fall*. "Pitfel" yn rhai manau y gelwid y lleoedd yr arferid carcharu anifeiliaid crwydredig ynddynt. "Ffald," neu "gwarchal," = (*Seis., Pound*).

- 28 keliog teg mewn klog wyt ti
kresl waith¹ grys krist ith groisi²
gwr krych ar hyd gwarr y bryn
gwr y smala³ grys melyn
bid adail bywyd dedwydd
32 brych i gwfl rhyd brigiau gwydd
bid glwysdy ar bedw glasdeg
bodlon wyt i⁴ ir bedlwyn teg
gwrando gyw gwiriondeg iaith
36 gad yni fod yn gydymeth
pen gerais mi a ddoliais ddig⁵
pyr wen winwdden eiddig
dig iw eiddig da i gwyddwn
40 di alli help i dwylo hwn
gwna fyned o ddigennyfi
gwawr ddydd ag arwydd iddi
mogel⁶ air kall anwyglew kas
44 malais eiddig mal syddas⁷
mogel er Duw maglwyr dig
galar oedd gwiliwr eiddig
mogel yr haf mogl⁸ a rhwyd
48 ai gath henllom⁹ geth in llwyd¹⁰

¹ Nis gallwn ddyfalu beth all
"kreslwaith" fod, os nad ydyw yn
tarddu o *crest*=cribell.

² "Krist ith groisi"—i'th waredu?

³ "Y smala"=ysmala.

⁴ Nid oes eisiau yr "i" yma.

⁵ Y mae y bardd bellach yn
dyfod at ei neges, ac yn hysbysu yr
aderyn ei fod wedi syrthio mewn
cariad â merch ieuanc, yr hon
hefyd a gerid gan arall, yr hwn
oedd yn eiddigeddus; ac y mae yn
ei yru i ddenu y ferch ac i dwyllo
y llanc.

⁶ "Mogel"=ymogel (*beware*).

⁷ Awgrymir yma fod gwrthym-
geisydd Iolo yn hyned ddigofus, ac
yn un i'w ofni: hefyd y mae y
bardd yn rhybuddio y bronrhuddyn
i fod ar ei wyladwriaeth rhag yr
eiddig, yn gystal a rhag gelynion
cyffredinol yr adar.

⁸ Magl?

⁹ "Henllom"—o *hen* a *llom*.

¹⁰ "Geth in llwyd"=gethin-
llwyd. Yr anhawder mwyaf yng
nglŷn â darlleniad y cywydd hwn
ydyw fod y geiriau yn cael eu rhanu
yn fynych; ac y mae y sillebiad
yn lled wallus.

- 1gwn mae dy chwaer gadr ger ydd
 ar wyneb sioseb yr sydd
 knwd trathew o iyrchflew iyrch
 52 keden hagar koed anhygyrch
 seml ar ddwen awenydd
 dy weles gen ferched fydd
 ni wna hyder oth weryd
 56 ymgydd mor brydd yw dy bryd
 myn bedd Duw ni bydd diwarth
 i fardd hen fod gen o garth
 ag nid esmwyth garw lwyth gwr
 60 trowswch llwyd i wttreswr
 lle gresyn lliw goreu serch
 wedi gwin roddi min merch
 nid hardd ef a waharddwyd
 64 gysan ar farf lydan lwyd
 gormod yw dy annod ym
 am lwydo rhan aml ydym
 llwyd fur saint geraint gu
 68 disyml a llwyd fu r Iesu
 llwyd fu rholant llid rhylew
 llwyd fu r eryr ar llew
 llwyd fu awyr y dwyrain
 72 llwyd fu dechre lleuad fain
 ain hyn ef a gymhenwyd
 nad gwiw wneith vr ond llwyd²
 taw di farf tew doferedd
 76 twyll iawn wyd teullyn wedd
 os felly i byddu byth
 ar draws wyneb yn drasyth
 ni chair myn mair ar fy min
 80 lle noeth mwy na llwyn eithin.

Iolo Goch ai kant.

¹ Yma y dechreua y rhan olaf o'r cywydd "Ir Varv" (Rhif XLVI., llin. 27-58).

² Gwel Cywydd Rhif XLVI., llin. 52.

LII.

*CYWYDD MERCH I DDIOLCH AM FODRWY—ALLAN O
LYFR P. PANTON, YSWAIN.

(*O'r Add. MS., 14,964, fol. 66.*)

Fel y gwelir uchod y mae y penawd yn *Add. MS., 14,964*, yn yr hwn y priodolir y cywydd i Iolo Goch. Ond yn *Add. MS., 14,994*, fol. 112b, darllena y penawd fel hyn:—
“Cywydd a gant Dafydd ap Gwilym i ferch o went a roesai gae euraidd yw gyfaill anwyl Iolo Goch prydydd o Wynedd—Iolo Goch medd Iolo No 3;” ac yna ar ddiwedd y cywydd ceir “Dafydd ap Gwilym.” A thybiwn fod y llinellau ychwanegol a roddir i mewn yn yr ysgriflyfr hwnw yn profi mai nid Iolo Goch oedd yr awdwr—nid ydyw yn debygol y dywedasai am dano ei hun:—

“Ba wr un rhol ag Iolo
Ddefod hardd hoyw fardd y fo.”

Nid ydyw yn argraffedig ym mhlith gweithiau Dafyd ab Gwilym.

Iorwerth¹ druan² ddioerwas
Erioed ni bu drwg ei rās³
Arwain aur a main y mae
4 Ar un gair mewn ariangae⁴
Ar ei ddwyfron ar ddyfrys⁵
Erddaw y bu⁶ croesaw crys

¹ Defnyddir “Iorwerth” yma yn gyfystyr ag *Iolo* (Gwel “Braslun,” &c., tudal. 17).

² “Drwyadl.”—*Add. MS., 14,994.*

³ Yn dilyn y ban hwn yn *Add. MS., 14,994*, ceir:—

“Ar ungainge mewn ariangae
Arwain aur a main y mae

Ba wr un rhol ag Iolo

Ddefod hardd hoyw fardd y fo.”

⁴ Iolo yn arwain (h.y., gwisgo) ariangae (= *silver wreath*) gydag aur a main (= meini gwerthfawr) wedi eu gosod ynddi.

⁵ “Ar ei ddwyfron arddyfrys.”

Add. MS., 14,994.

⁶ “Y bydd.”—*Add. MS., 14,994.*

- Urddas ir ferx ddiweirddoeth
 8 A roddai'r cae¹ rhuddaur coeth
 Erddi nid oes ym² ordderx
 Oer yw³ na syrth arni serx
 Ar eiriau⁴ mawl i'r euraf
 12 Arwyrain hon orhoen⁵ haf
 Eiry nownyf o erhin Ionawr⁶
 Eurwn a gwawd orhoen gwawr
 Euron hil arian hoewliw⁷
 16 Eurwn ei gwawd ar enw gwiw
 Y rhiaid ddi orheiwg⁸
 Ar ael ddu urael⁹ a ddwg
 Aroesym llyna ras hoyw
 20 Yr em oleuwen liw loyw¹⁰
 Arwydd serxog a oryw
 Arwyst serx eresdlws yw¹¹
 Aerwy gwydr yw ar gydax¹²
 24 Euryr byxanigyn bax

¹ "Cae" = plethdorch (*wreath*), gyda'r hon, meddir, y gwobrwyd yr hen feirdd Cymreig. Yn Eisteddfod Dol goch yn Emlyn gwisgwyd Dafydd ab Gwilym â'r "Cae Fedwys ef addurn Rhieingerdd." (*Iolo MSS.*, p. 97.)

² "Yn."—*Add. MS.*, 14,994.

³ "O ryw."—*Add. MS.*, 14,994.

⁴ "Ar araith."—*Add. MS.*, 14,994.

⁵ "Oroen."—*Add. MS.*, 14,994.

⁶ "Eiry nawnyf o oerni Ionawr Eurwn a gwaed oroen gwawr."

Add. MS., 14,994.

⁷ "Euron hael arian hoywliw."

Add. MS., 14,994.

Cyffelybir y ferch i Euron, Gwel Cywydd Rhif XLVII,

⁸ "Y Rhiaid ddiorhewg."

Add. MS., 14,994.

⁹ "Wrael."—*Add. MS.*, 14,994. Nis gwyddom beth yw "wrael," ond dywed y Dr. W. O. Pughe mai *amianthus*, neu *asbestos*, yw "urael." Y mae Cynddelw (*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 76) wrth egluro llinell o eiddo Dafydd ab Gwilym—"Aur ganwyll mewn urael" yn dyfynu ar y gair *urael* fel hyn:—"Urael yw llinewig, o'r manweiddiaf, o'r maen ystinos, ac a olchid â'r tân, wedi y budreddai."

¹⁰ "Liwloyw."—*Add. MS.*, 14,994.

¹¹ "Ar wylt serch erestlys yw."

Add. MS., 14,994.

¹² "Arwyddgwydrain ar gadach."

Add. MS., 14,994.

- Oerfel er¹ a ddel o ddyn
 I eiril im roi eurn²
 Eurrwar wyf aur *arafia*
 28 Er ofn neb ni ro fy na³
 Bedd afraid peth ir ddwyfron
 A dynnai haint i dan hon?⁴
 Balxax wyf gilio'r balxwydd
 32 O'r cylla rhwth cawell rhwydd⁵
 Odid iddo rhuo rhawg⁶
 O wrthiau main mawr werthiawg⁷
 Gwrthiau a rôn⁸ gwerth aur ynt
 36 A godidog od ydynt
 Yma maen mae im monwes
 Anaml liw a wnae les⁹
 Meddyg a wna¹⁰ modd y gwnaeth
 40 Myddfai¹¹ o xai ddyn meddfaeth

¹ "Y."—*Add. MS.*, 14,994.

² "I eiriol rhodd or eurn."—

Add. MS., 14,994.

³ "Eurwr wyf aur arafia

Er ofn neb ni ro fy na."

Add. MS., 14,994.

"Arafia" = Arabia. Dywed Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, p. 228) fel y canlyn :—

"A bod yt gan'-morc o aur Byr-gwyn,

Ac aur y Venis nis gwarav-ynyn';

Ac aur Aravia'n grug a rivyn'

Ac aur yr Asia vâl egroesyn."

⁴ "Oedd afraid peth ir ddwyfron

A dynai haint y dann hon."

Add. MS., 14,994.

⁵ "A balch wyf giliaw balchwydd

Y cylla rhwth cawell rhwydd."

Add. MS., 14,994.

⁶ "Ruo'r hawg."—*Add. MS.*, 14,994.

⁷ "Werthiowg."—*Add. MS.*, 14,994.

⁸ "O wrthiau a ron."—*Add. MS.*, 14,994.

⁹ "Mae maen yma im mynwes Anaml yw a wnae les."

Add. MS., 14,994.

¹⁰ "A wnae."—*Add. MS.*, 14,994.

¹¹ Cyfeirir yma at Rhiwallon, meddyg enwog Myddfai, Sir Gaerfyrddin, yr hwn a flodeuai yn y drydedd ganrif ar ddeg—ryw gan' mlynedd, fwy neu lai, cyn amser Dafydd ab Gwilym ac Iolo Goch. Gyda chydweithrediad ei dri mab—Cadwgan, Gruffydd, ac Einion, meddygon Rhys Gryg, Arglwydd Dinefwr—ysgrifennodd Rhiwallon lyfr ar physigwriaeth, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1861, gan y *Welsh MSS. Society*. A dywedir fod disgynyddion Rhiwallon wedi parhau

Iax yw'r galon hon yn hawdd
 Hi ai xae ai hi axäawdd
 Gorau fu'im'neur'gerais
 Gorau fu ef ar gorf ais¹
 Ni ohiriai lle bai benn²
 Gyhyrwayw gan gae hirwen
 Mwy nog i frig mynawg traul³
 Rhew neu eiry ar hin araul

i ddilyn yr alwedigaeth feddygol
 ym Myddfai, o oes i oes, hyd ganol
 y ganrif ddiweddaf.

Gorau yw ef ar gwrr ais.'

Add. MS., 14,994.

² "Ben."—*Add. MS., 14,994.*

³ "Mwy nag y trig mynag
 traul."—*Add. MS., 14,994.*

¹ "Gorau fu ym neu'r gerais

CANIADAU DUWINYDDOL.

LIII.

*KYFFES YOLO GOCH.

(*O Jesus MS., E. 133, Part II., fol. 112b*).

Ymddengys fod yr awdl hon yn *Y Llyfr Coch o Hergest*, er na ddarfu i ni ei chanfod ynddo pan oeddyn mewn cyfleusdra; ond wrth chwilio wedi hyny trwy *Add. MSS.*, 15,001, gwelsom hi (*fol. 176b*), gyda'r penawd hwn:—"Ex per Ll: C.—Owdl gyfies Gr. ap Mared. ap D'd; eiddo Iolo G. medd eraill." At hon, mae'n debyg, y cyfeirir yn *Myv. Arch.*, tudal. 306.

Y mae i'w chael hefyd, mewn rhan neu yn gyflawn, yn yr ysgriflyfrau a'r llyfrau argraffedig a ganlyn:—*Add. MSS.*, 14,866; 14,936; 14,940; 14,964; 14,970; 14,979 a 24,980 (dernyn yn unig); yn *Glanyrafon MSS., C. a K.*; ac yn argraffedig ddwywaith yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 9 a 10; yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), p. 1; yn *Nhrysorfa Rhyfeddodau*, am Medi, 1833, tudal. 219; yn *Y Cymmrodor*, cyf. viii., tudal. 173; ac yn *Cymru*, am Medi, 1891, tudal. 67. Ond y mae yn amrywio yn fawr yn yr oll o'r llyfrau hyn, mewn hyd, yn nhrefniad y llinellau, yn gystal ag yn y darlleniadau; fel nad oes unrhyw ddau lyfr yn cwbl gytuno.

Ar y ffurf o weddi y mae yr "awdl gyfies" hon; ac y mae yn amlwg fod rhan helaeth o honi wedi ei seilio ar ranau o'r gwasanaethlyfr Pabaid. Wrth ei chymharu â'r "*Missal*," gwelir fod nid yn unig y syniadau, ond rhai brawddegau cyfain, yn lled gyffelyb. Gwelir cryn debygolrwydd yn rhai o'r llinellau i'r hyn a geir yng ngweithiau amryw o'r beirdd cydoesol, megys yn yr "Awdl a gant

Gruffud Gryc" (*Myv. Arch.*, p. 346), ac mewn awdl o waith Dafydd y Coed (*Myv. Arch.*, p. 351). Ond y mae y tebygolrwydd yn fwy fyth i awdl o waith Dafydd ab Gwilym dan y penawd "Cyfaddefiad y Bardd o'i Gamweddau" (*Barddoniaeth*, tudal. 487) yr hon sydd ar yr un mesur—y Gyhydedd hir—ac yn dechreu fel y canlyn :—

"Trugarog Frenin,
Wyt Tri cyffredin,
Ac Un cyntefin,—
Dewin diwad !"

Fel yr ydym yn myned rhagddom, canfyddwn amryw bennillion ydynt bron yr un a'r rhai a geir yn yr awdl hon. Pa fodd bynag, nid ydym yn gweled yn hyn sail ddigonol i gyhuddo y naill neu'r llall o lēnladradd. Pan yn canu ar destynau crefyddol, nis gallent lai na defnyddio yr ymadroddion oeddynt yn cael eu llunio a'u lliwio gan nodwedd grefyddol yr oes. A phan yn dilyn y gwasanaethlyfr, yr oedd yr unrhywiaeth yn yr ymadroddion yn rhwym o ddyfod yn amlwg.

Krair ¹ kred ked kynnydd	}	Kyn dydd dihedd ²
Kreawdr llv bedydd		
Krist fab Duw Dofydd		

¹ Wrth "grair" yma y golyga y bardd wrthddrych addoliad ym mherson Crist; ac y mae yn ei ddefnyddio yn yr un ystyr ag y gwneir mewn cân a briodolir i Taliesin (*Myv. Arch.*, p. 64) :—

"Cyfarch i'm naf nawdd i'm ganthaw
Cyfarchwel i'm del dawn o'i eiddaw
A'm crair yw Mab Mair mawr arnaw vy mryd
Canys delir y byd bob awr iwrthaw."

Ac o bosibl nad ydyw Elidir Sais yn ei "Awdl i Dduw" (*Myv.*

Arch., p. 244) yn fwy fyth i'r perwyl :—

"Archaf un mab meir creir credadun
Creaudyr amheraudyr llyu-
audyr llauen."

² Amrywia y darlenniadau o'r llinell hon yn fawr; ond tybiwn fod y testyn yn llawn mor naturiol a'r un o honynt. Yn *Add. MS.*, 14,964, ceir "cyn dydd dilyedd," gyda "diwedd" ar ymyl y ddalen; "cynnydd dyhedd"—*Add. MS.*, 14,970; "kyn y dydd o diwedd" yn *Glan. MS. C.*; "kyn dydd diwedd" yn *Glan. MS. K.*; "cyn

Kans na wn pa bryd Pa awr pa ennyd Im dycky ¹ or byd	} Diwyd diwedd ²
Arglwydd dâd mad mawr Eurglo ³ nef /a/ llawr Ergl ⁴ fi bob awr	} gwawr gwirionedd
ytti /i/ kyffesaf ⁵ ag ir addefaf ⁶ kann wyt bennaf naf ⁷	} Nawdd tangnhefedd ⁸
Pechais yn llwyr ⁹ o bob rhyw ¹⁰ synwyr rhwing llawr ag awyr	} llwyr ar gywedd

ydd dialedd" yn *C. Ll. G. (A.)*; "cynydd dyhedd" yn *C. Ll. G. (B.)*, a *Trysorfa Rhyfeddodau*; "Cynydd dyhedd" gan *R.J.*; "Cynydd dyhedd" yn *Cymru*; a "cynydd diwedd" yn *Y Cymmrodor*.

¹ "Dyccych" — *Add. MSS.*, 14,964; 14,970, ac *R.J.*; "dygur" — *Glan. MS. C.*; "dygi" — *Glan. MS. K.*

² "Ddiwyd ddiwedd" — *Add. MSS.*, 14,964, a 14,970; *Trysorfa Rhyfeddodau, R.J.*, *Y Cymmrodor, Cymru*; "ddiuid ddiwedd" — *Glan. MSS. C. a K.* Awgryma *R.J.* fod "ddiwyd" i'w gymmeryd fel gair cyfansawdd o *gwyd* (nwyd) = *vice*; ac ei fod yn awgrymu fod pechod yn darfod mewn marwolaeth. Ond ai nid mwy naturiol fyddai ei gymmeryd i olygu dyfalbarhad, sef fod y "diwedd" yn dyfod yn sicr a diymdroi?

³ "Eurgledd" — *Add. MSS.*, 14,964; 14,970, ac *R. J.*

⁴ "Erglyw" yn y llyfrau ereill, ac eithrio *Glan. MS. K.*, yr hwn a ddarlenna:—"am klyw fi bob awr."

⁵ "Iti y cyffessaf."

Add. MS., 14,964.

"Itti cyffessaf."

Add. MS., 14,970.

⁶ "Ac yr addefaf."

Add. MS., 14,970.

⁷ "Canys wyd bennaf."

Add. MS., 14,970.

⁸ "Tangnefedd" yn y llyfrau ereill.

⁹ "A bechais i yn llwyr."

Add. MS., 14,964.

"Am a bechais i'n llwyr."

Add. MS., 14,970.

¹⁰ Ceir "gwall" yn lle "rhyw" ar ymyl y ddalen yn *Add. MS.*, 14,964, ac hefyd "gwall" ydyw y darlleniad yn *Add. MS.*, 14,970, *Glan. MS. C.*, *R. J.*, *C. Ll. G. (B.)*, *Trysorfa Rhyfeddodau*, a'r *Cymmrodor*; ond "rhyw" a geir yn y llyfrau ereill.

Saith priawd pechawd ¹	}	Kadarn nychwedd ²
rhythni ³ /a/ medddawd		
chwant knawd kâs kevdaud		
Methiant glothineb ⁴	}	kadw fy salwedd ⁷
mwy fo/r/ godineb ⁵		
methineb kudeb. ⁶		
Balchder syberwyd ⁸	}	am ryw faswedd
tori diowryd ⁹		
kymryd bowyd /a/ mrŷd ¹⁰		

¹ "Brifwedd bechawd," gyda "briwid briawd" ar ymyl y ddalen, yn *Add. MS.*, 14,964; "briawd bechawd" yn *Add. MS.*, 14,970, a *Glan. MS. C.*; "briwyd pechawd" yn *Glan. MS. K.* Diammeu mai y testyn sydd gywiraf. Cyfeirio y mae Iolo at y "saith bechod marwol" (*Cardinal Sins*) yn ol dysgeidiaeth y Pabyddion. Yn *Allwydd neu Agoriad Paradwys*, tudal. 14, darllenir fel y canlyn:—

"Mae dau fath neu ryw o bechod, sef

Pechod { Gwreiddiol neu Ddech-reuol.

Gweithredol { Marwol.
Maddeuol.

Y saith Prif-bechod a elwir yn gyffredin y Pechodau Marwol,

1. Balchder.
2. Cybydd-dra.
3. Anlladrwydd.
4. Cenfigen.
5. Glothineb.
6. Llid neu Ddigofaint.
7. Diogi."

² "Glythni"—*Add. MS.*, 14,970, *R. J.*, a *Cymru*; "Syrthni"—*Glan. MS. K.*, *C. Ll. G. (B.)*; "Rhyfyg"—*C. Ll. G. (A.)*, *Y Cymmrodor*.

³ "Chwerwedd" yn y llyfrau ereill.

⁴ Yn *Add. MS.*, 14,970, ceir "Methiant, glythineb," gyda "Methiant—omission I suppose. I.M." ar ymyl y ddalen.

⁵ "Gwneuthur godineb" ydyw y darlenniad mwyaf cyffredin.

⁶ "A gormod cudeb."

Add. MS., 14,964.

"Casineb, cudeb."

Add. MS., 14,970.

"A gormod keudeb."

Glan. MS. K.

⁷ "Cadarn salwedd."

Add. MS., 14,964.

"Cadw fy salwedd."

Add. MS., 14,970.

⁸ "Seguryd"—*Add. MS.*, 14,964;

"segurud"—*Glan. MS. K.*

⁹ "Torri yr ymryd."

Add. MS., 14,964.

"Torri diofryd."

Add. MS., 14,970.

¹⁰ "Cymryd bwyd amryd."

Add. MSS., 14,964; 14,970.

"Kymrud bwyd amrud."

Glan. MS. K.

Cymmeryd ymborth, mae'n debyg, ar ddydiau ymryd, yr hyn a ystyrid yn drosedd mawr yn amser Iolo, fel eto, yng ngolwg y

Goganu tybiaw ¹	}	dogyn wythlonedd ⁴
llesgua dymunaw ²		
llidiaw /a/ digiaw ³		
Kolli pregethav	}	moddau salwedd ⁶
ag offerennav		
maddau /y/ Suliav ⁵		
Gair meddwl angred	}	gŵth ⁹ enwired
golwg kam gerdded ⁷		
gweithred anwared ⁸		

Pabyddion. Yn *Allwydd neu Agoriad Paradyys*, tudal. 88, dywedir fod "Torri ei ymryd ar ddiwrnod caeth, neu beri hynny i eraill" yn drosedd o'r trydydd gorchymyn, ac felly yn "bechod marwol."

¹ Yn ol *Allwydd neu Agoriad Paradyys*, tudal. 101-3, yr oedd "Goganu, enllibio, slandrio, neu roi drwg absen ar vnarall, gan ddodi beiau ffeilliau arno: neu wrth ddiargelu, neu gyhoeddi rhyw bechod mawr dirgel, neu ryw gyfrinach," yn gystal a "Tybied yn ddrwg am eraill o ran eu geiriau, neu'i gwithredoedd, gan farn yn ei galon eu bod hwynt yn euog o ryw bechod marwol, heb ddim lliw am hynny" yn bechodau marwol yn ogymmaint a'u bod yn droseddiad o'r degfed gorchymyn.

² "Llesgedd damunaw."

Add. MS., 14,964.

"Llesgi, dymunaw."

Add. MS., 14,970.

"Llesgu dymunaw."

Glan. MS. C.

"Llescedd dymunaw."

Glan. MS. K.

"Dyscu dymunaw."

Y Cymmrodor.

³ "Anlladrwydd llidiaw."

Add. MS., 14,964, *Glan. MS. K.*

⁴ "Llid greulonedd."

Add. MS., 14,964.

"Dygn greulonedd."

Add. MS., 14,970.

⁵ Cyfeiriad a geir yma at esgeuluso myned at yr offeiriad i dderbyn maddeuant.

⁶ "Meddi salwedd."

Add. MS., 14,964, *Glan.*

MS. K.

"Meddwi salwedd."

Add. MS., 14,970, *Glan.*

MS. C.

Ai nid awgrymiad a geir yma fod yr hwn a esgeulusai y pregethau, yr offerenau, a'r maddeuant, yn eu hystyried fel moddion gwael?

⁷ "Am gerdded."—*Add. MS.*, 14,964; "Cilwg, camgerdded"—*R. J.*

⁸ "Gweithred dynwared."

Add. MS., 14,964, *Glan.*

MS. K.

"Gweithred anwared."

Glan. MS. C.

"Gweithred anwared."

Y Cymmrodor.

Sylwa *R. J.*, gan yr hwn y mae "dynwared," mai *mockery* (= gwawd?) a feddylir yma. Ond pe buasai wedi gweled y gwahanol ddarlleniadau hyn, credwn na fuasai mor hawdd iddo benderfynu.

⁹ "Gwaith," gyda "gŵth" ar ymyl y ddalen, yn *Add. MS.*,

KK1

Kyhuddaw ¹ gwirion ²	}	hylither dayredd ⁵
Kam ddychymygion ³		
honni traws holion ⁴		
Gochel maddeuaint	}	braint brenhinedd
digio ⁶ rhag hir haint		
torri nawdd dir saint ⁷		
Tyngu ar greiriav	}	geiriav gwyrredd ⁸
gwyrth anvdonav		
twng gredav llayav		
Trais twyll brâd kynnen ⁹	}	rhen bob rhinwedd ¹²
mvrn ¹⁰ lladrad absen		
llid /a/ chynfigen ¹¹		

14,964; "gwaith anwiredd" a geir hefyd yn *Glan. MSS. C. a K.*, ac *R. J.*; ond y mae *Y Cymmrodor* yr un fath a'n testyn.

¹ "Cyhuddo."—*Add. MS.*, 14,964.

² "Gwirion" = diniwed; hyny yw, cyhuddo un ar gam.

³ "A xam ddymygion."

Add. MS., 14,964.

⁴ "Cadarn draw holion."

Add. MS., 14,964, a *Glan.*

MS. K.

"Kaly'n traws holion."

Glan. MS. C.

⁵ "Hylith ddeuredd"—*Add. MS.*, 14,964; "hylith roddiwredd"—*Glan. MS. K.*

⁶ "Digon"—*Add. MS.*, 14,964;

"digio" a geir yn y llyfrau ereill.

⁷ "Sathru nad ir Saint."

Add. MS., 14,964.

"Sathru noddfa yr Saint."

Glan. MS. C.

"Sathru nawdd dir Saint."

Glan. MS. K.

⁸ Y mae y darllenïadau o'r pennill hwn yn amrywio yn fawr. Dyfynwn y ddau bwysicaf:—

"Tyngu anudonau
Ar werthfawr greiriau
Cam gredu ac amau

geiriau gwiredde."

Add. MS., 14,964.

"Tyngu anudonau
gwrthnebu doniau
trwy gredu llyfau

geiriau gwiredde."

Glan. MS. C.

Tebyg mai "geiriau gwyrredd"
(= *to swerve from the truth*) ac nid
"geiriau gwiredde" (= *true words*)
sydd gywir.

⁹ "Gymen"—*Add. MS.*, 14,964;

"gywen"—*Glan. MS. K.*; ond
"cynnen" sydd yn y llyfrau ereill.

¹⁰ "Mwrn."—*Add. MS.*, 14,964.

"Murn" = llofruddiaeth.

¹¹ "Chenfigeu"—*Add. MS.*,
14,970, a *Glan. MS. C.*

¹² "Pwnc pob rhyfedd."

Add. MS., 14,964.

"Rhag pob rhüedd."

Add. MS., 14,970

"Rhan pob rhinwedd."

Glan. MS. C., ac *R. J.*

- Gwâg¹ kynwys glwyslyw² }
 Gwawr³ mawr marw /a/ byw } llyw llaweroedd⁵
 gwirion dâd rhâd rhyw⁴
- Dy nerth /a/ archaf }
 dy nawdd /a/ alwaf } naf nefawlwledd⁶
 dy râs /a/ geisiaf }
- Rhag kwn dieffig }
 Rhag hûn gwenwynig⁷ } dig digassedd⁹
 rhag kynnen dremig⁸ }
- Rhag drwg mwg migwern¹⁰ }
 rhag gwaith gaeth gethern¹¹ } ddiffaith ddygnedd¹³
 drewiant gern uffern¹² }
- rhynder rhinwedd " }
 " pwnk pob ruswedd." }
Glan. MS. K.
 " rhenn pob rhinwedd."
Y Cymmrodor.
- ¹ " Gwyg."—*Y Cymmrodor.*
² " Glwys glyw"—*Add. MSS., 14,964; 14,970.*
³ " Clod"—*Add. MS., 14,970;*
 " Gwar"—*Y Cymmrodor.*
⁴ " Rhiw"—*Glan. MS. C.;*
 " ryw"—*Y Cymmrodor.*
⁵ " Llyw llaweredd"—*Add. MSS., 14,964; 14,970, ac R.J.;*
 " lliw llaweredd"—*Glan. MS. C.;*
 " lliw llawerydd"—*Glan. MS. K.*
⁶ Yn *Add. MS., 14,964, ac yn gyffelyb mewn llyfrau ereill, darllena y pennill hwn fel y canlyn:—*
 " Dy ras a geisiaf
 Dy nawdd a arxaf
 Dy nerth a alwaf
 Naf nefolwledd."
⁷ " Rhag hun wenwynig."
Add. MS., 14,964, Glan. MS. K.
 " Rhag cwyn gwenwynig."
Add. MS., 14,970.
 Hon ydyw y llinell gyntaf yn y llyfrau ereill, a'r gyntaf yn ail.
- ⁸ " Dreinig"—*Add. MS., 14,970;*
 " dreminig"—*Glan. MS. C.;*
 " ddrewedig"—*Glan. MS. K.;*
 " dremig," gyda " drennig " ar waelod y ddalen, gan R. J.
⁹ " Dig dygnedd"—*Add. MS., 14,964;* " ddig ddigasedd"—*Add. MS., 14,970, a Glan. MS. C.;*
 " ddig ddygasedd"—*R. J.;* " dig digofedd"—*Y Cymmrodor.*
¹⁰ " Rhag drwg mwg mign wern."
Add. MS., 14,964, a Glan. MS. C.
¹¹ " Drwy waith caith cethr-wern."—*Add. MS., 14,964.*
 " Trwy waith caith cethern."
Add. MS., 14,970.
¹² " Drewiant cyrn uffern."
Add. MS., 14,964.
 " Drewyn cyrn uffern."
Add. MS., 14,970.
¹³ " Affaith dygnedd."
Add. MS., 14,964.
 " Affaith ddygnedd."
Add. MS., 14,970.
 " Affaith ddigwedd."
Glan. MS. C.
 " Affaith dyngnefedd."—*Glan. MS. K.*

Rhag trais tragwyddawl ¹ tân trwch kallestrawl tannawl uffernawl	}	ffyrnig drwythwedd ²	
Rhag tanllwd svddbwll ³ tân /y/doeth fflam gymwll ⁴ tinllwch trwy dwll ⁵		}	trydar lesgedd ⁶
⁷ Rhag poen aruthrgar ⁸ poeth ferw tân llachar pell fyddar dayar ⁹			}
Rhag llith llwythau blin llys uffern segin ¹¹ llîn Adda fyddin	}	gwerin gyrredd ¹²	

¹ "Trais dragwddawl."—*Glan.*
MS. K.

² "Dygnedd"—*Add. MS.*, 14,964;
"drwithwedd"—*Glan. MS. C.*;
"Dachwedd"—*E. J.*, a'r *Cym-*
mrodor.

³ "Sybwll"—*Add. MS.*, 14,964;
Glan. MSS. C. a K., *R. J.*, a'r
Cymmrodor.

⁴ "Tanllwyth fflam gymwll."
Add. MS., 14,964; *Glan.*
MS. K.

⁵ "Tinllwm trwch rhwdbwll."
Add. MS., 14,964, a *Glan.*
MS. K.

"Twllwch trwch trydwl."
Glan. MS. C.

⁶ "Rhydaer lesgedd."
Add. MS., 14,964.

"Rrydar lescedd."
Glan. MS. K.

"Trydar loscedd."
Y Cymmrodor.

⁷ Yn blaenori y pennill hwn ceir
y rhai canlynol yn *Add. MS.*,
14,964:—

"Rhag uffern boenau
A'i ffeilsiau dyrau
Cadwynau rhwymau
dreigiau drygwedd
Rhag pwll furn pillfaf
A'r gweisiau gwaethaf
uffern llid addaf
drymaf dromwedd."

⁸ "A thrydar"—*Add. MS.*,
14,964, a *Glan. MS. K.*

⁹ "Pwll byddar daear."
Add. MS., 14,964.

¹⁰ "Duoer fignedd."
Add. MS., 14,964.

"Duoed signedd."
Glan. MS. C.

"Duoer dygnedd."
Glan. MS. K.

¹¹ "Fegin."—*Add. MS.*, 14,964.

¹² "Gerwyn gyredd."
Y Cymmrodor.

Rhyw fath o alleiriad, gydag
ychwanegiad o "Litaniau y
Sainot" (Gwel *Allwydd neu Agoriad*
Paradwys, tudal. 293), ydyw y
pennillion uchod:—

Brenhinawl fâb Mair
brenhinawl orevgrair¹
brenhin nef ith wnair

} gair gorfoledd

Ti /a/ feddevaist
têg /y/ meddyliaist²
y dydd in³ prynnaist

} ar bren krogwydd⁴

" Rhag pob drwg
Rhag pob pechod
Rhag dy ddigofaint di
Rhag marwolaeth ddisym-
mwith ammarod
Rhag diehellion y Cythraul
Rhag llid, casineb a phob
drwg ewyllys
Rhag y pryd godineb
Rhag melt-luched a them-
mhestr
Rhag marwolaeth dragy-
wyddol.

Gwared ni O Arglwydd."

¹ " Brenhin loywggrair."

Add. MS., 14,964.

" Breninol oleuggrair."

Glan. MS. C.

" Breiniawl deuggrair."

Y Cymmrodor.

² " Da i meddyliaist."

Add. MS., 14,964.

" Teg i meddiennaist."

Glan. MS. C.

³ " Ia"—*Glan. MS. C.*; " i"—*Glan. MS. K.*

⁴ " Ar y pren crogedd," gyda
" palmwedd" ar ymyl y ddalen, yn
Add. MS., 14,964.

" Ar y pren palmwedd."

Glan. MS. C.

" Ar bren krogwedd."

Glan. MS. K.

Pa un bynag ai Iolo ei hun ynte
rhyw gopiwr sydd yn gyfrifol am
y "palmwedd" a geir yn rhai
copïau, y mae yn amlwg ei fod o'r
farn mai o'r pren palmwydd y
gwnaed y Groes. Hysbysir ni fod
traddodiad ym mhlith y Pabyddion
fod y groes ar yr hon y croeshoel-
iwyd Crist wedi ei gwneyd o
bedwarowahanolgood—palmwydd,
cedrwydd, olew-wydd, a chypres-
wydd. Ac yn gyffelyb y dywedir
gan Hywel Dafydd ab Ieuan, ond
ei fod yn rhoddi y pren almon yn
lle yr olew-wydd (*Gwel Geir. Cym-
raeg* Silvan Evans, s.v. "Croes") :—

" Rhoed ar groes o wŷdd Moesen,
Rhwing Dismas ac Esmas hen

Pedwar defnydd gwŷdd goddef
Y Grawys oedd ei groes ef ;
Sef Alma, a'r Palma pur,
Cedrus, cypressus prysur ;
Ar y groes, pumoes heb hel,
Y dringodd pedwar angel."

Y mae y Cywydd hwn i'r "Grog
o Aberhodni," gan Howel Dd. ap
Ifan ap Rŷs, i'w weled yn *Add.
MS., 14,891, fol. 24b.*

Dy boenedigaeth ¹	}	arfog drossedd ⁴
ath farfolaeth ²		
er ai gwnaeth ar faeth ³		
Wrth hynny arglwydd	}	kof oferedd ⁶
kadarn didramgwydd		
kedrwydd kyfarwydd ⁵		
Gwna ddofydd maddau ⁷	}	olau wledd ⁸
fy holl bechodau		
am ddwyn ith ddeau		
Mal ⁹ y maddeuwyf	}	glew ddigllonedd
a / wnaethbwyd wrthwyf ¹⁰		
ar fynghnawd /o/ glwyf ¹¹		
O / drais /o/ golled ¹²	}	kyried karedd ¹⁶
o/ gawdd ¹³ /o/ godded ¹⁴		
ag /o/ bôb gweithred ¹⁵		

¹ "Dy boen a'th alaeth."*Add. MS.*, 14,964; *Glan.**MSS. C. a K.*

"Ath ferthyrolaeth."

Add. MS., 14,964.² "Y rhai a'i gwnaeth."*Add. MS.*, 14,964.

"I'r sawl ai gwnaeth."

Glan. MS. C.

"Ar rrai ai gwnaeth."

*Glan. MS. K.*³ "Eurfaeth orfedd."*Add. MS.*, 14,964; *Glan.**MS. K.*, ac *R. J.*

"Ar faeth droysedd."

Glan. MS. C.

"Ar fawr drossedd."

*Y Cymmrodor.*⁴ "Cyfynggrwydd"—*Add. MS.*, 14,964; "kyfynrrwydd"—*Glan. MS. K.*⁵ "Ko fu oferedd"—*Glan. MS. C.*; "coloferedd"—*R. J.*⁶ "Gwna Dofydd faddau."*Add. MS.*, 14,964.

"Naf dofudd maddau."

Glan. MS. C.

"Duw ddofydd maddeu."

*Y Cymmrodor.*⁷ "Dan yn y diwedd," gyda "oth law ith wledd in al." ar ymyl y ddalen, yn *Add. MS.*, 14,964.

"Yn dau yn y diwedd."

Glan. MS. C.

"Ath law ith wledd."

Glan. MS. K.

"Oleu loyw wledd."

*Y Cymmrodor.*⁸ "Fal."—*Add. MS.*, 14,964.⁹ "Trwy nwyf"—*Add. MS.*, 14,964; "wrt. iwy"—*Glan. MS. C.*; "nwy"—*Glan. MS. K.*¹⁰ "Glwy."—*Glan. MSS. C. a K.*¹¹ "O drais golled."—*Add. MS.*, 14,964."O drais a golled."—*Glan. MS. K.*¹² "Cawdd"=digofaint.¹³ "Coddod"=trallod.¹⁴ "O bob eniwed."*Add. MS.*, 14,964, ac *R. J.*

"O bob gwarthaed."

*Glan. MS. K.*¹⁵ "Cyred cared."*Add. MS.*, 14,964.

Ith ddeau ddewin ¹	}	erwin orwedd
i / bwy kynefin ²		
kyn rhwym dayarin ³		
Lle mae lle difrad ⁴	}	rhâd anrhydedd ⁵
ar lawr llathr ⁶ gwenwlad		
lle mae goleuad		
Lle mae digrifwch ⁷	}	deilwng orwedd ⁸
a / phob rhyw degwch		
lle mae dadolwch ⁹		

"Kuredd karedd."

Glan. MS. C.

"gwared gwired."

Glan. MS. K.

"Cyred caredd."—*R. J.*

"Curied caredd."

Y Cymmrodor.

Tybiwn fod *R. J.* yn gywir pan y dywed mai "cyrid"=(*adulterous love*) a feddylir wrth "cyred;" a dywedir wrthym yn *Geir. Cymraeg* D. Silvan Evans mai meddwl y gair "caredd" yw *trosedd*—felly cyfeirio y mae Iolo at y pechod o anlladrwydd, gyda'r dymuniad iddo gael maddeuant o hono.

¹ "Eix diau ddeigrin."

Add. MS., 14,964.

"Ich diau ddeigrin."

Glan. MS. K.

"Ith ddeau ddewin."

Glan. MS. C.

"Ath ddehau ddewin."

Y Cymmrodor.

Y mae *R. Jones* yn methu a gwneyd unrhyw feddwl o'r gair "ddeigrin," ac yn barnu fod y testyn yn anghywir. Ac felly yn wir y mae. Credwn fod ein testyn ni yn gywirach, ac fod "ddewin" yma yn golygu yr Iesu, ar ddeheu-law yr hwn y dymunai Iolo gael ei ddwyn.

² "I bwyf gynefin."

Add. MS., 14,964.

"I bwyf gynefin."

Glan. MS. C.

"I bwyf gynefin."

Glan. MS. K.

³ "Daearin"—*Add. MS., 14,964*; "dauarin," *Glan. MS. C.*; "dayerin," *Glan. MS. K.*

⁴ "Lledrifad"—*Glan. MS. K.*;

"llu difrad"—*Y Cymmrodor.*

⁵ "Llethr"—*Add. MS., 14,964*; *Glan. MS. C., R. J., a'r Cymmrodor.* Dichon "llathr" (= *glittering*) fod yn gywir, yn ogystal a "llethr" (= *slope*).

⁶ "Rhad rhinwedd."

Glan. MS. C.

"Rhod anrhydedd."

Y Cymmrodor.

⁷ "Llei mae diddanwx."

Add. MS., 14,964.

⁸ "Llei mae dedwyddwx."

Add. MS., 14,964.

"Lle mae dedwyddwch" a geir hefyd yn y llyfrau ereill; ac y mae yn ymddangos yn fwy cydnaws â rhediad y pennill na "dadolwch" = *deprecation*.

⁹ "Deilwng orsedd."

Add. MS., 14,964.

"Teilwng rrywedd."

Glan. MS. K.

Lle mae kowirdeb ¹	} lle da buchedd
lle mae dewirdeb ²	
lle dibechod nêb ³	
Lle mae gorphwys ⁴	} lle mae mowredd ⁷
uwch llaw peradwys ⁵	
lle mae mirain ⁶ lwys	
Lle mae nefolion	} gwirion garedd
lliaws ⁸ urddolion	
lluocedd ⁹ angylion	
Lle ¹⁰ mae eglurder	} nefol orsedd
lle mae dwyfolder	
lle mae nêr nifer ¹¹	

"Teilwng rhyfedd."

Y Cymmrodor.

"Dilwch orsedd" ydyw darlleniad *R. Jones*; a'i eglurhad yw:—
"Where its honours emit light or splendour." Ond waoth heb gynnyg esbonio pan y mae y amnositibl penderfynu pa ddarlleniad sydd gywir.

¹ "Cywirdeb"—*Add. MS.*, 14,964;

"cowirdeb"—*Glan. MS. C.*

² "diweirdeb."—*Add. MS.*, 14,964;

"duwioldeb"—*Glan. MS. C.*

³ "Lle dibechodeb."

Y Cymmrodor.

O'r braidd na feddyliwn, er na wyddom am unrhyw enghraifft arall o'r ffurf hon, mai "dibechodeb" = *sinless* sydd gywir. Awgryma *R. J.* mai "di bechod neb," gan gyssylltu "bechod" â "neb," a ddylai fod; ond yr ydym yn methu deall ei eglurhad.

⁴ "Gorphowys"—*Add. MS.*, 14,964; "gorffowis"—*Glan. MS. C.*; "gorffowys"—*Glan. MS. K.*; "gorphywys"—*R. J.*, a'r *Cymmrodor.*

⁵ "Yngwlad baradwys."

Add. MS., 14,964.

"Iw law Beradwis."

Glan. MS. C.

"Yngwlad byradwys."

Glan. MS. K.

"Uwch law paradwys."

Y Cymmrodor.

⁶ "Muirain"—*Glan. MS. K.*; "mirein"—*Y Cymmrodor.* Y mae *R. J.* yn gweled anhawser yn y llinell hon; a dymunai gyfnewid "mirain" i "miraint" = *beauty*; ond, yn ol y Dr. W. O. Pughe, y mae "mirain" hefyd yn golygu a *fair aspect, comely*—yna y mae yr anhawser yn cilio.

⁷ "Mawredd."—*Add. MS.*, 14,964.

⁸ "Lle mae."—*Add. MS.*, 14,964.

⁹ "Lliaws"—*Add. MS.*, 14,964; *Glan. MS. K.*

¹⁰ "Llei" yn lle "lle," yn y pennill hwn yn gystal ag mewn amryw fanau ereill, a geir yn *Add. MS.*, 14,964.

¹¹ "Ynifer"—*Add. MS.*, 14,964; *Glan. MS. K.*, ac *R. J.*

- Arf¹ krêd kêd kadair
 Arglwydd pôb kyngrair
 Erglyw fi mab Mair
 Kans wyf³ bechadur
 Korphorawl nattur
 Rhag tostur ddolur
 Kans wyt wir frenin⁵
 o/ ddeau ddewin⁶
 hyd /y/ gorllewin
 Kans wyf gyffessawl⁸
 a/ Mair ym eiriawl⁹
 ag edifeiriawl
- 1 "Rhif" yn y llyfrau ereill,
 oddigerth *Glan. MS. C.*, yr hwn a
 rydd:—"Krist kred ked kadair."
 2 "Berthair borthedd"—*Add. MS.*,
 14,964; *R. J.*, a'r *Cymmrodor*.
 "Borthair borthedd."
Glan. MS. C.
 "Aberthair borthwedd."
Glan. MS. K.
 3 "Cyd bwyl"—*Add. MS.*, 14,964;
R. J., a'r *Cymmrodor*.
 "Kud bwyl"—*Glan. MS. C.*;
 "kan wyf"—*Glan. MS. K.*
 4 "A dialedd"—*Glan. MS. C.*;
 "a mawr ddialedd"—*Glan. MS. K.*
 5 "Cany s wyd frenin."
Add. MS., 14,964; *R. J.*
 "Kud /i/ bich gwir frenin."
Glan. MS. C.
 "I ganwyd brenin."
Glan. MS. K.
 "Can s wyt wir frenin."
Y Cymmrodor.
 6 "Ar ddeau ddewin."
Add. MS., 14,964; *Glan.*
MS. K., ac *R. J.*
 "Or deau ddewin."
Glan. MS. C.
 "O ddeau ddewin."
Y Cymmrodor.
- borthair barther²
 a/mawr ddialedd⁴
 lliwawdr naredd⁷
 oed oferedd¹⁰
- 7 "Llywawdr mawredd."
Add. MS., 14,964; ac *R. J.*
 "Lliwawdwr mowredd."
Glan. MS. C.
 "Llawawdr mowredd."
Glan. MS. K.
 "Llywawdur moroedd."
Y Cymmrodor.
 Pa un bynag o'r darlenniadau
 uchod sydd gywir, y mae yn amlwg
 mai amcan y bardd oedd gosod allan
 eangder llywodraeth Crist, yr hon
 a gyrhaedda dros yr holl fyd.
 8 "Cany s wyf gyffesol."
Add. MS., 14,964; *R. J.*
 "Kud bwyl gyffessawl."
Glan. MS. C.
 "Gan i bwy gyffesol."
Glan. MS. K.
 9 "A Mair y Meiriawl."
Glan. MS. C.
 "A mair im eiriol."
Glan. MS. K.
 "Ac yn mawr eiriawl."
Y Cymmrodor.
 Yn *Add. MS.*, 14,964, gosodir yr ail
 linell yn drydedd, a'r drydedd yn ail.
 10 "Am oferedd"—*Add. MS.*,
 14,964; ac *R. J.*

Kans wyt freniokaf ¹	}	nâf nam gomedd
a/ dilidiokaf ²		
Kans wyt oruchaf		
Er dy ddiwedd loes ³	}	pumustl ogredd ⁶
Er poenau pumoes ⁴		
Er dy greulyd groes ⁵		
Er y/ gwayw efydd	}	dwyfawl ⁹ agwedd
a wnânt ir efrydd ⁷		
tan fron dofydd ⁸		

"Oed oferedd."—*Glan. MS. C.*

"Am oferedd."—*Glan. MS. K.*

¹ "Wyd frenhinocaf."

Add. MS., 14,964; ac R. J.

"Kan wyt Crist frenioccaf."

Glan. MS. C.

"Gan wyt freinioka."

Glan. MS. K.

"Can's wyt freninoccaf."

Y Cymmrodor.

² "A delidocaf" — *Add. MS., 14,964*; "a deledoccaf" — *Glan. MS. C.*; "a deuludoka" — *Glan. MS. K.* "Dyledocaf" = cyfoethocaf.

³ "Er dyddiwedd loes."

Glan. MS. K.

Yn *Add. MS., 14,964*, y mae y drydedd llinell yn ail, a'r ail yn drydedd.

⁴ Wrth y "pumoes," yn ol *Robert Jones*, y golygir y "pum" cyfnod mewn duwinyddiaeth oedd wedi myned heibio cyn ymddangosiad Crist. Ond ni ddywed pa gyfnodau oeddynt.

⁵ "Er dy greulon groes."

Add. MS., 14,964.

"Er dy greulon loes."

Glan. MS. K.

⁶ "Bumustl xwerwedd."

Add. MS., 14,964.

"Bumistl egrwedd."

Glan. MS. C.

"Bumloet chwerwedd."

Glan. MS. K.

"P um y stl chwerwedd."

Y Cymmrodor.

Cyfeiriad at y cwpan a roddwyd i Grist pan ar y groes. "Bumustl," yn ol *R. J.*, yw *hemlock, oxbane*.

⁷ "A'th frathodd elfydd."

Add. MS., 14,964; ac R. J.

"A frathodd yr efrudd."

Glan. MS. C.

"Ith frathedd yr efrydd."

Glan. MS. K.

"A wan tryferydd."

Y Cymmrodor.

Diau mai "efrydd" (= *maimed*) sydd gywir; ond nis gwyddom a oedd gan y bardd sail dros ddyweyd mai picell bres (= *efydd*) oedd yr un a ddefnyddiwyd i drywanu Crist.

⁸ "Dan dy fron ddofydd."

Add. MS., 14,964; ac R. J.

"Dan ddwy fron ddofydd."

Y Cymmrodor.

"Dofydd" = *Arglwydd*.

⁹ "Ddwyfawl"—*Add. MS., 14,964, ac R. J.*; "dwyfol"—*Glan. MSS C. a K.*, a'r *Cymmrodor*.

Er dy weliau	{	ing /y ¹ / diwedd
Klyw fyngweddiau		
Er dy grau angau		
Er dy farw loysion ²	{	dy drugaredd
gan ddurawl hoylion ³		
Er dy ddrain goron ⁴		
Er dy gyfodi	{	or rhwym faensedd ⁵
Wedi/r/ pum gweli		
Krist keli fy rhi		
⁶ Ath falch ddyrchafiad ⁷	{	oth wlad ath wledd
Ar ddeau dy dâd		
dod ym gyfraniad ⁸		

Iolo Goch : a : k :

¹ "Yn y"—*Add. MS.*, 14,964 ;
Glan. MS. C., ac *R. J.* ; "yny"—
Glan. MS. K.

² "Loesion" yn y llyfrau ereill.

³ "Gan ddurawl hoelion."

Add. MS., 14,964; ac *R. J.*

"Arithrawl hoelion."

Glan. MS. C.

"Gan ddur a hoelion."

Glan. MS. K.

"Gan dduriawl hoelion."

Y Cymmrodor.

⁴ "Er y drain Goron"—*Add. MS.*, 14,964 ; *R. J.*, a'r *Cymmrodor.*

⁵ Y darlleniad yn ol *Add. MS.*, 14,964, ydyw :—

"Er dy bum weli
Er dy gyfodi

Crist celi a'th fersi

rhwym fi i'th orsedd."

Y "pum weli" oeddynt yr arch-
ollion a gafodd yn ei ddwyllaw, ei
draed, a'i ystlys.

⁶ Yn blaenori y pennill hwn ceir
yr un a ganlyn yn *Glan. MS. C.* :—

"Ag er goresgyn
vffernawl derfyn } di ymgeledd"
fyddin pobgelyn }

⁷ "Er dy ddigoniad."

Add. MS., 14,964 ; ac *R. J.*

"Er dy eisteddiad."

Glan. MS. C.

"Er dy fawr ddigoniad."

Glan. MS. K.

⁸ "Dyro im gyfraniad."

Glan. MS. C.

LIV.

* CYWYDD I'R DRINDOD.

(O "*The Works of Iolo Goch*," gan R. Jones, tudal. 17).

Y mae y cywydd hwn i'w gael hefyd yng *Ngorchestion Beirdd Cymru* ac yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 8; ac o'r blaenaf y copiwyd ef gan Robert Jones. Ni ddygwyddodd i ni ei weled yn cael ei briodoli i Iolo Goch mewn unrhyw ysgriflyfr; ond mewn ysgriflyfr a gopiwyd oddeutu dechreu y ddeunawfed ganrif, ym meddiant Mr. Edward Griffith, Springfield, Dolgellau, priodolir ef i Edwd. ab Rhees, lle y ceir 100 o linellau. Ceir ef hetyd yn "*Llyvr Huw Lleyrn*" (*Add. MS.*, 14,967, fol. 1.), gydag "*Edwart ap Rys ai Kant*" ar ei ddiwedd. Dywedir (*Enwogion Cymru*, Foulkes, tudal. 270) fod Edward ab Rhys Maelor yn byw tua chanol y bymthegfed ganrif. Ac y mae y ffaith ei fod yn cael ei briodoli iddo ef yn *Llyvr Huw Lleyrn* yn lled gryf o blaid y dywediad mai efe oedd yr awdwr. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg oddi wrth yr arddull mai nid Iolo Goch a'i cyfansoddodd; ac y mae yn ystwythach na'r un a wnaeth Iolo. Fel hyn y dywedir am y cywydd mewn nodyn rhagarweiniol, gan y golygydd, yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*:—

"Wrth ddarllen y cywydd isod, ac ystyried fod yr hen Fardd yn ei flodau tua phum can mlynedd yn ôl, yn mhell cyn y diwygiad Protestanaidd; fe'n synir mor ysgrythyrol a chywir ei olygiadau am Dduw; ac mor goeth ac eglur yw yr iaith a ddefnyddia yn ei gyfansoddiad. O'n rhan ein hunain, fe'n tueddir i farnu i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi ganddo yn ei hen ddyddiau, pan wedi cyrhaedd llawer o aeddfedrwydd barn, a phurdeb chwaeth: ac y mae yn lled debyg fod y ganwyll a oleuasai Wickliffe a'r Lolardiaid

yn yr Ynys hon, wedi cyffroi sylw 'Arglwydd Llechryd' at yr Ysgrythyrau, ffynonell gwybodaeth gywir am Dduw; canys yn mhen ychydig flyneddoedd ar ol hyn, cawn fod yr Arglwydd Cobham, yr hwn oedd yn ddysgybl enwog i Wickliffe, yn cael achles yn Aber Tanad, yn agos i Sycharth llŷs yr enwog Owain Glyndwr, lle yr arferai ein Bardd dreulio llawer o'i amser yn ei hen ddyddiau. Ac y mae lle cryf i gasglu fod y gwron hwnw ei hunan wedi yfed yn lled helaeth o ysbryd y Lolardïaid cyn diwedd ei oes."

Yr ydym yn lled barod i gydnabod fod y cywydd yn un rhagorol; ond nid ydyw yn profi mewn un modd fod a wnelo Iolo o gwbl â'r Lolardïaid, a *chaniatau* mai efe oedd ei awdwr. O blegid, yr oedd pob Pabydd deallgar yn credu yn athrawiaeth y Drindod yn gystal ag yr oedd y Lolardïaid. Ac am Arglwydd Cobham (Syr John Oldcastle), yr hwn a roddwyd i farwolaeth yn 1417, ar ol iddo fod tua phedair blynedd yng Nghymru, y mae yn amlwg, oddi wrth yr amseriadau, nas gallasai efe fod wedi dylanwadu dim ar Iolo Goch.

Duw, Ior y duwiau eraill,
Dofydd a Llywydd y llaill;¹
Dawn llawn—Duw yw'n llawenydd—
4 Duw a weddiwn bob dydd.
Dawn² yw gweddio Duw Naf,
Duw byth, nis diobeithiaf!³
Heb Dduw ym' dysg, heb ddim dawn;
8 A Duw agwrdd,⁴ a digawn⁵

¹ "Ereill" a "lleill" ydynt y terfyniadau yn *G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

² Sylwa *R. J.* fod "dawn" yn llin. 3 yn golygu *rhodd*, neu *anrheg*; ond ei fod yn llin. 5 yn golygu y gallu i gyflawni unrhyw weithred feddyliol, megys "dawn llefaru," "dawn gweddio," &c.

³ Yn ysgriflyfr Mr. Edward Griffith ceir y ban a ganlyn ar ol llin. 5 :—

"Dyn buw gweddied 'n bêr
Duw naf ag nid iw'n ofer."

⁴ "Agwrdd" = galluog.

⁵ Yn y ban uchod ceir yr hen ddihareb Gymreig :—"Heb Dduw, heb ddim—Duw a digon."

- Mwyaf yw pwys fy mywyd,
 Ar Dduw byth, nag ar dda'r byd.
 Rhodd yw, rhai addewynt,¹
 12 Rhaid yw ym'² wybod ar hynt;
 Pwy ddeil gof?³ pa ddelw y gwn?⁴
 Pa Dduw? pwy a weddiwn?
 Pybyr Greawdr⁵ pob hoywbeth,
 16 Pob rhai byw, pob rhyw o beth.
 Pwy a wnaeth y nef hefyd?
 Pob rhyw, feirw a byw, a byd?
 Pwy sy'n cynnal, grwndwal⁶ grym,
 20 Llawr yr adail lle'r ydym?
 Pwy a oedd Dduw? pwy a ddaw?
 Pwy sydd piau sy eiddaw?
 Tri'n y nef a gartrefan'—
 24 Tadwys,⁷ Mab, Yspryd glwys Glân.
 Tri Pherson, undôn Unduw,
 Ag nid un, onid un Duw.⁸

¹ "Rhodd yw, y rhai addewynt."

G. B. C.

"Rhodd yw, rhai a addewynt."

C. Ll. G.

"Rhodd ydyw rhai a dywedent
 A rhaid ym wybod ar hynt."

Griffith's MS.

² "Im'."—*G. B. C.*

³ Pwy a ddichon roddi cyfrif?
 —neu amgyffred?

⁴ Pa fodd y gwybyddaf?

⁵ "Greawdr" a geir yn *G. B. C.*; ond y mae y ffurf hono yn gwneyd y llinell yn rhy hir. Sylwa *R. J.* fod "Greawdr" yn well na "Greawdrer" am nad yw yn briodol cyssylltu *gwr* a'r Duwdod. Pa fodd bynag, *greawdr* neu *greawdyr* oedd y ffurfiau hynaf; a chredwn mai anaml y ceir "creawdr" mewn cyfansoddiadau boreuach na'r eilfed ganrif ar bymtheg.

⁶ "Groundwal."—*C. Ll. G.* Ai nid gair o darddiad Anglo-Sacsonaidd yw hwn? Ei ystyr ydyw *sylfaen*, neu *sail*. Defnyddir ef gan Deio ap Ieuan Du (*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 165):—

"A grwndwal pob iaith,
 Yn weithredodig."

Ceir y gair amryw weithiau yn Nhestament Salesbury, megys:—
 "A'e, Tydi yn y dechreuad, ar-glwydd, a groundwaleist y ddayar" (Heb. i., 10).

⁷ "Tadwys" (*fatherhood*); fel y sylwa *R. J.*, defnyddir y ffurf ddansoddol (*abstract*) yn lle y gyfansawdd (*concrete*)—tad.

⁸ Anhawdd iawn, feddyluem, fyddai rhoddi mynegiad eglurach o Athrawiaeth y Drindod mewn mor lleied o eiriau ag a wneir yn y llinellau uchod.

- 28 Nid oes fry, yn eu dwys frawd,¹
Ond yr Unduw a'r² Drindawd.
Trindawd yr Unduw ydynt;
Ag un Duw—gogoned ynt.
Un feddiant yn eu glândy,
32 Un gadernyd, un fryd fry;
Un fraint, un feddiant, un frys,³
Un allu, un ewylllys;
Un dôn,⁴ un wath,⁵ da'n un wedd,
36 Un Duw ynn⁶ yn y diwedd.
Gair oedd yn y Goreu-dduw,
A'r Gair a ddaeth o'r gwir Dduw.
Gwnaethpwyd o'r Gair gwenith-bwys⁷
40 Gnawd glân, Mab gogoned glwys;
Ag o ryw y Goreuair
Y ganed Mab o gnawd Mair;
Ym Methlem o'i fam wythlwys⁸
44 Y ganed ef, Fab gwyn dwys:
A'i eni'n Fab, anian fwyn,
O'r wryf Fair, wir forwyn.

¹ "Nid oes fry enw dwys frawd
Ond yr un Duw yn Drin-
dawd."—*Griffith's MS.*

Golyga "frawd" yma yr un peth
a *gorsedd*, neu *frawdle*.

² Gwell, yn ein tyb ni, ydyw
darlleniad *G. B. C.* :—"Ond yr
Unduw yn Drindawd;" o blegid
yn ol y testyn y mae yr *Unduw* a'r
Drindawd yn cael eu dadgyssylltu.

³ Nid oes genym well eglurhad
nag a rydd *R. J.* ar y gair "frys"
= parodrwydd, neu gyflymder.

⁴ Yr un ymadrodd.

⁵ Eglura *R. J.* y gair hwn fel y
canlyn :—" *Gwath*, 'intent,' 'de-
sign'—a term not to be found in
Dr. Owen Pughe's *Lexicon*." Ond

pa ham na roddasai *R. J.* ei awdur-
dod? Tebycach genym mai gwall
am "waith" ydyw :—

"Un dôn, un waith da'n un
wedd."—*C. Ll. G.*

⁶ Ymddengys i ni hefyd mai
gwall yw "ynn" am "ynt," ac
felly y ceir yn *G. B. C.*

⁷ "Gwenith-bwys" = pur. "A'r
Gair a wnaethpwyd yn gnawd,"
&c.—*Ioan i.*, 14.

⁸ Credwn fod *R. J.* yn gywir pan
y dywed mai meddwl y gair "wyth-
lwys" ydyw yn *brydferth wyth-
waith*, ond y darlleniad yn *Griffith's
MS.* yw :—

"Y methelem oi fam iaithlwys
i ganed ef fab gwyn dwys,"

- Nid o natur dyn yttoedd,
 48 Eithr o Dduw medd Athrodd oedd;¹
 Ag o radd y Goreudduw
 A'r Ysbryd Glân buan, byw.
 Graddau y Mab goreuddoeth
 52 O allu Duw oll y doeth;²
 Dau a gyssylltwyd mewn dawn,
 Duw a dyn, diwyd uniawn.
 Duw yn ein mysg;³ dawn a'n medd
 56 A dry gair, o'i drugaredd,
 I'n dwyn i nef dan ei nawdd—
 Ddofydd a ddioddefawdd.

¹ "Eithr o Dduw, medd athro, Cemmaes, Sir Drefaldwyn.
 'dd oedd."—*G. B. C.*

² "Y doeth" = y daeth. "Dôth" Emmanuel; yr hyn o'i gyfieithu yw,
 ydyw y ffurf a arferir yn awr yn Duw gyda ni."—*Matt. i., 23.*

LV.

I D D U W .

(*O Lyrr Huw Lleyn—Add. MS., 14,967, fol. 81b*).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MS.*, 14,984. Ei benawd yn hwnw ydyw "Cowydd i dduw yn dangos daioni duw i ddyn ymhob peth." Ond nid ydyw y penawd hwn yn rhoddi amgen na syniad lled anghyflawn am ei gynnwysiad. Dechreuwa y bardd trwy gydnabod Crist yn y cymmeriad o Greawdwr y byd; cyfeiria at ei ddyndod, ei Dduwdod, a rhydd iddo ei le yn y Drindod Sanctaidd. Ond nid ydyw hyn amgen nag a geir yn amryw o'i gywyddau, y rhai a ddangosant fod Iolo, fel pob Pabydd arall, yn uniawngred can belled ag y mae athrawiaeth y Drindod yn y cwestiwn. Yna y mae y bardd yn myned rhagddo i sylwi ar ymddygiad Duw at ddyn yn ei ragluniaeth, trwy beri i'r ddaear ddwyn ffrwyth i'r hwn a'i llafuria, a thrwy ddwyn pysg y môr ac ehediaid y nefoedd i dalu teyrnged iddo. Er y daioni hwn o eiddo Duw, dengys y bardd nad oes creadur ar y ddaear mor anniolchgar i Dduw, ac mor elyniaethus i'w gydgreddur, a Dyn. Ac yn olaf, y mae yn symmud ym mlaen i sylwi ar Ddydd y Farn, pan y bydd Duw yn ymddwyn at bawb yn ol eu haeddiant, gan gospi y drwg a gwobrwyo y da. Er nad oes yn y cywydd ond ychydig o'r awen farddonol, eto, y mae yn cynnwys cryn lawer o wirionedd; ac y mae yn werth i'w ddarllen, pe na byddai ynddo ddiin ond adlewyrchiad o feddwl yr oes yng nghylch ymddygiad Duw at ei gredduriaid.

Kreawdr¹ mawr creadur mwyn

croyr awdur

Krist grair mab i vair vorwyn

T. Wms.

¹ Yr oedd beirdd Cymreig y fel creawdwr y byd. Dywed Sion cyfnod hwn yn lled hoff o rod-di lle Cent (*Iolo MSS.*, p. 285) fel y amlwg i'r Ail Berson yn y Drindod canlyn :—

- Keli¹ vn mab duw kulwydd²
 4 Klyw ni dduw tri ddatrwydd
 Tad a gysbryd³ kyd kadair
 A gwir vab o vru gwyrf vair
 Ysbryd wyd galon drwydoll
 8 A Duw a dyn sydd daed⁴ oll
 dirvawr garriad heb dervyn
 wir dduw a vwrriaist ar ddyn
 pob march a ffob tywarchawr⁵
 12 A ardd y maes wir dduw mawr
 Bara os llavuria vo
 I ddyn a gaiff o ddynno⁶
 Kic o bysgod eigiawn
 16 A ddaw i ddyn eiddaw ddawn⁷
 Mawr vydd i obr os gobryn⁸
 Maend⁹ oll val i mynno dyn
 Dir yw i bob y deryn¹⁰
 20 dysgu anrwyddeddu dyn
 Gwyllt ac vchel i helynt
 Gwalch kyn ebrwydded ar gwynt

" Crist, Rhion, Dafon difeth,
 Creawdur

Cariadawl ei Achreth,
 Mab Mair dianair Eneth,
 Pab byd yn peri pob peth."

¹ " Keli " yn gyssylltedig â
 " Krist " yn y llinell flaenorol—
 Crist o'r nef Defnyddir *Celi* hefyd
 fel enw ar yr Hollalluog.

² Defnyddir " Culwydd," fel
Celi, yn gyfytyr ag Arglwydd, neu
 fel arddodiad i *Arglwydd*, *Crist*,
Duw, a *Celi*, megys fel y dywed
 Einion ab Gwgawn (*Myv. Arch.*,
 p. 225):—

" Kyuarch om naf om neuawl
 Arglwyd
 Krist keli kulwyd kwl y
 ditawl."

³ Ac yspryd.

⁴ " Daed " = mor dda ?

⁵ Gallem dybied fod y " tywarch-
 awr " yn golygu yr un peth a
rhychawr, sef yr ych a gerddai ar
 y rych pan yr oedd dau yn tynu
 yr aradr ochr yn ochr. *Rhychawr*
 a *gwelltawr* y gelwid yr ychain
 hyn.

⁶ Oddi yno.

⁷ Tybiwn fod y llinell hon yn
 wallus. Ai nid " ddau ddawn " a
 feddylir ?

⁸ " Gobryn " = haeddu — Mawr
 fydd ei wobwr os yn haeddu.

⁹ Maent.

¹⁰ " Y deryn " = aderyn. Gwir yw
 y dysga pob aderyn anrwyddeddu
 dyn, trwy gyfranu, gallem dybied,
 at ei gyeuron.

- I ddyn mau¹ i wedd ynno
 24 Ar i law a ddaw yn ddo²
 Dilys bod krwth neu delyn
 Yn keisiaw dy huddaw³ dyn
 Dwys gred nid oes grayadur⁴
 28 A wnaethost gorvuost gwir
 Gymin⁵ athwnel yn elyn
 Egni dost ac i gwna dyn
 Ith gorff i tyngant ath gic⁶
 32 Ac ithelw wiw gatholic
 Erraill yn dost athostwng⁷
 I wad⁸ dy vron don⁹ a dwng
 Mynych myn mair eurgrair oll
 36 am herchi dy bum harcholl
 Pam hevyd yny byd y bydd
 pob dyn gelyn yw gilydd
 Salw ywr byd mewn trymvryd trwch
 40 Swyddau ni ad nos heddwch¹⁰
 Ffoi a wnaa kedyrn yn rrwydd
 Er hir glod aur yw harglwydd
 Ai addaw er blinaw r blaid
 44 Ai gynull ar y gweiniaid¹¹
 Na roed neb kytundeb kall
 Ar gwst¹² aur ar gost arall

¹ "Mau" = fel ei eiddo ei hun.

² "Yn ddo" = yn ddof.

³ "Dyhuddaw" = boddhau.

⁴ "Grayadur" = greadur.

⁵ Gymmaint.

⁶ Tyngu i gorff a chnawd Crist —cymmeryd ei enw yn ofer.

⁷ Y mae dau air yn cael eu cys-sylltumorfynychmewn ysgriflyfrau fel na ddeuem i ben pe dechreuem sylwi arnynt.

⁸ "Wad," gwall am *waed*.

⁹ "Don" = amlwg.

¹⁰ Cyfeiriad at arferion pobl y byd yn trachwantu swyddau a budd-iannau eu gilydd.

¹¹ Gorthrymu y gweiniaid trwy eu trethu yn drwm, er cael arian i lwgrwobrwyo eu huwchafaid.

¹² "Gwst" = blinder, neu drafforth —"Na roed . . . ar gwst, aur ar gost arall." Hyny yw, nid trwy orthrymu ereill yr ydym i ddangos ein haelioni.

- Yn wysc¹ byr vydd yr hwyse yr hawc²
 48 hwyl berw llif hael ber llafiawc³
 A vo hael gavael gyvun
 A hy⁴ bid oi dda e hun
 Anoff owdl oni ffeidir
 52 Mor tawch⁵ a dyr muriaur tir
 Ar melld a lyse yr elldydd
 Ar gwynt a ddadwreiddia r gwydd⁶
 Oni ddel i ryvelu
 56 Korn dydd brawd ar giwdawd gu
 Yw dwyn val yn oed vnawr
 Y dydd i benn mynydd mawr
 Ac ynno wiw ogoned
 60 Y bydd grist budd⁷ gred
 Yn dangos y tabl glos tau⁷
 I luoedd dyweliau⁸
 Yn derbyn llu gwyn in gwydd
 64 Ithe heulaw⁹ iaith hylwydd
 A rraid i vedydd ar hynt¹⁰
 Ith assw¹¹ am a wnaethessynt
 Dyall gorthrwm ywr dial
 68 Y dyn ai varn yni dal¹²

¹ "Yn wysc . . . hwyl" = syrth y llwyddiant?

² "Byr fydd y rhwysg yr hawg" = am dymhor byr y parha y rhwysg.

³ Nis gallwn ddyfalu beth a allasai fod meddwl y bardd yma.

⁴ A fo haul . . . a hy, bydded o'i dda ei hun.

⁵ "Mor Tawch" = *German Ocean*.

⁶ Pa beth a allasai fod meddwl y bardd pan yn cyfansoddi llin. 51-54?

⁷ "Tabl glos tau,"—pa beth a feddylir, wys?

⁸ "Dy weliau" = dy archollion. Y mae arddull y bardd yn lled drwstan yma, gan ei fod yn son am Grist yn y trydydd person yn llin 60, ac yn ddirybudd yn newid am yr ail berson.

⁹ "Ithe heulaw" = i'th ddeheu-law.

¹⁰ A'r rhai difedydd ar hynt.

¹¹ Aswy.

¹² "Yni dal" = yn ei dal. Y mae y gorthrymwr yn cael ei gospi trwy gael ei ddwyn i ymdeimlo o'i orthrwm ei hun.



CYWYDDAU DUWINYDDOL.

493

Gwae ni haeddawdd dy nawdd ner
dy vendith drwy gyviownder
Gwyn i vyd kywir tiriawn
72 A gwae i gorff a vo geuoc¹ iawn
Iolo Goch ai kant.

¹ Hocedus.

LVI.

KOWYDD I DDUW.

Cymmerwyd y cywydd canlynol o ysgriflyfr a gopiwyd oddeutu'r flwyddyn 1620, yr hwn sydd ym meddiant Mr. Richard Williams, Celynog, Drefnewydd; ond methiant hollol fu ein hymgais i ddod o hyd iddo mewn un man arall—yn ysgrifenedig nac yn argraffedig. Felly, yr ydym yn cymmeryd y cyfleusdra hwn i ddiolch i Mr. Williams am ei adysgrifenu i ni. Rhaid i ni addef ar y dechreu fod y cyfeiriadau at Llanbeblig (llin. 11) a St. Peblig (llin. 17) yn codi peth ammheuaeth parthed i'w awduriaeth. Naturiol fyddai gofyn, pa ham yr oedd Iolo Goch, os efe oedd yr awdwr, yn son am Lanbeblig, wrth dref Caernarfon, ac yntau yn byw yng nghanol Sir Ddinbych? Yr ydym eisoes ("Braslun," &c., tudal. 11 a 32) wedi sylwi i Iolo briodi merch ieuanc o deulu yn Lleyn, Sir Gaernarfon; ond nid ydyw hyny yn rhoddi nemawr gynnorthwy i ddadrys y dyryswch. O blegid os caniateir fod ei wraig yn enedigol o, ac wedi treulio ei thymhor morwynol yn, Lleyn—yr hwn a orwedd yn y rhan ddeheuol o Sir Gaernarfon, nis gallwn ddyfalu pa fodd y gall hyny roddi cyfrif dros fod y bardd yn myned i addoli i Eglwys Llanbeblig. Ond gan fod dygwyddiadau a helyntion bywyd Iolo Goch, yn gystal a'i symmudiadau o'r naill le i'r llall, yn anhysbys, y mae yn ammhosiibl eu dwyn i brofi nac i wrthbrofi ei gyssylltiad â Llanbeblig. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg fod yn rhaid i ni naill ai dyfod i'r casgliad mai nid efe oedd awdwr y cywydd, neu ynte iddo fod yn dal rhyw gyssylltiad â'r plwyf a nodir yn ystod rhyw ran o'i fywyd.

Pa fodd bynag, yn ein tyb ni, prin y meddyliwn fod arddull y cywydd yn cadarnhau yr haerriad mai Iolo Goch

oedd ei awdwr. Ond, pwy bynag ydoedd, y mae yn gyfansoddiad rhagorol. Dechreu a gydag athrawiaeth y Drindod, gan symmud ym mlaen i ymdrin â marwolaeth a haeddiant iawnol Crist; yna ymdrinia, yn gyffelyb, ond gyda pheth gwahaniaeth, yn ol yr hyn a geir yn Cywydd Rhif LVII.—ar waith y Greadigaeth. Hefyd, y mae y gwahaniaeth a welir rhwng y ddau gywydd, o ran trefn a'r gwaith a briodolir i'r chwe' diwrnod, yn taflu peth ammhueaeth gyda golwg ar eu bod yn gynnyrchion yr un awdwr; eto nid ydyw hyn yn ddigon o brawf ynddo ei hunan. Gallasent fod wedi eu cyfansoddi gan yr un bardd ar wahanol adegau ar ei fywyd, ac iddo ganu y naill ar ol dyfod i deimlo diffygion a ffael-ddau y llall. Pa fodd bynag, hyd y gwyddom ni, nid oes unrhyw brofion dros ddyweyd mai nid Iolo Goch oedd ei awdwr.

- Duw un a thri dawn iaith rydd
 Duw tri ag un tragowydd¹
 Duw ar ddiwedd yngweddi²
 4 Duw dod dy drigaredd di
 Yna ith elwir yn unawr
 Duw ddialedd a nowo-redd³ mawr
 Wedir loes ar groes y grog
 8 Duw tragwrol trugarog
 Duw yn dad dewin⁴ didwyll
 Duw fab duw ysbryd pob pwyll
 I lan beblig⁵ y leni
 12 Uno ith royd yn un a thri

¹ Y mae y bardd, mewn iaith dlos a llithrig, yn dechreu y cywydd trwy roddi crynodeb cynnwysfawr o Athrawiaeth y Drindod; ar yr hon yr ymhelaetha rhagllaw.

² "Yngweddi" = fy ngweddi. Golyga "*diwedd* yngweddi" y prif destyn, neu eithafwynt ei weddi—sef Duw.

³ "Nowo-redd"—gwall am *now-redd*, mae'n debyg.

⁴ Golyga "dewin" yma yr un peth a *proffwyd*—a chyfeirir yma at ragwybodaeth Duw.

⁵ Ym mhlwyf Llanbeblig y saif tref Caernarfon. Y mae yr Eglwys yn gyflwynedig i St. Poblig, yr hwn, yn ol rhai, oedd fab i Macsen Wledig; ond yn ol ereill, i Owain Ffinddŷ.

- Yn drindawd undawd iownder
 Y ochel¹ i swydd ywch law r ser
 Yn dad yn fab yn a berth²
 16 Yn ysbryd kedernid³ kerth
 Peblig ddiddig dy addas⁴
 Pardwn ar bob grwn⁵ a gras
 Duw athug⁶ diaddug⁷ don
 20 yngwl⁸ at i eyngylion
 Tithe⁹ a ddygest wyt ddoethaf
 Fyw fymledd¹⁰ attad fy naf
 Yn dad yn frenin kadarn
 24 Yn fab ysbryd yn farn¹¹
 Delwe uwch o aur dilin¹²
 Dewr dy law duw ar dy lin
 Ai grys o wayd ai groes wiw
 28 Dy huddwr pawb duw heddiw
 Gleni¹³ gwawd ysbryd glan gwyn
 Deirid¹⁴ ar lun yderyn
 Pedwar rryw pren mayn nefawl
 32 Yn dy groes un duw grasawl
 Sipris¹⁵ si sy . . ws¹⁶ prisiaw
 Palma o li fa¹⁷ law

¹ "Y ochel:" ai gwall am
 "uchel" ydyw hwn?

² "Aberth" a ddylai hwn fod.

³ "Kadernid."

⁴ "Dy addas"—h.y., tŷ addas,
 tŷ addoliad.

⁵ "Grwn"—llain o dir—a ridge.

⁶ "Athug"—a'th ddug.

⁷ Tybiwn fod rhyw wall yma.
 Yn ol y geirlyfrau golyga "addug"
 yr un peth a *burriad*; felly wrth
 "diaddug" y golygir yn *ddifuriad*.

⁸ "Yngwl" (o *yn* a *cwl*)=mewn
 camwedd. Naill ai yr oedd Peblig
 yn Sant gwaeth na'r cyffredin neu
 y mae rhyw wall yma. Ond tybiwn
 mai "yngwyl" (=yn gyhoedd) a
 ddylai fod.

⁹ Duw a feddylir yma.

¹⁰ Hwyrach mai *symledd* a olygir.

¹¹ Gwell fuasai:—"Yn fab, yn
 ysbryd, yn farn."

¹² "Aur dilin"—*beaten gold, fine
 gold*.

¹³ "Gleni"—Ai *gleini*, h.y., y
gleiniau (*beads*) a feddylir?

¹⁴ Deirid (Deiryd)=*perthynol* i=
to pertain.

¹⁵ Cypreswydden.

¹⁶ Y mae yma goll llythyren a
 gwall—hwyrach mai "*a'r sydrus*"
 (h.y., *cedrus* = *cedrwydden*) a
 ddylai fod.

¹⁷ "Olifa"—olew-wydden. Nodir
 yma y pedwar pren o'r rhai, yn ol
 traddodiad, y gwnaed Croes Crist.

- 36 Naw angel¹ hwynt a welir
 Gyda thi ar goed a thir
 Un o bob gradd yn adde
 Rhwydd iach o Radde nef²
 Pedwar kant pumil gwiliwn³
 40 Un duw ar dy gorff yn dwn
 A ffymtheg yngwaneg yn ghor
 Rrwygaw a thrigain rragor
 Dy ladd o fodd yn goddef
 44 Dy nawdd un mab duw nef
 Dy ladd o fodd yn goddef
 Dy nawdd un mab duw nef⁴
 Dywaid⁵ a roist dros wyr
 48 Dy oroyn⁶ oll duw eryr
 Brenin wyd bwriwy⁷ mewn bedd
 Bron hynod mewn brenhinedd

(Gwel "Awdl Gyffes y Bardd," tudal. 477). Ond ymddengys nad ydyw y beirdd yn cytuno gyda golwg ar y "pedwar pren."

¹ "Naw angel." Tybiai yr hen dduwinyddion fod naw gradd o angylion yn y nefoedd. Ceir cyfeiriad i'r un perwyl gan Gutyn Owain (*Gorch. Beirdd Cymru*, tudal. 220), yr hwn a sylwa :—

"Heddyw ei lys o'i haddef,

A'i neuadd yw nawradd nef."

Y graddau hyn, meddir, ydynt Thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau, rhinweddau, galluoedd, cerubiaid, seraphiaid, archangylion ac angylion.

² Naill ai fe ddylai "nef" gael ei ysgrifenu yn *ne*, neu ynte "adde," yn y llinell flaenorol, yn *addef*.

³ Yn ol fel y mae y rhifnodau a geir yn llin. 39, 41 a 42 wedi eu gosod ar lawr yma, y maent yn gwneyd y

swm o $(400 \times 5,000) + 15 + 60 = 2,000,075$; ond o bosibl mai yr hifnod a feddylir ydyw 5,475, sef rhif y blynnyddoedd o'r greadigaeth hyd farwolaeth Crist. Nid ydyw y Dr. Hales, yr hwn a rydd 5,444, yn gwahaniaethu ond ychydig oddi wrth hyn. Ond fel y gwelir y mae yr amseryddiaeth a roddir yma yn gwahaniaethu yn lled fawr oddi wrth yr un a geir yn Cywydd Rhif LVII., llin. 65.

⁴ Fe welir fod y ban yn cael ei ailadrodd — bai y copiwr, yn ddiammeu.

⁵ "Dywaid" = dy waed?

⁶ Orhoen = sirioldeb. Dyfyna y Dr. W. O. Pughe fan o waith Gwilym Tew, yr hwn a ddarllena fel y canlyn :—

"Duw, à garai dêg orhoen,
A droes y pumoes o'u poen."

⁷ "Bwriwyd," mae'n debyg.

- Orogl badd¹ teg arglwydd wyt ti
 52 Er gwledde i arglwyddi
 Nid hendad wyd ith gadair²
 Ond duw fab yn fab i fair
 Unoyd³ ywr ysbryd iownaf
 56 Dy nawdd ydiw duw naf
 Yn un duw yn Iawn ddell⁴
 Yn dri ag un pen kyn kall
 Drych haul fal ydrych hoyw len
 60 Ssyldy⁵ byd sy ywch dy ben
 Un ywr haul leuer⁶ hoyw lyw
 I ti iach un a thri yw
 Felly r wyd duw profwydi
 64 Yn iaith roeg yn un a thri⁷
 Dygest ath groes bumoes byd⁸
 A ffoen uffern a ffenyd
 Ymerodr wyd y moroedd
 68 Awyr a thir oth wyrth oedd
 Tydi a wnaeth mab maeth mair
 Iowngost bob peth o ungair⁹
 Duw sul i gwnaethost di son
 72 Yngwyl nef ag yngylion¹⁰

¹ Ai nid "aroglaidd" a ddylai hwn fod?

² Nis gallwn ddyfalu gwell eglurhad ar y llinell hon a'r un sydd yn ei dilyn na thrwy dybied mai yr hyn a feddyliai y bardd oedd—fod hawl Crist i'w orsedd yn seiliedig nid ar ei hawlfraint gynhenid iddi fel Duw ond ar ei haeddiannau fel y Duw-ddyn.

³ Un oed?

⁴ Y mae yn amlwg fod y llinell hon yn wallus.

⁵ Sylddy (*observatory*)? Ni wyddom am unrhyw adeilad o'r fath a allasai fod yn amser y bardd.

⁶ "Lleuer" = goleuad.

⁷ Ym mha beth y mae y bardd yn gweled tebygolrwydd yn yr iaith Roeg rhwng yr *haul* a *Duo*; ai yn nifer y llythyrenau? Ysgriflenir y naill yn ἥλιος, ac y mae yrenw *Sol* = duw yr haul, yntardduo σόλος = llafn crwn; ac ysgriflenir y llall yn θεός. Felly nid yn hyn y mae y tebygolrwydd.

⁸ Yr oedd y beirdd yn y cyfnod hwnw yn lled barod i ddefnyddio yr ymadrodd hwn.

⁹ Y gair "Bydded."

¹⁰ Gwel Cywydd Rhif LVII., llin. 6.

- Duw llun dayar i aros
 Dro nawdd a dwr y nos¹
 Diffrost mowrth² mewn diffriidd
 76 Do lyssau prennau or pridd
 Duw mercher ffer i werin³
 Do haul do leuad a hin
 Da ydoedd dife adar
 80 A gwyllt ynifeliaid a gwar⁴
 Duw gwener ner union
 Adda ag efa gyfion⁵
 Duw sadwrn eurdwrn⁶ ir daith
 84 Duw i gorffenaist dyr⁷ waith
 Taith ufudd doyth oddeg⁸
 Taranau tyrnau⁹ teg
 Yntau a wnaethost y tad
 88 Dwyn llewyrch dan y lleyad
 A bod imi mewn byd mai
 Dafod o dduriawn¹⁰ ddifai

¹ Nid ydyw hwn yn cytuno ag adroddiad Moses nac ychwaith â Cywydd Rhif LVII.

² Y mae y gwaith a briodolir i ddydd Mawrth yma, can belled ag y mae yn myned, yn cytuno â gwaith y *trydydd* dydd yn ol Moses.

³ "Ffer i werin" = ffâr (o'r Seis. *fare* = ymborth) i'r bobl; ond pa ymborth a grewyd ar y diwrnod hwn? Dywed Cywydd Rhif LVII. mai ar ddydd Mercher y crewyd y pysgod a'r adar, ond y cywydd hwn a ddywed mai ar ddydd Iau, tra y dywed Moses mai ar y *pummed* dydd y crewyd hwynt.

⁴ "Gwar" = dof.

⁵ Y mae yr hyn a ddywed y bardd yma, yng nghylch creu dyn ar ddydd Gwener, a gorphen ei waith ar ddydd Sadwrn, yn cwbl gytuno ag adroddiad Moses.

⁶ Pa beth a ddichon "eurdwrn" fod? Defnyddir *twrn* (o *turn*) yn rhai manau -- sir Drefaldwyn er enghraifft -- am gymmwynas = *twrn da* (*a good turn*); ac hwyrach mai *cymmwynas euraidd* a feddylir yma wrth "eurdwrn."

⁷ Dy.

⁸ "doyth oddeg" = doeth fwriad?

⁹ "Tyrnau." Gwel nodyn 6 uchod.

¹⁰ "Dduriawn" = ddur iawn? -- tafod a allai ddal i glodfori Duw.

Hyd dydd barn pe bai arnat
92 Ben pres¹ nes kuffes² nis kaf
Ni dderfydd i brydydd brau
Diwarth ddatgan dy wrthiau
Tragarawl wyt tragwrawl
96 Trigaredd dod hynod hawl
In ddigel fy nuw geli
Yn awr angau maddey imi

Iollo goch ai kant.

¹ "Ben pres." Y mae y gair gyda golwg ar y "dafod o ddur.
hwn yn cadarnhau ein tybiaeth ² "kuffes" = cyffes

LVII.

*COWYDD YN DANGOS Y DYDDIE I CREAWDI DUW
BOB PETH YNDDYNT A BWRIANT ADDA O
BARADWYS IOLO GOCH AI GWNAETH.

(*O'r Add. MS., 14,984, fol. 179*).

Ceir y cywydd hwn, ond yn fwy ammherffaith fyth, yn *Add. MS.*, 15,007, gydag enw Iolo Goch wrtho. Ond ymddengys fod ei awduriaeth yn amnheus, o blegid, ceir ef hefyd yn *Y Brython*, cyf. iv., tudal. 429, dan y penawd "Cywydd o ddechreu'r Byd hyd Grist," lle y priodolir ei awduriaeth i Dafydd Ddu o Hiraddug. A dywed Gweirydd ap Rhys (*Hanes Llenyddiaeth Gymreig*, tudal. 117) ei fod yn cael ei briodoli i Sion Cent. Ceir ef hefyd yn *Add. MS.*, 14,966, gydag enw "Dafydd Ddu o Hiraddyg" wrtho; ac yn *Add. MS.*, 14,866, gydag enw "Doctor John y Kent." Pa fodd bynag, ni chawsom amser i gymharu ein hysgrif â'r darlenniadau hyn. Gan fod yma ansicrwydd, a bod enw Iolo Goch wrtho mewn dau ysgriflyfr o leiaf, rhoddwn ef yma ar y tir fod cymmaint o sail dros ei dadogi iddo ef ag un o'r lleill, ac yn wir, yn fwy felly nag i Dafydd Ddu o Hiraddug. Ni welwn y tebygolrwydd lleiaf ynddo i ddim a wnaeth y bardd hwnw. Credwn mai naill ai Sion Cent neu Iolo yw ei awdwr.

Yn anffodus, y mae yr ysgriflyfrau o'n blaen yn wallus i'r eithaf. Ond pwyl bynag oedd awdwr y cywydd canlynol, a chan nad beth am y wisg dyllog a roddir am dano yma, rhaid cydnabod ei fod yn gyfansoddiad lled dda. Heb law rhoddi braslinelliad o'r greadigaeth, rhoddir ynddo le amlwg i'r cwmp yn Adda, a'r adferiad yng Nghrist. Y mae y gynghanedd, ac amryw o'r syniadau, yn gyffelyb i'r hyn a geir yng ngweithiau Iolo Goch. Nid ydyw ei hanes

o'r greadigaeth, fodd bynag, yn cytuno â'r adroddiad a rydd Moses, o ran trefn y dyddiau creadigol; ac nid ydyw ychwaith yn cytuno â'r drefn greadigol a geir yn Cywydd Rhif LVI.

- 1 Digam¹ i gwnaeth duw gymwyll²
dechrau byd diochyr³ bwyll
- 2 Pob rhyw beth difeth ofeg
- 4 a greawdd duw mewn gradd deg⁴
- 3 Angylion nef yngwyl naf
ynt a wnaeth duw yn gyntaf⁵
- 4 Ar dduwsul arwydd oesoedd⁶
- 8 y gwnaeth hwynt ag uniaith oedd⁷
- 5 Duw llun i gwnaeth dduw yn llowydd
yr haul deg er hwyliaw yr dydd⁸
- 6 Ar wybyr loiw ar gowoedd⁹
- 12 ar ser¹⁰ oll gorau Saer oedd
- 7 Diw morth gorau ddameg
y gwnaeth y tad gwriaith teg¹¹ gwrthay

¹ Hyn yw, yn uniawn.

² Cymhwyl=rheswm,myfyrdod.

³ "Diochwr."—*Add. MS.*, 15,007.

⁴ "Mewn gwiw radd deg."
Add. MS., 15,007.

⁵ "Engylion oll ynylan iaf
Dawn gynt awnayth duw yn
gyntaf."
Add. MS., 15,007.

⁶ "Ai urddas oedd."
Add. MS., 15,007.

⁷ "Y gwnayth ef hwnt ag un-
iaith oedd."
Add. MS., 15,007.

⁸ "Duw llyn i gwnayth Dduw
llowydd
yr haul deg er hwyliaw y
dydd."—*Add. MS.*, 15,007.

Y mae yn amlwg nad ydyw y bardd yn dilyn trefn Moses wrth roddi cyfrif am waith y dyddiau creadigol. Ail ddydd y bardd yw

dydd cyntaf Moses. Dywed Moses i *oleuni* gael ei greu ar y dydd cyntaf, ac iddo wneyd y "ddau oleuad mawrion" ar y pedwerydd dydd; ond yn ol y bardd, ar ddydd Llun (sef yr ail dydd, neu y cyntaf can belled ag y mae a fyno â'r greadigaeth *faterol*) y gwnaed yr haul. A ydym i ystyried hyn fel dysgeidiaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg mewn perthynas i drefn y greadigaeth?

⁹ "Louw arguoedd."—*Add. MS.*, 15,007.

"Ar gowoedd" = ar gyhoedd?

¹⁰ "Syr."—*Add. MS.*, 15,007. Yr oedd "syr," yn gystal a "ser," yn cael ei arferyd fel lluosog am "seren."

¹¹ "Duw mowrth gore da dameg i gwnaeth y tad gwrthay teg."—*Add. MS.*, 15,007.

"Gwrthay" = gwyrthiau.

- 8 Y moroedd yn gwroedd gall¹ gynt myroedd
 16 ar tiroedd or tu arall
 9 Duw mercher myfyr fy fu yr mab²
 diarbed i gwnaeth duw eurbab³
 10 Y pysgod, i, ddyfod i ddyn
 20 pawb i dre⁴ pob y deryn⁵
 11 Difiaû y gwnaeth dyw ofydd
 yr holl nifeilued⁶ yn rhydd
 12 Drud arfaeth drwy derfyn
 24 ar trai⁷ yn dda ir truan ddyn
 13 Duw gwener yn deg uniawn
 Adda a wnaeth yn addwyn iawn⁸
 14 Ef a dynâodd fy nawdd naf⁹
 28 iesyn¹⁰ oedd asen Addaf
 15 I wneuthur ai hoywbur law¹¹
 gorau i gwyddiad gwraig iddaw

¹ "Y moroedd gynt myroedd gall."—*Add. MS.*, 15,007.

Nid oes gwahaniaeth ystyr rhwng "moroedd" a "myroedd"; ac y mae mwy o synwyr yn narlleniad *Y Brython* :—

"Moroedd a gwynt mawredd gall."

² Llinell hynod o wallus : y darlleniad yn ol *Add. MS.*, 15,007, ydyw :—"Duw mercher myfyr fur mab."

³ "Duw eurbab,"—y mae y bardd yn lled hoff o gymhwyso yr enw *Pab* at Dduw a Christ ; ac y mae trwy hyny yn dangos ei barch i'w ben ysbrydol o Rufain.

⁴ "I dir."—*Add. MS.*, 15,007.

⁵ Tra y mae yr hyn a ddywedir gan y bardd am ddydd Mawrth, can belled ag y mae yn myned, yn

cyfateb i'r gweithredoedd a briodolw Moses i'r ail ddydd ; yn y pummed dydd y geisid Moses yr hyn a gysyllta y bardd â dydd Mercher.

⁶ "Anifeiliaid."—*Y Brython*.

⁷ "I droi'n dda."—*Y Brython*.

⁸ Yr ydym yn teimlo ein hunain yn gwbl analluog i gyssoni hyn â'r hanes yn Genesis. Y mae yn wir fod dydd Gwener yn *chweched* dydd yn ol cyfrif y bardd, ond gan fod ei ail ddydd ef yn cyfateb i ddydd cyntaf Moses, o ran natur y gwaith a wnaed, y mae yn amhosibl eu cyssoni.

⁹ "Duw a dynawdd a'i nawdd Naf."—*Y Brython*.

¹⁰ "Iesin."—*Y Brython*.

¹¹ "Gwnaeth yn iawn a'i loywdawn law."—*Y Brython*.

- 16 Duw Sadwrn kyn kyfrwn kawdd¹
 32 bran deg i bren digawdd²
 17 A gosod pob negessydd³
 oi gwiw dawd ef i gadw dydd⁴
 18 Duw Sŵl fu yr dewis hawdd
 36 diffig sedd i gorffwysawdd
 19 Pob rhyw ddim pairiaidd⁵ oedd
 iawn weithiau ar a wnaethoedd
 20 Ag Adda duw ai gwyddiad⁶
 40 ag Efa deg o gof dad
 21 O fewn y gaer ni fynn gawdd
 paradwys i priodawdd⁷

¹ "Cyn ymddwyn cawdd."

Y Brython.

Y meddwl yw—*cyn troseddu*: cyn
 cwmp ein rhieni cyntaf.

² "Buan deg i bendigawdd."

Y Brython.

³ "Da gossod pob negessydd."

Add. MS., 15,007.

⁴ "Oi nef i gadw nydd."

Add. MS., 15,007.

"A'i giwdawd ef i gadw dydd."

Y Brython.

⁵ Peraidd?

⁶ "Ag Addaf Duw ar gwydd-
 iad."—*Add. MS.*, 15,007.

"Duw a'i gwyddiad" (= a
 wyddai) sydd gywir.

⁷ "Mewn ei gaer ni mynai
 gawdd

Paradwys lle'u priodawdd."

Y Brython.

Wrth gymharu y bardd gyda'r adroddiad yn Genesis i., cawn eu bod yn
 sefyll fel y canlyn o ran gwaith y gwahanol ddiwrnodau :—

Moses.

- (1). *Y dydd cyntaf.* Dygiad
 goleuni i fod, a'i wahanu
 oddi wrth y tywyllwch.
 (2). *Yr ail ddydd.* Gwneyd y
 ffurfafen fel canolfur rhwng
 y dyfroedd.
 (3). *Y trydydd dydd.* Gwahanu
 rhwng y dyfroedd a'r tir; ac
 ymddangosiad bywyd llys-
 ieuol.
 (4). *Y pedwerydd dydd.* Penodi
 yr haul a'r lleuad; a gwneyd
 y ser.

Y Bardd.

- (1). *Dydd Sul.* Creu yr angylion.
 (2). *Dydd Llun.* Gwneyd yr haul.
 (3). *Dydd Mawrth.* Gwneyd y
 moroedd a'r tiroedd.
 (4). *Dydd Mercher.* Gwneyd y
 pysgod a'r adar.
 (5). *Dydd Iau.* Gwneyd yr anifeil-
 iaid.

- 22 Ni buant trig o bwynt iach
 44 yn hoïw ymhaïach yno hayach¹
 23 Efa a wnaeth o fewn awr
 ai dial kyn y dwyawr²
 24 Prin i dug or pren dawn degwm³
 48 afal troes yn ofal trwm
 25 Ai gymryd gwedi yr gamraith
 o angel duw yn gole yr daith
 26 Ai gyrru hwy or gaer honn
 52 yn ebrwydd i cynebron⁴
 27 Ag Adda yn gynta' gawdd⁵
 ai law fawr a lafuriawdd
 28 A chaib lem gwell aniwyll
 56 addail tost i ddial twyll⁶

(5). *Y pummed dydd.* Ymddangosiad bywyd anifeilaidd, pysgod, ac adar.

(6). *Y chweched dydd.* Ymddangosiad bywyd llysiuol o radd uwch; creu dyn a'i fendithio.

(7). *Y seithfed dydd.* Duw yn gorphwysu.

(6). *Dydd Gwener.* Creu dyn.

(7). *Dydd Sadwrn.* Bendigo dyn.

(8). *Dydd Sul.* Duw yn gorphwysu.

¹ Y mae y llinell hon yn hynod o wallus, ac nid oes angen am "ymhaïach" yn ei chanol. Y mae darlleniad *Add. MS.*, 15,007, o'r ban hwn gryn lawer yn well:—

"Ni byant hwy o bwynt iach
 yn huawdl yno hayach."

Gwelir nad oedd y bardd o'r farn i Adda ac Efe fod yn hir yng Ngardd Eden cyn pechu.

² "Kyn pen dwyawr."—*Add. MS.*, 15,007.

³ Y mae y llinell yn rhy hir yn y testyn. Y darlleniad yn ol *Add. MS.*, 15,007, ydyw:—

"Prin i dyg or pren degwm."

Ystyriai y bardd firwyth y pren gwaharddedig fel degwm i Dduw;

ac fe allai ei fod yn olrhain tarddiad y sefydliad degymol yn ol mor foreu a hyn.

⁴ Defnyddir *cynhebrung* mewn rhai parthau o Gymru yn lle "claddedigaeth"; ond y meddwl yma ydyw anfon, neu ddilyn, yn y cymmeriad o osgordd neu gydymaith. Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair yn Nhestament Salesbury (Act. xx., 38):—"Ac wy a'i cynhebryngesant i'r llong."

⁵ "Gawdd" = droseddodd.

⁶ "A gaib lum gwbwl am wyll ddelw tost i ddial twyll."

Add. MS., 15,007.

Fe welir fod y bardd wedi d'od o hyd i gaib yn rhywle i Adda.

- 29 Deng mlynedd dduedd ddall
ar hugain y bŷ yn rhygall
- 30 A nowcant moliant milwr
- 60 befr i gorff i bu fyw yr gwr¹
- 31 A chwedi bradychu brad
marw Adda mawr arwyddiad
- 32 Bu yn vphern figyn wern fodd²
- 64 bedeir mil bowyd or modd
- 33 A chwechant ni haeddiant hedd³
yn flin Adda o flynyddoedd⁴
- 34 A ffedair⁵ och na ffeidiwn
- 68 mlynedd hijr fŷ orwedd hwn⁶
- 35 Y doeth Crist didrist oedd
dan yr rhaff i dynir yr oesoedd
- 36 Darfu ir mai difai fu yr modd⁷
- 72 ddiystyru da iawn i dyscodd
- 37 I gymryd diwyd deuair
gnawd i fam ganaid fair

¹ "Fawr gor i by fyw /r/ gwr."

Add. MS., 15,007.

Rhwng y ddau ddarlleniad yr ydym yn casglu mai rhywbeth yn debyg i hyn a ddylai fod :—

"Fawr ei gorff bu fyw yr gwr."

² "Byn /n/ yffern fignwern fodd."

Add. MS., 15,007.

Yn y llinell hon, a'r rhai dilynol, rhoddir ar ddeall i ni i Adda fod yn uffern o'i farwolaeth hyd ddyfodiad Crist.

³ "A chwechant kyn tyfiant hedd."

Add. MS., 15,007.

⁴ "Flin addaf o flynyddoedd."

Add. MS., 15,007.

Gwelir yma dwyllodl.

⁵ Y mae y bardd yn gosod 4,604 o flynyddoedd rhwng marwolaeth Adda ac ymddangosiad Crist. O bosibl nad oedd yu dilyn yr amser-

yddiaeth a dderbynid yn ei oes. Rhydd yr Archesgob Usher (*Annales Veteris et Novi Testamenti*, 1650-54) o farwolaeth Adda hyd Grist yn 3,074 o flynyddoedd; a'r Dr. William Hales (*A New Analysis of Chronology*, 1809-14) yn 4,481 o flynyddoedd. Ond fe ein hysbysir gan De Vignoles, yn ei ragymadrodd i'w *Chronology of Sacred History*, iddo gael fod y gwahanol amseriadau a roddir o'r Greadigaeth hyd Grist yn dros ddau cant—y byraf yn 3,483, a'r hwyaf yn 6,984, o flynyddoedd. Felly byddai yn orchwyl anhawdd penderfynu pa amser-yddiaeth a ddilynir yn y cywydd hwn.

⁶ "Blynedd hir fur gorwedd hwn."—*Add. MS.*, 15,007.

⁷ Yr oll a wyddom am y llinell hon ydyw ei bod yn rhy hir.

- 38 Gwirion oedd gwarchau a wnaeth
 76 y bel ynni fabolaeth
 39 Deuddeg mlynedd iownwedd ior
 ar higaïn gynt a rhagor
 40 Y bŷ yr gwr *gynt* a garwn¹ bur a garwn
 80 bowyd teg² yn y byd hwn³
 41 Ana fŷ tyn hyn o bwynt
 waed erchyll wedi i orchwyl⁴
 42 Ni ffrynn ef Crist didrist daith
 84 waed ebinweddwech⁵ yr unwaith
 43 Diddig y bu yn ddiodde
 duw ai gnawd an dug i ne

Iolo Goch⁶

¹ "Y bur gwr byw a garwn."

Add. MS., 15,007.

² "Hir."—*Add. MS.*, 15,007.

³ Yn dilyn llinell 80, ceir a ganlyn, fel diweddawd, yn *Add. MS.*, 15,007; gan adael allan amryw o'r llinellau yn ein testyn:—

"Diddig i gwnaeth Duw oddef

Duw ai gnawd an dwg i nef

Gwnawn nine fyw gan iawn fodd

ar y pren er an prynnodd

ni phryn Krist didrist ywr Iaith

gwaed winwedd gwedir vn-

waith

ag nid oes gwedi foes fo

mab brenin mwy an pryno."

⁴ Y mae y ban hwn yn rhy wallus i ni gynnyg unrhyw sylw arno.

⁵ O bosibl nad ydyw darlleniad

Add. MS., 15,007, yn agos yn gywir yma, ond hwyrach mai

"gwaed rinwedd gwedir un-waith"

a fyddai oreu. Y meddwl, yn ddiau, ydyw, mai *un* waith yn unig y bydd Crist farw.

⁶ Y mae y cywydd hwn yn *Add.*

MS., 15,007, wedi ei arwyddo

"Iolo Goch ai kant—1400"; ond y

mae yr amseriad "1400" mewn

llaw ddiweddarach na'r cywydd.

A chan y tybiwn mai oddeutu canol

yr eilfed ganrif ar bymtheg yr ad-

ysgrifenwyd yr ysgriflyfr, nis gall

amseriad mewn llaw mor ddi-

weddar fod o'r gwerth lleiaf tuag at

benderfynu amseriad y cywydd ei hun.

LVIII.

*COWYDD I DDUW AG IR BYD.

(*O'r Add. MS., 14,966, fol. 25.*)

Fel y gwelir ar ei ddiwedd, fe briodolir y cywydd hwn hefyd i'r Dr. Sion Cent—yr hwn oedd gydoeswr â Iolo Goch. Ac, o ran ei gynghaneddion, y mae yn llawn mor debyg i waith Sion Cent ag ydyw i waith Iolo. Ond, gan y priodolir ef hefyd i'r olaf, rhoddwn ef yma. Pwy bynag ydoedd yr awdwr, tybiwn y deil i'w gymharu â'r farddoniaeth dduwinyddol a gynnyrchid yn gyffredin yn yr oes hono.

Yn *Y Ffydd Ddi-fuant*, gan Charles Edwards, arg. 1811, tudal. 393, ceir "Cywydd Marwolaeth, Allan o waith Sion Cent," yn cynnwys 162 o linellau; ac y mae rhanau o'r cywydd hwn, er wedi eu cyfleu yn wahanol, yn y cywydd hwnw. Dechreuwa hwnw fel y canlyn:—

"Afraid i ddyn derfyn dig
Ei rwyf na'i ormod rhyfig."

A diwedda fel hyn:—

"Er neb ni throes Iesu
Ei lan gyfeillach â'i lu."

Gwyn i fyd nid er gwnfydy¹
i dyn cyn gloes ange dy²
a fedro weddio yn dda
4 er ynill bod wŷr Anna³
barn iawn a bwrw vnawr
yn llwyth bechode ir llawr

¹ Gwynfydu.

² Y dyn cyn gloes angeu du.

³ "Wyr Anna" oedd Crist; o

blegid Anna, yn ol y traddodiadau, oedd mam Mair, mam Crist. Felly, "wyr Anna," ac nid "wŷr Anna," a ddylasai fod yn y testyn.

- 8 a rhoi /n/ bryd i gyd ar gael
ir avr iessin or Israel
a chael awr dirfawr derfyn
dda cyn diodde o ddyn
a chael corff Crist uchelair
- 12 a chyffes o fynwes fair
a chael olew nefolydd¹
a rhoi y meddiant yn rhydd
a chael dodi /n/ corff o chaid
- 16 yn deg mewn tir bendigaid²
a nawdd a grâs urddasol
a nef in eneidie yn ol
bob amser y dyle /r/ dyn
- 20 alw ar dduw rhag i elyn
ni wyr Cristion aflonydd
pa hyd yn y byd i bydd
heddiw /n/ arglwydd rhwydd mewn rhan
- 24 heno mewn bedd i hunan³
gwyd i bwyll a gwedi bo
vnawr yn y bedd yno⁴
ni ffraw gael serch ni fferchir
- 28 ni ffryn vn tyddyn or tir⁵
ni ddwg ran a fo gwannach
nid eiff ir wledd or bedd bach⁶
ni roi /r/ yn ol pob golyd
- 32 gwin mwy yn y genav mŷd⁷

¹ Ceir yma gyfeiriad at eneiniad y marw (*extreme unction*).

² Mynwent wedi ei chysegru.

³ "Heddyw yn Arglwydd rhwydd rhan,
Heno mewn bedd ei hunan."

Y Ffydd Ddi-ffuant.

⁴ "Gwae ydyw 'i bwynt gwedi bo
Unawr dan y pridd yno."

Y Ffydd Ddi-ffuant.

⁵ "Ni wyl serch, ni pherchir,
Ni phryn un tyddun o'r tir."

Y Ffydd Ddi-ffuant.

⁶ "Ni ddwg ran a fo gwannach,
Ni ddaw i'r wledd o'r bedd bach."

Y Ffydd Ddi-ffuant.

⁷ "Nid a yn ol, ni chais olud,
Na gwin mwy yn y genau mud."

Y Ffydd Ddi-ffuant.

- ni a vn cam i dramwy
nid ysgig¹ er meddig mwy
ni wisg sidan am dano
36 mew'n llann ond gravan a gro²
ni wyl vn fry gwedi gwin
oi ddeiliaid yn i ddilin³
ni rydd ordderch o ferch fain
40 ei llaw dan yr vn lliain⁴
ni ddeil i serch yn ddilis
ni orfedd ar i fedd fis
pan el enayd dyn playdfawr
44 pair dan wg ir pvrda'n mawr⁵
cas llid ni ddaw cwrs llydan
or tir i ddiffoddi /r/ tan
ni wnel or gradde ne /r/ grym
48 siessws⁶ o lwyth Siohasym
chwi am dygoch dan oddef
a nyth Pilatws ir nef
chwi an pâr mab Maria
52 i drigaredd diwedd da
tydi a fydd pan nad dedwydd
yn barnv a fv ag a fydd
eiriol ir wy mwy na maint
56 erfyn dduw ar faddeiant
madde /r/ balchder camweddys
a madde /r/ holl bechod rhus
madde yn ddilin ffolineb
60 ennyd awr yn anad neb

¹ Nid ysgoga.² "Ni wisg sidan am dano
Yn y llan, ond gruan a gro."
*Y Ffydd Ddi-fuant.*³ "Ni wyl obry wedi gwin
Un o'i ddeiliaid i'w ddilin."
*Y Ffydd Ddi-fuant.*⁴ "Ni ddyd gordderch o ferch
fain

Ei llaw dan gwrr y lliain."

*Y Ffydd Ddi-fuant.*⁵ Os Sion Cent oedd yr awdwr,
gwelir ei fod, pan gyfansoddodd y
cywydd hwn, o leiaf, yn credu yn
y ddysgeidiaeth Babyddol am y
Purda'n.⁶ "Siessws" = Jesus.



- madde fyngham ddrwg amwyll
ain taer ddychmygion am twyll
madde y geirie gwirion
64 a maddav y masweddav sôn
madde mab Mair ddiwair wen
a fegais o gynfigen
madde a wneythym bym bwl
68 a madde 'mhechod meddwl.¹

Dr Sion Kent ai Cant
Iolo Goch medd eraill.

¹ Yng nghanol "Cywydd Mar-
wolaeth" Sion Cent ceir :—

"Maddeu weithred, a meddwl
Ymwrthod a'r pechod pwl."

LIX.

* I R B Y D .

(*O'r Add. MS., 14,971, fol. 109.*)

Hyd y gwyddom, nid ydyw y 48 llin. dechreuol o'r cywydd hwn mewn unrhyw le arall; ond y mae y rhan olaf o hono i'w gael yn *Add. MS., 14,879*, dan y penawd "Cowydd y Saith bechod marwol. o waith Iolo Goch," ac y mae i'w weled, hefyd, yn *Add. MS., 14,984*; a cheir y rhan olaf, hefyd dan y penawd "Cywydd i'r Byd," yn argraffedig yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, tudal. 112, yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 7, ac yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), p. 21. Yn *Jes. MS. E., 140*, ceir "Sion i Kent ai Kant" ar ei ddiwedd. Felly, rhaid rhestru hwn eto ym mhlith y cyfansoddiadau amheus. Dechreua y cywydd yn yr oll o'r llyfrau uchod gyda'r ban canlynol, yr hwn nid ydyw i'w gael yn yr ysgriflyfr sydd genym yn destyn:—

"Yr un bai ar ein bywyd
Ar bawb a hudol yw'r byd."

Yna fe eir ym mlaen i'r diwedd, gan ddechreu yn llin. 49 o'r cywydd hwn. Y mae "I'r Byd" yn eithaf penawd i'r rhan gyntaf; ac er fod ychydig o linellau ynddo yn ymwneyd â'r "Saith bechod marwol," nid ydynt yn ddi-gonol i gyfiawnhau y cyfryw benawd. Rhoddir mwy o le i'r pechodau hyny yn "Awdl Gyffes y Bardd" (Rhif LIII.) nag a wneir yn hwn. Ond nid ydyw y naill benawd na'r llall yn rhoddi meddylddrych cyflawn am gynnwysiad y cywydd. Ar ol ymdrin â'r byd a'r drygioni sydd ynddo, y mae y bardd yn symmud ym mlaen at ddyoddefaint Crist, ei adgyfodiad, y farn ddiweddaf, eiriolaeth Mair, a'r cyffelyb.

Ceir ynddo rai llinellau rhagorol; ond y mae yr arddull gan mwyaf yn wasgarog. Nid ymddengys fod y bardd wedi tynu iddo ei hun unrhyw gynllun, ond yn hytrach, yn cyssylltu llinellau wrth eu gilydd fel y deuent i'w feddwl. Y mae y cywydd hwn, hefyd, fel pob un arall o waith yr awdwr, yn cynnwys amryw o ymadroddion tywyll. Nis gellir priodoli hynny bob amser i'r ffaith ei fod yn aberthu synwyr er mwyn cynganedd, o blegid, nid oedd Iolo mewn un modd yn ofalus am gynganedd, ac nid anfynych yr anurddir ei linellau gan *dwyllodl*.

Y byd wrth i bedwar bann¹
 twyllodrus tywyll oedran
 Pel o blwm yn drwm a dry²
 4 pa beth wyd pawb ath edy
 Ai herod twyll hiroed dydd
 ai hudol ai llamhidydd³
 Ai bro Adda ai breuddwyd
 8 ai brwydr oer ai bradwr wyd
 Ai /r/ gau dduw argyoeodd wr
 ai pwy yntau ai paintiwr
 Anwadal dwysg yn rhwysg rhod
 12 anaf gasgl ai nef gysgod

¹ Pedwar chwarter y byd. Y mae "pedwar ban y byd" erbyn hyn wedi myned yn ymadrodd cyffredin; ond hon ydyw yr enghraifft gyntaf a welwyd genym ni. Pa fodd bynag, gwelwn fod Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 207)—yr hwn a flodeuair yw banner canrif yn ddiweddarach—yn ei ddefnyddio:—

"A'i rhyvedd yw rhoi hevyd
 O Vorgan bedwar bân byd."

² Gallwn dybied fod y bardd yn myned i gymhwyso plymlin (*plummet*) at y byd, er cael gweled pa mor wyr gam ydoedd. Nis gallwn

weled unrhyw ystyr arall i "Pel o blwm."

³ Mor-fochyn = *porpoise*. Yr ydym, ar ol cryn lawer o ystyriaeth, yn methu a gweled pa briodoldeb sydd yn amryw o'r ffugyrau hyn. Gallwn dybied mai ei amcan ydyw dangos fod y byd yn ymrithio dan gynnifer o agweddau fel y mae yn dwyllodrus ac yn anhawdd i'w adnabod. Gofyna, Pa beth wyd—ai herod, ai hudol, ai llamhidydd, ai bro Adda, ai breuddwyd, ai brwydr oer, ai bradwr, ai gau-dduw, ai paintiwr?

- Arodig¹ phol rhol yr wyd
 oth dro oll ith droellwyd
 Anawdd dy goelio unawr
 16 o rhoi ti ai dygi yr awr²
 I dlawd teg yw dolud ti
 aed oludog i dylodi
 Ar golud byd a heb au³
 20 bid yngod bywyd angau⁴
 Ddydd angau ni ddiengir
 duw ni ad un dyn yn wir
 Yr enaid ni wyr yna
 24 ba du ar ol byd yr a
 Heb swydd heb gyfarwyddyd
 heb ddayar bann heb dda /r/ byd
 Heb fonedd heb dromfedd⁵ draw
 28 heb dudded⁶ heb dy iddaw
 Nid oes eithr y saith weithred⁷
 i ddyn a ymreiddyn i gred

¹ Y gair tebycaf i hwn a gawn yn *Geir. Cymraeg* Silvan Evans yw — “Arodi = to make a speech; to speak; to pray.” Ac os ydyw i’w gyssylltu â llin. 15, gellir tybied mai yn yr ystyr hwnwei defnyddir yma.

² Cyfeirir yma at ansefydlogrwydd pethau daearol—y cyfoethog yn myned yn dlawd, a’r tlawd yn gyfoethog.

³ Ai rhywbeth tebyg i hyn a feddylir yn y llinell ryfedd hon?—“A golud y byd, heb os, a ddiffana.”

⁴ Yr ydym mewn cryn anhawsder gyda’r llinell hon. Os cymmerwn y gair cyntaf—“bid”—fel y ffurf arferol o’r gair *bod* yn y modd gorchymmynol, yr ydym yn cyfarfod â’r wrthddadl mai nid priodol a fuasai i’r bardd orchymmyn y fath beth. Nid ydyw y gair “yngod” i’w gael ychwaith yn ein geirlyfrau;

ond tybiwn fod rhyngddo berthynas â’r rhagferf “*yngo*” = yn ymyl. Ac os ydyw ein tybiaeth yn gywir, awn rhagom i dybied mai gwall ydyw “bid” am *byd*, ac mai meddwl y llinell ydyw—“Byd, bywyd yn ymyl angyd.”

⁵ Heb feddfaen mynor?

⁶ “Tudded” = gorchudd; golyga “amdo,” o bosibl, yn y fan hon.

⁷ Tybiwn mai y “Saith Sacrament” arferedig yn yr Eglwys Babaid a feddylir yma, y rhai (yn ol *Allwydd neu Agoriad Paradwys*, tudal. 10) ydynt:—

“1. Bedydd. Matth. 23. 29.

2. Confirmatiwn. 2 Cor. 1. 22.

3. Ewcharist. Matth. 23.

4. Penyd. Jo. 20. 23.

5. Olew olaf. Jac. 5.

6. Vrddeu. Matth. 26.

7. Priodas. Matth. 19.’

- 32 A gras y tad or gadair
ar mab a gweddio mair¹
Saith elyn i ddyn a ddaw²
i ymdynnu am danaw
Pwyssaw /n/ drwm ir kwim i kaid
36 yn y daf³ a wna dieflaid⁴
Kael i minnau klaim⁵ uniawn
baderau Mair lu drwm iawn⁶
A phwys i wneuthur i hin
40 oi llafur ai llaw Iessin⁷
Y byd tra mawr be trymach
a bwyssai benn i bys bach
Y dydd y rhifer deuddeg⁸
44 i farnu dan Iessu deg
Mair a ddel rhag trafel trwm
meddyges y kam ddegwm
Eiriolwn honn erlyn hir
48 ai heiriol yn diheuir⁹

¹ Ceir amryw weddiau arbenig ar Fair yn y gwasanaethlyfrau Pabaidd.

² Y Saith bechod marwol?

³ Tafan = clorian (=scale).

⁴ Diaflaid.

⁵ "Klaim"—Cymreigiad o *claim* = hawl.

⁶ Credai y bardd ond iddo gael digon o "baderau Mair" y byddai iddynt droi y glorian, ar ddydd y farn, yn ei ffafr ef. Mewn nodyn o flaen y rhan olaf o'r cywydd hwn yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, sylwa golygydd y gwaith hwnw fel y canlyn:—"Y mae yn dra dymunol gweled mor lân oddi wrth gyfeiliornadau Eglwys Rhufain ydyw Cyfansoddiadau ein hen Fardd, hyd yn nod pan oedd Pab-yddiaeth yn ei rhwysg uchaf yn yr ynys hon. Nid oes yma unrhyw

awgrymiad am gyfryngaeth Mair, na neb o'r saint, na chyfeiriad at benydiau na phurdan; ond y mae ei Dduwinyddiaeth mor iachus a phe y canasai yn y ganrif hon, yn lle yn y bedwaredd ganrif ar ddeg." Ond yr ydym yn amneu pe buasai y golygydd wedi gweled y rhan hon o'r cywydd y buasai ei ganmoliaeth mor wresog.

⁷ Iessin = teg (=fair)—llaw deg.

⁸ Cyfeiriad at y dybiaeth y bydd y deuddeg apostol yn cynnorthwyo Crist i farnu y byd. Dywed Goronwy Owen yng "Nghywydd y Farn":—

"Mab Mair ar gadair a gaid,
Iawn Naf gwyn o nef gannaid,
A'i oegordd, welygordd lân,
Deuddeg ebystyl diddan."

⁹ "Yn diheuir" = a'n diheuir = a'n hesgusoda, neu a'n hamddiffyna.

- ¹Hud ar ddyn hyder o dda²
 hud hudawl noddawl noddfa³
 Malu y Sul⁴ melys⁵ son
 52 marwol bechodau mowrion⁶
 Balchder yw yn⁷ arfer ni
 digio kybydddra⁸ diogi
 Kenfigen⁹ bursen¹⁰ heb rodd
 56 godineb gwarth ai dwaenodd¹¹
 Glothineb¹² y glwth enau
 nid mwyn uni a wn nad mau¹³

¹ Yn blaenori y llinell hon yn y llyfrau ereill, ceir y ban a ddyfynasom eisoes :—

"Yr un bai ar ein bywyd
 Ar bawb a hudol yw'r byd."

Ond pa un bynag a ydoedd y rhan flaenaf yn perthyn i'r cywydd hwn ar y cyntaf ai peidio, y mae yn amlwg fod yma, a defnyddio ymadrodd cerddorol, drawagyweiriad.

² "Ar dda"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*; a thebyg mai "ar" sydd gywir.

³ "Hudol anneddfol noddfa"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.* Yn *Add. MS.*, 14,879, ceir :—

"Hud hudawl noddawl noddfa."

⁴ "Malu y Sul;" Nid oes genym well eglurhad ar yr ymadrodd hwn na'r un a gynnygir gan *R. J.*—gweithio yn galed.

⁵ "Melys"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

⁶ "Mawrion"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

Am y "Pechodau marwol," gwel *Awdl Gyffes y Bardd* (Rhif LIII).

⁷ "Ein"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

⁸ "Cybydd-dra"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

⁹ "Cenfigen"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

¹⁰ "Bursen"—*Add. MS.*, 14,879, *G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

Diammeu mai "pressen," ac nid "pursen," sydd gywir. Ond beth yw "presen?" "Presaid, neu ddigywilydd," yn ol golygydd *Cein. Llen. Gymreig*; ond credwn fod *R. J.* yn fwy cywir wrth osod *present* (=presennol) fel yn gyfystyr. Eto, nid ydym yn canfod nemawr o briodoldeb yn y naill na'r llall yn y fan hon.

¹¹ "Godineb, gwae ai 'dwaenodd."—*Add. MS.*, 14,879.

"Godineb, gwae adwaenodd."
G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.

¹² "Glythineb"—*G. B. C., C. Ll. G.*

¹³ "Nid mwyn ni awn nad mau."
Add. MS., 14,879.

"Nid mwyn, mi a wn, nid mai."—*C. Ll. G.*

Nis gall y blaenaf o'r darlenniadau hyn fod yn gywir.

- 60 Nid trom¹ fawr nid trwm i fod
nid baich onid o bechod²
naw pwys rhyfel yn gelyn³
yw /r/ naw poen⁴ a wyr neb hyn
Del im kof adail am kudd⁵
64 dioddefaint Duw Ddofudd⁶
Duw ir hawl a da yw rhom⁷
a drwssiodd mab mair drossom⁸
Mawr gur a gafas mawr gwyn
68 mawr farw un mab mair forwyn
Ai boen ar wener y⁹ bu
ar un prenn¹⁰ er yn¹¹ prynu
I¹² nef yr aeth yn ufydd
72 at y Tad deugeinfed dydd

¹ "Trem"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

Tebyg mai "trem" sydd gywir, wrth yr hyn y golygir *edrychiad*, yn ol *R. J.*—"trem fawr"="lofty look, the look of pride." Ond yr ydym ni yn analluog i ganfod unrhyw synwyr yn y llinell.

² "Nid baich ond baich o bechod."—*C. Ll. G.*

³ "Naw pwys ryfel ein gelyn." *G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

⁴ "Pwys"—*G. B. C., ac R. J.*; "pwn"—*C. Ll. G.*

Dywed *R. J.* mai y "naw pwys"—y rhai sydd yn myned yn "naw poen," neu yn "naw pwys," neu yn "naw pwn"—ydyw y naw pechod y crybwyllwyd am danynt yn y llinellau blaenorol—bydolrwydd, tori'r Sabboth, balchder, digofaint, cybydd-dra, diogi, cenfigen, godineb, a glythineb, y rhai ydynt yn llethu y milwr ysbrydol.

⁵ "Dél i'w cof adail a'u cudd." *G. B. C., ac R. J.*

"Del i'w cof, adail a'i cudd." *C. Ll. G.*

⁶ "Ddofydd"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

Pan y mae y "naw pwys" yn llethu y bardd, y mae aberth iawnol Crist yn dyfod i'w gof, y ffaith fawr am yr hwn oedd wedi myned o'i olwg am yspaid, o herwydd y bydolrwydd oedd wedi ymdaenu am ei enaid. Credwn mai hyn a feddyliai.

⁷ "Duw i'r hawl, a da yw rh'om." *G. B. C.*

"Duw i'r hawl, a da y rho'm." *C. Ll. G., ac R. J.*

⁸ Yn y copïau argraffedig un a geir yn "drwssiodd" a "drossom."

⁹ "I."—*Add. MS., 14,879.*

¹⁰ "Pren"—*G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.*

¹¹ "Ein"—yn y copïau argraffedig.

¹² "Ir."—*Add. MS., 14,879.*

- Yn dad yn fab bab y byd¹
 yn oesbraff glan yn ysbryd
 Yn un nifer henafiaeth
 76 ac yn un gnawd gwn in gwnaeth²
 Duw n kyfoeth dawn an kyfyd
 y dydd y bo diwedd byd³
 Dydd a bair ofn fydd dydd brawd
 80 dydd trillu diwedd trallawd
 Diau fydd drwg a da fo
 ufydd⁴ iawn a fydd yno
 Ar dyfyn⁵ ar wyr dofydd
 84 a fu ag etto⁶ a fydd
 Yn rhagor in rhywiogaeth
 yn nef a'r bressen⁷ a wnaeth

¹ Sylwa *R. J.* fod y bardd yn amlygu ei deyrngarwch i'w dad ysbrydol trwy osod yr enw "Pab" ar Grist.

² "Gwnn in gwnaeth"—*Add. MS.*, 14,879; "gwn yn gwnaeth"—*G. B. C.*; "Gwn y'n gwnaeth"—*C. Ll. G.*; "gwn i'n gwnaeth"—*R. J.*

³ "Duw'n cyfoeth, daw a'n cyfyd,
 y dydd y bo diwedd byd."

G. B. C.

"Duw'n cyfoeth, dawn a'n cyfyd,
 y dydd y bo diwedd byd."

C. Ll. G., ac *R. J.*

Bron na feddyliwn fod Goronwy Owen wedi darllen y cywydd hwn cyn iddo gyfansoddi "Cywydd y Farn." Ceir ynddo y llinellau a ganlyn:—

"Goddau farmerth o'm nerthyd
 Yw Dydd Barn a diwedd byd;

.

Try allan ddynion tri-llu—
 Y sydd, y fydd, ac a fu,

.

Un llith o fendith i fad,
 A'r diles air deoliad.

Duw gwyn i le da y gyr
 Ei ddeiliaid a'i addolwyr."

Ond nid ydyw Iollo Goch, wedi'r cyfan, yn deilwng i'w gymharu, o ran ystwythder ei linellau a bywiogrwydd ei awen, â Goronwy Owen. Ac ni ddylid dysgwyl yn amgen, gan fod y mesur Cywydd Deuair Hirion yn ei fabandod yn amser Iolo.

⁴ "Ufudd"—*Add. MS.*, 14,879,
G. B. C., *C. Ll. G.*, ac *R. J.*

⁵ Yn cael eu gwysio i ymddangos.

⁶ "Ac eto"—*G. B. C.*, a *C. Ll. G.*

⁷ "Bressen"—yn y llyfrau ereill.

A ydyw "bressen" yma yn golygu *presennol*? Os felly, o bosibl, nad ydyw, y bardd yn ei osod yn gyfystyr â'r ddaear a'i chynnwysiad —y nafaedd a'r ddaear.

- Pum harcholl in arfoll ni
 88 pum haelod y pum hweli¹
 An rhoi yn iach yn rhan oedd
 wnai Siessus yn oes oessoedd²
 Bid yn wres³ bod yn rassol
 92 bid yn nef bod yn i ol
 Er i gof ir i gyfyd
 er i loes dros bumoes byd⁴
 Ir i lun ar oleuni
 96 er a wnaeth ai roi i ni⁵

¹ "Pum' archoll i'n arfoll ni,

Pum aelod y pum' weli."

G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.

Y mae y Pabyddion, fel y sylwa *R. J.*, yn lled fanwl mewn perthynas i ddyoddefiadau Crist, ac yn son yn fynych am yr archollion a gafodd ar y groes. Ond nid oes unrhyw ddrwg yn hyny; ac y mae y Protestaniaid yn son am danynt yr un modd, ond fod y Pabyddion yn eu rhifo ac yn eu cofnodi yn fwy manwl. Ym mhlith ereill o'r beirdd sydd yn defnyddio ymadrodd cyffelyb gellir nodi Dafydd Benfras (*Myv. Arch.*, p. 221), yr hwn a ddywed:—

"Gorug dduw gwener rhwydd-
 der rhadau
 Goddef pum harcholl o ar-
 chollau."

² "An rhoi yn iach yn rhann oedd
 a wnai Siesus yn oes oess-
 oedd."—*Add. MS.*, 14,879.

"A'n rhoi yn iach, ein rhan
 oedd,

Wnai Siesws yn oes oessoedd."

G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.

"Siessus" (Jesus) = Iesu.

³ "Yn eures."

Add. MS., 14,879.

Yr ydym yn methu a gweled y fath air ag "eures" yn ein geirlyfrau; ac "yn wres" a geir yn yr holl gopïau ereill. Eglurhad *R. J.* yn y lle hwn ydyw— "Bydded caffaeliad o'i ras yn wrthddrych ein hymegniad gwresocaf; a'n nef-oedd a fyddo ei ddilyn ef."

⁴ "Er i gof er i gyfyd
 er i loes dros bumoes byd."

Add. MS., 14,879.

"Er ei gof hir a gyfyd,
 Er ei loes dros bumoes byd."

G. B. C., C. Ll. G., ac R. J.

Dywed Dafydd Benfras (*Myv. Arch.*, p. 219), hefyd, fel y canlyn:—

"Achos pumoes byd ybu iddaw
 Uchelwr mirain bër drain
 drwyddaw."

⁵ "Er ei lun ar oleuni
 Er a wnaeth a'i roi i ni."

G. B. C., a C. Ll. G.

"Er ei lun a'r oleuni
 Er a wnaeth a'i roi i ni."

R. J.

Ai nid "a'i oleuni" a feddyliai y bardd?

- Er i wyneb ar wener¹
 er i boen fawr ar y ber²
 Ir yn gwedd er yn gweddi
 100 y nef a brynnodd i ni³
 Y marw ni wyr ymorol
 am a wnaeth y mae yn ol
 Nid edwyn yn nodedig
 104 nai phlaid trwm na phle y trig⁴
 Ni chyrredd yn iach arian
 nid oes ond a roes o rann⁵
 llaswyr fair yn llaw Iessu
 108 lle fydd erbyn y dydd du⁶
 Umpryd wener opheren
 on dig byth an dwg i ben⁷

¹ Y dyoddefiadau oedd o'i flaen ar y dydd Gwener y bu farw.

² Y mae y "ber" yma yn golygu y groes, yn ddiammeu.

Nid ydyw llin. 97-98 yn *C. Ll. G.*

³ "Er yn gwedd er yn gweddi y nef a brynnodd i ni."

Add. MS., 14,879.

"I'r un gwedd, er ein gweddi, Y nef a brynnodd i ni."

G. B. C., ac *R. J.*

Nid ydynt yn *C. Ll. G.*

⁴ "Nid edwyn y nodedig na i flaid trwm na fle trig."

Add. MS., 14,879.

"Nid edwyn yn nodedig, Na'i phlaid trwm, na phle y trig"—yn y copïau argraffedig.

Y mae y llinellau hyn a'r ddwy sydd yn eudilyn yn hollodywyllini.

⁵ "Ni chyrredd yn iach arian nid oes ond a roes o rann."

Add. MS., 14,879.

"Ni chyraedd yn iach arian, Nid oes ond a roes o ran"—

yn y copïau argraffedig.

⁶ "Llaswyr fair yn llaw Iessu

lle fydd erbyn y dydd du."

Add. MS., 14,879.

Ymddengys i ni mai hwn yw y darlenniad cywir. Y mae y copïau argraffedig, yr un modd a'n testyn, yn rhoddi "lle" yn lle "lles" yn nechreu yr ail linell. Ond y mae yn amlwg mai gosod allan yr oedd y bardd y *lles*, neu'r buddioldeb, a ddeilliai o "Llaswyr Mair" yn awr angeu. Nid ydyw "Llaswyr," mwy na Sallwyr, ond llygriad o Psallwyr, ac y mae yn gyfystyr yma â Gwasanaeth Mair. Defnyddir y gair gan amryw o'r beirdd; ac, yn eu plith, gan Lewis Glyn Cothi (*Gwaith*, tudal. 105):—

"Arver mae Annes o Baderau,
 Arver eiliw ser â Llaswyrâu;
 O'r galon y rhy'r Gwyliau am
 Sallwyr,

O law a synwyr, elusenau."

⁷ "Umpryd wener yfferen
 ond dig byth an dwg i benn."

Add. MS., 14,879.

"Unpryd wener offeren
 o'n dig byth an dwg i ben"—
 yn y copïau argraffedig.

- Am gwlad fyth an¹ golud fo
 112 iw ymgeledd Duw am galwo
 Doed y gair deued i gof
 trwssied i law² Dduw trossof
 Er i³ fedd ai chwerwedd chwys
 116 ar anfad farn ar enfys
 Vn doeth rwysg⁴ un Duw a thri
 un Duw del in didoli⁵

Iolo Goch ai kant.

Yn ol *Allwydd neu Agoriad Paradwys*, tudal. 2, dywedir mai y rhai a ganlyn ydynt "Y Dyddiau Ymryd" ym mhlith y Pabyddion:—

"Pob dydd o'r Garawys. Y Catgoriau. Noswyl-Natalic. Noswyl Sulgwyn. Noswyliau Puredigaeth, Cyfarchiad (oddieithr pan ddelo yn wythnos y Pasc) Asswmp-tion, Genedigaeth ac Ymddwyn ein Hargl. fend. Mair forwyn. Noswyl Holl-Sainct. Noswyliau y deuddeg Apostolion (onid S. Joan Evangylwr a S. Philip & S. Jacob) Noswyl S. Joan Fedyddiwr. & S. Lawrens. Yr holl ddyddiau gwener trwy'r flwyddyn, ond oddy Natolic hyd yr Ystwyll ac yn wythnos y Pasc. Y dydd-Llun a'r dydd-Mercher osfaen dydd Joy Dyrchafael.

"Nid ydyw arfer ymrydio yn rhai o lecedd rhwng Dydd-Pasc a'r

Dyrchafael, hynny yw tra fo'r Priodfab gyda ni. Mat. 9. 15.

"Yr ydym yn rhwymedig i ymwrthod a chig ar yr holl ddyddiau Satwrn trwy'r flwyddyn, ar yr holl Suliau yn-y Garawys, ar ddydd-gwyl S. Marc (ond pan ddelo yn wythnos y pasc) ac ar ddy-Mawrth o flaen dydd-Joy Dyrchafael.

"Dymma'r Gwyliau a'r Ym-ryd-ddyddiau gorchymmynedig a chynnefinaf i'w cadw: ond oblegid fôd amryw arferau yn amryw Wledydd, dilyned pob vn gyngor y rhai dyscedig a'r rhai duwiol lle bo yn byw."

¹ "A'm"—yn y llyfrau ereill.

² "Trwsied o law"—*G. B. C.*; "Trwsiad o law"—*C. Ll. G.*, ac *R. J.*

³ "ei"—yn y copïau argraffedig.

⁴ "Gwysc."—*Add. MS.*, 14,879.

⁵ "Dydoli."—*C. Ll. G.*

LX.

*CYWYDD I'R BYD.

(O *Llyr Huw Lleyrn*—*Add. MS.*, 14,967, fol. 101).

Ymddengys fod awduriaeth y cywydd hwn yn aros yn ammhenderfynol. Priodolir ef i "Dr. John Kent" yn *Add. MS.*, 14,889; a cheir ef hefyd yn *Add. MS.*, 14,900, gyda'r enw "Doctor John Kemp" [*sic*] wrth ei waelod. Ac fel nodyn ar ei ol yn adysgrif Iolo Morganwg, a geir yn *Add. MS.*, 14,970, y mae yr hyn a ganlyn:—

"Iolo Goch ai cant, medd Llyfr D. E., ond Sion Cent ai cant medd y rhan fwyaf o lyfrau a welais i erioed. Y mae awdwr Hanes y Ffydd hefyd yn rhoi pigion o'r cywydd hynn i Sion Cent, ag yn wir y mae dull yr iaith yn dangos yn amlwg mai gwr o'r Deheudir a wnaeth y cywydd, ag y mae dull y meddyliau yn dadlu'n gadarn mai Sion Cent ai cant. Iolo Morganwg."

O'r ochr arall, priodolir ei awduriaeth i Iolo Goch yn *Add. MSS.*, 14,886; 14,936; 14,964; 14,967; 14,970, a 14,984; yn *Glanyrafon MS. A.*; *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 15; ac yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), tudal. 25. Ac mewn perthynas i'r hyn a ddywed Iolo Morganwg, gallwn grybwyll i ni fethu d'od o hyd i ddyfyniadau o'r cywydd yn y *Ffydd Ddi-ffuant*, gan Charles Edwards, o gwbl. Ceir ar ddiwedd y llyfr hwnw gywydd o waith Sion Cent, yr hwn a ddechreua:

"Afraid i ddyn derfyn dig
Ei rwyf na'i ormod rhyfig."

Ond yr ydym yn methu gweled unrhyw debygolrwydd neillduol rhyngddo â'r cywydd canlynol. A phe buasai Charles Edwards yn dyfynu y cywydd dan sylw ac yn

priodoli ei awduriaeth i Sion Cent, ni fuasai hyny mewn un modd yn profi y mater; o blegid, y mae amseriad llyfr Charles Edwards yn ddiweddarach agos i ddau can' mlynedd na'r ysgriflyfr o'r hwn y cymmerasom ni y cywydd a ganlyn. Da fuasai genym pe cyfeiriasai Iolo Morganwg at ryw enghreifftiau neillduol yn *null yr iaith* ag sydd "yn dangos yn amlwg mai gwr o'r Deheudir" a'i gwnaeth, neu at rywbeth yn *null y meddyliau* ag sydd "yn dadlu'n gadarn mai Sion Cent ai cant."

O'n rhan ein hunain, er na theimlem ronyn yn fwy anesmwyth ein meddwl pe profai rhywun i sierwydd mai Sion Cent oedd yr awdwr, eto, nid ydym yn canfod yn y cywydd unrhyw brofion pendant yn erbyn y dybiaeth mai Iolo Goch ydoedd. Nid ydym yn rhoddi llawer o bwys ar yr hyn a ddywed Iolo Morganwg, o blegid gwyddom mai un o'i wendidau ef oedd priodoli bron bob peth, profion neu beidio, i feirdd y Deheudir. Ond, gan fod hwn yn cael ei briodoli gan gymmaint i Iolo Goch, rhoddwn ef yma.

Yng nghylch penawd y cywydd, nid ydyw yr ysgriflyfrau yn cytuno. Yn rhai ohonynt, megys *Add. MS.*, 14,964, y penawd yw "Cywydd i Dduw;" ond "Cywydd i'r Byd" ydyw y penawd mwyaf cyffredin. Y penawd yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig* yw:—"Cywydd ar yr Ystyriaeth o Enedigaeth Dyn;" ond hwyrach mai yr un sydd yn rhoddi y drychfeddwl cyflawnaf o'i gynnwysiad ydyw y penawd a geir yn *Add. MS.*, 14,984; yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Cowydd yn dangos mai marwol yw dyn ag na ddylam, i, gredu i ddim ond i dduw, ag mai yr Iessu a farn y byd pan ddel dydd farn."

Pa fodd bynag, nid ydym i dybied oddi wrth y penawd hwn nad oedd y bardd—pa un bynag ai Sion Cent, Iolo Goch, neu rywun arall ydoedd—yn gwarafun credu yn Mair, o blegid cyfeiria ati fwy nag unwaith mewn geiriau parchus; ac yn y llinell olaf o'r cwbl awgryma o'r bron na fyddai y nefoedd yn nefoedd iddo ef heb bresennoldeb

Mair. Yr hyn a waherddir gan y bardd ydynt yr ofergoelion hyny a fuont unwaith yn uchel eu bri—megys credu mewn ceiliogod yn canu, y frân yn croesi y ffordd, dewinio, swyngyfareddu, a'r cyffelyb. Ac yr ydym bron yn synu fod neb yng Nghymru wedi cyrhaedd y fath safon fel ag i allu ammeu a diystyru y cyfryw ofergoelion mewn oes mor dywell a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Tybiwn, felly, fod y bardd ym mhell o flaen ei oes, o leiaf, yn hyn o beth.

Myvyr wy yn ymovyn
O Dduw beth orre i ddyn¹
Ai eni² er llenwi³ llid
4 Naws gwiwnoeth⁴ ai nas genid
Wrth ddyall⁵ araith⁶ ddiwyd
O bregeth rruw beth⁷ ywr byd
Brevola braw i elyn⁸
8 Dim ar y ddayar yw dyn⁹

- ¹ "Mwyfwy yr wy'n ymofyn
O Dduw beth sy orau i
ddyn."—*Add. MS.*, 14,970.
"Myfur irwy' nymofyn
O Dduw beth orau i ddyn."
Add. MS., 14,964.
"Myfyr yr wy yn ymofyn
o dduw beth ore i ddyn."
Glan. MS.
"Myfyr yr wy'n ymofyn
I Dduw beth orau i ddyn."
C. Ll. G.
"Myfyr wyf yn ymofyn,
O Dduw, beth orau i ddyn."
R. J.
- ² "Ei eni."—*R. J.*
³ "Llenwi"—yn y llyfrau ereill.
⁴ Tybiwn mai "gwywnoeth"
(=to wither), yn ol *R. J.*, sydd gywir.
⁵ "Ddeall"—*Add. MS.*, 14,970,
a *C. Ll. G.*; "ddeallt"—*Add. MS.*,
14,964, ac *R. J.*
⁶ "Araeth."—*Glan. MS.*
- ⁷ "Rhyw beth"—*Add. MS.*,
14,970; "ne beth"—*Add. MS.*,
14,964.
"Pregeth oer, beth ydyw'r byd?"
C. Ll. G.
"O bregeth? neu beth yw'r
byd?"—*R. J.*
⁸ "Da'r olau pa ryw eilyn."
Add. MS., 14,970.
"Pur olaf, pa riw eilyn."
Add. MS., 14,964.
⁹ Y darlleniad yn ol *Add. MS.*,
14,964, ac *R. J.* yw:—
"Diana'r ddacur yw dyn";
ac y mae yr olaf yn sylwi:—
"*Diana*. The text of this poem is
very inaccurate. What the poet
means we can but conjecture."
Ond y mae ein testyn ni yn ddiagon
amlwg ar hyn. Ymddengys fod
R. J. yn cymmeryd *Add. MS.*,
14,964, fel testyn y cywydd hwn
ond ni ddilynodd ef yn fanwl.

- Oi varn pann vo kadarna¹
 Oi lys rrydd ai les y rra²
 Angav a ddaw distaw don³
 12 Iw ddwyn o vyse i ddynion⁴
 Gwedi r loes a gado r wledd⁵
 Ai varw er maint i vowredd⁶
 rruw gyvle rrew gayavloer⁷
 16 rraw a chaib dyfna⁸ rrych oer
 Ac ynno yn ol dolef⁹
 Byr ywr oed i bwrir ef¹⁰
 Ai sathru mewn grayanblu gro¹¹
 20 Ner addwyn annair¹² iddo

¹ "I farn pan fo cadarnaf."

Add. MS., 14,970.

"I'r farn pan fo gadarna."

Add. MS., 14,964.

"O'i farn pan fo cadarna."

Glan. MS.

"O'i farn pan fod gadarnaf."

C. Ll. G.

"I'r farn, pan fo gadarnaf."

R. J.

Tybiwn mai y darlleniad—"I'r farn pan fo gadarna" ydyw y goreu.

² "O'i lys rhydd ai les i'r a."

Add. MS., 14,964.

³ "Angau daw distaw ei don."

Add. MS., 14,970.

⁴ "Iw ddwyn o blith ei ddynion."

Add. MS., 14,970.

Dysgrifir anghyfydd yn dyfod yn ddystaw a lladradaidd i ddwyn dyn o fysg ei gyfeillion a'i gydnabod.

⁵ "Ac wedi'r loes rhaid cadw'r wledd."—*Add. MS.*, 14,970.

"Gado'r wlad i gyd a'r wledd."

Add. MS., 14,964, ac *R. J.*

"Gwedi'r loes a gadaw'r wledd."—*C. Ll. G.*

⁶ "A marw er maint y mawredd."

Add. MS., 14,970.

⁷ "Gyfaeloer"—*Add. MS.*, 14,964; "gafaeloer"—*R. J.*

Tebygol mai *gafaeloer* ac nid *gauafloer* ydyw y cywiraf.

⁸ "A wna"—*Add. MS.*, 14,970,

a *Glan. MS.*; "a wnae"—*Add.*

MS., 14,964; "a wnai"—*R. J.*;

"a dyna"—*C. Ll. G.* Rhaw a

chaib i dori bedd a feddylir.

⁹ "Ac yno'n ol ei oddef."

Add. MS., 14,970.

Y darlleniad mwyaf cyffredin ydyw "dolef" = dolefain = galaru; anhawdd deall beth a feddylir wrth

"oddef," os nad goddef y corff yn

y tŷ hyd y claddedigaeth. Ond

gwell genym ni "dolef."

¹⁰ "Berr yw'r oes i bwrir ef."

Add. MS., 14,964.

¹¹ "Ai gladdu graianddu gro."

Add. MS., 14,970.

"Ai gladdu graean gru gro."

Add. MS., 14,964.

"Ai sathru mewn arw blu gro."

Glan. MS.

"A'i sathru mewn graiandy

gro."—*C. Ll. G.*

"A'i gladdu dan graian gro."

R. J.

¹² "A wneir"—*Add. MS.*, 14,970,

a *C. Ll. G.*; "a wneir"—*Add.*

MS., 14,964.

- Ai genedl oi digoniant¹
 Ervai gun ai arvau gant²
 Oes gwirion oes o garriad³
 24 Oes dim ondi Iessu dad⁴
 Gwayr neb ir kwbl oi veyd⁵
 Byth amddiretto⁶ i'r byd
 Gwaen ennw llid gwae anel llys⁷
 28 Vry yn ol ar vro anilys⁸
 Gwae a gollo naw bro⁹ ner
 Duw nef er donie o ver¹⁰
 Gwae a gred vwch kaledlawr¹¹
 32 I ddim oll¹² ond i Dduw mawr
 Y gwr a ddichon i gyd
 O vair wry i vawr wryd¹³

¹ "Ei genedl ai ddigonant."

Add. MS., 14,970.

"Ai genedl ai digoniant."

Add. MS., 14,964, a *C. Ll. G.*

² Yn ol darlleniad y testyn, y meddwl yw y bydd ei deulu yn cael ei "arfau," h.y., ei eiddo, ar ei ol. Ond y mae y darlleniadau yn amrywio:—

"Iw siccrhau ei gau a wnant."

Add. MS., 14,970.

"Ai arfau oedd gynau gant."

Add. MS., 14,964.

"Er a fu gu ai arfau gant."

Glan. MS.

"Er fu'r gwr ei arfau gant."

C. Ll. G.

³ "Os gwirion sy o gariad."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"Os or gwirion sy o gariad."

Glan. MS.

⁴ "Oes dim onid Iesu dād."

Add. MS., 14,970.

"Oes dim ond Iesu ai dad."

Glan. MS.

⁵ "Gwae'r neb er cwbl oi febyd."

Add. MS., 14,970, a *C. Ll. G.*

"Gwae'r neb or cwbl a fegid."

Add. MS., 14,964.

⁶ "Ymddirietto"—*Add. MS.*, 14,970; "ymddiriedo"—*C. Ll. G.*

⁷ "Gwae enw llid o gwnai y llys."—*Add. MS.*, 14,970.

"Gwae'n enw llid a wnel llŷs."

Add. MS., 14,964, *C. Ll. G.*

ac *R. J.*

"Gwnelw llid gwae a wnel llys."—*Glan. MS.*

⁸ "Fry'n ol i'r fro annilys."—*R. J.*

Tybia *R. J.* fod cyfeiriad yn y llinellau hyn at y Purdan.

⁹ "Nawfro."—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ "Doniau ofer"—yn y llyfrau ereill. Pleseirau y byd, yn ddi-ammeu.

¹¹ "Colledlawr"—*Add. MS.*, 14,970; "caledlawr"—*Glan. MS.*

"Caledlawr" (= *terra firma*) ydyw y tebycaf i fod yn gywir.

¹² Mwy cynganeddol ydyw y darlleniad yn *Add. MS.*, 14,964:—

"I ddim mwy ond i Dduw mawr."

¹³ "O Fair wiwryw fawr wryd."

Add. MS., 14,970.

- 36 Gistwng¹ y gwynt hynt hynod
A chilio glaw vchel glod²
A meirw i vyw ymaros
A dydd onnewydd a nos³
Nid oes yn onid Iessu
40 Na Brenin gorllewin llu⁴
Ef biavr byd kyd kadneth⁵
A ffiau pawb a ffobeth⁶
Kredwn ir tad kad kydrnerth⁷
44 Ar mab ar ysbryd kyd kerth⁸
Kredwn yn bod yn ddioc⁹
I varw Grist a vu ar groc¹⁰

"O Fair wryf fawr ei wryd."
Add. MS., 14,964.

"O Fair wyr a fawr weryd."
Glan. MS.

"O Fair wryf a'i fawr wryd."
C. Ll. G.

"O Fair wryf, fawr wryd."
R. J.

Gwryd (=dynoliaeth) yr Arglwydd Iesu sydd gan y bardd mewn golwg.

¹ "Gostwng" — yn y llyfrau ereill. Mewn amryw fanau yng Ngogledd Cymru, dywedir "gistwng" ar lafar gwlad.

² Ar ymyl y ddalen gyferbyn â'r llinell hon yn *Add. MS.*, 14,970, ceir :—"Cilio, active as in Sil. cilio ysgyfarnog, &c. I. M."

Y darlenniad gan *R. J.* ydyw :—

"A phaidio, pan fynno fod."

³ "A meirw i fyw o' maros

A dydd o newydd a nos."

Add. MS., 14,970.

⁴ "Nid oes Arglwydd ond Iesu Na Brenin Gorllewin llu."

Add. MS., 14,970.

Nid ydyw o llin. 37 hyd llin. 51 yn *Add. MS.*, 14,964, nac *R. J.*

⁵ "Fe piau'r byd cyd cydwaith."
Add. MS., 14,970.

"Ef bio y byd hyd hoew dreth."—*Glan. MS.*

⁶ "A phiau bawb a phob iaith."
Add. MS., 14,970.

"A ffio y byd a ffob peth."
Glan. MS.

⁷ "Credwn i'r Tad cad cydnerth."—*Add. MS.*, 14,970.

"Credwn ir hen dad cadarnnerth."—*Glan. MS.*

⁸ "Mab a'r Ysryd cynfyd certh."—*Add. MS.*, 14,970.

⁹ Y mae yn eglur fod y darlenniad hwn yn wallus: ond pa un o'r ddau a ganlyn a ddewisir yn ei le?—

"Credwn fod yn odidog."

Add. MS., 14,970.

"Credwn ni na bom ddiog."

Glan. MS.

Ai "Na b'om ddiog (=hwyr-frydig) i gredu" a feddylir?

¹⁰ "Fawr Grist a fu ar y grôg."

Add. MS., 14,970.

"Farw Crist a fu ar y grog."

Glan. MS.

- 1Kredwn hevyd kyd kadair
 48 In harglwydd Bab a mab mair²
 I daw megis y dyvawd³
 Iessu i varnu ddydd vrawd⁴
 52 ⁵Nid kredu hevreru hiraint⁶
 I goel nev swyn gelyn saint⁷
 Nev gredu ymyru maith⁸
 I vreuddwyd gwrach avrwyddiaith⁹
 Nev gredu ymlu amlw¹⁰
 56 I lais y dryw am les drwc

¹ Yn blaenori llinell 47 yn *Add. MS.*, 14,970, ac yn *C. Ll. G.*, ceir y ban a ganlyn :—

“Credwn i'r Eglwys lwys lwyth Gatholig ag i'w thylwyth.”

² “I'r Arglwydd Bab a mab Mair.”—*Add. MS.*, 14,970.

“Yn Arglwydd Bab, a Mab Mair.”—*C. Ll. G.*

³ “Y daw megis y dyvawd.”

Add. MS., 14,970.

“I daw megis i dyfawd.”

Glan. MS.

“Y Duw megis ei dyvawd.”

C. Ll. G.

Neu yn fwy eglur—“Fe ddaw megys y dywed y daw.”

⁴ “Iesu i'n barnu dydd brawd.”

Add. MS., 14,970.

⁵ Yn blaenori llin. 51 ceir y ban a ganlyn :—

“I bawb o'r graddau y bo

Rhoddir megis yr haeddo.”

Add. MS., 14,970.

“I bawb or fuchedd i bo

i rhodd megis ir haeddo.”

Glan. MS.

“I bawb o'r fuchedd y bônt

Y rhydd megis yr haeddont.”

C. Ll. G.

⁶ “Haeru hiraint”—*Add. MS.*,

14,970, a *C. Ll. G.*; “heuru hiraint”—*Glan. MS.*; “haenu henaint”—*R. J.* Y mae yn amlwg fod y bardd, pwy bynag ydoedd, yn anghymmeradwyo llawer o ofergaelion y credid ynddynt yng Nghymru hyd yn lled ddiweddar, os na wneir eto.

⁷ “I goel neu Swydd gelain Saint.”—*Add. MS.*, 14,970.

“I goelau swynoglau Saint.”

Add. MS., 14,964, ac *R. J.*

“I gael ne swyn gelyn saint.”

Glan. MS., a *C. Ll. G.*

Yn ol *R. J.* swynoglau = *amulets*, *charms*; ond credwn mai y teetyn sydd gywir, “swyn (= *fascination*) gelyn y saint,” ac nid “swynoglau y saint.” Ni fuasai Iolo Goch yn dyweyd dim yn erbyn yr olaf.

⁸ “Ne gredau i'r myrriau maeth.”

Add. MS., 14,964.

“Neu gredu ymru ymaint.”

Glan. MS.

“Neu o wirfodd, mewn modd maith.”—*C. Ll. G.*

⁹ “Afrwyddwaith”—*Add. MS.*, 14,964; “afrwyddaint”—*Glan. MS.*

¹⁰ “Ymliw amlwg”—*Glan. MS.*; “am lu amlwg”—*C. Ll. G.*

- Ne¹ lais y vran yn kanu
 loth ormes i ddewes ddu²
 Na chred ddwygred ddigref
 60 ddim ineb ond i dduw nef³
 Duw oreu vwch dayerydd
 Duw Iessu Duw vu Duw vydd
 Duv vydd⁴ o herwydd hiroed
 64 Divai ras Duw vu yrioed⁵
 Dydd brawd at giwdawd gadarn⁶
 Diau vydd mai Duw a varn
 Duw an dyko or diwedd
 68 Ir wlad dragywydd ar wledd⁷
 Duw draw an gwnel yn llawenn
 Gida⁸ Mair i⁹ gyd amen

Iollo Goch ai kant.

¹ "Neu"—*Add. MS.*, 14,970 ;
 "Neu gredu i'r fran yn canu"—
C. Ll. G.

² "Lath ormes Iddewes ddu."
Add. MS., 14,970.

"Llef ormes Iddewes ddu."
Add. MS., 14,964.

³ "Na chreded ddwygred ddi-
 gref
 I ddyn oll ond i Dduw nef."
Add. MS., 14,970.

"Ddim ineb"=ddim i neb.

⁴ "Sydd"—*Add. MS.*, 14,970 ;
Glan. MS. ; "fu"—*Add. MS.*, 14,964.

⁵ "Erioed"—yn y llyfrau ereill.

⁶ "Dydd Brawd ar geudawd
 gadarn."—*Add. MS.*, 14,970.

"Dydd brawd i gaudawd
 gadarn."—*Add. MS.*, 14,964.

"Dydd brawd ar giwdawd
 gadarn."—*Glan. MS.*

"Giwdawd" (=llwyth, neugenedl)
 sydd gywir.

⁷ Darllenir y ban hwn yn *Add.*
MS., 14,970, fel y canlyn :—

"I'r wlad trag'wyddol a'r wledd
 Duw a'n dycco o'r diwedd."

Ond dilyna y llyfrau ereill y
 testyn, gyda hyn o wahaniaeth yn
C. Ll. G. :—

"Duw a'i dyru o'r diwedd

I'r wlad dragywydd a'r wledd."

⁸ "Gyda"—yn y llyfrau ereill,
 ac eithrio *Glan. MS.*, yn yr hwn y
 ceir "gida."

⁹ Y mae *Add. MS.*, 14,970, ond
 yn anghywir, yn rhoddi "eu" yn
 lle "i."

LXI.

[AWDL I GRIST.]

(*O'r Llyfr Coch o Hergest, Col. 1,369*).

Nid oes benawd i'r awdl yn yr ysgriflyfr uchod amgen na "Iollo goch ae cant" uwch ei phen. Ceir hi hefyd yn *Add. MS.*, 15,001, lle y dywedir iddi gael ei chymmeryd o'r *Llyfr Coch*, gyda'r penawd "Iolo Gôch ai cant, i'r Angau." Ond nid ydyw yr adysgrif o gryn lawer yn gopi cywir o'r awdl fel y mae yn y *Llyfr Coch*. Hwyrach fod yn anhawdd cael enghraifft amlycach o hyfdra copiwr yn newid orgraff nag a geir yn yr ysgriflyfr hwn. Ac nid yn unig y mae yr orgraff yn fwy diweddar, ond y mae y copiwr wedi gwneyd amryw gamgymmeriadau yn y darlleniad. A chan nad oes benawd iddi yn y *Llyfr Coch*, ac nad ydyw "I'r Angau," fel yn ysgriflyfr yr Amgueddfa Brydeinig, mewn un modd yn gywir, rhoddasom iddi benawd o'n heiddo ein hunain. Math o weddi ydyw, yn dwyn tebygolrwydd neillduol i ranau o'r ffurwasanaeth Pabaidd. Y mae amryw o'r ymadroddion a'r syniadau yn gyffelyb i'r rhai a geir yn "Awdl Gyffes y Bardd" (Rhif LIII.); ond yma defnyddir y gorchan a elwir yn *gyhydedd fer*.

Crist audi nos.¹ Craton kyrios²
rac ymaros ry6 gamwryeu³

¹ Ceir yr ymadrodd Lladin hwn— "Christe audi nos"—"Crist, clyw nyni"—yng ngwasanaethlyfr y Pabyddion, yn gystal ag yn y Llyfr Gweddi Gyffredin.

² *Kpatûv* *Kúprios* = Arglwydd y

nerthoedd. *Kpatûv* (y ffurf dalfyr-edig o *Kparewv*) ydyw yr achos meddiannol lluosog (*genitive plural*) o *Kpáros*.

³ Camwriau.

- Agnus leo.¹ alpha & O.²
 4 deus homo³ dioesameu.
 Rex redemptor⁴ reit ytt hepkor.
 ia6n ry6⁵ gyngor ynn rac angeu.
 Ef ny eheth⁶ ef ny anet.
 8 ef ny welet yn ia6n oleu
 Ar for na thir. ef ny welir
 ef yn dyir ef yndieu.⁷
 Ef y6r dial am yr aual⁸
 12 vn anwadal y ann6ydeu⁹
 Ef yn vchel ef yn dawel.
 ef yn issel ef yn asseu.¹⁰
 Ef oe awyd yn gyfar6yd.¹¹
 16 ef yn ebr6yd ny vynn obreu.
 Yn b6h6man yn tra buan.
 dra6 ac yman dr6y y gameu.
 Ef ny byd hyn yny vl6ydyn
 20 ny wybyd dyn ef ny byd ieu.¹²
 ac ef agrynn. ac ef ni ryñ.
 ac ef a dyñ ac ef adeu
 Ny¹³ llesc lle del nys llysc envel¹⁴
 24 nys llud oeruel.¹⁵ nys llad arueu

¹ "Agnus" = oen; "leo" = llew.
 Gwelir yma wrthgyferbyniadamlwg
 —yr *Oen* a'r *Llew* yn cydgyfarfod.

² Alpha ac Omega.

³ "Deus homo" = *Duw, dyn*. Y
 mae y bardd yma yn hoff o ymad-
 roddion gwrthgyferbyniol.

⁴ "Rex" ydyw y Lladin am
Frenin; ac y mae "redemptor"
 yma yn golygu *Prynwr*, neu *Bryn-
 iawdur*.

⁵ "Ia6n ry6" = iawn rhyw.

⁶ Prin y mae angen nodi allan
 fod y *t* derfynol i'w darllen fel pe
 yn *d*—ehed, aned, weled, &c.

⁷ Hyny yw—Ef yn ddyhir, ef yn
 ddiau.

⁸ Ef yw'r dial am yr afal—dial
 camwedd ein rhieni cyntaf am
 fwyta o ffrwyth y pren gwahardd-
 edig.

⁹ "Ei anwydau."—*Add. MS.*,
 15,001.

¹⁰ "Asseu" = aswy (llaw aswy =
left hand).

¹¹ Ef o'i awydd yn gyfarwydd.
 Yn yr un modd ag y mae y *t* der-
 fynol i'w darllen yn *d*, y mae y *d*
 hefyd i'w seinio yn *dd*.

¹² Ni wybydd dyn ef ni bydd
 iau—h.y., yn ieuangach.

¹³ "Nyt" = nid.

¹⁴ "Eufel."—*Add. MS.*, 15,001.

¹⁵ Nis lludd oerfel.

- nys beid ll6fyr. nys ery dil6fyr.
 nys ba6d cleud6vyr.¹ nys beid cledeu.
 Nys ret yn dwys. nys gorffowys.
 28 nys da6 kynn6ys nys d6c heinyeu²
 Nyt mar6 nyt by6 nys g6nn beth y6
 dyn nys ergly6 dan eis oergleu.³
 Nys g6lych kawat nys g6yl llygat.
 32 yn g6iria6ndat an g6arendeu.⁴
 Gwir vrenhin nei yr⁵ dy dangnef
 yr dy odef yr diodeu.
 Yr dy loessyon yr dynyadon.⁶
 36 yr dy goron wrda goreu.
 Yr dy gystud yr dy gythrud
 ieitholoewrud atholuryeu.⁷
 Yr dy vnpryt yr pobyl y byt
 40 yr dy benyt yr dy boeneu.
 Yr dy gynnedyf⁸ ar dengeir dedyf.
 wr diweirgredyf yr dy wirgreu.
 Yr dy seint⁹ oll yr dy archoll.
 44 yr dy vronnholl yr dy vreinheu.
 Yr dy godet.¹⁰ ath vronn waetlet.
 wr diweirgret yr dy wirgreu.

¹ "Nis bawdd cleuddwfr."

Add. MS., 15,001.

² Nid ydyw yn hollol eglur yn y *Llyfr Coch* pa un ai "heinyeu" ai "hemyeu" ydyw hwn. "Heiniau" a geir yn *Add. MS.*, 15,001.

³ ais oerglau!—Ai cyfeiriad at y bedd sydd yma?

⁴ Y mae yr *yn* yn nechreu y llinell i'w ddarllen yn *ein*. "Ein gwir iawn-dad a'n gwarendeu."—*Add. MS.*, 15,001.

⁵ Darllener *yr yn er* oddi yma i'r diwedd.

⁶ "Dynyadon" = dynoliaeth, yn ol y Dr. W. O. Pughe, yr hwn a

ddyfyna, ac a gyfieitha, o H. Voel ab Griffri fel y canlyn:—

"Dyw mawr emherawdyr dyn-iadon,
 Dyllwng dy walç terwyn-valç
 tirion,
 Dewr Owain."

"Great God supreme of *human beings*, liberate thy kind *firoely*-haughty hero, the gallant Owain."

⁷ "Iaith oloyw-rudd/a'th ddoluriau."—*Add. MS.*, 15,001.

⁸ "gynnedyf" = gynneddff.

⁹ Er dy saint.

¹⁰ "Godet" (= oedded) = dygoddef-iadau.

- Yr dy bryder ar ddu6 g6ener.
 48 ath wi6 leuver¹ ath welieu.
 Yr dy gāma6l vrenhin nefa6l.
 athro g6ra6l athragoreu.²
 Moes ym deall y wrthlad ball.
 52 ior diweirgall yr dy wirgreu.
 Hynn avynnaf hynn a gaffaf.
 hynn a geissyaf hoe6 negesseu.
 Na6d y wirgroes ana6d Itloes.³
 56 a roi ym oes mi ar rei meu.
 Na6d maria. a na6d anna.⁴
 a seint assa.⁵ a santesseu.
 Na6d seint enlli.⁶ a na6d kybi⁷
 60 a na6d dewi nud y deheu.
 A na6d Ieuan⁸ a na6d katuan.
 a na6d sanan⁹ nud y seinyeu.
 Na6d mihangel a na6d gabriel.
 64 a na6d vriel y na6d oreu.
 Na6d seint y byt ym kymhlegyt
 y ymöglyt rac y magleu.

¹ Lleufer (= *halo*) = y cylch goleu hwnw a ddarlunir bob amser fel yn amgylchu pen Crist.

² A thra goreu? "A'th ragorau."
—*Add. MS.*, 15,001.

³ Sant a flodeuai, meddir, yn y seithfed ganrif. Mab ydoedd i Gwyddnabi ab Llawfrodedd Farfog Coch. Efe oedd sylfaenydd eglwys Llanidloes. Priodolir iddo (*Iolo MSS.*, p. 251) y ddiarheb, "Goreu cynneddf yw cadw moes," at yr hon y ceir cyfeiriad yma:— "A rhoi ym moes/un a'r rhai mau."
—*Add. MS.*, 15,001.

⁴ Nawdd Mair, a nawdd ei mam, Anna.

⁵ St. Asaph.

⁶ Lle enwog am seintiau oedd Ynys Enlli, yr hon a saif ym Mor Iwerddon, ac a berthyna i Sir Gaernarfon.

⁷ Mab Selyf ab Gersaint ab Erbin, a sefydlydd eglwysi Llangybi, ger Llanddewi-brefi; Llangybi ym Mynwy; a Llangybi yn Eifionydd.

⁸ St. Ioan yr apostol.

⁹ Sannan, neu Senanus, ydoedd Sant Gwyddelig, i'r hwn y cyflwynir eglwys Llansamnan, yn Sir Ddinbych, a Bedwellty, yn Sir Fynwy. Bu farw, meddir, yn y flwyddyn 544. Nis gwyddom pa ham y cyffelybir ef gan Iolo i Nudd (Hael) y Seintiau. Yr oedd Sannan gynt yn esw benywaidd yn gystal a gwrrywaidd—Sannan neu Sannant.

LXII.

[DEC]HREU YMDDAITH CRIST / Y TRI BRENIN O
GWLEN YN DYFOD OI ANRHEGU—IOLO
GOCH AI CANT.

(*O'r Add. MS., 14,882, fol. 276*).

Ceir adysgrif arall yn *Add. MS., 14,973, fol. 14b*, ond nid ydyw enw Iolo Goch wrthi; ac mewn llaw ddiweddar y mae "Iolo Goch ai Cant" yn hwn. Fel y gwelir ar y diwedd, cyfieithydd, ac nid awdwr, y cyfansoddiad canlynol oedd Iolo Goch—a dywedir mai o'r Lladin y cyfieithwyd ef. Tybiwn mai un o'r cyfansoddiadau hyny ydyw ag oeddynt yn cael eu chwareu yn aml yn y Canoloesoedd, a'r rhai a elwid yn Chwareuon Hud a Lledrith. Y ni sydd yn gyfrifol am yr hyn a geir mewn cromfachau (*brackets*) ar ymyl y ddalen a lleoedd ereill. Gwnaethom hyny o herwydd fod yr ysgrifyfr yn ammherffaith.

LEGIT Tewch a siarad a gwrandewch
 chwedl stwrmant¹ neb nis gwnaethoch
 yn sikir chwi a gewch
 a march² gwedi ych kyfarch oni thewch

2 Kerddwch i vethelem Judii
 ach tri ffeth gida chwi
 aur a sens³ a myr arab
 ai roi ir mab newydd eni

¹ Y mae yr *o* wedi ei chroesi allan yn "Stormant" ac *w* wedi ei gosod oddi arni. Ai "ystyrmant" (= *Jews-harp*) a feddylir? "Ffrae stwrmant neb nis gwnewch."—*Add. MS., 14,973.*

² Ammharch?

³ "Sens" a gyfieithir *thus* yn yr argraffiad Cymreig o'r Testament Newydd.

3 Edryched pawb ywch i ben
chwi a gewch weled y seren
yn wyneb y gorllewin
ir tri brenin o gwlen¹

4 Y seren ywch ben y byd
a roddaf yn gyfarwyddyd
ich dwyn at vab aur fflwch
a rwydd² yw roddiad heddwch

I B. Dyrys yw r ffordd i vethlem
achos anghyfarwydd vyddem
i gael cyngor a dysk iawn
ni awn i gaersalem

II B. YN Y porthor pybur ddinas
DYVOD . . Y agor y porth sydd adcas
PORTH i fynd at frenin herod
anrhydeddus yw i deurnas

[P]ORTHOR fynghenad a vydd parod
dos a dowaid i herod
fod yma dri brenin
or dwyrain wedi dyvod

¹ Cwlen = Cologne. Gelwir y doethion a ddaethant i addoli Crist yn "dri brenin Cologne," am y rheswm i'r chwedl am danynt gael ei dechreuad yno. Yn ol y chwedl hon, enwau y brenhinoedd oeddynt Melchior, brenin Nubia, yr hwn a offrymodd aur; Balthasar, brenin Saba, yr hwn a offrymodd thus; a Jaspar, brenin Tharsis, yr hwn a offrymodd y myrr. Yn

Cologne yr argraffwyd y chwedl hon gyntaf, dan yr enw "*Historia gloriosissimorum regum integra*." Cyhoeddwyd cyfieithiad o honi i'r Ffrancaeg yn Paris yn 1498; ac fe'i cyhoeddwyd hefyd yn Seisoneg dan yr enw "*The Kynges of Coleyne*." (*Gwaith Lewis Glyn Cothi*, tudal. 363.)

² Arwydd.

Y GENAD mae tri brenin mawr bob un
wrth y porth ich ymofyn
ydrychwch och doethineb
par ateb a rowch uddun

[C]ENAD Arch ir porthor agori
HEROD ai gollwng hwy atti fi
i gael gwybod i meddwl
mae kythryfwl yn codi

Y GENAD mae herod yn gorchymyn
agori y porth uddun
i gael gwybod nid ym
o ra¹ raen beth maen yn i ofyn

PORTHOR ydolwg ywch na ddigioch
am y taring² a gowsoch
dowch yn hy gidaf genad
mawr ywr rhad ffordd y cerddoch

Y GENAD Brenhinoedd glan ydych i
dowch o ddiyna gida mi
I weled brenin herod
ai ddevod ai reolti³

Y GENAD wal dyma y brenhinoedd
arwydd ryfeddod ydoedd
doeden i hwn i neges
ai hanes ai eithafoedd

¹ Felly y mae yn yr ysgriflyfr.
Dichon mai cychwyn ysgrifenu
"raen" a wnaed, a'i ail ddechreu
drachefn. Ond tebycach mai "o ba
raen," ac nid "o raen," a fwriedid.

² "Taring" o *tario*, gair a ddef-

nyddir yn fynych am *aros*, yn
Neheudir Cymru.

³ Defnyddir y gair *riolti* am
rwyg neu arddangosiad, yn Sir
Drefaldwyn—tebyg mai llygriad
ydyw o *royalty*. Golyga yr un peth
a *rhialtwch*.

- VN OR B. Pa van i maer mab a aned
brenin Iddeon¹ addfed
y seren fun kyfrwyddyd
gwyn i fyd a gae i weled
-
- HEROD A welsoch i y tri² seren
y nos unaws ar heulwen
arwydd genir gras ar grym
nid gwiw [im]³ ddoydyd amgen
-
- . . .⁴ ai gwelson. ai ffrffwydo i buon
i vo aned yr iesu : oi anrhegu i doethion
-
- Dowch yn nes fyscolheigion
beth a ddoedwch yr owron
ple i ganed mab y forwyn
ai gwiw yw dwyn arwyddion
-
- [D]OCTOR y mab a ddylu i eni : meddan y methlem Judi
o ddoydyd y gwir yn ddiav : ni a ddylen i
addoli
-
- [HER]OD Ewch i ymofyn y mab ku
a dowch i yma i ddysku
megis i gallwy fynyed
a thyhernged⁵ ai addoli
-
- [UN]OR BREN. Y seren a fy /n/ gyfrwyddyd
y sy yn gyfyrgoll hefyd
nid oes weithian yn ein mysk
na dysk na chyfarwyddyd

¹ Iuddewon.² Y mae y gair *tri* o flaen y
"seren" wedi ei groesi allan.³ Y ni sydd yn gyfrifol am yr*im* ; y mae yr ysgriflyfr yn annar-
llenadwy yma.⁴ "Y seren."—*Add. MS.*, 14, 973.⁵ Teyrnged.

- [H]EROD Vynghenad dos oi hanfon
a dysk uddun ple ir elon
yn hwy a gan yn wir mwy o sir
ymhob tir i kerddon
-
- GENAD ych siwrnai fawr fydd ryfedd
urddas gorllewin ydoedd
rwng synwyr a doethineb
ewch i wyneb y gogledd
-
- BRENIN Kywod dy wyneb yn llawen
gwir a ddywod mab mair wen
ni bydd arnom ddim drygair
yn wir wal dakwr seren
-
- henffych well Brenin nefoedd
a brenin y brenhinoedd
ag aur y mae gu
. dd¹
-
- YR AIL: BRE: A rryddid yt dduw keli: llym² . . .
velly i ddydwyt eithr:³ o aroglau a⁴
-
- Y TRY: BRE: yt y kyfarch a dduw nefol: am goreudduw da
wrth y kleddau hir a byr: y myr y sy naturiol
-
- YR ANGEL: herod greulon sy angall: yn wir anodd i
ddeall
nag ewch i ddim atto ef: ewch eort⁵ i ffordd
or wlad

¹ "Ag y mae d'anrhegu
Kyvoeth a gallu da oedd."
Add. MS., 14,973.

² "Llyma d'enw yr Eglwysi."
Add. MS., 14,973.

³ "Tithau."—*Add. MS.*, 14,973.

⁴ "A aroglau a goleuni."
Add. MS., 14,973.

⁵ "Eort" sydd ffurf arall, o
bosibl, ar *eorth* = *diligent, assiduous*,
&c., ac yn golygu *prysurdeb*, neu
gyflymder, yn y fan hon.

- HEROD: yr wyfi yn frenin galluog: ar gaerseion¹
ddoniog
ag ar bablon² yn berchen: ymhob tir pen
Tywsog
- HEROD: Beth a ddoydi tyrd yn nes: fymrenines
goronog
maer gair nid wy vodlon: vod brenin ir
Iddeon
-
- Y FRENHINES: mynwch wybod yn lle wir: pa dir i mae yr . . .
Rag i vod yn keisio ych twyllo: ach di
etifeddio
-
- HEROD: mae gair gan fawr a bychan: i eni yn vab
dyrogan
Ryvedd gan, i'r, gair ar guoedd: ple maer
ben weith hon
-
- Y FREN: gyrrwch i rai i ymofyn, rhag na alloch gael
trwy³
ond mwy o gost a thyrafael, i geisio gafael arnyn
-
- HEROD: may fy herodur am kenad, parod ydynt yn
wastad
am ymddiried am kenyd: dyred yma fy
anwylyd
-
- Y GEN/ mi af imaeth hai how:⁴ naill ai yn fyw ai yn
farw
mi af at vrenin herod chwip / am i vod yn
galw⁵

¹ Jerusalem.

na alloch gael arnyn."

² Nid oedd hyn ond ymffrost
gwag; o blegid nid oedd a wnelo
Herod o gwbl a Babylon.*Add. MS.*, 14,973.⁴ "Ymaith mi a hai hwhw."*Add. MS.*, 14,973.³ "Gyrrwch i rai i w gofyn, rhag⁵ Terfyna y dernyn sydd yn *Add*
MS., 14,973, yn y fan hon.

- Y GEN/ vy arglwydd frenin mawr weirthiog: mi a
 ddoethvn val
 gar ych bron nid ryfedd yw: yn gyflym ag
 yn chwanog
-
- EROD: Cerdda i vethlem Judi, ag ymofyn o ddifri
 i ble ir aeth y tri brenin, a ddoeth or tir
 gorllewin¹
-
- Y GEN/ vy arglwydd frenin mi a fyno / mahawad
 ameu am h
 ag a ddo chwip ar frys, ith lys kyn gorffwyso
-
- Y GEN / how hai master porthor kyvod i fynv ag agor
 i genad brenin herod: ag herod ai ben kyngor
-
- GWAS Y
PORTHOR nid yw y meistr yn gwrando mogel yna i
 ddyf
 hwde ddyrnod ar dy stad: a dos ith wlad i . . .
-
- [Y GENAD] . . . rson lleidr gwaeth i strank na gwr or
 tir
 . . . fynv yn ebrwydd, er gonestrwydd ith
 veister
-
- [GWAS Y
PORTHOR] . . . a roddaist iti gynt, ddyrnod ti ag at dy
 gyffie
 hwde etto yn dy blith ymhob rith i daw ange
-
- [Y PORTHOR] e/ how how pa gas gimain/ a wnaethosti er
 hyd y plygain
 yn ymladd val dau geiliog ynghrog i gwelwy
 ych deuben

¹ Doethion o'r "dwyrain" a bonwyr mai o Persia y deuent; ond
ddywedir yn Matt., ii., 1; ac er yma dywedir mai o'r gorllewin.
bod yn gytunol a hyny dywed es-

[Y GENAD] how borthor bethlem Judi/ cenad herod
ydwyfi
mawr gwilidd heb aros/ fod dy was im
amherchi

[Y PORTHOR] how fom anreithiwyd bellach/ oni chedwi
gyfrinach
hwde gantpunt bydd ddiddig: o gylenig dos
yn iach

[Y GENAD] mi af i mofyn y tri brenin, i duedd y gorllewin
am na ddoethont hwy etto/ ar frys mi af oi
keisio

[Y PORTHOR] Oddi yma a hwynt a aethon/ ag i ffordd i
daethon
dos a dowaid i herod: yn gowir galon fy mod

[Y GENAD] A arglwydd frenin heddychwell, mi a gefais
siwrnai bell
adre i raeth y brenhinoedd, ond ydoedd fawr
i dichell

[HERO]D: mahownd mahownd¹ or chwedle/ rwy yn ofni
kolli r chware
na wnaethwn a ddylaswn: na thoraswn i gene

[C]EN/ Arglwydd frenin urddasol
na fyddwch ansynwrol
na newch ddialled y polter²
rag cael anyscorol

¹ Y mae y llw hwn yn ddyeithr i
ni.

² Ai *twyll* (o'r Seis. *palter*) a
feddylir?

[HE]ROD mae fanwyl am ymddiried
am keniadowr am enaid
yn y fan yn ragorol dyrd
yn wrol wrth fy raid

[C]ENAD/ Arglwydd frenin dyma fi
ar fy redeg wrth ych cri
yn barod a gwsaneth beth a newch ithe a mi

[HER]OD dos i vethelem ar redeg
a ffar roi cri ar osteg
i ddal meibion yn i swydd
hyd ddwyflwydd ne chwaneg

how how tewch ach tolo¹
. . . dowch yn nes i wrando
. . . ² y pyrth a deliwch bawb o gwelwch
yn cilio

YR ANGEL/ Sioseb a wyt i yn gwra[ndo]
dos ar mab ar vam ar ffo
ir Egipt hyd yr amser
i galwar am dano

SIOSEB Ef a erches yr angel
fynd i Egipt yn ddirgel yno i ymgadwynd . . .
yn gowir oni yn galwer

Y PORTH¹/ yddwy yn cadw yma
lle ir archwyd yn gadw yn dda
mair tebig wyt i fameth
beth sy genyt ti yna

¹ Tolo ydyw swm.

² Tebyg mai "cawoch y pyrth"
a ddylai fod.

MAIR	I rydwyfi yn kilio wrth glywed im keisiaw mae geni fi y mab rad ni cheisia i wad am danaw
Y PORTH ² /	Kerdda di ath vab genyt amgen nis doeda wrthyt hir yr ydwyt ti yn moglyd pe bai yna nis doedyt
HEROD/	vymrenhines aur i ffen ini af o ddyma i vethlem i ddifa meibion Juda trigwch ynghaerselem
HEROD WEDI DYFOD I BETHLEM	A wnaethoch ir gorchymyn a rois attoch i bob un Dugwch yma gar vy mron y meibion i rwy yn i gofyn
Y GENAD	llyma hwyntwy gar ych bron y sawl sy yn sygno bron ag o vewn oedran dwyflwydd yn ych gwydd yr owron
HEROD	a oes genych ddim amcan/ pwy ydiw/r/ mab darog[an] moeswch ini ef och mysk ne fo a yn dervysk yr owran
	. . . oeddwn yn fy hwyl . . . laddwn fy mab anwyl keisio y mab drogan nid ydoedd lan fy amkan

[HEEYOD mude a wneud hwy gwyllon
 pwyllwr chesôe yn fynginallon
 mi a ddyfwn ddyfialon
 aro wneudur kam ar gwyllon

[KIYHKEZ ha ha mi a chweddawns¹
 ag a neidia yn fy mrigawns²
 yrran rwy yn dal herod
 yn i frigawns yn barod—finis.

1400 Iolo goch ai troes or llading i Kgyrnraeg.

¹ Mi a chware ddawns=mi a = Brigynau = *madrona*.
 ddawnsaf?

LXIII.

COWYDD YN DANGOS DIODDEFaint IESU GRIST AR
ORIAU I DIODDEFODD I GYFODIAD I DDERCHAF-
IAD IR NEFOEDD. IOLO COCH.

(*O'r Add. MS., 14,934, fol. 206b*).

Ceir adysgrif arall o'r cywydd hwn ar fol. 326 o'r un ysgriflyfr; ond heb nemawr wahaniaeth. Ysgriflyfr hynod o wallus ydyw; mor wallus fel y mae yn eglur ar yr olwg gyntaf fod amryw o'r llinellau mor anghywir fel y byddai cynnyg unrhyw eglurhad arnynt yn waith ofer. Y mae rhai cywiriadau, mewn llawysgrif ddiweddarach, ar ymyl y ddalen, ond nid ydyw y rhai hyn yn fynych yn ymddangos nemawr mwy synwryol na'r testyn ei hun.

Ond er fod y cywydd, fel y mae o'n blaen, yn wallus—rhai llinellau yn rhy hirion, ereill yn rhy fyrion, ac yn cael ei anurddo ym mhellach gan feiau cynghaneddol a thwyllodl, ni fynasem er dim ei adael allan. Ar wahan i'r ffaith ein bod yn ymdrechu at gasgliad mor gyflawn ag a allwn o waith ein bardd, tybiwn fod yn y cywydd, er gwaethaf ei aunmherffeithrwydd, ambell linell dlos, afaelgar, a barddonol. Ac er fod cryn unrhywiaeth, mewn syniadaeth yn gystal ag mewn iaith, i'w weled yn bron yr oll o gyfansoddiadau duwinyddol yr awdwr, eto fe welir fod y cywydd a ganlyn ar destyn newydd, a'i fod yn rhoddi arbenigrwydd neillduol ar ddyoddefaint Crist, ac ar y dyoddefaint hwnw fel aberth iawnol. Yn y mwyafrif o'r cywyddau ereill, y mae Mair yn cael llawn cymmaint o sylw a Christ; ond Crist yn unig sydd yn dyfod i'r golwg yn hwn. Fel y gwelir, nid ydyw y llinell gyntaf yr hyn a ystyrid yn chwaethus yn yr oes bresennol:—"Iesu hwde ddefosiwn;" ac nid ydym yn cofio llinell gan yr un awdwr arall yn dwyn unrhyw debygolrwydd iddi.

- 1 Iesu hwde ddefosiwn
ar mwd oras ar wn¹
- 2 Dy nawdd duw a dyn wyd²
- 4 wrth oriau yth ferthyrwyd
- 3 Oriau saith yn wir y sydd
o rander yn yr vndydd³
- 4 Awr blygain vn or rheini = ith wlad
- 8 ath a alw duw ith wlad di = Twr ith ddaliwyd
- 5 Yn war⁴ brenin y daethost gar bron awr brenin
- ffalysty a ffals dystion⁵ ffals iustus a
- 6 A *chwel gyrr* ith wagil gynt ffails dystion
- 12 ath ddwylo yn rhwymith helynt am goet gur
- 7 Cyd air drengiad ar dro
ath wyneb perffaith yno
- 8 Dygost⁶ y groes ros ar oessoedd
- 16 drud⁷ oedd dwyn awr drydedd⁸ oedd

¹ Y mae y llinell yn fyr o sill; ac yn rhy wallus i wneyd dim o honi.

² Ceir yma gydnabyddiaeth o Dduwdod a Dyndod Crist.

³ Y mae y bardd yn cyfeirio yn y cywydd hwn at saith o ddygwyddiadau pwysig yng nglyn â chroeshoeliad Crist, ac yn eu dosbarthu o ran amser i saith o oriau, yn y drefn a ganlyn:—

1. Yr awr ei daliwyd (llin. 7).
2. Yr awr ei traddodwyd (llin. 9).
3. Yr awr y cymmerodd ei groes (llin. 15).
4. Yr awr ei croeshoeliwyd (llin. 21).
5. Yr awr y bu farw (llin. 26).
6. Yr awr ei tynwyd oddi ar y groes (llin. 33).
7. Yr awr ei claddwyd (llin. 35).

⁴ Diammeu mai "awr" a ddylai fod yma.

⁵ Rhydd y geiriau ymyl-ddalenol ryw syniad i ni o'r hyn a ddylai y

geiriau fod. Ond y mae y pedair llinell ddilynol yn hollol dywyll.

⁶ Dygaist?

⁷ "Drud" = (*courageous*).

⁸ Dywed Iolo mai ar y drydedd awr (naw o'r gloch yn y boreu) y cymmerodd Crist ei groes gan fyned i gyfeiriad y "lle poenedig." Ond ym Marc xv., 25, dywedir:—"A'r drydedd awr oedd hi, a hwy a'i croeshoeliasant ef," ac yn adnod 33, dywed i dywyllwch fod ar yr holl ddaear o'r chweched hyd y nawfed awr; a chadarnheir ef gyda golwg ar y tywyllwch ym Matt. xxvii., 45, a Luc. xxiii., 44. Ond eto, yn Ioan xix., 14-15, gwelir fod Crist heb ei groeshoelio ar y chweched awr. A cheisir esbonio hyn gan rai trwy dybied fod Ioan, yr hwn oedd yn ysgrifenu yn benaf er budd yr Eglwys yn Asia Leiaf, yn dilyn y dull Rhufeinig o gyfrif amser, sef gan ddechreu o hanner nos. Y mae

- 9 Myned ir lle poenedig
yn noeth¹ duw ddoeth yn ddiddig
- 10 Iddewon oll oedd yn vn
20 ith werthu bydd waeth wrthyn
- 11 Awr chweched groged Grist
draw yn uthur rhwng lladron athrist
- 12 Dy syched oedd galedi
24 duw yn oeri dros yn pechodau ni
- 13 Gwedi hynnŷ ir hentir²
awr naw buost farw yn wir
- 14 Dy nad fy' yn dyfyo Dy enaid fry rhoist
28 duw a dyn ith dad yno yn dy fro
- 15 Marchog³ oedd yn amherchi
dysty ly duw dy ystlys di dewis dlws
- 16 Dir fu grynu does *goron haŵl* gronaul
- 32 dayar hen a duo'r haul
- 17 Awr osber ith gymerwyd
or groes i lawr grasol wyd
- 18 Ac awr gymwin i orwedd
- 36 ir dethost⁴ buost mewn bedd
- 19 Ar hun⁵ pob awr or rheini
gweddiwn bendigwndi⁶
- 20 Cyfodaist ag a edwyn⁷
- 40 y trydydd dydd duw a dyn
- 21 Ir nef ir aethost yn vfydd
gwnfyd fory deigeinfed bydd⁸

hyn mor dywyll i ni a'r llall, o yn rhy wallus i roddi unrhyw
blegid yn ol yr esboniad hwn, synwyr.
chwech o'r gloch yn y borou oedd y
chweched awr, ac nid naw o'r Crist.
gloch.

¹ Yr oeddys yn arferol o ddiosg
ymaith ddillad y condemniedig cyn
ei groeshoelio (*Penny Cyclop.*, vol.
viii., p. 177), yr hyn a wnaethant
gyda Christ, gan y dywedir iddynt,
ar ol ei groeshoelio, eu rhanu yn eu
plith eu hunain.

² Y mae hon, yn gystal a llin. 27,

³ Y milwr a drywanodd ystlys
Crist.

⁴ Daethost?

⁵ Y mae yn amlwg fod "ar hun"
yn gyssylltedig â'r llinell flaenorol.

⁶ Bendigwn di.

⁷ Y meddwl yma, fe allai, ydyw
iddo gyfodi a chael ei adnabod.

⁸ Hwyrach y goddefir i ni aw-
grymu y darlleniad a ganlyn :—
"Gwynfyd fore'r deugeinfed dydd."

- 22 Dydd y farn i daw ar varnom
 44 i farnu a rhannu rhom¹
 23 Rhannau drwg i'r rhai enwir²
 rhai dy nawdd i'r rhai da yn wir
 24 Pob a wr³ gwerth pybyr a ga
 46 o ddwg awr i'w weddia
 25 Yn ryuan yn awr angau
 ag awr yr hawg yn trigamwg⁴ frau
 26 Diengaist gwedi dy angau
 52 duw yn wych wyt yn iachau
 27 Arglwydd Iesu Grist eirglyw⁵
 un mab wyt a byw⁶
 28 Dafn oriau dy foroedd
 56 duw dy fyw gwedi dy fedd⁷
 29 Dy oriau saith ar dir siom
 dyro ofyn hyn drosom
 30 A dod fi eilenwr dy lû
 60 oes oesoedd i lûs⁸ Iesu

Iollo Goch

¹ "Rhom" = rh'om = rhyngom.² Anwir.³ Ai "da wr" a ddylasai fod yma?—ai ynte "awr"? Tybiwn mai y blaenaf.⁴ Y mae yma ryw wall : o bosibl nad cyfeiriad ydyw at oes fer dyn ar y ddacar.⁵ Eirglyw.⁶ Y mae y llinell yn rhy fyr o ddau sill.⁷ Y mae yma dwyllodl amlwg. Buasai yr odl yn gywir wrth roddi *faured* yn lle "foroedd"; ond y mae y "Dafn" yn nechreu llin. 55 yn gofyn am "foroedd."⁸ Lys.

LXIV.

LLYMA GOWYDD I ST. ANNA AI MAB CRIST AI POBL.

(O'r Add. MS., 14,964, fol. 48b).

Ceir y cywydd hwn yn *Add. MS.*, 14,936; ac y mae yn argraffedig hefyd yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), tudal. 28.

Nid oes dim o hanes St. Anna, na chyfeiriad ati, yn yr Ysgrythyrau. Y mae yn amlwg nad oedd unrhyw gyssylltiad rhyngddi â'r unig un o'r enw y ceir crybwylliad am dani yn y Beibl—"Anna brophwydes, merch Phaniel, o lwyth Aser" (Luc. ii. 36); o blegid y tebygolrwydd ydyw fod St. Anna o deulu Aaron. Ac yn ychwanegol at hyny, er fod Luc yn rhoddi manylion parthed i fywyd priodasol a gweddwdod "Anna brophwydes," ni rydd yr awgrym lleiaf fod rhyngddi unrhyw berthynas â Christ yn ol y cnawd. Ond er nad oes gyfeiriad at St. Anna yn yr Ysgrythyrau, rhydd y Pabyddion le amlwg iddi yn eu gwasanaeth, am mai hi, meddant hwy, oedd mam y Forwyn Fair. Cynhelir ei gwyl ar y 26ain o Orphenaf; ac yn *Allwydā neu Agoriad Paradwys*, tudal. 364, ceir y weddi ganlynol:—

"Ar Ddy'gwyl S. Ann *Mam Mair forwyn* fendigedic. Gorp. 26.

"O Dduw, yr hwn a deilyngaist roddi'r gras i'r fendigedic S. Ann o haeddu bod yn fam i Fam dy Vnicanedic Fab: caniada i ni gael ger dy fron di ein cymmhorthwyo a'i hamddiffyn hi, Vchelwyl yr hon yr ydym yn ei chynnal. Trwy'r vn Jesu Christ, &c."

Ond nid ydym yn cael y weddi hon ym mhlith yr amrywiol weddïau mewn perthynas â St. Anna yn yr argraffiadau diweddaraf o'r *Missal*. Wrth ddarllen y rhan gyntaf o'r cywydd, tueddir ni i feddwl fod Iolo Goch bron

ar y ffordd i gredu yng "Nghenhedliad dihalog Mair y Forwyn," yr hyn, fodd bynag, ni ddaeth i gael ei orchymmyn fel erthygl athrawiaethol ym mhlith y Pabyddion hyd y flwyddyn 1854, trwy awdurdod y Pab Pius IX. Ar y cyfan, ac yn enwedig y rhan olaf o hono, gellir ystyried y cywydd canlynol, o ran drychfeddyliau barddonol, gystal a'r un a gyfansoddwyd gan Iollo Goch. I'n tyb ni, y mae y pedair llinell a ganlyn yn lled darawiadol, os nad yn wir farddonol:—

"Baich ar ei braich oedd ei Brawd,
Ai baich a'n dug o bechawd ;
Ei Thad oedd yn y gadair,
A'i Mab oedd yn hŷn na Mair."

Saint y Kaint a Sant Kitus¹
Sioasim hendad . . .²
Pendefig bonhiddig hael
4 o nasreth ag yn Israel
Yn dair rhan ef ag Anna
rhinwedd ddoeth i rannai dda
Rhoi anyfion ran or gyfoeth³
8 i dŷ dduw pan ydoedd ddoeth⁴
Ar ail rhan⁵ ar ol i raid
ar unwaith a roe wainaid⁶

¹ "Saint y Cait a Saint Cytus."

R. J.

Tybia R. J. fod "Cait" yn golygu St. Catherine, ac mai St. Christopher oedd "Saint Cytus"; ac yr ydym yn credu ei fod yn gywir, o leiaf gyda golwg ar yr olaf. Dichon mai St. Christina sydd i feddwl wrth "Saint y Kaint" (neu Cait); pa fodd bynag, cynhelir dy' gwyl Christina ar y 24 o Orphenaf, dy'gwyl Cristopher ar y 25, a dy' gwyl Anna ar y 26; ac hwyrach mai am y rheewm fod eu gwyliau

yn cael eu cynnal ar ddyddiau olynol yr oedd Iollo yn eu cyseylltu.

² "Siosim hendad Siesus."

R. J.

Sioasim, yr un a Iohaysym (Cywydd Rhif LXVI., llin. 3), gŵr Anna, a thad Mair.

³ "Rhoi yn hyf rhan o'i gyfoeth."

R. J.

Y mae yn eglur fod ein testyn yn wallus yma.

⁴ "Pand ydoedd ddoeth?"—R. J.

⁵ "Ran."—R. J.

⁶ "Roe i weiniaid."—R. J.

- 12 Ef allai¹ yn hawdd felly
o draen y da drin ei dŷ²
Nid oedd etifedd ne ddyn³
oi gorph yn aberth dduw⁴ gwyn
Ar gwr oedd gorau or iaith
16 or Demel a yrrwyd ymaith⁵
A ddysg⁶ ei ddynion ai dda
Wrth hyn oddiwrth Anna
Cyrxawdd ni ffaelawdd or ffydd⁷
20 ir man uxaf or mynydd

¹ "Efallai."—*R. J.*

² "O drain y da drin ei dŷ."

R. J.

Ceisio *R. J.* esbonio y llinell hon yn y dull a ganlyn :—"O drain y da. O draen y da.—*MS.* Da ar draen, 'goods or wealth in circulation.' So *aur ar draen* means 'gold spread abroad,' or 'circulated.'" Hoffem wybod ym mha le y cafodd *R. J.* sail i'w eglurhad, o blegid ni welwyd yr un mor ddiamcan erioed. Nid ydyw "draen," neu "drain," ond dull gwlad am *draian* = y drydedd ran. Yr oedd y bardd wedi sylwi fod Sioasim yn cyfranu y rhan gyntaf o'i dda at achos crefydd; yr ail ran mewn elusenau i'r gweiniaid, neu'r tlodion; ac yn y llinell hon dywed ei fod yn defnyddio y drydedd ran at ei anghenion ei hun a'i deulu. Y mae "traen" yn enw ar leocedd yn y Deheubarth. Er enghraifft, sylwer ar dair maenor y Goron yn St. Clears, Sir Gaerfyrddin—Traen March, Traen Morgan, a Traen Clinton. Y mae tref ddegwm o'r enw Traen hefyd yn Llantrissant, Sir Forganwg. Ieithwedd y Deheubarth ydyw hon; a cheir ong-

hraiift arall gyffelyb yn "dâr"— ("daer" yn Llyvr Llan Dav)—am "daear" yng Ngogledd Cymru. Gwelir oddi wrth hyn fod perygl tynu casgliad yn rhy fuan—fel y gwna Iolo Morganwg yn fynych—mai rhyw fardd o'r Deheubarth yw yr awdwr, yn unig am y ceir yn y cyfansoddiad ryw air fel hwn.

³ "Neddyn."—*R. J.*

⁴ "Duw."—*R. J.*

⁵ Yr oedd bod yn amhrlantadwy yn cael ei ystyried yn waradwydd ym mhlith yr Iuddewon. A gallem feddwl fod a wnelo hyn ryw beth ag ymadawiad Sioasim—yr hwn, mae'n debyg, oedd yn dal rhyw swydd yn y deml, ac yn cael ei ystyried yn un o'r goreuon o'r iaith (neu'r genedl).

⁶ "A ddyg ei Ddynion ai dda.

Add. MS., 14,936.

"A ddug" yn ol *R. J.*; a hyny sydd gywir. Yma y mae Sioasim yn ymadael ag Anna, ac yn cymeryd ei eiddo gydag ef, ac yn myned i ben rhyw fynydd i weddio.

⁷ "Cyrchawdd ni ffaelawdd or ffydd

ir man ŷchaf or mynydd."

Add. MS., 14,936.

- Crio a wnaeth carai nawdd
 ar y creawdwr y criawdd
 Gweddiodd am rodd o ras
 24 yn y gof¹ hyny a gafas
 Duw a ddanfones i Dad²
 deg iawn hyd attaw³ gennad
 A dos di Dwysog dy iaith⁴
 28 at Anna etto unwaith
 Hi a fydd blaenwydd dyblaid⁵
 ith aros yn y porth auraid⁶
 Adref daeth i dref i Dad
 32 dryx ef mwy f; r dryxafiad⁷
 By ddawnes bowyd Anna⁸
 Baithoges i ddywies dda⁹
 I Anna merx a aned
 36 a hono iw Mair Crair Cred¹⁰
 By Fair or gair yn ddigêl¹¹
 yn feixiog o Nef uxel

¹ Ni wyddom am unrhyw eng-
 hraifft arall lle y defnyddir "cof"
 yn gyfystyr i *feddwel*, neu *galon*;
 ond y mae yn ddigon amlwg mai
 yn yr ystyr hwnw y defnyddir y
 gair yma. Fel y sylwa *R. J.*, y
 mae yn dra thebyg mai chwedl o
 wneuthuriad y mynachod ydyw yr
 un y cyfeirir ati yma.

² "Duw a ddanfones i'w dad."

R. J.

³ "Atto."—*R. J.*

⁴ "Dos di, Dwysog dy iaith."

R. J.

⁵ "Blaenwydd dy blaid."—*R. J.*
 Blaenwydd=y ganghen ffrwyth-
 lonaf o'r coed.

⁶ "Euraid."—*R. J.*

⁷ "Drych ef—mwy fu'r drych-
 afiad."—*R. J.*

⁸ "Bu ddawnus bywyd Anna."

R. J.

Fe welir fod y yn lle u yn fynych
 yn yr ysgriflyfr o'n blaen.

⁹ "Beichioges y dduwies dda."

R. J.

Gwelir fod Iolo yn galw Anna,
 fel y geilw Mair mewn lle arall, yn
 dduwies. Y mae *R. J.* yn cam-
 gymmeryd yn ei sylw ar y llinell
 hon trwy gyssylltu "dduwies" â
 Mair; ond y mae yn ddigon amlwg
 mai beichiogiad Anna sydd dan
 ystyriaeth.

¹⁰ "Crair Cred."—Y mae Iolo yn
 lled hoff o'r ymadrodd hwn; ac
 yma dynoda Mair fel gwrthddrych
 parch neu addoliad.

¹¹ "Bu Mair o'r Gair yn ddi gel."

R. J.

- Mal yr haul y molir honn¹
 40 drwy wydr ir ffynnon²
 Yn 'r un modd iawn rhydd³ anrheg
 i daeth Duw at famaeth⁴ deg,
 Gorau mam gorau mammaeth
 44 Gorau i nef y gwr a wnaeth⁵
 Cyflawn oedd Cyflawn addwyn
 tref i dduw tra fy i'w ddwyn⁶
 Angylion gwynion iw'r gwyr⁷
 48 oedd i wen⁸ ymddiddanwyr
 Wrth raid mawr fy 'r Ethrodion⁹
 i ganed dduw o gnawd hon¹⁰
 Hon a fagawdd oi Bronnau
 52 hynaws mawl oi hanes mau¹¹
 Baix ar ei braix oedd ei Brawd¹²
 ai baix a'n dŷg¹³ o bexawd

¹ "Hon."—*R. J.*

² Y mae y llinell hon yn ang-
 hyflawn, ac nid ydyw darlenniad
R. J. ond yn gyffelyb :—

" . . . drwy wydr i'r
 ffynnon."

Sylwa y Proffeswr Cowell (*Y
 Cymmrodor*, vol. viii., p. 229) ar
 llin. 37-40 o'r cywydd hwn drwy
 gyfeirio at y llinellau canlynol o
 waith Peire de Corbiac, bardd Pro-
 venciaidd a flodeuai yn y drydedd
 ganrif ar ddeg :—

" Receup en vos carn humana
 Jhesu Crist nostre salvaire,
 Si com ses trencamen faire
 Intral bels rais quan solelha
 Per la fenestra veirina."

Yr hyn a gyfieitha i'r Seisoneg
 yn y wedd a ganlyn :—" In you
 Jesus Christ our Saviour received
 human flesh, just as the bright ray,
 when the sun shines, enters through
 the glass window without making
 any fissure."

Awgryma hefyd mai "Yr &" (= *goes*), neu rywbeth tebyg, sydd
 yng ngholl yn y llinell.

³ "Iawn-rodd."—*R. J.*

⁴ "Fammaeth."—*R. J.*

⁵ "Y Gwr wnaeth."—*R. J.*

⁶ "Tref i Dduw, tra fu i'w
 ddwyn."—*R. J.*

"Tref" = cartref.

⁷ "Yw'r gwŷr."—*R. J.*

⁸ Gelwir Mair yn fynych mewn
 llyfrau Pabyddol yn "Fair Wen"
 = *Holy Mary*.

⁹ "Er athrodion."—*R. J.* Cy-
 feiriad at yr athrodion a ledaenid
 yn amser ei beichiogiad.

¹⁰ "Y ganed Duw o gnawd hon."

R. J.

¹¹ "Hynaws mawl yr hanes mau."

R. J.

¹² "Baich ar ei braich ei Brawd."

R. J.

¹³ "Dwg."—*R. J.*

56 I¹ thâd oedd yn y gadair²
 ai mab oedd yn hŷn na Mair
 Mair a wnel rhag yn gelyn³
 ymbil a Duw am blaid yn⁴
 Ar yn⁵ Duw ef a wrendy
 60 neges y Frenhines fry
 O xawn ni'n rhan drwy Anna
 mwy fydd yn daenydd⁶ a'n da

¹ "Ei."—*R. J.*

² "Cadair" = *cradle*. Gelwir hi
 yn rhai manau yn "cryd," "cawell,"
 "cawell baban," a "cadair fagu."

³ "Rhag y gelyn."—*R. J.*

⁴ "Blaid dyn."—*R. J.*

⁵ "Ein."—*R. J.*

Ar ein Duw (sef Crist) Ef (sef y
 Tad) a wrendy.

⁶ "Ein deunydd."—*R. J.*

LXV.

A W D L I F A I R

(O *Llyr Huw Lleyr*—*Add. MS.*, 14,967, fol. 62).

Y mae yr awdl hon i'w chael hefyd yn *Add. MS.*, 14,900; 14,970; a 14,971; yn *Jesus MS.*, E. 139, p. 62; a *Glanyrafon MS. K.*; ac y mae yn argraffedig hefyd yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), p. 41. Yn rhai o'r ysgriflyfrau uchod, megys *Add. MS.*, 14,900, *Jes. MS.*, a *Glanyrafon MS.*, ceir deuddeg o linellau ar ddechreu y cyfansoddiad, y rhai a adewir allan yn y llyfrau ereill. Gosodwn y gwahanol ddarlleniadau o honynt yma yn gyfochrog:—

<i>Add. MS.</i> , 14,900.	<i>Jesus MS. E.</i> 139.	<i>Glanyrafon MS. K.</i>
Doeth ith etholes Iessu	Doeth i etholes Iesu	Doeth ith etholes Iesu
Em addwyn yn fam ido	Em addwyn yn famiddo	Eni addwun yn fam
Dofydd i ddyfod a fi	dofudd a ddyfod avi	iddo
rrag diel o ffol Eva	rag dial afal Efa	dofudd addufod afi
Gwerth Efal gwardd	ni chymerth Efa ir afal	rrag dial afal Efa
heb . . . a gofal	gwardd	ni gwerth efa yr afal
i da ai drwg heb drwm	heb gyffwrdd a gofal	gwardd heb gyffwrdd a
atal	Nid ddaw drwg hi heb	gofal
. . . . da heb dal	drwm ddial	nida am ddrwg heb
Teg fur tal o wir y	Mwy nog i ra r da heb	drwm ddial
Drindod	dal	mwy nag i rardd heb
O dreudul y gadair	teg fyr tal eiriol o air i	dal
Penn ddoeth krist nef	drindod	teg fur tal o wrth y
araf grair	o drendal y gadair	drindawd
ond duw bab vn mab	pen ddoeth krist naf	o dreudal y gadair
mair	araf gair	pon ddoeth krist nef
	o Oen duw pab yn fab i	araf grair
	fair	Ond duw bab un mab
		mair

Nis gwyddom a oedd y llinellau uchod yn rhan o'r cyfansoddiad gwreiddiol ai peidio; ond nid ydynt yn *Llyr Huw Lleyr*—sef yr ysgriflyfr hynaf a welwyd genym ag sydd

yn cynnwys y cyfansoddiad hwn. Ac nid ydym yn ei ystyried yn nemawr o golled eu bod wedi eu gadael allan; o blegid nid ydynt yn cynnwys y peth nesaf i ddim o synwyr, cynghanedd, nac odl. Am yr awdl ganlynol, ceir ynddi rai llinellau da; ac y mae wedi ei chyfansoddi ar y mesur a elwir *Gwawdodyn Hir*; ond yn cadw at y naw-silliau, ac heb yr un *Toddaid* ynddi. Y mae yn llawn o Fair-addoliaeth; ac fel y cyfryw yn adlewyrchu syniadau Pabyddol yr oes hono. Yn hyny, o bosibl, y mae hyny o werth sydd yn perthyn iddi yn gynnwysedig. Er fod ynddi amryw syniadau, ac hyd yn nod ymadroddion, yn cyfateb yn hollol i'r hyn a geir mewn gwasanaethlyfrau Pabyddol; y mae ynddi hefyd linellau lled anhawdd eu deall. Ond ar y cyfan, y mae, er gwaethaf trwstaneiddwch copiŵyr, mor hawdd ei deall a'r mwyafrif o gyfansoddiadau Iolo Goch.

Mair edrych arnaf¹ amerodres²

Morwyn benaf³ wyd mair unbenes

Mair diornair⁴ mair deyrnes

4 Mair oleudrem hael lywodres⁵

Missiri mei⁶ moes eryres

Prydlyfr gweryddon⁷ wyt ai priodles

A ffenestr wydrin Nef ai ffeunes⁸

¹ "Arna."—*Glan. MS.*

² "Ymerodres"—yn y llyfrau ereill.

³ "Bena."—*Glan. MS.*

⁴ "Diornair"—diargyhoedd?

⁵ Gwahaniaetha y darlenniad, ond nid er gwell, fel y tybiwn, yn *Glan. MS.* :—

"Mair oleudref haul mawr lyfodres."

⁶ Yn y llyfrau ereill darllenir "Miserere mei"—geiriau Lladin a geir yn gyffredin mewn gwasanaethlyfrau Pabyddol, yn golygu *Tru-*

garha wrthyf. Gwall y copiwr ydyw ysgrifenu "Missiri."

⁷ Sylwa *R. J.* :—"Pryd-lyfr, 'a book for meditation,' 'a mirror for virgins, for example or pattern.'"

⁸ Y menywaidd am "paun"—enw o anrhydedd gan y beirdd Cymreig; ac ymddengys i ni yn debycach i fod yn gywir na "phenes," yn ol *Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.* Yn dilyn y llinell hon yn *Glan. MS.* ceir :—

"Lleuad yngylion wyd aillewes;" ac yr un modd yn *Jes. MS.*, gyda "engylion" yn lle "yngylion."

- 8 A mam i Dduw yny moddiwes¹
 A merch ith un brawd briffawd broffes²
 A chwaer ith unmab³ wyd a chares
 Y sagos⁴ o beth dywysoges
 12 Y deiryd dy fab yt nid erres⁵
 Ysta da dorllwyth vu ystad iarll⁶
 Venaid ywr angel anvones⁷
 Yr ysbryd attad⁸ genad gynnes⁹
 16 Y vo a chwegair ath veichioges¹⁰
 Duw o vewn aeth yn dy vynwes
 Mal yr a drwyr gwydr terydr tes¹¹
 Megis bagad o rad rrodres¹²

¹ "Yn ymoddiwes"—*Add. MS.*, 14,970; "em o ddiwinies"—*Jes. MS.*; "em oddiwes"—*Glan. MS.*; "yn ymorddiwes"—*R. J.* A thebyg mai yr olaf sydd gywir—"ymor-ddiwes" = *to advance one's self up.*

² "A nerth i'th unbrawd briffawd broffes."—*Add. MS.*, 14,970.

"Yn serch ith un brawd briffawd broffes."—*Jes. MS.*

"On serch ith un brawd briffawd broffes."—*Glan. MS.*

"A nerth un-brawd, briffawd broffes."—*R. J.*

³ "Unbrawd" yn *Glan. MS.*, ond yn wallus, yn ddiau.

⁴ "Ys agos" yn y llyfrau ereill.

⁵ "Y deiryd dy fab yt nid erres"—yn y llyfrau ereill.

⁶ Nid oes angen am yr ail air yn y llinell hon; y mae "ysta" yn gyfansawdd o *ys a da*; ac felly darlleniad *R. J.* sydd gywir:—

"Ysta dorllwyth fu ystad iarll."

⁷ "F'enaid yw'r angel a anvones."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

⁸ "Atad."—*Glan. MS.*

⁹ "Gennad gynnes"—*Add. MS.*, 14,970, *Jes. MS.*, ac *R. J.*

¹⁰ "Efo a chwegair a'th feichioges."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

Tybia *R. J.* mai geiriau cyfarchiadol yr angel oedd y rhai hyn. Ond yr ydym yu methu a'u cael yn *chwech*. Yn y Testament Lladin y maent fyraf, ond y maent yn ddeg yno:—"Ave, gratia dilecta: Dominus tecum est: benedicta tu inter mulieres." Y mae y cyfarchiad yn feithach fyth yn y Testament Groeg:—*εἰπε· χαῖρε, κεχαριτωμένη· ὁ Κύριος μετὰ σοῦ· εὐλογημένη σὺ ἐν γυναιξίν.* (Luc. i., 28.)

¹¹ "Mal yr a drwy'r gwydr y terydr tes."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

Am ymadrodd cyffelyb gwel Cywydd Rhif LXIV., llin. 39-40.

¹² "Megis bagad o rad rhodres."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

Hyny yw, llawer o roddion ardderchog.

- 20 Tair kneuen gwisgi tri y troes¹
Yn Dad trwy gariad y ragores²
Yn vab rrwydd arab araf kynes³
Yn ysbryd glendyd glan y moddiwes⁴
- 24 Gwedi geni i mab gwn y digones⁵
Di areb rrwydded y diores⁶
Heb poen yn esgor por perfffeithles⁷
Heb vriw oi arwain nef briores⁸
- 28 Heb dim godineb i neb nes⁹
Ne ogan o wr nid oedd neges¹⁰
Ef agorut nef vaer dref vowrdres¹¹
Ef a oruc uffern nef gair kyffes
- 32 Seren gron gyson amddangoses
I'r tri brenin gwyn hyn fu r hanes¹²
- ¹ "Tair cneuen wisgi tri y troes."
Add. MS., 14,970, ac R. J.
- ² "Yn dad rhyw gariad i rhagores."
Jes. MS.
- ³ "Yn fab gwyn arab araf kynnes."
Jes. MS.
- ⁴ "Yn ysbryd gleinyd glân ymddiws."
Add. MS., 14,970.
"Yn ysbrud glendud glandeg arnes."
Jes. MS.
- ⁵ "Gwedi geni i mab gwynn i digones."
Add. MS., 14,970.
- ⁶ "Diareb rhwydd a dieres."
Add. MS., 14,970, ac R. J.
"Dihareb rwydddeb y dihores."
Jes. MS.
"Dihareb rrwydd des i di heres."
Glan. MS.
- ⁷ "Heb poen yn ysgor por perfffeithles."
Jes. MS.
"Heb poen yn yscor por perfffeithles."
Glan. MS.
"Heb groen yn esgor Por perfffeithles."
R. J.
- ⁸ "Na briw ny arwain ne briores."
Jes. MS.
"Na briw yni arwain ne briores."
Glan. MS.
Yn ol Iolo yn y llinellau hyn, ni ddaeth i ran Mair y poenau cysylltedig â rhoddi genedigaeth.
- ⁹ "Heb dim godineb i neb nes."
Add. MS., 14,970.
"Na dim godineb a neb ynes."
Jes. MS.
"Na dim godineb nes yn nes."
Glan. MS.
- ¹⁰ "Neu ogan owr nid oes neges."
Add. MS., 14,970
"Ne ogan o wr neu neges."
Jes. MS.
"No ogan orior ne ^{ni anogus} neges."
Glan. MS.
"Neu ogan awr nid oes neges."
R. J.
- ¹¹ "Ef a orug nef faerdref feurdres."
Add. MS., 14,970, ac R. J.
Hyny yw, "Ef a wnaeth y nef, cartref eangfaith."
- ¹² "I'r tri brenin gwynn hynn fu'r hanes."
Add. MS., 14,970.

- I ddwyn rrudd¹ gyflwyn yt rac avles
 Aur athus a myr ni syr² santes
 36 Sioseb or preseb gwir fur profes³
 'Kof ydiw kenyf ai kodes⁴
 Ieuan⁵ Vedyddiwr gwr an gwares
 Tad bedydd dibech trech y troes⁷
 40 Yn wfr aur ddonen yno y nofies⁸
 Kref y megaist ef megis dwywes⁹

Cyfeirir yma at ymddangosiad y Seren i'r doethion, sef y "tri brenin o Gwlen" (Gwel tudal. 534).

¹ "Rhwydd"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*; "rhyw"—*Jes. MS.*; "rruw"—*Glan. MS.* Nid oes synwyr yn "rhudd"; naill ai "rhwydd" neu "rhyw" sydd gywir.

² "Ni syr" = ni sora, ni ddigia.

³ "Profes"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*; "brofes"—*Jes. MS.*; "profes"—*Glan. MS.*

⁴ O flaen y llinell hon darllenir:—

"Di eddugus fu gyfarchles."

Jes. MS.

"Diddges oedd afu gyfarches."

Glan. MS.

⁵ "Cof ydyw cennyf ai cyfodes."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"Kof ydiw yn kynta i kyfodes."

Jes. MS.

"Kof ydiw yny kyntaf ai kyfodes."—*Glan. MS.*

⁶ "Ifan"—*Jes. MS.*; "Evan"—*Glan. MS.* (Gwel uchod, tudal. 356).

⁷ "Ai troches"—*Jes. MS.*; "i troches"—*Glan. MS.* Y mae yn amlwg fod y testyn, yn gystal ag *Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*, yn anghywir wrth roddi "tröes." Yn dilyn llin. 39 yn *Jes. MS.* a *Glan. MS.* ceir:—

"Trwy ffydd a bedydd ni ddarbodes."

⁸ "Yn nwfr Eurdonnen yno y nofies."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"I nwr Urddonen yno noddies."—*Jes. MS.*

"Yn wr Urddonen yno i noddies."—*Glan. MS.*

Sylwa *Robert Jones* ar y llinell hon fel y canlyn:—

"*Eurdonnen.* The conversion into this beautiful word of the name Jordan is a happy effort of the bard. He makes it 'the golden rippled.'"

Ond rhaid amddifadu Iolo Goch o'r anrhydedd o fod y cyntaf i ddefnyddio y ffurf hon ar yr euw. Tybiwn nad oedd mewn un modd yn anghyffredin. Cawn y gair yng ngwaith Einiawn ab Gwalchmai, yr hwn a flodeuai yn y ddeuddegfed ganrif (*Myv. Arch.*, p. 231):—

"Boed ef y talwyf hael rwyf rieu

Ar lann eurdonen yr y donyeu."

⁹ "Cref y megaist ef megis Dwyfes."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"Da megais di ef megis diwies."—*Jes. MS.*

"Da megaist efe megis duwies." *Glan. MS.*

- Ar dy vron hygn vru¹ vrenhines
 Oddyno y buost yn ddewines²
 44 Ti a ffoest ac ef tu 'a ffeles³
 Ir Aifid⁴ rrac angrafft a rrac yngres⁵
 rryvedd vur gallu vawr⁶ gyveilles
 Ymddwyn yn vorrwyn vair varglwyddes
 48 Morwyn kyn ymddwyn vwyn vynaches
 Morwyn yn ymddwyn gorllwyn geirilles
 Morwynaidd eto a meiriones⁷
 Byw ydwyd ynef val abades⁸
 52 Yn dy gorffolaeth hoyw gorff haules⁹
 Gidar gwr brawdwr ath briodes¹⁰
 A theilwng a iawn ithetholes¹¹
 Iddo iw lywio yn gywelaes¹²

Iolo Goch ai kant.

- ¹ "Fry" yn y llyfrau ereill
² "Oddiyno y buost y ddewines."
Add. MS., 14,970.
 "Ag yno buost di ddewines."
Jes. MS.
³ "I ffoest ag ef hyd yn aiffes."
Jes. MS.
 Yn dilyn llinell 44 ceir a ganlyn
 yn y *Glan. MS.* :—
 "Wirfawr tramawr wyrff fair
 gynnes."
⁴ "Aipht"—*Add. MS.*, 14,970.
⁵ "Drwy aifft rhag ni graff a
 rhag angres."—*Jes. MS.*
⁶ "Rhyfedd fur gallu o fair
 gyfeilles."—*Glan. MS.*
⁷ "Mirionis."—*Jes. MS.* Y mae
 i'r gair "meiriones" ddau ystyr :
 (1) *arolygyddes*, ar leiandy er
 enghraifft ; ac yn (2) *anllades*, neu
 butain ; yn gyffelyb fel y defnyddir
 y gair "meistres" mewn dau ystyr.
⁸ "Byw ydwyd yn nef fal
 abades." — *Add. MS.*,
 14,970, ac *R. J.*
 "A byw idiw yni nef a abades."
Jes. MS.
⁹ "Yn dy gorpholaeth hoyw-
 gorph haules."
Add. MS., 14,970.
 "Yn dy gorffolaeth gorff hoyw-
 les."—*Jes. MS.*
 "Yn dy gyrffoedd gorff hoyw-
 les."—*Glan. MS.*
¹⁰ "Gyda'r gwr brawdwr a'th
 briodes."
Add. MS., 14,970, ac *R. J.*
 "Gydar gwr, brawdwr ath
 briodes."—*Jes. MS.*
 "Gidar gwr brawdwr ath
 briodes."—*Glan. MS.*
¹¹ "A theilwng ag iawn ith
 etholes."
Add. MS., 14,970.
 "A theilwng o beth i the-
 tholes."
Jes. MS., a *Glan. MS.*
¹² "Gywalaes"—*Add. MS.*, 14,970 ;
 "Gywelyes"—*R. J.*
 "Cywelyes" = *consort*.

LXVI.

ACHAU MAIR.

(*O Lyvr Huw Lleyr—Add. MS., 14,967, fol. 82*).

Ceir y cywydd hwn yn *Add. MS.*, 14,984, fol. 207b, dan y penawd :—"Cowydd yn dangos modd i doeth Iesu Grist o hil Adda ai fod yn frawd i bob Cristion—y modd i dioddefodd i ddwyn pawb i baradwys;" a gwelir y cywydd drachefn ym mhellach ym mlaen (fol. 327), yn yr un ysgriflyfr. Ond yn yr *Add. MS.*, 14,970, yn gystal ag yn argraffedig yn *The Works of Iolo Goch* (gan Robert Jones), p. 31, ceir ef dan y penawd—"Cywydd Achau Crist."

Nid ydym yn gwybod o ba ffynnonell y cafodd Iolo Goch yr achau hyn, o blegid nid ydynt yn cytuno yn hollol â'r rhai a geir ym Matt. i., nac yn Luc iii. Ond y maent yn cytuno â Luc, gydag un eithriad, ar ol cyrhaedd llinell 10. Pa fodd bynag, y mae yr enwau a geir ar ddechreu y cywydd yn ddyeithr i ni. Er y dywedir yn Luc iii., 23, mai mab i Eli oedd Joseph, eto, tybia y mwyafrif o'r esbonwyr mai achau Mair, ac nid Joseph, a geir yn y bennod hon, tra mai achau Joseph a rydd Matthew. Ym mhlith y rhesymau a ddygir ym mlaen gan esbonwyr dros mai achau Mair, ac nid Joseph, a rydd Luc, dywedir yn (1) fod Luc yn rhoddi mwy o le a sylw i Mair yn y pennodau blaenorol nag a geir yn un o'r efengylau ereill, ac nad yw ei gyfeiriad at Joseph ond cynnil; ac yn (2) fod Luc yn nechreu ei achres yn gofalu adgofio mai tad *tybiedig* i Grist oedd Joseph, tra yr oedd Mair yn wir fam iddo. Mewn perthynas i'r wrthddadl a godir na enwir Mair yn yr achres, atebir nad oedd yr Iuddewon yn arferol o gofnodi enwau merched. Ac mewn atebiad i'r wrthddadl fod Mair yn gares i Eliza-

beth, yr hon oedd o lwyth Lefi, ac nid o lwyth Juda, dywedir, yn dra phriodol, y gallasai mam Mair fod o deulu Aaron, a'i thad o lwyth Juda.

Pa fodd bynag, honi rhoddi achau Mair, ac nid Joseph, y mae Iolo Goch. Ac mewn cywydd o'r fath, yr hwn a gynnwysa gynnifer o enwau Hebreig, nis gellir dysgwyl ond ychydig farddoniaeth. Pentyra y bardd ar ol yr enwau, ac yn gymhlethedig â hwynt, ansoddeiriau cwbl ddiystyr, ac heb unrhyw briodoldeb yn perthyn iddynt. Ar ol darfod â'r achres, y mae ganddo rai llinellau lled dda, er nas gellir mewn un modd eu hystyried yn uwchraddol.

Dayoni¹ Duw a aned
O Vair Wyrf² grair arf i gred³
Verch Iohaysym⁴ vab grym gra⁵
4 Pan torrwr par pant tira⁶
Vab pante vab pwynt eirior
Vab Elsi vab Eli bor

¹ "Daioni"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

"Daioni Duw" yma ydyw Iesu Grist.

² "O Fair Wyrf"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

Cytunwn âg *R. J.* mai "wyrf" = *pure, fresh*, &c., ydyw y goreu a'r cywiraf o ran hyd.

³ "Grair arf i gred" = gwrth-ddrych addoliad ac amddiffyniad y Cristion.

⁴ "Iohasym"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.* Y mae yn anhawdd gwybod oddi wrth *ffurf* y llythyren pa un ai *I* ynte *J* a roddir yn y fath enwau a "Iohasym" gan gopiwr ein testyn. Ond rhoddwn hi yn *I* gan y gwyddom mai yn gymharol eddiweddar y dechreuwyd seinio *J* yn yr un sain a roddir iddi yn y Seisoneg. Yn yr argraffiadau

boreuaf o'r Beibl Cymraeg ceir *Isaac* ac *Israel*, &c., yn gystal a *Jacob* a *Joseph*; a'r argraffiad a gyhoeddwyd yn 1654 oedd y cyntaf i wahaniaethu yn y peth hwn. Ym mhell ar ol hyn, fodd bynag, defnyddid *j* yn fynych yn lle *i* mewn llyfrau Cymraeg, yn enwedig yn y rhai a gyhoeddwyd gan Griffith Jones, Llanddowror, lle y mae llawer o *gynhorjon buddiol*. Fe sylwa y darlennydd fod "*Iolo Goch*" yn gystal ag "*Iolo Goch*" ar ddiwedd rhai cywyddau yn y casgliad hwn; ond seinier y *J* yn *I*.

Nid ydyw *Iohasym* yn yr achau yn ol Matthew na Luc.

⁵ "Gra" = blaendarddu.

⁶ "Pan torrwr pan pant tira."

Add. MS., 14,970.

"Pan torrwr pan pant ira."

R. J.

- Vab matham¹ digam degwch
 8 Vab Ioseb fel ateb² fflwch
 Vab mathari gloywri glan
 Digaeth fab amos degan
 Vn nevol fab nawn ufudd
 12 Vab Esli vab nac i nudd³
 Vab Maath vab Mathathei⁴
 O Symeth⁵ mydr vab Semei
 Vab Ioseb vab wynebloyw
 16 Suwda vab Iohana hoyw⁶
 Vab resa vab oreuserch⁷
 Sorobabel siwel⁸ serch
 Vab Salathiel bu sant⁹
 20 Moddus vab Neri¹⁰ meddiant
 Vab hoyw Elmadan vab her¹¹

¹ "Matham"—*Add. MS.*, 14,970;

"Mattham"—*R. J.*

² "Atteb"—*Add. MS.*, 14,970 ;

"ateb"—*R. J.*

³ "Un nefawl fab Nawm ufydd
 Fab Eli fab Naggi nudd."

Add. MS., 14,970.

"Nefawl fab Näwn afudd ;

Fab Eli ; fab Naggi nudd."

R. J.

Yn ol Luc iii., 23-25, cawn yr achau yn y drefn a ganlyn :—Joseph (gŵr Mair) fab Eli, fab Matthat, fab Lefi, fab Melchi, fab Janna, fab Joseph, fab Mattathias, fab Amos, fab Naum, fab Esli, fab Naggai.

⁴ "Matthathei"—*Add. MS.*, 14,970 ; "Mathathei"—*R. J.*

⁵ "Symaeth."—*R. J.* Symaeth = complete state.

⁶ "Fab Siwda fab Iohanna hoyw."—*Add. MS.*, 14,970.

"Fa Siwda ; fab Iohanna hoyw."—*R. J.*

⁷ "Oreuserch"—*Add. MS.*, 14,970 ;

"oreuserch"—*R. J.*

⁸ Credwn fod Robert Jones yn gywir pan yn awgrymu mai ffurf Gymreig ar *jewel* ydyw "siwel."

⁹ "Fab Salathiel bu sel sant."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

Y mae y llinell yn y testyn yn fyr o sill, os na wneir Salathiel yn bedwar sill—Sal-ath-i-el.

¹⁰ "Neri"—*Add. MS.*, 14,970 ;

"Ner"—*R. J.* "Neri" sydd gywir o ran ffurf a hyd.

¹¹ "Fab hoyw Elmadan fab Hêr."

Add. MS., 14,970.

"Fab hoyw Elmodam ; fab Er."—*R. J.*

Gwelir fod y bardd yn gadael allan dri o enwau rhwng Neri ag Elmadan, neu Elmodam, o blegid yn Luc iii., 28, ceir fod Neri yn fab Melchi, fab Adi, fab Cosam, fab Elmodam, fab Er. Tybia Robert Jones ei fod yn eugadael allan am nas gallai eu gweu ar gyng-

- luniaidd vab Iessu¹ loywner
 Vab elieser vab sioram²
 24 Bu hoff vab mathat³ baham⁴
 Vab liw⁵ fab simon⁶ wiwiaith
 Baun rhiw⁷ vab Iuda benrraith⁸
 Vab Ioseb wiw wynebwr
 28 Vab Iona wel dyna wr⁹
 Vab eliasym¹⁰ rym rwymiaith
 Vab melca vab mena¹¹ maith
 Vab mathata¹² achwrda¹³ chwyrn
 32 Diwg¹⁴ vab nathan deyrn
 Vab Ddy¹⁵ vrenin gwin gwydd
 Broffwyd vab Iesse broffwydd

hanedd. Ond tybiwn na fuasai hyny ond gorchwyl bychan, gan nad ymddengys fod Iolo yn ofalus pa ansoddeiriau a rydd yn gyssyllt-edig â'r enwau o'r dechreu i'r diwedd.

¹ "Iesu"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*; "Jose" gan Luc.

² "Jorim" gan Luc.

³ "Mathat"—*Add. MS.*, 14,970; "Matthat"—*R. J.*, a Luc.

⁴ "Ba ham"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.* Nid oes i'r gair hwn amcan yn y byd heb law cyfateb i odliad y llinell flaenorol.

⁵ "Liw" = Lefi.

⁶ "Simion"—*Add. MS.*, 14,970; "Simeon"—*R. J.*

⁷ "Rhiw"—*Add. MS.*, 14,970; "rhyw"—*R. J.*

Ac y mae yn debyg mai "rhyw" = llon (*genial*) sydd gywir.

⁸ "Ben rhaith"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

⁹ "Wel dyna wr" ydynt dri gair heb unrhyw ystyr iddynt yma amgen na gorphen y llinell; ac y

maent yn ymddangos yn blentyn-aid i'r eithaf. Ni wyddom am ddim yn hanes y dyn hwn—yn wir, ni wyddom ddim am dano o gwbl—a allasai gyfiawnhau y bardd i ddyweyd "wel dyna wr" am dano ef mwy nag am rywun arall.

¹⁰ "Eliasym"—*Add. MS.*, 14,970; "Eliassym"—*R. J.*

¹¹ "Mena"—sef Maïnan, yn ol Luc.

¹² "Matatha"—*Add. MS.*, 14,970;

"Mattatha"—*R. J.*

¹³ "Ach wrda"—*Add. MS.*, 14,970; "âch wrda"—*R. J.*

Ach gwrda = o haniad pendefig-aid. Y mae *R. J.* yn cyfieithu "âch wrda chwyrn" yn "*of the stem of an active hero.*"

¹⁴ "Diog"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

Y mae y testyn yn well o lawer yma—"diwg" = *not angry*, ac nid "diog" = *lazy*.

¹⁵ "Ddy," talfyriad o *Ddafydd*; "Dafydd" yn *Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

- 36 Vab obeth diveth ei don
Salmwir¹ vab bos vab salmon
Vab nason wiwron² arrab³
Da bwyll vab aminidab⁴
Vab arom⁵ lin esrom⁶ les
40 Offerŷ gwir vab ffares⁷
Vab Iuda vab ni wna nag
Eisoës Iakob vab Isag
Vab Abram bab o rym bwyll⁸
44 Vab tharre deidieu didwyll⁹
Vab nacor vab klodvor klau
rrugl fab sarwch vab rhegau¹⁰
Vab Phaleg¹¹ diofec¹² dwyll
48 Heber¹³ vab sale hoyw bwyll¹⁴
Vab kaenan wrddran eurddrem
Vab syw arphaxat vab sem¹⁵

¹ "Salmwir"—*Add. MS.*, 14,970;

"salmwr"—*R. J.*

² "Wiwron"—*Add. MS.*, 14,970;

"wron"—*R. J.*

³ Y mae "arrab" wedi ei groesi allan yn y testyn; "arab" yn *Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.* "Arab" = fraeth (*witty*).

⁴ "Aminidab"—*Add. MS.*, 14,970;

"Aminadâb"—*R. J.*

⁵ "Aron"—*Add. MS.*, 14,970;

"Arom"—*R. J.*

⁶ "Esron"—*Add. MS.*, 14,970;

"Esrom"—*R. J.*

⁷ "O phery gwir fab Hares."

Add. MS., 14,970.

"O phery gwir, fab Phares."

R. J.

⁸ Cyfleitha *R. J.* ddiwedd y llinell fel hyn:—"a Pope in strength of mind."

⁹ "Fab Thare deidie didwyll"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*

¹⁰ "Fab Nachor fab clodfor clau

Rhugl fab Sermwch fab Rhogau."

Add. MS., 14,970.

"Fab Nachor, fab clodfor clau;

Rhugl fab Saruch; fab Rhagau."—*R. J.*

¹¹ "Ffaleg"—*Add. MS.*, 14,970;

"Phaleg"—*R. J.*

¹² "Diofec"—*Add. MS.*, 14,970;

"diofec"—*R. J.*

Yr ydym yn methu a chael y fath air a "diofec" yn ein geiriaduron. Tybia *R. J.* mai meddwl "diofec dwyll" ydyw "*without deceit of mind.*"

¹³ "Hebr"—*Add. MS.*, 14,970;

"Heber"—*R. J.*

¹⁴ "Hoywbwyll"—*Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*—yn golygu meddwl bywiog.

¹⁵ "Fab Caenan wrddran eurddrem

Fab Syw Arffacsad fab Sem."

Add. MS., 14,970.

- Vab noe hen i len ai liw¹
 52 A adeiliodd rrag² diliw
 Vab lameth dra diveth drem³
 Ai sel vab mathusalem⁴
 Fab Enoc vwya i benwn⁵
 56 Vab Iareth heleth fu hwnn
 Fab malalel mawl eilwaith
 Kariad mil fur kiried maith⁶
 Vab caynan⁷ ddwyvan ddiveth
 60 Oes hir vab Enos vab seth
 Vab addaf gloyw eurnaf glwys
 Priodor⁸ tir paradwys
 Vab Duw ei hun gun gwrawl
 64 Tad pybyr vab pob rryw vawl
 Brawd lles i addaf bryd llwyr⁹
 Ai wrol daid ai orwyr

"Fab Cainan, wrdran eurdrem;
 Fab syw Arphacsad, fab Sem."

R. J.

Sylwa R. J. fod yn anhawdd gwybod pa un ai cynnyrch cam-ysgrifiad ydyw "wrdran" ai gair wedi myned allan o arferiad. Tybiwn mai yr olaf, gan mai "wrddran" ydyw mewn dau ysgriflyfr o'n blaen. Ai nid oes perthynas rhyngddo a "gwrdd" = *stout, strong, ardent, vehement, earnest* — gwrdd-ran?

¹ "Fab Noe hên i lén ai liw."

Add. MS., 14,970.

"Fab Noe hên i lén a'i liw."—R. J.

² "Rhag"—*Add. MS.*, 14,970,

ac R. J.

³ "Fab Lameth fab difeth drem."

Add. MS., 14,970, ac R. J.

⁴ "Mathusalem"—*Add. MS.*, 14,970; "Methusalem"—R. J.

⁵ "Fab Enog fwya'i bennwn"—

Add. MS., 14,970, ac R. J.

"Benwn" (penwn) = baner.

⁶ "Cariad mil fu'r ciried maith."

Add. MS., 14,970.

"Ciried" = caredigrwydd, &c.

⁷ Y mae "Kynnan" wedi ei groesi allan, a "Caynan" wedi ei ysgrifenu uwch law iddo, mewn llaw ddiweddarach.

"Caynan"—*Add. MS.*, 14,970;

"Cainan"—R. J.

Nodir "Kaenan" arall (Cainan fab Arphaxad) yn yr achau; felly, fe welir y priodoldeb o ddefnyddio yr ymadrodd "ddwyvan ddiveth," ac o'r "oes hir" a gafodd fab Enos, gan iddo fyw 910 o flynyddoedd.

⁸ "Priodor" = etifedd, neu berchenog.

⁹ Yn *Add. MS.*, 14,970, ar ymyl y ddalen gogyfer a'r llinell hon, ceir y nodyn a ganlyn gan Iolo Morganwg:—"Iesu Grist yn frawd i Addaf, &c., I.M." Ac yn y llinell ddilynol, gwelwn fod y bardd yn gwneyd Crist yn daid ac yn orwyr i Adda.

- 68 Brawd i Vair ddiwair ddwyiaith¹
 Ai thaid² ai mab enaid maith
 Brawd i bob kristion o brudd
 Da dwyvawl ai dad uvudd³
 O hil Addaf hylwyddior
- 72 Yr ym yn geraint i'r Ior
 Arglwydd vwchlaw arglwyddi
 O nef yw n penn_kenedl_ni⁴

¹ "Ddwyiaith" ydyw y gair olaf fel yr ysgrifenydd ef gyntaf; ond rhoddwyd i uwch ei ben mewn llaw ddiweddar er ei wneyd yn "ddwyiaith."

"Brawd i Fair ddiwair ddwy-waith."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

Nid ydyw *R. J.* yn sicr pa un a ydyw "ddiwair ddwywaith" (= *doubly chaste*) yn golygu y radd uwchaf o berffeithrwydd yn niweirdeb y Forwyn, ai ynte y beichiogiad dihalog (*immaculate conception*); ac y mae yn gadael i'r darllenydd farnu drosto ei hunan. Tybiwn fod y weddi ganlynol o *Allwydd neu Agoriad Paradwys*, tudal. 303, yn cynnwys yr hyn a feddyliai y bardd:—

"Mam wen ein Prynnwr, 'rhon
 wyt Borth i'r Nef,
 A Seren y mor, cymmortha'r
 methiant Bobl a'i
 gofal am godi: tydi 'Rhon a
 genhedlaist dy
 Genhdlwr Sanct, a natur oll
 yn llwyr ryfeddu'r
 gwaith. Morwyn o'r blaen a
 morwyn wyt ar
 ol, Derbyn o eneu Gabriel'r
 Hanffych well

Trugarha wrthym bechaduriaid
 ffol.

Vers. Angelein Harglwydd a
 fynegodd i Fair.

Resp. A hi a ymddwynodd
 o'r Yspryd Glan."

Pa fodd bynag, credwn fod "ddiwair ddwyiaith" a geir yn y testyn yn anghywir; ac mai "ddwy-waith" a ddylasai fod.

² "Thad" a ysgrifenydd gyntaf; y mae yr i uwch ben mewn llaw ddiweddar.

³ "Brawd i bob Cristion o brudd
 Da dwyfawl ai dad ufudd."

Add. MS., 14,970.

"Brawd i bob Cristion o brudd
 Du Dwyfawl, a'i Dad ufudd."

R. J.

Y mae gan *R. J.* y sylw canlynol yma:—"O brudd du dwyfawl. Can the bard mean to identify religion with gloom in this place? It seems so." Ond credwn nad oedd y bardd yn meddwl dim o'r fath both. Gwelwn mai "Da," ac nid "du," a ddechreu a llinell; a thybied yr ydym mai "brydd" = *gwirfoddol*, ydyw, neu a ddylai fod, y gair blaenorol—"brawd i bob Cristion o wirfodd."

⁴ "O nef yw'n Pencenedl ni."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

- Gweles vaint poen a galar
 76 A oedd gaeth addaf i gar¹
 Kymmerth² ar groes dromloes draw
 Vawr dristyd i farw drostaw³
 Kyfodes kyva ydyw
 80 Droedwyn vab dradwy yn vyw⁴
 I ddwyn i⁵ daid wiw ddawn⁶ dwys
 O bryder i Baradwys
 Ar sawl urddasol or saint
 84 Ac⁷ a rodd Duw ai⁸ geraint
 I vair i diolchaf vi
 A Duw Ion i daioni
 Am fagu Iessu⁹ oesir
 88 Bronwyn gun Brenin y gwir
 A brynawdd a gwaed breiniawl
 I deulu vo dyly vawl¹⁰

¹ "Gwelais faint poen a galar
 A oedd gaeth Adda i gar."
Add. MS., 14,970.

"Gwelais faint graen a galar
 A oedd gaeth Adda i'w gar."
R. J.

Y mae *R. J.* yn egluro "graen"
 trwy roddi *pungency*, *asperity*, ar
 ei ol; ond nid ydyw y gair "poen"
 a geir yn y testyn yn galw am un-
 rhyw eglurhad.

² "Cymmerth" — *Add. MS.*,
 14,970, ac *R. J.*

³ "Fawr dristyd i farw drostaw."
Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

⁴ "Cyfodes cyfa ydyw
 Droedwyn fab dradwy yn
 fyw."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*
 Diammeu fod "cyfa," fel y sylwa
R. J., yn golygu perffeithrwydd.
 A thybiwn fod "droedwyn" yn
 cyfeirio at ei anllygredigaeth.

⁵ "Ei" — *Add. MS.*, 14,970, ac
R. J.

⁶ "Wiwdawn" — *Add. MS.*,
 14,970, ac *R. J.*

⁷ "Ag" — *Add. MS.*, 14,970, ac
R. J.

⁸ "A'i." — *R. J.*

⁹ "Iesu" — *Add. MS.*, 14,970, ac
R. J.

¹⁰ Hon yw'r llinell olaf yn y
 cywydd fel y'i ceir gan *R. J.* Ac
 nid ydyw yn crybwyll iddo ei weled
 yn helaethach, er fod yn amlwg ei
 fod yn gwneyd defnydd o *Add. MS.*,
 14,970, gan ei fod yn rhoddi nodyn
 ymyl-ddalenol Iolo Morganwg, a
 geir ar gyfer llinell 65, o'r ysgrif-
 lyfr hwnw. Ond nid ydyw *R. J.*
 yn dyfynu nodyn Iolo Morganwg a
 geir yn *Add. MS.*, 14,970, ar gyfer
 llinell 90, yr hwn sydd fel y
 canlyn:—"I deulu yn lle ei deulu,
 ac felly y mae mewn llawer man
 arall yn y cywyddau hynn —
 dylunais y copi ag oedd genyf—
 I.M."

92 Ac¹ eilwaith i² gobeithiwn
 Gael gan Iessu³ hael yw hwnn
 Drwsio i wledd dros y wlad⁴
 Drugaredd yn drwy gariad
 Yno drwy nerth Mair uniawn
 96 Ir wledd ar annedd yr awn
 Att⁵ yn tad⁶ llywiad llawen
 Ar mab ar⁷ ysbryd Amen

Iolo Goch ai kant.

¹ "Ag."—*Add. MS.*, 14,970.

"Drwsio" = darparu.

² "Y."—*Add. MS.*, 14,970.

³ "At."—*Add. MS.*, 14,970.

³ "Iesu."—*Add. MS.*, 14,970.

⁶ "Tad."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Drwsio i wledd dros y wlad."
Add. MS., 14,970.

⁷ "A'r."—*Add. MS.*, 14,970.

LXVII.

* C . I M A I R .

(O *Llyfr Huw Lleyrn*—*Add. MS.*, 14,967, fol. 111b).

Y mae y cywydd hwn i'w gael hefyd yn *Add. MSS.*, 14,970, a 15,016, lle ei priodolir i Iolo Goch. Ond ar ddiwedd y cywydd yn *Add. MS.*, 14,970, ceir y nodyn a ganlyn:—

“Iolo Goch ai cant (medd llyfr R. Jones).

Nage. Nid oedd na'r cynghaneddau na'r cymmeriadau y sydd yma'n adnabyddus yn amser Iolo Goch. Y mae'r cywydd hwn i'w weled yn aml dan enw
. ond yma'n unig y gwelais i ef dan enw Iolo Goch. Iolo Morganwg.”

Gwelir fod Iolo Morganwg wedi gadael allan yr enw dan yr hwn y mae y cywydd i'w weled “*yn aml*.” Ond y mae, yn ol ei arfer, yn traethu ei farn yn lled benderfynol; ac y mae y tro hwn, feddyluem, yn gywir. Ac yr ydym yn myned yn fwy cadarn yn y syniad hwn ar ol darllen sylw o eiddo y Canon Silvan Evans (mewn adysgrif o'r cywydd yn ei teddiant a gopiwyd o *Add. MS.*, 14,970):—

“Y mae yr iaith a'r gynghanedd yn rhy lithrig i Iolo Goch. Yn ol y *Llyfr Hirfain*, Tudur Aled yw awdwr y cywydd hwn. Rhy brin y gall fod yn waith Iolo Goch, pwy bynag yw ei awdwr.”

Pa fodd bynag, credwn nas gallasai Tudur Aled fod yn awdwr iddo. O blegid gosodir Tudur Aled yn ei flodeu rhwng 1480 a 1520, a Gutyn Owain, yr hwn a ysgrifennodd *Llyfr Huw Lleyrn*, rhwng 1451 a 1490; felly, prin y gallwn gredu mai Tudur Aled oedd yr awdwr. Ni wyddai Gutyn Owain pwy ydoedd, o blegid ysgrifennodd ar ddiwedd y

cywydd—"Ni wn pwy ywr prydydd;" ond ysgrifennodd rhyw un mewn oes ddiweddarach uwch ben hyny—"Iolo Goch ai cant."

- Archwn i vair a bair byd
 Evryches y gwir iechyd¹
 Iawn i henwn frenhines
 4 Nef a glyw llef gan i llais²
 Yn vffern mae i chydernyd
 Dros benn ac ar draws y byd³
 Iawn rac yng yn rac angen
 8 Y mor rrudd henwi mair wenn⁴
 Iawn i vair a henwaf i
 Gael enw a goleuni⁵
 Gabriel drwy loiwdec⁶ wybren
 12 Anyones i santes wenn
 Avi am bechod eva
 A mair ai duc mawr i da⁷

¹ "Archwn i Fair a bair byd
 Euryches y gwir iechyd."

Add. MS., 14,970.

² "Iawn ei henwi'n frenhines
 Nef a glyw llef gael ei llës."

Add. MS., 14,970.

Y mae y cywydd trwyddo yn llawn o Fair-addoliaeth. Ystyrir Mair gan y Pabyddion yn frenhines y nefoedd ac yn gyfrwng nesad at Dduw. Yn *Allwydd neu Agoriad Paradwys*, tud. 307, ceir y weddi a ganlyn:—

"Brenhines y Nef llawenha,
 Alelwia.

Canys yr hwn a haeddaist
 ddwyn,

Alelwia.

Cyfododd fel y dywedodd,
 Alelwia.

Gweddia trosom at Dduw
 mwyn,
 Alelwia.

Vers. Llawenycha a gorfoledda
 Mair Forwyn Alelwia.

Resp. Canys cyfododd ein Har-
 glwydd yn wir Alelwia."

³ "Yn uffern mae'i chadernyd
 Dros benn ag ar draws y
 byd."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Iawn rhag ing i'n rhag angen
 Ym mor rhudd enwi Mair
 wenn."—*Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Iawn i Fair a henwaf fi
 Gael enwi yn y goleuni."
Add. MS., 14,970.

⁶ "Loywdeg."—*Add. MS.*, 14,970.

⁷ "Afi am bechod Efa
 A Mair ai dug mawr ei da."
Add. MS., 14,970.

"Avi," neu "Afi," o *Ave-Maria*
 = Henffych Mair, neu y ddau air
 cyntaf o weddiau neillduol a
 gyflwynir gan Babyddion i'r For-
 wyn Fair.

- Oeddym ddonioc veichiogi
 16 O air ithad i chroth hi¹
 Da vur vun eiddun addef
 Dan i chnawd dwyn i chwi nef²
 Dwyn i mab oi dayoni
 20 A dwyn i thad a wnaeth hi³
 Bur Drindod is rrod yr haul
 Ai anedd yn y wenavl⁴
 Yn vfvdd iawn yw ovyn
 24 Yn Dduw i ganed yn ddyn⁵
 Kanv huw i dduw ai ddwyn
 A wnai Vair yn wen Vorwyn⁶
 Wrth rrol i broffwydoliaeth
 28 Ir raiffit ar Iessu y rraeth⁷
 Y llewod oedd yn llawen
 Ar⁸ seirff wrth y santes wen⁹
 Mawr olud mair aweles¹⁰
 32 Ar y dydd yn vawr¹¹ o des
 Prenn vchel a ffrwyth melys
 Ar i vlaen bu ar vair vlys¹²

¹ Y mae y darlleniad yn *Add. MS.*, 14,970, yn fwy dealladwy :—

“Doniog ydoedd feichiogi
 O air ei thad ei chroth hi.”

² “Da fu'r fun eiddun addef
 Dan ei chnawd dwyn i chwi
 nef.”—*Add. MS.*, 14,970.

³ “Dwyn ei mab o'i daioni
 A dwyn ei thad a wnaeth hi.”
Add. MS., 14,970.

Ceir syniadau lled farddonol yn
 y llinellau hyn—Iesu Grist yn dad,
 yn gystal a mab, i Mair.

⁴ “Bu'r Drindod is rhod yr haul
 Ai anedd yn y wennhaul.”
Add. MS., 14,970.

Mair oedd y “wennhaul,” yn yr
 hon, yn ol y bardd, yr oedd y Drin-
 dod yn trigo yn amser ei beichiogiad.

⁵ “Yn ufudd iawn i'w ofyn
 Yn Dduw y ganed yn ddyn.
Add. MS., 14,970.

⁶ “Canu Huw i Dduw ai ddwyn
 A wnai Fair yn wen Forwyn.”
Add. MS., 14,970.

Dysgrifir Mair yn “canu huw”
 = *hwian (lullaby)* i Dduw, pan yn
 ei ddwyn yn ei breichiau.

⁷ “Ar ôl y prophwydoliaeth
 I'r Aipht a'r Iesu yr aeth.”
Add. MS., 14,970.

⁸ “Y.”—*Add. MS.*, 14,970.

⁹ “Wenn.”—*Add. MS.*, 14,970.

¹⁰ “A weles.”—*Add. MS.*, 14,970.

¹¹ “Fawr.”—*Add. MS.*, 14,970.

¹² “Pren uchel a ffrwyth melys
 Ar ei flaen bu ar Fair flys.”
Add. MS., 14,970.

- Erchi i sioseb eurchwaer
 36 Beth or bric kelenic klaer¹
 Se wnaeth yn ddic ar drigair
 Siosseb ymateb a mair²
 Ni cheisier Saer yr aerron
 40 Ar i hynt i'r Vair wyrf hon³
 Arch i arall verch hirwen
 Ath veichioges santes wenn⁴
 Gostwng hyd y llawr gwastad
 44 Or brenn o wythiaur mab rrad⁵
 Kafas or bric yn ddigoll
 Y ffrwyth hi ai tylwyth oll⁶

Hyny yw, pan yr oedd Joseph, Mair, a'r Iesu, ar eu ffordd i'r Aipht, gwelodd Mair bren a chnwd o ffrwyth arno, a blysiodd gael peth o'r ffrwyth i'w fwyta.

¹ "Erchi i Sioseb ei eurchwaer Beth o'r brig calennig claer."

Add. MS., 14,970.

"Calenig" = *a New Year's gift.*

² "Sef gwnaeth yn ddig ar drigair

Sioseb ymateb a Mair."

Add. MS., 14,970.

"Se" = *hyny yw = to wit.* Ond dichon mai gwall am *fe* ydyw "se"—"Fe gwnaeth yn ddig ar drigair," sef yn uniongyrchol. Parodd gofyn y gymmwynas fechan hon i Joseph golli ei dymmer ar unwaith, am y rheswm a nodir rhag llaw.

³ "Ni cheisiai'r Saer yr aeron,

Ar ei hynt i'r Fair wry honn."—*Add. MS., 14,970.*

⁴ Yn *Add. MS., 14,970*, darllenir:—

"Arch i arall ferch irwen

A'th feichioges walches wenn" gyda "*santes wenn* in R. Jones" ar

ymyl y ddalen. Cawn eglurhad yn y llinellau hyn pa ham yr oedd Joseph yn gwrthod estyn o ffrwyth y pren i Mair—sef, ei fod yn parhau yn ddrwgdybus o'i diweirdeb. Nis gwyddom a oedd gan y bardd ryw draddodiad yn ei gyfiawnhau i osod y fath edliwiaeth gâs yng ngeneu Joseph ai peidio. Yn ol yr hanes sydd genym yn y Testament Newydd (Matt. i., 18-25) yr oedd Joseph wedi cael ei argyhoeddi gan angel fod "yr hyn a genhedlwyd ynddi o'r Yspryd Glân." Ond, yn ol y bardd, yr oedd yn parhau yn anfoddog hyd yn oed ar ol genedigaeth yr Iesu.

⁵ "O'r prenn o wyrthiau'r mab rhâd."—*Add. MS., 14,970.*

⁶ "Cafas o'r brig yn ddigoll

Y ffrwyth hi ai eurlwyth oll."—*Add. MS., 14,970.*

Wrth weled anufudd-dod Joseph, cyflawnodd y baban Iesu un o'i wyrthiau cyntaf, sef trwy beri i ganghenau y pren ymostwng i'r llawr. Ac yn y llinellau dilynol dywedir wrthym mai nid ar fyr eiriau y gellir adrodd yr holl

- Ni ddowaid neb ar ddevair
 48 Wyrthiav i mab i nerthu mair¹
 Gwae vi na vedrais gwiw vu
 Saith vgeinwaith² i ganu
 Ai kanv yn amkanawl
 52 A ffob³ gair i vair yn vawl
 Awn yn⁴ tuedd an gweddi
 A Mair yn vn air a ni
 Mair wryf a wnafr mawr eiriol
 56 honn ni ad yny ynnol⁵
 Mair an tynn or mieri
 Ac wedi hynn gyda hi⁶
 Kawn wyn vyd kanv i wenvair
 60 Kawn nef oll kanwn i vair⁷

Iolo Goch ai cant.

Ni wn pwy ywr Prydydd.⁸

wyrthiau a wnaeth Crist i "nerthu Mair." O bosibl nad oedd y mynachod yn y Canoloesoedd yn dysgu llawer o ryw ynyfdrwydd ofer-goelus fel hyn i'r bobl.

¹ Y mae darlleniad *Add. MS.*, 14,970, yn wahanol :—

"E ddywaid pawb ar ddeuair
 I wyrthieu i mab nerthu Mair."

Mewn arthygl ar "Tudur Aled a'i Amserau," gan Cynddelw, yn y *Traethodydd*, 1875, tudal. 68, dyfynir o hyn i'r diwedd fel gwaith Tudur Aled.

² "Ugeiniaith." — *Add. MS.*, 14,970.

³ "Phob." — *Add. MS.*, 14,970.

⁴ "In." — *Add. MS.*, 14,970.

⁵ "Mair a wna mawr eiriol
 A honn ni ad hynny'n ôl."
Add. MS., 14,970.

⁶ "Mair ai tynn o'r mieri
 A gwedi hynn gyda hi."

Add. MS., 14,970.

⁷ "Cawn wynfyd canu i Wenfair
 Cawn nef oll canwn i Fair."

Add. MS., 14,970.

Yn *Allwydd neu Agoriad Par-
 adwys*, tudal. 321, ceir yr emyn
 canlynol, yr hwn a gynnwys yr un
 syniadau i fesur helaeth ag a welir
 yn y cywydd uchod :—

"Ar amser Gosper.

Hanffych well Seren y mor,
 Mam ein Harglywdd Dduw
 Morwyn lan bob amser
 Porth nef ddedwydd loyw.

Cymraist yr Afe hwn
 O eneu Gabriel dda
 Seilia ni mewn heddwch
 Gan newid enw Efa.
 Dattod rwym yr euog,
 Rho i'r dall oleuni,
 Gyrr ymmaith ein holl ddrwg,
 Cais in' bob daioni.



Dangos dy fod yn Fam,
Cymred ein gweddi ni
Trwot, 'rhwn y fu gwiw
Gantho fod Fab i ti.

O Forwyn ragorol
Uwch ben oll fwyn euraidd
Yn rhydd o'n pechodau
Gwna ni'n ddiwair lanaidd.

Dyro i n' fuchedd bur
A diberyglus daith

Fel wrth weled Iesu
Y llawenychom byth.

Bid moliant i Dduw'r Tad,
I Grist ei Fab rhinwedd,
Llawn barch i'r Yspryd Glan
I'r tri 'r vn anrhydedd. *Amen.*"

* Y copiwr a ysgrifennodd hyn ;
ond, gan ei groesi allan, dywedir
uwch ei ben, mewn llaw ddiwedd-
arach, mai " Iolo Goch ai cant."

LXVIII.

*CYWYDD I BEDR, &c

(O *Llyr Huw Lley*n—*Add. MS.*, 14,967, fol. 28).

Nid oes benawd o gwbl i'r cywydd hwn yn *Llyr Huw Lley*n; ond cyfeirir ato fel uchod yn y cynnwysiad. Amrywia y penawd mewn gwahanol ysgriflyfrau. Yn *Add. MSS.*, 14,866; 14,880; 14,906; 14,973, a 15,010, y penawd yw "Cywydd y Deuddeg Apostol;" yn *Add. MS.*, 14,984, ceir ef dan y penawd—"Cowydd yn henwi y deuddeg apostol ag yn dangos y do nhw ir farn a Noe ai henafiaid er Adda a ffawb a fuag yfydd ag i gwelir yn y farn ddioddefaint Iesu Grist pan farner pawb." Yn *Add. MS.*, 14,979, ceir y rhan olaf o hono, heb yr un penawd; ac y mae i'w gael hefyd yn *Jesus Coll. MS.*, E. 138, Part II., fol. 5, ac yn *Y Cymnrodor*, vol. ix., p. 13. Priodolir ei awduriaeth yn yr oll o'r llyfrau uchod i Iolo Goch; ond yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 119, ceir y rhan ddechreuol o hono—36 o linellau—lle y dywedir mai Sion Cent oedd yr awdwr. Deallwn fod ysgriflyfrau ereill yn priodoli ei awduriaeth i Sion Cent. Ceir y rhan ddechreuol o hono mewn ysgriflyfr 4 plyg a berthynai i'r *Horwood Collection*, a'r hwn a gopiwyd oddeutu 1600. Prynwyd ef gan Mr. Egerton Phillimore, ond y mae yn awr ym meddiant Syr John Williams, Llundain.

Y mae gan Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 479) gywydd byr o 52 o linellau, dan y penawd "I Lun Crist a'r Apostolion," ac y mae ambell frawddeg yng nghywydd Iolo yn hollol yr un fath ag y maent yn eiddo Dafydd. Pa fodd bynag, ar ol darllen y ddau gywydd yn ofalus, credwn fod eiddo Iolo yn llawn cystal ag un Dafydd; ond dylem gydnabod nad ydyw yr un dan

sylw i fyny o lawer â gwaith Dafydd ab Gwilym yn gyffredin. Eto, gwelir ar unwaith fod y naill fel y llall yn cymhwyso ansoddeiriau at rai o'r apostolion heb un gronyn o sail; ac, hyd y gwyddom, heb gymmaint a thraddodiad o'u plaid. Wedi cymmeryd y deuddeg apostol yn destyn, rhaid oedd cael rhyw eiriau i lanw y bylchau; ond buasai yr hyn a ddywedir am un apostol mor briodol i'w gymhwyso at amryw o'r lleill. Wrth ddarllen y cywydd, fodd bynag, fe welir nad oes mwy o sail dros ei gyflwyno i Pedr nag i un o'r apostolion ereill; ac mai y penawd cywiraf a fyddai "CYWYDD I'R DEUDDEG APOSTOL."

Dosrenir y cywydd i dair rhan—(1) Annerchiad i'r Apostolion; (2) Am ddydd y Farn; (3) Llinellau canmoliaethol i Mair, ac annogaeth i ennill ei ffafr.

Prydu a wna¹ mwyaf¹ mawl
 I bedr² ddoeth³ wybodawl
 Penn porthor eiddun addef
 4 Pennaf niver ner o nef⁴
 Yr ail Ieuan lan lywydd⁵
 Ebostol⁶ nid ffol i ffydd
 llvn eryr ywn llenn arab⁷
 8 llewyrch⁸ grair nai mair ywr mab

¹ "Wna mwy"—*Add. MS.*, 14,973, *Jes. MS.*, a *C. Ll. G.*

² "Beder"—*Add. MS.*, 14,973, a *C. Ll. G.*

³ "Wiw."—*C. Ll. G.*

⁴ "Porthor kyn euddun addef per ur ynifer o nef." *Add. MS.*, 14,973.

"Porthor kyn evddyn addef Pêr ar niver or nef." *Jes. MS.*

"Porthor cyn yddyn addef Per ar niver y nef." *C. Ll. G.*

"Eiddun addef" = y cartref dymunol (sef y nefoedd), yn yr

hwn, yn ol y Pabyddion, y mae Pedr yn borthor. Ymddengys i ni fod y testyn yn well yma na'r darlleniadau ereill.

⁵ "Ail yw Ieuan lun loywydd."

Add. MS., 14,973.

"Ail yw Ifan lân lonydd."

Jes. MS., a *C. Ll. G.*

⁶ "Apostol"—*Add. MS.*, 14,973; "Abostol"—*Jes. MS.*

⁷ "Llun erryr mewn llen Arab."

Add. MS., 14,973.

"Llun eryr llawen arab."

Jes. MS.

⁸ "Llewyrch"—*Add. MS.*, 14,973, *Jes. MS.*, a *C. Ll. G.*

- Trydydd ebostol¹ tradoeth
 yw ondras² gyweithas³ goeth
 Dioddef gwnaeth dwf eiddun
 12 Da vu i gof difai gun⁴
 Dalwyr lyw mewn⁵ dolurloes
 yr aur grair ar yr wyr groes⁶
 Bedwerrydd byd yn warant⁷
 16 Ebostol⁸ sy ddwyvol sant
 I berri nef yn barnu
 Barthlo meus weddus wanu⁹
 Am gredu yn wir drwg hirboen
 20 I Grist y tynwyd i groen¹⁰
 Ar boen a droes loes loywsyth¹¹
 yn llywenydd beunydd byth
 Pennaf a gwiraf gwarant
 24 Pymed chweched seithved sant¹²

¹ "Abostol"—*Add. MS.*, 14,973,
 a *Jes. MS.*

² "Andreas"—*Jes. MS.*, a
C. Ll. G.

³ "Goweithas."—*Add. MS.*,
 14,973.

⁴ "Dioedde a gwnaeth duw
 uddyn

Da fu i gof difai gun."

Add. MS., 14,973.

"Diodde /a/ wnaeth duw i
 ddyn

Da /i/ go er mwyn duw
 gwyn."—*Jes. MS.*

⁵ "Dal eurliw mewn"—*Add.*
MS., 14,973; "Aruth gur o"—
Jes. MS.

⁶ "Ar y wiw groes."—*Add. MS.*,
 14,973.

⁷ "Y pedwerydd bid warant."

Add. MS., 14,973.

"Pedwerydd nid byd warant."

Jes. MS.

⁸ "Y bostol"—*Add. MS.*, 14,973;
 "abostol"—*Jes. MS.*

⁹ "I beri ne yn barawd
 Barlomefus weddus wawd."

Add. MS., 14,973.

"I beri nef yn barawd
 Barthlomesus weddus wawd."

Jes. MS.

¹⁰ "Am gredu yn wir drwy hir
 boen

i grist i tynwyd i groen."

Add. MS., 14,973.

¹¹ "Loywsyth"—*Add. MS.*,
 14,973, a *Jes. MS.*

Y mae yn sicr mai y testyn sydd
 gywir—Poen Crist yn sail i ogoniant
 tragywyddol y saint.

¹² "Pena or gwira gwarant

Pumed, chweched, seithfed
 sant."—*Add. MS.*, 14,973.

"Penna /a/ gwiria gwarant."

Jes. MS.

"Pena a gwiria gwarant."

C. Ll. G.

Nid ydyw Iolo Goch yn dilyn, o
 ran trefn, yr un o'r rhestrau a geir
 o'r apostolion yn y Testament

- ffylib prudd vudd yw vo
 Degan gwyrri a dau iago¹
 Pann gyvriwvy vwy vwy vawl
 28 Wythved a nawved nevawl²
 Sain simwnd³ hil edmwnd hoyw⁴
 A sain sud owchled wychloyw⁵
 Adwen dau gefnderw ydyn
 32 I wir dduw ac i war ddyn⁶
 Degved Tomas hoyw ras⁷ hir
 Or inda⁸ yw i randir

Newydd (Matt. x., 2-4; Marc iii., 16-19; a Luc vi., 14-16); ac nid ydyw ychwaith yn dilyn trefn Dafydd ab Gwilym.

¹ "Ffylip brydd da fydd yw fo Degan wr a dau iago."

Add. MS., 14,973.

"Phylip rûdd vfvdd yw fo Degan gâr /a/ dau iago."

Jes. MS.

"Phylip prudd, da fudd yw fo, Degan wr, a dau iago."

C. Ll. G.

² "Pen gyflybwy fwyfwy fawl Wythfed a nawfed nefawl."

Add. MS., 14,973.

³ "Simwnt"—*Add. MS.*, 14,973, a *Jes. MS.*

"Simwnd" oedd Simon Zelotes.

⁴ "Iedmwnt loyw"—*Add. MS.*, 14,973; "Edmwnt hoyw"—*Jes. MS.*; ond nid ydyw yn bwysig iawn pa un sydd gywir, gan na wyddom ddim am yr Edmwnd o'r hwn y dywedir fod Simon yn hanu.

⁵ "Sain Sud wayw owchlyd wychloyw."

Add. MS., 14,973.

"A Sain Sud oychlud iachloyw."—*Jes. MS.*

"Sain Sudwaew o wchlyd wych loew."—*C. Ll. G.*

"Sud" = Judas; ymgais i ddyweyd rhywbeth am Judas, yr hwn befyd a elwid yn Thadeus ac yn Lebeus—brawd Iago Leiaf, a chefnider i Grist—a geir yma.

⁶ "Adwen dau gefnder ydyn i wir dduw ag i war ddyn."

Add. MS., 14,973.

"Adwen mai kefnider ydyn

i / wir Dduw / ag /i/ wâr ddyn."—*Jes. MS.*

Yn *Jes. MS.*, y mae y llinellau hyn yn cael eu lleoli ar ol llinell 26 yn y testyn; ond nid gyda dim mwy o briodoldeb, gan nad oes ond un cefnder yn cael ei enwi yno. Darlleniad *C. Ll. G.* o'r ail linell yma ydyw—"I war Dduw, ac i wir ddyn."

⁷ "Urddas"—*Add. MS.*, 14,973, a *C. Ll. G.*

⁸ "Or India"—*Add. MS.*, 14,973; "Yr India"—*Jes. MS.*; "A'r India"—*C. Ll. G.*

Merthyrwyd Thomas yn Meliapour, yn yr India Ddwyrainio..

Pann aeth mair ruddair oddef¹
 36 Gida niver² ner i nef
 oi lleng hi a ollyngawdd
 o nef i tomas i nawdd³
 I gwregis⁴ hi wiw riain
 40 Orrau⁵ modd o aur a main
 Hwnnw yw un ryw anrec⁶
 I warant ef wiw rent tec

¹ "Ufuddair fadde"—*Add. MS.*, 14,973; "air addef"—*Jes. MS.*; "ufuddair faddef"—*C. Ll. G.*

² "Gidai nifer"—*Add. MS.*, 14,973; "At /i/ nifer"—*Jes. MS.*; "Gyda ei nifer"—*C. Ll. G.*

³ "Oi lleng hi allyngawdd o nef i Domas i nawdd."

Add. MS., 14,973.

Nid ydym yn hysbys o unrhyw draddodiad ag sydd yn cyssylltu enw Mair & Thomas yr apostol, at yr hwn y cyfeirir yn llin. 33; ac yr ydym yn tybied fod Iolo yma yn cymmyrd mantais ar yr enw i ddwyn i sylw Thomas & Becket, Archesgob Caergaint. Yr oedd St. Thomas, fel yr hysbysir ni yn *Allwydd neu Agoriad Paradwys*, tudal. 316-18, bounydd yn arferol a chyfarch Mair gan ddywedyd saith *Ave Maria* er anrhydedd am y saith prif lawenydd a gafodd hi ar y ddaear. Ac wedi iddo wneyd hyn am beth amser, ymddangosodd Mair iddo gan ei gyfarch fel y canlyn:—

"Mao dy wasanaeth di hwn (O Thomas) yn hoff iawn ac yn gymmeradwy i mi: ond paham yr wyt yn cofio yn vnïc y saith llawenydd y fu i mi ar y ddaear? Coffa hefyd o hyn allan y saith llawenydd eraill sydd i mi yrwon yn

y Nef. Oblegid mi a lawenhaf, mi a gomfforddaf, ie ac a brestentiaf hefyd i Dduw fy Mab ar awr eu hangen y sawl oll a'm hanrhyddedant i beunydd a phob vn o'r ddau Ddefotiwn hyn. Yn y Nef yr wyf yn llawenychu.

1. Am fy mod i wedi fy nyrchafu uwch ben yr holl bur-greaduriaid.

2. Am y gogoniant sydd i mi o'm bod yn Fam i Dduw.

3. Am fy mod i y rhagori mewn gogoniant y Sainct eraill megis y mae'r Haul yn rhagori mewn discleirdeb y Planedau eraill.

4. Am fod y Sainct eraill yn llawenhau yn fawr am fyn-Gogoniant i, heb ddim cenfigen er lleied.

5. Am fod Duw fy Mab yn barod i roi i mi y gras a'r ffafor bynnac a ofynnaf gantho.

6. Am y Gogoniant priodol sydd i mi o ran fy *Ymddwyn Difrycheulyd*.

7. Am fod i'm llawenyddau i hyn chwanegu a mwyhau hyd ddiwedd y byd."

⁴ "I gwertgis"—*Add. MS.*, 14,973; "I gwregis"—*Jes. MS.*

⁵ "Orau."—*Jes. MS.*

⁶ "Unryw anreg"—*Add. MS.*, 14,973; "Iawnrhyw anrheg"—*Jes. MS.*

- Doent ai dadl yn radlawn
 44 A dau ebostol y dawnn¹
 Mathau grym gweddiau gras
 Maith awen a mathias²
 Wel dynna hwynt nowddbwynt nef
 48 Y deuddec myn di oddef³
 A varnant eurvant ar voll
 Ar baid awr ar y byd oll⁴
 A gwyn i vyd kyd kadarn
 52 Kain dawdd vodd kyn dydd varn⁵
 A wnnel urddas teyrnas⁶ tec
 Yngwiliau dyddiau deuddec⁷
 Pan ganer klywer ir klod
 56 Kyvyn lef y kyrn kyvod⁸
 Pob un gyvyn a gyvyd
 Ir lan o bedwar ban byd⁹

- ¹ "Doent ai dadal yn radlawn
 A dau y bostol ywn dawn."
Add. MS., 14,973.
- ² "Dav oi dadl yn rhadlawn
 Ar dau abostol yw/r/ dawn."
Jes. MS.
- Yn *Jesus MS.*, y mae y llinellau
 hyn yn dilyn llinell 46 yn y testyn.
- ³ "Mathew rym mwythau /i/ ras
 Maith awen a Matheias."
Jes. MS.
- ⁴ "Llyna hwynt nawpwynt nef
 y deuddeg a fu /n/ diodde."
Add. MS., 14,973.
- "Fal dyma hwynt nowpwynt
 nef
 y / deuddeg a fu/n/ dioddef."
Jes. MS.
- ⁵ "A farnan eur farn arfoll,
 arbed awr ar y byd oll."
Add. MS., 14,973.
- "A farnant eurfant arfoll
- Arbed awr ar /y/ byd oll."
Jes. MS.
- ⁶ "Gwyn i fyd kyd kadarn
 Kain diwedd fyd kyn dydd
 barn."—*Add. MS.*, 14,973.
- "Gwynn /i/ fyd or byd kadarn
 Kan deddf /i/ fawl kyn dydd
 farn."—*Jes. MS.*
- ⁷ "Tyrnas"—*Add. MS.*, 14,973;
 "taerwas"—*Jes. MS.*
- ⁸ "Yngwiliau dyddiau y deu-
 ddeg."—*Add. MS.*, 14,973.
- ⁹ "Pann ganer llei klower klod
 Korn kyfran y kyrn kyfod."
Add. MS., 14,973.
- "Pan ganer llei klowen klôd
 Karn kyfair /y/ kyrn kyfod."
Jes. MS.
- "Pob dyn gefyn a gyfyd
 ir lan o bedwar ban byd."
Add. MS., 14,973.
- "Ir llan /o/ bedwar bann byd."
Jes. MS.

- Ir lle goddevodd medd llu
 60 Garrw oessoedd y gwir Iessu¹
 Ac ynno y daw gwiw wener
 Addaf ai blant nowkant ner²
 A noe hen i hangen oedd
 64 Yn vorre ai niveroedd³
 Ac Abram oi ham kam hwy
 Ac abriel pan vor gobrwy⁴
 A llywiaw rai a llu rydd
 68 Moessen yn llenwir meisydd⁵
 A llu hardd ddy yn llwyr
 Broffwyd sillwyd i llaswyr⁶

¹ "Yr lle goddefodd medd llu
 arw loes wrol Iesu."

Add. MS., 14,973.

² "Yn llei dioddefawdd gawdd
 gu

Gwawr oessoedd /y/ gwir
 Iessu."—*Jes. MS.*

Rhydd Iolo ar ddeall i ni yma
 mai ar fynydd Calfaria—lle y
 dyoddefodd Crist—y cynhelir y
 farn ddiweddaf; ond yn ol y syniad
 cyffredin mynydd yr Olew-wydd
 sydd i gael yr anrhydedd hwnw.
 Dichon mai rhan o fynydd yr Olew-
 wydd oedd Calfaria.

³ "Ag yno y daw gwiw ner
 Adda ai blant nawgkant ner."

Add. MS., 14,973.

⁴ "Yna /i/ kyfyd nyd nifer
 Adda ai blant nowkant nêr."

Jes. MS.

Pan y mae cynnifer o ddarllen-
 iadau, a'r rhai hyny mor wahanol,
 y mae yn ammhosiibl cynnyg un-
 rhywglurhad a all fod yn foddhaol.
 Os ydyw y testyn yn gywir, gellir
 tybied fod y bardd o'r farn mai ar
 ddydd Gwener y bydd yr adgyfod-
 iad.

⁵ "A Noe hen Angen oedd,

yn fore ai niferoedd."

Add. MS., 14,973

⁶ "A /llu Noe hên angen oedd
 yn forau ai niferoedd."

Jes. MS.

⁴ "Llywenydd a fydd yw fam
 lliw wybrol a llu Abram."

Add. MS., 14,973.

⁵ "Llawenydd /a/ rfydd yw rann
 llew wybrol /a/ llu Abran."

Jes. MS.

Yr enw Abram ydyw yr unig
 debygolrwydd rhwng y testyn a'r
 darlleniadau ereill o'r ddwy linell
 yma.

³ "A lloio rain a llu rydd,
 Moysen yn llenwi meisydd."

Add. MS., 14,973.

⁴ "A/ lloio rhin ar llu rhûdd
 Moessen /a/ leinw/r/ meus-
 sudd."—*Jes. MS.*

⁶ "A llu Dafudd yn llwyr
 broffwyd ni lyswyd loswyr."

Add. MS., 14,973.

⁵ "A/ llu or hen ddafydd yn
 llwyr

Broffwyd lliw swydd /a/ llas-
 wyr."—*Jes. MS.*

Talfyriad o "Ddafydd" ydyw y
 ddy yn y testyn.

- 72 A ffawl ebostol y ffydd¹
Ior mwyn a ddaw ir mynydd
Ef ai² niver per parawd³
A droes ir ffydd dryssor ffawd
A rrod⁴ yr⁵ haul draul dramawr
76 Ar lloer a ddisgin ir llawr⁶
Ar saith⁷ wiw-blaned ar ser
Ar nevoedd vry ar nifer⁸
Ac o uffern herrwern hir⁹
80 o garchar hwynt¹⁰ a gyrechir
llidioc blin ddau vinioc bla
llu sattan mewn lliw swtta¹¹
Pob un yn ddyvyn a ddaw¹²
84 Yr un dydd i wrrandaw

¹ "A ffawl a bostol dda i ffydd."
Add. MS., 14,973.

"A phawl abostawl dda /i/ ffydd."—*Jes. MS.*

Yn *Jes. MS.*, y mae y llin. 71-74 yn dilyn llin. 78 yn y testyn.

² "Ar."—*Jes. MS.*

³ "Ber barawd."—*Add. MS.*, 14,973.

⁴ "A rod."—*Add. MS.*, 14,973.

⁵ "Ir."—*Jes. MS.*

⁶ "A ddisgen ir llawr."
Add. MS., 14,973.

⁷ Yr ydym yn methu a dyfalu pa *saith* blaned a feddylir; gan nad oedd cynnifer a hyny yn adnabyddus yn amser Iolo Goch. Y planedau adnabyddus y pryd hwnw oeddynt — Mercher, Gwener, y Ddaear, Mawrth, Iau, a Sadwrn; ac ni ychwanegwyd at y nifer hyd 1781, pryd y darganfyddwyd Uranus, neu Herschel. Cyn y gellir gweled cyssondeb yn y llinell, dylasai fod dwy yn ychwaneg; o blegidnid priodol dyweyd y bydd i'r ddaear syrtio i'r llawr = iddi ei hun.

⁸ "O'r nefoedd ai nifer."
Add. MS., 14,973.

Yn *Jes. MS.*, y mae llin. 75-78 yn dilyn llinell 70.

⁹ "Ag /o/ uffern oerwern ir."
Jes. MS.

¹⁰ "Pawb."—*Jes. MS.*

Yn *Jes. MS.*, y mae llin. 79-80 yn dilyn llinell 110.

¹¹ Nid ydyw llin. 81-82 o gwbl yn *Jes. MS.*; ond ceir hwynt gyda golwg lled drwsgl arnynt yn *Add. MS.*, 14,973:—

"Llid ir blin dau finiog bla
un Sattan mewn lliw swtta."
Hwyrach mai wrth "liw swtta" y meddylir yr olwg druenus oedd ar "lu Satan," y rhai oedd yn dyoddef pla, neu boen, a ddysgrifir gyda'r ansoddeiriau llidiog, blin, a dau-finiog.

¹² "Pob dyn i ddyfyn a ddaw."
Add. MS., 14,973.

"Iawn pe bai ddawn pawb a ddaw."—*Jes. MS.*

"Yn ddyvyn" = *being summed*.

- Y varn vlin¹ gadarn vloedd
 A thrydar i gweithredoedd²
 Ewch ywr oes och wir iessu³
 88 Dragowydd ofn⁴ y dydd du
 Ynna⁵ bydd myn krevydd kred
 levain ymwud⁶ olived
 ynno i gwelwn yn gwiw lyw⁷
 92 yn ymddangos adsios⁸ yw
 Y modd ar y groes nowddloes ner
 I gwanwyd ef dduw gwener⁹
 Ar gorron hoelion¹⁰ hylud
 96 O ddrain am y tal¹¹ yn ddrud
 A chethri dur drwy gur draw
 A dolur draed a dwylaw¹²

Yn *Jes. MS.* y mae llin. 83-88 yn dilyn llinell 74.

¹ "Ar y farn fin"—*Add. MS.*, 14,973; "ar farn filain"—*Jes. MS.*

² "A thridiau yn gweithredoedd."—*Jes. MS.*

"Trydar"—trystfawr.

³ "Ewch o ras och wir Iesu."

Add. MS., 14,973.

"Uwch i ras och wir Iessu."

Jes. MS.

⁴ "Ofen."—*Add. MS.*, 14,973.

⁵ "Yma."—*Jes. MS.*

⁶ "Ymawd."—*Jes. MS.* Nid ydyw llin. 89-90 o gwbl yn *Add. MS.*, 14,973; yn *Jes. MS.* y maent yn dilyn llinell 80.

⁷ "Yno y gwelwn yn gwiwliw."

Add. MS., 14,973.

"Yno gwelir ion gwiwlyw."

Jes. MS.

Diau mai yr olaf ydyw y cywiraf. Yn *Jes. MS.* y mae llin. 91-94 yn dilyn llinell 88.

⁸ Ni wyddom am y fath air ag "adsios," nac ychwaith am "adsios" yn ol y *Jes. MS.*; "agos" a ysgrifenis yn *Add. MS.*, 14,973, a

diammeu mai hwnw sydd gywir.

⁹ "Modd ar y groes naw loes ner Y gnawd ef dduw gwener."

Add. MS., 14,973.

"Modd ar /y/ groes now loes ner i/gwanwyd ar Dduw gwener."

Jes. MS.

¹⁰ "Goron hoylion"—*Add. MS.*, 14,973; "goron hoelion"—*Jes. MS.*

Y mae yn amlwg mai gyda dechreu y llinell ddilynol y dylid cyssylltu y "goron" — coron o ddrain. Ond nid oes dim yn ang-hyffredin mewn dwyn i fewn wrth-ddrych arall cyn gorphen â'r cyntaf, fel y gwna Iolo yma. Wrth "hylud" y golygir eu bod yn glynau, neu yn sierchau ei gorph wrth y groes.

¹¹ "Am i dal"—*Add. MS.*, 14,973;

"am /i/ ben"—*Jes. MS.*

Ceir yma enghraifft o'r cyfnewid-iadau bwriadol a wneir gan gopiwrwr—"am i ben"—*on his head*, yn lle "am i dal"—*on his forehead*.

¹² "Ar kethri dur drwy gur draw

A dolur traed a dwylaw."

Add. MS., 14,973.

- Ar gwelïau tomas tec
 100 rydaer o waed yn reded¹
 Ynno gwaë hwy rai anoeth
 Ac ynno i kryn pob dyn doeth²
 Ennaid a roes Duw ynnof
 104 Pann gyvrïver kywïrder kof³
 Mihangel uriel eïrian
 Ar kledddyddau⁴ tonau tan
 Diau yw garllaw duwïon
 108 yn dethol yrhai doethïon⁵
 Yno i bydd dir hiraeth
 yn uffern ar gethern gaeth⁶

Nid ydyw y llinellau hyn yn *Jes. MS.* Hoelïon hirïon a blaen llymïon oedd y "cethri."

¹ "Ai welïau tonnau teg rhydost ai waed yn rhedeg."

Jes. MS.

Credwn fod y darlleniad yma yn well na'r hwn a geir yn y testyn. Dysgrïfir ei ddolurïau yma yn codi fel tönau ar hyd ei gnawd. Nid ydyw y llinellau hyn yn *Add. MS.*, 14,973.

² Nid ydyw y llinellau hyn yn *Add. MS.*, 14,973; ac yn *Jes. MS.* lleolir hwynt ar ol llinell 108:—

"Yna gwaë /a/ fo anoeth
 Ag yna kryn pōb dŷn doeth."

³ "Enaid a roes Duw ynof
 pan gyfryfer kwnor kof."

Add. MS., 14,973.

"Yna i gwelir gowir go
 Ennaid /a/ roes Duw yno."

Jes. MS.

Yn *Jes. MS.*, y mae y llinellau hyn yn dilyn llinell 100.

⁴ "Kledau."—*Add. MS.*, 14,973.

Y mae Iolo ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn lled farddonol yma

pan yn dysgrïfo yr angylïon yn di-doli yr annuwiolïon ymaith gyda chleddyfau cyffelyb i donau o dân. Ond ar ail ystyriaeth nid ydyw ond alleiriad o Gen. iii., 24, lle y dywedir i gerubïaid gael eu gosod, "a chleddyf tanllyd ysgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd."

⁵ Buasai "duwïon" ar ddiwedd llin. 107 yn anhawdd ei egluro, heb gofio fod geirïau yn cael eu cam-gysylltu yn fynych mewn ysgriflyfrau. Y mae y darlleniadau canlynol yn ddigon o eglurhad ar ddyethrwech ymddangosiadol y gair:—

"Diau yw garllaw duw Ion
 yn dethol yr hau doethïon."

Add. MS., 14,973.

"Da iawn gida Duw iōn
 yn dethol /y/ rhai doethïon."

Jes. MS.

⁶ Nid ydyw llin. 109-110 yn *Add. MS.*, 14,973; ac yn *Jes. MS.* y maent yn dilyn llinell 102:—

"Yna i keir drwy hirhawl
 Uffern ar gethren gethrawl."

YYI

- Yna bydd¹ mair air eirian
 112 Ar dalau i gliniau glan
 Yn dyrchavel gavel² gwyn
 i dwylaw³ i adolwyn
 yw mab ai harglwydd ai mur⁴
 116 Ar i llef ir i llavur⁵
 Yn eurchwaer ac yn erchi
 nef a thrigaredd i ni⁶
 Kawn ran drwy nerth merch ana⁷
 120 lliw dydd ymysk⁸ y llu da
 Ac am hyny gem honair⁹
 Gorrau¹⁰ i mi garru mair

Iolo Goch ai kant.

¹ "Yno i daw." — *Add. MS.*, 14,973.

² "Gafael"—*Add. MS.*, 14,973, a *Jes. MS.* "Gafael" = etifedd-iaeth?

³ "Ai dwlo."—*Add. MS.*, 14,973.

"I/ dwylaw er /i/ dolwyn."

Jes. MS.

Gallwn dybied fod y testyn yn anghywir; ond y syniad a geisir ei osod allan yw fod Mair, gan gyfeirio at ei "gliniau glân" a fu yn dal yr Iesu, yn dyrchafu ei dwylaw i "adolwyn" = i erfyn, neu eiriol.

⁴ Diammeu mai wrth "fur" y golygir *amddiffynfa*; ond y mae *Jes. MS.* yn rhoddi i ni ein dewis o ddau air, gan ysgrifenu y naill uwchben y llall—^{mur}_{myrr.}

⁵ Y mae y llinellau wedi eu gosod yn wahanol yn *Add. MS.*, 14,973:—

"Aur i llef ir i llafyr

Yw mab ai harglwydd ai mur."

"Er /i/ llefain ai llafur."

Jes. MS.

⁶ "Yn eurchwaer ag yn erchi
nef a thrigaredd i mi."

Add. MS., 14,973.

"Ior gwiwddoeth er /i/ gweddi
a /nawdd /a/ thrigaredd /i/
ni."—*Jes. MS.*

⁷ "Kawn ran gida merch Anna."

Add. MS., 14,973

⁸ "Y mysg."—*Add. MS.*, 14,973.

⁹ "Gymhenair"—*Add. MS.*, 14,973, a *Jes. MS.*

¹⁰ "Gore"—*Add. MS.*, 14,973, a *Jes. MS.*

LXIX.

CYWYDD I DDEWI SANT.

(*O Lyvr Huw Lleyr—Add. MS., 14,967, fol. 108*).

Nid oes benawd i'r cywydd yn yr ysgriflyfr uchod, ond cyfeirir ato fel cywydd "I Vair" yn y cynnwysiad. Ond gan fod yn amlwg ddigon oddi wrth y cywydd ei hun mai i Ddewi Sant, ac nid i Fair, y cyfansoddwyd ef, yn gystal ag fod y penawd uchod i'w weled uwch ei ben mewn llyfrau ereill, defnyddiasom ef yma. Y mae y cywydd i'w weled hefyd yn *Add. MS.*, 14,970; yn *Y Piser Hir*, p. 317; yn argraffedig yn *The Works of Iolo Goch* (gan Robert Jones), tudal. 11, ac hefyd yn *Cymru*, am Medi, 1891, tudal. 66.

Y mae y cywydd ar y cyfan yn un lled dda, yn cynnwys llawer o linellau gwir farddonol; ac yn llawn mor ddealladwy ag unrhyw un o gyfansoddiadau y bardd. Ceir ynddo hefyd gryn nifer o gyfeiriadau hanesyddol, neu chwedlonol yn hytrach, yn dal cyssylltiad â'r testyn. Oddi wrth yr ail linell, gwelwn fod y bardd wedi cyrhaedd gwth o oedran pan ei cyfansoddodd, a'i fod yn dechreu ystyried y pwysigrwydd o barotoi ei enaid gogyfer a'r amgylchiad difrifol oedd o'i flaen. Ac er mwyn gwneyd hyny yn briodol, penderfynai fyned ar bererindod i Dŷ Ddewi, er ymweled â bedd Dewi Sant.

Os ydyw meddu ar luaws o fywgraffiadau yn profi rhywbeth, y mae Dewi ym mhlith y rhai pwysicaf o'r holl Seintiau. Ysgrifenwyd bywgraffiad iddo gan Ricemarch, tua'r flwyddyn 1090, yr hwn a gedwir yn yr Angueddfa Brydeinig, dan yr arwydd *Cott. MSS., Vesp. A., XIV* Wedi hyny, tua'r flwyddyn 1200, ysgrifennodd Giraldus Cambrensis fywgraffiad iddo, yr hwn a gyhoeddwyd yn *Wharton's Anglia Sacra*; ac oddeutu yr un adeg a

Giraldus, cyfansoddodd John Teignmouth ei fywgraffiad ef, a gyhoeddwyd yn *Capgrave's Collection*. Y mae genym hefyd fuchdraeth o Dewi wedi ei chyhoeddi gan Leland yn ei *Collectanea*. Ac y mae "Buchedd Dewi Sant," yn Gymraeg, yn yr Amgueddfa Brydeinig, dan yr arwydd *Cott. MSS., Titus D., XXII.* Yn 1853, cyhoeddodd Rees yr olaf, yn gystal a bywgraffiad Lladin Ricemarch, gyda chyfieithiad o'r ddwy i'r Seisoneg, yn y *Lives of the Cambro-British Saints*. Ond y mae yn dra thebyg fod Dewi Sant yn ein dyddiau ni yn hanfod llawer pwysicach nag ydoedd yn ei oes ei hun. Tua'r flwyddyn 1120, canon-eiddiwyd ef gan y Pab Calixtus II.; a daeth wedi hyny i gael ei ystyried fel nawdd-sant Cymru. Yn ol y "Bucheddau," ei dad oedd Sant ab Ceredig ab Cunedda, ac nis gellid pentyru digon o fri arno heb olrhain ei achau yn ol i "Eudoleu, fab Chwaer Mair, mam Iesu Grist." Ei fam oedd Non, merch Gynyr o Gaer Gawch.

Fel rheol, dywedir mai mab i Sandde oedd Dewi, ond nid ydyw hyny ond yr hyn a geir mewn ysgriflyfrau diweddar. Fel hyn y ceir achau Dewi yn *Jes. MS., E. 119*:—

"Dauyd vab sant. vab keredic. uab kuneda. uab edern. vab padarnn peisrud. vab deil vab gordeil. vab d6uyn. vab gord6uyn. vab amguoel. vab am6eryt. vab onut. vab perim. vab dubim. vab ongen. vab auallach. vab eugen. vab eudoleu. vab ch6aer veir wryy vam Jessu gst."

Er y dywedir i Dewi gael ei wneyd yn archesgob Cymru oll yn Senedd Frefi, yn y flwyddyn 519, y mae amseriad ei enedigaeth a'i farwolaeth yn aros mewn cryn ansicrwydd. Gesyd rhai ei enedigaeth yn y flwyddyn 445, ereill yn 462, ac ereill yn ddiweddarach drachefn; a gosodir amseriad ei farwolaeth yn y flwyddyn 544, 547, 601, a 609. Dywed rhai mai ei oedran yn marw oedd 82, ereill 97, ac ereill 147.

Ni fyddai amgen na gwastraff ar amser geisio beirniadu anghyssonderau yr amseriadau uchod, o blegid y mae llawer o'r hyn a ddywedir am Dewi mor llawn o'r elfen chwedlonol fel ag y mae, fel hanes difrifol, is law beirniad-

aeth. Rhagfynegwyd ei enedigaeth gan angel ddeng mlynedd ar hugain cyn i hyny gymmeryd lle; cafodd ei fam ei threisio, er mwyn amddiffyn ei diweirdeb; ond er cysgodi ei noethni codwyd mur trwy foddion goruch-naturiol ar y cae lle y cymmerodd y weithred le. Derbyn-iodd ei addysg mewn lle o'r enw Henllwyn; ac yno, cafodd rhai o'i gyd-ddysgyblion y fraint o weled colomen gylfin aur, tra yn chwareu o amgylch ei enau, yn cyfranu addysg ac yn canu emynau iddo. Bu wedi hyny dan addysg un Paulinus, a thrachefn gyda Garmon Sant. Yr oedd y gwyrthiau a gyflawnodd o ran eu rhif a'u hynodrwydd yn gyfryw fel ag yr oeddynt, yn ein tyb ni, yn ei osod yn gyfartal, os nad yn uwchradd, i Grist. Ond, diammeu nad oedd yn ei oes ei hun yn cael ei ystyried yn ddim ond athraw crefyddol tlawd, yn gwneyd hyny o ddaioni a allai, mewn ffordd ddigon syml, i'w gydwladwyr anwybodus. Pa fodd bynag, erbyn y ddeuddegfed ganrif—yn oes y rhamantau—amgylchynwyd Dewi â mantell o ffug gan y mynachod fel ag i ffurfio llinach o'r olyniaeth gyssegredig; ac hefyd er gwisgo eu crefydd â'r ffiloreg ofergoelus ag oedd yn ei gwneyd mor ddeniadol i ddychymmyg y werin.

Damvnno da im enaid
Heneiddio rrwy hynn oedd raid
Myned ir lle kroged Krist¹
4 Kyd boed y ddevdroed ddidrist²
Mewn trygyff yma-n trigaw³
Ni myn y traed myned traw

¹ Hyny yw, Pererindod at y Bedd Sanctaidd.

² Os ydyw y bardd, fel y sylwa R. J., yn cyfeirio at bererindod ar ddeudroed wedi myned yn fethiantus trwy oedran, y mae *ddidrist* i'w gymhwyso at y bywyd sydd tu hwnt i'r bedd; ond os cyfeirio y mae at bererindod cyn i'w oedran ei analluogi i'r daith, dylid cyfnewid y gair i

ddydris. Pa fodd bynag, "didrist" a geir yn yr oll o'r llyfrau a welwyd genym ni. Ond gwelir oddi wrth llinell 6 fod y bardd wedi myned yn rhy hen i gymmeryd taith i'r dwyrain fel y dymunai.

³ "Mewn trygyff y mae'n trigaw."

Add. MS., 14,970, R. J., a'r Cymru.

- 8 Kystal am oval¹ ym yw
 Vyned teirgwaith² i Vynyw
 A myned kymyred³ kain
 Yr⁴ hafoedd⁵ hyd yn rruvain⁶
 Gwyddwn lle mynwn y⁷ mod
 12 Ysdeddfol⁸ ywr eisteddvod
 Ymaenol ddewi mynyw⁹
 mangre gain myn y groc yw

¹ "Ofal" a geir yn y llyfrau ereill. Ac y mae yn dra thebyg mai "ordal" (o gordal = *ordeal* = *atonement*) a ysgrifenyddyd yn wreiddiol gan y bardd. Ceir ymadroddion cyffelyb yng Nghywydd Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd (*Iolo MSS.*, p. 300), ond ei fod ef yn dyweyd fod myned *ddwywaith* i Dŷ Ddewi yn gyfartal i un daith i Rufain, ac fod myned *deirgwaith* i Dŷ Ddewi yn gyfartal i un daith at Fedd Crist:—

"Cystal om ordal i mi
 dwywaith fyned at dewi
 a phe delwn kystlwn kain
 o rif unwaith i Ryvain
 myned dairgwaith araith yw
 am enaid hyd y mynyw
 i maen kystal a myned
 i vëdd krist unwaith vydd
 krëd."

Er i ddinas ac eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi ddyoddef yn drwm oddi wrth ryfeloedd creulon y Canoloesoedd, pan oedd y naill elyn ar ol y llall yn difrodi ac yn yspeilio; yr oedd y lle, trwy y lluoedd oedd yn myned yno ar bererindod, yn cynyddu yn fuan drachefn. Dŵr wedir wrthym (*Lewis's Top. Dict. of Wales*) fod y rhoddion a offrymid gan y pererinion yn gymmaint fel yr oedd yr offeiriaid yn eu rhanu yn

eu plith eu hunain trwy eu mesur, arbed y drafferth i'w cyfrif. Fe welir oddi wrth hyn fod crefydd (?) eisoes wedi talu ei ffordd yn dda—i wŷr eglwysig.

² "Deirgwaith" — *Add. MS.*, 14,970, *R. J.*, a'r *Cymru*.

³ "Cynired"—*Add. MS.*, 14,970; "cynnired"—*R. J.*, a'r *Cymru*.

Y mae "cynnired" a "chymmyred" (= cymmyredd) yn golygu dau beth tra gwahanol. Meddwl y blaenaf ydyw *mynychu* = *ymweld yn aml*; tra y mae yr olaf yn golygu *rhodd*. Defnyddir y gair gan Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 452) pan y dywed:—

"Cwn pob parth ei cyfarthai,
 Cymmyredd, na cherdd ni
 chai."

Credwn, felly, mai y testyn sydd gywir.

⁴ "Ar"—*Add. MS.*, 14,970, *R. J.*, a'r *Cymru*.

⁵ "Hafoed."—*Cymru*.

⁶ "Rhufain" yn y llyfrau ereill.

⁷ "Fy" yn y llyfrau ereill.

⁸ "Ys deddfol"—*Add. MS.*, 14,970; "ys deddfawl"—*R. J.*

⁹ "Ym Maenol Ddewi ym Mynyw."

Add. MS., 14,970.

"Ym maenol Dewi'm Mynyw."
R. J., a'r *Cymru*.

- Ynglyn rrossyn maer Iesin¹
 16 A rol i wydd a gwydd gwin²
 Ac vnic mvssic a moes³
 A gwrle gwyr ag arloes⁴
 A chytgerdd⁵ hoyw loyw lewych
 20 rrwng organ ychlan⁶ a chlych
 Ar trvblwm trwm tramawr⁷
 Yn bwrw sens i berri sawr⁸
 Nef nevoedd gyoedd gain⁹
 24 Ysta dref ystad ruuain¹⁰

Credwn fod *R. J.* yn gywir pan yn sylwi fod "maenol" yma yn golygu eglwys a chartref yr archesgob, yng nghyda'r adeiladau eglwysig o amgylch. Yn ei Farwnad i Rhys Nanmor (*Y Cymmrodor*, vol. ix., p. 38) sylwa Lewys Mon:—

"Nanmor o Faenor Fynyw
 Nenbren pob awen pe byw."

¹ "Yng nglyn Rhossyn mae'r Iesin."—*Add. MS.*, 14,970.

Glyn Rhosyn yng nghantref Pebidiog (yn awr Dewisland Hundred) yn Sir Benfro, lle y saif Tŷ Ddewi. Gelwir y lle gan Giraldus Cambrensis yn *Vallis Rosina*.

"Iesin" = yr hyn sydd brydferth.

² "Ac oliwydd a gwydd gwin."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

"Ac oliwydd a gwŷdd a gwin."

Cymru.

Gwelwn oddi wrth y darlleniadau hyn, er eu bod yn amrywio, mai y llinell yr amcanai copiwr y testyn ei hysgrifenu ydoedd:—"A'r oliwydd a gwŷdd gwin."

³ Gwell na "A demmig musig a moes" yn y llyfrau ereill; ond eto nid ydyw mewn un modd yn foddhaol. A ydyw "unic" yn y fan hon yn peidio a bod yn llygriad o *unique* = digymhar?

⁴ "A gwrle gwyr ag arloes."

Add. MS., 14,970, a'r

Cymru.

"Agwrle gwŷr â gorloes."—*R. J.*

Gwrle = *vocal music*; gorloes = organ. Cyfeirir yma at ardderohawgrwydd gwasanaeth cerddorol Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi.

⁵ Cytgerdd = *chorus*.

⁶ "Achlan" yn y llyfrau ereill.

Achlân = yn gyflawn; gan ddynodi, mae'n debyg, holl adnoddau cerddorol y lle.

⁷ "Ar thuriblwm," gyda "thuribulum = y thuser. E. E." ar ymyl y ddalen, yn *Add. MS.*, 14,970; "thuriblwm," gyda "thurible, censer" ar waelod y ddalen, gan *R. J.*; a "thwriblwm" yn *Cymru*.

⁸ "Yn bwrw serw i beri sawr."

Add. MS., 14,970.

Diammeu mai "sens" = *incense* (= aroglarth) sydd gywir; gair o gyffelyb ystyr i *ddysgleirdeb* ydyw "serw."

⁹ "Nef nevoedd yn gyhoedd gain" yn y llyfrau ereill; ac yn ateb o ran hyd. Vstyriai Iolo y lle mor hyfryd fel yr oedd yn ei gymharu i nefoedd y gogoniant.

¹⁰ "Ys da dref ysdâd Rhufain."

Add. MS., 14,970.

- Paradwys gymry lwys lefyn
 Por dewisdref paradwys drefyn¹
 Pedus² vu gan Sain Padric
 28 Am sori Duw amser dic
 Amerchi hynn amarch oedd
 Iddo or lle a wnaeddodd³
 Vynned ymaith o Vyniw⁴
 32 Kyn geni Dewi da yw
 Sant oedd ef on nev i ni
 Kynwynol kynn ei eni⁵

Ac nid yn unig yr oedd Tŷ Ddewi yn gyfartal â'r nefoedd, ond â Rhufain hefyd !! Os cymmerwn eiriau y bardd am eu gwerth, rhaid fod ei syniad am y nefoedd yn lled gynmysglyd. Ac i fod yn gywir, er mwyn esgyneb, dylasai "Rhufain" ddyfod o flaen y "nefoedd," gan y tybiwn mai dysgyniad lled fawr ydyw syrthio o'r nefoedd i Rufain. Ond y mae y beirdd wedi cael eu trwyddedu i ddyweyd yr hyn a fynant.

¹ "Paradwys Gymru lwys lefn
 Por dewis drefn pur dwys-
 drefn"—yn y llyfrau ereill.

Ysgrifenedig *Gymry* am y wlad, yn gystal ag am y bobl, am dros ddau can' mlynedd ar ol amser Iolo Goch.

² Y mae yn amlwg mai gwall ydyw hwn am "pedrus," neu "petrus"; y darlleniad yn y llyfrau ereill ydyw:—

"Petrus fu gan Sain Patrig
 Am sorri Duw amser dig."

Cyfeirir yma at waith St. Patrick yn digiooherwydd i'r angel warafun iddo lafurio yn y rhan hon o'r wlad. (Gwel Cywydd Rhif XXXV., llin. 44, nodlyn 7.)

³ "Am erchi hyn ammarch oedd
 Iddo o'r lle a wnaeddodd."

Add. MS., 14,970.

⁴ Yn y llyfrau ereill ceir
 "Fyniw" = *Menevensis* = Tŷ Ddewi.

⁵ Cyfeirir yma at y chwedl hono pryd yr aeth Non, pan yn feichiog ar Dewi, i'r eglwys i wrando ar Gildas Sant yn pregethu; ond tarawyd y pregethwr â mudandod fel na allai lefaru gair. O'r diwedd cafodd allan yr achos, trwy y dangfyddiad y byddai y baban oedd yng nghroth y lleian yn fwy ei radd a'i urddas nag efa. Ac ar ol ei throi allan o'r eglwys, gallodd lefaru yn ddirwystr. Yng Nghywydd Dewi Sant gan Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd (*Iolo MSS.*, p. 298), yr hwn sydd yn dwyn cryn lawer o debygolrwydd i eiddo Iolo Goch, ceir y llinellau a ganlyn, yn cyfeirio at yr un amgylchiad:—

"Gildas yna gas anair
 heb alli pregethu gair
 am vōd non wiw gainlliw gynt
 is gil y ddor nys gwelynt
 yn eglwys y groes oesir
 i ganed hwn ganiad hir."

- 36 Sant glan oedd pan i ganed
Am hollir maen graen i gred¹
Sant i² dad di ymwad oedd
Penadur saint pan ydoedd
Santes gydles lygadlonn
- 40 Vn ddi nam oedd nonn
Verch ynyr vawr i chenedl
Lleian³ wiw uwch ydiwr chwedl
Vn bwyd aeth yni ben
- 44 Barra oer a beryrenn⁴
Aeth ym henn nonn wen wiw
Er pann gad pennaic ydiw⁵

¹ "Am hollti'r maen graen i gred."—*R. J.*

Cyflawnodd Dewi, yn ol y chwedlau, lawer o wyrthiau tuag adegei enedigaeth. Er enghraifft, pan oedd Non mewn gwewyr esgor, gwasgai faen oedd yn ei hymyl, yr hwn a dderbyniodd argraff ei bysedd fel pe buasai gŵyr. Yna holltodd darn o hono ymaith, yr hwn a neidiodd dros ei phen gan ddisgyn wrth ei thraed. Wedi hyny, adeiladwyd eglwys ar y fan, a rhoddwyd y maen yn sylfaen yr allor. Heb law hyny, yr oedd y fan y cymmerodd ei enedigaeth le, er fod y wlad oddi amgylch yn cael ei blino gan ystorm o fellt, taranau, a gwlaw, yn berffaith sych, a'r haul yn tywynu arno. A thrachefn, pan aed i'w fedyddio, gan nad oedd dwfr yn gyfleus, tarddodd ffynnon allan o'r tir sych i'r perwyl; a chafodd mynach dall, yr hwn a'i daliai, ei olwg trwy ymolchi deirgwaith yn y ffynnon hon! Y mae Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd yn manylu llawn cymmaint a Iolo ar y gwyrthiau hyn:—

"Pan esgores y pennaeth
y llech yn ddwy lech y ddaeth
duw wrth vedyddio dewi
a wnaeth ffons o ddwfr i ni
roes yw dad bedydd medd rai
i olwg gynt ny welai."

² "Ei" a geir yn y llyfrau ereill lle y ceir "i" yn y testyn.

³ Sylwa *R. J.* mai enw priodol ydyw "Lleian" yma—merch i Brychan Brycheiniog, un o hynafiaid Non, mam Dewi. Ond ai nid Meleri, merch Brychan, oedd gwraig Ceredig, yr hwn oedd yn daid i Dewi? Tybiwn hefyd mai *Lluan*, ac nid *Lleian*, ydyw yr enw hwn.

⁴ Beryren = *cress*. Dywedir i Non, tra yn feichiog ar Dewi, fyw ar fara a dwfr yn unig; ac y mae Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd yn dyweyd mai yr un ymborth a gafodd Dewi:—

"Bwyd dewi yn dra vy vwy
bara a dwfr bwriad afryw."

Ond y mae Iolo Goch yn ychwanegu "beryren" at hyny.

⁵ "Ag aeth ym mhen Nôn wen wiw

Er pan gaed pennaig ydiw."

Add. MS., 14,970, ac *R. J.*

ZZI

- Holl saint y byd gyd gerynt
 48 A ddoeth¹ ir senedd goeth gynt
 I wrandaw yn yr vndydd
 I bregeth a ffeth oi ffydd²
 Lle disgodd³ llu dewisgoeth
 52 Y⁴ bu yn pregethu yn goeth
 Chwemil saith ugeinmil saint
 Ag unfil wi or genvaint⁵
 Roed iddo vod glod glendyd
 56 Yn benn ar holl saint y byd⁶
 Kodes nid ydoedd ei essyn
 Dan draed Dewi vry bryn⁷

"Ag aeth ymhen Non wen wiw,
 Er pan gaed pen aig ydyw."

Cymru.

Y meddwl yw mai ar yr un ymborth ag yr ymborthai Dewi arno yr ymborthai Non hefyd ar ol ymdug o honi o'r "penaig" = penaeth.

¹ "A ddaeth." — *Cymru.* Ys-grifonid "ddoeth" yn lle "ddaeth" yn fynych gan yr hen feirdd. Cyfeiriad a geir yn y llinellau hyn at Senedd Ffrefi, lle yr oedd y fath dyrfa wedi ymgynnull yng nghyd fel nas gallai neb bregethu iddynt nes cael Dewi yno, hyd yn oed pe llefarasai y pregethwr trwy udgorn. Mewn canlyniad, anfonwyd Deiniol, Esgob Bangor, a Dyfrig, Esgob Caerllion ar Wysg, yn genadau ato, wedi i'rcenadau blaenorol aflwyddo. Yntau, y tro hwn, ar ol cryn betrusder, a gydsyniodd; ac a aeth gyda'r ddau esgob i'r Gymmanfa. Prif amcan y gymmanfa hon oedd gwrthwynebu heresi Pelagius.

² "I wrandaw yn yr un-dydd
 Ei bregeth a pheth o'i ffydd"
 —yn y llyfrau ereill.

³ "Dysgodd"—yn y llyfrau ereill.

⁴ "Lle"—yn y llyfrau ereill.

⁵ Nid rhyfedd fod y bardd yn galw y fath nifer a 147,000 o saint yn genfaint. Y mae yn syndod i ni—neu yn fwy cywir, buasai yn syndod mawr pe gallasem gredu y chwedl—lle yr oedd yr holl gynnulleidfa hon yn cael bwyd a lletty. Ond, o ran hyny, diammeu i Dewi gyflawni gwyrthiau i wneyd y diffyg i fyny. A gallem feddwl oddi wrth yr hyn a ddywed Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd nad oedd yno un yn fwy na llai na'r nifer a nodir:—

"Mawr vy r nifer am gerynt
 a gad ynghwm brevi gynt
 Saith igain mil syth ganiad
 o saith mil kynnil i kâd
 a ddauth i bregeth ddethol
 a wnaeth dewi sant yn ôl."

⁶ "Rhoed iddo fod glod glendid
 Yn ben ar holl saint y byd"—
 yn y llyfrau ereill.

⁷ "Codes nid ydoedd resyn
 Dan draed Dewi Ffrefi fryn."
Add. MS., 14,970.

60 Ev yn dec a venigawdd
Kantref o nef oedd ei nawdd¹
Ar ennaint twymyn ar enic
Ni ddervydd trac owydd tric²

Y mae yn hawddach deall y dyfyniad wedi ei attalnodi, fel y gwneir gan R. J. :—

“Codes—nid ydoedd resyn—

Dan draed Dewi Frefi, fryn.”

Yn ol y traddodiad, yr oedd y gynnulleidfa yn Senedd Frefi yn awyddus am i Dewi esgyn i ben crugyn o ddillad ag oedd wedi ei ddarparu fel areithfa. Ond gwrthododd. Yn hytrach na hyny, gorchymmynodd i ŵr ieuanc, yr hwn, pan oedd ar ei ffordd i'r gymmanfa, a godasai o farw, osod napcyn ar y ddaear mewn pant-le; ac ar hwnw y safodd i areithio. A phan yr oedd efe, yn y dull hwnw, yn pregethu yn llym yn erbyn heresi Pelagius, daeth angel o'r nefoedd yn rhith colomen wen, gan eistedd ar ei ysgwydd. Yna dechreuodd y ddaear godi dan ei draed, nes ymfurfio yn fryn uchel. A dywedir wrthym i'w bregethiad ar yr achlysur hwn, yng nghyda'r gwyrthiau cyssylltedig, brofi yn effeithiol i gadarnhau y bobl yn y ffydd.

Dywedir yn gyffredin mai enw arall ar Pelagius oedd Morgan. Ond tybiwn mai camgymeriad ydyw hyny. Dychymyg yn unig ydyw fod Pelagius yn cael ei alw yn Morgan, nac yn ddim heb law Pelagius.

¹ “Ef yn deg a fendigawdd

Kantref o Nef oedd ei nawdd”

—yn y llyfrau ereill.

Yr ydym yn teimlo cryn anhawdder i benderfynu beth a ddylai fod

y gair olaf yn llinell 59—pa un ai “venigawdd” (= fynegawdd) ai “fendigawdd?” Os y blaenaf, dylid cyseylltu y llinell â'r un o'i blaen; hyny yw, iddo fynegu “yn deg” o ben y bryn. Ond os yr olaf, gellir cyseylltu y gair â'r llinellau dilynol, sef iddo ddefnyddio ei nawddfaint trwy alw am fendith o'r nef ar y dwfr gwenwynig. Yr ydym yn tueddu yn gryf at olygiad olaf; ac os ydyw yn gywir, y mae y testyn yn wallus.

² “Ar ennaint twymyn arennig
Ni dderfydd tragywydd trig.”

Add. MS., 14,970, a'r Cymru.

“A'r enaint twym arennig
Ni dderfydd tragywydd trig.”

R. J.

Credwn nad ydyw Robert Jones wedi cael gafael ar feddwl yr ymadrodd “ennaint twymyn” pan y cynnygia fel eglurhad — “the unction; that is, the blessing.” Cyfeiriad sydd yma yn hytrach at waith Dewi yn bendigo dwfr gwenwynllyd yng Nghaerbaddon, neu, a dilyn orgraff *Buchedd Dewi*, dywedir:—“Dewi a doeth yr lle yd oed dwfyr yn llawn o wenwyn, ac ae bendigawd, ac a wnaeth y dwfyr hwnnw yn dwym yn hyt dydbrawt, a hwnnw a elwir yr Enneint Twymyn.” Ceir ymdriniaethddyddorol ar y chwedloneg hon gan y Proffeswr Sayce, mewn erthygl dau y penawd “The Legend of King Bladud,” yn *Y Cymmrodor*, vol. x., p. 207.

- 64 Duw arithiawdd dygn gawdd dic
ddeu blaidd anian ddievylic¹
a deuwr hen o dir hud
gwydre astrvs ac odrud²
Am nevthur drud amtir gynt
68 rvw bechod arybuchynt³
Ai mam pa ham y bai hi
Yn vleiddiastr oerfel iddi⁴
A dewi geth ai duc wynt
72 Oi hir ben yni evr bwynt⁵

¹ "Duw a rithiawdd dygngawdd
dig

Ddeuflaidd o anian ddieffig."

Add. MS., 14,970.

"Duw arithiawdd, dygn-gawdd
dig

Ddeu-flaidd o anian ddieffig."

R. J.

² Y darlleniad yn y llyfrau ereill
sydd fel y canlyn :—

"Deuwr hên oedd o Dir Hûd

Gwydro astrus a godrud"

gyda nodyn ar ymyl y ddalen yn
Add. MS., 14,970, gan Iolo Mor-
ganwg :—"Sir Benfro a elwid gynt
Gwlad yr Hud. I. M." Ond deallwn
oddi wrth Fabinogi Manawyddan,
fab Llyr, a'r Trioedd hynaf (*Text of
the Bruts*, pp. 57, 308) fod Dyfed
yn cael ei galw unwaith yn Wlad
yr Hud a'r Lledrith; a rhan o
Ddyfed ydyw Sir Benfro.

Sylwa Robert Jones fel y canlyn
ar yr ail linell o'r ban hwn :—
"GWYDRO AND ODRUD. No authentic
account has been handed down of
these persons, nor yet of the parti-
cular sin they committed. The
lives of St. David, in *The Cambro-
British Saints*, do not mention
them." Ni buom ninnau nemawr

mwy llwyddiannus, ond credwn mai
yr un rhai ydynt a Gwydneu Astrus
a Gwydrut. Cyfeirir atynt yn
Mabinogi Kulhwch ac Olwen (*Mabi-
nogion*, Oxford edit., p. 111) fel y
canlyn :—"Deu geneu gast rymi.
gôydrut. a gôydney astrus."

³ "Am wneuthur drwg antur
gynt

Ryw bechod a rybuchynt"—
yn y llyfrau ereill.

Rybuchynt = ddymunent. Ceir
"puchwch, damunwch" ar ymyl y
ddalen yn Nhestament Salesbury
(1 Cor., xiv., 39) fel yn gyfystyr â
deisyfuch, neu *bydluch awyddus*
yn ol y cyfieithiad cyffredin. Ar-
ferir "Mi bechsw'n (buchsw'n) fynydd"
= *I would wish to go*, yn Sir Aber
teifi.

⁴ "Ai mam baham y bai hi

Yn fleiddiastr oerfel iddi."

Add. MS., 14,970

Ond yn fwy dealladwy gan *R. J.* :—

"A'u mam : ba ham y bai hi

Yn fleiddiastr ? oerfel iddi !"

⁵ Yn llawer mwy naturiol, fel y
gwelir, yn y llyfrau ereill :—

"A Dewi goeth a'u dug hwynt

O'u hirboen ag o'u herw-bwynt."

Diwallodd Duw i allawr
 I vagl a wnaeth miragl mawr¹
 Yr adar gwyllt or redec
 76 a yrai i'r tai vy Ior tec²
 Keirw oselgyrn chwyrn chwai
 Gweission uthir ai gwysnaethai³
 Duw mawrth galan mawrth ymedd
 80 i varw yr aeth ef i orwedd⁴
 Bu ar i vedd diwedd da
 Kain gler yn kanu gloria⁵
 Yngylion nef ynglan nant
 84 ar ol bod i arwyliant⁶
 I bwl vthern ni vernir
 Ennaid tyn yn anatr⁷
 A gladder di over yw
 88 ymynwent dewi y mynyw⁸

¹ "Diwallodd Duw ei allawr

Ei fagl a wnaeth miragl
 mawr"—yn y llyfrau ereill.

Hysbysir ni i Dewi, yng nghyda
 Teilo a Phadarn, gael ei anfon i
 Jerusalem, ym mha le y cafodd
 Dewi bedairanrheg gan y Patriarch,
 sef allor gyssegredig, ar yr hon y
 bu corff Crist yn gorwedd; cloch
 nodedig; ffon; a mantell; a'r pedair
 yn ei alluogi i wneyd gwyrthiau
 rhyfeddol dros ben. Dichon mai at
 yr allor hono y cyfeirir yma, ac mai
 y "vagl" (= *crozier*) a wnaeth y "mir-
 agl mawr" oedd yr un a gafodd
 gan y Patriarch yn Jerusalem.

² "Yr aradr gwyllt o redeg
 Yrrai i'r tai fy Iôr tēg."

Add. MS., 14,970.

³ "A'r ceirw oselgyrn chwyrn a
 chwai
 gweision uthr a'u gwasan-
 aethai."—*Add. MS.*, 14,970.

⁴ "Duw Mawrth calan mawrth
 ymedd

I farw aeth ef i orwedd."

Add. MS., 14,970.

Bu farw Dewi ar y laf o Fawrth.
 Sylwer fod y cyntaf o Fawrth
 yn y flwyddyn y bu farw Dewi yn
 syrthio ar ddydd Mawrth. Dywedir
 yrunpeth hefyd yn y "Bucheddau."

⁵ "Bu ar ei fedd diwedd da
 cain gler yn canu gloria"—
 yn y llyfrau ereill.

⁶ "Engylion nef yng nglan nant
 Ar ol bod ei arwyliant."

Add. MS., 14,970.

Hyny yw, fe aeth yr angylion i
 ganu *gloria* ar ei fedd ar ol
 cyflawni y gwasanaeth angladdol.

⁷ "I bwl uffern ni fernir
 Enaid dyn yn anad tir"—
 yn y llyfrau ereill.

⁸ "A gladder di ofer yw
 Ym mynwent Dewi Mynyw."

Add. MS., 14,970.

Yr oedd y tir mor gyssegredig,
 yng ngolwg Iolo, fel na fwrid enaid
 yr hwn a gleddid yno i uffern.

- Ni saing kythraul brychavlyd
ar i dir byth er da or byd¹
Hyder awnaeth kanhiadu
92 gras da y grawys du²
Ir brytaniaid brut wyneb
y gwynad ynanad neb³
Pe bai mewnn llyfr or pabir⁴
96 bevnydd⁵ mal haf ddydd hir
Noter a ffeblic un natur
a ffin a du a ffenn dur⁶

¹ "Ni sang cythraul brychavlyd
Ar ei dir byth er da'r byd"—
yn y llyfrau ereill.

Pa fodd bynag, os ydyw "Brut
Aberpergwm" yn gywir, lladrata-
odd rhywun, oddeutu'r flwyddyn
1087, ysgrin Dewi, yng nghyda
thrysorau o aur ac arian, o Eglwys
Tŷ Ddewi:—"Ynghylch yr un
amser y dygwyd ni wyddys gan
bwy ysgrin Dewi a'r Trysorau
auraid ac arianaid o Eglwys
Mynyw" (*Myv. Arch.*, p. 699).

² "Hyder a wnaeth canhiadu
Gras da y garawys du"—
yn y llyfrau ereill.

"Kanhiadu" = caniateu.

³ "I Fryttaniaid Frut wyneb
Y gwnaid rad yn anad neb"
—yn y llyfrau ereill.
Ceir cyfeiriad cynnil yma at
haniaid y Cymry o Frutus chwedl-
onol.

Y mae yn amlwg fod llinell 94
yn y testyn yn dra gwallus;
ac anhawdd fuasai gwneyd allan y
meddwl yn annibynol ar y llyfrau
ereill.

⁴ Wrth "pabir," yn ol y Dr.
W. Owen Pughe, y golygir
brwynen, neu *ganicyll frwynen*.

Pabir a ddeillia o'r gair Lladin
Papyrus, o'r hwn y deilliodd *papyr*.

⁵ "Peunydd" — yn y llyfrau
ereill. Dyweyd y mae y bardd yn
y llinellau hyn, a'r rhai dilynol,
pe buasai ysgrifenydd cyfarwydd
yn ysgrifenu y naill ddydd ar ol y
llall, a phob diwrnod fel hirdddydd
haf, mewn llyfr o faintioli anferth,
na allasai mewn llai na thridiau a
blwyddyn gofnodi yr holl weith-
redoedd daionus a wnaed gan
Ddewi Sant wedi iddo ddyfod allan
o'i neillduaeth a dechreu ar ei
fywyd cyhoeddus.

⁶ "Notttri Peblig un natur

A phin a du a phen dur."

Add. MS., 14,970.

"Notttri Peblig" = *Notary Public*
—ysgrifenydd professedig.

Sylwa R. J. y gallai ambell un
lled benboeth ddeall yr ymadrodd
"pen dur" fel prophwydoliaeth
am y *steel pen*. Ond, tybiwn, os
oedd gan Iolo ryw syniad o gwbl
heb law cael rhywbeth i odli gyda'r
linell flaenorol, mai defnyddio ym-
adrodd ysgrythyrol yr oedd:—"O
nad ysgrifenedid hwynt yn y graig
dros byth â phin o haiarn ac â
phlwm!" (*Job*, xix., 24).



100 Yny sgrivenv bu ludd
I vuchedd ef ddi achudd¹
Odid vyth yr daed a vai
yr enyd yr ysgrivennai²
104 Dridiau a blwyddyn drwydoll
a wnaeth o ynniaith oll³

Iollo Goch ai kant.

¹ " Yn ysgrifennu bu budd
Ei fuchedd ef o'i achudd."
Add. MS., 14,970, ac R. J.

" Yn ysgrifennu bu budd,
Ei fuchedd ef ddi achudd."
Cymru.

" Achudd ' a olyga neillduaeth,
felly wrth " ddi achudd," neu "o'i

achudd," yr ydym i ddeall ei fywyd
cyhoeddus.

² " Odid fyth er daed fai
Ennyd yr ysgrifennai"—
yn y llyfrau ereill.

³ " Dridiau a blwyddyn drwy-
doll

A wnaeth ef o wyniaeth oll "
--yn y llyfrau ereill.

LXX.

KO. I GWENFREWI AI FFYNNON.

(*O'r Add. MS., 14,908, fol. 90.*)

Ar tudal. 82 yn yr ysgriflyfr uchod, ysgrifena y Dr. W. O. Pughe fel y canlyn:—

“Y chwe chywydd canlynol a adysgrifenaais i o hen gwrach sal o eiddo L. Morris, yr hwn a fwriwyd ymaith gan nad oedd ynddo ond y rhai hyn heb gopiâu o honynt mewn ysgriflyfrau ereill yn y gell yn perthyn i'r Ysgol—Mae'r cywyddau hyn wedi eu ysgrifenu yn union fel yr oeddynt yn yr hen lyfr yr oedd wedi 'sgrifennu, mae'n debyg o gylch diwedd teyrnasiad Elizabeth—W. Owen. 1788.

“Y cywyddau eraill a 'sgrifenaais yn y llyfr hwn a gymmerais allan o gwrach arall o'r un dull a threfn—W. O.”

Perthyn “Ko. i Gwenfrewi” i'r chwe' cywydd cyntaf a nodir, ac, fel y gwelir, y mae llawer o hono ar goll. Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MS., 14,998*, ond mor aneglur fel y mae bron yn annarllenadwy; a phriodolir ef yn yr ysgriflyfr hwnw i Iolo Goch. Cyfansoddodd Tudur Aled hefyd gywydd ar yr un testyn (Gwel *Traethodydd*, 1875, tudal. 72).

Y mae y traddodiadau am Gwenfrewi a'i ffynnon yn ddigon adnabyddus. Merch ydoedd, meddir, i Theuith (mab Eluith), arglwydd neu benaeth cyfoethog, yr hwn a roddodd i St. Beuno dderbyn o dir i adeiladu eglwys arno, a phenododd ef hefyd yn athraw crefyddol i Gwenfrewi ei ferch. Syrthiodd un Caradog, mab Alan, yr hwn oedd benaeth cymmydogaethol, mewn cariad â hi; ond cafodd ei bod mor ddiwair ag ydoedd o brydweddol. Gan na wnai hi dderbyn ei gynnygion, yngynddeiriogodd gymmaint fel y

torodd ymaith ei phen â'r cleddyf. Llithrodd y pen i lawr ar hyd y llechwedd, ac ni arosodd hyd nes myned i'r eglwys, lle yr oedd Beuno ar y pryd yn cadw gwasanaeth. Cododd Beuno y pen, ac aeth efe a'r gynnulleidfa ddychr-ynedig ag ef at y corff. Gosododd Beuno y pen yn ol ar y corff, ac ar ol gweddio, daeth Gwenfrewi yn fyw drachefn. Tarawyd Caradog yn farw yn y fan, gan farn; ac aeth ei gorff ymaith nas gwyddai neb i ba le. Tarddodd ffynnon allan yn y fan lle lladdwyd Gwenfrewi, ac y mae y ffynnon hono yn parhau i wneyd gwyrthiau, medd y Pabyddion. Bu Gwenfrewi fyw bymtheng mlynedd ar ol hyn, a chladdwyd hi yn Gwytherin. Symmudwyd hi o Gwytherin i Fynachlog St. Ægidius, yn Amwythig, yn amser y brenin Stephen. Robert, pennaeth y fynachlog hono, a ddyfeisiodd lawer o'r *hen* chwedlau a ddywedir am Gwenfrewi; ond y mae y chwedlau am rinweddau y ffynnon yn parhau i gael eu dyfeisio.

Rhedodd or ddauar hoewdeg
rho Duw o chwyl rhadau chweg
ffynnon gwell dafn na ffunnoedd
4 dwfr i flas da *veiwl*¹ oedd
llel gwelwyd gynt helynt hawdd
. . . . chnant heddiw sydd wychnawdd
. . . . a gartref wiwnef wedd
8 . . . Sant ai etifedd
. . . . gwen bu gwir
. . . . gwir
. . . . hwyl
12 . . . nwyl
. . . . eg
. . . . eg
I le ffrwd o le ffrwdwysc
16 oleu win a elwir wyse

¹ Y mae r wedi ei hysgrifenu a feddylir? "O raddol *reiol* ryw' uwch y v yn "*veiwl*." Ai *reiol* (*Eos Ceiriog*, i., tudal. 138).

- anwyl eglur wiw ynni
ennaint rhag pob haint yw hi¹
er arddangos aur ddowngoeth
20 erw a dawn yno i doeth
ffyddlawn y bobol lawn y bwlch
ffynnon ag afon gyfwlch
er gwiw nawdd ir gwann eiddil
24 er gwared mawr ludded mil
ffawd mawr yw cael yn ael nant²
ffynnon a hon un ffynniant
Vair mor wyrdd varmor werydd
28 Ffons³ vendigedig or ffydd
liwbryd lathrbryd o lethrbron
ffrwd teg⁴ fal unwedd ffrw tonn
I dwr or ddol uwch gorllawr
32 ai mam a wnai wrthie⁵ mawr
Ynn i berw yno i bwrir
enw gwaith iawn yw a gwir
Dy wrth i Dadeni
36 ar i heurfain hi
 ddolwg dda ddilth⁶
 . . . m iach a byw a nych
 . bydd yno cof lle
40 . budd a wna . y ff — y

¹ Y mae yr ofergoelion yng nghylch rhinweddau gwyrthiol Ffynnon Gwenfrewi wedi cael eu hadgyfodi er ys ychydig yn ol. Cyrcha ugeiniau o bobl i Dreffynnon i ymofyn meddyginiaeth—ac, os ydyw hanner yr hyn a glywir yn wir, y mae yn syndod fod neb yn marw yno.

² Yr oedd Gwenfrewi, meddir, cyn iddi gael tori ei phen, yn byw mewn unigedd mynachaid mewn dyffryn, yr hwn, o herwydd ei sychder, a

elwid yn Sych Nant (*Lewis's Top. Dict. of Wales*, vol. i., s.v. Holywell).

³ *Fons*, gair Lladin am ffynnon.

⁴ Y mae y bardd yn gosod ffrwd fel enw gwrrywaidd—ffrwd *deg* a ddywedir yn awr.

⁵ Pwy bynag oedd yr awdwr, y mae yn amlwg fod y ffynnon yn enwog am ei rhinweddau gwyrthiol yn ei amser ef.

⁶ Gwelir oddi wrth y llinell ddi-lynol mai "ddilych" a ddylai fod.

- . oi llawr y
 . . l . . . eirw
 bob un fal arian byw bydd
 44 boglymau bob ddau glennydd
 bob dri uchel i gwelais
 bob pedwar llafar yw, r, llais
 bagadau diliau rhag dig
 48 bronvron avalau br^hfrig
 braisc dreinⁿ dwr hywynn hoew
 byrflwnc chwerthiniog borfloew
 blodeu grym bu hoewdeg ras
 52 blagur berw eglur briglas
 mowrdeg lygadau mordwy
 main grissial hoewal, n, hwy
 ni wnaeth mab mab¹ mair mowr glarir mwyn
 56 miragl erioed er morwyn
 dann, r, haul daioni rhaid
 degach o ddwr bendigaid
 nis rhewodd y naws rhuddwyllt
 60 nis llif hynt glaw na gwynt gwyllt
 gwell yw nai ddeuwerth o dda
 na thriagl byth ni threia
 gwirod pobl gred gyffredin
 64 gwell yw or hanner nar gwin
 glendid mawr gloew undod mad
 gwledd trigaredd trwy garriad
 glochwyd mwgul goleuchweg
 68 ar Reiddal verw ty . . . ail teg
 gwisgi ddyfr gwaig
 diau na ffaid or g
 ar haul deg ar hol
 72 . . es er cadw ei

Jolo Goch. q.

¹ Un "mab" a ddylai fod yn y llinell drosgl hon.

LXXI.

I R O F F E R E N .

(O Llyr Huw Lleyr—*Add. MS.*, 14,967, fol. 83).

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MS.*, 14,970; ac y mae yn argraffedig yn *The Works of Iolo Goch* (gan R. Jones), p. 36.

Ystyrir yr Offeren y pwysicaf o wasanaethau Eglwys Rhufain ac Eglwys Groeg, ac yn yr hwn y gweinyddir y cymmun. Cynnwysir y gwasanaeth mewn pedair rhan: (1). Yr *Introitus*, neu y rhan barotoawl, yn cynnwys gweddïau, salmau, &c. (2). Y Cyssegriad, pryd y mae yr offeiriad yn cyssegru yr elfenau, gan adrodd y geiriau:—

Hoc est corpus meum, et hic est calix sanguinis mei," ar yr un pryd yn dyrchafu y bara a'r cwpan i'w dangos i'r gynnulleidfa. (3). Y Cymmun ei hun, yr hwn, ar ol adrodd rhai gweddïau pellach, a gyfrenir i'r rhai a ddymunant ei dderbyn. (4). Y *Post Communio*, sef ychydig o weddïau gan yr offeiriad, a darlleniad o Ioan, i., 1-14; yna, ar ol eu bendithio, y mae y gwasanaeth drosodd. Y mae yr offeiriad, pan yn gweinyddu y gwasanaeth hwn, yn sefyll wrth yr allor, gyda'i gefn at y gynnulleidfa, ac nid ydyw yn eu hannerch o gwbl, oddigerth ar ddiwedd rhai o'r gweddïau, pan y trydd atynt gan ddywedyd, "*Dominus vobiscum*" (Yr Arglwydd a fyddo gyda chwi), neu "*Orate Fratres*" (Gweddîwch, frodyr); ac y mae yn troi at y gynnulleidfa hefyd wrth ddarllen y gweddïau ar ol y Cymmun. Yn yr Eglwys Babaid, y mae yr holl wasanaeth yn yr iaith Ladin; arferir yr hen Roeg yn yr Eglwysi Dwyreiniol, a'r Syriaeg ym mhlith y Maronitiaid a'r Jacobitiaid; ond ni weinyddir ef byth yn iaith gyffredin y bobl. Nid ydyw y

gynnulleidfa ychwaith yn cymmeryd unrhyw ran gyhoeddus ynddo. Pa fodd bynag, goddefir iddynt yn awr ddefnyddio llyfrau yn cynnwys cyfieithiad o'r gweddïau i'r iaith gyffredin, ar y rhai yr annogir hwynt i sefydlu eu meddyliau. Ond gallwn fod yn dra sier nad oedd hyn yn oddefedig yn amser Iolo Goch. Nid ydyw y gwasanaeth yn y cyffredin yn parhau mwy na rhyw hanner awr, heb law ar y gwyliau ac amserau gosodedig, pan y mae cerddoriaeth a rhwysg anarferol. Er rhoddi gwell syniad i'r darllenydd am weinyddiad yr offeren, a'r defodau a arferir gan yr offeiriaid, ni a ddyfynwn a ganlyn o'r llyfr Pabyddol hwnw a elwir "*Allwydd neu Agoriad Paradwys*," tudal. 193-7 :—

"Nid Pregeth, nid Exhortatiwn, nid Athrawiaeth, &c. Yw'r Offeren sanctaidd : ond Aberth Fawr y Crefydd Christianogl, a'r hon y mae'r bobl ffyddlon yn anrhydeddu ac yn addoli Duw. Hynny yw, sancteiddlawn Action Fawr a Solemn ydyw, yn cynnwys ynddi eihun nifer mawr o ddirgeleddus Rithiau, Arwyddion, Defodau a Gweithredoedd neu *Ceremonïau* sacraidd, yn gystal a geiriau. Yr hyn ni ddylai neb ei dybied yn rhyfedd, oblegid y gellir anrhydeddu Duw, ac *adeiladu* y bobl ffyddlon yn gymmaint a Gweithredoedd ac a Geiriau. Mae'r Offeiriad yn yr Offeren, er esampl, yn gwneuthur arwydd y Groes arno eihunan weithiau o'r talcen hyd tan y ddwyfron ac o'r ysgwydd asswy i'r ysgwydd ddeheu ; weithiau ar y talcen yn vnïc, weithiau ar y gwefusau yn vnïc, weithiau ar y ddwyfron yn vnïc ; weithiau ar yr Offrymmau ; weithiau ar y Llyfr neu'r allor ; weithiau ar y bobl ffyddlon, &c. Yn gymmaint a'i fod ef yn yr holl Action sancteiddlawnhon, yn gwneuthur arwydd y Groes fendigedig 50 gwaith : yr hyn igyd sydd i'n cofio ni, y gwneir yr holl Aberth hon, er COFFA am ein Jachawdr Christ, megis y gorchymmynodd ef *Luc. 22. 19. 1 Cor. 11. 24.* (pan y gwnaeth ef yr Apostolion yn Offeiriaid) ac wrth hynny i *Adeiladu'r* ffyddloniaid. Yn ail, mae'r Offeiriad yn penlinio 12. waith ganmwyaf yn holl amser yr

Aberth ddirgeleddus hon wrth hynny i addoli Duw, ac i arwyddocâu fod y ffyddloniaid o bedwar Parth y Byd yn rhoddi goruchaf anrhydedd iddo ef, yn Nhrindod y tri Personau Duwfawl; megis hefyd i ddangos, ei fod ef yn offrwm i'r Mawredd Duwfawl holl Addoliannau y 12. Apostolion, a deuddeg Lwyth Israel. Yn drydydd, mae ef yn curo ei ddwytron 10. o weithiau yn yr holl Offeren, i arwyddocâu trwy'r weithred benydiol honno, y gwir edifeirwch sy gantho ef, a chan yr holl ffyddloniaid am ddarfod iddynt dorri 10. Gorchymynynion Duw. Yn bedwerydd, mae'r Offeriad yn cussanu'r Allor 8. o weithiau (yr hwn yw'r nifer perffeithlawn) i arwyddocâu wrth hynny fod Christ trwy ei Ddioeddefaint, wedi cymmodi yn berffeithlon y Genhedlaeth ddynol a Duw. Yn bummed, mae ef 8. waith hefyd yn cyfarch y ffyddloniaid presennol gan ddywedyd: *Dominus Vobiscum*, Bydded ein Hargludd gyda chwi, i ddymuno a gofyn yn daer trwy eu cyfrwng hwynt bresennoldeb a chymmorth Duw i gyflawni yr Aberth honno yn deilwng. Yn chweched, mae ef yn cyssylltu ei ddwylo ynghyd, ynghylch 50. o weithiau ymmhob Offeren, i arwyddocâu y recolectiwn meddwl ac enaid a ddylai fod gan bawb ar yr amser hwnnw, megis hefyd yr vndeb chariad perffaith tuac at Dduw a dyn a ddylai fod ymmhob vn y fo yn offrwm yr Aberth Sancteiddlawn honno. Yn seithfed, mae ef yn gogwyddo neu'n gostwng ei benn 40. waith gan mwyaf, ymmhob Offeren, ac yn rhyw rai yn fynychach, i arwyddocâu yr Vfydd-dod y mae ef a'r holl ffyddloniaid yn ei addaw i Dduw, megis hefyd yr Vfydd-dod a gyflawnodd Christ i'w Dad tragywyddol, wrth wneuthur eihun yn Aberth tros y Genhedlaeth ddynol, yn ei Ddioddefaint bendigedic. Ac er dibennu, mae ef yn gogwyddo neu'n crymmu ei holl gorph 12. waith, ac o hynny beder gwaith mewn modd gostyngeiddach na'r llall, wrth hynny i arwyddocâu gostyngiad Christ yn yr Ardd, fel y mae'r pedwar Evangelwyr yn ei adrodd, a'i ddiystyrwch a'i waeledd anfeidrol ef yn ei holl ddioddefiadau dolurus: a

hefyd i arwyddocau, y gellir trwy ryglyddiannau Dioddefaint Christ (yr hyn yr ydys y pryd hynny yn ei GOFFA) cael iachawdwriaeth, os ceisir hynny a chalon gystuddiedig ostyngeddol. Ac fel hyn y gellid rhifo mwy na 300. o Rithiau, Arwyddion, a *Ceremoniau* Sacraidd a wneir ym-hob Offeren (yr hon erhynny a gyflawnir yn arferedig o fewn yspaid hanner awr) a phob vn ohonynt yn representu ac yn cynnwys amryw Ddirgeleddion ac Ystyriaethau Sacraidd hablaw y rhai a soniwyd ymma, y fai rhy hir i'w datgan yn hyn o fan, â'r cwbl wedi ei ordeinio i *Adeiladu'r* ffyddloniaid."

Yn anffodus, y mae y copïau a welwyd genym o'r cywydd hwn yn dwyn arwyddion amlwg o anghywirdeb. Ac y mae hynny, yn ychwanegol at amryw eiriau anarferedig, yn gwneuthur rhai rhanau o hono yn dra thywyll. Ond, wedi'r cyfan, yr ydym yn ei ystyried yn werthfawr—yn llawn mor werthfawr ag amryw a allem nodi o waith yr awdwr—yn gymmaint a'i fod yn cynnwys amryw gyfeiriadau at syniadau crefyddol y Cymry yn yr oes hono. Y mae yn cynnwys prawf digonol ynddo ei hun fod yr awdwr yn Babydd selog. Ond, os oedd yn grefyddwr o gwbl, nis gallasai fod yn ddim amgen. Pobl anwybodus ydyw y rhai hynny sydd â'u dyrnod byth a hefyd ar y Pabyddion. Onid oedd, ac onid yw, y Pabyddion yn ceisio gwasanaethu Duw fel Cristionogion ereill? Nid yw y ffaith nad ydyw Protestaniaid yn credu yr un modd a'r Pabyddion ddim yn profi fod y Pabyddion yn cyfeiliorni, yn fwy nag y mae y ffaith nad ydyw y Pabyddion yn credu yr un modd a'r Protestaniaid yn profi fod y Protestaniaid yn cyfeiliorni. Yr oedd purdeb ac ammhurdeb yn perthyn i Eglwys Crist y pryd hwnw, fel y mae purdeb ac ammhurdeb ynddi eto.

O Dduw am yr hynn oedd dda
I ddyn pawb ai hedduna¹

¹ "Hadduna" — yn y llyfrau ereill.

- 4 I wneuthur owdwr ydwy
 Tra vai a minne tra vwy¹
 Gwerddal² y ffydd a gerddodd
 Gatholic vonheddic vodd
 A bod gwae ef oni bydd
 8 Gair ovyn yn gywir vfudd³
 Oed budd a bod wrth i benn
 orre ffair yr efferenn⁴
 Ai dechrau mau dychwrych
 12 Iawn waith yw kyffesu yn wych⁵
 Efferren⁶ dan nenn i ni
 Air da iawnn yw'r daioni⁷
 Ai hoffis aml ddewisso
 16 I bawb or deunydd i bo⁸

¹ "I wneuthur owdwr ydwyd tra fai a minnau tra fwyd."
Add. MS., 14,970 ;
 gyda "ydwyf" a "fwyf" ar ymyl y ddalen yn lle y geiriau terfynol. Rhydd *R. J.* "Awdwr" yn lle "owdwr," yr hyn, yn ddiau, sydd gywir. Yr ydym yn methu a deall amcan y geiriau olaf yn llin. 3 a 4, ym mha ffurf bynag eu cymmerer.

² "Gwirddal"—*Add. MS.*, 14,970 ;
 "gwir-ddal"—*R. J.*

³ "A bod gwae ef oni bydd gair ofn yn gywir ufydd"—yn y llyfrau ereill.

⁴ "Oed bydd a bob rhith i benn Oreu ffair yw'r offeren"—yn y llyfrau ereill.

Y mae yn lled anhawdd penderfynu pa un ai y testyn ynte y darlleniadau ereill sydd gywir yn y llinellau hyn ; ac y mae lle i ofni nad ydyw y naill na'r llall felly. Fel y maent, yr ydym yn methu a gweled unrhyw synwyr ynddynt.

⁵ "Dechreu mau godychwrych Iawn waith yw cyffesu'n wŷch"—yn y llyfrau ereill.
 Ai nid oes perthynas rhwng "dychwrych," neu "godychwrych," â "godech" (*to lie hid*)? Os felly, tybiwn fod "godychwrych" yn golygu *dirgelwch*.

⁶ "Offeren"—yn y llyfrau ereill.

⁷ "Air da iawn yw'r daioni"—yn y llyfrau ereill.

⁸ Yn *Add. MS.*, 14,970, y darlleniad ydyw :—

"A *hoffis* aml ddewisso
 I bawb o'r deunydd y bo ;"
 gyda y nodyn canlynol gan Iolo Morganwg ar ymyl y ddalen :—
 "Ai *hoffis in al.* i.e. the office of the origin of the Trinity, &c. : I. M."
 "A'i *hoffis* aml ddewisso" ydyw darlleniad R. Jones, yr hwn a rydd y nodyn canlynol ar waelod y ddalen :
 "Hoffis, 'office,' or Roman Catholic 'Service.' There are the offices of 'the Trinity,' of 'the Virgin,' and others." Ond tybiwn mai at was-

- Ai o¹ Drindawd ddoethwawd ddwyn
 Ai o Vair Iownna vorwyn²
 20 Ai or ysbryd gloyw bryd glan
 Ai or dydd mae air diddan³
 Ai or groc oedioc ydyw
 Mawr ywr gwyrth ai or marw gwiw⁴
 Ac o lawer rhwyddder rrad
 24 Moddau arall medde urriad⁵
 llawer ar yr efferrenn
 rinwedd myn mair ddiwair wenn⁶
 A gyrch drwy oroff goffa
 28 Efferen daw i benn da

anaeth (*office*) yr Offeren y cyfeiriai Iolo, os ydym i ddeall y gair "hoffis" fel Cymreigiad o *office*--o blegid yr Offeren sydd ganddo dan sylw. Pa fodd bynag, yr ydym o'r farn mai gwall ydyw "hoffis" am *hoffus*--"Air da iawn . . . a hoffus." Yn y llinellau dilynol y mae y bardd yn ymholi yng nghylch tarddellau y daioni y sonia am dano; ac yn eu cael oll, os ydym yn ei ddeall, yn cydgyfarfod yn yr Offeren.

¹ "O'r"--yn y llyfrau ereill.

² "Ai o Fair wiwia forwyn."

Add. MS., 14,970.

"Ai o Fair, wirion Forwyn."

R. J.

³ "Ai or yspryd glendid glân
Ai o'r dydd mae air diddan."

Add. MS., 14,970.

Rhydd *R. J.* "glendyd" yn lle "glendid;" ac fe allai ei fod yn gywir pan yn tybied fod "o'r dydd" yn golygu *gwasanaeth y dydd*, megys dyddiau y saint.

⁴ "Ai o'r groc oediog ydyw

Mawryw'r gwyrthai o'r meirw gwiw"--yn y llyfrau ereill.
Gwell yw "marw" fel y mae yn y testyn--*y marw fu ar y groes*.

"Ai o lawer rhwyddder rhad
Modd arall meddai uriad."

Add. MS., 14,970.

"Ai o lafer, rhwydd-der rhad,
Modd arall, meddai uriad."

R. J.

Sylwa *R. J.* ar y llinell gyntaf--
"Lafer, 'laver,' the baptismal font. One *MS.* has *lawer*." Credwn ninnau mai "lawer" sydd gywir--
"Ac o lawer . . . moddau arall."

Yn ol barn *R. J.*, llygiad o *henuriad* ydyw "uriad" a geir ar ddiwedd llin. 24. Yn ol Dr. W. O. Pughe, y mae yn gyfystyr ag *exalted one, elder*.

⁵ "Llawer ar yr Offeren

Rhinwedd myn Mair ddiwair wen."--*Add. MS.*, 14,970.

Dull hynod o drwsogl sydd gan y bardd i ddyweyd ei feddwl--Tyngu y mae i Mair fod llawer rhinwedd ar yr Offeren. Yn dilyn llinell 26, yn *Add. MS.*, 14,970, ac *R. J.*, ceir:--

"Dyn wrthi Duw a'i nertho

Ni hena ni fwygla fo."

Ac ymddengys i ni eu bod yn eithaf priodol yma; o bosibl wedi eu gadael allan o'r testyn mewn amryfusedd.

- Angel da a vydd yngod
Yn rivo kludeirio klod¹
Pob kam medraf a damec
32 oi dy hyd yr eglwys dec²
O bydd marw chwedl garw i gyd
oi sevyll yn ddisyvyd³
Os kyfraith loywiaith heb lid
36 Dda yn ol Dduw a wnelid⁴
Annodd i Arglwydd ynna
Ddwyn un geinhiagwerth oi dda⁵
Y bara fferren enyd
40 Da vur gost ar dwfr i gyd⁶
An pair kysbell yw velly
yn gymunol vreiniol vry⁷

¹ "Clod"—yn y llyfrau ereill.
Os nad ydym yn camgymmeryd,
dyweyd y mae y bardd fod angel yn
sefyll ger llaw ac yn cofnodi ym-
ddygiad dynion gyda golwg ar yr
Offeren.

² "Pob cam mydr ddi ddameg
O'i dy hyd ei eglwys dæg."

Add. MS., 14,970.

³ "Os marw ohwedl garw i gyd
O'i sefyll yn ddisyfyd"—yn
y llyfrau ereill.

⁴ "Os cyfraith loywfaith heb lid
Dduw yn ôl ddâ a wnelid"—
yn y llyfrau ereill.

⁵ "Anodd i Arglwydd ynna
Ddwyn un geinhiagwerth o'i
dda."—*Add. MS.*, 14,970.

"Annodd i arglwydd ynna
Ddwyn un geiniogwerth o'i
dda."—*R. J.*

⁶ "Y bara Offeren ennyd
Da fu'r gost a'r dwfr i gyd"—
yn y llyfrau ereill.

Awgryma *R. J.* mai gwall yw
"enyd" am *ynydd*—Mawrth Ynyd.
Nis gwyddom aicywir hyn ai peidio;
ond yr oedd "Mawrth Ynyd" yn

ddiwrnod pwysig yn y wlad hon
cyn y Diwygiad, gan y gosodid
angenrheidrwydd ar bawb fyned i
gyffesu eu pechodau. A rhag i neb
ymesgusodi trwy rod-di y bai ar eu
cof, cenid y gloch yn eglwys y
plwyf yn y boreu. Ac ar ol y Di-
wygiad, parhawyd i ganu y gloch
am hir amser wedi i'r achos am
dani ddarhod, a daeth i gael ei galw
yn "*Pancake Bell*" (*Gwel Leisure
Hour* am 1876, p. 94).

⁷ "A'n pair cysbell yw felly
Yn gymunol freiniol fry."

Add. MS., 14,970.

"A'n pair cyspell yw felly
Yn gymmunol freiniol fry."

R. J.

Cynnygia *R. J.* y gair *cauldron*
yn gyfystyr â "pair," a dywed
iddo ef fethu, ar ol cryn chwilio, a
chael allan feddwl y bardd. Cyn
rhoddi i fyny, awgrymwn mai at
thuser yr arogl-darth y cyfeiriai
Iolo, neu yn hytrach, o'i gymmeryd
mewn cyssylltiad â'r ansoddair "cys-
bell" (*condensed*), cyfeirio y mae at
yr arogl-darth oedd yn y thuser

- Vo wnair o efferen vair vwyn
 44 Moddus gorff i mab addwyn¹
 O waith prelad ai ladin
 I² waed bendigaid o win
 Teiriaith hybarch diwarchae
 48 Mewnn yr efferenn y mae³
 Raid yw tan wrth i chanu
 Ro duw yn ddilwfr a dwr du⁴
 Mi awn pam onitamwain
 52 A bydd rraid tan kwyr raid kain⁵
 Wybrenaid ar gyoedd gynt
 I dduor haul a ddevynt⁶

¹ "Fe wnair'r offeren Fair fwyn
 O ddwfr gorph ei mab add-
 fwyn"—yn y llyfrau ereill.

Y mae yn llawn cystal genym
 ddarlleniad y testyn, os gallwn
 ystyried "moddus" yn gyfystyr â
lluniaidd—lluniaidd gorff. Ac ym-
 ddengys i ni fod yma gyfeiriad
 diammheuol atathrawiaeth ytraws-
 sylweddiad.

² "Ai"—yn y llyfrau ereill.

³ "Ym mewn Offeren y mae"—
 yn y llyfrau ereill.

Yn dilyn y llinell hon yn *Add.*
MS., 14,970, ceir y ddwy linell a
 ganlyn :—

"Lading berffaith loywdeg
 Gryw, Ebryw, a Gröeg"

gyda'r nodyn a ganlyn, gan Iolo
 Morganwg, mae'n debyg, ar ymyl
 y ddalen :—"Y mae yma ryw wall
 mawr, neu anwybodaeth." Rhydd
R. J. y ddwy linell uchod yn ei
 destyn ef, a sylwa yn lled briodol
 mai yr un ydyw y "Gryw" a'r
 "Gröeg," ond o bosibl i'r ddau air

gael eu gosod i mewn o ran cyng-
 hanedd.

⁴ "Rhaid yw tân wrth ei chanu
 Rho Duw dilwfr a dwfr du"
 —yn y llyfrau ereill.

⁵ "Mi a awn pam ond damunaw
 Y mae'n rhaid tân cwyr raid
 caw"—yn y llyfrau ereill.

Nid ydyw y darlleniad hwn mewn
 un modd yn eglur, ond nid oes dadl
 nad ydyw yn well na'r testyn. Yr
 unig beth a allwn wneyd o hono
 ydyw canfod fod yma gyfeiriad at
 y canwyllau cwyr a oleuir yn yr
 Eglwysi Pabaidd. Dengys y cyf-
 reithiau a briodolir i Hywel Dda
 fod y Cymry yn credu yn y can-
 wyllau gymmaint a neb :—"Boned
 gwenyn o paradwys pan yw, ac o
 achaws pechawt dyn y doethant
 odynd, ac ydodes Duw y rat arnunt;
 ac wrth hynny ny ellir canu efferen
 heb y cwyr" (*Anc. Laws and Inst.*
of Wales, vol. i., p. 738).

⁶ "Wybren oedd ar gyhoedd gynt
 I dduo byd addeuynt"—yn y
 llyfrau ereill.

- rraid yw velly gwedy gwad
 56 A glywais gael goleuad¹
 Llymar modd pam yr hoddur
 Da vrawd yny gwin y dwfr ir²
 Dwfr du vronn Iessu wiwsain
 60 A ddoeth gwedi gwaed o ddain³
 Penn i kyvodor wir waith
 I vyny vod mab vwyniaith⁴
 Ym hob lle pann ddarlleer
 64 Vongial pwyll evengil per⁵

¹ " Rhaid yw felly gwedy gwad
 Arglywais gael goleuad "—yn
 y llyfrau ereill.

Hyny yw, dywed y bardd mai y
 rheswm a glywodd dros oleuo y
 canwyllau ydoedd, er coffhau y
 tywyllwch mawr a fu ar ddydd y
 Croeshoeliad.

² " Llyma'r modd pam i rhoddir
 Da frawd yn y gwin dwfr ir "
 —yn y llyfrau ereill.

³ " Dwfr fry o fron Iessu wiwsain
 A ddoeth gyda'i waed o
 ddain."—*Add. MS.*, 14,970.

" Dwfr o fron Iesu wiwsain
 A ddoeth gyda'i waed oedd
 ddain."—*R. J.*

Y mae y bardd yn egluro yma
 eto fod yr Eglwys Babaid yn
 cymmysgu dwfr gyda'r gwin ar
 sail i waed a dwfr ffrydio allan o
 ystlys Crist pan wanwyd ef â
 gwaywffon gan y milwr (Ioan, xix.,
 34). Yn *Allwydd neu Agoriad*
Paradwys, tudal. 248, ceir a ganlyn
 ym mhlith y "Gweddïau ar yr
 Offeren :"—

" Enaid Christ sancteiddia fi,
 Corph Christ gwared fi, Gwaed
 Christ meddwa fi, y Dwfr o ystlys
 Christ golcha fi, Dioddefaint Christ
 conffordd fi, O Iesu daionus

gwrando fi, yn dy Archollion cuddia
 fi. Na âd i mi fyngwahanu oddi-
 wrthoti. Rhag y Gelyn maleisus
 amddiffyn fi. Yn awr fy angy-
 galw arnaf, a phar i mi ddyfod
 attoti, i'th foliannu di gyda'th
 Seinctïau tros oes oesoedd. *Amen.*"

⁴ " Paham y codir wir waith
 I fynu modd mau fwyniaith."
Add. MS., 14,970.

" Pa ham y codir wir waith
 I fynu modd fau fwyniaith."
R. J.

Nid ymddengys yr un o'r dar-
 lleniadau yn ddilwgr; ond y mae
 yn amlwg mai cyfeiriad sydd yma
 at ddyrchafiad yr elfenau.

⁵ " Ym hob lle pan ddarlleer
 Fyngial pwyll efengil per."
Add. MS., 14,970.

Cyfeirir yma yn y gair "fyngial"
 (= *muttering*) at ddull yr offeiriad
 yn myned trwy ranau o'r gwasan-
 aeth. Nis gallwn egluro y dull
 hwnw yn well na thrwy ddyfynu
 a ganlyn o *Allwydd neu Agoriad*
Paradwys, tudal. 204 :—

" Yn sicer, mae'n rhaid i'r
 Offeiriad ddywedyd y rhan fwyaf
 o'r Offeren a lleferydd mor ddistaw,
 ac na bo'r Ministr y fo yn gwasan-
 aethu yn eu glywed ef : fel y gallo

- Yn bod yn barod berwyl¹
 I ymladd hoyw² radd yr wyl
 Ar neb diwyneb uniawn
 68 An ffalsai mwnei anawnn³
 Pell rym pamd pwyll raid
 Pum dewin pam y dowaid⁴
 Yr offeiriad i bader
 72 Yn ol dyrcha korph y ner⁵
 Er dysgu a ffynur ffydd
 I ni y vo yn vfuydd⁶

ef fod yn fwy attentif, ac a mwy dyfalwch ystyried y Dirgeleddion Sanctaidd y mae efe y pryd hynny yn eu trin : o blegid nad ei orchwyl ef yr amser hwnnw, yw dyscu'r ffyddloniaid (yr hyn sy raid i mi ei ddywedyd *eilwaith* ac *eilwaith* ac *eilwaith*, o ran cyndynrwydd rhyfeddol rhyw bobl wrthnysig, y rhai ni fynnant fod dim modd o Addoli a Gwasanaethu Duw, ond wrth ddysgu) eithr ei waith ef y pryd hynny yw parablu, traethu a delio a Duw, o'i herwydd eihun ac o herwydd yr Eglwys, a'r holl ffyddloniaid yn gyffredinol, ac yn fwy neilltuol oherwydd y rhai y fo yno yn bresennol ; ac erfyn, ac eirioli, a gweddio o ran ei angenrheidiau corphorol ac ysprydol eihun, a'i rhai hwythau hefyd. Jē, yn y rhan bennaf a Sacreiddaf o'r Offeren, sef o ddechreu'r *Canon* hyd ddiwedd y *Cymmun*, y rhan fwyaf ac a ddywedir ar lafar vchel, yw'r *Pater noster* yn vnig. A thros yspaid o amser cymmedrol o'r Offeren, hynny yw, yn amser y ddau *Memento*, y naill o flaen a'r llall arol y cyssegriad, ac arol y *Cymmun* hefyd

mae i'r Offeiriad fod heb lafaru dim nac yn vchel nac yn ddistaw, ond gweddio ar feddwl yn vnig, sef myfyrio trwy'r holl amser hwnnw."

¹ "Er ein bod yn barod berwyl"—yn y llyfrau ereill.

² "ryw"—yn y llyfrau ereill.

³ "A ffalsai *nill nai* a wnawn"—yn y llyfrau ereill.

⁴ "Pell i rym pañid pwyll raid
Pum dewin pam y dywaid."

Add. MS., 14,970.

"Pell i rym, pan nid pwyll
raid

Pen dewin, pan y dywaid."

R. J

⁵ "Yr offeiriad ei bader
Yn ôl dyrcha corph ein ner"

—yn y llyfrau ereill.

Dysgir yma yr athrawiaeth o draws-sylweddiad, yn yr awgrymiad fod yr offeiriad pan yn dyrchafu y bara yn dangos gwir gorff Crist.

⁶ Y mae y testyn yn fwy dealladwy yma na'r llyfrau ereill :—

"Er dysgu a ffynnu'r ffydd

In ni efo yn ufydd."

Y syniad yw fod dyrchafiad yr elfenau yn addysg ac yn gyfnerthiad i ffydd y ffyddloniaid.

- Arro pam y ra eraill
 76 Or llu evengil i'r llaill¹
²Arlywydd tyngnevedd eirian
 A madde mwygl eirie man³
 Vcha stad onid gwad gwyr
 80 Ar y Pab eirie pybyr⁴
 Eillio troell well well wiw
 Ar i siad o ras ydiw⁵
 O son am ber offerenn
 84 Pur i bwyll y pair oi benn⁶

¹ "Aro pam i'r ai eraill
 O'r llu i fengil i'r llaill."

Add. MS., 14,970.

"Aro pam yr ai eraill
 o'r llu i'Fengyl i'r llaill."—*R. J.*

² Yn blaenori llinell 77 yn *Add.*
MS., 14,970, ceir y ban a ganlyn:—

"Yn ol *Agnus* ni rusia
Dei cytolus deus da."

Coir ef yn yr un modd gan *R. J.*, gyda'r nodyn a ganlyn ar waelod y ddalen:—"Cytolus, 'Catholic' literally. It is here used for 'the Catholic Church.'" Nis gwyddom ar ba awdurdod yr oedd *R. J.* yn gwneyd yr haeriad hwn. Dyfynu geiriau y mae Iolo o wasanaeth yr Offeren:—

"Agnus Dei, qui tollis
 peccata mundi, miserere
 nobis."

"Oen Duw, yr hwn wyt yn
 tynu ymaith bechodau y
 byd, trugarha wrthym."

Yna, nid ydyw "cytolus" ond dull seiniadol Iolo i ysgrifenu *qui tollis*, ac nid oes a wnelo y gair o gwbl â *Catholic* na *Catholic Church*. Y mae y geiriau yn debyg yng nghyfieithiad Beza o Ioan, i., 29:—"Ecce Agnus ille Dei qui tollit peccatum mundi."

³ "Arwydd tangnefedd eirian
 A maddeu mwygl eiriau
 mân"—yn y llyfrau ereill.

"Ucha ystad, nis gwad gwyr,
 Ar y Pab, eiriau pybyr."
R. J.

Tebyg mai "arwydd," ac nid "arlywydd,"—er fod Crist yn arlywydd tangnefedd—a ddylai y gair cyntaf fod. Ond dylid cofio mai yr offeren a'i bendithion sydd dan sylw.

Rhy brin yr ydym yn gallu deall y priodoldeb o ddefnyddio y gair "mwygl" yng nglyn â'r beiau a faddeuir.

⁴ "Ucha ystad nis gwad gwyr
 Ar y Pab eiriau pybyr."
Add. MS., 14,970.

⁵ "Eillio troell wellwell wiw
 Ar ei Siad, eres ydiw"—yn y llyfrau ereill.
 Cyfeiriad at eilliad y tonsur (*tonsure*) ar y corun.

⁶ "O son am ber offeren
 Pur ei bwyll a'n pair i benn."
Add. MS., 14,970.

"O son am ber Offeren,
 Pur ei bwyll a'n pair i ben."
R. J.

CYWYDDAU DUWINYDDOL.

88 wyth rwym meneginiaeth raid
 Yw ar vnwaith i'r ennaid¹
 a rwydd der a gwarder gwiw
 Kywir ffawd i'r korph ydiw²

Iolo Goch ai kant.

¹ " Wyth rym meddyginiaeth
 raid
 Yw ar unwaith i'r enaid "—
yn y llyfrau ereill.

Ymddengys hwn yn well dar-
lleniad na'r testyn. Esboniad *R. J.*
ar yr "wyth rym" ydyw fod y
bardd yn defnyddio rhif penodol i

osod allan yr ammenodol
lluosog. Nid oes genym ni'r
well, er nad ydym yn ei y
yn eglurhad o gwbl.

² " Arwyddder a gwarder
 Gywir ffawd i'r korph
—yn y llyfrau ereill.

LXXII.

*OEDRAN A PHARHAD PETHAU BYDOL
A PHETHAU NEFOL.

(O'r *Add. MS.*, 15,010, fol. 97b).

Rhaid gadael y cywydd hwn ym mhlith y cyfansoddiadau ammheus. Yn y testyn, yn gystal ag yn *Add. MSS.*, 14,958, 14,971, 14,985; *Glanyrafon MS. C.*; *Flores Poetarum Britannicorum*, p. 2.; a *Cheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 9, priodolir ei awduriaeth i Iolo Goch; ond nid ydyw yn y llyfrau hyn yn cynnwys mwy na 48 o linellau, a cheir rhai llinellau yn y naill a adewir allan yn y lleill. Priodolir ei awduriaeth i Sion Cent yn *Add. MSS.*, 14,906, a 14,984, a'r un modd hefyd yn *Iolo MSS.*, p. 286, lle y dywedir ar ei ddiwedd "Yr Athro Gân Sion y Cent ai Cant;" a rhoddir cyfieithiad i'r Seisoneg ar tudal. 677 o'r gwaith hwnw. Iolo Morganwg—neu ryw gopiwr arall—sydd yn gyfrifol am ysgrifenu "Yr Athro Gân Sion y Cent"—*gân* a ddylasai fod, megys "y lleidr gan Ifan Ifans." I dafodiaith Sir Gaernarfon neu Sir Fon y perthyna hwn, ac nid ydyw yn arferedig yn Neheudir Cymru. Y mae y cywydd yn yr *Iolo MSS.* yn feithach o lawer na'r copïau a geir yn y llyfrau a nodir uchod—ac yn cynnwys 80 o linellau; ond gan mai enw Sion Cent a geir wrtho yno, ni fuasai yn briodol i ni ei osod yma; a rhaid oedd edrych am gopi ag enw Iolo Goch ar ei waelod, er ei fod yn llai perffaith. Rhaid i ni gyfaddef ein bod yn methu penderfynu oddi wrth yr arddull pwy yw ei awdwr. Pwy bynag ydoedd, y mae yn gywydd rhagorol—llithrig a barddonol.

Tri oedran hoywlan¹ helŷnt
 Trioedd a fu Gyhoedd² gynt
³Tri oed pawl gwern a fernir
⁴Ar Gi⁴ da mewn Erwgoed⁵ ir
 A Thrioed Ci Iaith hoywrŷw
 Ar Farx da dibarx er bŷw⁶
 Trioed⁷ marx dihafarx droed
⁸Ar wr ond byxan ywr oed⁸
 Tri oed Gwr herwr hoywrym⁹
 Ar yr Hydd Llamidydd llym¹⁰
 Tri oed Carw hwyrfarw hirlfain
¹²Ar fwyalx goed eurfalx gain¹¹

¹ "Hoewlan."—*C. Ll. G.*

² "Gyfoed"—*Add. MS.*, 14,985;
 "gyfoedd"—*Glan. MS.*

³ Yn blaenori llin. 3, ceir y ban
 a ganlyn yn *Iolo MSS.* :—

"Tair blwydd oedran yn fan-
 nawd

Yw pawl gwern medd eppil
 gwawd."

Dyfynir hefyd yn yr *Iolo MSS.*,
 p. 677, linellau a briodolir i Hesiod,
 y rhai a oesodant allan oedran gwa-
 hanol bethau, y rhai a gyfieithir
 gan y golygydd fel y canlyn:—

"The chattering crow lives nine
 ages of youthful men; the stag
 lives four times as long as the
 crow; the raven three times as
 long as the stag; but the phoenix
 nine times as long as the raven;
 while we fair-haired nymphs,
 daughters of Ægis-bearing Jove,
 live nine times as long as the
 phoenix."

⁴ Dywed y bardd mai naw
 mlwydd yw oes ci—ac yn ol y ddi-
 arheb Gymreig—"Naw mlwydd
 can' mlwydd ci," neu yn ol rhai
 "Deng mlwydd can' mlwydd ci."

⁵ "Irgoed"—*Add. MS.*, 14,985;
 "argœd"—*Iolo MSS.*

⁶ "A Thri oed ki maith hoiw
 riw
 ar farch da /i/ barch er biw!"
Glan. MS.

⁷ "A thri oed"—*Add. MS.*,
 14,985, a *Glan. MS.*

⁸ "Ar wr dywad bychan ywr
 oed."—*Add. MS.*, 14,985.
 Llygriad o *diwad* ydyw y
 "dywad" a geir yn y darlleniad
 hwn.

⁹ "Henwr hoiw rym"—*Glan.*
MS.; "toriad gwiwrym"—*Iolo*
MSS.

¹⁰ "Ar yr hudd llam hedydd
 llym."—*Glan. MS.*

"Ar yr hydd llamhidydd
 llym."—*Iolo MSS.*

Tebyg genym mai "llam
 hedydd" ac nid "llamhidydd" sydd
 gywir; o blegid ni wyddom fod
 dim tebygolrwydd neillduol rhwng
 yr *hydd* (*hart*) a'r *llamhidydd*
 (*porpoise*).

¹¹ "Ar fwyalch goyd eurfalch
 fain."—*Add. MS.*, 14,985.

"Ar fwyalch goed eirfalch
 gain."—*Iolo MSS.*

- Tri oed y Fwyalx falxdeg
 Ar Dderwen mewn Daearen deg¹
²Tair oes Derwen a fernir
 16 o warant hên ar Rwnn tir.³
 Er hyd oes dâr yw harwain
 Byr para'r hwy a orhain⁴
 Pob un o hyn rhwŷfŷn rhôd
 20 A Dderfydd yn ddi orfod⁵
 "Nid Gwiw i neb wrthnebu⁶
 "Mor Ing y daw'r Angau du⁷
⁸"Angau ni ad yn angof
 24 "Na Gwŷllt na diwŷllt na dof⁹
 Nid a geisiawn Iôn gwiwsyth¹⁰
 Y Gwr frŷ a beru byth
 Yn y Nef yn Bendefig
 28 Heb Drange Heb orphen a drig

¹ "Ar y ddar uwch dayar deg."
Add. MS., 14,985.

"Ar Dderwen Daiaren deg."
Iolo MSS.

² Nid ydyw llin. 15-18 yn *Add. MS.*, 14,985, nac yn *Glan. MS.*; ac nid ydyw llin. 17-18 yn *Iolo MSS.*

³ "Gwarant yw ar y Grwn Tir."
Iolo MSS.

"O warant hen ar rwn tir."
C. Ll. G.

Hyny yw, tair oes y dderwen ydyw oes y Ddaear ei hunan. Ar ymyl y ddalen yn *Iolo MSS.* gosodir rhifnodau gogyfer a'r gwahanol bethau a nodir; a gwelwn mai oed ci ydyw 9 mlynedd; march, 27 mlynedd; dyn, 81 mlynedd; hydd, 243 mlynedd; bwyalch, 729 mlynedd; derwen, 2,187 mlynedd; Ddaear, 6,561 mlynedd.

⁴ "O'r rhai'n."—*C. Ll. G.*

⁵ "Oll honyn fal rhwymyn rhod

A dderfydd yn ddiarfod."

Iolo MSS.

⁶ Rhoddir nodau dyfynol mewn rhai llyfrau am llin. 21-24.

Yn *Iolo MSS.* darllenir—"Ac nis gall neb wrth hebu," gyda "wrnebu" ar ymyl y ddalen.

⁷ "Mor vnig /i/ daw /r/ angau du."—*Glan. MS.*

"Aw'r ing y daw'r angau du."—*Iolo MSS.*

⁸ Nid ydyw llin. 23-24 yn *Add. MS.*, 14,985, na *Glan. MS.*

⁹ "Angeu ni ad fwy'n angof
 Y gwyllt na'r diwylt ar dof,
 Fal gwar a'r un drugaredd
 Y rhydd glew i Bydew bedd,
 Dywain ef ni ad yn ol
 Anrhydedd fwy na'r hudol.
 Ceisiwn anrhydedd gwiwsyth
 Y Gwr fry a bery byth."

Iolo MSS.

¹⁰ "Ni ageisiwn yma, gwiwsyth."
Glan. MS.

- Heb Liw nos Gwiw nos Ganu¹
 Heb Fwg heb Dywyllwg du
 Iexyd heb orfod oxain
 32 O Glwyf Mor Iaxed ar Glain²
 Pawb yn Ddengmlwydd arwydd³ Ior
 Ar hugain heb ddim rhagor
 Lle mae pob prif Ddigrifwx
 36 a Phlas ein Penadur fflwx⁴

¹ "Heb liw nos gwynos ganu."
Add. MS., 14,985, a *Glan. MS.*
 "Dydd heb nos cunos canu."

Iolo MSS.

² "O glwyf cy iached a'r glain."
Iolo MSS.

Y mae "mor iached a'r glain" ynddywediad cyffredin yng Ngwynedd. Dyfyna Mr. J. Gwenogvryn Evans (*Trans. Liverpool National Eisteddfod*, p. 545) y diarhebiau hyn :—

"Cyn iached a'r brithyll.
 Cyn iached a'r ceiliog.
 Cyn iached a'r glain."

Dyfynir hwynt hefyd gan y Parch. T. O. Jones (*Diarebion y Cymry*, t. 140), yr hwn a ychwanegaa tynt :—

"Mor iached a'r cricksyn (pryf tân)."

³ "Herwydd."—*Iolo MSS.* Deng mlwydd ar hugain oedd Crist pan yn dechreu ar ei fywyd cyhoeddus; ac yna tybir gan rai mai hyn fydd oed y saint byth yn y nefoedd, h.y., heb fyned yn hyn na hyn.

⁴ Yn *Iolo MSS.* y mae llin. 35-36 yn dilyn llin. 28; ac yn dilyn llin. 34 i'r diwedd ceir :—

"Y lle mae pob pwyll awen
 Heb un bach a phawb yn bèn,
 Awen a llên yn ei lle
 Da i achreth fal bu'r dechre,
 Gochel uffern Gethern gaeth
 Ai helwyr drwy hy alaeth,

Lle mae'n barod cyfnod cas
 Bachau cigweiniau gwynias,
 A rhew er hynn cynn canoed
 Ar iâ ni thoddwys erioed,
 A maglau rhwydau mal rhod
 Meginau peiriau parod,
 A chloi uffern o iernyn
 Ar fuchedd dialedd dyn,
 A phawb yn taflu a ffon
 Eneidiau am anudon,
 Ag yfed mewn gogofydd*

*gwagofydd.

Gyda'r ffeils a gwadu'r ffydd,
 Yno bydd llwm trwm trymfryd
 Dyn a fu da iawn ei fyd,
 Heb rhoi cardod i dlodion
 Na dim er mwyn enw Duw Iôn
 Gwrthod pader a fferen
 Sul a gwyl a Selwit gwenn,

†Selu.

Nid o hynny gwedy'r gwaith
 Mawrgwybydd y mae'r gobaith,
 Trown on bai trueni byd,
 Yw awch hudlawn pechodlyd
 Am gyfoeth annoeth unawr,
 A phrif wyd ni phery fawr,
 Awn heb au er golauad
 I Eglwys Duw ein glwys dad,
 Gwnawn gyfiawnder arferol
 Er nef heb droi'r gwir yn ol,
 I wan, bid ei enw yn ben
 Hael Iesu rhoyn elusen
 Os hynn a wnair gair gwrol
 Ar hynt ni a gawn yr hawl
 A thrugaredd a wedda
 Yn y Bedd, a Diwedd da."

Goxel Uffern Gethern Gaeth
 ai helwyr drwy hy Alaeth
 Lle mae'n Barod Cyfnod Cas
 40 Baxau Cigweiniau Gwynias¹
 a'r Eiry Gwŷn Cyn Camoed
 a'r Ia ni thoddes Erioed²
 A maglau rhwydau mal rhod
 44 Meginau Peiriau parod
 Awn bob ddau a goleuad
 I Eglwys Duw ein Glwŷs Dad
 A thalwn pam na thelir
 48 Offrwm a Degwin o Dir.³

Iolo Gox.⁴

¹ "Lle /i/ mae yn barod, kydfod
 kās

bachau kigweiniau gwinias/."

Glan. MS.

² "A rew gwyn kyn krynoyd
 ar ia ni thoddes erioyd."

Add. MS., 14,985.

"A rhew, a gwynt, kint kanoed/
 ag ia, ni thoddes yr ioed."

Glan. MS.

"Ar eiry gwyn cyn can-oed,
 Ar iā, ni rhoddes erioed."

C. Ll. G.

Gwelir mai *ni thoddwys* a ddy-
 wedir am yr iā yn ol yr *Iolo MSS.*,
 yr hyn a fuasai yn ddywediad
 naturiol i fardd o'r Deheubarth fel

Sion Cent; ond *ni thoddes* a ddy
 wedasai Iolo Goch. Gwall ydyw
ni rhoddes.

³ Y mae y Cywydd yn *C. Ll. G.*
 yn diweddu fel yn y testyn; ond yn
 y llyfrau ereill diwedda fel y
 canlyn:—

"Kael trigaredd a wedda
 Kael gu bedd diwedd da."

Add. MS., 14,985.

"Kael bedd, a chael diwedd da."

Glan. MS.

⁴ Ar ddiwedd y cywydd yn *Glan.*
MS. ceir "Iolo Goch ai Kant," ac
 o dan hyny, mewn llaw ddiwedd-
 arach, "Lord of Dimbach 1400."

CANIADAU AMRYWIAETHOL.

LXXIII.

*C. Y L L O N G.

(O Lyvr Huw Lleyrn—Add. MS., 14,967, fol. 62).

Y mae y cywydd hwn i'w gael hefyd yn yr un ysgriflyfr (fol. 71b), ac yn *Add. MSS.*, 14,866; 14,873; 14,964; 14,969; 14,970; 14,971, a 14,979; yn *Jesus MSS. E.* 139, p. 202, a *C.* 101, p. 103; ac yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 11, a'r *Brython*, cyf. iii., tudal. 454. Gan fod hwn yn cael ei briodoli i Rhys Nanmor yn *Glanyrafon MS. K.*, fol. 59, yr ydym yn nodi ei awduriaeth fel yn ammheus. Ond tybiwn fod tystiolaeth cynnifer o ysgriflyfrau yn chwalu yr ammheuaeth.

Ymddengys i ni i'r cywydd hwn gael ei gyfansoddi pan oedd y bardd ar fordaith, neu fel mynegiad o'i brofiad tra yr oedd ar fordaith—er nad ydyw yn ein hysbysu i ba le yr oedd yn myned. Nid ydyw y cywydd mewn un modd yn hawdd ei ddeall; ac y mae y gwahanol ddarlleniadau o hono, y rhai ydynt yn amrywio cymmaint, yn lle ein cynnorthwyo, yn ein taflu i fwy o ddyrswch fyth. Pa fodd bynag, gellir deall trwyddo, fel y mae, nad oedd y bardd mewn un modd yn gallu gwneyd ei hun yn gartrefol nac yn gysurus mewn llong; ac y mae ei brofiad yng nglŷn a hi yn un tra annymunol, ac yn cael ei osod allan gan ansoddeiriau celyd a gwawdlyd. Prin y mae ganddo air da iddi o gwbl. Ond y mae ganddo ambell linell dra tharawiadol, yn gosod allan ei gwasanaeth a'i chyflymder; ac y mae, yn awr ac eilwaith, yn rhoddi dysgrifiadau bywiog o'r

llong, gan ei chyffelybu i amrywiol wrthddrychau o fewn cylch adnabyddiaeth pobl nad ydynt forwyr. Nid oes yn y cywydd eiriau morwrol, ond rhai y gŵyr pawb eu hystyr; a gallem feddwl mai ychydig a wyddai Iolo Goch am forwriaeth.

Y mae yn y cywydd fath o gyflwyniad—ond fod y cyflwyniad ar ei ddiwedd—i Rhys ap Robert o'r Kinmael (neu *Kimmel*, fel yr ysgrifenyddir ef yn awr). Yn *Add. MS.*, 14,970, gogyfer a llin. 56, yr hon yn yr ysgriflyfr hwnw a ddarllena "Eryr celmyn ir cilmael," sylwa Iolo Morganwg:—"Eurog helm i aer cilmael *in al.* Cilmael is in Flintshire. I.M." Ac heb law y nodyn ynyl-ddalenol hwn, sylwa ym mhellach ar ddiwedd y cywydd, yn yr un ysgriflyfr, fel y canlyn:—

"Y *Cilmael* sydd yn Sir Fflint rhwng Abergeleu a Llanelwy. Y mae yn y Parc yno'r tyfiant ardderchoccaf o Goed yn holl Wynedd: gwelir yno, yn gowri mewn maint Derw, Llwyf Rhufeinig, Castanwydd perion, Cyll Ffreinig, Ffyrwydd, Ffawwydd (Beech) a Ffinidwydd (Pine) lawer miloedd o honynt. I. Morg."

Ni wyddom am le yn Sir Fflint o'r enw *Cilmael*; ond y mae'n ddiammeu mai Kinmael Hall a feddyliai Iolo Morganwg. Ac os felly, nid oedd yn hollol gywir wrth ei leoli yn Sir Fflint, er ei fod bron ar ei therfyn. Saif Kinmael ym mhlwyf Llan San Sior, yn y rhan ogledd-ddwyreiniol o Sir Ddinbych; ac yn amser Iolo Goch ei feddiannydd a'i breswylydd oedd Rhys ab Robert, neu Rotpert. Ac ato ef y cyfeirir yn y cywydd dilynol. Ceir tafen achyddol o'r teulu yn *Hist. Powys Fadog*, vol iv., p. 344, o'r hon y gwnawn y talfyriad a ganlyn:—


Ednyfed Fychan—Gwenllian, merch Arglwydd Rhys ab Gruffydd,
Tywysog Deheudir Cymru.

Gruffydd ab Ednyfed—Gwenllian, merch Howel.

Goranwy

a

b



Bu Kinmael hyd ddechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg ym meddiant teulu Holland; yna priododd merch i David Holland, o'r enw Elizabeth, Syr John Carter. Gwerthwyd ef gan un o'i hiliogaeth i Syr George Wynn, o Coedllai, yr hwn eto a'i gwerthodd i Mr. David Roberts, ac yn olaf gwerthodd Roberts ef i'r Parch. Edward Hughes, tad Arglwydd Dinorben. Ei breswilydd a'i berchenog yn awr yw nai Arglwydd Dinorben—sef Mr. H. R. Hughes, Arglwydd Raglaw Sir Fflint.

Fe welir fod cryn lawer o gyfnewidiadau ym mherchenog-aeth y Kinmael wedi cymmeryd lle er amser Iolo Goch, â'r hwn le, fel y gwelwn, yr oedd y bardd yn ddigon cydnabyddus, ac yn dra chyfeillgar gyda'r perchenog; a lle yr hiraethai am fod—yn yfed o'i *aur* fragod—pan yn cyfansoddi y cywydd.

Annodd ym vn awddamawr¹

Ar y llong oer yw i llawr²

Kyfrwy³ ffrwd keu vawr⁴ i ffrost

4 Karchardy ar kwrw chwerwdost⁵

Ar eol ddu ar wal ddi⁶

Ar gloyw seidr⁷ oer gloesiedic

¹ "Anhawdd im roi un hawdd-
ammawr." — *Add. MS.*,
14,970.

"Anodd ym un hawddamawr."
Add. MS., 14,964.

"Annodd um roi un hawdd-
amawr." — *Jes. MS.* 101.

"Ai hawdd um roi hawdd-
omawr." — *Glan. MS.*

"Hawddammawr" = croesawu,
neu longyfarch.

² "Ar i llong oer yw i llawr."
Jes. MS. 139.

"Ary llong ag oered y llawr."
Glan. MS.

³ "Cyfrwy." — *Add. MS.*, 14,964.

⁴ "Ceufawr." — *Add. MS.*, 14,970,
a *Jes. MS.* 139.

⁵ "Carchardy uwch cwrw
chwerwdost." — *Add. MS.*,
14,970.

"Carchardy ar y cwrw chwerw-
dost." — *Add. MS.*, 14,964.

"Karchardu i kwrw chwerw-
dost." — *Jes. MS.* 139.

"Kyrchardy y kwrw chwerw-
dost." — *Glan. MS.*

⁶ "Ar wâl ddu oer awel ddig."
Add. MS., 14,970.

"Ar wal ddu ar eol ddig."
Add. MS., 14,964.

"Ar wal ddu oer awel ddig."
Jes. MSS. 139, 101.

"Or wal ddu oer awel ddig."
Glan. MS.

⁷ "Siedyr" — *Add. MS.*, 14,964;
"Seidr" — yn y llyfrau ereill.

- ¹Ni bo wyll gyvlo gevvlong²
 8 Hawdd amawr i lawr i long³
 Krevydd mawr kryf oedd imi⁴
 O veinddyn llesc vvw ynddi⁵
 Rokian⁶ a wnai bai o beth
 12 Ar ei hochr oer ei⁷ hachreth⁸
 Kasty ym oedd kowsty myr⁹
 Kastell ingl¹⁰ kist y llongwyr
 Kasasam anl i chamlyw¹¹
 16 Alch noe olychwin yw¹²

¹ Yn *Add. MS.*, 14,970, yn blaen-ori llin. 7 ceir :—.

"Hawdd ammor oerfor arfoll
Im Ion am cyfeillion oll."

² "Na bo wyll gyflo gyflong."
Add. MS., 14,970.
"Ag na bytho gyflo goflwng."
Add. MS., 14,964.

³ "Hawdd amawr yn llawr y
llong."—*Add. MS.*, 14,970.
"Hawddamor ywch llawr y
llong."—*Add. MS.*, 14,964.

⁴ "Cerydd mawr cur oedd i mi."
Add. MS., 14,970.
"Crefydd mawr cryf oedd ini."
Add. MS., 14,964.

⁵ "O feinddyn llesg fyw ynddi."
Add. MSS., 14,970, a 14,964.

⁶ "Rhoccian." — *Add. MSS.*,
14,970, a 14,964.

⁷ "I."—*Add. MS.*, 14,964.

⁸ "Hachreth" = crynfa.

⁹ "Cost im oedd er cost i myr."
Add. MS., 14,970.

"Cas Dyw i hoes cwestiwn
hŷr."—*Add. MS.*, 14,964.

"Cas dyw yn oes koes dun
wyr."—*Jes. MS.* 139.

"Cast um oedd er cost i myrr."

Jes. MS. 101.

"Kasty im oes koesty mur."

Glan. MS.

"Cosb im' oedd er cosbi mŷr."

C. Ll. G.

Ymddengys i ni fod y darlleniad
olaf yn rhagori o ddigon o ran
naturioldeb; ond o bosibl nad ydyw
yr un a geir ar waelod y ddalen yn
C. Ll. G. yn well fyth :—"Cas dŷ
oedd im', cawady mur."

¹⁰ "Castell ing" — *Add. MSS.*,
14,970, a 14,964; a *Jes. MSS.* 139
a 101.

¹¹ "Cest feindeml amyl o gam-
lyw."—*Add. MS.*, 14,964.

"Kysundam aml y kamliw."

Glan. MS.

Gwallau y copiwyd, yn ddiameu,
yw "kasasam" a "kysundam";
ond y mae "cest" (=hold) yn air
digon adnabyddus.

¹² "Golwch noe golych win yw."

Add. MS., 14,964.

"O lych noe olychwin yw."

Glan. MS.

Os "alch" ydyw y darlleniad
cywir, cyfeirir at ffenestr y llong.

- ¹Huddigl gutt derw chwerth i chwys²
 henfon hoywalgron welwgrys³
 Kertwain glo nid cwrt iawn glân⁴
 20 Karthenwyl keuroth anian⁵
 Ffriw uchel wrach vin grach vord⁶
 Ffroengau ystrodr ffrwyngord⁷
 lled noe llun llevad newydd⁸
 24 lletbai val hen vuddai vydd
 Esgudtwr ysgod toreth
 Ysgrin saith gyvelin seth⁹
 Ysgud lem wilff esgydlaid¹⁰

¹ Yn *Jes. MSS.* 139 a 101 y mae llin. 17-18 yn dilyn llin. 14, gan adael allan llin. 15-16.

² "Hwch o rudderw chwerw ei chwys."—*Add. MS.*, 14,970.

"Hyddyglyd dderw chwys."

Add. MS., 14,964.

"Hi ddylü grüd dderw chwerw i chwys."—*Jes. MS.* 139.

"Hwch o rudderw chwerw i chwys."—*Jes. MS.* 101.

"Hyddygl rrudd dderw chwerw i chwys."—*Glan. MS.*

³ "Henson ddu welwgron waelgrys."—*Add. MS.*, 14,970.

"Henfon hoyw waelgron welwgrys."—*Add. MS.*, 14,964.

"Henfon hoyw hwylgron welwgrys."—*Jes. MS.* 139.

"Henfon" = enw barddonol ar fuwch. Arferid y gair, yn yr oesau boreuol, pan y cedwid un fuwch, a dim ychwaneg, ym mhob teulu.

⁴ "Certwyn glo nid cwrt dyn glân."—*Add. MS.*, 14,970.

"Kertwen glo nid kwrt wig lan."—*Jes. MS.* 139.

"Kertwain log nid kowrt wraig lan."—*Glan. MS.*

⁵ "Karthen hwyl kry kroth anian."—*Jes. MS.* 139.

Diau mai hwn yw y darlleniad goreu, yn yr hwn y dysgrifir yr hwyliau wedi eu llanw â gwynt.

⁶ "Ffriw uchel wrach fingrach fort"—yn y llyfrau ereill.

⁷ "Ffroengau ystrodr ffrwyngort."—*Add. MS.*, 14,970, a *Glan. MS.*

"Ffroenau yscwdyr ffrwyngort."—*Add. MS.*, 14,964.

"Ffrwyngaü ystrodr ffrwyngort."—*Jes. MS.* 139.

⁸ "Lle no llun lleuad newydd." *Jes. MS.* 139.

Cyffelybir y cylch a wna y rhan uchaf o'r llong sydd uwch law y dwfr i ffurf lleuad newydd, ond y llestr ei hun i hen fuddai.

⁹ Nid ydyw y llinellau hyn yn y mwyafrif o'r llyfrau, ond yn *Add. MS.*, 14,964, gosodir hwynt ar ol llin. 28 :—

"Os gâd tŵr esgyd twreth
 Ysgrin faith gyfelyn Seth."

¹⁰ "Esgydlawn wilff esgydlaid." *Add. MS.*, 14,970.

- 28 Ysgal¹ anwadal i naid
Geol wyddgrach goluddgraingk²
Gwilff rroth³ pawb ai gwyl o Ffraingk
Min gamai⁴ hi mewn gwinmon⁵
- 32 Morkath⁶ ai brath dan i bron
⁷Mwy a dal i mal⁸ no mork⁹
Mwys gergam ymwasgargork¹⁰
Kaiff serthedd kyffes Arthur¹¹

"Ysgytlefn wilff ysgytlaid."

Add. MS., 14,964.

"Ysgydlam wilff ysgadlaid."

Jes. MS. 139.

"Yscudlam wilff yscad laid."

Glan. MS.

"Gwilff yscudlam" = caseg fuan.

¹ "Ysgâl" (o *scales*) = clorian.

Cymhariaeth hapus, yn dysgrifio y naill ben i'r llong yn ymryson â'r llall am fod yn uchaf.

² "Gēol waeddgreg goludd-

grainc."—*Add. MS.*, 14,970,

a *Jes. MS.* 101.

"Galai rhwyddgrax gulydd-grainc."—*Add. MS.*, 14,964.

"Heol waeddgreg goludd grainc."—*Jes. MS.* 139.

Carchardy ydyw "gēol" (*gaol*);

"galai" (*galley*) = rhwyflong.

³ "Roth"—*Add. MS.*, 14,970,

Jes. MSS. 139 a 101; "rhox"—

Add. MS., 14,964; "ffroth"—

Glan. MS.; "rhoth" = rhoncian.

⁴ "Mingammai"—*Add. MS.*,

14,970; "Mingamai"—*Add. MS.*,

14,964; "Mingamer"—*Jes. MS.*

139; "Migamer"—*Jes. MS.* 101;

"nimgamer"—*Glan. MS.* Min-

gamiad = *grimace*.

⁵ "Gwymon"—*Jes. MS.* 139, a

Glan. MS. "Gwymon" = *sea-weed*.

⁶ "Morcath"—*Add. MSS.*, 14,970,

a 14,964. Morgath = *a skate, a ray*.

⁷ Yn *Add. MS.*, 14,970, yn blaenori llin. 33, ceir a ganlyn:—

"Hwch a fwrw o chyfeirir

Dorllwyth o dylwyth i d

Morgaseg hoywdeg hydyn

A drossai llwyth dros y llynn."

⁸ "Mael"—*Jes. MS.* 139. "Mael" = ennillion.

⁹ "Mort"—*Add. MSS.*, 14,970 a 14,964.

¹⁰ "Mwys gwyr gam ym mys gar-gort."—*Add. MS.*, 14,970.

"Mwy ysgyrgam ymysg ir-gort."—*Add. MS.*, 14,964.

"Mwys gergam ymusg ir-gork."—*Jes. MS.* 139.

"Mwys gyrrgam ymysgar-gort."—*Jes. MS.* 101.

"Mwysc oeur gam ymusc ir-gork."—*Glan. MS.*

Golyga "mwys," ym mhlith pethau ereill, bum' ugain o

ysgadarn; a gallem feddwl fod y gair olaf yn cyfeirio at y rhwyd—

"irgort." Felly, llong bysgota sydd gan y bardd dan sylw yma.

¹¹ "Caiff serthedd cyffes Arthur."

Add. MS., 14,970.

"Caiff serthes cyffes Arthur."

Add. MS., 14,964.

"Caiff serthedd cyffes Arthur."

Jes. MS. 101.

Gadewir llin. 35-36 allan yn *Jes. MS.* 139.

- 36 Yny tyllvaen maen val mur¹
A hevyd tiowryd ta²
Ni da vyth un di vetha³
Ir ddugest oer arddigor
- 40 Iddi hen almari mor⁴
Iangwraic bol yngroec y bu⁵
Angoroddwr eang oerddu⁶
Hwch ddinas ddiras ddain⁷
- 44 Hadlestr hil brenrestr bronrain⁸
Llydan ysled grayan greg⁹
Llamair gwys llo mor gasec¹⁰

¹ " Rhwng tyllfaen y maen a'r mur."

Add. MS., 14,970, a *Jes. MS.* 101.

" Yn y tyllfaen maen fel mur."

Add. MS., 14,964.

² " A hefyd diofryd da."

Add. MS., 14,970.

³ " Nid a fyth im difetha "—
yn y llyfrau ereill.

⁴ Dilynir y testyn gan mwyaf yn y llyfrau ereill, gydag eithrio y *Glan. MS.*, yn yr hwn y darllenir:—

" Ir ddugest oer ar ddigoel
Iddi hen almari moel."

" Arddigor " = *a habit*; ond nid ydyw y gair yn arferedig yn bresennol. Priu yr ydym yn gallu canfod gw. *āniaeth* rhwng " dugest " (*black chest*, neu *locker*) ag " almari " = *cwpbwrdd*. Defnyddir y gair " almari " gan amryw feirdd cydoesol â Iolo Goch, megys Dafydd ab Gwilym a Rhys Nanmor.

⁵ " Iengwraig bol ynghrog i bu."
Jes. MS. 139.

⁶ " Yn gorddwfn i hangorddu."

Add. MS., 14,964.

" Yng oerddwreang oerddu."

Jes. MS. 139.

" Angoroddwr eang oerddu."

Jes. MS. 101.

⁷ " Hwch ddinas ddigwmpas gain."

Add. MS., 14,970, a *Jes. MS.* 101.

" Hwx ddinas addas ^{iddain} ~~addain~~."

Add. MS., 14,964.

" Hwch ddinas addas i ddain."

Jes. MS. 139.

⁸ " Hadlestr hwyl braenlestr bronlain."

Add. MS., 14,970, a *Jes. MS.* 101.

" Hadlestr a hwyl braenlestr brain."

Add. MS., 14,964.

⁹ " Llydan ysled grafan greg."

Add. MS., 14,970.

" Llydan ysled grayan greg."

Jes. MS. 139.

¹⁰ " Llamair gwys llo oer gasseg."—*Jes. MS.* 139.

" Morgasog " = *tòn (wave)*.

- 48 Sared goch domled amlwg¹
 Sarff oer megis march Syr ffwc²
 Barm dew burm a dywalld³
 Bolmoen sarff blowmones hallt⁴
 Ogyrch holl ffrydiav eigiawn⁵
 52 Ewic y mor ogam iawn
 llawer gwaith dioer oer oror⁶
 Pan vu r llanw gwyllt moelwyllt mor⁷
 Yr hois hawddamawr hoywawr hael⁸
 56 Euroc helm i rus Kilmael⁹

¹ "Siared roth domled amlwg."

Add. MS., 14,970, a *Jes.*
MS. 101.

"Sarred oer domled amlwg."

Add. MS., 14,964.

"Sarred hen dom led amlwg."

Jes. MS. 139.

"Sared" (o *chariot*) = cerbyd.

² "Sarff vor megis marx Syr Ffwg."—*Add. MS.*, 14,964.

Nis gwyddom pa fodd yr oedd y llong na "sarff oer" yn debyg i farch Syr Ffwg. Credwn fod "sarff for" yn well na "sarff oer." Di-amneuw mai march buan oedd gan Syr Ffwg = Syr Ffowc Fitz-Warine, y gwron Normanaidd enwog a flodeuai yn amser Harri I. Ac o bosibl mai am ei bod yn fuan y cyffelybai Iolo y llong i'r march.

³ "Berw mae'n dew burn a dwallt."

Add. MS., 14,964.

"Bir ym o daw fûn a dwalld."

Jes. MS. 139.

"Berw mae dew burm a dwallt."—*Jes. MS.* 101.

"Brem a dau burum a dwalld."—*Glan. MS.*

Y mae darlleniad *C. Ll. G.* yn fwy dealladwy i ni:—

"Berwi'n dew burm a dywallt."

⁴ "Bol mae'n sarn blomynes hallt."

Add. MSS., 14,970, a 14,964.

"Blowmones" = Negrões, gan gyfeirio at liw y llong.

⁵ "Og yn gorllyfnu eigiawn."

Add. MS., 14,970.

⁶ "Llawer gwaith oerwaith oror."

Add. MS., 14,970, a *Jes.*

MS. 101.

"Llawer gwaith ddioer oror."

Add. MS., 14,964.

"Llawer gwaith ddior oror."

Jes. MS. 139.

⁷ "Pan fai lanw gwyllt mawr-wyllt mor."

Add. MS., 14,970.

⁸ "Rhois hawddammor hoywior hael."

Add. MS., 14,970.

"Rhoes hawddamor hoywfor hael."—*Jes. MS.* 139.

⁹ "Eryr oelmyn i'r cilmael."

Add. MS., 14,970.

"Oera celm ar y cilmael."

Add. MS., 14,964.

"I rhiw kelmar y kylmael."

Jes. MS. 139.

lle roedd rys ai llys lafar¹
 Ap Robert ddi guert gar²
 Ynno i kawn dawn dienig³
 60 Wirod oi aur vragod vric⁴
 Ynno dy hedd glo haedd glod⁵
 Petwn y mynwn y mod⁶

Iolo Goch ai kant.⁷

¹ "Lle'r oedd Rys Lys ail lafar."
Add. MS., 14,970.

"Llei roedd Rhys a'i llys ail
 assar."—*Add. MS.*, 14,964.

"Lle roedd rhüs lüs lasar."
Jes. MS. 139.

² "Ab Robert ddigwert gar."
Add. MS., 14,970.

"Ap Rhotpart ddigowart
 gar."—*Add. MS.*, 14,964.

"Ap robert i gwibert gar."
Jes. MS. 139.

"Yno y cawn dawn dienwig."
Add. MS., 14,970.

"Yno y cawn ddawn ddiddig."
Add. MS., 14,964.

"Yno i kawn dawn dienig."
Jes. MS. 139.

⁴ "Ei wirawd aur fragawd frig."
Add. MS., 14,970.

"Wired ai awr fragod frig."
Add. MS., 14,964.

"Wirod ai aur fragod frig."
Jes. MS. 139.

⁵ "Yno dihuddglo haeddglo."
Add. MS., 14,970.

"Ag yno hyddglo haeddglo."
Add. MS., 14,964.

"Yno dyhtddglo haeddglo."
Jes. MS. 101.

"Yno dy hwyddglo haedd
 glod."—*Jes. MS.* 139.

⁶ "Pettwn i mynnwn fy mod."
Add. MS., 14,970.

"Pettwn i mynwn i mod."
Jes. MS. 139.

⁷ Yn *Jes. MS. C.*, 101, arwyddir
 y cywydd hwn fel hyn :—"Iolo
 Goch ai Kant A.D. 1400"—ond ni
 ddylid rhoddi y pwys lleiaf ar yr
 amseriad, gan fod yr ysgriflyfr yn
 un diweddar (o gylch 1630-1650).

LXXIV.

COWYDD Y LLAFURWR.

(*O Jesus MS., C. 101, p. 112*).

Y mae y cywydd hwn i'w gael hefyd yn *Add. MSS.*, 14,866; 14,875; 14,882; 14,885; 14,964; 14,966; 14,972; 14,975; 14,976; 14,984; 15,029, a 24,980; ac y mae hefyd yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 6.

Gellir rhestru hwn ym mhlith y goreuon o gyfansoddiadau Iolo Goch. Yn ei flaenori yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig* ceir crynodeb lled gynnwysfawr o hono, gan y golygydd (y Parch. Owen Jones); ac yr ydym yn hoffi y sylwadau yn gymmaint fel y tybiwn nas gallwn wneyd yn well na'u dyfynu yma:—

“Y mae ein Bardd yn y Cywydd isod yn rhoddi darlun-
iad tra naturiol o'r Arddwr;—'Y Llafurwr,' neu, y
dosbarth ammaethyddol yn ei oes ef. Wedi rhagymadrodd
byr, efe a ddarlunia y dosbarth yn dwyn nodwedd grefydd-
ol, yn ol synied yr oes Babaid hono am grefyddolder,—yn
ofalus am dalu ei 'Offrwm a'i ddegwm i Dduw.' Yn gan-
lynol, efe a'i darlunia yn elusengar a llettygar; ac y mae yr
arwedd yma yn aros i fesur helaeth ar amaethwyr Cymru
hyd yr oes hon; y rhai a dra rhagorant mewn llettygarwch,
ar fonedd eu gwlad; ac ydynt yn llawer rhwyddach o
'gardod a lletty,' i'r tlawd a'r di gartref, nag ydyw pobl glŷd
ein trefydd. Un arall o arweddau 'yr arddwr' yn oes Iolo
Goch, oedd fod ei wybodaeth yn gyfyngedig i'w offer
hwsnonaeth;—'Ni rydd farn eithr ar arnawdd,'—ac y mae
yn ddrwg genym ddywedyd, mai ychydig ydyw awydd, ac
ymdrech y dosbarth yma yn ein gwlad eto, am gyrhaedd
gwybodaeth gyffredinol, o'r gwyddonau a'r celfyddydau.—

Arwedd arall a briodola ein Bardd i'w 'Lafurwr,' ydyw gonestrwydd, a heddychlonedd, yr hyn a barai ei fod yn dewis cymeryd cam yn hytrach na 'gyru hawl, gymerawl gain,' mewn llys cyfreithiawl.

"Yn ganlynol efe a ddengys mor bwysig ydyw i gymdeithas, ac i bob dosbarth, a graddau ynddi.—'Nid bywyd, nid byd heb ef.' Dadleua na's gall Pab, Amherawdr, na Brenin wneyd hebddo, yn gyson a thystiolaeth yr Ysgrythyr, —'Wrth dir llafur y mae y Brenin yn byw,' Preg. v. 9. Dysgrifia ef fel un boddllawn ar ei ran, yn canu Emyn wrth ddilyn ei aradr, ac yn bwyta ei gwynos-fwyd ar ei glun, yn mol y clawdd. A chyn y diwedd, cyfeiria at HU GADARN, fel tad ac athraw ammaethyddiaeth yn mysg cenedl y Cymry; fel y tystia Trioedd Ynys Prydain;—'Tri Chyfarwysawg Cenedl y Cymry: Cyntaf, Hu Gadarn, a ddangoses y ffordd i aru tir gyntaf i genedl y Cymry, pan oeddynt yn Ngwlad yr Haf, sef y lle y mae Constantinoblis yn awr, cyn no'u dyfod i Ynys Prydain.'"

Gallwn grybwyll mai o'r drydedd gyfres (sef y leiaf ei gwerth) o'r Trioedd y mae Owen Jones yn dyfynu yma.

Pan ymddangosson ffynon ffydd

pobl y byd pawb o lu bedydd¹

Garbron Duw kvn evddyn oedd

4 gwiw iaith ddrud i gweithredoedd²

¹ Gwahaniaetha y darlleniadau o'r ban hwn yn fawr; ac anhawdd fyddai penderfynu pa un ydyw y goreu:—

"Ban ddangoso rhwydd dro rhydd

bobl y byd beibl i bedydd."

Add. MS., 14,966.

"Pan ymddangosso rryw dro rhydd

Beibl y byd bobl lu bedydd."

Add. MS., 14,964.

"Pan ddangoso rhyw dro rhydd, Peibl y byd, pobl y bedydd."

C. Ll. G.

² Yn *Add. MS., 14,966*, y mae y ban hwn yn cael ei osod ar ol llin.

6. Y mae y darlleniadau yma eto yn amrywio:—

"Gar bron Duw rwn owddwn oedd

Gwiw iaith ddrud i gweith redoedd."

Add. MS., 14,966.

"Gar bron Duw Gun eddyn oedd

gwiw iaith ddrud i gweith-redoedd."

Add. MS., 14,964.

Ymhen mynydd llei bydd barn
 i gid olifer¹ gadarn
 teg fydd chwedl diledlais²
 8 llafurwr³ tramwywr maes
 o rhoddes ef er hoyw-dduw⁴
 offrwm ai ddegwm i dduw
 ai⁵ gardod trwy gowirdeb
 12 oi⁶ lettu⁷ ni neku neb
 Enaid da yna uniawn
 a dal i dduw dyle⁸ ddawn
 hawdd i lafurwr hoywddol
 16 hyder ar⁹ ddûw ner ynol

"Ger bron Duw gwyn briddyn
 oedd

Gwiw iaith ddrud a'r gweith-
 redoedd."—*C. Ll. G.*

Pa beth bynag am y darllen-
 iadau ereill, y mae y testyn yn
 ddigon amlwg ei ystyr pan gofiwn
 fod "cun" yn golygu *Arglwydd*—
 "Gar bron Duw *Arglwydd*"—
 "Euddyn (h.y., eiddyn) oedd" =
 agos oedd.

¹ Mynydd "Olifer" = Olew-wydd.
 Y mae *C. Ll. G.* yn anghywir
 wrth roddi "oleufer" = ysblander.

² "Teilwng fydd chwedl diled-
 laes."—*Add. MS.*, 14,966.

"Teg a vydd chwedl diedlaes."
Add. MS., 14,964.

"Teilwng fydd chwedl ddi led-
 laes."—*C. Ll. G.*

Cyfieithir y llinell, dan y gair
 "Diedlaes" gan y Dr. W. O. Pughe
 fel hyn:—"Fair is an unhesitating
 expression."

³ "Llafurwr."—*Add. MS.*, 14,964.
 Gellir crynhoi yr hyn a ddywed
 y bardd o'r dechreu hyd yma

fel y canlyn:—Pan ymddangoso
 pobl y byd ger bron Duw i gael eu
 barnu ar Fynydd yr Olew-wydd,
 gall y Llafurwr siarad yn ddigryn,
 os wedi cyflawni yr hyn a ddywedir
 rhag llaw.

⁴ "O rhoddes or gwir hoyw-
 dduw."—*Add. MS.*, 14,966.

"O rhoddes ef wr hoyw-ryw."
C. Ll. G.

Y darlleniad olaf ydyw yr
 hawddaf i'w ddeall.

⁵ Gwell nag "O" yn *Add. MSS.*,
 14,966, a 14,964, a *C. Ll. G.*

⁶ "O" yn y llyfrau ereill.

⁷ "Letty."—*Add. MS.*, 14,964.

⁸ "Dylai"—*Add. MS.*, 14,966;
 "dyly"—*Add. MS.*, 14,964.

Os nad ydym yn camddeall y bardd,
 yr oedd ei syniadau ar y mater
 hwn yn dra gwahanol i'r hyn a
 goleddir gan y mwyafrif o Gristion-
 ogion y dyddiau hyn—tybiai efe
 fod gweithredoedd da y llafurwr yn
 rhoddi hawl iddo i'r nefoedd.

⁹ "O"—*Add. MS.*, 14,966; "i"—
C. Ll. G.

- ni fynn farn eithr i arnawdd¹
 ni chair yn i gyfair gawdd²
 ni ddeil ryfel ni ddilyn
 20 ni ddiva³ am i dda ddyn
 ni bydd rhy gadarn arnam
 ni hawl yn gymhedrawl gam⁴
 nid addas onid dioddef
 24 nid bowyd nid byd heb ef⁵

¹ "Ni rydd farnondar arnawdd."
Add. MS., 14,966.

"Ni rydd varn eithr i arnawdd."

Add. MS., 14,964.

"Ni rydd farn, eithr ar arnawdd."—*C. Ll. G.*

"Arnawdd" (hyny yw, *Arnodd*) = *plough beam*—sef, y polyn, neu y rhan hono o'r aradr wrth yr hon y cyssylltid yr ychain, neu y ceffylau. Ac yn ol Iolo Goch, ni wyddai llafurwr ei oes ef am ddim o'r tu allan i gylch ei orchwyl o aredig, neu drin y ddacar.

² "Ni châr gan i gyfar gawdd."
Add. MS., 14,966.

"Ni char yn i gyfran gawdd."
Add. MS., 14,964.

"Ni char yn ei gyfar gawdd."
C. Ll. G.

Dywed golygydd *C. Ll. G.* mai *lle heb ei agor* yw "cawdd," ond gan ein bod yn ystyried y Canon Silvan Evans yn uwch awdurdod nag ef ar eiriau Cymraeg, rhaid i ni gymmeryd y gair i olygu rhywbeth annymunol, megys *annoyance*, *trouble*, &c. ; mewn canlyniad, y mae darlleniad y testyn yn gywir—ni chair dim annymunol, neu anorphenol, yn ei gyfair.

³ "Ddifa"—gwell o lawer na "thrwisia" (*Add. MS.*, 14,966), yr hyn, mae'n debyg, sydd wall am "threisias" fel ei ceir yn *C. Ll. G.* Dysgrifir y llafurwr yma fel gŵr heddychol a gonest.

⁴ "Ni thyn hawl gynef ddawl gam."—*Add. MS.*, 14,964.

"Ni yr hawl gymerawl gam."
C. Ll. G.

Hawl = *claim*—mewn cyfraith; ond y mae yn anhawdd gwybod pa un ai "gymhedrawl," "gynfeddawl," a'i "gymerawl" a ddylid gyssylltu ag ef. Ac y mae yr un anhawder yn perthyn i ddarlleniadau llin. 23;—

"Nid addas mynny dioddef."

Add. MS., 14,966.

"Nid anodd myned i oddef."

Add. MS., 14,964.

"Nid addas mud i ddyoddef."

C. Ll. G.

Gallwn dybied fod pob un o'r darlleniadau hyn yn ceisio awgrymu mai rhy barod i oddef cam yw y llafurwr.

⁵ "Nid bowyd y byd heb ef."

Add. MS., 14,966.

"Nid bywyd y byd heb ef."

Add. MS., 14,964.

gwnn mae digrifach ganwaith
 gantho modd digyffro maith¹
 ganlyn nim dawr heb fawr fai²
 28 yr aradr krwnn³ ar irai⁴
 na ffettai⁵ penn dorrai dwr
 yn rhith arthur⁶ anrheithiwr

¹ "I gu Arddwr garwr gwaith."
C. Ll. G.

² "Gaffel min iawn heb fawr
 fai."—*Add. MS.*, 14,966.

"Gaffael min da wr heb fawr
 fai."—*Add. MS.*, 14,964.

Y mae pob un o'r darlenniadau
 hyn yn ddigon synwryol ac eglur—
 "Ganlyn, nim dawr (heb ofalu) yr
 aradr," yn ol y testyn; neu ynte
 yr aradr yn finio at waith—ond
 pa un a ddefnyddiodd Iolo sydd
 fwy nag a allwn ddyfalu. Hwyrach
 nad ydyw *nim dawr* ond gwall am
min da wr.

³ "Crwn"—yn y llyfrau ereill.
 Ar awdurdod Cyfreithiau Hywel
 Dda, Giraldus Cambrensis (*De-*
script. Cambr., lib. 8, ch. 17), a
Strutt's View of the Manners of
England, y mae Gweirydd ap
 Rhys (*Hanes y Brytaniaid a'r*
Cymry, cyf. i., tudal. 484) yn
 rhoddi y dysgrifiad a ganlyn o
 aradr y Cymry yn ystod y Canol-
 oesoedd:—"Ymhlith pethau eraill,
 enwir 'olwynau,' yr hyn a ar-
 wydda bod olwynion yn perthyn i
 aradr y Cymry yn y cyfnod yma,
 megis yr oedd i erydr y Norman-
 iaid yn yr un amser. Dywed y
 cyfreithiau fod i'r aradr arnodd a
 rhagarnodd. Tybir mai y corn,
 neu'r *handle*, oedd yr olaf; a chan
 na nodir ond un rhagarnodd, bernir

nad oedd i'r aradr ddau gorn y pryd
 hwnw, fel yn awr, eithr un, yr
 hwn a ddaliai yr arddwr âg un llaw,
 tra y dalai offeryn yn y llaw arall i
 lanhau'r aradr ac i wella'r cwysi,
 a elwid 'carthglwyd' neu 'garth-
 bren,' fel yr ymddengys y gwnai'r
 Normaniaid. Rhaid bod swch, os
 nad cwelltr hefyd, yn dra anhebyg
 i'r peth ydyw yn awr; canys
 dywedir mai gwerth swch oedd
 dwy geiniog, tra'r oedd cwelltr yn
 werth pedair ceiniog. Tynid yr
 aradr gan ychain, ac anfynych y
 dodid llai na phedwar fch at y
 gorchwyl, o flaen y rhai y cerddai'r
 geilwad neu'r arweinydd yn wysg
 ei gefn, â'i wyneb at yr ychain; ac
 o digwyddai gwmpo, byddai yn y
 perygl mwyaf o gael ei anafu,
 trwy i'r ychain anystywallt ei
 sathru."

⁴ "Irai"=*goad*:offeryn i symbylu
 ychain. Yr oedd mewn arferiad
 yng ngwlad Canaan:—"Ac efe
 [Saingar mab Anath] a darawodd
 o'r Philistiaid chwe-channwr âg
 irai ychain." (*Barnwyr*, iii., 31).

⁵ "Phe bai."—*Add. MS.*, 14,964.

⁶ "Dwthwn"—*Add. MS.*, 14,966;
 "owthur"—*Add. MS.*, 14,964.

Gwell gan y llafurwr ddal ei
 aradr, na phe cawsai (yn ol y
 testyn) anrheithio fel Arthur
 Frenin.

- ni chair eithr oi weithred¹
 32 aberth crist i borthi kred
 na bowyd pam i beiwn²
 pab nag ymerodr heb hwnn
 na brenin haelwin hoewlyw³
 36 dien y byd⁴ na dyn byw
 Lywsitarys hoywlys hen⁵
 a ddyvod hynn yn ddien⁶

¹ "Ni cheffir eithr oi weithred."

Add. MS., 14,966, a
C. Ll. G.

"Ni chair o ddieithr o'i weithred."—*Add. MS.*, 14,964.

² "Bowyd ni cheiff ni beiwn."

Add. MS., 14,966.

³ "Bywyd ni chair be beiwn."

Add. MS., 14,964.

⁴ "Hoywlyw."—*Add. MS.*, 14,964.

⁵ "Dien i bwyll"—*Add. MS.*, 14,964; "na dien bwyll"—*C. Ll. G.*

⁶ Yn *Add. MS.*, 14,966, ceir:—"Moeromus hounus hên," gyda "Lywsidarus" ar ymyl y ddalen; "Lusidarius loywys hên" yn *Add. MS.*, 14,964; "Lusidarius hoywlys hen" yn *Add. MS.*, 14,972; ac "Arisdodlys hwylus hen" yn *C. Ll. G. Lusidarius* sydd gywir. Y mae yr hyn a ddyfynir gan Iolo Goch yma i'w weled yn yr "*Elucidarium and other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llan-deuivrevi A.D. 1346*" (pp. 40, 41) lle y dywedir: "Beth am laurôyr ydayar. rann vaôr onadunt aiacheir. Kannys buchedocav awnant yn vul. Aphorthi pobyl duô // oc eu chôys megys ydyôedir. gôynn y vyt avôytao olauur y dôylaô."

Priodolir yr *Elucidarium*, sive *Dialogus de Summa Totius Christianae Theologiae*, gan rai i Lanfranc (a fu farw 1089), a chan ereill i Anselm (a fu farw 1109). Ac y mae y testyn Lladin fel yr ymddangosodd yng ngweithiau Lanfranc (Giles' Oxford Edition, 1844) wedi ei roddi i mewn gan olygwyr y testyn Cymraeg (*The Elucidarium*, 1894). Y mae "Lucidar" (yn Gymraeg) hefyd yn yr ail gyfrol o'r *Selections from the Hengwrt MSS.*, a gyhoeddwyd yn 1892, dan olygiaeth y Parch. G. Hartwell Jones. Nid enw awdwr ydyw *Lucidarius*, fel y tybia rhai, ond "Egluryn," neu fel y dywedir ar ddechreu yr *Elucidarium*:—"Enô yllyuyr hênn yô lucidar. Sef yô hynny goleulyfr. kanys yndaô ygoleubeir amryfalyondyôyllyon betheu." Gellir tybied fod Iorwerth Llwyd, yn gystal a Iolo Goch, yn meddwl mai enw awdwr ydoedd (*Myv. Arch.*, p. 336):—

"Dysgawdd lyfrau loywfraint downus

Lucidarws lwys ei daerwedd."

⁶ "A ddowad fal yn ddiwn."

Add. MS., 14,966.

"A ddyfod hyn yn ddien."

Add. MS., 14,964.

"A ddywaid mal yn ddien."

C. Ll. G.

- 40 ¹a bychedd dda ddibechawd
 mewn crefydd ffydd a ffawd
 gwyn i fyd trwy iawnbryd traw²
 a ddeil aradr ai ddwylaw³
 kryg rhwyg banadl gwastadvaes⁴
 44 kryw mwyn yn kreio maes⁵
 klowir i glod y klehyr glwys
 kowir hegyrr yn hoywgwys⁶
 kynyll tir gwydd rhwydd y rrhawg
 48 kalldrem urddedig kylddrawg⁷

¹ Nid ydyw llin. 39-40 yn y llyfrau ereill.

² "Gwyn i fyd drwy febyd draw."—*Add. MS.*, 14,966.

"Gwyn i fyd rhag trymvyd draw."—*Add. MS.*, 14,964.

"Gwyn ei fyd drwy iechyd draw."—*C. Ll. G.*

³ Y mae y llinell hon, o'i deall yn llythyrenol, yn gwahaniaethu oddi wrth yr hyn a geir yn nodyn 3, tudal. 635; ac yn awgrymu fod i'r aradr, yn amser Iolo, *ddau* gorn.

⁴ "Crud rhwyg banadl gwastadlaes."—*Add. MS.*, 14,966.

"Cru rhwyg vanadl gwastadlaes."—*Add. MS.*, 14,964.

"Rhwyg grug, banadl gwas-tadlaes."—*C. Ll. G.*

Ymddengys mwy o synwyr yn y darlleniad olaf, er o bosibl mai wedi ei wneyd gan law ddiweddar y mae.

⁵ "Cryw mwyn a wyr creio maes."—*Add. MS.*, 14,966.

"Ryw mwyn yn gareiaf Maes."—*Add. MS.*, 14,964.

"Cryw mwyn yn careiaf maes."—*C. Ll. G.*

Y mae y llinell hon yn un wir farddonol—y cryw (*slicer*) yn careio

y ddaear. Y mae y Dr. W. O. Pugho yn cyfieithu (dan y gair

"Cryw") fel y canlyn:—

"Rhwyg grug banadyl gwastadlaes

Cryw mwyn yn careiaf maes."

"It will rend the tump of the even-trailing broom: it is a pleasant *slicer* cutting the field into thongs."

⁶ "Cerir i glod y crair glwys

Gryr ai hegyr yn hygwys."

Add. MS., 14,966.

"Cerir i gledd y crair glwys

crehyr hy egyr hoywgwys."

Add. MS., 14,964.

"Cerir ei glod y crair glwys

Eryr a'i hegyr, hoyw-gwys."

C. Ll. G.

⁷ "Cawelltir gwydd rhwydd yr rhawg

Call drom urddedig hyll-drawg."—*Add. MS.*, 14,966.

"Cawell tir gwydd rrwydd y rhawg

Calldrefn urddedig cyll-drawg."

Add. MS., 14,964.

"Mysgu tir gwydd rhwydd yr-hawg

calldrefn arddedig cyll-drawg."—*C. Ll. G.*

diwyll wraidd dyffrynwraidd ffrwyth¹
 yn estyn gwddw² anystwyth
 Ystig³ fydd beynydd i⁴ ben
 52 ystrud iach is traed ychen⁵
 aml i canai emynn⁶
 dilyn y fonddid a fyynn⁷
 kiliagwydd erwi gwyddiawn⁸
 56 cowir oi grefft i cair grawn⁹
 Gwas porth vil¹⁰ aneiddil nen
 gwasgarbridd gwiw ysgeirbrenn¹¹

¹ "Undryllwraidd dyffrynwraidd ffrwyth."

Add. MSS., 14,966 a 14,964.

"Ddiddig ei ffordd a ddug ffrwyth."—*C. Ll. G.*

² "Yn ystyn gwddw."

Add. MS., 14,966.

"Yn estyn gwddw."

Add. MS., 14,964, a *C. Ll. G.*

Y mae gwddw y llafurwr yn myned yn anystwyth wrth ddilyn ei alwedigaeth—sef diwyllio gwraidd dyffrynwraidd ffrwyth.

³ "Ystig" = ymroddgar, diwyd.

⁴ "Oi"—*Add. MS.*, 14,964;
 "ei"—*C. Ll. G.*

⁵ "Ystryd iach is traed ychen."

Add. MS., 14,966, a *C. Ll. G.*

"Ystryd iaxus traed yxen."

Add. MS., 14,964.

Yr oedd y llafurwr a ddysgrifia y bardd yn taimlo mor gartrefol wrth ei waith fel yr ystyriai y owysau a fethrid gan yr ychain fel heol iach i rodio ynddi.

⁶ Y mae y testyn yn llawer mwy eglur na'r darlenniadau a ganlyn:—

"Aml i geilw i iw myn."

Add. MS., 14,966.

"A myl draw y canai emyn."

Add. MS., 14,964.

"Amla y cana emyn."—*C. Ll. G.*

Mewn traethawd ar "The Folklore of Glamorgan," gan Cadrawd (*Trans. Aberdare Nat. Eisteddfod*, pp. 186-235), ceir casgliad o hen dribanau Morganwg, y rhai, yn ol yr awdwr, a genid gan yr aradwyr pan yn aredig gydag ychain.

⁷ "Ymlid y fondid a fyn."

Add. MS., 14,966.

"Ymlid y fondid a fyynn."

Add. MS., 14,964.

"Ymlid ei fondid a fyn."

C. Ll. G.

Bondid ydyw y gadwen yr hon a gyssyllta yr aradr wrth yr iau.

⁸ "Ceiliagwydd erw gwydd eig-iawn."—*Add. MS.*, 14,966.

"Ciliagwydd erwi gwydd-iawn."—*Add. MS.*, 14,964.

"Ceiliogwydd ogwydd eig-iawn."—*C. Ll. G.*

⁹ "Cowir oi groft i cair grawn."

Add. MS., 14,966.

"Cywir oi grest y cair grawn."

Add. MS., 14,964.

"Cywir, oi grefft y cair grawn."

C. Ll. G.

¹⁰ "Borth vil"—*Add. MS.*, 14,964; "porth-fil"—*C. Ll. G.*

¹¹ "Esgeirbren"—*Add. MS.*, 14,966; "esgairbren"—*Add. MS.*, 14,964.

- 60 knwd a gyrch mewn cnodig ar¹
 knyw diwaél yn knoi dayar
 gwr ai anfodd ar grynnaen²
 gwas a fling ai goes oi flaen³
 e⁴ fyinn i gyllell ai fwyd
 64 ai fwrdd dan fon i forddwyd⁵
 hugadarn meistir hoywgiwdawd⁶
 brein a roes gwin er gwawd

¹ "Cnwd a gyrch cynodig ar
 Cnyw diwaél yn knoi dayar."

Add. MS., 14,966.

"Cnwd a gyrch o'r cnodig ar
 Cnyw diwall yn knoi dayar."

Add. MS., 14,964.

"Cnodig" = cnydiawg.

² "Gwr ai anfoes ar grynfaen."

Add. MS., 14,966.

"Gwr ai . . . ar grynvaen."

Add. MS., 14,964.

"Gwr a'i anfodd ar gryn-
 faen."—*C. Ll. G.*

Yn casâu crynfaen am ei bod ar
 ffordd swch ei aradr.

³ "Gwas a fling goes oi flaen."

Add. MS., 14,966.

"Gwat a vling ai goes o'i
 flaen."—*Add. MS.*, 14,964.

"Gwas a fling y gwŷs o'i
 flaen."—*C. Ll. G.*

Dichon fod y testyn yn eithaf
 cywir, gan gyfeirio at ystum yr ar-
 ddwr yn cadw un goes gryn bellder
 o flaen y llall.

⁴ "Fo"—*Add. MS.*, 14,966 ;

"E"—*Add. MS.*, 14,964, a *C. Ll. G.*

⁵ "Ai fwrdd ar fôn ei forddwyd."

C. Ll. G.

Dysgrifiad tarawiadol o'r llafurwr
 yn cymmeryd ei luniaeth ym mol y
 clawdd.

⁶ "Hy gadarn mastr hoew gyw-
 dawd."

Add. MS., 14,966.

"Hu gadarn veistr hoyw
 gwiedawd"
 soddawd.

Add. MS., 14,964.

"Hu gadarn feistr hoyw giw-
 dawd."—*C. Ll. G.*

Dywed Stephens o Ferthyr
 (*Brython*, 1863, tudal. 337, a'r
Beirniad, llyfr v., tudal. 298) mai
 y crybwylliad cyntaf am Hu Gadarn
 yn yr iaith Gymraeg ydyw yr un a
 geir mewn cyfieithiad o'r chwedl
 Ffrancaeg a elwir "Hanes Siarl-
 ymaen." Gwnaed y cyfieithiad
 hwnw, medd Stephens, oddeutu
 1340. Pa fodd bynag, gwelwn fod
 Iolo Goch wedi cael gafael yn y
 traddodiad ei fod yn ymherawdwr
 Constantinobl, a'i fod yn athraw mewn
 amaethyddiaeth. Ceir amryw o
 feirdd y Canoloesoedd yn cyfeirio
 ato, megys Llywelyn Moel, Gwilym
 Tew, Rhys Brydydd, a Lewis Glyn
 Cothi. Hyd y gwyddom, nid oes
 grybwylliad am Hu Gadarn yn un-
 rhyw ben Chwedlau Cymreig, heb
 law (1) y rhai a gyfieithwyd o'r
 Ffrancaeg neu o'r Lladin ; ac (2) y
 rhai a grewyd gan ddychymmyg-
 wyr y drydedd gyfres o'r Trioedd.
 Cymmerwyd Hu Gadarn o'r chwed-
 lau am Siarlymaen.

- Ymerawdr tir a moroedd
 68 Kwnstabl aur constinobl oedd¹
 Daliodd ef gwedi² diliw
 aradr gwaig³ iawn gadr⁴ gwiw
 ni cheisiodd bu yn iach ysoed⁵
 72 ddeuriw o riw ar vara eirioed⁶
 eithr da oedd i athro⁷
 oi lafur fraisg awdwrfro⁸
 er dangos eryr Iowngoeth⁹
 76 i ddyn balch a difalch doeth¹⁰
 bod yn orav nid gau gair
 un grefft gan y tad iawngrair¹¹
 aredig dysgedig ydyw
 80 arwydd mae hynn a oryw¹²

¹ "Emherawdr tir a moroedd
 A bywyd oll o'r byd oedd."
Add. MS., 14,964.

"Cwnstab âr, cynnwysdeb
 oedd."—*C. Ll. G.*

² "Wedi."—*Add. MS.*, 14,964.

³ "Gwaig."—*Add. MS.*, 14,964.

⁴ "Newyddgadr"—*Add. MS.*,
 14,966; "arnoddgadr"—*Add. MS.*,
 14,964, a *C. Ll. G.*

⁵ "Mae/n/ iach isloed"—*Add.*
MS., 14,966; "ef iachus oed"—
Add. MS., 14,964; "Naf iachus
 oed"—*C. Ll. G.*

⁶ "Fwriwr aur fara yr ioed."
Add. MS., 14,966.

"Fwriwr ar faraf erioed."
Add. MS., 14,964.

"Heb fwrw'r âr, ei fara 'rioed."
C. Ll. G.

⁷ "Eithr duw oedd i athro."
Add. MS., 14,966.

"Oddieithr da oedd i athro."
Add. MS., 14,964.

"Eithr da oedd ei athro fo."
C. Ll. G.

Pa un bynag o'r darllenïadau hyn
 sydd gywir, awgrymir yma i Hu
 Gadarn ddysgu aredig gan Dduw
 yn ddigyfrwng.

⁸ "Oi lafur braisg awdur bro."
Add. MS., 14,966.

"Oi lafur fraisc fro dir fo."
Add. MS., 14,964.

⁹ "Diowngoeth"—*Add. MS.*,
 14,966; "Dawngoeth"—*Add. MS.*,
 14,964.

¹⁰ "I falch a difalch a doeth."
Add. MS., 14,966.

"O fri dawn lafur y doeth."
C. Ll. G.

¹¹ "Bod yn dilie gore gair
 Un grefft gan y tad iown-
 grair."—*Add. MS.*, 14,966.

"Fod yn orau nid gau gair
 fyngrest dan y tad iawn-
 grair."—*Add. MS.*, 14,964.

"Bod yn orau nid gau gair,
 Un grafft gan y tad iawn
 grair."—*C. Ll. G.*

¹² "Arwydd mae hyn a oeryw
 Aredig dysgedig yw."
Add. MS., 14,966.

hyd i mae kred a bedydd
 a ffawb yn cynnal y ffydd¹
 llaw ddûw kun gorav vn gwr
 84 a llaw vair dros bob llafvwr²

Iolo Goch ai kant.

- | | |
|--|---|
| <p>" Arwydd mae hyn a oryw
 aredig dysgedig yw."
 <i>Add. MS., 14,964.</i></p> <p>" Arwydd mae hyn a eryw,
 Aredig, dysgedig yw."
 <i>C. Ll. G.</i></p> <p>¹ " Ffordd i mae cred a bedydd
 a ffawb yn cynnal y ffydd."
 <i>Add. MS., 14,966.</i></p> <p>" Hyd y mae cred a bedydd</p> | <p>a phawb yn cynnal y ffydd."
 <i>Add. MS., 14,964, a C. Ll. G.</i></p> <p>² " Llaw diluw eon gorau vn gwr
 llaw Fair ar bob llafvwr."
 <i>Add. MS., 14,966.</i></p> <p>" Llaw Duw Ion gorau un gwr
 a llaw fair dros y llafvwr."
 <i>Add. MS., 14,964.</i></p> <p>" Llaw cun gorau un gwr,
 Llaw Fair ar bob LLAFVWR."
 <i>C. Ll. G.</i></p> |
|--|---|
-

LXXV.

KOWYDD Y KARDIE

(*O'r Add. MS., 15,006, fol. 63b*).

Ni ddygwyddodd i ni weled y cywydd hwn yn un man heb law yn yr ysgriflyfr uchod. Y mae yn amlwg nad ydyw mewn un modd yn gopi da o'r cywydd, a'i fod yn waith rhyw gopiwr lled ddiofal. Y mae hyn yn ei wneyd yn fwy anhawdd i'w ddeall, yn enwedig i un nad ydyw yn deall dim am gardiau na'r chwareuon perthynol iddynt.

Yr ydym yn teimlo cryn anhawsder i benderfynu pa un ai adrodd ei brofiad ei hun, ynte rhywun arall, a wna Iolo yn y cywydd hwn. Y mae y ddwy linell gyntaf yn ein taflu i ddyrswch:—

“Cenuv ir oedd ywch conwy
baych o dda a bywch ne ddwy.”

Nid yn y rhanbarth a elwir yn Uwch Conwy, ond yn Is Conwy, y saif Llechryd; ac y mae hyn yn myned yn erbyn y syniad mai adrodd ei brofiad ei hun yr oedd y bardd, os nad oedd ganddo hefyd eiddo ar yr ochr arall i afon Gonwy. Ond nid oes genym sail i dybied y fath beth. Wedi'r cyfan, dichon fod y bardd, er yn canu iddo ei hun, yn rhoddi *Uwch* Conwy, yn lle *Is* Conwy, gyda'r amcan o ymddyeithrio, a rhag manylu yn ormodol ar ei drwstaneiddwch. Y mae yn ddigon eglur na ddylem gymmeryd ei eiriau yn llythyrenol bob amser, o blegid yn llin. 2, dywed mai “bywch ne ddwy” oedd ganddo ar y cyntaf, ond erbyn cyrhaedd llin. 37, yr oedd ganddo “eidion” i'w werthu, ac yn llin. 39, dywed iddo orfod “gwerthu *llawer* om gwartheg.” Felly, rhaid cymmeryd yn ganiataol mai ym-driniaeth gyffredinol ar y testyn, gan ddangos y niwed a ddeillia o hap-chwareu, a geir yn y cywydd hwn. O'r bron

na thybiwn, pa un bynag ai ei anffodion ef ei hun, ynte rhywun arall, a achlysuodd i'r bardd gyfansoddi y cywydd, ei fod ef ei hun yn brofiadol o'r hyn a ddywed ynddo. Ac os bu yn Arglwydd Llechryd, fel yr honir yn gyffredin, y mae yn bosibl—yr ydym yn cynnyg yr awgrymiad am ei werth—fod a wnelo y cardiau â'i ddwyn i'r fath sefyllfa fel ag i ofyn march yn rhodd gan Ithel ap Robert. Pa fodd bynag, hysbyswyd ni gan rai ag ydynt yn gyfarwydd gyda chardiau, i'r rhai y darllenasom y cywydd, fod Iolo yn profi ynddo ei fod yn deall yn dda oddi wrthynt.

- Cenuv¹ ir oedd ywch conwy
 baych o dda a bywch ne ddwy
 deliais ar gardie dilis
 4 allan om plwy mwy no mis
 doeth diwrnod o daith arna
 yw chware n tw² o chwant da
 kael yno n rhwydd koilio i rhain
 8 yn rhygyl un ar hugain
 a chware yn lew fel dewin
 tynu Dews³ o tan y din
 rhoi ysgwd i gardie ysgil⁴
 12 kasa gwg kosi gwegil
 a gwladiddio⁵ yn rhifo yr hain
 a rhegu tri ar rhigain
 ni oedd yn wr elw hyll
 16 yno soweth le i sefyll⁶

¹ "Cenyf" neu "genyf."

² "Tw" = gyda brwdfrydedd?

³ "Dews" = disiau (=dice). Y mae y llinell hon yn awgrymu fod yno gam-chwareu; ac yn golygu yr un peth ag a feddylia y Sais wrth "*the ace up his sleeve.*"

⁴ "Ysgil" = o'r tu ol. Wedi gweled yr ymgais i'w dwyllo, y mae y bardd yn tafu y cardiau ymaith mewn digllonedd; ond fel y gwelir yn y llinellau dilynol y mae yn

dyfod i'w dymher eilwaith, ac yn chwareu drachefn.

⁵ "Gwladiddio" (h.y., gwlad-eiddio) addefnyddir yma yn yr ystyr o *ymgartrefu*; hyn yw, yr oedd yn dra chynnesfyn â'r gorchwyl o chwareu cardiau.

⁶ A oes perthynas rhwng yr ymadrodd hwn â'r hyn a feddylia y Sais pan y dywed: *without a leg to stand upon?*

- tynu kyn talu ir kolmyth¹
 rhydaer oedd ar hyder wyth
 dod yno un diwnaw²
- 20 y min y nos imi a naw
 Sefyll ar saith gwaith y gwr
 gwrthod pedwar gwaith pwdwr
 sefyll ar wyth dylwyth da
- 24 traian nos ar kri yn isa
 tynu ar naw hylaw holi
 koilio yn drwch kael yno dri
 kel tri deg amlywio r da³
- 28 etto un waith fett⁴ ynna
 fellyn pan fai deg fy lle
 un or trowyr⁵ ai trawe
 o dod le i dario n lan
- 32 dallu a dwedyd myned allan
 o rhown geiniog gain am lwg⁶
 nuy rhoea arian drwg⁷
 o rod-di grod a ffas⁸ gron
- 36 ni chawn i ond y dan di dindon⁹
 gwerthu eidion gwrthgu ydiw
 ag wrth y dydd gwerthu Duw¹⁰

¹ Ar ol chwiliollawer, methasom a chael allan feddwl y gair "kol-myth." Y peth tebycaf iddo a welsom ydyw "cwlwath" = a large mass of anything (*Geir. Cymreig* Silvan Evans); a dichon mai hwnw a feddylir yma—rhoddi ei arian at y swm oedd yn barod ar y bwrdd.

² "Diwnaw"—ai nid *diwnaw* (talfyriad o *diwnawd*) a ddylasai hwn fod?

³ Cyfeirir yma at y dull o chwareu; ond nid ydym yn ddigon cyfarwydd i'w egluro.

⁴ "Fett" (o *bet*) = cyngwystl.

⁵ "Trowyr" = chwareuwyr — turning the cards.

⁶ "Am lwg"—dian mai *amlwg* a ddylai fod.

⁷ "Y nhwy a roiai arian drwg," hwyrach, a feddylir. Pan yr ennillai Iolo ni chaffai ef ond arian drwg, er ei fod ef yn rhoddi arian da—"ceiniog gain"—iddynt hwy.

⁸ "ffas" (o *pass*) = current coin.

⁹ Rhaid i ni osod y bai ar y copiwr am aneglurder y llinell, yr hon sydd yn cynnwys dau sill yn ormod.

¹⁰ Y mae hon yn un o'r llinellau goreu sydd yn y cywydd, ac yn fynegiad o edifeirwch y bardd.

40 gwerthu llawer om gwartheg
 i dalu am dynu r deg¹
 am hynn y kollais ym hwyll
 yn gynar wrth un ganwyll
 a fyno kael gafael gwr
 44 girda² na daed yn gardiwr
 ag o da er kisio ked³
 yn sikir fo gyll i siecked

Iolo Goch
 ai kant.

Terfyn

Ond credwn mai "gwrthun
 ydyw" a ddylai fod yn llin. 37, yn
 lle "gwrthgu ydiw."

mae'n debyg, yr hwn a gynnwys
 ddeg o bwyntiau (*points*).

² "Girda" = geirda (= *good name*,
reputation).

¹ Y cerdyn a elwir *Diamond*,

³ "Ked" a olyga *elw* yma.

LXXVI.

COWYDD IR TAFOD AI DDYFALU.¹(O'r Delyn Ledr—Add. MS., 14,873, fol. 55b).*

Y mae y cywydd hwn i'w weled hefyd yn *Add. MS.*, 14,969; yn *Jes. MS. C.*, 101, p. 348; yn gystal ag mewn ysgriflyfr ym meddiant Mr Isaac Foulkes, o Lerpwl, a ysgrifenyddwyd oddeutu 1700; a phriodolir ef yn y llyfrau hyn i Iolo Goch. Ond y mae yn argraffedig ym *Marddoniaeth* Dafydd ab Gwilym, tudal. 290, ac i Dafydd ab Gwilym y priodolir ef hefyd yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i., tudal. 62. Lleolir y llinellau yn wahanol yn y llyfrau hyn yn fynych—ac er mwyn arbed y drafferth o nodi hynny, cyfeiriwn y darlennydd i *Furddoniaeth* Dafydd ab Gwilym gyda golwg ar eu cyflead yn y gwaith hwnnw.

Y Druan fawd lydan ledr
 Y Tafawd nid wyd hyfedr²
 pan na cheffy dy diddos
 4 pa'n ddiawl a wnei pann ddel nos³
 na fedri eithr⁴ ynfydrim
 y lenwi dewi er dim
 odde'r wyd o ddireidi
 8 addail tir i ddiawl wyti⁵

¹ A'i ddysgrifio.² "Taw druan fawd lydan ledr
 Y tafawd nid wyd hyfedr."*Jes. MS.*³ "Y Tafod nid wyt hyfedr,—
 Taw druan, fawd lydan ledr!"*Barddon. D. ab G.*⁴ "Paham na cheffy diddos
 pa, &c."—*Jes. MS.*⁵ "Pam na cheisi dy diddos,Pa ddail a wnaid pan ddel
 nos."—*Barddon. D. ab G.*⁶ "Na fedri, noeth ynfydrim."
*Barddon. D. ab G.*⁷ "Adde r wyd dy ddireidi
 addail tir i ddiawl i ti."*Jes. MS.*

- awr daw yt ardalm or dydd
 amlferw yn ymlyferydd¹
 mwy no rhegen mewn i rhygnyth
 12 *am nith fair ni thawai fyth*²
 aelod fochwael ddiwala³
 yn son am ferch dynion da
 ni thawaf, heb y Tafawd
 16 ni thaw gwynt yn nithio gwawd⁴
 berw a ddwg fal mŵg mawr
 or cylla fal berw Callawr⁵
 drwg yn wir gwaeth oragor
 20 yn llawn uniawn⁶ moelrhrawn mor
 pan ddêl y llanw gwyllt llawn hir
 i sai ai flew fal sofi i⁷
 a rhuo a wna a rhyw nad
 24 a briw ferw a bryferad⁸

¹ "Awr daw hyd am daml or dydd
 aml ferw yn ymlyferydd."

Jes. MS.

"Awr daw heb hyd dalm o'r dydd,
 A wyl ferw ymlaferydd."

Barddon. D. ab G.

² "mwy no rhegyn mewn rhag-nyth
 am nith fair am na thaw fyth."—*Jes. MS.*

"Mwy na rhegen mewn rhag-nyth
 Myn nith Fair, hon ni thaw fyth."—*Barddon. D. ab G.*

³ "Aelod bochwal gowala."

Jes. MS.

⁴ "Ni thawaf eb y tafawd ni thaw'r gwynt lle nithir gwawd."—*Jes. MS.*

"Hon ni thau heb y tafawd

Ni thau gwynt a nithio gwawd."

Barddon. D. ab G.

Y mae y tafod yma yn ateb y bardd—"eb y (ebe'r) tafawd."

⁵ "Y berw a ddwg y mwg mawr or cylla fal megis callawr."

Jes. MS.

⁶ "Annwyd"—*Jes. MS.* ; "aniawn"—*Barddon. D. ab G.*

⁷ "Pan ddel llanw gwyllt hyllt holldir
 i saif i flew fal sofi i."

Jes. MS.

"Nesai ei flew fal sofi i."

Barddon. D. ab G.

⁸ "A rhyo a wna a rhiw nad a briw ferw a brefarad."

Jes. MS.

"Rhuo a wnai a rhyw nad, A briw ferw ab rhyferad."

Barddon. D. ab G.

- yfed llynn gwerth dan *serthi*¹
 nos a dydd yw dy swydd² di
 ymddyfalu meddw foliad
 28 Señynffraeth am gwrw Sanffraid³
 hyny myn mair a bair bod
 bygunad tebyg ynod
 a bloeddio fal pobl iddew⁴
 32 mi a adwaen flaen dy flew
 hawdd yw adnabod ar hên
 gor flewyn gwt aflawen⁵
 gau genau y gég anoeth
 36 gad attad beth *Gatu-l* boeth⁶
 ti a wnei beth ni wnai neb,
 hoel gwta, holi ac ateb;⁷
 anredu enwir ydwyd
 40 hudol ar ei ol ir wyd⁸
 yn chware' delwe weflgrach
 wenhwyfar ymbilgar bach⁹
- ¹ "Berthi"—*Jes. MS.*, a *Barddon. D. ab G.*
² "Naws"—*Jes. MS.*, a *Barddon. D. ab G.*
³ "Sen ffraeth am loyw gwrw Sanffraid."—*Jes. MS.*
 "Son yn ffraeth am gwrw Sanffraid."—*Barddon. D. ab G.*
 St. Ffraid oedd ferch, yn ol *Bonedd y Saint*, i Cadwrthai neu Cadwrlach Wyddel; ond dywed y traddodiadau Gwyddelig iddi gael ei geni yn Sir Louth tua'r flwyddyn 453, ac mai merch ordderch ydoedd i Dubtach, neu Dubtachus, boneddwr yn y wlad hono. Gelwir hi yn *St. Bridget* gan y Gwyddelod, ac yn *St. Bride* gan y Seison. Y mae cynnifer a deunaw o eglwysi wedi eu cyflwyno iddi yng Nghymru, ac felly y mae yn anhawdd dyweyd at ba le y cyfeirir yn y llinell uchod.
- ⁴ "A bloddain fel pobl iddew."
Jes. MS.
 "A bloeddio fal pobl luddew."
Barddon. D. ab G.
⁵ "Goflewyn gwt aflawen."
Jes. MS.
⁶ "Gan enau y gég annoeth
 Gad attad beth Gadit boeth."
Jes. MS.
 Terfynir y cywydd yn *Barddon. D. ab G.* gyda'r llinollau :—
 "Gau genau y geg anoeth
 Gael attat beth gatyd boeth."
 A ydyw "gatud" yn dyfod o "cateia" (= *to bicker*)?
⁷ "Atteb."—*Jes. MS.*
⁸ "Anredydd enwir ydwytt
 yr hudol ar ol ir wytt."
Jes. MS.
⁹ "Yn chwara'w /r/ delw welw weflgrach
 wenhwyfar ymbilgar bach."
Jes. MS.

- dal ir wyd¹ gair dal rodir
 44 drwy dy hun *dadl*² *drydwy* hir
 mae'r naill beth achreth echrys
 ai bod brad³ gyfarfod brys
 ai hunlle foel hen llwy faidd
 48 arnad yn haearnaidd⁴
 ai ymorol am Euron⁵
mordwy serch mawr yw dy son !
 Deffro, arch Dduw in diffryd⁶
 52 dy ffrwyn na fawl di i ffryd
 mwy a ddoedi meddw ydwyd
 Myn Mair, nor gwraig lefair lwyd⁷
 Doed dy gof diota gynt
 56 diodydd, mêdd da ydynt⁸
 dy flaen yn aurfaen oerful
 dy fin cam dau finiog Cul⁹
 ysbodol eisiau bedydd
 60 arnad yn siared y sydd
 Yfferiad¹⁰ meddw gweddw gwyddel
 gynt ath fedyddiodd dan gél
 tyfaist ynghysgod dwyfoch
 64 tafell o fara cell côch¹¹

¹ "Wytt."—*Jes. MS.*

² "Dadlav /r/."—*Jes. MS.*

³ "Braw."—*Barddon. D. ab G.*

⁴ "Ai hunlle fodd hen llwyfaidd
 arnad yn anhyrnaidd."

Jes. MS.

"Ai hunlle, fodd henllwy faith,
 Arnad yn siarad surwaith."

Barddon. D. ab G.

⁵ "Ai ymoralw am Aeron."

Jes. MS.

⁶ "Deffro arch i Dduw diffryd."

Jes. MS.

⁷ Nid ydyw llin. 53-54 yn *Jes. MS.*, nac yn *Barddon. D. ab G.*

⁸ Yn *Jes. MS.* gosodir llin. 55-56
 ar ol llin. 74.

⁹ "Dwflen aerfen oerful

difun cam dav finiog cul."

Jes. MS.

Yn dilyn y rhai hyn yn *Jes. MS.*
 ceir :—

"Taran sorr trvan sarrüg
 trwynsor a ffals traensiwr ffüg
 Mawr i angerdd merwingoch
 cleddy cerdd celwyddog coch."

¹⁰ "Efferiad"—*Jes. MS.*; "offeiriad"
 —*Barddon. D. ab G.*

¹¹ Mewn man arall yn y cywydd—
 yn *Barddon. D. ab G.*—ceir :—

"Tyfaist y'nghysgod dwy-foch,
 Fal tafell o fara cell coch."

- Clici¹dau¹ yn cloi ceudawd
 clô pren gwern clap brenau gwawd
 megaist fal y mynn Magod
 68 mefl o fewn, man ofal bod²
 meistr dyfrllyd³ rwydd maswdrig
 meseri cors maesier cig⁴
 perygl yt y para' glwyf
 72 ag ellyn gynta i gallwyf⁵
 dy dynny myn Dyw a Deinioel
 or gwraidd lafn mileinaidd moel⁶
 Coffa di ddaed ym Caffud
 76 ni ddoem o dre heb ddim drud⁷
 hanes tŷ cymro henaidd
 fal hanes troed blaengoed blaidd
 mae' no chwedl mwy no chydldd
 80 nes no⁸ lles ym gael fy lladd
 rho gyngor yt⁹ rhag angen
 rhy fenybr i'r rhaw fawn bren

¹ "Cliccedav."—*Jes. MS.*

"Clicciedyn yn cloi ceudawd
 Clopren gwern, clap breuan
 gwawd."

Barddon. D. ab G.

² "Megais di fal mynn magod
 mefl o fewn mav ofal fod."

Jes. MS.

³ "Dwfrllyd."—*Jes. MS.*

⁴ "Maisseri cors maysaer cig."

Jes. MS.

"Meistr dyfrllyd masw a drig
 Mesfrig a mân yswr cig."

Barddon. D. ab G.

⁵ "Perygl yt i para' glwyf
 ag ellyn cynt a gallwyf."

Jes. MS.

"Perygl yt y para' glwyf
 Ag ellyn gynta' gallwyf."

Barddon. D. ab G.

⁶ "Dŷnu, myn Delw Deinioel,
 O'r gwraidd, lafn milein-
 wraidd moel!"

Barddon. D. ab G.

St. Deiniol, neu Deiniol Wyn, a
 flodeuai yn y chweched ganrif.
 Dywedir mai efe a sefydlodd y
 Coleg Crefyddol yn Bangor Isycoed,
 Sir Fflint, a mynachdy yn Bangor,
 Sir Gaernarfon.

⁷ "Coffa di ddaed im caffud
 Na ddoem or dre heb ddim
 drud."—*Jes. MS.*

"Coffa mor dda i'm caffud,
 Cyn no hyn o wn can hud."

Barddon. D. ab G.

⁸ "Nam."—*Jes. MS.*

⁹ "Vm."—*Jes. MS.*

84 a¹ minneu gwir ni mynnwn
oerni byth ir neb a wnn²
er ugein more neu gan muw
gael twyll myn Goleuad Duw³

Iolo Gôch ai Cant.

¹ "Ai."—*Jes. MS.*

² "A minnau er na mynnwn
O ranau byth i'r neb ei wn."
Barddon. D. ab G.

gael twyll myn goleuad
Duw."—*Jes. MS.*

"Er ugein-more, neu gan-
muw,

Gwelyt dwyll mewn gwlad
Duw."—*Barddon. D. ab G.*

³ "Er ugein more ne gan muw

LXXVII.

*KOWUDD MOLIANŦ IR DELYN RAWN AG I
OGANU R DELYN LEDER.

(*O Jesus MS., E. 140, p. 438.*)

Ceir y cywydd hwn hefyd yn *Add. MS.*, 14,997, lle ei priodolir i Iolo Goch. Ond y mae yn argraffedig yng ngwaith Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 277), fel ei gyfansoddiad ef, ac i Dafydd ab Gwilym y priodolir ef hefyd yn *Add. MS.*, 14,932. Drwg genym na chawsom amser i'w gymharu ag ysgriflyfr yr Amgueddfa Brydeinig —er nad ymddengys hwnw mewn un modd yn waith copiwr celfydd. Hyd y gwyddom ni, ni phriodolir ei awduriaeth i Iolo Goch heb law yn y ddau ysgriflyfr a nodir uchod; ond hysbysir ni gan Mr. Gwenogvryn Evans iddo ef ei weled mewn cynnifer a saith o ysgriflyfrau gydag enw Dafydd ab Gwilym wrtho. Nid ydyw yr arddull ychwaith yn annhebyg i eiddo yr olaf. Os Iolo Goch a'i cyfansoddodd, tybiwn oddi wrth llin. 21 iddo ei gyflwyno, neu ei anfon, i Dafydd ab Gwilym. Ond nid oes dim yn anarferol yng ngwaith Dafydd yn son am dano ei hun yn y trydydd person, os caniateir mai efe oedd yr awdwr. Pa fodd bynag, gan fod y cywydd yn cael ei briodoli i Iolo, rhoddwn ef i mewn.

Rho duw hael, rhydau¹ helynt
gwawr ar gymru ddigri ddynt²
a gore man gwinllan gost
4 ar fud i fowud fuost³

¹ ' Rhadau.' — *Barddon. D. ab G.*

² "Gwawr ddigrif gymry ddynt."
Add. MS., 14,997.

³ "Gorau man, gwinllan y gôst,
At fyd, o fywyd fuost."

D. ab G.

- tra fu amser i glera
 a dusg yw hen gymru da¹
 weithiau dioer oer anusg
 8 i mae kerdd feiniog yn musg²
 o fy llog anghyfan fan gleder³
 telynau lliardiardau lledr
 nid oedd un tant ffyniant ffudd⁴
 12 o ddefaid meirw i ddafudd⁵
 a wnaeth klau, ddiweniaeth kler
 ddafudd broffwyd ddiofer⁶
 un delyn ddiddan angerdd
 16 ond o rawn⁷ gyfiawn gerdd
 doeth ywr madrawdd, hawdd, hoyw
 y delyn o rawn, du loyw
 y delyn rawn dawn *dyffais* difas
 20 o rad i drindawd ai ras⁸
 a ddywod oll i ddafudd
 a fu / a rhag llaw a fudd⁹

¹ "A dysg yr hen Gymry da."

D. ab G.

² "Weithian, dioer ! oer addysg,
 Y mae cerdd feiniar i'n
 mysg."—*D. ab G.*

³ "Diflo anghyfan wan-gledr."

D. ab G.

⁴ "Ffydd."—*D. ab G.*

⁵ "Ddafydd."—*D. ab G.*

⁶ "Ni wnaeth clau ddewiniaeth
 cler

Ddafydd brophwyd ddiofer."

D. ab G.

⁷ "Onid o rawn."—*D. ab G.*

Ymddengys yn ol y cyfreithiau a
 briodolir i Hywel Dda mai ar delyn
 rawn y byddai y dysgyblion yn
 dysgu chwareu, cyn cael eu derbyn

yn gerddorion cyweithas, ac ym-
 ddengys fod tannau rhawn yn lled
 gyffredin yn y bedwaredd ganrif ar
 ddeg, fel y prawf y cywydd uchod.
 Ond deallwn oddi wrth llin. 12 y
 defnyddid crwyn neu berfedd
 defaid i wneyd tannau.

⁸ "Y Delyn rawn, dawn difas,
 O rad y Drindod a'i ras."

D. ab G.

⁹ "A ddyfod oll i Ddafydd,
 A fu, a rhagllaw a fydd."

D. ab G.

Dafydd Broffwyd—brenin Israel
 —oedd gan y bardd dan sylw yn
 llin. 12-14; ond ymddengys i ni
 mai Dafydd ab Gwilym a feddylir
 yma. Ac awgrymir fod y delyn yn
 dwyn ysbryd proffwydol arno.

- o ddechreu bud, brud, breisgfawr
 24 hud dudd brawd / myfyrdawd mawr¹
 ni does a wypon on iaith
 a gwybudd gaink na gobaith²
 i beri sain³ wb or swydd
 28 ond telyn ledr nid hylwydd
 ag⁴ ewin gorn dorn, difwyn
 a rhyw was diras yn dwyn⁵
 anodd i brentis fis fudd
 32 ystofi milaist efudd⁶
 ni ddaw kythrel kaeth hiraethlawn
 i radd i bo r delynrawn⁷
 anfad bla llun bwa llwm
 36 enfys ag ergrus gochrwn⁸
 ni cherais iowngais angerdd
 nai chatn bytynog nai cherdd⁹
 nai chwrr bergan disgamar
 40 nai llorf gam vn llwrf ai kar
 nai choludd sain damwain dig
 nai rhifwnt liw nai rhyfig¹⁰
 mae /n/ ddrwg dan bwyth yr wythmis
 44 llun a chroth lliain y chrus¹¹

¹ "O ddechreu'r byd, bryd breich-fawr,

Hydd ddyddbrawd, myfyrdawd mawr."—*D. ab G.*

² "Nid oes a fyn oes o'n iaith
O gwybydd gaingc, na'i
gobaith."—*D. ab G.*

³ "Son."—*D. ab G.*

⁴ "Ac."—*D. ab G.*

⁵ "A gwas, un diras, i'w dwyn."
D. ab G.

⁶ "Annawdd i brentis, fis fydd,
Ystofi milaist efydd."
D. ab G.

⁷ Nid ydyw llin. 33-34 yn *D. ab G.*

⁸ "Anferth o bla, llun bwa llwm,

Enfys ac echrys gochrwn."

D. ab G.

⁹ "Ni cherais, iawngais angerdd
Na'i chafn botymog, na'i
cherdd."—*D. ab G.*

Cyfeiria y ban hwn, ac o hyn ym
mlaen hyd llin. 63, at y delyn ledr.

¹⁰ Yn *Barddon. D. ab G.* lleolir
llin. 39-42 fel y canlyn :—

"Na'i choludd, sain damwain dig,
Na'i rhifwnt liw, na'i rhyfig;
Na'i chwrr bergam ddisgamar,
Na'i llorf cam, un llwrf ai câr."

¹¹ "Drwg yw dan bwyth yr
wythfys

Llun ei chroth, lliain ei
chrys."—*D. ab G.*

- gwryriad gwyllt ruad gau
 gwilff felen am gyffylau¹
 chwaer vndad chwerwnad hirnos
 48 ir hen fad felen yn rhos²
 sain gwydd kloff ar anoffrud
 son fawr wyddeles vn fud³
 rhwad mel'n bwdr grin, lam
 52 ysgyfarn waeddgarn yddgam⁴
 gwiddanod mewn gwedd anir
 gwrddau yn dalau am dir
 kowion brain yn ymgaingiaw
 56 kiwed yn ymglowed a glaw
 kafod genllusg yn kowain
 o du a mell't ar do main⁵
 ni liniwyd i ffarwyden
 60 nai chreglais ond i sais hen
 kryman pren i fursen fu
 krimog henwrach yn krymu⁶
 keisied pob prentis kysson
 64 o farsdir lloeger i fon⁷
 delyn eirian ai chanu
 i rannu dusc o rawn du⁸

¹ Yn dilyn llin. 44 darllena *D. ab G.* fel y canlyn :—

“ Ni luniwyd ei pharwyden
 Na'i chreglais ond i Sais hen ;
 Gweryriad gwyllt rhwad gau
 Gwilff felen am gyffylau.”

Gellir casglu oddi wrth hyn mai
 o wneuthuriad Seisonig yr oedd y
 delyn ledr.

² “ Chwaer undad, hwyrnad
 hirnos,
 I'r oer Fad Felen o Rôd.”
D. ab G.

³ “ Sain gwydd gloff, anhoff yn ffd
 Sonfawr Wyddeles ynfyd.”
D. ab G.

⁴ “ Ysgwd melin, lawdgrin lam,
 Ysgyfar waeddgarn wddgam ”

D. ab G.

Yn *Jes. MS.* y mae y yn “ melin ”
 wedi ei chroesi allan, ac i yn ys-
 grifenedig uwchben iddi.

⁵ Nid ydyw llin. 53-58 yn *Bar-*
ddon. D. ab G.

⁶ “ Crÿman pren o fursen fu,
 Crimog hen wrach yn crÿmu.”
D. ab G.

⁷ “ Ceisied pob prentis cyson,
 Hyd o Fars-dir Lloegr i Fon.”
D. ab G.

⁸ “ Delyn eirian i'w chanu,
 I ranu dysg, o rawn du.”
D. ab G.

mal ir oedd mae gyhoeddi
 68 yn oes yn henafed ni¹
 a ffeidied ddauged ddigwyn
 y dudd prentissiaid ai dwyn²

Iolo Goch ai kant

¹ "Mal yr oedd mau gyhoeddi
 Yn oes ein hen deidiau ni."
D. ab G.

² "Na cheisied, diged ddeugwyn,
 Y dydd brentissiaid i'w
 dwyn."—*D. ab G.*

LXXVIII.

*COWYDD YR HAUL.

(*O'r Add. MS., 14,906, fol. 84b*).

Heb law y nodiad sydd ar ddiwedd y cywydd yn yr ysgriflyfr uchod, ceir amryw resymau ereill dros ammeu mai nid Iolo Goch oedd ei awdwr. Ar ddiwedd y cywydd yn *Glanyrafon MS. K.*, fol. 70—yr hwn a gopiwyd yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, y mae "Iolo Goch" wedi ei groesi, mewn inc gwahanol, a "D^{dd}. ap Gwilym" wedi ei ysgrifenu mewn llaw ddiweddarach ar ymyl y ddalen. Hysbysir ni gan Mr Gwenogvryn Evans iddo ef ei weled mewn hen ysgriflyfr yn cael ei briodoli, a hyny yn ei dyb ef yn gywir, i Dafydd ab Gwilym. Hefyd, yn yr argraffiad cyntaf o waith Dafydd ab Gwilym (*Barddoniaeth*, tudal. 180) ceir y Cywydd—yr hwn yno a wna 76 o linellau—dan y penawd:—"Erfyniad i'r Haul dywynu Lles a Ffyniant ar Forganwg, am i wyr y fro honno ryddhau y Bardd o dan bwys cyfraith y Bwa Bach am ddwyn Morfudd." Nis gwyddom ar ba awdurdod y rhoddwyd i mewn y penawd hirfaith uchod. Nis gellir bod yn sicr am gywirdeb yr oll o hono wrth ddarllen y cywydd. Pa fodd bynag, ymddengys i ni yn benawd eithaf naturiol; ac hefyd mai ym Morganwg yr oedd yr awdwr pan ei cyfansoddwyd. Credwn hefyd, a barnu oddi wrth yr arddull, mai Dafydd ab Gwilym oedd yr awdwr, ond rhoddir ef i mewn am y rheswm fod enw Iolo Goch wrtho.

Yr haul deg a fyneges
rhed ti kyd bych nod y tes¹

¹ "Yr haul deg ar fyneges
rreti kud byth rrod y tes."
Glan. MS. K.

"Yr haul deg ar fy neges
Rhed ti, cyd bych rhod y
tes."—*D. ab G.*

- ¹tecka blaened i redeg
 4 ar helw duw yw garol deg²
 y sul enw disalw oleini
 siwrne faith yw dy daith di³
 or dwyrain wybyr loyw wybr lin
 8 gore lliw ir gorllewin⁴
 llawn o ras ith gwmpaswyd
 llywyrchu or ddeutu i ddwyd⁵
 Dy lewyrch (myn duw lowydd)
 12 ar hyd yr holl fyd a fydd⁶
 ro tra da haul trwy dy hoywliw
 a gad ir lleuad i lliw⁷— qu.
 Rhawl y gamp rhuol gwmpas
 16 rrod gron fawr i rrad ai gras⁸
 em liw-nef am oleuni
 y'mrodres y tes wytti⁹

¹ Yn blaenori llin. 3, ceir y ban a ganlyn yn *D. ab G.* :—

" O Wynedd, haelfedd hwylfa,
 I Forganwg dwg dydd da."

² " Teka blaened i redeg
 ar helw duw ywr haul deg."
Glan. MS.

" Tecca planed yn 'hedeg
 Ar helw Duw, yw'r haul
 deg."—*D. ab G.*

³ " Sul enw, disalw oleuni,
 Ymdaith faith yw dy daith
 di."—*D. ab G.*

⁴ " Or dwyrain wybr hoywybr
 hin
 gore lliw ir gorllewin."
Glan. MS.

" O ddwyrein-wybr, hardd-
 lwybr hin,
 Gorau lliw, i'r gorllewin."
D. ab G.

⁵ " Llawn o ras ith gwmpaswyd
 llywyrchu or ddeutu iddwyd."
Glan. MS.

" Llawn o ras i'th cwmpaswyd,
 Llewychu oddeutu yddwyd."
D. ab G.

⁶ Nid ydyw llin. 11-12 yn *D. ab G.*

⁷ " Trada haul trwy dy hoyw liw
 a gad ir lleuad i lliw."
Glan. MS.

" Tra-da Haul, trwy dy hoyw-
 liw .
 Y cad i'r lleuad ei lliw."
D. ab G.

⁸ " Rruwl y gamp rruol gwmpas
 rrod gron fawr i rrad ai
 gras."—*Glan. MS.*

" Rheol gamp'wybr loyw gwm-
 pas,
 Rhod gron, fawr ei rhad a'i
 gras."—*D. ab G.*

⁹ " Em liwne am oleini
 ymrodres y tes wyti."
Glan. MS.

" Em loywnef, aml oleuni,
 Ymmerodres tês wyt ti!"
D. ab G.

- goreu *Korff y blaened a garaf—* qa.
 20 gwyn dy fyd ar hyd yr haf¹
 Dyfod uwch lle difai dydd
 i ben morganwg beunydd²
 Di nag bobol doniog bybyr
 24 o dir gwent lle mae dar gwyr³
 hyd lle i meder ef hedeg
 glyn nedd bro taria nedd teg⁴
 erof haul, araf heulwen
 28 a nad ar y wen wlad wen⁵
 Na ryw law rag peidiaw pwynt wynt
 na rhew gormod na rhewynt⁶ ynt
 na gwenwyn sygyn rhag dygyn dig
 32 trwy goed nag eira trigedig⁷
 na chorwynt o bellwynt bill
 na chwerw wybyr yn echre ebrill⁸

¹ "Korff y blaened a gara
 gwyn dy fyd ar hyd yr ha."
Glan. MS.

"Gorau planed a garaf,
 Gwyn dy fyd, ar hyd yr
 haf!"—*D. ab G.*

² "Ben holl Forganwg beu-
 nydd."—*D. ab G.*

³ "Dinag bobl donnog bybur
 o dir gwent lle mae dar
 gwyr."—*Glan. MS.*

"Dinag bobl, doniog bybyr,
 O dir Gwent, lle mae da'r
 gwyr."—*D. ab G.*

⁴ "Glyn nedd bro tarianedd teg."
Glan. MS.

"Hyd lle y medri hedeg,
 Glyn Nedd, bro teyrnedd
 teg!"—*D. ab G.*

⁵ "Anad ary wenwlad wen."
Glan. MS.

"Erof haul, araf hoywlen,
 Na âd ar y win-wlad wen."
D. ab G.

⁶ "Na rry law rrag peidiaw pynt
 na rrew gormod na rrewynt."
Glan. MS.

"Na rhylaw rhag peidiaw pynt,
 na rhew ormod, na rhywynt."
D. ab G.

⁷ "Na gwenwyn sygn rrag
 dygyn dig
 trwy goed nag eira trigedig."
Glan. MS.

"Na gwenwyn o sygn dygn
 dig
 Trwy goed, nag eiry trig-
 iedig."—*D. ab G.*

⁸ "Na chwerw gwybr yn echre
 ebrill."—*Glan. MS.*

"Na chorwynt o bellynt bill,
 Na chrwybr yn nechrau
 ebrill."—*D. ab G.*

- Arwen di oroen yr dydd
 36 benwn morganwg beunydd¹
 a ffyrhawn lawn oleuni
 ymwel na ymel a mi²
 a dai dan wybren heno
 40 llen fraith ir gorllewin fro
 ymddangos erof kof kerth
 yn entrych wybyr kyn anterth³
 Dos ar fyneges a dwg
 44 gynyf i wym — morganwg⁴
 dithe daf gorseddfa serch
 yw g'ni fi ag anerch⁵
 tro dy orchymyn nid rhaid
 48 oi kylch neuaddau kalchaid⁶
 pob plas teg ywr kwmpas tav
 y llenyrch a'r perllanav⁷

- ¹ "Arwain di o raen y dydd
 benwn morganwg beunydd."
Glan. MS.
² "Arwain di orhoen y dydd
 I bennwn Morganwg beu-
 nydd."—*D. ab G.*
³ "A ffyrn hawn lawn oleuni
 Ymwel im emyl a mi."
Glan. MS.
⁴ "A phrynhawn, lawn oleuni,
 Ymŷl i'm emyl a mi!"
D. ab G.
⁵ "Ym ddangos ero kof kerth
 yn entrych awyr kyn an-
 terth."—*Glan. MS.*
 Gosodir llin. 39-42 ar ol llin. 8 yn
D. ab G.; a darllenant fel hyn:—
 "Od ei dan wybren heno,
 Llen fraisg y gorllewin fro,
 Ymddangos yno, co' certh,
 Yn entrych 'wybr cyn anterth."
 Ac yn dilyn llin. 38, ceir y ban a
 ganlyn yn *D. ab G.*, yr hwn nid yw
 yn y testyn nac yn *Glan. MS.*:—
 "Dull mawr cyfanhedd-lawr cain,
 Dyred eilchwyl i'r dwyrain,—"
⁴ "Gynyf i wyr forganwg."
Glan. MS.
⁵ "Dôs ar fy neges, a dwg
 Ganwaith i wlad For-
 ganwg."—*D. ab G.*
⁶ "Dithe da gorseddfa serch
 yw kyny fi ag anerch."
Glan. MS.
⁷ "Dyddiau da gorseddfa serch,
 O genyf fi, ag annerch!"
D. ab G.
⁸ "Tro di orchymyn nid rraid
 yw kylch neuaddau kalch-
 aid."—*Glan. MS.*
⁹ "Tro, dy orchymun nid rhaid,
 Cylcheu neuaddau calchaid."
D. ab G.
¹⁰ "Pob plas teg ywr kwmpas
 kau
 y llenyrch ar perllanau."
Glan. MS.

- kadw bob man a chyfanedd
koed a maes lle i kaid y medd¹
lle gŵraidd llu a *gerwin* gwerin
lle da gwir ar lled ar gwin²
lle i seiniodd llios anerch
lle dewr mab lle diwair merch³
lle hawdd ar guoedd llu hoyw
a gweled diwrnod gwiw-loyw⁴
goreufydd ai gwiw ofyn
gwraig wych yn gwisgo *gray*/ gwyn⁵
rrof henw gid rrwyl hinon
ar leuad teg ir wlad hon⁶
- “ Plasau teg yw'r *pepys* tau,
Y llenynrch, a'r perllanau ! ”
D. ab G.
Yn yr “Eglurhad o Eiriau Ang-
hyfaith” ar ddiwedd *Barddoniaeth*
Dafydd ab Gwilym dywedir wrthym
mai “Pebyllau” yw *pepys*. Yn
dilyn llin. 50 ceir y ban canlynol
yn *D. ab G.* :—
“ Hynod ydyw Dduw dy hanes,
Hebrwng drwy'r 'wybr terydr
tes ! ”
¹ “ Koed a maes llei kaid y
medd.”—*Glan. MS.*
“ Cadw bob man cyfannedd,
Coed a maes, lle caid y
medd.”—*D. ab G.*
² “ Lle gwraidd llu a gwerin
lle dawgwr lle da y gwin.”
Glan. MS.
“ Lle gorau llu a gwerin,
Lle da gwyr, eu llad, a'u
gwin.”—*D. ab G.*
³ “ Lle seiniodd lliaws anerch
lle dewr mab lle diwair
merch.”—*Glan. MS.*
“ Lle daw pob man i'w han-
nerch,
Lle dewr mab, lle diwair
merch.”—*D. ab G.*
- ⁴ “ Lle hawdd, ar gyfair llu
hoyw,
Gweled mewn diwrnod gwiw-
loyw.”—*D. ab G.*
⁵ “ Goreu fydd ai gwiw ofun
gwraig wych yn gwisgo grae
gwyn.”—*Glan. MS.*
“ Goreu-ferch a'i gwarafyn,
Gwraig wych yn arwain gra
gwyn.”—*D. ab G.*
Cyfeithir y llinell olaf gan y Dr.
Pughe (*Geiriadur*, s.v. “*Gra*”) fel
hyn :—“ A fine woman trailing
a white fur.” Ymdengys hefyd yr
arferid y gair “arwain” am *wisgo* :—
“ Arwain aur a main” (Cywydd
Rhif LII., llin. 3).
⁶ “ Rrof henw gida rrwyl hinon
a leuad teg ir wlad hon.”
Glan. MS.
Y mae y llinellau hyn yn *D. ab*
G. yn dilyn llin. 66 ; a llin. 65-66 yn
dilyn llin. 60, y rhai a ddyfynwn yma,
gyda dwy linell o ychwanegiad :—
“ Cornel ar gyfair Cernyw,
Cyntedd gwin, a medd ym yw.
Rhof henw, gyda rhwyf hinon
Arlywau teg i'r wlad hon,
Ar y gair, o wir gariad,
Iarlles, Arghwyddes pobgwlad.”

64 para wlad goleuad glwys
 prydydd ai geilw paradwys¹
 kornel ar gyfair Kernyw²
 kyntedd gwin a medd ym yw
 pe bai trwy gred i bawb gri
 68 na bai rrydd i neb roddi³
 . fo gae heb ofn na gwg,
 i gynnal y mor⁴ 1400

† Dafydd ap Gwilym
in other MSS.

† Iolo Goch ai kant

¹ Nid ydyw llin. 63-64 yn *D. ab G.*

i gynnal ymorgangwg."

² "Keirnyw."—*Glan. MS.*

Glan. MS.

³ "Pe bai drwy gred i bawb gri
 na bai rydd i neb roddi."

Yn blaenori y ban hwn ceir
 pedair llinell yn *D. ab G.* :—

Glan. MS.

"Pe bai ar gred, pybyr gri,
 Na bai rydd i neb roddi."

D. ab G.

"Ni fedrai, fwnai fynag,
 Neb o Forganwg roi nag;
 Pe caeth i fardd bywiog cân
 Y byd oll, a bod allan,
 Ef a gai, heb ofwy gwg,
 Ei gynwys ym Morganwg."

⁴ "Efo gae heb ofn na gwg

ENGLYNION AR AMRYWIOL DESTYNAU.

LXXIX.

1.—[ENGLYN DIFYFYR].

(O'r Add. MS., 14,964, fol. 189b).

Coffa ben a llen a llywenig—Lys

a las nos Nadolig

Coffa golwyth Amwythig

O Tân a neidiodd naid dig.¹

Iolo Gox.

2.—ENGLYN CRONICLAIDD.

(O'r Add. MS., 14,994, fol. 159).

Mil pedwar cant heb ddim mwy cof ydyw

Cyvodiad Glyn Dwordwy

A phymtheg praff ei saffwy

1415

Bu Owen hen heb ^{ddim} hwy²

byw yn

Iolo Gox.

3.—I RICCARD UCH OLWIN ARGLWYDD
DINAS REIDDIN.*(O Ysgriflyfr perthynol i Mr. N. Bennett, Glanyrafon).*

Ni chiliodd Richard uch Olwin—eurglod

Arglwydd Dinas Reiddin³

Vylchiwr câd vaeddiad vyddin

Erioed led i droed o'r drin.

Iolo Goch.

¹ Gwel "Braslun," &c., tudal. 51. ond y mae llinell rhwng pob un o
² Yr un, tudal. 70. Blaenorir honynt yn yr ysgriflyfr.
hwn yn yr ysgriflyfr gan y tri a
geir o'i flaen yng *Nyreal Llundain*, ³ Pa le mae Dinas Reiddin?

4 —[ENGLYN DUCHAN].

(*O'r Add. MS., 14,964, fol. 189*).

Allan y trigidi tref hirgefn dri xwybl
Allwydd tref hirgefn hwyrghabl
Ellyll ysgrefyll ysgrybl
Y Deryn dyryn diwallbobl¹

Iolo Gox.

5.—[ENGLYN I EWYLLYS DA].

(*O'r Add. MS., 14,964, fol. 183b*).

Lles iwr Byd a'r Iexyd lles oruxa—Ddu w
llês i ddŷn i fara
llês yw cowaeth ni fetha
^{id}_{per} llês dim heb wlyys dâ

Iolo Gôx.

6.—[ENGLYN I BOEN MEWN PEN].

(*O'r Glanyrafon MS. L., p. 78*).

Peidied nag oeded awdur gwych heddiw
a chodi duw /n/ eglur
peidiaw ni ddiylch cylch cur
pan ddel yn y pen ddolur.

Iolo Goch.

¹ Y mae Englynion Rhif 4 a 5 y canlyn :—
i'w gweled hefyd yn *Add. MS.*,
14,964, fol. 59b, y naill ar ol y llall ;
ond y mae yn amlwg nad ydynt ar
yr un testyn. Englyn Rhif 4 ydyw
yr olaf o'r ddau yno ; a darllena fel

“ Allan y trigi di drixwybl
Allwydd tref hirgefn hwyrghabl
Ellyll ysgrefyll ysgrybl
Y Deyron dyryn diwall bobl.”

7.—ENGLYN AR FEDDFAEN D. AB G. YM
MYNWENT TAL-Y-LLYCHEU.

(*O'r Iolo MSS.*, p. 488).

Hardd Lasnen Ywen Llwyn Eos *Dyfi*
Mae Dafydd i'th agos.
Mae'n y pridd y gerdd ddiddos
Diddawn yw pob dydd a nos.
Iolo Goch ai cant.

8.—[ENGLYN I'R DRINDOD.]

(*O Gorchestion Beirdol Cymru*, arg. 1864, tudal. 110).

Duw Dad, Duw Fab rhad priodol—dwysbraff,
Duw Yspryd sancteiddiol;
Duw Tri'n Un nis detry'n ol,
Duw yw hwn diwahanol.

9.—[DAU ENGLYN I'R CWRW (?).]

Y ni sydd gyfrifol am y penawd, ond ymddangosodd y nodyn a ganlyn, yng nghyda'r Englynion, yn *Y Llan a'r Dywysogaeth* am Mehefin 28, 1895. Ymddangosant i ni fel cynnyrch oes ddiweddarach nag eiddo Iolo Goch, ond wele hwynt, yn gystal a'r nodyn:—

“Mr. Gol,—Llawer gem ffrwyth ymenyddiau ein hynafiaid a gollwyd drwy beidio eu croniclo a'u tynu drwy yr argraffwasg. Pob hen ysgrif a welaf, byddaf yn amcanu ei thynu drwy burdan y Wasg, fel y b'o ar gof a chadw i'r oes a ddel, i ba rai y dylem ystyried ein hunain yn ymddiriedolwyr. Wele ychydig o englynion a gefais ar ddalenau carpiog hen lyfr cownt un o deulu Isallt, Eifonydd. Nis gwn pwy yw eu hawdwyr oll. Dyma ddau englyn oddiwrth

Iolo Goch. Rhyw gymedrolwr llac oedd yr hen fardd,
feddyliwn. ALLTUD EIFION.

Yfed y ddiod sydd dda—ond eto

Mae'n dotian y gwycha';

Ei hyfwr a fydd hyfa'

Y ffela 'rioed yn ffwl yr ä.

Yfed yn galed heb g'wilydd—o'r bir

Boreu a diweddydd;

Nid oes pen nac ymenydd,

Meddaf fi, nad meddw fydd.

IOLLO GOCH."

RHYDDIAETH.

I.

ARAITH IOLO GOCH.

(*O'r Add. MS., 14,973, fol. 111b.*)

Ceir yr "Araith" a ganlyn hefyd yn *Add. MS.*, 14,873, 14,894, a 15,034; ac y mae yn argraffedig yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, cyf. i. tudal. 21; ac yn *Y Brython*, cyf. iii., tudal. 63.

Kyvoeth Ruawen befr vab Throthach weledig¹ oedd wynedd gint, a chyfoeth Brochwel Ysgithrog² oedd Bowys, a makwy kystuddiawg deuruddlas³ a wnaeth o gariad rhiaian befr, yr oedd yw i ledrad garw ar rhaiain ardderchawg o adeinllwyd Brochwel ysgythrog yn hon oedd yn rhagori o bryd ag osgedd, glendid a goleuni rhag y ddwy seren ar bennig nid amgen yr haul ar lleuad y rhai oedd yn rhoi goleuad ir holl fyd nid amgen deau a dwyrain, gogledd, A gorllewin lle drwg oedd i ddyn arwain nychglwyf o gariad yr yn bennes, kanys ni allai, i, ddwyn⁴ oi hanfodd, ni chai yntau hithau oi bodd, yno i kafas yn i gyngor, anfon atti ddiwyd was synhwrol, parablgroiw, ehudaidd, a hudai yr adar gwlktion or diffeithgoed, anamla,⁵ a rhagddo

¹ "Cyfoeth Rhufawn Befr fab Throthach Wledig."

Brython.

Gwel "Araith i Ddafydd ap Bleddyn."—Rhif XXIII.

² Dywed Sieffre o Fynwy (*Text of the Bruts*, p. 238) fod Brochuael Yskithra6c yn "tywyssa6c kaerlleon." Dywedir hefyd ei fod yn

dywysog Powys, ac yn fab i Cyngen ap Cadell Deyrnllwg; ac iddo gael ei ladd mewn brwydr ar lanau y Dyfrdwy yn y flwyddyn 612.

³ "A Macwy serchog-ddeddf cystuddiawg."—*Brython.*

⁴ "Ei dwyn."—*Brython.*

⁵ "Yr adargwylltion o'r diffaethgoed anamlafanial anaele." *Brython.*

y kerddodd y gwas or bore hyd haner dydd, ag o haner dydd¹ oni oedd gyfuwch yr haul a blaen y gwydd: Ag yno ef a welai neuadd gaerfawr fynor, a thyrau amlwg odidowg-waith ar i gwaith kaer drof arni,² a rhagddo y doeth y gwas, oni ddoeth lle / i, roedd yr un bennes gwedi³ ymgyfansoddi mewn amrafaelion fain gwyrthfawr: Rowbi,⁴ perl, a saphir mewn godidowg waith o Bali, didolwaith, yn gwneuthur sydanwaith.⁵ Ag yno y dyfod y gwas worthi,⁶ henphych gwell heddiw o dda ag o ddyn Arglwyddes y tegwch, Meistres y goludoedd, ag ymperodres y rhianedd, y mae y makwy serchowgddeddf, gystuddliw, deuruddlas o gyfoeth. Rhuawn befr yn nychu oth gariad, mae dy gyngor foneddigferch hyny:⁷ heb y ferch wrth y gwas hwyl ddisyfydd yw honno,⁸ a minau sydd a chenedl ag a chynghorwyr ym,⁹ a ffann gaffwy fi y rhain ynghyd ti a gei ateb: Atteb Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pan fo kyn rhydedd i goch y sebon,¹⁰ ordderchu gwraig Gwylm ap Iolo, ag a fu i uther Bendragon ordderchu Eiger gwraig Gwrlais Iarll Kerniw:¹¹

¹ "Hyd anterth; ac o anterth onid oedd gyfuwch."

Brython.

² "A thyrau amlwg odidog-waith a gwaith caer dlos arni."—*Brython.*

³ "Yr unbenes fawr, uchel ei hystâd, wedi."—*Brython.*

⁴ "Riwbi."—*Brython.*

⁵ "Yn gwneuthur sidanwaith, o aur a sindal."—*Brython.*

⁶ "Ac yna y dywad y gwas ei neges wrthi."—*Brython.*

⁷ "Wrth hyny?"—*Brython.*

⁸ "O was, ebr y ferch, hwyl ddisyfyd yw hono."

Brython.

⁹ "A chenedl feilchion a chynghorwyr doethion ym'."

Brython.

¹⁰ "Cyn rhydded i Goch y Sebon."

Brython.

Diammeu fod Coch y Sebon a Gwylm ab Iolo yn gydoeswyr âg awdwr yr "Araith"—yr un modd a'r personau ereill a gymherir ganddo â'r cymmeriadau hanesyddol, neu chwedlonol, a nodir ganddo. Ond y mae yn ddrwg genym nas gallwn roddi unrhyw wybodaeth am danynt.

¹¹ Adrodda Sieffre o Fynwy (*Text of the Bruts*, pp. 175-180) y chwedl am ddichell Uthr Bendragon yn twyllo Eigyr, gwraig Gwrlais, am eu priodas, ac am enedigaeth dau blentyn o'r briodas hono, sef Arthur, ac Anna—mam Gwalchmai a Medrawd.

Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny: pan fo kyhyd braich Gomach grythor a braich Kaswallawn llawir,¹ y gwr a gyrhaiddai y maen o ddiair y llawr, i ladd y fran heb ostwng i gefn, kanys kyd oedd i fraich ai ystlys, ag oi ystlys hyd y llawr: Arglwyddes heb y gwas, pa bryd fyd hyny:² pan fo gystal gwalltwr monigrach o faelor,³ ag Absalon ap Dafydd broffwyd yr hwn y rhoe ferched yr India naw talent o aur am un blewyn o wallt y benn, i wneuthur gwaith ag anrhydedd⁴ yn i gylch: Arglwyddes heb y gwas, pa bryd fydd⁵ pan fo gystal gafael Atkyn grupyl⁶ a Glewlwyd gafael-fawr⁷ y gwr a dderchafodd y pair, i, lawr o ddiair y tân yn i un llaw y llys Taran tair ynys brydain, a chig llen saith ychen ynddaw yn ferwedig/ Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pa fo kystal gwely Madog hirgig⁸ ar adlaw llynn gwrth yn rhossir y Môn,⁹ a math mab Mathonwy, y gwr ni chysgai ond ai draed ymloneg gwraig ne forwyn Ifank, ag ni ddeffroe onis deffroe rhyfel: Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pan fo gystal seithydd Deikin, ddiffwrwyth,¹⁰ a Mydr fab Mydrydd¹¹ y gwr a fedrodd seuthu a tharo y dryw trwy ewyn i ddwygoes, o gaenog¹² yn neffryn

¹ "Kat6alla6n llawir brenin g6yned," yn ol Sieffre o Fynwy (*Text of the Bruts*, p. 200); ac yn ol Warrington's *Hist. Wales*, a Williams's *Em. Welshmen*, yr oedd Caswallon Lawhir yn fab i Einiawn Yrth ab Cunedda, yn dywysog ar Ystrad Clwyd yn y Gogledd, yng nghyda Gwynedd, a rhanau o siroedd Caerlleon a Chaerhirfryn, yn y bummed gaurif.

² "Pa bryd y bydd hyny?"

Brython.

³ "Gwalltwr Monigrach o Faenor."—*Brython.*

⁴ "Gwaith anrhydeddus."

Brython.

⁵ "Pa bryd y bydd hynny?"

Brython.

⁶ "Atcyn Grupl o Eryri."

Brython.

⁷ Glewlwyd Gafaelfawr.—Gwel *Mabinogion.*

⁸ "Madog Higur."—*Brython.*

⁹ "Ar adlaw Llyn Gwrth, yn Rhosaur, ym Mon."

Brython.

¹⁰ "Deicyn Ddiffwrwyth o Wynedd."—*Brython.*

¹¹ Cyfeirir at hwn yn chwedl Kulhwch ac Olwen (*Mabinogion*, Oxford edit., p. 112) fel hyn:—

"Medyr vab methredyd, a uetrei y dry6 yn esgeir oeruel yn Iwerdon tr6y y d6y goes yn gythrymhet o gelli wic."

¹² Clocaenog, plwyf yng nghantref Rhuthyn, Sir Ddinbych.

Klwyd hyd yn esgair oerfel yn y Werddon: Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pan fo gystal pedestr phwg Sodlau Segur o fon/¹ ag Edeyrn ap Gwyddno garanir,² y gwr aeth i redeg³ ar gwynt pan ddoeth dirfawr lynges, i ddwyn gwraig Phin ap Koel i drais: Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pan fo kystal seithydd Dafydd bach ap Madoc Wladaidd yn ol llynn gwerth ydeirion ag Uriel Wastadiaith⁴ y gwr ni chlybu iaithai glustiau nistraeth-ai ai dafod, kyn glymed ag i klowai: Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny: pan fo kyn decked Stiphan y brain, a Sandau bryd Angel,⁵ y gwr a ddiengis or gad gamlam rhag i decked/kanys nid y myrrai neb arno gan dybiaid mae Angel adeiniog or nefoedd pan i gwelid oedd: Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pan fo kyn hackred Madog Gloddaith,⁶ a Morfran ap Tegid,⁷ y gwr a ddiengis or gad gamlan rhag i hackred gan bawb yn tybiaid mai kythrel

¹ "Pedestr Ffwg Sodlau Segur, o Fon."—*Brython*.

² "Edeyrn ab Gwyddno garan-hir."—*Brython*.

³ "I gydredeg."—*Brython*.

⁴ Gwrhwr Gwalstawt Ieithoedd, am yr hwn y sonir cymmaint yn chwedl Kulhwch ac Olwen, a feddylir.

⁵ "A sande bryt agel. ny dodes neb y wae6 ynda6 yg kat gamlan—rac y decket." (*Mabinogion*, Oxford edit., p. 108.) Mab oedd Sandde i Llywarch Hen (Gwel *Myv. Arch.*, p. 95).

⁶ Yn ol y Chevalier Lloyd (*Hist. Powys Fadog*, vol. iv., p. 149) yr oedd Morfydd, gwraig Madog Gloddaith, yn ferch i Syr Gruffydd Llwyd o Dregarnedd, ym Môn, yr hwn a aeth a'r newydd am enedig-aeth ei fab (Edward o Gaernarfon) i Edward I. i Ruddlan; a'r hwn, yn 1322, a garcharwyd yng Nghastell Rhuddlan am wrthryfela yn erbyn

y brenin. Eto, yn *Hist. Powys Fadog*, vol. vi., p. 258, ceir "Cywydd Marwnad," o waith un Robin Ddu ab Siencin, i saith o blant—pum' mab a dwy ferch i Gruffydd ab Rhys ab Gruffydd ab Madoc Gloddaith ab Madoc ab Ierwerth Goch o'r Creiddyn—y rhai a fuant feirw o'r pla, yn yr un wythnos, yn y flwyddyn 1448. Dengys yr amseriadau uchod fod Madog Gloddaith a Iolo Goch yn gydoeswyr.

⁷ "A moruran eil tegit. ny dodes dyn y araf ynda6 yg kat gam-lam rac y hacret. pawb a debygty y uot yn gythreul canhorth6y. ble6 oedd arna6 ual ble6 hyd." (*Mabinogion*, Oxford edit., p. 108.) A dywedir am dano yn y Trioedd (*Mabinogion*, p. 304):—"Tri es-gemyd aerenynys prydein. moruran eil tegit. a gwgon gledyfrud. a gilbert kat gyffro."

oedd o uffern pan i gwelid : Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pan fo gystal trem Bleddyn Rabi¹ a threm Tremydd ap Tremhidydd,² y gwr a ganfyddai draian y gwybed ymhelydr yr haul ymhedwar ban byd : Arglwyddes heb i gwas³ pa bryd fydd hyny : pan fo gystal Klustiau Deikin fongam⁴ o fachynllaith, a Chlustfain ap Klustfeinir⁵ y gwr a glywai drwst y gwlithyn yn syrthio oddiar y gownen ymhedwar ban byd : Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny : pan fo kyn ddiweiried Gonerus Ruthun, a Gwenfrewy, yr hon a ddewissodd ladd i ffen rag i chael, a bod iddi achos a gwr unwaith : Arglwyddes heb y gwas pa bryd fydd hyny, pan fo kyn decked ol Dwgen Dwygen dugloff⁶ yn kerdded Tomydd y Bala, ag ôl Olwen⁷ ferch ysbaddaden ben kawr, yr honn y tyfai bedair meillionen gwnion yn olau i thraed pa le bynag i kerddai : Ag fel hyn i doeth y gwas ar atebion at y Makwy serchowgddedd, deuruddlas, o gyfoeth Rhuawn befr :⁸ Terfun.

Iolo Goch ai kant.

¹ "Bleiddyn Rabi."—*Brython*.

² Dywedir yn chwedl Kulhwch ac Olwen (*Mabinogion*, Oxford edit., p. 109) fel y canlyn :—"Drem vab dremidyt. a welei o gelli wic yg kernyô hyt ym penn blathaon ym prydein. pan dyrchauei y gôydbedyn y bore gan yr heul."

³ "Arglwyddes, ebr y gwas."

Brython.

⁴ "Clustiau Deicyn Fyddar, o Fachynlleth."—*Brython*.

Yr oedd un Deicws Vongam yn byw yn Llwyn y Cnotiau, Sir Ddinbych ; ac efe a roddodd y gloch fawr, a elwir "Cloch Ddeicws," i Eglwys Gwrecsam ; a thybiwn ei fod yn cydoesi â Iolo Goch (*Cymh. Hist. Powys Fadog*, vol. ii., pp. 120, 137).

Ond nid oes brawf na thebygolrwydd mai efe a feddylir yma.

⁵ "A chlustiau Clustfain ab Klustfeinir."—*Brython*.

Un o wylwyr Arthur oedd Clustfain (*Mabinogion*, Oxford edit., p. 245).

⁶ "Pan fo cyn deced ol troed Dwgan Dugloff."

Brython

⁷ Am yr Olwen hon y traethir yn chwedl "Kulhwch ac Olwen" (*Mabinogion*, Oxford edit., pp. 100-143).

⁸ Terfyna yn *Y Brython* fel hyn :—"Ac felly y daeth y gwas a'r atebion yma at y Macwyserchogddeddf ddeuruddlas, o gyfoeth Rhufawn Befr, ei feistr."

II.

YMA I DECHRE Y LLYVYR A ELWIR YMRYSSON YR
 ENAID AR CORPH YR HWN A DROES IOLO GOCH
 O LADYN YNGHYMRU AECC.

(*O'r Add. MS., 16,034, fol. 172*).

Sef a ^{sganai}_{ganai} yr ennaid wrth y Corff dan ochain ac ^{wbain}_{ibain} yn
 dost a druanaf gorff dielw o bryd ar ddiysdyr gogaf dy gam
 weithredoedd ath ffolineb ffynnon y ddryc vuchedd a cham
 valchder drwc o beth ith ddysgwyd tra fuost yn oydran
 yvyngtid yn y byd hwn.

- (¹) (¹) *Pam ir oydd yr holl yn uvyddhau iti ddoy ac*
wrth dy lywodraeth?—pa le i mae y tylwyth a oeddith
 (²) galyn di ddoe (²) Delid coof ytt nad ydwytt ti yn
^{y tyrrau} calchiad ^{pedroni} nai yn y lleoydd meinain² y
^{dyrrau} byddau yr arlwy mawr ith erbyn yr wytti heddiw
 hagen mwen³ pwll priddlyd cryngwaith a dayardor
 wedi syrthio arnad ir bod yn eiddotti ddoe yr holl
 vyd yn rhydd nid oes itti heddiw ond saith
 (³) droedvedd or ddayar—! ^{oi haf} oeh vi! oeh fi (³) myvi
 gwedi vyngwneuthur yn deilwng am purhau
 o gred a bedydd amrhoddi mewn ffydd Grist ar
 awr i doythum wrth dy lywodraeth di tydi am
 llygraist i yn halogedic Ni adodd dy anwasdadrwydd di ymi
 gyrchu offerrennau na llawenhau gweiniaid nac edrych y
^{y claf} na dilladu noyth na rhoi bwyd i newynoc na diod i
^{cleision} sychedic na mynegi y ffordd i anghyvarwydd na chynghori
^{annoeth} i mae hyny heddiw yn dywymedic i mi ac i. titheu
^{ffool} heddiw ac ni allai dyvodai yr holl pobloedd vynegi maint
^{fy mhoesau am gohai} i yni oddef ar goval y sydd ^{rhag na chaffwy drugar-ld}
^{yw poyuna ir wyt} gan Dduw or nef ddydd Brawd am dy ddrwg di—Mae yr

¹ Syganai = sganai, ys a ganai,
 ys ynganai = *he said*.

² Meinion?
³ Mewn

ysgyvaythau mawr o aur ac arrian a'r trysor a guddiaist—
 mae y cestell ar neuadde mawr adeiledaist—mae y llugyrn
 goleu a oyddyt—mae y llyssieuoydd mawrweirthioc ar
 adar ar gwin a lewaist a thydi heddiw yn fwyd i bryfed—
 meddylia yn ysbys ai da dy le di heddiw a ddugost di
 o drais a chydernid gan valais a thwyll iar bobyl y byd,
 angau ai duc hwynt oll ^{tithau oll} ^{oddarnatti} heddiw a dybygidi am y
 gwragedd teec ar merched y hrai i hroddaist dy dda yn
 orwac uddunt, a hevyd dy dad ath vam ath vrodur ath
^{senedi} ^{gynnesoyried} oll y hrai a oydd yn dy ymgleddu di ^{gynt} ^{ddoy} nid oes
 neb heddiw yn dwyn coof am dannat nac yn darbod pa le i
 bych canis hwynt a gowsant dy swllt dy drysor ath am-
 guedd pan vuost varw dy dir dy ddayar dy Dai dy Blassau,
 hwynt biau oll heddiw, Ni thybygaf i i rhoddai dy wraic di
 di ath veibion un Erw or tir ^{er} ^{yn} tynnu ni ^{an} ^{da} dau allan on
 poynnau ar yr awr hon—Am hynny gwae di na wyddost
 mor dywyllodrus yw y byd a maint i mae cythreulied yn
 ceysio craff ^{arnom} ^{arno}—Gwybydd di naad ydiw y gwisgoydd y
 porffor ar mentyll teec amdannatti heddiw eiythyr bod yn
 dramawr gan dy wrraic ath sucuttorrion¹ rod di dwy
^{lathen} ^{lathennaid} o lyain ith hamdoi ne ir cyddio dy Gorff—a
 dybygidi etto er hyn na ddaw arnatt amgen dialedd noc
 yssydd heddiw—Ef a ddywaid yr Ysgrythyr lan i doi di
 i gyd boini amyvi ddydd Brawd ac ymaith idd af ^{oddiwrthyd} ^{iddiwrthyd}
 cannis na elli fyned iun erbyn am a dreuthais wrthyd—
 Ynna ir atebodd y Corff ac a ddyvod gwir yw, mi a
 wneuthum lawer o ddrwc a ffechode Eissioys ni allwn
 wneuthur dim panna bai dyvôd yn cydsynniaw a mi yr
 Enaid Aha Aha myvi glowa gennytt air o ddadyl ai nid
^{a cheisio bwrw arnaf a y cerydd oll} ^{oys eiasio bwrw cerrydd arnaf i}—Myvi a vum gerryddus hagen am
 adelytt dy chwant ath rryditt tra vuost yn y byd i wneuthur
 drwc a ffechodau yr hwn ni adawai dy anwastadrwydd
 di ath gam ywyllys ei i mi orvod arnatt a phann oythwn i
 yn damuno dy ^{gweib} ^{ddovi} di drwy syched ac annwyd annoithni ni

¹ Y mae y ddau air—"ath sucuttorrion" wedi eu croesi allan yn yr ysgriflyfr.

adai natur y Byd pechadurus dy ddovi di nath osdegu, ac
 velly i buost di yn drecha ac yn wassanaythwr tywyllodrus
 i myvi o herwydd dydi am [tynnaist yn dy ool drwy dy
 enwired ac am rhoddaist mewn pydew pechodau Ceryddus
^{hefyd y bum i &c.} a myvi yn arglwydd ^{heddiw rann i} arnatt nath ffrwynais
 rhac dy ddrwc vuchedd—a sef a wnaeth i mi hynny tybygu
 gan bob awr yr oyddwn i peidiant ath ddrwg ath a garredig-
 aeth ac nad ai gythreulied i ti beidio gan ymado ar byd
 tragwyddol er degravivch pechodau canis ni bu ddim
 digrivach no ffechode ^{tra fyddai ynddo na mwy i ryfys na'i gadarnyd} A ettwa
^{trauther yoddigonnol ymddunt}
 er hynn nid arbedodd angau dy di er maint dy gyvoyth
 canis mynych y digwydd ir neb mwya i gyvoyth ai
 anrhydedd yn y byd hwn oni vedrai i lywodraythu megis
 ac i perthynai mae mwya a vyddai y cyvri ar dialedd ynnol
 —Ychydic oth gymydeion¹ ath gerraint ir maint ith gerrynt
 a thi yn vvw yn y bydd² avai yn hawdd ganthynt edrych
 arnatti heddiw ath esgyrn yn vriwedie ar Bengloc yn vriw-
 doll a lle y llygaid yn gaubylle, ar dannedd yn hadyl
 bwdwr ar dwylaw wedi syrthio oddiwrth y Corff ar enawd
 yn lludw priddlyd—Ynna ir atebodd y Corff ac a ddyvod
 wrth yr ennaid pannid yn y Galon y buost di yn trigo ar
 galon a veddylia y pechod cyn i wneuthur ac am hynny
 cynt yw meddwl no gweithred cyn i pechaist di no myvi,
 canis am bechod meddwl i syrthiodd Lussiffer yn y pydew
 Brwmstan ^{ufernawli} or lle nid a ef allan byth o honnaw, ynna ir
^{yn uffern} atebodd yr enaid ac a ddyvod ef vo a roddes Duw ei Bum
 synwyr Corfforol imgadw rhag gwneuthur drwc a ffechodau
 ai ni rodded ym mi yr un ac nid ydwyf gerryddus ddydd
 Brawd pan vo yn Ysgrivennedic gweithred pawb yni daal ar
 fynydd olifer ar pryd ni aller gwadu yr hyn a wnaythpwyd
 yn y byd yma—Yr hun myvi adolygaf ir arglwydd yn eisde
 ar ddeau y tad holl gyfaythawc ac yn barnu ar y byw ar
 meirrw vod yn gyvion vrowdwr rhyngom ni herwydd

^{yn ymryson au dan ateb}
^{an ymryson a'n gweithredoedd*}

Velly Tervyna.

¹ Gymdeithion ? ² Byd ?

CYWIRIADAU A CHWANEGION.

[Gan fod llythyrenau weithiau yn syrthio ymaith y funyd olaf, nis gellir beio yr argraffydd na'r golygydd am lawer o'r gwallau a nodir isod].

Tudal. 4, nodyn 2, llin. 1, *yn lle* "yn meddiant" *darllener* "ym meddiant."

Tudal. 20, llin. 29-30, *Dilêr* "Wedi hyny, daeth yr etifeddiaethau eang hyn i feddiant Hugh le Spencer ; ac yna i Henry, Iarll Lancaster."

[Wrth geisio cywiro gwall, pan oedd y gwaith yn myned trwy'r wasg, y gwnaed y camgymeriad hwn. Cafodd Hugh le Spencer, neu Despenser, arglwyddiaeth Dinbych ar ddifeddianniad Alicia, ond nid oes genym unrhyw brawf iddo gael Iarllaeth Lincoln. Ac hyd y gwyddom, ni fu a wnelo Henry, Iarll Lancaster, o gwbl ag Arglwyddiaeth Dinbych. Methasom a chael allan pwy oedd yn dal Iarllaeth Lincoln o ddifeddianniad Alicia hyd pan daeth i feddiant Henry, Iarll Lancaster. Er yn gofidio o herwydd y frawddeg anffodus hon, nid ydyw yn effeithio mewn un modd ar ein hymdriniaeth ar y cwestiwn "Pwy oedd Mam Iolo Goch?"—o blegid, yr oedd Iolo, yn ol pob tebyg, wedi ei eni cyn i Alicia golli yr etifeddiaethau a nodir].

Tudal. 29, llin. olaf, *yn lle* "y drydedd yn y daflen," *darllener* "y bedwaredd yn y daflen."

Tudal. 32, llin. 3, *yn lle* "Adda ap Y yr yna," *darllener* "Adda ap Y ynad."

Tudal. 39, nodyn 4, *yn lle* "Saith Pechawd marwawl 6," *darllener* "Saith Pechawd Marwawl, § 6."

Tudal. 48, llin. 12, *yn lle* "yn Mynachlog," *darllener* "ym Mynachlog."

Tudal. 65, 67, 69, 71 (ar y brig), *yn lle* "Gwrthryfel Owain Glyndwr," *darllener* "Bardd Owain Glyndwr."

Tudal. 75, llin. 25-32. Pan yn rhy ddiweddar, hysbyswyd ni drachefn gan Mr. Davies-Cooke, Gwysaney, iddo dd'od o hyd i'r ysgriflyfr y cyfeirir ato, yr hwn sydd yn cynnwys ychydig o gywyddau o waith Iolo Goch. Ond y mae y cywyddau a nododd yn argraffedig yn y gwaith hwn.

Tudal. 110, nodyn 12, *yn lle* "trist rai," *darllener* "trist i rai."

Tudal. 142, nodyn 1, llin. 1, *yn lle* "ai ar bê," *darllener* "ai ar bêl."

Tudal. 178, llin. 8, *yn lle* "Krydr meirch," *darllener* "Erydr meirch."

Tudal. 187, ymyl y ddalen, *yn lle* "Martü," *darllener* "Martii."

Tudal. 194, nodyn 3 (lin. isaf), *yn lle* "llinellauh yn," *darllener* "llinellau hyn."

Tudal. 225, nodyn 4 (lin. isaf), *yn lle* "rhyngth yn saeth," *darllener* "rhyngthyn yn saeth."

Tudal. 242, llin. 2, *yn lle* "Dilud y broffwydoliaeth," *darllener* "Dilud y broffydoliaeth."

Tudal. 250, llin. 2, *yn lle* "Robert Evans Jones," *darllener* "Robert Evan Jones."

Tudal. 298, nodyn 3, llin. 11, *yn lle* "Tregayan," *darllener* "Trefgayan."

Tudal. 325, llin. 4 (o'r gwaelod), *yn lle* "Einion ap Seysy t," *darllener* "Einion ap Seysyllt."

Tudal. 348, ymyl y ddalen, *yn lle* "ebysty," *darllener* "ebystyl."

Tudal. 401, llin. 1, *yn lle* "gradd ffairiad," *darllener* "gradd ffairiad."

Tudal. 448, llin. 8, *yn lle* "Diffrynt," *darllener* "Dyffrynt."

Tudal. 473, llin. 8, *yn lle* "Kam erdded," *darllener* "Kam ferdded."

Tudal. 627, nodyn 7, *yn lle* "Dorllwyth o dylwyth i d," *darllener* "Dorllwyth o dylwyth i dir."

Tudal. 655, llin. 7, *yn lle* "mel n," *darllener* "mel'n."

Yn ychwanegol at yr uchod, cywirir camgymeriad ar tudal. 386, llin. 4-6; ac un arall ar tudal. 404, llin. 4-6. Dymunir galw sylw hefyd mai i Rhys Nanmor y priodolir awduriaeth Cywydd Rhif LXXIII., yn *Glanyrafon MS., K.*, ac nid i Iolo Goch, fel y gellir tybied oddi wrth y daflen o ysgriflyfrau *Glanyrafon* ar tudal. 79. Felly 19, ac nid 21, o gywyddau yn ysgriflyfrau Mr. Bennett a briodolir i Iolo Goch.

Ac yn olaf, sylwyd ar ol argraffu Cywydd Rhif LXIII. (tudal. 545), fod copi o hono yn *Glanyrafon MS., C.*, fol. 50, dan y penawd "Kowydd i Dduw," lle ceir "Robert Leia ai Kant" ar ei ddiwedd. Dechreu a cywydd yn yr ysgriflyfr hwnw fel hyn :—

"Iessu hwde yn nefosiwn
or wawd orau a wn."

RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU,
A'R LLEOEDD.

[Cynnwysa y rhestr amryw enwau y cyfeirir atynt yn y Rhagarweiniad a'r Nodiadau, y rhai nid ydynt i'w cael yng ngwaith Iolo Goch. Rhoddir hwynt i mewn er mwyn hwylusdod i'r darllenydd. Ni cheisiwyd dilyn llythraeth y cywyddau yn y rhestr hon, gan fod y gwahanol ysgriflyfrau yn amrywio.]

Abatty Cwm Hir, 53.	Assaf, 274, 355, 361, 367, 368, 376, 422, 533.
Aberffraw, 125, 129, 189.	Atkyn Grupyl, 669.
Abergafenni, 55.	Awr, Arglwydd Trevor, 356-7, 359.
Abram, 565, 582.	
Abriel, 582.	Babilon, 119, 539.
Addaf, 160, 207, 476, 499, 503, 504, 505, 506, 513, 566, 568, 582.	Baedd, 224, 248, 249, 252, 253, 260.
Aifft, 119, 169, 560, 572.	Bala (Gwel <i>Tomydd y Bala</i> .)
Alicia, gwraig Iarll Lancaster, 20-21, 675.	Bangor, adeiladu Mynachlog yn, 70, 277.
Almaen, 119.	Barnstabl, 226.
Alun, 295.	Barthlomeus, 578.
Amig, 381.	Beauchamp, Richard (Iarll Warwick), 58, 59.
Aminidab, 565.	Becket, Thomas, 248, 580.
Amlyn, 382.	Bedwyr, 113.
Amos, 563.	Beibl, 399.
Amwythig, 663.	Beli, 98, 153, 234.
Amwythig, Brwydr yr, 58, 180.	Berwig, 169, 170, 216, 240.
Amwythig, cwrw yr, 179.	Bethlem, 119, 487.
Andreas (Gwel <i>Ondras</i>).	Bothlem Judi, 534, 537, 540, 541.
Angeu Coch, 316.	Beuno, 109, 600.
Angeu Glas, 316.	Bleddyn ab Cynfyn, 155, 160.
Anna, St., 503, 533, 586 ; cywydd iddi, 549-54.	Bleddyn Rabi, 671.
Abalon ap Dafydd broffwyd, 669.	Böem, 117.
Arafia, 467.	Bos, 565.
Ardudwy, 150.	Brawd Llwyd o Gaer, cywyddau iddo, 391-403.
Arddreiniog, 277, 293, 298.	Brem, 388.
Arom, 565.	Bridlington, John, 248, 250.
Arphaxat, 565.	Briltwn, 247, 256.
Arthur, 132, 186, 187, 316, 627, 635.	
Arundel, Iarll, 61.	

678 RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD.

- Brim, 388.
 Britheingl, 230, 237.
 Brochwel Ysgithrog, 667.
 Bron y Foel, 148, 149.
 Brynaich, 99, 116, 128, 164, 196, 197, 229, 237, 370.
 Brynbuga, 123, 124.
 Bryn Eglwys, 246.
 Bryn Ffanugl, 286.
 Bryn-glas, Brwydr, 55.
 Brython, 144, 230, 237, 241.
 Brut, 598.
 Brytaniaid, 598.
 Bryttaen, 215.
 Brytwn, 347.
 Buellt, 203.
 Cad Gamlan (Gwel *Camlan*).
 Cadell, 150.
 Cadfan, 533.
 Cadwaladr, 217, 233.
 Caeaw, 205.
 Caenan, 565.
 Caenog, 669.
 Caerdydd, 53, 55.
 Caerefrog, Duc, 61.
 Caer Emrys, 101.
 Caer Ferwig, 116.
 Caerfyrddin, 57, 58, 200, 206.
 Caerlleon, 127, 243.
 Caerlleon, Cwrw, 179.
 Caerllion, 132.
 Caerludd, 215, 307.
 Caer Offa, 151.
 Caersalem, 119, 534, 543.
 Caersallwch, 426.
 Caerseion, 539.
 Caint, St., 550.
 Calais (Gwel *Galais*).
 Caledfwlch, 310.
 Camber, 253.
 Camlan, 670.
 Caradog ab Bran, 316.
 Carneddau Teon, 161.
 Carreg Cennen, 264.
 Carew, Barwn, 58.
 Caswallawn llawhir, 669.
 Catherine, St., 550.
 Caynan, 566.
 Cegidog, 456.
 Celliwig, 152, 306.
 Cent (Swydd), 307.
 Ceredigion, 207.
 Ceri, 202.
 Ceridwen, 408, 447.
 Cernyw, 661, 662.
 Christina, St., 550.
 Christopher, St. 550.
 Chwilog, 152.
 Cilmael (Gwel *Kinmael*).
 Clocaenog (Gwel *Caenog*).
 Clustfain ap Klustfeinir, 671.
 Coch y Sebon, 668.
 Coed Pantwn, 25-35, 340.
 Coed Pasgen, 151.
 Coed y Mynydd, 325, 326, 330, 349, 350.
 Coel Gydebawg, 272.
 Collwyn ab Tangno, 103, 148.
 Conach, 133.
 Constantinobl, 640.
 Conwy, 141, 266, 285, 337, 387, 643.
 Cors dinobl, 119.
 Cors Fochno, 218, 217, 228, 236.
 Craig y Dorth, Brwydr, 59.
 Cressy, Brwydr, 45, 46, 98, 105, 112, 117.
 Criccieth, 105, 107.
 Curig, St., 372.
 Cwlen, 120, 535.
 Cwmdu, Brwydr, 58.
 Cwminod, 216, 229, 237.
 Cybi, St., 533.
 Cydweli, 203.
 Cyhelin, 319.
 Cymru, 165, 167, 201, 235, 263, 266, 652, 653.
 Cymry, 97, 125, 137, 144, 150, 241, 284, 592.
 Cynan, 145, 163.

RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD. 679

- Cynir (Cynin ?), 271.
- Cynllaith, 165, 189.
- Cynon, 389.
- Cystenyn Fendigaid, 186.
- Cytus, St., 550.
- Dafydd ab Gwilym, 1, 2, 22, 24, 69, 86, 89-92, 95-97, 414, 445, 465, 646, 652, 653, 657 ; cywydd iddo, 309-13 ; englyn iddo, 665.
- Dafydd ab Bleddyn, Cân iddo, 267-74.
- Dafydd ab Gruffydd ap Llywelyn, 51.
- Dafydd bach ap Madoc Wladaidd, 670.
- Dafydd Broffwyd, 383, 564, 653.
- Dafydd Daron, cynghrair yn ei dŷ, 60.
- Dafydd Ddu Hiraddug, 86, 501.
- Dafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd, o Fathafarn, 256.
- David Goch, o Benmachno, 135.
- Deheubarth, 163, 207, 311.
- Deikin fongam o Fachynllaith, 671.
- Deikyn ddiffwrth, 669.
- Deifr, 170, 196, 370, 371.
- Deiniol, St., 650.
- Despener, Hugh (Gwel *Spenser, Hugh le*).
- Dewi Sant, 456, 533 ; cywydd iddo, 587-99.
- Dinas Reiddin, 663.
- Dindryfan Bwtler, 52.
- Dinllaen, 416.
- Dolgellau, Owain Glyndwr yn, 58.
- Dowyr (*Dover* ?), 240.
- Draig Goch, 131, 224, 226, 236, 240.
- Draig Wen, 131, 224, 226, 236, 240.
- Drefnewydd, 202.
- Dulais (?), 237.
- Dulun (Gwel *Nulun*), 214, 259.
- Durendardd, 316.
- Duvinwen (Dwynen ?), 234.
- Dwgen Dwygen dugloff, 671.
- Dwndalc, 134.
- Dyfi, 229, 287.
- Dyfrdwy, 167, 220.
- Dyffryn Clwyd, 669-70.
- Ebryw (yr iaith), 611.
- Edeyrn ap Gwyddno Garanhir, 670.
- Edmwnd, 579.
- Ednowain Bendew, 325.
- Ednyfed, 162.
- Ednyfed ab Gruffydd, 24, 381.
- Ednyfed ab Tudur, 277, 290, 295, 301.
- Ednyfed Fychan, 107, 276, 622.
- Edward II., 45.
- Edward III., 44-46 ; cywydd iddo, 112-20.
- Edward ab Rees, 86, 484.
- Edward y Tywysog Du, 45, 105, 113.
- Edwin ab Goronwy, 271.
- Eidal, 146.
- Eifionydd, 150, 153.
- Eigr, 439, 668.
- Eingl, 231, 237, 238.
- Eiriol (Eidiol ?), 272.
- Efa, 499, 504, 555, 571.
- Efrog Gadarn, 271.
- Egipt (Gwel *Aiffi*), 542.
- Egryn, 284.
- Elen Llwyddawg, 263.
- Eli, 353, 562.
- Elian Ceimiad, 314, 317, 401.
- Eliasym, 564.
- Elieser, 564.
- Elfael, 208.
- Elmadan, 563.
- Elsi, 562.
- Elucidarium (Gwel *Liwsitars*).
- Eluned, 284.
- Elystan, 134.
- Ellmyn, 232, 238, 241.
- Emrais, 259.
- Emrys Wledig, 196.
- Englont (Gwel *Inglont*), 124, 231, 238.

680 RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD.

- Enlli, 389, 420, 533.
 Enoc, 353, 566.
 Enos, 566.
 Erbin, 110.
 Ercwlf, 116, 141.
 Eryri, 146, 265.
 Esgair Oerfel, 670.
 Esi, 563.
 Esrom, 565.
 Essyllt, 456.
 Eudaf, 271.
 Eurdonen, 559.
 Euron, 439, 441, 444, 466, 649.
 Evan of Wales, 149.
- Fitz-Warine, Ffowc (Gwel *Ffowc Fitz-Warine*).
 Fochno (Gwel *Cors Fochno*).
 Ffares, 565.
 Ffichdiaid, 317, 371.
 Fferod, "gwraig Iarll Lincon," 11, 12, 19-21.
 Fflandrwyiaid y Rhos, 53.
 Fflint, 266.
 Fflur, 208.
 Ffoulkes, Robert, o Lechryd, 8, 27-28.
 Ffowc Fitz-Warine, 152, 629.
 Ffraens, 127.
 Ffrainc, 110, 115, 130, 188, 316, 626.
 Ffrancod yn cynnorthwyo Owain Glyndwr, 58, 60.
 Ffrangc, 99, 232, 238, 315.
 Ffrangkod, 130, 138.
 Ffwg, Syr (Gwel *Ffowc Fitz-Warine*).
 Ffylib (apostol), 579.
 Ffynnon Elian, 317.
- Gabriel, 533, 571.
 Galais, 117.
 Galahad, 210, 214.
 Galath, 132.
 Galiad, 210, 214.
 Galiod, 214.
- Galys, 134.
 Gam, Syr Dafydd, 56, 61.
 Geraint ab Erbin, 110, 436.
 Geraint, St, 437, 464.
 Gethin, Rhys (Gwel *Rhys Gethin*).
 Gien, 130.
 Glewlwyd Gafaelfawr, 669.
 Glyndyfrdwy, 49, 52, 194, 159, 167, 219, 663.
 Glyn Ieithon (Gwel *Ieithon*).
 Glyn Meirchion, 340.
 Glyn Nedd, 659.
 Glyn Rhosyn, 591.
 Glyn Tawy, 320, 322.
 Godrud (Gwel *Gwydrut*).
 Goethrudd, Syr, 110.
 Gomach Grythor, 669.
 Gonerus Ruthun, 671.
 Grednel, 134.
 Groeg (yr iaith), 498, 611.
 Groeg (y wlad), 118.
 Gronw ap Tudur, 277, 290, 295, 301.
 Gronwy ap Einion ap Seysyllt, 325, 331 676.
 Grey, Reginald, 50, 51, 55, 61, 181, 192, 210.
 Gruffudd ap Dafydd Fychan, 86, 242, 320.
 Gruffudd ap Maredydd ap Dafydd, 86, 469.
 Gruffudd Fychan (tad Howel Coetmor), 139, 144.
 Gruffydd ab Cynan, 155, 168.
 Gruffydd ab Howel, Bron y Foel, 148, 150.
 Gruffydd Fychan, Glyndyfrdwy, 159, 219.
 Gruffydd Gryg, 310, 386, 404, 414.
 Gruffydd Llwyd ap Dafydd ap Einion Lygliw, 65, 67, 86, 183, 218.
 Gruffydd Maelor, 156, 160.
 Grugor, Syr, 169.
 Gryw, 611.
 Guto'r Glyn, 86, 262.

RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD. 681

- Gutyn Owain, 82, 412-13, 450.
 Gwalchmai ab Gwyair, 316.
 Gwen, 441, 452.
 Gwenddydd, 246, 249.
 Gwenfrewi, 671; cywydd iddi, 600-603.
 wenhwyfar, 648.
 Gwenllian, ferch Gruffydd ab Cynan, 163.
 Gwent, 659.
 Gwerfyl, 419.
 Gwillim Gam, 811.
 Gwilym ab Ieuan Hen, 86, 320.
 Gwilym ab Tudur, 277, 290, 295, 303.
 Gwinau dau Freuddwyd, 161.
 Gwinsor, 117.
 Gwrgunon, 146.
 Gwrhwr Gwalstawt Ieithoedd (Gwel *Uriel Wastadiaith*).
 Gwrlais (Gwrlais?), Iarll Cernyw, 668.
 Gwrtheyrn Gwrtheneu, 225, 236, 266.
 Gwrtheyrnion, 203.
 Gwydneu astrus, 596.
 Gwydrut, 596.
 Gwyddelyn, mab Hersdin Hogle, 386, 388; cywydd iddo, 414-20.
 Gwyddyl, 132, 214, 215, 258.
 Gwyl Fair, 453.
 Gwyl Ieuan, 214.
 Gwylm ap Iolo, 668.
 Gwyndyd, 130.
 Gwynedd, 107, 128, 151, 163, 165, 189, 191, 192, 263, 264, 265, 266, 285, 287, 289, 295, 297, 306, 346, 411, 667.
 Gwynionydd, 158.
 Gwynog, 401.
 Gwyr, 205.
 Gwysaney MS., 75, 675.
 Gynyr o Gaer Gawch, 588, 593.
 Hafren, 160, 229, 230, 237.
 Hanard, Jenkin, 57.
 Hanmer, Syr Dafydd, 180, 211.
 Hanmer, John, 59.
 Harlech, 263, 264.
 Harri IV., 47, 48, 51-62, 210, 228, 242, 248, 252.
 Harri V., 57-62, 224, 254.
 Harri VII., 257.
 Hawd y Clyr, 316.
 Heber, 565.
 Hedd Molwynog, 5, 7, 9.
 Hendre Sgethin, 145.
 Hengist, 226.
 Henllan, 340.
 Henry, Iarll Lancaster, 20, 675.
 Her, 563.
 Herbert, Syr William, cywydd iddo, 262-66.
 Herod, 535-44.
 Hersdin Hogle, 39, 41; cywydd iddi, 404-13.
 Herwas Llwyd, 234.
 Holbetch, Dafydd, 62.
 Hors, 198, 226, 228, 237, 266.
 Hotapur, 54, 58, 59.
 Howel Coetmor, cywydd iddo, 135-42.
 Howel Kyffin, Deon Llanelwy, cân iddo, 354-55.
 Howel y Fwyall (Syr), 46, 148, 623; cywydd iddo, 103-11.
 Howel y Pedolau, 139.
 Hu Gadarn, 632, 639.
 Hyddgen, Brwydr, 53.
 Hywel ab Madawg, 391, 392.
 Iago, 579.
 Iakob, 565.
 Iareth, 566.
 Idloes, 533.
 Iddeon, 537, 539.
 Iddewes, 529.
 Iddewon, 303, 547.
 Ieithon, 203, 217.
 Iesse, 564.
 Ieuan (apostol), 533, 577.

682 RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD.

- Ieuan ap Einion, cywydd iddo, 144-54.
 Ieuan, Esgob Llanelwy, 58 ; cywyddau iddo, 356-74.
 Ieuan Vedyddiwr, 401, 559.
 Ifan Fendigaid, 401.
 Inda (Gwel *India*), 579.
 India, 453.
 India (merched yr), 669.
 Inglont (Gwel *Englont*), 231.
 Iohana, 563.
 Iohaysym, 562.
 Iolo Goch, ei achau, 3-15 ; ei wir enw, 16-18 ; ei fam, 18-21 ; amseriad ei enedigaeth, 21-25 ; ei wraig, 11, 32 ; ei ferch, 11, 32 ; ei feibion, 32 ; sefyllfa gymdeithasol ei oes, 35-41 ; sefyllfa grefyddol ei oes, 41-44 ; sefyllfa wleidyddol ei oes, 44-48 ; ei gyssylltiad âg Owain Glyndwr, 64 ; ei oedran yn marw, 68-73 ; nodiadau ar ei farddoniaeth, 85-94 ; casgliad o'i farddoniaeth, 95-666 ; ei weithiau rhyddieithol, 667-74 ; cyfeiriadau ato yn y cywyddau, 352, 452, 453, 465.
 Iollyn Ddu, 390.
 Iona, 564.
 Ioseb (Gwel *Sioseb*), 563, 564.
 Iork, 116, 338.
 Iorys (Sant), 101.
 Isag, 565.
 Is Aeron, 165.
 Iscoed Is Hirwen, 158, 164.
 Israel, 509.
 Ithel ap Dafydd, o Gaer Sallwch, Englynion iddo, 426.
 Ithel ap Robert, 24, 32, 33 ; cywyddau iddo, 325-53.
 Ithel Ddu, 69, 404, 405, 406, 417 ; cywydd iddo, 386-90.
 Ithel Gam (Arglwydd Mostyn), 160, 267, 326, 623.
 Ithel Goch, 6, 7, 9, 18, 27.
 Ithel Llwyd, 326, 330.
 Iuda (Gwel *Suoda*), 564, 565.
 Iwerddon (Gwel *Werddon*), 133, 213.
 John II., Brenin Ffrainc, 46, 112.
 Juda (Gwel *Suoda*), 543.
 Kinmael, 136, 449, 622, 624, 629.
 Lacy, Henry de (Iarl I Lincoln), 20.
 Lameth, 566.
 L'Estrange, Syr Richard, 61.
 Lionel, Duc Clarence, 127.
 Liw, 564.
 Lollardiaeth, 41.
 Lussiffer, 674.
 Lywsitarys, 636.
 Llading, 611.
 Llanbeblig, 494, 495.
 Llancwyfan, 53.
 Llandochau, 53.
 Llan Einion, 426.
 Llanelwy, 274.
 Llanfaes, 307.
 Llanfleiddian, 53.
 Llanrwst, 140.
 Llan San' Sior, 456.
 Llan Tawy, 320, 322.
 Llawdden, 86, 320.
 Llechryd, 3, 6, 25-35, 340.
 Lleian (Lluan?), 593.
 Lleon, 203.
 Lleucu Llwyd, 375-7, 383.
 Lleuddad, 389.
 Lleyn, 388, 405, 416.
 Lloegr, 115, 128, 129, 131, 138, 141, 146, 163, 215, 228, 230, 236, 238, 241, 266, 307.
 Llundain, 177, 231, 238, 240.
 Llwdlo, 127.
 Llychlyn, 212, 285.
 Llydaw, 241.
 Llyn Crodir (Frodir?), 152.
 Llyn Gwerth Ydeirnon, 670.
 Llyn Gwrth yn Rhossir y Môn, 669.
 Llys Coed y Mynydd, 326.

- Llywarch Hen, 360.
 Llywelyn ab Gruffydd, 24, 215.
 Llywelyn Goch Amheurig Hen, 24, 69; cywydd iddo, 375-85.
 Maath, 563.
 Mac Morwch, 133.
 Machynlleth, 56.
 Madawg ab Howel, awdl duchan iddo, 421-23.
 Madog ab Meredydd, 156, 160.
 Madog Benfras, 24, 310.
 Madog Dwygraig, 69, 90, 405, 415, 417.
 Madog Fychan, 156, 160.
 Madog Gloddaith, 670.
 Madog Hirgig, 669.
 Maelienydd, 56, 130, 202.
 Maeloegr, 130.
 Maelor, 159, 160.
 Maelor, Eisteddfod yn, 22.
 Maig Mygrfras (Mygotwas), 162.
 Mair, 127, 167, 245, 274, 362, 438, 456, 464, 477, 481, 487, 489, 490, 491, 498, 506, 509, 511, 515, 517, 520, 526, 528, 529, 538, 542, 552, 554, 577, 580, 586, 602, 603, 609, 611, 641, 647, 648, 649; caniadau iddi, 555-575.
 Malalel, 566.
 Malfawnt, 53.
 Manaw, 215, 258, 307.
 Maria (Gwel *Mair*), 510, 533.
 Marred, ferch Madog Rwth, 15, 19.
 Mars (y blaned), 138.
 Marsdir Lloegr, 655.
 Math mab Mathonwy, 669.
 Matham, 563.
 Mathari, 563.
 Mathab, 564.
 Mathata, 564.
 Mathatheï, 563.
 Mathau, 581.
 Mathias, 581.
 Matholwch, 133.
 Mathrafal, 159.
 Mathusalem, 566.
 Meilir Frych, 387.
 Meirchion, 340.
 Meiriawn, 270.
 Meirion (gwlad), 147.
 Meirionydd, 378.
 Melca, 564.
 Mena, 564.
 Menai, 306.
 Mendeingl (Mud-eingl?), 160.
 Merddin, 186.
 Meredydd ab Bleddyn, 161.
 Meredydd ab Owain Glyndwr, 62.
 Meredydd ab Tudur, 277, 290.
 Mihangel, 330, 533, 585.
 Moessen, 582.
 Môn, 146, 153, 191, 213, 215, 216, 217, 234, 236, 241, 263, 265, 266, 282, 284, 285, 286, 287, 289, 294, 295, 296, 297, 298, 299, 302, 303, 304, 305, 655.
 Monigrach o Faelor, 669.
 Monnington, 62, 181.
 Monnington, Syr Roger (Richard?), 181.
 Mordaf Hael, 269, 294.
 Morganwg, 204, 266, 659, 660, 662.
 Morien, 271.
 Morfran ap Tegid, 670.
 Mortimer, Syr Edmund, 55, 181.
 Mortimer, Syr Raff (Ralph), 124.
 Mortimer, Roger (Iarll cyntaf Mars), 22, 23, 115.
 Mortimer, Roger (Iarll Mars), 47; cywydd iddo, 121-34.
 Mor Manaw, 147.
 Mor Tawch, 492.
 Mor Udd, 116, 306.
 Mowddwy, 305.
 Mwingymryf (*Montgomery*?), 229.
 Mwrog, 270.
 Mydr fab Mydrydd, 669.
 Mydd, 783.
 Myddfai (Meddygon), 467.
 Mynyddog Eiddin, 271.
 Mynydd Owain, 53.

684 RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD.

- Mynyw, 590, 592, 597.
 Myrddin (Gwel *Merddin*).
 Naci, 563.
 Nacor, 565.
 Nankonwy, 145.
 Nant Pasgen, 151.
 Naples, 175.
 Nason, 565.
 Nasreth, 550.
 Nathan, 564.
 Nawn, 563.
 Nedd, 266.
 Neri, 563.
 Neville, Richard (Iarll Warwick), 257.
 Noe, 566, 582.
 Noethan, 401.
 Non, 588, 593.
 Normanwyr, 216.
 Nudd Hael, 159, 197, 269, 295, 533.
 Nulun (Gwel *Dulun*), 214.
 Obeth, 565.
 Offa, 150, 263.
 Oldcastle, Syr John, 41.
 Olifer Gogoroddawr, 316.
 Olifer (Mynydd), 353, 633, 674.
 Olwen ferch Ysbaddaden ben kawr, 671.
 Ondras (Andreas), 578.
 Orlando (Gwel *Roland*).
 Owain ab Gruffydd ab Owain, o Lan Tawy, cywydd iddo, 320-24.
 Owain ab Urien, 196, 221.
 Owain Glyndwr, 21, 34, 48-64, 145, 151, 227, 232, 236, 238, 239, 258, 259, 663; cywyddau iddo, 155-223.
 Owain Gwynedd, 196.
 Owtils, 213.
 Padrig (Eglwys St.), 175, 592.
 Pante, 562.
 Parchell, 224, 254.
 Paris, 110, 117.
 Pasgen, 151.
 Patrig, St., 370, 371, 392.
 Paul (Ffawl), 583.
 Peblig, St., 496.
 Pedr (apostol), 210, 295, 383, 423; cywydd iddo, 576-86.
 Pedr y Gwenyn (?), 265.
 Pelagius, 594-5.
 Penfro, 264.
 Pen llin, 53.
 Penmarc, 53.
 Penmynydd, 275, 297.
 Penparc Llwyd, 16, 31.
 Penporchell, 16, 31.
 Perfeddwlad, 341.
 Phaleg, 565.
 Philip VI., Brenin Ffrainc, 45, 96, 100.
 Philip Dorddu, 203.
 Phin ap Coel, 670.
 Phwg Sodlau Segur o Fôn, 670.
 Plantagenet, Thomas (Iarll Lancaster), 20-21.
 Pil (Peel?), 263.
 Pilatus, 510.
 Poitiers, Brwydr, 45, 46.
 Pounderling, Syr Robert, 14, 15.
 Powys, 167, 168, 174, 396, 667.
 Powys, Arglwydd, 61.
 Powysdir, 159.
 Prydain, 170, 220, 222.
 Prydyn, 115, 170, 316, 371, 373, 374.
 Pywer Lew, 161, 182.
 Resa, 563.
 Rhegau, 565.
 Rhirid Flaidd, 285.
 Rhodri (Fawr), 153.
 Rhonwen, 266.
 Rhos (Y Fad Felen yn), 655.
 Rhun, 269, 295.
 Rhufain, 198, 211, 378, 590, 591.
 Rhufeinwyr, 119.
 Rhuawnbefr, 270, 667, 668, 671.
 Rhuthyn, ei llosgi, 52.

RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD. 685

- Rhyd y Tyfod, 247, 258.
Rhydderch ap Ifan Llwyd, 207.
Rhydderch Hael, 270.
Rhys ab Tewdwr, Tywysog Deheubarth, 155.
Rhys ab Thomas (Gwel *Wgawn, Syr Rhys*).
Rhys ab Tudur, 277, 290, 295, 303.
Rhys ap Rotpert, o'r Kinmael, 136, 449, 622, 624, 630.
Rhys Ddu, 61.
Rhys Gethin, 57; cywydd iddo, 143-47.
Rhys Goch Eryri, 68, 86, 433.
Rhys Goch Glyndyfrdwy, 17, 18.
Rhys Meigen, 309.
Rhys Nanmor, 621, 676.
Riccard uch Olwin, Arglwydd Dinas Reiddin, englyn iddo, 663.
Richard I., 284.
Richard II., 45-48, 123, 128, 136, 140, 146, 155, 162, 227, 242, 557.
Robert Leia, 676.
Roland, 316, 438, 464.
Rosmant, 258.
Saeson, 130, 140, 144.
Sais, 230, 232, 237, 251, 254, 255, 259, 261, 266, 399.
Salathiel, 563.
Sale, 565.
Salmon, 565.
Sandau bryd Angel, 370.
Sanffraid, Cwrw, 648.
Sannan, St., 533.
Sant, 583, 593.
Sarn Helen, 263.
Sarwch, 565.
Scrope v. Grosvenor, 50.
Scudamore, Syr John, 181.
Scudamore, Philip, 61.
Seiriol, St., 395.
Sem, 565.
Semei, 563.
Seth, 566.
Siarlymaen, 639.
Siep, 177, 232, 238.
Sieron, 235.
Sieesws, 510, 519.
Simon, 564.
Simwnd, 579.
Sioasim, 550.
Siohasym, 510.
Sion Cent, 86, 88, 91, 501, 508, 512, 522, 616.
Sioram, 564.
Sioseb (Gwel *Ioseb*), 436, 464, 542, 559, 573.
Spencer, Hugh le, 20, 675.
St. Martin, Syr Richard, 20.
Stiperstones, 161.
Strange, Eubulo de, 20.
St. Sior, 100.
Sud (Judas), 579.
Suwda, 563.
Sycharth, 50, 52, 57, 66, 67, 165, 171, 182.
Syddas (*Judas Iscariot*), 463.
Syr Grugor, 169.
Taf, 204.
Talbod Selba, 390.
Talbot, Syr Gilbert, 59.
Talesin, 381, 398, 447.
Tal y Fan, 53.
Tegeingl, 331, 341, 346.
Temys (*Thames*), 231, 238.
Teon, 161.
Tewdwr Mawr, 162.
Tindaethwy, 283, 305.
Tir Fflur, 208.
Thare, 565.
Thomas, Syr Rhys ab (Gwel *Wgawn, Syr Rhys*).
Tomas (apostol), 579.
Tomydd y Bala, 671.
Traeth Coch, 285.
Tref Castell, 277, 286, 298, 299.
Trefeilir, 387.
Tref Fflemin, 53.
Trefgayan (Plwyf), 298, 676.
Tref Gayan (Plas), 277, 293, 298.

686 RHESTR O'R PERSONAU, CYMMERIADAU, A'R LLEOEDD.

- | | |
|---|--|
| Tref y Traeth, 163. | Venice, y dull o adeiladu yn, 175. |
| Trem ap Tremhidydd, 671. | |
| Trevor, John (Gwel <i>Ieuan, Esgob Llanelwy</i>). | Warwic (Gwel <i>Neville, Richard</i>). |
| Trichantref Ystrad Tywi, 205. | Werddon (Gwel <i>Iwerddon</i>), 370, 670. |
| Trum, 133. | Westmustr, 174. |
| Tudur ab Goronwy (Tudur Fychan), 21, 34, 158; cywydd iddo, 275-89; cywyddau i'w feibion, 290-308. | Wgawn, Syr Rhys, 46; cywydd iddo, 95-102. |
| Tudur Aled, 86, 570. | Wickliffe, 41, 42. |
| Tudur, brawd Owain Glyndwr, 59. | Wigmor, 131. |
| Tudur Hen ab Gronw, 70, 276-77, 623. | Wlkassar, 154. |
| Twrch Trwyth, 108. | Wlster, 134. |
| Twrog, 457. | Wyddfa, 265. |
| Tydain Tad Awen, 380. | |
| Ty Gwyn ar Daf, 207. | Ynyd, 453, 610. |
| Tywyn, 167. | Ynyr (Gwel <i>Gynyr</i>). |
| | Ynyr Vychan ab Ynyr, 375 |
| Uchdryd ab Edwin, 162, 267, 273, 341, 356. | Ynys Brydain, 669. |
| Uriel, 533, 585. | Ynys Wrich (?), 370. |
| Uriel Wastadiaith, 670. | Yonge, Gruffydd, 59. |
| Urien Rheged, 151. | Ysbwys, 170. |
| Uthr Bendragon, 100, 185, 186, 187, 220, 227, 236, 439, 668. | Ysgot, 316. |
| | Ysgotiaid, 372. |
| | Ystrad Tywi, 205, 206. |
-

GEIRIAU ANGHYFIAITH AC ANARFEREDIG.

[Cynnygir eglurhad ar y rhan fwyaf o'r geiriau hyn yn y nodiadau ar waelod un neu arall o'r tudalenau y cyfeirir atynt].

Abad, 417.	Balaen, 98.	Bwrdeisdref, 202.
Abadau, 368.	Balc, 125.	Bwtler, 360.
Abid, 396.	Balwyf (Palalwyf?), 126.	Bwttri, 364.
Achlan, 188.	Ballasarn, 458.	Byddag, 355.
Achul, 319.	Barnaswin, 108.	Byrdwn, 362.
Adwaed, 316.	Barwn, 153, 162, 167, 174.	Cadair, 554, 555.
Aer, 220.	Baslard, 315, 317, 458.	Cae latwm, 412.
Aerfa, 117.	Batelau, 245.	Calenig, 573.
Aerwib, 100.	Bax diwaxa, 442.	Canclawdd, 98.
Aesawr, 101, 123, 129, 140, 169.	Bel, 142.	Canhonwyr, 368.
Agerw, 126, 370.	Belau, 416.	Canon, 97.
Alpha ac Omega, 531.	Ber, 520.	Carl, 415.
Agnus Dei, 614.	Beren, 99.	Carol, 229.
Agnus, leo, 531.	Beryren, 593.	Catoniaid, 264.
Agwrdd, 168, 190, 485.	Bett (Gwel <i>Fett</i>).	Cattrer, 360.
Aliwns, 145, 146.	Bileiniaid (Gwel <i>Fileiniaid</i>).	Catholig, 608.
Almari, 628.	Bliant, 365.	Ceginwrych, 455.
Alussen, 173.	Blif, 116.	Celi, 490.
Amrosgoyw, 129.	Blotta, 408.	Cenhedlawr, 97.
Ancr, 419.	Blowmones, 629.	Centach, 228.
Angylstator, 295.	Blun, 317.	Ceraint, 297.
Anlloeddog, 274.	Boccs, 315.	Cethri, 584.
Anoberi, 162, 167.	Bondid, 638.	Cethrloyw, 455.
Arddigor, 628.	Bragodau, 179.	Chwip, 540.
Arianllythr, 319.	Branawg, 273.	Ciriwalryw, 455.
Arnawdd, 634.	Breyr, 147.	Cis, 100, 117, 168.
Arodig, 514.	Brigawns, 544.	Claim (klaim), 515.
Arodion, 350.	Briwdwn, 199.	Clas, 365.
Arrial, 116, 323.	Brondor, 338.	Clawr, 231.
Arro, 131, 614.	Bronrhuddyn, 461.	Cleimia (chleimia), 134.
Arwyl, 101.	Brwysg, 99.	Clermwnt, 400.
Arwylant, 597.	Brynnig, 399.	Clipse (Klipsee), 305.
Arwyrain, 158.	Bual, 125.	Clwyd, 323.
Arynaig, 296.	Bw, 131, 202.	Clyswriaeth, 297.
Asur, 102, 129, 212.	Bwrdais, 266.	Cnotach, 288, 303.
Avi, 555, 571.		Cnyw, 163.

- | | | |
|----------------------|---------------------------------|------------------------------|
| Coelfain, 370. | Cywelaes, 560. | Esyddyn, 363. |
| Cofaint, 304. | | Eurgarw, 387. |
| Colon, 124. | Dadeni, 448, 602. | Eurgrest, 101 |
| Colmyth, 640. | Daiardor, 167. | |
| Confessor, 368. | Dain, 172, 173. | Fileiniaid, 164. |
| Cort, 334. | Dargwn, 98. | Fersi (<i>mercy</i>), 483. |
| Corun, 393. | Dart, 146, 222. | Fett, 644. |
| Cost, 115, 286. | Dental, 240. | Fwysmant, 133 |
| Crair, 470, 489. | Dews, 643. | Ffals, 546. |
| Craton Kyrios, 530. | Diain, 232. | Ffas, 644. |
| Creelwaith, 463. | Diamwynt, 126. | Ffer (<i>fare</i>), 499. |
| Crist audi nos, 530. | Diarchen (diarchar ?), | Fflowerdilis, 109, 251, |
| Croesi, 361. | 133, 332. | 252. |
| Croesnaid, 346. | Differ, 369. | Fflwring, 208. |
| Crydr, 126. | Digabl, 273. | Ffons, 602. |
| Crydwst, 349. | Digardd, 302. | Ffriw, 323. |
| Cuell, 315. | Digamar, 654. | |
| Culfardd, 380. | Digys, 302. | Gafael, 586. |
| Culwydd, 490. | Dihort, 334. | Gai (Cai ?), 98. |
| Custaws, 422. | Dioer, 435. | Garm, 317. |
| Cwafrebl, 362. | Dir, 387. | Garsiwn, 111. |
| Cwfaint, 304, 350. | Dirsiamp, 223. | Gatud, 648. |
| Cwfi, 395. | Dolem, 429. | Geisiem, 317. |
| Cwl, 402. | Dor, 199. | Gellast, 407. |
| Cwning, 178. | Durgrys, 144. | Gêol, 627. |
| Cwnsalt, 113. | Dyfalw (= <i>to describe</i>), | Geuoc, 493. |
| Cwnsellan, 145. | 646. | Gis (Gwel <i>Cis</i>). |
| Cwnstabl, 266, 640. | Dyffrynt, 448, 676. | Glaif, 101. |
| Cwrser, 126, 336. | Dyledog, 318. | Glain, 196, 346, 619. |
| Cwrsus, 317. | Dyn (Dynes), 449, 458, | Gloria, 597. |
| Cwrt, 152, 361, 626. | 460. | Gloyn Duw, 346. |
| Cydowrach, 399. | Draen (Draian), 551. | Gobryn, 491. |
| Cyfedliw, 115, 170. | | Goffol, 332. |
| Cymmyredd, 590. | | Gordal, 590. |
| Cynebron, 550. | Ebodn, 417. | Gorffwch, 108. |
| Cyneiddwng, 163. | Eddystr, 334, 338. | Gorloes, 591. |
| Cynfyl, 130, 214. | Edling, 163. | Gosgeiddfawr, 304. |
| Cyngyd, 98. | Eigyrr, 456. | Gortho, 352. |
| Cynnired, 590. | Elydn, 318. | Gorwydd, 265, 328, 336. |
| Cyrcher, 196. | Emys, 101. | Goseb, 182. |
| Cyred, 479. | Ener, 102. | Gowri, 317, 348. |
| Cyrfydd, 360. | Ennaint twymyn, 595. | Gra, 365. |
| Cyssellt, 373. | Eorth, 383, 538. | Gray, 661. |
| Cysteg, 115. | Eree, 225. | Grawn de Paris, 364. |
| Cysuddiwn, 235. | Ergryd, 195. | Gre, 331. |
| Cytolus, 614. | Erw, 288. | Grod (<i>groat</i> ?), 644. |

- Grofft, 107.
 Groglofft, 107.
 Grwndwal, 132, 486.
 Guras, 102.
 Gwanar, 198.
 Gwarant, 255, 578.
 Gwarden, 111.
 Gwardrob, 177, 363.
 Gwart, 100, 113, 128, 284.
 Gwath, 487.
 Gweryddon, 556.
 Gwilff, 407, 626.
 Gwilhers, 410.
 Gwladiddio (= *ymgar-trefu* ? neu ynte = *cy-wilyddio* ?), 643.
 Gwrdd, 168, 190, 322, 380.
 Gwreignith, 349.
 Gwrlef, 591.
 Gwrllys (Gwel *Wrllys*).
 Gwryd, 240.
 Gwrymseirch, 169.
 Gwyar, 125, 231.
 Gwyddlig, 429.
 Gwyrenig, 286.
 Gyllaeth, 338.
 Gyrfaydd, 336.
 Habrsiwn, 288.
 Hacnai, 334.
 Haer, 407-8.
 Hai how, 539.
 Helgyd, 388.
 Henfon, 626.
 Hengsmon, 126.
 Helm, 169.
 Henu, 106.
 Herod, 129, 223.
 Hers, 411.
 Hiriell, 167.
 Hoffis, 608.
 Hort, 223.
 How hai, 540.
 How how, 540, 542.
 Hownaid, 303.
 Hurbeth, 329.
 Huw, 572.
 Iangwr, 397, 419.
 Iangwraig, 628.
 Iarles, 557.
 Insel, 211.
 Irai, 635.
 Isarm, 317.
 Iustus, 546.
 Lart, 100.
 Larwm, 99.
 Lerchwimp, 457.
 Letenia, 348.
 Letenfawg, 273.
 Lifrai, 98.
 Loensiamp, 111.
 Llamhedydd, 617.
 Llamhidydd, 513.
 Llar, 456.
 Llaswyr, 520, 582.
 Llofft, 176.
 Llychwayw, 132.
 Llychynig, 241.
 Llysiau'r cribau, 430.
 Mablygad, 131.
 Maccwy, 322.
 Madarch, 403.
 Mael, 627.
 Maer, 111.
 Mahelltyn, 406.
 Mahownd, 541.
 Maig, 164.
 Main, 211.
 Mangddel, 107.
 Meawn, 199.
 Meiriones, 560.
 Mererid (*pearl, a precious stone*), 346.
 Mesbren, 368.
 Mevmed, 395.
 Micariaid, 368.
 Midlan, 282.
 Miragl, 597, 603.
 Miserere mei, 556.
 Miwsig, 462, 591.
 Morarw, 431.
 Morc, 207.
 Morcath, 627.
 Morgaseg, 628.
 Morlo, 364.
 Muner, 199, 318.
 Mwnai, 328.
 Mwys, 627.
 Mygr, 324.
 Myr, 304.
 Myroedd, 503.
 Nag, 333.
 Nordd, 213.
 North, 244.
 Nottiri Pebblig, 598.
 Oerwib (Gwel *Acrwib*).
 Olifa (Olifa ?), 486.
 Organ, 591.
 Orn, 283.
 Oro (Gwel *Arro*).
 Osbion, 141.
 Osgl, 111, 322.
 Osler, 417.
 Otwayw, 131.
 Owri (Gwel *Gouri*).
 Pabir, 598.
 Pablaidd, 199.
 Paderau, 458.
 Paintiwr, 513.
 Pais dewddur, 199.
 Pais durdew, 163.
 Palma, 496.
 Palmwedd, 477.
 Pantler, 360.
 Pantri, 364.
 Pardwn, 496.
 Park, 178.
 Pass (Gwel *Ffas*).
 Pedestr (= troediwr, *Seis. Pedestrian*) 670.

- Peintio, 448, 459.
 Pel, 513.
 Pennaio, 393.
 Penffestin, 169.
 Penllad, 147.
 Pensel, 109, 215.
 Pen selgombyr, 459.
 Pensiwn, 343.
 Perl, 668.
 Personiaid, 368.
 Pestl, 163.
 Peues, 174.
 Penwar, 431.
 Penwn, 297, 660.
 Piler, 176, 191.
 Pitffel, 462.
 Planc, 124.
 Plymlwyd, 124.
 Polter, 541.
 Por, 124, 198, 367.
 Prentis(iaid), 654, 655, 656.
 Post, 163, 191.
 Prelad, 330, 611.
 Presen, 516.
 Priorau, 368.
 Prioros, 558.
 Primas, 367.
 Profestydd, 380, 387.
 Prydlyfr, 381, 556.
 Prydd, 199.
 Pumustl, 482.
 Pursen, 518.
 Pwrffil, 365.
 Raement, }
 Ramant, } 220.
 Remnant, }
 Rannag, 355.
 Reiw, 601.
 Reolti, 536.
 Rest, 169, 323.
 Rex redemptor, 531.
 Rheg, 195, 296, 341.
 Rhekort, 343.
 Rhesin, 364.
 Rhethri, 240.
 Rhis, 364.
 Rhubi, 373.
 Rhuol, 658.
 Rhybuchynt, 596.
 Rhygarw, 352.
 Rhygoll, 352.
 Rhymiant, 446.
 Rhysonabl, 342.
 Rhyswr, 124, 128.
 Rokian, 625.
 Rôn (Rhôn), 109, 161.
 Rosonabl, 330.
 Roth, 323.
 Rowbi, 668.
 Rwnsi, 332.
 Rwyf, 126.
 Rymsi (Gwel *Rwnsi*).
 Sabl, 108.
 Saffwy, 297.
 Saphir, 668.
 Sared, 629.
 Sawdiwr, 168.
 Seganai, 672.
 Seidr, 624.
 Sein, 154.
 Seirch, 102.
 Selsig, 409.
 Sens, 534, 591.
 Siaced, 169.
 Siad, 614.
 Siambr, 365.
 Siambrlain, 359, 365.
 Sias, 141, 251.
 Siecked, 645.
 Sied, 304.
 Sientli, 452.
 Sinobl (Gwel *Sinobr*), 442.
 Sinobr, 129, 131.
 Sioged, 169.
 Siop, 177.
 Sipris, 496.
 Sirif, 390.
 Siwel, 563.
 Solais, 462.
 Sorel, 406.
 Stad, 540, 614.
 Stal, 265.
 Stondardd (Gwel *Yatondardd*), 133.
 Stormant, 534.
 Strank, 540.
 Succuttorrion, 673.
 Sud, 167.
 Surchwibl, 399.
 Suri (Gwel *Sirif*), 150.
 Swynoglau, 528.
 Syberwyd, 107, 174.
 Sydrws, 496.
 Syfryd, 194.
 Syganai, 672.
 Sylldy, 498.
 Symaeth, 563.
 Tal, 584.
 Taring, 536.
 Teils, 176.
 Tefig, 355.
 Tera, 345.
 Terment, 350.
 Tiboeth, 457.
 Titl (ditl), 127.
 Tolo, 542.
 Tôn, 169.
 Torsie, 351.
 Traensiwr, 315.
 Traeturiwyd (draetur iwyd), 215.
 Trin, 196, 241, 243.
 Trowswch, 315, 437 440.
 Trvblwm (Thuriblum?), 591.
 Trwydden, 387.
 Trympeu, 99.
 Twnffet, 422.
 Twrn, 114, 499.
 Tyno, 190.
 Tyrnen, 221.
 Tywarchawr, 490.



GEIRIAU ANGHYFIAITH AC ANARFEREDIG. 691

Uriad, 609.	Wrdan, 566.	Yspaw, 236.
Wachelaid, 100.	Ymwan, 126.	Ystad, 352, 591.
Wardrob (Gwel. <i>Gwar-</i>	Ymwrdd, 243.	Ystig, 355, 638.
<i>drob</i>).	Ysbart, 317.	Ystelff, 395.
Wrlys, 459.	Ysgal, 627.	Ystondardd (Gwel <i>Ston-</i>
Wteniff, 315.	Ysgwiar, 144.	<i>darld</i>), 108.
Wtleid, 289.	Ysgwyd, 319.	Ystrud (Ystryd), 638
		Ystwff, 395.



1

2

3



1

JUN 26 1946

